














PEDWAR O DDARLUNIAU YN DAL PERTHYNAS A CHOFFADWRIAETH WILLIAM LLWYD, O GAYO.

1.—AMAETHDY BLAENCLAWDD.
[*Lle y ganwyd ef.*]

2.—AMAETHDY HENLLAN.
[*Lle y preswyliai.*]

3.—CAPEL CAYO.
[*Lle yr ymaelodai.*]

4.—EGLWYS A MYNWENT CAYO.
[*Lle y claddwyd ef.*]

DAU O GAPELAU MWYAF HYNAFOL SIR GAERFYRDDIN.

5.—CEFNBYRACH, 1747.

6.—LLANLLUAN, 1715.

# Y TADAU METHODISTAIDD:

## Eu Llafur a'u Llwyddiant gyda Gwaith yr Efengyl

*YN NGHYMRU, TREFYDD LLOEGR, AMERICA, AC AWSTRALIA.*

YNGHYD A

NIFER MAWR O DDARLUNIAU O BERSONAU A LLEOEDD NODEDIG.


GAN

Y PARCH. JOHN MORGAN JONES, CAERDYDD,

A

MR. WILLIAM MORGAN, U.H., PANT, DOWLAIS.


---

CYFROL I.

---


*CYHOEDDEDIG GAN YR AWDWYR.*

ABERTAWE:

ARGRAFFWYD GAN LEWIS EVANS, 13, CASTLE STREET.

1895.

ABERTAWE:

ARGRAFFWYD GAN LEWIS EVANS,

CASTLE STREET.

# RHAGYMADRODD.

YR oedd dwyn allan lyfr darluniedig ar hanes Methodistiaeth Cymru yn amcan genym er ys blynyddoedd, a buom am amser maith yn casglu defnyddiau i'r pwrpas. Yn awr, dyma y Gyfrol Gyntaf allan o'r wasg. Fel awduron yn gyffredin, yr ydym wedi medru perswadio ein hunain fod angen a galwad am lyfr o'r fath, ac yr ydym yn credu na wnaethom gamgymeriad. Teimlir yn bresenol fwy o ddyddordeb nag erioed yn hanes dechreuad a chynydd Methodistiaeth; dangosir awyddfryd cryf am adnabod cymeriad ei Sylfaenwyr, a gwybod pob peth a ellir wybod am danynt, ac am eu gwaith. Cryfhawyd y dyddordeb yma yn ddirfawr gan y modd llwyddianus y dathlwyd Trydydd Jiwbili y Cyfundeb; a chredwn fod y teimlad a gynyrchwyd yn un naturiol ac iachus, ac yn teilyngu meithriniad.

Wrth gyflwyno *Y Tadau Methodistaidd* i sylw y cyhoedd, nid ydym mewn un modd yn ddiystyr o'r llyfrau gwerthfawr ar hanes y Cyfundeb sydd genym yn barod, yn arbenig *Methodistiaeth Cymru*, gan y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool; a *Welsh Calvinistic Methodism*, gan y Parch. William Williams, Abertawe. Pan yr ymgymerodd Mr. Hughes a'i waith, yr oedd ein hanes, gan mwyaf, yn aros mewn traddodiad, ac mewn perygl o fyned yn hollol ar ddifancoll. Iddo ef, yn anad neb, yr ydym yn ddyledus am gasglu y traddodiadau gwasgaredig yn nghyd, a'u dwyn i ffurf hanesyddol. Eithr yr oedd toraeth o ffeithiau cysylltiedig â dechreuad Methodistiaeth nas medrodd ef ddod o hyd iddynt, yn guddiedig mewn llawysgrifau gwerthfawr, a llyfrau Saesnig henafol a phrin, ond yn benaf yn gorwedd yn Nhrefecca, heb fod neb wedi eu hastudio na'u darllen. Ymroddasom gyda phob dyfalwch i gasglu y rhai hyn. Buom yn chwilio yr Amgueddfa Frytanaidd yn Llundain, a gwahanol lyfrgelloedd, cyhoedd a phreifat, er ceisio dyfod o hyd i bob ffaith o bwys. Ac yn benaf, darllenasom ddydd-lyfr Howell Harris, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, trwyddo; yr hyn, mor bell ag y gallwn gasglu, na wnaed gan neb o'n blaen. Trwy hyn, credwn ein bod wedi llwyddo i daflu goleuni newydd ar ddechreuad y Cyfundeb, ac ar hanes a chymeriad y rhai, dan fendith Duw, a fuont yn offerynol i'w ddwyn i fod.

Dichon mai nodwedd fwyaf amlwg a gwahaniaethol *Y Tadau Methodistaidd* yw ei fod yn llyfr darluniedig. Yr ydym yn gosod ynddo bob darlun sydd ar glawr a chadw o enwogion Methodistaidd; ac yr ydym wedi llwyddo tu hwnt i'n dysgwyliad i ddarganfod darluniau nas gwyddem eu bod mewn bodolaeth. Yn mhlith eraill, daethom o hyd i ddarlun anhysbys o Daniel Rowland, copi o ba un a geir yn nechreu y gyfrol hon. Cawsom ef yn llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd. Heblaw y rhai a geir yn y Gyfrol Gyntaf, y mae genym ddarluniau o'r enwogion canlynol: Nathaniel Rowland; Griffiths,

Nevern; John Roberts, Llangwm; Simon Llwyd; John Jones, Edeyrn; Evan Richardson; John Rees, Casnewydd; John Thomas, Aberteifi; Griffiths, Lantwd; Morgan Howell; Theophilus Jones; Thomas Harris; Hopkin Bevan, &c., &c. Caiff y rhai hyn, yn nghyd a darluniau o leoedd dyddorol cysylltiedig â hwynt, addurno y gwaith; a phan ei gorphenir, dysgwyliwn y byddwn wedi llwyddo i osod yn nwylaw ein darllenwyr gasgliad o ddarluniau o werth a dyddordeb anmhrisiadwy.

Yr ydym yn rhwymedig i amryw gyfeillion am lawer o gymhorth gwerthfawr yn nygiad allan y gwaith hwn. Nis gallwn gydnabod pawb ag yr ydym mewn dyled iddynt, ond rhaid i ni nodi Mr. Daniel Davies, Tòn, Cwm Rhondda; yn nghyd a'r Parchn. John Davies, Pandy; E. Meyler, Hwlffordd; J. E. Davies, M.A., Llundain; Owen Jones, B.A., Llansantffraid; E. Williams, M.A., Trefecca; W. Williams, Abertawe; J. Cynddylan Jones, D.D., Caerdydd; T. Rees, D.D., Cefn; W. Evans, M.A., Pembroke Dock; Hugh Williams, M.A., Bala; a Joseph Evans, Dinbych. Derbynied y rhai hyn ein diolchgarwch goreu. Dymunem hefyd gydnabod caredigrwydd Cymdeithasfa y Deheudir, yn caniatau i ni fenthyca y llawysgrifau gwerthfawr sydd yn nghadw yn llyfrgell Trefecca; oni bai am y caniatad hwn, ni buasem yn alluog i gyflwyno i'r cyhoedd y rhan fwyaf dyddorol a gwerthfawr o'r gyfrol hon.

Gobeithiwn y bydd i ni, trwy gyfrwng y llyfr hwn, fod o ryw wasanaeth i'r Cyfundeb a gerir genym mor fawr, ac y bendithir ein llafur i fod o wasanaeth i achos crefydd.

JOHN MORGAN JONES, Caerdydd.
WILLIAM MORGAN, Pant.

*Gorph. 15, 1895.*

# CYNWYSIAD.

PEN. TUDAL.

I.—Sefyllfa Foesol Cymru adeg Cyfodiad Methodistiaeth ... ... 1

Sefyllfa foesol Prydain yn isel adeg cyfodiad Methodistiaeth—Cyflwr Cymru o angenrheidrwydd yn gyffelyb—Hirnos gauaf mewn amaethdy—Tystiolaeth ysgrifenwyr diduedd am gyflwr y Dywysogaeth—Cyhuddiad Dr. Rees yn erbyn y Tadau Methodistaidd—Y cyhuddiad yn ddisail—Taflen Mr. John Evans, o Lundain—Y daflen yn cael ei llyrgunio i amcan—Yr eglwysi Ymneillduol yn cael eu gwanhau gan ddadleuon—Yr elfenau newyddion a ddaethant i mewn gyda'r Methodistiaid.

II.—Griffith Jones, Llanddowror ... ... ... ... ... ... 22

Ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu—Ei ordeiniad—Ei glod fel pregethwr yn ymledu—Yn dechreu pregethu y tu allan i'w blwyf—Yr ysgolion elusengar—Y clerigwyr yn wrthwynebol—Ymdaeniad yr ysgolion trwy yr oll o Gymru—Argraffu Beiblau—Cyfansoddi llyfrau—Ei gysylltiad a'r Methodistiaid—Ei angau.

III.—Y Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr ... ... ... ... 34

Nad deilliad o Fethodistiaeth Lloegr yw Methodistiaeth Cymru—Cychwyniad y symudiad yn Rhydycbain—"Y Clwb Sanctaidd"—John a Charles Wesley—John Gambold, y Cymro—Manylwch rheolau a hunanymwadiad aelodau y "Clwb Sanctaidd"—Y symudiad yn un Sacramentaraidd ac Uchel-eglwysyddol—Dylanwad y Morafiaid ar John Wesley—Wesley yn ymwrthod a Chalfiniaeth—Yr ymraniad rhwng Wesley a Whitefield—Y ddau yn cael eu cymodi trwy offerynoliaeth Howell Harris.

IV.—Daniel Rowland, Llangeitho ... ... ... ... ... ... 41

Ei faboed a'i ddygiad i fynu—Ei ordeiniad—Ei droedigaeth yn eglwys Llanddewi-brefi—Yn tynu lliaws i Langeitho trwy ei bregethu tanllyd—Pregethu y ddeddf—Yn dyfod yn fwy efengylaidd—Myned allan o'i blwyf—Cyfarfod am y tro cyntaf a Howell Harris—Erlid Daniel Rowland—Sefydlu seiadau—Ei droi allan o'r eglwys—Llangeitho yn dyfod yn Jerusalem Cymru—Desgrifiadau Charles o'r Bala; Jones, Llangan; Griffiths, Nevern; Christmas Evans; John Williams, Dolyddelen; a Dr. Owen Thomas, o weinidogaeth Rowland.

V.—Howell Harris ... ... ... ... ... ... ... ... 71

Ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu—Ei argyhoeddiad yn eglwys Talgarth—Cael dyddanwch yn Nghrist—Dechreu cynal addoliad teuluaidd a chynghori—Yn myned i Rydychain—Yn gadael Rhydychain—Myned o gwmpas i rybuddio yr annuwiol—Gwrthwynebiad yr offeiriaid a'r boneddwyr—Cael ei erlid—Sefydlu seiadau—Myned i lefaru i Sir Faesyfed—Argyhoeddiad Mr. Gwynn—Harris yn myned ar daith i Sir Fynwy—Yn ymweled a Sir Forganwg y tro cyntaf—Rhanau o'i ddydd-lyfr—Cyfarfod a Whitefield yn Nghaerdydd—Myned i Lundain—Myned y tro cyntaf i'r Gogledd, mor bell a'r Bala—Dalenau ychwanegol o'i ddydd-lyfr—Myned i Sir Benfro—Sessiwn Trefynwy—Ail daith i'r Gogledd—Ei erlid yn y Bala—Myned i Sir Gaernarfon—Yn teithio ac yn gweithio yn ddidor.

VI.—Howell Davies ... ... ... ... ... ... ... ... 128

Ei hanes dechreuol yn anhysbys—O dan addysg Griffith Jones—Yn guwrad Llysyfran—Ei benodiad i fod yn guwrad Llanddowror—Eglwys Prendergast, a chysylltiad Howell Davies a hi—Yn dyfod yn un o arweinwyr y Methodistiaid—Penfro yn brif faes ei lafur—Ei briodas—Ei lafur mawr gyda'r diwygiad—Adeiladu y Tabernacl yn Hwlffordd—Capel Woodstock, gweinyddu y sacramentau yno—Adeiladu Capelnewydd—Ei nodweddion—Ei farwolaeth a'i gladdedigaeth.

PEN. TUDAL.

VII.—William Williams, Pantycelyn ... ... ... ... ... ... 141

Sylwadau arweiniol—Cofiant Mr. Charles iddo—Sefyllfa barchus ei rieni—Ymchwiliad i hanes ei ieuenctyd—Sefyllfa foesol a chrefyddol yr ardal y magwyd ef—Desgrifiad Ficer Pritchard o honi—Eglwysi Ymneillduol yr ardal—Eu dadleuon a'u hymrysonau—Desgrifiad tebygol o'r eglwysi hyn yn "Theomemphus"—Ei fynediad i Athrofa Llwynllwyd—Ei droedigaeth ar ei ddychweliad adref, dan weinidogaeth Howell Harris—Yn ymuno a'r Eglwys Wladol, ac yn ymadael a hi yn fuan—Ei apwyntiad yn gynorthwywr i Daniel Rowland—Ei lafur fel efengylydd, a'i safle fel pregethwr—Ar gymhelliad ei frodyr yn dechreu cyfansoddi hymnau—Hymnau ei ieuenctyd—Yn cyhoeddi ei "Aleluia"—Yn ymgymeryd a llafur llenyddol o bob math—Rhagoroldeb ei brif gyfansoddiadau barddonol—Ei "Olwg ar Deyrnas Crist" a'i "Theomemphus"—Poblogrwydd anarferol ei gyfansoddiadau—Barn llenorion Cymru am ei safle fel llenor, emynydd, a bardd.

VIII.—Wyth Mlynedd Cyntaf y Diwygiad ... ... ... ... ... 179

Cynydd cyflym y diwygiad yn y Deheudir—Y Gogledd, gyda'r eithriad o Sir Drefaldwyn, yn elynol i'r symudiad—Y diwygiad Methodistaidd yn gyffelyb i ddiwygiad yr oes apostolaidd—Yr Ymneillduwyr ar y cyntaf yn cydweithredu, ond gwedi hyny yn peidio—Y Methodistiaid yn debygol o gael eu hesgymuno o'r Eglwys—Eu safle yn anamddiffynadwy—Ymgais at drefn—Y cynghorwyr cyntaf—Cyfarfodydd o'r arweinwyr a'r cynghorwyr yn dechreu cael eu cynal yn 1740—Yr angenrheidrwydd am Gymdeithasfa—Rheolau cyntaf y seiadau.

IX.—Y Gymdeithasfa ... ... ... ... ... ... ... ... 194

Howell Harris ar ei daith tua Watford—Y chwech cyntaf—Penderfyniadau y Gymdeithasfa—Gorphen mewn cân a moliant—Cyfarfodydd Misol Llanddeusant, Trefecca, Tyddyn, Llanwrtyd, a Glanyrafonddu—Ail Gymdeithasfa Watford—Taith Whitefield a Howell Harris trwy ranau helaeth o'r Deheudir—Argyhoeddiad Peter Williams—Cyfarfodydd Misol Gelliglyd, Watford, Dygoedydd, a Longhouse—Cymdeithasfa Chwarterol Trefeeca—Y ddau arolygydd tramgwyddus—Whitefield a Howell Harris yn ysgrifenu llythyrau atynt.

X.—Rhai o'r Cynghorwyr Boreuaf ... ... ... ... ... ... 213

Richard Tibbot—Lewis Evan, Llanllugan—Herbert Jenkins—James Ingram—James Beaumont—Thomas James, Cerigcadarn—Morgan John Lewis—David Williams, Llysyfronydd—Thomas Williams—William Edward, yr Adeiladydd—William Richard—Benjamin Thomas—John Harris, St. Kennox—John Harry, Treamlod—William Edward, Rhydygele—Rhai o'r Adroddiadau a anfonwyd i'r Cymdeithasfaoedd.

XI.—Howell Harris (1743-44) ... ... ... ... ... ... ... 245

Gwaeledd iechyd Harris yn ei dueddu i roddi i fynu y gwaith cyhoeddus—Ymosodiad Edmund Jones ar y Methodistiaid—Dechreu codi capelau—Capelau Maesgwyn a'r Groeswen—Prawf Morgan Hughes—Dadl ag Esgob Tyddewi—Pumed ymweliad H. Harris a Llundain—Y Gymdeithasfa Saesnig—Glynu wrth yr Eglwys Sefydledig—Whitefield yn tybio y cai ei wneyd yn esgob—Dadl a Richard Jenkins gyda golwg ar y Gair—Ystorm yn Nghymdeithasfa Glanyrafonddu—Cymdeithasfa Watford, 1744—Y Methodistiaid a'r gyfraith wladol—Llythyr aelodau Mynyddislwyn—Chweched ymweliad Harris a Llundain—Amryw Gymdeithasfaoedd Chwarterol a Misol.

XII.—Howell Harris (1745) .. ... ... ... .. ... ... 282

Pregeth Williams, Pantycelyn, yn Nghymdeithasfa Watford—Ymdrin a phynciau athrawiaethol dyfnion—Harris, yn Erwd, yn galw gwaed Crist yn "waed Duw"—Cymdeithasfa Abergorlech—Howell Harris mewn dyfroedd dyfnion yn Sir Benfro—Daniel Rowland yn rhybuddio Harris i fod yn fwy gofalus parthed yr athrawiaethau a bregethai—Sefyllfa gyffrous Methodistiaid Lloegr—Cymdeithasfa Bryste—Cymdeithasfa Cayo—Llythyr cynghorwyr y Groeswen—Price Davies yn caniatau y sacrament i'r Methodistiaid yn Nhalgarth—Datganiad Howell Harris yn Nghymdeithasfa Watford—Howell Harris yn Llundain eto—Pressio i'r fyddin—H. Harris ar daith yn Sir Forganwg—H. Harris yn arolygwr y Methodistiaid Saesnig—Dadl a Griffith Jones, Llanddowror—Ymweled a Llundain eto.

PEN. TUDAL.

XIII.—Howell Harris (1746) ... ... ... ... ... ... ... ... 311

Taith Howell Harris yn Sir Forganwg—Gwrthwynebiad i'w athrawiaeth yn dechreu codi—Thomas Williams, y Groeswen, yn dychwelyd at y Methodistiaid—Cymdeithasfa y Glyn—Llythyr at Mr. Thomas Adams—Cymdeithasfa Glaneothi—Y Cyfarfod Chwech-wythnosol—Howell Harris yn Llundain—Cymdeithasfa ystormus yn Watford—Ymosodiad y Morafiaid ar Gymru—Howell Harris yn Hwlffordd—Yr anghytundeb rhwng Rowland a Harris yn cychwyn yn Nghymdeithasfa Trefecca—Rowland a Harris yn ail-heddychu—Cymdeithasfa gyffrous yn Castellnedd—Cymdeithasfa ddymunol yn Watford.

XIV.—Howell Harris (1747-48) ... .. .. ... ... ... ... 337

Gwaredigaeth hynod yn Llansantffraid—Amryw Gymdeithasfaoedd—Harris yn cyhuddo Williams, Pantycelyn, o bregethu yn ddeddfol—Dealltwriaeth a'r Wesleyaid—Howell Harris yn ymweled a Môn, Arfon, Dinbych, a Meirionydd—Llythyr cryf at y Parch. Edmund Jones—Taith i Orllewin Lloegr—Syr Watkin Williams Wynne yn erlid y Methodistiaid—Cymdeithasfa Llanhedr—Adroddiad am gasgliad—Cymdeithasfa Caerfyrddin—Y myfyrwyr yn rhuthro i'r Gymdeithasfa—Howell Harris yn Sir Benfro—Dadl a dau weinidog Ymneillduol.

XV.—Howell Harris (1749-50) ... ... ... ... ... ... ... 357

Harris yn amddiffyn James Beaumont—Dyledswyddau y goruchwylwyr—Harris yn beio seiat y Groeswen am ordeinio brodyr i weinyddu yr ordinhadau—Ei syniad am athrofa—Taith i Sir Drefaldwyn—Ymweliad arall a Llangeitho—Ymheddychu a'r Parch. Price Davies—Taith arall trwy Benfro, Caerfyrddin, a Morganwg—Parotoi at ymraniad—Harris yn ymosod ar yr offeiriaid—Pregeth nerthol yn y Groeswen—Howell Harris a Price, o'r Watford—Ffrwgwd parthed troi y goruchwylwyr allan yn yr Aberthyn—Cymdeithasfa Llanidloes—Dim yn bosibl hellach ond ymraniad.

XVI.—Yr Ymraniad ... ... ... ... ... ... ... ... ... 380

Syniadau athrawiaethol Howell Harris—"Ymddiddan rhwng Uniawngred a Chamsyniol"—Achosion i'r ymraniad heblaw gwahaniaeth barn parthed athrawiaeth—Harris yn petruso cyn ymranu—Plaid Rowland yn cyfarfod yn Llantrisant, ac yn ymwrthod a Harris—Yntau yn cynal pwyllgor yn Llansamlet—Cymdeithasfa gyntaf plaid Harris, yn St. Nicholas—Cymdeithasfa Llanfair-muallt—Llythyr Harris at Rowland—Harris yn Sir Benfro—Harris yn Ngogledd Cymru—Cymdeithasfa Llwynyherllan a Dyserth.

XVII.—Howell Harris—Gwedi yr Ymraniad ... ... ... ... ... 403

Howell Harris yn gosod i lawr sylfaen yr adeilad newydd yn Nhrefecca—Ei afiechyd difrifol—Anerchiad pwysig yn y "Cynghor"—Anfon milwyr i'r fyddin—Harris yn gadben yn y milisia—Ei lafur yn Yarmouth a manau eraill—Gostegu y terfysgwyr yn Nghymdeithasfa Llanymddyfri—Blwyddyn ei Jiwbili—Anfon at Rowland, yn Llangeitho, i ofyn am undeb—Y ddau yn cyfarfod yn Nhrecastell—Harris yn teithio yn mysg y Methodistiaid—Cymdeithasfa eto yn Nhrefecca, gwedi tair-blynedd-ar-ddeg—Cymdeithasfa Woodstock—Amryw Gymdeithasfaoedd eraill—Coleg yr Iarlles Huntington yn Nhrefecca-Isaf—Ymweliadau y Methodistiaid a Threfecca—Terfyn oes Howell Harris.

XVIII.—Peter Williams ... ... ... ... ... ... ... ... 433

Ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu—Ei fam yn ei fwriadu i'r weinidogaeth—Colli ei rieni yn foreu—Rhagluniaeth yn gofalu am yr amddifad—Peter Williams yn myned i athrofa Thomas Einion—Yn cael ei argyhoeddi trwg bregeth Whitefield—Cael ei urddo yn guwrad eglwys Gymmun—Colli ei le oblegyd ei Fethodistiaeth—Colli dwy guwradiaeth arall am yr un rheswm—Yn ymuno a'r Methodistiaid—Ei daith gyntaf i'r Gogledd—Cael ei erlid oblegyd yr efengyl yn y Dê a'r Gogledd—Cael lle amlwg yn fuan yn y Gymdeithasfa—Yn ymuno a phlaid Rowland adeg yr ymraniad—Ysgrythyroldeb ei bregethau—Dwyn allan y Beibl mawr, gyda sylwadau ar bob penod—Cyhoeddi y "Mynegair," yn nghyd a "Thrysorfa Gwybodaeth," sef y cylchgrawn Cymreig cyntaf—Anfoddlonrwydd i'w sylwadau gyda golwg ar y Drindod—Yr anfoddlonrwydd yn cynyddu oblegyd iddo newid rhai geiriau yn Meibl Canne—Dadleu brwd yn y Gymdeithasfa—Peter Williams yn cael ei ddiarddel gan y Methodistiaid—Yn gwneyd amryw geisiadau am ail brawf, ond yn glynu wrth ei olygiadau—Canlyniadau ei ddiarddeliad—Diwedd ei oes—Purdeb ei amcanion, a mawredd ei ddefnyddioldeb.

PEN. TUDAL.

XIX.—David Jones, Llangan ... ... ... ... ... ... ... 459

Sylfaenwyr ac arweinyddion cyntaf y Methodistiaid—Jones heb fod yn un o honynt—Ei gydoeswyr a'i gyfoedion—Hanes ei enedigaeth a'i ieuenctyd—Yn cyfarfod a damwain—Ei addysg a'i urddiad i Lanafan-fawr—Symud i Dydweiliog—Dyfod i gyffyrddiad a Dr. Read yn Trefethin, ac yn cael ei gyfnewid trwy ras—Yn cael bywioliaeth Llangan, drwy ddylanwad Iarlles Huntington—Sefyllfa foesol a chrefyddol y plwyf—Ei gydweithwyr yn Morganwg—Desgrifiad o Sul y Cymun yn Llangan—Yn pregethu mewn lleoedd annghysegredig—Yn adeiladu Capel Salem—Marwolaeth a chladdedigaeth ei wraig—Yn gosod i lawr ddrwg arferion yr ardal—Achwyn arno wrth yr esgob—Ei lafur yn mysg y Saeson—Ei allu i gasglu ariau at gapelau—Ei lafur yn mysg y Cymru—Yn cyfarfod ag erledigaethau ac yn eu gorchfygu—Ei boblogrwydd fel pregethwr—Annas yn dyfod o Sir Fôn i geisio cyhoeddiad ganddo—Yn efengylydd yn hytrach nag yn arweinydd—Penillion Thomas Williams, Bethesda-y-Fro—Desgrifiad Williams, Pantycelyn; Robert Jones, Rhoslan; a Christmas Evans, o hono—Ei ail briodas, a'i symudiad i Manorowen—Yn dyfod o fewn cylch mwy eglwysig—Yn beneiddio ac yn llesghau—Diwedd ei oes.

XX.—William Davies, Castellnedd; Dafydd Morris, Twrgwyn; a William Llwyd, o Gayo ... ... ... ... ... ... 478

William Davies yn hanu o Sir Gaerfyrddin—Ei ddyfodiad i Gastellnedd—Ei boblogrwydd—Yn colli ei guradiaeth—Adnewyddu capel y Gylylchi iddo—Barn Howell Harris am dano—Odfa ryfedd yn Llangeitho—Y tair chwaer—Ei farwolaeth—Boreu oes Dafydd Morris—Dechreu pregethu yn ieuanc—Meddwl uchel Rowland am dano—Swyn ei lais—Yn symud i Dwrgwyn—Yn teithio Cymru—Pregeth y golled fawr—Ceryddu blaenor sarug—Amddiffyn Llewelyn John—Dafydd Morris fel emynydd—Marwolaeth ei wraig—Ei farwolaeth yntau—Haniad William Llwyd, o Gayo—Ei argyhoeddiad—Ei ymuniad a'r Methodistiaid—Yn dechreu pregethu—Hynodrwydd William Llwyd—Nodwedd ei weinidogaeth—Ei farwolaeth.

ATTODIAD.—Y Tadau Methodistaidd a'u Cyhuddwyr ... ... ... 493

# *Y TADAU METHODISTAIDD*

## EU LLAFUR A'U LLWYDDIANT.

## PENOD I.

:o:

### SEFYLLFA FOESOL CYMRU ADEG CYFODIAD METHODISTIAETH.

*Sefyllfa foesol Prydain yn isel adeg cyfodiad Methodistiaeth—Cyflwr Cymru o angenrheidrwydd yn gyffelyb—Hirnos gauaf mewn amaethdy—Tystiolaeth ysgrifenwyr diduedd am gyflwr y Dywysogaeth—Cyhuddiad Dr. Rees yn erbyn y Tadau Methodistaidd—Y cyhuddiad yn ddisail—Taflen Mr. John Evans o Lundain—Y daflen yn cael ei llygrunio i amcan—Yr eglwysi Ymneilldnol yn cael eu gwanhau gan ddadleuon—Yr elfenau newyddion a ddaethant i mewn gyda'r Methodistiaid.*

Y MAE yn amheus a fu crefydd ysprydol erioed yn is yn Mhrydain, er pan y pregethwyd yr efengyl gyntaf yn yr ynys, nag adeg dechreuad Methodistiaeth. Yr oedd y Puritaniaid gyda eu bywyd a'u harferion personol a theuluaidd dysyml, eu gwrthnaws at bob rhodres, gwag-ymddangosiad, a balchder, eu difrifwch angerddol, a'u cydnabyddiaeth eang a Gair yr Arglwydd, wedi cael eu rhifo i'r bedd; ac ar eu hol cyfodasai oes arall, hollol wahanol o ran yspryd, arferion, a moes, yr hon oedd wedi ymroddi i bob math o chwareu, a phob math o lygredigaeth. Gellir olrhain y cyfnewidiad mewn rhan i wrthweithiad naturiol yn erbyn yr yspryd Puritanaidd, yr hwn o bosibl oedd yn rhy lym; mewn rhan i ddylanwad llygredig llys Siarl yr Ail, yn yr hwn y gwawdid rhinwedd a phob math o ddifrifwch, ac yr ymffrostid mewn anfoesoldeb; ond yn benaf i lygredigaeth naturiol y galon ddynol, yr hon sydd yn unig yn ddrygionus bob amser. Nid oedd prinder dynion galluog yr adeg hon. Dyma y pryd y blodeuai Handel y cerddor, Pope y bardd, Daniel Defoe y nofelydd, a Samuel Johnson y llenor. Tua'r amser hwn y cyfansoddai Butler ei Gyfatebiaeth, yr hwn lyfr nad oes yr un anffyddiwr wedi llwyddo i'w ateb hyd heddyw. Fel dynion o allu arbenig yn yr Eglwys Sefydledig, gellir cyfeirio at Sherlock, Waterland, a Secker; ac yn mysg yr Ymneillduwyr at Isaac Watts, Nathaniel Lardner, a'r duwiol Philip Doddridge. Ond fel y sylwa un, nid yw talent bob amser yn esgor ar ddaioni. Ac yr oedd yr oes yma, er yr holl ddynion galluog a dysglaer eu talent a gynwysai, yn nodedig am ei hanfoesoldeb. Meddai ysgrifenydd galluog: * "Ni wawriodd canrif erioed ar Loegr Gristionogol mor amddifad o enaid ac o ffydd a'r hon a gychwynodd gyda theyrnasiad y Frenhines Anne, ac a gyrhaeddodd ei chanolddydd dan Sior yr Ail. Nid oedd dim irder yn yr amser a basiodd, na dim gobaith yn y dyfodol. Athronydd yr oes oedd Bolingbroke, ei haddysgydd mewn moesoldeb oedd Addison, ei phrydydd oedd Pope, a'i phregethwr oedd Atterbury. Gwisgai y byd olwg segur anniddig tranoeth i ddydd gwyl gwallgof."

Cadarnheir y desgrifiad gan y rhai oeddynt yn byw ar y pryd. Dywed Esgob Lichfield, yn 1724, mewn pregeth o flaen y Gymdeithas er Diwygio Moesau: † "Dydd yr Arglwydd yn awr yw dydd marchnad y diafol. Ymroddir i fwy o anlladrwydd, i fwy o feddwdod, ac i fwy o gynhenau; cyflawnir mwy o fwrddradau a mwy o bechod ar y dydd hwn nag ar

* *North British Review*, 1847.
† Tyerman's *Life of John Wesley*.

holl ddyddiau eraill yr wythnos. Y mae diodydd cryfion wedi dyfod yn haint yn y ddinas. Y mae mwy o bobl yn marw o'r gwahanol glefydau a gynyrchir gan ymarferiad cyson o frandi a gwirf, nag sydd o bob afiechyd arall, o ba natur bynag. Pechod yn gyffredinol sydd wedi ymgaledu i'r fath raddau, ac wedi tyfu mor rhonc, fel yr amddiffynir, ïe, y cyfiawnheir, anfoesoldeb oddiar egwyddor. Câ llyfrau aflan, masweddgar, ac anllad farchnad mor dda, fel ag i gefnogi y fasnach o'u cyhoeddi. Nid oes un pechod nad yw wedi ffeindio ysgrifenydd i'w ddysgu a'i amddiffyn, a llyfrwerthydd a phedlwr i'w daenu ar led." Yr adeg yma yr oedd yfed *gin* wedi dyfod yn orphwylledd cyffredinol. Yn Llundain yr oedd un tŷ o bob chwech yn wirottŷ. Ar eu harwydd-estyll (*sign-boards*) addawai y tafarnwyr y gwnaent ddyn yn feddw am geiniog, ac y ffeindient wellt iddo i orwedd arno hyd nes y byddai wedi adfeddianu ei synwyrau. Afradedd oedd trefn y dydd. Nid oedd un teulu o bob deg yn ymgais am dalu ei ffordd. Y cwestiwn mawr oedd gallu bwyta yn fwy danteithiol, yfed yn fwy helaeth, a gwisgo yn fwy gwych na'r cymydogion o gwmpas. Bob nos goleuid y gerddi cyhoeddus a llusernau dirif, lle yr ymgynullai, wedi ymwisgo mewn sidan a phorphor, a chyda mwgwd ar eu gwynebau, lladron, oferwyr, hapchwareuwyr, a phuteiniaid, yn gymysg a chyfoethogion a phendefigion o'r safle uchaf, a lle y carient yn mlaen ymddiddan anniwair, ac y sibrydent athrod celwyddog. Cawsai pob dosparth ei feddianu a'r haint. Yr oedd clarcod a phrentisiaid, merched gweini a chogyddion, yn ymddilladu mor orwych a'u mestr neu eu meistres. I gyfarfod yr holl afradedd yma rhaid, bid sicr, cael arian; ac edrychid ar bob ffordd i'w cyrhaedd, bydded onest, bydded anonest, fel yn hollol gyfreithlon. Cyfrifid lladrad yn foneddigaidd, a hapchwareu yn ddyledswydd. Byddai boneddigesau yn dal cyngwystl yn eu tai, tra y byddai eu gwyr yn ymroddi i hapchwareu oddicartref; a chlywid swn disiau yn trystio ar ferfa olwyn yr hwn a elai o gwmpas i werthu afalau, penogiaid, a bresych, yn gystal ag ar fyrddau y pendefigion. Rhaid oedd cael arian, ac nid oedd wahaniaeth yn y byd pa fodd. Dywed y *Weekly Miscellany* am 1732, fod y bobl wedi ymgladdu mewn pleser, fod ymgais at fyw yn dduwiol yn cael edrych arno mor hynod â phe yr ai dyn i'r heol wedi ymwisgo yn nillad ei daid; a bod clybiau anffyddol wedi cael eu ffurfio, gyda'r amcan addefedig o wneyd y bobl yn genedl aflan. Nid oedd bris ar rinwedd, a dirmygid crefydd a duwioldeb. Gellir cymhwyso geiriau y prophwyd Esaiah at yr oes: "Cenhedlaeth bechadurus, pobl lwythog o anwiredd, had y rhai drygionus, meibion yn llygru; y pen oll sydd glwyfus, a'r galon yn llesg; o wadn y troed hyd y pen nid oes dim cyfan ynddo, ond archollion, a chleisiau, a gwelïau crawnllyd."

O'r diwedd, dychrynodd yr awdurdodau gwladol oblegyd y llygredigaeth a'r anfoesoldeb. Apwyntiwyd pwyllgor gan Dŷ yr Arglwyddi, "i chwilio i mewn i achosion yr anfoesoldeb a'r halogedigaeth rhemp presenol." Yn ei adroddiad mynegai y pwyllgor fod nifer o ddynion llygredig eu moes wedi ymffurfio yn ddiweddar yn glwb, dan yr enw Mallwyr (*Blasters*), a'u bod yn defnyddio pob moddion i geisio cael ieuenctyd y deyrnas i ymuno a hwy. Fod aelodau y clwb hwn yn proffesu eu hunain yn addolwyr y diafol, eu bod yn gweddïo arno, ac yn yfed iechyd da iddo. Eu bod yn defnyddio y fath iaith gableddus yn erbyn mawrhydi ac enw sanctaidd Duw, ac yn arfer ymadroddion mor aflan ac ehud, fel nad oedd y cyffelyb wedi ei glywed yn flaenorol, a bod y pwyllgor yn pasio heibio i'r cyfryw mewn dystawrwydd am eu bod yn rhy erchyll i'w hail adrodd. Adroddai y pwyllgor yn mhellach fod crefydd a phob peth cysegredig wedi cael eu hesgeuluso yn ddifrifol yn ddiweddar; a bod mwy o esgeuluso yr addoliad dwyfol, yn gyhoeddus ac yn breifat, ac o anmharchu y Sabbath, nag y gwybuwyd am y fath yn Lloegr erioed o'r blaen. Fod segurdod, moethusrwydd, hapchwareu, ac ymarferiad a gwirodydd, wedi cynyddu yn arswydus. Cynghorai ar fod i'r esgobion yn eu hymweliadau i siarsio y clerigwyr ar iddynt rybuddio y bobl a'u cymhell i fynychu y gwasanaeth dwyfol, ac ar fod i'r ieuenctyd yn y prifysgolion gael eu haddysgu yn ofalus yn egwyddorion crefydd a moesoldeb. Yn 1744 darfu i uchelreithwyr Middlesex gyflwyno y cwyn canlynol i'r barnwr yn y Sessiwn: "Fod y bobl yn cael eu llithro i foethusrwydd, afradedd, a segurdod; trwy hyn fod teuluoedd yn cael eu dinystrio a'r deyrnas yn cael ei dianrhydeddu; ac oni fyddai i ryw awdurdod roddi terfyn ar y fath fywyd afradlon, eu bod yn ofni yr arweiniai i ddinystr y genedl." Mewn

gwirionedd yr oedd anwiredd yn prysur ddatod seiliau cymdeithas; wedi taflu rhinwedd a chrefydd dros y bwrdd nid oedd gan y bobl nerth i ddim; bygythiai eu blysiau droi yn feddau iddynt; yr oedd dinystr gwladol a chymdeithasol yn llygadrythu yn eu gwynebau; ac ymddangosent fel ar suddo yn dragywyddol dan adfeilion y moesoldeb y tynasent tan ei sail. Yr un pryd dychrynai yr ychydig bobl dduwiol a weddillasid, a chyfodent eu golygon at Dduw, gan waeddi: "O Arglwydd, pa hyd! pa hyd!"

Naturiol gofyn: Beth am glerigwyr yr Eglwys Sefydledig? Ai nid oeddynt hwy yn gwylio ar y mur, yn ol y llŵ difrifol a gymerasent adeg eu hordeiniad? Ai nid oeddynt yn ceisio atal y llifeiriant fel y gweddai i'w swydd? Na, ysywaeth "'Run fath bobl ag offeiriad" ydoedd y pryd hwnw fel bron yn mhob oes. Arweiniai llu o'r clerigwyr fywyd anfucheddol, ac yr oeddynt bron mor anwybodus a thyrchod daear yn athrawiaethau yr efengyl yr ymgymerasent a'i phregethu. Gallent herio y penaf yn yr ardal am gryfder i yfed cwrw a gwirod; medrent ymgystadlu a neb pwy bynag, yn y gadair ger y tân hirnos gauaf, am adrodd ystoriau gogleisiol ac anweddus; yr oeddynt yn awdurdod ynglyn a'r campiau, a'r amrywiol chwareuon; ond yr oeddynt yn gwbl anwybodus yn efengyl Duw, ac yn llawer mwy cydnabyddus a bywyd a gweithrediadau Alexander Fawr, a Julius Cæsar, nag a hanes yr Arglwydd Iesu. Rhag i neb dybio ein bod yn lliwio pethau yn rhy ddu, difynwn yr hyn a ysgrifenwyd gan yr Esgob Burnet yn y flwyddyn 1713: "Y mae y nifer fwyaf o'r rhai a ddeuant i'w hordeinio mor anwybodus, na all neb gael syniad am dano, ond y rhai y gorfodir hwynt i'w wybod. Y wybodaeth hawddaf yw yr un y maent ddyeithraf iddi; yr wyf yn cyfeirio at y rhanau mwyaf hawdd o'r Ysgrythyr. Nis gallant roddi un math o gyfrif hyd yn nod o gynwys yr Efengylau, neu y Catecism; neu ar y goreu, cyfrif anmherffaith iawn." Darlun ofnadwy o ddu, onide? A chofier ei fod wedi cael ei dynu gan esgob. Teg yw hysbysu fod dosparth o glerigwyr ar y pryd a arweinient fywyd moesol, a bod yn eu mysg ddynion dysgedig a thalentog. Y rhai hyn oeddent yr Uchel-eglwyswyr. Ond anurddid hwythau gan ddau fai. Un oedd eu rhagfarn at Ymneillduaeth. Dalient nad oedd neb yn weinidog i Grist os na fyddai wedi derbyn urddau esgobol, fod yr holl sacramentau a weinyddid gan yr Ymneillduwyr yn ddirym, a bod yr Eglwysi Ymneillduol oll mewn stad o bechod a damnedigaeth. Yn ychwanegol, yr oeddynt yn wleidyddwyr penboeth. Yr oeddynt, lawer o honynt beth bynag, yn Jacobiaid, sef yn annheyrngar i'r Brenin Sior, ac yn awyddus am weled Siarl Steward, yr Ymhonwr fel ei gelwid, yn esgyn i'r orsedd. Deuai pechod yn rhinwedd yn eu golwg, os dangosai yr hwn a'i cyflawnai zêl anghymedrol o blaid yr Ymhonwr; deuai sancteiddrwydd yn gamwedd os dangosid unrhyw frawdgarwch at yr Ymneillduwyr. Gallai dyn fod yn feddw trwy yr wythnos, a byw y bywyd ffieiddiaf; ond os yfai iechyd da yr Ymhonwr, ac os unai i felldithio y brenin, ystyrid ef yn sant. Ar y llaw arall gallai dyn fod yn ddysgedig, yn ddiwyd, yn ddefosiynol, a defnyddiol; ond os gwrthwynebai yr Ymhonwr, y safai yn gryf yn erbyn Pabyddiaeth, ac os amheuai fod yr Ymneillduwyr oll i gael eu damnio, edrychid arno fel un anuniongred, a deuai ar unwaith yn nod i saethau y blaid Uchel-eglwysig.

Ychydig neu ddim gwell oedd pethau yn mysg yr Ymneillduwyr. Cwynent hwythau eu bod yn colli yr ieuenctyd, fod difrawder cyffredinol ac oerni gauafaidd wedi ymdaenu dros eu cynulleidfaodd, a bod crefydd ysprydol yn nodedig o isel. Achwynent fod llawer o'u gweinidogion yn esgeulus ac yn arwain bucheddau anfoesol, a'u bod yn eu pregethau, y rhai a ddarllenid ganddynt, yn dangos mwy o gydnabyddiaeth a'r awduron clasurol nag a Gair Duw. Rhaid fod pethau wedi cyrhaedd sefyllfa alaethus, a dywed Tyerman mai cyfodiad a chynydd Methodistiaeth a achubodd Brydain rhag dinystr tymhorol a chymdeithasol. Yn gyffelyb y barna Macaulay.

Yr ydym wedi manylu ac ymhelaethu ar sefyllfa crefydd a moesau yn Lloegr, am fod yr unrhyw achosion, i raddau mwy neu lai, ar waith yn Nghymru, ac o angenrheidrwydd yn cynyrchu yr unrhyw effeithiau. Braidd nad oedd dylanwad Lloegr ar y Dywysogaeth yn gryfach y pryd hwnw nag yn awr. Rhaid cofio fod llenyddiaeth gyfnodol Gymreig heb wneyd ei hymddangosiad eto; na anwyd yr *Amserau*, y newyddiadur wythnosol Cymreig cyntaf, am gan mlynedd gwedin, ac na chyhoeddwyd y cylchgrawn misol cyntaf

yn iaith y bobl am ryw haner cant. Cymaint o lenyddiaeth yn adlewyrchu syniadau y dydd ag a ddarllenid, deuai o Loegr, ac yr oedd ei ddylanwad fel gwynt heintus yn deifio pob blodeuyn prydferth a thêg yr olwg arno. Gwir nad oedd nifer y darllenwyr ond ychydig, ond o herwydd eu safle gymdeithasol medrent, fel y lefain yn y ddameg, suro pob peth y deuent i gyffyrddiad ag ef. Dylid cofio yn mhellach mai ychydig o ysgolion oedd yn Nghymru, ac yr anfonid yr ieuenctyd am addysg i'r trefydd mawrion Saesnig, a bod y rhai a allent fforddio hyny yn myned i Rydychain. Fel y gellid dysgwyl, deuent yn eu holau wedi ymlygru, ac wedi llyncu syniadau anffyddol ac afiach y lleoedd y buont yn aros ynddynt. Cadarnheir hyn gan dystiolaeth unfrydol y rhai oeddynt yn byw ar y pryd. Dywedant fod gwir grefydd ymron wedi darfod o'r tir, fod anfoesoldeb yn ei ffurfiau mwyaf hyll yn llanw y wlad; ac yn ychwanegol fod yr anwybodaeth fwyaf eithafol, a'r ofergoelaeth fwyaf hygoelus yn ffynu yn mysg y werin. Ychydig oedd nifer y Beiblau, llai fyth oedd nifer y rhai a fedrent eu darllen. Treulid nosweithiau y gauaf i adrodd ystoriau gwrachïaidd am fwganod, drychiolaethau, goleu corff, a phethau o'r fath.

Er rhoddi ryw syniad i'r darllenydd am sefyllfa isel y wlad, a pha mor llawn ydoedd o ofergoeliaeth, rhaid i ni geisio ganddo ddyfod gyda ni ar daith ddychymygol, i ffermdy gwell na'r cyffredin, ryw noson yn y gauaf, lle y mae cwmni dyddan wedi ymgasglu. Er oered yr hin oddiallan, nid yw yn oer yn nghegin yr amaethdy, oblegyd llosga tân braf, cymysg o fawn ac o goed, ar yr aelwyd. Nid oes yr un ganwyll yn nghyn, y mae goleu y tân yn ddigon, a theifl y fflamau eu llewyrch ar y platiau piwter sydd ar y seld nes y maent yn dysgleirio drostynt. Eistedda yr hên y tu fewn i'r simne eang hen ffasiwn; mewn pellder gweddol y tu ol yr eistedd yr ieuanc, perthynol i'r ddau ryw; a'r gwaith, yr hwn a gerir yn mlaen gyda chryn asbri, yw adrodd chwedlau, hen a diweddar. Dywed un am ryw helynt a ddigwyddasai yn y fferm agosaf ond un. Ryw foreu yr wythnos o'r blaen, daeth hen wraig, hagr ei gwedd a melyn ei chroen, at y drws; aeth gwraig y tŷ at y drws i'w chyfarfod, pryd y cymerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt.

"Bendith y nefoedd a fo arnoch! A welwch chwi yn dda roi cwpanaid o haidd yn gardod i hen wreigan?"

"Y mae yn wir ddrwg genyf; yr ydym yn hollol allan o haidd; rhaid i'r bogiau fyn'd i'r 'sgubor i ddyrnu, cyn y byddo genym ddim at wasanaeth y tŷ."

"A ydych yn gwrthod y cwpanaid haidd?"

"Rhaid i mi wrthod heddyw, nid oes dim genyf at fy llaw."

"Chwi a ddifarwch cyn machlud haul am fod mor llawgauad."

Aeth yr hen ddynes i ffwrdd yn guchiog ei gwedd, gan fwmian bygythion; a throdd y wraig yn ei hol i'r gegin. Yno yr oedd y forwyn yn gwneyd paratoadau at gorddi. Yn mhen ychydig dechreuodd ar ei gwaith, a chorddi y bu am oriau meithion, ond nid oedd un argoel fod yr hufen am droi yn ymenyn. Gwawriodd ar feddwl y feistres mai melldith yr hen ddynes oedd y rheswm am y ffaelu corddi. Aeth mewn brys gwyllt at ei gwr oedd yn yr ydlan, gan ddweyd:—

"Ewch ar unwaith, cymerwch y ceffyl buanaf sydd yn yr ystabl; gyrwch ar ol yr hen ddynes a fu wrth y drws; y mae wedi rheibio yr hufen; dygwch hi yn ei hol bodd neu anfodd."

Ymaith a'r gwr; goddiweddodd y ddewines; gwnaeth iddi ddychwelyd; dywedodd hithau ychydig eiriau dan ei hanadl; ac ychydig o waith corddi a fu nes bod yr ymenyn yn llon'd y fuddai. Gwnaed y nodiadau oedd yn gweddu ar yr hanes; datganai rhai o'r cwmni ryw gymaint o syndod; ac eto nid oedd y syndod yn fawr, gan fod digwyddiadau o'r fath yn cymeryd lle yn rhy gyffredin.

Gwedi byr seibiant dyma yr ail yn cymeryd ei ddameg, ac yn adrodd am Dafydd Pantyddafad yn yfed yn nhafarn y pentref ryw fis cynt. Ystormus oedd y nos, a chaddugol oedd y tywyllwch; chwibanai y gwynt fel ellyll gwawdus yn nghorn y simne, a disgynai y curwlaw i lawr yn genllif, fel yr oedd yn berygl bywyd myned allan o dŷ. Eisteddai Dafydd yntau yn dra phruddglwyfus wrth y tân, gan geisio dychymygu sut yr äi adref, gan fod Pantyddafad ddwy filltir o bellder, yr ochr arall i'r afon Teifi. Wrth ei benelin yr oedd hen wreigan, gyda *shawl* goch ar ei gwar, yn cribo gwlan yn ol ffasiwn yr hen Gymry. Gwaghaodd Dafydd ei beint, galwodd am un arall, ac wedi yfed dracht dda o hono, estynai ef i'r hen wraig a'r cribau, er mwyn iddi

hithau gael yfed. Yn y man ymdora gofid ei galon allan, a dywed :—

"Y mae yn noson enbyd. Wn i yn y byd pa fodd yr af adref."

"Cymerwch galon; chwi ewch adre' yn ddyogel," meddai y wraig a'r cribau.

"A ydych chwi yn meddwl y gostwng y gwynt, ac yr aiff hi yn hindda ?"

"Gostwng neu beidio, fyddwch chwi ddim gwaeth."

Yfodd yr amaethwr ragor o beintiau, gan roddi yfed o hyd i'r hon oedd yn cribo gwlan ; ond nid oedd argoel fod yr ystorm yn llaesu. O'r diwedd cododd, gwisgodd ei gob fawr am dano, a dywedodd ei fod yn myned deued a delai. Tynodd y drws ar ei ol, rhoddodd un cam allan i'r tywyllwch ystormus, a'r cam nesaf yr oedd wrth ddrws ei dŷ, heb wlychu nag arall. Yr oedd yr hon a yfasai o'i beint wedi talu iddo am ei garedigrwydd, trwy ei gario mewn mynydyn o amser ddwy filltir o ffordd yn groes i'r Teifi, mewn modd nas gwybuai efe. Cynyrchodd yr ystori yma fwy o syndod ; yr oedd fod dyn yn cael ei gipio trwy yr awyr mewn modd gwyrthiol gan reibwraig yn ddigwyddiad anghyffredin.

Hanes am ddyn yn cael ei ddal mewn toilu sydd gan y trydydd, a gwrandewir ar ei eiriau gydag awch. Dywedai ddarfod i gasglwr trethi y plwyf, pan ar y ffordd fawr yn dychwelyd i'w artref, a hithau yn hwyr, gael ei hun yn ddisymwth ynghanol torf o ddynion. Sathrai y rhai hyny ei draed, a chilgwthient ef, nes y cafodd ei hun ar ei ledorwedd ar ochr y clawdd. Yn fuan deallodd fod angladd yn pasio. Elai y dorf yn dewach, yn mhen enyd dacw yr arch yn d'od i'r golwg, ac adwaenai yntau y rhai oeddynt yn cario yr elor. Yn raddol teneuai y dyrfa, a phasiodd y cynhebrwng. Ond yn mysg yr olafiaid gwelai y trethgasglydd amaethwr oedd yn ei ddyled o'r dreth, a thybiodd fod yno gyfle braf i'w cheisio, fel ag i hebgor iddo gerdded rhai milltiroedd boreu dranoeth. Rhedodd ar ei ol, a galwodd arno erbyn ei enw. Ond ni atebai ; cerddai yn ei flaen mor sobr a sant, heb edrych ar y deheu na'r aswy, ac heb gymeryd unrhyw sylw o gais gŵr y dreth. Wedi blino galw gwawriodd ar feddwl y trethgasglydd mai mewn toilu yr oedd, mai ysprydion a arferent orymdeithio mewn sefydliadau o'r cyfryw natur, ac nad oedd ysprydion un amser yn talu treth. Trodd ar ei sawdl, ac aeth adref wedi ei siomi yn fawr.

Nid oes genym hamdden i groniclo ond un arall o'r ystoriau a adroddid, ac y mae hono, fel llawer o'r chwedlau a ffynent ar y pryd, am offeiriad. Dywedid fod y Parchedig Thomas Jones, ficer un o'r plwyfi agosaf, yn ŵr tra dysgedig, ei fod yn gallu darllen Lladin, fod yn ei feddiant lyfr llawn o gythreuliaid, ac y drwgdybid yntau yn gryf o ddal cymundeb a'r gŵr drwg. Cedwid y llyfr consurio bob amser yn rhwym mewn cadwyn glöedig. Ond yr oedd y forwyn, yr hon, fel llawer o'i dosparth, a feddai swm mawr o chwilfrydedd, wedi canfod y llyfr yn haner agored gan ei meistr ; a thystiai ei fod wedi ei orchuddio drosto a lluniau annaearol, ac ag ysgrifeniadau mewn inc coch. Un tro penderfynodd Mr. Jones y gwnai ddatgloi y gadwyn ac agor y llyfr. Gyda bod y llyfr led y pen, dyma haid o ddiaflaid yn rhuthro allan, ac yn gofyn am waith. Y perygl mawr wrth godi cythreuliaid allan o lyfr yw methu cael digon iddynt i'w wneyd ; ac os na chant hyny, cymerant y dyn a roes eu rhyddid iddynt i fynu yn gorphorol, a dygant ef gyda hwynt i'r pwll. Yn ffodus, cofiodd Mr. Jones am Lyn Aeddwen, ei fod yn llyn mawr a dwfn, a gorchymynodd i'r ellyllon fyned yno, a thaflu y dwfr allan, nes gwneyd y llyn yn wag. I ffwrdd a hwy ar unwaith ; torodd y chwys dyferol allan drosto yntau, a theimlai ei fod wedi cael gwaredigaeth fawr. Ond meddai ar gryn wroldeb, a mentrodd agor dalen arall ; a chyda ei fod yn gwneyd dyma haid arall o ddiaflaid yn rhuthro allan, ac fel y rhai cyntaf yn hawlio gorchwyl. Nid oedd yr hen offeiriad yn amddifad o gyfrwysdra, ac anfonodd yr haid hon at yr un llyn, i daflu yn ol y dwfr a luchid allan gan y rhai blaenorol. Pa hyd y bu y ddau ddosparth yn taflu dwfr i mewn ac allan, ni eglurai yr adroddwr, na pha un oedd y trechaf yn yr ymdrech ; nac ychwaith pa fodd yr aethant yn eu holau i'r llyfr, os mai yno yr aethant, gan i'r ficer ei gloi a'i osod yn ol yn ddyogel yn y cwpbwrdd ar unwaith. A chymaint oedd y dychryn a gawsai fel na chynygiodd ar ddireidi o'r fath drachefn.

Fel yr elai y nos yn mlaen cynyddai yr asbri, a deuai y chwedlau yn fwy brawychus. Yn awr ac yn y man pesid y gostrel a'r cwrw o gwmpas, yr hon ddiod oedd wedi ei darllaw gartref, a deuai

tafodau yr adroddwyr yn fwy rhydd mewn canlyniad. Ni thorwyd i fynu hyd haner nos, ac erbyn hyny yr oedd y dosparth ieuangaf wedi eu meddianu gan ddychrynfeydd; cyniweiriai iasau oerion trwy eu cnawd, a safai eu gwallt i fynu yn syth. Ar y ffordd adref tybient mai drychiolaeth oedd pob llwyn o ddrain, ac mai canwyll gorff oedd llewyrch y glöyn byw yn ffos y clawdd.

Dyma yr ymborth meddyliol a roddid i ieuenctyd Cymru gant a haner o flynyddoedd yn ol; dyma y chwedlau ofergoelus a yfent megys gyda llaeth eu mamau, ac a gredid yn ddiameu yn eu plith. Ni wyddent ddim am Dduw, heblaw bod yn gydnabyddus a'i enw; ni feddent yr un syniad am ysprydolrwydd ei natur nac am y dyledswyddau a ofynai ar eu llaw. Am y pethau mawrion yma yr oeddynt agos mor anwybodus a phaganiaid India. Ac yr oedd yr anfoesoldeb yn gyfartal i'r anwybodaeth. Ymlygrasai yr holl wlad; yn hyn nid oedd wahaniaeth rhwng boneddig na gwreng, offeiriad na phobl. Nid oedd y pwlpud yn meddu un math o allu i atal y llifeiriant. Yn wir, anaml y clywid enw ein Gwaredwr yn cael ei yngan ynddo, ac ni chyfeirid o gwbl at bechadurusrwydd dyn, nac at waith yr Yspryd Glân.* Bob Sul cynhelid chwareugamp, lle y byddai ieuenctyd y wlad yn gwneyd prawf o'u nerth mewn ymgodymu, neidio, rhedeg, a chicio y bel droed, tra y byddai yr hen yn sefyll o gwmpas i edrych. Gorphenid y dydd trwy fyned yn un dorf i'r tafarn, lle y treulid y nos mewn meddwdod, ac yn aml mewn ymladdfeydd creulon. Nos Sadyrnau, yn arbenig yn yr haf, cynhelid cyfarfodydd i ganu carolau, i ganu gyda'r delyn, i ddawnsio, ac i berfformio interliwdiau, gyda y ddau ryw ynghyd; yn y chwareuon hyn ymunai boneddigion yr ardaloedd yn gystal a'r tlodion. Cafodd y pethau yma, ynghyd a'r anfoesoldeb cydfynedol, y fath ddylanwad ar yspryd Mr. Charles o'r Bala, fel yr oedd hyd derfyn ei oes yn boen iddo i aros mewn ystafell yn mha un y byddai y delyn yn cael ei chwareu.

Cyhudda y Parch. T. Rees, D.D., Abertawe, y tadau Methodistaidd o ddesgrifio sefyllfa y Dywysogaeth ar y pryd mewn lliwiau rhy ddu, a lledawgryma ddarfod iddynt wneyd hyny yn wirfoddol, er dirmygu llafur blaenorol yr Ymneillduwyr, a mwyhau y diwygiad a gynyrchwyd trwy eu llafur hwy eu hunain. Ni ddylasai y fath gyhuddiad ehud a disail gael ei wneyd. Y tadau Methodistaidd fyddai y diweddaf i orbrisio eu gwaith. Yn wir, nid oedd ganddynt un syniad am fawredd y chwildroad y buont yn foddion i'w gynyrchu; nyni, wrth edrych yn ol arno dros agendor o gant a haner o flynyddoedd, sydd yn gallu deall pa mor bwysig a pha mor llesiol a fu eu llafur a'u gweinidogaeth. Seilia Dr. Rees ei gyhuddiad ar ryw daflenau y daeth o hyd iddynt yn Llundain, ac ar lythyr o eiddo y Parch. Edmund Jones, Pontypwl. Cawn sylwi yn nes yn mlaen ar y taflenau, ond y mae yn amlwg fod Edmund Jones, a Dr. Rees yn ogystal, wedi camddeall marwnad Williams, Pantycelyn, i Howell Harris. Pan y desgrifia Williams Gymru, yr adeg y daeth Harris i maes o Drefecca fel dyn mewn twym ias, ac y dywed eu bod

"—————— yn gorwedd
Mewn rhyw dywyll, farwol hun,
Heb na Phresbyter na 'Ffeirad,
Nac un Esgob ar ddihun,"

nid yw am wadu fod rhai eithriadau pwysig. Ysgrifenai fel bardd, ac ni fwriadai i'w eiriau gael eu deall yn hollol lythyrenol. "Nid yw Williams," meddai Dr. Rees, "mewn un modd yn lleddfu ei haeriad fod pawb yn Nghymru mewn trwmgwsg pan y cychwynodd Methodistiaeth." Y mae hyn yn gamgymeriad; ceir ymadroddion yn y farwnad ei hun sydd yn dangos na fwriedid y geiriau i gael eu gwasgu i'w hystyr eithaf. Tua chanol y farwnad ceir y llinellau canlynol:

"Griffith Jones pryd hyn oedd ddeffro
Yn cyhoeddi Efengyl gras,
Hyd cyrhaeddai'r swn o'r pwlpud
Neu, os rhaid, o'r fynwent las."

Cyn diwedd yr unrhyw farwnad, ceir fod rhagor na Griffith Jones ar ddihun; yr oedd

"Rowlands, Harris, a rhyw ychydig
Yma yn Nghymru yn seinio maes,
Weithiau o Sinai, weithiau o Sion,
Hen ddirgelion dwyfol ras."

Fel desgrifiad o agwedd gyffredinol y wlad yr oedd geiriau Williams yn wirionedd; yr oedd trwmgwsg marwol wedi meddianu hyd yn nod y rhai oeddynt wedi cael eu appwyntio i wylio. Nid yw am wadu yr eithriadau, yn hytrach cyfeiria atynt, ond achwyna nad oeddynt ond "rhyw ychydig." Rhaid esbonio y gwahanol

* Johnes *Causes of Dissent in Wales.*

linellau yn y farwnad yn ngoleuni yr oll o honi. Dyma y rheol bendant wrth esbonio yr Ysgrythyr; a phe y gwneid fel arall, ac y cymerid ymadroddion allan o'i cysylltiadau, fel y gwna Dr. Rees ac Edmund Jones wrth feirniadu geiriau Williams, Pantycelyn, gellid gwneyd i'r Beibl ddysgu y cyfeiliornadau mwyaf dinystriol. Yn mhellach, ysgrifenai Edmund Jones ei lythyr dan ddylanwad teimladau digofus at y Methodistiaid. Hawdd deall hyny wrth ei dôn. Dywed: "Y mae William Williams, y clerigwr Methodistaidd, yn dweyd yn blaen nad oedd na 'ffeirad na phresbyter ar ddihun pan ddechreuodd Howell Harris gynghori. Dyma anwiredd cywilyddus wedi ei argraffu. Myfi fy hun a ddygodd Harris gyntaf i Sir Fynwy i gynghori. Y mae yn rhyfedd fod y dyn yna yn gallu dweyd y fath beth, ac yntau wedi ei eni a'i addysgu yn mysg yr Ymneillduwyr. Os na wna y Methodistiaid roddi heibio senu yn llym fel y maent, bydd i Dduw o radd i radd eu gadael." Geiriau digllawn, ac nid anhawdd rhoddi cyfrif am deimlad yr hwn a'u hysgrifenai. Yr oedd Howell Harris wedi gweini cerydd i Edmund Jones am ei zêl broselytiol, a'i waith yn ffurfio eglwysi Annibynol o ddychweledigion Harris ei hun. Yr oedd y cerydd yn nodedig o fwynaidd a thyner, yn arbenig pan yr ystyrir yr amgylchiadau; addefir hyny gan Dr. Rees; ond y mae yn ymddangos iddo chwerwi yspryd Edmund Jones, a pheri iddo deimlo yn gas at y Methodistiaid.

Ond nid rhaid dibynu yn unig ar dystiolaeth y Methodistiaid gyda golwg ar agwedd y Dywysogaeth yr adeg hon; cadarnheir eu desgrifiad gan bersonau y tu allan iddynt. Ni ddeallai neb beth oedd sefyllfa foesol ac ysprydol Cymru yr adeg yma yn well na'r Parch. Griffith Jones, Llanddowror; ni chafodd neb well cyfleustra; yr oedd yntau yn ŵr nodedig o gymhedrol, ac yn dra gofalus am bwyso ei eiriau. Fel hyn yr ysgrifena efe:* "Mewn amrywiol fanau, pan yr ymgynullai rhyw driugain, neu bedwar ugain o bobl, cymysg o hen ac ieuanc, i'r ysgolion, cafwyd nad oedd dros dri neu bedwar o'r oll yn alluog i adrodd Gweddi yr Arglwydd, a'r rhai hyny yn dra anmherffaith ac annealladwy, heb wybod pwy yw eu Tad yn y nefoedd, na medru rhoddi gwell cyfrif am y gwirioneddau hawddaf a mwyaf cyffredin yn y grefydd Gristionogol, na'r paganiaid ydych yn ddysgu o'ch caredigrwydd yn yr India. Nid disail yw yr achwyniadau fod halogedigaeth, anlladrwydd, trais a lladradau, yn llanw y wlad, ac ar gynydd." Geiriau cryfion, ac nid rhyfedd fod y gŵr da yn gofyn yn brudd: "Beth a fedr ymdrechion preifat ychydig mewn cymhariaeth ei effeithio?" Meddai: † "Ymddengys fod cwmwl llawn o ystorm yn hofran uwch ein penau, pa le bynag y disgyna, yr hon sydd yn bygwth dinystr ar bawb sydd yn esmwyth arnynt yn Sion." Trachefn: ‡ "Chwi a synech y fath syniadau ynfyd a chywilyddus, os nad cableddus, sydd gan lawer o'r tlodion am Dduw a Christ a'r sacramentau. Ni wyddant ddim am fedydd ond iddynt gael eu bedyddio, a'u gwneyd yn Gristionogion da, ychydig wedi eu geni; nac am Swper yr Arglwydd heblaw mai bara a gwin ydyw, yr hyn y bwriada rhai o honynt ei gymeryd pan fyddont yn myned i farw. Prin y maent yn dirnad mwy am briodoleddau Duw, neu swyddau ein Hiachawdwr, neu y cyfamod gras, neu amodau iachawdwriaeth, neu ynte am eu sefyllfa ysprydol eu hunain, a'u dyledswyddau at Dduw ac at ddynion, na phe byddent heb gael eu geni mewn gwlad Gristionogol. Y fath yw yr anwybodaeth sydd wedi goresgyn ein gwlad, fel mewn llawer rhan o honi, y mae gweddillion ei phaganiaeth gynt, ynghyd a gweddillion Pabyddiaeth ddiweddarach, yn aros hyd heddyw yn mysg y tlodion, mewn syniadau, geiriau, a dull o fyw. Nid rhyfedd ynte fod y fath ddiluw o anfoesoldeb a drygioni, megys cenfigen, malais, celwydd, anonestrwydd, rhegu, meddwdod, aflendid, a chabledd, ynghyd a phob math o halogedigaeth ac annhrefn wedi llifo allan o hono. Yr unig wahaniaeth a wna llawer rhwng y Dydd Sanctaidd a dyddiau eraill yw ei fod yn rhoddi mwy o hamdden iddynt i ymroddi i anlladrwydd a bryntni.'

Gallem ddifynu brawddegau eraill, llawn mor gryfion, o ba rai y mae ei ysgrifeniadau yn dryfrith, ond rhaid ymatal. Byddai yn anhawdd tynu darlun duach, na mwy byw. Braidd nad ydym yn gweled y wlad wedi ei gorchuddio gan anwybodaeth caddugawl am Dduw, am Grist, ac am grefydd, heb un dirnadaeth

* *Welsh Piety.*

† *Ibid.*

‡ *Ibid.*

am drefn yr efengyl i achub, ac yn llawn o syniadau ac arferion haner Pabyddol, a'r cyfoethog a'r tlawd wedi cydsuddo i'r anfoesoldeb mwyaf gwarthus. Gwyddai Griffith Jones beth oedd yn ddywedyd, oblegyd yr oedd wedi trafaelu rhanau helaeth o'r Dywysogaeth ar ei deithiau pregethwrol. Cofier hefyd ei fod yn byw ynghanol y Deheudir, lle y meddylia rhai fod Ymneillduaeth yn flaenorol wedi agos cwbl grefyddoli y werin, ddarfod iddo gael ei ddwyn i fynu yn nyddiau ei faboed gyda'r Ymneillduwyr, a bod yr eglwysi a wasanaethai o fewn ychydig filldiroedd i dref Caerfyrddin, lle yr oedd Athrofa Ymneillduol wedi cael ei sefydlu. Y mae tystiolaeth y fath ŵr yn werth mil o gasgliadau wedi eu tynu oddiwrth dybiaethau amheus.

Adrodda Mr. Pratt,* yr hwn a deithiodd y rhan fwyaf o'r Dywysogaeth ychydig wedi cychwyniad Methodistiaeth, ac a ysgrifenodd hanes ei deithiau, am yr ofergoelion a ffynai yn mysg y werin. Yn y Dê a'r Gogledd cafodd fod cred mewn drychiolaethau yn gryfach ac yn fwy cyffredinol na chred yn Nuw; ni amheuai neb y chwedlau a adroddid am ganhwyllau cyrff, a'r tylwyth têg. Yn Sir Forganwg bu yn ymddiddan ag offeiriad, yr hwn nid yn unig oedd yn gredwr yn y tylwyth têg, ond a ysgrifenasai lyfr yn desgrifio eu nodweddion, ac yn croniclo eu gwrhydri. Pan y darfu i Mr. Pratt ledamheu gwirionedd ei dybiaethau, aeth yr offeiriad i dymer ddrwg, gorchuddid ei enau ag ewin, a da gan yr ymwelydd oedd cael ymadael mor gyflym ag y medrai. Ar y ffordd i'r gwesty dywedai ei letywr fod yr offeiriad yn arfer brochi ac ymgynddeiriogi pan yr amheuid dilisrwydd yr hyn a draethai; yr haerai unwaith wrth nifer o bobl oedd wedi ymweled ag ef fod tros fil o'r tylwyth têg yn yr ystafell ar y pryd, y rhai oeddynt yn anweledig i bawb ond iddo ef ei hun; a'u bod wedi dyfod yno oblegyd ei fod yn eu parchu mor fawr. Dechreuodd rhai chwerthin; ymgynhyrfodd yntau mewn canlyniad, a bygythiodd y gwnai beri i'r tylwyth bychain direidus eu pinsio, a'u blino ddydd a nos. "Ac mor wir a'ch bod yn fyw," meddai y gwestywr wrth Mr. Pratt, "ar waith dau o'r cwmni yn clecian eu bysedd, gan ddweyd nad oeddynt yn malio dim am dano ef na'i dylwyth têg, efe a wnaeth iddynt edifarhau. Oblegyd nos a dydd cafodd y ddau ddyn eu poenydio gymaint gan y diaflaid bychain, fel y bu raid iddynt ddychwelyd at yr offeiriad, a chrefu ei faddeuant, a gofyn ganddo eu gyru ymaith oddiwrthynt." "A ydych chwithau yn credu yn y tylwyth teg?" gofynai Mr. Pratt.

"Credu! ydwyf," oedd yr ateb, "ond y maent bob amser wedi bod yn elynion i mi, ac i fy nheulu, a hyny am y peth mwyaf dibwys, na fuasai yn gyru gwibedyn allan o dymer."

"Pa beth a wnaethoch i w gofidio?"

"Dim ond bario y ffenestr agosaf at yr ystafell, yn mha un y darfu i chwi gysgu neithiwr."

"Pa wrthwynebiad a allai fod ganddynt i hyny?"

"O, yr oeddynt yn arfer agor y ffenestr, a dyfod i mewn i'r tŷ, gan ladrata pa beth bynag y gallent osod eu dwylaw arno."

"Yn wir; a ydynt yn wreng mor anonest? Y rhempod bychain! Pwy allasai feddwl y fath beth?"

"Ydynt, Syr. Hwy yw y lladron gwaethaf yn yr holl fyd, er eu bod mor fychain."

"A ydych yn ddifrifol? Ydych chwi mewn gwirionedd yn credu y fath chwedlau?"

"Credu? Mi a hoffwn pe yr aech i gysgu am noson i'r ystafell lle y mae y ffenestr wedi ei bario?"

Eithr pan y boddlonodd Mr. Pratt gysgu yn yr ystafell, gwrthododd y gwestywr ganiatau iddo; dywedai nad oedd am gael ei orfodi i ateb am fywyd neu aelodau un o'i letywyr; ac yn mhellach fod y llyffaint bychain, fel y galwai y tylwyth têg mewn tymer ddrwg, yn dechreu blino hofran o gwmpas, ac ond iddo gadw yr ystafell yn nghau am ryw flwyddyn yn ychwaneg, efallai yr ymadawent ac y chwilient am gyrchfa arall. Hawdd deall nad oedd y tafarnwr ond yn rhoddi llais i'r gred gyffredinol a ffynai trwy y wlad, a bod yr holl gymydogaeth yn credu yn y tylwyth têg, ac yn awdurdod yr offeiriad arnynt.

Er prawf pa mor ofergoelus oedd y cyffredin bobl yr adeg yma, hyd yn nod yn y Deheudir, ac fel y ffynai syniadau ac arferion Pabyddol yn eu mysg, cymerer y difyniadau canlynol allan o lyfr a ysgrifenwyd gan Erasmus Saunders, D.D., ac a gyhoeddwyd yn Llundain yn y flwyddyn

* Pratt's *Gleanings in Wales, Holland, and Westphalia.*

1721, sef tua phymtheg mlynedd cyn cyfodiad Methodistiaeth. Enw y llyfr yw, "*A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's about the Beginning of the Eighteenth Century.*" Amcan yr awdwr yn y difyniadau hyn yw dangos fod y Cymry yn meddu tueddfryd grefyddol; wrth fyned heibio, ac yn mron o'i anfodd, y cyfeiria at eu hofergoeledd.* "Y maent," meddai am y werin Gymreig, "yn croesi eu hunain, fel y gwnelai y Cristionogion cyntefig, ar lawer o achlysuron, gyda saeth-weddi fer ar iddynt trwy groes Crist gael eu cadw. Yn y rhanau mwyaf mynyddig, lle y glynir yn benaf wrth yr arferion a'r symlrwydd henafol, yno gwelwn y bobl ar eu dyfodiad i'r eglwys, yn myned ar eu hunion at feddau eu cyfeillion, a chan benlinio yn offrymu eu gweddi i Dduw." Ni ddywed yr awdwr am ba beth y gweddïent, ond y mae yn dra sicr, oddiwrth eiriau Mr. Johnes ac eraill, mai gweddïo ar ran y marw a wnaent, ar iddo gael ei waredu o'r purdan; oblegyd y ffurf-weddi a arferid yn gyffredinol ydoedd, "Nefoedd iddo." Ond i ddychwelyd at ddesgrifiad Dr. Erasmus Saunders: "Yn enwedig ar wyl genedigaeth ein Harglwydd, oblegyd y pryd hwn deuant i'r eglwys gyda chaniad y ceiliog, gan ddwyn gyda hwynt ganhwyllau neu ffaglau, y rhai a osoda pob un i losgi ar fedd ei gyfaill ymadawedig; yna dechreuant ganu eu carolau, a pharhant i wneyd hyny er croesawi yr wyl agoshaol, hyd amser y weddi. Ond gyda yr hen arferion diniwed a da hyn, y maent wedi dysgu llawer o ymarferiadau coelgrefyddol Pabaidd yn yr oesoedd diweddaf, fel yr arferant yn eu saeth-weddïau alw nid yn unig ar y Duwdod, ond hefyd ar y Forwyn Sanctaidd, ynghyd a seintiau eraill; canys y mae Mair Wen, Iago, Teilaw Mawr, Celer, Celynog, ac eraill yn cael eu cofio fel hyn yn fynych, fel pe y byddent hyd yma heb anghofio yr arfer o weddïo arnynt. Mewn llawer rhan o Ogledd Cymru, parhant mewn ystyr i dalu am y marw-ddefodau, trwy gyflwyno offrymau i'r gweinidogion ar gladdedigaethau eu cyfeillion, fel y dysgid hwy yn flaenorol i wneyd am eu gweddïo allan o'r purdan.' A yr awdwr yn mlaen i ddangos fod y cymysgedd o goelgrefydd a chrefydd, cyfeiliornad a gwirionedd, a ffynai yn mysg y werin, yn ffrwyth camarweiniad yn fwy na dim arall; gan sylwi yn mhellach fod y bobl yn fwy dyledus am hyny o grefydd ag a feddent i'w gonestrwydd a'u crefyddolder naturiol, i'w carolau, ac i ganiadau Ficer Llanymddyfri, nag i unrhyw lesiant a gaent oddiwrth weinidogion yr eglwys trwy bregethu neu gateceisio. Ychwanega: "Os nad ydym eto wedi dad-ddysgu cyfeiliornadau ein hynafiaid Pabyddol, y rheswm am hyny ydyw, nad yw athrawiaethau y Diwygiad Protestanaidd, a gafodd ei ddechreuad yn Lloegr tua dau can mlynedd yn ol, hyd yn hyn wedi ein cyrhaedd ni yn effeithiol, ac nid yw yn debygol y gwnant byth, heb i ni gael clerigwyr dysgedig a theilwng."

Gellid lluosogi toraeth o brofion ychwanegol gyda golwg ar iselder crefydd yn Nghymru, adeg cyfodiad Methodistiaeth, ynghyd a ffyniant ofer-gampau ac ammharch i'r Sabbath, yn y Deheudir yn gystal ag yn y Gogledd, ond ymfoddlonwn gyda rhoddi tystiolaeth y Parch. John Thomas, pregethwr Annibynol, gweinidog y Rhaiadr, a dwy eglwys arall yn Sir Faesyfed. Cyfansoddodd Hunan-gofiant yn y flwyddyn 1767, o ba un difynwn a ganlyn ar awdurdod y Parch. W. Williams, Abertawe, yn ei lyfr rhagorol, *Welsh Calvinistic Methodism.*† Ganwyd ef yn 1730, yn mhlwyf Myddfai, Sir Gaerfyrddin. O'i febyd yr oedd tan argraffiadau crefyddol cryfion; a theimlai, ac efe eto yn llanc, ei enaid yn ddolurus ynddo wrth weled annuwiaeth y bobl yn mysg pa rai yr oedd yn byw, ac hyd yn nod y pryd hwnw dechreuodd eu ceryddu. Yr oedd chwareu-gampau yn bethau cyffredin yn ei gymydogaeth, fel yn mhob cymydogaeth arall y pryd hwnw; am ryw gymaint o amser cymerai efe ran ynddynt, ond wedi iddo gael ei argyhoeddi o'u pechadurusrwydd, nid yn unig cefnodd arnynt eu hun, eithr ceisiai berswadio eraill i wneyd yr un peth. 'Yr wyf yn cofio,' meddai, 'myned un prydnawn Sul yn agos i eglwys fy mhlwyf genedigol, lle yr oedd nifer yn chwareu coetanau *(quoits)*, a thyrfa fawr, fel ffair, yn edrych arnynt. Yn fy ffordd blentynaidd fy hun, dechreuais ddweyd wrthynt am gyflwr eu heneidiau; chwarddent yn uchel, ac ymddangosent fel yn credu fy mod yn wallgof; eto, pa un ai mewn canlyniad i'm geiriau i, neu iddynt gael ei bygwth gan eraill, neu ynte ddarfod iddynt gael eu cnoi gan eu cydwybodau,

* Tudal. 17.

† *Welsh Calvinistic Methodism*, tudal. 18.

darfu i amryw o honynt roddi i fynu chwareu yn y fynwent. Ond aent wedin i gonglau lle nad oedd fawr tramwy; eithr mi a'i gwnaethum yn bwynt i'w canlyn, ac i lefaru wrthynt am y drwg o halogi Dydd yr Arglwydd felly. Weithiau bygythiwn alw ar wardeniaid yr eglwys, er y gwyddwn na fyddai hyny ond ofer, canys gan fod yn ddibris o'u llwon ni ddeuent hwy allan o'r tafarndai, er i mi fyned yno i'w cyrchu. O! chwychwi dyngwyr anudon, pa le y mae eich llwon!'

*Dechreuodd bregethu cyn bod yn ugain oed, gan deithio o gwmpas, a chael ei gamdrin yn enbyd mewn amryw fanau yn Neheudir Cymru. Pan yn pregethu yn yr awyr agored yn Nhregolwyn, Bro Morganwg, lluchiwyd wyau clwc ato nes yr oedd ei ochrau yn ddolurus, a'i ddillad yn orchuddiedig gan aflendid. Methwyd taro ei ben, gan fod hen wreigan yn dal het yn amddiffyn iddo. Yn Llangattwg, swydd Frycheiniog, daeth yswain y pentref, ynghyd a'r offeiriad a'r clochydd, a gwr y tŷ tafarn, allan i'w wrthwynebu. Gafaelodd y cyntaf o'r rhai hyn yn ei goler, a rhoddodd ergyd iddo ar ei foch, ac yna dychwelasant yn eu holau i'r tafarndy. Yn Nghrug-hywel parai ysgrechfeydd y terfysgwyr i arswyd dreiddio trwy ei gnawd, a darfu iddynt ddrylio ffenestr y ty yn mha un y pregethai. 'Yr oeddwn† unwaith,' meddai, 'gerllaw eglwys Ystrad, yn Morganwg, tra yr elai chwareuyddiaethau yn mlaen, a sefais i bregethu wrth glawdd y fynwent. Yna darfu i'r rhai oeddynt yn chwareu pêl, ac yn dawnsio, ymatal, gan ddyfod y tu arall i'r clawdd i wrando, y ffidleriaid a phawb. Gwedi i'r offeiriad, yr hwn oedd yno gyda hwynt, golli eu gwmni, dywedodd wrth y ffidleriaid: Os ydych yn disgwyl cael eich talu, ewch yn mlaen a'ch gwaith; a chwithau sydd yn siarad, ewch ymaith oddiwrth y fynwent, daear gysegredig ydyw."

Profa y tystiolaethau hyn, a llawer o rai ychwanegol a ellid ddwyn yn mlaen, y rhai a gawsant eu hysgrifenu yn hollol annibynol ar eu gilydd, ac heb un amcan heblaw adrodd ffeithiau hanesyddol, fod cyflwr Cymru yn gyfangwbl fel y darfu i Williams, Pantycelyn, a Charles o'r Bala, ac eraill ei desgrifio; sef yn llawn annuwioldeb, anwybodaeth agos a bod yn baganaidd, ac ofergoeledd Pabyddol; na feddai y werin bobl fawr gwybodaeth am Dduw, na pharch i'r Sabbath, ond eu bod yn ymroddi i ofer-gampau a meddwdod, a phob math arall o lygredigaeth. Cadarnheir y cyfryw dystiolaethau, pe bai eisiau cadarnhau arnynt, gan yr erledigaethau a'r ymosodiadau creulon a wnaed ar y Methodistiaid cyntaf, pan yn myned o gwmpas i bregethu yr efengyl. Gwelir na chyfyngid yr erledigaethau o gwbl i Ogledd Cymru, er efallai mai yno y buont ffyrnicaf ac y darfu iddynt barhau hwyaf, ond eu bod yn cael eu cario yn mlaen yn y Dè yn ogystal. Yn sicr, pe bai rhanau helaeth o'r Deheudir wedi cael agos eu llwyr feddianu yn flaenorol gan yr Ymneillduwyr, fel y myn Dr. Rees, buasai y fath ymosodiadau ciaidd ar ddynion a deithient o gwmpas heb unrhyw amcan ond ceisio dwyn y byd at Grist, yn hollol amhosibl.

Cyn cael dirnadaeth glir am sefyllfa grefyddol y Dywysogaeth yr adeg y cyfeiriwn ati, rhaid i ni ddangos ansawdd crefydd yn yr Eglwys Wladol, ac yn mysg yr Ymneillduwyr. Am yr Eglwys Sefydledig, addefa ei haneswyr hi ei hun fod crefydd ynddi mewn ystâd ddirywiedig tu hwnt. Dywed Dr. Erasmus Saunders‡ fod amryw o eglwysydd wedi cael eu troi, naill ai yn ysguboriau neu yn ystablau; a bod eraill, enwau y rhai a roddir, heb neb yn tywyllu eu drysau, ac wedi dyfod yn aneddau y ddalluan a'r frân goeg. "Prin," meddai, "y cofia neb at ba wasanaeth eu bwriedid, os nad feallai yn Llanybri, lle y mae perchen y degwm wedi rhenti yr eglwys i'r Ymneillduwyr, y rhai oeddynt yn falch o'r cyfleustra i droi eglwys yn dŷ cwrdd. Mewn rhai lleoedd y mae genym eglwys heb ganghell; mewn eraill nid oes genym ond darn o eglwys; hyny yw, un pen, neu un ochr yn sefyll; tra y mae rhai plwyfi heb ddim o gwbl. Mewn llawer iawn nid oes seddau, gyda'r eithriad o ychydig o ystolion a meinciau geirwon a thoredig draw ac yma. Y mae eu ffenestri bychain heb wydr, ac wedi eu tywyllu gydag estyll, matiau, neu ddellt, er cadw y gwynt a'r gwlawogydd allan. Eu muriau ydynt wyrddion, yn briwsioni i ffwrdd, ac yn ffiaidd; ac yn aml heb na golch na phlastr. Eu tô sydd yn darfod, yn crynu, ac yn gollwng defni; a'u lloriau ydynt wedi eu rhychio a beddau afiach, heb ddim palmant, ond wedi eu gorchuddio yn unig ag ychydig frwyn." Hawdd deall nad oedd neb yn

* *Welsh Calvinistic Methodism*, tudal. 19. † *Ibid.*

‡ *A View of Religion in the Diocese of St. David's*, tudal. 17.

gofalu am y lleoedd hyn, nac yn cyrchu iddynt i addoli. Nid oedd y persondai neu y ficerdai ychwaith ond cotiau gwael; ni allai y clerigwyr, er tloted eu byd, fyw ynddynt; felly ardrethid hwy i rywun a'u cymerai. Yn aml syrthient i ran y clochydd; yr hwn, er mwyn cynal corph ac enaid wrth eu gilydd rywlun, a gai y fraint o werthu cwrw yn ymyl y fynwent.

Nid oedd yr offeiriaid nemawr gwell na'r eglwysydd. Llenwid yr esgobaethau Cymreig gan Saeson, nad oeddynt yn gofalu o gwbl beth a ddeuai o'r genedl; ni fwriadent ychwaith aros yn eu gwahanol esgobaethau, gan mor dloted oeddynt, ond am amser byr, ac hyd nes eu dyrchefid i esgobaeth gyfoethocach. Penodai y rhai hyn eu meibion, eu brodyr, eu neiaint, neu eu cyfeillion, i fywioliaethau Cymreig, er eu bod yn Saeson, ac yn analluog i ddarllen na phregethu yn iaith y plwyfolion.* Yn nechreu y ddeunawfed ganrif yr oedd y rhan fwyaf o Sir Faesyfed yn Gymreig; a chawn ohebiaeth ddyddorol rhwng plwyfolion Glascwm, yr hwn blwyf a orwedda tua chanol y Sir, ag Esgob Tyddewi, gyda golwg ar yr offeiriad oedd newydd gael ei appwyntio iddynt. Yn flaenorol darllenid y llithiau yn Gymraeg a Saesneg ar yn ail; felly hefyd gyda golwg ar y gweddïau; a phregethid yn Saesneg un Sabbath, ac yn Gymraeg y Sabbath dilynol. Ond am yr offeiriad newydd, cariai ef y cyfan yn mlaen yn Saesneg. Dymunai y plwyfolion i'r Esgob ei orfodi i gario y gwasanaeth yn mlaen yn ddwy ieithog, neu i gyflogi rhyw weinidog galluog a wnelai hyny drosto. Ymddengys i'r Ficer ar arch yr Esgob geisio cydsynio a'u dymuniad. Ond cyn pen ychydig fisoedd, anfonent gwyn arall at yr Esgob, sef fod yr offeiriad wedi ymgymeryd a darllen y gwasanaeth yn Gymraeg, ond nad oedd neb yn deall gair a lefarai, am nad oedd yn Gymro, nac wedi dysgu yr iaith. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1743. Yr oedd yn amcan gan yr esgobion a'r clerigwyr Saesnig i alltudio y Gymraeg allan o'r tir. Meddai Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir), mewn llythyr at ei gyfaill Rhisiart Morys, dyddiedig Mehefin 23, 1766. "Am danom ni yn yr Esgobawd yma (Llanelwy), y mae'r Esgob yn cael gwneuthur a fyno yn ddiwarafun; sef y mae, megys Pab arall, wedi dyrchafu tri neu bedwar o'u neiaint i'r lleoedd goreu, lle yr oedd Cymry cynhenid gynt yn gweinyddu, ac ni chaiff y curadiaid danynt ddarllen mo'r Gymraeg. Ac myfi a glywais hefyd ddywedyd yn ddiweddar fod dau Sais arall yn Sir Drefaldwyn, mewn dwy eglwys a elwir Castell ac Aber Hafesb, yn darllen Saesneg yn gyfan drwy gydol y flwyddyn, er nad oes mo haner y plwyfolion yn deall nac yn dirnad dim ag a draethir ganddynt. Myfi a glywaf fod gwyr Môn am ddeol y Sais brych a dderchafwyd i fod yn Berson Trefdraeth i'w wlad ei hun."† Nid rhyfedd fod y Prydydd Hir yn ychwanegu—"Duw a ddelo ag amseroedd gwell, ac a atalio ar eu rhwysg, rhag iddynt andwyo eneidiau dynion dros fyth!"

Ychydig iawn o bersoniaid Eglwys Loegr a fedrai bregethu yn iaith y bobl, ïe, hyd yn nod o'r Cymry. Gan mwyaf yr oeddynt yn greaduriaid diddysg‡ ac anwybodus, heb feddu unrhyw gymhwysder ar gyfer eu swydd gysegredig parthed talent, cymeriad, na dawn ymadrodd, ond yn unig eu bod wedi medru ymwthio i ffafr rhywun a feddai ddylanwad ar berchenog y fywioliaeth. Fel yn mhob adeg o ddirywiad crefyddol, gwnelid gwehilion y bobl yn offeiriaid. Meddai Dr. Erasmus Saunders: "Nis gellir ameu fod ordeinio personau sydd eu hunain yn ddirmygus yn tueddu i daflu dirmyg ar eu swydd; ac y mae felly pan fyddo unrhyw damaid o ysgolfeistr sydd yn dysgu yr A B C, neu drulliad gŵr bonheddig, neu gwas, neu bob peth yn mron, yn cael eu derbyn mor rhad i'r offeiriadaeth ar sail cymeradwyaeth rhyw berchenog degwm, a fyddo am gael caplan yn rhad, neu ynte am gael gwared o was diwerth." Medrai y rhai hyn Gymraeg pen heol; gallent gyfeillachu ag yfwyr cwrw yn y tafarndai trwy gyfrwng yr iaith gysefin, ond ni feddent iaith pwlpud. Dywed y Parch. G. Jones,§ y darllenent lyfrau Saesneg, pan yn ceisio parotoi ar gyfer y Sabbath; ond wedi clytio rhyw fath o bregeth, a dyfod i'r pwlpud i'w thraddodi, yr oedd y fath ffregod baldorddus, ansoniarus, a llygredig, fel na allai y gwrandawyr ddeall gair o honi. Cyhuddiad o gyffelyb natur, onide, a ddygasai John Penry, y merthyr Cymreig, yn erbyn offeiriaid ei ddyddiau ef? sef eu

* *Diocesan History of St. David's.*

† Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir). Golygedig gan D. Silvan Evans, B.D., tudal. 202.

‡ *State of Religion in the Diocese of St. David's.*

§ *Welsh Piety.*

bod yn amddifad o eiriau crefyddol a thermau duwinyddol, ac felly yn methu gwneyd eu hunain yn ddealladwy yn y pwlpud, er y gallent gario yn mlaen ymddiddan mewn iaith weriniol ar ben y ffordd fawr, neu yn nghongl yr aelwyd.

Gwaeth na'r cyfan, yr oeddynt yn ddigymeriad, a llawer o honynt yn byw mewn annuwioldeb cyhoeddus. Nis gallent gynghori yr anfoesol, na chyhuddo y drygionus, am eu bod hwy eu hunain yn llygredig.* "Nis gellir cuddio," meddai Griffith Jones, "ddarfod i amryw o oferwyr halogedig gyffesu mai y gwir reswm am eu hinffideliaeth a'u rhysedd cnawdol, oedd y syniad isel a feddent am yr offeiriaid; y rhai, fel y tybient, na feddent fwy o ffydd mewn Cristionogaeth na hwythau, onide y byddent yn pregethu ac yn byw yn well." Cawn yr un gŵr parchedig, mewn llythyr o'i eiddo ar gateceisio, yn ymosod yn ddiarbed ar † y "periglor-iaid a'r ficeriaid diog, y rhai a arweinient fywyd difater, ac a warient eu hamser mewn cadw cwmniaeth, ac mewn meddwi ar hyd y tafarndai, yn lle glynu wrth eu llyfrau, a chyflawni eu dyledswydd." Pan yr oedd gweinidogion y Gair eu hunain yn byw mewn rhysedd annuwiol, ac yn dangos yn amlwg yn eu bucheddau nad oeddynt yn credu nac yn parchu y gwirionedd, y tyngasent lŵ o ffyddlondeb iddo ar eu hordeiniad, pa ryfedd fod y rhai y tu allan, yn wreng a boneddig, yn cymeryd yn ganiataol nad oedd Cristionogaeth ond ffug, na chrefydd ond chwedl, a'u bod yn troi eu cefnau ar foddion gras, gan arwain bywyd penrhydd?

Cyfaddefa Dr. Erasmus Saunders ‡ fod llawer o eglwysydd yn y rhai na fyddai na phregethu, na chateceisio, na gweinyddiad o'r cymun bendigaid, yn cymeryd lle ond anaml, os un amser; ac mewn eglwysydd eraill nad oedd y gweddïau yn cael eu darllen ond yn rhanol, a hyny efallai unwaith y mis, neu unwaith y cwarter. Ond y mae yn taflu y bai ar fychander cyflog y cuwradiaid. Gorfodid hwy i wasanaethu tair neu bedair o eglwysydd, a'r rhai hyny yn mhell oddiwrth eu gilydd, am ryw ddeg neu ddeuddeg punt y flwyddyn; a gofyna mewn llid, pan fyddo pethau fel hyn, pa drefn neu reoleidd-dra ellir ddisgwyl? "Gorfodir hwy," meddai, "yn awr gan eu bod wedi eu hordeinio, i blygu i unrhyw delerau; rhaid iddynt naill ai newynu neu ynte foddloni i'r gyflog waelaf, gan gerdded a gweithio am dani cyhyd ag y medrant. A chan fod eu hamser mor fyr, a chanddynt hwythau gynifer o leoedd i'w gwasanaethu, mor frysiog ac fel allan o anadl y rhaid iddynt ddarllen y gweddïau, neu eu byrhau a'u talfyru! Pa amser sydd ganddynt hwy neu eu cynulleidfaoedd i ymlonyddu, tra y gorfodir hwy fel hyn i fod yn fath o ysgogiad parhaus (*perpetual motion*), neu deithwyr ffrystiog yn brysio o gwmpas o le i le? Nid oes unrhyw amser penodol i fyned i'r eglwys, ond iddi fod yn ddydd Sul; rhaid i'r dyn tlawd (y cuwrad) ddechreu unrhyw bryd, gyda chynifer ag a fyddo yno, yn foreuach neu yn hwyrach, fel y byddo yn gallu d'od o gwmpas. Yna brasgama yn gyflym tros gynifer o weddïau ag a all mewn rhyw haner awr, a chwedin ail-gychwyna i'w daith, gyda chylla gwag (oblegyd pa mor llym bynag y byddo ei chwant bwyd, anaml y mae ganddo amser i gymeryd cinio; ac anaml y gall deiliad y ffermddegwm fforddio rhoddi cinio iddo) hyd nes y byddo wedi gorphen ei gylch, neu ynte hyd nes y byddo blinder neu dywyllwch y nos yn peri iddo orphwys. Efallai o ddiffyg ychydig luniaeth gartref yr â i le na ddylai, ag y bydd yn debyg o gyfarfod a'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa, y rhai pan fyddo y gwasanaeth byr drosodd, a deimlant yn rhydd i dreulio gweddill y dydd yn y tafarndŷ, neu mewn rhyw chwareuon dymunol yn eu golwg."

Profa y tystiolaethau hyn, a gymerwyd oll allan o weithiau awdwyr eglwysig, ynghyd ag eraill a ellid ychwanegu atynt, fod yr Eglwys Wladol yn hollol amddifad o allu i wrthsefyll y llygredigaeth oedd yn dyfod i mewn fel diluw, ac i ddyrchafu moes a chrefydd. Gydag eglwysydd afiach, brwnt, a dadfeiliedig; gyda gwasanaeth crefyddol ffrystiog, difater ar y Sul, na wyddai neb pa awr o'r dydd y cymerai le; a chyda clerygwyr anfucheddol, dirmygus yn ngolwg y cyhoedd, mwy cydnabyddus a chadair freichiau ac a chwmni dyddan y tafarndŷ nac a Gair Duw, ac mor anwybodus o'r iaith yn mha un eu ganed, fel na allent bregethu yn ddealladwy, nid oedd unrhyw ddylanwad ysprydol er da yn bosibl. Yn rhy aml yr oedd yr offeiriaid yn ffynonhellau llygredigaeth. Blaenorent yn mhob annuwioldeb

---

* *Welsh Piety.*

† *Diocesan History of St. David's.*

‡ *A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's.*

a rhysedd; ymgymysgent ag oferwyr ar y Sabbath, gan gymeryd rhan flaenllaw yn y campau halogedig, ac yr oedd eu bywyd preifat yn fynych yn waradwydd. Pa ryfedd felly fod crefydd yn cael ei chablu?

Nid gorchwyl hawdd yw cael gwybodaeth gywir am rif a nerth yr Ymneillduwyr yr adeg hon, yn nghyd a'r dylanwad a feddent ar y wlad. Wrth yr "Ymneillduwyr" yr ydym yn golygu yr Henaduriaethwyr, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, er fod y Crynwyr yn ogystal yn gryfion mewn rhai parthau o Gymru. Nid ydym am atal dim o'r clod dyledus i'r Tadau Ymneillduol, nac am fychanu y llwyddiant ddarfu ganlyn eu hymdrechion. Dynion gwronaidd a llawn o ffydd oeddynt; llafuriasant yn galed o blaid yr efengyl tan anhawsderau dirfawr, ac ni chyfrifent eu heinioes yn werthfawr pan yn cyhoeddi gwirionedd Duw i'w cydwladwyr. Braidd na ddaliai y dyoddefiadau yr aethant drwyddynt eu cymharu a chyfres dyoddefiadau yr Apostol Paul. Gorthrymwyd hwy gan ddeddfau anghyfiawn a chan swyddogion gwladol didosturi; erlidiwyd hwy fel petris ar hyd copäu'r mynyddoedd; yr oeddynt yn gydnabyddus a charcharau, yn gystal ag a newyn ac a noethni. Bydd enwau Walter Cradoc, Vavasour Powel, Stephen Hughes, Hugh Owen, Bronyclydwr, a'u cydlafurwyr agos mor enwog a hwythau, mewn coffa parhaus yn Nghymru. Darllena eu hanes fel rhamant. Os ystyrir iselder cyflwr y genedl pan wnaethant eu hymddangosiad, a'r rhwystrau oedd ganddynt i ymdrechu yn eu herbyn, rhaid i bawb deimlo iddynt wneyd gwaith mawr. Buont yn foddion i gasglu cynulleidfaoedd, ac i ffurfio eglwysi, mewn amryw ranau o'r wlad, llawer o ba rai sydd yn aros hyd heddyw. Gwir mai bychain oedd yr eglwysi, ac mai mewn tai anedd yr ymgynullid i wrando yr efengyl yn cael ei phregethu; ond os na allent rwystro a throi yn ol y llifeiriant pechadurus oedd wedi goresgyn y wlad, medrent ddwyn tystiolaeth dros Dduw yn ei ganol, fel ag i wneyd cydwybodau rhai yn anesmwyth.

Dadleua y Parch. Thomas Rees, D.D., yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales*, fod y Dywŷsogaeth, yn arbenig Deheudir Cymru, wedi cael ei hefengyleiddio i raddau mawr cyn cychwyniad Methodistiaeth trwy lafur y gwyr enwog uchod, ynghyd a'u holynwyr; ac mai myned i mewn i'w llafur hwy a medi yr hyn a gawsai ei hau ganddynt, a wnaeth y Diwygwyr Methodistaidd. Yn hyn yr ydym yn credu ei fod yn cael ei arwain ar gyfeiliorn gan ei zêl enwadol. Un prawf a roddir ganddo yw fod cynulleidfaoedd cyntaf Howell Harris a Daniel Rowland wedi cael eu casglu yn y cymydogaethau hyny lle yr oedd eglwysi Ymneillduol yn barod. Yr awgrym yw mai dynion oeddynt yn flaenorol yn aelodau yn yr eglwysi hyny a ffurfient gynulleidfaoedd cyntaf y Methodistiaid, ac nid rhai wedi cael eu hachub trwy weinidogaeth y pregethwyr Methodistaidd. Y mae hyn yn hollol groes i dystiolaeth bendant Howell Harris. Pan yn ceryddu Edmund Jones, Pontypwl, mewn modd nodedig o dyner ac efengylaidd, am ffurfio eglwysi Ymneillduol yn Defynog a manau eraill heb ymgynghori ag ef, nac a Daniel Rowland, dywed: "Y mae y rhan fwyaf o'r bobl wedi cael eu galw trwy ein gweinidogaeth ni. Pe y rhoddech eich hun yn ein lle ni, gwelwch nad yw yr hyn a wnaethoch yn iawn, mwy na phe bawn i yn dyfod ac yn cymeryd eich pobl chwi i ffwrdd yn ddirgel oddiwrthych chwi." Prawf y difyniad hwn, i'r hwn ni atebodd Edmund Jones air, mai nid o eglwysi yr Ymneillduwyr oeddynt yn barod mewn bodolaeth y ffurfiwyd *societies* cyntaf Howell Harris a Daniel Rowland, ond o ddynion annuwiol a gawsant eu hargyhoeddu trwyddynt. Yr un fath, cydnebydd eglwys y Groeswen, yn y llythyr a anfonodd i'r Gymdeithasfa yn 1746, wrth ofyn am i rai o'i phregethwyr cynorthwyol gael eu hordeinio, mai plant ysprydol y gweinidogion Methodistaidd oedd yr aelodau. Yr hyn a brofir gan sefydliad *societies* Methodistaidd yn nghymydogaeth hen eglwysi Ymneillduol yw, fod yr eglwysi hyny ar y pryd yn fychain o ran rhif, eu bod yn gwanhau yn gyflym, ac heb fawr dylanwad ar y wlad o gwmpas.

Addefa Dr. Rees fod cyflwr ysprydol Gogledd Cymru yn cyfateb yn hollol i'r desgrifiad a rydd Mr. Charles o'r Bala, yn y *Drysorfa Ysprydol*,* o agwedd y Dywysogaeth. Yr oedd Mr. Charles y fath fel na feiddir ei gyhuddo o gam-ddarluniad. Ond honir mai Gwynedd yn unig a ddesgrifiai, a bod cyflwr y wlad yn y Deheubarth yn dra gwahanol. Anghofir, pa fodd bynag, ddarfod i Mr. Charles gael ei ddwyn i fynu yn y Dê, ac mai yno y trigodd,

* *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 278.


gyda'r eithriad o'r adeg y bu yn Rhydychain, hyd nes cyrhaedd oedran gŵr; ac felly ei fod yn gwbl gydnabyddus ag agwedd crefydd yn yr oll o Gymru. Pe buasai cyflwr y Deheubarth yn gwahaniaethu mor fawr ag y tybir gan rai oddiwrth eiddo y Gogledd, y mae yn hollol sicr y buasai gŵr o degwch Mr. Charles, un ag oedd mor gymhedrol ac mor ofalus yn ei ymadroddion, yn galw sylw at hyny pan yn darlunio agwedd y wlad. Y mae y rheswm a rydd Dr. Rees am y gwahaniaeth tybiedig rhwng y Gogledd a'r De yn ddychymygol ac yn blentynaidd. Dywed fod y gweinidogion yn mron oll yn Ddeheuwyr, a bod y fath wahaniaeth rhwng tafodiaith y ddwy dalaeth, fel yr oedd eu pregethau i raddau mawr yn annealladwy i drigolion Gwynedd, ac y defnyddient ymadroddion yn y pwlpud a pha rai y cysylltai y gwrandawyr y syniadau mwyaf chwerthinllyd a digrifol. Gwir y gwahaniaetha ieithoedd y ddwy dalaeth i raddau; ond pan aeth pregethwyr cyntaf y Methodistiaid i Wynedd, ni cheir un awgrym fod y werin yn methu eu deall, na bod eu geiriau yn cynyrchu digrifwch. Yn hytrach, cynyrchent gyffro angerddol; parent i rhai ymgynyrfu mewn llid, ac i eraill waeddu mewn pryder oblegyd eu cyflwr. Deheuwr, o Ddyfryn Nedd, oedd Mr. Lewis Rees, a fu yn weinidog llwyddianus am agos i chwarter canrif yn Llanbrynmair; geiriau Dr. Rees am dano ydynt: *"Trwy fendith Duw yn cydfyned a'i ymdrechion diorphwys, ac ag eiddo y pregethwyr bywiog o'r Deheubarth a wahoddai i ymweled a siroedd esgeulusedig y Gogledd, megys Howell Harris, Jenkin Morgan, ac eraill, cymerodd adfywiad ar grefydd le, yr hyn mewn amser a effeithiodd gyfnewidiad hapus yn agwedd foesol y wlad." Buasai hyn yn amhosibl pe y byddent yn methu gwneyd eu hunain yn ddealladwy i'r werin. Anhawdd cyfrif hefyd am yr erledigaethau enbyd a'r ymosodiadau cywilyddus a wnaed ar Howell Harris a Daniel Rowland, ynghyd a chynghorwyr cyntaf y Methodistiaid, yn y Deheubarth yn gystal ac yn y Gogledd, pe y buasai y wlad wedi cael ei meddianu mor llwyr ag y tybir gan rai gan yr Ymneillduwyr.

Seilia Dr. Rees ei honiad, fod y Deheudir wedi cael ei meddianu i raddau mawr gan yr Ymneillduwyr cyn cyfodiad Methodistiaeth, yn benaf ar ddwy o daflenau. Un yw y daflen a baratowyd gan y clerigwyr, trwy orchymyn Archesgob Canterbury, yn y flwyddyn 1669, pan yr adfywiwyd y *Conventicle Act.* Rhoddir nifer y capelau yn mhob esgobaeth yn Lloegr a Chymru, ac y mae y papyrau ar gael yn bresenol yn mhalas Lambeth. Methwyd dod o hyd i daflenau esgobaethau Bangor a Thyddewi; rhai Llandaf a Llanelwy yn unig sydd ar gael. Y daflen arall yw yr un a gasglwyd trwy ymdrechion Dr. John Evans o Lundain, yn y flwyddyn 1715, yr hon sydd ar glawr a chadw yn bresenol yn llawysgrif Dr. Evans, yn llyfrgell Dr. Daniel Williams, Gordon Square, Llundain. Yn hon rhoddir rhifedi a grym y cynulleidfaoedd Ymneillduol trwy Gymru a Lloegr yr adeg hono. Mewn cysylltiad a hyn ymddengys yr ystyriaethau canlynol i ni yn briodol.

*Nad yw y taflenau hyn, na'r casgliadau a dynir oddiwrthynt, yn gyfryw ag y gellir ymddiried nemawr ynddynt.* Cymerer yr ystadegau a anfonwyd gan y clerigwyr i Archesgob Canterbury yn 1669. Dywed Dr. Rees y gallwn fod yn sicr nad yw rhif y gwrandawyr yn cael ei osod yn fwy nag ydoedd mewn gwirionedd. Ond dibyna hyn yn gyfangwbl ar yr amcan mewn golwg. Y tebygolrwydd yw yr amcanai y clerigwyr ail ddefro yr erledigaeth yn erbyn yr Ymneillduwyr, ar y tir eu bod yn annheyrngar, ac o herwydd hyny yn beryglus i'r llywodraeth; felly pa liosocaf y gellid gwneyd eu cynulleidfaoedd, mwyaf oll yr ymddangosai y perygl, a chryfaf y rheswm dros i'r gallu gwladol ail osod mewn grym y deddfau cosbawl yn eu herbyn. Dengys Dr. Rees ei hun† nas gall dim tebyg i gywirdeb berthyn i'r ystadegau yma, am fod y cyfarfodydd yn cael eu cynal mor ddirgel ag oedd bosibl, fel yr oedd yn gwbl annichonadwy i'r clerigwyr a'r wardeniaid, y rhai a gasglent y cyfrif, wybod y nifer a ymgasglai ynghyd. Dywed tafleni 1669 fod y gynulleidfa a ymgynullai yn Merthyr Tydfil, yn nhai Howell Rees Philip ac Isaac John Morgan—sef, gallwn feddwl, ar yn ail; Sabbath yn un tŷ a Sabbath gwedin mewn tŷ arall—ynghyd a'r werinos gymysg a'r Crynwyr yn nhai Jenkin Thomas, Harry Thomas, a Lewis Beck, yn rhifo tri, pedwar, pump, ac weithiau chwech cant. Ymddengys i ni fod cynulleidfa o chwech cant o bersonau mewn ychydig dai tlodion yn Merthyr yr

* *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 413.

† *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 172.



# WALES

| Places of Meeting | Preachers | Ordain'd | Directions | Numbr. of Hearers / Voters for — Count. / Burg. / Mag. |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | 137 |

## Anglesea

| Places of Meeting | Preachers | Ordain'd | Directions | Number |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Llangefny. Llangian } | ye same Minr. as in Caernarvonsh. | | | Number of these includ in that for Carnarvonsh. |

## Brecknockshire.

| Places of Meeting | Preachers | Ordain'd | Directions | Number |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| ~~[illegible]~~ Dyffrynhonddi. | ~~David Price~~ John Davies. | ~~g~~ P | / | 150 / sevl Voters. |
| Tredustan. | ~~John Powel.~~ William Williams, from Strodwater, 1729. | g.d. 1729. | | 250 / 40 |
| Brecon. | B.T. James Watkins. | g.f. 5tt. | | 70 / 8. |
| Llanhas & Llanwrlid } | James Davies. | g. | | 800 / 30 |
| Llangynidr | Evan John. | | | 100 / few Voters |
| Golchon, Trosed &c. | Richard Williams. | A | | 400 / few Votes. |
| | | | | 1770. / 78 |

PHOTOGRAPH O DUDALEN O YSTADEGAU DR. JOHN EVANS.

adeg hono yn anmhosibl; ac naill ai fod dychryn yr ysgrifenydd yn peri iddo weled y rhif yn fwy nag ydoedd, neu ynte ei fod yn wirfoddol yn cam-arwain yr Archesgob.

Sylwer eto ar ystadegau Dr. John Evans, a gasglwyd tua'r flwyddyn 1715. Yn ol y llawysgrif, rhoddwyd y cyfrif am Sir Fynwy gan Mr. Joseph Stennett o'r Fenni, mewn llythyr at Mr. Henry Bendish; ac am Ddê a Gogledd Cymru gan Mr. Charles Lloyd, Brycheiniog, trwy Mr. Barrington. Rhydd hon rifedi yr Ymneillduwyr yn Nghymru yr adeg yma yn ugain mil. Nid ydym yn gwybod i ba raddau y gellir ymddiried yn yr ystadegau hyn ychwaith. Diau y gwnaed a ellid i arddangos y cynulleidfaoedd Ymneillduol mor lliosog, a'r personau a berthynai iddynt mor gyfrifol a pharchus, ag oedd modd; oblegyd amcan yr ystadegau oedd dangos i'r Toriaid a geisient adfywio y cyfreithiau erlidgar, ac hefyd i'r Whigiaid yn y rhai y gobeithid, pa mor gryf oedd Ymneillduaeth trwy y deyrnas, ac na ellid ymosod arni yn ddiberygl. Gan hyny, y mae yn sicr na chyfrifwyd y gwahanol gynulleidfaoedd yn llai nag oeddynt. Caria yr ystadegau ar eu gwyneb amddifadrwydd o fanylwch. Crynhoir amryw eglwysi ynghyd; wedi enwi dwy neu dair, cawn yn fynych "&c.,' yn dynodi fod cyfrif eglwysi eraill, na roddir eu henwau, yn cael ei osod i mewn; ceir un eglwys a chynulleidfa weithiau yn cael eu harddangos fel yn wasgaredig tros wlad deugain milltir o hyd wrth ugain o

led; yr hyn sydd yn profi yn eglur mai cyfrif bys a bawd a roddir, ac nas gellir ymddiried nemawr ynddo. Am rai o'r ffugrau gwelir yn amlwg wrth ystyried poblogaeth y wlad yr adeg hono y rhaid eu bod yn gyfeiliornus. Er enghraifft, rhoddir cynulleidfaoedd Llanafan a Llanwrtyd, cymydogaethau anghysbell yn nghanol mynyddoedd Brycheiniog, fel yn rhifo wyth cant. Y mae yn amheus a gynwysai yr adran yma o'r wlad gynifer a hyny o drigolion yr adeg hono, hyd yn nod pe y cyfrifid y babanod ar y fron. Pa fodd bynag, proffesa yr ystadegau roddi *holl* nerth Ymneillduaeth, mewn rhifedi, cyfoeth, ac urddas sefyllfa. Oni wnaent hyny, ni chyrhaeddent yr amcan mewn golwg; yn wir, gellid eu defnyddio fel arfau ymosodol gan y gelynion. Heblaw rhif y gwrandawyr, rhoddir eu safle gymdeithasol, gan nodi yn fanwl rifedi y boneddwyr, ynghyd a'r rhai a berchenogent bleidlais yn eu mysg, fel y gwelir oddiwrth y *fac simile* (tudal. 15).

Buasai yn dda genym pe y gallasem adael yn y fan hon ystadegau Dr. John Evans, ynghyd a'r cofnodiad o honynt gan y Parch. Thomas Rees, D.D., ond ni feiddiwn; y mae ffyddlondeb i wirionedd, ynghyd a pharch i goffadwriaeth y Tadau Methodistaidd yn ein gorfodi i fyned yn mlaen, i ddynoethi y twyll dybrid sydd wedi cael ei arfer. Cofnoda Dr. Rees yr ystadegau, fel y maent yn y llawysgrif, yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales;* a phroffesa wneyd hyny yn llawn, air am air, ffugr am ffugr, a llythyren am lythyren. A darfu iddo wneyd hyny yn gywir *gydag un eithriad*. Ond y mae yr un eithriad hwnw mor bwysig fel y mae yn gwneyd yr oll o'r ystadegau yn gamarweiniol. Penawd y bumed golofn yn llawysgrif Dr. John Evans yw "rhif y gwrandawyr" (*number of hearers*); ac amlwg yw, fel y darfu i ni sylwi, y cyfrifid pawb y gellid mewn unrhyw ffordd edrych arnynt fel yn perthyn i gynulleidfaoedd yr Ymneillduwyr. Ond y mae Dr. Rees yn rhyfygus, ac heb awgrymu ei fod yn gwyro oddiwrth y gwreiddiol, wedi newid y penawd i "canolrif y rhai presenol" (*average attendance*)! * Gwel y cyfarwydd ar unwaith pa mor bwysig yw y newidiad hwn. Rhifai Dr. John Evans bawb a wrandawent gyda'r Ymneillduwyr, er na fyddent oll yn bresenol hyd yn nod pan fyddai y gynulleidfa fwyaf; ond ystyr "canolrif y gwrandawyr" yw nifer y rhai presenol pan na fydd y gynulleidfa nac yn fach nac yn fawr. Gwyddai Dr. Rees yn dda ei fod yn gwyrdroi y cyfrif, er gwneyd rhif yr Ymneillduwyr yn ddwbl yr hyn ydoedd, oblegyd y mae yn eglur ei fod wedi astudio y llawysgrif yn fanwl; wrth ei ddarllen daeth drachefn a thrachefn ar draws y penawd "rhif y gwrandawyr," fel yr oedd yn anmhosibl i'r gwall ddigwydd mewn camgymeriad. Yn wir, galwodd y Parch W. Williams,† Abertawe, sylw cyhoeddus ato; a chawn Dr. Rees yn y rhagymadrodd i'r ail argraffiad, yn ceisio ateb Mr. Williams ynglyn a rhai pethau, ond gadawa y mater pwysig hwn, sydd yn cyffwrdd a'i gymeriad fel hanesydd geirwir, heb ei gyffwrdd; yn hytrach, gesyd y daflen a lyrguniodd i mewn yn ei lyfr fel yn yr argraffiad cyntaf. Gwyddai Dr. Rees yn drwyadl pa mor bwysig a pheth oedd ystyr y cyfnewidiad a wnelai yn y penawd, oblegyd brysia i fanteisio ar y camwri a gyflawnodd, trwy ddweyd nad yw ‡ canolrif y presenolion un amser yn fwy na haner rhif y gwrandawyr; felly y rhaid fod nifer yr Ymneillduwyr yn Nghymru pan wnaed y cyfrifiad yn ddwbl yr hyn a geir yn y daflen, ac nas gallent fod yn llai na haner can mil, sef tuag un rhan o wyth o'r holl drigolion. Y mae yn wir ofidus fod gweinidog yr efengyl o safle barchus, ac un a ystyrid yn gyffredin yn hanesydd gofalus, wedi ymostwng i gyflawni gweithred anonest, yr hon yn ddiddadl a fwriedid i gamarwain. Y mae ein gofid yn fwy pan y cofiwn ei fod yn seilio yn benaf ar y twyll hwn ei gyhuddiad yn erbyn y Tadau Methodistaidd, sef ddarfod iddynt yn fwriadol gamddarlunio sefyllfa Cymru ar y pryd o ddirmyg at yr Ymneillduwyr, ac er mwyn tra-ddyrchafu eu gwaith eu hunain. Dyma enghraifft fyw o ddyn a thrawst yn ei lygad yn ceisio tynu brycheuyn allan o lygad ei frawd. Profa yr ymddygiad hwn o'i eiddo nas gellir rhestru Dr. Rees mwy yn mhlith haneswyr credadwy; o leiaf mewn amgylchiadau ag a fyddo yn tueddu i ddeffro ei ragfarnau enwadol. Yn ol ystadegau Dr. John Evans, yr oedd rhifedi yr Ymneillduwyr

* *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 259.

† *Welsh Calvinistic Methodism.*

‡ *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 226.

yn y Dywysogaeth ddechreu y ganrif ddiweddaf yn 20,007; yr ydym yn foddlawn i Dr. Rees ychwanegu atynt yr eglwysi y dywedir eu bod wedi cael eu gadael allan, ynghyd a'r Crynwyr, fel ag i wneyd y nifer o gwmpas saith-mil-ar-hugain, sef tuag un ran o bymtheg o'r holl boblogaeth. Tueddwn i feddwl fod hyn uwchlaw'r gwirionedd; pa fodd bynag, i'n pwrpas ni nid yw ychydig filoedd mwy neu lai o nemawr pwys; eithr y mae cywirder hanesyddol, a pharch i gymeriad rhai o'r dynion goreu a sangodd ddaear Cymru, o'r pwysigrwydd mwyaf. A dibynai dylanwad yr Ymneillduwyr ar y wlad yn y cyfnod y cyfeiriwn ato, nid yn gymaint ar eu lliosogrwydd, eithr yn hytrach ar grefyddolder, ymroddiad, ac yni eu cymeriad. Yn hyn ofnwn eu bod yn fwy diffygiol nag mewn rhifedi.

*Yn y cyfnod rhwng dechreuad y ddeunawfed ganrif a chyfodiad Methodistiaeth, yr oedd nerth Ymneillduaeth yn Nghymru wedi gwanychu yn ddirfawr, o herwydd dadleuon blinion yn yr eglwysi.* Yn y cynulleidfaoedd Ymneillduol cyntaf ceid Annibynwyr a Henaduriaethwyr, Trochwyr a Bedyddwyr babanod, yn aelodau o'r un eglwys. Am beth amser ni roddid cymaint o bwys ar y gwahaniaethau hyn; y pwnc mawr oedd cael pregethiad o wirioneddau hanfodol yr efengyl yn eu purdeb; a thueddai yr erledigaeth greulawn a ddioddefid i uno pob cynulleidfa, er y gwahaniaeth barn a allai fodoli rhwng gwahanol bersonau. Ond gwedi pasio Deddf Goddefiad yn y flwyddyn 1689, ac i'r erledigaeth mewn canlyniad beidio i raddau mawr, dechreuwyd rhoddi mwy o bwys ar y materion mewn dadl, a daeth anghysur dirfawr i mewn i'r eglwysi mewn canlyniad.

Un oedd y ddadl rhwng yr Henaduriaethwyr a'r Annibynwyr parthed ffurf-lywodraeth eglwysig. Diau i hon achosi cryn derfysg yn yr eglwysi, ac mewn dwy o leiaf bu yn achos ymraniad. Efallai mai yr eglwys Ymneillduol liosocaf a mwyaf ei dylanwad yn Nghymru, tua diwedd yr ail-ganrif-ar-bymtheg, oedd eglwys Gwrecsam. Sylfaenesid hi gan Walter Cradoc; buasai yr enwog Morgan Llwyd o Wynedd yn gweinidogaethu yma am dymhor, a hyny gyda chryn lwyddiant. Ond darfu i'r ddadl rhwng Dr. Daniel Williams, yr hwn oedd yn enedigol o'r lle, a Dr. Crisp, parthed ffurf-lywodraeth eglwysig, aflonyddu ar ei heddwch; a'r diwedd a fu, gwedi blynyddoedd o ymrafaelio blin, yn gynulleidfaol a thrwy y wasg, i'r Henaduriaethwyr ymadael a sefydlu achos perthynol iddynt eu hunain. Yn raddol hefyd newidiodd yr aelodau a adawsid ar ol eu barn gyda golwg ar fedydd, ac aethant yn Fedyddwyr. Cymerodd dadl flin le ynglyn a'r un mater yn eglwys Henllan, Sir Gaerfyrddin. Tueddai y gweinidog, y Parch. David Owen, ynghyd a mwyafrif yr aelodau, at Henaduriaeth, ond yr oedd y diaconiaid yn gryf o blaid Annibyniaeth. Parhaodd y ddadl o 1707 hyd 1710; gwnaed appeliadau mynych at y cymanfaoedd ac at y gwahanol weinidogion i geisio cyfryngu rhwng y pleidiau; ond bu pob ymgais yn ofer; ac yn y flwyddyn 1710, ymadawodd y Cynulleidfaolwyr, a ffurfiasant eglwys Annibynol yn Rhydyceisiaid. Yn mhen rhywbeth gyda deng mlynedd, newidiodd yr Henaduriaethwyr yn Henllan eu barn; anfonasant y Parch. Jeremiah Owen, y gweinidog, i ffwrdd, gan ordeinio Mr. Henry Palmer, un o'r diaconiaid a fuasai yn dadleu o blaid y ffurf-lywodraeth Annibynol, yn weinidog yn ei le. Er mai yn y ddwy eglwys a nodwyd yn unig, mor bell ag y gwyddom, y darfu i'r ddadl hon gyrhaedd eithafion mor fawr nes peri ymraniad, y mae yn bur sicr ddarfod i'r un pwnc fod yn destun ymrafael a blinder mewn llawer o eglwysi eraill.

Dadl arall a gariwyd yn mlaen mewn ysbryd tra annghristionogol oedd y ddadl ar fedydd. Cychwynodd tua diwedd yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg yn fuan gwedi pasio Deddf Goddefiad. Cawn hanes dadl gyhoeddus yn cymeryd lle ar y mater yn y flwyddyn 1692, mewn lle o'r enw Penylan, ar lechwedd y Frenni Fawr, yn Sir Benfro. Yno pregethai y Parch. John Thomas, Llwynygrawys, o blaid bedydd babanod; a'r Parch. Jenkin Jones, Rhydwilim, o blaid bedydd y crediniol. Yn hytrach na therfynu yr ymryson, gwasanaethodd hyn i fywhau y cyffro; cafodd y ddadl ei pharhau trwy y wasg mewn yspryd chwerw; daeth yr enwog Samuel Jones, Brynllywarch, allan o blaid yr Annibynwyr; tra y bu raid i'r Bedyddwyr anfon am gymorth i Loegr. Y canlyniad oedd ymraniad llwyr; ymwahanodd y ddwy blaid, gan sefydlu eglwysi o'r un golygiadau a hwy eu hunain. Ond gellir bod yn sicr na chymerodd hyn le heb gyffroadau poenus yn y gwahanol gynulleidfaoedd, yr hyn a fu yn wanychdod dirfawr iddynt, ac yn achos o ddirywiad mawr ar grefydd.

Ond o'r holl ddadleuon, yr un a barodd

fwyaf o ymrafael, ac y bu ei chanlyniadau fwyaf alaethus, oedd yr hon a elwir Y Ddadl Fawr Arminaidd. Dechreuodd syniadau Arminaidd lefeinio eglwysi Ymneillduol Cymru tua dechreuad y ddeunawfed ganrif. Cafodd y syniadau hyn gefnogydd yn Mr. Perrot, athraw yr athrofa Ymneillduol yn Nghaerfyrddin; o leiaf yr oedd y nifer fwyaf o'r efrydwyr a aent ato i astudio yn dyfod allan yn Arminiaid rhonc. Yr oedd yr Arminiaeth yma o nodwedd isel a hollol anefengylaidd; y gwir enw arni fuasai Pelagiaeth; ymylai ar Ariaeth, ac ymddadblygodd yn raddol i fod yn Undodiaeth. Dyma y rheswm fod llawer o eglwysi, a fuont unwaith yn uniongred, ac yn perthyn i'r Annibynwyr neu yr Henaduriaethwyr, yn siroedd Ceredigion, Caerfyrddin, a Morganwg, yn awr yn hollol Sosinaidd. Achosodd yr heresi newydd ddadleuon brwd, a chyffro dirfawr, yn yr eglwysi Ymneillduol. Ymdrechai y pleidiau orchfygu eu gilydd yn mhob dull a modd. Os mai y blaid Galfinaidd fyddai drechaf, mynai ddewis gweinidog o'r un golygiadau yn fugail ar yr eglwys. Yn mhen ychydig, efallai yr enillai yr Arminiaid y dydd, a mynent yru y Calfin ymaith, a dewis gweinidog Arminaidd yn ei le. Weithiau byddai dau weinidog, un yn Galfiniad a'r llall yn Arminiad, yn cydweinyddu i'r un bobl; a hyny nid oblegyd eu lliosogrwydd, ond er mwyn cyfarfod a golygiadau y ddwy adran ddadleuol yn yr eglwys. Pa fodd y pregethent, nis gwyddom; ai ar yn ail Sabbath ynte ar yn ail odfa; ond gwaith penodol y naill weinidog oedd tynu i lawr a dinystrio yr hyn oedd wedi cael ei adeiladu yn mhresenoldeb yr un gynulleidfa gan ei gyd-weinidog.

Cawn engrhaifft o hyn yn eglwys Cwmyglo, ger Merthyr Tydfil, lle yn ol pob tebyg, yr adeiladwyd y capel Ymneillduol cyntaf yn Nghymru. Yn nechreu y ganrif, gweinidog yr eglwys oedd y Parch. Roger Williams, gŵr o syniadau Arminaidd, ac yn pregethu ei olygiadau gyda hyfdra, er mawr foddlonrwydd i un dosparth. Ond aeth yr adran Galfinaidd yn anesmwyth; ymddengys hefyd iddi gynyddu mewn nerth; a mynodd ordeinio Mr. Jas. Davies, gwr o ardal Llanwrtyd, fel gweinidog ychwanegol. Cymerodd hyn le rywbryd rhwng 1720 a 1725. Pan fu farw Roger Williams, a neb ond James Davies yn gweinidogaethu i'r gynulleidfa, dechreuodd yr Arminiaid rwgnach; a chawn Sion

*Hanes Eglwysi Annibynol Cymru.* Cyfrol II. tudal, 248--249



ADFEILION CAPEL CWMYGLO.

Llewellyn, rhigymwr a berthynai i'r eglwys, yn rhoi mynegiant i'r anfoddlonrwydd ar ffurf cân. Yn mhen dwy flynedd, sef yn y flwyddyn 1732, llwyddodd yr adran Arminaidd i ordeinio un Richard Rees, gŵr ieuanc o'u mysg eu hunain, ac wedi bod tan addysg Mr. Perrot yn Nghaerfyrddin, fel cyd-weinidog a James Davies. Mynega Sion Llewellyn ei foddlonrwydd ef a'i blaid i weinidogaeth Richard Rees mewn rhigwm, o ba un y mae a ganlyn yn ddifyniad :—

"Er cynhaliaeth mawr i'n crefydd,
Duw gododd Mr. Rees i fynydd ;
Gwr llawn deall, dysg a doniau,
Llariaidd, gwresog ei rasusau.
Mi glywn y gwr yn rhoi ergydion,
Ac yn dechreu hela hoelion ;
'Nol eu hiro yn olew 'r Yspryd,
Fe gerddai 'r hoelion hyny 'n hyfryd.'

Fel hyn y parhaodd pethau yn Nghwmyglo am bymtheg mlynedd ychwanegol; y gweinidog Arminaidd yn gyru ei hoelion dewisol, ac yn ceisio eu sicrhau yn meddyliau y bobl, un odfa ; a'r gweinidog Calfinaidd yr odfa ganlynol yn ceisio eu tynu allan, a gosod hoelion gwahanol yn eu lle. Nis gallai heddwch na llwyddiant ffynu fel hyn ; felly nid syn darllen ddarfod i'r blaid Arminaidd yn 1747 ymadael, ac ymsefydlu yn Nghefncoedcymmer. Aeth hon yn raddol yn eglwys Undodaidd. Yn mhen pedair blynedd ymneillduodd yr aelodau perthynol i Cwmyglo a breswylient yr ochr arall i'r mynydd, gan sefydlu eglwys yn Aberdar. Aeth hon hefyd yn Sosinaidd. Yn 1750, pan yr oedd y gynulleidfa wedi symud o Cwmyglo i Ynysgau, ordeiniwyd Samuel Davies, mab y Parch. James Davies, yn gyd-weinidog a'i dad. Yr oedd Samuel wedi cael ei addysg yn Athrofa Caerfyrddin, ac fel yr efrydwyr oll wedi llyncu y golygiadau Arminaidd; felly yn yr Ynysgau, ceid y tad a'r mab yn pregethu yn groes i'w gilydd, ac yn arweinwyr pleidiau gwrthwynebol. Ond achwyna y Calfiniaid yn enbyd fod James Davies yn goddef yn ei fab yr hyn na oddefai ar un cyfrif yn Richard Rees, ei gyd-weinidog blaenorol. Bu aml i gyfnewidiad yn mhwlpud yr Ynysgau; byddai weithiau yn Galfinaidd, ac weithiau yn Arminaidd, os nad yn wir yn Undodaidd; ond da genym mai y blaid efengylaidd a orfu o'r diwedd, a bod yr eglwys yn awr mor iach yn y ffydd ag unrhyw eglwys yn Nghymru.

Cawn engrhaifft gyffelyb yn eglwysi Gefn-arthen a Phentre-ty-gwyn, yn Sir Gaerfyrddin, lle yr oedd rhieni Williams, Pantycelyn, yn aelodau. Yr oedd yma dri o weinidogion yn 1731 a 1732, sef David Williams a John Williams, meibion neu berthynasau Roger Williams, Cwmyglo, yn ol pob tebyg, a D. Thomas. Yr oedd y ddau flaenaf yn Arminiaid zelog, ond yr olaf yn Galfiniad gwresog, ac wedi cael ei ddewis gan y blaid Galfinaidd yn yr eglwys, er gwrth-weithio dylanwad y ddau arall. Aeth yn rhy anghysurus i'r pleidiau fyw ynghyd, a chawn D. Thomas, yn 1739, yn traddodi ei bregeth ymadawol, gan ymsefydlu, efe a'r Calfiniaid a lynent wrtho, yn Nhy-yn-y-pentan. Ar wahan y bu yr eglwysi hyn am lawer o flynyddoedd, ond llwyddodd y Parch. Morgan Jones, Tygwyn, i'w hail uno mewn amser.

Er na fu ymraniadau o herwydd y ddadl Arminaidd mewn llawer o eglwysi, eto yr oedd dadleuon brwd trwy yr holl gynulleidfaoedd, ac yspryd chwerw yn cael ei fagu, er mawr niwed i grefydd ysprydol, ac er gwanychiad dirfawr i Ymneillduaeth. Tan y cyfryw amgylchiadau yr oedd cynydd yn amhosibl. Rhaid bod yr eglwysi a oddefai ddau weinidog yn pregethu yn erbyn eu gilydd, gyda'r naill yn galw y llall yn gyfeiliornwr, ac un adran yn edrych yn ddigllawn pan fyddai yr adran arall yn cael eu boddio, mewn cyflwr truenus o isel. Nid rhyfedd fod yr eglwysi Ymneillduol wedi myned yn eiddil, a di-ymadferth, pan y gwnaeth y Cyfundeb Methodistaidd ei ymddangosiad.

*Nodweddid yr Ymneillduwyr pan gyfododd Methodistiaeth gan ffurfioldeb, difaterwch, ac oerni poenus.* Yr oedd y gweinidogion wedi colli yspryd ymosodol y Tadau ; ni theithient o gwmpas i geisio efengyleiddio y wlad ac i ddwyn y werin at Grist ; boddlonent ar fugeilio yr ychydig braidd a berthynai iddynt, gan yn unig geisio cadw y rhai hyny rhag myned ar ddisperod. Yr ychydig fywyd a feddent, deuai i'r golwg yn benaf mewn dadleu yn hytrach nag mewn ymdrechion i wneyd daioni. Addefwn yn hawdd fod rhai eithriadau gwerthfawr i hyn yn eu mysg, ond yr oeddynt yn dra phrin. Yr oedd yr oerni crefyddol yma yn ddiau mewn rhan yn ganlyniad yr heresi Arminaidd, yr hon fel iâ-fynydd (*ice-berg*) a oerai yr awyrgylch, er na fyddid wedi dynesu yn agos iawn ati. Gyda y ffurfioldeb oer yma ceid difaterwch mawr gyda golwg ar ddisgyblaeth. Aethai hyn mor bell fel yr oedd rhai gweinidogion zelog yn lled-ddymuno ymraniad. Mewn llythyr

o eiddo y Parch. Edmund Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhontypwl, at Howell Harris, Awst 7, 1741, ceir y geiriau canlynol: *"Byddai yn dda genyf pe bai rhai o'r gweinidogion Ymneillduol iach yn ymwahanu oddiwrth yr Ymneillduwyr cyfeilliornus a phenrydd; ond efallai y daw i hyny. Y mae y ddau weinidog yn Mhenmaen yn gwadu fod unrhyw angen am ddisgyblaeth yn eu mysg hwy; a galwant fy ymdrechion i o blaid disgyblaeth wrth yr enwau sarhaus o ddefodau newyddion gorfanwl a chaeth. . Gwrthoda y dynion hyn gymeryd eu diwygio, fel y mae gwaethaf." Ymddengys y pregethai Howell Harris yn enbyd o lym yn erbyn clauarineb yr Ymneillduwyr, a cheir cyfeiriad at hyny yn yr un llythyr o eiddo Edmund Jones. "Tra yr ydych yn llefain mor groch yn erbyn clauarineb ein Hymneillduwyr ni (yr Annibynwyr), nac esgeuluswch rybuddio rhag balchder ysprydol ac yspryd annhymerus y Bedyddwyr Ymneillduol, y rhai ydynt yn waeth, er fod yn cydfyned a hyny zêl nad yw yr Ymneillduwyr clauar eraill yn feddu."

I rai o'r gweinidogion yr oedd zêl ac angerddoldeb Howell Harris a Daniel Rowland yn dramgwydd. Byddent, meddai Dr. Rees, yn dweyd llawer o bethau a ddoluriai chwaeth goeth yr Ymneillduwyr. Er prawf o hyn rhoddir geiriau un Thomas Morgan, a fu yn gwrando Daniel Rowland yn agos i Gaerfyrddin. †"Pregethai oddiar Hosea ii. 14. Ni chadwodd fawr at ei destun, ond yr oedd yn dra difrifol, gan geisio enill y serchiadau. Yr wyf yn meddwl i mi ddarganfod rhyw gymaint o effeithiolrwydd yn cydfyned a'i waith, er fod ganddo rai ymadroddion hynod o weiniaid." Bu yr un gŵr yn gwrando ar Rowland yn agos i Gaerphili. Meddai, "Ei destun oedd Barnwyr v. 23. Yr oedd ei bregeth yn ymarferol, ond nid yn feirniadol; canys dywedodd amryw bethau na ddywedasai, yr wyf yn meddwl, pe buasai wedi astudio y mater yn dda yn mlaen llaw." Dywed Dr. Rees fod y gŵr hwn yn un o'r mwyaf diragfarn yn mysg yr Ymneillduwyr! Prawf yr ychydig ganmoliaeth a rydd yn grintachlyd i Daniel Rowland, y pregethwr goreu, yn ol pob tebyg, a welodd Cymru erioed, fod ei yspryd wedi oeri o'i fewn, a'i fod yn rhoddi mwy o bwys ar ffurf nag ar wirionedd achubol.

Dwg y Parch. John Thomas, at ba un yr ydis wedi cyfeirio yn barod, dystiolaeth i'r oerfelgarwch enbyd a ffynai yn mysg yr Ymneillduwyr yr adeg yma. Cychwynasai ei fywyd crefyddol gyda'r Methodistiaid, ond yn 1761 ymunodd a'r Annibynwyr, neu fel y geilw efe hwy, yr Ymneillduwyr. Gyda chyfeiriad at hyn, dywed: "Cynghorwyd fi gan amryw o bryd i bryd i fyned i'r coleg, fel y gallwn gael ychydig wybodaeth. . Yr oeddwn yn canfod fod yr Ymneillduwyr yn eu disgyblaeth (ffurf-lywodraeth eglwysig?) yn unol a Gair Duw, ac yn nes at drefn Apostolaidd y Testament Newydd na'r Methodistiaid. Ond yr oeddwn yn caru bywyd a zêl y Methodistiaid, ac yn ofni clauarineb yr Ymneillduwyr, rhag, os ymunwn a hwy, i mi fyned yn glauar fel hwythau. Ond dywedai rhai o honynt, os deuwn atynt, y gallwn fod yn foddion i'w gwresogi hwy." Penderfynodd fyned i Goleg y Fenni. "A phan fynegais fy mwriad i'r Parch. Daniel Rowland, ni ddywedodd ddim yn fy erbyn. Cyrhaeddais y Fenni tua diwedd 1761; a phan ddechreuais ddysgu llyfrau Lladin, a chanfod y fath annuwioldeb yn y dref, a'r fath glauarineb yn y gynulleidfa, teimlais fy mod wedi newid hinsawdd. A chan ofni y collwn dir yn fy yspryd, ymneillduwn bob canol dydd i'r coedwigoedd gerllaw yr afon Wysg i weddïo, a phrofais hyny yn felus yn aml. Yn ystod y pedair blynedd y bum yn y coleg pregethwn yn fynych yma, ac mewn lleoedd eraill; yn ystod y gwyliau awn ar daith trwy wahanol Siroedd Cymru, yn arbenig Sir Aberteifi, gan bregethu gyda'r Methodistiaid a chyda'r Annibynwyr, pan y cawn ychydig o dân Llangeitho i gadw fy enaid rhag rhewi yn nghymydogaeth y Fenni. Yr oedd Mr. Rowland yn dra charedig wrthyf, a gofynai i mi bregethu yn Llangeitho weithiau. . Yr oedd y rhai mwyaf difrifol a phrofiadol yn mysg yr Ymneillduwyr yn fy hoffi; ond yr oedd y rhai clauar a ffurfiol o honynt yn edrych arnaf fel yn ormod o Fethodist, yn arbenig pan y cawn gymorth o'r nefoedd wrth bregethu. Eithr pan y byddwn yn sych ac yn farwaidd, gan lefaru o'm deall fy hun, dywedent fy mod yn debyg i Ymneillduwr."‡

* *Life of Howell Harris*, by H. J. Hughes, tudal. 181.

† *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal 369.

‡ *Welsh Calvinistic Methodism*, tudal. 23, 24.

Profa y tystiolaethau yma, y rhai nad oes un rheswm dros ameu eu cywirdeb, fod cyflwr yr Ymneillduwyr pan y cyfododd y Methodistiaid yn Nghymru, yn dra gresynus; fod eu gweinidogion gan mwyaf yn ddifater a diyni; fod y weinidogaeth yn eu mysg yn ffurfiol, beirniadol, ac oer, heb fawr lle yn cael ei roddi i brif athrawiaethau crefydd efengylaidd; a bod yr eglwysi yn fychain ac yn lleihau yn gyflym, a'r aelodau yn rhanedig i wahanol bleidiau, y rhai oeddynt yn llawn teimlad chwerw at eu gilydd. Yr oedd Arminiaeth, a dueddai yn gryf at Ariaeth, yn dyfod i mewn fel llanw y môr; ac yn ol pob tebyg, oni bai am y Diwygiad Methodistaidd, buasai y rhan fwyaf o Gymru heddyw yn Undodaidd. Chwech o gapelau, a'r rhai hyny yn gymharol fychain, a feddent yn yr oll o Wynedd. Yr oeddynt yn gryfach yn y Deheudir, ond yma hefyd yr oeddynt yn gwywo yn gyflym. Meddai Mr. Johnes am danynt:* "Darfu iddynt wanychu eu hunain trwy eu dadleuon gyda golwg ar fedydd; parhausant i ddirywio hyd gyfodiad Methodistiaeth." Ychwanega yr un gŵr: "A siarad yn briodol, hanes Methodistiaeth yw hanes Ymneillduaeth yn Nghymru."

Pan yr aeth son ar led am y cyffroad a gynyrchid gan bregethu nerthol Howell Harris a Daniel Rowland, llawenychodd yr Ymneillduwyr a llawenydd mawr tros ben; teimlent fod gobaith am waredigaeth megys o safn marwolaeth. Yn y flwyddyn 1736, pregethai y Parch. Lewis Rees yn y Capel Ymneillduol yn Mhwllheli; cafodd y ddeadell fechan yno yn nodedig o ddigalon; achwynent fod yr eglwys yn lleihau, yr hen bobl yn marw, a neb o'r newydd yn ceisio crefydd, ac y darfyddai am yr achos yn fuan yn ol pob tebyg. Ond cynghorodd Mr. Rees hwy i ymgalonogi, gan ddweyd fod y wawr wedi tori eisioes yn y Deheudir, fod Howell Harris yn ddyn rhyfeddol, ei fod yn myned o gwmpas i bregethu a rhybuddio, a bod effeithiau hynod yn cydfyned a'i ymdrechion. Yn fuan mynodd Mr. Lewis Rees addewid gan Howell Harris y deuai i Wynedd. Cyffelyb oedd teimlad Edmund Jones, Pontypwl; David Williams, Watford; Henry Davies, Bryngwrach, ac eraill. Gwelent yn y Methodistiaid gatrawd newydd yn cyfodi i ymladd rhyfeloedd Duw yn y tir, ac er eu bod yn flaenorol wedi llaesu dwylaw, ac ar roddi i fynu mewn digalondid, effeithiodd dyfodiad y gatrawd ddewr hon i roddi yspryd newydd ynddynt. Cryfhaodd yr eglwysi Ymneillduol o hyny allan. Gellir dweyd ddarfod i'r Methodistiaid ddwyn i mewn yr elfenau canlynol:—

(1) Yspryd ymosodol hyf, yn beiddio gwrthwynebu anwiredd a rhysedd mewn modd cyhoeddus a phenderfynol.

(2) Cyhoeddiad pendant o'r athrawiaethau efengylaidd, a hyny gyda gwresawgrwydd angerddol. Yn arbenig pwysleisid ar yr angenrheidrwydd am ailenedigaeth, a gwaith yr Ysbryd Glân.

(3) Gweinidogaeth personau heb urddau, os meddent ar gymhwysderau pregethwrol.

(4) Gofal manwl am ddychweledigion, yn arbenig trwy gyfrwng y seiadau profiad.

Nid ydym am hawlio i'r Cyfundeb Methodistaidd yr holl glod o fod yr unig offeryn yn llaw yr Arglwydd i efengyleiddio Cymru; gwyddom yn amgen. Gwir mai ar Howell Harris a Daniel Rowland y disgynodd y tân dwyfol gyntaf yn yr adeg hon o ddirywiad; hwy aeth o gwmpas fel llwynogod Samson, gan gyneu ffagl sydd yn parhau hyd heddyw. Ond mor wir a hyny, enynodd y tân yn bur fuan yn yr enwadau Ymneillduol oedd ar y maes yn barod. Cyfranogasant hwythau o'r un dylanwadau nefol mewn helaethrwydd. Eithr yr *yspryd* Methodistaidd, a deimlwyd yn gyntaf yn Nhrefecca a Llangeitho, a'u bywiocaodd. A threiddia yr yspryd hwnw trwyddynt, a thrwy eu holl weithrediadau, hyd y dydd hwn. Yn wir, gellir edrych ar yr Ymneillduwyr Cymreig presenol, yn angerddoldeb eu zêl a'u hymroddiad, yn eu beiddgarwch i wrthsefyll drygioni yn eu holl ffurfiau, yn efengyleidd-dra eu gweinidogaeth, ac yn y lle mawr a roddir gan eu pregethwyr i bynciau hanfodol ein crefydd, yn gystal ac yn eu gofal am y dychweledigion, fel plant Daniel Rowland a Howell Harris yn hytrach nag fel olynwyr yr Ymneillduwyr cyntefig. Ar yr un pryd, cyfaddefa pob cristion fod ymdrechion y Tadau Methodistaidd, ynghyd a llafur y pregethwyr galluog a'u dilynodd ymron yn ddidor o hyny hyd yn awr, yn ffurfio penod ddysglaer a gogoneddus yn hanes crefydd yn Nghymru.

---

* *Causes of Dissent in Wales.*

# PENOD II.

——:o:——


## GRIFFITH JONES, LLANDDOWROR.

*Ei enedigaeth a'i ddygiad i fyny—Ei ordeiniad—Ei glod fel pregethwr yn ymledu—Yn dechreu pregethu y tu allan i'w blwyf—Yr ysgolion elusengar—Y clerigwyr yn wrthwynebol—Ymdaeniad yr ysgolion trwy yr oll o Gymru—Argraffu Beiblau—Cyfansoddi llyfrau—Ei gysylltiad a'r Methodistiaid—Ei angau.*

NI chafodd Cymru er pan y mae yn wlad ragorach cymwynasydd na'r Hybarch Griffith Jones. Ni sangwyd ei daear gan wladgarwr mwy pur na mwy anhunangar, ac ni anadlodd neb ei hawyr ag y mae ei enw yn fwy clodforus, a'i goffadwriaeth yn fwy bendigedig hyd y dydd hwn. Priodol iawn y gelwir ef yn Seren Foreu y Diwygiad. Yr oedd ar y maes yn mhell o flaen Rowland a Harris; ymdaflasai gyda holl yni a bywiogrwydd ei natur i'r gorchwyl mawr o oleuo ac efengyleiddio ei gyd-genedl; gyda y gorchwyl hwn ni phallodd, er y lliaws gwrthwynebiadau a'i cyfarfu, nes cau o hono ei lygaid yn yr angau; ac wrth farw gwasgai cyflwr ei wlad yn drwm ar ei feddwl, a gwnaeth ddarpariaethau yn ei ewyllys er cario yn mlaen y gwaith da oedd ef wedi gychwyn. Bydd y genedl Gymreig dan ddyled i Griffith Jones tra y byddo haul.

Ganwyd ef yn y flwyddyn 1684, fel y dengys yr argraff ar y gareg fedd a osodwyd i fynu iddo gan Madam Bevan, yn mhlwyf Cilrhedyn, yn nghydiad Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Yr oedd ei rieni yn grefyddol ill dau, ac yn aelodau gyda'r Ymneillduwyr. Tybia Dr. Rees mai i Henllan y perthynent, i'r hwn le y deuai John Thomas, Llwynygrawys; David Lewis, Cynwyl, a gweinidogion poblogaidd eraill, yn aml i bregethu, ac mai yno y derbyniodd ei argraffiadau crefyddol cyntaf, ynghyd a'i chwaeth at yr athrawiaethau Calfinaidd. Eiddil oedd ei gyfansoddiad; pan yn blentyn blinid ef yn fawr gan ddiffyg anadl, fel na allai gerdded ar draws yr ystafell heb boen ac anhawsder; ond cryfhaodd i raddau wrth dyfu i fynu, ac mewn rhan medrodd ysgwyd yr afiechyd i ffwrdd. Bu ei dad farw pan nad oedd ond ieuanc, felly disgynodd holl ofal ei ddygiad i fynu ar ei fam. Dywed Mr. Charles ei fod o duedd grefyddol o'i febyd. Dangosodd hefyd fywiogrwydd cynheddfau, ynghyd ag awyddfryd i ddysgu, yn foreu. Gan y teimlai awydd i ymgyflwyno i weinidogaeth yr efengyl, trefnodd ei fam iddo gael pob manteision addysg dichonadwy; ac wedi iddo fyned tu hwnt i ysgolion yr ardal, cafodd ei anfon i Gaerfyrddin, naill ai i'r Athrofa Ymneillduol a gedwid yno, neu ynte i Ysgol Ramadegol. Croniclir iddo gael ei ordeinio yn ddiacon yn yr Eglwys Sefydledig, Medi, 1708, gan yr Esgob Bull, a darfod iddo dderbyn ei lawn urddau trwy yr un gŵr, Medi, 1709. Pa beth a barodd iddo fwrw ei goelbren yn yr Eglwys, ac yntau wedi cael ei ddwyn i fynu yn mhlith yr Ymneillduwyr, nis gwyddom; ond sicr yw mai nid unrhyw fanteision bydol ddarfu ddylanwadu ar ei feddwl, oblegyd profa ei holl hanes ei fod yn Eglwyswr cryf a chydwybodol. Tebygol mai cuwradiaeth eglwys Cilrhedyn, ei blwyf genedigol, a gafodd ar y cyntaf.

Yn bur fuan dechreuodd bregethu gyda nerth a difrifwch mawr. Dywed Mr. Charles nad oedd dirnadaeth Griffith Jones o athrawiaethau yr efengyl a threfn yr iachawdwriaeth ond aneglur ar y cychwyn; fod ei foreu yn dywyll, ac mai yn raddol y pelydrodd y goleuni dwyfol ar ei feddwl yn ei ddysgleirdeb a'i ogoniant. Casglai Mr. Charles hyn oddiwrth ei lythyrau at Madam Bevan. Ar yr un pryd amlygai ynddynt lawer o ddwys ystyriaeth a difrifwch sobr. Ymroddodd i astudio duwinyddiaeth, a chan ei fod yn ŵr o gynheddfau cryfion, a'i ddeall yn gyflym, a'i gof yn afaelgar, daeth yn fuan yn dra hyddysg yn ysgrifeniadau y duwinyddion mwyaf enwog, Saesneg a thramor. "Trwy gynorthwyon dwyfol," meddai Mr. Charles, "a bendith Duw ar ei ddiwydrwydd, cynhyddodd yn brysur mewn gras a gwybodaeth o Dduw, a'r Iachawdwr Iesu Grist." Yn mhen yspaid cafodd guwradiaeth plwyf






COFLECH Y PARCH. GRIFFITH JONES,

AC

EGLWYS LLANDDOWROR.

Lacharn, ac yma ymddengys iddo gynyddu yn ddirfawr mewn hyawdledd a doniau gweinidogaethol, a darfod i'w bregethau hyawdl ac efengylaidd beri cyffro dirfawr yn y plwyf, ynghyd a'r plwyfydd cylchynol. Priododd a Miss Phillips, merch Syr Erasmus Phillips, Picton Castle. Yr oedd yn ddynes nodedig am ei duwioldeb; nid annhebyg mai trwy ei weinidogaeth ef y cawsai ei hargyhoeddi; ond yr oedd yn wanllyd o iechyd, ac ymddengys na fu iddynt blant. Yn mhen rhyw ddwy flynedd gwedi derbyn ei lawn urddau, cyflwynwyd iddo beriglor iaeth Llandilo, Abercowyn; ac yn y flwyddyn 1716, cafodd ficeriaeth Llanddowror, gan ei frawd-y-nghyfraith, Syr John Phillips, noddwr y fywoliaeth. Yr oedd Syr John Phillips yn ŵr tra boneddigaidd, a dywed Mr. Charles ei fod yn casglu oddiwrth ei lythyrau mai crefydd a duwioldeb oedd wrth wraidd y boneddigeiddrwydd. Cadarnheir y dystiolaeth hon gan liaws o ffeithiau. Pan yn Llundain ymgyfathrachai Sir John a Whitefield ac a'r ddau Wesley. Ceir cyfeiriadau mynych ato yn eu dydd-lyfrau fel boneddwr yn rhagori mewn crefydd; ac fel hwythau, ar un tymor o'i oes, bu yn mynychu y Gymdeithas Forafaidd yn Fetter Lane. Heblaw gwasanaethu yn Llandilo a Llanddowror, ymwelai Griffith Jones yn bur aml ag eglwys Llanllwch; a than ei weinidogaeth yma yr argyhoeddwyd Miss Bridget Vaughan, merch y Derllysg, yr hon y mae ei henw yn glodfawr trwy holl Gymru fel Madam Bevan. Bu y foneddiges hon yn gyfeilles iddo tra y bu byw; cefnogai ef yn mhob modd gyda ei lafur; ac yr oedd ei phwrs yn wastad yn agored pan fyddai galw.

Ymledodd clod Griffith Jones fel pregethwr tros y wlad, cyrchai y bobl yn dyrfaoedd i'w wrando. Clywyd son am ei hyawdledd a'r nerth oedd yn cyd-fyned a'i weinidogaeth hyd yn nod yn Ysgotland, a chafodd ei alw i bregethu o flaen y frenhines Anne. Ein hawdurdod ar hyn yw Williams, Pantycelyn, yr hwn, heblaw bod yn emynydd digymhar, oedd yn hanesydd gwych. Fel hyn y dywed efe yn y farwnad ragorol a gyfansoddodd iddo:—

"Fe gadd Scotland oer ei wrando,
  Draw yn eitha 'r Gogledd dir,
Yn dadseinio maes yn uchel
  Bynciau 'r iachawdwriaeth bur:
Cadd myrddiynau deimlo geiriau
  Hedd, o'i enau 'n llawer man;
Clywodd hithau rym ei ddoniau
  Frenhinol ardderchocaf Anne."

Daeth dan sylw y Gymdeithas er lledaenu yr Efengyl mewn Parthau Pellenig fel un cymwys i'w anfon allan yn genhadwr i'r India; y mae llythyrau yn awr ar gael sydd yn dangos i daerineb dirfawr gael ei arfer arno; ac yn y diwedd cydsyniodd yntau. Ni wyddis pa beth a'i rhwystrodd i roddi ei fwriad mewn grym. Efallai mai cariad at ei gydwladwyr, a thosturi at iselder eu cyflwr, a'i gorchfygodd. Ond yr oedd llaw Rhagluniaeth yn y peth; yr oedd ganddi hi waith mawr i Griffith Jones yn ngwlad ei enedigaeth.

Rhydd Mr. Charles y desgrifiad canlynol o hono fel pregethwr: "Yr oedd ei destynau a'i ddull o ymadroddi yn neillduol o addas i gyflyrau ei wrandawyr; yn aml yn finiog, yn danllyd, ac yn ddeffrous; bob amser yn athrawiaethol, yn ddefnyddiol, ac yn fucheddol; yn cadw yn mhell oddiwrth benrhyddid Antinomaidd, a deddfoldeb digysur ac anffrwythlawn. Yr olwg arno yn esgyn i'r areithfa oedd neillduol sobr a phwysig. Darllenai y gweddïau gyda llawer o ddifrifoldeb, a'r llithiau yn arafaidd ac yn ddeallus. Yn ei bregethau dechreuai yn bwyllog, a dosranai y defnydd mewn llaw yn olau ac yn rheolaidd, mewn dull cyfeillgar, nid annhebyg i ymddiddan. Ond fel yr elai i mewn i'w fater, byddai ei yspryd yn tanio ac yn gwresogi, a'i ymadroddion yn fywiog ac yn awdurdodol, nes meistroli'r gwrandawyr yn gwbl. Yr oedd ei agwedd gorphorol yn barchus, ei lais yn eglur ac yn beraidd, ei resymiadau yn gedyrn, ei ddarluniadau yn ardderchog, a'i gynghorion a'i rybuddion yn llym, ac yn afaelgar yn y gydwybod. Yr oedd ei holl enaid yn y gwaith, ac yn profi yn fywiog bob teimlad addas i'r gwirionedd a draddodai. I ddweyd y cwbl am dano mewn un gair, yr oedd wedi ei wisgo a nerth o'r uchelder, ac am hyny yr oedd yn gweini yn mhethau sanctaidd Duw, gyda harddwch a gweddeidd-dra addas, yn awdurdodol ac yn fuddiol." Y mae y darluniad hwn o hono gan Mr. Charles yn nodedig o fyw. Braidd nad yw ein dychymyg yn porteadu gŵr Duw yn esgyn yn araf ar hyd grisiau y pwlpud, gydag osgo difrifddwys, a sobrwydd tragywyddoldeb yn eistedd ar ei wedd. Wedi darllen y llithiau a'r gweddïau yn hyglyw dyna ef yn cymeryd ei destun ac yn rhanu ei fater; ymadrodda yn araf ar y dechreu, yn ol rheolau manylaf areithyddiaeth; ond yn fuan gwresoga ei galon tan ddylanwad ei fater; rhydd y gwirionedd ei holl yspryd yn

fflam; y mae yn awr fel angel yn ehedeg yn nghanol y nef a'r efengyl dragywyddol ganddo; arllwysa ar y dyrfa fawr sydd wedi dyfod i'w wrando raiadrau o hyawdledd cysegredig; ac yswatia hithau yn ei bresenoldeb wedi ei llwyr orchfygu. Nid rhyfedd i'w glod fyned ar led; y tebygolrwydd yw na chlywyd y fath bregethu o fewn eglwysi Cymru er ys canrifoedd, os erioed. Daw galwadau am dano o'r plwyfi cymydogaethol; cred yntau, fel y gwnaeth Paul am yr alwad o Macedonia, eu bod yn wys oddi uchod, ac ufuddha hyd eithaf ei allu. Yn aml byddai yr eglwysi yn rhy fychain i ddal y dorf; pregethai yntau yn y fynwent, gyda chofadail un o'r meirw yn bwlpud tan ei draed, a'r nefoedd yn dô uwch ei ben. Nis gallwn wrthsefyll y brofedigaeth o ddifynu marwnad Williams eto:—

> "Allan 'r aeth yn llawn o ddoniau,
> I bregethu 'r 'fengyl wir,
> Ac i daenu iachawdwriaeth
> Olau, helaeth 'r hyd y tir;
> Myrdd yn cludo idd ei wrando,
> Llenwi'r llanau mawr, yn llawn,
> Gwneyd eglwysydd o'r mynwentydd
> Cyn ei glywed ef yn iawn."

Heblaw bychander yr eglwysi yr oedd rheswm arall paham y pregethai yn aml yn y mynwentydd, sef eiddigedd a dig lliaws o'r clerigwyr. Cynhyrfent drwyddynt oblegyd ei fod yn meiddio dyfod i'w plwyfi heb eu caniatâd; yr oeddynt ar dori ar eu traws gan genfigen ato oblegyd ei dalent a'i boblogrwydd; felly clòent yr eglwysi rhagddo, a chymerent yr agoriadau adref gyda hwynt yn eu llogellau. Ond nis gallent trwy hyn gau genau Griffith Jones. Yr oedd ef yn dyheu am bregethu, a'r bobl yn dyheu am wrando; felly, fel y dywed Williams, gwnai eglwys o'r fynwent.

Yn raddol ymestynodd ei deithiau i'r siroedd cyfagos, ac yn wir, i'r oll o'r Deheudir. Ar daith bregethwrol yr oedd pan yr argyhoeddwyd Daniel Rowland trwy ei weinidogaeth, yn eglwys Llanddewi-brefi; a phe na wnaethai ddim yn ystod ei oes ond bod yn offeryn tröedigaeth Rowland, buasai wedi gwneyd gwasanaeth ardderchog i grefydd. Gan mai ar wythnosau y Pasg a'r Sulgwyn yr arferai Cymry yr oes hono gynal yn benaf eu cyfarfodydd gloddestgar, a'u campau annuwiol, trefnai ef ei deithiau ar yr adegau hyny, er mwyn pregethu y cyfryw lygredigaethau i lawr, a dywedir na fyddai nemawr bregeth yn myned heibio heb fod rhywrai yn cael eu hachub. Byddai ei gynulleidfa yn aml yn cael eu gwneyd i fynu o oferwyr a dihyrod penaf y wlad, wedi ymgasglu oblegyd cywreinrwydd; ond ni phetrusai ddynoethi eu drwg arferion. Darlunia Mr. Charles eu hagwedd pan yn gwrando. Ar y cyntaf ymddangosent yn wyllt ac anifeilaidd; ond yn raddol, fel y pregethai Mr. Jones, gwelid hwy yn sobri ac yn difrifoli; dechreuai y dagrau lifo yn nentydd dros eu gruddiau; yn y man y maent yn wylo yn uchel, ac yn gwaeddu, "Pa beth a wnawn i fod yn gadwedig." Ai yntau yn ei flaen i egluro trefn yr iachawdwriaeth iddynt, a phregethai weithiau dros dair awr o amser.

Ond er enwoced oedd Griffith Jones fel efengylwr, braidd nad yw ei glod yn fwy fel addysgydd, a thrwy yr Ysgolion Elusengar Cylchynol a sefydlwyd ganddo gwawriodd cyfnod newydd ar Gymru. Dywedir, ac ail-ddywedir ddarfod iddo gael y syniad am danynt oddiwrth ysgolion Thomas Gouge. Ond nid oedd unrhyw debygolrwydd rhyngddynt. Ysgolion Saesneg oedd eiddo Thomas Gouge; ysgolion Cymraeg oedd eiddo Griffith Jones, a dysgu Cymraeg yn unig a wneyd ynddynt. Yr hyn, yn ol a wyddom, a ddygai fwyaf o debygolrwydd i ysgolion Griffith Jones, oedd elusen John Jones, Deon Bangor,* ond ei bod ar raddfa lai. Yn ei ewyllys, dyddiedig Mawrth 10, 1719, gadawodd y Deon y swm o haner can' punt i beriglor Llandegfan, Môn, ac i'w olynwyr hyd byth, at wasanaeth y tlodion; fel ag y byddai i'r llôg oddiwrth yr arian gael ei ddefnyddio "i ddysgu deg o blant tlodion y plwyf i ddarllen y Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn Gymraeg, mewn modd eglur; ac hefyd i'w haddysgu yn egwyddorion y grefydd Gristionogol yn ol Catecism Eglwys Loegr." Gadawodd y Deon Jones y cyffelyb swm at yr un amcan i blwyfi Llanfair-yn-Neubwll, Llanffinau, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Llanfihangel Ysgeifiog, Rhoscolyn, a Phentraeth, oll yn Môn. Cawn yr un gŵr yn yr unrhyw ewyllys yn gadael y swm o gan' punt i reithor Llanllechid, Arfon, fel ag y byddai i'r llôg gael ei ddefnyddio hyd byth i addysgu deuddeg o blant tlodion y plwyf "i ddarllen Cymraeg yn berffaith, ac i'w hyfforddi yn Ngatecism Eglwys Loegr yn Gymraeg, fel y gallent nid yn

* *The Charity Commissioners' Report relating to Wales*, vol. 1.

unig ei adrodd, ond hefyd trwy eglurhad deallus a duwiol ei ddeall; ac hefyd fel y byddont yn alluog i ddarllen y Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin yn eglur; ac os gellir, eu hyfforddi ryw gymaint mewn ysgrifenu a rhifo." Gadawodd yr un swm o gan' punt i'r unrhyw bwrpas i blwyfi Cyffyn, Aber, a Bangor, oll yn Sir Gaernarfon. I blwyfi Llanddecwyn, a Llanfihangel-y-Traethau, yn Sir Feirionydd, gadawodd y Deon cymwynasgar y swm o haner can' punt yr un at yr amcan a nodwyd. Dyma yr unig ymgais gwybyddus i ni, yn flaenorol i ddyddiau Griffith Jones, i ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion dyddiol. Ond nid yw yn ymddangos mai canlyn y Deon a wnaeth Griffith Jones; yn wir, nid oes genym un prawf y gwyddai am ei ymgais; yn hytrach, cynllun a ddaeth yn raddol i'w feddwl ef ei hun oedd yr Ysgolion Cylchynol, er cyfarfod yr anwybodaeth dirfawr a ffynai yn y wlad ar y pryd.

Yr hanes a rydd Mr. Charles am ddechreuad yr ysgolion hyn yw a ganlyn:— "Byddai Mr. Griffith Jones, y Sadwrn o flaen gweinyddiad yr ordinhad o swper yr Arglwydd, yn cadw math o gyfarfod paratoad. Darllenai y gwasanaeth a'r llithiau priodol; yna gofynai a oedd rhywun yn y gynulleidfa wedi dal sylw neillduol ar ryw adnod. Os enwid adnod neu adnodau, eglurai yntau hwy mewn modd deallus, cyfaddas i amgyffredion y bobl.' Ond caffai fod y rhai ag yr oedd mwyaf o eisiau y cyfryw addysg arnynt yn sefyll yn ol, yn enwedig dynion wedi tyfu i fynu, ac wedi heneiddio mewn anwybodaeth. Er meddyginiaethu hyn, cyhoeddai fod bara yn cael ei gyfranu i'r tlodion ar y Sadyrnau misol yma, wedi ei brynu a'r arian a offrymid yn y cymun. Pan ddeuent yn mlaen i dderbyn y bara, gosodai hwy yn rhes, a gofynai ychydig o gwestiynau hawdd iddynt, ond mewn dull caredig, rhag eu dyrysu na'u cywilyddio. Ond er ei holl diriondeb, yr oedd llawer o gallineb y sarff yn Griffith Jones, ac fel na adewid ei ofyniadau heb atebiad gofalai am hyfforddi rhywrai yn dda yn flaenorol, fel y byddent yn foddion i dynu y lleill yn mlaen. Trwy hyn daeth yn gydnabyddus a'r anwybodaeth dirfawr am bethau yr efengyl, hyd yn nod am ei hegwyddorion elfenol, oedd yn y wlad, a deallodd nad oedd yn bosibl dyrchafu y genedl heb gael rhyw drefniant i ddysgu y bobl i ddarllen Gair Duw. Sefydlodd ysgol ddyddiol yn ei bentref ei hun i ddysgu plant a phobl mewn oed i ddarllen Cymraeg; a chynhelid yr ysgol mewn rhan ag arian y cymun, ond sicr yw y deuai rhan fawr o'r arian o'i logell ef ei hun. Llwyddodd yr ysgol, nid yn unig y tu hwnt i'w ddisgwyliad, ond yn mhell y tu hwnt i'w obeithion. Heblaw plant, deuai dynion mewn oed, a hen bobl iddi, y rhai a wylent yn uchel, mewn rhan o alar oblegyd eu hanwybodaeth, ac mewn rhan o lawenydd oblegyd mawredd y fraint oedd yn cael ei hestyn iddynt. Gwelid hyd yn nod y deillion yn cyniwair yno, er mwyn clywed Gair Duw yn cael ei ddarllen, ac er mwyn ei ddysgu ar eu cof. Arweiniodd hyn i sefydliad ysgolion eraill mewn gwahanol ranau o'r wlad. Agorwyd yr ysgol gyntaf yn mhentref Llanddowror, tua'r flwyddyn 1730, ryw chwech mlynedd cyn cychwyniad Methodistiaeth; ac yn y flwyddyn 1737, cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Welsh Piety*, yn rhoddi crynodeb o'r amgylchiadau ddarfu arwain i blaniad yr ysgolion, rhesymau drostynt, ac atebion i wrth-ddadleuon yn eu herbyn. Yn mhen pymtheg mlynedd, cawn fod rhif yr ysgolion wedi cynyddu i 116, a bod ynddynt 5685 o ysgolheigion yn derbyn addysg. Nid oedd moddion bydol Griffith Jones, na'r cynorthwy a dderbyniai oddiwrth ei ffrynd, Madam Bevan, yn ddigonol i gynal y nifer mawr yma o ysgolion; ond cafodd gymorth effeithiol oddiwrth wŷr parchus, yn benaf o Loegr, fel na bu prinder arian at y gwaith.

Cynllun Griffith Jones oedd cyflogi nifer o ysgolfeistriaid effeithiol, a'u gwasgar trwy wahanol ranau y wlad, fel y byddai y galw am danynt. Dymunol ganddo oedd fod yr alwad yn dyfod oddiwrth offeiriad y plwyf; ond oni ysgogai ef, anfonid yr ysgolfeistr ar ddymuniad yr ardalwyr. Fel rheol, yr oedd yr ysgol i barhau mewn ardal neu blwyf am chwarter blwyddyn; ystyrid y gallai plentyn neu ddyn o alluoedd cyffredin ddysgu darllen y Beibl yn weddol dda yn hyny o amser, a symudid yr ysgol i gymydogaeth arall ar gylch; ond weithiau, dan amgylchiadau neillduol, cedwid hi yn yr un lle am haner blwyddyn neu flwyddyn. Yn yr ysgolion hyn dysgid yr ysgolheigion i ddarllen y Beibl yn yr iaith Gymraeg; hyfforddid hwy yn egwyddorion Cristionogaeth yn ol Catecism Eglwys Loegr, dysgid hwy i ganu Salmau, a defnyddid pob moddion i'w diwyllio a'u crefyddoli. Nid plant yn unig a addysgid, fel yr awgrymwyd, ond dynion mewn oed a hen bobl, ac ar gyfartaledd yr oedd dwy

ran o dair o'r ysgolheigion yn rhai wedi tyfu i oedran. Fel ag i roddi mantais i bawb, cynhelid yr ysgolion y nos yn gystal a'r dydd; ac os byddai rhywrai yn methu, oblegyd amgylchiadau, dyfod i'r ysgol na'r nos na'r dydd, disgwylid i'r athrawon ymweled a hwy yn eu cartrefi, a rhoddi gwersi iddynt yno. Mewn gwirionedd, ni fu erioed drefniant ystwythach a mwy hylaw nag ysgolion Griffith Jones; cyfaddasid hwy at bob math o oedran ac at bob math o amgylchiadau; a rhaid fod pwy bynag na fedrai ddarllen yr Ysgrythyr lân yn gwbl ddiesgus. Yn mhen blynyddoedd, yr oedd yr ysgolfeistri i ddychwelyd i'r lleoedd y buasent ynddynt gyntaf, er addysgu yr ieuenctyd oeddynt wedi cyfodi yn ystod eu habsenoldeb. A ganlyn sydd grynodeb o reolau yr ysgolion, fel eu ceir yn y *Welsh Piety*. 1. Rhaid i'r ysgolfeistriaid fod yn sobr, yn caru duwioldeb, yn aelodau o Eglwys Loegr, ac yn ffyddlawn i'r brenin ac i'r llywodraeth. 2. Rhaid iddynt, heblaw dysgu yr ysgolheigion i sbelian, ac i ddarllen y cyfryw lyfrau ag a bwyntir iddynt, eu hyfforddi hefyd ddwywaith yn y dydd yn Nghatecism Eglwys Loegr; a'u dysgu i ateb yr offeiriad yn barchus, yn fedrus, ac yn ddefosiynol yn ngwasanaeth yr Eglwys. 3. Rhaid i'r meistri a'r ysgolheigion roddi eu presenoldeb yn foreu yn yr ysgol, a dyfod gyda chysondeb bob Sabbath i'r addoliad cyhoeddus; ac yna ar y Llun canlynol, fod yr ysgolheigion i gael eu holi yn fanwl ynghylch y penodau a ddarllenwyd, y testun, a phenau y bregeth a glywsant yn yr Eglwys y dydd blaenorol. 4. Rhaid i'r meistriaid roddi i mewn, yn mhen y chwarter, gyfrif manwl o'r ysgolheigion, eu henwau, a'u hoedran, a'r amser y bu pob un o honynt yn yr ysgol. Er sicrwydd fod y rheolau hyn yn cael eu cario allan, a bod y meistriaid yn cyflawni eu dyledswydd yn ffyddlawn, gosodid yr ysgol yn mhob cymydogaeth, hyd ag oedd bosibl, dan reolaeth yr offeiriad, yr hwn oedd i anfon i mewn adroddiad am ymddygiad yr ysgolfeistr, a'r llwyddiant oedd wedi bod ar ei ymdrechion yn ystod y tymor. Cawn yn y *Welsh Piety* nifer dirfawr o'r cyfryw adroddiadau, a dygant oll dystiolaeth uchel i ddiwydrwydd a duwioldeb y meistriaid, ynghyd a'r cyfnewidiad dirfawr a gawsai ei effeithio drwyddynt yn moesau yr ieuenctyd, a'u dull o ymddwyn yn nhŷ Dduw. Cafodd Griffith Jones gryn anhawsder i gael ysgolfeistri priodol, y rhai a gyfunent grefyddolrwydd yspryd, a bywyd dihargyhoedd, gyda medr i addysgu. Dywed Dr. Rees ddarfod iddo gael ei orfodi i gymeryd y nifer fwyaf o honynt o fysg yr Ymneilltuwyr, gan nad oedd nemawr yn yr Eglwys Wladol yn meddu y cymhwysderau priodol. I hyn nid oes rhith o sail. Noda rheolau yr ysgolion yn bendant y rhaid i bob ysgolfeistr fod yn aelod o Eglwys Loegr; a dywed Griffith Jones ei hun yn y *Welsh Piety* am 1745, sef yn mhen pymtheg mlynedd gwedi cychwyniad yr ysgolion, ddarfod i'r rheol ynglyn a hyn gael ei chadw yn ddigoll. Cyn y cai unrhyw Ymneillduwr ei gyflogi i fod yn ysgolfeistr dan Griffith Jones, rhaid iddo yn gyntaf lwyr-ymwrthod a'i Anghydffurfiaeth, a dyfod yn gymunwr yn yr Eglwys. Gorchfygodd Griffith Jones yr anhawsder gyda golwg ar athrawon drwy sefydlu math o Goleg Normalaidd yn Llanddowror, dan ei arolygiaeth ei hun, yn yr hwn y parotoid athrawon; ac hefyd yr addysgid personau ar gyfer y weinidogaeth.

Ni chafodd y gwaith da hwn fyned yn ei flaen heb wrth-wynebiadau. Nid oedd yr esgobion yn cydymdeimlo o gwbl a'r ysgolion, er na feiddient eu gwarafun yn hollol. Efallai mai y prif reswm am eu gwrthwynebiad oedd fod yr ysgolion yn Gymraeg. Saeson oedd yr esgobion; ni feddent unrhyw gydymdeimlad a dim Cymreig; nid oeddynt yn deall Cymraeg eu hunain; credent mai goreu pa gyntaf yr ysgubid yr iaith oddiar wyneb y ddaear, ac felly nid rhyfedd eu bod yn casau yr ysgolion a amcanent *ddysgu y werin bobl i'w darllen. Y mae amddiffyniad Griffith Jones yn ngwyneb y teimlad hwn yn hyawdl ac anatebadwy. Dywed y byddai sefydlu ysgolion elusengar Saesneg i bobl nad oeddynt yn deall dim ond Cymraeg, mor ynfyd a phregethu pregeth Saesnig i gynulleidfa o Gymry nad oeddynt yn gynefin ag unrhyw iaith ond iaith eu mam. "A fyddwn ni," meddai, "yn fwy awyddus am ledaeniad yr iaith Saesneg nag am iachawdwriaeth ein pobl?" Dadleua ei fod yn amhosibl i liaws o'r tlodion, yn arbenig rhai mewn oedran, a hen bobl, ddysgu Saesneg; ond nad iawn o herwydd hyny eu gadael i syrthio i ddinystr tragywyddol. Dywed y byddai sefydlu ysgolion Saesneg iddynt yr un peth a chychwyn ysgol elusengar yn y Ffrancaeg i dlodion Lloegr. "Ffolineb," meddai, "yn ol rheswm a natur pethau yw ceisio

* *History of Protestant Nonconformity in Wales*, p. 318, 2 ed.

addysgu pobl yn egwyddorion crefydd, trwy gyfrwng unrhyw iaith ond yr un a ddeallir ganddynt." Yr oedd Griffith Jones yn wir athronydd; deallai yn drwyadl mai trwy gyfrwng y gwybyddus yn unig y gellir dod o hyd i'r anwybyddus; ac yr oedd yn pleidio yr egwyddorion y dadleuir drostynt gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, gant a haner o flynyddoedd cyn i'r Gymdeithas gael bodolaeth. Nid ydym yn deall ei fod yn cael ei gyffroi o gwbl gan zêl at iaith, ychwaith; ond deallai mai trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig y gellid cael gafael ar y bobl; nad oedd un moddion arall trwy ba rai y gellid eu hyfforddi yn y pethau a berthynent i'w heddwch.

Er mor gymhedrol ddyn oedd Griffith Jones, ac er mor ofalus oedd yn newisiad ei eiriau, cyffröid ei ysbryd weithiau gan wrthwynebiadau yr esgobion, ac uchelwyr y wlad, ac ysgrifenai bethau cryfion a difrifol.* "Pe bai Iesu Grist ar y ddaear yn awr, meddai, "a phe y gofynai y cwestiwn 'oni ddarllenasoch?' byddai raid i filoedd o'n pobl dlodion ateb, 'Naddo, Arglwydd; ni ddysgwyd ni i ddarllen; ni fedrai ein rhieni fforddio y draul i'n hanfon i'r ysgol; ac ni wnai ein Harweinwyr ysprydol gynorthwyo; a phan y gwnaed ymdrech i'n haddysgu yn rhad, ni wnai rhai o'n gwell, a feddai awdurdod yn y plwyf, oddef y cyfryw beth.'" Y mae hynyna yn ddigon hallt, ond nid ydym yn gwybod i ni ddarllen erioed ddim mwy llosgadwy nag a ganlyn: "Os bydd i rywun, nid yn unig esgeuluso, ond hefyd geisio rhwystro yr amcan caredig hwn (sef, dysgu y bobl i ddarllen y Beibl Cymraeg), byddai yn dda iddo ystyried ai llawenydd anrhaethol ynte poen annyoddefol iddo, yn nydd mawr y cyfrif, fydd bod y trueiniaid colledig anwybodus yn pwyntio ato, gan ddywedyd: 'Dacw y dyn, y dyn creulawn annhrugarog, gelyn Duw a bradychwr ein heneidiau ninau, yr hwn a rwystrodd ein hiachawdwriaeth, ac a'n cauodd allan o deyrnas nefoedd. Gan hyny y mae yn euog o'n gwaed; efe yw achos ein damnedigaeth, gan iddo wrthwynebu y moddion a gynygid i'n dwyn i wybodaeth o Grist yr Iachawdwr.'" Teimla ei fod yn ysgrifenu yn llym, ac yn tynu darlun ofnadwy a brawychus; felly amddiffyna ei hun trwy ddweyd: "Efallai y tybia rhai fy mod yn gwarthruddo yr ynadon, y gweinidogion, a'r esgobion. Pell oddiwrthyf fi fyddo gwarthruddo neb ond y sawl y mae y gwarthrudd yn perthyn iddo." Cystal a dweyd: Peidied neb a gwisgo y *cap* os nad yw yn ei ffitio. Yna ychwanega: "Chwi a wyddoch i mi gael fy ngeni yn Gymro, ac nad wyf eto wedi dad-ddysgu gonestrwydd a gerwindeb (*unpoliteness*) iaith fy mam, nac ychwaith wedi meddianu llyfndra olewaidd yr iaith Saesneg, yr hon yn awr sydd wedi ei reffeinio fel y mae yn aml yn ymylu ar weniaeth."

Ond er pob peth yr oedd gwrthnaws yr esgobion, ac eiddigedd y clerigwyr dioglyd a meddw, at Griffith Jones a'i ysgolion yn parhau; ac yn y flwyddyn 1752 cyhoeddwyd traethodyn bustlaidd, ond heb enw wrtho, i'w waradwyddo, ac i geisio enyn rhagfarn yn ei erbyn. Teitl y traethawd yw: *Peth o hanes yr Ysgolion Elusengar Cymreig, a chyfodiad a chynydd Methodistiaeth yn Nghymru trwy eu hofferynoliaeth, dan drefniant a chyfarwyddid unigol Griffith Jones, offeiriad, Person Llanddowror, yn Sir Gaerfyrddin, mewn hanes byr o fywyd y Clerigwr hwnw fel Clerigwr.* Dywed Gwilym Lleyn mai awdwr y llyfryn hwn oedd y Parch. John Evans, person eglwys Gymmun, ger Llanddowror, dyn drwg ei foes, a gelyn anghymodlawn i Griffith Jones a'r diwygiad. Ond yr oedd John Evans yn hyn o orchwyl dan dâl gan Esgob Tyddewi, yr hwn na phetrusai ddefnyddio yn ddirgelaidd yr offerynau gwaelaf i ddrygu dyn na feiddiai ei erlid yn gyhoeddus. Nis gellir dychymygu am ddim butrach na'r traethodyn hwn; y mae ei iaith yn isel, ac mewn manau yn rhy anweddaidd i'w gosod mewn argraff; daw gelyniaeth a malais i'r golwg yn mhob brawddeg a llinell. Wele rai o'r cyhuddiadau:—

1. Mai Catecism Matthew Henry a arferai Griffith Jones wrth gateceisio rhwng y llithiau, pan y tybid yn gyffredin ei fod yn defnyddio Catecism Eglwys Loegr; ac iddo wasgar 24,000 o'r cyfryw Gatecism, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, rhwng ei ysgolheigion.

2. Y maentymiai fod ŵyn gwerthfawr i Grist yn mhlith y gwahanol sectau.

3. Mai Ymneillduwyr oedd ei rieni, ac na fu yntau eu hun erioed yn gymodlawn ag Eglwys Loegr, gyda ei chanonau, ei homiliau, ei chlerigwyr, a'i rubric.

4. Iddo dreulio peth amser, tra yn beriglor yn Llanddowror, i astudio Hebraeg dan Mr. Perrot, Athraw y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin.

5. Fod naw o bob deg o'r rhai a gymun-

* *Welsh Piety*, 1742.

ent yn ei eglwys yn Ymneillduwyr, y rhai na chroesent drothwy unrhyw eglwys, ond yr eiddo ef.

6. Ei fod yn cydymdeimlo a Methodistiaeth; mai efe a wnaeth Howell Harris yn Fethodist, a'i fod yntau ei hun yn gohebu a'r Methodistiaid.

7. Ei fod yn ei Eglurhad ar Gatecism yr Eglwys yn esbonio ymaith yr athrawiaeth werthfawr am ail-enedigaeth mewn bedydd, ac yn honi na all bedydd, nac unrhyw beth arall, heb ffydd yn Nghrist, wneyd neb yn Gristion.

8. Ddarfod iddo ef a'i ffrynd (Madam Bevan, yn ddiau), fyned i drafferth a thraul fawr i ddiddymu gwyl-mabsantau, a chwareuyddiaethau, er mawr niwed i haelfrydedd a chariad Cristionogol a chymydogaeth dda, i'r hyn y gwasanaethai y chwareuon yn fawr, ac heb fod unrhyw niwed o bwys yn eu canlyn.

9. Mai yn dyrnor llestri coed y cafodd ei ddwyn i fynu, a'i fod yntau yn arfer y gwaith hwnw wrth ei bleser pan yn beriglor yn Llanddowror.

10. Y derbyniai dâl am bregethu ar hyd a lled y wlad, y disgwyliai gael haner coron yn nghil ei ddwrn ar derfyn pob pregeth, tra na thalai efe y neb a wasanaethai yn ei le yn Llanddowror.

11. Ei fod yn cyfnewid y Litani, ac yn gadael allan ddarnau cyfain o'r gwasanaeth, er mwyn cael amser i weddïo a phregethu ei hun.

Ceir yn y traethodyn liaws ychwanegol o'r cyffelyb gyhuddiadau. Desgrifir Griffith Jones yn yr iaith fwyaf garw ac aflan fel rhagrithiwr ffiaidd, gormeswr creulawn, a chelwyddwr diail; a dynodir ei ganlynwyr fel lladron, creaduriaid diog, puteinwyr, a phenboethiaid anwybodus. Yn synwyrol iawn, ni wnaeth Mr. Jones unrhyw sylw o'r llyfryn; aeth yn ei flaen gyda ei waith heb gymeryd arno glywed cabledd a difriaeth ei wrthwynebwyr. Nid ydym yn gwybod i neb sylwi arno, hyd nes y darfu i Ieuan Brydydd Hir gyfeirio ato yn y flwyddyn 1776, yn nghyflwyniad ei lyfr cyntaf o bregethau "I Syr Watkin Williams Wynn, o Wynnstay, Barwn." Dywed efe fod "rhai o weinidogion cydwybodol yr efengyl wedi dyoddef yn greulawn yn y blynyddoedd diweddaf dan yr esgobion arglwyddaidd a gormesol. Od amheuir hyn, cyfeiriaf at ysgrifeniadau y diweddar dduwiol a gwir barchedig Mr. Griffith Jones, o Llanddowror, yr hwn a ddyoddefodd holl fustleiddiwch offeiriad llwgr-wobrwyedig, a gyflogasid gan yr esgobion i'w drybaeddu, er ei fod ef, trwy neillduol ras Duw, heb na brycheuyn na chrychni arno, ond yr hyn a welai malais a gwallgofrwydd yn dda ei fwrw."

Er pob gwrthwynebiad lliosogi a wnaeth yr ysgolion, a chynyddu a wnaeth rhif yr ysgolheigion. Nid oedd ball ar ymdrechion Griffith Jones o'u plaid; dadleuai drostynt yn y *Welsh Piety* y naill flwyddyn ar ol y llall, gan brofi y da a effeithid trwyddynt, a chyhoeddi tystiolaethau ffafriol iddynt o bob rhan o'r wlad. O'r ochr arall, yr oedd gwanc anniwall yn y werin am ddysgu darllen. Deuai y dall, y cloff, yr anafus, a'r hen, i'r ysgol, ac wylent ddagrau o lawenydd oblegyd eu braint. Ymledodd yr ysgolion dros yr oll o'r Dywysogaeth; plenid hwy yn fynych yn y mynydd-dir anghysbell, ac yn y cymoedd mwyaf unig, fel ag i roddi i bawb gyfleustra i ddysgu darllen yr Ysgrythyr lân. Wele daflen yn dangos eu hansawdd, a gyhoeddwyd gan Mr. Jones yn 1760, sef blwyddyn cyn ei farw.

| Siroedd. | Ysgolion. | Ysgolheigion. |
|---|---|---|
| Brycheiniog | 4 | 196 |
| Aberteifi | 20 | 1153 |
| Caerfyrddin | 54 | 2410 |
| Morganwg | 25 | 872 |
| Mynwy | 2 | 61 |
| Penfro | 23 | 837 |
| Môn | 25 | 1023 |
| Caernarfon | 27 | 981 |
| Meirionydd | 15 | 508 |
| Dinbych | 8 | 307 |
| Trefaldwyn | 12 | 339 |
| Oll ynghyd | 215 | 8687 |

Oddiwrth y daflen uchod, gwelir mai dwy yn unig o holl siroedd Cymru oedd heb ysgolion, sef Maesyfed a Fflint. Anhawdd dweyd paham yr oeddynt hwy yn eithriadau. Priodola rhai hyny i elyniaeth ffyrnig yr offeiriaid yn erbyn y Diwygiad; ond nid oes genym un prawf eu bod yn fwy gelynol iddo yn y ddwy sir hon nag yn y rhanau eraill o Gymru. Efallai fod gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn fwy cyffredinol ynddynt; yr oedd Maesyfed yr adeg hon yn ym-Saesnegeiddio yn gyflym; ac felly nad oeddynt yn sefyll mewn cymaint o angen am yr ysgolion Cymraeg.* Yn ystod deng-mlynedd-arhugain parhad yr Ysgolion Cylchynol, dywedir i dros gant a haner o filoedd gael eu dysgu i ddarllen Gair Duw, oedran y rhai a amrywiai o chwe' blwydd hyd dros

* *Sir Thomas Phillips' Wales*, p. 284.

ddeg-a-thriugain. Nid oes ond y "dydd hwnw" a ddengys faint y daioni a gadd ei effeithio trwy y moddion hyn.

Wedi creu darllenwyr, teimlodd Griffith Jones fod angenrhaid wedi ei osod arno i'w cyflenwi a llyfrau, ac y mae ei ymdrechion yn y mater hwn yn gyfartal i'w eiddo fel pregethwr ac addysgydd. Yn neillduol yr oedd y wlad yn llwm iawn o Feiblau. Er cyfarfod yr angen yma, gwnaeth appel at ewyllyswyr da achos y Gwaredwr yn Nghymru a Lloegr; a chwedi derbyn cymorth helaeth, llwyddodd i gael gan Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol i ddwyn allan argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg. Dygwyd yr argraffiad hwn allan y flwyddyn 1746; cynwysai bymtheg mil o gopïau, a golygid ef gan Rhisiart Morris, brawd Llewellyn Ddu o Fôn, yr hwn oedd yn Swyddfa'r Llynges, yn Llundain, ac yn ŵr tra dysgedig. Yn ychwanegol at y Beibl, ceid ynddo y Llyfr Gweddi Cyffredin, yr Apocrypha, ynghyd a'r Salmau Can, a Mynegair. Addurnid yr argraffiad hefyd a dwy barthlen *(map)*, "Rhodd W. Jones, Ysw., F.R.S., i'r Cymry." Yr oedd y W. Jones hwn yn dad i'r ieithydd Dwyreiniol enwog, Syr William Jones. Gwerthid y Beiblau am bris isel, fel y gallai y cyffredin eu meddianu; os byddai neb yn rhy dlawd i'w prynu, rhoddid hwy yn rhad; nid rhyfedd felly i'r pymtheg mil copïau gael eu gwasgar mewn byr amser. Yn y flwyddyn 1752, cawn Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, ar anogaeth Griffith Jones, yn cyhoeddi argraffiad arall o'r Beibl Cymraeg, tan olygiaeth yr un Rhisiart Morris. Yr oedd hwn eto yn bymtheg mil o gopïau, ac yn debyg i'r cyntaf, ond fod yr Apocrypha wedi adael allan o hono. Heblaw lledaenu y Beibl, er mwyn goleuo ei gydwladwyr, cyfansoddodd nifer dirfawr o lyfrau, a chyfieithodd eraill, oll o nodwedd athrawiaethol neu ddefosiynol. Dengys y daflen a ganlyn pa mor fawr a fu ei lafur yn y cyfeiriad hwn.*

CYFIEITHIADAU AC AD-ARGRAFFIADAU—

1712—Hynodeb Eglwysyddol.
1722—Holl ddyledswydd dyn, &c.
1743—Crynodeb o'r Salmau Cân, &c. 164 tudal.
1749—Pigion Prydyddiaeth Pen Fardd y Cymru, 212. (Y "Pen Fardd" hwn oedd Ficer Prichard, Llanymddyfri).
1758—Lloffion Prydyddiaeth, sef 46 o Ganiadau o waith Mr. Rees Prichard, 92 tudal.

ADRODDIADAU SAESNEG YR YSGOLION CYLCHYNOL, SEF "WELSH PIETY."

1737—O 1734 hyd 1737.
1740—1754. Pymtheg Adroddiad, oll yn 824 tudal.
1755—1760. Saith neu wyth Adroddiad.

LLYFRAU SAESNEG ERAILL—

1741—An Address to the Charitable and Well-disposed, 20 tudal.
1745—A Letter to a Clergyman, 90 tudal.
1747 (?)—Twenty Arguments for Infant Baptism.
1750—Instruction to a Young Christian. Eglurhad ar Gatecism yr Eglwys mewn ffordd o Holiad ac Ateb. (Y mae yn ddwyieithog, pris 4c.)
17 (?)—The Christian Covenant, or the Baptismal Vow, as stated in our Church Catechism, Scripturally explained by Questions and Answers. (2nd Edition, 1762; 3rd, 1770).
17 (?)—The Christian Faith, or the Apostles' Creed, spiritually explained by Questions and Answers. (2nd Edition, 1762).
17 (?)—Platform of Christianity, being an Explanation of the 39 Articles of the Church of England (ar awdurdod Mr. Charles).

LLYFRAU DEFOSIYNOL—

1730—Dwy Ffurf o Weddi, 48 tudal. (Ail Argraffiad, 1762).
1738—Galwad at Orseddfainc y Gras, 148 tudal.
1750—Eto Ail Argraffiad, 148 tudal.
1740—Hyfforddwr at Orseddfainc y Gras, yr ail ran o'r Alwad at Orseddfainc y Gras, 140 tudal.
17 (?)—Anogaeth i Folianu Duw. (Dyri Mr. Charles hwn fel un o'i lyfrau).

HYFFORDDIADAU, NEU GATECISMAU—

1737—Cyngor rhad i'r Anllythyrenog, neu lyfr bach mewn ffordd o Holiad ac Ateb.
1741—Hyfforddiad i Wybodaeth Iachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefydd, sef Holiadau ac Atebion Ysgrythyrol ynghylch yr Athrawiaeth a gynwysir yn Nghatecismau yr Eglwys. Angenrheidiol i'w dysgu gan Hen ac Ieuainc. Y mae hwn yn bum' rhan, ac yn cynwys 642 tudal.
1748—Drych Difynyddiaeth, neu Hyfforddiad i Wybodaeth Iachusol. (Yn ol pob tebyg ail-argraffiad yw hwn o'r llyfr blaenorol tan enw arall).
1749—Llythyr ynghylch y Ddyledswydd o Gateceisio plant a phobl anwybodus, 48 tudal.
1749—Hyfforddiad Gymwys i Wybodaeth Iachusol, 330 tudal. (Talfyriad o Hyfforddiad 1741).
1752—Esboniad byr ar Gatecism yr Eglwys. Yn bum' rhan, 170 tudal. (Talfyriad o'r llyfr diweddaf). Cafodd ei argraffu hefyd yn 1762, 1766, a 1778, ac yn rhanau wrthynt eu hunain o hyny hyd yn awr, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol.

Yr oedd cychwyniad Griffith Jones fel awdwr yn fychan. Dechreuodd fel cyfieith-

* Y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool, yn *Lladmerydd*, 1887.

ydd, aeth yn mlaen i fod yn Dalfyrydd,* a thybir iddo gyfnewid rhyw gymaint ar "Holl Ddyledswydd Dyn," er ei wneyd yn fwy efengylaidd a Chalfinaidd. O'i holl lyfrau, ei Gatecismau sydd fwyaf hysbys, ac wedi bod o fwyaf o ddefnydd. Yr oedd yn agos i driugain mlwydd oed pan y cyhoeddodd yr "Hyfforddiad," yr hwn, fel y gwelir, sydd waith mawr o 612 tudalen. Catecism Eglwys Loegr yw ei sail, ond eglura ynddo yn bur fanwl a goleu athrawiaethau pwysicaf Cristionogaeth. Trinia y materion yn helaeth; rhydd yr Ysgrythyrau sydd yn profi yr atebion yn llawn; rhana yr ateb weithiau i ddeg neu ddeuddeg o benau, a rhai o honynt yn llanw tua dalen gyfan. Cafodd ledaeniad eang. Dywedir fod cynifer a deuddeng mil o'r rhan gyntaf wedi eu hargraffu. Mewn hysbysiad sydd yn ei ragflaenu, dywed na ddisgwyliai i neb ddysgu ar ei gof gatecism mor faith, ond iddo gael ei ddarpar i'w ddarllen yn ystyriol a mynych; un i ddarllen dau neu dri o'r cwestiynau a'r atebion ar nos Sabbath, neu o'r wythnos, i bawb o'r tylwyth, ac iddynt hwythau ateb yn eu geiriau eu hunain yn ganlynol. Ond y fath oedd yr awch am wybodaeth a lanwai feddwl ieuenctyd y wlad, fel yr hysbysa yn mhen ychydig, fod rhai pobl ieuainc obeithiol wedi ei drysori oll yn eu cof. Pa fodd bynag, gwelodd yn angenrheidiol ei fyrhau, er ei gymhwyso ar gyfer y lliaws; felly yn 1749, cyhoeddodd dalfyriad o hono, tua haner maint y llyfr blaenorol. Ond yn mhen tair blynedd, y mae yn talfyru y talfyriad, gan ei alw yn Esboniad byr ar Gatecism yr Eglwys. Y Catecism byraf hwn sydd fwyaf hysbys. Griffith Jones a gymerwyd yn gynllun gan Mr. Charles wrth gyfansoddi ei 'Hyfforddwr,' er iddo mewn eglurder, trefn, a chymwysedd, dra rhagori ar ei ragflaenydd. Yn ei ragymadrodd i'r Crynodeb, y ffurf gyntaf ar yr Hyfforddwr, dywed Mr. Charles: "Cymerais yn hyf amryw Gwestiynau ac Atebion allan o Esponiad rhagorol Mr. G. Jones." Tra yn coleddu y syniadau uchaf am Griffith Jones fel duwinydd, prin yr ystyriai Mr. Charles ef yn gynllun o ysgrifenydd, am nad oedd yn ddigon syml a chryno. Fel hyn y dywed am dano:† "Fel ysgrifenydd yr oedd ei ddoniau yn helaeth, ond yn hytrach yn gwmpasog, gorlanwog, ac amleiriog; a'i frawddegau yn faith a dyryslyd. Dengys bob amser wybodaeth helaeth am yr hyn y traetha am dano, ac amlyga ei feddwl mewn ymadroddion addas, ac iaith gan mwyaf yn bur ac ardderchawg. Mae rhai o'i draethodau diweddaf yn rhagori llawer ar ei gyhoeddiadau mwyaf boreuol, o ran destlusrwydd cyfansoddiad, dichlynrwydd ymadrodd, a phurdeb iaith. Ysgrifena bob amser yn Ysgrythyrol, yn ddifrifol, ac yn bwysig, fel un am wneuthur llesad i eneidiau dynion. Yn y cwbl, ymddengys yn dduwinydd da, o wybodaeth a doniau helaeth, a chariad gwresog at achos yr efengyl." Y gwir yw fod Mr. Charles ei hun yn rhagori yn fawr arno mewn ysgrifenu yn gryno ac yn oleu, yn gystal ag mewn tlysni arddull. Ond gwnaeth Griffith Jones, trwy ei ysgrifeniadau, wasanaeth anrhaethol i genedl y Cymry, nid oes ond goleuni y farn a ddengys ei faint; trwyddynt gwawriodd cyfnod newydd ar y wlad, yr hon yn flaenorol oedd yn dra amddifad o lenyddiaeth grefyddol boblogaidd. Gwasgarwyd ei Gatecismau yn arbenig o'r naill gwr o'r Dywysogaeth i'r llall; ac anaml y ceid bwthyn yn nghesail y mynyddoedd hebddynt. Yn nygiad allan ei lyfrau, cafodd gymorth sylweddol gan Y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol; yr hyn a'i galluogai i'w gwerthu am bris isel, ac i'w rhoddi yn rhad i'r rhai oeddynt yn rhy dlawd i'w prynu.

Bu Griffith Jones fyw am chwarter canrif wedi cychwyniad y Diwygiad Methodistaidd, ond ni ddarfu iddo fwrw ei goelbren yn gyhoeddus gyda y Diwygwyr. Nis gellir gwybod i sicrwydd pa beth a'i hataliodd. Priodola Williams, Pantycelyn, hyn i dywyllwch ei foreuddydd, a gwendid ei ffydd:—

> "Ond am fod ei foreu 'n dywyll,
> Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
> Fe arswydodd fyn'd i'r meusydd,
> Ac i'r lleoedd nad oedd llan."

Efallai fod yr hyn a ddywed Williams yn wir am ei foreu, ond nid oes arwyddion o ddiffyg gwroldeb na phall ar ffydd i'w canfod yn mywyd yr Efengylydd o Landdowror, gwedi i'w ddydd fyned yn nes yn mlaen. Tebygol fod rhai pethau ynglyn a'r Diwygiad na fedrai eu cymeradwyo yn hollol. Dywed Howell Harris mewn llythyr o'i eiddo, a gafodd ei ysgrifenu yn ol pob tebyg yn y flwyddyn 1743, ddarfod i'r Parch. Griffith Jones, yn y *Welsh Piety*, weini cerydd caredig i'r Methodistiaid, ond na wnaethai hyny yn ddiachos, gan fod cryn lawer o anrhefn yn eu mysg. Y

* Y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool, yn *Lladmerydd*, 1887.

† *Trysorfa Ysbrydol.* Llyfr II.

mae lle i dybio hefyd nad oedd yn cymeradwyo yn gyfangwbl y cyffro a'r gwaeddu oedd yn cydfyned a gweinidogaeth nerthol Daniel Rowland, a bod rhywrai wedi cludo iddo anwireddau am ymddygiadau y y gŵr da hwnw, ac am ei syniadau tuag ato.* Mewn llythyr at Rowland, dywed Howell Harris ddarfod iddo ei amddiffyn wrth Griffith Jones, a'i hysbysu nad oedd wedi ei glywed yn dweyd gair yn isel am G. Jones erioed; ond fel arall yn hollol, ei fod bob amser yn siarad yn barchus am dano, ac am ei waith. Yn mhellach, ei fod yn gwneyd defnydd mawr o'i Gatecism, ac yn anog y bobl i'w brynu.

Tebygol hefyd y barnai Griffith Jones y gallai wneyd mwy o ddaioni ynglyn ag achos y Gwaredwr trwy beidio ymuno yn gyhoeddus a'r Methodistiaid, gan y byddai hyny yn debyg o greu rhagfarn yn erbyn ei ysgolion ac yn erbyn ei lyfrau. Nid ydym yn sicr nad oedd yn barnu yn gywir. Pa fodd bynag, amlwg yw ei fod mewn cydymdeimlad dwfn a'r Diwygiad, ac yn dymuno Duw yn rhwydd iddo. Disgybl iddo ef, a godasid i fynu wrth ei draed yn yr ysgol yn Llanddowror, oedd Howell Davies; teimlai ddyddordeb dwfn ynddo, a gwnaeth appêl cyhoeddus at y gynulleidfa am weddïo drosto Sabbath ei ordeiniad. Y mae yn bur sicr na ddarfu i Howell Davies droi allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau yn Sir Benfro, ac uno yn gyhoeddus a Rowland a Harris, heb ymgynghori a'i hen athraw. A chawn gyfeiriadau mynych at Griffith Jones yn llythyrau Howell Harris.† Wele ychydig ddifyniadau: "Cefais y ffafr o ymddiddan am rai oriau a'r anwyl a'r gwerthfawr Mr. Griffith Jones. Y mae yn cynyddu yn rhyfedd. Pa fwyaf wyf yn gyfeillachu ag ef, mwyaf oll yr wyf yn gweled ei werth."‡ "Cafodd Mr. Davies a minau tua phum' neu chwech awr o siarad a'r Parch. G. Jones bythefnos i ddoe. Y mae yn llawn zêl, ac yn dyfod agosach agosach wrth glywed llefau yr ŵyn. Y mae ganddo yn awr yn y wasg esboniad ar yr erthyglau."§ "Pythefnos i foru yr wyf yn gobeithio clywed yr hen filwr ymdrechgar, Mr. Griffith Jones, yr hwn sydd wedi cael ei arddel i chwalu cadarn-leoedd Satan am dros ddengmlynedd-ar-hugain, ag sydd o hyd yn dal yn mlaen, ac yn cael ei arddel yn rhyfedd yn ei weinidogaeth." Cawn ef yn adrodd ddarfod iddo tua diwedd y flwyddyn 1742 ymweled a Llanddowror, ac aros yno dros Sul y cymundeb, a dywed: "Pan yn derbyn y sacrament yno, yr wyf yn credu na chefais erioed y fath ddatguddiad o fy anwyl Arglwydd, yr hwn er cymaint wyf yn demtio arno, sydd yn parhau i fod yn fwy fwy gwell i mi o ddydd i ddydd." Hawdd gweled natur teimlad Howell Harris at Griffith Jones, ac y mae yn debygol fod teimlad ei holl gydlafurwyr yn gyffelyb. Nid yw yn ymddangos ychwaith ddarfod i Griffith Jones gyfyngu ei weinidogaeth yn gyfangwbl i'r "lleoedd nad oedd llan." Pregethai yn nghapelau yr Arglwyddes Huntington yn Bath a Llundain.‖ Pan ddaeth yr "etholedig arglwyddes" ar daith trwy Gymru yn y flwyddyn 1748, cyfarfu a hi yn Bristol Howell Harris, Daniel Rowland, Howell Davies, a Griffith Jones, y rhai a fu yn osgordd iddi trwy holl amser ei harosiad yn y Dywysogaeth. Trafaelent yn araf; ac am fwy na phymtheg niwrnod pregethai dau o'r gweinidogion bob dydd yn y pentref neu y dref drwy yr hon y byddent yn pasio. Pan feddylier pa mor ddysglaer oedd doniau gweinidogaethol Mr. Jones, a pha mor fawr oedd ei barchedigaeth, gallwn fod yn sicr na oddefid iddo fod yn fud ar y cyfryw achlysuron. Yn Sir Aberteifi, ymwelwyd a'r cwmni gan Philip Pugh, Llwynpiod. Wedi taith faith, cyrhaeddasant Trefecca, lle y daeth yn ychwanegol Williams, Pantycelyn; Thomas Jones, Cwm Iau; Thomas Lewis, Aberhonddu; a Lewis Rees ac eraill. Tra yno pregethai y gweinidogion dair neu bedair gwaith y dydd yn yr awyr agored i'r torfeydd lliosog oedd wedi ymgasglu i wrando yr efengyl. Unwaith cafodd Griffith Jones odfa nerthol iawn ar y maes, pan yn pregethu oddiar y geiriau hyny yn Esaiah, "Beth a waeddaf?" Yr oedd y fath ddylanwadau nerthol yn cydfyned a'i genadwri fel y dwysbigwyd llawer, ac y dolefent allan yn y modd mwyaf torcalonus. Wedi i'r cyfarfod derfynu, holai yr Arglwyddes rai o'r cyfryw am yr achos o'u llefau. Atebent hwythau eu bod wedi cael eu hargyhoeddi o'u sefyllfa druenus a'u cyflwr euog gerbron Duw, fel yr ofnent na wnai byth gymeryd trugaredd arnynt. Profa yr hanes hwn y pregethai Griffith Jones mewn lleoedd anghysegredig, ac y cydweithredai weithiau

---

* *Weekly History.*
† *Weekly History*, 1743.
‡ *Ibid.* § *Ibid.*

‖ *Life and Times of Selina, Countess of Huntington*, tudal. 85.

a'r Diwygwyr, er nad oedd wedi ymuno a hwy. Y mae yn eglur fod gwaith Griffith Jones yn cyflenwi y wlad a Beiblau, ac a Chatecismau, a llyfrau crefyddol eraill; a'i waith trwy yr ysgolion yn dysgu y bobl i ddarllen, yr hyn a gerid yn mlaen am chwarter canrif ochr yn ochr ag ymdrechion y Tadau Methodistaidd, yn gefnogaeth o'r fath fwyaf sylweddol i'r Diwygiad. Oni bai am ei lafur ef, y mae yn amheus a fuasai llafur Harris, a hyawdledd Rowland a Howell Davies, wedi gadael effeithiau mor barhaol ar y wlad. Pe aem i olrhain dylanwad y gwahanol offerynau a ddefnyddiodd yr Arglwydd i efengyleiddio Cymru yr adeg hon, braidd na theimlem mai dylanwad yr Efengylwr a'r Addysgydd o Landdowror oedd y dwysaf a'r eangaf. Yr oedd y werin, wedi cael craff ar ddarllen, yn awyddus am ddefnyddio y gallu newydd oeddynt wedi feddianu. Hirnos gauaf, yn lle adrodd chwedlau ofergoelus am fwganod a drychiolaethau, ceid y meibion a'r merched yn y ffermdai a'r bwthynod yn darllen Gair Duw goreu y medrent yn uchel; a'r hen bobl yn gwrando yn astud, a'r dagrau yn llanw eu llygaid wrth glywed newyddion mor ogoneddus. Cyfarfyddid i gyd-adrodd ei Gatecism, a llenwid y cymoedd mynyddig a'r pentrefydd gwledig gan swn y rhai oeddynt yn ymgais i'w drysori yn eu cof. O flaen dylanwad dystaw yr addysg Ysgrythyrol, diflanodd y bwganod allan o'r tir, a lle ni chafwyd iddynt mwyach. Yn hollol gywir olrheinia Mr. Johnes darddiad Methodistiaeth yn ol i Griffith Jones, er o bosibl na fwriadai ef ddim o'r fath. Gwna yr un gŵr y sylw canlynol: *"Fod ychydig o weinidogion duwiol ac ymroddgar yn wendid yn hytrach na chryfder i sefydliad crefyddol, pan y mae y mwyafrif o'r gweinidogion yn ddiofal am eu dyledswyddau cysegredig; am fod zêl yr ychydig yn gwneyd y tywyllwch yn fwy gweledig, ac yn gwneyd y bobl yn fwy annyoddefol o gamwri."

Bu farw Griffith Jones ar yr 8fed o Ebrill, 1761, yn y 78 flwyddyn o'i oed, yn nhŷ Madam Bevan. Yr oedd ei wraig wedi marw beth amser o'i flaen. Bu farw yn ogoneddus, heb ymddiried dim yn ei ymdrechion, ond yn llawn ffydd yn ei Waredwr.† Wrth gyfaill a alwasai i'w weled cyffesai ei waeledd a'i ddiffrwythder. Atebodd y cyfaill na ddylasai ddywedyd felly, gan ddarfod iddo fod mor llafurus trwy ei oes, a bod yr Arglwydd wedi gwneyd defnydd mor fawr o hono. Yr oedd y claf yn grwm yn ei wely, ac yn pwyso ei ddwy benelin ar ei benliniau; ond ar hyn ymsythodd, a chan edrych yn myw llygaid y cyfaill, gofynodd, "Beth! a'i cymeryd plaid y gelyn yr ydych?" Wrth gyfaill arall a alwasai i ofyn ei helynt, dywedai, "Rhaid i mi ddwyn tystiolaeth i ddaioni Duw. Yr ydwyf, ïe, yn awr, yn rhydd oddiwrth y diffyg anadl yr oeddwn yn ddarostyngedig iddo yn fy ieuenctyd. Nid wyf yn ddall, fel y bum dros dair wythnos yn fy mabandod gan y frech wen; ac nid wyf yn gardottyn dall yn hel fy nhamaid o ddrws i ddrws. Mor rhyfedd yw daioni Duw, gan nad wyf yn teimlo dim poen, ac am fy mod yn debyg o fyned i'r bedd mewn esmwythder. Mor rhyfedd yw trugaredd Duw, fy mod yn gallu canfod yn eglur yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd Crist drosof fi, ac nad oes genyf yr amheuaeth leiaf am fy hawl yn fy Achubwr Hollalluog." Yna aeth yn mlaen i folianu, "Bendigedig fyddo Duw! Y mae ei ddiddanwch yn llenwi fy enaid!" Dywed Mr. Charles fod ei gladdedigaeth yn dra galarus, a bod lluoedd o bobl dlodion, trwy eu gwynebau gwlybion a'u dagrau heilltion, yn tystiolaethu eu cariad a'u tristwch, o herwydd colli gŵr mor rhagorol.


Er gwneyd pob ymchwiliad, methwyd a dod o hyd i ddarlun Griffith Jones. Hysbysir ni gan bobl ag y disgwylid eu bod yn gwybod nad oes yr un ar gael, ac nad oes lle i feddwl ddarfod i ddarlun o hono gael ei gymeryd erioed. Nid oes darlun ar gael ychwaith o Madam Bevan. Gan i ni fethu darganfod unrhyw ddarlun o hono, a bod y persondy yn ymyl yr eglwys lle y trigai yn gyd-wastad a'r ddaear, nid oes genym ond rhoddi i'n darllenwyr ddarluniau o bentref Llanddowror, yr eglwys, a'r maen coffadwriaethol sydd uwchben ei fedd.

Yn ei ewyllys gadawodd yr oll a feddai, sef tua saith mil o bunoedd, i Madam Bevan, mewn ymddiriedaeth, i'w defnyddio at wasanaeth yr Ysgolion Cylchynol.‡ Bu hi fyw am ddeunaw mlynedd yn mhellach, sef hyd 1778, a thrwy ystod ei hoes gofalodd am ysgolion Griffith Jones. Cyn ei marw gadawodd dair mil o bunoedd ychwanegol yn ei hewyllys at yr un amcan, fel yr oedd yr holl swm yn ddeng mil. Ond ceisiodd y Gymunweinyddes, yr Arglwyddes Stepney, feddianu yr arian fel

* *Causes of Dissent in Wales.*

† *Y Drysorfa*, 1813.

‡ *Enwogion y Ffydd.*



LLANDDOWROR.

eiddo personol; ac mewn canlyniad cauwyd yr ysgolion, a thaflwyd yr holl achos i'r Canghell-lys. Yno yr arhosodd yr arian hyd y flwyddyn 1808, pan yr oeddynt wedi cynyddu i ddeng-mil-ar-hugain. Gwnaed trefniant y pryd hwnw i ail agor yr ysgolion, ond ar gynllun hollol wahanol i eiddo Griffith Jones a Madam Bevan; daeth yr oll yn gysylltiedig ag Eglwys Loegr, a chauid pawb allan o honynt ond y rhai oeddynt yn mynychu y llan. Felly ychydig a fu eu defnydd i genedl y Cymry. Gadawn Griffith Jones a'i hanes godidog trwy ddifynu rhanau o'i farwnad ardderchog gan Williams, Pantycelyn:—

"Dacw'r Beiblau têg a hyfryd,
  Ddeg-ar-hugain filoedd llawn,
Wedi 'u trefnu i ddod allan,
  Trwy ei ddwylaw'n rhyfedd iawn;
Dau argraffiad, glân ddiwygiad,
  Llawn ac uchel bris i'r gwan;
Mewn cabanau fe geir Beiblau
  'Nawr gan dlodion yn mhob man.

Hi, Ragluniaeth ddyrys, helaeth,
  Wna hob peth yn gydsain llawn,
D'wed nad gwiw argraffu Beiblau
  Heb eu darllen bwy yn iawn;
Daeth yn union ag ysgolion,
  O Werddon fôr i Hafren draw;
Rhwng y defaid mae'r bugeiliaid
  'Nawr a'r 'Sgrythyr yn eu llaw.

Tair o filoedd o ysgolion
  Gawd yn Nghymru faith a mwy,
Chwech ugain mil o ysgolheigion
  Fu, a rhagor, ynddynt hwy;
Y goleuni ga'dd ei enyn
  O Rheidol wyllt i Hafren hir,
Tros Blumlumon faith yn union
  T'wynodd ar y Gogledd dir.

Braidd ca'dd plwyf nac ardal ddianc
  Heb gael iddo gynyg rhad,
O fanteision ddysgai'n union
  Iddynt ddarllen iaith eu gwlad.

Dyma'r gwr a dorodd allan
  Ronyn bach cyn tori'r wawr;
Had fe hanodd, fe eginodd,
  Fe ddaeth yn gynhanaf mawr;
Daeth o'i ol fedelwyr lawer,
  Braf, mor ffrwythlawn y mae'r ŷd!
'Nawr mae'r wyntyll gref a'r gogr
  Yn ei nithio'r hyd y byd.

Griffith Jones gynt oedd ei enw,
  Enw newydd sy' arno'n awr,
Mewn llyth'renau na ddeallir
  Ei 'sgrifenu ar y llawr;
Cân, bydd lawen, aros yna,
  Os yw Duw, o entrych ne',
Yn gwel'd eisiau *points*, a dysgu,
  Fe fyn rywun yn dy le."

Gwir y prophwydodd Williams. Fe gyfododd Duw olynydd teilwng i Griffith Jones yn y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, o fendigedig goffadwriaeth.

# PENOD III.

——:o:——

## Y DIWYGIAD METHODISTAIDD YN LLOEGR.

*Nad deilliad o Fethodistiaeth Lloegr yw Methodistiaeth Cymru—Cychwyniad y symudiad yn Rhydychain—"Y Clwb Sanctaidd"—John a Charles Wesley—John Gambold, y Cymro—Manylwch rheolau a hunanymwadiad aelodau y "Clwb Sanctaidd"—Y symudiad yn un Sacramentaraidd ac Uchel-eglwysyddol—Dylanwad y Morafiaid ar John Wesley—Wesley yn ymwrthod a Chalfiniaeth—Yr ymraniad rhwng Wesley a Whitefield—Y ddau yn cael eu cymodi trwy offerynoliaeth Howell Harris.*

NID oedd un cysylltiad allanol a gweledig rhwng cychwyniad y Diwygiad Methodistaidd yn Nghymru a'r Diwygiad yn Lloegr. Nid gwreichion o'r tân oedd wedi dechreu cyneu yn Rhydychain a gafodd eu cario gyda'r awel i Langeitho a Threfecca, gan enyn calonau Daniel Rowland a Howell Harris, fel y darfu i rai haeru mewn anwybodaeth. Daeth tân Duw i lawr i Gymru yn uniongyrchol o'r nefoedd; ac yr oedd Rowland a Harris wedi bod yn llafurio am agos i ddwy flynedd, ac wedi cynyrchu effeithiau rhyfeddol trwy eu gweinidogaeth, cyn iddynt glywed gair am yr hyn oedd yn cymeryd lle yr ochr hwnt i'r Hafren. Ond yr ydym yn galw sylw at y Diwygwyr Saesneg, oblegyd yr undeb agos a fu rhyngddynt am gryn dymor a ni fel corff o bobl. Oddiwrthynt hwy y derbyniodd y Cyfundeb ei enw. Bu amryw o honynt droiau ar daith trwy y Dywysogaeth, yn pregethu yr efengyl, a bu gweinidogaeth y ddau Wesley, ac yn arbenig eiddo Whitefield, yn nodedig o fendithiol. Am dymhor, edrychid ar ganlynwyr Whitefield a Cennick yn Lloegr, a chanlynwyr Rowland a Harris yn Nghymru, fel yn ffurfio un cyfundeb. Whitefield a lywyddai yn y Gymdeithasfa gyntaf yn Watford, a gwnaeth lawn cymaint a Rowland a Harris i roddi ffurf i'r Diwygiad. Cawn ef mewn amryw o'r Cymdeithasfaoedd dilynol, a phan yn bresenol efe fyddai yn ddieithriad yn y gadair. Edrychid arno fel un o'r arweinwyr. Byddai Harris a Rowland, ac eraill o bregethwyr Cymru, drachefn yn myned i Loegr, ac i'r Tabernacl yn Llundain, gan aros yno weithiau am wythnosau i weinidogaethu; a byddent, hyd y medrent, yn presenoli eu hunain yn y Cymdeithasfaoedd a gynhelid yno, ac yn cymeryd rhan ynddynt. Tebygol mai anhawsder yr iaith, ac anghyfleustra teithio, a barodd i'r Diwygwyr Cymreig ymddieithrio yn raddol oddiwrth eu brodyr yr ochr arall i Glawdd Offa.

Gellir olrhain dechreuad Methodistiaeth Lloegr i waith nifer o ddynion ieuainc yn Rhydychain yn ymuno a'u gilydd i ddarllen y Testament Groeg. Cymerodd hyn le yn Nhachwedd y flwyddyn 1729. Nid hawdd dweyd pa nifer a gyfenwid yn Fethodistiaid, ac a ystyrid yn aelodau o'r "Clwb Sanctaidd," fel yr oedd yn cael ei alw, gan yr amrywiai y rhif ar wahanol amserau. Ond yr oedd yn eu mysg y rhai canlynol: John Wesley, Charles Wesley, ei frawd, Robert Kirkham, William Morgan, George Whitefield, John Clayton, J. Broughton, Benjamin Ingham, James Hervey, John Gambold, Charles Kinchin, William Smith, ac eraill. Nid arhosodd y rhai hyn oll ynghyd; bu dadleuon poethion a chwerwder ysbryd nid bychan yn eu mysg; a chawn rai yn cymeryd y cyfeiriad hwn, ac eraill y cyfeiriad arall; ond yr oeddynt oll yn mron yn ddynion difrifol, ac yn llawn awyddfryd am wasanaethu y Gwaredwr. Glynodd rhai wrth yr Eglwys Sefydledig, a chymerasant fywioliaethau o'i mewn; ymunodd eraill a'r Eglwys Forafaidd, lle y cyrhaeddasant safle uchel; cawn eraill drachefn yn ffurfio cyfundebau crefyddol newyddion, ac yn dyfod yn ben arnynt. Ond, fel y sylwa Tyerman, byddai yn anhawdd i'r byd ddangos cwmni o ddynion, ag y darfu eu bywyd a'u gweinidogaeth, dan fendith y nefoedd, fod o gymaint lles i ddynolryw, ag eiddo y rhai a elwid yn Fethodistiaid Rhydychain. Fel yr afonydd a lifai allan o Eden, er tarddu o'r un fangre,




METHODISTIAID LLOEGR

*(a fuont yn llafurio yn Nghymru).*

cymerasant wahanol gyfeiriadau, ond gwnaethant yr ardaloedd trwy ba rai y ffrydient yn ffrwythlawn ac yn iach, a hyfrydwch nid bychan i'r hanesydd crefyddol ei yspryd ydyw olrhain eu dylanwad.

Bywyd ac enaid y "Clwb Sanctaidd" yn ddiau oedd John Wesley. Yn aml fe briodolir cychwyniad y mudiad hwn iddo ef; ond nid yw hyny yn gywir. Perthyna yr anrhydedd i Charles Wesley a William Morgan, a chymerodd hyn le pan yr oedd John Wesley wedi gadael Rhydychain er mwyn gwasanaethu ei dad fel cuwrad. Pan ddychwelodd yn ol yn mhen amser, a chael fod y mudiad yn gydnaws a'i feddwl, taflodd holl frwdfrydedd ei natur iddo; ac yn y man disgynodd arweiniad y blaid newydd yn hollol naturiol i ddwylaw John Wesley. Cawsai ei ddwyn i fynu tan ddisgyblaeth lem; er fod ei dad yn ficer Epworth, ac yn ddyn tra rhagorol, yr oedd ei fam yn hynotach am ei synwyr cryf a'i duwioldeb personol; ac nid ymryddhaodd John oddiwrth ddylanwad ei fam tra y bu byw. Yr oedd yntau yn ddyn o yni a bywiogrwydd diderfyn; perchenogai ewyllys gref, anhyblyg; meddai lygad barcud i adnabod ei gyfleusterau, a chyflymder dirfawr i fanteisio arnynt. Mae yn amheus a anwyd i'r byd ragorach trefniedydd; gwnaethai gadfridog digyffelyb pe y cymerasai gyfeiriad milwraidd; gwnaethai ail Napoleon neu ail Wellington. Nid oedd yn athronydd dwfn, ac nid oedd ei ddirnadaeth o wirioneddau mawrion y Beibl yn eu cysondeb a'u gilydd mewn un modd yn eang. Bu am ran fawr o'i oes yn sigledig yn ei olygiadau duwinyddol, weithiau yn Uchel-eglwysyddol, bryd arall yn tueddu at y Morafiaid, ac yn cael ei ddylanwadu yn fawr ganddynt; ond am y rhan olaf o'i fywyd, yr oedd yn fath o Arminiad efengylaidd. Llafuriodd yn galed; teithiodd a phregethodd am oes faith yn ddidor; a chyn iddo farw, cafodd weled y Cyfundeb Wesleyaidd, a sylfaenwyd ganddo, wedi gwasgar ei gangau tros yr holl fyd adnabyddus. Charles Wesley, ei frawd, oedd emynydd y Cyfundeb Wesleyaidd, er i John gyfansoddi rhai emynau tra rhagorol, y rhai a genir ac a ystyrir yn safonol hyd heddyw. Dyn siriol a charedig oedd Charles Wesley, llai galluog na John; ac fel math o is-filwriad i'w frawd mwy penderfynol, yn ei gynorthwyo gyda ei drefniadau, ac yn cario allan ei gynlluniau, y treuliodd ei oes. Pregethwr y Diwygiad Saesneg oedd George Whitefield. Ni ymunodd ef a'r "Clwb Sanctaiddd" hyd ar ol rhai blynyddoedd gwedi ei sefydliad. Oblegyd tlodi amgylchiadau, math o wasanaeth-efrydydd *(servitor)* oedd yn y Brif-ysgol; cynhaliai ei hun yno yn benaf a'r arian a dderbyniai am weini ar blant boneddigion a dynion arianog. Felly



"Y CLWB SANCTAIDD."

edrychai i fynu at y ddau Wesley, y rhai oeddynt feibion clerigwr. Er ei fod o duedd-fryd grefyddol, ac wedi dechreu gweddio a chanu Salmau wrtho ei hun yn ddyddiol, ofnai anturio at y Methodistiaid; ond trwy ryw ddigwyddiad rhagluniaethol, daeth i gydnabyddiaeth a Charles Wesley, ac ar unwaith bwriodd ei goelbren yn eu mysg. Dyn yn berwi trosodd o natur dda oedd Whitefield; nis gallai oddef ymrafaelion a dadleuon, er iddo gael ei orfodi i gymeryd rhan mewn llawer o'r cyfryw; yr oedd yn llawer mwy heddychol a hynaws na John Wesley, ac yn gant mwy caredig a rhydd-frydig. O'r holl Ddiwygwyr Saesneg, nid oedd neb i'w gymharu ag efe am ddysgleirdeb doniau gweinidogaethol; dylanwadai yn gyffelyb ar y dysgedig a'r annysgedig; toddai y glowyr o gwmpas Bryste, a'r *mob* ar y Moorfields yn Llundain, ac ar yr un pryd swynai a gorchfygai a'i hyawdledd llifeiriol Hume yr anffyddiwr, nad oedd yn credu gair o'r athrawiaeth a bregethid ganddo. A phregethwr ydoedd. I bregethu yr efengyl y credai ef ei hun ei fod wedi cael ei alw. Nid oedd yn amddifad o allu trefniadol, er nad oedd i'w gystadlu yn hyn o beth a'i gyfaill John Wesley, a chawn ef fwy nag unwaith yn gadeirydd y Gymdeithasfa yn Nghymru. Ond diystyrai drefniadaeth, tybiai fod eraill yn gymhwysach nag ef at y cyfryw waith, a dywedai yn bendant mai i argyhoeddi yr annuwiol yr oedd ef wedi ei gymhwyso. Felly manteisiodd Wesleyaeth yn Lloegr yn ddirfawr ar ei lafur. Pe buasai wedi amcanu ffurfio cyfundeb, ac ymroddi i hyny, buasai ei ganlynwyr yn lliosog yn Lloegr ac America. Teithiodd yntau lawer; teimlai hoffder mawr at Gymru, a Chymraes, o ymyl y Fenni, oedd ei wraig. Bu saith o weithiau trosodd yn yr America, ac yno y cafodd fedd; a bu yn offeryn i argyhoeddi canoedd o bechaduriaid. Adnabyddir ei ddilynwyr yn Lloegr fel Cyfundeb Iarlles Huntington.

Cymro oedd John Gambold, yr unig un o holl aelodau y "Clwb Sanctaidd" y mae sicrwydd ei fod yn Gymro. Nid annhebyg hefyd mai Cymro oedd William Morgan, er mai ger Dublin y ganwyd ef. Y mae ei enw yn Gymreig, a gwyddis i amryw deuluoedd o Gymru ymfudo i'r Iwerddon tuag amser y chwildroad. Ganwyd John Gambold yn Puncheston, swydd Benfro, Ebrill 10, 1711, ac yr oedd ei dad yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Cyfyng oedd ei amgylchiadau, oblegyd gwasanaeth-efrydydd (*servitor*) oedd yn Rhydychain. Yr oedd o duedd fywiog a siriol; fel y rhan fwyaf o'r Cymry, ymhoffai mewn barddoniaeth, a dywedir y treuliai lawer o'i amser i efrydu gweithiau y prif feirdd Saesneg, ynghyd ac eiddo y prif chwareu-ganwyr (*dramatists*). Yn mhen dwy flynedd wedi iddo fyned i Rydychain, bu ei dad farw, a darfu i'r amgylchiad, ynghyd a chynghorion a rhybuddion ei dad ar ei wely angau ei ddifrifoli, a pheri iddo wneyd iachawdwriaeth ei enaid yn brif bwnc ei fywyd. Ond bu am amser dan argyhoeddiadau dwysion, ac heb gael golwg ar drefn yr efengyl. Dywed iddo fod am ddwy flynedd mewn pruddglwyfni dwfn, a darfod i'r Arglwydd, er plygu ei yspryd balch, wneyd y byd yn chwerw iddo. "Nid oedd genyf neb," meddai, "i ba un y gallwn agor fy mynwes, na neb yn gofalu am fy enaid. Yr oeddynt hwy yn esmwyth arnynt, ac nis gallent ddirnad am beth yr oeddwn i yn gofidio." Yn rhagluniaethol, pa fodd bynag, daeth i gyffyrddiad a'r ddau Wesley, ac ymunodd a'r Methodistiaid dirmygedig. Ordeiniwyd ef gan Esgob Rhydychain, Medi 1733, ac mor fuan ag y daeth yn alluog i ddal bywioliaeth, cafodd ficeriaeth Stanton-Harcourt. Yn y pentref gwledig hwn, heb fod nepell o Rydychain, y treuliodd saith mlynedd o'i oes mewn neillduaeth, yn myfyrio ar gwestiynau athronyddol a duwinyddol dwfn, ac yn pregethu yn mhell uwchlaw amgyffredion ei wrandawyr syml. Ond fel John Wesley ei hun, daeth dan ddylanwad y Morafiaid, a chyfnewidiodd o ran ei farn gyda golwg ar rai o wirioneddau yr efengyl; taflodd ei athroniaeth i'r gwynt, a daeth yn gredadyn syml yn y Gwaredwr. Yn y flwyddyn 1742, gadawodd gymundeb Eglwys Loegr, ac ymunodd a'r Morafiaid, a chyda hwy y treuliodd weddill ei oes, ysbaid o naw-mlynedd-ar-hugain. Yn bur fuan gwnaed ef yn esgob ganddynt. Tua dwy flynedd cyn ei farw, oblegyd ei afiechyd, daeth i wasanaethu eglwys y Morafiaid yn Hwlffordd, yn y gobaith y byddai i awyr ei wlad enedigol brofi yn llesiol iddo. Ond suddo yn raddol a wnaeth. Hunodd Medi, 1771, a chladdwyd ef yn mynwent yr eglwys Forafaidd yn Hwlffordd.

Yr oedd John Gambold yn ddyn o ddiwylliant helaeth, ac yn llenor gwych. Cyfansoddodd amrai lyfrau, yn benaf er amddiffyn y cyfundeb i ba un y perthynai; a chyhoeddodd ddwy o'i bregethau. Ond rhagorai fel emynydd. Efe a olygai lyfr hymnau y Morafiaid yn Lloegr, a chredir fod nifer mawr o'r emynau a gynwysa

wedi eu cyfansoddi ganddo. Yr oedd yn nodedig am ei dduwiolfrydedd, ac am hynawsedd ei yspryd. Tra y methai John Wesley gyd-ddwyn a gormes a haerllugrwydd Zinzendorf, penaeth y Morafiaid, bu Gambold yn llafurio yn y cyfundeb hwnw am y rhan olaf o'i oes mewn pob brawdgarwch. Ac yr un pryd nid oedd yn amddifad o asgwrn cefn; gallai aberthu pob peth er mwyn egwyddor. Pan y gadawodd yr Eglwys Sefydledig, i bob ymddangosiad wynebai ar dlodi; oblegyd nid oedd ond triugain a deuddeg o Forafiaid y pryd hwnw yn holl Lundain. Teimlodd yn ddwys oblegyd y cyfeiriad a gymerodd y ddau Wesley, a darfyddodd ei gyfeillgarwch a hwy yn hollol; yn wir, dywedodd wrth John fod arno gywilydd bod yn ei gymdeithas. Er hyn oll, parchai John Wesley ef yn ddirfawr, ac ychydig amser cyn ei farw, dywedai mai efe oedd un o'r dynion callaf a mwyaf pwyllog yn Lloegr. Gall Cymru ymfalchio yn yr Esgob Gambold.

Rhaid i'n sylwadau ar y gweddill o aelodau y "Clwb Sanctaidd" fod yn fyr. Disgynai Benjamin Ingham oddiwrth un o weinidogion Eglwys Loegr a drowyd allan yn 1662 am wrthod cydffurfio. Pan yn ddwy-arhugain oed, bwriodd ei goelbren gyda'r Methodistiaid yn Rhydychain. Ymunodd yntau a'r eglwys Forafaidd, ac ni adawodd ei chymundeb pan y trodd y ddau Wesley eu cefnau. Llafuriodd yn benaf yn swydd Gaerefrog (*Yorkshire*). Pregethai gyda nerth; dylifai y bobl wrth y miloedd i'w wrando, achubwyd llawer trwy ei weinidogaeth, a sefydlodd eglwysi Morafaidd trwy y wlad. Cyn diwedd ei oes, cefnodd ar y Morafiaid, a sefydlodd gyfundeb o'i eiddo ei hun. O herwydd ymrysonau tumewnol, yr oedd wedi dyfod i'r dim agos cyn i Ingham farw; ac yn y diwedd ymunodd yr ychydig eglwysi a'i cyfansoddent a'r Annibynwyr Ysgotaidd. Arosodd James Hervey, un arall o enwogion y "Clwb Sanctaidd," yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd yn ddyn o ddiwylliant uchel, ac yn llenor coeth, a thrwy ei ysgrifeniadau gwnaeth lawer er dyfnhau gafael crefydd efengylaidd ar y dosparthiadau uchaf. Am John Clayton, arosodd yntau hefyd yn Eglwys Loegr, ac yn Uchel-eglwyswr defodol y parhaodd hyd ddiwedd ei oes.

Yr ydym wedi nodi ddarfod i Fethodistiaeth Rhydychain gychwyn yn nghynulliad nifer o ddynion ieuainc yn darllen y Testament Groeg. Ond yn bur fuan daeth yn gyfeillach grefyddol. Dechreuasant gydweddïo, a chyd-gynllunio pa fodd i lesoli eu cyd-ddynion. Penderfynasant ymwrthod a danteithion bywyd, gan fwyta yn unig yr hyn oedd yn angenrheidiol i gynal natur. Ymwrthodent a thê, a chwrw, ac i raddau mawr a chigfwyd, fel y byddai ganddynt beth i'w gyfranu mewn elusen i'r tlodion. Nid gorchwyl hawdd oedd hyn i rai, oblegyd cawn un o honynt ychydig yn flaenorol, mewn llythyr at John Wesley, yn darlunio gydag asbri rhyfeddol fel yr oedd wedi mwynhau dysglaid o gig llô a bacwn, gyda baril o seidir newydd ei thapio. Tynasant allan reolau manwl pa fodd i ymddwyn yn ddyddiol ac yn wythnosol. Yn ol y rhai hyn yr oeddynt i dreulio dwy awr bob dydd mewn gweddi, i weddïo wrth fyned i'r eglwys a dyfod o honi, ac i weddïo ar wahan am awr dri diwrnod o'r wythnos ar yr un adeg, fel y byddai cyd-gymundeb rhyngddynt. Yr oeddynt yn mhellach i godi yn foreu, i dreulio awr bob dydd mewn siarad a dynion yn uniongyrchol am bethau crefydd, i wneyd eu goreu i rwystro drwg, ac hyd ag oedd ynddynt i berswadio pawb i bresenoli eu hunain yn yr addoliad cyhoeddus. Amlwg fod y dynion ieuainc a'u heneidiau yn llosgi o'u mewn gan awydd gwneyd daioni. Yr oeddynt wedi eu llenwi a difrifwch ofnadwy. Rhybuddient eu cyd-efrydwyr annuwiol a llygredig eu moesau am fater eu henaid; ymwelent a theuluoedd isel y ddinas, gan daranu yn erbyn anwiredd; cyfranent yr oll a feddent mewn elusenau, ac ymwelent a'r tlottai a'r carchardai, gan gynghori pawb i ymdrechu am fywyd tragywyddol. Dywed John Gambold yr arferent gyfarfod bob hwyr, yn gyffredin yn ystafell John Wesley, er adolygu gweithrediadau pob un yn ystod y dydd, a gwneyd trefniadau ar gyfer y dydd dilynol. Cynwysai y trefniant ymddiddan difrifol ag efrydwyr y Brif-ysgol, ymweliadau a'r carcharau, addysgiant teuluoedd tlodion, ymweled a'r tlotty, a gofal am yr ysgol a osodasid i fynu ganddynt. Gyda golwg ar yr ysgol, cawsai ei sefydlu gan John Wesley; efe a dalai y feistres, a chan mwyaf a ddilladai y plant. Fel engrhaifft o'u helusengarwch gellir nodi y ffaith ganlynol. Un diwrnod oer yn y gauaf, galwodd crotes dlawd ar John Wesley. Yr oedd ei gŵn yn deneu, a hithau yn mron sythu gan anwyd. Gofynodd iddi, 'Ai nid oes genych gynhesach gŵn na'r un sydd am danoch?" Atebai yr eneth, "Syr, dyma yr oll sydd genyf." Rhoddodd Wesley ei law yn ei logell er ei chynorthwyo, ond yr oedd agos a bod yn wag. Ond yr

oedd muriau ei ystafell yn orchuddiedig gan ddarluniau, a throdd y rhai hyn yn gyhuddwyr iddo. Gwaeddodd yn uchel, "O Gyfiawnder! O Drugaredd! Ai nid yw y rhai yma yn werth gwaed yr eneth dlawd hon?" Gwerthodd hwy oll, a dilladodd y ferch. Nid yn fynych y cair engrhaifft o'r fath gydwybodolrwydd. Yn ychwanegol, cyfranogent o'r cymun bendigaid yn wythnosol, ac aent yn orymdaith i Eglwys Crist i'r pwrpas. Pan gofiom pa mor llygredig oedd Rhydychain yr adeg hon, y modd yr oedd drwg yn cael ei ystyried yn ffasiynol, ac anffyddiaeth ronc yn cael ei phroffesu gan lawer yn gyhoeddus, hawdd deall ddarfod i Wesley a'i gwmni ar unwaith ddyfod yn wrthrychau sylw. Cyfeirid atynt yn gyhoeddus. Gwaradwyddid hwy yn mhob modd. Dihysbyddwyd ystorfeydd yr iaith Saesneg er cael enwau digon dirmygus i'w gwarthruddo. Gelwid hwy y "Clwb Sanctaidd," y "Clwb Duwiol," ac yn ddiweddaf yn "Fethodistiaid," gyda chyfeiriad at ddosparth o feddygon, nodedig o drefnus eu harferion, a fuasai yn bodoli gynt. Glynodd yr enw diweddaf wrthynt. Ond nid oedd y frawdoliaeth fechan yn gofalu am ddirmyg y Brif-ysgol; aethant yn mlaen yn ol argyhoeddiadau eu cydwybod; mabwysiadasant yr enw a roddasid arnynt mewn cellwair, ac yn raddol daeth yn enw o anrhydedd.

Ar yr un pryd rhaid addef fod y Methodistiaid yr adeg hon yn mron yn hollol anwybodus am rai o athrawiaethau mwyaf hanfodol crefydd efengylaidd. Ni wyddent ddim am gyfiawnhad trwy ffydd, a gwaith yr Ysbryd Glân. Y gwir yw fod y symudiad ar y cyntaf yn un hollol ddefodol a sacramentaraidd, lawn cymaint felly a'r symudiad Tractaraidd a gychwynwyd yn yr un lle gan Pusey a Newman ryw haner can' mlynedd yn ol. Ni fu Pharisead erioed yn fwy manwl a gofalus am ei phylacterau a defodau ei grefydd, nag yr oedd Methodistiaid Rhydychain am y gwisgoedd offeiriadol, a ffurfiau a defodau Eglwys Loegr. Dalient yr athrawiaeth am bresenoldeb gwirioneddol Crist yn y sacrament, ac edrychent ar y cymun bendigaid fel aberth. Cadwent yn ofalus holl ddyddiau y saint. Sancteiddient y Sadwrn a'r Sul; y cyntaf fel y Sabboth, a'r olaf fel Dydd yr Arglwydd. Ymprydient yn fynych; trwy holl amser y Garawys ni phrofent gig oddigerth ar y Sadwrn a'r Sul; a chadwent bob dydd Mercher a dydd Gwener fel dydd o ympryd, gan ymgadw rhag archwaethu unrhyw fwyd hyd ar ol tri yn y prydnhawn. Credent mewn penydiau, ac hefyd yn y gyffesgell. Llithrasant i'r cyfeiliornad Pabyddol, y dylid cymysgu dwfr gyda'r gwin sacramentaidd, am i ddwfr yn gystal a gwaed ddyfod allan o gorff ein Harglwydd pan drywanwyd ef a'r bicell gan y milwr; a chawn John Clayton yn ysgrifenu at Wesley mewn gradd o betrusder, gyda golwg ar y priodoldeb o gymuno pan na chymysgid dwfr gyda'r gwin. Yr oeddynt yn llawn o athrawiaeth yr olyniaeth apostolaidd. Y fath oedd gwrthnaws John Wesley at bob peth y tu allan i gylch Eglwys Loegr, a'i ddirmyg o Ymneillduaeth, fel y gwarafunodd i John Martin Bolzius, un o ddynion duwiolaf ei oes, gyfranogi o'r sacrament am nad oedd wedi cael ei fedyddio gan glerigwr perthynol i'r Eglwys Sefydledig. Nid rhyfedd ei fod yn cywilyddio oblegyd ei gulni mewn blynyddoedd diweddarach. Pan yn Savannah edrychid arno fel Pabydd; a dywed ei fywgraffydd ei fod yn Buseyad gan' mlynedd cyn i Pusey gael ei eni. Bwriadodd yn ddifrifol sefydlu cymdeithas uchel-eglwysig a sacramentaraidd, yn mha un y cedwid yn fanwl yr holl ddefodau haner Pabyddol y ceir unrhyw sail iddynt yn y *rubric*, ac y gofelid am sancteiddio dyddiau y saint, a'r gwyliau, ynghyd a phob peth a berthyn i ddefodaeth eithafol. Ond yr oedd gan yr Arglwydd fwriadau gwahanol gyda golwg ar y Methodistiaid. Gan eu bod yn hollol ddifrifol, ac yn gweithredu yn gydwybodol yn ol y goleuni oedd ganddynt, arweiniodd Duw hwy oddi amgylch i beri iddynt ddeall, ac yn y diwedd dygwyd hwy i oleuni clir yr efengyl. Cymerodd hyn le mewn cysylltiad a John Wesley ei hun trwy offerynoliaeth un Peter Bohler, gweinidog perthynol i'r Morafiaid, tua dechreu y flwyddyn 1738. Barnai ef ei hunan ei fod yn flaenorol i hyny yn ddyn annuwiol. Eglurodd Peter Bohler iddo natur ffydd yn Nghrist, ynghyd a'r effeithiau a'i dilynant. "Rhaid i chwi daflu eich athroniaeth dros y bwrdd," meddai y Morafiad wrtho; gwrandawodd yntau, a thros y bwrdd y cafodd fyned. O hyny allan yr oedd yn gredadyn, yn pwyso ar iawn y Gwaredwr am gymeradwyaeth, gan waeddu fel Paul: "Ac a'm cair ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith." Heb fod yn hir dygwyd y rhan fwyaf o'i gyfeillion gynt i


ryddid yr efengyl fel yntau. Yn wir y mae yn amheus a fu Whitefield yn ddefodwr eithafol o gwbl.

Gellir edrych ar Fethodistiaeth Rhydychain fel yn parhau o 1729 hyd 1735. Yn y flwyddyn a nodwyd ddiweddaf ymwahanodd y frawdoliaeth, ac ni ailunwyd hi yn hollol byth. Croesodd John Wesley i drefedigaeth Georgia yn yr America, yn y bwriad o efengyleiddio yr Indiaid, lle yr arosodd tua dwy flynedd, ac aeth ei frawd, Charles, a Benjamin Ingham allan gydag ef. Gadawsai Whitefield Rydychain yn flaenorol oblegyd fod ei iechyd wedi tori i lawr. Yr oedd John Clayton wedi ymsefydlu yn Manchester, a John Gambold yn Stanton-Harcourt. Nid oedd yr ychydig a weddillasid ond gweiniaid a dinerth. Felly dychwelodd y Brif-ysgol at ei hen lygredigaethau heb fod neb i aflonyddu ar ei heddwch, a phan aeth Howell Harris yno, Tachwedd, 1735, ni chlywodd sôn am y "Clwb Sanctaidd," ac ni welodd dim ond drygioni wedi cael y fath raff nes yr oedd ei yspryd yn merwino o'i fewn. Pan ddychwelai John Wesley o Georgia, yr oedd Whitefield ar yr un adeg yn myned allan i'r un drefedigaeth. Yn y flwyddyn 1740, cyhoeddodd John Wesley bregeth dan y teitl "Rhad ras," seiliedig ar Rhuf. viii. 32, yn yr hon yr ymosodai ar yr athrawiaeth Galfinaidd am etholedigaeth gras. Ynglyn a'r bregeth yr oedd emyn o gyfansoddiad ei frawd, Charles, yn dysgu prynedigaeth gyffredinol. Clywodd Whitefield am y bregeth cyn ei chyhoeddi, ac ysgrifenodd yn ddioed at ei hen gyfaill i wrthdystio, gan grefu arno am beidio ei hargraffu, onide yr arweiniai i ymraniad. "Y fath lawenydd gan elynion ein Harglwydd," meddai, "fyddai ein gweled wedi ymranu." Trachefn dywed, "Anwyl ac anrhydeddus Syr, os oes genych unrhyw ofal am heddwch yr eglwys, cadwch yn ol eich pregeth ar rag-arfaethiad. Y mae fy nghalon yn toddi fel cwyr o fewn fy nghorff. Golchwn eich traed yn ewyllysgar. O gweddïwch na byddo unrhyw ymddyeithriad mewn serch rhyngoch chwi, anrhydeddus Syr, a mi, eich mab a'ch gwas annheilwng yn Nghrist." Mewn llythyr arall, awgryma i Wesley ar iddynt barhau i gynyg iachawdwriaeth trwy waed yr Arglwydd Iesu i bawb, a pheidio sôn yn gyhoeddus am y materion ynghylch pa rai yr anghytunent. Yr oedd enaid Whitefield yn gythryblus o'i fewn yn y rhagolwg ar ymraniad. Tua dechreu Mehefin yr un flwyddyn, ysgrifena at James Hutton, "Er mwyn Crist, dymunwch ar y brawd anwyl Wesley i beidio ymddadleu a mi. Yr wyf yn meddwl y byddai yn well genyf farw na gweled ymwahaniad yn ein plith; ac eto pa fodd y gallwn rodio ynghyd os byddwn yn gwrthwynebu ein gilydd?" Teimlai Howell Harris yn Nghymru yr un mor angerddol, ac ysgrifenodd yntau lythyr cryf at Wesley. Meddai, "Hysbysir fi i chwi droi dyn allan o'r seiat, gan rybuddio pawb i wylio rhagddo, am ei fod yn credu mewn etholedigaeth. Fy anwyl frawd, peidiwch ymddwyn yn ol yr yspryd ystiff angharedig, a gondemniwch mewn eraill. Os ydych yn ei droi ef allan oddiwrth y Methodistiaid am y fath achos, rhaid i chwi hefyd droi allan y brawd Whitefield, y brawd Seward, a minau. Gobeithiaf y caf ddal hyd fy anadliad olaf a'r diferyn diweddaf o'm gwaed, mai o herwydd gras arbenig, gwahaniaethol, ac anorchfygol, y cedwir y rhai a gedwir. O na wnaech adael y mater yn llonydd hyd nes y byddo Duw yn goleuo eich meddwl. Pa fwyaf wyf yn ysgrifenu mwyaf oll yr wyf yn eich caru." Gwelir fod Harris, fel Whitefield, yn ysgrifenu yn gyffrous, ond fod anwyldeb personol cryf at Wesley yn treiddio trwy bob brawddeg, ac mai gorfodaeth, oblegyd cydwybod i'r hyn a ystyrient yn wirionedd Duw, a barai iddynt lefaru fel y gwnaent. Ond ofer fu eu hymgais. Yr oedd Wesley wedi gwneyd ei feddwl i fynu, ac nid oedd dylanwad gelyn na chyfaill yn ddigon i blygu ei ewyllys. Cyhoeddodd ei bregeth, a dywedai yn ei gyfarchiad at y darllenydd mai dim ond yr argyhoeddiad cryfaf, nid yn unig fod yr hyn y dadleuai drosto yn wirionedd, ond hefyd fod angenrheidrwydd wedi ei osod arno ef i bregethu y gwirionedd hwnw, a'i cymhellai i wrthwynebu yn gyhoeddus syniadau y rhai y teimlai y fath barch iddynt oblegyd eu gwaith. Nid oes neb a amheua fod John Wesley yn gydwybodol yn ei ymddygiad. Ai nid doethineb ynddo fuasai gwrando ar lais ei frodyr, a pheidio son yn gyhoeddus am y pynciau y gwahaniaethai ef a hwythau gyda golwg arnynt, sydd gwestiwn arall. Dadleua yn ei bregeth "fod etholedigaeth gras o angenrheidrwydd yn golygu ddarfod y Dduw ordeinio y nifer mwyaf o ddynolryw i golledigaeth, ac mai cellwair yw cynyg yr efengyl iddynt. Y rhai hyn y mae Duw yn gasau; a chan hyny arfaethodd cyn iddynt gael eu geni eu bod i gael eu taflu

i'r llyn o dân. Arfaethodd hyny am mai hyny oedd ei ewyllys ben-arglwyddiaethol. Felly, y maent yn cael eu geni i'r pwrpas hwn, sef, fel y caent eu dinystrio enaid a chorph yn uffern." Gwelir fod Wesley yn camliwio syniadau ei wrthwynebwyr yn enbyd; daliai hwy yn gyfrifol am gasgliadau oedd ef ei hunan yn dynu, ac a pha rai y buasent yn ymwrthod yn y modd mwyaf pendant. Yr oedd ei dduwinyddiaeth yn dra unochrog, ac fel y dywed Howell Harris wrtho yn un o'i lythyrau, yn ffrwyth addysg deuluaidd yn hytrach nag yn gynyrch astudiaeth ddyfal o Air Duw.

Ond yr oedd y coelbren wedi syrthio. Dyma y Methodistiaid wedi ymranu yn ddwy blaid. Glynodd Methodistiaid Cymru fel un corph wrth yr athrawiaethau Calfinaidd; ni pharodd yr ymraniad unrhyw rwyg, ac ni achosodd fawr dadleu, yn yr eglwysi; ac yn wir nid yw yn ymddangos i Wesley wneyd unrhyw ymgais i ledaenu ei olygiadau neillduol yn y Dywysogaeth. Digon tebyg mai y parch mawr a deimlai at ei frodyr yn Nghymru, yn arbenig Howell Harris, oedd y prif reswm am hyn. Fel y gallesid disgwyl, aeth Charles Wesley gyda ei frawd, ond glynodd Cennick wrth Whitefield. Aeth John Wesley i lawr i Kingswood, ger Bryste, ddechreu y flwyddyn 1741, a throdd John Cennick, a thros haner cant o aelodau eraill, allan o'r gymdeithas. Yn nghanol y terfysg hwn y glaniodd Whitefield o'r America. Ar unwaith cyhoeddodd atebiad i bregeth Wesley ar rad ras. Yn fuan cawn ef yn dwyn allan newyddiadur o'r enw *Weekly History*, y newyddiadur Methodistaidd cyntaf erioed, gydag un o'r enw John Lewis, Cymro o Lanfairmuallt, yn olygydd iddo, er gwrthweithio golygiadau y ddau Wesley. Fel y gallesid disgwyl, aeth y rhwyg yn fwy. Rhwystrwyd Whitefield i bregethu yn y capelau y bu efe ei hun yn foddion i'w hadeiladu. Ond yr oedd yni ei yspryd, a dysgleirdeb ei ddoniau yn gyfryw, fel nas gellid ei atal rhag cael cynulleidfaoedd i'w wrando; yn bur fuan codwyd capelau iddo mewn amrywiol barthau o'r wlad, ac adeiladwyd y Tabernacl ar y Moorfields yn Llundain, lle y tyrai y miloedd, ac y cafodd llawer afael ar fywyd tragywyddol. Ar yr un pryd cariai John Wesley yn mlaen ei gynlluniau yntau. Sefydlodd y cymdeithasau neillduol; rhoddodd ganiatad i leygwyr gynghori, a threfnodd iddynt i ymweled yn rheolaidd a'r aelodau yn eu cartrefleoedd; ac argraffodd docynau, y rhai a arwyddid ganddo ef ei hun, yn dangos hawl yr aelodau i agoshau at fwrdd y cymundeb. Cawn Charles Wesley hefyd am y tro cyntaf yn gweinyddu y cymun bendigaid mewn adeilad heb ei gysegru. Gellir dweyd mai yn y flwyddyn 1741 y dechreuodd Wesleyaeth yn ystyr briodol y gair.

Gwnaed amryw ymdrechion i gymodi ac i ail-uno Whitefield a Wesley. Howell Harris yn benaf oedd wrth wraidd yr ymgais; yr oedd ef ar delerau cyfeillgar a'r ddau, ac yn eu caru yn ddwfn; canmola Wesley droiau angerddoldeb a serch ei galon fawr Gymreig. Ni fu yr ymgais yn llwyddiant mor bell ag i gynyrchu undeb gweledig, ac undeb gweithrediadau; yr oedd y ddau yn rhy bell eu golygiadau oddiwrth eu gilydd i allu gweled lygad yn llygad, ac yr oedd pob un o'r ddau yn rhy gydwybodol i aberthu yr hyn a ystyriai yn wirionedd er mwyn cyfeillgarwch; ond llwyddwyd i'w cymodi. Cyfarfyddasant a'u gilydd; credodd pob un fod y llall yn awyddus am achub eneidiau a helaethu teyrnas y Cyfryngwr; cytunasant i wahaniaethu, a chyfeillion a fuont hyd eu bedd. Dywedai Whitefield am Wesley ar ol hyn: "Yr wyf yn tybio ei fod yn gyfeiliornus mewn rhai pethau, ond credaf y bydd yn llewyrchu yn ddysglaer mewn gogoniant.' Meddai drachefn mewn llythyr at Wesley ei hun: "Bydded i'r hen bethau basio heibio; gwneler pob peth yn newydd. Gallaf ddweyd 'Amen' wrth y rhan ddiweddaf o hono. Byw byth fyddo y Brenin, a threnged dadleuaeth. Y mae wedi trengu gyda mi er ys amser." Natur serchog, gariadlawn, oedd eiddo Whitefield; ni allai oddef digasedd at hen gyfeillion; ac y mae yn dra sicr y teimlai John Wesley yn gyffelyb ato yntau. Nid yw yn perthyn i ni olrhain cynydd a gweithrediadau y ddwy gangen Fethodistaidd yn mhellach. A Whitefield a'i ganlynwyr yn unig, y rhai a elwid ar ol hyny yn Gyfundeb yr Iarlles Huntington, y bu cyfathrach a Methodistiaid Cymru, er i'r ddau Wesley fod yma droiau yn pregethu. Daw y pethau hyny dan ein sylw eto.




A Gyhoeddwyd gan R. Bowyer, Llundain, Tachwedd, 1790.




A Gyhoeddwyd yn y "Gospel Magazine," Gorphenaf, 1778.

DARLUNIAU CYNTEFIG Y PARCH. DANIEL ROWLAND,

Llangeitho.

# PENOD IV

—:o:—

## DANIEL ROWLAND, LLANGEITHO.

*Ei faboed a'i ddygiad i fynu—Ei ordeiniad—Ei droedigaeth yn eglwys Llanddewi-brefi—Yn tynu lliaws i Langeitho trwy ei bregethu tanllyd—Pregethu y ddeddf—Yn dyfod yn fwy efengylaidd—Myned allan o'i blwyf—Cyfarfod am y tro cyntaf a Howell Harris—Erlid Daniel Rowland—Sefydlu seiadau—Ei droi allan o'r eglwys—Llangeitho yn dyfod yn Jerusalem Cymru—Desgrifiadau Charles o'r Bala; Jones, Llangan; Griffiths, Nevern; Christmas Evans; John Williams, Dolyddelen; a Dr. Owen Thomas, o weinidogaeth Rowland.*

AR ben bryn goruwch dyffryn prydferth Aeron, tua milldir a haner islaw Llangeitho, ar y tu gorllewinol i'r afon, y saif amaethdy cyffredin ei olwg o'r enw Pantybeudy. Yma y ganwyd Daniel Rowland, yn y flwyddyn 1713. Ei rieni oeddynt Daniel a Jennet Rowland. Offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig oedd y tad, yn dal bywioliaethau Llancwnlle a Llangeitho, ac heb ddim neillduol ynddo i'w wahaniaethu oddiwrth glerigwyr eraill y wlad. Ail fab iddynt oedd Daniel, ond tra rhagorai ar John, y bachgen henaf, mewn talent, er i John hefyd gael ei ddwyn i fynu yn offeiriad. Ychydig o hanes maboed Daniel Rowland sydd ar gael, ond dywed traddodiad ei fod yn fachgenyn bywiog, llawn asbri a hoenusrwydd, gyda llonaid ei groen o chwareu, ac yn rhagori mewn pob math ar gamp. Yr oedd yn dywysog yn mysg ei gyfoedion ieuainc. Pa beth bynag a wnelid, ai pysgota brithyllod yn afon Aeron, chwareu hêl cadnaw ar hyd llechweddau y dyffryn coediog a thlws, neu ynte ymryson gyda y bêl droed, byddai ef yn debyg o fod ar y blaen. Rhagorai yn yr ysgol lawn cymaint ag fel chwareuwr; yfai ddysg fel yr ŷf y behemoth ddwfr. Er nad oedd yn meddu unrhyw dueddfryd grefyddol, dygid ef i fynu ar gyfer y weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, yn ol arferiad y dyddiau hyny, a chafodd ei anfon i Ysgol Ramadegol Henffordd i berffeithio ei addysg. Pan yn ddeunaw oed, cafodd ei alw adref ar farwolaeth ei dad, ac nid yw yn ymddangos iddo ddychwelyd. Ond yr oedd yn ysgolhaig pur dda, ac oblegyd hyny cawn yr esgob yn ei ordeinio yn y flwyddyn 1733, pan nad oedd ond ugain oed, ac felly heb gyrhaedd yr oedran gofynol yn ol y gyfraith. Am ryw reswm anwybyddus yn awr, ordeiniwyd ef yn Llundain, ond ar sail llythyrau cymeradwyol esgob Tyddewi, a cherddodd yntau yr holl ffordd i fynu i'r Brif-ddinas. Profa hyn dlodi ei amgylchiadau, ac yn ogystal, wroldeb ei feddwl. Ymddengys y cawsai John, ei frawd hynaf, fywioliaethau Llangeitho a Llancwnlle ar farwolaeth eu tad; yn bur fuan rhoddwyd iddo yn ychwanegol ficeriaeth Llanddewi-brefi; ac yn guwrad i'w frawd di-nôd y penodwyd Daniel Rowland. Ni chyfododd yn uwch na chuwrad yn yr Eglwys Sefydledig, ac ni chafodd trwy ystod yr holl amser y bu yn gwasanaethu fwy na deg punt y flwyddyn fel cydnabyddiaeth am ei lafur.

Dyddiau y tywyllwch oedd y rhai hyn ar Gymru. Arferai yr offeiriaid garlamu yn ddifeddwl dros y llithiau a'r gweddïau yn yr eglwys, heb y gradd lleiaf o ddifrifwch yn eu hyspryd, ac ar derfyn y gwasanaeth aent allan i ymuno ag oferwyr y plwyf, naill ai mewn yfed cwrw a meddwi yn y dafarn gerllaw, neu ynte, mewn chwareuon ac ymrysonau ar y maes. Nid oes sail o gwbl dros gredu fod Daniel Rowland fymryn gwell; yn hytrach, oddiwrth yni ei natur, gallwn gasglu ei fod y blaenaf gyda y campau ofer, a'r annuwioldeb a'r rhysedd a ffynai. Ond nid hir y cafodd ei adael yn y cyflwr hwn. Etholasid ef gan Dduw i fod yn un o'r prif offerynau yn efengyleiddiad a dyrchafiad ysprydol Cymru.

Gyda golwg ar yr amgylchiadau a arweiniasant i'w droedigaeth ceir dau draddodiad gwahanol, ond nid anhawdd eu cysoni. Yn ol un, yr oedd yn eiddigus o'r cynulleidfaoedd mawrion a ymgynullent i wrando y Parch. Phylip Pugh, gweinidog

Presbyteraidd Llwynpiod, tra y pregethai ef yn Llangeitho i furiau moelion. Wedi ymholi, cafodd fod gweinidogaeth y gwr hwnw yn tueddu i ddefroi cydwybodau dynion, trwy ddynoethi eu pechodau, a'u trueni, a'u perygl. Penderfynodd yntau gymeryd yr un cynllun. Dechreuodd daranu yn ofnadwy yn erbyn drygioni, a darlunio trueni yr annuwiol yn y byd a ddaw yn y modd mwyaf brawychus a byw. Dewisai, gan hyny, destunau priodol i'r amcan, megys, "Y drygionus a ymchwelant i uffern," "Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol," "Daeth dydd mawr ei ddigter ef." Llwyddodd y cynllun yn mhell y tu hwnt i'w ddisgwyliad. Aeth yr eglwys yn rhy fach i ddal y gynulleidfa. Tyrai dynion o bob parth o'r wlad i wrando arno, dychrynid hwy yn ofnadwy gan weinidogaeth frawychus yr offeiriad ieuanc hyawdl, a dywedir fod dros gant o ddynion wedi eu dwyn tan argyhoeddiad dwys, cyn i'r pregethwr ei hun deimlo dylanwad y gwirionedd. Ond yn raddol darfu i'r gwirioneddau a draethai gyda'r fath nerth, ddwysbigo ei gydwybod yntau.

Yn ol traddodiad arall, yr hwn a adroddir gan y Parch. John Owen, Thrussington, daeth yr Hybarch Griffith Jones, Llanddowror, i bregethu i Eglwys Llanddewi-brefi, fel yr arferai weithiau, a phenderfynodd Daniel Rowland fyned i'w wrando. Gan mor lliosog oedd y gwrandawyr, nid oedd lle iddynt oll eistedd; a bu raid i Rowland, fel canoedd eraill, sefyll ar ei draed trwy ystod y gwasanaeth. Safai gyferbyn a'r pregethwr, ac yr oedd ei ymddangosiad a'i osgo yn falchaidd a choeg; eisteddai gwatwareg ar ei wedd; a hawdd gweled ei fod yn teimlo yn ddirmygus at yr hwn oedd yn y pwlpud, ac at y bobl oedd wedi ymgynull i'w glywed. Tynodd ei agwedd sylw Griffith Jones, methodd beidio cyfeirio ato yn gyhoeddus; a thorodd allan mewn gweddi ddifrifol ar ei ran. Aeth y saeth i galon Daniel Rowland; syrthiodd ei wynebpryd, llesmeiriodd ei galon, crynodd ei liniau ynghyd, a darostyngwyd y creadur uchelolwg yn bechadur digymorth ger bron Duw. Aeth adref gyda ei gymdeithion mewn dystawrwydd, a'i wyneb tua'r llawr, a golwg ddifrifol arno.

Nid yw y ddau draddodiad mewn un



PANTYBEUDY: LLE GENEDIGAETH DANIEL ROWLAND.

modd yn anghyson. Efallai i'w argyhoeddiad gael ei gychwyn gan y gwirioneddau a draethid ganddo ef ei hun, er mai tan weinidogaeth Griffith Jones y llwyr orchfygwyd ef. Nid yw yn anmhosibl fod ei gydwybod yn anesmwyth ynddo, pan yn sefyll yn dalgryf a balch o flaen gwyneb y pregethwr yn Eglwys Llanddewi-brefi; efallai fod yr anesmwythid hwnw, a'i ymdrech yntau i gael concwest arno, yn peri iddo ymroddi i fwy o goegni a herfeiddiad nag a wnelsai oni bai hyny; dyma ymdrech olaf natur lygredig i wrthsefyll nerth y gwirionedd, a hawdd deall ei bod yn frwydr galed ac ystyfnig. Pa fodd bynag, dychwelodd yn ei ol yn ddyn newydd. O herwydd yr olwg a gawsai ar ei gyflwr, ac ar ei waith yntau ei hun yn pregethu heb unrhyw amcan teilwng, teimlai yn athrist ar y ffordd, ac yn llawn digalondid, gan benderfynu na esgynai risiau y pwlpud mwy. Soniai y bobl oedd o'i gwmpas am y bregeth ryfedd a glywsent, gan dystio na wrandawsent ei chyffelyb erioed o'r blaen; disgynai eu hymadroddion fel plwm ar ei galon yntau, nes y llewygai ei yspryd ynddo, ac y cryfheid ei benderfyniad i beidio pregethu mwyach. Eithr yr oedd un amaethwr yn eu mysg, yr hwn a farchogai wrth ochr yr offeiriad athrist, ac wrth glywed y bobl yn mawrygu pregeth Griffith Jones, tarawodd ei law ar ysgwydd Rowland, gan ddweyd: "Wel, wel, canmolwch chwi a fynoch ar y bregeth heddyw, ni chefais i ddim budd ynddi; y mae genyf fi achos diolch i Dduw am offeiriad bach Llangeitho." Cafodd geiriau y ffermwr effaith rymus ar feddwl llwfr yr offeiriad ieuanc. Penderfynodd na wnai roddi i fynu y weinidogaeth, gan ddweyd ynddo ei hun: "Pwy a wyr na wna yr Arglwydd ryw ddefnydd o honof finau, greadur gwael." Mor dda yw gair yn ei amser!

Mewn canlyniad i'r tro mawr a gymerodd le arno yn Eglwys Llanddewi-brefi, daeth gweinidogaeth Rowland yn fwy angerddol. Y ddeddf a bregethid ganddo; y ddeddf yn ei hysprydolrwydd, yn manylrwydd ei gofynion, ac yn ofnadwyaeth ei melldithion. Yr oedd ei hun wedi bod yn y tywyllwch dychrynllyd lle y mae Duw; toddasai ei galon fel cwyr yn y presenoldeb dwyfol; ac yn awr, safa yntau ar gopa mynydd Sinai, gan gyhoeddi dinystr ar euog fyd. Meddai y Parch. John Hughes:* "Yr oedd mellt a tharanau arswydus yn ei weinidogaeth. Teimlai ei wrandawyr fel pe y crynai y ddaear dan draed, gan rym y bygythion a gyhoeddai. Saethodd fellt, a gorchfygodd ei wrandawyr. Dilynid ei weinidogaeth, bellach, gan effeithiau rhyfeddol. Daethai ar y trigolion diofal fel braw disymwth; deffröid hwy megys gan ruad taranau trymion. Meddianid y canoedd a'r miloedd a ddeuent weithiau i'w wrando a braw aruthrol, a syrthiai llawer o honynt i lawr fel meirwon. Gellid canfod arswyd a dychryn wedi ei bortreadu ar wynebau y dyrfa fawr; llethid eu cydwybodau gan saethau llymion; a llifai eu dagrau yn afonydd dros eu gruddiau, fel cawodydd o wlaw ar ol taranau mawrion." Tra y pregethai fel hyn, gan fygwth yr annuwiol, dywedir nad oedd gerwinder yn ei lais, na llymder yn ei wedd; ond i'r gwrthwyneb, y tynerwch mwyaf toddedig, fel pe y buasai ei ymysgaroedd yn toddi o'i fewn, oblegyd cyflwr difrifol y gynulleidfa.

"Boanerges oedd ei enw,
 Mab y daran danllyd gref,
Sydd yn siglo yn ddychrynllyd
 Holl golofnau dae'r a nef;
Dewch, dihunwch, oedd yr adsain,
 Y mae 'n dinas ni ar dân;
Ffowch oddiyma mewn mynydyn
 Ynte ewch yn ulw mân."

Ar yr un pryd, er mor rymus y pregethai Daniel Rowland, ac er mor angerddol y dylanwadau oeddynt yn cydfyned a'i weinidogaeth, nid yw yn ymddangos fod ei olygiadau am athrawiaethau hanfodol yr efengyl mewn un modd yn glir. Yr oedd wedi llyncu rhai o syniadau cyfeiliornus William Law. Prin hefyd y deallai fod iachawdwriaeth yn gyfangwbl o ras; yn hytrach, pregethai fel pe byddai mewn rhan trwy ras, ac mewn rhan trwy weithredoedd. Oblegyd hyn, achwynai rhai perthynol i gynulleidfa Llwynpiod wrth Mr. Pugh, eu gweinidog, gan geisio ganddo fyned at Rowland i ymliw ag ef oblegyd ei gyfeiliornadau, a cheisio ei osod ar yr iawn. Ond yr oedd yr hen weinidog hybarch yn adnabod y natur ddynol yn well. "Gadewch ef yn llonydd," meddai, "offeryn yw ag y mae yr Arglwydd yn ei gyfodi i wneyd rhyw waith mawr yn y byd. Fe ddiwygia mewn amser. Plentyn ydyw eto; fe ddysg ei Dad nefol ef yn well." Ateb teilwng o apostol. Meddai Dr. Lewis Edwards, "Nid wyf yn gwybod am ddim yn holl hanes Rowland ei hun, sydd yn dangos mwy o fawredd moesol na'r dywediad hwn o eiddo gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llwynpiod."

* *Methodistiaeth Cymru*, Cyf. i. tudal. 69.

Yr ydym am olrhain arweiniad rhagluniaeth ddwyfol yn mywyd Daniel Rowland. Ni symudodd gam, ond fel yr oedd bys Duw yn cyfeirio. Arweiniwyd ef i bregethu y tu allan i derfynau ei blwyf yn y modd canlynol. Yr oedd gwraig o gymydogaeth Ystrad-ffin, yn Sir Gaerfyrddin, a chanddi chwaer yn preswylio yn Llangeitho. Pan ar ymweliad a'r chwaer hon, clywodd y wraig bethau ryfedd am bregethu Daniel Rowland, ac am y dylanwadau rhyfeddol oedd yn cydfyned a'i weinidogaeth, nes y gelwid ef gan y difeddwl yn y gymydogaeth yn 'ffeirad crac. Penderfynodd fyned i'w wrando. Ond aeth ymaith boreu dydd Llun heb ddweyd gair wrth ei chwaer am y pregethwr na'r bregeth. Y Sabbath canlynol, pa fodd bynag, wele hi yn nhŷ ei chwaer drachefn. Dychrynodd hono, gan dybio fod rhyw ddamwain alaethus wedi digwydd, a gofynodd yn frawychus, "Beth sydd yn bod? A oes rhywbeth wedi digwydd i'r gŵr neu i'r plant?" "Nag oes," meddai y wraig, "y mae pob peth yn y teulu o'r goreu." "Paham y daethoch yma heddyw eto, ynte?" "Nis gwn yn iawn," oedd yr atebiad; "rhywbeth a ddywedodd eich 'ffeirad crac chwi sydd wedi gafaelu yn fy meddwl, fel yr wyf wedi methu cael llonydd na dydd na nos." I wrando Rowland yr aeth, a pharhaodd i fyned yno bob Sabbath, er fod ganddi dros ugain milldir o ffordd arw, tros fynyddoedd anhygyrch, i'w teithio. Un tro mentrodd fyned ato, a dweyd, "Syr, os gwirionedd yw yr hyn ydych chwi yn bregethu, y mae llawer o ddynion yn fy nghymydogaeth i mewn cyflwr truenus iawn; er mwyn yr eneidiau gwerthfawr sydd yn cyflymu i golledigaeth mewn anwybodaeth, deuwch trosodd i bregethu iddynt." Tarawyd Rowland, a chwedi myfyrio am ychydig, atebai yn ei ddull sydyn ei hun, "Dôf, os câf ganiatâd yr offeiriad." Y caniatâd gofynol a gafwyd, aeth Rowland i gapel Ystrad-ffin i bregethu, yr hyn a wnaed ganddo gyda chysondeb am rai blynyddoedd, a dychwelwyd llawer trwy ei weinidogaeth. Gyda chyfeiriad at hyn y canai Williams:—


> "Daeth y sŵn dros fryniau Dewi,
> Megys fflam yn llosgi llin,
> Nes dadseinio creigydd Towi,
> A hen gapel Ystrad-ffin."

Y mae amheuaeth a oedd Eglwys Loegr yn defnyddio capel Ystrad-ffin yr adeg hon. Buasai yn nghau, heb fod unrhyw wasanaeth crefyddol yn cael ei gynal ynddo, am gryn amser; nid annhebyg ei fod felly ar hyn o bryd. Digwyddodd amgylchiad teilwng o'i gofnodi ynglyn a phregeth gyntaf Daniel Rowland yn Nghwm Towi. Yr oedd yn y gymydogaeth foneddwr, annuwiol ei foes, yr hwn a arferai dreulio y Sabbath mewn hela gyda ei gŵn. Clywsai yntau fod Rowland i ddyfod i'r capel i bregethu y Sul hwnw, a'i fod allan o'i bwyll, ac yn dweyd pethau rhyfedd. Aeth ef a'i gymdeithion i wrando, er mwyn difyrwch cnawdol, os nad er mwyn codi terfysg. Safai yn dalgryf ar fainc gyferbyn a'r pregethwr; yr oedd dirmyg yn ei wedd, a gwatwareg yn argraffedig ar ei wynebpryd. Amcanai ddyrysu gweinidog Duw. Deallai Rowland ei fwriad yn dda, ond yr unig effaith a gafodd arno oedd peri iddo fod yn fwy hyf dros ei Feistr. Ei destun ydoedd, "Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw!" Dechreuodd daranu yn ofnadwy, fflamiai ei lygaid gan eiddigedd sanctaidd dros Dduw, a disgynai ei ymadroddion gyda y fath nerth a dylanwad nes yr oedd y gynulleidfa yn welw gan ddychryn. Yn fuan dyma ddychrynfeydd y farn yn ymaflyd yn y boneddwr annuwiol; gwelwa ei wedd a diflana ei uchel-drem; y mae ei liniau yn curo ynghyd fel eiddo Belsassar, pan y gwelodd y darn llaw yn ysgrifenu ar galchiad y pared, ac ymollyngodd yn sypyn diymadferth ar y llawr. Felly yr arhosodd hyd ddiwedd y bregeth, gan grynu ac wylo. Wedi i'r gwasanaeth derfynu, aeth at Rowland gan gyfaddef ei fai, a'i ddrwg-fwriad wrth ddyfod i wrando arno; gofynai ei faddeuant yn edifeiriol, a dymunai arno fyned adref gydag ef i giniaw ac aros tros y nos. Achubwyd y dyn, elai i Langeitho unwaith y mis ar ol hyn tra y bu byw, a dygai ei ymarweddiad da a'i ddefosiwn dystiolaeth ddiamheuol i wirionedd ei grefydd.

Dyna fel yr arweiniwyd Daniel Rowland i weinidogaethu allan o'i blwyf; dyddorol sylwi eto pa fodd ei cymhellwyd i bregethu mewn lleoedd anghysegredig. Dylid cofio mai adeilad eglwysig oedd Capel Ystrad-ffin, a'i fod wedi cael ei gysegru yn rheolaidd gan esgob, yn yr amser gynt, i weini mewn pethau sanctaidd ynddo. Ymddengys fod nifer o ieuenctyd annuwiol yn nghymydogaeth Llangeitho wedi ymgaledu mewn drygioni i'r fath raddau fel na allai hyd yn nod enwogrwydd Rowland eu tynu i wrando yr efengyl; treulient eu Suliau ar ben bryn gyferbyn a'r pentref, lle yr ymroddent i bob math o chwareuon annuwiol, er mawr ofid i'w enaid sanct-

aidd. Gwnaeth ei oreu i osod terfyn ar y cyfryw chwareuon, ond bu pob ymdrech o'i eiddo yn aflwyddianus. O'r diwedd penderfynodd yr ai yno i bregethu. Yno yr aeth ryw Sabbath, a'i yspryd gwrol yn llawn o hyfdra sanctaidd; methodd y cwmni drygionus ddal mîn a nerth yr athrawiaeth, ac ymwahanasant am y cyntaf. Fel hyn y chwalwyd y nyth annuwiol hono. Wedi dechreu rhybuddio dynion drwg y tu allan i furiau yr eglwys, gan ymosod arnynt megys ar eu tiriogaethau eu hunain; a chwedi canfod y fath lwyddiant a'r fath fendith yn cydfyned a'i ymdrechion, naturiol iddo oedd myned rhagddo, a phregethu pa le bynag y caffai ddrws agored, heb ofalu a oedd y ddaear wedi cael ei chysegru gan esgob ai peidio. Felly y gwnaeth, ac yn bur fuan ymwelodd a rhanau helaeth o Gymru, gan gyhoeddi yr efengyl gyda llwyddiant mawr.

Dywedir iddo gael ei arwain hefyd, yn annibynol ar yr hyn a wnaeth Howell Harris, ac yn wir heb wybod am dano, i sefydlu seiadau profiad. Fel hyn y bu. Gofynodd i un o'r aelodau perthynol i Lancwnlle am alw gyda'r rhai oedd mewn cymundeb yno, a'u gwahodd i'w gyfarfod ef ar noswaith benodol mewn tŷ o'r enw Gelli-Dywyll, gerllaw Bwlchdiwyrgam, yr hwn le sydd mewn cwm cul ac unig yn arwain allan o ddyffryn Aeron. Daeth y rhai a wahoddasid ynghyd erbyn yr amser, ond methent ddeall beth a allasai ei amcan fod wrth eu cynull. Ofnent ei fod yn myned i'w ceryddu am ryw feiau a ganfyddai ynddynt. Eithr gwasgarwyd eu hofnau yn fuan, canys gwelsant mai ei ddyben oedd eu holi am natur ac amcan Swper yr Arglwydd, a'u dysgu yn fanylach gyda golwg ar y sacrament sanctaidd. Treuliasant y rhan fwyaf o'r nos gyda'r gwaith hyfryd hwn, yn cael eu hadeiladu a'u cadarnhau yn y gwirionedd. Am gryn amser cedwid y cyfarfodydd hyn yn nhŷ teiliwr a breswyliai yn y cwm crybwylledig, o herwydd ei neillduedd, eithr yn mhen amser symudwyd hwy i un o ysguboriau Daniel Rowland. Caent eu cadw ar y cyntaf yn achlysurol, fel y byddai cyfleustra yn caniatau; weithiau ar y Sabbath, a phryd arall ar ddydd gwaith, yn y dydd neu yn yr hwyr; ac weithiau ar ol pregeth, pan fyddai pregethwr yn dyfod ar daith. Yn raddol, fodd bynag, daethant i gael eu cynal yn wythnosol, a gelwid y frawdoliaeth fyddai yno yn "gymdeithas grefyddol," yn "*society*," neu yn "*band*;" ond nid un amser yn eglwys, rhag tramgwyddo yr Eglwyswyr. Gwelir fod anghenion ysprydol y rhai a gawsant eu hargyhoeddi wedi arwain Daniel Rowland



GOLYGFA TUFEWNOL AR EGLWYS LLANGEITHO.
[Allan o *Meyrick's History of Cardiganshire*.]

a Howell Harris, ar wahan i'w gilydd, i sefydlu cymdeithasau neillduol er adeiladu y praidd a'u cadw rhag myned ar gyfeiliorn; ac erbyn hyn y mae y cymdeithasau yma yn elfen o'r pwysicaf yn mywyd ysprydol y genedl.

Amrywia haneswyr yn eu barn gyda golwg ar pa un ai Daniel Rowland ynte Howell Harris oedd y blaenaf o ran amser ynglyn a'r Diwygiad. Dywed y Parch. John Hughes, Liverpool,* ei fod yn ymddangos yn lled sicr ddarfod i Harris gael y blaenafiaeth o ychydig amser; ond ni rydd Mr. Hughes un rheswm dros ei dybiaeth, ac oddiwrth yr hyn a ysgrifena yn nes yn mlaen yn ei lyfr, y mae yn amlwg ei fod mewn cryn betrusder gyda golwg ar ei chywirdeb. Maentymia y Parch. Hugh J. Hughes, Cefncoedcymmer, mai Harris yn ddiamheuol bia y blaen mewn amseriad, yn gystal ag mewn cymeriad beiddgar a diofn; ond nid yw yntau ychwaith yn dwyn yn mlaen unrhyw brawf. Geiriau Howell Harris ei hun ydynt: "Am y gweinidog arall, y dyn mawr hwnw dros Dduw, Mr. Daniel Rowland, deffrowyd ef tua'r un amser a minau, mewn rhan arall o Gymru, sef yn Sir Aberteifi; ond gan mai ychydig o ohebiaeth oedd rhwng y sir hono a Brycheiniog, aeth ef yn mlaen gan gynyddu yn raddol mewn doniau heb wybod dim am danaf fi, na minau am dano yntau, nes i ni gyfarfod yn Eglwys Defynog, yn y flwyddyn 1737."† Tuedda Williams, Pantycelyn, yn amlwg i roddi y blaen mewn amser i Daniel Rowland, a dylid cofio fod Williams yn gyfaill mynwesol i'r ddau, ac agos yn gyfoed a hwynt; a'i fod yn mhellach nid yn unig yn fardd ardderchog, ac yn emynydd digyffelyb, ond hefyd yn hanesydd gwych. Nid ydym yn rhoddi cymaint pwys ar ei eiriau yn y farwnad i Rowland:—

"Pan oedd tywyll nos trwy Frydain,
Heb un argoel codi gwawr,
A thrwmgwsg oddiwrth yr Arglwydd
Wedi goruwch guddio'r llawr;
Daniel chwythodd yn yr udgorn."

Y mae yn amlwg nad yw yr ymadroddion hyn i'w gwasgu i'w hystyr eithaf, a defnyddia eiriau llawn mor gryfion gyda golwg ar Howell Harris:—

"Pan oedd Cymru gynt yn gorwedd
Mewn rhyw dywyll, farwol hun,
Heb na Phresbyter na 'Ffeirad,
Nac un Esgob ar ddihun;
Yn y cyfnos tywyll, prudd,
Fe ddaeth dyn fel mewn twym ias,
Yn llawn gwreichion goleu, tanllyd,
O Drefecca fach i maes."

Amlwg yw nad ydyw y difyniadau uchod yn penderfynu dim ar y mater; gellir gosod y naill farwnad ar gyfer y llall. Eithr y mae un llinell yn marwnad Rowland a ymddengys yn troi y glorian yn drwm o'i blaid:—

"Rowland startodd allan gyntaf,
A'i le gadwodd ef yn lân;
Ac nis cafodd, er gwisgied,
Ungwr gynyg cam o'i flaen."

‡"Ond y mae perygl i ni fod yn rhy frysiog," meddai y Parch. Lewis Edwards, D.D., "oblegyd nid yw yn sicr fod yma gyfeiriad at Howell Harris. Er hyny, pe buasai Harris wedi 'startio' allan yn gyntaf, nid yw yn debyg y buasai Williams yn anghofio y ffaith wrth gyfansoddi ei farwnad, ac y mae yn ddiau y buasai hyny yn ei rwystro i ddefnyddio geiriau mor gryfion am Rowland."

Ymddengys yr holl amgylchiadau fel yn ffafrio y golygiad fod Rowland wedi tori allan i rybuddio pechaduriaid lawn mor fuan a Harris, os nad o'i flaen. Argyhoeddwyd Howell Harris yn y flwyddyn 1735. Hydref y flwyddyn hono aeth i Rydychain. Ond yr oedd yn flaenorol wedi dechreu cynghori ei gydwladwyr. Dychwelodd adref o gwmpas y Nadolig, ac nid aeth yn ei ol. Ail ymafla yn ei waith yn gynar yn y flwyddyn 1736. Y flwyddyn ganlynol, sef yn 1737, yr ydym yn cael Daniel Rowland yn pregethu yn Eglwys Defynog, ddeugain milldir o'i gartref fel yr hêd brân; a chawn ef yr un flwyddyn ar daith yn Sir Gaerfyrddin. Nid yw yn debyg y buasai yn myned i bregethu i siroedd eraill, heb ei fod wedi treulio cryn lawer o amser yn y cymydogaethau o gwmpas ei gartref, a chael arwyddion amlwg fod bendith ar ei ymdrechion. Meddai Joshua Thomas, ei gydoeswr, gyda golwg arno: § "Yr wyf yn cofio ddarfod i mi ei glywed o gylch 1737 yn Sir Gaerfyrddin. Yr oedd yno liaws yn gwrando; ac mi glywais rai o'r Ymneillduwyr yn son am y bregeth wrth ddychwelyd adref. Yr wyf yn cofio mai rhan o'r ymadrodd oedd hyn: "Ni chlywsom erioed ei gyffelyb yn Eglwys Loegr ond Griffith Jones. Ni bu yn ein dyddiau ni y fath oleuni yn mhlith pobl yr Eglwys." Dylid cofio mai gwr ieuanc,

* *Methodistiaeth Cymru*, Cyf. i. tudal. 66.
† *Life of Howell Harris*, tudal. 45.
‡ *Traethodau Llenyddol*, tudal. 479.
§ *Hanes y Bedyddwyr*, tudal. 53.

newydd gychwyn ar ei waith oedd Daniel Rowland y pryd hwn; a bod ei ddoniau pregethwrol heb ymddadblygu eto i'w gogoniant uchaf; felly y mae y ganmoliaeth a roddir iddo, fel agos yn gyfartal a Griffith Jones, yn dra nodedig.

Efallai nas gellir profi fel ag i'w osod y tu hwnt i amheuaeth mai Rowland a bia y blaen, ac nid yw hyny o gymaint pwys. Eithr yr oedd ei gyd-gyfarfyddiad ef a Howell Harris yn Defynog, yn 1737, yn amgylchiad o'r pwys mwyaf. Eu hanes hwy ill dau yw hanes Methodistiaeth Cymru am y pymtheg mlynedd nesaf. Meddai Harris, yn y llythyr a ddifynwyd yn barod, "Pan y clywais y bregeth, ac y gwelais y doniau a rodded iddo, ynghyd a'r nerth a'r awdurdod rhyfeddol gyda pha un y llefarai, a'r effeithiau ar y bobl, yr oeddwn yn wir ddiolchgar, a llosgai fy nghalon o gariad at Dduw ac ato ef. Dyma ddechreu fy nghydnabyddiaeth ag ef, ac i dragywyddoldeb ni bydd diwedd arno." Aeth Harris gyda Rowland i Langeitho, "a phan y clywais ragor am ei athrawiaeth a'i gymeriad" meddai, "mi a gynyddais yn fwy mewn cariad tuag ato." Ni fedrai Daniel Rowland fyned oddicartref ar deithiau gweinidogaethol i'r un graddau a rhai o'i gyfeillion, oblegyd yr eglwysi oeddynt dan ei ofal, ond ymddengys iddo yntau deithio y rhan fwyaf o'r Dywysogaeth, a hyny lawer gwaith, fel y tystia Williams, Pantycelyn:—

"Nid oes un o siroedd Cymru,
Braidd un plwyf sy'n berchen crêd,
Na bu Rowland yn eu teithio
Ar eu hyd ac ar eu lled;
Dros fynyddau, drwy afonydd,
Ac aberoedd gwaethaf sydd,
O Dyddewi i Lanandras,
O Gaergybi i Gaerdydd."

Fel y darfu i ni sylwi, pregethu y ddeddf a wnelai ar y dechreu; *"ond nid y ddeddf fel crynodeb o drefniadau," meddai Dr. Lewis Edwards, "eithr y ddeddf fel y mae yn ddatguddiad o sancteiddrwydd Duw. Yr oedd Rowland wedi gweled Duw, ac yn teimlo ei fod wedi derbyn cenadwri oddiwrtho, ac am hyny yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo. Deallodd y bobl yn fuan fod yno ffynhonell o fywyd anorchfygol wedi tarddu allan o Langeitho. Yn raddol, trwy ei lafur ef ac eraill, ymdaenodd y sŵn trwy Gymru; ac ar y rhai oedd yn credu y dystiolaeth yr oedd yn effeithio yn lled gyffelyb i'r hanes yn ein dyddiau ni am ddarganfyddiad cloddfa o aur yn Awstralia." Pa hyd y parhaodd ei weinidogaeth yn daranllyd ac ofnadwy, ni wyddis; ond yr oedd wedi teithio cryn lawer o'r Dywysogaeth cyn i'w thôn gyfnewid. Meddai Williams yn ei farwnad:—

"Pump o siroedd penaf Cymru,
Glywsant y taranau mawr,
A chwympasant gan y dychryn,
Megys celaneddau i lawr;
Clwyfau gaed, a chlwyfau dyfnion,
Ac fe fethwyd cael iachâd,
Nes cael eli o Galfaria,
Dwyfol ddwr a dwyfol waed."

Tybir mai am ryw dair blynedd y bu fel Mab y Daran yn genad dychryn; yn y flwyddyn 1739, cyhoeddodd un o'i bregethau, dan yr enw "Llaeth Ysprydol," oddiar 1 Petr, ii. 2; ac er ei fod yn y bregeth yma yn tueddu at fod yn ddeffrous a thanbaid, eto y mae yn dra efengylaidd a chysurlawn o ran tôn, a'i gymhwysiadau yn ddyddanus, yr hyn a brawf fod ei yspryd wedi tyneru i raddau mawr. Dywedir mai yr hên Mr. Pugh, gweinidog Annibynol Llwynpiod, a fu y prif foddion i effeithio y cyfnewidiad ynddo. "Mr. Rowland bach," meddai, "pregethwch yr efengyl i'r bobl; cymhwyswch y Balm o Gilead at eu clwyfau ysprydol; a dangoswch iddynt yr angenrheidrwydd am ffydd yn yr Iachawdwr croeshoeliedig." Atebai yntau, "Yr wyf yn ofni nad yw y ffydd hono, yn llawn nerth ei gweithrediad, genyf fi fy hunan." Meddai Mr. Pugh yn ol, "Pregethwch hi hyd oni theimlwch ei bod genych; os ewch yn y blaen i bregethu y ddeddf yn y modd yma, byddwch yn fuan wedi lladd haner pobl y wlad! Yr ydych yn taranu melldithion y gyfraith, ac yn pregethu mor ofnadwy fel nas gall neb sefyll o'ch blaen." Nis gellir meddwl am olygfa fwy dyddorol; gweinidog Ymneillduol, heb nac eiddigedd na rhagfarn, yn cynghori gŵr ieuanc o offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig; un oedd wedi ei ddisodli o ran poblogrwydd yn y wlad, ac wedi lladratta ei gynulleidfa i raddau mawr oddiarno. Yr oedd Rowland o'r tu arall yn ddigon gostyngedig a syml ei galon i dderbyn y cyngor caruaidd yn yr yspryd yr oedd yn cael ei roi, ac i weithredu yn ei ol. O hyn allan, daeth yn Fab Dyddanwch. Meddai Williams, Pantycelyn, eto:—

"'Nol pregethu 'r ddeddf dymhestlog,
Rai blynyddau yn y blaen,
A rhoi llawer yn friwedig,
'Nawr, cyfnewid wnaeth ei gân;
Fe gyhoeddodd iachawdwriaeth
Gyflawn, hollol, berffaith, llawn,
Trwy farwolaeth y Messiah
Ar Galfaria un prydnawn.'

* *Traethodau Llenyddol,* tudal. 479-480.

Gyda'r cyfnewidiad hwn yn nhôn ei weinidogaeth, cyfnewidiodd y dylanwadau ar y gwrandawyr. Yn flaenorol, llewygent gan ofn, dychrynid hwy gan arswyd y Barnwr nes y toddai eu heneidiau ynddynt fel cwyr; nid oedd yr effeithiau gwedi hyn yn llai rhyfeddol, nac yn llai nerthol, ond bellach torent allan mewn gorfoledd a chân. Dyma ddechreuad y molianu am ba un y daith Llangeitho yn enwog. Ymddengys fod Rowland ei hun ar y dechreu yn anfoddlawn i'r molianu a'r neidio; ofnai nad oedd yn hollol bur, y gallai roddi achlysur i'r cnawd, a pheri i'r gelyn gablu. O herwydd hyn ceisiai gan y bobl ymatal, a chadw ei teimladau danodd. Ond buasai lawn mor hawdd cadw y dwfr rhag berwi tra y llosgai y tân o dano gyda gwres. Wedi i'r gynulleidfa gael ei gwasgu i ymylon anobaith, a chanfod uffern yn agor ei safn i'w llyncu; pan y canfyddent yr Arglwydd Iesu yn ei ogoniant fel Gwaredwr holl-ddigonol ar eu cyfer, ac yn ewyllysio i'w hachub, torai y teimlad dros bob *restraint*, a mynent foli am y waredigaeth. Dywedir mai o'r braidd y daeth Rowland yn gymodlawn a'r peth hyd ddiwedd ei oes. Ond amddiffynai y rhai oeddynt yn molianu rhag gwawd y Saeson clauar. "Yr ydych chwi yn galw arnom ni," meddai, 'Neidwyr, Neidwyr,' gallwn ninau alw arnoch chwithau, 'Cysgaduriaid, Cysgaduriaid.'" Efallai nad oedd y cyffro a'r llefain a'r bloeddiadau o fawl yn hollol rydd oddiwrth gnawd yn mhawb; fod y teimladau weithiau pan y rhedent dros y llestri heb fod yn gyfangwbl yn gynyrch Yspryd Duw; ac nid annhebyg fod rhai dynion annuwiol yn cael eu cario i ffwrdd, mewn ffordd nas gwyddent, gan y dylanwad, ac yn ymuno yn y gân. Ond wedi 'r cwbl, rhaid ystyried fod y goleuni wedi tywynu ar feddyliau y bobl yn nodedig o sydyn, fod y rhyddhâd a deimlent yn rhyddhâd oddiwrth ddigofaint yr Anfeidrol oedd yn pwyso fel mynydd ar eu cydwybodau; ac mewn canoedd yr oedd y gorfoledd, er yn eithafol, ac yn cymeryd ffurfiau anarferol, mor bur ac ysprydol ag y geill unrhyw deimlad duwiolfrydig fod ar y ddaear hon. Profodd llawer o'r rhai a fu yn gorfoleddu yn Llangeitho, trwy eu bywydau duwiol, eu dyoddefiadau oblegyd eu crefydd, a'u hymroddiad i wasanaethu yr Arglwydd Iesu er gwaethaf pob gwrthwynebiad, eu bod wedi cael eu hail-eni i fywyd tragywyddol.

Yr oedd yr effeithiau a ddilynent ei weinidogaeth bellach yn nodedig iawn. Meddai Howell Harris, mewn llythyr a ysgrifenodd at Whitefield, Mawrth 1af, 1743: * "Yr oeddwn y Sul diweddaf yn ngwasanaeth y cymundeb gyda y brawd Rowland, lle y gwelais, y clywais, ac y teimlais y fath bethau na allaf roddi i chwi un syniad am danynt ar bapyr. Y mae y gallu sydd yn parhau gydag ef yn rhywbeth anghyffredin. Y fath waeddu allan, y fath ocheneidiau calonrwygol, a'r wylo dystaw, a'r galaru sanctaidd, a'r fath floeddiadau o lawenydd a gorfoledd ni chlywais erioed. Gwnai eu hamenau, a'u gogoniant, osod eich enaid yn fflam pe baech yno. Pan y pregetha, peth arferol yw fod ugeiniau yn cwympo i lawr tan ddylanwad y Gair, wedi eu gwanu a'u clwyfo; neu wedi cael eu gorchfygu gan gariad Duw a phrydferthwch a gogoniant yr Iesu. Llethir natur, fel pe bai, gan y mwynhâd o Dduw a deimlir ganddynt, fel na allant ddal ychwaneg. Braidd nad yw yr yspryd yn dryllio y tŷ o glai i gael hedfan i'w gartref. Cynwysa ei gynulleidfa, mi dybiaf, yn mhell dros ddwy fil, o ba rai y mae y rhan fwyaf wedi cael eu dwyn i ryddid gogoneddus, a rhodiant yn gadarn mewn goleuni clir." Trachefn a thrachefn, bron yn yr holl o'i lythyrau, cawn Howell Harris yn cyfeirio at y dylanwadau gogoneddus oedd yn cydfyned a gweinidogaeth Rowland yn y cyfnod hwn. Dywed drosodd a throsodd fod yr effeithiau yn annesgrifiadwy. Ddiwedd y flwyddyn 1742, ysgrifena o Langeitho, at ei frawd, † "Heddyw clywais yr anwyl frawd Rowland, a'r fath olygfa ni welodd fy llygaid erioed. Nis gallaf anfon i chwi un syniad am dani. Yr oedd y fath oleuni a nerth yn y gynulleidfa fel nas gellir ei fynegu. Elai y bobl wrth y canoedd o'r naill eglwys blwyfol i'r llall, dair milldir o bellder (o Langeitho i Lancwnlle, yn ol pob tebyg) dan ganu a llawenychu yn Nuw; a chwedi cyfranogi o'r Swper Sanctaidd, dychwelasant gynifer o filldiroedd trachefn i'm gwrando i y nôs; a galluogwyd fi i lefaru, gyda nerth nad wyf yn arfer gael, ar y ffordd fawr, hyd wyth o'r gloch, i tua dwy fil. Y mae rhai o'r proffeswyr cnawdol, oeddynt wedi adeiladu ar y tywod, yn dyfod yn feunyddiol dan argyhoeddiad. Y mae yr ŵyn (y dychweledigion) yn tyfu, a llawer yn rhodio

* *Weekly History.*
† *Ibid.*



CERFLUN Y PARCH. DANIEL ROWLAND, LLANGEITHO

*(a wnaed gan* Mr. Edward Griffith, *Caerlleon, yn y flwyddyn 1883).*

mewn rhyddid gogoneddus. Y mae tân cariad Duw yn cael lle mewn llawer calon, ac y mae Duw yn wir fel fflam yn eu canol. Cynhaliant seiadau bob nos, a'r fath yw y dylanwad a deimlir gnddynt mewn gweddi yn fynych, fel y tarewir hwy a dystawrwydd ofnadwy; bryd arall, boddir llais y gweddiwr gan gri calonau drylliedig." Dyma dôn holl lythyrau Harris y pryd hwn. Nis geill ymatal rhag datgan ei syndod aruthrol o herwydd y nerthoedd oedd yn cydfyned a phregethu ei gyfaill. Pan wedi gwrando Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, yn Sir Benfro, y clod uchaf a fedr roddi iddynt yw dweyd eu bod wedi cyfranogi yn helaeth o dân Llangeitho. Ac nid yn ei gartref yn unig y byddai y cyfryw ddylanwadau yn cydfyned a phregethu Daniel Rowland, ond pa le bynag yr elai. Meddai ef ei hun, mewn llythyr at Howell Harris, yr hwn oedd yn Llundain, dyddiedig Hydref 20, 1742: * "Yr wythnos ddiweddaf bum ar daith yn Siroedd Caerfyrddin a Morganwg, ac odfaeon ardderchog oeddynt; cynulleidfaoedd cyfain yn cael eu dwyn i deimlo, a llawer yn bloeddio allan fel yr oedd fy llais yn cael ei foddi. Croesawyd fi i'w tai gan rai personau o safle, a hyny gyda pharch anarferol. O! beth wyf fi, fel y gwelai fy llygaid, ac y clywai fy nghlustiau y fath bethau!" Mewn llythyr arall, at un o'i wrandawyr oedd yn Llundain, dywed Rowland: † "Y mae crefydd yn blodeuo yn y rhanau hyn o'r wlad. Dylifa miloedd i glywed y Gair. Y mae rhan fawr o honynt yn y fath ingoedd nes bod yn ddigon i wanu y galon galetaf. Gwnaeth rhai ef yn bwnc i'w ceryddu; ond y mae y rhai hyny eu hunain yn awr wedi eu gorchfygu gan allu Duw, ac yn gwaeddu allan: 'Pa beth a wnant fel y byddont gadwedig.' Chwi a ryfeddech at yr hyn ydym ni yn weled ac yn glywed yn feunyddiol. Am danaf fy hun, gallaf dystio na welais, ac na chefais erioed y fath nerth ag wyf yn awr yn gael bob dydd." Canlyniad y weinidogaeth nerthol yma, a'r effeithiau rhyfeddol oedd yn cydfyned a hi, oedd tynu tyrfaoedd i Langeitho o bob cwr o'r wlad. Daeth y pentref bychan gwledig, diaddurn, yn Jerusalem Cymru.

Efallai na theithiai Daniel Rowland gymaint ag a wnelai Harris, a Williams, Pantycelyn; pregethwyr teithiol oeddynt hwy; ond gwasanaethai ef yn rheolaidd yn y tair eglwys i ba rai y cawsai ei benodi yn guwrad, sef Llangeitho, Llancwnlle, a Llanddewi-brefi. Yr un pryd, y mae sicrwydd ei fod yn trafaelu llawer, a hyny trwy bob rhan o'r Dywysogaeth. Pregethai yn fisol yn Ystrad-ffin, Twrgwyn, Waunifor, Abergorlech, a Llanlluan. Yn anffodus, ychydig o hanes ei deithiau sydd genym, o blegyd fod ei bapyrau wedi cael eu cyfrgolli. Gwedi marwolaeth Rowland casglwyd yr oll a ellid gael o'i lythyrau a'i hanes, gan ei fab, Nathaniel Rowland, ac anfonwyd hwy i'r Iarlles Huntington, yr hon a fwriadai gael bywgraffiad iddo wedi ei ysgrifenu gan ryw berson cymhwys. Cyn i hyny gael ei wneyd bu farw yr Iarlles, ac aeth y wybodaeth werthfawr a anfonasid iddi i golli. ‡ Adrodda y Parch. John Evans, y Bala, mewn hen ysgrif o'i eiddo, am Rowland yn ymweled a Llanuwchllyn, yn y flwyddyn 1740. Gofynodd am ganiatad yr offeiriad a'r wardeniaid i bregethu yn yr eglwys, a chafodd hyny. Ymddengys nad oedd yr offeiriad, mwy na Galio gynt, yn gofalu am ddim o'r pethau hyn. Nid gwaeth ganddo, dybygid, pwy a bregethai, na pha beth a bregethid. Aeth yn ymddiddan rhyngddo a Rowland ynghylch ail-enedigaeth, ond cyfaddefai yr hen offeiriad na wyddai efe ddim o gwbl am y pwnc hwnw. "Beth," ebai y Diwygiwr, "a wyt ti yn ddysgawdwr yn Israel, ac ni wyddost y pethau hyn?" Digwyddodd Rowland Lloyd, periglor Llangower, ger y Bala, fod yn y pentref ar y pryd, a phan glywodd fod un o'r Methodistiaid wedi cael caniatad i bregethu yn eglwys y plwyf, cyffrodd trwyddo. Ymaith ag ef ar ffrwst, ac i'r eglwys. Yr oedd y gwasanaeth wedi dechreu, ac ar unwaith dechreuodd yntau godi terfysg. Darllenai Mr. Rowland ar y pryd benod y melldithion yn Deuteronomium, sef yr xxviii. "Beth,' ebai Lloyd, "a ydyw Stephen, Glanyllyn (boneddwr a drigai gerllaw), yn felldigedig?" "Ydyw," oedd atebiad Rowland, "os yw y gŵr yn ddyn annuwiol." Aeth y terfysg yn fwy gwedi'r atebiad hwn; dechreuodd rhyw hen ddynes ganu y gloch yn drystfawr; a rhwng brygawthan offeiriad Llangower, a thinc y gloch, rhwystrwyd yr odfa, ac er gofid i'r gynulleidfa bu raid i Daniel Rowland ymadael heb bregethu.

* *Weekly History.* † *Ibid.*

‡ *Methodistiaeth Cymru*, Cyf. i. tudal. 630.

Aeth Rowland i Lanuwchllyn ar ol hyn, a phregethai y tro hwnw oddiar gareg farch y Felin-dre, ffermdy yn nghydiad plwyfi Llanuwchllyn a Llangower. Ni wyddis dyddiad yr odfa. Ei destun ydoedd: "Wele ef yn dyfod yn neidio ar y mynyddoedd, ac yn llamu ar y bryniau" (Can. ii. 8). Nid oes hanes am effeithiau y bregeth, ond fod y bobl mor anwybodus fel yr edrychent i'r bryniau o gwmpas, gan ddisgwyl gweled rhywun hynod yn gwneyd ei ymddangosiad.

Cawn ef yn ymweled a'r Gogledd hefyd yn 1742. * Mewn llythyr a anfonodd at Howell Harris y flwyddyn hono, dywed iddo fod yn ddiweddar ar daith yn Sir Drefaldwyn; ddarfod iddo, naill ai wrth fyned neu ddychwelyd, bregethu gyda nerth anarferol mewn amryw eglwysi a thai anedd yn Mrycheiniog, a bod rhyw Mr. Phillips, o Lanfairmuallt, wedi ei roddi yn Nghwrt yr Esgob am lefaru mewn tŷ tafarn yno. Ychwanega fod y brawd W. Williams—Williams, Pantycelyn, yn ddiau—wedi cael ei roddi yn yr un llys am nad oedd yn byw yn y plwyf yn mha un y gweinidogaethai. Ceisia gan Harris, yr hwn oedd yn y Brif-ddinas ar y pryd, am ymgynghori a'r brodyr yn Llundain pa fodd y dylid ymddwyn dan yr amgylchiadau. Y mae yn fwy na thebyg ddarfod i Daniel Rowland, y flwyddyn ganlynol, sef 1743, deithio trwy Sir Gaernarfon, mor bell a Sir Fôn, er na cheir hanes y daith yn ei gofiant, nac yn *Methodistiaeth Cymru*. Mewn llythyr o eiddo un Evan Williams, cynghorwr yn Nghymru, yr hwn a gafodd ei ysgrifenu yn y flwyddyn 1742, dywedir: † "Y mae Mr. M. H——s wedi bod yr wythnos ddiweddaf yn Sir Fôn, a rhyfedd fel y mae y gwaith yn myned yn mlaen yno. Bwriada y brawd Rowland fyned yno yn mhen mis." Ddarfod iddo gario allan ei fwriad sydd sicr, oblegyd dywed un T——s B——n, yr hwn yntau oedd hefyd yn gynghorwr yn ol pob tebyg, mewn olysgrif i lythyr a ysgrifenwyd ganddo yn 1742: "Bu y brawd Richards a'r brawd R——s yn Sir Fôn. Yn awr y mae y brawd Richards yn myned o gwmpas Deheudir Cymru." Diau mai Daniel Rowland oedd y brawd "R——s"; ysgrifenid ei enw weithiau yn Rowland, a phryd arall yn Rowlands; ac felly y gwnai ef ei hun. Y mae y gweddill o lythyr Evan Williams mor ddyddorol fel yr ydym yn rhwym o'i gofnodi: "Bendithiwyd y brawd Beaumont yn fawr yn ein tref, yn neillduol er dystewi yr erlidwyr. Ond digwyddodd fod Cwrt yr Esgob yn fuan, a phregethodd y Canghellydd yn erbyn y Methodistiaid ac yn erbyn Mr. Whitefield, fel y trowyd meddwl llawer o'r bobl drachefn. Gelwir llawer i'r cwrt er rhoddi cyfrif paham y cadwant seiadau yn eu tai. Tybiodd rhai mai gwell oedd talu (y dirwyon a osodid arnynt), gan eu bod yn weiniaid, er mwyn cael myned yn rhydd. Gwedi eu holi, dywedwyd wrthynt eu bod yn bobl oedd yn bwriadu yn dda, ond y dylent geisio cadw Rowland a Harris o fewn eu terfynau. Dywedodd y Canghellydd y gwnai efe gwarant i ddal Rowland y tro nesaf." Eglura llythyr yr hen gynghorwr fel yr erlidid y Methodistiaid yr adeg hon gan swyddogion yr Eglwys Wladol. Am awdwr y llythyr, sef Evan Williams, brodor o Ystradgynlais ydoedd; cawsai ei argyhoeddi wrth ddarllen gwaith Bunyan, "*Tyred, a chroeso, at Iesu Grist;*" ac yn bur fuan dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid. Am beth amser bu yn un o ysgolfeistri Griffith Jones, gan yr hwn y danfonwyd ef i Sir Gaernarfon i gadw ysgol. Yr oedd hyn yn 1742. Erlidiwyd ef yn enbyd yno, bu mewn perygl am ei einioes, a ffodd yn ei ol at Griffith Jones. Y dref y sonia am dani yn ei lythyr, yn ol pob tebyg, oedd Caerfyrddin. Diweddodd ei oes gyda'r Annibynwyr.

Cawn gyfeiriad at ymweliad o eiddo Daniel Rowland a Lleyn, yn Sir Gaernarfon, a gymerodd le cyn y flwyddyn 1745, mewn hen interliwd. Ai y daith yn 1743 ydoedd, ynte taith a gymerodd y flwyddyn ddilynol, nis gwyddom. A ganlyn yw gwyneb-ddalen yr interliwd:—

> "INTERLUDE MORGAN Y GOGRWR AR Y CARADOGS, NEU FFREWYLL Y METHODISTIAID, yn dair Act Gan WILLIAM ROBERTS, o Lanor yn Llyn, Mwythig; argraffwyd gan R Lathrop tros yr AWDWR, 1745."

Yr oedd hon yn un o'r interliwdiau mwyaf poblogaidd yn erbyn y Methodistiaid; chwareuid hi mewn ffeiriau a lleoedd poblog, er mawr ddifyrwch i'r werin isel eu chwaeth, a chyda chymeradwyaeth boneddigion ac offeiriaid yr ardaloedd. Heblaw fod y syniadau a roddir yn ngenau y gwahanol gymeriadau Methodistaidd yn yr interliwd yn gelwyddog, y mae yr iaith yn warthus ac aflan mewn llawer man, yn gymaint felly fel na feiddiem ddifynu aml i linell. Darlunir "Chwitffild," fel ei

* *Weekly History.* † *Ibid.*

gelwir, yn dweyd fel y canlyn wrth Howell Harris:—

"Pa beth a dâl *trâd* i ddyn truan,
A rhoi 'r mawr anhunedd arno fo 'i hunan,
I yru dynion anonest i'r nc',
Dan rorio, oni cheiff ynte 'r arian?
Mi rois i *sos* go dda i'r Saeson,
Mae yno bob bedlem yn abl boddlon;
Ped feit tithe 'n medru gyru 'r Cymry o'u co',
Nyni a 'sguben holl eiddo 'r Esgobion.
Ac a gaem *ferdid* y Brenin ar fyrder
A'r *Parlament* i wneyd ffwrn saith mwy ei phoethder,
Na ffwrnas Nebucodonosor sur,
I losgi gwyr Eglwys Loeger."

Hysbysir ni ar waelod y ddalen fod y penill olaf hwn yn cynwys "geiriau a ddywedwyd gan Mr. Dan Rowlands, yn Lleyn, a chan Tho Jones, o Bortdinllaen." Y mae'r interliwd trwyddi, a chynwysa dros driugain tudalen, yn llawn o'r cyffelyb gam-ddarluniadau o amcanion y Methodistiaid, ac o'r athrawiaethau a bregethid ganddynt. Ond ein hunig amcan ni yn awr, wrth ei difynu, oedd profi ddarfod i Daniel Rowland ymweled a Lleyn, cyn y flwyddyn 1745.

Cawn hanes hefyd am dano yn teithio trwy ranau o Sir Gaernarfon a Sir Fôn, yn 1747, ac yn ffodus y mae cryn dipyn o hanes y daith ar gael. Yn Mhenmorfa, ger Porthmadog, bygythiwyd ef yn dost, gan ei sicrhau, os pregethu a wnai, y gwneid ei esgyrn yn ddigon mân i'w gosod mewn cŵd. Diystyru eu bygythion a wnaeth. Aeth yn ei flaen i Leyn, lle y cyfarfyddodd a rhai cyfeillion serchog. Yn Llanmellteyrn, gwnaed cais am gael yr eglwys iddo, am ei fod yn offeiriad urddedig, ond nacawyd hi. Pregethodd yntau oddiar y gareg farch wrth borth y fynwent. Ei destun oedd, Jer. xxx. 21: *"Canys pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i nesau ataf fi? medd yr Arglwydd." Yn ei bregeth profai nad oedd neb ond Crist wedi llwyr roddi ei galon i'r perffeithrwydd ag y mae deddf Duw yn gofyn. Yna darluniai gyfiawnder yn dangos yn mlaen llaw i Iesu Grist y dyoddefiadau y byddai raid iddo fyned trwyddynt, os elai yn ei flaen i dalu dyled pechaduriaid. "Gwybydd," meddai cyfiawnder, "er dyfod at yr eiddot dy hun, na chai ond tŷ yr anifail i letŷa, a phreseb yn gryd, a chadachau yn wisgoedd." Ond yn lle cilio yn ol, atebai y Gwaredwr, "Boddlawn i'r driniaeth hono er mwyn fy nyweddi." "Os wynebu i fyd sydd dan y felldith, cai fod heb le i roi dy ben i lawr; ïe, byddi yn nôd i eithaf llid a malais creaduriaid sydd yn cael eu cynal genyt bob moment." "O fy nghyfraith lân, yr wyf yn foddlawn i hyny!" "Cai hefyd chwysu dafnau gwaed ar noswaith oer, a phoeri yn dy wyneb, a'th goroni a drain; a'th ddysgyblion, wedi bod cyhyd o amser yn gweled dy wyrthiau, ac yn gwrando dy nefol athrawiaethau, yn dy adael yn yr ing mwyaf; ïe, un o honynt yn dy werthu, ac un arall yn dy wadu, gan dyngu a rhegu yn haerllug na adwaenai mo honot." "Er caleted hyn oll," meddai Iesu Grist, "ni throaf yn ol; cuddiwyd edifeirwch o'm golwg." Yn ganlynol, dyma gyfiawnder a'r gyfraith yn cyd-dystio: "O dydi, Wrthrych clodforedd holl angylion y nef, a gwir hyfrydwch y Jehofah Dad, os anturi i'r fachnïaeth ddigyffelyb yma, bydd holl allu uffern yn ymosod arnat, a digofaint dy Dad nefol yn ddigymysg ar dy enaid a'th gorff sanctaidd ar y groes; ïe, os rhaid dweyd y cyfan, bydd raid i ti oddef tywallt allan y diferyn olaf o waed dy galon!" Yn awr, pwy heb syndod a all feddwl am y Meichiau bendigedig, yn ymrwymo yn ngwyneb yr holl ystormydd i gymeryd y gorchwyl caled arno ei hun, ac yn ngwyneb y cwbl yn gwaeddu "Boddlawn!" Ni allodd fyned yn y blaen ymhellach mewn ffordd o bregethu, canys torodd allan yn un floedd orfoleddus o wylo a diolch, megys y blwch enaint gynt yn llenwi y lle a'i berarogl. Ni anghofiwyd y tro hwn gan lawer ddyddiau eu hoes.

Ymwelodd lawer gwaith a'r Gogledd wedi hyn. Dywedir y rhoddai dro trwy y rhan fwyaf o Gymru unwaith yn y flwyddyn am ysbaid lled faith o'i oes. Bu yn gwasanaethu yn aml yn Llundain; a phregethai nid yn anfynych yn nghapelau yr Iarlles Huntington yn Bristol, Bath, a manau eraill.

Fel y rhan fwyaf o'r Diwygwyr, cafodd yntau ei erlid a'i faeddu yn fynych. Nid anaml byddai offeiriad y plwyf, neu foneddwr a breswyliai yn yr ardal, yn cyflogi nifer o ddihirwyr i ymosod arno, pan y byddai yn ceisio llefaru. Mewn llythyr at Whitefield, dyddiedig Chwefror 14, 1743, dywed Howell Harris, †"Yr wyf wedi gweled y brawd Wm. Williams, ar ei ddychweliad oddiwrth y brawd Rowland, ac fe'm hysbyswyd ganddo ddarfod i'r gelyn gael ei ollwng yn rhydd arnynt ill

* *Drych yr Amseroedd*, tudal. 79-81.

† *Weekly History.*

dau, pan yn pregethu ar lan y môr mewn rhan o Sir Aberteifi. Daeth cwmni o ddihirwyr, wedi eu harfogi a phastynau ac a drylliau, gan ymosod arnynt a'u curo yn ddidrugaredd. Trwy ofal y Pen Bugail, dihangasant heb dderbyn niwed mawr, ond cafodd y brawd Rowland un clwyf ar ei ben. Cawsent eu cyflogi i hyn gan foneddwr o'r gymydogaeth. Ond nid rhyfedd fod y gelyn yn myned yn gynddeiriog wrth weled y fath ymosodiad yn cael ei wneyd ar ei deyrnas." * Nid anfynych y bu mewn perygl am ei fywyd. Dyrysid yr addoliad weithiau, a byddai raid iddo ef a'i wrandawyr ffoi rhag ffyrnigrwydd eu herlidwyr, dan gawodydd o laid a cherig, nes dianc allan o'u cyrhaedd i ryw gilfach ddirgel; ac yno mewn tawelwch mwynhaent y fath gysur a thangnefedd ag a dalai yn dda am y dirmyg a'r gorthrymderau. Ymosodwyd yn enbyd arno unwaith yn Aberystwyth, gan ryw greadur hanner meddw, yr hwn a dyngai y byddai iddo ei saethu. Anelodd y dryll ato, a thynodd y gliced, ond ni thaniai. Wedi methu yn hyn, curodd ef yn greulawn a'r pen arall i'r dryll. † Darllenwn am ymgais dieflig mewn man penodol i'w ddinystrio ef a'r bobl a wrandawent arno. Deallid ei fod i bregethu yn yr awyr agored, a pheth wnaeth rhyw greadur mileinig ond cuddio swm mawr o bylor o dan y fan yr oedd ef a'r bobl i sefyll, gan wneyd llinyn main o bylor oddiyno hyd ryw bellder, yr hwn linyn a derfynai mewn ychydig wellt. Y bwriad oedd gosod tân yn y gwellt, a chwythu y pregethwr a'i gynulleidfa i fynu i'r awyr. Ond yn rhagluniaethol, daeth rhywun yno cyn i'r odfa ddechreu, a darganfyddodd y brád. Yn mhob man braidd, byddai mewn perygl o gael ei faeddu, ond ni phallai. "Ymosodwyd ar y brawd Rowland ryw bythefnos yn ol gan nifer o feddwon," meddai Howell Harris, mewn llythyr at Whitefield, dyddiedig Mawrth 1, 1743, "ond llanwodd Duw ei enaid yn odiaeth." Bu y Diwygwyr droiau mewn cydymgynghoriad gyda golwg ar y priodoldeb o ddwyn y rhai a'u baeddent i'r llys gwladol; ond peidio a wnaethant; yn hytrach gwnaent eu herlidwyr yn wrthrychau arbenig eu gweddïau. Pa fodd bynag, nid oedd Rowland yn ei weled yn anmhriodol defnyddio ychydig ystryw weithiau er dianc rhag eu erlidwyr. Un tro, pan yn myned i bregethu mewn tref yn y Gogledd, daeth i'w glustiau fod haid o oferwyr wedi penderfynu na chai fyned i mewn o gwbl i'r lle. Daethant allan yn llu i'w gyfarfod. Pan wybu wrth y sŵn eu bod yn agos, gosododd ei het ar ei goryn yn y dull mwyaf ffasiynol, gan yru y ceffyl ar garlam. "Dyma fo'n do'd," meddai rhai, "Na, nid y fo ydyw," meddai'r lleill; "nid yw y Methodistiaid byth yn gyru fel yna." Pan ddaeth i'w cyfer, dywedodd, "Blant y diawl, beth ddaeth a chwi allan mor foreu?" Penderfynodd hyn y cwestiwn; "y mae wedi dweyd enw'r diawl," meddent, a chafodd basio yn ddirwystr.


Yn ngwyneb gwrthwynebiad mwyaf pendant yr awdurdodau eglwysig y cariai Daniel Rowland ei waith yn mlaen. Nid yn unig meddai yr esgobion Saesneg, a'r nifer amlaf o'r clerigwyr, wrthwynebiad cryf at yr hyn a ystyrient yn annhrefn yn ei ymddygiad; ond yr oedd yr athrawiaethau Calfinaidd a bregethid ganddo yn gás ganddynt. Yr oedd Eglwys Loegr, a'i holl offeiriaid yn mron, wedi cael eu llygru gan yr heresi Arminaidd. Iachawdwriaeth yn gyfangwbl o rás, a bregethai yntau, a holl gyfiawnderau dyn ond megys bratiau budron. Dyrchafai Grist fel yr unig Waredwr, a ffydd ynddo fel unig foddion cyfiawnhad gerbron Duw. Oblegyd hyn nid oedd ond erledigaeth a phob ammharch yn ei aros yn yr Eglwys. I gychwyn, rhwystrwyd ef i bregethu yn nghapel Ystrad-ffin. Mewn llythyr at Mrs. James o'r Fenni, yr hon, wedi hyny, a ddaeth yn wraig i Mr. Whitefield, dyddiedig 1742, dywed: ‡ "Ni oddefir fi i bregethu yn Ystrad-ffin yn hwy. Pregethais fy mhregeth ymadawol yno, oddiwrth Actau xx. 32. Cyrhaeddodd eu calonau. Nid wyf yn credu i'r fath wylo uchel gael ei glywed mewn unrhyw angladd yn nghôf dynion. Clywed yr Arglwydd eu llef, ac anfoned iddynt weinidog galluog, yr hwn a gyfrana iddynt air y gwirionedd, fel y mae yn yr Iesu. Yn awr yr wyf i *ymsefydlu* yn Llanddewi-brefi, yr hon sydd eglwys helaeth, yn abl cynwys amryw filoedd o bobl. Daw amryw o'm cymunwyr yn Ystrad-ffin ac Abergwesyn yno ddiwedd y mis nesaf." Y mae y gair "ymsefydlu" wedi ei osod mewn llythyrenau Italaidd, er dangos ddarfod i Rowland gael awgrym cryf na oddefid iddo grwydro o gwmpas fel yr arferai. Er mor boblogaidd ydoedd, ac

* *Enwogion y Ffydd.*

† *Ministerial Records*, tudal. 103.

‡ *Ministerial Records*, tudal. 54.

er mor ddysglaer ei ddoniau, ni chynygiwyd iddo unrhyw ddyrchafiad gan yr Esgob. Yn guwrad, gyda deg punt y flwyddyn o gyflog, am wasanaethu tair eglwys, y cafodd fod trwy'r blynyddoedd. Yn y flwyddyn 1760, bu ei frawd, John Rowland, yr hwn a ddaliai y fywioliaeth, farw; boddodd wrth ymdrochi yn y môr gerllaw Aberystwyth. Ni chynygiwyd y fywioliaeth i Daniel Rowland; yr oedd ei fod yn Fethodist yn rhwystr anorfod ar ei ffordd i'w chael; ond rhoddwyd hi i'w fab hynaf, yr hwn a'i daliodd tra y bu byw; a gwasanaethai yntau fel cuwrad i'w fab ei hun. Achwynid arno yn barhaus gerbron yr Esgob, ac nid anfynych gwysid ef i ymddangos ger ei fron. Weithiau rhybuddid ef yn arw, a gollyngid ef ymaith gyda bygythion. Bryd arall ceisid ei ddarbwyllo gyda geiriau têg. Am un o'r troion hyn, ysgrifena un William John, cynghorwr, at Howell Harris, tua diwedd 1743: * "Gwrthododd yr Esgob ordeinio



LLANGEITHO.

Mr. Williams (Williams, Pantycelyn). Bu y Parch. Mr. Rowland gyda'r Esgob dydd Llun, yr hwn a ymddygodd yn garedig ato, a chyda llawer o barch." O'r diwedd, rhoddwyd ar ddeall iddo fod yn rhaid iddo beidio gweinidogaethu allan o'i blwyf, a phregethu mewn lleoedd anghysegredig, onide nas gellid ei oddef yn hwy. Atebodd yntau yn dawel, fod amgylchiadau y wlad ar y pryd yn ei farn ef yn galw am weinidogaeth deithiol, ai fod yn credu fod ei waith wedi derbyn cymeradwyaeth y nefoedd, ac nas gallai ymatal, beth bynag fyddai y canlyniadau. Mewn canlyniad, prysurwyd i'w ddihatru o'i swydd. Ceir dosparth o'r clerigwyr yn bresenol yn tueddu i wadu ddarfod i Rowland gael ei atal, a seiliant ei dadl ar y ffaith nad oes unrhyw gyfeiriad at hyn yn nghofnodau llys yr Esgob yn Nhyddewi. Ond y maent yn anghofio nad rhaid wrth erlyniad cyfreithiol i droi Rowland allan; nid oedd ond cuwrad; gallai yr Esgob gymeryd ei drwydded oddiarno wrth ei ewyllys, a hyny nid yn unig heb brawf yn ei lys, ond

---

* *Weekly History.*

heb osod cofnod o'r weithred ar y llyfrau. Ac felly y gwnaeth yr Esgob Squire.

Yn y flwyddyn 1763 y trowyd Daniel Rowland allan. Ceir dau draddodiad gwahanol gyda golwg ar yr amgylchiad. Dywed y Parch. John Owen, yn ei fywgraffiad, i hyn gael ei wneyd yn gyhoeddus ar y Sul yn Llanddewi-brefi. Cawsai efe yr hanes oddi wrth hen ŵr duwiol a breswyliai yn y lle, ac a gofiai yr amgylchiad yn dda. Daeth dau offeiriad i'r eglwys pan yr oedd Rowland yn esgyn grisiau y pwlpud. Un o'r ddau oedd y Parch. Mr. Davies, brawd Cadben Davies, Llanfechan; ni wyddis enw y llall. Estynwyd llythyr i Rowland yn y pwlpud. Gwedi ei ddarllen, trodd at y gynulleidfa anferth oedd wedi ymgynull, gan ddweyd na oddefid iddo bregethu. Daeth i lawr o'r pwlpud, ac aeth allan o'r eglwys, yn cael ei ganlyn gan y bobl, y rhai a wylent yn hidl. Yr adroddiad hwn a ddilynir gan y Parch. E. Morgan, Ficer Syston, yn y bywgraffiad a gyfansoddodd yntau; ond ychwanega ddarfod i'r gynulleidfa, gwedi myned allan, daer gymhell Rowland i bregethu, yr hyn a wnaeth yntau oddiar glawdd y fynwent.

Eithr cafodd y Parch. John Hughes, Liverpool, adroddiad gwahanol gan David Jones, Dolau-bach, yr hwn oedd yn flaenor yn Llangeitho, ac yn ŵr tra chraffus. Fel hyn y dywed efe: "Yn Nadolig, 1763, y trowyd ef allan gan swyddogion yr Esgob. Tybiaf fod camgymeriad yn hanes ei fywyd gan y Parch. J. Owen, pan y dywed mai o Landdewi-brefi y trowyd ef allan. Canys y mae yr hanesion a gefais i yn sicrhau mai yn Llangeitho a Llancwnlle yr oedd ef yn gweinidogaethu ar y pryd. Bum yn ymddiddan a hen ŵr o'r enw John Jenkins, yr hwn, pan yn hogyn tua phymtheg mlwydd oed, a aethai gyda'i rieni i Lancwnlle i wrando Rowland ryw Sabbath; ac i ddau swyddog oddiwrth yr Esgob ddyfod yno i droi Rowland allan, a bod Rowland wedi dechreu yr addoliad cyn eu dyfod. Ataliodd y bobl y gwŷr wrth y drws, nes iddo orphen pregethu; yna aeth rhywun ato i'w hysbysu am eu dyfodiad a'u dyben. Ar hyn, disgynodd yntau yn ddioed o'r pwlpud, a daeth atynt i'r drws, gan ofyn eu neges. Hwythau a fynegasant iddo. 'O,' ebai Rowland, 'gallasai ei arglwyddiaeth gymeryd llai o boen arno na'ch danfon chwi yma; o'm rhan i, nid âf byth o fewn ei muriau mwy; os mynwch chwi, hi gaiff fod yn llety dylluanod. Mae y bobl yn barod i ddod gyda fi.' Tystia yr hen ŵr ei fod ef yn bresenol ar y pryd, yn gweled ac yn clywed hyn oll, ac mai yn y modd a ddarluniwyd y bu yr amgylchiad. Ac fe wyr pawb sydd mewn oedran i gofio hefyd mai yn gwbl anghyfanedd yn mron y bu y rhan fwyaf o'r llanau, yn y cymydogaethau hyn, am amser maith ar ol tröad Rowland allan." Nid yw y ddau adroddiad o angenrheidrwydd yn anghyson. Nid yw yn anmhosibl i Daniel Rowland gael ei atal yn y boreu rhag gweinyddu yn Llanddewi-brefi, ac iddo farchogaeth rhyw chwech milldir i Lancwnlle erbyn y gwasanaeth prydnhawnol, yn yr hwn le y digwyddodd yr amgylchiad a gofnodir gan yr hen flaenor duwiol o'r Dolau-bach. Ond iddo gael ei droi allan sydd sicr. Ni amheuwyd hyn gan nac Eglwyswr nac Ymneillduwr am fwy na chan' mlynedd gwedi i'r peth ddigwydd. * Hysbysai y Parch. Howell Davies ar gyhoedd yn Nghapel Llangeitho, ddarfod i'r weithred brofi yn flin i'r Esgob mewn canlyniad; ei fod mewn ing enaid oblegyd hyn ar ei wely angau, ac iddo ddolefain: "Ymdrechais yr ymdrech (ai yr ymdrech yn erbyn Methodistiaeth a olygai?), gorphenais fy nghyrfa, ond collais fy enaid, ac yr wyf bellach yn andwyol!" A bu farw dan gnofeydd cydwybod ofnadwy. Byddai hyn, yn annibynol ar bob prawf arall, yn ddigon o sicrwydd ddarfod i ddrysau yr Eglwys gael eu cau yn erbyn Daniel Rowland; oblegyd yr oedd Howell Davies ac yntau yn gyfeillion o'r fath fwyaf mynwesol tra y buont ill dau byw; ac yn ychwanegol, yr oeddynt mewn cyfathrach berthynasol, gan i Nathaniel, ail fab Rowland, briodi merch Howell Davies. Rhaid felly fod amgylchiadau tröad Rowland allan yn gwbl hysbys i Mr. Davies. Yr oedd Rowland yn gweled yr ystorm yn dyfod, ac yn parotoi i ymadael a'r Eglwys Sefydledig. † "Difyr yw darllen," meddai Dr. Lewis Edwards, "am y dull y llwyddodd yr hen ddiacon craffus o'r Dolau-bach i gael allan brofion fod Rowland yn Ymneillduwr ewyllysgar. Nid oes un ymresymiad cadarnach yn Euclid. Ond er bod Rowland yn parotoi i ymadael, tynodd yr Eglwys Sefydledig arni ei hun yr anfri o'i droi allan. Os oedd y pechod o sism yn gysylltiedig o gwbl a'r am-

* *Ministerial Records*, tudal. 85.
† *Traethodau Llenyddol*, tudal. 498.

gylchiad hwn, y mae yn rhaid mai yr Esgob a'i trodd ef allan oedd yn euog; ac nid ydym yn gwybod nad yw yr euogrwydd hwnw yn gorwedd hyd heddyw ar yr Eglwys o'r hon y cafodd ei ddiarddel."

Dyma Daniel Rowland bellach yn ddyn rhydd. Nis gall yr Esgob bellach ymyraeth ag ef, na chlerigwyr cenfigenllyd gwahanol blwyfau Cymru ei niweidio a'u hachwynion; y mae at ei ryddid i bregethu yr efengyl dragywyddol yn y lle a'r modd a ddewisa, heb fod gan neb rith o hawl i'w alw i gyfrif. Gwnaethid paratoadau yn flaenorol i adeiladu capel helaeth iddo yr ochr arall i afon Aeron, ac ar gongl pentref Gwynfil, yr hwn yn aml a gamenwir yn bentref Llangeitho; yn awr gwnaed pob brys i fyned yn mlaen a'r adeilad. Gwedi ei orphen, gelwid ef "Yr Eglwys Newydd." Yr oedd tua 45 troedfedd o hyd, yr un faint o lêd, ac heb un oriel; yr oedd y pwlpud gyferbyn a'r drws yn mhen pellaf y capel, a mynedfa iddo o'r cefn, fel na fyddai raid i'r pregethwr ymwthio trwy y gynulleidfa. Dyma lle y bu yn gweinidogaethu mwy hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oeddid wedi troi yr ysgubor oedd ar dir Rowland, yn mha un yr arferid cadw seiadau, yn fath o gapel yn mhell cyn hyny, yn yr hwn yr arferai y cynghorwyr di-urddau bregethu. Adeilad gwael a diaddurn oedd yr hen ysgubor, ei muriau o bridd a chlai, a i thô yn gymysg o wellt a brwyn; ac nid oedd ei mesuriad ond rhyw ddeg llath o hyd wrth chwech o led. Aeth yr ysgubor yn rhy fach, trowyd hi yn dŷ anedd, a chyfodwyd capel bychan tua'r flwyddyn 1760, ryw dair blynedd cyn diarddeliad Rowland. Muriau pridd a thô gwellt oedd i hwn eto, ac yr oedd yn dra diaddurn. "Ty Seiat" y gelwid y naill a'r llall o'r rhai hyn. Byddai Rowland yn y cyfarfodydd a gynhelid ynddynt yn fynych, naill yn y gyfeillach grefyddol, neu yn gwrando'r cynghorwyr; ond elai iddynt yn ddirgel, rhag i'w elynion gael achlysur i achwyn arno wrth yr Esgob. Dywed Edward Morgan, Ficer Syston, ei fod mewn amgylchiadau cyfyng wedi ei droi allan; nad oedd ganddo ddim at gynal ei wraig a'i blant; ac nad oedd gan y Methodistiaid yr adeg yma unrhyw gynllun tuag at gynal eu pregethwyr. Er prawf o hyn, adrodda ddarfod i Rowland, yn fuan gwedi hyny, gerdded ar ei draed yr holl ffordd i Landdowror, i ymgynghori a'r Hybarch Griffith Jones, ac nad oedd ganddo i gynal natur ond teisen yn ei logell, yr hon a fwytäi efe ar y ffordd, gan yfed dwfr o'r ffynon i dori ei syched. Nis geill yr ystori hon fod yn wir. Yn 1763, mor bell ag y gwyddis, y diarddelwyd Rowland; ond yr oedd Griffith Jones wedi marw yn ngwanwyn y flwyddyn 1761, sef ddwy flynedd cyn hyny. Yr oedd Daniel Rowland wedi priodi i un o'r teuluoedd goreu yn yr amgylchoedd, ac yr oedd Mrs. Rowland yn cael ei chyfrif yn ddynes "lew iawn," fel y dywedir yn Sir Aberteifi. "Teg ydyw dweyd," meddai y Parch. John Hughes, "fod lle i feddwl fod Rowland yn derbyn llawer mwy oddiwrth ei Fethodistiaeth nag y dywedir ei fod oddiwrth ei guwradiaeth. Dywedir y cymunai rhai miloedd yn Llangeitho bob mis, cyn, ac ar ol ei droad allan; ac arferol ydoedd i'r cymunwyr gyfranu rhyw gymaint o'u heiddo ar ddiwedd y cymundeb. Yr oedd llawer o honynt yn dlodion yn ddiau; ond yr oedd cryn nifer yn eu mysg yn alluog, ac yn ewyllysgar i gyfranu yn helaeth. Pa faint a allasai y cyfanswm fod, sydd anmhosibl dweyd, ac afreidiol ymofyn. Teilwng iawn i'r gweithiwr hwn ei gyflog, pa faint bynag ydoedd. Yr oedd arian y cymun, mewn amrywiol leoedd yr oedd cyfranu ynddynt, heblaw Llangeitho, yn cyrhaedd cryn swm." Ar yr un pryd, nid oes sail i dybio iddo ar unrhyw gyfnod o'i oes fod yn gyfoethog, na bod casglu arian yn amcan ganddo o gwbl.

Daeth y capel newydd bellach yn gyrchfan y miloedd; deuent yno o bob parth o'r Dywysogaeth, a pharhaodd felly dros ystod oes Rowland, ac am flynyddau lawer wedi iddo farw. Elai yr holl wlad yno o fewn cylch o rhyw bymtheg milldir, a deuai tyrfaoedd yn rheolaidd bob Sul cymundeb o eithafoedd y Gogledd, ac o gyrau pellaf y Dê. Am rai milldiroedd o gwmpas, byddai yr holl dai yn llawn o ddyeithriaid. Yn fynych, byddai dros bum' mil o bobl yn bresenol. Gofalai yntau am fod gartref ar Sul y cymundeb; pregethai fath o bregeth paratoad y Sadwrn blaenorol am un-ar-ddeg yn y boreu, a chan amlaf byddai rhai o'r gweinidogion dyeithr, neu o'r cynghorwyr, yn pregethu am dri yn y prydnhawn. Yn gyffredin, cynorthwyid ef yn y gwaith o gyfranu gan ddau neu dri o weinidogion, ac weithiau gan saith neu wyth. Dywedir fod y cynulliad yn Llangeitho yr adeg yma yn gyffelyb i ffair fawr; yr heolydd a'r ffyrdd yn dew o bobl, ond heb ddim o derfysg a dadwrdd ffair; yn hytrach, yr oedd difrifwch tragywyddoldeb yn eistedd ar wedd y dyrfa. Ni chanfyddid

yno nac ysmaldod nac ysgafnder: byddai yr ieuanc a'r difeddwl, y rhai a ddaethent i'r cyfarfodydd gyda'r dyrfa, neu i foddhau chwilfrydedd, yn teimlo rhyw ddifrifwch yn ymaflyd ynddynt. Y caeau oeddynt lawnion o geffylau y dyeithriaid, a gwelid canoedd o anifeiliaid wedi eu cylymu yn rhesi wrth y cloddiau. Symbyliad i'r gwaith mawr a fu troad Rowland allan; rhyddhawyd ef o'i gadwynau; daeth ei weinidogaeth yn fwy nerthol, a lliosogodd y tyrfaoedd a ddeuent i wrando arno.

Yr ydym wedi galw sylw at y nerthoedd a arferent gyd-fyned a'i weinidogaeth; anaml y pregethai heb ennill goruchafiaeth ar ei wrandawyr; trwy holl ystod ei oes gwisgid ef a nerth o'r uchelder, ac arddelid ef gan ei Arglwydd; ond weithiau torai allan yr hyn a elwid yn "ddiwygiad." Y "diwygiad" oedd y tân dwyfol yn disgyn gydag angerddolrwydd mwy na chyffredin, nes gwneyd yr holl gynulleidfa yn fflam, gan beri i'r drygionus grynu fel dail yr aethnen, a llenwi geneuau y duwiolion a sain cân a moliant. Nid oes ynom un amheuaeth fod y diwygiadau hyn o Dduw; profir hyny yn ddiymwad gan eu ffrwyth. Ofer eu beirniadu mewn yspryd cnawdol; nid oes gan gnawd hawl i eistedd mewn barn ar waith Yspryd Duw. Cawn hanes nifer mawr o'r diwygiadau hyn yn cychwyn yn Llangeitho. Dechreuodd un cyn i Rowland gael ei dori allan o'r Eglwys, wrth ei fod yn darllen y Litani. Pan yn myned tros y geiriau, "Trwy dy ddirfawr ing a'th chwys gwaedlyd, trwy dy grôg a'th ddyoddefaint, trwy dy werthfawr angau a'th gladdedigaeth, &c., Gwared ni, Arglwydd daionus," disgynodd rhyw ddylanwad rhyfedd ar ei yspryd; yr oedd ei dôn o'r fath fwyaf toddedig, a i lais yn crynu gan deimlad; enynodd y teimlad yn y gynulleidfa, cawsant hwythau olwg ar yr Hwn a wanasant, a galarasant am dano fel un yn galaru am ei gyntafanedig; ond yn bur fuan trodd y galar yn orfoledd annhraethol. Ymdaenodd y diwygiad hwn trwy ranau mawr o'r wlad. Torodd diwygiad arall allan yn Llangeitho yn y flwyddyn 1762, pan y daethai casgliad o hymnau Williams, Pantycelyn, a elwid "Môr o wydr" allan o'r wasg. Wrth ganu yr hymnau ardderchog hyn, y rhai ydynt mor llawn o syniadau dyrchafedig ac efengylaidd, llanwyd eneidiau y bobl a moliant, ac ymdaenodd y gorfoledd trwy y cymydogaethau o gwmpas. Ond yn fuan wedi troad Rowland allan, y cafwyd y diwygiad mwyaf grymus, fel pe buasai yr Arglwydd am ddatgan ei foddlonrwydd mewn modd amlwg i wroldeb a hunanymwadiad ei wâs. Gelwir ef y "Diwygiad mawr," oblegyd ymledodd trwy y rhan fwyaf o'r Deheudir, a rhanau helaeth o'r Gogledd, a bu yn foddion dwyn miloedd at draed y Gwaredwr. Cofiai Nathaniel Rowland am dano yn cychwyn, pan yr oedd ei dad yn pregethu, ac fel hyn yr adrodda yr hanes: "Yr oedd y tŷ fel pe buasai wedi ei lenwi a rhyw elfen oruwchnaturiol, a'r holl dorf wedi cael ei meddianu a rhyw deimladau rhyfedd; llifai y dagrau dros wynebau canoedd, rhai o honynt yn ddiau gan orlawnder tristwch, a rhai gan orlawnder gorfoledd; yr oedd rhai wedi eu dryllio gan edifeirwch, ac eraill yn gorfoleddu dan obaith gogoniant." Dywed Nathaniel Rowland yn mhellach i'r goleu yn yr odfa ddechreu tywynu trwy adnod o'r Beibl: "I ti yr wyf yn diolch, o Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a u datguddio o honot i rai bychain; ïe, o Dad, canys felly y rhyngodd bodd i ti." Disgynodd rhyw daranfollt allan o'r geiriau i fysg y gynulleidfa; dallwyd canoedd gan lewyrch y dysgleirdeb; yr oedd yr effaith mor uniongyrchol, pwerus, a gorchfygol, fel mai ofer fyddai ceisio ei ddesgrifio. Dywedir i'r diwygiad hwn fod yn foddion i iachau llawer o'r teimladau dolurus a ganlynodd yr ymraniad gofidus a gymerasai le rhwng Rowland a Harris. Yr oedd yr effeithiau oeddynt yn cydfyned a'r diwygiadau hyn yn anhygoel; syrthiai rhai mewn llewygfeydd; torai eraill allan mewn ochenaidiau a llefain, gan ddychrynfeydd ac ing meddwl, fel pe y buasai y Barnwr wrth y drws; tra y clywid eraill drachefn yn tori allan mewn mawl a gorfoledd, am eu gwaredu megys o safn marwolaeth. Yr adegau yma, byddai y bobl yn fynych yn dychwelyd adref o Langeitho, rhai ar draed ac eraill ar geffylau, yn wŷr a gwragedd, meibion a merched, dan ganu a gorfoleddu, fel yr oedd eu sŵn yn cael ei gario yn mhell gyda'r awelon. Fel hyn eu desgrifir gan Williams:—

"Mae'r torfeydd yn dychwel adref,
Mewn rhyw yspryd llawen fryd,
Wedi taflu lawr eu beichiau,
Oedd yn drymion iawn o hyd,
Y ffyrdd mawr yn frith o werin,
Sŵn caniadau'r nefol Oen,
Nes mae'r creigiau oer a'r cymoedd
Yn adseinio'r hyfryd dôn."

Er gwaethaf Esgob Tyddewi a'r clerigwyr rhagfarnllyd ni adawyd Daniel Rowland heb anrhydedd daearol. Tuag amser ei droad allan gwnaed ef yn "Gaplan i'r Dug o Leinster, un o anrhydeddusaf Gyfrin Gynghor ei Fawrhydi yn nheyrnas yr Iwerddon." Ni wyddis pa wasanaeth a ddisgwylid oddiwrtho yn y swyddogaeth hon, ond tybir y dygai iddo ryw gymorth sylweddol tuag at ei gynhaliaeth ef a'i deulu. Cynygiwyd iddo fywioliaeth Trefdraeth, yn Sir Benfro, gan y dyngarwr, John Thornton. Daethai Mr. Thornton i wybod am dano trwy wraig o ardal Llangeitho, yr hon, yn ol arfer llawer o ferched Sir Aberteifi yr adeg hono, a arferai fyned i Lundain yn ystod misoedd yr hâf i chwynu gerddi. Cawsai waith yn ngerddi y dyngarwr. Tra yno, elai bob Sabbath i glywed Mr. Romaine, a chaffai hyfrydwch dirfawr wrth ei wrando. Dymunai hefyd gael ei glywed yn yr wythnos, ac aeth at Mr. Thornton i ofyn caniatad i adael ei gwaith ychydig yn gynarach i'r pwrpas hwnw, gan addaw codi yn foreuach dranoeth i wneyd iawn am y golled. Gofynai yntau: "A ydych yn hoffi pregethau Mr. Romaine?" "Ydwyf," meddai hithau, "y mae yn gwneyd i mi gofio am Gymru, oblegyd y mae gyda ni yno bregethwr heb ei fath." Arweiniodd hyn y boneddwr i holi hanes Rowland, ac yn raddol daeth yn un o'i gyfeillion mwyaf mynwesol. Canlyniad y cyfeillgarwch oedd cynyg iddo fywioliaeth Trefdraeth; ond pan glywodd y bobl yn Llangeitho, llanwyd hwy a thristwch; cynullent yn lluoedd i'w dŷ, gan daer erfyn arno am beidio eu gadael; dadleuent mai efe oedd eu tad, ac na fyddai neb ganddynt i dori bara'r bywyd iddynt pe y cefnai efe. A'u llefau a orfu, penderfynodd Rowland aros lle yr ydoedd, ac ymddibynu ar Ragluniaeth. Pan yr anfonodd ei benderfyniad, a'i resymau drosto, trwy law ei fab i Mr. Thornton, atebai yntau: "Yr oedd genyf feddwl mawr am eich tad o'r blaen, ond y mae genyf fwy meddwl o hono yn awr, er ei fod yn gwrthod y rhodd a gynygiais. Y mae ei resymau dros hyny yn anrhydedd iddo. Nid wyf yn arfer gadael i eraill wthio eu dwylaw i'm llogell, ond dywedwch wrth eich tad fod croesaw iddo roddi ei law ynddi bryd bynag y myno." Dywedir ddarfod iddo cyn hyny wrthod bywioliaeth yn Ngogledd Cymru yn hollol oblegyd yr un rhesymau.

Cawn gyfeirio yn nes yn mlaen at yr ymraniad anhapus a gymerodd le rhwng Rowland a Harris, a'r rhwyg a achoswyd yn y Cyfundeb mewn canlyniad. Gwedi yr ymraniad, Rowland a ystyrid fel arweinydd; arno ef y disgynai yr holl ofal; wrtho ef, mewn undeb a'i gyfaill hoff, Williams, Pantycelyn, y disgwylid am gadw i fynu burdeb mewn athrawiaeth a disgyblaeth. Nid ysgodd yntau y cyfrifoldeb a orphwysai arno; cymerai faich yr holl eglwysi ar ei ysgwyddau, ac nid bychan a fu ei drafferthion. Nid yw yn ymddangos i'r heresi Arminaidd beri fawr traffeth iddo; yr oedd gweinidogaeth y Diwygwyr Cymreig, o'r dechreuad, yn drwyadl Galfinaidd. Ond yn raddol aeth rhai o'r cynghorwyr i'r eithafion cyferbyniol. Llyncodd un o honynt y cyfeiliornad Sandemanaidd, sef nad yw y ffydd sydd yn cyfiawnhau ond cydsyniad noeth a gwirionedd yr efengyl. Gwnaethai y cyfeiliornad yma ddifrod dirfawr ar yr eglwysi yn Lloegr. *Yn awr, yr oedd un Mr. Popkins, pregethwr tra phoblogaidd, yn myned o gwmpas, gan gyhoeddi yr un syniadau yn mysg y Methodistiaid. Gwnaeth y gŵr hwn lawer o ofid i Rowland. O'r diwedd, dygwyd ef i brawf mewn cymdeithasfa, cauwyd ei enau yn hollol, ac ni flinwyd y Cyfundeb ganddo mwyach. Trafaelodd o gwmpas, gwedi ei fwrw allan, mor bell a Sir Gaernarfon, er ceisio lledaenu ei egwyddorion, ond aflwyddianus hollol a fu ei ymgais i enill canlynwyr. Ni fuasai Sandemaniaeth wedi cael lle i osod ei throed i lawr yn Nghymru, oni bai i Jones, o Ramoth, un o brif weinidogion y Bedyddwyr, gael ei hudo ganddi; parodd hyn niwed dirfawr i gyfundeb y Bedyddwyr yn y Gogledd. Eithr denwyd amryw gan yr heresi Antinomaidd, y rhai a arweinient fywyd penrhydd, ac a wnaent ras Duw yn achlysur i'r cnawd. Yn mysg y rhai hyn yr oedd un o'r enw David Jones, pregethwr o ddoniau mawr, ac yn dra phoblogaidd trwy Ddé a Gogledd, yr hwn hefyd oedd yn nai i Rowland ei hun. Aeth y gŵr hwn yn falch ac yn annyoddefol o hunanol. Ni phetrusai wrthwynebu Rowland a Williams yn gyhoeddus mewn cymdeithasfa; pan y pwysleisient hwy ar yr angenrheidrwydd am edifeirwch, a sancteiddrwydd buchedd, dywedai yntau: "Mor ddall a deddfol ydych; nid ydych fel pe baech

---

* *Ministerial Records.*

yn deall yr efengyl." Yr oedd llu yn tueddu i'w ganlyn, ac ofnid i'r holl wlad fyned ar ei ol. O'r diwedd, penderfynodd Rowland ei fod naill ai i roddi heibio ei olygiadau Antinomaidd, neu i gael ei ddiarddel o'r Cyfundeb; yr oedd yntau yn rhy warsyth i blygu, a'i ddiarddel a gafodd. Tybiodd, yn ei ffolineb, y gallai ddyfod yn sylfaenydd plaid grefyddol; ond pan aeth o gwmpas, gwedi ei ddiarddeliad, gan geisio casglu canlynwyr, ni chafodd nemawr i lynu wrtho, ac ni arhosodd y rhai hyny gydag ef ond am ychydig. Yn y diwedd, gadawyd ef gan bawb, fel halen wedi colli ei halltrwydd. Bu gwroldeb Rowland yn gweinyddu disgyblaeth ar Popkins a D. Jones yn llesiol i'r lleill, a dueddent i'r unrhyw gyfeiliornad; dychwelasant at symledd yr efengyl, gan ofyn maddeuant am y blinder oeddynt wedi beri. Yr oedd yntau o yspryd nodedig o faddeugar. Ond adroddir i un pregethwr tra phoblogaidd, oedd wedi teithio cryn lawer yn Ngogledd Cymru, gan bregethu syniadau Antinomaidd, gael ei osod tan ddisgyblaeth boenus iddo. Parwyd iddo ddychwelyd trwy yr holl eglwysi, a pha rai yr ymwelasai yn flaenorol, gan dynu yn ol ei gyfeiliornadau, ac addef ei fai a'i gamgymeriad; yr hyn a wnaeth yntau gyda pharodrwydd. At hyn y cyfeirir yn ei farwnad:—

"Ac fe wibiodd amryw ddynion,
Rhai ar aswy, rhai ar ddê;
Ond fe gadwodd arfaeth nefol
Rowland onest yn ei le;
A phwy bynag gyfeiliornai
O wiw lwybrau dwyfol ras,
Fe ddatguddiai 'u cyfeiliornad,
Hyd nes gwelai pawb hwy'n gas."

Cawsom gyfleusdra i ymddiddan ag amryw hen bobl yn nghymydogaeth Llangeitho oedd yn cofio Rowland yn dda, yn arbenig a David Jones, yr hen flaenor duwiol o'r Dolau-bach. Darlunient ef fel dyn cymharol fychan o gorffolaeth, cyflym ar ei droed, a chwimwth ei ysgogiadau. Dywed Dr. Owen Thomas fod y darlun o hono, a dynwyd ychydig cyn ei farwolaeth, ac a gyhoeddwyd yn mhen mis wedi ei gladdedigaeth, gan R. Bowyer—gyda'r talcen llydan, uchel, llawn, yr aeliau bwaog, y llygaid treiddgar, y trwyn Rhufeinig, y genau llydan, y gwefusau teneuon, a'r ymddangosiad penderfynol—yn un tra chywir. Darfu iddo ef adnabod merch iddo yn Llandilo Fawr, pan ar daith ddirwestol yn y Deheubarth yn y flwyddyn 1837, wrth y darlun hwn, er na wyddai ar y pryd fod un ferch wedi bod gan Rowland erioed, a llai fyth fod merch iddo yn fyw y pryd hyny. Trwy gryn anhawsder y cafwyd cymeryd ei lun. "Nid wyf fi ond telpyn o glai fy hunan,' meddai. A thra yr oedd yr arlunydd wrth ei orchwyl, dywedai drosodd a throsodd: "Ow! Ow! tynu llun hen bechadur tlawd!" Fel y rhan fwyaf o'r prif areithwyr, yr oedd yn dra *nervous;* pan y gwelai y bobl yn ymdaith wrth y canoedd tros y bryniau cyfagos, ac yn ymdywallt i ddyffryn cul Aeron, er mwyn gwrando arno, byddai ef yn crynu trwyddo gan ofn yn aml, ac yn arswydo eu gwynebu yn y capel. Dywedai wrtho ei hun yn uchel: "Yr Arglwydd a drugarhao wrthyf, bryfyn distadl, llwch a lludw pechadurus." Treuliai lawer wythnos mewn pryder poenus gyda golwg ar ei bregeth y Sul dilynol; pan y deuai boreu y Sabbath, dywedai wrth ei hen was ei fod yn ofni na fedrai bregethu; ond meddai hwnw: "Wedi ei gael i'r pwlpud ni a wyddem fod pob peth yn iawn; enillai nerth yn raddol, byddai ei eiriau fel fflachiad mellten yn cyniwair trwy y gynulleidfa oddi allan ac oddi mewn; oblegyd yn gyffredin byddai mwy y tu allan nag yn y capel, a byddai yr effeithiau arnynt yn rhyfedd." Weithiau teimlai adgyfnerthiad i'w yspryd wrth weled y tyrfaoedd, a chlywed swn eu caniadau. Yr oedd ffynon tua dwy filldir yn uwch i fynu na Llangeitho; yno yr ymgasglai yr ymdeithwyr wrth y canoedd i fwyta eu tamaid bara a chaws, ac i ddrachtio y dwfr; wedi i natur gael ei hadfywio, canent emyn, a than ganu y disgynent yn fynych ar hyd llechweddau y dyffryn. Yn y cyfamser cerddai yntau yn gyflym ar hyd lan yr afon a'i feddwl mewn pryder; ond wrth glywed y swn codai ei ben i fynu yn sydyn, a dywedai, gyda gwen: "Dyma nhw'n dod, gan ddwyn y nefoedd gyda hwy."

Yr oedd holl elfenau y gwir bregethwr wedi cyfarfod yn Daniel Rowland. Meddai lais o'r fath oreu; llais treiddgar, clir, yn medru cyniwair yn hawdd hyd gyrau pellaf cynulleidfa o ugain mil. Dywed rhai na fyddai yn bloeddio, er y siaradai yn gyffredin gydag yni mawr. Ond tystiai hen bobl Llangeitho fel arall, a dywedai ei hen forwyn y gorfyddai iddo newid ei grys ar ol yr odfa, gan fel y byddai wedi chwysu. Medrai ei lais arddangos pob math o deimlad, a phan yn traethu gwirioneddau tyner yr efengyl, byddai melusdra ei acenion yn orchfygol. Yr oedd


ei gynefindra rhyfedd a'r Beibl yn peri fod ganddo gawell saethau o'r fath oreu wrth ei benelin yn wastad ; ni fyddai ei gôf byth yn pallu pan y dymunai ddifynu adran o'r Ysgrythyr ; byddai yr adnod wrth law ganddo yn ddieithriad, a hono yr adnod gymhwysaf i'r mater. Meddai ddychymyg beiddgar a chryf, yr hwn a barai i'r amgylchiadau a fyddai yn ddarlunio ymrithio yn ddelweddau byw o flaen ei lygaid. Pan yn pregethu unwaith yn Llancwnlle ar ddyoddefiadau y Gwaredwr, teimlodd fel pe bai Iesu Grist dan ei glwyfau a'i gleisiau yn bersonol ger ei fron, a gwaeddodd allan, "O wyneb glaswyn ! O wthienau gweigion! O gefn drylliedig," nes yr oedd y dylanwad arno ef ei hun, ac ar y gynulleidfa yn mron yn llethol. Yr oedd ei deimladau yn danbaid ac yn gryfion. Dywedai un a'i hadweinai fod ganddo ddigon o deimladaeth (*animal spirits*) i haner dwsin o ddynion. Felly, heblaw fod ei ddeall yn nodedig o gyflym a chlir, a'i grebwyll yn ffrwythlawn mewn meddylddrychau, yr oedd grym ei deimladaeth yn rhoddi adenydd i'w eiriau, ac yn peri eu bod yn llawn tân. A thynai ysprydoliaeth o bresenoldeb cynulleidfa ; byddai dod wyneb yn wyneb a thorf yn ei gyffroi drwyddo ; a byddai y cyfryw gyffro nid yn ei ddyrysu, ond yn grymysu pob cyneddf a feddai, fel yr oedd ei ddeall yn fwy bywiog, a'i grebwyll yn fwy cynyrchiol, a gwresogrwydd ei yspryd yn gryfach nag ar unrhyw adeg arall. Efallai mai yn y pwlpud, yn nylanwad yr ysprydoliaeth a sugnai oddiwrth ei wrandawyr, y deuai o hyd i'r perlau dysgleiriaf a ddisgynai dros ei wefusau. Ac yn goron ar y cyfan, arddelid ef gan Yspryd Duw mewn modd neillduol yn mron trwy holl gydol ei oes. Pan y disgynai y dylanwadau nefol arno byddai fel llosg-fynydd mawr, yn arllwys allan o'i ymysgaroedd ffrydiau o hylif tanllyd, fel nad oedd yn ddichon i gnawd sefyll o'i flaen. Byrion oedd ei bregethau fel rheol, rhyw haner awr neu ddeugain mynyd o bellaf, ond ar rai achlysuron, anghofiai ei hunan yn gyfangwbl, a phregethai am dair neu bedair awr. Adroddir am un tro arbenig, pan yr oedd ef a'i wrandawyr wedi ymgolli mewn mwynhâd, fel na wyddent ddim am amser, mai wrth weled yr haul yn pelydru i mewn trwy y pen gorllewinol i'r eglwys, yn arwydd fod y dydd yn tynu at ei derfyn, y deallasant feithder yr adeg yr oedd yr odfa wedi para. Yr oedd ei deimladaeth ysprydol yn nodedig o fyw. Mewn cymdeithasfa unwaith, yr oedd yr odfaeon wedi bod yn bur galed ; yr oedd offeiriad wedi pregrethu yn dra marwaidd am ddeg o'r gloch y prif ddiwrnod, a Rowland i sefyll o flaen y dorf ar ei ol. Teimlodd nas gallai lefaru heb fedru cynhesu yr hinsawdd rywsut yn gyntaf. Galwodd ar hen gynghorwr duwiol, enwog am fyrdra a nerth ei weddïau, Dafydd Hugh, Pwllymarch, i fyned am fynyd i weddi, "dim ond mynyd," meddai. Gyda'r gair, yr oedd yr hen gynghorwr yn anerch yr orsedd : "Arglwydd Iesu, er mwyn dy waed a'th ing, gwrando fi. Y mae dy weision wedi bod yma yn ceisio nithio y prydnhawn ddoe, a'r boreu heddyw ; ond yn ofer, Arglwydd ; nid oes yr un chwâ o wynt wedi chwythu arnom o'r dechreu. Y gwynt, Arglwydd ! Y gwynt, Arglwydd grasol ! Oblegyd yn dy ddwrn di y mae y gwynt yn awr ac erioed, Amen." Daeth tòn o deimlad dros y gynulleidfa ; chwythodd yr awel falmaidd nes sirioli ac adfywio pawb, a phregethodd gŵr Duw gyda nerth a dylanwad anorchfygol.

Siaredir weithiau fel pe byddai nerth Daniel Rowland yn gynwysedig yn gyfangwbl yn ei areithyddiaeth, ac nad oedd ei bregethau, ar wahan oddi wrtho ef, ond cyfansoddiadau digon cyffredin. Y mae hyn yn gamgymeriad hollol. Y mae ei bregethau a gyhoeddwyd yn awr ger ein bron, ac y maent mewn gwirionedd yn ardderchog, yn llawn mater, ac wedi eu cordeddu a difyniadau allan o'r Beibl. Puritanaidd ydynt o ran nodwedd, a nodedig o Ysgrythyrol ; ac y maent yn dryfrith o'r cymhariaethau mwyaf cyffrous a swynol. Bid sicr, yr oedd hyawdledd a chyffro enaid y pregethwr yn ychwanegu at eu heffeithiolrwydd ; ond ar eu penau eu hunain byddai yn anhawdd cael dim mewn unrhyw iaith yn rhagori arnynt. Cymerer y difyniad canlynol o "Newydd Da i'r Cenhedloedd." Cyfeiria at y doethion wedi myned i Jerusalem i chwilio am y Mab bychan yn lle i Bethlehem : "Nid trwy dywysogaeth y seren y daethant yno, ond trwy dywysiad eu rhesymau eu hunain. Tybiasant, gan mai Caersalem oedd prif ddinas y deyrnas, ac eisteddfod brenhinoedd, y byddent yn sicr o glywed yno am enedigaeth Crist. Dilynasant, meddaf, ddynol resymau, am hyny, nis cawsant yr Iesu. Nis gellir ei gael ef ond wrth ei oleuni a'i gyfarwyddiadau ei hun. Rheswm yn wir sydd roddiad daionus, ac o'r gwaed brenhinol ;

eto, fel Mephiboseth, mae yn gloff o'r ddwy droed. Ni ddaethai hwnw byth at Dafydd nes cael ei gario ryw ffordd neu gilydd; am hyny, da y gwnaeth Dafydd ddyfod ato ef. Felly, rheswm sydd yn dymuno marwolaeth yr uniawn, ac yn canfod daioni ac yn ei ganmol, ond byth nid yw yn ei ddilyn, ac nis gwna hyd oni lusgir ef: 'Ni ddichon neb ddyfod ataf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef.' Cyhyd ag y dilynasant y seren y gwnaethant yn dda; pan adawsant y seren, ac y dilynasant eu rheswm eu hunain, y gwnaethant yn ddrwg. Dilyned y dyn dall ei arweinydd, serch gorfod myned trwy ddrain a mieri, trwy ddyffrynoedd a thros fynyddoedd; ymddirieded i olygon eraill, gan nad all weled ei hun. Yr ydym bawb yn ddeillion wrth natur, ac o dosturi atom y danfonodd Crist y Diddanydd i'n harwain." Cymerer eto ddifyniad o'r un bregeth, yr hon sydd yn llawn o'r cyffelyb berlau: Trueni yw meddwl leied gwerth a wel rhai yn yr Arglwydd Iesu; ni ddeuant o'r tai nesaf i ymofyn am ei wyneb. Pa mor bell yr â rhai i farchnad pan fyddo angenrheidiau y corph yn pallu? Mae eneidiau llawer wedi hir ddyoddef heb eu diwallu. Mae arnaf chwant dadleu dros eich eneidiau, a llefain am gael tamaid o fara iddynt, o'r fan lleiaf unwaith yn yr wythnos. Pe y caent ond hyny, mi a ddisgwyliwn iddynt gryfhau, ac ymorol am lawer yn ychwaneg. Deuai y doethion ychwaneg o filldiroedd nag y deuwch chwi o ganrau. Gwrthddadl; pe y gallech ei ddangos i ni, byddem foddlawn iawn i ddyfod. Chwi a ellwch gael ei weled ef, ac yn fwy gogoneddus nag y gwelodd y doethion ef. Yr ydym yn dangos Crist i chwi yn ngwyneb yr efengyl, nid i lygaid y corph, ond i'r enaid; nid yn gorwedd yn y preseb, nac yn gweddio ar y mynydd, nac yn gwaedu yn yr ardd, nac yn marw ar y groes, ond yn eistedd ar ei orsedd yn ogoneddus yn y nef. Pe deuai un i ystafell olygus, a bod ynddi lawer o luniau pryd-weddol, os bydd lleni neu gorteni (*curtains*) drostynt, ni all neb weled yr un o honynt; ond pe y tynai un y lleni ymaith, byddai yn hawdd iawn eu canfod. Felly y mae ymddangosiad Crist yn ngwyneb yr efengyl; ond y mae llen rhwng rhai a hwynt; gorchudd ar eu llygaid, fel na welant. O! gweddïwch am rwygo'r llen, a thynu ymaith y gorchudd; yna y gwelwch ardderchawgrwydd yr Arglwydd Iesu yn ei gynulleidfaoedd.' Gallasem ychwanegu sylwadau pert o'r fath yma, yn dynodi crebwyll o'r radd uchaf, yn ddiderfyn braidd, ond rhaid i ni ymfoddloni ar un difyniad ychwanegol. Y mae allan o'r bregeth, "Crist oll yn oll." Mater y pregethwr yw dangos cymhwysder yr Arglwydd Iesu, fel eneiniedig y Tad, i fod yn Iachawdwr. "Nid gwan ydoedd, eithr galluog i waith y prynedigaeth. Yn Esaiah iii. 7, y dywedir, 'Na osodwch fi yn dywysog; ni byddaf iachäwr; canys yn fy nhŷ nid oes fwyd na dillad.' Cymhwys fod tywysogion yn gyfoethog; ni wna begeriaid ond gwancu meddianau eu deiliaid. Ni allasai Crist ddywedyd felly (fel y gŵr yn Esaiah), o herwydd efe a addaswyd a phob gras a dawn angenrheidiol i'r gorchwyl yr appwyntiwyd ef iddo; Salm lxxxix. 19. Yna, gwelwn nad ar wânŵr y rhoed y cymhorth, un ag a lewygai dan ei faich; nage, nage, ond un galluog, ië, hollalluog, i fyned trwy ei orchwyl. Megys y cyfododd Samson haner nos, ac y cariodd byrth Gaza i ben bryn uchel rai milltiroedd o'r dref; felly Iesu, y Cadarn, a gododd o angau, ac a gariodd byrth uffern a marwolaeth, ac a esgynodd i'r nef. O ba herwydd y dywedir, 'Efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.' Nid ydym yn dyfod at un egwan, fel at yr archoffeiriad gynt; eithr at un cadarn, un etholedig o'r bobl. Wele fawr gysur i bob credadyn gwan, fod ei Arglwydd yn alluog i orphen y gwaith a ddechreuodd. Cysur y gwahanglwyfus oedd, 'Os myni, ti a elli fy nglanhau i.' Enaid, y mae genyt Dduw ag y tal ymddiried ynddo, y mae mor llawn o ewyllys ag yw efe o allu i'th iachau. Gan ei fod yn hollalluog, gorphwyswn ar, ac ymddiriedwn yn ei allu ef. Rheded dynion fel y mynont, yma ac acw i mofyn cymorth, nid oes neb a ddichon eu cynorthwyo ond efe. Yn mha galedi bynag y byddom, pwyswn arno ef; efe a all gadw Noah mewn arch o goed; yr un ffunud y ceidw efe Moses mewn arch o frwyn. Gwel Esaiah xviii. 2: 'Efe a hebrwng genhadau hyd y môr mewn llestri brwyn.' Efe a wared trwy foddion, heb foddion, yn wrthwyneb i foddion, a goruwch moddion." Anmhosibl darllen y difyniadau uchod heb deimlo ardderchawgrwydd y mater. Ar yr un pryd, rhaid addef fod nerth teimlad, a gwresawgrwydd yspryd y pregethwr, yn ychwanegu yn fawr at eu grym.

Y mae llawer o ddywediadau pert Rowland, yn gyhoeddus ac yn breifat, wedi cael eu cadw yn nghôf hen bobl. Dywedai unwaith wrth athrodwr: "Yr wyt ti, ddyn, yn dweyd fod yn rhaid datguddio a hêl pechodau; am eu bod yn rhy aml yn yr eglwys, na ddylid eu cuddio. Pwylla, ddyn. Pwy wyt ti? Yr wyf yn meddwl fy mod yn adnabod dy deulu, a'th frawd hynaf, sef Cam, mab Noah. Ei ddau frawd a ddymunent guddio noethni eu tad; ond nid oedd efe dros hyny. Pa wobr a gawsant hwy am eu gwaith o guddio? Bendith Duw a'u tad. Beth a gafodd dy frawd di? Melldith gan Dduw a'i dad. Diameu genyf na fydd dy wobr dithau ddim gwell." I ragflaenu disgyblaeth ry lem, dywedodd unwaith fel hyn: "Mae disgyblaeth yr efengyl yn debyg i gribyn aur, yn tynu ac yn cynull y cwbl ati, er achles ac amddiffyniad, ac nid fel fforch, sydd yn taflu ymaith ac yn gwasgaru."

Y mae yn amheus a gyfododd Duw, oddiar ddyddiau yr apostolion, y fath bregethwr a Daniel Rowland, ac yn meddu y fath gymhwysderau ar gyfer y pwlpud. Barn ddiamwys bron bawb a'i clywsant, ac yn eu mysg cawn dystiolaeth personau o ddysgeidiaeth uchel, na wrandawsant ar neb wedi ei ddonio i'r un graddau. Yr oedd fel Saul yn eu golwg, yn uwch o'i ysgwyddau na phawb. Meddai Howell Harris, mewn llythyr ag y difynwyd rhan o hono yn barod: "Y mae yr Arglwydd gydag ef (Daniel Rowland) yn y fath fodd, fel yr wyf yn credu bod y ddraig yn crynu y ffordd y cerddo. Er fy mod yn awr wedi cael y fraint o glywed a darllen gwaith llawer o enwogion Duw, nid wyf yn gwybod, mor bell ag y gallaf farnu, i mi adnabod neb wedi ei fendithio yn y fath fodd a doniau a nerth; y fath oleuni treiddgar i yspryd yr Ysgrythyrau, i osod allan ddirgelwch duwioldeb a gogoniant Crist. Ac er iddo yn fynych gael ei gyhuddo o gyfeiliornadau, eto mae yr Yspryd tragywyddol wedi ei dywys yn y fath fodd i'r holl wirionedd, a'i gadw felly rhag syrthio i unrhyw gyfeiliornad,



CAPEL LLANGEITHO A'R GOFGOLOFN.

fel y mae ei weinidogaeth, yr wyf yn credu, yn un o'r bendithion mwyaf y mae eglwys Dduw yn y parth hwn yn eu mwynhau." Yr oedd Harris, pan yn ysgrifenu fel hyn, wedi gwrandaw prif bregethwyr Cymru a Lloegr; clywsai Griffith Jones, a Whitefield, a'r ddau Wesley, a'r enwogion eraill a gyfodasent yn yr oes ryfedd hono; ond yn ei farn ef nid oedd un o honynt wedi ei ddonio yn gyffelyb i Rowland.

Cyffelyb y barnai ac y dywedai Mr. Charles o'r Bala, a gwyddis pa mor bwyllog a chymedrol ei ymadroddion oedd efe. Yn y *Drysorfa* ysgrifena fel y canlyn: * "Yr oedd ucheledd a phob rhagoriaethau yn noniau Mr. D. Rowland, dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurdeb a bywiogrwydd yn traddodi dyfnion bethau Duw, er syndod a'r effeithioldeb mwyaf ar ei wrandawyr." Eto, yn yr ymddiddan rhwng Scrutator a Senex, dywed Senex: † "Yr oedd gweinidogaeth y gŵr hwn, fel y gwyddoch, yn ardderchawg dros ben, ac yn rhagori yn ei mawredd a'i hawdurdod ar neb a glywais erioed." Eto, ‡ "Yr oedd doniau ac arddeliad Mr. Rowland y fath nas dichon gwrandawyr yr oes bresenol gynwys dim amgyffred am danynt. Cyffelybais ef yn aml yn fy meddwl i'r Tachmoniad hwnw yn mhlith cedyrn Dafydd; efe oedd benaf o'r tri; ac er godidoced oedd y lleill, eto, ni chyrhaeddasant y tri cyntaf. O rhyfedd y fath awdurdod a dysgleirdeb oedd gyda ei weinidogaeth, a'r modd rhyfedd yr effeithiai ar y gwrandawyr! Gwedi gwrando pregeth neu ddwy ganddo, ai y werin i'w hamrywiol deithiau meithion, yn llon eu meddwl, ac yn ddiolchgar i'r Arglwydd am ei ddawn annrhaethol." Meddai Mr. Charles am dano unwaith, wrth geisio ei ddarlunio i gyfaill o Sais: "Pregethai Rowland edifeirwch, nes y byddai dynion yn edifarhau; pregethai ffydd nes y byddai dynion yn credu. Darluniai bechod mor wrthun nes peri casineb ato; a Christ mor ogoneddus nes peri dewisiad o hono." Mewn llythyr a ysgrifenodd yn y flwyddyn 1780, at yr hon a ddaeth wedi hyny yn wraig iddo, dywed: "Yr wyf yn credu fel chwithau, nid yn unig fod y Bala bach, ond hefyd Cymru, yn dra breintiedig. Y mae y cenad oedranus hwnw i Frenin y Gogoniant, Daniel Rowland, yn anrhydedd bythol iddi, ac efe a fydd felly. Anaml y gallaf grybwyll am dano mewn ymadroddion cymhedrol. Yr wyf yn ei garu yn fawr, fel fy nhad yn Nghrist; ac nid heb reswm, oblegyd iddo ef, tan fendith Duw, yr wyf yn ddyledus am gymaint o oleuni a phrofiad a feddaf o'r iachawdwriaeth ogoneddus trwy Grist." Byddai yn anhawdd defnyddio ymadroddion cryfach, a phan y cofir eu bod yn dyfod oddiwrth Mr. Charles, amlwg y rhaid eu cymeryd yn eu llawn ystyr.

Yn gyffelyb y tystiolaetha Mr. Jones, Llangan. Mewn llythyr o'i eiddo at yr Iarlles Huntington, dyddiedig, Peny-bont, Mai 14, 1773, efe a ddywed: § "Buasai yn wir dda genym eich gweled yn ein cymdeithasfa. Yr ydoedd mewn gwirionedd yn ddiwrnod tra arbenig. Cyflawnodd yr Arglwydd Iesu ei addewid werthfawr i'w weision, 'Wele, yr wyf fi gyda chwi.' Yr oedd gallu mawr oddi uchod yn cydfyned a'r gair a bregethid. Aeth llawer adref i'w cartref yn llawen; a phwy na lawenhai wrth weled Tywysog ein Hiachawdwriaeth ei hunan yn ymddangos ar faes y frwydr, ac yn sicrhau i galonau ei bobl druain, y byddai iddo ef fuddugoliaethu ynddynt a throstynt? Yr wyf yn hyderu fod rhai diofal wedi eu dwysbigo yn eu calon. Pregethodd Mr. Rowland yr ail bregeth yn y boreu, oddiar Actau ix. 4: 'Ac efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a glybu lais yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?' Pregethodd Mr. William Williams o'i flaen ef. Ni a gawsom ddwy bregeth hefyd yn y prydnhawn. Y gyntaf gan Mr. William Llwyd (o Gaio), pregethwr diurddau, a'r ail gan Mr. Peter Williams. Gwnaeth rhai o'r bobl i'n tref fechan adsain '*Gogoniant i Fab Dafydd*,' '*Hosana trwy'r nefoedd*,' '*Hosana hefyd trwy'r ddaear*,' *Amen, Amen*. Y mae digon yn eich cyrhaedd i gyfieithu y geiriau Cymraeg i chwi. Pregethodd Mr. Rowland, y dydd canlynol, mewn tref fechan, ryw ddeuddeg milltir i'r gorllewin i ni; lle y cafodd odfa felus mewn gwirionedd. Llefarodd yn rhyfeddol am Abraham *yn dyrchafu ei lygaid ac yn edrych*, Genesis xxii. 13. Ni chlywais y fath bregeth erioed o'r blaen. Yn sicr, efe yw y pregethwr mwyaf yn Ewrob.

* Llyfr Cyntaf, tudal. 103.
† *Ibid*, tudal. 136.
‡ *Ibid*, tudal. 137.

§ *The Life and Times of Selina, Countess of Huntington*, Cyf. II., tudal. 118.

Bydded i'r Arglwydd ei arddel fwy-fwy. Yr oedd y dref fechan hono hefyd yn adseinio '*Gogoniant.*' Parha, fendigedig Iesu, i farchog yn llwyddianus trwy ein gwlad. Llanw ein calonau oerion a'th gariad, ac yna ni a'th folianwn di o fôr i fôr."

Yr oedd gan yr Hybarch Griffiths, Nevern, y syniadau uchaf am Rowland fel pregethwr. * "Yr oedd y pregethwr mawr hwn, meddai, "yn ei weinidogaeth gyhoeddus, yn gyffelyb i ymchwydd ac ymdoriad tònau y môr, pan fyddo y gwynt yn cynhyrfu mynwes yr eigion. Deuai nerth oll-orchfygol dylanwad yr Yspryd yn mlaen yn raddol, fel tòn y môr, gan gynyddu fwy-fwy. Dechreuai ei bregeth yn dawel, ond fel yr elai yn mlaen, cynyddai ei fater a'i arddull mewn dyddordeb. Byddai ei gynulleidfa, yr hon oedd yn wastad yn anferth o fawr, yn dwys syllu arno, gyda llygaid yn dysgleirio fel sêr, gan sylwi arno gyda phleser wrth ei fod yn myned rhagddo mewn modd mor ardderchog. Dygid eu meddyliau a'u teimladau yn mlaen gydag ef yn y modd mwyaf nerthol a melus, gan fod wedi eu cyffroi i radd uchel o gynhyrfiad crefyddol, nes yn mhen enyd y cyrhaeddai ei hyawdledd ei uchaf-bwynt; ac yna ymdorai ei hyawdledd, dan y dylanwadau dwyfol, mewn ardderchawgrwydd, fel ymchwydd y dòn, gan lwyr orchfygu y dyrfa fawr yn y modd mwyaf rhyfedd. Y pryd hwn, byddai angerddolrwydd eu teimladau yn cael gradd o ryddhad mewn bloeddiadau o 'Haleliwia,' a 'Bendigedig fyddo Duw.' Arafa y pregethwr; rhydd seibiant i'r gynulleidfa i fwynhau y wledd; yn wir, ni chlywsid ei lais pe yr elai yn ei flaen. Yr oedd yn angenrheidiol hefyd i'w brwdaniaeth gael pasio, er eu cymhwyso i wrando ar y gweddill o'r bregeth gyda budd. Felly ceisiant gadw eu teimladau danodd, ac ymdawelu, gan eu bod yn awyddus am fwynhau y danteithion a arlwyid ger eu bron gan genhadwr rhyfedd y nefoedd, yr hwn oedd wedi cael ei ddonio mor arbenig. Dechreua yntau adran arall o'i bregeth yn bwyllog a thawel, gan ymddyrchafu yn raddol, fel tòn arall o'r môr, i uchder gogoneddus mewn syniadau a theimladau, y rhai ydynt wir a naturiol effeithiau syniadau efengylaidd, a dylanwad yr Yspryd. Tan addysgiant Yspryd Duw, cynyrcha y rhai hyn eu cyffelyb yn y gwrandawyr. Y maent yn crogi wrth ei wefusau; gwyliant bob ysgogiad o'i eiddo, gan eu bod yn gwybod oddiwrth ei fater a'i ddullwedd fod ymdoriad gerllaw. Ei lais yntau, a gwedd ei wyneb, sydd yn cyfnewid, cynydda ei ymresymiad mewn nerth, ac yna dyna ei hyawdledd efengylaidd yn ymdori fel ymchwydd y dòn drachefn. Ar hyn y mae y gynulleidfa yn cael ei gorchfygu gan ei theimladau unwaith eto, ac yn tori allan mewn llefau uchel, 'Hosana i Fab Dafydd.' Yr oedd arddull, llais, ac osgo y dyn mawr hwn, ar adegau o'r fath, yn anarluniadwy o ardderchog ac effeithiol. Yr oedd holl gyhyrau ei wyneb yn siarad, a'i wedd yn pelydru mewn dysgleirdeb, fel yr haul yn ei nerth."

Er prawf pa mor rymus oedd dylanwad Rowland, a'r modd yr oedd teithwyr o gyrau pellaf y Dywysogaeth yn anghofio eu holl ludded tan swyn ei weinidogaeth, adrodda Dr. Owen Thomas yr hanes canlynol, wedi ei gael ganddo oddiwrth yr hen bregethwr hybarch, Mr. John Williams, Dolyddelen, "yr hwn," meddai, "nid oedd mewn un modd yn un gwanaidd, difeddwl, a pharod i ymollwng gyda phob awel a chwythai ar ei dymherau. † Dywedai ei fod ef (John Williams), un tro, wedi myned i Langeitho, gan gerdded yr holl ffordd o Ddolyddelen. 'Yr oeddwn,' meddai, 'wedi blino cymaint fel yr oeddwn yn llawer ffitiach i fyned i fy ngwely nag i fyned i'r capel. Ond fe aeth Rowland i bregethu. Y testun oedd: 'Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loyw-win; o basgedigion breision, a gloyw-win puredig.' Ac ni chlywsoch chwi erioed y fath beth. Fe aeth ati i *dapio barilau* y cyfamod gras, ac i ollwng allan y gwin puredig, ac i ddiodi y bobl ag o. Yn wir, yr oedd o yn llifo trwy y capel. Mi yfais inau o hono, nes yr oeddwn i wedi meddwi fel ffŵl; a dyna lle y bum i, ac ugeiniau gyda mi, heb feddwl dim am flinder, yn gwaeddu, a rhai o honom yn neidio, am oriau.'"

Byddai yn gamwri gadael allan ddesgrifiad Christmas Evans o hono. Yr oedd Christmas, fel yntau, wedi ei eni a'i ddwyn i fynu yn Sir Aberteifi, ac yn 24 mlwydd oed pan y bu farw; a diau felly iddo gael cyfleustra i wrando arno lawer gwaith. Fel hyn y dywed yr hen Fedyddiwr hyawdl: ‡ "Calfinaidd yn mhob ystyr o'r

* *Ministerial Records.*

† *Cofiant John Jones, Talsarn.*

‡ *Hanes Bywyd Christmas Evans.*

gair oedd athrawiaeth Daniel Rowland. Byr-eiriog oedd ei ddull o lefaru, a byddai ei ymadroddion yn gryno, sylweddol, a synwyrlawn. Pregethai yn ei arddull briodol ei hun, ac nis gellid ei ddynwared. Yr wyf megys pe gwelwn ef yn awr, yn ei ŵn du, yn myned i mewn trwy y drws bychan oddi allan i'r pwlpud, ac yn ymddangos felly yn ddisymwth i'r gynulleidfa fawr. Yr oedd ei wedd, yn mhob ystyr, wedi ei haddurno a mawredd, ac yn arddangos synwyr cryf, hyawdledd, ac awdurdod. Yr oedd ei dalcen yn uchel a llawn; ei lygaid yn llym, yn fywiog, a threiddiol; ei drwyn yn eryraidd, neu Rufeinig; ei wefusau yn weddus, ac yn arwyddo penderfyniad; ei ên yn taflu allan ac yn codi ychydig; a'i lais yn soniarus, peraidd, cryf, a dylanwadol iawn. Yr arfer gyffredin fyddai i ryw weinidog ddarllen a gweddio, cyn y cyfodai Rowland yn y pwlpud; yna rhoddai yntau allan, gyda llais eglur a hyglyw, air o Salm i'w ganu, megys xxvii. 4:—

> 'Un arch a erchais ar Dduw Nâf,
> A hyny a archaf eto;
> Cael dyfod i dy yr Arglwydd Glân,
> A bod a'm trigfan yno.'

Un penill a genid o flaen pregeth yn y dyddiau hyny, oedd mor rhyfedd am ddylanwadau nerthol. Ymunai'r holl gynulleidfa i ganu gyda gwresogrwydd mawr; eto heb ddyblu ond ychydig o *flaen* pregeth, rhag i'r olew nefol redeg dros y llestri yn rhy fuan. Yna cyfodai Rowland, a darllenai ei destun yn eglur i glyw pawb. Byddai yr holl gynulleidfa megys yn glustiau i gyd, yn astud iawn, fel pe buasent ar wrando rhyw oracl efengylaidd a nefol. Byddai llygaid yr holl bobl ar yr un pryd yn craffu arno yn ddyfal. Yn nechreu ei bregeth, byddai ganddo ryw syniad tarawiadol, cyffrous, megys blwch bychan o enaint i'w agor o flaen blwch mawr ei bregeth, yr hwn, pan ei hagorid, a wasgarai berarogl yr enaint trwy yr holl gynulleidfa, ac a baratoai ddisgwyliadau y bobl am agoriad y blychau dilynol, o un i un, trwy'r bregeth, nes llenwi yr holl dŷ a'i arogl nefol, megys perarogl blwch enaint Mair yn Bethania gynt. Wedi cyffroi y gynulleidfa, fel hyn, a rhyw feddwl anghyffredin, efe a ranai ei destun, ac a ai yn mlaen gyda'r rhaniad cyntaf, gan blygu ei ben ychydig, fel ag i daflu cipolwg ar ei nodiadau a fyddent ar ddernyn o bapyr o'i flaen. Gwelais ei nodiadau ar y testun, 'Edifarhewch,' &c., y rhai oedd yn bur fyrion, fel hyn: '(1) Edifeirwch, o ran ystyr, yw cyfnewidiad meddwl, am Dduw ac am ddyn, am y ddeddf a'r efengyl, am bechod a sancteiddrwydd, am ddrygioni'r galon a'r fuchedd, am haeddiant dyn a haeddiant Crist, ac am allu dyn, a nef a daear, ac uffern obry. (2) Y mae Duw yn galw ar ddyn i edifarhau. Clyw weinidogaeth Ioan Fedyddiwr, a Christ, a Phetr ar ddydd y Pentecost, a Phaul yn Pisidia. (3) Y mae Duw, o'i ras, yn rhoddi edifeirwch trwy Iesu Grist. Efe yw'r bibell euraidd, trwy yr hon y rhed holl ffrydiau gras a gogoniant. Cofia ymadrodd Petr, bod Duw yn rhoddi edifeirwch a maddeuant pechodau, drwy fendith yn dyfod o groth fawr arfaeth y nef, ac y maent fel efeilliaid yn canlyn eu gilydd yn ddiwahan; neu fel dwy raff yn tynu llong iachawdwriaeth dros y basleoedd peryglus, trwy effaith eiriolaeth Crist yn tynu pechaduriaid ato ei hun.'

Yr ydym yn awr yn dyfod at y rhan anhawddaf o'r desgrifiad, gan nas gallwn beri i ddelw fud lefaru, na dyn marw i fod yn fyw. Wedi cymeryd cipolwg ar ei nodiadau, o ran arfer yn fwy na dim arall, dechreuai ymadroddi yn bwyllog, gan lefaru yn rhwydd a hyglyw. Cyffelybaf ef i'r gôf yn rhoddi yr haiarn yn y tân, ac yn dywedyd wrth y chwythwr am chwythu mwy neu lai, gan gadw ei lygad o hyd ar yr haiarn yn y tân, ac ar yr un pryd yn gallu siarad am bedoli, a durio'r swch a'r cwlltwr. Y mae'r tân yn fflamio fwy-fwy, a gwreichion y twym-ias yn esgyn i fynu. Yna cipia yr haiarn, wedi ei ddwyn i dymer ddoddedig ac ystwyth, i'r engan, a'r ordd fawr a'r morthwyl yn curo arno, nes i'r gwreichion ehedeg trwy yr holl efail. Yn gyffelyb y byddai Rowland, yn poethi ac yn brydio yn raddol, fel y byddai yn graddol deimlo ei fater; ac o'r diwedd dyrchafai ei lais yn awdurdodol, nes y byddai yn dadseinio trwy'r holl gapel. Byddai yr effeithiau ar y bobl yn rhyfeddol; nis gwelid dim ond gwenau a dagrau yn treiglo dros eu gwynebau; a byddent ar yr un pryd yn bloeddio mewn gorfoledd. Cyfodai hyn oll o fflam ei oslef, a godidowgrwydd ei fater; a'i fywiogrwydd yntau o'r fflam a fyddai yn y meddyliau dyrchafedig a draddodid ganddo, yn nerthoedd yr Yspryd Glân. Yr oedd y gwahaniaeth yma rhyngddo ef a Whitefield; pan fyddai Whitefield fwyaf angerddol yn nhônau peraidd ei lais, byddai braidd yn gwanhau yn ei fater; ond ei fater a fyddai yn dyrchafu hyawdledd Rowland, a byddai ei

lais yn dyrchafu gyda'i faterion. Gwedi i'r iâs hon lonyddu, dan y pen cyntaf, ac iddo frysio edrych ar ei bapyrun nodiadau, dechreuai yr ail waith doddi ac ystwytho meddyliau ei wrandawyr, nes eu dwyn drachefn i'r unrhyw dymer nefol. Gwnai felly weithiau chwech neu saith waith yn yr un bregeth, a byddai y twym-iâs nefol, a serch y gynulleidfa yn y sefyllfa fwyaf angerddol. Pur ychydig a fyddai ganddo yn niwedd y bregeth mewn ffordd o gasgliadau, neu gymhwysiad, gan y byddai yn cymhwyso ac yn cymell gwirioneddau gogoneddus yr efengyl trwyddi oll. Terfynai gydag ychydig sylwadau tarawiadol a grymus; yna gweddïai yn fyr ac yn felus, a datganai y fendith. Yna, yn llawn chwys, brysiai allan o'r pwlpud trwy'r drws bychan, a hyny mor sydyn ag y daethai i mewn. Os na byddai cymundeb ar ol, gadewid y gynulleidfa fawr mewn hwyl nefol, yn mwynhau llewyrch wyneb eu Harglwydd, a hyn oll yn y modd nas gellir ei ddesgrifio ar bapyr. . . Yr oedd y fath wresogrwydd tanbaid, anorchfygol, yn ei bregethiad, fel ag i ymlid ymaith yn effeithiol yspryd diofal, bydol, a marwaidd; a byddai'r bobl, wedi ei deffro felly, yn nesau megys yn y cwmwl goleu, at Grist, a Moses, ac Elias, a thragywyddoldeb a'i sylweddau aruthrol yn goresgyn eu meddyliau! Seren o'r maintioli mwyaf oedd efe, a thebyg na bu yn Nghymru ei gyffelyb er dyddiau yr apostolion. Y darlun uchod a dynais o'r pregethwr tywysogaidd hwn o barch i'w goffadwriaeth."

Gallasem ddifynu llu o dystiolaethau eraill i brofi fod Daniel Rowland yn bregethwr digyffelyb, ond rhaid i ni ymfoddloni bellach ar y darluniad canlynol o eiddo y Parch. Dr. Owen Thomas: * "Siaradai, ar y cyntaf, yn hytrach yn isel, ond yn dra chyflym; yn gymaint felly fel mai anhawdd braidd oedd ei ddilyn. Yr oedd yn ymddangos am amryw fynudau fel pe y buasai yn ofnus, ac heb ymddiried hollol ynddo ei hun. Ond, yn raddol, fe ddiflanai hyny, ac fe enillai hunan-feddiant perffaith. Siaradai yn awr yn fwy araf, ond yn uwch ac yn rymusach, gan ymwresogi fel yr elai rhagddo, a'r holl gynulleidfa yn cynhesu gydag ef, nes y byddai iâs o deimlad tyner yn treiddio trwyddi. Y mae wedi darfod yn awr a'r sylw cyntaf; yn gostwng ei lais; yn rhoddi ysgydwad naill-ochrog arno ei hunan; ac yn dechreu ar yr ail sylw. Y mae yn cychwyn eto yn lled araf a phwyllog, ond yn cyflymu yn fuan iawn, ac yn llefaru gyda nerth a rhwyddineb anghyffredin; y mae ei lygaid yn treiddio trwy'r capel; ei lais yn ymddyrchafu; ei deimladau yn tanio; y mae y gwres yn awr yn cydio yn y bobl; y mae y dagrau yn treiglo dros eu gruddiau; yr *Amenau* cynhes yn dyfod dros eu gwefusau; a'r pregethwr a hwythau mewn meddiant hapus o'u gilydd. Y mae yn darfod a'r ail sylw. Y mae yn disgyn yn raddol, drachefn, i'r tawelwch a'r pwyll a deimlid yn angenrheidiol ganddo gyda phob adgychwyniad. Ac ni a glywsom y sylw gan fwy nag un o'i hen wrandawyr, na byddai efe byth yn ymddangos yn well fel siaradwr, na phan yn disgyn o'r arucheledd teimlad, y byddai efe ei hunan a'r gynulleidfa wedi eu codi iddo, i'r arafwch a roddai iddo y fantais oreu i ail ddisgyn. Ni welwyd mo hono erioed yn *syrthio* i lawr, ond yn *disgyn* yn *dawel* ac yn *esmwyth*, a'i holl nerth ganddo i ail godi. A dyna fo yn esgyn eto, ac yn cyfodi ei gynulleidfa gydag ef, i deimladau uwch, a dwysach, a phoethach. Y mae'r '*Amenau*' yn amlach a chryfach; bloeddiadau, '*Diolch*,' '*Bendigedig*,' '*Gogoniant*,' i'w clywed o bob cwr i'r capel; a'r holl gynulleidfa, mewn hwyl hyfryd, yn mwynhau gorfoledd yr iachawdwriaeth. Ond y mae y pregethwr yn arafu; yn disgyn drachefn, braidd yn esmwythach ac yn brydferthach nag o'r blaen; ac yn rhoddi ychydig eiliadau o seibiant i'r bobl i ddisgyn gydag ef. Eithr y mae heb ddarfod eto. Y mae yn cychwyn drachefn, ac i fynu, yn *uwch*, UWCH, UWCH. Y mae golwg ryfedd erbyn hyn arno. Y mae ei lygaid yn fflamio; ei lais yn ymdori; ei wyneb yn dysgleirio; ei holl gorph yn ymddangos fel pe byddai wedi ei ysprydoli; yr enaid mawr yn gollwng allan, yn ffrydlif o hyawdledd byw, y meddyliau mwyaf tanllyd; a'r rhai hyny yn tanio yr holl gynulleidfa, ac yn ei chyfodi i hwyliau rhyfedd o orfoledd a mawl. Y mae llais y pregethwr wedi ei golli yn awr yn mloeddiadau a chaniadau y dyrfa; y mae yntau yn terfynu, nad oes neb yn gwybod pa fodd ond efe ei hun; ac yn gadael y gynulleidfa i orfoleddu am oriau. Y mae yn cymeryd ychydig luniaeth, yn myned am ddwy awr i'w wely i orwedd; ac yn ei gwsg yn adenill rhyw gymaint o'r yni gwefrol a gollwyd ganddo, mewn awr o amser, yn y capel."

* *Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn.*

Tra mai fel pregethwr y rhagorai Daniel Rowland, y mae yn dra sicr ei fod yn drefnIedydd nodedig o fedrus, ac yn arweinydd doeth a dyogel. Gwedi yr ymraniad, efe a fyddai yn llywyddu yn y cymdeithasfaoedd, os yn bresenol. Ychydig a lefarai efe ei hun fel rheol; gwrandawai ar eraill am enyd, gan rodio yn ol ac yn mlaen ar hyd yr ystafell; yna torai y ddadl a fyddai yn cael ei chario yn mlaen i fynu, trwy ddweyd: "Dyna ddigon wedi ei siarad," ac yna gosodai ei olygiadau eu hun ar y mater gerbron, yn gryno ac yn oleu, a bron yn ddieithriad dilynid ei gyfarwyddid. Fel arweinydd, unai benderfyniad meddwl, a hynawsedd yspryd nodedig. Y mae yn dra sicr ei fod yn anghydweled a golygiadau Peter Williams; nis gallasai lai yn ngwyneb y saflai a gymerasai mewn cysylltiad a daliadau Harris; ond yr oedd yn mhell o gydweled a'r ymosodiadau a wneyd ar yr hen esboniwr. Gwyddai Peter Williams hyny yn dda, a chyfeiria at ei dynerwch yn y farwnad a gyfansoddodd iddo:—

"O, mrawd Rowland, ni 'th anghofiaf,
Ti roddaist i mi lawer sen;
Ymhob tywydd, ymhob dirmyg,
Pwy ond ti orchuddiai 'mhen?"

Meddai gydymdeimlad mawr a dynion ieuainc, a llygad crâff i'w hadnabod. Ni theimlai ddim tebyg i eiddigedd pan fyddai pregethwr ieuanc poblogaidd yn codi. Yr oedd Griffiths, Nevern, o ddoniau dysglaer; wedi gwrando arno yn pregethu y tro cyntaf, aeth Rowland ato, a'i lygaid yn tywynu gan lawenydd, gan ddweyd: "Fy mab anwyl! Yr wyt wedi taro ar yr wthïen; gwthïen euraidd y weinidogaeth; gofala gadw arni, a rhoddi yr holl glod i Dduw." Dywedir ei fod yn petruso ar y dechreu gyda golwg ar ganiatau rhyddid y pwlpud i Roberts, Clynog. Anhawdd gwybod yn bresenol y rheswm am hyny. Ond pan ddaeth Roberts y tro cyntaf i Langeitho, aeth Rowland yn llechwraidd i'r capel, gan gadw ei hun yn nghudd allan o olwg. Boddhawyd ef yn fawr yn noniau dysglaer y seraph tanllyd o'r Gogledd. Ar y diwedd, aeth ato yn llawn sirioldeb, gan ei longyfarch ar yr odfa lewyrchus oedd wedi gael; ac wedi peth ymddiddan, dywedai: "A wnewch chwi dderbyn gair o gyngor oddiwrth hen ŵr penwyn?" "Gwnaf, gyda y parodrwydd mwyaf," oedd yr ateb. Meddai yntau, "Gwyddoch fod gan y siopwyr dyllau bychain yn eu *counters* yn y rhai rhoddant yr oll y maent yn dderbyn; beth bynag a gânt, bydded aur, arian, neu brês, gosodant yr oll yn y tyllau hyn. Anwyl frawd, gwnewch chwithau yr un fath; beth bynag a dderbyniwch, rhoddwch ef yn y drysorfa. Peidiwch pocedu cymaint a ffyrling o arian y Meistr." Yr oedd ei allu i adnabod dynion ieuainc, ac i gydymdeimlo a hwy yn eu huchelgais, yn gymhwysder dirfawr iddo at fod yn arweinydd.

Er ei holl boblogrwydd a'r parch a delid iddo, cadwodd Duw ef rhag ymchwyddo; yn nghanol yr oll yr oedd ei galon yn wir ostyngedig. Adroddir amryw hanesion fel prawf o hyn. Trafaelai ar ei draed yn bur fynych; a phan wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn cymydogaeth, anfonodd gwraig dda, a breswyliai mewn ffermdy o'r enw Bryn-y-brain, ei gwas gyda cheffyl i'w gyfarfod. Rywsut camgymerodd y gwas y ffordd, neu daeth y pregethwr o gyfeiriad nad oeddid yn ei ddisgwyl, a chyrhaeddodd Rowland y lle ar ei draed, ac yn flin. Gofidiai y wraig yn dddirfawr, a mynegai ei siomiant drosodd a throsodd. Atebai yntau: "Nel fach, ni feddyliais fy hun yn deilwng i neb ddod i'm cyfarfod, naddo gymaint a chan llath, erioed." Adroddir ddarfod i wraig weddw, o'r enw Mrs. Griffiths, Glanyrafonddu, oblegyd ei serch ato, a'r mawr lles a dderbyniasai trwy ei weinidogaeth, adael cerbyd iddo yn ei hewyllys. Yn hwn y teithiau yntau y rhan olaf o'i oes. Mewn pentref neillduol, lle yr arferai bregethu, ni wnai neb ei dderbyn i dŷ ond hen wreigan dlawd. Pan welodd hon y pregethwr yn dyfod yn ei gerbyd i'r pentref am y tro cyntaf, dechreuodd ymofidio, a theimlo nad oedd ei thŷ na'i gwely gwael hi yn deilwng o'r fath ŵr. Dywedai hyny yn ei glyw. Ond ei ateb ef ydoedd: "Taw sôn, da thi; yr wyf yn gweled dy fod di mewn mwy perygl o gael niwed oddiwrth fy ngherbyd i, nag wyf fi o gael fy niweidio gan dy dŷ a'th wely di."

Byddai yn anesgusodol ynom i basio heibio yn ddisylw y llyfrau a briodolir i Daniel Rowland, naill a'i fel Awdwr neu Gyfieithydd. Yn 1739, cyhoeddodd ei bregeth gyntaf, a elwir "Llaeth Ysprydol: o gasgliad Eglwyswr." Y mae yn sylfaenedig ar 1 Petr ii. 2. Yn fuan wedi sefydlu y seiadau profiad, sef yn y flwyddyn 1742, cyhoeddodd, mewn undeb ag eraill, lyfr yn dwyn y teitl a ganlyn: "Sail, Dibenion, a Rheolau y Cymdeithasau, neu y Cyfarfodydd Neillduol, a ddechreuasant ymgynull yn ddiweddar yn Nghymru. At y rhai y

chwanegwyd rhai hymnau i'w canu yn y cyfarfodydd. Gan wŷr o Eglwys Loegr." Nid oes enw neb ar y wyneb ddalen, ond ceir enw Howell Harris wrth yr hymn gyntaf, enw Morgan Jones wrth yr ail, eiddo Daniel Rowland wrth y drydedd, ac eiddo Herbert Jenkins wrth y bedwaredd. Tybir mai Rowland oedd a'r llaw bwysicaf yn nghyfansoddiad y llyfr. Y flwyddyn ganlynol, 1743, cyhoeddodd gyfieithad o draethawd Ralph Erskine, ar "Farw i'r Ddeddf, a byw i Dduw, at ba un y chwanegwyd chwech o Hymnau buddiol ar amryw ystyriaethau. O waith y Parchedig Daniel Rowland." Cawn ef y flwyddyn nesaf, 1744, yn cyhoeddi "Hymnau Duwiol, i'w canu mewn Cymdeithasau crefyddol. A gyfansoddwyd gan mwyaf gan y Parchedig Daniel Rowland, Gweinidog o Eglwys Loegr." Y mae y wyneb ddalen yn gyfeiliornus; allan o 72 tudalen nid oes ond 25 yn perthyn iddo ef. Y mae yn ddyddorol sylwi mai yr un flwyddyn y cyhoeddodd Williams, Pantycelyn, y rhan gyntaf o'i "Aleluwia." Yr achlysur nesaf iddo ddyfod allan trwy y wasg, oedd er gwneyd yn hysbys ei olygiadau ar y pwnc mewn dadl rhyngddo ef a Harris. Gelwir y llyfr: "Ymddiddan rhwng Methodist Uniawn-gred ac un Camsyniol. Yr ail argraffiad, 1750.' Ni wyddis pa bryd y bu yr argraffiad cyntaf. Dygwyd allan drydydd argraffiad o Gaerfyrddin, 1792. Yn 1759, cyfieithodd "Aceldama, neu Faes y Gwaed." Traethawd yw hwn yn dangos echryslonrwydd rhyfel. Hysbysir ei fod ar werth gan Peter Williams. Pregeth a gyhoeddodd nesaf, sef: "Llais y Durtur. Gwahoddiad grasol Crist ar bechaduriaid. Neu bregeth a bregethwyd yn Llanddewi, Tach. 1, 1761. Ar Datguddiad iii. 20. 'Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo,' &c. Gan y Parchedig Mr. Daniel Rowland, Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho, 1762." Yn ol Mr. Morris Davies, cyhoeddwr a golygydd yr argraffiadau cyntaf o bregethau Rowland, oedd un Thomas Davies, gerllaw Hwlffordd, Sir Benfro. Tybia fod Mr. Davies yn un o'r cynghorwyr a lafurient gyda'r Methodistiaid, a'i fod, fel cyhoeddwr llyfrau, yn ŵr ymdrechgar, bywiog, a gofalus. Ymddengys nad oedd yr awdwr yn derbyn dim elw oddiwrth werthiant ei bregethau; rhoddasai y copïau o honynt i'r cyhoeddwr, ac y mae yntau ar ddiwedd y rhestr o dderbynwyr yn diolch yn gyhoeddus iddo am danynt. Dywed fod y brys i'w dwyn allan gymaint, fel na chafodd yr awdwr, yn nghanol ei lafurwaith, amser i'w darllen wedi eu hysgrifenu, cyn rhoddi'r copïau o'i law i'w hargraffu. Blwyddyn nodedig yn ei hanes oedd y nesaf, 1763; dyma y pryd y trowyd ef allan o'r Eglwys Sefydledig; a chawn ef yn cyhoeddi "Pymtheg Araeth, ar Amryw Destunau." O flaen y rhai hyn y mae rhagymadrodd gan Peter Williams. Tybir mai efe a gyfieithodd "Canmi yn y Coelbren," o waith Thomas Boston, a ddaeth allan yn 1769. Yn y flwyddyn 1772, cyhoeddwyd tair pregeth o'i eiddo; ac o fewn corff yr un flwyddyn, bum' pregeth arall, at ba rai y chwanegwyd amryw hymnau. Yr ydym yn ei gael yn 1774, yn cyhoeddi cyfieithad o "Ryfel Ysprydol" John Bunyan, gyda rhagymadrodd byr, eithr nodedig o ddyddorol, ganddo ef ei hun. Yn y flwyddyn hon hefyd, cyhoeddodd Thomas Davies "Wyth Bregeth" Saesneg o'i waith, a dywedir ar y wyneb ddalen eu bod wedi cael eu pregethu ar bynciau ymarferol yn yr "Eglwys Newydd, yn Llangeitho." Wrth yr "Eglwys Newydd" y golygir y capel a adeiladesid i Rowland wedi iddo gael ei droi allan. Cyfieithwyd y rhai hyn gan y Parch. John Davies, Rheithor Sharnecote, swydd Wilts. Cafodd tair pregeth Saesneg arall, o gyfieithad yr un gŵr, eu dwyn allan y flwyddyn ganlynol. Yn 1776, cyhoeddwyd "Ychydig Hymnau yn ychwaneg, gan y Parchedig D. Rowland." Y cyfansoddiad olaf o'i eiddo a ddaeth allan trwy y wasg oedd: "Llwyddiant wrth Orsedd Gras: Pregeth ar Judas, 20, a bregethwyd yn Nghapel Llangeitho, 1782." Pan feddylir amledd ei deithiau, a maint ei lafur gyda gweinidogaeth yr efengyl, y mae yn syn iddo allu ysgrifenu cymaint. Ar y cyfan, y mae ei Gymraeg yn bur a chref, a'i holl ddullwedd yn eglur a chryno.

Er ardderchoced pregethwr oedd Daniel Rowland, ac er godidoced y gwaith a gyflawnwyd trwyddo, ni chafodd ddianc, hyd yn nod gwedi ei farw, heb gael ei gyhuddo o feiau a cholliadau. Dywed Dr. Rees, yn ei *History of Nonconformity in Wales*, ei fod yn mhell o fod yn ddifai fel pregethwr, * ac awgryma, ar dystiolaeth gweinidog Annibynol cymharol ddinôd, ei fod yn wan o ran mater, ac yn crwydro yn fynych oddiwrth ei destun; ond fod rhyw gymaint o effeithiolrwydd yn perthyn iddo. Byddai yn anhawdd cael gwell engrhaifft

---

* Tudal. 368.

o'r hyn a eilw y Saeson, "*damning with faint praise.*" Meddai Dr. Rees: "Dywedai Harris a'r clerigwyr"—a diau y cynwysa y "clerigwyr" Daniel Rowland—"lawer o bethau yn eu pregethau difyfyr, a dramgwyddent chwaeth ddiwylliedig yr Ymneillduwyr, ac a roddai i'r digrefydd o bob dosparth destunau i gellwair halogedig." Sicr yw y defnyddiai Rowland, pan yr oedd ei holl natur yn berwi gan gyffro, a'r gynulleidfa wedi cael ei chodi i hwyl, ymadroddion cryfion; ac yr oedd yn hollol gyfreithlon iddo wneyd hyny; cyfiawnhäi yr amgylchiad y cyfryw eiriau; ond yr oedd gwaith rhai Ymneillduwyr—os bu y cyfryw—yn tramgwyddo wrth ymadroddion o'r fath yn brawf, nid o ddiffyg chwaeth yn Rowland, ond o gulni eu hysprydoedd a mursendod eu clustiau hwy eu hunain. Syniad unfrydol y rhai a glywsant yr Efengylydd o Langeitho, ac a feddent gymhwysder i farnu, oedd ei fod yn ardderchog mewn mater ac ardull. Meddai Christmas Evans: "Byddai wynebpryd, agweddiad, a llais Rowland yn cyfnewid yn fawr yn y pwlpud, yn ol fel y byddai ei deimladau; ond nid oedd dim yn isel ac yn annymunol ynddo; eithr oll yn weddaidd ac urddasol odiaeth." Dyna dystiolaeth Ymneillduwr, ac un o gedyrn y pwlpud Cymreig. Cymerer eto dystiolaeth Charles o'r Bala, gŵr o'r chwaeth buraf. * "Yr oedd," meddai, "urddas ac ardderchawgrwydd, yn gystal a phob rhagoriaeth arall, yn noniau gweinidogaethol Rowland; meddyliau dyfnion a gogoneddus, llais nerthol a melus, ac eglurder a bywiogrwydd wrth arddangos dyfnion bethau Duw, er syndod, deffroad, a budd ei wrandawyr lliosog." I bob dyn diragfarn y mae y tystiolaethau hyn yn ddigonol brofion o burdeb chwaeth ac ardderchawgrwydd mater Daniel Rowland.

Cafodd ei gyhuddo hefyd o gulni yspryd at yr Ymneillduwyr, ac o ymlyniad dall wrth yr Eglwys Sefydledig. Profa ei holl hanes yn amgen. Ni anghofiodd drwy ei oes ei ddyled i Mr. Pugh, gweinidog Ymneillduol Llwynpiod. Y mae yn bur sicr fod ymlyniad Howell Harris wrth yr Eglwys yn llawer cryfach nag eiddo Rowland. Ar anogaeth bendant Rowland, fel y cawn ddangos eto, y darfu i amryw eglwysi yn Morganwg a Mynwy, oeddynt yn perthyn i'r Methodistiaid, ordeinio gweinidogion iddynt eu hunain, yn ol trefn yr Ymneillduwyr. Awyddai Thomas Gray, olynydd Mr. Pugh yn Llwynpiod, am ymuno a'r Methodistiaid, yn benaf, o herwydd ei fawr serch at Rowland. "Gwell i chwi," meddai yntau wrtho, "barhau i weithio yr ochr yna i'r mynydd, âf finau yn mlaen yr ochr yma; efallai y cyfarfyddwn mewn amser, pan yn cloddio dan deyrnas Satan." Yr oedd, fel y mae yn amlwg, yn rhyddfrydig ei galon at Ymneillduwyr ac Eglwyswyr, ac yn hollol amddifad o yspryd proselytio.

Ond y cyhuddiad mwyaf enllibaidd yn erbyn Daniel Rowland, oedd yr un a ymddangosodd yn y *Quarterly Review*, Medi, 1849, agos i driugain mlynedd gwedi ei farw. Yn yr ysgrif hono, a gyfansoddwyd gan Ficer Meifod, haerid ei fod yn euog o yfed i ormodedd, y teimlid anhawsder weithiau i gelu yr effeithiau, pan y byddai ar fedr pregethu; ac mai yn ngrym cynhyrfiad diodydd cryfion y byddai yn traddodi ei bregethau gyda'r fath nerth ac awdurdod. Seilid y cyhuddiad gwaradwyddus hwn ar dystiolaeth cuwrad meddw a digymeriad, o'r enw W. Williams, yr hwn oedd yn fab i Siôn y Sgubor, hen wâs Rowland; ac yr oedd y cuwrad yma yn gyfryw fel na dderbyniasid ei dystiolaeth fel prawf o unrhyw beth, heblaw achwyniad ar Anghydffurfiwr. Yn ffodus, gwnaed yr ymosodiad ar ei gymeriad yn ddigon cynar i'w droi yn ol yn effeithiol, ac i beri i'r gwarth syrthio ar y rhai a'i gwnaeth. Cymerodd y Parch. John Griffiths, Rheithor Aberdâr ar y pryd, Rheithor Merthyr gwedi hyny, ran flaenllaw mewn clirio y mater i fynu. Trwy gymorth Mr. David Jones, yr hen flaenor duwiol o Dolau-bach, casglodd dystiolaeth yr hen bobl oeddynt yn cofio Rowland yn dda, yn mysg pa rai yr oedd un 84 mlwydd oed, ac wedi bod am saith mlynedd yn ei wasanaeth; datganent un ac oll nad oedd rhith o sail i'r cyhuddiad, ond ei fod yn enllib o'r fath fwyaf maleisus. Dywedai y Parch. T. Edwardes, Rheithor Llangeitho, a'r hwn a adwaenem yn dda, ei fod dros driugain mlwydd oed, na fu erioed yn byw allan o'r plwyf, fod cymunwyr amryw wedi bod ganddo a fuasai yn cymuno gyda Daniel Rowland; fod yn eu mysg un hen ŵr a fuasai farw yn bedwar ugain ac wyth mlwydd oed, a'u bod oll yn tystio, nid yn unig nad oedd y Diwygiwr yn yfed i ormodedd, ond ei fod yn un tra chymedrol. Casglodd y Rheithor Griffiths hefyd dystiolaethau gwyr eglwysig o gryn

* *Trysorfa Ysprydol.*

enwogrwydd, oeddynt wedi cael ei dwyn i fynu yn nghymydogaeth Llangeitho, yn datgan na chlywsent air am y cyhuddiadau yn erbyn Rowland, nes iddynt ymddangos yn y *Quarterly Review*. Yn mysg y rhai hyn, ceir Canon Jones, Tredegar; Canon Jenkins, Dowlais; a'r Parch. D. Parry, Llywel. Teimlwn ein bod tan ddyled ddifesur i'r diweddar Reithor Griffiths am y boen a gymerodd i glirio cymeriad gŵr Duw. Nid yn unig nid oedd Rowland yn euog o anghymedroldeb ei hun, ond medrai gondemnio yn ddifloesgni y cyfryw ffaeledd mewn eraill. Yr oedd offeiriad yn nghymydogaeth Llangeitho unwaith yn awyddus am gael ei anfon fel cenhadwr i le penodol, ond nid oedd Rowland yn credu yn mhurdeb ei fuchedd. Trôdd ato, a dywedodd: "Yr wyf yn cofio amser, Syr, pan nad oedd i ni ond derbyniad a bywioliaeth go wael, wrth deithio dros fryniau a mynyddoedd ar ein merlod, heb ddim ond bara a chaws yn ein pocedau, na dim i'w yfed ond dwfr o'r ffynhonau; ac os caem lymaid o laeth enwyn yn rhai o'r bythynod, cyfrifem hyny yn beth mawr. Ond yn awr, Syr, y mae ganddynt eu tê, a'u brandi, ac os nad wyf yn camsynied, yr ydych chwi wedi cael gormod o'r brandi hwn." Rhaid fod yr hwn a fedrai lefaru mor gryf a difloesgni ar bwnc o'r fath o fuchedd ddiargyhoedd ei hunan.

Ond dyddiau Rowland a nesasant i farw. Gwanychasai ei iechyd yn ddirfawr yn ystod y flwyddyn olaf o'i fywyd, eithr yr oedd yn parhau i bregethu yn Llangeitho. Dydd Gwener, Hydref 15, 1790, cymerwyd ef yn glâf, a thranoeth gorphwysodd mewn tangnefedd, ac efe yn 77 mlwydd oed. Cyrchasai miloedd y Sadwrn hwnw i Langeitho ar gyfer y cyfarfod paratoad; disgwylid Rowland yno i'w cynghori fel arfer; eithr ar ganol y gwasanaeth, cyrhaeddodd y newydd ei fod ef wedi marw, a chyffrodd hyny y fath deimladau o alar fel y methwyd myned yn mlaen a'r cyfarfod. Claddwyd ef yn mynwent Llangeitho, wrth ffenestr ddwyreiniol yr eglwys. Ac yn ddiweddar cyfodwyd cofadail ardderchog iddo, ger capel Gwynfil, y fan a wnaed yn gysegredig ganddo i galon pawb a garant yr Arglwydd Iesu. Nis gallwn wrthsefyll y brofedigaeth o ddifynu rhanau o'r farwnad ardderchog a ganwyd iddo gan ei hen gyfaill, Williams, Pantycelyn:—

"Nid rhaid canu dim am dano,
  Nid rhaid *marble* ar ei fedd;
Ofer tynu dim o'i bictiwr
  Ar bapyryn sâl ei wedd;
Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,
  Rhodd ei *farble* yn ei le,
'Fe 'sgrifenodd arno 'i enw
  A llyth'renau pur y ne'.

Boanerges oedd ei enw,
  Mab y daran danllyd, gref,
Sydd yn siglo yn ddychrynllyd
  Holl golofnau dae'r a nef;
'De'wch, dihunwch, oedd yr adsain,
  Y mae 'n dinas ni ar dân;
Ffowch oddi yma mewu mynydyn,
  Ynte ewch yn ulw mân.'

Yn Llangeitho fe ddechreuodd
  Waeddi dystryw 'r anwir fyd,
Miloedd ffodd o'r Dê a'r Gogledd,
  Yn un dyrfa yno ynghyd;
Arswyd, syndod, dychryn ddaliodd
  Yr holl werin, fawr a mân,
Nid oedd gwedd wynebpryd un-gwr,
  Fel y gwelwyd ef o'r blaen.

Gliniau 'u crynu gan y daran,
  Fel pe buasai angeu 'i hun,
Wedi cym'ryd llawn berch'nogaeth
  Ar y dyrfa bob yr un;
'Beth a wnawn am safio 'n heuaid?'
  Oedd yr unrhyw gydsain lêf;
Chwi sy' am wybod hanes Dauiel,
  Dyma fel dechreuodd ef.

Pump o siroedd penaf Cymru
  Glywodd y taranau mawr,
A chwympasant gan y dychryn,
  Megys celaneddau i lawr;
Clwyfau gaed, a chlwyfau dyfnion,
  Ac fe fethwyd cael iachad,
Nes cael eli o Galfaria,
  Dwyfol ddwr a dwyfol waed.

Deuwch drosodd i Laugeitho,
  Gwelwch yno ôl ei law,
Miloedd meithion yno 'n disgwyl,
  Llu oddiyma, llu o draw;
A'r holl dorf yn 'mofyn ymborth,
  Amryw 'n d'weyd, 'Pa fodd y cawn?'
Pawb yn ffrostio wrth fyn'd adref,
  Iddo gael ei wneyd yn llawn.

Gwelwch Daniel yn pregethu
  Yn y tarth, y mwg, a'r tân,
Mil ar unwaith yn molianu,
  Haleluwia yw y gân;
Nes bai torf o rai annuwiol
  Mewn rhyw syndod dwfn, a mud,
Ac yn methu rhoi eu meddwl
  Ar un peth, ond diwedd byd.

Bywiol oedd ei athrawiaethau,
  Melus fel yr hyfryd win,
Pawb a'u clywai a chwenychai
  Brofi peth o'u uefol rin;
Pur ddyferion bythol fywyd,
  Ag a roddai iawn iachâd,
I rai glwyfodd cyfraith Sinai,
  Ac a ddrylliodd dan ei thraed.

Crist ei hunan ar Galfaria
  Yn clirio holl hen lyfrau 'r uef,
Ac yn talu 'n llwyr bob hatling
  O'r holl ddyled ganddo ef;
Mae 'r gwrandawyr oll yn llawen,
  Oll yn hyfryd, oll yn llawn,
Wedi bwyta 'r bara nefol,
  O lâs foreu hyd brydnhawn."

HANES Y DARLUNIAU.—Cymerwyd dau ddarlun o'r Parch. Daniel Rowland ar wahanol amserau ar ei fywyd. Ymddangosodd y cyntaf mewn cyhoeddiad misol o'r enw, *The Gospel Magazine*, am fis Gorphenaf, 1778. Yr un pryd, nid yw yn debyg mai ar gyfer y misolyn hwnw y gwnaed ef, oblegyd dengys Rowland yn nghauol ei ddyddiau, neu yn gynarach na hyny, ac nid yn hen ŵr, 66 mlwydd oed, fel yr oedd yn 1778. Yn mhen mis ar ol marwolaeth y Diwygiwr enwog y cyhoeddwyd y llall. Gwnaed ef gan "*Mr. R. Bowyer, Miniature Painter to His Majesty*," Berners Street, Cornhill, Llundain. Darlun i'w fframio ydoedd hwn, ac nid un i'w osod mewn llyfr. Mewn ysgrif argraffedig o dan y darlun hwn, cyflwyna yr awdwr ef i'r Anrhydeddusaf Iarlles Huntington. Yr oeddid wedi colli golwg yn llwyr ar y darlun cyntaf, nes i Mr. Daniel Davies, Ton, Rhondda, ei ddarganfod yn Llyfrgell yr Amgueddfa Frutanaidd (*British Museum*), Llundain.

Adeiladwyd cofgolofn iddo yn yml Capel Llangeitho yn y flwyddyn 1883. Costiodd hon lawn £700. Cafwyd yr arian drwy i'r Parch. Thomas Levi, Aberystwyth, anturio gwneyd apêl at blant y "Drysorfa" am arian i'w chodi. Mewn atebiad i'r apêl hwn, dylifodd arian i mewn o fis i fis, am ysbaid chwech neu saith mlynedd, pa rai a gydnabyddid ar glawr "Trysorfa y Plant," ac a osodid yn y banc. Yr arian hyn, gyda'r llôg, a dalodd am dani. Y cerfiwr oedd Mr. Edward Griffith, Caerlleon, Cymro o waed, ac o yspryd; a chyflawnodd ei waith yn ardderchog. Tybia llawer ei fod y cerflun goreu o'i fath yn Nghymru. Da genym eiu bod yn alluog i roddi copi o'r cerflun ar raddfa eang yn nwylaw ein darllenwyr. Gwnaed ef oddiar ddarlun sydd yn meddiant y Parch. T. Levi.

Adeiladwyd y gofgolofn yn y flwyddyn 1883, ac ar y 6ed a'r 7fed o Fedi, yn y flwyddyn hono, cynhaliwyd cyfarfod i'w dadorchuddio hi. Dyma drefn y cyfarfodydd. Ar nos Iau, y 6ed, pregethodd y Parchn. Joseph Thomas, Carno, a Dr. Lewis Edwards, Bala. Boreu Gwener, pregethwyd yn y capel gan y Parch. Joseph Thomas, ac yna yn yr ysgwâr wrth ochr y capel, gan y Parch. Dr. Owen Thomas. Am un o'r gloch yr oedd y dadorchuddiad, pan yr oedd dwy neu dair mil o bobl, o leiaf, wedi dyfod ynghyd, a llawer o honynt wedi dyfod yno o bellder ffordd. Dechreuodd y Parch. J. A. Morris (Bedyddiwr), Aberystwyth, trwy weddi. Llywyddwyd gan y Parch. T. Levi, fel Cadeirydd y Gymanfa Gyffredinol. Dr. Lewis Edwards, gwedi araeth alluog, a ddadorchuddiodd y golofn yn nghanol cymeradwyaeth yr holl gynulleidfa. Areithiwyd yn ganlynol gan y Parchn. Dr. Owen Thomas, Joseph Thomas, a T. Charles Edwards, o Goleg Aberystwyth, sef Prifathraw presenol Athrofa y Bala. Diolchwyd yn wresog i'r Parch. T. Levi am ei ymdrech lwyddianus tuag at gael y gofgolofn, ac am ei wasanaeth fel llywydd, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. Griffith Parry.

Gyda'r eithriad o'r darlun o'r tufewn i hen Eglwys Llangeitho, a geir ar tudalen 45, y mae yr oll o'r darluniau sydd yn addurno y benod hon yn dangos pethau fel y maent yn bresenol. Y mae amaethdy Pantybendy, yr Eglwys, a'r Capel, wedi myned drwy gyfnewidiadau a gwelliantau mawrion. Hyd y gwyddis, nid oes darluniau o'r hen adeiladau ar gael.

# PENOD V

——:o:——

## HOWELL HARRIS.

*Ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu—Ei argyhoeddiad yn eglwys Talgarth—Cael dyddanwch yn Nghrist—Dechreu cynal addoliad teuluaidd a chynghori—Yn myned i Rydychain—Yn gadael Rhydychain—Myned o gwmpas i rybuddio yr annuwiol—Gwrthwynebiad yr offeiriaid a'r boneddwyr—Cael ei erlid—Sefydlu seiadau—Myned i lefaru i Sir Faesyfed—Argyhoeddiad Mr. Gwynn—Harris yn myned ar daith i Sir Fynwy—Yn ymweled a Sir Forganwg y tro cyntaf—Rhanau o'i ddydd-lyfr—Cyfarfod a Whitefield yn Nghaerdydd—Myned i Lundain—Myned y tro cyntaf i'r Gogledd, mor bell a'r Bala—Dalenau ychwanegol o'i ddydd-lyfr—Myned i Sir Benfro—Sessiwn Trefynwy—Ail daith i'r Gogledd—Ei erlid yn y Bala—Myned i Sir Gaernarfon—Yn teithio ac yn gweithio yn ddidor.*

NID oes unrhyw dywyllwch yn gorchuddio hanes Howell Harris, oblegyd, yn wahanol i'r oll o'r Tadau Methodistaidd eraill, gadawodd Hunan-gofiant ar ei ol; yr hwn gofiant a gynwysa, nid yn unig ffeithiau ei fywyd, ond ei deimladau a'i brofiad yn ogystal. Cafodd yr Hunan-gofiant ei olygu, a'i gyhoeddi, gydag ychwanegiad, gwedi ei farw, gan "y rhai oeddynt o'r dechreuad yn gweled." Y rhai hyn oedd "teulu" Trefecca, y bu yn myned i mewn ac allan yn eu mysg, ac yn llywodraethu arnynt am yr yspaid o dair blynedd ar hugain. Yn ychwanegol, cadwai ddydd-lyfr, yn mha un y croniclai yn fanwl bob nos holl helynt y diwrnod blaenorol, yn arbenig ystâd ei feddwl, a'r temtasiynau tumewnol a pha rai y buasai yn brwydro. Yr oedd hefyd yn ysgrifenydd llythyrau lawer, o ba rai y mae swm dirfawr ar gael hyd y dydd hwn. Rhwng ysgrifeniadau Harris ei hun, a thystiolaeth y "teulu" a gasglodd o'i gwmpas, y rhai oeddynt yn gydnabyddus a'i holl symudiadau, ac yn gwybod ei amcanion, y mae y goleuni dysgleiriaf sydd yn bosibl wedi cael ei daflu ar ei gymeriad ac ar ei waith. Nis geill neb wadu ei fod yn ddyn arbenig. Ymddengys fel Elias y prophwyd, yn wrol ei wedd, a gair Duw yn llosgi fel tân yn ei yspryd, ac yn taranu gyda holl angerddoldeb ei natur yn erbyn drygioni y genhedlaeth drofaus y cawsai ei anfon yn genad ati.

Yr oedd teulu Howell Harris yn hanu o Sir Gaerfyrddin, o gymydogaeth Llandilo Fawr, nid yn nepell o'r fangre lle y preswyliai henafiaid y Parch. Henry a William Rees; a symudasant i Frycheiniog tua'r flwyddyn 1700. Perchenogai ei rieni, Howell a Susanna Harris, y tyddyn y darfu




COPI O'R DARLUN GWREIDDIOL.

iddynt symud iddo, sef Trefecca Fach; ar yr hwn y saif Coleg y Methodistiaid, perthynol i'r Deheudir, yn bresenol. Ond nid oeddynt mewn un modd yn gyfoethog. Ni fedrai y tad roddi i'w blant well addysg na'r hyn a dderbyniai plant ffermwyr yn gyffredin. Cafodd Howell Harris ei eni yn y flwyddyn 1714, ac felly yr oedd flwydd yn ieuangach nai gyfaill a'i gyd-ddiwygiwr Daniel Rowland, a thair blwydd yn hyn na'i fab yn yr efengyl, sef Williams, Pantycelyn. Efe oedd yr ieuangaf o dri brawd, ac y mae yn anhawdd meddwl am frodyr a mwy o wahaniaeth rhyngddynt, a phob un er hyny wedi ymddyrchafu i enwogrwydd yn yr alwedigaeth a pha un yr ymgymerodd. Trwy ymdrech a dyfal bara, ymddyrchafodd Joseph, y brawd hynaf, o fod yn ôf y pentref i sefyllfa o gyfrifoldeb mawr yn y bathdy brenhinol. Arno ef y gorphwysai y cyfrifoldeb o weled fod yr argraff ar yr arian yn ddinam, a bod pob darn yn gyflawn o bwysau. Trwy ei gyrhaeddiadau gwyddonol, daeth yn adnabyddus i rai o brif ddysgedigion ei oes. Cyfansoddodd amryw draethodau seryddol a meintonol; ond wrth un yn unig y gosododd ei enw, sef traethawd ar dremofyddiaeth *(optics)*, yr hwn a gyhoeddwyd ryw ddeng mlynedd gwedi ei farw. Llwyddasai i gasglu cryn gyfoeth, a chawn ef yn priodi merch i Thomas Jones, Tredwstan, hen gymydog i'w dad. Bu farw yn y Twr yn Llundain, ryw naw mlynedd o flaen ei frawd Howell.

Darfu i Thomas, yr ail frawd, ymsefydlu fel dilledydd yn Llundain, a thrwy ddylanwad rhywrai mewn safle uchel, cafodd ei benodi i gyflenwi y milwyr yn y fyddyn a dillad milwrol. Llwyddodd i gasglu cyfoeth dirfawr, a chwedi ymneillduo oddiwrth ei fasnach, prynodd etifeddiaeth Tregwnter, yn gyfagos i Drefecca. Ymddengys iddo wasanaethu fel Uchel Sirydd Brycheiniog yn y flwyddyn 1768. Bu farw yn y flwyddyn 1782. Ychydig o gydymdeimlad oedd rhwng Joseph a Thomas a Methodistiaeth eu brawd. Ceir amryw o lythyrau o eiddo Howell at eu frodyr, pan oeddynt yn Llundain, yn y rhai y rhybuddia hwy yn ddwys rhag cael ei llyncu i fynu yn ormodol gan awydd am gyfoeth a phleserau y bywyd hwn. Y mae un llythyr o leiaf yn Nhrefecca, yn llawysgrif Joseph Harris, wedi ei anfon at Howell ei frawd, yn yr hwn y cwyna arno ei fod mor ffol ag ymgladdu mewn dinodedd yn mysg y Methodistiaid, tra y gallasai, ond cymeryd cyfeiriad gwahanol, gyrhaedd enwogrwydd, anrhydedd, a chyfoeth, a'i gwnelai yn gyd-stâd ag uchelwyr penaf ei wlad. Mor ddall oedd y brodyr? Y mae enw Howell Harris yn dysgleirio heddyw, fel seren yn ffurfafen hanesiaeth; tra y buasai eu henwau hwy wedi myned ar ddifancoll, oni bai am eu cysylltiad perthynasol ag ef.

Ychydig o hanes bachgendod Howell sydd ar gael, ond ymddengys iddo gael ysgol dda, ac yr amcenid ei ddwyn i fynu ar gyfer y weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd cario allan y bwriad hwn yn dreth drom ar amgylchiadau y teulu. Cawn Joseph yn ysgrifenu, pan yr oedd ei frawd ieuangaf tua phymtheg mlwydd oed, yn dymuno cael ei esgusodi rhag estyn cynorthwy at hyn ar y tir fod ei arian yn brin, oblegyd ei fod newydd gyhoeddi llyfr, ond yn addaw gwneyd yr hyn a fedrai pan ddechreu y llyfr dalu. Dywed Howell yn ei Hunan-gofiant: "Cefais fy nghadw mewn ysgol gan fy rhieni hyd y ddeunawfed flwyddyn o'm hoed; erbyn hyn yr oeddwn wedi dyfod yn mlaen lawer mewn dysg—yna bu farw fy nhad." Rhaid fod yma ryw gymaint o gamsynied, oblegyd yn ol y dyddiad ar ei gareg fedd yn mynwent Talgarth, bu ei dad farw Mawrth 9, 1730, pan nad oedd Howell ond ychydig dros un mlwydd-ar-bymtheg. Yr oedd yr amgylchiad yn ergyd enbyd iddo; nid oedd ganddo unrhyw obaith bellach am ddringo i'r offeiriadaeth, a bu raid iddo fyned i gadw ysgol er cael defnydd cynhaliaeth. Awgryma fod ystyriaethau pwysig yn cael peth lle yn ei feddwl yn flaenorol i hyn; ond bellach nid oedd ganddo unrhyw gyfaill difrifol a'r hwn y gallai ymgynghori; aeth yr ymdeimlad a'i ryddid yn gymhelliad i lygredigaeth; a chariwyd ef i ffwrdd gyda ffrwd o wagedd y byd, balchder, a chwantau ieuenctyd. Gellir darllen gwagedd ei feddwl yn y rhês ganlynol o dreuliau, a gofnodir ganddo yn nechreu y flwyddyn 1732. Dywed ddarfod iddo wario arian am ddawnsio, ac am berwig, ellyn, menyg, chwip hela, ac amryw bethau di-lês o'r fath. Ynghanol ei ymroddiad i bleser, ni chaffai lonydd er hyny; yr oedd "rhyw reddf o argyhoeddiad" yn ymweled ag ef yn fynych; a chofnodai ei ffaeleddau ar bapyr, fel y byddent yn dystiolaeth yn ei erbyn. Dechreuodd ar y cyffesiadau hyn pan oedd tua dwy flwydd-ar-bymtheg oed, ac y maent ar glawr eto yn mysg ei ysgrifeniadau yn Nhrefecca. Dangosant nid yn unig fod ei gydwybod heb hollol galedu, ond hefyd ei

fod yn ysgolhaig pur wych, gan fod y llawysgrif yn rheolaidd, yr iaith yn ramadegol, gyda nifer mawr o dalfyriadau yn yr iaith Ladin.

Wedi bod yn cadw ysgol am tua dwy flynedd, dechreuodd y cymylau glirio oddiar ei amgylchiadau; daethai i gydnabyddiaeth a dynion o ddylanwad, y rhai a addawent ei gynorthwyo i ymbarotoi am urddau; ac yr oedd Joseph, ei frawd, erbyn hyn wedi dyfod yn alluog i wneyd rhywbeth erddo. "Tra yr oeddwn fel hyn," meddai, "ac amryw ragluniaethau yn cyd-weithio o'm tu i'r dyben o gael dyrchafiad yn y bywyd hwn, a'm holl lygredigaethau cnawdol inau yn cael maeth oddiar hyny, i gynyddu gryfach gryfach ynof yn feunyddiol, gwelodd yr Arglwydd yn dda ogoneddu ei ras ynof." Daeth amgylchiad i'w gyfarfod, a newidiodd holl gyfeiriad ei fywyd.

Y mae hanes troedigaeth Howell Harris yn haeddu cael ei adrodd yn fanwl. Y Sul o flaen y Pasg, sef Mawrth 30, 1735, ac efe yn un-ar-hugain mlwydd oed, aeth yn ol ei arfer i eglwys Talgarth. Cyhoeddai yr offeiriad, y Parch. Price Davies, y gweinyddid y cymun bendigaid yno y Sabbath dilynol, gan ddarllen y rhybudd sydd yn y Llyfr Gweddi Cyffredin pan fyddo y bobl yn esgeulus am ddyfod i'r ordinhad. Nid ymfoddlonai ar ddarllen yr hyn oedd ysgrifenedig; aeth yn ei flaen i brofi ei fod yn ddyledswydd ar bawb i ddyfod at fwrdd y cymun, ac i ateb gwrthddadleuon cyffredin y rhai a esgeulusant y ddyledswydd. "Os nad ydych yn gymhwys," meddai, "i ddyfod at fwrdd yr Arglwydd, nid ydych gymhwys ychwaith i ddyfod i'r eglwys; nid ydych yn gymhwys i fyw, nac yn gymhwys i farw." Effeithiodd y gadwen hon o ymresymiad ar feddwl y llanc ieuanc o Drefecca Fach; penderfynodd cyn codi oddiar ei eisteddle roddi heibio ei ddifyrwch cnawdol a'i bechodau cyhoedd, ac ymddangos yn mysg y cymunwyr y Sul dilynol. Fel parotoad i hyn, galwodd ar ei ffordd adref heibio i gymydog, a'r hwn yr oedd mewn ymrafael, gan gyffesu ei fai, a dymuno maddeuant, ac estyn maddeuant iddo yntau. Ond yr oedd yn enbyd o anwybodus am grefydd ysprydol; "yr oeddwn," meddai, "heb wybod dim am y wisg briodas, ac yn gwbl ddyeithr i grefydd dufewnol, a'm truenus gyflwr wrth natur." Penderfynodd, pa fodd bynag, geisio dilyn buchedd newydd; "er nas gwyddwn,' meddai, "pa fodd y dechreuwn, na pha beth i'w wneyd."

Y Sul canlynol y mae Harris yn yr eglwys mewn pryd, ac ar derfyn y gwasanaeth â yn ei flaen gyda'r lleill a fwriadent gymuno, gan syrthio ar ei ddeulin gerbron yr allor. Ond wrth gydadrodd a'r gweinidog y gyffes gyffredin: "Yr ym ni yn cydnabod ac yn ymofidio dros ein hamryw bechodau a'n hanwiredd, y rhai, o ddydd i ddydd, yn orthrymaf a wnaethom, ar feddwl, gair, a gweithred, yn erbyn dy Ddwyfol Fawredd, gan anog yn gyfiawnaf dy ddigofaint a'th lid i'n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn edifaru, ac yn ddrwg gan ein calonau dros ein cam-weithredoedd hyn. Eu coffa sydd drwm genym; eu baich sydd anoddefadwy," saethodd i'w feddwl nad oedd y geiriau yn wir yn eu perthynas ag ef; nad oedd y gradd lleiaf o alar yn ei galon oblegyd ei bechodau, nad oeddynt mewn un modd yn faich ar ei gydwybod, a'i fod yn myned at Fwrdd yr Arglwydd a chelwydd yn ei enau. "Y teimlad hwn," meddai, "ynghyd a golwg ar fawredd y wledd sanctaidd, a darawodd fy nghalon, fel y bum agos a chodi oddiar fy ngliniau, a sefyll yn ol, heb dderbyn y sacrament." Ond ceisiodd dawelu ei gydwybod, gan benderfynu dilyn buchedd newydd rhagllaw. Am ryw gymaint o amser gwedi hyny, ymdrecha fod yn ffyddlon i'w benderfyniad; ymrodda i weddi, a cheisia sefydlu ei fyfyrdodau ar Dduw. Ond yn mhen y pythefnos y mae yn cael ei fod wedi colli agos ei holl argyhoeddiadau. Eithr Ebrill 20, daeth llyfr i'w law a ailadnewyddodd y teimlad o euogrwydd o'i fewn. Yr un diwrnod daeth o hyd i lyfr arall, a gawsai ei ysgrifenu gan Bryan Duppa ar y gorchymynion. "Wrth ddarllen hwn," cofnoda, "cafodd fy argyhoeddiadau argraff ddyfnach arnaf; pa fwyaf a ddarllenwn, mwyaf oll o oleuni ysprydol oedd yn llewyrchu o'm mewn, i weled mawr feithder a manylrwydd cyfraith Duw, yn fy ngalw i gyfrif nid yn unig am bechodau gwaradwyddus oddi allan, eithr hefyd am ein rhodiad, amcanion, a dybenion, yn yr hyn oll a feddyliom, a ddywedom, neu a weithredom. Yna y gwelais yn eglur, os wrth y gyfraith hono y'm bernid, y darfyddai am danaf yn dragywydd."

Am ragor na mis bu yn ystorm enbyd arno, ei gydwybod yn rhuo fel arthes o'i fewn, ac yntau yn ceisio ei thawelu trwy ympryd, a gweddi, a chosbi ei gorff.

Teimlai ei fod wedi ei werthu dan bechod, ei fod yn gnawdol, ac nas gallai gredu, na galaru yn briodol am ei ddrygioni mwy nag y gallai ddringo i'r wybr. Yr oedd uffern wedi lledu ei safn i'w dderbyn, ac yntau heb adnabod llais yr Iachawdwr. Eithr ar weddi, teimlodd gymhelliad un diwrnod i roddi ei hun fel yr ydoedd i'r Arglwydd Iesu, gan adael y canlyniadau yn gyfangwbl iddo ef. Yn erbyn hyn, pa fodd bynag, gwingai yr yspryd deddfol oedd ynddo; teimlai, os rhoddai ei hun i'r Arglwydd, y collai ei ryddid, ac na fyddai byddem yn sicr o dderbyn maddeuant o'n holl bechodau. Ac yn wir felly y bu i mi; cefais brawf eglur trwy yr Yspryd Glân, fod Crist wedi marw drosof fi, a bod fy mhechodau i gyd wedi eu rhoddi arno ef; a'm bod yn awr yn rhydd oddiwrth frawdle cyfiawnder, ac yn fy nghydwybod.' Pan yn y wasgfa cawsai ei flino gan syniadau Atheistaidd, y rhai a wnaent ei fywyd yn faich iddo; "ond wrth weled fy Nuw ar y groes," meddai, "cefais ryddhad oddiwrth y profedigaethau hyny. Weithian yr oedd y byd hwn, a phob



EGLWYS TALGARTH, FEL YR YDOEDD YN AMSER HOWELL HARRIS.

yn eiddo iddo ei hun. Ond gwedi ymdrech galed, gwnaed ef yn ewyllysgar i roddi ffarwel i bob peth tymhorol, ac i ddewis Crist yn rhan dragywyddol. "Yr wyf yn credu," meddai, "ddarfod i mi gael fy ngalw y pryd hwnw yn effeithiol i fod yn ddilynwr i'r Oen." Nid oedd eto wedi cael cyflawn ryddhad. Aeth i'r cymundeb ar y Sulgwyn yn flinderog a thrwmlwythog dan euogrwydd ei bechodau. Eithr darllenasai mewn llyfr, "os byddai i ni fyned i'r sacrament, gan gredu yn syml yn yr Arglwydd Iesu Grist, y meddyliau am ddyrchafiad, a chlod dynol, wedi cwbl ddiflanu o'm golwg, a'r byd ysprydol a thragywyddoldeb yn dechreu ymddangos."

Dyma Harris yn ddyn newydd ac yn ddyn rhydd. Drylliwyd ei gadwynau yn chwilfriw, dihangodd yntau am byth gyda 'i Farnwr. Mewn canlyniad i hyn, llifodd tangnefedd fel yr afon i mewn i'w gydwybod; prin y cyffyrddai ei draed a'r ddaear wrth fyned adref; gallai ddawnsio a neidio, fel y cloff yn mhorth y deml gwedi ei iachau. Wrth fyned o'r eglwys, dywedai

wrth ei gymdeithion, gyda thôn orfoleddus: "Y mae fy mhechodau wedi eu maddeu!" Edrychai y rhai hyny yn hurt, heb ddeall ystyr ei eiriau, am nad oeddynt wedi bod yn y wasgfa; âi yntau yn mlaen at y fyntai nesaf, gan ddweyd yr un peth: "Y mae fy mhechodau wedi eu maddeu!" Yr oedd hyny yn gymaint peth yn ei olwg a phe y buasai wedi cael nefoedd. Ni chlywsai neb yn gwneyd cyffes o'r fath o'r blaen, ond yr oedd llawenydd ei fynwes yn gyfryw fel y mynai fwrlymu i'r golwg; a mawr chwenychai i'w gymydogion lawenychu gydag ef oblegyd y ddihangfa. O hyn allan, cawn ef yn cyson ddal cymdeithas a Duw, ac yn cael amlygiadau mynych o wedd ei wyneb. "Mehefin 18, 1735, pan oeddwn mewn gweddi ddirgel," ysgrifena,* "yn ddisymwth teimlais fy nghalon yn toddi ynof fel cwyr o flaen tân o gariad at Dduw fy Iachawdwr; teimlais hefyd nid yn unig gariad a heddwch, ond hefyd hiraeth am ymddatod a bod gyda Christ. Yr oedd llef yn nyfnder fy enaid, na wyddwn am dani o'r blaen, 'Abba Dad, Abba Dad.' Nis gallwn beidio a galw Duw, fy Nhad! Yr oeddwn yn gwybod mai ei blentyn ef oeddwn, a'i fod yn fy ngharu ac yn fy ngwrando. Cafodd fy enaid ei lenwi, a'i lwyr ddiwallu, nes y gwaeddwn, 'Digon! Digon!' Dyro i mi nerth, ac mi a'th ddilynaf trwy ddwr a thân!"

Y mae yn brofedigaeth i ni fyned yn y blaen i ddifynu, ond rhaid ymatal. Nid oedd allan o'r maglau eto, er hyny; bu mewn aml brofedigaeth gyda'r gelyn ar ol hyn. Cadwai yr ysgol yn y blaen, gan ddisgwyl galwad oddiwrth berthynas agos iddo i fyned i Rydychain; a ryw ddiwrnod collodd ei dymher o herwydd cam-ymddygiad un o'r plant. Ar hyn, dyma y gelyn yn rhuthro arno, gan haeru ei fod wedi syrthio oddiwrth ras, ac wedi fforffetio ei hawl yn Nghrist. Ond wedi bod mewn ing enaid am dymor, danfonodd Duw gysur iddo trwy Mal. iii. 6: "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Gwelodd nad ar ei ffyddlondeb ef y dibynai ei iachawdwriaeth, ond ar ffyddlondeb Crist, ei Waredwr. O hyn allan, byw i'r Iesu yw ei amcan. Ymneilldua oddiwrth ei hen gyfeillion difeddwl; penderfyna ymwrthod a phob dyrchafiad bydol; a gwertha yr oll oedd ganddo, gan eu rhoddi i'r tlodion. Yn mysg pethau eraill, teimla fod y dillad a wisgai yn flaenorol yn rhy wych i Gristion, ac yn cydymffurfio yn ormodol a ffasiwn y byd, ac felly ymâd a hwythau, gan gyfranu yr hyn a gawsai am danynt mewn elusen. Nid yw yn pryderu gyda golwg ar ei ddyfodol o gwbl; mentra ar addewid Duw.

Yn awr, y mae cyflwr ysprydol ei gyddynion yn dechreu gwasgu yn ddwys ar ei feddwl. Gwel eu bod yn teithio y ffordd lydan, ac nad oedd neb o ddifrif yn eu rhybuddio am eu perygl. Methai ymatal rhag siarad a hwy am bethau ysprydol; ond y canlyniad oedd fod rhai yn ei ddirmygu, ac eraill yn tosturio wrtho; ceisiai un dosparth ei ddychrynu, tra yr oedd dosparth arall yn ei gynghori. Edrychent arno fel penboethyn. "Nid oeddwn gymaint a meddwl y pryd hwnw," meddai, "y byddai i'r Arglwydd fy nefnyddio i er bendith i neb; canys nid oeddwn yn gweled y tebygolrwydd lleiaf o hyny, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb." Ond yr oedd gair yr Arglwydd yn llosgi fel tân o'i fewn, ac aeth yn ei flaen i gynghori pawb y deuai i gyffyrddiad a hwy. Am angeu, a'r farn, a thragywyddoldeb, y llefarai yn benaf, ynghyd a'r angenrheidrwydd am weddïo a derbyn y sacrament. Tywyll oedd ei syniadau; nid oedd ei ddirnadaeth o athrawiaethau yr efengyl ond cyfyng, ond ni chuddiai yr ychydig oleuni a feddai dan lestr. Cawn ef yn dechreu cynal addoliad teuluaidd yn nhy ei fam; a'r boreuau Suliau, cyn pryd eglwys, arferai amryw o'r cymydogion ddyfod i'w wrando yn darllen y llithoedd a'r Salmau. Meddai: "Nis gallwn orphwys na dydd na nos, heb wneuthur rhywbeth dros fy Nuw, a'm Hiachawdwr; ac nis gallwn, gyda boddlonrwydd, roddi hun i'm hamrantau os na byddwn wedi gwneyd rhyw wasanaeth er gogoniant iddo ef ar hyd y dydd. Yr oedd amser mor werthfawr yn fy ngolwg, fel nas gwyddwn pa fodd i'w dreulio yn hollol i ogoniant Duw, ac er daioni i eraill." Ymroddai i ddarllen a gweddïo pan ar ei ben ei hun, ac ai yn ei flaen i gynghori y bobl a ddeuent i'w wrando bob prydnhawn Sabbath. Erbyn hyn, yn ol ei gyfaddefiad ef ei hun, yr oedd wedi myned yn ddiareb gwlad. Dirmygid ef gan rai; bygythiai eraill wneyd niwed personol iddo; "ond," meddai, "yr oeddwn yn cael fy nghario fel ar adenydd trwy bob math o dreialon."

Nis gwyddai ei frawd Joseph, oedd yn awr yn Llundain, beth i'w wneyd o hono, nac o'i lythyrau; a lled awgryma fod y pruddglwyf wedi ei orchfygu. Er cael ymwared oddiwrth hyn, deil o'i flaen uchel-

* *Hunan-gofiant.*

gais bydol, a chymhella ef i frysio i Rydychain. Meddai Howell yn ol: "Nid wyf yn bruddglwyfus, fel yr ydych yn tybio. Yr wyf yn mwynhau trysor na fedraf roddi syniad i chwi am dano. Y mae galar bron a bod yn estron i mi." Nid yw yn cael ei ddallu ychwaith gan y rhag-olygon dysglaer a ddelir o'i flaen. "Bydded i'r rhai sydd yn caru gweled, a chael eu gweled," medd, "afaelu yn hudoliaethau Madam Ffawd. Goddefer i mi gymaint a hyny o ddifrifwch fel ag i ddelio yn onest a fy enaid." Nid yw yn gweled ei lwybr gyda golwg ar y dyfodol yn glir; ond dywed nad oes arno ofn na bydd iddo enill bywioliaeth, ei fod yn gobeithio ei fod wedi cael ei fwriadu i fod o ryw lês, ac na chyfrifa unrhyw drafferth na phoen yn ormod er ei gymhwyso ar gyfer hyny. Ni fwriadai dderbyn urddau bellach. "Peidiwch a'm cymhell i fod yn ddyn cyhoeddus," meddai wrth ei frawd, "oblegyd os goddefir i mi farnu gyda golwg arnaf fy hun, ni feddaf unrhyw gymhwysder at hyny." Gwelir nad oedd yn adnabod ei hun, na'i gymhwysderau, ac nad oedd ganddo syniad am y gwaith y galwyd ef i'w gyflawni.

Dechreu Tachwedd, 1735, aeth i Rydychain, gan ymrestru fel efrydydd yn Neuadd Sant Mair, tan addysg Mr. Hart. Gobeithiai ei gyfeillion a'i frodyr y cai ei ddiwygio yn y brifysgol oddiwrth yr hyn a alwent hwy yn benboethni. Ac os bu unrhyw le neu sefydliad yn meddu dylanwad er angrefyddoli dynion ieuainc, a pheri iddynt golli pob difrifwch ysprydol, yr oedd Rhydychain felly y pryd hwn. Dywed John Wesley * fod y lle yn llawn o ieuenctyd anfoesol, mwy niweidiol na phe buasent yn arwain bywyd drwg cyhoeddus, y rhai a wisgent glogyn o weddeidd-dra allanol, ond a dreulient eu holl amser mewn oferedd, ac a arhosent mewn ymyfed a chyfeddach hyd haner nos. Ni feddent rith duwioldeb, chwaethach ei grym. I ganol y rhai hyn y taflwyd Harris druan, a theimlai bron fel pe bai wedi ei daflu i uffern. Yr oedd anfoesoldeb y lle yn ei ddychrynu, a threuliai y rhan fwyaf o'i amser mewn gweddi ddirgel ac yn yr addoliad cyhoeddus. Dylid nodi fod Methodistiaid Rhydychain y pryd hwn wedi cael eu gwasgar; yr oedd John a Charles Wesley, ynghyd a Benjamin Ingham, ar Fôr y Werydd, yn croesi i Georgia, gyda'r amcan o efengyleiddio yr Indiaid; torasai iechyd Whitefield i lawr, ac aethai adref i Gaerloyw; ymsefydlasai John Clayton yn Manchester, a John Gambold, y Cymro o Sir Benfro, yn ficeriaeth Stanton-Harcourt. Felly, nid oedd braidd neb o fewn y Brifysgol yn ceisio atal y llifeiriant o lygredigaeth oedd yn cario pob peth o'i flaen. Dibynai Harris am gynhaliaeth tra yn Rhydychain ar ei gyfeillion, ac yn arbenig ar ei frawd Joseph. Y mae llythyr ar gael a anfonwyd ato yr adeg hon gan Joseph Harris yn profi hyny. "Chwi a gewch yn y gist hon," meddai y llythyr, "hen bâr o ddillad i mi wedi ei gyfnewid ar eich cyfer gan fy mrawd, gyda dau bâr o glôs (*breeches*) perthynol iddo, hefyd fy hen glôs lledr i, y rhai a fyddant yn wasanaethgar i chwi yn y wlad neu yn Rhydychain." Ymddengys fod ei ragolygon bydol yn awr yn dra dysglaer, ond iddo fyned yn ei flaen i gymeryd urddau. Addewid lle iddo fel athraw ar ysgol fawr, ac yr oedd rhyw foneddwr yn cynyg bywioliaeth eglwysig iddo, gwerth saith ugain punt y flwyddyn. Ond meddai: "Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn awr wedi meddianu fy nghalon, fel nad oedd yr holl addewidion teg a osodent o'm blaen yn cael fawr effaith arnaf." Gwelodd nas gallai dreulio allan y tymor priodol yn Rhydychain; taflodd ymaith yr holl ragolygon am ddyrchafiad; a phenderfynodd ddychwelyd adref, gan dreiglo ei ffordd ar yr Arglwydd.

Gadawodd Howell Harris y Brifysgol ddiwedd y flwyddyn 1735, ac ni ddychwelodd yno mwyach. Mor fuan ag y daeth yn ei ol dechreuodd fyned o gwmpas i gynghori, a gwnai hyn gyda zêl angerddol. Ai o dŷ i dŷ yn ei blwyf ei hun, a'r plwyfydd cyfagos, i rybuddio y trigianwyr i ffoi rhag y llid a fydd; cyfarchai y bobl a gyfarfyddai ar y ffordd fawr; pan y gwelai was ffermwr yn aredig ar y maes ymwthiai trwy y berth ato, a cherddai gydag ef o'r naill dalar i'r llall, er argraffu ar ei feddwl y pwys o ddianc rhag uffern. Buan y cynyrchodd ei ymddygiad gyffro trwy yr holl wlad. Aeth y tai anedd yn mha rai y cynghorai yn rhy fychain i'r bobl a ddeuent i'w wrando. Dywed yn ei Hunan-gofiant: "Yr oedd y fath awdurdod yn cydfyned a'r Gair, fel y byddai amryw yn y fan yn gwaeddu allan ar Dduw am faddeuant o'u pechodau, a'r cyfryw ag oedd yn byw mewn llid a chenfigen yn cyffesu eu beiau y naill i'r llall, ac yn ymheddychu a'u gilydd, gan

* *Oxford Methodists*, gan Tyerman, tudal. 18.

ymddangos fel rhai yn ddifrifol ynghylch eu cyflwr tragywyddol. Addoliad teuluaidd a osodwyd i fynu mewn llawer o dai; ymgasglai tyrfaoedd mwy i'r eglwysydd, ac hefyd at Fwrdd yr Arglwydd." Yr oedd y lefain yn y blawd, a'r ymweithiad yn dechreu cymeryd lle.

Nid ymgynghorodd Harris a chig a gwaed er gwybod a oedd yr hyn a wnelai yn rheolaidd; nid oedd yn tybio ei fod yn pregethu, ac ni amcanai at fod yn bregethwr; ni feddai unrhyw gynllun ychwaith, ond gwelai ei gydwladwyr yn cyflymu i ddystryw, mewn anwybodaeth o'u perygl, a theimlai mai gwae ef oni rybuddiai hwynt. Efe yn ddiau yw tad y weinidogaeth leygol, yr hon a fu mor fendithiol i Gymru; ond ni amcanai ef ddwyn unrhyw newydd-beth i mewn. Awydd achub eneidiau anfarwol a losgai fel tân yn ei yspryd. "Erbyn hyn," medd, "yr oedd yn bryd i'r gelyn ymosod arnaf," ac amlwg yw iddo wneyd hyny mewn gwahanol ddulliau. Dechreuodd y werinos, yn cael eu cyffroi yn ddiau gan rai mewn sefyllfa uwch, ei wawdio a'i erlid; bygythiai yr ynadon ef a'r bobl a'i derbynient i'w tai a charchar neu ddirwy; a chynhyrfai preladiaid yr Eglwys Wladol o herwydd ei fod yn ymyraeth a'r hyn a berthynai, fel y tybient, iddynt hwy yn unig. Chwefror, 1736, derbyniodd lythyr ceryddol oddiwrth Mr. Price Davies, ficer Talgarth. Yn y llythyr hwn dywed Mr. Davies ei bod yn llawn bryd ei hysbysu o'r pechod a'r gosb oedd yn dynu arno ei hun; ond iddo ddarllen ei Feibl, y gwelai nad oedd y gwaith a pha un yr ymgymerasai yn perthyn i leygwyr o gwbl, yn mhellach na darllen a gweddïo yn eu teuluoedd; fod ganddo un camwedd trymach i'w osod yn ei erbyn, sef ddarfod iddo derfynu un anerchiad gyda gweddi faith, allan o'i frest; a dymuna arno ystyried pa mor gryf y sawra ei ymddygiad o ffanaticiaeth a rhagrith. Diwedda Mr. Davies trwy fygwth. Bygythia ysgrifenu at ei frawd Joseph, a rhoddi gwybod i'r esgob, yr hyn a'i rhwystrai i gael ei urddo, oni wnai ymatal; a gobeithia na wna roddi achos cyfiawn iddo ef ac eraill i dybio fod ei synwyrau wedi eu amharu. Nid gelyniaeth at grefydd efengylaidd oedd yn cyffroi y Parch. Price Davies, na difaterwch hollol oblegyd cyflwr ysprydol y wlad; y mae yn amlwg ei fod yn meddu cryn lawer o ddifrifwch; ond ysgrifenai yn ol y goleuni oedd ganddo. Iddo ef a'i gyffelyb rheoleidd-dra oedd y pwnc mawr; purion peth oedd achub eneidiau, ond i hyny gael ei wneyd yn rheolaidd, a thrwy gyfrwng gweinidog wedi derbyn urddau esgobol; ond ystyriai fod gwaith lleygwr yn ymyraeth yn drosedd anfaddeuol. Nid oedd yn canfod fod achubiaeth y byd yn bwysicach na swyddogaeth. Efallai yr ofnai hefyd os cai personau di-urddau fyned o gwmpas i gynghori y darfyddai am yr offeiriadaeth.

Ni effeithiodd llythyr y ficer ar Harris fel ag i beri iddo newid ei gyfeiriad. Dychrynwyd rhai o'r personau a arferent ddyfod i wrando arno gan wrthwynebiad y personiaid, ac erledigaeth y werin bobl; ond cyfarfyddent yn ddirgel, pan na feiddient wneyd yn gyhoeddus. Yn raddol chwythodd yr ystorm heibio, a'r gwanwyn dilynol ailgychwynodd ei ymweliadau o dŷ i dŷ. Erbyn hyn daethai i gydnabyddiaeth ag amryw o'r Ymneillduwyr; yr oedd eglwys Ymneillduol yn Nhredwstan, yr ochr arall i'r cwm iddo, yn yr hon, er ei bod yn fychan ac yn eiddil, yr oedd rhyw gymaint o wir grefydd yn aros, fel llîn yn mygu; a chaffai gan y rhai hyn dderbyniad calonog i'w tai. Er mwyn bywioliaeth, sefydla ysgol ddyddiol yn Nhrefecca, yr hon yn fuan a symudwyd i eglwys Talgarth. Er ddarfod iddo fod ar ymweliad a'r Hybarch Griffith Jones, yn Llanddowror, yn mynegu ei fwriad ac yn gofyn cyfarwyddid, nid yw yn ymddangos fod ei ysgol yn un o rai Griffith Jones; yn hytrach, anturiaeth bersonol ydoedd. Ond yr oedd mewn gohebiaeth gyson ag offeiriad duwiol Llanddowror; mynegai ei lwyddiant iddo gydag asbri; a derbyniai oddiwrtho roddion o lyfrau a phob cefnogaeth. Bu yr ysgol yn gymorth nid bychan i'r Diwygiad. "Llawer o ddynion ieuainc," meddai, "a gofleidiasant y cyfleustra, ac a ddaethant ataf i gael eu hyfforddi yn mhellach yn ffordd iachawdwriaeth."

Cafodd gyfleustra arall i rybuddio ei gyd-wladwyr gyda golwg ar fater eu henaid. Elai dyn o'r gymydogaeth o gwmpas i ddysgu pobl ieuainc i ganu Salmau. "Nid oedd gwrthwynebiad i hyny," meddai Harris, "mwy na phe y buasent yn ymgynull ynghyd i ddawnsio, neu i ymladd ceiliogod." Felly yr ysgrifena, gyda phob difrifwch; nid yw fel yn ymwybodol y fath ddatguddiad a rydd ei eiriau o gyflwr y wlad. Wedi i'r athraw cerddorol derfynu ei addysgiant mewn canu, cyfodai y Diwygiwr i roddi iddynt air o gyngor, a thrwy y moddion yma dygwyd llawer dan

argyhoeddiad. Arweiniodd hyn i sefydliad *societies*. Meddai, "Myfi a ddechreuais sefydlu y *societies* hyn yn ol y drefn y mae Dr. Woodward yn rhoddi hanes am dani, mewn traethawd a ysgrifenodd efe ar y pen hwnw. Nid oedd hyd yn hyn ddim *societies* o'r fath yn Nghymru na Lloegr. Yr oedd y Methodistiaid Saesneg heb son am danynt eto, er fod yr Arglwydd y pryd hyny, fel y cefais wedin, yn gweithio ar rai o honynt yn Rhydychain a manau eraill." Perthyn i'r Eglwys Sefydledig yr oedd y Dr. Woodward y cyfeirir ato; sefydlasai ei seiadau ar gynllun, ac yn unol a rheolau a dynasid allan gan Archesgob Caergaint; yr amcan oedd casglu ynghyd y rhai a geisient arwain bywyd sanctaidd, ac a foddlonent i fyw yn unol a rheolau manwl, yn un gymdeithas, i'r hon y byddent oll yn gyfrifol. Mewn rhai pethau nid oeddent yn annhebyg i'r *guilds* presenol yn Eglwys Loegr. Yn Llundain yn unig y cawsent eu sefydlu gan Dr. Woodward, ac er iddynt unwaith fod yn bur gryfion, suddasent erbyn hyn i gyflwr isel a difywyd. Yn wir, ychydig o gyffelybrwydd oedd rhwng y seiadau a sefydlwyd gan Howell Harris i eiddo Dr. Woodward. Amcan seiadau Woodward oedd disgyblaeth; yspryd deddfol a lywodraethai ynddynt; ufudd-dod i reolau ac ordinhadau allanol yn benaf a ofynent. Amcan seiadau Harris oedd cyd-hyfforddiant ar y ffordd i'r nefoedd; cyfleusterau oeddynt i'r rhai a gawsent eu hargyhoeddi i adrodd eu profiadau, ac i arllwys eu calonau y naill i'r llall, fel y gallent gysuro a chynorthwyo eu gilydd. Yr oeddynt yn drwyadl efengylaidd o ran tôn, ac yn talu sylw yn benaf i'r ysprydol a'r mewnol. O ran ei hanfod yr oedd cynllun Harris yn wreiddiol iddo ef ei hun. Diau ei fod yn gywir wrth ddweyd nad oedd seiadau o'r fath ar y pryd yn Nghymru na Lloegr. Yn mhen tair blynedd gwedi hyn y sefydlodd John Wesley y gyntaf o'i seiadau ef. Cawn y Parch. James Hervey, un o Fethodistiaid Rhydychain, yn y flwyddyn 1739, yn ffurfio cymdeithas grefyddol gyffelyb yn Bideford, "nid," meddai, "mewn gwrthwynebiad i'r Eglwys Sefydledig, ond mewn cydffurfiad dyledus a hi." Dywed fod y manteision canlynol i'w cael mewn cymdeithasau o'r fath. "(1) Yr ydym ni yn anwybodus, ac yn fynych yn methu canfod y pethau sydd a rhagoriaeth ynddynt; eithr gwel Duw yn dda ddatguddio i rai yr hyn a guddir oddiwrth eraill; felly, yn amlder cynghorwyr y mae doethineb yn gystal a dyogelwch. (2) Yr ydym yn tueddu i garu ein hunain, ac felly yn analluog i ganfod ein colliadau; o ganlyniad, yr ydym yn anhebyg o ddiwygio. Ond gwna ein cyfeillion, mewn yspryd llariaidd a diduedd, ddangos i ni ein bai. (3) Yr ydym yn wan ac anmhenderfynol; rhwystrir ni yn hawdd pan yn ymgais am yr hyn sydd ardderchog; ond y mae cymdeithas cyfeillion, yn ymdrechu am yr un rhagoriaethau, yn ein llenwi a gwroldeb a sefydlogrwydd. (4) Yr ydym yn ddiog ac yn glauar yn nghyflawniad ein dyledswyddau crefyddol; eithr gwna cydgymundeb sanctaidd gyffroi a chadw yn fyw zêl dduwiol. Mor fynych yr aethum i gyfeillach fy mrodyr yn oer a diyspryd; ond dychwelwn yn ddyn newydd, yn llawn awyddfryd a zêl."* Pa fodd bynag, methodd Hervey a chadw y gymdeithas yn Bideford ar y llinellau hyn. Nid oedd y rhai a ymgynullent yn teimlo y medrent gynal ymddiddan crefyddol yn mlaen mewn modd a gynyrchai adeiladaeth; nid oeddynt yn ddigon ysprydol ychwaith i gwestiyno y naill y llall gyda golwg ar fater eu heneidiau; felly, yn lle adrodd profiad, darllenid rhyw lyfr defosiynol da. Ond yr hyn y methodd Mr. Hervey ei sefydlu a ddaeth yn Nghymru yn gyfarfod o'r pwysigrwydd mwyaf, ac yn rhan o fywyd crefyddol y genedl. Yn y seiadau, a sefydlwyd gan Howell Harris a Daniel Rowland, mewn anwybodaeth am waith eu gilydd, yr addysgid yr anwybodus yn fanylach yn egwyddorion yr efengyl, y dangosid i'r anghyfarwydd y modd y dylai droedio er gochel maglau y gelyn, y rhybuddid y rhai a dueddent i oeri mewn zêl, y dyddenid y rhai oeddynt yn cael eu poeni gan ofnau, ac y caffai saint Duw gymdeithas a'u gilydd yn Nghrist Iesu. Ni wnaeth dim fwy er dwyshau y teimlad crefyddol yn y wlad na'r seiat brofiad.

Hyd yn hyn, Talgarth a'r cymydogaethau o gwmpas oedd cylch gweinidogaeth Howell Harris. Ond yn haf 1737, anfonodd boneddwr o Sir Faesyfed am dano i lefaru yn ei dŷ. Cwbl gredodd yntau fod yr alwad o'r nefoedd, ac heb ymgynghori a chig a gwaed yno yr aeth. Daeth nifer o bobl barchus ynghyd i wrando, wedi eu cyffroi yn benaf gan gywreinrwydd. Ond cawsant y fath fodd-

* Tyerman's *Oxford Methodists.*

lonrwydd yn yr hyn a draethai, ac yn yr atebion i'r gwahanol gwestiynau a ofynent iddo, fel y symudwyd eu rhagfarn yn hollol, a chafodd amryw eu hargyhoeddi o druenusrwydd eu cyflwr. Darfu i fendith Duw ar yr odfa gyntaf a gynhaliwyd ganddo yn mhell o cartref, ei argyhoeddi y bwriedid iddo eangu cylch ei lafur. Hyn a wnaeth yn ddiymaros. Ai i ffeiriau, a gwyliau, ac i bob man o fewn ei gyrhaedd, lle yr ymgynullai y lliaws, i rybuddio dynion o'u perygl. Ond yr oedd yr ysgol ar ei ffordd, fel na fedrai fyned yn mhell. Eithr symudwyd y rhwystr hwn trwy frâd y diafol ei hun; oblegyd tua diwedd y flwyddyn cafodd ei droi allan o'r ysgol oblegyd ei afreolaeth. Bellach, yr oedd at ei ryddid i fyned pa le bynag y gelwid am dano, ac ni phetrusai yntau dderbyn pob gwahoddiad. Pregethai dair neu bedair gwaith y dydd, weithiau bump neu chwech, a hyny i gynulleidfaoedd anferth. Cyffrowyd Siroedd Brycheiniog a Measyfed trwy ei weinidogaeth o gwr i gwr. Deffrôdd hyn elyniaeth danllyd yn ei erbyn. Meddai: "Weithiau yr oeddwn yn cael fy llwytho a phob math o gamachwyniadau; y swyddogion gwladol yn bygwth fy nghospi, yr offeiriaid yn yr eglwysydd yn pregethu yn fy erbyn, gan fy nodi allan fel y Gau-Brophwyd, a'r Twyllwr, a'r *mob* yn mhob lle, yn amcanu fy niweidio." Ond nid oedd gŵr Duw yn gofalu am y pethau hyn; llenwid ei enaid ynddo gan ddyddanwch pur.

Anhawdd i ni yn yr oes hon ffurfio barn am wresogrwydd a nerth gweinidogaeth Howell Harris. Nid oedd ei bregethau parthed arddull cyfansoddiad, ynghyd a dyfnder ac arucheledd meddylddrychau, i'w cymharu ag eiddo Griffith Jones, ac yn arbenig eiddo Daniel Rowland. Ni wnaeth ymgais am rai blynyddoedd i draddodi pregethau ar destynau; rhoddai anerchiadau difyfyr, heb unrhyw drefn neillduol, gan daranu yn erbyn pechod. Meddai: "Mewn perthynas i swm fy ymadrodd, yr ydoedd oll yn cael ei roddi i mi mewn modd anarferol, heb y rhagfyfyriad lleiaf; nid cynyrch fy nghof ydoedd ychwaith, canys ni fu genyf gof da erioed; nerthol gynhyrfiad a deimlwn yn fy enaid ydoedd, fel nas gallwn fod yn llonydd, gan yr angenrhaid a osodwyd arnaf i ddeffroi eneidiau pechaduriaid." Cawsai ei gyfaddasu yn arbenig gan natur, a chan ddyfnder ei argyhoeddiad, ar gyfer rhybuddio yr annuwiol. Yr oedd ei olwg yn fawreddog, ac yn tynu sylw ar unwaith; yr oedd ei lais yn gryf ac yn glir; fflamiai ei lygaid; eisteddai difrifwch o dragywyddoldeb ar ei wynebpryd; ac yr oedd nerth anorchfygol yn ei draddodiad. Elai allan i'r rhedegfeydd, ac i ffeiriau, gwylmabsantau, a chyfarfodydd llygredig y wlad, gan rybuddio y bobl i ffoi i'r cysgod. Disgynai ei ymadroddion fel pelenau o dân ar y tyrfaoedd anystyriol. Wedi cael cynulleidfa o'i flaen, y mae y pregethwr yn sefyll i fynu, a chyda ei fod yn agor ei enau, dyma ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau yn disgyn ar ben y gwrandawyr; y maent yn cael eu hysgwyd uwchben uffern, nes y mae rhai yn gwelwi a rhai yn gwaeddu. Nid anaml gwelid cynulleidfa o ddwy fil yn aros am ddwy awr yn y gwlaw i wrando arno yn llefaru. Byddai rhai yn cael eu hargyhoeddi, ac eraill yn ceisio dystewi llais cydwybod trwy erlid y pregethwr. Ofer ceisio cyfrif ar dir rheswm cnawdol am y dylanwad a fyddai yn cydfyned a'i eiriau; yr oedd ganddo genadwri oddiwrth Dduw i ddynion, a thraddodai hi gydag angerddolrwydd yspryd a gariai y cwbl o'i flaen. Cymwys desgrifiad Williams, Pantycelyn, o hono:—

"Yn y cyfnos tywyll pygddu,
  Fe ddaeth dyn fel mewn twym ias,
Yn llawn gwreichion goleu, tanllyd,
  O Drefecca Fach i ma's.

Yn y daran 'r oedd e'n aros,
  Yn y cwmwl 'r oedd ei le,
(Yspryd briw, drylliedig, gwresog,
  Sy'n cael cwnsel Brenin Ne');
Ac yn saethu oddiyno allan
  Fellt ofnadwy iawn eu rhyw,
At y dorf aneirif, dywyll,
  Yn eu pechod oedd yn byw.

Gorfu gwrando ei eiriau geirwon,
  Cadarn yw awdurdod nen;
Os gwrthwynebu wna pechadur,
  Trymach cwymp hi ar ei ben;
Dilyn ergyd a wnaeth ergyd,
  Nes gwneyd torf yn foddlon dod
At yr Iesu mewn cadwynau,
  Fyth i ddilyn ôl ei droed.

Gwerin fawr o blant pleserau
  Y pryd hwnw gafodd flas,
Ag nad â tra fyddo anadl
  O'u hysprydoedd ddim i maes.
'Roedd ei eiriau dwys, sylweddol,
  Heb eu *studio* 'mlaen llaw'r un,
Wedi ei ffitio gan yr Yspryd
  I gyflyrau pob rhyw ddyn.'

Digwyddodd dau amgylchiad ynglyn a Howell Harris, yn haf 1737, o bwysigrwydd mawr iddo ef ei hun ac i'r diwygiad.

Un oedd cyfarfod am y tro cyntaf a Daniel Rowland yn Defynog. Er fod y ddau er ys peth amser wedi tori allan o'r llwybr cyffredin i rybuddio yr annuwiol, ni wyddent ddim am eu gilydd; a gwna hyn eu hymddygiad yn fwy beiddgar a gwronaidd. Ai Harris allan yn enw Crist i'r pentrefydd, ac i gymoedd mynyddig Brycheiniog a Maesyfed, gan dybio, fel Elias gynt, mai efe oedd yr unig dyst dros y Gwaredwr. Ond cafodd Rowland ei wahodd i Eglwys Defynog, gan ficer y plwyf; daeth Harris, trwy wahoddiad y ficer, yn ol pob tebyg, yno i'w gyfarfod; ac wrth weled y doniau seraphaidd a pha rai yr oedd wedi ei gynysgaeddu, a'r nerth gyda pha un y traddodai wirioneddau gogoneddus yr efengyl, ymglymodd ei enaid am yr apostol o Langeitho, ac aeth gydag ef i Sir Aberteifi cyn dychwelyd. Os edrychir ar Fethodistiaeth fel yn tarddu, a dywedyd yn ol dull dynol, o ddwy ffrwd wahanol ac annibynol, yn Defynog y pryd hwnw gwelir y ddwy ffrwd yn ymuno a'u gilydd, ac yn ymffurfio yn afon.

Yr amgylchiad arall oedd argyhoeddiad Mr. Marmaduke Gwynn, un o brif foneddwyr Brycheiniog, yr hwn a breswyliai yn y Garth, yn rhan uchaf y sir. Disgwylid Harris i bregethu yn y gymydogaeth. Clywsai Mr. Gwynn lawer math o ddrygair am y pregethwr, ei fod yn wrthryfelwr yn erbyn y brenin, ac yn terfysgu y bobl, gan eu hanog i godi yn erbyn yr awdurdod wladol. Teimlai mai ei ddyledswydd, fel ustus heddwch, oedd traddodi y terfysgwr i'r carchar. Ond yr oedd yn ŵr cyfiawn, ac meddai wrth ei wraig: "Mi a'i gwrandawaf cyn ei draddodi." I'r cyfarfod yr aeth, a Deddf Terfysg (*the Riot Act*), yn ei logell, er tori y cyfarfod i fynu, a gwasgar y gwrandawyr, pan welai duedd at wrthryfel. Ond ni soniai Harris am bethau tymhorol; bygythion Duw yn erbyn yr annuwiol a fynegai; anog y gynulleidfa i ddianc rhag y llid a fydd yr oedd, a'u ceryddu am eu pechodau gwaradwyddus, a'u bucheddau anfoesol. Ymddangosai i Mr. Gwynn fel angel Duw, fel cenad o fyd arall. Yn lle dal y pregethwr, cafodd efe ei hun ei ddal, ai ddwyn yn gaeth i Grist. Ar derfyn y cyfarfod, aeth at y pregethwr, gan gyfaddef ei ddrwg-fwriad, a gofyn ei bardwn, a'i gymhell i letya i'w dŷ. Bu aruthr gan Mrs. Gwynn, yr hon oedd yn foneddiges yn hanu o deulu uchel, weled ei phriod yn dychwelyd yn nghwmni y pregethwr terfysglyd, ac yn talu cymaint o barch iddo a phe byddai yn esgob. Braidd na chredai fod ei gŵr wedi colli ei synwyr. Eithr trodd y ferch, Miss Sarah Gwynn, gyda ei thad. Bu Mrs. Gwynn am beth amser yn elynol i'r diwygiad, ond cafodd hithau ei hargyhoeddi i fywyd, a daeth yr holl deulu yn Fethodistiaid. Priododd Miss Gwynn a Charles Wesley ar ol hyn. Taflodd Mr. Gwynn ei holl ddylanwad o blaid Harris; amddiffynodd ef yn mhob modd, a sicr yw ddarfod i'w ymddygiad effeithio yn fawr er lleihau yr erledigaeth, ac i ddwyn opiniwn y cyhoedd yn bleidiol i Fethodistiaeth.

Erbyn diwedd 1737, a gwanwyn 1738, er pob gwrthwynebiad oddiwrth yr offeiriaid a'r boneddwyr, ac er terfysg y werinos, yr oedd seiadau wedi cael eu ffurfio bron yn mhob cymydogaeth yn Sir Frycheiniog, mewn nifer mawr o leoedd yn Sir Faesyfed, ac mewn rhai manau yn Sir Henffordd. Nid oedd ardal na chwmwd perthynol iddynt nad oedd wedi ymweled a hwy droiau. Pregethai weithiau yn addoldai yr Ymneillduwyr, ond gan amlaf yn yr awyr agored. Heblaw hyn, ymwelai yn fynych a Llangeitho, nid yn unig er mwynhau gweinidogaeth seraphaidd Daniel Rowland, ond hefyd yn ddiau er cael cydymgynghori ag ef gyda golwg ar gario y gwaith mawr yn mlaen. Bu ddwywaith o leiaf yn Llanddowror yn 1737, fel y prawf ei ddydd-lyfr, ar ymweliad a'r Parch. Griffith Jones, yr hwn a berchid ganddo megys tad. Y mae yn bur sicr ei fod yn pregethu rhyw gymaint wrth fyned a dychwelyd yn siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi. Canlyniad hyn, ynghyd a llafur Daniel Rowland, oedd fod arwyddion o ddiwygiad i'w canfod mewn amryw siroedd; ymdyrai y bobl i leoedd o addoliad; elai y cyfarfodydd llygredig heb fod nemawr yn cyrchu iddynt, ac yr oedd anfoesoldeb yn dechreu plygu ei ben mewn cywilydd. Clywyd son am ei weinidogaeth, a'r arddeliad rhyfedd oedd yn cydfyned a hi, yn Mynwy a Morganwg; tybiodd rhai o'r gweinidogion Ymneillduol yn y siroedd hyn fod gwawr gobaith yn ymagor ynddo ar Gymru, a phenderfynasant ei wahodd i ddyfod ar daith trwy eu gwlad, gan hyderu y byddai i'w ymweliad fod yn foddion adfywiad i'r achosion gweiniaid oedd yn wywllid eu gwedd, ac yn barod i farw.

Y cyntaf i roddi gwahoddiad i Howell Harris oedd y Parch. Edmund Jones, Pontypŵl. Yr oedd Mr. Jones yn fab i rieni

tlodion oeddynt yn aelodau yn eglwys Annibynol Penmain. Ni chawsai nemawr fanteision addysgol; nid ymddengys ychwaith ei fod o ddoniau mawr, ond yr oedd yn llawn o zèl a gweithgarwch. Llwyddasai i gasglu cynulleidfa ac eglwys fechan yn nghymydogaeth Pontypŵl; eithr gwanaidd a dilewyrch iawn oedd yr achos; nid oedd ganddynt addoldy o gwbl; ond ymgynullent mewn gwahanol dai anedd ar gylch. Yr oedd yr holl gwm, ynghyd a'r cwm nesaf, o Flaenau Gwent i lawr, yn ddigrefydd ac annuwiol. Penderfynodd Mr. Jones y gwnai ymgais i gael Howell Harris yno i bregethu; ddechreu gwanwyn 1738, aeth yn un swydd ar ei draed i Drefecca i'w gyrchu; ac ni ddychwelodd heb ddwyn Mr. Harris gydag ef. Cynyrchodd ymweliad y Diwygiwr gyffro dirfawr yn yspryd offeiriad Mynyddislwyn a Bedwellty, ac yn ei lid, anfonodd ato y llythyr canlynol:—

"MR. HARRIS.—Yr wyf yn synu at eich hyfdra yn dyfod i fy mhlwyfydd i, sef Mynyddislwyn a Bedwellty. Rhaid i chwi gilio yn ol; onide bydd i chwi, a'r person neu y personau a'ch gwahoddodd ac a anfonodd am danoch, dderbyn y dialedd cyfiawn sydd yn ddyledus am y fath ymddygiadau anghyfreithlon.—Yr eiddoch, DAVID PERROT."

Y mae y llythyr hwn wedi ei ddyddio Mawrth 17,1738. Ni thalodd Howell Harris un sylw i fygythion Mr. Perrot; aeth yn ei flaen gan daranu yn erbyn drwg arferion y trigolion gyda nerth, nes y syrthiodd braw a dychryn arnynt. Nid oes genym restr o'r lleoedd a phai rai yr ymwelodd, ond ymddengys fod dylanwadau rhyfedd yn cydfyned a'i weinidogaeth, a bod y fath awdurdod yn ei leferydd fel y dychrynid y mwyaf rhyfygus, ac y siglid teyrnas y tywyllwch hyd ei sail. Cynyrchodd chwildroad hollol yn sefyllfa foesol y wlad. Cymerer yr hyn a gymerodd le yn nghymydogaeth Mynyddislwyn fel enghraifft. Ger eglwys y plwyf yr oedd twmpath uchel a elwid "Towyn Tudur," a thaenid hen chwedl yn yr ardal yr elai yn ystorm o fellt a tharanau pe y ceisiai neb ei symud. Ar y twmpath hwn y safai Harris, ynghanol y canoedd campwyr oedd wedi ymgynull i wrando. Ychydig, meddir, oeddynt yn ddirnad am faterion y bregeth, ond deallent fod y llefarwr yn cyhoeddi melldithion ofnadwy yn erbyn eu drygfoes, a'i fod yn bygwth y llyn o dân ar y rhai a fynychent y gwylmabsantau a'r campau. Effeithiai ei ddull yn ofnadwy ar y gwrandawyr. Tybient fod y ddaear yn crynu dan eu traed, a bod uffern yn myned i agor ei safn i'w llyncu yn fyw. Nid annhebyg fod a fynai yr hen chwedl ofergoelus a mwyhau eu dychryn. Darfu i'r un bregeth hon fwrw diflasdod ar hen arferion bryntion yr ardal, a gwneyd y chwareuon yn anmhoblogaidd. Dywedai hen ŵr wrth y diweddar Barch. Thomas Evans, Risca: "Ni chefais flas byth mwy gyda'r bêl droed, er fy mod yn flaenorol yn un o benaethiaid y gamp. Pan aem i chwareu, dychymygwn, yn arbenig os byddai wedi machlud haul, fod y diafol yn bersonol yn ein mysg." Y dyb gyffredin gan drigolion y fro oedd fod y gŵr a fu yn pregethu ar Dowyn Tudur wedi rheibio y chwareu. Cyffelyb a fu yr effeithiau mewn ardaloedd eraill, er nad oes genym hanes mor fanwl am danynt. Dywed Edmund Jones * ddarfod i lawer gael eu hachub y pryd hwn yn Mlaenau Gwent, ac Ebbwy Fawr; ymunodd rhai o honynt ag Eglwys Loegr, eraill a'r Bedyddwyr, ac eraill a'r Annibynwyr. Dylid cofio mai ardaloedd amaethyddol oedd y rhai hyn y pryd hwnw, mai ffermwyr a'u llafurwyr a drigianai yma, a bod y wlad o ganlyniad yn anaml ei thrigolion. Meddai E. Jones: "Adeg ddedwydd oedd hon yn Ebbwy Fawr, y fath na welwyd, yr wyf yn credu, na chynt na chwedi hyn. Gallai un feddwl fod yr holl ddyffryn yn troi at Dduw. O ddau-ar-bymtheg-ar-hugain o dai, nid oedd ond saith, os oedd cynifer, i ba rai nad oedd Gair yr Arglwydd wedi treiddio. Yr oedd y bobl a dueddent at grefydd yn llawer amlach na'r lleill."

Bendithiwyd gweinidogaeth Harris y tro hwn er argyhoeddiad i amryw a ddaethant yn ganlynol yn bregethwyr, megys Phylip Dafydd, yr hwn a fu yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Mhenmain am agos i haner can' mlynedd; Thomas Lewis, yr hwn a gafodd ei benodi yn arolygwr yr achosion Methodistaidd yn y rhan agosaf i Loegr o Fynwy; John Powel, yr hwn oedd frodor o Frycheiniog, ac a ddygasid i fynu mewn tafarndy; ynghyd a Morgan John Lewis, gweinidog cyntaf eglwys y New Inn, am yr hwn y cawn son eto. Yn bur fuan, cawn seiadau wedi cael ei sefydlu yn y Goetre, Glascoed, Mynyddislwyn, Llangattwg, Trefethin, Llansantffraid, Llangattwg-ger-Caerlleon-ar-Wysg, Llanfihangel,

* *History of the Parish of Aberystruth.*

a Llanheiddel. Pa un ai ar y daith hon, ynte taith arall a gymerwyd ganddo trwy Fynwy yn Hydref yr un flwyddyn, y cawsant eu sefydlu, nis gwyddom. Derbyniwyd Howell Harris fel cenad o'r nefoedd gan y gweinidogion Ymneillduol a bregethent athrawiaethau Calfinaidd; a bu ei ddyfodiad fel bywyd o farw i'r achosion gweiniaid oedd dan eu gofal. Yn bur fuan yr ydym yn cael Edmund Jones yn adeiladu addoldy yn Mhontypŵl, a lliosogodd yr eglwysi Ymneillduol yn yr holl gwmpasoedd yn ddirfawr. Ond am y gweinidogion a dueddent at Arminiaeth, gwnaent hwy yr oll a fedrent i rwystro y diwygiad, ac i wrthwynebu Harris, a braidd nad y dosparth yma oedd yn y mwyafrif ar y pryd. Eu cri yn ei erbyn oedd na chawsai ei ordeinio, ac felly nad oedd hawl ganddo i bregethu. Rhoddai yr Ymneillduwyr ffurfiol hyn gymaint o bwys ar ordeiniad ag a wnelai offeiriaid Eglwys Loegr. "Ni fedraf lai na sylwi," meddai Edmund Jones, mewn llythyr at Howell Harris, "mai ein dynion goreu sydd yn ffafriol i chwi, ac mai y rhai sychion, amddifad o brofiad, neu Arminiaid, sydd yn eich erbyn; o leiaf, hwy sydd yn chwerw." Dywed yn mhellach fod y gweinidogion efengylaidd yn edrych arno fel un wedi cael ei alw i'r weinidogaeth, er nad yn y ffordd arferol. Harris wedi ei alw? Y mae mor sicr ei fod a darfod i'r apostolion gael eu galw gan y Gwaredwr; profid hyny yn ddiymwad gan yr arddeliad oedd yn cydfyned a'i bregethu, a chan y canoedd a gawsent eu dychwelyd trwyddo. Os gallai Paul droi ar y Corinthiaid crediniol, gan ddweyd: "Sêl fy apostoliaeth i ydych chwi yn yr Arglwydd," gallai Harris yntau gyfeirio at ganoedd ar hyd a lled y wlad a gawsant eu hachub trwy ei offerynoliaeth, ac a oeddynt yn dystion byw o'i ddwyfol anfoniad. Yr oedd rhesymau personol gan y gweinidogion Arminaidd dros wrthwynebu y Diwygiwr. Yn un peth, yr athrawiaethau Calfinaidd a bregethid ganddo, a hyny yn y modd mwyaf difloesgni; dyn yn golledigaeth ynddo ei hunan, y galon yn ddrwg diobaith, holl ymdrechion dyn i ddod i fynu a gofynion deddf gyfiawn y nefoedd yn gwbl ofer, ufudd-dod ac iawn yr Arglwydd Iesu yn unig sail cadwedigaeth, a'r clod yn gyfangwbl yn perthyn i ras penarglwyddiaethol Duw, dyna y gwirioneddau a gyhoeddai. Gellid symio ei gredo mewn cymal a geir yn un o'i weddiau: "Uffern wyf fi; ond nefoedd wyt ti." Yn erbyn yr athrawiaeth hon gwingai yr Arminiaid anefengylaidd yn enbyd. Heblaw hyn, taranai yn ofnadwy yn erbyn yr oerni, y cysgadrwydd, a'r bydolrwydd, oedd wedi gorddiwes yr eglwysi Ymneillduol, ynghyd a dull clauar a deddfol y gweinidogion o bregethu. Fflangellai hwynt yn y modd mwyaf diarbed, a galwai arnynt yn enw yr Arglwydd i ddihuno, onide y syrthient dan y farn. Tybiai Edmund Jones ei fod yn tueddu i fod yn rhy lym. "Da genyf," meddai, "ddarfod i Mr. Whitefield ddwyn tystiolaeth onest a hyf yn erbyn clauarineb a bydolrwydd yr Ymneillduwyr, ynghyd ag ysgafnder a bywyd penrhydd amryw o'u gweinidogion. Yr oedd yr angen mwyaf am wneyd hyn; ond gwna Mr. Whitefield ef mewn modd cymhedrol, eithr gonest; a phe y gwnaech chwithau hyn, anwyl frawd, gyda llai o nwyd a chyffröad yspryd, gan barchu eu personau, gallasech effeithio llawer o dda. Ond fel y mae, ofnaf na wnaed fawr da. Ar yr un pryd, gwelaf mai i ni y perthyn y bai mwyaf." Nid awn i geisio penderfynu a ydoedd Edmund Jones yn barnu yn gywir; sicr yw fod Harris yn wresog ei yspryd, ac yn dra llym yn ei ddynoethiad o ddrygau, yn arbenig drygau cysylltiedig a'r cysegr; ond gwelir yn eglur ddarfod i'w hyfdra gynyrchu gwrthwynebiad iddo yn mysg y gweinidogion Ymneillduol o syniadau anefengylaidd. Pa fodd bynag, yr oedd llaw yr Arglwydd gydag ef, ac nid ofnai yntau beth a wnelai dyn iddo.

Pregethwr Ymneillduol arall a wahoddodd Mr. Harris i'w ardal oedd y Parch. David Williams, gweinidog yr eglwysi Presbyteraidd yn Watford a Chaerdydd. Dywed yn ei lythyr at Harris ei fod wedi ei gyhoeddi i fod yn mlwyf Eglwysilan am ddau ddiwrnod, sef dydd Mercher gwedi y Sulgwyn yn Bwlchycwm, a'r dydd Iau dilynol yn Maesdiofal, ac y disgwylid torf fawr i wrando. Aeth yntau yn ffyddlawn i'w gyhoeddiad. Ymddengys iddo fyned trwy Fynwy, oblegyd addawa Mr. Williams ei gyfarfod y nos Fawrth flaenorol yn Bedwellty, a'i ddwyn i'w dŷ ei hun i letya. Nid ydym yn gwybod a ddarfu iddo bregethu mewn lleoedd eraill yn Morganwg y tro hwn; y tebygolrwydd yw iddo wneyd; prin y gallwn feddwl iddo deithio yr holl ffordd yma o Dalgarth er mwyn gwaith dau ddiwrnod. Yr oedd yr un dylanwad yn cydfyned a'i weinidogaeth ag yn Mynwy. Ac nid rhywbeth amserol, yn cilio fel cysgod,

oedd yr effaith; yn hytrach, tebygai i'r surdoes yn y blawd, yn cyfnewid ansawdd yr holl does. Mewn llythyr a anfonodd y Parch. D. Williams i Drefecca ychydig ar ol hyn dywedir: "Bu gwasanaeth y ddau ddiwrnod gyda ni yn rhyfeddol o lwyddianus. Y mae yr eglwysydd a'r cyfarfodydd yn orlawn; y mae tori y Sabbath yn myned lawr, edrychir arno fel peth atgas; a gwrthdystir yn erbyn tyngu ac ymladd ceiliogod. Ond nid ydych yn dychymygu fod y diafol yn fud ac yn llonydd. Na, y mae yn llefaru ac yn gweithredu; ond tybiaf fod mwy yn ei erbyn nac sydd o'i blaid yn y rhan hon o'r wlad. Y mae eich cyfeillion yn lliosocach na'ch gwrthwynebwyr. Pregethir yn eich erbyn mewn rhai manau; ond try er gwaradwydd i'r rhai sydd yn ceisio ei wneyd." Yn nes yn mlaen, dymuna yr ysgrifenydd iddo adferiad buan i iechyd, yr hyn a ddengys fod ei lafur dirfawr mewn pregethu a theithio diorphwys yn dechreu effeithio ar ei gyfansoddiad, er cadarned ydoedd; dymuna yn daer arno ymweled a'r rhan hono o'r wlad mor ddioedi ag sydd bosibl; "ni wna unrhyw wahaniaeth," meddai, "pe bai yn amser cynhauaf, gan mor awyddus yw y bobl i wrando arnoch;" a dywed yn mhellach fod ganddo nifer o leoedd yn crefu am ei wasanaeth. Dyddiad y llythyr hwn yw Mehefin, 1738. Cawn Mr. Williams yn ysgrifenu yn mhen dau ddiwrnod drachefn i wasgu arno am ail gyhoeddiad, gan ddweyd y byddai yr wythnos olaf yn y mis hwnw, neu yr wythnos gyntaf yn Gorphenaf, yn gyfleus iawn. "Y lleoedd mewn golwg genyf," meddai, "heblaw y rhai a gawsant eu siomi, ydynt Llanedeyrn (myned yno o St. Nicholas), yna Machen neu Maesaleg, ac wedi hyny i'n plwyf ni (Eglwysilan), yn y lle y tybir ei fod fwyaf cyfleus. Dylaswn ddweyd y disgwylir chwi o'n plwyf ni i Gelligaer. Y mae y cuwrad, yr hwn a alwodd yn ein tŷ ni y nos o'r blaen, yn gwneyd ei oreu drosoch, er efallai mai y tu ol i'r llen, gan ei fod ar gael ei urddo yn offeiriad." Diweddir y llythyr gyda dweyd nad rhaid iddo fod mor anmharod i gyfeillachu ag Ymneillduwyr yn y rhanau hyny o'r wlad ag mewn manau eraill, gan fod rhagfarn yn diflanu yn gyflym. Y lleoedd y cyfeirir atynt fel wedi cael ei siomi yn eu disgwyliad am Howell Harris oeddynt Aberdâr, Llanwono, Llantrisant, a St. Nicholas, yn Mro Morganwg. Yn y manau hyn ymgynullasai torfeydd ynghyd, ac yr oedd eu siomiant yn ddirfawr pan y deallasant fod selni wedi rhwystro'r pregethwr.

Tua'r un amser ag yr ymwelodd Mr. Harris gyntaf a chymydogaeth Caerphili, bu yn pregethu yn y rhan orllewinol o Forganwg; ac y mae yn sicr mai gwahoddiad taer oddiwrth y Parch. Henry Davies, Bryngwrach, a'i cymhellasai. Yr oedd Henry Davies yn weinidog ar gynulleidfa o Ymneillduwyr yn Nyffryn Nedd; bu ar delerau cyfeillgar a'r Methodistiaid trwy ei oes; cawn ef yn bresenol yn y Gymdeithasfa gyntaf, yn Watford, ac mewn amryw Gymdeithasfaoedd eraill, a diau ei fod yn ŵr oedd yn ofni Duw. Gwedi ei farw aeth ei gynulleidfa yn Undodiaid. Ymddengys ddarfod i selni Howell Harris ei rwystro i fyned i'r parthau hyny yn mis Mehefin, fel yr arfaethasai, ac i filoedd gael ei siomi mewn canlyniad. Mewn llythyr, dyddiedig Gorph. 28, 1738, dywed y Parch. Henry Davies: "Y mae y gŵr difrifol, zelog, a duwiol hwnw, Mr. William Thomas, offeiriad Llanilltyd-ger-Nedd, yn dra awyddus am eich gweled, a chael eich cymdeithas. Aethai yn un swydd i'r Fonachlog i'ch gwrando, ond cafodd ei siomi, a miloedd heblaw efe. Ceryddwyd ef gan offeiriad chwerw sydd yn byw yn Nghastellnedd. Y mae yr offeiriaid yn rhanedig y naill yn erbyn y llall yn y cymydogaethau hyn. Y mae cadben ymrysonfeydd ceiliogod, yr hwn a'ch clywodd yn y Bettws, yn addaw peidio dilyn y chwareu annuwiol hwnw mwy; a darfu i un arall, yn agos i lan y môr, yr hwn oedd yn arweinydd yn mhob annuwioldeb, dori ymaith benau ei holl geiliogod ar ol bod yn gwrando arnoch. Gwelais ef y Sul diweddaf, ac ymddangosai fel gwrandawr difrifol. Gwahoddodd fi i'w dŷ. Duw yn unig bia'r clod. . . Yr wyf yn credu ddarfod i'r diafol golli rhai milwyr medrus, y rhai ddarfu ymrestru i fod yn filwyr ffyddlawn dan y Cadben mawr, ein Harglwydd Iesu. O gweddïwch am ragor o fagnelau i ddryllio teyrnas Satan." Tua yr amser hwn hefyd derbyniodd Mr. Harris gyffelyb wahoddiadau oddiwrth y Parch. John Davies, gweinidog Cwmyglo, ger Merthyr Tydfil, ac oddiwrth y Parch. Vavasour Griffiths, o Sir Faesyfed.

Methasom ddod o hyd i ddydd-lyfr y Diwygiwr am y rhan olaf o'r flwyddyn 1738, ond y mae lle cryf i gasglu ddarfod iddo, yn unol a gwahoddiad y gweinidogion Ymneillduol yr ydym wedi cyfeirio atynt,

fyned ar daith trwy ranau helaeth o Forganwg a Mynwy Awst neu Medi, 1738, ac i'w weinidogaeth brofi yn nodedig o fendithiol. Ysgrifena y Parch. David Williams ato, Hydref 17, 1738, fel y canlyn: "Bu y dygiedydd yn bur wyllt, ond y mae wedi diwygio yn fawr. Oddiar pan y gwrandawodd chwi ddiweddaf yn ein plwyf ni, â i bob cyfarfod sydd o gwmpas, nosweithiau gwaith yn gystal a'r Sul. Y cyfarfodydd yma ydynt yn orlawn. Y mae un-ar-bymtheg wedi anfon cais am ddyfod i'r cymundeb nesaf yn Nghaerdydd. Y mae genym ysgol Gymraeg yma yn myned ar gynydd." Yn mhen y mis ysgrifena drachefn: "Y mae genym ysgol Gymraeg fawr, yn yr hon y mae gweddïo wedi dyfod yn ffasiynol, a theimlwn awydd sefydlu un arall. Sefydlir cyfarfodydd gweddi yn mhob man. Derbyniwyd dau-ar-bymtheg i gymundeb y Sul diweddaf, ac y mae rhagor wedi cael eu cynyg. Gwelir gwedd gysurus ar bethau yma yn bresenol." Diwedda Mr. Williams trwy ddymuno am ymweliad arall o gwmpas y Nadolig, er na ellid disgwyl iddo bregethu yn yr awyr agored yr âdeg hono o'r flwyddyn. Yr ydym yn difynu y ddau lythyr diweddaf, nid yn unig oblegyd eu dyddordeb, ond hefyd fel prawf ddarfod i Howell Harris ymweled a rhanau helaeth o Fynwy a Morganwg, Awst neu Medi, 1738, ac i'w daith fod yn dra bendithfawr. Pe na fuasai Mr. Harris wedi medru cydsynio a'r gwahoddiadau taer blaenorol, y mae yn mron yn sicr mai tôn siomedig fuasai yn rhedeg trwy y llythyrau hyn. Yn lle hyny, mawl oblegyd llwyddiant sydd yn eu llenwi. Fel ffrwyth ei lafur sefydlwyd amryw eglwysi yn Morganwg cyn diwedd 1738, yn mysg pa rai yr oedd Caerdydd, St. Ffagan, Eglwysnewydd, Pentyrch, Aberthyn, Llantrisant, Tonyrefail, a Llanwono. Enillwyd amryw deuluoedd hefyd at Fethodistiaeth a ystyrid fel yn perthyn i fonedd y tir. Cawsai yr Yswain Jones, o Gastell Ffonmon, ei argyhoeddi wrth wrando Howell Harris yn pregethu yn Aberddawen. Aethai Mr. Jones tuag yno, gyda nifer o foneddigion, a'i gleddyf noeth yn ei law, er rhwystro y cyfarfod. Ni ddarfu i'r olwg arno ddychrynu y llefarwr o gwbl; yn hytrach ceisiodd gan y bobl ymwahanu a rhoddi ffordd, a throdd i bregethu yn yr iaith Saesneg, fel y gallai y boneddwyr ddeall. Aeth ceffyl yr yswain yn sicr yn y llaid fel nas gallai symud; gorfodwyd y marchogwr felly i wrando gwirionedd Duw o'i anfodd; ond aeth saeth i'w galon; tynodd ei het mewn parchedigaeth, agorodd ei galon i dderbyn yr efengyl, ac aeth yn ei ol i'w gastell a'r pregethwr gydag ef. Cyfododd bwlpud yn ei dŷ at wasanaeth y llefarwyr; daeth ei balas ar unwaith yn gartref y Diwygwyr pan ar eu teithiau, ac ymddengys y cynhelid pregethu rheolaidd yno trwy ystod oes y boneddwr, ac am flynyddoedd gwedi. Yma y lletyai Whitefield pan ar ei daith trwy y wlad. Boneddwr arall a gafodd ei argyhoeddi y pryd hwn oedd Mr. Howell Griffith, o Drefeurig, palasdy rhwng Llantrisant a Thonyrefail, yr hwn, fel y mae yn amlwg oddiwrth ei lythyrau at y Diwygwyr Saesneg, a gawsai addysg dda. Daeth ef yn bregethwr, a'i dŷ yn gartref Methodistiaeth. Un arall eto a gafodd ei enill yr adeg hon oedd Thomas Price, o Watford, ger Caerphili, yr hwn a elwir gan Williams, Pantycelyn, yn ei farwnad i Grace Price yn "Price y *Justice*." Daeth yntau hefyd yn bregethwr. Cawn amryw eraill, yn cael eu dwyn tan ddylanwad yr efengyl, a ddaethant yn bregethwyr, neu, fel eu gelwid y pryd hwnw, "cynghorwyr." Yn mysg y rhai hyn yr oedd Thomas Williams; William Edwards, adeiladydd pont enwog Pontypridd; a John Belcher. O'r rhai hyn, John Belcher oedd y dysgleiriaf ei ddoniau; cafodd ef ei anfon yn un i'r Gogledd er mwyn ceisio efengyleiddio y wlad, a dywedai yr hen John Evans, o'r Bala, am dano "ei fod yn ddyn gwrol, o gyneddfau cryfion, ac yn bregethwr da."

Fel y darfu i ni sylwi, nid oedd Howell Harris wedi tori allan unrhyw gynllun iddo ei hun ar y cychwyn; ni thybiasai ei fod wedi cael ei alw i fod yn bregethwr, credai yn benderfynol nad oedd; rhyw reidrwydd mewnol a'i gorfodai i rybuddio dynion am eu trueni ysprydol. Ond wrth weled y dylanwadau rhyfeddol oedd yn cydfyned a'i ymdrechion, a'r arddeliad oedd ar yr anerchiadau a draddodai, daeth i deimlo yn raddol mai cyhoeddi Crist yn Geidwad oedd gorchwyl mawr ei fywyd i fod. Ail-adnewyddodd hyn ynddo y duedd am ordeiniad. Yn ei ddydd-lyfr am fis Hydref, 1737, ceir a ganlyn: "Bedw (Aberdw?) Sul, y 30. Sacrament. Codi gwedi saith. Marwaidd fel arfer. Dymuniadau heddyw am gael fy argyhoeddi o'm camsyniadau. Gwedi wyth, myned tua

chapel Dyffryn Honddu; ar y ffordd myfyrio ar y sacrament, gan deimlo yn orlwythog o ofnau. Yn y capel am enyd yn farwaidd; gwedi hyny dymuno am gael bod yn oleuni i'r byd, gan fod mewn trallod tumewnol mawr gyda golwg ar beth i'w wneyd, gan yr ofnwn gymeryd fy ordeinio rhag i mi gael fy rhwystro i fyned o gwmpas. Ond goleuwyd fi i ganfod, os yw Duw yn fy ngalw y byddai iddo gadw y drws yn agored i mi, gan osod yn nghalonau rhai i ganiatau i mi ddyfod i'w heglwysydd." Teifl y difyniad hwn ffrwd o oleuni ar agwedd meddwl Howell Harris. Gwelir iddo, wedi cryn bryder a therfysg meddwl, ddyfod i benderfyniad i wneyd cais am ordeiniad; mai ei amcan wrth wneyd y cyfryw gais oedd, nid cael bywioliaeth fras, na chael cyfleustra i efengylu o fewn cylch cyfyng plwyf, ond symud ymaith yr afreoleidd-dra a berthynai i'w waith, fel na byddai mwy yn myned o gwmpas i bregethu heb awdurdod ac ordeiniad esgobol; ac mai yn yr hyder y teflid eglwysydd y wlad yn agored iddo mewn canlyniad y daeth i'r cyfryw benderfyniad. Y mae y weddi, "dymuno am gael bod yn oleuni i'r *byd*," yn dra arwyddocäol, ac yn profi na dderbyniai ordeiniad ar yr amod iddo roddi y teithio i fynu. Y mae yn sicr ddarfod iddo gario ei benderfyniad allan, ac appelio am ordeiniad at yr esgob; dywed Whitefield iddo appelio ddwy waith, a chawn iddo wneyd hyny y drydedd waith. Ond yr oedd afreoleidd-dra ei ymddygiad, a'r ffaith ei fod yn un o'r Methodistiaid dirmygus, yn rhwystr anorfod ar ei ffordd i gael urddau. Trodd yr esgob ef heibio ar y tir ei fod yn rhy ieuanc, "er," meddai Whitefield, "ei fod ar y pryd rhwng dwy a thair-ar-hugain mlwydd oed, ac yn meddu pob cymhwysder ar gyfer urddau sanctaidd." Eithr er cael ei wrthod yn ei gais, ni roddodd Harris i fynu fyned o amgylch a chynghori. Ar yr un pryd, ymddengys ei fod mewn pryder dirfawr gyda golwg ar ei ymddygiad; edrychai arno ei hun fel un hollol afreolaidd. Ar y naill law, gwelai dân y diwygiad yn ymledu trwy ei offerynoliaeth, eneidiau gwerthfawr yn cael eu hachub, y meusydd yn wynion i'r cynhauaf, anfoesoldeb y werin yn toddi ymaith tan ddylanwad yr efengyl, a rhagluniaeth yn agor drysau newyddion iddo yn barhaus. O'r tu arall, ni wyddai am neb diurddau yn myned o gwmpas i gynghori ond ei hunan. Yr oedd yr Ymneillduwyr lawn mor wrthwynebol i weinidogaeth leygol a'r Eglwyswyr. Cawn hyd yn nod John Wesley, a hyny mor ddiweddar a'r flwyddyn 1742, tua saith mlynedd gwedi i Howell Harris ddechreu ar ei waith, yn cyffroi trwyddo pan y clywodd fod Thomas Maxfield, y lleygwr, wedi ymgymeryd a phregethu, ac yn rhuthro i fynu i Lundain mewn nwyd er mwyn ei rwystro. Ond lliniarwyd llid Wesley gan ei fam. "Cymerwch ofal pa beth a wnewch, John,' meddai wrtho; "y mae y dyn ieuanc yna wedi cael ei alw gan Dduw i bregethu mor wir a chwithau."


Ni fynai Howell Harris ychwaith ymuno a'r Ymneillduwyr, er mwyn dwyn ei weithrediadau o'r tu fewn i derfynau rheoleidd-dra; yr oedd eu deddfoldeb, eu dadleuon, eu rhagfarnau, ac yn arbenig eu hoerni crefyddol yn annyoddefol iddo, er fod ganddo barch mawr i'w gweinidogion efengylaidd, a'i fod yn cydweithredu yn galonog â hwy. Rhwng pob peth yr oedd ei feddwl yn gythryblus ynddo, a gwnai aml gyhuddiadau yr offeiriaid a'r gweinidogion Ymneillduol anefengylaidd y cythrwfl yn fwy. Ond penderfynu myned yn mlaen a'i waith a wnaeth er pob peth. A diwedd y flwyddyn 1738, derbyniodd lythyr calonogol oddiwrth Whitefield. "Ewch yn mlaen, anwyl frawd," medd y Diwygiwr Saesnig, "ewch yn mlaen; ymgryfhewch yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef. Y mae, a bydd, llawer o wrthwynebwyr, ond nac ofnwch. Bydd i'r hwn a'ch anfonodd eich cynorthwyo, eich cysuro, a'ch dyogelu, a'ch gwneyd yn fwy na choncwerwr trwy ei fawr gariad. Fy anwyl frawd, yr wyf yn eich caru yn ymysgaroedd yr Arglwydd Iesu, ac yn dymuno i chwi fod yn dad ysprydol miloedd, a llewyrchu fel yr haul yn y ffurfafen yn nheyrnas ein Tad Nefol. Fy serch calonog at Mr. Jones (Griffith Jones, Llanddowror). O! fel y llawenychaf eich cyfarfod gerbron mainc Crist." Y mae y llythyr hwn yn ddyddorol ar gyfrif mai dyma yr ymgyfathrach cyntaf rhwng y Diwygwyr Cymreig a Methodistiaid Lloegr. Llonodd ei gynwys yspryd Howell Harris yn fawr; yr oedd iddo fel dyfroedd oerion i enaid sychedig; cadarnhawyd ef yn ei gred ei fod tan arweiniad yr Yspryd Glân. A diau fod ei ddylanwad yn fwy, gan mai gŵr wedi derbyn urddau esgobol, ac o enwogrwydd gweinidogaethol digyffelyb, oedd wedi ei ysgrifenu. Ysgrifenodd yntau lythyr caruaidd yn ol

yn fuan, yn rhoddi byr hanes am y diwygiad yn Nghymru. Gwedi ei dderbyn dywedai Whitefield: "Y mae Mr. Howell Harris a minau yn gohebu; bendigedig fyddo Duw! Bydded i mi ei ganlyn fel y mae efe yn canlyn Iesu Grist. Gymaint yn mlaen yw efe arnaf!" Dyma ddechreuad ymgyfathrach a ddaeth yn gyfeillgarwch o'r fath fwyaf anwyl, ac a barhaodd tra y buont byw ill deuoedd. Tawelodd llythyr Mr. Whitefield amheuon ei feddwl i raddau mawr; ond dywed na chafodd lwyr ymwared oddiwrthynt nes iddo gael ei wysio i wydd person o urddas i roddi cyfrif am ei ymddygiad, pan y daeth gyda nerth i'w enaid y geiriau sydd yn Datguddiad iii. 7, 8: "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau." Cwbl gredodd ddarfod i'r geiriau gael eu hanfon i'w feddwl fel cenadwri uniongyrchol oddiwrth yr Yspryd Glân, ac nid amheuodd drachefn.

Nid oedd derfyn ar yni a gweithgarwch Howell Harris, a chawn ef ddechreu y flwyddyn 1739 ar daith eto yn Morganwg a Mynwy. Ceir hanes rhan o'r daith mewn dalenau o'i ddydd-lyfr, o ba un y gwnawn ychydig ddifyniadau. Y mae difynu yr oll allan o'r cwestiwn, ni fyddai pen draw ar y cyfrolau a lenwid, oblegyd ysgrifenai y Diwygiwr yn ddiderfyn; croniclai nid yn unig y digwyddiadau a'i cyfarfyddai, ond hefyd ei fyfyrdodau, a theimladau ei galon.

"COLLENE, GER TREFEURIG, Sul (Ionawr 9, 1839). Deffro yn foreu. Codi gwedi wyth. Yn farwaidd mewn dyledswydd, ond yn teimlo dymuniad am fod ar ben fy hun, yn dal cymdeithas a fy Nuw. Marwaidd hefyd yn y weddi deuluaidd. Oddeutu deg, myned tuag eglwys Llanharry; ac ar y ffordd meddwl am yr hyn a draethwn; ond gwedi hyny cefais ystyriaethau ddarfod i Dduw fy ngwneyd er ei ogoniant ei hun. Teimlwn ddiofalwch pa beth a ddeuai o honof, a pha beth a ddywedid am danaf, ond i mi gael fy ngynorthwyo i ogoneddu Duw. O Arglwydd, ai ni wnei ganiatau hyn i mi? Nid wyf yn gofyn am ddim arall mewn bywyd. Pe ei caniateid byddwn y dyn dedwyddaf o fewn y byd. Dwfn ddymuniad fy enaid yw bod yn ddim yn fy ngolwg fy hun, a byw i Dduw. Ond och! pan fyddwyf yn ymadroddi, fynychaf nis gallaf ganfod o ba le y mae yr ymadrodd yn tarddu; a yw yn tarddu oddiar ras, a chariad at Dduw, ynte oddiar yr arferiad o siarad. Myned i eglwys Llanharry gwedi un-ar-ddeg (yn agos i ddeuddeg). Teimlo ar y cyntaf yn gysglyd; gwedi hyny llanwyd fi oddimewn a thosturi at yr eneidiau oedd o'm cwmpas. Gwedi tri, myned allan, a gweled pobl ddeillion yn mhob man yn halogi Dydd yr Arglwydd mewn anwybodaeth, a chael fy llanw a thosturi atynt. Yna tynwyd fi allan i weddïo: O Arglwydd, anfon ddynion ffyddlon i'th winllan! O Arglwydd, ai nid ydwyt yn Dduw trugaredd? O, ai nid dy gariad a ddanfonodd dy Fab i'r byd ar y cyntaf? O, ai nid ydwyt eto yn parhau yn Dduw y cariad? O, ai nid ydwyt yn canfod dy greaduriaid tlawd mewn anwybodaeth o honot ti yn mhob man? Anfon weithwyr!' Wedi hyn, gorchfygwyd fi gan deimlad anniddig ac anfoddog, nes y darostyngwyd fi, wrth ganfod mor lleied o'r ddwyfol natur ynof. Ofnwn fyned i lefaru heno, gan fy mod wedi fy llenwi a meddyliau angharedig am gyfeillion anwyl, yn enwedig Mr. Edmund Jones. Daeth hunan i mewn, i holi beth a ddywedwn heno, gan ei fod ef (Edmund Jones, yn ddiau) wedi dyfod i'm gwrando. Myned i fysg y bobl o gwmpas chwech, pan oedd Mr. Henry Davies yn gweddïo, pan y dygwyd fi i deimlo mwy o'm hanneilyngdod, ac i ddymuno ar i rywun arall gymeryd y gwaith mewn llaw. O yr wyf wedi fforffetio pob ffafr; delir fi i fynu yn unig gan hyn, y gall Duw fy nghynal, ac nad yw yn rhoddi cymorth er fy mwyn i, ond er mwyn ei Fab. Y mae dau beth, y rhai, pe y caem olwg arnynt, a'n cyfnewidiai yn fawr; golwg arnom ein hunain, a golwg ar Dduw yn ei holl briodoleddau. Cynorthwywyd fi i orchfygu y teimlad slafaidd, hunangeisiol, o geisio boddhau dynion. Yn y man cefais ddrws agored, (dangosais) yn y modd mwyaf arswydus a chryf fel y caiff y duwiol fwynhau Duw mewn cariad, a'r annuwiol mewn dychryn, a hyny yn fwy argyhoeddiadol nag erioed, ac heb dderbyn wyneb. (Dangosais) o ba beth y mae uffern wedi cael ei gwneyd, a'r modd y mae rhieni yn dwyn eu plant i fynu." Wedi myned dros lawer o'r pethau a draethwyd ganddo, ychwanega: "Cefais ryddid ymadrodd mawr mewn gweddi ar y diwedd. Yr oeddwn yn wan iawn o ran fy nghorff o eisiau bwyta, ond gweddiais am nerth, A CHYNORTHWYWYD FI. Yn ganlynol, wedi mwynhau cymdeithas cyfeillion, i gyflawni fy llawenydd, derbyniais lythyr oddiwrth Mr. Whitefield. Ac wrth weled ei fod yn

un a mi mewn yspryd, yr hyn a brofais i yn fynych yn fy enaid tuag ato ef, er heb unrhyw obaith ei weled ef i lawr (yn Nghymru) na chlywed oddiwrtho, synwyd fi at ddaioni Duw." Ymddengys oddiwrth y difyniadau hyn, yn y rhai y lleda Howell Harris ei galon ger ein bron, fod Edmund Jones, Pontypŵl, yn dechreu dangos yr yspryd proselytio, a'r duedd i droi llafur y Diwygiwr yn fantais i'w enwad ei hun, am yr hyn y gweinyddir cerydd tyner iddo yn nes yn mlaen. Yn nhynerwch ei gydwybod beia Harris ei hunan am roddi lle i



ATHROFA'R IARLLES HUNTINGTON YN NHREFECCA.

[A gymerwyd allan o'r *Evangelical Register*, 1824.]

syniad o'r fath; ond daeth yn amlwg, yn mhen ychydig, fod y dybiaeth y gwrthodai roddi lle iddi yn ei fynwes yn sylfaenedig ar ffaith. Gwelir hefyd mai yn y Collene, yn Morganwg, ar y 9fed o Ionawr, y derbyniodd lythyr Mr. Whitefield, er i'r llythyr gael ei ysgrifenu y 26ain o Rhagfyr, y flwyddyn flaenorol. Rhaid cofio fod y trefniadau ynglyn a llythyrau y pryd hwnw yn anmherffaith iawn, a thebygol ddarfod i'r llythyr fyned yn nghyntaf i Drefecca, a chael ei ddanfon oddiyno ar ol Mr. Harris.

'TREFEURIG, Llun, Ionawr 10, 1739. Deffro yn fynych; medrwn godi, ond esgeulusais. Codi o gwmpas wyth. Yr wyf yn gobeithio y dygir fi i fuddugoliaeth lwyr ar y cnawd. Gweddi breifat; marwaidd, marwaidd; ond cefais benderfyniad i ddisgwyl. Wrth weled fod son am danaf wedi ymledu tros Loegr, ac mor barod yw fy nghalon i ymchwyddo, a pha mor arwynebol ydwyf, parwyd i mi lefain gyda gofid yn fy enaid: 'O Arglwydd, yr wyf yn ofni fod hyn oll yn tueddu i'm dinystr, o herwydd balchder fy nghalon fy hun. Mor llithrig yw y lle yr wyf yn sefyll arno! Diolch nad aethum o gwmpas er mwyn cael enw. O na fyddwn yn ddinod! Ond, O Arglwydd, yr wyf yn cyflwyno yr oll i ti. Yr wyf yn ewyllysgar i fyned os wyt ti yn fy anfon, digwydded y peth a ddigwyddo i mi. Gelli di ddarostwng holl falchder fy nghalon, a'm cadw yn ostyngedig. O Arglwydd, tosturia wrth y byd. Estyn einioes Mr. Whitefield, Mr. Griffith Jones, Mr. Edmund Jones, a dy holl rai ffyddlon. Os yw y Bedyddwyr yn cyfeiliorni, gosod hwy ar yr iawn. Na fydded hyn (bedydd) yn achlysur ymraniad yn ein

mysg. Bydded i ni oll fod yn un. O, yr wyf yn ofni dadleuon, ynghyd a'u canlyniadau i'r cywion (dychweledigion) ieuainc. Yr wyf yn dy glodfori am gynifer o rai ffyddlon. Ti wyddost, O Arglwydd, mor anghymwys wyf i fyned i'r cyhoedd: mor fach yw yr amser sydd genyf i ddarllen; ac mor ychydig o allu sydd genyf i dreulio ac i ddal. O, mi a hoffwn fod yn ddiwyd, ond gan na fedraf, yr wyf yn cyflwyno fy hun i ti; goleua di fi, ac arwain fi i bob gwirionedd. Bydded i mi gael rhagor o oleuni ar dy Air. Os ydwyf yn un o dy blant, bydded i mi deimlo mwy o ddyddordeb yn dy achos; yna mi a allwn dy glodfori yn dragywydd. Cynorthwya fi heddyw i fod yn hyf drosot ti, a gwared fi rhag yr anghenfil hwn, hunan.'"

Dydd Llun y mae yn gadael Trefeurig, ac yn croesi y mynydd heibio Tonyrefail, gan gyrhaedd Cymmer, yn Nghwm Rhondda, tua chanol dydd.

"Cymmer. Llefaru ar y ffordd. Ond fflachiadau yw y cwbl sydd yn perthyn i mi; nid yw yn tarddu oddiar gariad. Yr wyf yn gweled hunan o hyd yn chwerthin o herwydd gwendidau fy nghydgreaduriaid. O, beth wyf fi, fel y cawn fod yn yr un byd a saint Duw? Ond os gwneir fi rywbryd yn rhywbeth dros Grist, bydd er gogoniant tragywyddol rhad gariad. Ar y ffordd, clywed am un o'r Methodistiaid, cadben ar y môr, yn cynghori y milwyr. Llanwyd fy enaid a llawenydd am oriau o'r herwydd. Cefais hiraeth dwfn ac wylo yn fy enaid am Yspryd Duw. O na chawn dy Yspryd, Arglwydd; onide beth a wnaf a dy seiadau di? Yn Cymmer gwedi un, dechreu (trwy ddweyd) Ai nid yw dynion mewn carchar yn llawen wrth glywed am un i'w rhyddhau? A'r claf, wrth glywed am physygwr? Ond yr ydym ni yn farw, yn farw mewn pechod. Cymell i ymgadw rhag dawnsio a phob chwareuyddiaethau. Crist yn dwyn pechaduriaid ato ei hun trwy argyhoeddiad. Y gair (wrth argyhoeddi) yn gyffelyb i dân, i ordd, i oleuni, i gleddyf, ac i sebon. Cyfeirio at yr Iuddewon yn cael eu dwysbigo, ac at Nebuchodonosor. Nodau argyhoeddiad ydynt, golchiad y galon, tynu y galon oddiwrth bob peth ato ef, ein tynu i beidio ymddiried ynom ein hunain. Cael peth hyfrydwch a phleser yn y gwaith; rhyw gymaint o gariad at yr eneidiau, a thosturi atynt; ynghyd a hiraeth am Dduw. Rhoddodd Duw i ni hin hyfryd heddyw. Gwedi hyn argyhoeddwyd fi gan Mr. Henry Davies o fy anniolchgarwch i'r Arglwydd am yr help yr oedd yn roi, a'm bod o'r herwydd yn fforffetio'r cwbl; ac o'r ychydig gariad sydd yn fy enaid."

Boreu dydd Mawrth, Ionawr 11, y mae yn llefaru yn Cymmer drachefn, yn teithio rhyw bedair milldir ar hyd Cwm Rhondda, nes cyrhaedd Ynysyngharad, ger Pontypridd. Dydd Mercher, Ionawr 12, cawn ef wedi croesi y mynydd ar ei draws, ac yn y Parc, plwyf Eglwysilan; a phrydnhawn yr un dydd mewn lle o'r enw Tynycoed. Rhaid difynu rhan o'i ddydd-lyfr yma eto: "Cawsom dynerwch hyfryd, ac yspryd cariad at y bobl ieuainc; ac yr wyf yn gobeithio ddarfod cael rhai o honynt i Grist. Gwedi un, lleferais hyd o gwmpas pedwar. Cawsom heddyw eto yr hin yn hyfryd; nid yn aml y ceir y fath dywydd yr adeg hon o'r flwyddyn. Yr wyf yn gobeithio fod Duw gyda ni. Rhoddwyd i mi beth a ddywedwn; nid oeddwn wedi ei ragfeddwl, gan y bwriadwn lefaru ar fater arall. Gwedi hyny, myned tua Llanbradach Fach, ac ar y ffordd cael ymosod arnaf gan Fedyddiwr, yr hwn a geisiai bigo cweryl a mi. Teimlais oddimewn i mi wrthnaws at y ddadleuaeth, oblegyd ofn y canlyniadau. Nis gallaf ddweyd beth sydd yn peri fy mod yn cael fy yspryd yn fwy yn erbyn y rhai hyn na neb, oddigerth y Pabyddion. Yr wyf yn ofni fod penboethiaid yn eu mysg, y rhai, os na wel Duw yn dda eu darostwng, a wnant niwed i eglwys Crist. Ond yr wyf yn hwyrfrydig i gymeryd i fynu y pastwn yn eu herbyn; nid rhag ofn y ddadl, oblegyd yr wyf yn glir ar y mater, eithr rhag tynu i lawr waith hyfryd y diwygiad. Yr wyf yn gweled nodau y rhagrithiwr yn amlwg ar y penboethiaid yma. Yn un peth, y mae holl gyfeiriad eu hymddiddan tuag at hyn (bedydd), a dim ond ychydig am Grist. Yn ail, y mae eu cariad gwresog yn gyfyngedig i'r rhai o'r un opiniwn a hwy eu hunain; ond eiddo y dyn duwiol at holl aelodau eglwys Crist. Yn drydydd, y mae eu holl awyddfryd yn amlwg am wneyd proselytiaid iddynt eu hunain, ac awyddfryd y duwiol am ddwyn dychweledigion at Grist. O 7 hyd 11, noswaith anghyffredin o hyfryd; ni welais un mor hyfryd; o leiaf yr un yn fwy. Rhoddwyd i mi (yr hyn a ddywedwn); ond ni phrofais ddigon yn fy yspryd. Argoelion dymunol heno.

Llanbradach Fach, Dydd Iau (Ionawr 13). Dihuno yn foreu, a chodi am

naw. Cefais gymorth wrth edrych ar y groes. Yr wyf yn gobeithio fod ei angau ef yn marweiddio pechod ynof. Am ddeg, gweddi ddirgel, a chael fy narostwng gan deimlad o fawredd Duw, fel nas gallwn edrych i fynu. 'O Arglwydd, er mwyn Crist, ac nid er mwyn fy nagrau a'm gweddïau tlawd i (oblegyd yr wyf yn wael, fel y pryf gwaelaf sydd yn ymlusgo ar dy ddaear, yn ceisio hunan a phechod), ai ni rynga bodd i ti i'n cadw ni rhag dadleuon, oblegyd eu canlyniadau? O leiaf, Arglwydd, yr wyf yn dymuno ar i ti fy nghadw i allan o'r ddadl, a danfon rhywun arall i'w chymeryd mewn llaw. Ond os wyt yn fy anfon, yr wyf yn foddlon gwneyd pa beth bynag wyt ti yn ewyllysio.' Yna parwyd i fy enaid weled cymaint o ddaioni Duw, fel y tynwyd fi allan mewn clodforedd—'O Arglwydd, yn sicr dylwn dy folianu yn barhaus am yr hyn wyt wedi ei wneyd mor rhyfedd erof. A wnai di dderbyn fy mawl? Cadw fi yn isel, canys yr wyf oll yn bechod. Dyma fy ngweddi, tosturia wrthyf; yr wyf yn bwrw y cwbl arnat ti. Yr wyf yn ymddiried ynot, pan yr af i Gaerdydd, ar roddi i mi yr ymadrodd yno er dy ogoniant.'"

Yn nesaf, dydd Gwener, Ionawr 14, yr ydym yn ei gael yn Werndomen, ffermdy ger Caerphili. Yma eto y mae y Bedyddwyr yn ei flino. Ysgrifena: "O Arglwydd, yr wyf yn myned heddyw i lefaru; pa beth a wnaf ac a ddywedaf? A wnai di fy nghadw rhag dynion penboeth i boenydio fy enaid? Os mynet ti, Arglwydd, i mi newid fy marn, gad i mi weled dy ewyllys; ac os arweini di hwy ataf fi, bydded i mi fod yn gywir. O, bydded i ni gael cariad ac undeb. Yr wyt yn canfod nad wyf fi am ymresymu, os rhynga dy fodd di i'm cadw rhagddo. O, ni wnawn ymddadleu oni bai i ti fy anfon."

Gwedi hyn yr ydym heb hanes am dano hyd dydd Mercher, Ionawr 19, pan yr ydym yn ei gael yn Gwrhay, ger Mynyddislwyn. Ai rhan o'r dydd-lyfr sydd ar goll, ynte a ddarfu iddo ef beidio ysgrifenu, nis gwyddom. Nid oes genym ond dyfalu hefyd pa le y treuliodd yr amser cydrhwng, ond y mae yn fwy na thebyg iddo fyned i Gaerdydd fel yr arfaethasai. Dydd Iau, Ionawr 20, y mae yn Llanheiddel, ger Pontypŵl. Dydd Gwener, Ionawr 21, cawn ef yn Mlaenau Gwent; a'r Sul dilynol yn Llanbedr—Llanbedr, ger Crughywel, yn ol pob tebyg—heb fod yn nepell o'i gartref.

Gwelwn ei fod yn teithio ar draws gwlad, o orllewin Morganwg hyd y rhan ddwyreiniol o Fynwy, a bod y Parchedigion Edmund Jones, Pontypŵl, a Henry Davies, gydag ef am ran o'r daith. Ai Henry Davies, Bryngwrach, a olygir; ynte Henry Davies, gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llantrisant, sydd ansicr. Y mae y tebygolrwydd yn ffafr y diweddaf. Anmhosibl darllen ei ddyddlyfr heb deimlo fod ei holl fryd ar achub ei gydgenedl. Teimlir ei fod yn byw yn y byd ysprydol; prin y mae y ddaear a'i helynt yn bod iddo; ei berthynas â Duw, a'r gwaith mawr a pha un yr ymgymerasai, sydd wedi llyncu ei enaid. Er ei fod yn achwyn ar y Bedyddwyr, y mae yn amlwg na theimlai unrhyw chwerwder yspryd atynt. Ofni yr ydoedd fod rhoddi y fath arbenigrwydd y pryd hwnw ar fedydd, ac ymgolli mewn dadleuaeth mewn perthynas iddo, yn rhwystr ar ffordd cerbyd y diwygiad. Buasai ef yn hollol foddlawn i gydweithio a'r Bedyddwyr pe y gallent suddo ei hoff bwnc, ac ymroddi i gyhoeddi Crist yn Geidwad i bechaduriaid. Yr ydym trwy y dydd-lyfr yn gallu edrych i mewn i ddyfnderoedd ei galon; y mae cilfachau pellaf ei yspryd yn cael eu datguddio; braidd nad yw yn tueddu i ddwyn i'r wyneb ei feiau yn hytrach na'i rinweddau; a gwelwn mor syml yr ydoedd, mor ostyngedig, ac mor awyddus am gadw ei hunan i lawr, ac i roddi yr holl glod i Dduw. Mor bell ag y gallwn gasglu oddiwrth y nodiadau a geir, gwasgarog oedd ei bregethau; ni ddangosent feddylgarwch dwfn, ac nid ymdriniai ynddynt o gwbl a phynciau duwinyddol dyfnion. Ond yr oedd saeth ar flaen pob brawddeg, yr hon a anelai yn syth at galonau pechaduriaid; a thaflai yntau ei holl yspryd i'r gwaith pan yn tynu yn y bwa, fel nad oedd yn rhyfedd fod dynion wrth yr ugeiniau a'r canoedd yn cael eu clwyfo.

"Dewch, gwrandewch ef yn pregethu,
 Calon ddrwg, lygredig dyn,
Ac yn olrhain troion anial,
 A dichellion sy' yno ynglyn;
Dod i'r goleu a dirgelion
 I rai duwiol oedd yn nghudd,
Agor hen 'stafelloedd tywyll
 Angau glas, i oleu'r dydd.

Dewch, gwrandewch ef yn agoryd
 Dyfnder iachawdwriaeth gras,
Gosod allan y Messiah
 Yn y lliw hyfryta 'maes;
Ac yn dodi'r cystuddiedig,
 Ag sy'n ofni ei ras a'i rym
Fel i chwerthin o orfoledd,
 Ac i 'mado heb ofni dim."

Ymddengys ddarfod i Harris dreulio mis Chwefror, 1739, yn ymweled a gwahanol leoedd yn siroedd Brycheiniog, Maesyfed, a gogledd-orllewin Morganwg; felly y dengys ei ddydd-lyfr. Nid anhebyg iddo gael ei rwystro i fyned i'r Gogledd, fel y bwriadasai, gan lythyr oddiwrth Mr. Whitefield, yn addaw dyfod i Gymru. Ymglymasai calonau y ddau yn rhyfedd, er nad oeddynt wedi gweled eu gilydd yn y cnawd. Cychwynodd Whitefield o Bryste Mawrth 6. Ffaith ddyddorol yn ei hanes yw mai rhyw bythefnos cyn hyny y pregethasai gyntaf yn yr awyr agored, a hyny i lowyr Bryste, pan yr oedd holl eglwysi y ddinas wedi cael eu cau yn ei erbyn. O hyn allan, pregethai pa le bynag y cai gyfleustra, heb holi pa un a oedd esgob wedi cysegru y ddaear â halen ai peidio. Er ei bod yn gynar yn y flwyddyn, a'r hin mewn canlyniad yn oer, tyrai miloedd i'w wrando yn Mryste; ar un amgylchiad dywed fod tuag wyth mil o bobl yn bresenol, tra y llefarai ar *bowling green* a fenthycasid iddo. Yr oedd hefyd newydd gyfarfod a'r Hybarch Griffith Jones, Llanddowror, yn Bath, gan yr hwn y cawsai hanes Cymru, ac yn ol pob tebyg hanes manylach am Howell Harris, a'r gwahanol rwystrau ar ffordd llwyddiant yr efengyl yn y Dywysogaeth. Teimlai Whitefield ei galon yn cynhesu at yr hen filwr, a chafodd ei argyhoeddi nad oedd ef ond milwr dibrofiad iawn eto. Yn nghwmni ei gydymaith, Mr. William Seward cyrhaeddodd y *New Passage* prydnhawn dydd Llun, Mawrth 6. Yma cyfarfuant a'r Parch. Nathaniel Well, offeiriad Caerdydd, yr hwn a deimlai y fath lid at y Methodistiaid, fel na wnai groesi yn yr un cwch a'r ddau efengylwr. Ond o herwydd tywydd ystormus, gorfodwyd hwy i aros yma am ddeuddeg awr, ac nid oedd gan Mr. Well well ffordd i dreulio ei amser na thrwy chwareu cardiau. Achwynai Mr. Well fod y ddau yn canu hymnau pan yn croesi y sianel, fel yr oedd y llywiwr yn methu clywed llais y dyn oedd yn gwylio, nes y bu raid eu rhwystro. Sicrhai hefyd na chai Mr. Whitefield ei eglwys i bregethu ynddi. "Gobeithio," meddai William Seward, "fod y meusydd yn wynion yn Nghaerdydd, fel ag yn Mryste. Y mae yno hefyd seiat yn disgwyl am danom." Awgryma hyn fod eglwys Fethodistaidd wedi cael ei sefydlu yn barod yn Nghaerdydd trwy offerynoliaeth Howell Harris. Cyrhaeddodd Whitefield a Seward Gaerdydd o gwmpas un-ar-ddeg dydd Mercher. Dechreuodd Whitefield ar unwaith gynghori y bobl oedd yn y gwest-dy, tra yr aeth Seward i chwilio am le i bregethu ynddo. Cafodd, trwy ryw ddylanwad, neuadd y dref, a phregethodd Whitefield o sedd y barnwr i gynulleidfa o bedwar cant; gwrandawai y rhan fwyaf yn sylwgar, ond gwatwarai rhai. Gyda ei fod yn disgyn o'i sedd, pwy a welai ond Howell Harris. Teithiasai Harris trwy Gwm Tâf Fawr, ac arosai y nos flaenorol yn Eglwysilan, nid anhebyg yn nhŷ Mr. David Williams. Y cwestiwn cyntaf a ofynodd i'r Diwygiwr Cymreig oedd: "A ydych yn gwybod fod eich pechodau wedi cael eu maddeu?" Prin y medrai Harris ateb, gan mor sydyn y daeth y gofyniad ar ei draws. "Pan gyntaf y gwelais ef," meddai Whitefield, "ymglymodd fy nghalon am dano; yr oedd arnaf eisiau derbyn rhyw gymaint o'i dân; a rhoddais iddo ddeheulaw cymdeithas a'm holl galon. Treuliasom yr hwyr mewn adrodd y naill wrth y llall beth oedd Duw wedi ei wneyd i'n henaid; cymerasom i ystyriaeth hefyd achosion y gwahanol seiadau; a chytunasom ar y mesurau hyny ag a ymddangosai y mwyaf tebygol i lwyddo gwaith ein Harglwydd." Gwelir yma fel yr ymgynghorai y Diwygwyr a'u gilydd; a'r ymgynghoriadau anffurfiol hyn a ymddadblygasant yn raddol i fod yn gyfansoddiad trefnus, gyda Chymdeithasfa a Chyfarfodydd Misol. Treuliwyd boreu dydd Iau, Mawrth 9, mewn gweddi ac ymddiddan gydag aelodau y seiat yn Nghaerdydd. Am ddeg, pregethai Whitefield yn neuadd y dref i gynulleidfa fawr, gydag Harris yn eistedd yn glos wrth ei ochr. Tra y llefarai, yr oedd rhyw greaduriaid anystyriol oddiallan yn llusgo llwynog marw o gwmpas, ac yn ceisio cael y cŵn cadnaw i'w hela, i rwystro'r odfa. Wedi gorphen, aeth y ddau Ddiwygiwr, yn nghwmni dau weinidog Ymneillduol, i wasanaeth a gynhelid yn yr eglwys. Ysgrifena Whitefield yn ei ddydd-lyfr am Howell Harris: "Goleuni dysglaer a llosgedig a fu efe yn y rhan hon o'r wlad; gwrthglawdd yn erbyn cabledd ac anfoesoldeb; a gweithiwr difefl yn efengyl Iesu Grist. Er ys rhyw dair neu bedair blynedd y mae Duw wedi ei dueddu i fyned o gwmpas i wneyd daioni. Y mae yn awr o gwmpas pum'-mlwydd-ar-hugain oed. Ddwy waith appeliodd am urddau sanctaidd, a chafodd ei wrthod ar yr honiad twyllodrus nad oedd mewn oed, er ei fod y pryd hwnw yn ddwy-flwydd-ar-hugain a

chwech mis. Tua mis yn ol cynygiodd ei hun drachefn, ond trowyd ef heibio. Er hyn y mae yn benderfynol i fyned yn y blaen gyda'i waith. Er ys tair blynedd y mae wedi llefaru braidd ddwy waith bron bob dydd, am dair neu bedair awr o'r bron, nid yn awdurdodol fel gweinidog, ond fel person preifat yn cynghori ei frodyr. Y mae wedi teithio saith sir, gan fyned i wylnosau, &c., er troi y bobl oddiwrth wagedd a chelwydd. Llawer o bobl y tafarndai, ynghyd a'r ffidleriaid, a'r telynwyr, a achwynant arno am spwylo eu galwedigaeth. Gwnaed ef yn wrthrych seiadau, a pharha cylch ei ddefnyddioldeb i ymeangu. Y mae yn llawn o ffydd, ac o'r Yspryd Glan."

Yr ydym wedi difynu mor helaeth o'r dydd-lyfr, am y ceir ynddo gryn lawer o hanes Howell Harris, ac hefyd am y dengys deimlad cynes Whitefield tuag ato. Telmlai Harris lawn mor gynes ato yntau. Dywed ei fod yn ei garu am ei fod ef yn caru yr Arglwydd Iesu. Ymddengys ddarfod i Howell Harris bregethu yn Nghaerdydd yn ogystal, a dywed iddo wneyd gyda gradd o awdurdod. Dydd Gwener, y maent yn gadael Caerdydd, ac



ATHROFA IARLLES HUNTINGTON, FEL Y MAE YN BRESENOL.

lliaws o bregethau; bygythiwyd ef ag erlyniad cyfreithiol, ac anfonwyd cwnstebli i'w ddal. Ond y mae Duw wedi ei fendithio a dewrder anhyblyg; ac y mae yn parhau i fyned yn ei flaen o fuddugoliaeth i fuddugoliaeth. Y mae o'r yspryd mwyaf catholig, yn caru pawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist; ac felly gelwir ef gan benboethiaid yn Ddisenter. Geilw llawer ef yn dad ysprydol, a rhoddent, yr wyf yn credu, eu bywydau i lawr drosto. Llefara fynychaf mewn maes, bryd arall mewn tŷ, oddiar fur, bwrdd, neu rywbeth arall. Y mae wedi sefydlu tua deg-ar-hugain o yn cyrhaedd Casnewydd. Cafodd Whitefield bwlpud yr eglwys yno; daeth llu o Bontypwl a manau eraill i'w wrando; a chyfrifid y gynulleidfa yn fil o bobl. Aeth Howell Harris gydag ef i Fryste; treuliodd yno ac yn Bath, lle y gwasanaethai Griffith Jones ar y pryd, o ddydd Sadwrn hyd ddydd Mercher, gan bregethu i'r glowyr ar y maes, ac yn y seiadau yn ogystal. Diau fod angerddolrwydd ei yspryd, a'r tân Cymreig a fflamiai o'i fewn, yn synu y Saeson, ac yn dylanwadu yn fawr arnynt. Cyn dychwelyd, cyflwynodd Mr. Seward oriawr iddo, fel prawf o'i serch. Dydd Iau,

Mawrth 16, cawn ef yn llefaru yn Eglwys-newydd, tair milldir o Gaerdydd; dydd Gwener y mae yn Mhontypŵl, dydd Sadwrn yn Llanfihangel, yn yr un gymydogaeth; y Sul yn Mynyddislwyn: yn Maesaleg, ger Casnewydd, y Llun; yn Pentre Bach dydd Mawrth, yn St. Bride dydd Mercher, yn ol yn Nghaerdydd dydd Iau, yn Ynys-yngharad, ger Pontypridd, y Sadwrn, yn Parc Eglwysilan y Sul, yn Llanwono y Llun, Aberdâr dydd Mawrth, Cwmyglo, ger Merthyr Tydfil, dydd Mercher, a nos yr un dydd yn Faenor, yr ochr arall i Ferthyr, a dydd Iau, Mawrth 30, y mae yn Cantref, wrth waelod Bannau Brycheiniog, o fewn taith diwrnod i'w gartref. Cyrhaeddodd Drefecca yn ddiau y dydd canlynol, wedi taith o rhwng tair wythnos a mis.

Eithr nid oedd gorphwys i was yr Arglwydd. Llai nag wythnos a gafodd yn ei artref, oblegyd, Ebrill 5, yr ydym yn ei gael drachefn yn Brynbiga (Usk), yn Sir Fynwy, yn cyfarfod Whitefield ar ei ail ymweliad â Chymru. Gwrthodwyd yr eglwys iddynt yno; a phregethodd Whitefield oddiar fwrdd dan gysgod coeden fawr, a Harris ar ei ol yn Gymraeg. Dilynwyd hwy gan osgordd o tua haner cant o wŷr i Bontypŵl; cawsant yr eglwys yno; ond gan nad oedd lle i'r lliaws a ymgynullasai yn yr adeilad, pregethasant drachefn ar y maes. Yn nghwmni tua deg-ar-hugain o wŷr ceffylau, aethant i'r Fenni; cyffelybai Whitefield hwy i Joshua a'i fyddin yn goresgyn gwlad Canaan. Cawsant gynulleidfa o tua dwy fil yn yr awyr agored, ac nid arbedasant y gwatwarwyr bonheddig wrth lefaru. Disgwyliasent gynhwrf yn y Fenni, ond ni feiddiodd neb agor ei enau i'w herbyn. Cawn hwy yn myned oddiyno i Cwm Iau, at yr offeiriad duwiol, Mr. Jones; ond yr oedd y gynulleidfa yn rhy fawr i'r eglwys, a llefarasant yn y fynwent. Gwaith un dydd oedd hyn oll. Ebrill 6, cyrhaeddasant Gaerlleon-ar-Wysg, yn nghwmni tua thriugain o wŷr ceffylau, "yr hon dref," meddai Whitefield, "sydd yn enwog am fod deg-ar-hugain o frenhinoedd Prydeinig wedi eu claddu ynddi, a'i bod wedi cynyrchu tri o ferthyron ardderchog." Mewn maes yma yr oedd pwlpud wedi ei godi i Howell Harris pan yr ymwelasai a'r lle yn flaenorol; yn hwn y darfu i'r ddau bregethu yn awr; daethai miloedd i wrando, ond ni feiddiodd neb aflonyddu, er iddynt guro drwm a bloeddio pan y buasai Harris yma o'r blaen. Odfa ryfedd oedd hon, fel yr ymddengys. "Rhoddodd Duw i mi y fath gymorth anarferol," meddai Whitefield, "fel y cefais fy nghario yn mhell tu hwnt i mi fy hun." Ychwanega: "Gweddïais dros Howell Harris erbyn ei enw, fel yr wyf wedi gwneyd yn mhob lle y pregethais ynddo yn Nghymru. Na ato Duw i mi gywilyddio o herwydd fy Meistr na'i weision." Tebyg y cyfeiria at y ffaith fod Harris yn pregethu heb urddau. Priodola y *Gloucester Journal*, am Ebrill 24, 1739, fawredd y cynulleidfaoedd i serch personol at Mr. Whitefield, ac hefyd i'r athrawiaeth am yr enedigaeth newydd a bregethai. Prawf hyn mai ychydig o son oedd am ailenedigaeth yn mhwlpudau yr Eglwys. O Gaerlleon aethant i Trelech; y gareg farch, ger y gwest-dŷ, oedd eu pwlpud yno. Cawsant fynedfa i'r eglwys yn Nghaergwent, y dref Gymreig olaf iddynt ar y daith hon, a chawn hwy, Ebrill 9, yn cyrhaedd Caerloyw.

Yn y ddinas hon naceid yr eglwysi i Whitefield, y naill ar ol y llall, er mai dyma ei le genedigol; cymerodd yntau y maes, gyda Howell Harris wrth ei ochr, ac yr oedd eu cynulleidfaoedd yn fynych yn rhifo o dair i bedair mil. Fel hyn yr ysgrifena Whitefield: "Llefed y neb a fyno yn erbyn fy nghyndynrwydd, nis gallaf weled fy anwyl gydwladwyr a'm cydgristionogion yn mhob man yn suddo i ddinystr, o herwydd anwybodaeth ac angrhediniaeth, heb wneyd fy ngoreu i'w hargyhoeddi. Yr wyf yn galw ar y rhai sydd yn ceisio fy rhwystro i ddwyn yn mlaen reswm dros eu gwaith; rheswm nid yn unig a foddlona ddynion, ond Duw. Aelod o Eglwys Loegr ydwyf fi. Yr wyf yn dilyn yn glos ei herthyglau a'i homiliau; a phe y gwnelai fy ngwrthwynebwyr yr un peth, ni fyddai cymaint o Ymneillduwyr oddiwrthi. Ond y mae yn gyffredinol hysbys fod y wlad yn galaru oblegyd anwiredd yr offeiriaid. Yr ydym (ni yr offeiriaid) wedi pregethu a byw llawer o ddynion difrifol allan o'n cymundeb. Yr wyf wedi ymddiddan a nifer o oreuon y gwahanol enwadau, ac y mae llawer o honynt wedi tystio yn ddifrifol ddarfod iddynt adael yr Eglwys am na chaent yno fwyd i'w henaid. Arosasant yn ein mysg nes iddynt gael eu newynu allan." Geiriau ofnadwy o ddifrifol, ac yr ydym yn eu difynu am eu bod yn wir i'r llythyren gyda golwg ar Gymru. Darfu i'r Methodistiaid, a chorff y genedl gyda hwy, adael yr

Eglwys Wladol, nid oblegyd syniadau neillduol gyda golwg ar berthynas yr Eglwys a'r wladwriaeth, ond oblegyd fod eu heneidiau yn rhynu ac yn newynu i farwolaeth o'i mewn. Newyn am efengyl oedd yn yr Eglwys; yno cynygid careg i'r bobl yn lle bara, ac aethant hwythau i'r meusydd, lle yr oedd gwirionedd Duw yn cael ei bregethu gan ddynion ffyddlon. Un o feibion ffyddlonaf Eglwys Loegr oedd Howell Harris; nid yw byth yn blino mynegu hyny; ond parodd anfoesoldeb buchedd, a difaterwch yr offeiriaid, iddo fod yn flaenllaw gyda mudiad a wagháodd yr eglwysi ar hyd a lled y wlad.

Ond i ddychwelyd, aeth Howell Harris gyda Whitefield i Lundain. Pregethent ar y ffordd, ac yr oedd nid yn unig tân, ond hefyd beiddgarwch penderfynol y Cymro o fantais ddirfawr. Yn nghymydogaeth Bryste, rhwystrwyd Whitefield i lefaru gan branciau a gwatwaredd rhyw chwareuwr, a bu raid iddo roddi i fynu. Neidiodd Harris i'r pwlpud, a chymerodd yn destun: "Daeth dydd mawr ei ddigter ef, a phwy a ddichon sefyll?" Meddai y gwatwarwr annuwiol: "Fe safa i." "Beth!" llefai Harris, a'i lygaid yn melltenu yn ei ben, ac arswyd yn eistedd ar ei wedd; "Y ti sefyll! Y ti, brifyn diddim a gwael y fath ag wyt, sefyll o flaen llid yr Anfeidrol!" Cwympodd y dyn fel marw i'r ddaear, a dywedir na adawodd y cryndod mo hono tra y bu byw. Cyrhaeddodd y Diwygwyr Lundain Ebrill 25, lle yr arhosodd Harris hyd ddechreu Mehefin. Tra yn y Brifddinas, elai yn fynych gyda Mr. Whitefield i gymdeithas grefyddol y Morafiaid yn Fetter Lane. Perthynai nifer o ddynion duwiol a da i'r gymdeithas hon, ac yn eu mysg amrai o fonedd y tir, megys Arglwydd ac Arglwyddes Huntington, Syr John Phillips, y Cymro o Sir Benfro, a brawd-yn-nghyfraith Griffith Jones, &c. Diau i Harris yma gael cymundeb wrth fodd ei galon. Cyffröid y gymdeithas ar y pryd gan y cwestiwn o hawl lleygwyr i bregethu. Meddai Charles Wesley, yn ei ddydd-lyfr: "Cyfododd dadl gyda golwg ar bregethu lleygwyr; yr oedd amryw yn zelog drosto; ond darfu i mi a Mr. Whitefield sefyll yn gryf yn erbyn." Yn raddol, pa fodd bynag, daeth Whitefield yn fwy cymhedrol; cawn ef yn ysgrifenu mewn llythyr at John Wesley, dyddiedig Mehefin 25, 1739: "Yr wyf yn oedi barn ar ymddygiad y brodyr Cennick a Watkins, hyd nes y deallaf yr amgylchiadau yn well. Y mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt hwy a Howell Harris. Y mae efe wedi ceisio urddau sanctaidd dair gwaith; bydd i mi ei gefnogi ef ynghyd a'r cyfeillion yn Nghaergrawnt." Rhoisai Harris y seiadau a ffurfiasid trwy ei offerynoliaeth dan ofal dynion ffyddlon, y rhai oeddynt i'w harolygu, ac i anfon gwybodaeth o'u hansawdd iddo ef i Lundain. Yn mysg y rhai hyn yr oedd Meistri James Roberts; David Williams, Watford; Edmund Jones; a Henry Davies. Ysgrifena James Roberts ato Ebrill 17, 1739, ac y mae tôn ei lythyr braidd yn gellweirus: "Fy anwyl Howell," meddai, "gadewch i mi fod dipyn yn siriol gyda chwi. Yr ydych yn fath o Arolygydd, neu Arglwydd Archesgob, mewn amrai siroedd; felly, priodol i'ch caplan tlawd, yr hwn sydd wedi ufuddhau i'ch arch, ac wedi ysgrifenu y llythyr, o ba un y mae copi yn cael ei amgau i chwi, yw eich hysbysu am y modd y cyflawna ei ddyledswyddau." Y "llythyr" oedd cenadwri at yr eglwysi yn Longtown, Llandefathen, Crugcadarn, a Gwendwr. Ysgrifena Mr. Edmund Jones lythyr ato Mai 21, 1739, o ba un y difynwn a ganlyn: "Yr wyf wedi bod o gwmpas eich seiadau fel gwyliwr, i edrych sut yr oeddynt yn dod yn mlaen, a pha un a oedd y diafol yn ceisio eu niweidio; a gallaf ddweyd, diolch i Dduw, i mi gael y cwbl yn llwyddianus. Ni chefais gymaint o bresenoldeb Duw er ys blynyddoedd ag a gefais ar y daith hon; yn enwedig yn Maesyronen, yn y weddi yn Gwendwr, y Sul yn Nhredwstan, a'r Llun yn Grwynefechan. Y mae eich cyfeillion yn Mrycheiniog yn hiraethu am eich gweled. Cefais nerth gan Dduw wrth weddïo drosoch yn Grwynefechan. Y mae y *warrant* yn eich erbyn wedi dyfod i ddim. Ni wnai y Cynghorwr Gwynn gyffwrdd a hi, na neb o'r ustusiaid, ond yr ustusiaid offeiriadol; yr oedd Price Davies (offeiriad Talgarth) yn neillduol i'w weled yn eich erbyn; ond llwfrhasant, ac ymddangosent fel yn cywilyddio. O'r braidd y darfu i'r offeiriad James, o Lanamwch, yr hwn oedd mor weithgar yn eich erbyn, ddianc rhag boddi ychydig yn ol, yr hyn a haedda sylw. Yr wyf wedi ceisio gan y dynion ieuainc, perthynol i'r seiadau, i weddïo yn benodol dros y boneddwyr a safasant o'ch plaid." Profa y llythyrau hyn amryw bethau; (1) Fod yr Eglwyswyr, yn arbenig y personiaid, yn llawn llid eto yn erbyn

Howell Harris, ac yn awyddus am ei gospi, pe y medrent. (2) Fod boneddy wlad yn dechreu troi o blaid y diwygiad mewn amrywiol leoedd. (3) Fod Harris yn barod wedi sefydlu nifer o seiadau, y rhai oeddynt yn hollol ar wahan i'r eglwysi Ymneillduol oedd yn flaenorol yn y wlad, ac nad oedd y gweinidogion Anghydffurfiol hyd yn hyn yn eiddigus o'r herwydd.

Yn mis Mehefin, cawn Harris yn canu yn iach i'w gyfeillion yn Llundain, ac yn cyrhaedd Trefecca. Heb orphwys ond noson yn nhŷ ei fam, cychwyna i'r Fenni; yr oedd cymdeithas y brodyr yno mor felus, fel na ledrodd gyrhaedd adref hyd yr hwyr; ac yna bu yn ysgrifenu hyd un o'r gloch. Tranoeth pregetha ddwy waith yn y Gelli, Brycheiniog. Y dydd canlynol, wyneba ar gynulliad annuwiol yn Longtown, Sir Henffordd; gyda ei fod ar ymyl y dorf, clywodd ddyn yn rhegu, a cheryddodd ef yn llym. Aeth y si trwy yr holl le fod Howell Harris yno, a daeth torf o ryw ddwy fil o'i gwmpas. "Rhoddodd yr Arglwydd nerth i mi i ymosod ar y diafol ar ei randir ei hun," meddai; "gosododd fy wyneb fel callestr, gan fy llanw o'r hyn a ddywedwn. Yn enwedig, pan welais rai boneddwyr a boneddigesau yn dyfod i wrando, gwnaed fi yn gryfach gryfach i ddarostwng eu balchder." Appeliodd hefyd at yr ynadon, ac at offeiriad y plwyf, gan ofyn iddynt pa fodd y rhoddent gyfrif o'u goruchwyliaeth, gan eu bod yn cefnogi tyngu, a meddwdod. Chwarddodd rhai o'r boneddwyr; "tynwch y clebrwr i lawr," meddai un arall; "ond ni ddaethai fy amser eto," meddai. Wedi pregethu mewn amryw fanau, aeth i Bontypŵl, lle y llefarodd am wroldeb Daniel, a'r tri llanc, ac fel yr oedd yr Arglwydd wedi sefyll o blaid ei bobl yn nydd y frwydr. Eithr erbyn hyn yr oedd yspryd erlid wedi ei ddeffro yn Mhontypŵl. Daeth ustus heddwch ar draws y gynulleidfa ac yntau, gan ddarllen deddf terfysg, a gorchymyn iddynt ymwahanu mewn awr o amser. Addawodd yntau y gwnaent; ond gofynodd iddo a oedd yn arfer darllen deddf terfysg yn y gwahanol gampau, ac yn yr ymladdfeydd ceiliogod? Rhoddwyd ar gwnstab hefyd i gymeryd Harris i fynu. Mynai ef fyned i'r carchar, ond perswadiwyd ef i roddi meichiau, y gwnai ymddangos yn Sessiwn Trefynwy. Cymerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddo a'r ustus:—

Harris: "Nid oeddwn yn disgwyl mai mab yr Uchgadben H—— fuasai y cyntaf i ymosod ar gynulleidfa o Brotestaniaid heddychol; oblegyd dyn hynaws oedd efe."

Ustus: "Yr wyf wedi derbyn fy nghyfarwyddyd oddiuchod."

"Ai o'r nefoedd ydych yn feddwl?"


"Na, nid oeddwn yn golygu hyny."

"Dywedais wrtho," meddai Harris, "Pe y gwybuai ei fawrhydi mor deyrngar a diniwed ydym, na wnai feddwl yn uwch o hono ef am ein gorthrymu. Felly gadewais ef, wedi gadael rhai saethau yn ei gydwybod, a i adgofio y rhaid iddo yntau roddi cyfrif gerbron gorsedd ofnadwy; ond y gwnawn weddio drosto; a diolchodd yntau i mi." Yr oedd hyn ganol Mehefin, ac nid oedd y Sessiwn yn Nhrefynwy cyn Awst. Yn y cyfamser aeth Harris i Fryste, a phregethodd yno i gynulleidfa o Gymry. Cyfarfyddodd yno hefyd am y tro cyntaf â John Wesley. Ymddengys fod peth rhagfarn yn ei feddwl at John Wesley, am nad oedd yn dal yr athrawiaeth o etholedigaeth, a pharhâd mewn gras; nid anhebyg hefyd i'r rhagfarn gael ei ychwanegu gan Mr. Seward, yr hwn oedd wedi cwympo allan a Charles Wesley. Pregethai Mr. Wesley ar Esaiah xlv. 22: "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber; canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall." Cyhoeddai y gwirionedd mawr am gyfiawnhâd trwy ffydd mor ddifloesgni a chlir, ynghyd a'r angenrheidrwydd, y fraint, a'r ddyledswydd o edrych at Iesu am gyfiawnder a nerth; ac yr oedd y fath ddylanwad nefol yn deimladwy yn yr odfa, fel y toddodd holl ragfarn Harris; ac er anghytuno ag ef gwedi hyn, nid amheuodd byth fod John Wesley yn weinidog Crist. Aeth yn ganlynol i ymweled ag ef yn ei lety, a phan y gwnaeth ei hun yn hysbys, syrthiodd Wesley ar ei liniau i weddïo drosto gerfydd ei enw, a thros Griffith Jones, a thros Gymru. Bu y ddau yn gyfeillion mwy hyd eu bedd.

Gwedi teithio rhanau helaeth o Gymru, dychwelodd i Drefynwy yn brydlon erbyn y Sessiwn. Teimlai yn bryderus ac yn isel ei yspryd; gwyddai nad oedd ganddo nac arian na chyfeillion i wynebu ar brawf costus; ac ofnai fod yr erledigaeth yn brawf nad oedd wedi cael ei alw i gynghori, a'i fod fel yr honai yr offeiriaid yn rhedeg heb gael ei anfon. Ond pan ddaeth i'r dref llonwyd ei galon; cyffroasai yr Arglwydd feddwl nifer mawr o ddynion da i ddod yno i'w bleidio, o Lundain, Caerloyw, a rhanau o Gymru. Yn ngwyneb

y teimlad cyhoeddus, ac yn ddiau dan argyhoeddiad fod y gyfraith yn eu herbyn, gadawodd yr ustusiaid yr achos i syrthio; a chafodd Harris ymadael heb na dirwy na charchar. Diau i'r helynt brofi yn fantais ddirfawr i'r diwygiad; gwelwyd na ellid ei osod i lawr trwy gyfrwng cyfraith y wlad. Enynodd sirioldeb difesur hefyd yn mynwes Howell Harris; symudwyd ei ofnau, a chwbl gredodd y mynai yr Arglwydd iddo deithio o gwmpas i gynghori pechaduriaid. Nid oedd neb a lawenychai yn fwy na Whitefield. Ysgrifena o Philadelphia: "Yr wyf yn eich llongyfarch ar eich llwyddiant yn Nhrefynwy. Yn mhen tua deuddeg mis, os myn Duw, yr wyf am wneyd defnydd o'ch maes-bwlpudau eto. Y mae ein hegwyddorion yn cyduno fel yr etyb wyneb i wyneb mewn dwfr."

Siroedd Morganwg a Mynwy a gawsant y rhan fwyaf o lafur Howell Harris yn ystod 1738, 1739; yr ydym wedi crybwyll eisioes am effeithiau ei weinidogaeth yn Mynwy, a Dwyrain Morganwg, ac ymddengys i'r unrhyw ddylanwadau ei ganlyn i Orllewin Morganwg. Bu yn offeryn i ddeffro y wlad o gwr i gwr; mentrodd i ganol y gwylmabsantau a'r ffeiriau annuwiol, gan yru ofn ar weithredwyr anwiredd; daeth ei enw yn ddychryn i'r campwyr, a sefydlodd nifer mawr o seiadau. A gwnaeth hyn oll heb nemawr gymorth dynol; efe ei hun, a phresenoldeb ei Dduw gydag ef, a gynyrchodd y chwildroad; ychydig iawn o gymorth a gafodd gan yr offeiriaid, na chan y gweinidogion Ymneillduol. At ychydig o'i orchestion yn unig y cawn gyfeirio. Adroddir am dano yn pregethu mewn ffair yn Cruglas, ger Abertawe. Yr oedd terfysg y ffair yn ddirfawr, y swn yn ddigon i ferwino clustiau, a'r ymladdfeydd yn waedlyd a chreulon. Buasai dyn cyffredin yn cael ei lethu gan ddychryn, ond ni wnai hyn ond awchu zêl Harris. Cododd i fynu ynghanol y berw, a'r olwg arno mor arswydlawn a phe buasai yn ymgorfforiad o ddychrynfeydd Sinai; taflodd olwg lem ar y twmpath chwareu, a dechreuodd weddïo. Yn raddol y mae difrifwch ei wedd, treiddgarwch ei lais, a thaerni ei weddi yn enill sylw; llonydda y berw fel



ATHROFA TREFECCA: GOLYGFA DDWYRAIN-OGLEDDOL.

pe y tywelltyd olew ar ddyfroedd cyffrous; cywilyddia y chwareuwyr ac ymeifl dychryn ynddynt; a dyma hwy yn dianc oddiar y maes fel pe eu hymlidyd gan ellyllon. Pan welodd y telynwr ddarfod iddo gael ei adael, rhoes yntau ei offer heibio ac ymadawodd. Yn mysg y rhai oedd yn bresenol y pryd hwnw yr oedd creadur annuwiol a elwid "Rotsh o'r Gadle." Ymddengys i saeth lynu yn ei gydwybod yntau, ond ni adawodd ei ffyrdd drygionus. Gwyddai ei fod ar ffordd na ddylai, ond ni chefnai arni. Dywedir ei fod unwaith wedi gwario ei holl arian ar ei flysiau, ac na wyddai pa fodd i fyned yn y blaen. Tybiai y dylasai yr hwn a wasanaethai mor egniol ei gynorthwyo, a chyfarchai y "gwr drwg:" "Wel, yr wy' i wedi bod yn was ffyddlawn i ti, gad i mi wel'd fath feistr wyt ti; dod rywfaint o arian yn fy het." Yna rhoddai ei het i lawr, a chiliai oddiwrthi encyd o ffordd. Yn mhen enyd, dychwelai ati eilwaith, i gael gweled beth oedd ynddi. Wedi ei chael yn wag, troai i edliw a'r diafol, gan ddweyd: "Mi welaf mai meistr caled ydwyt wedi'r cyfan." Pa foddion a ddefnyddiwyd i'w ddwyn ato ei hun ni wyddis i sicrwydd. Aeth ryw foreu Sul i gyrchu y cwn hela ar gyfer tranoeth; nid anhebyg i eiriau Howell Harris drywanu ei galon ar y ffordd; pa fodd bynag, daeth yn ei ol heb y cwn, ac aeth i'w wely, dan arteithiau euogrwydd anamgyffredadwy. Yr oedd wedi cael ei ddal megys a gwys oddiuchod; a fflangellid ef megys ag ysgorpionau. At hyn y cyfeiriai gwedi hyny wrth ganu:—

"Pan oeddwn ar fy ngwely,
Un prydnhawn,
Heb feddwl dim ond pechu,
Un prydnhawn,
Fe ddaeth ei danllyd saethau,
Y ddeddf a'i dychryniadau,
I'm tori i lawr yn ddiau,
Un prydnhawn,
A gado'm holl bleserau,
Un prydnhawn.'

Bu ei argyhoeddiad yn ofnadwy. Ai at lan y môr, gan godi llonaid ei law o'r tywod, a cheisio eu rhifo: "Mi a ddeuwn i ben a hyn rywbryd," meddai, "ond am dragywyddoldeb, nid oes rhifo arno byth!" Ymofynai a'i hen gymdeithion, ai ni wyddent hwy am un ffordd o ddiangfa, ond cysurwyr gofidus oeddynt oll. Cyfarfu unwaith â hen feili yn Abertawe, ac yn ing ei enaid gofynai i hwnw: "A wyddost ti rywbeth am Iesu Grist?" Edrychodd y beili yn hurt arno, ac aeth ymaith heb ddywedyd gair. Ond o'r diwedd tywalltwyd olew a gwin i glwyfau "Rotsh o'r Gadle," a'r offeryn a fendithiwyd i hyny oedd Mr. Lewis Rees, o Lanbrynmair, yr hwn oedd wedi dyfod yn weinidog i'r Mynyddbach.

Yr ydym yn cofnodi hanes "Rotsh" am ei fod yn ddiau yn engrhaifft o'r dull yr argyhoeddwyd llawer i fywyd yn yr amser rhyfedd hwnw. Un arall o'r cedrwydd talgryf a dorwyd i lawr yn 1739 oedd William Thomas, o'r Pil, a hyny pan nad oedd ond llencyn un-mlwydd-ar-bymtheg oed. Dwysbigwyd ef trwy wrando Harris yn pregethu mewn lle a elwir Chwarelau Calch, yn agos i Gastellnedd, eithr bu am agos i bedair blynedd gwedi hyn cyn rhoddi ei hun i fynu yn llwyr i'r Iesu. Daeth yn ganlynol yn "gynghorwr" nid anenwog, ac yn ddyn o ddefnyddioldeb mawr. Adroddai hen ŵr, o'r enw John Morgan, am Harris yn dyfod i le a elwir Waungron, nid yn nepell o'r Goppa-fach, ar gyffiniau Morganwg a Chaerfyrddin. Cynhelid gwylmabsant yno ar y pryd. Yr oedd y cyfarfod wedi dechreu cyn i John Morgan, ar ei ffordd i'r gamp, gyrhaedd; ond pan tua chwarter milldir neu fwy o'r lle, cyrhaeddodd llais y pregethwr ei glust, "a daeth," meddai, "gyda'r fath awdurdod, fel y teimlwn ef yn myned trwy fy esgyrn yn y fan." Dychwelwyd ef a llawer eraill at y Gwaredwr y tro hwnw. Cyfeiriai yr hen weinidog hybarch, Hopkin Bevan, o Hirwaun, at Howell Harris yn dyfod dro arall i Crug-glas. Daeth dyn haner meddw yn mlaen, wedi ei anog gan ryw ddihirwyr, a gwn yn ei law, gan geisio saethu y pregethwr. Cynygiodd ddwy waith a thair, ond ni thaniai yr ergyd. "Trowch ffroen eich dryll ffordd arall,' meddai Harris, gyda llais awdurdodol; gwnaeth y dyn, ac allan aeth yr ergyd. Yn fuan wedyn cafwyd y dyn wedi llosgi i farwolaeth mewn odin galch, lle yr aethai yn ei feddwdod.

Nis gallwn, o ddiffyg lle, gofnodi ychwaneg o lafur a buddugoliaethau Howell Harris yn Ngorllewin Morganwg y cyfnod yma. Tua'r pryd hwn, neu yn fuan gwedi, sefydlwyd seiadau yn y Palleg, ger Ystradgynlais; Creunant, yn nghymydogaeth Castellnedd; y Goppa-fach, nid yn nepell o Abertawe; Castellnedd, Hafod, Cnapllwyd, Llansamlet; a'r Dyffryn, ger Margam.

Tua mis Rhagfyr bu ar ymweliad a Sir Benfro; ei ymweliad cyntaf yn ddiau. Nid yw hanes y daith genym; felly, nis gwyddom pa mor bell yr aeth, nac yn



DARLUN O ATHROFA TREFECCA,

A

CHAPEL COFFADWRIAETHOL HOWELL HARRIS.

pe y tywelltyd olew ar ddyfroedd cyffrous; cywilyddia y chwareuwyr ac ymeifl dychryn ynddynt; a dyma hwy yn dianc oddiar y maes fel pe eu hymlidyd gan ellyllon. Pan welodd y telynwr ddarfod iddo gael ei adael, rhoes yntau ei offer heibio ac ymadawodd. Yn mysg y rhai oedd yn bresenol y pryd hwnw yr oedd creadur annuwiol a elwid "Rotsh o'r Gadle." Ymddengys i saeth lynu yn ei gydwybod yntau, ond ni adawodd ei ffyrdd drygionus. Gwyddai ei fod ar ffordd na ddylai, ond ni chefnai arni. Dywedir ei fod unwaith wedi gwario ei holl arian ar ei flysiau, ac na wyddai pa fodd i fyned yn y blaen. Tybiai y dylasai yr hwn a wasanaethai mor egniol ei gynorthwyo, a chyfarchai y "gwr drwg:" "Wel, yr wy' i wedi bod yn was ffyddlawn i ti, gad i mi wel'd fath feistr wyt ti; dod rywfaint o arian yn fy het." Yna rhoddai ei het i lawr, a chiliai oddiwrthi encyd o ffordd. Yn mhen enyd, dychwelai ati eilwaith, i gael gweled beth oedd ynddi. Wedi ei chael yn wag, troai i edliw a'r diafol, gan ddweyd: "Mi welaf mai meistr caled ydwyt wedi'r cyfan." Pa foddion a ddefnyddiwyd i'w ddwyn ato ei hun ni wyddis i sicrwydd. Aeth ryw foreu Sul i gyrchu y cwn hela ar gyfer tranoeth; nid anhebyg i eiriau Howell Harris drywanu ei galon ar y ffordd; pa fodd bynag, daeth yn ei ol heb y cwn, ac aeth i'w wely, dan arteithiau euogrwydd anamgyffredadwy. Yr oedd wedi cael ei ddal megys a gwys oddiuchod; a fflangellid ef megys ag ysgorpionau. At hyn y cyfeiriai gwedi hyny wrth ganu:—

"Pan oeddwn ar fy ngwely,
Un prydnhawn,
Heb feddwl dim ond pechu,
Un prydnhawn,
Fe ddaeth ei danllyd saethau,
Y ddeddf a'i dychryniadau,
I'm tori i lawr yn ddiau,
Un prydnhawn,
A gado'm holl bleserau,
Un prydnhawn."

Bu ei argyhoeddiad yn ofnadwy. Ai at lan y môr, gan godi llonaid ei law o'r tywod, a cheisio eu rhifo: "Mi a ddeuwn i ben a hyn rywbryd," meddai, "ond am dragywyddoldeb, nid oes rhifo arno byth!" Ymofynai a'i hen gymdeithion, ai ni wyddent hwy am un ffordd o ddiangfa, ond cysurwyr gofidus oeddynt oll. Cyfarfu unwaith â hen feili yn Abertawe, ac yn ing ei enaid gofynai i hwnw: "A wyddost ti rywbeth am Iesu Grist?" Edrychodd y beili yn hurt arno, ac aeth ymaith heb ddywedyd gair. Ond o'r diwedd tywalltwyd olew a gwin i glwyfau "Rotsh o'r Gadle," a'r offeryn a fendithiwyd i hyny oedd Mr. Lewis Rees, o Lanbrynmair, yr hwn oedd wedi dyfod yn weinidog i'r Mynyddbach.

Yr ydym yn cofnodi hanes "Rotsh" am ei fod yn ddiau yn engrhaifft o'r dull yr argyhoeddwyd llawer i fywyd yn yr amser rhyfedd hwnw. Un arall o'r cedrwydd talgryf a dorwyd i lawr yn 1739 oedd William Thomas, o'r Pil, a hyny pan nad oedd ond llencyn un-mlwydd-ar-bymtheg oed. Dwysbigwyd ef trwy wrando Harris yn pregethu mewn lle a elwir Chwarelau Calch, yn agos i Gastellnedd, eithr bu am agos i bedair blynedd gwedi hyn cyn rhoddi ei hun i fynu yn llwyr i'r Iesu. Daeth yn ganlynol yn "gynghorwr" nid anenwog, ac yn ddyn o ddefnyddioldeb mawr. Adroddai hen ŵr, o'r enw John Morgan, am Harris yn dyfod i le a elwir Waungron, nid yn nepell o'r Goppa-fach, ar gyffiniau Morganwg a Chaerfyrddin. Cynhelid gwylmabsant yno ar y pryd. Yr oedd y cyfarfod wedi dechreu cyn i John Morgan, ar ei ffordd i'r gamp, gyrhaedd; ond pan tua chwarter milldir neu fwy o'r lle, cyrhaeddodd llais y pregethwr ei glust, "a daeth," meddai, "gyda'r fath awdurdod, fel y teimlwn ef yn myned trwy fy esgyrn yn y fan." Dychwelwyd ef a llawer eraill at y Gwaredwr y tro hwnw. Cyfeiriai yr hen weinidog hybarch, Hopkin Bevan, o Hirwaun, at Howell Harris yn dyfod dro arall i Crug-glas. Daeth dyn haner meddw yn mlaen, wedi ei anog gan ryw ddihirwyr, a gwn yn ei law, gan geisio saethu y pregethwr. Cynygiodd ddwy waith a thair, ond ni thaniai yr ergyd. "Trowch ffroen eich dryll ffordd arall," meddai Harris, gyda llais awdurdodol; gwnaeth y dyn, ac allan aeth yr ergyd. Yn fuan wedyn cafwyd y dyn wedi llosgi i farwolaeth mewn odin galch, lle yr aethai yn ei feddwdod.

Nis gallwn, o ddiffyg lle, gofnodi ychwaneg o lafur a buddugoliaethau Howell Harris yn Ngorllewin Morganwg y cyfnod yma. Tua'r pryd hwn, neu yn fuan gwedi, sefydlwyd seiadau yn y Palleg, ger Ystradgynlais; Creunant, yn nghymydogaeth Castellnedd; y Goppa-fach, nid yn nepell o Abertawe; Castellnedd, Hafod, Cnapllwyd, Llansamlet; a'r Dyffryn, ger Margam.

Tua mis Rhagfyr bu ar ymweliad a Sir Benfro; ei ymweliad cyntaf yn ddiau. Nid yw hanes y daith genym; felly, nis gwyddom pa mor bell yr aeth, nac yn

mha leoedd y bu yn efengylu; ond cyfeiria at yr amgylchiad mewn llythyr "at chwaer yn Sir Fynwy." Dyddiad y llythyr yw Tachwedd 30, 1739. Dywed: "Yr wyf yn awr ar fy ffordd i Sir Benfro; collais y ffordd ar y mynyddoedd neithiwr, ond yr Arglwydd a gofiodd ei gyfamod." Nid ydym yn tybio iddo aros yn hir yma y tro hwn. Nid oes pen draw ar ei deithiau yr adeg hon. Cawn ef yn ngodreu Sir Aberteifi, yn ngymydogaeth Penmorfa; teithia oddiyno i Lanarth, ac i Lanbedr; croesa y Mynydd Mawr, a phregetha mewn amaethdy bychan ynghanol y brwyn, o'r enw Brynare, yn agos i darddiad yr afon Towi. Cyn pen wythnos yr ydym yn ei gael yn nhref Henffordd, ac yn myned oddiyno i Gaerloyw, trwy ranau o Sir Fynwy. Rhaid fod ei gyfansoddiad fel haiarn, a'i zêl yn angerddol.

Dechreu y flwyddyn 1740 y mae yn cychwyn ar ei ymweliad cyntaf a'r Gogledd. Rhydd yr Hybarch John Evans, o'r Bala, yr amser yn 1739; dywed *Methodistiaeth Cymru* fod dydd-lyfr Howell Harris yn cytuno a hyn; eithr y mae y ddau yn camgymeryd. Y mae y dydd-lyfr, ynghyd a'r holl lythyrau a ysgrifenodd Mr. Harris ar ei daith, at Mrs. James, o'r Fenni, a Miss Anne Williams, o'r Scrin, ac eraill, yn profi mai Chwefror, 1740, y cymerodd hyn le. Hawdd esbonio y modd y darfu iddynt gamsynied. Dilynai Howell Harris wrth ysgrifenu yr hen galender eglwysig; o Ionawr hyd Mawrth 25, rhoddai, wrth ddyddio ei lythyrau, yr hen flwyddyn a'r flwyddyn newydd; ac y mae y llythyr o Lanfair-muallt, y cyntaf iddo ar y daith hon, felly, sef "Builth, Feb. 1, 1839-40." Elai ar wahoddiad Mr. Lewis Rees, gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llanbrynmair, yr hwn a ddaethai dros y mynyddoedd cribog yn un swydd i'w gyrchu. Gan mai Mr. Lewis Rees a fu yn foddion i ddwyn Methodistiaeth i Ogledd Cymru, nid annyddorol fyddai ychydig o'i hanes. Ganwyd ef yn Glynllwydrew, Cwm Nedd, yn Sir Forganwg, yn y flwyddyn 1710, ac felly yr oedd rai blwyddau yn hŷn na Rowland a Harris. Yr oedd ei rieni yn aelodau yn yr Eglwys Ymneillduol yn Blaengwrach, yr hon oedd dan ofal y duwiol a'r diragfarn Henry Davies. Ymunodd a chrefydd yn ieuanc. Darfu i'w allu meddyliol, ynghyd a'i dalentau, yn arbenig ei ddawn mewn gweddi, beri i'w rieni ei godi i fynu ar gyfer y weinidogaeth. Cafodd fanteision addysg helaeth; bu yn yr ysgol gyda Joseph Simons, yr hwn a gadwai ysgol ramadegol yn Abertawe, gyda Mr. Rees Price yn Penybont-ar-Ogwy, ac yn ddiweddaf gyda y Parch. Vavasor Griffiths, yn Sir Faesyfed. Dywedodd yr olaf ei fod yn llawn digon o ysgolhaig, ac anogodd ef i ymgymeryd a gweinidogaeth yr efengyl yn ddioedi. Y pryd hwn daeth y Parch. Edmund Jones, Pontypŵl, heibio, gwedi bod ar daith yn y Gogledd; darluniodd gyflwr gresynus y rhan hono o'r wlad, ac anogodd ef i ymgymeryd a bugeiliaeth y ddeadell fechan yn Llanbrynmair, gan addaw troi yn ol gydag ef, a'i gyflwyno i'r bobl. Cyn cyrhaedd pen eu taith collasant y ffordd, a buont am rai oriau yn crwydro mewn lle a elwir Coedfron. Yn y sefyllfa annymunol hon ymroisant i ymddiddan a'u gilydd am bethau yr efengyl, a hynod y mwynhad a gawsant; terfynodd eu dyryswch hefyd yn annisgwyliadwy, gan iddynt gael gafael ar Lanbrynmair tua dau o'r gloch yn y boreu. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1734, tua blwyddyn cyn dechreuad y diwygiad Methodistaidd, a thua chwe' mlynedd cyn taith gyntaf Howell Harris i Wynedd. Yr adeg hon yr oedd cyflwr ysprydol Gogledd Cymru yn dra gresynus. Mewn ychydig fanau yn unig y pregethid yr efengyl yn ei phurdeb. Dyhoenai yr eglwys fechan yn Llanbrynmair; ychydig iawn oedd rhif y ffyddloniaid yn y Bala, lle yr oedd achos wedi cael ei blanu gan y Parch. Hugh Owen, Bronyclydwr; ac yr oedd y ddeadell yn Pwllheli ar roddi i fynu mewn digalondid. Ymroddodd Mr. Rees i bregethu; elai i Bwllheli mor aml ag y medrai, ac i'r Bala unwaith y chwarter. Gwnai hyn drwy anhawsder a pherygl dirfawr. * Yr oedd y ffordd yn faith, mynyddig, ac anhygyrch; y tywydd yn aml yn oer, ac yn ystormus; a phreswylwyr Dinas a Llanymowddwy, y pentrefydd, oedd ar ei ffordd, yn ffyrnig am ei ladd, gwedi deall ei neges. † Pan yn pregethu yn y Bala un tro digwyddodd i Meurig Dafydd, o ben uchaf plwyf Llanuwchllyn, fod yn gwrando. Wedi cael blas ar yr odfa, gwahoddodd Mr. Rees i bregethu i'w dŷ ef. Yntau a aeth fel yr addawsai. Yr oedd y tŷ yn llawn; daethai y bobl yno o chwilfrydedd i glywed Pengrwn yn pregethu; ond yn ol defod y wlad yr amser

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i.

† *History of Protestant Nonconformity in Wales*, tudal. 415.

hwnw, yr oedd pawb, y gwŷr yn gystal a'r gwragedd, wrthi yn ddiwyd yn gwau hosanau. Gafaelodd yntau yn y Beibl, gan ddarllen penod, a disgwyl i'r bobl rhoddi heibio eu gwaith; eithr yn mlaen yr oedd y gwau yn myned, a swn y gweill yn ymgymysgu a swn y Gair. Trodd i weddio, ond heb fawr gobaith y byddai i neb o'r gynulleidfa gydymuno ag ef, a'r olwg ddiweddaf a gafodd cyn cau ei lygaid, oedd gweled y bysedd wrthi yn brysur yn trin y gweill. Ar weddi cafodd gymorth arbenig; aeth ei enaid allan at Dduw mewn deisyfiadau ar ran y trueiniaid anwybodus oedd yn bresenol; deallodd yn fuan fod y gwau wedi cael ei roddi heibio; ac yn lle clec y gweill clywid swn gruddfanau ac ocheneidiau am drugaredd. Ni adawyd ef hefyd wrth bregethu, a bu yr odfa yn foddion achubiaeth i amryw. Gwedi hyn, bu Morgan, brawd Meurig Dafydd, oedd yn grylach na'r cyffredin, ac yn adnabyddus fel ymladdwr mawr, yn dra charedig iddo. Hebryngai ef trwy Lanymowddwy, gyda phastwn onen cryf yn ei law, a phan geisiai rhywrai niweidio y pregethwr ysgydwai y pastwn, gan ddweyd: "Wedi hebrwng y gŵr da i ffwrdd, mi a ddof i siarad a chwi." Droiai bu gwarant allan i ddal Lewis Rees, am fyned o gwmpas i bregethu yr efengyl. Un tro dygwyd ef o flaen y Canghellydd Owen, yr hwn yn ogystal oedd yn ficer Llanor a Dyneio. Gwedi i'r gŵr hwn ddeall fod ganddo drwydded i bregethu, ac felly nas gallai ei anfon i'r carchar, aeth yn gynddeiriog. Ymaflodd mewn cleddyf, gan fygwth ei ladd, ac yn ei gynddaredd torodd got y pregethwr yn garpiau a'r cledd oedd yn ei law.* Pan y teithiai Mr. Rees trwy Lanymowddwy un tro, cyfarfu ag offeiriad y plwyf, wrth yr hwn yr achwynodd am ymddygiadau barbaraidd ei blwyfolion. Cymerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

"Gŵr o ba wlad ydych chwi?" ebai'r offeiriad.

"Gŵr o Lanbrynmair, Syr," ebai Mr. Rees, yn fwynaidd iawn.

"Beth a ddaeth a chwi i Lanbrynmair?"

"Yr oedd y gynulleidfa Ymneillduol heb weinidog; ar eu dymuniad, mi a ddaethum atynt, ar y cyntaf ar brawf; ac wedi cael boddlonrwydd o bob ochr, mi a osodwyd yn weinidog arnynt."

"Peth afresymol," ebai'r offeiriad, "yw goddef i Bresbyteriaid bregethu yn y wlad hon; Ysgotland yw y wlad iddynt hwy."

"Gobeithio, Syr," meddai Mr. Rees, "eich bod o well egwyddor nag y ffurfiech eich crefydd wrth arfer y wlad y byddech yn byw ynddi; onide byddai raid i chwi fod yn Bresbyteriad yn Ysgotland, ac yn Babydd yn Rhufain."

Tarawodd grym ei resymau, a mwyneidd-dra ei atebion, y gŵr eglwysig, a thrwy ei ddylanwad ar y preswylwyr, ni chafodd Mr. Rees ei aflonyddu o hyny allan. Gwnaeth Lewis Rees ddaioni annhraethol yn y Gogledd; nid oedd rhagfarn yn ei yspryd; a pharhaodd yn groesawgar i'r Methodistiaid tra y bu yn Llanbrynmair. Wedi llafurio am chwarter canrif yn Ngwynedd, symudodd i'r Mynyddbach, ger Abertawe. Bu farw Mawrth 21, 1800, pan wedi cyrhaedd ei bedwar-ugain-a-deg mlwydd oed.

Ond i ddychwelyd at daith Howell Harris i'r Gogledd. Ymddengys iddo fod mewn pryder cyn cychwyn pa un ai yno, ynte i Sir Benfro, yr ai. Tebygol mai yr hyn a benderfynodd o blaid Gwynedd oedd cymhellion cryfion Mr. Lewis Rees, ac hefyd yr elfen o berygl oedd ynglyn a'r daith. Ymddengys fod boneddwyr Sir Drefaldwyn wedi rhwymo eu hunain a diofryd y gwnaent garcharu unrhyw Fethodist a anturiai i'w tiriogaethau; daethai hyn i glustiau Mr. Harris, a pharai beiddgarwch ei yspryd, a'i zêl dros ei Waredwr, iddo deimlo awydd angerddol am anturio i ganol yr ystorm. Chwefror y 1af, yr ydym yn ei gael ar y ffordd tuag yno, yn Llanfair-muallt. Rhaid i ni ddifynu darnau o'i ddydd-lyfr, ac o'i lythyrau, eto, fel y caffom nid yn unig ei hanes, ond hefyd agwedd ei feddwl.

†"Pan y daethum yma (Llanfair-muallt) cefais y bobl yn canu, a boneddwr ieuanc yn llusgo celain cath o gwmpas, er mwyn peri terfysg. Ond siomwyd ef; ni wnai y cwn hela. Cawsom nerth mawr, ac yr wyf yn awyddus iawn am fod yn rhydd oddiwrth, a byw uwchlaw y creadur, gan ddianc at waed Crist am heddwch a sancteiddrwydd. Yr wyf yn clywed pethau nodedig o hyfryd am Mr. Gwynn; gweddïwch drosto.

RHAIADR (wyth milltir o Llanfair-muallt), Chwefror 3, 1740. Y mae fy ngorff yn flin, gwedi llafur caled, ac y mae yn awr

* *Methodistiaeth Cymru.*

† Llythyrau at Miss Anne Williams, Y Scrin.

yn bedwar o'r gloch y boreu. Ond y mae rhywbeth ynof, pan ei rhoddir mewn gweithrediad, sydd yn fy ngwneyd yn ddiludded. Ddoe, galluogwyd fi i lefaru ddwywaith, i drafaelu deng milltir, ac i ysgrifenu llawer o lythyrau. Heddyw, teithiais chwech milltir, llefarais ddwywaith, cedwais ddwy ddyledswydd deuluaidd, ac ysgrifenais chwech o lythyrau. Heno cefais y newydd cysurus fy mod mewn gwirionedd i gael fy nghymeryd i'r ddalfa yn Sir Drefaldwyn. Gwn y llawenhewch, y gweddïwch, ac y bendigwch Dduw trosof. Cawsant gyfarfod i'r pwrpas, ac yr wyf yn cael yr Arglwydd yn fy nerthu yn rhyfedd oddimewn. Gosododd Duw yn meddwl cyfaill anwyl i ddod i ddweyd wrthyf. Cuddied yr Arglwydd fy mhen yn nydd y frwydr. Yr wyf yn myned y fory i Cwmtyddwr, i wyl, a nos y fory i ran o Drefaldwyn. Y mae yr Arglwydd wedi rhoddi i mi lawer concwest ar y diafol.

LLANYBISTER (pedair milltir o Rhaiadr), Chwefror 5, 1740. Diwrnod gogoneddus oedd y ddoe; yr oeddwn yn yr wyl fawr, a mentrais wrthwynebu y diafol ar ei dir ei hun. Felly lleferais o fewn ychydig latheni i dafarndy, lle yr oedd y chwareuyddiaeth i gychwyn. Ar y dechreu yr oeddwn gryfaf; wrth lefaru am argyhoeddiad Zaccheus, ceisiais eu denu trwy gariad; ond collais fy awdurdod. Yr oeddwn yn farw ac yn sych yn mron hyd y diwedd. Yna dyrchafodd yr Arglwydd fy llais fel udgorn, a galluogodd fi i gyhoeddi hyd adref gyda golwg ar elynion Duw. Ni phrofais erioed fwy o nerth. Yr wyf yn credu ddarfod i rai gael eu gwanu; wylai llawer; llewygodd un; eraill drachefn a deimlent gryndod dirfawr; ac yr oedd ar bawb fraw mawr. Gwedin aethum i'r eglwys; pan y daethum allan ofnwn rhag i'r diafol eu cael i'w fagl drachefn, a chyhoeddais y pregethwn o fewn chwarter milltir i dref Rhaiadr. Yno y daethant, yn mron bawb, yr wyf yn meddwl, ond ychydig oedd yn y tŷ. Cynorthwywyd fi i lefaru, a hyny gyda llai o daranu a mwy o ddyddanwch, nag arfer. Oddiyno aethum i le a elwir Y *Lodge*, yn Llandinam, lle y galluogwyd fi i lefaru gyda nerth. Neithiwr a heddyw ni chyfarfyddais a dim gwrthwynebiad, a chawsom odfaeon melus. Cedwir llawer rhag dyfod i'm gwrando gan ystori, sydd yn pasio fel gwirionedd, fy mod yn gohebu a brenin yr Ysbaen, a bod deugain punt yn cael eu cynyg am fy nghymeryd. Y fory yr wyf yn disgwyl cael fy nal; ac os caf, ysgrifenaf yn uniongyrchol o fy llety newydd.

Dyma Howell Harris wedi rhoddi ei draed ar ddaear Gwynedd, ac wedi pregethu yn Llandinam, a hon oedd y bregeth gyntaf i Fethodist yn Ngogledd Cymru. Dengys yr hanes pa mor ffol oedd y chwedlau a daenid am dano.

"LLANBRYNMAIR, Nos Sadwrn (Chwefror 9, 1740). Hyd yn hyn y mae yr Arglwydd wedi bod gyda mi, ac yn fy llwyddo fwyfwy. Ymddengys Satan fel wedi ei rwymo; yr oeddwn yn disgwyl bob dydd gael fy rhoddi mewn cadwyn; ond hyd yn hyn nid wyf wedi cyfarfod gwrthwynebiad. Dydd Gwener, cyfarfyddais a Mr. Lewis Rees, ac ni chefais yn ystod fy holl deithiau y fath nerth ag a ges neithiwr wrth lefaru i tua mil o bobl yn Llan—— (Llandinam?) Gallech glywed calonau yn ymddryllio; ac yr oedd y fath ocheneidiau, a dagrau, a gwaeddi, na wrandawsoch ar ei gyffelyb. Yr wyf yn gobeithio ddarfod i lawer o galonau agor i Iesu Grist. Yr oeddwn ymron a chael fy nghario allan o fy hunan. O! gogoneddwch Dduw drosof. Yr wyf yn myned dydd Llun nesaf i Sir Feirionydd. Druan o Wynedd; y maent yn byw yma fel anifeiliaid, heb wybod dim!" Pasiai ar ei daith trwy Lanidloes; nid yw yn ei lythyrau yn cyfeirio at y dref, ond dywedir yn *Nrych yr Amseroedd* iddo gael llonydd i bregethu heb i neb aflonyddu arno. Bu cymaint o erlid yn Llanidloes a braidd unrhyw dref yn Nghymru ar ol hyn. Cawn iddo hefyd bregethu yn Nhrefeglwys, a dywedir mai dyma y pryd yr argyhoeddwyd Lewis Evan, Llanllugan, yr hwn oedd ar y pryd yn ddyn ieuanc unar-hugain mlwydd oed. Gwehydd ydoedd Lewis Evan; gwedi ei argyhoeddi ymroddodd i ddarllen y Beibl; ac yn bur fuan cymerai ef o gwmpas i'w ddarllen o dŷ i dŷ; llithrodd yn raddol i roddi gair o gynghor, ac i derfynu trwy weddi, a daeth yn gynghorwr heb yn wybod iddo, ac heb wybod fod neb wedi gwneyd fel hyn o'i flaen. Peth dyeithr yn yr ardal oedd gwehydd ieuanc yn myned o gwmpas i gynghori, a pharodd ei ymddygiad gryn gyffro.

Nid yw Mr. Harris yn ei lythyrau yn cyfeirio at ei bregethu yn Llanbrynmair, ond y mae yn sicr iddo wneyd, * a dywedir mai o

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i., tudal 98.

flaen tafarndy, a elwir yn awr y *Wynnstay Arms*, y llefarai. Yr oedd son am dano wedi myned ar led y gymydogaeth fel un a welsai weledigaeth, yr hwn a ai o amgylch i fynegu yr hyn a welsai ac a glywsai. Yn mhlith eraill a ddaethant i'w wrando yno yr oedd tri o frodyr, sef William, Edward, a Richard Howell, ynghyd a gŵr arall o'r enw Richard Humphrey. Er mwyn bod yn gyfleus i wrando aethant i ben tŷ bychan gerllaw. Dechreuodd gŵr Duw bregethu, a nodi beiau yr oes, yn ei ddull llym a phriodol ei hun. Tybiasant hwythau fod y pregethwr yn gwybod am danynt, ac yn eu pwyntio allan. Bu gorfod arnynt, gan rym cydwybod, ddisgyn oddiar ben y tŷ, fel Zaccheus o'r sycamorwydden, a saeth argyhoeddiad a drywanodd y pedwar gŵr. Dyma ddechreuad Methodistiaeth yn Llanbrynmair. Wedi dweyd ei fod yn oedi ymweled a Sir Benfro, am y credai fod gan Dduw waith iddo yn Ngwynedd, â Harris yn mlaen yn ei lythyrau :—

"SIR FEIRIONYDD, ger y Bala, Dydd Mawrth (Chwefror 12, 1740). Y ddoe, anrhydeddwyd fi gan Dduw trwy gael fy nghymeryd yn garcharor yn ei waith, yn mhlwyf Cemmes, yn Sir Drefaldwyn. Gwnaed hyn gan un Wynne, ustus, yr hwn, gydag ustus arall, a boneddwr arall, ynghyd ag offeiriad y plwyf, a ddaeth arnom, wedi anfon eu hysbiwyr, ynghyd a'r cwnstab, o'u blaen. Ni chefais yr anrhydedd o fyned i Drefaldwyn mewn llyfetheiriau ; ond cymerasant ein henwau, ynghyd a'r manylion perthynol i'r cyfarfod, a'n bod yn ymgynull mewn lle heb ei drwyddedu ; a bygythient wneyd eu goreu i'm dirwyo i o ugain punt, gŵr y tŷ o ugain punt, a phob un o'r gwrandawyr o bum' swllt yr un. Achwynent fy mod yn tori deddf y tŷ cwrdd (*conventicle act*). Atebais nas gellid fy nghospi yn unol a'r ddeddf hono ; mai deddf ar gyfer yr Anghydffurfwyr ydoedd, tra yr oeddwn i yn gydffurfiwr a'r Eglwys Sefydledig. 'Ni a fynwn ymgynghori a'r cyfreithwyr goreu,' meddent, 'ac os oes cyfraith i'w chael, cewch ddyoddef ei llymder eithaf.' Dywedais yn ol, os oedd y gyfraith yn fy erbyn, fy mod yn foddlawn dyoddef pa gospedigaeth bynag a farnent yn addas ei gosod arnaf. Llanwodd yr Arglwydd fi a gwroldeb ; ni chefais fy ngadael. Llawer o ddagrau a gollwyd gan y gynulleidfa ; ac yr oedd nifer wedi arfaethu dod gyda mi i Drefaldwyn pe buasai raid. Dychwelais gyda rhai dwsynau oeddynt wedi dyfod gyda mi, i'r lle o ba un y cawswn fy nghymeryd, a llefarais wrthynt am sefyll yn nydd yr ystorm. Cychwynais tua'r lle hwn, taith o tua deuddeg milltir, a llefarais ddwy waith ar y ffordd. Wedi teithio enyd, disgynais, ac aethum i fwthyn bychan ar ochr y ffordd, lle yr ysgrifenais hwn. Gwelais yno, mewn hen wraig, gariad at Air Duw ac at ei Fab, a mawr uniondeb meddwl, a gofal tyner. Y mae arnaf ofn dilyn fy ewyllys fy hun mewn dim, llawenheir fi wrth feddwl mai gwas i Un arall wyf, ac y mae heddwch mawr mewn ymostwng i Dduw yn mhob peth. Teimlais fy nghalon yn cynhesu at yr hen wraig—dywedodd y daw Duw'n nes atom ninau os awn ni yn nes ato ef. Yr oedd yn ddiolchgar iawn, yr oedd yn gweled ei hun yn bechod i gyd, yr oedd ganddi gariad cryf at Grist, teimlwn fy nghalon yn agor iddi o gariad at yr Iesu. Yr oedd yn fwy o ddyddanwch i mi gael bod yn ei thŷ na phe buaswn mewn palas. Bwyteais ychydig fara ceirch tew caled a chaws, ac yna aethum yn fy mlaen ar y ffordd tua thŷ Meurig Dafydd, Gweirglodd Gilfach.

Fel yr oeddwn yn myned o'r bwthyn tua Llanymowddwy, gwawdiwyd fi ; rhedai plant ac eraill ar fy ol, gan waeddi, '*Down with the Rumps*,' a phethau eraill. Yr oedd Satan yn rhuo, ac yn chwerw iawn. Ni theimlais unrhyw derfysg yn fy enaid, eithr gweddïais drostynt, a thosturiwn wrthynt,—er nad cymaint ag yr hoffwn wneyd. Ac nis gallwn gael fy hun yn ol i'r ystad meddwl hyfryd yr oeddwn ynddi cyn hyny.

Pan aethum yn agos at yr eglwys, daeth tyrfa o bobl mewn oed a bechgyn at eu gilydd ; pan welsant fi yn dod, gwaeddasant : '*Down with the Rumps*,' a chasglasant y cŵn at eu gilydd i'w hysio arnaf. Pan welais hwynt, teimlais fy ewyllys yn hollol ymroddedig—felly hefyd yr wyf wedi ei theimlo ar hyd y ffordd—cefais galondid mawr i fyned yn mlaen, siaredais heb ofn, a chefais ryddid meddwl. A gofynodd dynes i mi—galwent hi yn wraig fonheddig—beth oedd arnaf fi, dd——l coll, eisiau yno. A chyda hyny, cymerodd laid a thywarchen—nid oedd cerig yn ei hymyl wrth lwc—a thaflodd hwynt ataf. Gwelais ei bod yn un o ddilynwyr Satan, ond ni dderbyniais niwed.

Gwaeddasant ar fy ol wedi fy myned, ond tra yr oeddwn yn pasio cauodd yr Arglwydd eu safnau.

Ar ol hyn deuais at eglwys Llanywyllyn,

tref fechan ar lan Llyn y Bala; cyfrifir y daith tua deuddeng milltir. Daeth rhywbeth fel ofn drosof wrth glywed fy mod yn neshau at dref, ond tawelwyd fi gan ymroddiad meddwl. Yr oedd fy myfyrdodau yn rhy ysgeifn, ac mor ychydig o Dduw sydd yn fy meddwl! Cefais beth hyfrydwch i'm henaid wrth weled daioni Duw yn rhoddi pethau i ni, a chefais fy hun yn gweddïo: 'O Arglwydd, na ad i mi bechu mewn ewyllys na meddwl.'

Wedi hyn, tra'r oedd cur yn fy mhen, a minau ar newynu, cyrhaeddais y Llan tua phump. Arhosais yma; yr oedd cynulleidfa fawr iawn wedi ymgynull, ond wedi myn'd ymaith. Siaredais hyd chwech wrth rai canoedd am dröedigaeth St. Paul. Cefais gymorth yma i efengylu gyda grym, ac yr oedd llawer yn wylo. Atebais amheuon a gwrthwynebiadau, a gwahoddais bawb at Grist. Cefais rwyddineb melus i siarad wrth galonau drylliog, calonau wedi eu perswadio.

Wedi hyn, rhoddwyd i mi ras i weddïo am Yspryd Duw, fel y medrwyf ganu a gweddïo, a charu a siarad, a byw yn yr Yspryd hwnw, ac O mor angenrheidiol yw hyn!

Yna aethum i'r tŷ, lle'r oedd yspryd ysgafnder wedi dod dros y bobl. Bum uwch ben fy mwyd o saith hyd yn agos i wyth. Ac yna agorodd yr Arglwydd ddrws i mi siarad a hwynt, a hwy a wrandawsant. Siaredais am ein cwymp, ac fel yr agorodd y cwymp hwnw ddrws i gariad Duw hefyd. Danghosais iddynt gariad Duw tuag atom, a'n gwrthryfel ninau yn ei erbyn. Effeithiodd hyn arnynt, a wylodd llawer. Agorwyd drws i mi—tŷ tafarn oedd y tŷ—i ddarllen ac esbonio y ddeuddegfed benod o'r Rhufeiniaid, i ganu ac i weddïo. Ymddengys mai pobl ddiniwed sydd yma, a chefais gymorth i fod yn ffyddlon yn eu mysg.

Ysgrifenais lythyr hyd wedi deg; a bum mewn gweddi ddirgel hyd gwedi un-ar-ddeg, yn gweddïo gyda pheth pryder, wedi darllen Actau ii. 17, 18: 'O dyro i mi o'th Yspryd, O dyro i mi o'th Yspryd, fel y gogoneddwyf ac yr anrhydeddwyf di. O Dduw, a allaf fi fod yn llawen tra y dianrhydeddir dy Fawrhydi bendigedig genyf fi ac eraill? Arglwydd anwyl, paham yr wyf yn rhoddi mor ychydig o werth ar dy gariad? Yr wyf yn diolch i ti am y wybodaeth am danat dy hun a roddaist i rai eraill. O Dduw, pa bryd y caf fi dy adnabod a dy garu? O, rhyfedd dy fod yn gwneyd cymaint rhyfeddodau i mi, a minau eto heb gariad atat!'

Llanywyllyn, ger y Bala, Sir Feirionydd, Dydd Mercher. Deffroais yn fore; codais am wyth. Yr wyf yn mhell oddiwrth Dduw o hyd, ac eto yn anfoddlon hebddo. Aethum i weddi yn y dirgel; a gweddïais yn hir mewn geiriau, o'r pen a'r deall, ac nid o'r galon. Nis gallwn gael gafael ar ddymuniadau i wneyd daioni o ddifrif. Ond o'r diwedd, tra yn disgwyl yno ac yn ofni dilyn f'ewyllys fy hun heb Dduw, rhoddodd yr Arglwydd allu i'm henaid lefain: 'O Arglwydd, yr wyf yma ymhell oddiwrthyt ti, ac mewn gwlad bell. Gad i mi dy gael di yn rhan; yr wyf yn ymwadu a phob peth arall. Dyro hwynt i'r hwn a fynot, a gad i mi fod yn eiddo i ti. O Drindod, yr wyf yn rhoddi fy hun i ti.' O naw hyd ddeg, pregethais i rai canoedd o bobl. Dechreuais trwy ddangos oddiwrth y seithfed benod o Rhufeiniaid—fel y gwnaethwn y nos o'r blaen wrth son am dröedigaeth St. Paul—ein bod yn gweled yma y dygir ni, pan ddaw gras Duw i'r galon: (1) I ganfod llygredigaeth ein natur, fel y mae corff ac enaid wedi eu cwbl halogi, ein hamharodrwydd i wneyd da a'n parodrwydd i wneyd drwg. (Danghosais hyn oddiwrth eu profiad hwy eu hunain.) (2) I weled fod teimlo yr anmhosiblrwydd hwn i wneyd daioni yn boen a gofal mawr i'r enaid. (3) Nis gallant fod yn dawel heb chwilio am ryddhad. 'Pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon?' (4) Fel y gwelwn oddiwrth Rhuf. viii. 2, pan ddaw'r enaid i chwilio yn ddyfal am ryddhad, datguddia Crist ei hun, i ryddhau yr enaid oddiwrth euogrwydd a llygredd pechod, a chadwynau'r tywyllwch. Ac yma cefais oleuni mawr i ddangos (1) Ein bod dan y gyfraith tra byddom ynom ein hunain. Gadawyd i mi ddeall mwy ar natur y gyfraith nag erioed o'r blaen; dangosais nas gall Duw faddeu am droseddu ei gyfraith nes y caffo iawn i'w gyfiawnder. 'Ai ni fuasech chwi'n condemnio barnwr, ac yn ei gyfrif yn anghyfiawn, pe y rhoddasai bardwn i ddrwgweithredwr, a'i fai yn amlwg, heb iawn i'r gyfraith?' (2) Nas gall Duw edrych arnom nes y newidir ein natur, ac nas gallwn ninau ymhyfrydu ynddo ef. A fedrai gŵr a gwraig gytuno pe carai y naill yr hyn a gashäi y llall? Felly nis gallwn ninau fod yn gytûn a Duw os carwn chwant, balchder, cybydd-dod, meddwdod, tywyllwch, yr hyn bethau y mae Duw yn gashau; a thra nas gallwn garu y sancteiddrwydd a'r purdeb y mae

Duw yn garu. Felly, rhaid i Dduw golli ei briodoleddau o gyfiawnder a phurdeb, neu rhaid i ni gael gwaredigaeth oddiwrth euogrwydd a natur pechod, cyn y gallwn sefyll ger ei fron. (3) Rhaid symud y tywyllwch oddiar ein llygaid; fel y gwelom farwolaeth ynom ni a bywyd yn Nghrist, tywyllwch ynom ni a goleuni yn Nghrist, aflendid ynom ni a phurdeb ynddo ef, gwendid ynom ni a nerth ynddo ef. Ond rhaid i ni deimlo mor druenus ydym cyn yr awn ato, a rhaid ei uno a ni trwy ffydd fywiol, neu ni fydd yn fwy llesol i ni glywed am gyfiawnhad trwy ffydd a thrueni y rhai sydd heb fod yn Nghrist, na phe y clywem am feddyg pan yn wael ac heb gymeryd ei gyffeiriau.' Cefais nerth; a phan ddaethum i'r fan yma, gwelwn fod llawer wedi teimlo i'r byw, a medrais bregethu yn felus. Daeth cawod hyfryd arnom wrth i mi ddweyd wrthynt nas gallwn eu twyllo. Yna soniais am ragorfreintiau y rhai sydd yn derbyn Crist. Y mae y rhai sydd yn meddu Crist yn meddu pob peth; a'r rhai nis meddant ef, ni feddant ddim. Cynghorion cyffredinol: molianu Duw. Gwagedd yw gobeithion gau. Pan fo'r Arglwydd yn dysgu ac yn rhoi nerth, peth melus yw gweithio, a pheth hawdd. Fel y teimlasom yr Adda cyntaf ynom, felly y rhaid i ni deimlo Adda'r ail. Mewn gweddi ddirgel, cefais mai dymuniad fy enaid ydyw bod yn ffyddlon, a gogoneddu enw'r hwn a'm danfonodd. Gwneled Duw ei ewyllys arnaf. Ac O, pa fodd y gallaf fod yn llawen tra mae pobl yn dianrhydeddu ac yn anghofio Duw!

Ysgrifenais tan haner dydd, ac yna teithiais i'r Bala—pum' milldir. Nis gallwn gael fy enaid i feddwl am unrhyw fater ar y ffordd—dim ond meddyliau ysgafn —a dyma wnawn beunydd oni bai am ras.

Cyrhaeddais y Bala cyn dau o'r gloch, a siaredais gyda rhai canoedd hyd yn agos i bedwar. Tra yr oeddwn yn siarad, yr oedd llawer yn chwerthin ar eu gilydd, a gollyngwyd ergyd o wn yn fy ymyl.

Clywais un yn dymuno cael ei ddamnio, pe gwyddai mai Presbyteriad oeddwn, os cawn bregethu. Dywedais wrthynt fy mod yn perthyn i'r Eglwys. Pregethais ar y stryd ar gyfer neuadd y dref, ac yr oedd pregethu yno fel pregethu uwchben ceiliogod yn ymladd.

Dechreuais gyda chatecism yr Eglwys, llw y bedydd, y ddwy ddyledswydd at Dduw a dyn, a'r sacramentau. Nid oeddwn hyd yn hyn wedi cael fawr o awdurdod arnynt, ond yr oeddwn yn edrych a fedrwn eu tynu ataf. Gwrandawodd llawer, a wylodd eraill. Pregethais ar Luc xix. 12. Cefais awdurdod i siarad wrthynt am eu pechodau. Rhoddwyd i mi oleuni mawr, fel yn y tŷ cyn myned allan, o wybodaeth gliriach; a dangosais ddrwg pechod fel y mae yn bechod yn erbyn daioni Duw, er argyhoeddiad llawer yr wyf yn gobeithio. Y mae arnaf ofn na wnaed llawer o ddaioni yma, ond cefais nerth i fod yn ffyddlon.

Wedi hyn bum ar fy mhen fy hun, yn bwyta, &c., hyd bump. Yna pregethais hyd chwech. Dangosais fel y mae Duw yn cario ei waith ymlaen yn raddol, o ris i ris; ceisiais gynorthwyo eu meddyliau i weled eu trueni; dangosais fel y mae Satan a'r byd yn ymgynhyrfu yn ein herbyn pan ddechreuom newid oddi mewn ac oddi allan, ac fel y medr yr enaid gael nerth i'w gwrthsefyll; a dywedais wrthynt hanes fy nhroedigaeth fy hun. Cefais felusder, a nerth i fod yn ffyddlon. A llefais yn y dirgel: 'O Arglwydd, gad i mi bob amser dy deimlo di ynof, a rho nerth i mi fod yn ffyddlawn i ti, anwyl Arglwydd.'

Wedi hyn ymadewais, gan deimlad cariad cryf, tua Thal-ardd, pum milldir o ffordd. Cefais gipolwg ar y ffordd ar drueni yr hwn elo at y meirw heb Grist, ond nis gallwn wasgu y peth yn agosach at fy enaid. Gwelaf nad wyf ond pechod, yn farw a thywyll oll; nid oes genyf ond pechod a thrueni; nis gallaf wneyd dim, ond anghofio Duw o hyd; nis gwn ddim, ond y peth a ddangosir i mi.

Daeth pryder ar fy enaid am fy mam, ac awydd i ddadleu drosti mewn yspryd tosturi ac ofn: 'O Arglwydd, gwared hi o drueni. O na welwn hi wedi ei newid. Dyro iddi dy Yspryd, lladd ei hanghrediniaeth, gwna hi yn rhydd, dadguddia dy anwyl Fab ynddi. Gad i mi weled arwyddion amlwg o gyfnewidiad ynddi, ac yn fy enaid tlawd fy hun. O Arglwydd, goleua fy meddwl; a gwrando fi ar ran fy mrodyr. A adewir iddynt fyned ymlaen yn eu pechodau, ac mewn gwrthryfel yn dy erbyn di? Cofia*, yr hon sy'n rhan o'm henaid. Ac na alw fi i dragywyddoldeb tra'n farw yn fy mhechodau.'


Cefais olwg ar y cyflwr ofnadwy y buaswn ynddo i dragywyddoldeb; a

---

Wrth * y meddylir Ann Williams, o'r Ysgrin, yr hon ddaeth wedi hyny yn wraig i Howell Harris.

gwnaeth meddwl mor gyfiawn fuasai Duw, wrth wneyd hyn, i mi ymostwng i'r llwch ger ei fron. Ac yna dangoswyd i mi dynerwch Duw tuag ataf, rhagor at eraill. Onis gallaswn fod wedi ymbarotoi at fod yn filwr, a chael fy ngadael i mi fy hun, i fod yn erlidiwr? O, beth wyf fi, fel yr hoffwyd fi rhagor miloedd? Gwae i mi os na ogoneddaf Dduw. O Arglwydd, y mae arnaf ofn pechod. Gwna fi yn un a arweinir ymlaen gan gariad. Tyn fy holl wrth weled fod mor ychydig o bob un o'r rhai hyn ynof fi. Ofnwn nad ydyw ef ynof—ond eto y mae graddau, a phwy sydd yn tynu fy meddyliau i fyny? O na fedrwn fod yn ddiolchgar fyth.

Ar y ffordd cefais olwg gliriach ar fawredd Duw. Yr oedd y mawredd hwn o flaen fy llygaid o hyd: 'yr hwn yn unig sydd yn taenu'r nefoedd.' Yr oeddwn mewn syndod wrth feddwl yr edrychai ar lwch; ac wrth weled rhyfeddod ei



EGLWYS DEFYNOG.
[*Lle y cyfarfydd Howell Harris a Daniel Rowland am y tro cyntaf, yn y flwyddyn 1737.*]

gariad atat, ac na ad i mi orphwys nes teimlo yn sicr fy mod yn eiddo i ti, a thithau yn eiddo i mi yn fwy llwyr o hyd. Ac O, arhosed hyn ynof—cael teimlo cariad newydd, ac awydd am ogoneddu Duw.'

Cyrhaeddais Lanywyllyn, ac arosais yno tan oedd yn agos i wyth; yna troais i tuag adref heno, ac yr oedd * yn cael lle mawr yn fy meddwl. 'O Arglwydd, gad i mi sicrwydd dy fod di'n Dduw i mi, a fy mod inau'n eiddo i tithau yn mhob peth.'

Cefais beth iselder meddwl wrth weled fod Crist yn oleuni a bywyd a phurdeb, ac dragywyddol gariad yn anfon ei Fab, collais fy hun mewn edmygedd. O tyn fi yn gyfangwbl i dy garu di!

Cyn cyraedd yno yr oeddwn wedi blino, gorff ac yspryd, ac yr oedd fy nhymerau naturiol yn pallu. Pregethais ar ragoroldeb ffydd: (1) Fel y mae'n agoriad i glo trysorau gras Rhagluniaeth Duw. (2) Hi ydyw llaw yr enaid i dderbyn oddiwrth Dduw. (3) Hi ydyw'r droed i redeg ar ol Duw pan fydd yn cilio, ac i ddilyn pan fydd yn tynu ynom. (4) Hi yw y llygad i weled Crist, a phob gras wedi ei drysori

ynddo ef. (5) Hi yw y glust i glywed llais Crist yn mhob dim. (6) Hi yw llais a thafod yr enaid. (7) Ei hedyn. (8) Yn treulio bwyd ysprydol.

Ceisiais ddangos gallu cariad Crist, ond gorfod i mi roddi i fyny. Aethum i'm gwely tua haner nos.

TAL-ARDD, yn mhlwyf Llanywyllyn, Meirionydd, Dydd Iau. Codais cyn saith; wedi breuddwydio neithiwr. Cefais ddymuniadau am i Dduw fy rheoli, a rhoddi i mi fyfyrdodau sanctaidd ar y ffordd heddyw—un-milldir-ar-bymtheg yn ol eu cyfrif hwy—fel y gwelwyf fod fy nghymdeithas i gyda'r Tad a chyda'r Mab. Dymunwn yn dda, ond nid wyf yn teimlo digon o wagder yn fy enaid i dderbyn Duw. Yn sicr ni chafodd neb erioed natur mor anhawdd ganddi ddod at Dduw, ac mor anhawdd iddi gredu'r Beibl ac ymhyfrydu ynddo. Yna daethum i ddarllen y Beibl, ond ychydig o hono gyda'm calon; eithr y mae ef yn tosturio wrthyf, ac yn fy nilyn a'i gariad. Ni fu neb yn meddu mwy o Satan na myfi, nac mor galed i effeithio arnaf, ond rhyfedd yw natur gras—y gras a wnaeth ragrith yn onestrwydd ac uniondeb, y gras a wnaeth y casineb mwyaf yn gariad, y gras a wnaeth y balchder mwyaf yn ostyngeiddrwydd, y gras a wnaeth y llwfrdra mwyaf yn wroldeb, y gras a wnaeth y chwant mwyaf yn burdeb, y gras a'm cododd o'r domen i anrhydedd. O nas gallwn ei ogoneddu ef am byth!

Wedi bwyta a gweddïo gyda'r teulu, cychwynais tua Machynlleth cyn wyth, taith o un-milldir-ar-bymtheg. Mor fuan ag yr aethum allan cafodd fy enaid daerineb a llefain, ac erfyn dros Ogledd Cymru, druan: 'O Arglwydd, dyro wybodaeth iddynt. O trugarha wrthynt. Oni weli di'r tywyllwch dudew sydd yn mhobman yn eu mysg? O Arglwydd anwyl, na wrthod fy nghais; anfon wybodaeth iddynt drwy ryw fodd neu gilydd.'

Nis gallwn oddef cymeryd fy ngwrthod, eithr gwnawd i mi barhau mewn taerineb. Wedi peth cysgadrwydd, gweddïais wedin, ond yr wyf eto yn mhell oddiwrth Dduw. Yna meddyliais am fy myned i Fachynlleth heddyw, a llefais: 'Pe gwyddwn, Arglwydd, fy mod yn myn'd i dy ddianrhydeddu di, trwy ras y gallaf ddweyd nad awn. Y mae digon o ddianrhydeddu arnat heb i minau hefyd dy ddianrhydeddu di. Na ad di i mi fod yn mhlith y rhai sydd yn dy erbyn mwy. Er i mi ildio i feddyliau ofer, ac er i'r rheini sychu fy enaid, O dyro dy hun i mi, ac yna gad i mi fod y peth a fynot, gan deimlo fy enaid wedi ei ddiddyfnu oddiwrth bobpeth, a chan allu meddwl ychydig am berffeithderau Duw. Rho dy natur ynof, nid oes arnaf ofn dim ond pechod. Na foed ewyllys ynof ond dy ewyllys di, dysg fi i'th ogoneddu yn mhob peth.'

Tuag un-ar-ddeg daethum i Ddinas Mawddwy, tref wyth milldir o Fachynlleth. Yr oeddynt yn ymddangos ychydig yn dynerach yma y tro hwn, a dywedent y buasent yn falch o'm clywed. Yna penderfynais bregethu yno, a dechreuais siarad a rhyw ychydig o honynt oedd wedi dod at eu gilydd. Chwarddai rhai, yr oedd pawb a'u hetiau am eu penau, ai rhai eraill heibio heb gymeryd sylw o honof, gwaeddai rhai eraill: 'Yr wyf fi'n clywed digon yn yr eglwys. Lle ofnadwy ydyw hwn; addefasant y bydd canoedd yn dawnsio ar y Sul, ac yn chwareu pêl, yn tyngu ac yn byw pob afradlondeb; felly y mae yn mynwent Mawddwy. Ni chefais awdurdod arnynt, ac ni chymerais destun, ond pregethais yn gyffredinol am Dduw, i marw, a'r farn, a thragywyddoldeb, a phechodau a arferir. Ni chefais awdurdod, a pheidiais a siarad pan welais rai yn rhedeg ataf, gan feddwl eu bod yn dod i aflonyddu. Ond gwelais mai dod i wrando yr oeddynt, a phregethais ychydig yn ychwaneg gyda mwy o deimlad, ond ychydig iawn. Ni chefais unrhyw effaith arnynt, darostyngwyd fy yspryd; yr oeddwn yn foddlon iddynt fy mathru dan eu traed, ond yr oedd ynof dosturi tuag atynt, a pheth pryder am achos Duw. Cefais yspryd tosturi i weddïo, gan deimlo'n isel a gostyngedig iawn.

Ymadewais am haner awr wedi deuddeg, tua Machynlleth, a daeth ataf, fel o'r blaen, yspryd i weddïo dros Ogledd Cymru. Cyfarfyddais ŵr ieuanc tlawd oedd yn ffafriol, a chawsom ymgom felus; yr oeddwn yn ei garu, a chynorthwywyd fi i'w gynghori. Yr oedd gras Duw ynddo, ond yr oedd yn anwybodus am Grist.

Rhedodd y bechgyn bach ar fy ol heddyw, i waeddi. Yr wythnos hon, hyd yn hyn, y mae Satan wedi cael ychydig o ryddid. Yr oeddwn inau wedi fy ngadael, ac yn isel fy yspryd. Gofidiais pan glywais fel yr oeddynt yn cymeryd enw Duw yn ofer, a llefais: 'O Arglwydd, pa hyd y dyoddefi ni? Saf drosot dy hun, dros dy dŷ dy hun. Ymwregysa, Arglwydd, amddiffyn dy ogoniant; oni weli

di fod yr offeiriaid yn dy erbyn, oni weli fod y rhai mawr yn codi yn dy erbyn di? O Dduw, bydd gyda mi. Boed i bob-peth a'th ofidio di fy ngofidio inau; a phobpeth a'th foddhao di fy moddhau inau.' Adnewyddwyd fy nerth, ond yr oeddwn eto yn wan. Teimlais beth cymundeb a Duw, ond yr oeddwn yn rhy ddiofal yn fy myfyrdodau.

Cyrhaeddais Fachynlleth ychydig wedi tri. Disgynais wrth dŷ'r Cyllid. Yno cyfarfyddais a hen ŵr bonheddig, yr hwn oedd wedi meddwi. Cydiodd ynof, sarhaodd fi, gan ofyn cwestiynau sarhaus. Ond ni wnaed terfysg. Clywais iaith uffern—dynion yn damnio eu hunain yn fy nghlustiau—a daeth yr holl dyrfa ynghyd i chwareu pêl droed. Wedi cael ychydig o luniaeth aethum allan, gan feddwl myn'd i'r Clwt Teg oedd ger llaw. Yr oedd yr Arglwydd wedi darparu tri neu bedwar o gyfeillion i'm hamddiffyn; ac yr oeddynt hwy wedi cael lle arall i mi, mewn drws bychan oedd yn agor o lofft uwchben grisiau. Sefais yn y drws hwnw, a'm gwyneb i'r heol. Ni wnaethum yr hyn a ddylaswn wneyd mewn lle mor beryglus, sef ceisio yr Arglwydd, eithr dechreuais siarad am lw y bedydd. Ond yr oeddynt wedi ymgynddeiriogi cymaint fel na wrandawent. Yr oedd offeiriad—Mr. Griffiths, o Benegoes, mab i Ddissenter o Sir Aberteifi—a thwrne o'r enw Lewis Hughes, a gŵr bonheddig o'r enw Mr. Thomas Owens; yr oedd y rhai hyn fel pe buasent wedi eu rhoddi ar dân uffernol gan Satan. Yr oeddynt mor wallgof fel y gallesid gweled cynddaredd yn mhob gwyneb; ac ymgynddeiriogai y dyrfa, gan luchio cerig a thyweirch, a hen esgyrn ataf. Ond gwaredodd yr Arglwydd fi rhag i'r un o honynt gyffwrdd a mi. Y mae genyf achos cywilydd, am fy niofalwch yn peidio ceisio'r Arglwydd, ac yn enwedig yn peidio gweithredu ffydd. Yr oeddwn yn wan, ac nis gallaswn gael geiriau. Ond o'r diwedd ymdawelasant ychydig, a chefais inau beth awdurdod. Siaredais ychydig am y clefyd mawr sydd yn eu mysg; lluchiwyd pethau ataf, ac yr oedd yr offeiriad a'r twrne yn rhuo bygythion, yn bygwth rhoi'r cwnstab arnaf oni thawn, ac yn cynhyrfu'r dyrfa i ymosod arnaf. Teimlais nad oedd Duw wedi fy ngalw yma, neu fy mod wedi camymddwyn. Ofnais i mi ymfalchio, ond yma tynwyd fy malchder i lawr. Cefais gymorth i ddweyd wrthynt am edrych ati, na safai gwyr mawr yn y farn yn eu lle. Wrth fy ngweled yn dal i bregethu, rhedodd y twrne i fyny i'r ystafell lle yr oeddwn, mewn dig a chynddaredd mawr, a'i enau'n llawn melldithion, yn tyngu yn erchyll, gan feddwl fy llusgo i lawr. Siaredais inau yn deg ag ef, a dangosais mor afresymol oedd iddo ymwallgofi heb reswm. Gorfod i mi dewi, o herwydd nis gallai neb fy nghlywed. Ac yna daeth y gŵr bonheddig i fyny at y drws oddi allan, mewn cynddaredd mawr, a saethodd ergyd o lawddryll yn ein mysg, a chrochlefodd. Aethum inau i lawr y grisiau yn awr, gan weled fy mod mewn perygl. Aethum gyda'r cyfeillion i ystafell breifat, ac yna daeth y dyrfa i'r ffenestr, a chrochlefasant drachefn. Gwelais fy mod yn awr yn uffern, yn ymladd ag anifeiliaid yn Ephesus. Aethum allan, gan feddwl myned ymaith; ond pan gefais fy hun yn y dyrfa gwelais fod fy mywyd mewn perygl. Ofnwn gael fy nhrywanu, yr oeddwn wedi cael fy nghicio ddwywaith, ac wedi fy ngwneyd yn wawd y dyrfa. Galwent fi yn 'berson,' mewn dirmyg. Dangosodd marwolaeth ei wyneb i mi mewn llawer ffordd.

Cefais ystafell breifat wedin gan gyfaill, a bolltiasom y ddôr; ond yr oeddynt yn ysgrechain cymaint y tu faes fel yr oeddwn yn disgwyl gorfod marw pan ddown allan. Ac yn awr ymdrechais geisio Duw, ond gadawyd fi yn unig. Yr oeddwn ar fy mhrawf, a'm ffydd yn wan. Deisyfais ar iddynt beidio fy llofruddio; ac yna agorasom y drws ac aethom i'w mysg.

Achubodd yr Arglwydd fy mywyd; a gwnaeth iddynt adael i mi fyned pan ddywedais fy mod am droi i ffwrdd. Pan ofynais am heddwch yn enw'r brenin, dywedodd un na chawn niwed; a dywedodd un arall, pan oeddynt yn meddwl fy mathru dan eu traed, fy mod yn gyd-greadur. Cymerais fy ngheffyl, ac aethum ar hyd ffordd gefn; ond gorfod i mi fyned drwy ran uchaf y dref ar fy ffordd, a dyna lle yr oeddynt yn dod oll i'm cyfarfod eilwaith. Rhedodd un ataf drwy'r caeau, gan godi dwy dywarchen. Dymunais arno beidio fy lladd; taflodd un dywarchen ataf a methodd, yna taflodd y llall yn union heibio fy mhen. Aethum trwy eu canol, lluchiwyd cerig ar fy ol, ond cadwodd yr Arglwydd fi, ac ni chefais fy nharo gan gareg. Rhedodd un gyda pholyn ar fy ol i'm taro, ond nerthodd yr Arglwydd fy ngheffyl blinedig i garlamu, ac felly dihengais. Ond yr oedd fy nghyfaill ar ei draed, ac yn eu

canol; ac ni theimlais gariad yn fy nhynu yn ol i'w achub, er na fedraswn wneyd dim. Ond achubodd yr Arglwydd ef a'r lleill. Pan ddaethum at fy nghyfeillion, galwodd tri neu bedwar o bobl ar ein holau. Yr oeddwn yn ddrwgdybus o honynt; er hyny arhosais hwynt. Yr wyf yn meddwl mai rhai wedi dod i'm dal ar fy nhaith oeddynt; gofynasant i mi beth oedd fy mywoliaeth, a beth oedd yn gwneyd i mi ddod o gwmpas, a chwestiynau felly.

Pan ar fy mhen fy hun, agorodd y Llyfr ar 2 Tim. iv. 17, 18. Treiais geisio'r Arglwydd, ond yr oedd wedi cilio; nis gallwn ei gael, ond medrais lefain: 'Arglwydd, nid af oddiyma nes yr edrychot arnaf.' O mor ddigysur ydyw arnom hyd nes y daw yr Arglwydd o hono ei hun. Parodd ei ymadawiad oddiwrthyf i mi edrych ychydig i mi fy hun, a gwelais fod popeth o'i le,—(1) Nid oeddwn wedi cael galwad glir i ddod yma. (2) Nid ymdlygais, y mae arnaf ofn, er anrhydedd i Dduw; a gwelaf na wnaf, os na chynhelir fi bob eiliad ac os na ddysgir fi gan Dduw. Ond cefais gysur wrth feddwl fy mod wedi gwneyd, er nad fel y dylaswn, eto fel y daeth i'm meddwl i wneyd. (3) Ni ddisgwyliais ddigon wrth Dduw, a thorais y gorchymyn: 'Nac ofnwch y rhai sydd yn lladd y corff.' Ond ildiais i ofn y cnawd, dywedais yn deg wrth elynion yr Arglwydd, gwelais fy hun yn llawn o hunan-gariad, yn cymeryd mwy o ofal am fy mywyd nag am achos Duw, ac nid oedd pryder am ei anrhydedd ef yn ddwfn yn fy nghalon.

Daeth y pethau hyn oll i'm meddwl; ond wrth ddisgwyl wrth Dduw, cofiodd drugaredd; er fy mod i yn hir mor galed a chareg, heb gariad, yn galed a sych, a'm calon yn berwi drosodd o feddyliau chwerwon am Dduw. Cefais gymorth i osod yr holl fater ger bron Duw, ac i ymbil ag ef, gan deimlo peth euogrwydd a'm caledai. Nis gallwn fyned ymaith,—disgwyliwn, gobeithiwn wrth weled tynerwch Crist,—ond yr oedd fy enaid mewn cadwynau. O'r diwedd rhyddhawyd fi, a medrais lefain gyda pheth gofid, wrth gofio i mi gwympo yn Adda, a cholli ei ddelw ef: 'Ai ni welir dy ddelw arnaf byth mwy? O anwyl ogoneddus Arglwydd! Ai nid digon genyt yr hyn a wnaeth Crist drosof? Tro oddiwrthyf wyneb dy gyfiawnder, ac edrych arnaf mewn trugaredd yn Nghrist. O edrych ar ei waed ef!'

Cefais feddwl rhydd i weddïo drostynt oll, ond ni fedrais gael taerineb. 'O Arglwydd, anwyl Arglwydd, yr wyf yn hiraethu am fod gyda thi. O pa hyd raid iddi fod nes y caf ddod! O 'rwyf yn hiraethu, 'rwyf yn hiraethu—cymer fi, enill y fuddugoliaeth yn llwyr dy hun. Yr wyf yn sicr nad oes yr un cythraul yn uffern haeddodd uffern yn fwy na fi, ond y mae genyt ti drugaredd—golch fi yn ngwaed Crist, selia fi yn blentyn i ti dy hun.'

Yna adfeddienais fy enaid, i ddweyd geiriau cariad melus, a diolchgarwch. Yna aethum at y brodyr; gweddïasom a chanasom ynghyd hyd saith. Wedi hyn aethum i dy fy ngyfaill, bu'm yno hyd wedi deg, yna i'm gwely.


Dysgais oddiwrth heddyw: (1) Fel y digir yr Arglwydd, ac fel y dengys ei amynedd wrth fy nyoddef. (2) Gymaint o wrthryfel sydd yn Satan, pan welir cymaint o derfysgu yn mysg dynion er cymaint o atalfeydd—er gwaethaf cydwybod, cyfreithiau dynol, gobaith, cywilydd, &c. (3) Fy mod bob amser yn teimlo yn ddiolchgar drostynt am y fraint o siarad a byw dros Dduw. (4) Beth wyf pan wedi'm gadael, mor barod i edrych i lawr. Mor dda i mi ei fod ef yn dal gafael ynof fi, onide buan iawn y collwn fy ngafael ynddo ef. (5) Mor gryf ydyw cynddaredd Satan yn fy erbyn; a rhaid mai ei gynddaredd ef yw hwn, o herwydd nid oedd dim arall i enyn y bobl yn fy erbyn. Galwasant fi yn ymhonwr ac yn awdwr y cynhwrf hwn; a phe buasent wedi fy nghael allan o'r ty, yr oeddynt wedi meddwl fy nghario mewn cadair o gwmpas y dref, mewn gwawd.' Yma daw ei fyfyrdodau a'i weddïau hyd nes y cysgodd, cyn un o'r gloch y boreu.

"Rhuegruawell, plwyf Penegoes, Sir Drefaldwyn. Yr oedd fy nghorff yn flinedig, wedi trafaelu ugain milldir ddoe, ac arhosais yn fy ngwely tan oedd agos yn naw. Breuddwydiais fy mod yn derbyn fy nghymun gyda'r Dissenters, ac arhosodd y meddwl hyfryd yn f'enaid. O mor ddiyni ydwyf; a phan fyddaf ar lawr, pa fodd y gallaf godi? A rhoddodd ffydd, wedi ei sylfaenu ar yr addewidion, allu i mi ddisgwyl am atebiad, o herwydd fod Duw wedi addaw, a bod Crist yn y nefoedd. Dadleuais hyn, fel y noson o'r blaen.

Wedi hyn, pregethais hyd oedd yn agos i un-ar-ddeg. Cefais beth cymorth wrth weddïo. A melus oedd pregethu am osod y sylfaen yn ddwfn, ac am afresymoldeb erlid. Daeth adnodau lawer i'm

meddwl i ddweyd na chawn ond erlid yma. Cefais gymorth i siarad, yr wyf yn gobeithio, yn ddidderbyn-wyneb, a chyda thynerwch."

Oddiyma aeth tua Thalerddig, ac yr oedd yn nos ar ei brofiad wrth deithio. Nis gallai gredu mwy nag y medrai ehedeg, ond medrodd weddio. Pregethodd ar gwymp Petr, gan ddifynu adnodau o'i hoff Rufeiniaid. Efengyleiddiodd, ac yr oedd yno ' wylo mawr.' Ar ganol adrodd ei bregeth dywed: "Yr wyf yn gweled cymaint o ddrygioni yn fy nghalon fel nas gallaf ddweyd y cwbl wrth fy mrawd Lewis Rees. Pan ofynodd un i mi i ble yr ai i gymuno, nis gallwn ddweyd wrthi am fyn'd ato ef, gan yr hoffwn gael seiadau yn ein heglwys ni; ond pan welaf na fyn Duw hyn, yr wyf yn ymostwng. Ni fedraf fyned gam o flaen ei Yspryd ef." Wedi prophwydo y proffid eu ffydd, a chael hwyl ryfedd ar bregethu, a son am "offeiriad cnawdol," aeth tua Chwmcarne, a phregethodd yn nerthol ar ddiwydrwydd Satan, a phethau eraill. Ar weddi, cafodd Lewis Rees lewyrch rhyfedd, ond tywyll oedd hi ar Howell Harris. Eto teimlai fod rhywbeth yn ei gynal.



COFLECH HOWELL HARRIS YN EGLWYS TALGARTH.

"Treuliais beth amser i drefnu i ba le i fyned yr wythnos nesaf. Teimlwn awydd cryf am fyned adref, meddwn deimlad i weddio am fyned, i weled fy mam a * Ond perswadiwyd fi, yn erbyn fy nheimlad, i fyned ffordd arall, o dosturi at eneidiau."

Yr ydym yn gobeithio nad yw ein darllenwyr yn blino ar y dydd-lyfr. Yr ydym yn difynu mor helaeth o hono am ei fod yn taflu goleu cryf ar ansawdd y wlad, ac ar yr amgylchiadau a gyfarfu y Diwygiwr yn ei ymdrech i geisio efengyleiddio ei gydwladwyr; ond yn fwy arbenig, am ei fod yn ddangoseg o natur ei brofiad, y pruddglwyf a'i goddiweddai yn aml, ei ddyhead am Dduw, a'i ryfeloedd yn erbyn anghrediniaeth a llygredigaeth ei galon. Gellid meddwl y buasai, ar ol cymaint blinder ac erlid, yn dyheu am orphwys; ond pan yn ysgrifenu y dydd canlynol o Lanbrynmair, trefnu cyhoeddiad arall y mae. Fel hyn y dywed: "Arfaethaf lefaru yn y sir hon hyd dydd Mawrth. Nos Wener yr wyf yn bwriadu, os Duw a'i myn, cysgu yn nhŷ fy anwyl fam, a phregethu yno boreu dydd Sadwrn." Yna trefna i gyfarfod a chyfeillion yn Nolygaer nos Sadwrn, myned i Cwm Iau, lle yn y mynyddoedd, rhwng y Fenni a Thalgarth, y Sul, i wrando ar yr offeiriad efengylaidd, Thomas Jones; llefaru yn y prydnhawn yn agos i Cwm Iau, a dychwelyd i'r Fenni i gysgu. Yna llefaru dydd Llun yn Llandilo, ger y Fenni, a nos Lun yn y Goetre, ger Pontypŵl; dydd Mawrth yn ysgol William Powell, a nos Fawrth yn y *Trensh*: dydd Mercher yn Llanafan, yn agos i dŷ hen ŵr oedd yn awyddus am ei weled, ac yn *Brooks* nos Fercher. Oddiyno myned i bregethu i Langynidr boreu dydd Iau, gan gyrhaedd Trefecca nos Iau. Ond wedi cyrhaedd adref, nid oes ganddo hamdden i orphwys. Arfaetha bregethu yn Nhrefecca boreu dydd Gwener, myned y Sul i wrando y Parch. Thomas Lewis, offeiriad ieuanc

oedd yn bregethwr da yn nghymydogaeth Aberhonddu, a chychwyn oddiyno am daith faith arall yn Sir Benfro. Braidd nad oedd angerddolrwydd ei yspryd yn ei godi uwchlaw lludded corff; ac nid gwerthfawr ganddo yntau ei einioes ei hun, os gallai gyflawni rhyw wasanaeth i Grist ei Iachawdwr. Yr un pryd, digalon y teimlai gyda golwg ar Sir Drefaldwyn. "Yr wyf yn ofni," meddai, "fod y sir hon dan felldith; yr wyf yn cael fod y rhan fwyaf, os nad yr oll, o'r boneddwyr yn elynion."

Fel yr arfaethasai Howell Harris, felly y cyflawnodd. Cychwyna tua Sir Benfro dydd Llun, Mawrth, 1740, gan bregethu dair gwaith yn ystod y dydd. Yn Llywel (Trefcastell) cynhelid ffair bleser; pregethodd yntau gydag awdurdod yn ei chanol. Ceisiodd Satan ei rwystro trwy osod un i fynu i holi cwestiynau iddo, ac un arall i ganu'r gloch, ac arall drachefn i gadw swn. Ond aflwyddianus fuont. Wedi gorphen y bregeth, gosodasant i fynu ddawns yn y fynwent; nis gallai ei enaid yntau oddef iddo ymadael tra yr oedd y dawnsio yn myned yn mlaen; aeth i'w canol, a tharanodd felldithion y gyfraith ddwyfol yn eu clyw, nes eu gyru oll ar ffo. Trwy yr wythnos, cawn ef yn teithio o gwmpas deg milldir, ac yn pregethu dair gwaith y dydd, nes, erbyn nos Sadwrn, Mawrth 8, y mae yn cyrhaedd tŷ yr Hybarch Griffith Jones, Llanddowror. Gydag ef, a Madam Bevan, y treuliodd y Sabbath, ac yr oedd eu cymdeithas, yn ol ei ddydd-lyfr, yn wledd felus i'w enaid. Dydd Llun, yr ydym yn ei gael yn Llwyndryssi, plwyf Llangan, Sir Gaerfyrddin; a dydd Mawrth y mae wedi myned i mewn i Sir Benfro.

*Yr oedd Penfro yr adeg yma yn gyffelyb i siroedd eraill Cymru o ran drygfoes, anwybodaeth, a choelgrefydd; os nad oedd, yn wir, yn fwy ofergoelus. Dywedir yr ai y trigolion i'r llan, Sul y Pasg, yn nhraed eu hosanau, sef heb esgidiau, rhag, meddent, gyffroi y pridd. Ar foreu Nadolig cyfodent cyn dydd i edrych y Rhosmari, a thaerent ei fod yn blodeuo; ond rywfodd nid oedd y blodau byth yn aros hyd doriad y wawr. Credent fod ysprydion yn yr eglwys nos Calangauaf, yn cyhoeddi enwau pawb perthynol i'r plwyf a fyddai farw o fewn corff y flwyddyn ddyfodol. Ceid ambell un yn ddigon gwrol i fyned i wrando dan ffenestr y gangell; clywai hwnw, meddid, yr enwau yn cael eu cyhoeddi; ond pe elai a chydymaith gydag ef, ni chlywid dim. Ddydd Calanmai byddai ganddynt helynt fawr ynghylch "gwisgo y fedwen;" ymdyrai y lliaws ynghyd, a meddwdod ac ymladd fyddai y diwedd. †Dyoddefai hyd yn nod y ddaear oblegyd anwiredd ei thrigolion. Prin y gellid dweyd fod amaethyddiaeth yn bod o fewn y sir; ychydig neu ddim triniaeth a gaffai y tir; bwrid ychydig yd i'r ddaear yma a thraw, yn y llanerchau hawddaf i'w haredig; ond ni fyddai na gwrych na chlawdd o'i amgylch, a gwaith y trigolion trwy yr haf fyddai ei warchod, a chadw yr anifeiliaid allan o hono. Gwelir hyd yn nod y tir yn ddyledus i'r diwygiad. Yr oedd rhai eglwysi perthynol i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr wedi eu planu yma oddiar y ganrif flaenorol; ac ymddengys fod bedydd wedi bod yn destun dadl, a chwerwder yspryd nid bychan yn eu mysg, oddiar adeg y ddadl gyhoeddus ar lechwedd y Frenni Fawr, yn 1692, hyd yn awr. Y mae dydd-lyfr Howell Harris yn llawn o gyfeiriadau at yr ymryson ynghylch bedydd; teimlai ei galon yn ofidus ynddo o'r herwydd.

Gwnawn ei ddilyn ar ei daith trwy y wlad gyda chymorth ei ddydd-lyfr a'i lythyrau.

TREFHOWELL, plwyf Llanfrynach, Sir Benfro, dydd Mawrth. Y peth cyntaf a wna wedi codi o'i wely yw gweddïo ar ran John Powell, gweinidog cyfagos perthynol i'r Bedyddwyr, yn ol pob tebyg, yn yr hwn y cred fod y gwaith da wedi ei ddechreu, ond yr ofna iddo gael ei arwain ar gyfeiliorn, a gwneyd niwed. Yna gofyna am gael ei wrando ar ran y Bedyddwyr, yn mysg pa rai y mae yn hyderus fod llawer o bobl i'r Arglwydd, ond amheua mai o hono ef y tardd eu hyspryd condemniol. "Melusa hwy a dy gariad," medd, "fel y byddont bobl bur i ti." Gweddïa yn ganlynol dros y Methodistiaid, ar iddynt gael eu cadw rhag cyfeiliornadau; a thros holl weinidogion y Gair. Cyfaddefa ei fod ef yn hollol allan o drefn, ar ei ben ei hun yn gyfangwbl, ond eto yn cael drws agored i'r weinidogaeth. "Gwna di, Arglwydd, dy ewyllys dy hunan arnaf," medd; "na ad i mi fyned yn fy nerth fy hun, nac yn fy neall fy hun." Ceisiwyd ganddo bregethu ar bwnc dadleugar, bedydd yn ddiau, ond ni wnai, o herwydd y cariad

* *Methodistiaeth Cymru.*

† *Ibid.*

a lanwai ei galon; yn hytrach ymosododd ar lygredigaeth yn y wedd o falchder, meddwdod, gwyn, a chybydd-dod.

Prydnhawn yr un dydd cyfeiria ei gamrau tua Maenclochog, ac ar y ffordd cyffröir ei enaid ynddo wrth siarad am Enoch Francis, gweinidog ymadawedig perthynol i'r Bedyddwyr, galara am y golled a barodd ei farwolaeth i'r eglwys, a gweddïa na chaffo Satan wneyd dinystr arnynt yn awr, wedi i Mr. Francis gael ei symud. Yr oedd Enoch Francis yn bregethwr gwych, ac yn dal gafael dyn yn yr athrawiaeth efengylaidd. Ei ddylanwad ef yn benaf a gadwodd eglwysi y Bedyddwyr yn Nghymru rhag gwyro at Arminiaeth, fel y gwnaethai amryw o'r eglwysi Presbyteraidd. Erbyn cyrhaedd Maenclochog nid oedd neb yn ei ddisgwyl, nid oeddynt wedi clywed am ei ddyfodiad; ond yn mhen rhyw awr casglwyd cynulleidfa o amryw ganoedd, a phregethodd yntau am agos i dair awr. Cyn dechreu, bu mewn ymdrechfa galed a Satan; ond rhoddodd yr Arglwydd fuddugoliaeth iddo ar y gelyn, a galluogwyd ef i lefain: "Satan, gwna dy waethaf! Yn enw yr Iesu yr wyf yn dy herio! Mi a dynaf dy deyrnas i lawr, ac a ddynoethaf dy ddichellion." Yr oedd y rhan gyntaf o'r bregeth yn daranllyd, ac yn dynoethi drygedd y galon; yna trodd i ddangos mai dyna y rheswm paham y dylent ddyfod at Grist. "Ar hyn," medd, "wylodd llawer yn chwerw; ac ymddangosai nerth mawr yn ein mysg oddiyno i'r diwedd. Cyn ymadael anoga broffeswyr crefydd i beidio ymryson, ac ymladd y naill yn erbyn y llall, ond i gytuno yn eu hymdrechion yn erbyn y gelyn. Cyfarfu yma a'r Parch. John Powell, y gweddïasai drosto yn y boreu; "a galluogwyd fi,' medd, "i lawenychu yn galonog yn ei lwyddiant." Yn yr hwyr cychwyna tua Hwlffordd; y mae yn llefaru ar fin y ffordd; cyn cyrhaedd, clyw fod un M. P—— yn pregethu yn erbyn bedydd babanod, a theimla ei yspryd yn ymgynhyrfu gan awydd cymeryd i fynu arf yn ei erbyn. Eithr gwedi ail ystyriaeth, tyr allan mewn gweddi, i ofyn ar i'r Arglwydd lywodraethu ei yspryd a'i galon. Y mae yn clywed, hefyd, os aiff i Dyddewi, y caiff ei gymeryd i'r ddalfa, fod un Justice Vaughan wedi arwyddo gwarant i'r perwyl hwnw; "ond gwnaed i'r oll a glywais," medd, "ddylanwadu yn felus ar fy enaid, i'm tynu allan o fy hunan at Grist."

Dydd Mercher, y mae yn Hwlffordd. Wrth ddal cymundeb â Duw yn y boreu dywed: "Yr wyf yn gofyn am help yn unig i fod yn ffyddlawn i'm Harglwydd; nid yw fy mod i yn cael fy namsang mewn un modd yn ddolurus; nid oes arnaf ofn dim yn gymaint ag i mi drwy fy ngwaith dy ddianrhydeddu di." Gobeithia fod yr Arglwydd am ddefnyddio John Powell i ddiwygio y sir, a hydera y bydd iddo yntau gael gwneyd yr oll a fedr i gryfhau ei ddwylaw. Y mae yn pregethu i ganoedd lawer, cyfrifa y gynulleidfa tua dwy fil. Pregetha yr un dydd yn Saesneg am agos i ddwy awr; pwnc y bregeth yw fod crefydd yn gynwysedig mewn gallu, fel ei heglurir mewn cysylltiad â Zaccheus, ac yn nhroedigaeth Paul. Ymddengys fod yr odfa yn un dra nerthol; "llanwodd yr Arglwydd fy ngenau â geiriau," medd; "dyrchafwyd fy llais i fynu; gwnaed fy yspryd yn gryf; yr wyf yn gobeithio fod awdurdod yn cydfyned, ac i mi gael cymorth i edrych i fynu at Dduw." Pregetha ar yr un mater drachefn yn Gymraeg. Teimlodd hyfrydwch mawr wrth lefaru y ddau dro; ond yn arbenig yn Gymraeg. Yn ganlynol, ymgynghora â chyfeillion gyda golwg ar ei daith trwy ranau eraill y sir.

Dydd Iau, yr ydym yn ei gael eto yn Hwlffordd, ac yn myned i ymweled a'r Parch. Howell Davies, yr hwn feddyliem a ddaethai i'w wrando. Yr oedd y gyfeillach mor felus fel ag i beri i Harris waeddi "Gogoniant!" "Cefais ymddiddan maith ag ef am wahanol bethau," meddai. "Galwai ef sancteiddrwydd yn amod iachawdwriaeth; addefwn inau nas gallai iachawdwriaeth fod hebddo; ond nad oeddwn yn foddlawn ei alw yn amod, rhag i bobl gael eu gyru i chwilio am dano ynddynt eu hunain ac nid yn Nghrist, gan dybio na chânt eu derbyn os na byddant yn feddianol arno. Yr ydym yn cael ein cyfiawnhau er mwyn Crist, ac yn cael ein hachub trwy weled mawr gariad Duw yn rhoddi ei Fab. Ymddiddanasom am deimlad, a'r modd i brofi ei wirioneddolrwydd, trwy y cyfnewidiad a effeithia ar ein heneidiau a'n bywydau; am yr angenrheidrwydd am ffydd yn flaenorol i weithredoedd; am berygl moesoldeb heb egwyddor; am y perygl o fod yn amddifad o dlodi yspryd, i beri i ni anobeithio ynom ein hunain, a'n tynu allan o hunan at Grist; a pha fodd yr ydym yn cael ein cyfiawnhau yn ngolwg Duw trwy Grist, ac nid o herwydd ein hedi-


feirwch a'n gweithredoedd da.' Teimlai Mr. Harris fod ganddo reswm cryf dros geisio cydnabyddiaeth eangach â'r Ysgrythyr. "Ymadawsom yn felus," meddai. A oedd Mr. Davies wedi ei ordeinio yn awr, sydd ansicr; ond y mae yr ymddiddan hwn rhyngddo ef, a wnaed gan yr Arglwydd gwedi hyn yn Apostol Sir Benfro, a Howell Harris, yr hwn a wnelsid yn Apostol holl Gymru, a rhanau helaeth o Loegr, yn dra dyddorol. Wrth fyned o Hwlffordd, clywodd bethau dychrynllyd am gyflwr moesol y wlad; fod meddwdod, puteindra, tyngu, a drygau cyffelyb yn ffynu ynddi, fel na wyddai beth i'w wneyd.

Dydd Gwener, y mae mewn lle o'r enw Loverson, tua saith milldir o Hwlffordd. Yma eto cyfeiria at y Bedyddwyr, ac ymddengys fod ei deimlad tuag atynt wedi newid yn gyfangwbl. "Cefais gryn deimlad," medd, "wrth weddio dros John Powell. Mi fum nas gallwn garu y Bedyddwyr, na llawenhau yn eu llwyddiant; ond yn awr y mae y cadwynau oll wedi eu dryllio; yr wyf yn teimlo cariad atynt, a phleser yn eu llwyddiant; a mawr yw y nefoedd wyf yn fwynhau yn hyn." Pregethodd yma eto yn Saesneg a Chymraeg ar ein cwymp yn Adda, ac am gariad Crist. Gobeithia i lawer gael eu dwysbigo hyd adref yn yr odfa. Y mae yn myned oddiyno i dŷ Crynwr, yn mhlwyf Llanddewi. "Tra y bof yr ochr hyn i dragywyddoldeb," medd, "na fydded i mi dramgwyddo yr un o dy blant, o unrhyw blaid neu enwad." Pregethodd yma am nerth duwioldeb, oddiar y geiriau, "Deled dy deyrnas." Yn nhŷ y Crynwr y lletyai, ac ymddengys i'r gymdeithas rhwng y ddau fod yn nodedig o felus; gobeithia Harris na chaiff ei adael i ddweyd gair anffafriol am y bobl hyn eto.

Dydd Sadwrn, y mae yn Pwllhook, ger Clarbeston. Llefarodd gyda nerth mawr am yr angenrheidrwydd o seilio ein gobaith ar waed Crist, a pharhaodd y cyfarfod dros ddwy awr. "O, na fyddai i Dduw," medd, "dosturio wrth y sir hon. Yr wyf fi yn ymadael a'r lle, yn unol a chyngor cyfeillion, er mwyn ymroddi i astudio, gan yr ymddengys mai hyny yw ewyllys Duw." Gwelir fod y pwnc o gymeryd ordeiniad esgobol yn ei flino o hyd. Oddiyma y mae yn myned i le na rydd ei enw, lle yr oedd cynulleidfa o dair mil o leiaf; cafodd nerth mawr wrth weddïo, a phregethodd hyd agos i saith ar "Deled dy deyrnas,' gan gymharu y ddwy deyrnas a'u gilydd. Y Sul, y mae yn Wolf's Castle, lle y llefara ar gyfiawnhad. Llefara hefyd yn y prydnhawn, ond ni theimlai unrhyw awdurdod. Yna â tua lle o'r enw Trecomau, lle yr ymgynullasai amryw filoedd. Dydd Llun, y mae yn Nhre-Cadwgan, plwyf Whitchurch. Yr oedd yn flinderog mewn gweddi, ond cynorthwyodd yr Arglwydd ef i raddau. Yma gwelodd lythyr wedi ei ysgrifenu gan weinidog perthynol i Eglwys Loegr, yn erbyn y Bedyddwyr, ac achwyna nad yw y llythyr yn arogli o yspryd Crist. Am ddeg y mae yn cychwyn tua lle o'r enw Tygwyn. Yma cyfarfu a gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr, o'r enw Thomas Williams, yr hwn a ofynai iddo pa brawf oedd ganddo dros fedydd babanod. Cyfeiriai Harris ef at 1 Cor. vii. 14: "Canys y gŵr digred a sancteiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gŵr; pe amgen, aflan yn ddiau fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt." Nid oedd gan Mr. Williams ddim i'w ateb, ond nad oedd yn gweled bedydd babanod yn y geiriau. "Yr oeddwn mewn brys," meddai Mr. Harris, "ac nis gallwn aros; ond gwelwn eu bod yn ddeillion i dybio ei bod yn ddyledswydd arnynt dros Dduw i amddiffyn un gwirionedd, heb ystyried eu bod wrth hyny yn niweidio gwirioneddau eraill. Dywedais wrtho ei fod yn gwneyd yn iawn wrth ufuddhau i'r goleuni sydd ynddo ef; felly finau wrth ufuddhau i'r goleu sydd ynof fi."

Dydd Mawrth, y mae yn Hendre-Einon, Tyddewi. Dywed ei fod yn deall ddarfod i'r Arglwydd eisioes ei arddel i wneyd daioni mawr yn Sir Benfro, a bod un Cadben Davies a'i foneddiges wedi ymlynu wrtho. Gweddïa: "O Arglwydd, tosturia wrth y sir hon. Yr wyf yn foddlawn cymeryd fy arwain genyt ti, gyda golwg ar fy ymddygiad yn y dyfodol, pa un a af o gwmpas a'i peidio. Galluoga fi i ddal i fynu, gorff ac enaid." Pregetha i amryw filoedd ar drueni yr hwn sydd heb Grist, am y creadur newydd, ac am y ffydd sydd yn cyfiawnhau, ac yn gafaelu yn y Gwaredwr. Yr oll a ddywed am yr odfa yw fod yno nerth, a'r gwirionedd yn chwilio y galon. Yn *Methodistiaeth Cymru* ceir hanes manylach gan Mr. T. Rees, Trepuet. Dywed ef y pregethai Mr. Harris wrth y Groes, ynghanol yr heol; fod hyny wedi cael ei hysbysu yn flaenorol, ac i dyrfa fawr ymgasglu ynghyd. Dy-

noethai y llefarwr arferion llygredig y dinasyddion yn ddiarbed a difloesgni; ac yr oedd pob darn ymadrodd o'i enau yn gwreichioni ac yn melltenu mor daranllyd i gydwybodau y gwrandawyr, nes yr ofnent fod y farn gyffredinol wedi eu goddiweddyd. Mor rymus oedd yr effeithiau, fel yr oedd dynion dewrion a thalgryfion yn syrthio yn gelaneddau ar yr heol, mewn llewygfeydd o fraw a dychryn. Odfa i'w chofio byth ydoedd yn ddiau. Arswyd a gynhyrfai yn benaf; fel y dywed efe ei hun, trueni y sawl oedd heb Grist oedd ei phrif fater, a chyhoeddi gwae yn erbyn yr oferwyr a mynychwyr y campau; trwyddi dadymchwelwyd yr hen chwareuon, a fuont yn uchel eu penau am oesoedd, fel nad ydynt wedi medru codi eu penau hyd heddyw. Fel engrhaifft o'r dylanwad, adroddir am lencyn pymtheg oed, mab i un Sion Griffith, a ddaethai i'r odfa yn hollol ddifeddwl, gan gael ei gyffroi gan gywreinrwydd yn unig. Ond aeth saeth i'w galon, ac er pob ymdrech, methai ei hysgwyd ymaith. Cynyddu a wnaeth ei drallod. Yr oedd ing ei fynwes yn ymylu ar wallgofrwydd; nes iddo benderfynu rhoddi terfyn ar ei einioes trwy daflu ei hun bendramwnwgl i'r môr, gan na wnai wrth fyw yn y blaen, ond lliosogi ei bechodau, a thrymhau ei gosb. Eithr tra yn cyfeirio ei gamrau at y geulan, daeth yr ymadrodd, "Ha fab, maddeuwyd i ti dy bechodau," gyda nerth i'w feddwl; y fath oedd y goleuni a lewyrchai arno, fel y syrthiodd yn gelain ar y ddaear; wedi dadebru, bu yn ceisio amheu nad oedd y gair yn perthyn iddo ef; ond ofer fu ei ymdrech, a chyn codi, llwyr roddodd ei enaid i ofal y Gwaredwr. Erbyn codi ar ei draed, ymddangosai hyd yn nod y ddaear iddo wedi gwisgo gwedd newydd. Diau nad yw hanes y llanc hwn ond un allan o lawer cyffelyb.



COFLECH HOWELL HARRIS YN Y CAPEL COFFADWRIAETHOL.

O gwmpas 11 yr un dydd y mae yn myned tua Threfin, ac ar y ffordd y mae ei yspryd yn flin ynddo oblegyd fod Duw yn cael ei ddianrhydeddu yn y wlad, a'i Sabbathau yn cael eu halogi. Dywed fod gwaith da yn cael ei gario yn mlaen trwy y diwygiad, os na chai ei rwystro gan rai oddifewn yn ffurfio pleidiau. Yn Trefin cafodd ymddiddan â chyfeillion anwyl a ddaethent ato i ymgynghori gyda golwg ar ddyfod at Grist, a galluogodd yr Arglwydd ef i fod yn ffyddlawn. Erbyn myned i'r maes yr oedd rhai miloedd yn disgwyl; cafodd nerth mawr ar weddi; llefarodd am dair awr oddiar Ioan xv. 1, gan ddangos yr angenrheidrwydd am i ni gael ein huno â Christ. "Yr oedd yn ddiwrnod gogoneddus," meddai. Efallai y cyfeiria hyn at yr odfa yn Nhyddewi yn gystal a Threfin. Yn y tŷ daeth rhai ato i ymddadleu yn nghylch bedydd; gwrthododd gymeryd y mater i fynu, gan lefaru yn hytrach am yr angenrheidrwydd o gael Crist ynom.

Dydd Mercher, y mae yn Nhref Howell, plwyf Llanwnda, ar lan y môr. Oddiyno cyfeiria ei gamrau tuag Abergwaen, lle y pregethodd yn Saesneg a Chymraeg i amryw filoedd. Yr oedd llawer o fonedd

y wlad wedi dyfod i'w wrando, a gobeithia ei fod mewn yspryd cariad a phwyll wedi medru eu cyrhaedd. Yn Gymraeg pregethai ar droedigaeth Paul, ac ymddengys fod y cyfarfod yn un nodedig iawn. "Galluogwyd fi," medd, "i daranu mewn modd ofnadwy iawn gyda golwg ar uffern." Cyn gorphen, pa fodd bynag, cyfeiria at gariad Crist. Ymddangosai effeithiau anarferol yn cydfyned a'r traddodiad, a llawer yn cael eu dwysbigo. Achwyna fod John Powell yn ymgynhyrfu gyda golwg ar fedydd, a'i fod y dydd Llun blaenorol wrth bregethu wedi galw yr athrawiaeth am fedydd babanod yn gyfeiliornus, uffernol, melldigedig, a chythreulig. "O," meddai, "fel yr wyf yn hiraethu am heddwch a chariad.'

Dydd Iau, y mae yn Nevern, tua milldir o Trefdraeth. Teimlai angenrhaid arno yma i lefaru ar "Profwch yr ysprydion." Gofynwyd iddo fyned gydag un a eilw "Parson Thomas," gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr, yn ol pob tebyg. "Yr wyf yn meddwl," ysgrifena, "ei fod er gogoniant Duw i mi fyned; nid i ymryson a'r Bedyddwyr, ond i geisio atal yr ystorm, a pheri i bawb brofi eu hunain. Yn sicr, y mae Duw yn cael ei ddianrhydeddu, ac eneidiau yn cael eu dinystrio, trwy y zêl hon." Oddiyma à tua Glyn-Meredydd. "Yr wyf yn credu," meddai, "fy mod yn eiddo i ti. Ti yw fy Mrenin, a fy Meistr." Wrth ganu, portreadwyd dyoddefaint, angau, a chariad yr Arglwydd Iesu, mor fyw gerbron llygaid ei feddwl, fel yr enynwyd fflam o gariad yn ei enaid yntau. Yn nesaf yr ydym yn ei gael mewn lle o'r enw Dygoed. Dydd Sadwrn y mae mewn lle o'r enw Bwlchyclawdd, yn mhlwyf Maenclochog, y Sul yn Rhyd Hir, plwyf Llanddewi Velfrey, a dydd Llun y mae yn ymadael a Sir Benfro, ac yn cyrhaedd lle o'r enw Wenallt.

Gyda golwg ar y daith hon yn Mhenfro, y mae yn sicr mai yn y flwyddyn 1740 y cymerodd le; profa llythyrau a dydd-lyfr Mr. Harris hyny tu hwnt i amheuaeth. Amlwg yw idd ei ddyfodiad gynyrchu cyffro dirfawr. Pan y deuai cynulleidfaoedd o amryw filoedd i wrando, mewn gwlad mor deneu ei thrigolion, rhaid fod corff y boblogaeth am filldiroedd lawer o gwmpas yn crynhoi ynghyd. Y mae yn sicr fod yr odfaeon, rai o honynt, beth bynag, yn nodedig o nerthol; fod y cynulleidfaoedd yn cael eu hysgwyd fel cae o yd o flaen rhuthr y corwynt. Mynai y Bedyddwyr ddadleu ag ef gyda golwg ar fedydd; yr oedd ei enaid yntau yn cashau dadleuaeth, ac ni fynai ymryson. Nid oedd ganddo wrthwynebiad pendant yn erbyn yr athrawiaeth am fedydd y crediniol; ond credai ei bod yn cael ei gwthio yn ormod i sylw, pe byddai yn wir, a hyny ar draul esgeuluso gwirioneddau pwysicach. Ond yr hyn a'i blinai fwyaf oedd fod y ddadleuaeth yn lladd yspryd crefydd, ac yn rhwystr anorfod ar ffordd y diwygiad. Nid oes amheuaeth na wnaeth y daith fanwl hon o eiddo Mr. Harris, yr hon a barhaodd bythefnos o amser, argraff annileadwy ar Sir Benfro, a'i bod yn rhagymadrodd ardderchog i lafur cyson Howell Davies yn y blynyddoedd dyfodol.

Medi, y flwyddyn hon (1740), cawn ef yn nghwmni Mr. William Seward yn cymeryd taith faith trwy ranau o Fynwy, Henffordd, a Brycheiniog. Yr oedd William Seward yn ŵr o safle gymdeithasol anrhydeddus; cawsai ei argyhoeddi mor foreu a'r flwyddyn 1728; daeth i gyffyrddiad a'r ddau Wesley, ond glynodd yn hytrach wrth Whitefield, ac yr oedd yn gydymaith iddo yn America yn y flwyddyn 1739. Yr oedd gyda Whitefield pan yr ymwelodd gyntaf â Chymru. Calfin trwyadl ydoedd mewn athrawiaeth, a chwedi cwympo allan a Charles Wesley, y mae yn croesi y sianel, ac yn ymuno â Howell Harris yn Mhontfaen. Pregethasant mewn amryw leoedd nes cyrhaedd Casnewydd. Yno ymosodwyd arnynt yn enbyd; rhwygwyd dillad Mr. Harris, a lladratwyd ei berwig, a bu raid iddo sefyll yn ben-noeth yn y gwlaw. "O ben-noethni hyfryd," meddai, "dan waradwydd Crist." Lluchiwyd cerig atynt, ac afalau pwdr, ynghyd â llaid; ceisiai ei gyfeillion gan Harris roddi i fynu, ond ni theimlai yn rhydd gwneyd hyny nes i'r Arglwydd gael goruchafiaeth ar Satan. Aethant oddiyno i Gaerlleon-ar-Wysg. Tra y gweddïai Seward, a hyny gyda melusder mawr, yr oedd pob peth yn dawel; ond pan y cyfododd Harris i bregethu, dyma y cythrwfl yn dechreu. Crochlefai y werinos; lluchient dom a llaid, ynghyd ag wyau a cherig eirin, at y llefarwyr, a tharawyd Seward ar ei lygad fel y llidiodd, ac yn y diwedd y collodd ei olwg yn hollol. "Gwell dyoddef hyn nag uffern," ebai yntau. Yn Nhrefynwy cedwid rhedegfa geffylau; ac yr oedd gwreng a bonedd wedi ymgynull ynghyd. Dechreuodd Harris lefaru ger neuadd y dref, lle yr oedd nifer o foneddigion a boneddigesau ar giniaw; ymddengys y

taranai yn ofnadwy yn erbyn dawnsfeydd, cynulliadau llygredig, puteindra, a meddwdod; merwinai clustiau y gwŷr mawr wrth glywed, ac anfonasant rywun i chwareu'r drwm, fel y boddid ei lais; dechreuodd y werinos hefyd luchio cerig, ac afalau, a llaid. Ond yn mlaen yr aeth gweision Crist, yn gorchfygu ac i orchfygu. Aethant oddiyno trwy ran o Sir Gaerloyw; yna dychwelasant i Drefecca. Hydref 22, aethant i Hay; ymosodwyd arnynt yn enbyd yno; dihangodd Harris yn ddianaf, ond tarawodd rhywun Seward druan a chareg ar ei ben, fel y bu farw cyn pen nemawr ddyddiau. Efe, yn ddiau, oedd merthyr cyntaf Methodistiaeth.

Tua dechreu y flwyddyn 1741 y mae Howell Harris yn ymweled a'r Gogledd yr ail waith. Aeth ar y tro hwn ar wahoddiad un Robert Griffith, o Bryn Foyno, yr hwn a'i taer gymhellai, oblegyd i lawer gael eu hargyhoeddi trwyddo pan fu yn flaenorol yn Llanuwchlyn. Yn ddiegwan o ffydd y mae yntau yn myned, er llid y gelyn a bygythion yr offeiriaid. Ymdaenodd y newydd am ei ddyfodiad fel tân gwyllt trwy y wlad, a gwnaed parotoadau eang i'w rwystro i bregethu, ac i'w faeddu. Wrth agoshau at y Bala, ar lan y llyn, goddiweddwyd ef gan offeiriad y plwyf. Rhybuddiodd yr offeiriad ef, os oedd am ddianc a'i fywyd yn ysglyfaeth, am beidio myned i'r dref. Atebai yntau mai ymdeimlad a'i ddyledswydd oedd yn ei yru, nas gallai droi yn ei ol, ac mai ei unig amcan oedd mynegu ffordd iachawdwriaeth i'r bobl, a hyny heb roddi achos tramgwydd i neb. Cyffrodd yr offeiriad, ac yn ei ddig cyfododd ei ffon, gan fygwth ei daro. Ateb yn fwynaidd a wnaeth Harris, a chafodd lonydd i fyned yn ei flaen. Erbyn cyrhaedd y Bala, lle yr oedd ychydig ddisgyblion yn disgwyl am dano, cafodd y dref yn llawn cythrwfl, y werinos wedi ymgynull ynghyd, ac yn tyngu y gwnaent ei ladd. Blaenor y gad oedd yr offeiriad, yr hwn oedd wedi parotoi baril o gwrw, gan ei gosod yn gyfleus ar y gareg farch yn ymyl y tafarndy, er mwyn gwneyd y bobl yn fwy ffyrnig trwy yfed. Dechreuodd Harris lefaru ar yr heol, ond llefodd yr offeiriad yn groch ar i'r rhai a garent yr Eglwys ddyfod i'w hamddiffyn. Ar hyn dyma lu, wedi yfed yn helaeth, ac wedi ymddiosg hyd at eu crysau, yn dyfod yn mlaen yn fygythiol, gyda phastynau yn eu dwylaw. Yr oedd fel pe buasai uffern wedi cael ei gollwng yn rhydd. Barnwyd mai ofer ceisio parhau yr odfa ar yr heol, ac awd i dŷ preifat yn nghanol y dref, lle y gwnaeth Harris ymgais i lefaru oddiar y geiriau: "Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" Yn y cyfamser yr oedd y werinos yn yfed cynwys y faril, ac yn cael eu hanog gan y Person i ymosod ar y tŷ. Ni chafodd ymadroddi ond ychydig. Torwyd y ffenestri yn ganddryll, daeth rhai o'r terfysgwyr i mewn, gan ruo fel bwystfilod. Ond meddianai gweinidog Crist ei enaid mewn amynedd, ni ddeuai dychryn yn agos ato, a theimlai alwad arno i fyned yn ei flaen; a phan ar gais taer cyfeillion y rhodd i fynu, profai fel pe bai yr Arglwydd wedi ei adael. Ond er tewi ni chaffai lonydd. Yr oedd y terfysgwyr wedi penderfynu ei gael allan. Dringodd rhai i'r tô, gan fygwth tynu y tŷ i lawr; ymwthiai eraill i mewn trwy y ffenestri drylliedig. Allan y bu raid iddo ef a rhai o'i wrandawyr fyned, fel defaid i safnau y cwn. Gwnaeth ei gyfeillion eu goreu drosto, ond ei amddiffyn ni fedrent. Ymosodai y dorf fileinig, cynwysedig o'r ddau ryw, arno yn y modd mwyaf creulon; y benywod a'i trybaeddent a thom yr heolydd, y gwŷr a'i curent a'u dyrnau, ac a'u pastynau, nes yr oedd ei waed yn cochi yr heol. Dilynwyd ef allan o'r dref tua'r llyn, bu dan draed yr erlidwyr am beth amser, a thybiodd yn sicr y collai ei fywyd. Llusgwyd ef o gwmpas wrth napcyn ei wddf, a buasai wedi cael ei dagu oni bai i'r napcyn ddyfod yn rhydd. Ond cyfryngodd yr Arglwydd ar ei ran mewn modd oedd bron yn wyrthiol, a dihangodd o'u dwylaw. Daethai Jenkin Morgan, un o ysgolfeistri Griffith Jones, i'r Bala i'w glywed, a bu ei hoedl yntau mewn enbydrwydd. Pan ar gefn ei geffyl, ac yn ceisio dianc, gafaelwyd ynddo gan y werinos. Gwnaed ymdrech i'w daflu ef a'i geffyl dros y graig i'r llyn; glynodd ei droed yn yr wrthafl, a bu felly yn cael ei lusgo o gwmpas am enyd; ond trwy diriondeb Rhagluniaeth dihangodd yntau. Sicrheir ddarfod i farn amlwg Duw orddiwes y rhai blaenaf yn yr helynt warthus. Wedi i'r terfysgwyr wasgar, ymgasglodd y dysgyblion yn nghysgod y tywyllwch i'r llety, lle y buont yn ceisio meddygyniaethu clwyfau eu gilydd. Cynghorai Harris ei gyd-ddyoddefwyr i lynu wrth y Gwaredwr, ac i lawenhau oblegyd eu cyfrif yn deilwng i ddyoddef drosto. Yr oedd Harris ei hun

yn llawn penderfyniad; "dyma y gwaed cyntaf a gollais dros Grist," meddai, "er i mi gael fy mynych fygwth." Yr unig beth a'i gofidiai oedd iddo gymeryd ei berswadio i roi i fynu pregethu; gwyddai na fyddai marw iddo ef ond mynediad i ddedwyddwch.

Wedi cael ei drin mor ddidrugaredd yn y Bala, naturiol disgwyl y buasai yn troi yn ol, ac yn gadael y Gogledd i farn; ond yn ei flaen yr aeth. Nid oedd Luther wrth fyned i Worms, pan y dywedai yr ai yno pe bai yn y lle gynifer o gythreuliaid ag oedd o lechi ar benau y tai, fymryn yn fwy gwrol dros Dduw nag oedd Howell Harris, pan yn wynebu Gwynedd yn awr. Nos Sadwrn, cyrhaeddodd Bwllheli, ond ni wyddai neb pwy ydoedd. Boren y Sul, holodd am y pregethwr goreu oedd yn yr Eglwys yn y parthau hyny. Dywedwyd wrtho fod Canghellydd yr Esgobaeth yn pregethu yn Llanor. Yno yr aeth, ac efe a'i ddyfodiad i Wynedd oedd pwnc y bregeth. Galwai y Canghellydd ef yn weinidog dros y cythraul, yn au brophwyd, ac yn waeth na'r diafol, "oblegyd," ebai ef, "nis gall y diafol weithredu yma yn mysg dynion ond trwy gyfrwng offerynau o'r fath." Galwai arnynt er mwyn Crist a'i eglwys, ac o gariad at eu gwlad, i ymuno yn erbyn y fath ddyn ofnadwy, yr hwn a amcanai ddinystrio nid yn unig eu personau a u meddianau, ond eu heneidiau dros byth. Fel hyn y llefarai y Canghellydd wrth ei blwyfolion, heb wybod fod y neb a ddynoethai yn bresenol. Ar derfyn y gwasanaeth aeth Harris ato, i ymgynghori ag ef gyda golwg ar osod ysgolion Cymraeg i fynu, ac i ymliw ag ef am y bregeth. Ar hyn deallwyd fod Howell Harris ei hun yn y lle. Dechreuwyd ymosod arno; ceisiai rhai fyned a'i geffyl oddiarno, eraill a daflent gerig at ei ben, ac o braidd y diangodd. "Tybiais," meddai, "na chawn byth genad i ddychwelyd yn fyw o'r parthau hyny."

Ymddengys fod y Parch. John Owen, y Canghellydd y cyfeiriwyd ato, ac oedd hefyd yn ficer Llanor a Dyneio, yn ddyn brwnt, ac yn dra llidus yn erbyn y Methodistiaid. Dywedir ei fod yn meddu ar gryn dalent, y medrai siarad yn rhigl a rhwydd, a bod ganddo ddylanwad nid bychan yn y wlad o gwmpas. Er mwyn rhwystro y diwygiad trefnodd, gyda ei frodyr y clerigwyr, i gadw cyfarfod bob dydd Mercher yn Dyneio, ger Pwllheli, i bregethu yn erbyn yr hyn a alwent yn gyfeiliornadau dinystriol, oedd yn ymdaenu ar led y wlad. Deuai yr offeiriaid i gynal y cyfarfod yn eu tro; eu testynau fyddai: "Ymogelwch rhag gau brophwydi;" "A chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi;" "Y rhai hyn sydd yn ymlusgo i deiau, gan ddwyn yn gaeth wrageddos llwythog o bechodau," &c. Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, i'r weinidogaeth enllibaidd hon rwystro dim ar y cerbyd. Yr oedd gan y Canghellydd hefyd glochydd talentog, yr hwn oedd yn ogystal yn ysgolhaig pur wych. Y gŵr hwn a gyfansoddodd yr * *interlude* enllibaiddd yr ydym wedi cyfeirio ati yn barod, yr hon a elwir yn "*Interlude* Morgan y Gogrwr." Yn y gân fudr hon, nad yw mewn un modd yn amddifad o ddawn, gosodir Howell Harris i gyfarch "Chwitffild" yn yr ymadroddion a ganlyn:—

"Ped faech chi mor dda ch taedd, Mr. Sanctiddiol,
A rhoi i mine beth o'ch awdurdod nefol,
Bwy'n tybied y gwnawn heb ronyn dawn dysg,
Waith o lawth yn mysg ynfydion.

Mi fedra grio ac wylo'n greulon,
Mewn golwg, heb ddim ar y nghalon;
A phregethu rhagrith heb ronyn rhith rhaid,
I dwyllo trueiniaid tlodion.

Mi fedraf, pan fynwyf, roi pres ar f' wyneb,
A dweyd mai Gair Duw a fydd pob gwiriondeb,
A throi 'r Ysgrythyr, loew bur wledd,
Gwaith anial wledd, i'r gwrthwyneb.

Mae genyf ddigon wedi eu hudo yn y Deheudir,
A ddaw ar fy hedol fel pe l fawn i garn lleidr,
I 'mofyn am ryw gyngor gwan
Mewn hylltod wedi can' milldir."

Fel hyn y dywed Harris wrth Jenkin Morgan:—


"Dos di 'mlaen yn rhith y prophwyd Elias,
Mi ddeuaf finau 'n swydd Simon Magus, neu Suddas,
Ni a fynwn arian am gadw nad,
O's bydd dim yn y wlad neu 'r deyrnas."

Nis gallwn ddilyn yr *Interlude* yn mhellach; rhaid addef fod ynddi ddawn, ond dawn celwyddog ydyw, wedi ei fwriadu i daflu gwarthrudd ar gymeriad y rhai a wynebent bob math o beryglon, heb un amcan is nag achub eneidiau. Pa fodd bynag, boddhaodd y clochydd ei feistr. Galwyd cyfarfod o fonedd y tir yn mhalas Bodfel i ddarllen yr *Interlude*, a'r fath oedd y boddlonrwydd a roddodd iddynt, fel y tanysgrifwyd haner can' gini yn y fan a'r lle i'r clochydd, am y gwasanaeth a

---

* Gwel tudalen 51.

gyflawnasai ar ran yr Eglwys. Nid hir y bu y clochydd, modd bynag, heb i'r farn ei orddiwes. Wrth ddychwelyd o argraffu ei lyfr, trodd i felin gerllaw y Bala i orphwys. Gofynodd y rhai a ddigwyddai fod yno ar y pryd, beth a gludai. Atebodd yntau mai *interlude* yn erbyn y *Cradocs*. Ond yr oedd y dynion yn cydymdeimlo a'r diwygiad. "Y distryw mawr," meddent, "pa beth a wnaethant i ti? Ble y mae y rhaff? ni a'i crogwn yn ddioed." Dychrynodd yr adyn, a phrin y dihangodd a'i fywyd yn ysglyfaeth. Wedi hyn aeth yn Evans, yn cadw dyledswydd deuluaidd; anfonasai at Griffith Jones am ysgolfeistr i gadw ysgol ac i bregethu; yn unol a'r cais hwn y daeth Jenkin Morgan i'r Gogledd, ac yn y Glasfryn Fawr y cedwid yr ysgol. Teimlai y Canghellydd Owen yn gas at Mr. Pritchard oblegyd hyn, a rhoddodd ef yn Nghwrt yr Esgob. Gyda fod Howell Harris yn dechreu llefaru, rhuthrodd y Canghellydd, gyda haid o oferwyr wrth ei sodlau, arno. Rhoes yntau i fynu bregethu, a dechreuodd weddïo. Ceisiodd yr offeiriad luddias neb i glywed,



LLYFRGELL TREFECCA, GYDA PHWLPUD A CHADAIR DDERW HOWELL HARRIS.

ffrwgwd rhyngddo a'r Canghellydd. Tybiai hwnw ei fod yn ceisio taflu y gloch ar ei gefn er mwyn ei ladd; rhuthrodd arno fel arth, ac ymladdfa waedlyd a gymerodd le, mewn canlyniad i'r hyn y tröwyd y clochydd o'i swydd. Bu farw yn dlawd a thruenus.

Yn ol *Drych yr Amseroedd*, yn Nglasfryn Fawr, tŷ Mr. William Pritchard, y pregethodd Howell Harris gyntaf yn Sir Gaernarfon. Saif Glasfryn Fawr yn mhlwyf Llangybi, ger Pwllheli. Cawsai William Pritchard ei argyhoeddi wrth wrando ar Ymneillduwr, o'r enw Francis trwy roddi ei law ar ei enau. Cododd Harris i fynu, a dywedodd:—

"Pa beth? A rwystrwch chwi ddyn i weddïo ar Dduw? Byddaf yn dyst yn eich erbyn am hyn yn y farn."

"Byddaf fi yn dyst yn dy erbyn di, y burgyn budr," oedd yr ateb, "am fyned ar hyd y wlad i dwyllo pobl."

Yna galwai ar un o'i ffyddlon ganlynwyr i ddyfod yn mlaen i gydio yn Harris. Eithr dychrynasid hwnw wrth glywed son am y farn, a gwrthododd, gan ddweyd: "A glywch chwi ar y gwŷr! Ni wn pa un o honoch yw y ffolaf. Ni feiddia yr un o

honoch ddweyd gair yno." Ymddengys fod William Pritchard yn ddyn gwrol a chryf; gwthiodd y Canghellydd a'i griw allan dros y trothwy, gan gau y drws ar eu holau. Ceisiodd Harris bregethu drachefn ar ol adfer tawelwch; ond ni chafodd ddrws agored, yr oedd ei yspryd ynddo wedi ei gythryblu yn ormodol, a therfynodd y cyfarfod trwy anog y bobl i ymgadw rhag bugeiliaid ysprydol annuwiol. Yn mhen amser bu y Canghellydd Owen farw tan farn amlwg.

Aeth oddiyno i le a elwir Ty'n Llanfihangel, gerllaw Rhydyclafdy. Daethai cynulleidfa anferth ynghyd, gan eu bod wedi clywed mai y gŵr a welsai weledigaeth ydoedd. Yn mysg eraill, daethai yno foneddwr, gyda bwriad i saethu y pregethwr. Eithr gan na chadwodd Mr. Harris ei amser, blinodd yn disgwyl, ac aeth adref i'w giniaw. Gyda ei fod wedi troi ei gefn dyna Harris yno. Pregethai yn yr awyr agored, a chafodd nerth anarferol i lefaru. Disgynai ei eiriau fel tân ar gydwybodau ei wrandawyr. "Yr ydych yn arfer gweddïo," meddai, gan gyfeirio ei sylwadau at y bobl annuwiol a arferent fynychu yr eglwysydd, "deled dy deyrnas. Beth pe yr ymddangosai efe yn awr, mewn gallu a gogoniant mawr, gyda myrddiwn o angelion a thân fflamllyd; ai ni waeddech allan: 'O Arglwydd, yr wyf yn anmharod; bydded i'th ddyfodiad gael ei oedi!'" Cerddai grym dwyfol gyda'r ymadroddion; methai dynion caledion a thalgryf sefyll; cwympent fel meirw ar y maes; ac wrth fyned i'w cartrefi llefent ac wylent ar hyd y ffordd, fel pe buasai dydd yr Arglwydd gerllaw. Odfa ryfedd oedd yn ddiau. Dywedai un o'i wrandawyr i Mr. Harris bregethu y tro hwn nes oedd Lleyn yn crynu; "a dydi hi byth wedi dod ati ei hun," meddai.

Y dydd canlynol pregethodd yn Towyn, ger Tydweiliog, a hyny dan arddeliad rhyfedd. Dyma y pryd yr argyhoeddwyd John Griffith Ellis, a ddaeth yn ganlynol yn bregethwr, am weinidogaeth yr hwn y dywedir ei bod yn rhagori mewn rhai pethau ar eiddo ei holl gydoeswyr. Crybwyllir am un bregeth hynod o'i eiddo, yn Nghymdeithasfa y Bala, ar y geiriau, "Deffro gleddyf yn erbyn fy Mugail," pan y disgynodd rhyw dywalltiad nodedig fel cwmwl yn ymdori, nes y llesmeiriodd ef a llawer o'i wrandawyr gan nerth y dylanwad. Dan y bregeth hon o eiddo Mr. Harris, hefyd, yr argyhoeddwyd un o ferched y Tyddynmawr, a fu gwedi hyn yn wraig Mr. Jenkin Morgan. Daeth y Tyddynmawr mewn canlyniad yn "lletty fforddolion," ac yn noddfa i aml bererin lluddedig, pan yr oedd yr erledigaeth yn chwythu yn gryf. Ymddengys mai dwy waith y pregethodd gwedi hyn yn Sir Gaernarfon, sef yn Rhydolion, a Phorthdy'n-llaen. Dychwelodd adref trwy Abermaw a Machynlleth. Bu yn galed arno wrth groesi y Traethmawr; ymosodwyd arno gan fintai o erlidwyr, "y rhai yr oedd yspryd mwrddwyr i'w canfod yn eu gwedd;" ond dihangodd o'u dwylaw, ac yn nhŷ gweinidog Ymneillduol y cafodd noddfa. Bu mewn perygl, hefyd, yn Machynlleth; ond cafodd groesaw mawr yn Llanbrynmair gan Mr. Lewis Rees, a siriolwyd ei yspryd yn hyfryd wrth weled cymdeithasau bychain wedi cael eu sefydlu mewn amrywiol fanau.

Ofer fyddai ceisio rhoddi hyd yn nod crynodeb byr o lafur a theithiau Howell Harris y blynyddoedd hyn. Cyniweiriai trwy swyddi Wilts, Caerloyw, Henffordd, a'r Amwythig; ymwelai a Bryste, Bath, a Llundain, a threuliai gryn amser yn y lle olaf a nodwyd. Gwibiai, fel pe byddai yn angel digorff, o'r naill gwr i'r llall o'r Dywysogaeth, trwy afonydd, a thros fynyddoedd anhygyrch, gan rybuddio pechaduriaid. Haf, 1742, bu yn Llundain am bedwar mis, nid yn segur, ond yn efengylu i'r Saeson yn y Moorfields, ac yn Lambeth. Dywedir y byddai yn pregethu yn Gymraeg yn aml yn Lambeth er budd ei gydgenedl. Cyfeiria ef at un tro arbenig yn ei ddydd-lyfr, pan y pregethodd am dri o'r gloch y prydnawn i dorf o Gymry, oddiar y geiriau: "Simon, mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i?" Tra yn y Brif-ddinas yr oedd gofal yr holl eglwysi yn pwyso arno; er hyny teimlai ei frodyr yn y Dywysogaeth ei eisiau yn fawr, a thaer gymhellent ef i ddychwelyd. Meddai Daniel Rowland wrtho mewn llythyr: "Ai nid ydych yn clywed eich holl frodyr yn Nghymru yn gwaeddi, 'Cymorth, cymorth, cymorth!' Frawd Harris, tydi ryfelwr dewr, pa le yr ydwyt? Beth, yn Llundain yn awr yn nydd y frwydr! Beth, ai nid oes gan Lundain ddigon o ryfelwyr i ymladd drosti? . Arglwydd da, tosturia wrth Gymru dlawd. Anfon ein brawd anwyl i'n mysg yn dy allu, ac yn nghyflawnder dy fendithion, a bydded i'r cythraul grynu o'i flaen. Amen, Amen."

Fel esiampl o'i lafur dirfawr, a pha mor ddiorphwys y teithiai, yr ydym yn cael ein temtio i roddi ei hanes am ran o Tachwedd a Rhagfyr, 1742. Dydd Iau, Tachwedd yr 11, y mae yn gadael Llundain gyda'r cerbyd am 6 o'r gloch y boreu, er mwyn dychwelyd i Gymru. Yr oedd yr ymadawiad rhyngddo a'r gymdeithas yno yn nodedig o dyner. Pur wag oedd y cerbyd, cafodd yntau gyfleustra i ymddiddan a'r cerbydwr am fater ei enaid, ac â dynes ieuanc oedd yn cyddeithio ag ef, a gobeithia nad â y dylanwad i golli. Dydd Gwener y mae yn Reading, a theimla yn drymllyd a gwanaidd oblegyd colli ei gwsg. Ceisiodd yr Arglwydd, a chafodd neshad ato. Synai at natur y cyfamod trwy yr hwn y mae yr Arglwydd yn sicrhau ei ogoniant ei hun, ac iachawdwriaeth pechadur, a hyny y tu hwnt i gyrhaedd llygredigaeth. Gweddïodd tros yr eglwys yn Llundain, dros yr eglwys yn Nghymru, a thros yr holl weinidogion a'r cynghorwyr. Dydd Sadwrn teithia trwy Marlborough, yn swydd Wilts; a chan basio trwy Bath, cyrhaedda Bryste yn hwyr. Cyfid y Sul o gwmpas wyth, ac â ar unwaith i bregethu gyda y brawd Humphrey, a'r hwn y cafodd gymdeithas anwyl. Teimlai ei galon yn ymlynu wrtho, oblegyd y dystiolaeth ffyddlon a ddygasai yn erbyn y gweinidogion Ariaidd neu Undodaidd. Wrth bregethu cafodd ryddid mawr; ac er ei fod wedi colli ei gwsg, yr oedd yn llawn o nerth a bywiogrwydd. Pregethodd drachefn o gwedi deg hyd ddeuddeg oddiar 1 Thes. iv. 14, a thybia i'w weinidogaeth fod er bendith.

Dydd Llun, Tachwedd 15, y mae yn gadael Bryste am Gymru cyn chwech y boreu, ac yn cyrhaedd y *Passage* o gwmpas naw. Bu raid iddo aros yma y gweddill o'r diwrnod, am ei bod yn amhosibl croesi y sianel. Ond yr oedd amser yn rhy werthfawr yn ei olwg i'w afradu. Wedi adgyfnerthu natur â lluniaeth, ysgrifenodd yn ei ddydd-lyfr hyd gwedi 12; yna aeth allan i bregethu i'r bobl oedd fel yntau yn disgwyl am y cwch; rhoddes yr Arglwydd ymadrodd iddo, a gweddïai yntau am gael ei wneyd yn halen y ddaear. Gwedi ciniaw ymosodwyd arno gan yr hen demtasiwn; beth oedd hono ni ddywed; ond rhoddodd Duw waredigaeth iddo. Methodd groesi dydd Mawrth eto, oblegyd yr ystorm, ond daliodd ar y cyfle i gynghori, ac agorodd yr Arglwydd glustiau y bobl i wrando. Siaradai am ei droedigaeth, am ddydd y farn, am y cyfrif y rhaid i ni rhoddi o'n holl dalentau, gan eu nodi, pa fodd y dygwyd ef ei hun i weled nas gallai gael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd, am haeddiant Crist, am ffydd, beth ydyw, a pheth nad yw, ac am ufudd-dod a chariad fel ffrwythau ffydd. Yn y prydnhawn y mae yn cynghori eilwaith. O gwmpas wyth yn yr hwyr cawsant groesi; yr oedd y gwynt yn ystormus, a'r tonau yn lluchio; meddyliai fod angau, efallai, yn agos, ond cafodd nerth i ymddiried.

Dydd Iau y mae yn Redwick, Sir Fynwy; cyrhaedda Watford, ger Caerphili, nos Iau, lle oedd yn gartref iddo pan ar ei deithiau yn y parthau hyn. Pa nifer o weithiau y pregethodd, ni ddywed; ond y mae yn sicr na chroesodd yr holl filldiroedd ar draws gwlad heb gymell eneidiau at Grist. Cawn ef yn Llanheiddel nos Wener; cyfil am 6 boreu Sadwrn, a dywed ei bod yn felus ar ei enaid yn y weddi ddirgel ac yn y ddyledswydd deuluaidd. Pregetha yn y boreu mewn lle o'r enw Coedcae-mawr; oddiyno cyfeiria ei gamrau tua'r Goetre, ger Pontypŵl. Yno clywodd am ganlyniadau ei lwyddiant blaenorol, nes y darostyngwyd ei enaid ynddo, a pheri iddo waeddi ei fod yn foddlon cael ei droi o'r neilldu, a'i sathru dan draed pawb, a'i fod yn adyn mor wael fel nad yw yn haeddu cael byw. Pregethodd oddiar Salm xli., am y galon doredig; cafodd odfa hyfryd; teimlid yno nerth dirfawr, yn arbenig ar rywun oedd o'r blaen yn llawn rhagfarn tuag ato. Dydd Sadwrn aeth i'r Fenni; cafodd yno ryddid mawr mewn gweddi, yn arbenig wrth gyffesu ei bechodau. Llefarodd oddiar Matt. v. 3-8, gan ddangos gwir natur tlodi yspryd, ac mai dyna y cam cyntaf at Grist. Yna gwnaed iddo ddyrchafu ei lais i alw yr holl bechaduriaid tlodion, colledig, a hunangondemniedig at y Gwaredwr, gan gyfaddef ei hunan y gwaelaf a'r balchaf o bawb, a'u cymhell at yr Iesu. Cred i rai ddyfod. Ymddengys hefyd fod rhyw ofid dwys yn gwasgu arno y pryd hwn mewn cysylltiad a'r diwygiad; drosodd a throsodd dywed nad arno ef yr oedd y bai; ond fod ei galon ar dori o'r herwydd. Pa beth ydoedd, nid oes genym ond dyfalu; yn ol pob tebyg, rhyw chwedl gelwyddog, yn drwgliwio ei gymeriad, yn cael ei thaenu ar led. Nos Sadwrn, breuddwydiodd fod Esgob Rhydychain yn pregethu yn y 'stryd, ac yn dweyd fod yn rhaid i bawb deimlo cariad Crist wedi ei dywallt ar led yn eu calonau, fel yr oedd yn ei galon ef; llanwodd hyn yspryd Harris â mwynhad.


Dydd Sul, Tachwedd 21, y mae yn Llandilo, ger y Fenni, ac achwyna ei fod yn wanaidd o ran ei gorff. Gwelodd a theimlodd ei fod yn caru ei Dduw mor glir ag y gwelsai ei bechod. Arllwysodd ei deimlad gyda golwg ar ei ofid i'r brawd Price. Gwedin aeth i Cwm Iau i wrando yr Hybarch Thomas Jones. Ar ol ciniaw cyfeiriodd ei gamrau tua seiat Longtown, collodd ei ffordd ar y mynyddoedd, ac yr oedd yn agos i saith arno yn cyrhaedd. Cafodd un ymweliad neillduol oddiwrth yr Arglwydd ar ei daith. Ac eto, yr oedd yr helynt yn pwyso ar ei yspryd; ofnai i'r gwaethaf ddigwydd, ac i ganlyniadau gwarthus ganlyn, fel ag i beri i'r achos gael ei ddinystrio. Yna gwawriodd ar ei feddwl nad oedd y gwaith yn dibynu arno ef, nac ar ei enw, fod y gwaith o Dduw. Dydd Llun y mae yn Clydach, lle y cafodd awel hyfryd oddiwrth Yspryd yr Arglwydd. Teimla nad oes ganddo yr un dymuniad ond gogoniant Duw, na'r un ofn ond rhag ei ddianrhydeddu. Dywed na chafodd y fath ymweliad erioed o'r blaen. Wrth deithio yr oedd y brawd Price gydag ef, a gwnaed y naill yn fendith i'r llall. Dywed ei fod yn ddedwydd, yn dragywyddol ddedwydd.

Cyrhaeddodd Drefecca nos Lun, a dywed fod nifer o'r ŵyn anwyl wedi dyfod i'w gyfarfod, i ba rai yr agorodd ei galon ar amryw faterion, yn arbenig ei briodas. Arosodd yn Nhrefecca dydd Mawrth, aeth i Erwd, nid yn nepell o Lanfair-muallt, dydd Mercher; i Ddolyfelin dydd Iau: a chawn ef yn Llansantffraid, Sir Faesyfed, y Sul. Yma pregethodd ar y geiriau: "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd," a chafodd lawer o ryddid ymadrodd. Gobeithia i lawer gael eu gosod yn rhydd. Y mae yn Erwd eto y Llun, a rhed ei fyfyrdodau ar Miss Ann Williams. Dywed fod ei weddïau gyda golwg arni yn mron cael eu hateb, a'i bod yn ymyl cael ei pherswadio; yn flaenorol ofnai y croesau, a'r treialon, a'i dymher erwin yntau; ond yn awr rhoddasai yr Iesu iddo ymysgaroedd o dynerwch. Yr oedd yn nerthol iawn wrth bregethu: cafodd ddiwrnod a noswaith i'w cofio byth; yr oedd y bobl yn fflam o gariad, a chawsant eu goleuo, eu porthi, a'u deffro. Daeth y tân i lawr, a phrofwyd melusder dirfawr. Cyrhaeddodd Drefecca nos Lun. Dydd Mawrth, y mae yn nhŷ John Price, yn Merthyr Cynog, rhyw bymtheg milldir o bellder, a thestun ei bregeth oedd: "Canys byw i mi yw Crist." Dydd Mercher, ceir ef yn Cantref, wrth droed Bannau Brycheiniog, dydd Iau yn Beiliau, a dydd Gwener yn Llanwrtyd, lle y teimla fod Duw gydag ef. Cawn ef dydd Sadwrn yn Llwynyceiliog, ger Caio. Yma y teimla mai efe yw y pechadur duaf ar wyneb yr holl ddaear. Cyrhaeddodd Lancrwys, yn ngodreu Cwmtwrch, o gwmpas deuddeg, a daeth i Langeitho yn hwyr yr un diwrnod. Dywed ei fod yn cael ei ddisgwyl yno, ac wrth weddïo, pledia yn daer ar ran yr ŵyn, ac am iddo yntau gael ei waredu oddiwrth y natur uffernol oedd ynddo. "O gariad rhyfedd," meddai, "nad wyf yn uffern, wedi temtio cymaint ar Dduw."

Dydd Sul, Rhagfyr 5, y mae yn Llangeitho, ac yn myned i'r eglwys yn y boreu, lle y pregethodd yr anwyl Rowland, oddiar y geiriau: "Canys gŵr halogedig o wefusau ydwyf fi;" a chythruddwyd enaid Harris o'i fewn gan lymder y genadwri. Teimlai mai efe oedd yr adyn gwaethaf o fewn y byd. Yn y prydnhawn, aeth i Lancwnlle, un o'r eglwysi a wasanaethai Rowland; ac wrth glywed y Gair yn cael ei ddarllen cafodd olwg ar ogoniant Crist fel cyfaill publicanod a phechaduriaid. Gwnaed ef yn ddiolchgar wrth glywed Rowland yn pregethu. Yna cyfranogodd o'r sacrament, a gwelodd ei hun y tlotaf, y gwaethaf, a'r dallaf o bawb. "Y mae arnaf eisiau bywyd," medd, "a goleuni, a nerth, a chyfiawnder." Ymddengys fod y gyfeillach ar y ffordd rhyngddo a'r apostol o Langeitho yn nodedig o felus. "Ni wna Crist fy nghondemnio," meddai, "er fy mod yn haeddu, canys dyna ei ewyllys. Yna torodd goleuni arnaf. Eiddof fi yw Rowland; yn fwy nag erioed, gwelais mai eiddof fi yw Crist; ac felly eiddof fi yw pob peth." Yn yr hwyr, ar y maes ger Llangeitho, pregethodd Howell Harris i gynulleidfa o ddwy fil, hyd nes oedd yn wyth o'r gloch. Y mater oedd dydd y Pentecost, ac yspryd yr Arglwydd fel tân. Ymddengys fod yr odfa yn un dra nerthol; wrth lefaru am y tân, daeth y tân i lawr, ac yna aeth yn floedd trwy y lle. Ar y diwedd gweddïodd dros yr esgobion, dros yr eglwys yn gyffredinol, dros amryw o'r Diwygwyr erbyn eu henw, dros y seiadau yn Sir Forganwg, a thros ei fynediad yntau y tu hwnt i'r môr. Awgryma y gair diweddaf fod yn ei fryd ddilyn esiampl Whitefield, a chymeryd taith i'r America. Yn y tŷ bu ef a Rowland yn ymddiddan hyd dri o'r gloch y boreu,

ynghylch y brodyr blaenaf gyda'r diwygiad, a'r angenrheidrwydd am eu dwyn i ryw drefn. Gwel fod y gwaith da yn myned yn mlaen yn hyfryd. Cyn myned i'w wely, trefnodd ei deithiau, ac yr oedd yn bedwar cyn iddo fyned i orphwys.

lan culfor Aberteifi. Testun ei bregeth yno oedd: "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y datodai weithredoedd diafol." Cafodd odfa rymus; dyrchafwyd ei lais fel udgorn; a dywed ei fod yn nodedig o nerthol wrth wahodd at Grist. Wedi



GOLYGFA FEWNOL AR Y CAPEL COFFADWRIAETHOL.

Dydd Llun, cychwyna dros y Mynydd-bach, a chyrhaedda Landdewi Aberarth, ar lan y môr. Cafodd nerth mawr yma i gynghori gyda golwg ar ddwyn ffrwyth, ac i lefaru yn erbyn balchder, a diogi; yna efengylodd i'r rhai oedd wedi eu clwyfo. Dydd Mawrth ni a'i cawn mewn lle o'r enw Gwndwn, ger Llangranog, ar

hyny ysgrifenodd at y cynghorwr blaenaf, ac yr oedd yn llawn o zêl wrth wneyd, gan ddangos iddynt y modd yr oedd y gwaith yn myned yn y blaen dros y byd, a'u hanog i zêl, bywyd, a thân. Yna, wedi canu a gweddïo, eisteddwyd wrth y bwrdd; ond wedi swpera, llefarai Harris drachefn wrth y teulu, gan eu hanog i

gariad, a thynerwch, a charedigrwydd at bawb. Dydd Mercher y mae yn Llangranog; teimlai yn hyfryd wrth weddïo, a chynghori oddiar y geiriau: "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?" Erbyn un daeth i Twrgwyn, a llefarodd oddiar Matt. xii. 43. Yma dywedai: "Yr wyf yn benderfynol i beidio gadael yr Eglwys dywyll hon (Eglwys Loegr); ond mi a safaf yn y bwlch, ac a lefaf ar y mur; nis gallaf roddi i fynu y weinidogaeth na'r bobl." Nid oedd y cyfarfod mor rymus ag yn Llangranog. Am chwech yr un dydd y mae yn Castellnewydd-yn-Emlyn. Datgana yma eto ei benderfyniad i beidio gadael yr Eglwys; ymddengys na chymerodd destun, ond iddo lefaru oddiar amryw adnodau oeddynt yn ateb ei bwrpas. Llefarodd dan gryn arddeliad. Wedi myned i'r tŷ clyw fod gwrthwynebiad yn cael ei barotoi iddo; wrth glywed, llanwyd ei enaid ynddo a nerth; teimlai y gallai wynebu pob erlid. Dywed fod y dyn ieuanc a fwriadai ei gael yn gynorthwywr iddo, John Belcher, neu James Ingram, gydag ef ar ei daith; ac y mae yn trafferthu llawer i'w gynghori a'i gyfarwyddo, a gweddïa yn fynych ar iddo gael ffydd. Dydd Iau, y mae yn Blaenporth; ei fater yma eto oedd: "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn?" Dymuna fod ganddo gan mil o fywydau i'w rhoi i'r Iesu. Aeth oddiyno tua thref Aberteifi; a chafodd gymdeithas felus a'r nefoedd ar y ffordd. Teimlai nerth dirfawr wrth weddio a phregethu; ni chafodd erioed y fath nerth wrth efengylu. Gweddïa yn daer dros ei gydymaith: "O Arglwydd, cymhwysa ef ar fy nghyfer; gwna ef yn gryf i fyned trwy anhawsterau; gwna ef yn ffyddlon, yn ufudd, yn ostyngedig, ac yn dringar. Yr wyf yn hyderu yn awr, nad oes dim ond angau a'n gwahana."

Dydd Gwener, y mae yn gadael Aberteifi, wedi trafaelu y sir o Langeitho i'r gwaelod, ac yn cyrhaedd Dygoed, yn Mhenfro. Cafodd wrthwynebiad mawr yno gan Satan, yr hwn a safai ar ei ddeheulaw; ond wrth weddïo tynwyd ef y tu fewn i'r llen mewn modd na theimlodd ei gyffelyb o'r blaen; a phregethodd oddiar y geiriau: "Megys gan hyny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo." Ymddengys Sir Benfro iddo mewn cyflwr truenus. "Nid wyf yn gwybod," meddai, "ond am ychydig yn y wlad hon gymaint ag wedi eu dihuno i weled eu bod yn ddamnedig yn Adda." Llefarodd hyd yn agos i wyth; oddiyno hyd 11 bu gyda y dychweledigion ieuainc, yn eu ffurfio yn seiadau, ac yn eu hyfforddi mewn dysgyblaeth eglwysig. Dangosai iddynt natur gweithrediadau yr Yspryd; ei fod weithiau yn fawl, bryd arall yn alar; ei fod yn hyfforddi, yn arwain, yn bywiocau ac yn cadarnhau. Dangosodd ddyledswyddau aelodau y seiat, ac na ddylent gyfeirio yn gyhoeddus at bechodau gweinidogion yr efengyl, heb yn nghyntaf alaru o'u herwydd. Cyfeiriodd at y seiadau yn Llundain, ac fel yr oedd y gwaith mawr yn myned yn mlaen dros y byd. Gweddïodd gyda nerth, ac aeth i gysgu o gwmpas un, gan deimlo ei hun yn ddedwydd yn Nuw. Pregethodd boreu dydd Sadwrn drachefn yn Dygoed, ar, "Arhoswch ynof fi." Ty'r Yet, ger Trefdraeth, yw y lle y cyrhaeddodd nos Sadwrn. O gwmpas deg boreu Sabboth pregethodd ar hunan-ymwadiad; cafodd lawer o oleuni, a pheth nerth, ond yr oedd yn sych. Erbyn un yr oedd yn Llysyfran; ar y ffordd tuag yno bu yn cynghori yr ŵyn, y rhai, gobeithiai, oedd yn ddwfn argyhoeddedig o bechadurusrwydd hunan. Daethai cynulleidfa anferth ynghyd i Lysyfran; cyfrifa ef hi yn bum mil; ond yr oedd ef yn dywyll ac yn sych iawn ar y dechreu; "ni feddwn ddim nerth," meddai; ond yn raddol tosturiodd yr Arglwydd wrtho; tynwyd ef allan o hono ei hunan wrth weddïo, a chynorthwywyd ef i bregethu ar Had y wraig yn ysigo pen y sarff. Pregethai yn Gymraeg ac yn Seisneg; a soniai am y cyfamod cyntaf, modd ei torwyd, a'r felldith a ddilynodd, a'n bod oll trwyddo mor ddamniol ein cyflwr a'r diaflaid. Yna trodd i ddangos natur y cyfamod newydd. "Cefais nerth, a goleuni, a hyfrydwch mawr," medd, "fel yr wyf yn arfer gael ar y pen hwn, pan y'm harweinir ato gan Dduw. Yr wyf yn gobeithio i lawer gael eu hachub a'u troi; yr oedd yn felus mewn gwirionedd yma; ond yr oeddwn yn dra chyfeiriol a llym yn y rhan flaenorol, fel na allai cnawd fy nyoddef, gan ddangos nas gallent gadw eu calonau yn sefydlog ar Dduw am bum mynyd, pe y caent ddeng mil o fydoedd am hyny, o honynt eu hunain, nac edrych ar yr hwn a wanasant." Mewn ymddiddan preifat a ddilynodd, cafodd y beuai rhai ef yn fawr am beidio rhoddi rhagor o le yn ei weinidogaeth i foesoldeb, ac am osod dynion moesol ac anfoesol ar yr un tir o ran cyflwr. Gwelodd fod arno eisiau doethineb oddiwrth Grist yn gystal a nerth; teimlai yn barod, os dywedasai

rywbeth ar gam, i alw ei eiriau yn ol, neu i'w hesbonio, ac yna aeth at yr Iesu i geisio doethineb. Cafodd hyfrydwch mawr yn y weddi deuluaidd, a gwnaed ef yn ddifrifol iawn wrth weddïo dros yr hen bobl yn neillduol. Bu yn ysgrifenu yn ei ddyddlyfr hyd o gwmpas deuddeg. Yna dywed fod yr helynt hono y cyfeiriasai ati yn ddrain yn ei ystlys o hyd; pe buasai wedi cael ei goddef i ddigwydd, nas gallasai ddal, y suddasai tani. Cawsai ei synu yn hapus at lefau tair merch ieuanc yn y cyfarfod, y rhai a gydweddïent gerbron yr orsedd. "Mor hyfryd yw calonau toredig," medd, "yn neillduol rhai ieuainc; mor ardderchog yw yr olygfa; dim ysgafnder, na dadleuaeth, na siarad; ond ar eu gliniau yn pledio eu trueni yn ddifrifol gerbron Iesu, Cyfaill pechaduriaid. Ni chlywais fiwsig mor felus erioed; yr oeddynt fel colomenod yn trydar."

Dydd Llun y mae mewn lle a eilw yn Treinar; yr oedd sefyllfa Eglwys Loegr yn gwasgu yn ddwys ar ei feddwl; bu yn wylo, yn galaru, ac yn dadleu ar ei rhan. Erbyn deuddeg, yr oedd yn Castellnewyddbach, a phregethodd hyd gwedi dau ar, "Gan edrych ar Iesu." Ar y dechreu yr oedd yn sych; ond yn raddol cafodd ryddhad, a thynwyd ef allan mewn mawr gariad. Priodola ei sychder yn y rhan gyntaf i falchder ei galon, o herwydd pa un y gorfodir Duw i'w gaethiwo, er ei gadw yn ostyngedig. Cafodd hyfrydwch a goleuni mawr; dangosodd hefyd os oedd tywyllwch yn Eglwys Loegr, fod marweidd-dra yn mysg yr Annibynwyr; "felly," medd, "bydded i ni alaru ynghyd, a pheidio gadael y naill na'r llall, na gwanhau dwylaw ein gilydd; nid yw Yspryd Crist yn dymuno am ddinystr nac enwad na dynion, ond ar i'r holl eglwysi gael eu llanw o Dduw." Aeth oddiyno tua Fishgate, pum' milldir o bellder; yr oedd yn hyfryd arno ar y ffordd, ac eto nid oedd mor agos at ei Waredwr ag y dymunai. Er ei bod yn nghanol Rhagfyr, dywed y rhaid iddo bregethu allan yn mhob man, gan liosoced y cynulleidfaoedd. Cafodd hyfrydwch wrth weddïo, a llefarodd oddiar: "Canys byw i mi yw Crist." Yr oedd yn sych yma eto ar y cychwyn, ond dychwelodd ei Arglwydd ato heb fod yn hir. Cafodd gryn nerth i gymell at Grist. Yna aeth i seiat, lle yr oedd llonaid ystafell wedi ymgynull; cafodd nerth yma eto, gobeithia, i'w gosod ar dân; dywed wrthynt mai tân yw eu prif angen. Cyfeiria at yr Eglwys ac Ymneillduaeth fel yn farw. Cynghora hwy i oddef pawb sydd a'u hysprydoedd wedi eu tanio; ac eto nid oes neb i gael eu cefnogi i gynghori ond y rhai y mae Duw yn bendithio eu geiriau er bywiocau.

Dydd Mawrth, y mae yn Abergwaun. Yr oedd yr Arglwydd yn agos iawn ato yn ei ystafell wely. Teimlai anwyldeb mawr at ei gydymaith; edrychai arno fel wedi cael ei roddi iddo gan Dduw; a gweddïai drosto: "O Arglwydd, dy was di ydyw; rho iddo bob doethineb, pob zêl, pob gostyngeiddrwydd, a phob nerth ffydd, i ogoneddu dy enw. Yr wyt yn canfod mai er mwyn dy ogoniant yr oeddwn yn dymuno ei gael." Yna cafodd ddifrifwch mawr wrth weddïo tros yr ŵyn, yn arbenig y rhai a roddasai Duw iddo ef; teimlai y fath anwyldeb atynt fel na wyddai sut i'w gadael; synai fod y Goruchel a'r Dyrchafedig, yr hwn a breswylia dragywyddoldeb, yn gwneyd defnydd o hono ef, a darostyngwyd ef i'r llwch o'r herwydd. Gofynai am i'r Arglwydd fendithio ei lafur, a llafur yr holl frodyr, a dymunai na fyddai unrhyw ymraniad rhyngddynt. Ymddengys ei fod wedi clywed fod annhueddrwydd yn yr offeiriaid i oddef i'r Methodistiaid gymuno yn yr eglwysydd; a gweddïa yntau drostynt, os na chawsent eu galw i bregethu, ar iddynt gael eu cadw rhag gwrthwynebu, a goddef y bobl i ddyfod i'r ordinhad. Pregethodd oddiar Col. i. 12, 13. Ar y cyfan teimlai hyfrydwch yn y gwaith. Aeth oddiyno i Long House, ger Trefin. Llefarodd oddiar Actau ii. 4: "A hwy oll a lanwyd a'r Yspryd Glân;" cafodd oleuni, hyfrydwch, a nerth mawr. Dydd Mercher y mae yn myned i Dyddewi; llefara hyd gwedi tri, a theimla dosturi diderfyn yn llanw ei yspryd wrth edrych ar y gynulleidfa. Wrth weddïo cafodd ryddid mawr; ac yr oedd nerth rhyfedd yn cydfyned a'r weinidogaeth. Pregetha yn yr hwyr drachefn; rhybuddia y bobl i beidio rhoddi mwy o bwys ar fedydd nag ar waed Crist; a chafodd fwy o flas wrth sôn am y clwyfau nag erioed. Dydd Iau y mae yn Wolf's Castle; ac yn Hwlffordd dydd Gwener. Aeth i eglwys Prendergast yn y boreu; bu yno mewn seiat breifat hyd ddeuddeg; yna pregethodd gyda nerth anarferol hyd oedd yn agos i ddau. Aeth oddiyno tua lle a eilw yn Fenton; yno yr oedd mewn caethiwed ar y dechreu, ac yn galed arno mewn gweddi; ond yn y diwedd cafodd ryddhad wrth bregethu. Aeth yn ei flaen i St.

Kennox; llefarodd am gân Simeon a Mair, cafodd ei dynu allan yn rhyfedd. Disgwyliai gyfarfod a'r brawd Howell Davies yno, ond cafodd ei siomi. Gweddïodd drosto, pa fodd bynag. Dydd Sadwrn â i Lwyndyrys. Yma, er ei fawr lawenydd, daeth Howell Davies ato. Ar gyfer y Sul ysgrifena yn ei ddydd-lyfr: "Yr wyf wedi ymadael a'r anwyl a'r cariadus Howell Davies; cydunem yn hollol yn mhob peth, er fod Satan wedi ceisio creu ymraniad. Dywedais wrtho am drefn yr eglwys yn Llundain, ac am y gwaith mawr yn mhob man, a chefais ddoethineb i osod allan yn glir y pethau a rodded i mi." Dywed ei fod yn awyddus i'r diwygiad fyned yn ei flaen pe na bai ganddo ef un llaw ynddo; yn ewyllysgar iddo fyned yn ei flaen fel y mynai Efe, a thrwy yr hwn a fynai Efe. Y mae yn foddlon peidio myned i seiat y gweinidogion, rhag iddo beri gofid iddynt. Yna gweddia: "O Arglwydd Iesu, pa bryd y caf ddyfod adref! O, yr wyf yn hiraethu am gael dyfod adref atat ti! Yno, fy Nhad, fy Mrawd, ni phechaf!" Aeth yn ei flaen i Landdowror, yna i eglwys Llandilo, lle y pregethai y Parch. Griffith Jones yn y prydnhawn, a daeth awel hyfryd ar ei enaid. Pregethai Mr. Jones—"y gwerthfawr Mr. Jones," y geilw Howell Harris ef—ar adgyfodiad Lazarus.


Gadawa Landdowror y Llun, y mae yn Cilgarw, ger Caerfyrddin, dydd Mawrth; yn Llanon dydd Mercher; Llansamlet, ger Abertawe, dydd Iau; Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, dydd Gwener. Dydd Sadwrn, yr hwn hefyd yw dydd Nadolig, y mae yn Llanddew, ger Aberhonddu, am bump o'r gloch y boreu yn y plygain, lle y gwasanaethai y Parch. Thomas Lewis. Oddiyno brysia yn ei flaen i Drefecca, fel y gallai gymuno yn eglwys Talgarth yn ol ei arfer. Ar ei ffordd clywodd fod ei gyfeillion wedi cael eu hatal o gymundeb yr Eglwys. Derbyniodd y newydd yn hollol dawel; yr oedd ei feddwl yn llawn o heddwch hyfryd, "nid o herwydd dylni," medd, "ond o herwydd ffydd, gan y gwelaf Grist yn mhob peth. Teimlais barodrwydd i adael yr Eglwys, a llawn nerth i ddyoddef hyn; ond teimlwn nas gallwn adael fy mrodyr i gael eu bwrw allan, heb fyned allan gyda hwynt." Yna aeth at yr offeiriad, y Parch. Price Davies, i ymholi ac i achwyn. Dywedodd hwnw, ei fod, oddiar resymau digonol, wedi penderfynu na chai y Methodistiaid gyfranogi o'r sacrament. "A ydych yn fy atal i rhag dyfod i'r ordinhad?" gofynai Howell Harris. "Ydwyf, yn benderfynol,' meddai y Ficer. Llanwyd enaid y Diwygiwr â heddwch dwfn wrth glywed; ymddiriedai yn ngeiriau Duw fod pob peth yn gweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu; yna dywed: "Gwelais fod daioni mawr yn rhwym o ganlyn hyn; y mae y gwaith o Dduw; yr wyf finau yn foddlon dilyn. Llanwyd fy enaid â thosturi a chariad at yr offeiriad a'r bobl." Gobeithia, er iddo ef gael ei droi allan, y deuai Duw i achub y bobl, druain. Y mae yn foddlon cael ei ddirmygu, ac i weled ond ychydig yn dyfod allan gyda hwy.

Yr oedd hyn cyn myned i'r eglwys. Yn y gwasanaeth, wrth glywed y *Litany* yn cael ei ddarllen ynghyd a'r llithiau, cafodd hyfrydwch mawr; teimlai fod yr adnodau yn nodedig o gyfeiriol. Pregethai yr offeiriad yn erbyn y rhai oeddynt yn mynychu cyfarfodydd crefyddol y tu allan i eglwys eu plwyf; galwai hwy yn Sismaticiaid, a dywedai eu bod yn archolli corff Crist ac yn trywanu ei ystlys sanctaidd mor wir a'r milwr a'i gwanodd a phicell. Tosturi dwfn ato a deimlai Harris, gwelai ei fod yn llefaru yn ol y goleuni oedd ganddo. Ond bu raid i'r Diwygiwr ymadael heb y fraint o gofio angau y Gwaredwr. Ar y ffordd i Drefecca, penderfynodd roddi yr holl achos gerbron yr Esgob, ac os byddai efe yn cadarnhau ymddygiad yr offeiriaid, nid oedd dim i wneyd ond cefnu ar yr Eglwys, er cymaint ei serch ati.

Cyrhaeddodd adref o gwmpas un; llifai heddwch fel yr afon i mewn i'w yspryd; bu yn ysgrifenu llythyrau ac yn cofnodi ei deimladau yn ei ddydd-lyfr hyd gwedi tri, yna pregethodd i gynulleidfa liosog oddiar Esaiah xl: "Cysurwch, cysurwch, fy mhobl.' Cafodd nerth anghyffredin i gyfeirio eu llygaid at Grist; hydera i lawer gyfarfod a'r Arglwydd y prydnhawn hwnw. Cyfeiriodd at waith yr offeiriaid yn eu cau allan o ragorfreintiau'r tŷ, a dywed ei fod yn foddlon i'r mater, pwy yw y gwir brophwyd dros Dduw, gael ei benderfynu yn y farn ddiweddaf. Dyma lle y teimlodd fwyaf o nerth wrth lefaru; a syna at y cariad angerddol a lanwai yr ŵyn. Er ei fod heb gysgu y noson flaenorol, a'i fod wedi bod mewn chwech o gyfarfodydd cyhoedd a phreifat y dydd hwnw, cychwyna gyda mîn y nôs i Sancily, ffermdy lled fawr, yn nyffryn Wysg, rhwng Talybont ac Aberhonddu, yr hyn a wnelai ei daith am y diwrnod

yn ddeng-milldir-ar-hugain. Er hwyred ydoedd, pregethodd mewn lle o'r enw Tygwyn. Ei destun ydoedd: "Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber." Ar y dechreu yr oedd yn dra difywyd; nid oedd unrhyw ddylanwad yn cydfyned a'i eiriau; ond rhoddwyd ef yn rhydd; cafodd nerth rhyfedd, a chariad a goleuni, i edrych at Grist.

Boreu y Sul y mae yn Sancily, a daeth i'w feddwl drachefn y priodoldeb o fyned dros y môr; teimlai * a Chymru yn agos iawn at ei galon, ond galluogwyd ef i'w cyflwyno i'r Arglwydd Iesu. Teimlai Dŷ yr Amddifaid (a adeiladesid yn Georgia gan Whitefield), a'r eglwysi yr ochr arall i'r cefnfor, yn pwyso ar ei feddwl, a mawr awyddai eu gweled. Credai y gallai yr Iesu gario ei waith yn mlaen yn y wlad yma hebddo. Aeth i eglwys Llanddew, lle y pregethai y Parch. Thomas Lewis. Yno cafodd lesi'w enaid. Yr oedd ganddo amcan deublyg wrth fyned i Landdew, sef cael cyfranogi o'r sacrament, yr hyn a waharddasid iddo yn eglwys Talgarth gan Mr. Price Davies, y ficer, a chael ymgynghori a Mr. Thomas Lewis, yn ngwyneb y dyryswch newydd oedd wedi codi. Toddodd ei galon fel cwyr ynddo wrth nesu at y bwrdd; tynwyd ei yspryd yn agos iawn at yr Iesu, a melus oedd y gyfeillach. Teimlodd fod yr Iesu yn aros yn ffyddlon, pan yr oedd ef yn cael ei fwrw allan o eglwys ei blwyf. Wrth edrych ar yr elfenau, gwelodd fwy o ddirgelwch yr undeb rhwng y ddwyfoliaeth a'r ddynoliaeth yn mherson y Mab nag erioed.



LLAWYSGRIF HOWELL HARRIS.

Aeth oddiyno tua Merthyr Cynog; clywai fel yr oedd y gwaith yn myned rhagddo yn mhob man, a phenderfynai lynu wrth yr ŵyn. Cyrhaeddodd yno o gwmpas pedwar; "Trowch eich wynebau ataf fi," oedd ei destun, cafodd nerth mawr wrth weddïo, ac wrth anerch y dyrfa. Yn yr hwyr aeth i le a eilw Alltmawr, pregethodd hyd gwedi naw oddiar Zech. xii. 10: "A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, yspryd gras a gweddïau, a hwy a edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant;" ac yr oedd y nefoedd yn gwenu arno. Bu i lawr hyd gwedi un-ar-ddeg yn cynghori yr ŵyn. Dydd Llun, y mae yn Llanddewi'r Cwm; anogodd y bobl i edrych at Grist, yna cychwynodd i Langamarch, lle y cyfarfyddodd a'r anwyl Mr. Gwynn. Ei destun yno oedd: "Wele Oen Duw," a chafodd ddirfawr nerth i lefaru. Gwedi cymdeithas felus a Mr. Gwynn, cyfeiriodd ei gamrau tua Dolyfelin. Ar y ffordd bu yn dda ar ei enaid; gwelodd bechod fel y mae yn erbyn yr Iesu, ac felly dychrynai rhagddo, yn gystal a rhag ei ddoethineb, ei ewyllys, ei reswm, a'i gyfiawnder ei hun; gwelodd Grist yn ogoneddus, a'i hunan yn ofnadwy, nes y gweddïodd: "O, achub fi rhag fy hunan!" Pregethodd oddiar Heb. xii. 1, 2, gyda nerth mawr. Wedi hyny aeth tua Llanfair-muallt, yr oedd ei gysylltiad a Miss Williams, y Scrin, yn pwyso yn drwm ar ei feddwl; ar yr un pryd teimlai barodrwydd i'w rhoddi i fynu, ac i beidio ei gweled byth, os byddai hyny yn fwy manteisiol i ŵyn Crist. Cafodd undeb nefol, a rhyddid

ffydd, yn nghymdeithas saint Llanfair; gwelai fod goleuni Crist yn peri iddynt ddirmygu yr hen gyfamod. Pregethodd yma eto oddiar "Trowch eich wynebau ataf fi," a chafodd ryddid a dirfawr felusder yn y gwaith. Aeth oddiyno tua chyfeiriad Hengwm, gan daflu bras-olwg ar ei lafur, er pan y dechreuodd fyned allan gyda'r efengyl. Dywed ddarfod iddo deithio tua deuddeg milldir y dydd am y pedair blynedd a haner diweddaf, ac felly fod ei holl deithiau am y tymor hwnw dros dair mil o filldiroedd, a'r cyfanswm am yr wyth mlynedd yn agos i chwe' mil. Traddodasai rhwng chwech a saith mil o bregethau, heblaw cofnodi ei deimladau a'r digwyddiadau yn ei ddydd-lyfr, ac ysgrifenu llythyrau dirif. Yn ychwanegol, cynghorai yn y seiadau. Cafodd gyfarfod nodedig o nerthol yn Hirgwm. Wrth weddïo daeth dylanwad rhyfedd ar ei yspryd; gwelodd ei holl bechodau wedi eu cyfrif ar Grist; "Gwelais ef," meddai, "yn gorchfygu angau ac uffern, ac yn gwneyd hyny drosof fi, yn fwy clir nag erioed; tynwyd fi allan o fy hunan yn fwy nag erioed. Yna, wrth bregethu oddiar 'Wele Oen Duw, yr oeddwn yn ofnadwy, yn fwy gorchfygol nag erioed; yr oedd genyf yspryd ac awdurdod fel nas gellid gwrthsefyll. Yr oeddwn yn galw ar y chwareuwyr, ac yn condemnio eu hiaith, yn tori pob peth o'm blaen, gan gyfeirio at yr hen fyd, at Sodom, ac at y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân."

Ymddengys fod yr odfa, yr hon a ddesgrifia gyda manylwch, yn un ofnadwy; atebai esgusodion yr annuwiol; condemniai y teuluoedd diweddi, a'r rhai a ddygent eu plant i fynu gan eu harfer i chwareuyddiaethau; a dywedai, os yw Gair Duw yn wir, fod yr holl wlad yn myned tuag uffern. "Ychydig oedd genyf i'r wyn," meddai; "ond ni chefais y fath awdurdod erioed." Diau fod yno le difrifol mewn gwirionedd; mellt Sinai a oleuent i'r bobl eu cyflwr colledig, a tharanau yr Hollalluog a ruent yn eu clyw, nes yr oedd eu wynebau wedi myned fel calch, a'u gliniau yn curo ynghyd. Y mae yn Hirgwm hefyd dydd Mercher; aeth oddiyno i Cefnllys, yn Sir Faesyfed; dydd Iau y mae yn Cefnbrith, nid yn nepell o Cefnllys. Aeth oddiyno i Gore, ac ar y ffordd darllenai Lyfr Vavasor Powell, yn desgrifio ansawdd Cymru yn y flwyddyn 1641. Pregethodd yma oddiar Es. xlv. 22. Ar y dechreu yr oedd yn sych iawn, dim dylanwad, a braidd y medrai gael geiriau. Ond trodd at y gyfraith yn ddisymwth; yna daeth nerth mawr, tra y dangosai iddynt eu bod yn caru, yn ofni, yn ymddiried, ac yn rhyfeddu at bob peth ond Duw. Y mae yn y Rhiw dydd Gwener, y dydd diweddaf o'r flwyddyn 1742, a dydd Sadwrn, y cyntaf o'r flwyddyn newydd, y mae yn y Scrin, ar ymweliad a Miss Ann Williams. Teifl y difyniadau hyn allan o'i ddydd-lyfr oleuni mawr ar ei hanes, ar y diwygiad, ar y rhwystrau mawrion a'i cyfarfyddent, ac ar ansawdd ei feddwl yntau. Ond ein hamcan penaf oedd rhoddi rhyw syniad am fawredd ei ymdrechion, a'i yni diderfyn.

Ar ol dychwelyd o'r daith, yr hon a barhaodd agos i saith wythnos, rhydd y crynodeb canlynol o'i lafur, mewn llythyr at gyfaill: "Yr wyf, oddiar pan adewais Lundain, wedi teithio dros fil o filldiroedd, ac wedi llefaru dros chwech ugain o weithiau, fynychaf yn yr awyr agored, gan na all unrhyw dŷ gynwys y dorf, a hyny yn nghanol gwyntoedd, gwlawogydd, a rhew; ac eto nid wyf yn waeth o ran fy nghorff nag ar y dechreu. Hyfryd yw bod ar fy eithaf dros Dduw.' Meddai, mewn llythyr arall, at un Mr. Baddington, "Pe baech yn cymeryd tro gyda mi am ddeufis neu dri, yn gweled fy llafur a'm profedigaethau, yr wyf yn sicr na ryfeddech gymaint am na anfonais atoch cyn hyn. Y mae yn awr ynghylch naw wythnos er pan ddechreuais fyned o amgylch De a Gogledd Cymru. Yn yr amser hwn mi a ymwelais â thair-sir-ar-ddeg, a thrafaelais gan amlaf 150 o filldiroedd bob wythnos, gan bregethu ddwy waith, ac weithiau dair a phedair gwaith y dydd. Bum saith noswaith yn olynol heb ddiosg fy nillad. Teithiais o un boreu hyd yr hwyr dranoeth, heb orphwys, dros gan' milldir, gan bregethu ganol nos, neu yn foreu iawn, ar y mynyddoedd, rhag cael ein herlid."

Mewn gwirionedd, yr oedd ei lafur yn anhygoel. Y syndod yw nad ymollyngodd ei gyfansoddiad, er cadarned oedd, tan bwys y gwaith. Gwedi taith flin, a phregethu amryw droiau i dorfeydd terfysglyd, a'r holl wlad yn ferw ac yn gyffro o'i gwmpas, arosai i lawr drachefn hyd dri neu bedwar o'r gloch y boreu, yn gweddïo, yn ymdrechu yn galed a llygredigaeth ei galon, ac yn ysgrifenu, fel nad oedd ganddo nemawr o amser i orphwys. Efe, uwchlaw pawb, a arloesodd y tir, ac a dorodd y garw, i'r efengyl. Tybiai ef ei hunan yn fynych fod ei ddiwedd yn ymyl, ond ni

theimlai unrhyw brudd-der o'r herwydd; yn hytrach cyffröid ei enaid ynddo gan y gobaith o fyned at ei Waredwr.

Fel enghraifft o'i ddyoddefaint gyda gwaith yr efengyl cymerer a ganlyn. Ryw noson clywai Mrs. Rumsey, Tyny-wlad, ger Crughywel, lais gwan wrth ddrws y tŷ, o gwmpas dau o'r gloch y boreu. Adnabu y llais, mai llais Howell Harris ydoedd. Prysurodd i agor, ac erbyn iddo ddod i mewn yr oedd golwg ryfedd arno. Wrth ddychwelyd o Sir Fynwy cawsai ei guro a'i faeddu yn dost; gorchuddid ei gorff gan waed, a chan archollion a chleisiau; cafwyd fod tri-ar-ddeg o glwyfau ar ei ben, a'r syndod oedd na chawsai ei ladd. Cafodd bob ymgeledd posibl mewn ffermdy, ac aeth i ffwrdd boreu dranoeth yn siriol ei yspryd, gan ystyried mai braint oedd cael dyoddef anmharch dros Grist.

Dro arall, sef Mehefin, 1741, yr oedd ef a John Cennick yn Swindon ar eu ffordd i Lundain. Dechreuasant ganu ac efengylu, ond cyn gallu dechreu pregethu ymosodwyd arnynt gan y werinos. Saethent a drylliau dros eu penau, ac yr oedd ffroenau y drylliau mor agos i'r pregethwyr fel y gwnaed eu hwynebau mor dduon gan y pylor ag eiddo tinceriaid. Nid oedd arnynt fraw; agorasant eu mynwesau, a dywedasant eu bod yn barod i roddi eu bywydau dros eu hathrawiaeth. Yna cawsant eu gorchuddio drostynt oll a llwch yr heol, yr hwn a deflid atynt. Yn nesaf, cafodd y terfysgwyr beiriant dwfr, yr hwn a lanwasant o gwteri aflan, gan arllwys yr hylif budr ar weision Crist. Ond ni ddigalonent. "Tra y taflent y dwfr budr ar Harris," meddai Cennick, "pregethwn i; pan y tröent y peiriant arnaf fi, pregethai yntau." Parhasant i wneyd hyn, nes niweidio y peiriant; yna taflasant fwceidiau o ddwfr budr a llaid arnynt. Yr oedd boneddwr, o'r enw Mr. Richard Goddard, yn anog y terfysgwyr; benthycasai iddynt ei beiriant a'i ddrylliau i'r pwrpas; dywedai wrthynt am drin y ddau bregethwr cynddrwg ag y medrent, ond peidio eu lladd. Safai ar gefn ei geffyl yn edrych ac yn chwerthin. Wedi iddynt ymadael, gwisgasant ddwy ddelw, galwasant un yn Harris a'r llall yn Cennick, a llosgasant hwy. Diau mai hyn a wnaethent a'r pregethwyr eu hunain oni bai fod arnynt ofn. Nid digwyddiad ar ei ben ei hun oedd hwn, cyfarfyddent a'r cyffelyb yn mron bob dydd.

Fel pregethwr, math o Ioan Fedyddiwr ydoedd, a gwaith garw, rhagbarotôl, i raddau mawr, a gyflawnodd. O ran gallu gweinidogaethol, nid oedd i'w gymharu a Daniel Rowland. Yn ei flynyddoedd cyntaf, ychydig o drefnusrwydd fyddai ar ei sylwadau, ac ni arferai gymeryd testun, eithr llefarai yr hyn a roddid iddo ar y pryd. Tywalltai allan yr hyn a fuasai yn berwi yn ei fynwes, heb ryw lawer o reoleidd-dra, ond gydag awchlymder a nerth nas gallai dim sefyll o'i flaen. Ar yr un pryd, yr oedd rhyw hynodrwydd yn ei arddull, oedd yn ei osod ar ei ben ei hunan ynghanol pawb. Meddai Williams, yn ei farwnad:—

"Ond yn nghanol myrdd o honynt
Mae rhyw eisiau o dy ddawn."

* "Nid rhaid ond edrych ar ei ddarlun," ysgrifena Dr. Owen Thomas, "er mwyn gweled ar unwaith, mai nid dyn cyffredin ydoedd. Y mae y wyneb hir, ac yn enwedig yr ên hir yna, y trwyn eryraidd, yr aeliau mawrion, y talcen llydan er nad yw yn uchel, y genau agored eang, y llygaid treiddgar, a'r wynebpryd penderfynol yna, yn arwyddo ei fod yn berchen galluoedd naturiol cryfion, ac yn arbenig ei fod wedi ei wneuthur heb ofn." Yr oedd dwysder ei argyhoeddiad hefyd, yr ing enaid ofnadwy y pasiodd trwyddo, yr agosrwydd at dragywyddoldeb yn mha un yr oedd yn byw, yn awchlymu ei leferydd, ac yn rhoddi mîn ar ei eiriau. Meddai y Parch. John Hughes: † "Rhoes Duw iddo orchymyn, 'Llefa a'th geg, nac arbed; dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Israel.' Y llef a ddywedodd wrtho, 'Gwaedda.' A gwaeddi yn groch a wnaeth: 'Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd sydd fel blodeuyn y glaswelltyn.' Gwnaed ei wyneb fel callestr. Dyrchafodd ei lef uwchben dynion diofal nes yr oedd eu gwynebau yn gwelw-lasu." Pregethwr y werin anystyriol ydoedd yn benaf; pe buasai ei iaith yn fwy coeth, ei leferydd yn fwy tyner, a'i fater yn fwy athronyddol, ni fuasai yn offeryn cymwys ar gyfer y gwaith oedd Duw wedi dori allan iddo. Cyfeiria John Wesley, yn ei ddydd-lyfr, at rymusder ei genadwri. Ar gyfer dydd Llun, Ionawr 22, 1750, ysgrifena: "Mi a weddiais yn y boreu yn y *Foundery* (capel

---

* *Cofiant John Jones, Talsarn.*
† *Methodistiaeth Cymru.*

Mr. Wesley, yn Llundain), a phregethodd Howell Harris, areithiwr nerthol, yn gystal wrth natur a thrwy ras, ond nid yw yn ddyledus am ddim i gelfyddyd na dysgeidiaeth." Cyfeiria ef ei hun yn aml at brinder ei wybodaeth, a'i fod yn methu cael amser i ddarllen, fel rhwystrau ar ei ffordd gyda'r weinidogaeth. Ond fel yr ydoedd yr oedd gymhwysaf ar gyfer ansawdd y wlad. Mewn ymroddiad diarbed i lafur, mewn teithiau hirion a pheryglus, mewn cydwybodolrwydd dwfn i'r Arglwydd Iesu, mewn hyfdra sanctaidd yn ngwyneb gwawd ac erlid, ac mewn ymdeimlad difrifol a gwerth yr eneidiau oedd yn teithio yn ddiofal i ddinystr, ni ragorodd un o'r Diwygwyr ar Howell Harris. Braidd na allai ddweyd yn ngeiriau Paul: "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll;" ac yn briodol iawn y gelwir ef yn Luther Cymru. Yr oedd ei allu trefniadol hefyd agos a bod yn gyfartal i'w ddawn fel siaradwr; bu ganddo ef law fawr, yn wir y llaw fwyaf, yn lluniad y cyfansoddiad Methodistaidd ar y cychwyn, ac y mae ei ddelw ef i'w gweled yn amlwg ar y Cyfundeb hyd heddyw. Gadawn hanes Howell Harris yn y fan hon yn bresenol, ond cawn ddychwelyd ato eto.

---

## HANES Y DARLUNIAU.

ATHROFA TREFECCA, A CHAPEL COFFADWRIAETHOL HOWELL HARRIS. Cymerwyd y darlun hwn ar gyfer y gwaith presenol yn ngwanwyn y flwyddyn hon, 1894. Yn mis Ebrill, y flwyddyn 1752, y gosododd Howell Harris sail yr adeilad i lawr; ac yr oedd rhan o hono wedi ei orphen yn y flwyddyn ganlynol. Ar ddiwedd y flwyddyn 1754 yr oedd teulu sefydledig yn Nhrefecca, o gylch cant o rifedi, heblaw y rhai oedd yn myned ac yn dyfod. Gan y rhoddir hanes cyflawn o'r sefydliad yn Nhrefecca yn amser Howell Harris yn y lle priodol yn nghorff y gwaith, ni raid ymhelaethu arno yn y fan hon. Yn y flwyddyn 1842 yr agorwyd y lle fel Athrofa y Deheudir, ac am yr ugain mlynedd cyntaf, y Parch. D. Charles, B.A., oedd yr unig athraw. Agorwyd y Capel Coffadwriaethol yn mis Gorphenaf, 1873, sef can-mlwyddiant marwolaeth Howell Harris. Gwasanaethwyd ar yr agoriad gan y Parchedigion Dr. Lewis Edwards, Bala; Dr. Owen Thomas, Liverpool; Edward Matthews, David Williams, Troedrhiwdalar, ac eraill. Cynllunydd y capel ydoedd Mr. R. G. Thomas, Menai Bridge; a'r adeiladydd Mr. Evan Williams, Bangor. Costiodd £3,432 2s. 2½c. Casglwyd yr arian drwy ymdrechion y Parchedigion Edward Matthews, a Dr. J. Harris Jones, un o athrawon y sefydliad.

DARLUN GWREIDDIOL HOWELL HARRIS. Cyhoeddwyd dau Gofiant o Howell Harris yn y flwyddyn ar ol ei farwolaeth. Argraffwyd hwy yn Nhrefecca, ac yr oedd y cyntaf yn yr iaith Gymraeg, a'r llall yn Saesneg, ond ni chyhoeddwyd darlun o'r Diwygiwr hynod yn y Cofiantau hyny. Cyhoeddwyd Cofiant eilwaith iddo yn Nhrefecca yn 1792, ond nid oes darlun o hono yn hwnw ychwaith. Ond yn y flwyddyn 1838, sef yn mhen tri ugain a phump o flynyddau wedi marwolaeth Howell Harris, fe ail-argraffwyd y Cofiant a ddygwyd allan yn 1792 gan Mr. Nathan Hughes, tad y diweddar Barch. John Richard Hughes, Brynteg, Sir Fon. Argraffwyd ef yn Merthyr Tydfil. Pan yn nghylch cyhoeddi yr argraffiad hwn o Gofiant Howell Harris, cafodd Mr. Nathan Hughes afael ar ddarlun o hono yn Nhrefecca, pa un a osododd yn llaw cerfiedydd mewn dur, a chyhoeddodd liaws o gopiau o hono. Er fod cyhoeddiad y Cofiant hwn a'r darlun yn gyfamserol, ymddengys eu bod yn cael eu gwerthu ar wahan; o herwydd nid yw y darlun wedi ei rwymo gyda'r Cofiant, yn y copiau yr ydym ni wedi eu gweled; ac yr ydym wedi dyfod ar draws y darlun yn aml, heb y Cofiant. Pris y Cofiant ydoedd swllt, a thebygol fod pris y darlun ei hun yn llawn cymaint a hyny, o herwydd dywedir ddarfod i'r *plate* gostio deg punt; felly gwerthid hwy gyda'u gilydd neu ar wahan, yn ol ewyllys y prynwr. Dywedir fod y *plate* yn awr yn meddiant y Parch. Dr. Hughes, gweinidog y Bedyddwyr, Scranton, Pen. America, sef un o feibion Mr. Nathan Hughes. Y mae darlun Howell Harris wedi ei gerfio lawer gwaith yn ystod y blynyddau diweddaf.

EGLWYS TALGARTH. Copi ydyw y darlun hwn o'r *print* a gyhoeddwyd gydag argraffiad Mr. William Mackenzie o "Holl Weithiau Williams, o Bantycelyn," dan olygiad y diweddar Barch. J. R. Kilsby Jones. Cymerwyd y *photograph* gwreiddiol tua'r flwyddyn 1867, gan Mr. T. Gulliver, Abertawe. Yr oedd yr eglwys y pryd hwnw heb fyned dan unrhyw gyfnewidiad. Y mae yr eglwys yn bresenol yn bur debyg i'r fel yr ydoedd yn amser Howell Harris, ac y mae genym wrth law amryw ddarluniau diweddar o honi, eto gwell oedd genym dalu am y *copyright* i Mackenzie na gwneyd defnydd o honynt.

ATHROFA'R IARLLES HUNTINGTON. Cymerwyd y darlun o'r adeilad dyddorol hwn allan o'r *Evangelical Register* am Ebrill yn y flwyddyn 1824, cyhoeddiad perthynol i Gyfundeb yr Iarlles. Gan y mynegir hanes yr adeilad yn yr amser priodol yn nghorff y gwaith hwn, nid oes eisiau ond crybwyll yn y fan hon, fod Athrofa yr Iarlles, ag Athrofa presenol y Methodistiaid yn Nhrefecca, yn ddau adeilad hollol wahanol, fel y gwelir oddi wrth y darluniau sydd yn addurno y benod hon. Saif Athrofa'r Iarlles ar dir Trefecca Isaf; daeth y tir hwn yn eiddo, trwy bryniad, i Thomas Harris, a disgynodd trwy etifeddiaeth ar ol ei ddydd ef, i Mrs. Hughes, unig ferch brawd hynaf Howell Harris, sef Joseph Harris. Ar ol marwolaeth yr Iarlles, symudwyd yr Athrofa i Cheshunt, ac aeth yr adeilad yn adfaeledig. Y mae bellach er ys blynyddau yn amaethdy, a gelwir ef yn "*College Farm*," ac y mae yn meddiant James P. W. Gwynne Holford, Ysw., o Buckland, yr hwn sydd yn disgyn

o'r Harissiaid. Yr oedd y tir ar yr hwn yr adeiladwyd yr Athrofa bresenol yn eiddo Howell Harris ei hun, er mai i bwrpas arall y bwriadai efe y lle.

GOLYGFA DDWYRAIN-OGLEDDOL AR ATHROFA TREFECCA. Dengys y darlun hwn y rhan o'r adeilad a neillduir yn breswylfod y Prif Athraw. Adnewyddwyd yr Athrofa yn fawr yn ystod y blynyddau diweddaf, ac y mae yn bresenol yn edrych yn adeilad hardd ac mewn cadwraeth dda.

EGLWYS DEFYNOG. Er fod yr eglwys eang hon wedi myned dan adgyweiriadau yn ystod y blynyddau diweddaf, eto nid ydyw wedi myned dan gyfnewidiadau mawrion, er pan y cyfarfyddodd Howell Harris â Daniel Rowland ynddi, yn y flwyddyn 1737. Y mae hon, fel eglwys Talgarth, yn llawer mwy o faintioli nag yw eglwysi parthau gwledig Cymru yn gyffredin. Yma y treuliodd y Parchedig Mr. Parry ddiwedd ei oes, er ei fod yn llawer mwy adnahyddus fel Mr. Parry o Lywel. Yr oedd efe yn ei ddydd yn un o'r offeiriaid mwyaf poblogaidd a feddai y Deheudir, ar gyfrif ei ddawn pregethwrol a'i ddaliadau efengylaidd. Y mae ei gorff yn gorwedd yn y fynwent hon, er nad yw y fan yn cael ei ddangos yn y darlun hwn.

COFLECH HOWELL HARRIS YN EGLWYS TALGARTH. Nid yw yn hysbys pa bryd y gosodwyd y goflech hon i fyny. Tebygol iddi gael ei gosod yno yn fuan wedi ei farwolaeth, gan y "teulu" yn Nhrefecca. Y mae Mr. Theophilus Jones, yn ei *History of Breconshire*, a gyhoeddwyd yn 1809, yn crybwyll am dani, er mai cyfeiriad anmharchus ddigon a geir ati yn ei lyfr ef. Y mae yr hanesydd tra-eglwysig hwnw yn achwyn ar eiriad y coffadwriaeth sydd ar y goflech, ac yn anfodd'awn, debygid, fod y geiriau "a hunodd yn yr Iesu" wedi eu harfer i ddynodi ei ymadawiad ef. Tra ddyrchefir ei frodyr ganddo ar draul ei ddarostwng ef. Prin y mae yn bosibl i gulni yspryd fyned yn mhellach na hyn. Adnewyddwyd Eglwys Talgarth yn fawr yn y blynyddau 1874-5, ac o herwydd rhyw resymau nad ydynt yn hysbys i ni, fe dynwyd y goflech ymaith oddiar fur gog'eddol yr eglwys, lle yr ydoedd wedi bod am gynifer o flynyddau; ac y mae rhan o honi—a dim ond rhan yn unig—yn awr wedi ei gosod mewn modd digon anmharchus yn erbyn y mur, ar un o ystlysau yr eglwys. Y mae yn anhawdd peidio ymholi paham na buasai yr awdurdodau oedd yn gyfrifol am adgyweiriad yr eglwys, yn ail-osod y goflech? Nis gellir dweyd ei bod yn anhardd ac anolygus, o herwydd y mae y darlun o honi sydd ar tudalen 107 yn dangos yn wahanol. Hwyrach y gallasai ei fod yn angenrheidiol iddi gael ei symud o'r fan yr ydoedd wedi bod er amser marwolaeth Howell Harris, ond pa gyfrif sydd am nad ail-adeiladwyd hi yn ei chyfanrwydd mewn rhyw gwr arall o'r eglwys? Nid ydym yn ystyried ein bod yn gwybod digon o'r amgylchiadau i ateb y gofynion hyn, ond yn sicr, yr ydym yn credu y dylai fod gan awdurdodau Eglwys Talgarth atebion da iddynt. Howell Harris yn ddiau oedd y mwyaf ymlyngar wrth yr Eglwys Sefydledig o'r oll o'r Tadau, ac y mae ei goffadwriaeth yn haeddu poh parchedigaeth oddiar ei llaw hi. Gan Mr. D. Grant, o Lanfair-yn-muallt, y cymerwyd y darlun gwreiddiol.

COFLECH HOWELL HARRIS YN Y CAPEL COFFADWRIAETHOL. Y mae y maen coffadwriaethol hwn yn un destlus a da. Gwnaed y *medallion* gan Mr. William Davies (Mynorydd), Llundain, ac y mae yn waith celfyddgar a gorchestol. Y geiriau a gerfiwyd arni ydynt fel y canlyn:—"*This Chapel was erected in memory of Howell Harris: born at Trevecca, January 23rd, 1714: died July 21st, 1773. He was interred near the Communion Table in Talgarth Church. His powerful preaching was blessed of God, to the conversion of many souls, and the revival of religion in all parts of Wales.*" Rhodd cyfeillion Llundain ydyw, a chostiodd £32.

LLYFRGELL TREFECCA, YNGHYD A PHWLPUD A CHADAIR DDERW HOWELL HARRIS. Gesid y darlun hwn ger ein bron olygfa ar un o ystafelloedd Llyfrgell yr Athrofa. Y mae y pwlpud a'r gadair wedi eu symud o'u lleoedd priodol, fel ag i ymddangos yn y darlun. Y mae y pwlpud yn egluro ei hun. Cadair dderw gerfiedig ydyw y gadair hon, ac y mae y flwyddyn 1634 wedi ei cherfio arni, felly gwelir fod y gadair yn meddiant y teulu, lawn bedwar ugain mlynedd cyn geni Howell Harris.

GOLYGFA FEWNOL AR Y CAPEL COFFADWRIAETHOL. Rhydd y darlun hwn syniad cywir am sefyllfa y pwlpud a'r goflech. Gwelir ynddo y bwrdd a'r ddwy gadair freichiau, rhodd cyfeillion Dolgellau, gwerth £25. Y mae eiddo gwerthfawr eraill yn y capel hwn, ar nas gallesid eu cael i fewn i'r darlun, megys y llestri arian at wasanaeth y cymun, gwerth £52, a gyflwynwyd gan gyfeillion o Liverpool; ynghyd ag awrlais ardderchog, gwerth £25, sydd yn rhodd cyfeillion o Ddinbych, &c.

LLAWYSGRIF HOWELL HARRIS. Gwelir fod y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu yn eglur, ac yn gwbl anhebyg i'w lawysgrif yn y dydd-lyfr, yr hwn sydd yn hynod o aneglur, ac yn llawn talfyriadau. Gosodir tudalen o'r dydd-lyfr i fewn eto. Y mae nodiad ar gefn y llythyr hwn yn darllen fel hyn:—"*Letter sent, 1756, to the 4 brethren gone to the Army.*" Nid yw yn hysbys pwy oeddynt. Mae y gwreiddiol yn ngadw yn Athrofa Trefecca, a chopiwyd ef gan Mr. O. M. Edwards, M.A., Rhydychain, yr hwn sydd yn arlunydd medrus, yn gystal ag yn llenor gwych.

# PENOD VI.

——:o:——

## HOWELL DAVIES.

*Ei hanes dechreuol yn anhysbys—O dan addysg Griffith Jones*—Yn guwrad Llysyfran—Ei benodiad i fod yn guwrad Llanddowror—Eglwys Prendergast, a chysylltiad Howell Davies a hi—Yn dyfod yn un o arweinwyr y Methodistiaid—Penfro yn brif faes ei lafur—Ei briodas—Ei lafur mawr gyda'r diwygiad—Adeiladu y Tabernacl yn Hwlffordd—Capel Woodstock, gweinyddu y sacramentau yno—Adeiladu capel newydd—Ei nodweddion—Ei farwolaeth a'i gladdedigaeth.*


O'R "Tadau Methodistaidd," y Parchedig Howell Davies, Apostol Penfro, yw yr un y gwyddis lleiaf o'i hanes. Nid ydym yn gwybod brodor o ba le ydoedd; beth oedd enwau, galwedigaeth, a sefyllfa gymdeithasol ei rieni; na dim o hanes ei faboed yntau. Braidd nad yw fel Melchisedec gynt, "heb dad, heb fam, heb achau;" yr ydym yn ei gyfarfod am y tro cyntaf yn ysgol athrawol y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, mor sydyn a phe y disgynasai yno o'r cwmwl. Yn mhenawd y farwnad a gyfansoddwyd iddo gan Williams, Pantycelyn, hysbysir ni iddo farw yn y flwyddyn 1770, yn 53 mlwydd oed. Yn ol y cyfrif hwn cafodd ei eni yn 1717; ac yr oedd yr un oed a Williams, dair blwydd yn iau na Howell Harris, a phedair blwydd yn iau na Daniel Rowland. Ymddengys mai o Sir Fynwy yr hanai. Ein hawdurdod ar hyn yw ysgrif sydd yn bresenol ar gael o eiddo Lawrence Torstanson Nyberg, gweinidog cyntaf yr eglwys Forafaidd yn Hwlffordd. Gweinidogaethai efe yn Hwlffordd o Mehefin 24, 1763, hyd Awst 23, 1768; yn ystod yr amser hwn rhaid ei fod yn dra chydnabyddus a Mr. Davies, yr hwn oedd y gweinidog mwyaf ei barch a'r uchaf ei safle gymdeithasol a feddai y dref; ac felly yr oedd mewn mantais i wybod. Dywed traddodiad y disgynai Howell Davies o deulu parchus, a'i fod yntau er yn ieuanc wedi dadblygu cynheddfau meddyliol cryfion, ac yn dra awyddus am ddysg. Yn ysgol athrawol Griffith Jones gwnaeth gynydd cyflym; daeth yn ysgolhaig gwych mewn Lladin ac mewn Groeg; a thueddai ei feddwl yn gryf at y weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig. Eiddil o iechyd ydoedd er yn blentyn; cryfhaodd i raddau gwedi tyfu i oedran, ond ni feddianodd o gwbl gyfansoddiad cadarn ei gydlafurwyr, sef Daniel Rowland, Howell Harris, a William Williams. Dywedir yn mhellach ei fod yn naturiol o duedd ddifrifol, ac iddo gael ei ddwyn dan awdurdod y gwirionedd trwy weinidogaeth Griffith Jones, ei athraw. Felly, nid yw yn debyg iddo deimlo yr ing a'r loes a brofwyd gan Rowland a Harris; ni fu yn crynu wrth droed Sinai yn gwrando ar y taranau; ni chafodd ei ysgwyd uwchben y trueni bythol; yn hytrach ei brofiad ydoedd—

> "Fe'm denodd i yn ddirgel iawn,
> A dystaw ar ei ôl."

Beth bynag am ddull ei argyhoeddiad, cafodd Howell Davies grefydd ddiamheuol. Gwedi hyn yr oedd yn fwy tueddol ei feddwl at weinidogaeth yr efengyl, a diau ei fod yn cael pob cefnogaeth gan ei athraw. Efe oedd hoff ddisgybl Griffith Jones, a'r diwrnod yr oedd Howell yn cael ei ordeinio, gofynai yr offeiriad hybarch i'r gynulleidfa yn Llanddowror offrymu ei weddi i'r nefoedd ar ei ran. Yn sicr, gwrandawyd y weddi hon yn helaeth. I guradiaeth Llys Bran, neu fel y gelwir y lle ar lafar gwlad, Llysyfran, y cafodd ei benodi. Yn rhyfedd iawn, nid oes unrhyw gofnodiad o'i urddiad fel diacon ar gael yn llyfrau

---

*Yr ydym yn ddyledus am lawer iawn o gynwys yr ysgrif hon i'r Parch. E. Meyler, Hwlffordd, yr hwn ni arbedodd boen na thrafferth i geisio dod o hyd i ffeithiau; a'r hwn yn ogystal sydd yn edmygydd mawr o Howell Davies.




HOWELL DAVIES.

*A gyhoeddwyd gan* Carrington Bowles, *69, St. Paul's Churchyard, Llundain, Mawrth 30ain, 1773.*

Esgobaeth Tyddewi. Bu y Parch. E. Meyler yn chwilio yn fanwl, a chafodd fod cofrestriad yr ordeiniad wedi cael ei esgeuluso yn hollol. Dengys hyn mor ddiofal ac afler y cedwid cofnodau eglwysig yr adeg hono, ac nas gellir tynu unrhyw gasgliad diamheuol oddiwrth eu dystawrwydd parthed unrhyw amgylchiad. Nid oes unrhyw gyfeiriad ato ychwaith ar lyfr cofrestriad Llysyfran; cafodd Mr. Meyler fod dalen o'r llyfr a berthyn i'r adeg hon wedi ei rhwygo allan. Nid anhebyg mai un o'r clerigwyr dilynol a wnaeth hyny, fel na chaffai dim perthynol i'r Methodist enwog aros ar gof a chadw mewn llyfr mor gysegredig. Ond iddo fod yn guwrad Llysyfran sydd sicr; profir y ffaith gan dystiolaeth lliaws a'i clybu yno yn efengylu, ac a dderbyniasant les ysprydol trwyddo. Rywbryd tua dechreu y flwyddyn 1740 y cychwynodd ar ei waith gweinidogaethol, a dechreuodd yn ddioedi daranu yn ofnadwy yn erbyn annuwioldeb y wlad, nes yr oedd gweithredwyr anwiredd yn arswydo yn ei bresenoldeb. Daeth y llanerch dawel, a orwedda fel yn mreichiau cwsg yn nghanolbarth Penfro, ar unwaith yn gyrchfa cynulleidfaoedd aruthrol; aeth yr eglwys yn rhy fechan i ddal y gwrandawyr; ymdywalltai y gwlaw nefol i lawr yn gawodydd bendigedig, fel yn Llangeitho; a chafodd llawer eu troi at yr Arglwydd.

Gan mai yn 1740 y cychwynodd, nid cywir y sylw yn *Methodistiaeth Cymru*, ei fod yn mysg y rhai blaenaf yn y diwygiad Methodistaidd yn Nghymru, o ran amser yn gystal ag o ran enwogrwydd. Yr oedd Daniel Rowland a Howell Harris ar y maes agos i bum' mlynedd o'i flaen. Gwir nad yw pum mlynedd yn amser mawr; ond ar adeg o gyffro fel oedd yn berwi Cymru y pryd hwnw, pan y bydd digwyddiadau yn canlyn eu gilydd yn gyflym, ac effeithiau dwfn ac arosol yn cael eu cynyrchu mewn cyfnod byr, y mae pum' mlynedd yn gryn amser. Yr oedd Rowland a Harris wedi teithio rhanau helaeth o'r Deheudir, a rhyw gymaint o'r Gogledd, cyn iddo ef ddyfod a'i gryman i'r maes. Ond yr oedd agos ysgwydd yn ysgwydd a'r ddau Ddiwygiwr mewn enwogrwydd, a gallu gweinidogaethol. Ac y mae yn sicr iddo ddechreu ar ei lafur yn annibynol



EGLWYS LLYS-BRAN (NEU LLYSYFRAN), SIR BENFRO.
[*Fel yr ymddangosai yn amser Howell Davies.*]



EGLWYS ST. DANIEL'S, GER PENFRO.


arnynt; nid dyfod allan yn gynorthwywr i'r un o'r ddau a wnaeth; yr oedd yn gychwynydd, a hollol briodol ei gyfenwi yn dad Methodistiaeth Sir Benfro. Anwiredd i'w gospi gan farnwyr fyddai ceisio ei osod ar safle is. Pan y cyfarfyddodd a Howell Harris yn Hwlffordd, gwanwyn 1740, y mae yn dra thebyg ei fod wedi ei ordeinio, ac wedi dechreu tynu tyrfaoedd i Lysyfran; a chyfeiria Harris ato yn ei ddydd-lyfr gyda pharch.

Nid hir y bu Howell Davies yn gweinidogaethu yn Llysyfran; tuag wyth mis o bellaf a fu tymor ei arosiad; aeth ei weinidogaeth danllyd, effro, yn annyoddefol i rai o'r plwyfolion cysglyd, a llwyddwyd i'w yru ymaith. Cawn ef yn cael ei ordeinio yn offeiriad gan Dr. Nicholas Claget, Esgob Tyddewi, Awst 3, 1740, a'i drwyddedu i guwradiaeth Llanddowror, a Llandeilo-Abercowin, dan yr Hybarch Griffith Jones. Ond ni chyfnewidiodd o ran natur ei weinidogaeth; ni phallodd a rhybuddio yr annuwiol; ac ni pheidiodd y bendithion dwyfol a disgyn i lawr trwyddo. O hyn allan ystyrir ef yn perthyn i'r Methodistiaid, ac yn arweinydd yn eu mysg. Diau mai un o amcanion Howell Harris wrth ymweled a Sir Benfro, Rhagfyr, 1742, rhyw bythefnos o flaen y Gymdeithasfa yn Watford, oedd ymgynghori a'i gyfaill yn yr efengyl gyda golwg ar y trefniadau y bwriedid eu gwneyd. A chawn fod y ddau yn cydweled yn hollol. Er mai yn Sir Gaerfyrddin yr oedd cysylltiadau eglwysig Howell Davies, eto Penfro oedd prif faes ei lafur. Teithiodd y sir o gwr i gwr; pregethai yn y tai ffermydd ac ar y maes cyn adeiladu capelau, am y gwarafunid yr eglwys iddo mewn aml i fan, a sefydlodd luaws o seiadau bychain. Er i ymweliadau Harris a Rowland beri cyffro dirfawr, a chynyrchu daioni anarferol, eto, trwy lafur Howell Davies yr efengyleiddiwyd y sir, ac y darostyngwyd hi i grefydd. Ymddengys fod ei ddoniau yn nodedig o felus. Cyfeiria Harris ato yn ei lythyrau yn barhaus fel yn rhagori mewn nerth a swyn. Dywed, mewn llythyr at Whitefield, wedi ei ysgrifenu o Milford, tua diwedd y flwyddyn 1743:* "Y ddau Sul diweddaf gwrandewais efallai y ddau udgorn mwyaf croch a fedd y genedl; sef y brawd Rowland, a'r brawd Davies. Yr oedd y goleuni, y gallu, a'r ddoethineb ddwyfol i glwyfo a meddyginiaethu, ac i ddatguddio yr Arglwydd Iesu Grist, y fath, fel na fedr geiriau gyflwyno unrhyw syniad cywir gyda golwg arno." Mewn

* Weekly History.

llythyr at ei frawd yn Llundain o Fishgate, yn Mhenfro, dywed:* "Rhyfeddol yw yr hanes wyf yn glywed am y gallu sydd yn cydfyned â gweinidogaeth y brawd Howell Davies; yn fwyaf neillduol yn mysg y Saeson (y mae haner y wlad hon yn Saesnig). Y mae nerth anarferol hefyd yn y cymdeithasau yma, fel yn aml pan fyddont yn myned i geisio bendith ar eu pryd bwyd, disgyna yspryd gweddi ar amryw o honynt yn olynol, fel y cedwir hwy wrth orsedd gras am agos i dair awr. Y mae llawer yn cael eu swyno gymaint gan ddifynu lliaws o ymadroddion cyffelyb, a frithant lythyrau Howell Harris, yn dangos mor aruchel oedd gweinidogaeth Apostol Penfro, a'r modd y bendithiai Duw ei weinidogaeth.

Nid oedd yn bresenol yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford. Efallai mai y rheswm oedd, ddarfod iddo fynegu ei holl feddwl ar y gwahanol bethau i Harris, fel nad ystyriai fod eisiau iddo yn ganlynol gymeryd taith mor bell. Ond yr oedd hefyd yn wanllyd o ran corff, a chyfrifa hyny am ei absenoldeb o amryw o'r Cymdeithasfaoedd, ac am



CAPEL WOODSTOCK, SIR BENFRO.

gariad Crist wrth ganu, nes y maent yn llewygu."† Yn mis Mawrth, 1743, ysgrifena at eglwys y Tabernacl, yn Llundain: "Bum y Sul diweddaf mewn un arall o eglwysydd y brawd Davies yn y sir hon, a gwnaed ef yn ddiwrnod o ogoniant mwy na'r Sul blaenorol. Credaf fod y gynulleidfa o ddeg i ddeuddeg mil. Nis gall iaith fynegu fel y mae yn bendithio y brawd Rowland yn Sir Aberteifi, a'r brawd Howell Davies yn y sir hon." Gallem fod ei lafur yn gyfyngedig i gylch cymharol fychan. Yn y trefniadau a wnaed gyda golwg ar y gwahanol siroedd yn y Gymdeithasfa, rhoddwyd Penfro oll dan ofal Howell Davies, ac efe, os yn bresenol, oedd i fod yn gadeirydd y Gymdeithasfa Fisol. Ar yr un pryd, yr ydym yn ei gael mewn amryw o'r Cymdeithasfaoedd a'r Cyfarfodydd Misol cyntaf. Yr oedd yn Nghymdeithasfa Fisol Gelliglyd, Mai 1, 1743; yn Nghymdeithasfa Fisol Longhouse, Mehefin 8, 1743; ac yn Nghymdeithasfa Trefecca, Mehefin 29, 30, 1743.

* *Weekly History.* † *Ibid.*

Bu mewn Cymdeithasfa Chwarterol yn yr un lle hefyd yn 1744. Cawn ef yn llywyddu yn Nghymdeithasfa Fisol Llangwg, neu yn hytrach Llangwm, yn Sir Benfro, pan yr oedd John Sparks, George Gambold, a William Gambold, yn ymgeiswyr am y swydd o gynghorwyr. Yr oedd y ddau Gambold yn frodorion o Gasmal, er ar y pryd yn trigianu yn Hwlffordd, ac yn berthynasau agos i John Gambold, yr esgob Morafaidd, ac un o Fethodistiaid Rhydychain. Yn nghofnodau y Gymdeithasfa Fisol uchod ceir a ganlyn: "Ein bod yn cymeradwyo ac yn derbyn George Gambold fel cynghorwr, a'i fod i fyned oddiamgylch gymaint ag a all, gyda chymeryd gofal am ei nain." Ceir yma hefyd enw yr enwog William Edwards, Rhydygele, a gosodir ef dan ofal Mr. Howell Davies, y cymedrolwr, i gael ei dderbyn i gymundeb, ac i fyned dan arholiad, cyn y caffai ei ystyried yn gynghorwr. Rhoddir caniatad hefyd i John Sparks arfer ei ddawn dan arolygiaeth Howell Davies. Efe a lywyddai yn Nghymdeithasfa Fisol Hwlffordd, Ionawr 28, 1745, er fod Howell Harris yn bresenol fel arolygydd cyffredinol. Daethai amryw gynghorwyr anghyoedd yno, a thri o rai cyhoedd, sef John Harris, am yr hwn y cawn son eto, William Richard, a Thomas Meyler. Gwelir, felly, fod Howell Davies yn gwneyd gwaith pwysig ynglyn a threfniadau y diwygiad yn Sir Benfro.

Tref Hwlffordd oedd canolbwynt ei lafur, ac eglwys Prendergast, neu fel ei gelwir gan y trigolion, Prengast, oedd un o'r lleoedd yn mha rai y gweinidogaethai. Anhawdd deall natur ei gysylltiad a'r eglwys hon. Gelwir ef weithiau yn "Rheithor Prengast;" ond nid yw yn ymddangos iddo fod yma, nac fel rheithor na chuwrad. * Y mae llyfr cofrestriad yr eglwys ar gael yn awr yn gyfan, ac yn cyrhaedd mor bell yn ol a dyddiau Oliver Cromwell, ond ni cheir ynddo ddim i ddangos ddarfod i Howell Davies fod mewn cysylltiad a'r lle o gwbl. Ond y mae yn sicr iddo fod yma yn gweinidogaethu, ac yn gweinyddu y cymun am flynyddoedd, a hyny gyda chysondeb, cyn fod gan y Methodistiaid un capel yn y rhan hon o'r wlad. Tref Hwlffordd yw canolbwynt Penfro; yma y cyrchai y bobl i'r marchnadoedd ac i'r ffeiriau o'r ardaloedd amaethyddol; yr oedd pobl Llysyfran yn neillduol a'u ffordd trwy Prengast; felly daeth yr eglwys, trwy swyn a nerth gweinidogaeth yr hwn a efengylai yno, yn gyrchfa pobloedd. Ymgynullai tyrfaoedd aruthrol i wrando. Prengast oedd y nesaf at Langeitho parthed lliosogrwydd cynulleidfaoedd, ac nid annhebyg oedd y dylanwadau nerthol a ddisgynent yn y ddau le. Pregethai hefyd, a gweinyddai y sacrament, yn St. Daniel, yn Nghastell Martin, ac yn Mounton, ger Narberth, lleoedd a berthynant i'r rhan Saesnig o'r sir. Rhwng y tri lle rhifai ei gymunwyr dros ddwy fil; llenwid yr eglwysydd drosodd a throsodd gan ddynion awchus am gofio angau'r groes.

Tua'r flwyddyn 1744 yr ydym yn ei gael yn myned i'r ystâd briodasol. Nid heb bryder y darfu iddo newid ei sefyllfa; bu yn gofyn cyngor ar y mater i Howell Harris, ac y mae ei lythyr ef mewn atebiad wedi ei argraffu. Yr oedd Harris mewn ystâd meddwl addas i gydymdeimlo ag ef, gan ei fod yntau ei hun ar fedr priodi. Y mae y llythyr yn un tra difrifol; dywed fod enw Mr. Davies mor gyhoeddus, a'r achos o gymaint pwys, fel yr oedd perygl iddo gamgymeryd serchiadau yn lle datguddiad oddiwrth Dduw. Nid oes ganddo ddim yn erbyn y ferch ieuanc; geilw hi "yr anwyl chwaer C——," yr hyn a brawf yr adwaenai hi fel dynes ieuanc dduwiol, a diwedda trwy geisio ganddi ddyfod i Gapel Ifan i'w gyfarfod, fel y caffai wybod ystâd ei meddwl yn fanylach. Trodd yr ymddiddan allan yn ffafriol, a phriododd Howell Davies. Haedda ei gymhares ychydig o sylw. Ei henw morwynol oedd Catherine Poyer, ac yr oedd yn ferch i John Poyer, Ysw., yr hwn oedd o hanad Normanaidd, ac yn perthyn i un o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd yn Sir Benfro. Un o'r teulu hwn, John Poyer wrth ei enw, a lywodraethai gastell Penfro yn amser Oliver Cromwell, ac ymddengys iddo amddiffyn y lle yn erbyn lluoedd Oliver gyda dewrder a medr arbenig. Dygasid Catherine Poyer i fynu mewn palasdy tlws, a pha un y mae stâd yn gysylltiedig, o'r enw Parke, ar aelwyd ei thaid a'i nain o du ei mam, sef Griffith a Catherine Twyning. Yma y daeth tan argraffiadau crefyddol, a hyny, yn ol pob tebyg, wrth wrando ar Howell Davies. Ond yr oedd crefydd, o ryw fath, beth bynag, yn nheulu Twyning. Yr oedd offeiriad o'r enw Griffith Twyning yn ficer

* Ysgrif y Parch. E. Meyler.

Walton, y plwyf agosaf at Llysyfran, yn y flwyddyn 1747, ac y mae sail i gasglu mai efe oedd olynydd Howell Davies yn nghuwradiaeth Llysyfran. Cawn ferch i'r ficer hwn, o'r enw Mrs. Scourfield, yr hon a breswyliai yn Pwllhook, yn perthyn i'r Methodistiaid yn amser y Parch. David Jones, Llangan. Y mae sail i gredu fod Howell Harris a Daniel Rowland, yn gystal a Howell Davies, yn ymweled a'r Parke yn fynych ar eu teithiau; a'r tebygolrwydd yw fod Catherine wedi cyfranogi yn helaeth o ysbryd y diwygiad. Cyn ei phriodas yr oedd ei thaid a'i nain wedi marw; felly, perchenogai hi yr etifeddiaeth a adawsid ganddynt; ac yn rhinwedd yr undeb hwn daeth Howell Davies ar unwaith yn ŵr o gyfoeth. Eithr ni fu golud yn achlysur iddo laesu dwylaw gyda'r efengyl; llafuriai gyda'r un awyddfryd ac ymroddiad ag o'r blaen, a diameu iddo gael pob cefnogaeth i hyn gan ei briod. Nid hir, pa fodd bynag, y parhaodd pethau yn ddysglaer yn y Parke; daeth angau i mewn i'r palasdy tlws, gan gymeryd ymaith ddymuniad llygaid Mr. Davies. Bu farw ar enedigaeth baban, ei chyntafanedig; a chyn i'r eneth fechan gyrhaedd dwy flwydd oed, cafodd hithau ei rhifo i'r bedd, a gadawyd Howell Davies wrtho ei hun.


Yn mhen amser, priododd drachefn a Miss Luce Phillips, merch Mr. Hugh Phillips, boneddwr cyfoethog o'r un ardal; a chan i'r gweddill o blant Hugh Phillips farw heb hiliogaeth, daeth yr holl eiddo yn feddiant i Mr. Davies. Yr oedd hi yn ddynes nodedig o brydweddol, ac heblaw bod yn enwog am ei doethineb a'i chrefydd, yr oedd yn gantores dda. Meddai Mr. Davies, hefyd, ddawn canu rhagorol, a cheir y dalent yn nheulu y Parke hyd y dydd hwn. Mewn canlyniad i'r briodas hon daeth Howell Davies yn berchen dau gartref, sef y Parke, a thŷ ei wraig yn Prengast; preswyliai yn y ddau fel y byddai cyfleustra yn rhoi. Nid dibrofedigaeth a fu ei yrfa er hyny; bu farw ei unig fab, Howell, yn y flwyddyn 1749, ac efe yn saith mis oed. Ond ganwyd iddo ferch, sef Margaret, yr hon wedi hyny a ddaeth yn wraig i'r Parch. Nathaniel Rowland; ac y mae eu hiliogaeth hwy yn preswylio yn y Parke hyd y dydd heddyw.

Parhau i lafurio a wnaeth Howell Davies, a pharhaodd y nefoedd i fendithio ei waith. Ymledodd y diwygiad trwy Sir Benfro oll, yn arbenig yn y canolbarth, ac yn nhref Hwlffordd. Tua 1748, symudodd i ddarpar lle i'r ddeadell yn Hwlffordd i addoli, a galwyd yr adeilad yn "Ystafell y Tabernacl," gan ganlyn Whitefield, yr hwn oedd wedi galw ei babell ef yn y Moorfields, Llundain, yn "Tabernacl." Yn cynorthwyo Howell Davies gyda hyn yr oedd y cynghorwr John Sparks, at ba un y cyfeirir yn nghofnodau Cymdeithasfa Fisol Llangwm. Cawsai John Sparks ei eni yn y flwyddyn 1726; brodor o Hwlffordd ydoedd; profodd argyhoeddiad dwfn pan yn ieuanc, a chedwid gwasanaeth crefyddol yn nhŷ ei rieni, yn yr hwn y cymerai ef ran. Yr oedd yn bregethwr da, ac yn ddiamheuol dduwiol. Yn yr ymraniad rhwng Rowland a Harris, glynodd John Sparks wrth y diweddaf. Darllenwn am dano droiau yn pregethu yn Nghymdeithasfaoedd plaid Harris, a dywedir ei fod yn llefaru gydag arddeliad anghyffredin. Ond yn 1751, gadawodd y Methodistiaid, ac ymunodd a'r eglwys Forafaidd. Yr oedd achos crefyddol cryf wedi cael ei sefydlu hefyd yn Woodstock, trwy offerynoliaeth Howell Davies; adeiladwyd capel yma yn y flwyddyn 1754, agorwyd ef yn y flwyddyn ganlynol, pan y pregethodd Whitefield, ac y gweinyddodd sacrament swper yr Arglwydd. Tybir mai dyma y tro cyntaf i'r ordinhad gael ei gweinyddu mewn adeilad heb ei gysegru, gan offeiriad Methodistaidd, a phrawf yr amgylchiad fod Howell Davies yn meddu cryn feiddgarwch meddwl, a'i fod wedi ymrhyddau oddiwrth lyffetheiriau yr Eglwys Wladol o flaen ei holl gyd-ddiwygwyr. Ar yr un pryd, yr oedd Howell Harris a Whitefield, mewn undeb a Methodistiaid Lloegr, wedi dyfod i benderfyniad mor foreu a 1743, i weinyddu y cymundeb yn y seiadau pan y gwrthodid y fraint iddynt yn eu heglwysydd plwyfol, a chawsai hyn ei anfon mewn llythyr at Howell Davies. Bu yr ordinhadau, sef bedydd a swper yr Arglwydd, yn cael eu gweinyddu gyda chysondeb yn Woodstock am 56 o flynyddoedd cyn y neillduad yn 1811. Felly, mewn un ystyr, Woodstock yw mam-eglwys y Cyfundeb. Wrth gyfranu, defnyddiai Mr. Davies wasanaeth yr Eglwys; ond yn aml torai ar ei draws, gan lefaru am ddyoddefiadau y Gwaredwr gyda nerth a melusder, a orchfygai y rhai a ddaethent i gyfranogi.

Bu yn offerynol hefyd i godi addoldy yn nghwr gogleddol Sir Benfro, a alwyd Capel Newydd. Sefydlasid cymdeithas grefyddol mor foreu a 1743 yn y Cerig


Gwynion, lle heb fod yn nepell; yn raddol, ymranodd hon er mwyn cyfleustra, un adran yn ymgyfarfod yn Llechryd, a'r adran arall mewn ffermdy yn nhlwyf Clydau, a elwid Hen Barciau. Pregethai Howell Davies yn fynych yn y ddau le. Gan ei fod yn offeiriad urddedig, cai bregethu yn eglwys Llechryd; ond gan liosoced y gynulleidfa, byddai raid iddo fynychaf lefaru yn y fynwent. Am ysbaid methid cael tir i adeiladu addoldy arno yn yr Hen Barciau, er fod y ffermdai wedi myned yn rhy fychain i'r cyfarfodydd; o'r diwedd cafwyd tir gan Stephen Colby, Ysw., cadben yn y llynges, gwraig yr hwn a deimlai yn garedig at y Methodistiaid. Howell Davies a benderfynodd yr ysmotyn. Wrth deithio dros y bryn o Lechryd i'r Hen Barciau, taflodd ei chwip i ganol yr eithin mân, a dywedodd wrth ei gyfeillion: "Dyma y fan i'r capel." Cafodd y capel hwn ei agor yn y flwyddyn 1763; pregethodd Mr. Davies ar yr achlysur oddiar y geiriau: "Gad, llu a'i gorfydd, ac yntau a orfydd o'r diwedd."

Dechreuwyd gweinyddu yr ordinhadau yn Capel Newydd ar unwaith, a bu yn enwog fel yr unig le yn yr ardaloedd hyny ag yr oedd y sacramentau yn cael eu harfer yn mysg y Methodistiaid; cyrchai tyrfaoedd mawrion iddo, ac fel Woodstock, parhaodd i fod yn lle i gymuno hyd nes y neillduwyd gweinidogion. Howell Davies fyddai yn gweinyddu amlaf; yn ei absenoldeb ef cyfrenid gan Daniel Rowland, neu ei fab, Nathaniel Rowland; neu ynte, Davies, Castellnedd; Jones, Llangan; neu Williams, Lledrod. Dywedir ddarfod i Howell Harris, gwedi i archollion yr ymraniad iachau i raddau, bregethu yma amryw weithiau. Yn Capel Newydd y pregethai Daniel Rowland yn y flwyddyn 1773, oddiar Heb iv. 15, pan y cynyrchwyd y fath argraffiadau dyfnion ar feddwl Mr. Charles o'r Bala; argraffiadau na ddilewyd mo honynt byth. Yma hefyd y pregethodd Jones, Llangan, am y tro diweddaf, wrth ddychwelyd o Langeitho.



EGLWYS MOUNTON, GER NARBERTH, SIR BENFRO.

Efallai na chafodd Mr. Davies gymaint o'i erlid a rhai o'r Tadau; yr oedd ei



CAPEL NEWYDD, SIR BENFRO.

sefyllfa fydol barchus, ynghyd a nodded yr Hybarch Griffith Jones, yn gryn gysgod iddo. Ond ni ddiangodd yntau heb i'r ystorm ruthro arno. Mewn llythyr o eiddo Howell Harris ato, dyddiedig Medi 7, 1743, ceir a ganlyn: "Byddai yn dda genyf gael gwybod pa fodd yr ymdarawsoch yn Nghwrt yr Esgob; efallai y gallwn ymddiddan a rhywrai yma (Llundain) er cael cyfarwyddyd pa fodd i weithredu. Ond credaf na wnant ddim. Yn arbenig, os deallant eich bod chwi yn gwybod nad oes gan eu llys ddim gallu, a'ch bod chwithau yn benderfynol o appelio at y gyfraith wladol, a dwyn cwrs eu hymddygiadau duon i oleuni. Hyn, mi a gredaf, yw ein dyledswydd; ond cadw ar yr amddiffynol; ac os cawn ein rhyddid, bydded i ni yn ostyngedig a diolchgar ei ddefnyddio." Nis gwyddom beth a ddaeth o helynt Cwrt yr Esgob, ond sicr yw mai yn ei flaen, heb droi ar y ddehau na'r aswy, yr aeth gweinidog Crist, gan deimlo yr erlid yn fraint, am mai dros ei Waredwr y dyoddefai.

Apostol Penfro yn benaf oedd Howell Davies; yr oedd ei apostoliaeth yn gyfeiriedig yn llawn cymaint at yr adran Saesnig o'r sir a'r adran Gymraeg; a phregethai yn y naill iaith neu y llall fel y byddai galwad. Gwnaed ef yn gwmwl dyfradwy i Benfro; disgynodd y gwlaw graslawn yn drwm ar yr holl wlad trwy ei weinidogaeth; cafodd weled y ddaear yn blaendarddu ac yn dwyn ffrwyth mewn canlyniad, a'r holl fro wedi ei darostwng i raddau mawr i efengyl Crist. Ond er ei fod yn fwy cartrefol na rhai o'i gyddiwygwyr, eto, teithiodd lawer ar hyd Dê a Gogledd Cymru, ac hefyd yn nhrefydd Lloegr. Bu yn Llundain droiau; ymwelai yn ei dro a Bryste, ac a Bath, ynghyd a threfydd eraill, yn mha rai y pregethai y Methodistiaid Saesnig, a dywedir ei fod yn un o hoff bregethwyr Iarlles Huntington. Yr oedd ef yn un o'r rhai a gyfarfu a'r Iarlles yn Mryste, ac a ffurfient osgorddlu iddi pan yr ymwelodd a'r Dywysogaeth yn y flwyddyn 1748. Dywedai yr Hybarch John Evans, o'r Bala, iddo fod amryw weithiau yn y dref hono. "Gŵr tirion a mwynaidd oedd efe, a phregethwr enillgar iawn," meddai Mr. Evans gyda golwg arno. Yr oedd Howell Davies yn bresenol yn y Gymdeithasfa gyntaf a gynhaliwyd yn y Bala. Cawn ef yn ysgrifenu at Howell Harris: "Er y pryd yr ymadawsom o'r Gymanfa, rhoddais dro trwy Sir Forganwg, a bu i rai yn amser hyfryd iawn. Am danaf fy

hun, yr wyf yn hiraethu am fyned yno drachefn yn fuan, canys diau fod Duw gyda hwynt. O berthynas i fy mynediad i'r Gogledd, yr wyf yn meddwl y bydd yn rhy boenus i mi, sydd o hyd yn llesg ac afiach; ond, pa fodd bynag, yr wyf yn penderfynu cynyg hyny, pe y gorfyddai i mi farw ar y ffordd." * Nid ychydig o beth i ddyn gwanllyd fel Howell Davies oedd anturio am daith i'r Gogledd yr adeg hono. Yr oedd y ffyrdd yn ddrwg ac yn fynyddig; y lletyau yn wael ac yn anaml; caredigion yr efengyl gan amlaf yn dlodion eu cyflwr, ac yn ychydig eu rhif; yr addoldai yn wael, ac yn oerion, ac yn mhell oddiwrth eu gilydd; y rhagfarn yn erbyn y Methodistiaid yn greulawn fel y bedd; y werin yn derfysglyd a dideimlad; a'r clerigwyr a'r gwŷr mawr yn llawn llid, ac yn gwylio am gyfleustra i erlid a baeddu y rhai a gyfrifid fel aflonyddwyr y byd. Nid rhyfedd y dychrynai Mr. Davies wrth feddwl am yr anturiaeth; ond penderfynai fyned, hyd yn nod pe y tröai y daith yn angau iddo. Yr ydym yn cael Williams, Pantycelyn, yn y farwnad ardderchog a ganodd iddo, yn cyfeirio at fawredd ei lafur a'i deithiau. Darlunia ddau seraph, o'r enw Cliw a Sirius, yn adrodd hanes ei fywyd i'r angelion :—

"D'wedent i ni fel y teithiedd,
Pan oedd yn ei iechyd gynt,
Mynwy, Dinbych, a Chaernarfon,
Mon, Meirionydd, a Sir Flint;
Fel cyhoeddodd yr efengyl,
Gydag yspryd bywiog, rhydd,
O Lanandras i Dyddewi,
O Gaergybi i Gaerdydd.

D'wedent i ni fel y chwysodd
Fry yn Llundain boblog, lawn,
Wrth bregethu gair y deyrnas,
Weithiau foreu, weithiau nawn;
Bryste, hithau, oer, derfysglyd,
Glywodd swn ei 'fengyl gref;
*Tide* a thonau, llif a storom,
Gurodd ganwaith arno ef."

Y mae yn amlwg ei fod yn cilio yn ol hyd byth ag y medrai oddiwrth gyhoeddusrwydd. Ysgrifena Howell Harris ato Mawrth 7, 1744: "Ni ddylai eich ofn i'ch llythyr gael ei gyhoeddi yn y *Weekly History* beri i chwi beidio defnyddio eich ysgrifell; oblegyd ni wnawn hyny heb eich caniatad. Ni wnaf erchi, fy mrawd; yn unig dywedaf fy marn am amcan y papyr. Nis gwn paham na wnai y brawd Davies roddi ei enw yn mysg y rhai a lafuriant ynglyn ag ef, gan ddweyd yr hyn sydd ganddo i'w fynegu am lwyddiant yr efengyl. Yr wyf yn credu fod yr achos mor agos at ei galon a neb, a'i fod yn gwybod cymaint trwy ei sylwadaeth, a dylanwad ei weinidogaeth a neb. Yr wyf yn gwybod ei fod yn eu caru (sef y credinwyr), ei fod yn barod i gyd-gyfranogi o'u dyoddefaint, gan y gwyr eu bod yn llefaru yr un iaith, yn cael eu harwain gan yr un Yspryd, yn ymladd dan yr un faner, a'u bod yn cael eu cyfrif ynghyd gan y gelynion. Ni ddylai ofn clod ein cadw rhag traethu yr hyn a wyddom, mwy nag y dylai awydd clod beri i ni ei fynegu. Gwyr fy mrawd mai yr Arglwydd sydd yn gwneyd y cwbl, nid nyni." Wedi ei geryddu yn dyner fel hyn am ei yswildod a'i duedd at anghyoeddusrwydd, y mae Mr. Harris yn myned yn mlaen i'w gymhell i'r Gymdeithasfa ddilynol, mewn dull sydd yn dangos y rhoddai bwys mawr ar ei bresenoldeb. "Yr wyf yn gobeithio y daw fy mrawd,' meddai, "i gyfarfod y brodyr yn y Fenni, dydd Mercher, yr 28ain. Gellir llanw yr amser wrth fyned a dychwelyd mewn pregethu yn Siroedd Brycheiniog a Mynwy. Yr wyf yn fwy taer, am yr ymddengys nad yw y rheidrwydd o hyn yn pwyso ar galon ein brawd i'r graddau ag y dylai. Bydded i ni gymdeithasu mwy, fel y byddo i'n gelynion deimlo ein bod o ddifrif, ac felly nas gallant ddinystrio un, heb ddistrywio yr oll. Bydd y cwn bob amser yn gyru y defaid yn glosach at eu gilydd."

Ymddengys mai Mr. Howell Davies a fu yn offeryn dychweliad Mr. Bateman, ficer St. Bartholomew Fwyaf, yn Llundain, yr hwn, gwedi hyny, a ystyrid fel un o'r rhai mwyaf efengylaidd yn y brifddinas. Ymddengys fod gan Mr. Bateman fywioliaeth fechan yn Sir Benfro. Un tro, pan ar ymweliad achlysurol a'i blwyf, daeth i'w ran i bregethu yn un o'r eglwysydd yn mha rai y gweinyddai Howell Davies. Yr oedd Mr. Bateman y pryd hwnw heb ei argyhoeddi; ac yr oedd ei bregeth yn llawn o gyhuddiadau enllibaidd yn erbyn y Methodistiaid; rhybuddiai ei wrandawyr, er mwyn eu heneidiau, i'w gochel. Gwedi y bregeth, syrthiodd arno ryw brudd-der yspryd, nas gallai roddi cyfrif am dano; ni fedrai na chysgu na bwyta; ac nis gallai fwynhau y gyfeillach anghrefyddol, yn yr hon yr ymhyfrydai yn flaenorol. Aeth i wrando Howell Davies, a hyny i'r un eglwys ag y buasai

* *Methodistiaeth Cymru.*

yn ei wawdio ef a'i ganlynwyr; teimlodd y Gair fel "picell yn trywanu ei afu;" ei bechodau bellach a'i llethent; aethant dros ei ben, yr oeddynt yn faich rhy drwm iddo eu dwyn. Bu am fis o amser cyn cael heddwch i'w enaid. Eithr gwedi hyny bu yn fendithiol i lawer yn Nghymru ac yn Llundain.

Y mae yn ddiau fod Howell Davies yn bregethwr nerthol dros ben. Nid oedd, yn nghyfrif yr hen bobl, yn ail i neb ond i Rowland ei hun. Pa le bynag y pregethai, ai mewn tŷ anedd, neu ysgubor, ynte mewn addoldy eang yn Mhryste neu Lundain, enillai sylw ei wrandawyr ar unwaith. Darllenai neu adroddai benill neu emyn; yna arweiniai y canu ei hun gyda y llais clir, llawn peroriaeth, a feddai; a chydunai y gynulleidfa mewn mawl i Arglwydd yr holl ddaear. Yn y weddi arweiniol byddai yn nodedig o afaelgar; medrai ymddyrchafu hyd at y Presenoldeb Dwyfol, a thynu y nefoedd i'r lle; yn ei daerni gerbron yr orsedd ail-adroddai yr un dymuniad drosodd a throsodd, fel pe yn methu gollwng ei afael arno. Yr oedd y gynulleidfa wedi ei nawseiddio yn hyfryd ganddo, erbyn ei fod yn myned i bregethu; ac yr oedd rhyw nefoleidd-dra yn ei ymddangosiad yn tueddu i'w ffafr, ac fel yn cynyrchu cariad ac ofn ar yr un pryd. Darllenai ei destun yn hyglyw, a chyda melodedd sain o'r fath fwyaf dymunol. Am ychydig llefara yn araf, gan esbonio yr adnod a'u chysyllt-iadau. Ond yn fuan, dyna ei yspryd yn gwresogi o'i fewn; y mae yn dyrchafu ei lais fel udgorn arian, nes y mae cyrau pellaf y dorf yn gwladeiddio ger ei fron. Anela saethau llymion at ei wrandawyr, ac y mae pob brawddeg yn clwyfo. Erbyn hyn y mae yno le difrifol mewn gwir-ionedd. Clywir canoedd yn ocheneidio ac yn gruddfan; aeth y graig gallestr yn llyn dwfr; gwelir y dagrau yn llifo yn hidl ac yn gyffredinol; nid oes yr un rudd sych yn y gynulleidfa. Ond yn fuan newidia y pregethwr ei gywair; rhydd heibio daranu, a chyfeiria y gwrandawyr yn eu dagrau megys a'i fys at y Gwaredwr a ddichon achub hyd yr eithaf. Diflana yr ocheneidiau, a pheidia y grudd-fan; yn eu lle clywir bloeddiadau "Gogoniant!" a "Diolch iddo!" Erbyn hyn y mae yn orfoledd cyffredinol o gwr i gwr i'r dorf. Llifa y dagrau eto, ond dagrau llawenydd ydynt yn bresenol; a gorphena y pregethwr, gan adael y gynulleidfa mewn hwyl sanctaidd.


"Fel hyny y rhodiai y penaf areithydd,
Dros nef yr athrawiaeth, y bwa o waed,
A roed i rychwantu y bythol wybrenydd,
Yr eigion rhwng daear a nefoedd a gaed."

Heblaw ymddangosiad personol urdd-asol, ac areithyddiaeth wych, dywedai un o'i hen wrandawyr fod ganddo ryw symudiad neillduol iddo ei hun ar ei law ddehau, yr hon a ddygai i gyfyrddiad a'i law aswy mewn modd effeithiol dros ben. Yn ei bregethau tynai ddarluniau nodedig o fyw; ac yn arbenig, pan y desgrifiai groeshoeliad y Gwaredwr, yr oedd ei ddarluniad mor rymus ac effeithiol, fel yr oedd pob llygad wedi ei hoelio arno. Dywedir pan y pregethai ar foreu Sabbath yn Llechryd, yr arosai y gynulleidfa ar ol weithiau, yn moli ac yn gorfoleddu hyd y nos. Ai ef ymaith yn y prydnhawn, ond wedi cyrhaedd bryn a elwir Craig Cilfowyr, safai am enyd, ac edrychai yn ol ar y dyrfa orfoleddus gyda syndod a diolch-garwch. Un tro, cyd-bregethai Howell Harris ac yntau yn Llechryd. Pregethai Howell Davies y tu fewn i'r fynwent, a'r Howell arall y tu allan. Yr oedd un o honynt wedi bod dan law yr esgob, a'r llall heb fod; nid oedd caniatad, gan hyny, i Howell Harris ddiurddau i bregethu yr efengyl ar dir cysegredig.

Yn yr ymraniad gofidus rhwng Rowland a Harris, glynodd Howell Davies, yr un fath a Williams, Pantycelyn, a'r rhan fwyaf o'r offeiriaid, wrth Rowland. I'w fawr ddylanwad ef, yn ddiau, y rhaid priodoli ddarfod i'r corwynt hwn chwythu drosodd heb wneyd cymaint o niwed yn Sir Benfro ag a wnaeth mewn rhanau eraill o'r wlad. Gan fod Siroedd Aber-teifi a Phenfro yn ffinio am filldiroedd lawer, yr oedd Rowland a Howell Davies a therfynau eu meusydd llafur yn cyffwrdd a'u gilydd; a diau y byddai y ddau yn dal gafael ar bob cyfleustra a gaent i gyd-ymgynghori ac i gyd-gynllunio. Yr oeddynt yn hollol o'r un syniadau gyda golwg ar athrawiaethau crefydd. Nid yw yn ymddangos ychwaith ddarfod i un-rhyw eiddigedd, nac unrhyw oerfel-garwch, gyfodi rhyngddynt o gwbl. Er fod Howell Davies yn ddyn mwynaidd a thra charedig a rhyddfrydig, eto, medrai wrthwynebu pob ymadawiad oddiwrth y ffydd, a phob afreolaeth mewn buchedd, gyda hyfdra. Cawn Williams yn cyfeirio at hyn yn ei farwnad:—

"Clywsom fel y'gwrthwynebodd
Ef heresiau diried ryw;
Mellt a tharan oedd ei eiriau,
I elynion 'fengyl Duw;
Cywir yn ei egwyddorion,
Syml, gonest yn ei ffydd;
Elusengar yn ei fywyd,
Llwyr ddefnyddiol yn ei ddydd."


Ni ddarfu i'w boblogrwydd fel pregethwr, na'r cyfoeth a ddaeth i'w ran, gynyrchu ynddo y gradd lleiaf o falchder yspryd; yn hytrach parhaodd yn wir ostyngedig trwy yr oll. Hoffai osod ei hun yn gydradd a'r gwaelaf. Cerddai yn fynych i Woodstock, Sul y cymundeb, ffordd arw, bymtheg milldir mewn hyd. Un amcan mewn golwg ganddo oedd gosod ei hun yn hollol ar yr un safle a chorff y werin, y rhai a ddylifent yno o ugain milldir o gwmpas. Ond diau y gwnelai hyny hefyd er cael cymdeithasu ar hyd y ffordd a'r hen bererinion, y rhai yr oedd eu calonau yn llawn gwres, a'u profiadau yn fywiog ac ysprydol. Nid oes amheuaeth fod y wledd nefol yn cael ei phrofi mewn rhan cyn cyrhaedd y capel, a bod y gymdeithas yn barotoad ardderchog i'r odfa, ac i'r sacrament. Geilw Williams ef yn "fugail pedair eglwys fawr." Yr eglwysydd hyn oeddynt Capel Newydd, Woodstock, St. Daniel, yn Nghastell Martin, a Mounton, ger Narberth.



Y TY LLE Y PRESWYLIAI HOWELL DAVIES, YN PRENDERGAST, GER HWLFORDD, SIR BENFRO.

Ond dyddiau Howell Davies a nesasant i farw, a hyny pan oedd yn nghanol ei waith, ac yn nghanol ei ddefnyddioldeb. O ran oedran, nid oedd nemawr dros ganol oed; gallesid disgwyl blynyddoedd lawer o weithgarwch oddiwrtho; ond yr oedd ei lafur dirfawr wedi peri i'r ychydig nerth a feddai ei gyfansoddiad eiddil dreulio allan; a rhifwyd ef i'r bedd,

Ionawr 13, 1770, ac efe yn dair-ar-ddeg-a deugain oed. Bu farw yn ei balas, sef y Parke. Buasai Elizabeth, ei ail wraig, farw ddeng mlynedd o'i flaen. Ac yn ei hymyl hi, a'i unig-anedig fab, Howell, y rhoddwyd ei weddillion yntau i orwedd yn mynwent Prengast hyd ganiad yr udgorn. Diwrnod tywyll a du i Fethodistiaid Sir Benfro oedd y dydd y claddwyd Howell Davies, ac nid oedd neb a deimlai hyny yn fwy byw na hwy ei hunain. Er fod y ei ol, ac mor ddwys y teimlad a lanwai fynwesau pawb, fel y methai yr offeiriaid a weinyddent ddarllen y gwasanaeth claddu. Cyfeiria Williams at hyn yn ei farwnad. Ac yn nghanol cawodydd o ddagrau chwerwon, ac arwyddion o alar na welwyd ond anfynych eu cyffelyb, y gosodwyd Howell Davies i orwedd yn y ddaear. Efe oedd y cyntaf o'r Tadau Methodistaidd a gymerwyd ymaith. Gadawodd yr achos mewn cyflwr llewyrchus yn



EGLWYS PRENDERGAST.

[*Lle Claddedigaeth Howell Davies.*]

pellder o'r Parke i Hwlffordd tuag ugain milltir, yr oedd yr angladd yn un tra lliosog; ac heblaw y rhai a deithient yr holl ffordd, deuai cwmniau neu dorfeydd o'r gwahanol leoedd, yn mha rai y buasai efe yn gweinidogaethu, i'r croesffyrdd i ddangos eu parch iddo; ac wrth fod yr arch yn pasio wylent yn uchel. Erbyn cyrhaedd Hwlffordd yr oedd y dorf yn anferth, cyrhaeddai lawn milldir ar y ffordd fawr. Mor fawr oedd yr hiraeth ar Sir Benfro; rhifai ei gymunwyr ef yn unig yn agos dair mil; ac yr oedd y Methodistiaid yn y sir yn dra lliosog. Nis gallwn wrthsefyll y brofedigaeth o ddifynu rhanau o'i farwnad gan Williams, Pantycelyn :—

"Y mae'r tafod fu'n pregethu
Iachawdwriaeth werthfawr, ddrud,
'Nawr yn dew, yn floesg, yn sychu,
Ac fel yn ymgasglu'n nghyd;
Fflem a lanwodd y pibellau
Oedd yn dwyn y gwynt i'r lan,
Ac mae natur hithau'n methu
Clirio lle i'r anadl gwan.

* * *

Y mae'r olwg ar yr angladd
  Wedi'm dodi'n drist fy ngwedd,
Haner Sir, i'm tyb, sy'n eisiau,
  Pan mae Davies yn ei fedd;
Ni alla' i ddim dyoddef edrych
  Arno'n myned dan y don,
Heb fod hiraeth cryf a chariad
  Yn terfysgu dan fy mron.

Gwelwch gwmni ar ol cwmni,
  Yn ugeiniau ar bob llaw,
Oll yn wylo dagrau heilltion
  Yn ei gwrddyd yma a thraw;
Yr *hearse* yn cerdded yn y canol,
  Dyma'r arwydd penaf erioed,
Ag a welodd gwlad y Penfro
  Fod rhyw ddrygau mawr i ddod.

Pwy sydd yn y *coffin* pygddu,
  Trwm, yn nghanol y fath lu?
Medd trafaelwyr ar y gefnffordd,
  Rheiny'n synu hefyd sy':
Howell Davies, ffyddlon, gywir,
  Bugail pedair eglwys fawr,
Sydd yn myn'd i fonwent Prengast,
  Heno i orwedd yno i lawr.

Daew'r *coffin* rhwng y brodyr,
  Yn ei gario idd ei gell,
Ac mae'i swn yn ngwaelod daear,
  Megys swn taranau pell;
Y mae'r bobl oll yn wylo,
  Ac fe ddaliodd ysbryd gwan
Feibion Leh, fel nas gallent
  Ddim llefaru yn y fan.

* * *

Nid yn ngerddi cryno'r Parke,
  Dan ech'neidio yma a thraw,
Mae'r offeiriad heddyw'n rhodio,
  Ond yn ngardd Paradwys draw;
Nid y *lemon*, nid yr *orange*,
  Pomgranad, na'r *nectarine*,
Ond pur ffrwythau Pren y Bywyd
  Mae'n ei ddodi wrth ei fin.

Nid y gwinwydd sy'n rhoi ffrwythau
  I ddiodi cwmni'r nef,
Ond afonydd gloew'r bywyd
  Heddyw sy'n ei gwpan ef;
Mae yno amrywiolder eang
  O bob ffrwythau, heb ddim trai,
A phob dim sydd yn eu gwleddoedd
  Sydd fyth fythoedd i barhau."

---

## HANES Y DARLUNIAU.

DARLUN Y PARCH. HOWELL DAVIES. Y mae copi gwreiddiol o'i ddarlun ef yn yr Amgueddfa Frutanaidd (*British Museum*), Llundain. Cedwir ef yn y *Print Room*. Hwn yw yr unig ddarlun o'r Tadau Methodistaidd ag y daethom o hyd iddo yn yr ystafell hono. I'w fframio y gwnaed ef, ac nid i'w osod mewn llyfr. Nid yw y copi hwn ond tua haner maintioli yr un gwreiddiol. Y mae o wneuthuriad tra chelfyddgar, ac y mae mewn cadwraeth dda. Fel hyn y mae yr ysgrif dano yn darllen: "*The Rev. Mr. Howell Davies, late Minister of the Gospel in Pembrokeshire, and Chaplain to the Countess of Walsingham. Printed for Carrington Bowles, at his Map and Print Warehouse, No. 69, in St. Paul's Churchyard, London. Published, as the Act directs, March 30, 1773.*" Gwelir felly mai yn mhen tair blynedd wedi marwolaeth Howell Davies y cyhoeddwyd ef. Y mae un o'r copiau gwreiddiol yn nghadw yn Llyfrgell Athrofa Trefecca. Rhodd Cyfarfod Misol Sir Benfro i'r sefydliad ydyw.

EGLWYS LLYSYFRAN. Nid oes gyfnewidiad o gwbl yn yr adeilad hwn er dyddiau y Diwygiwr. Y mae llawer o'r beddfeini ar y fynwent yn adeiladau diweddar.

EGLWYS ST. DANIEL, GER PENFRO. Y mae hon hefyd fel yr ydoedd gynt. Drwy law y Parch. W. Evans, M.A., Pembroke Dock, y cawsom y darlun hwn.

EGLWYS MOUNTON, GER NARBERTH. Adeilad fechan iawn ydyw hon, a phur ddiaddurn. Ni chynelir gwasanaeth grefyddol ynddi yn bresenol, ond yn ystod misoedd yr haf. Gynt, yr oedd y brif-ffordd o Penfro i Lundain yn arwain heibio iddi; ond wedi gwneyd y ffordd bresenol, y mae yr eglwys yn sefyll ar gongl neillduedig, ac nid oes dramwyfa briodol tuag ati. Y mae yn hollol fel yr ydoedd yn amser Howell Davies.


CAPEL WOODSTOCK. Adeiladwyd y capel cyntaf yn y flwyddyn 1754. Adnewyddwyd a helaethwyd ef ddwywaith oddiar hyny. Darlun o'r capel fel y mae yn bresenol sydd yma. Nid oes darlun o'r hen adeilad ar gael. Y mae y capel presenol yn eang a hardd, yn enwedig y tu fewn iddo.

CAPEL NEWYDD. Saif y capel hwn yn mron ar derfyn gogleddol Sir Benfro, heb fod nemawr o filldiroedd o dref Aberteifi. Adeiladwyd ef gyntaf gan Howell Davies yn y flwyddyn 1763, ac ail-adeiladwyd ef yn 1848. Darlun o'r capel presenol ydyw hwn.

TY HOWELL DAVIES YN PRENDERGAST, GER HWLFFORDD. Nid oes gyfnewidiad o bwys yn yr adeilad er dyddiau y Diwygiwr.

EGLWYS PRENDERGAST, GER HWLFFORDD. Mae yr eglwys hon wedi myned dan adgyweiriadau a gwelliantau lawer er dyddiau Howell Davies. Yn mynwent yr eglwys hon y claddwyd ef. Cyfeiriwn y darllenydd at gareg fedd, sydd yn gorphwys ar fur porth yr eglwys, yn y darlun. Gwelir croes fechan ar y mur uwch ei phen. Dyna'r fan y mae efe a'i deulu yn gorwedd. Careg fedd syml a diaddurn—ond careg dda iawn—sydd ar ei fedd. Gosodwyd hi gan Gyfarfod Misol Sir Penfro, mewn coffadwriaeth barchus o hono. Mae yn mhwriad Methodistiaid Sir Benfro i osod Coflech hardd i'w goffadwriaeth yn Nghapel Woodstock yn fuan. Trwy lafur y Parch. E. Meyler, y mae yr arian at ddwyn y treuliadau eisioes wedi eu casglu.

Cymerwyd yr holl o'r darluniau ar gyfer y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn hon a'r un flaenorol; ac yr ydym yn dra dyledus i'r Parch. E. Meyler, Hwlffordd, am ei garedigrwydd yn ein arwain ac yn ein cludo dros ugeiniau o filldiroedd, fel ag i'n galluogi i gymeryd darluniau o'r lleoedd dyddorol hyn.




*A gymerwyd gan* JOHN WILLIAMS, *Llanddarog, Sir Gaerfyrddin, o gylch y flwyddyn 1779.*




*A gyhoeddwyd gan* WILLIAM MACKENZIE, *Glasgow, yn y flwyddyn 1867.*

DARLUNIAU WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN.

# PENOD VII.

—:o:—

## WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN.

*Sylwadau arweiniol—Cofiant Mr. Charles iddo—Sefyllfa barchus ei rieni—Ymchwiliad i hanes ei ieuenctyd—Sefyllfa foesol a chrefyddol yr ardal y magwyd ef—Desgrifiad Ficer Pritchard o honi—Eglwysi Ymneillduol yr ardal—Eu dadleuon a'u hymrysonau—Desgrifiad tebygol o'r eglwysi hyn yn "Theomemphus"—Ei fynediad i Athrofa Llwynllwyd—Ei droedigaeth ar ei ddychweliad adref, dan weinidogaeth Howell Harris—Yn ymuno a'r Eglwys Wladol, ac yn ymadael a hi yn fuan—Ei apwyntiad yn gynorthwywr i Daniel Rowland—Ei lafur fel efengylydd, a'i safle fel pregethwr—Ar gymhelliad ei frodyr yn dechreu cyfansoddi hymnau—Hymnau ei ieuenctyd—Yn cyhoeddi ei "Aleluia"—Yn ymgymeryd a llafur llenyddol o bob math—Rhagoroldeb ei brif gyfansoddiadau barddonol—Ei "Olwg ar Deyrnas Crist" a'i "Theomemphus"—Poblogrwydd anarferol ei gyfansoddiadau—Barn llenorion Cymru am ei safle fel llenor, emynydd, a bardd.*

WILLIAMS, o Bantycelyn, ydyw llenor cyntaf y Cyfundeb Methodistaidd yn Nghymru, ac hwyrach mai efe ydyw ei addurn penaf. Gwnaeth yn ei ddydd fwy er cyfoethogi llenyddiaeth ei wlad a'i genedl, na neb o'i gydoeswyr. Ac mewn un ganghen bwysig o lenyddiaeth, sef barddoniaeth gysegredig ac emynawl, cydnebydd pawb ei fod yn sefyll yn hollol ar ei ben ei hun. Y mae yn anhawdd synied am anrhydedd uwch ar ddyn, na chael bod yn brif gyfrwng mawl y Goruchaf i genedl gyfan. Y mae Williams heddyw yn dal yr anrhydedd hon, ac y mae yn debyg o'i chadw tra y bydd y genedl Gymreig yn addoli yn iaith eu tadau. Yr oedd Williams yn gymeriad hynod, ac yn meddu cymhwysderau arbenig at gyflawni ei waith ei hun. Cymerodd ran fawr yn ngwaith cyffredinol y diwygiad, a llafuriodd mor galed a chyson i ddwyn y cyffröad yn mlaen a'r un. Gwir nad oedd efe yn un o'r ychydig nifer a gododd ar y fore wawr. Daniel Rowland a Howell Harris ddarfu wneyd hyny. Ond cododd yntau gyda chodiad haul, yr oedd yn gweithio yn y winllan yn gynar yn y dydd, a pharhaodd hyd yr hwyr, gan ddal pwys y dydd a'r gwres. Bu fyw i weled y tri chedyrn cyntaf wedi croesi yr Iorddonen. Goroesodd hwy, a gwnaeth hyny mewn mwy nag un ystyr. Yr ydym yn gorfod cyfaddef, yr edrychir gan yr oes bresenol hyd yn nod ar gewri fel Daniel Rowland, Howell Harris, a Howell Davies, yn hytrach fel nerthoedd a fu—*spent forces*. Cydnabyddir, bid sicr, eu bod yn parhau i fyw hyd y dydd hwn, yn y sefydliad crefyddol a adeiladwyd ganddynt, yn eu hanes, ac yn eu hesiampl. Ond y mae Williams yn parhau i fod yn ddylanwad presenol ac arhosol yn ein mysg, ac fel pe wedi dianc heb i law oer angau erioed gyffwrdd ag ef. Y bardd sydd yn byw hwyaf o bawb; y mae efe yn anfarwol.

Hyd y mae ynom gwnawn geisio gosod y cymeriad aml-ochrog hwn ger bron ein darllenwyr. Ceisiwn ei ddangos fel diwygiwr, llenor, a bardd, ond rhaid i ni yn gyntaf gael bràs-olwg ar brif ffeithiau ei fywyd.

Er cymaint a ysgifenodd Williams yn ei ddydd, gadawodd ei gydwladwyr mewn tywyllwch hollol yn nghylch ei helyntion personol ef ei hun. Tybir, ac y mae hyny yn ddigon tebygol, fod amryw gyfeiriadau at amgylchiadau ei fywyd yn ei weithiau llenyddol, yn enwedig yn *Theomemphus* a'r *Marwnadau*, ond nid ydynt yn ddigon eglur a phendant i fod o nemawr gwerth hanesyddol. Ceir ynddynt ychydig gyfeiriadau amlwg, ac y mae y rhai hyny yn bwysig. Hyd y gwyddom, yr unig linellau a ysgrifenodd Williams ar lun hanes am dano ei hun, sydd wedi disgyn i lawr at yr oes hon, ydyw y paragraph byr hwn a osododd efe yn nghanol llythyr maith at y Parch. Thomas Charles o'r Bala, o fewn tair blynedd i'w farwolaeth. Ysgrifenwyd ef yn yr iaith Saesnig, ac y mae yn darllen fel hyn: "*My days are drawing to an end, my course is nearly run; I have had a long life.*

*I am now 73 years old. My strength would yet be pretty good, were it not for the affliction my Heavenly Father has laid upon me. I have been preaching for the last forty-three years, and have travelled on an average between forty and fifty miles every week during that time. I had four or five long journeys last spring through the counties of South Wales. Each was about a fortnight's space, and I travelled each time about two hundred miles. I intended going through North Wales, but these long journeys have, together with my complaint, so weakened me, that I have no hope of mending.*



LLWYNLLWYD, GER Y GELLI, SIR FRYCHEINIOG.

*(Preswylfod y Parch. David Price, Gweinidog Maesyronen, lle y lletyai Williams, tra yn yr Athrofa.)*

Hyn yw hyd a lled "Hunan-gofiant Williams," ac y mae yn nodweddiadol iawn. Gwelir ei fod yn cyfeirio yn unig at ei lafur fel efengylydd, heb wneyd yr awgrym lleiaf at ei orchestion llenyddol.

Ac nid hyn yn unig. Ychydig iawn a ysgrifenwyd yn ei gylch gan y rhai oedd yn cydoesi ag ef. Dichon fod y sefyllfa ail-raddol a lanwai yn cyfrif i fesur am hyn. Cynorthwywr Daniel Rowland ydoedd. I hyn yma yr apwyntiwyd ef yn Sasiwn Watford, a sicr yw na chafodd neb erioed well cynorthwywr nag a gafodd Daniel Rowland ynddo ef. Dywediad awgrymiadol iawn oedd hwnw o eiddo y Parch. D. Griffith, Nevern, onide? "Gallai Rowland lywodraethu yr holl fyd, ond iddo gael Williams o Bantycelyn wrth ei benelin." Diau mai Rowland a Harris oedd arwyr yr oes hono, am danynt hwy y byddai pawb yn siarad ac yn ysgrifenu, ac yr oedd Williams o Bantycelyn, fel pawb arall, yn cael ei gysgodi ganddynt, yn enwedig yn nghychwyniad y diwygiad.

Yn mhen dwy-flynedd-ar-hugain wedi ei farwolaeth y gwnaed yr ymgais cyntaf i ysgrifenu hanes ei fywyd, ac nid neb llai na'r Parch. T. Charles o'r Bala a ymgymerodd a'r gorchwyl. Meddai Mr. Charles bob cymhwysder at y gwaith, o herwydd yr oedd yn bersonol gydnabyddus ag ef, yn hysbys o'i lafur dirfawr fel efengylydd, ac yn edmygwr mawr o'i weithiau llenyddol. Ymddangosodd y cofiant hwn nid mewn cyfrol ar ei phen

ei hun, ond yn y cylchgrawn a olygid ganddo ar y pryd, sef yr Hen Drysorfa. Cyhoeddwyd ef yn Ionawr, 1813. Nid oes neb, hyd y gwyddom, yn nodi y ffaith mai ar gymhelliad y Parch. John Williams, mab y bardd, yr hwn oedd yn byw ar y pryd yn Mhantycelyn, yr ysgrifenwyd y cofiant hwn. Ond dyna'r gwirionedd. * Mewn llythyr o eiddo y Parch. John Williams, at ei frawd, y Parch. William Williams, cuwrad Truro, Cornwall, gwna gyfeiriad at farwolaeth Mr. Charles o'r Bala, gan ddweyd: "Mawr y golled a gafodd Cymru oll, yn enwedig corff y Methodistiaid. Yr oedd efe yn hynod o ddefnyddiol mewn llawer ffordd. Cyhoeddodd lawer o lyfrau rhagorol. Efe a gyhoeddodd, ar fy nymuniad i, hanes bywyd ein tâd; myfi a roddais yr ysgerbwd iddo, ac yntau a'i gwisgodd a chroen; myfi a ddanfonais y defnyddiau, ac yntau a gododd yr adeilad." Y mae hyn yn dangos fod Mr. Charles mewn pob mantais i gyflawni yr hyn yr ymgymerodd ag ef.

Ysgrif fer ydyw cofiant y Drysorfa, dim ond tua dwsin o dudalenau. Eto, cynwysa mewn ffordd fer a chryno, yr oll a dybiai gŵr defosiynol fel efe, yn weddus i'w groniclo yn nghylch Williams. Gadawodd allan o'i ysgrif yr holl ystrâeon difyr am dano. O leiaf, gadawodd allan yr oll ond un, a chafodd hono le, nid am ei doniolrwydd, debygid, ond am ei bod yn dangos tynerwch cydwybod y bardd. Diau fod Mr. Charles yn gwybod degau o honynt; ond gan nad oeddynt yn fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, ac i hyfforddi mewn cyfiawnder, gosododd hwy o'r neilldu, gan ymgadw at yr hyn sydd sylweddol a gweddus. Y mae haneswyr diweddarach wedi bod ar eu heithaf yn casglu y difyr-hanesion hyn at eu gilydd, a chan fod ystori dda yn byw yn hir, yr ydys wedi dyfod o hyd i lawer o honynt, pa rhai erbyn hyn a ystyrir yn rhanau hanfodol o hanes Williams. Y maent yn flasus fwyd, y fath a gâr yr oes nwyfus yr ydym ni yn byw ynddi.

Ganwyd Williams yn y flwyddyn 1717, mewn amaethdy, o'r enw Cefncoed, yn mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, yn agos i dref Llanymddyfri. Yn yr amaethdy hwn y bu yn preswylio hyd iddo briodi. Enw ei dad oedd John Williams, amaethwr gonest a chyfrifol, a diacon yn eglwys Annibynol Cefnarthen, oedd gerllaw. Efe oedd perchenog yr amaethdy y trigai ynddo. Dorothy Lewis ydoedd enw morwynig mam Williams, a'i thad hithau oedd perchenog amaethdy Pantycelyn. Y mae y ddau dŷ o fewn milldir i'w gilydd; ac fe ddaeth Williams i feddiant o'r cyntaf trwy ei dad, ac i'r olaf drwy ei fam. Yr oedd ei serch at ei fam yn ddiarebol. Dywedir iddo ysgrifenu ar ffenestr anedd-dy, lle yr arhosai ar un o'i deithiau, benill o glod i eneth fechan yno oedd yr un enw a hi:—

"Dorothea yw dy enw,
 Ystyr hyn yw 'Rhodd dy Dduw,'
Ac yn ol yr enw hyfryd
 Yn y bywyd b'o it' fyw;
Rhodd yw'th ddysg, a rhodd yw'th ddoniau,
 A rhodd yw'th fod yn ferch fach lân;
Rhodd y rhoddion ydyw hyny
 I'th gadw di rhag uffern dân."

Yr oedd gwahaniaeth oedran anarferol rhwng tad a mam Williams, gymaint a 33 o flynyddau. Adroddir y chwedl ganlynol am ddechreuad eu carwriaeth.† "Dywedir fod John Williams yn cyfeillachu a dynes oedd yn byw yn mhell o'i gartref, i ymweled a pha un y byddai yn rhaid iddo fyned heibio i Bantycelyn. Pan ar ei daith i dalu un o'r ymweliadau hapus hyny, ac yn myned drwy gyntedd Pantycelyn, cyfarfu yno a merch y tŷ, sef Dorothy Lewis. Meddyliodd y ferch ieuanc fod hwn yn gyfle rhagorol iddi gael tipyn o ddifyrwch ar draul yr 'hen fab.' 'Yr ydych yn myned yn mhell iawn i ymofyn gwraig, F'ewythr Sion,' ebe hi; 'y mae yn ymddangos i mi y gallech gael un yn nês gartref.' 'Fe allai mai fel hyny y bydd hi yn y diwedd,' oedd yr ateb; ac yn sicr ddigon, fel hyny y trodd pethau allan." Dywedir yn aml ddarfod i John Williams farw pan yr oedd y mab yn bur ieuanc, ac o ganlyniad ddarfod i'r gofal o'i ddygiad i fynu ddisgyn ar y fam. Y mae hwn yn gamgymeriad dybryd; ac y mae yn anhawdd cyfrif sut y darfu i neb syrthio iddo. Ar y 1af o Ebrill, 1742, y bu John Williams farw, ac yr oedd Williams y pryd hwnw yn 25 mlwydd oed. Bu y tad fyw bedair blynedd wedi argyhoeddiad ei fab athrylithgar dan weinidogaeth Howell Harris, yr oedd yn fyw am y ddwy flynedd y bu yn parotoi ar gyfer yr Eglwys Wladol; ac am ddwy

* *Cofiant y Parch. J. Williams, Pantycelyn*, gan y Parch. Maurice Davies, Llanfair-yn-Muallt, tudal. 24.

† Y Parch. W. Williams, Abertawe, yn *Nhrysorfa* 1865, tudal. 123.

flynedd arall o'r amser y bu efe yn guwrad ar eglwysydd Llanwrtyd ac Abergwesyn. Os mai ymgais yw hyn i egluro sut yr aeth mab i ddiacon blaenllaw gyda'r Annibynwyr yn offeiriad, y mae yn gwbl annigonol, ac yn groes i'r gwirionedd. Gwir fod y tad mewn gwth o oedran, o herwydd yr oedd yn 86 mlwydd oed pan y bu farw. Yr oedd hefyd wedi colli ei olygon, canys yr oedd yn ddall hollol am y chwe' blynedd olaf o'i oes; ond yr oedd mewn cyflawn feddiant o'i alluoedd hyd y diwedd, ac yn ŵr o gyneddfau cryfion. Fel prawf o'i nerth a'i yni, digon yw dweyd ddarfod iddo ddwy flynedd cyn ei farw, arwain y blaid Galfinaidd allan o gapel Cefnarthen, a chymeryd lle arall i addoli ar wahan i'r blaid Arminaidd, oedd ar y pryd yn y mwyafrif yn yr eglwys hono. Diau i Williams gael y fantais o gyfarwyddyd ei dad yn gystal a'i fam, pan y penderfynodd fyned i'r Eglwys Wladol, ac nas gwnaeth newid ei enwad crefyddol yn groes i'w teimladau hwy. Pan briododd Williams, yr hyn a wnaed ganddo pan yn 32 mlwydd oed, symudodd o Gefncoed i Bantycelyn, ac aeth a'i fam, yr hon oedd erbyn hyny yn weddw, gydag ef. Bu hi fyw nes ydoedd yn 95 mlwydd oed, ac ni bu farw ond saith mlynedd o flaen ei mab. Yr oedd Williams a'i wraig yn aelodau yn nghapel y Methodistiaid yn Nghilycwm, ond ymddengys i'w fam barhau yn aelod gyda'r Annibynwyr hyd ei bedd. Cadarnheir hyn gan hen lyfr seiat Cilycwm, yr hwn oedd yn cofrestru yr aelodau yn deuluoedd. Ceid ynddo yr enwau: "*William Williams, Pantycelyn: Mary, the Wife: Mary, the Maid:*" ond nid oedd '*Dorothy, the Mother*,'' ynddo. Cynrychiolid y tri enwad yn Mhantycelyn y blynyddoedd hyny, sef y Methodistiaid, yr Annibynwyr, a'r Eglwys Wladol.

Y darn mwyaf tywyll yn mywyd Williams ydyw hanes ei ieuenctyd. Yr unig wybodaeth sicr sydd genym am dano yn y cyfnod hwn, ydyw iddo dyfu i fynu heb dderbyn argraffiadau crefyddol dyfnion. Y mae genym ei dystiolaeth ef ei hun ar hyn, fel y cawn weled eto; ond y mae y cwestiwn pa un ai mewn difaterwch a difrawder y treuliodd y blynyddoedd hyny, neu ynte, a ddarfu iddo eu treulio mewn llygredigaeth ac annuwioldeb, yn fater nas gellir ei benderfynu. Cafodd y fantais fawr o'i ddwyn i fynu ar aelwyd grefyddol. * Dywedir am ei dad, heblaw bod yn "henadur llywodraethol" yn eglwys Cefnarthen, sef y ffurf uchaf, meddir, ar y swydd ddiaconaidd, "ei fod yn Gristion addfwyn, gonest, a chywir, ac iddo gael ei fynediad trwy anialwch y byd hwn i'r wlad well yn lled rydd oddiwrth ofidiau." Dyma gymeriad ei dad, fel ei rhoddir i ni gan y rhai a'i hadwaenent oreu. Ac y mae yn sicr fod ei fam o ymarweddiad cyffelyb. Eithr er fod yr awyrgylch y magwyd ef ynddi yn un grefyddol, a bod dylanwad yr aelwyd gartref yn iachus a dymunol, y mae yn sicr mai tyfu i fynu yn anystyriol a dioruchwyliaeth a wnaeth efe.

Hwyrach nad anfuddiol fyddai ymholi beth ydoedd ystad foesol a chrefyddol y gymydogaeth yr oedd efe yn byw ynddi ar y pryd? Y mae y cwestiwn hwn yn un pur hawdd i'w ateb. Yr oedd ardal Llanymddyfri mor ddyfned mewn llygredigaeth a phechod a'r un yn Nghymru. Hynodid hi gan ei hannuwioldeb a'i drygioni. Uwchben y dref halogedig hon y cyhoeddasai Ficer Pritchard ei felldithion, gan' mlynedd cyn amser y diwygiad; ac y mae genym ddigon o brofion wrth law i ddangos nad ydoedd ronyn yn well yn yr amser hwn. Dyma fel y cyhoeddai yr hen Ficer ei felldithion ar dref Llanymddyfri:—

"'Mene Tecel,' tre' Llan'ddyfri!
Pwysodd Duw di yn dy fryntni;
Ni cha'dd ynot ond y sorod,
Gochel weithian rhag ei ddyrnod!

Cefaist rybudd lawer pryd,
Nid yw cynghor 'mheuthyn id';
Nid oes lun it' wneuthur esgus,
O! gwae di, y dref anhapus!

Bore godais gyda'r ceiliog,
Hir ddulynais, yn dy annog
Droi at Dduw, oddiwrth dy fryntni,
Ond nid oedd ond ofer imi.

Cenais bibau, ond ni ddawnsiaist,
Tost gwynfanais, nis galeraist;
Ceisiais drwy deg, a thrwy hagar,
Ni chawn genyt ond y gwatwar."

Cawn fod plwyfydd Llanfair-ar-y-bryn, Llandingad, a Chilycwm, mewn tywyllwch dudew, ac nad oedd yr offeiriaid, yn nechreuad y diwygiad Methodistaidd, ond gwyliedyddion deillion. Ond beth am yr eglwysi Presbyteraidd oedd yn y gymydogaeth, ai nid oeddynt hwy yn dal yn gryf yn erbyn y llifeiriant oedd yn gordoi y

---

* *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, cyf. iii., tudal. 583.

wlad? Diau eu bod i ryw fesur, ond nid i'r graddau y gwnaethent mewn adeg foreuach. Y pryd hwn, yn arbenig, yr oedd cylch eu dylanwad er daioni yn bur gyfyng, gan eu bod yn cael eu rhwygo gan derfysgoedd ac ymrysonau, yn benaf yn nghylch athrawiaethau crefydd. Yr oedd dwy o eglwysi Ymneillduol yn nghymydogaeth Llanymddyfri, sef eglwys y Bedyddwyr yn Nghilycwm, ac eglwys Annibynol Cefnarthen. Eglwys fechan a chymharol ddinod ydoedd yn Nghilycwm, ond yr oedd un Cefnarthen yn un liosog ac o enwogrwydd. Yn hon yr oedd tad a mam Williams yn aelodau, ac i'r capel hwn y byddai Williams yn myned yn ystod ei ieuenctyd. Rhaid i'r darllenydd gael brâsolwg ar hanes yr eglwys yma, er mwyn iddo weled pa fagwraeth i grefydd allasai gael ganddi. Yr oedd yn un o eglwysi hynaf Cymru, ac wedi gwneyd gwasanaeth anrhaethol i grefydd ardaloedd Llanymddyfri tuag adeg y weriniaeth, ac yn ystod yr erledigaeth wedi adferiad Siarl yr Ail. Ceir hanes llawn, a dyddorol dros ben am dani yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, cyf. iii., tudal. 582; ond rhaid i ni dalfyru llawer arno yma.

Planwyd eglwys Cefnarthen gan Mr. Jenkin Jones, Llanddetty, hwyrach mor foreu a'r flwyddyn 1642; ond gwasgarwyd hi gan erledigaethau, a charcharwyd y gweinidog a lliaws o'r aelodau. Ailgasglwyd hi tua'r flwyddyn 1688, gan Mr. Rees Prytherch, gŵr a fu yn ffyddlon weinidog ynddi hyd ei farwolaeth, yn 1699. Ei ganlynydd ef ydoedd Mr. Roger Williams. Calfiniaid, o ran athrawiaeth, ydoedd y ddau weinidog cyntaf; a Chalfiniad ydoedd Roger Williams ar y cychwyn; ond cyn diwedd ei oes yr oedd yn pregethu Arminiaeth, a llwyddodd i ledaenu yr athrawiaeth hono yn mysg ei aelodau a'i wrandawyr. Bu farw yn 1730, wedi bod yn pregethu, yma ac yn eglwys Cwmyglo, Merthyr Tydfil, am 32 o flynyddau. Yr oedd yr eglwys yn ddwy blaid pan y bu efe farw, ac ymddengys mai yr Arminiaid erbyn hyn oedd y blaid gryfaf ynddi. Ar ei farwolaeth ef, cafodd dau weinidog o ddaliadau Arminaidd eu dewis gan un blaid, ac un arall o olygiadau Calfinaidd gan y llall. Yr oedd y tri gweinidog hyn, cofier, yn weinidogion ar yr eglwys ar yr un amser; nid am fod rhifedi yr aelodau yn galw am hyny, ond yn unig er cyfarfod a'i sefyllfa ranedig hi ar y pryd. Buont yn pregethu athrawiaethau croes i'w gilydd, yn yr un capel, ac o'r un pwlpud, am saith mlynedd. O'r diwedd ymranodd yr eglwys; cadwodd yr Arminiaid feddiant o'r addoldy, ac aeth y Calfiniaid i addoli i amaethdy o'r enw Clinypentan, yr hwn sydd yn sefyll rhwng Cefncoed a Phantycelyn. Yr oedd tad Williams yn arwain y blaid Galfinaidd allan o'r hen gapel. Wedi yr ymraniad cynyddodd y Calfiniaid, a lleihaodd yr Arminiaid. Adeiladwyd capel newydd i'r Calfiniaid ar ddarn o dir a roddwyd i'r pwrpas gan fam Williams, Pantycelyn, ac yntau, yr hwn a elwir yn Pentretygwyn. Yn nghwrs blynyddoedd unwyd yr eglwysi gan Mr. Morgan Jones, a charthwyd yr athrawiaeth Arminaidd allan o honynt yn llwyr.

Dyna yn fyr, hanes eglwys Cefnarthen. Gwelir i Williams gael ei ddwyn i fynu yn un o eglwysi mwyaf terfysglyd Cymru; eglwys ag yr oedd llawer mwy o ddadleuon ynddi nag o grefydd. Nid pobl yn cytuno i anghytuno oeddynt, ond pobl anhyblyg dros eu gwahanol opiniynau, ac yn medru cario rhyfel poeth yn mlaen am flynyddau lawer. Nis gwyddom a oedd Williams yn aelod proffesedig o'r eglwys, ond yno y cyrchai i'r addoliad cyhoeddus hyd yr ymadawodd i fyned i'r coleg, yn llanc ieuanc, dwy-ar-bymtheg neu ddeunaw mlwydd oed. Y mae yn bur debyg fod Roger Williams wedi troi yn Arminiad cyn iddo ef gael ei eni. Am y blynyddoedd cyntaf, nid oedd o fawr pwys i Williams ieuanc pa athrawiaethau a bregethid yn ei glyw. Eithr cyn terfyn gweinidogaeth Roger Williams, hwyrach fod gan y bachgen llygadlas ryw syniad aneglur am yr hyn a wrandawai; y deallai fod rhyw wahaniaeth nas gallai efe ei amgyffred, rhwng yr hyn a lefarai y gweinidog, a'r hyn a gredai ei dad; ac nid anhebyg iddo glywed aml i ddadl frwd rhwng y ddau. Yr oedd yn dair-ar-ddeg oed pan fu y gweinidog hwnw farw. Yr oedd yn llawer pwysicach pa athrawiaethau a gyhoeddid yn ei glywedigaeth yn ystod y pum' mlynedd nesaf; dyma y cyfnod yr ymagorai ei ddeall, ac y rhoddai heibio bethau bachgenaidd, am y teimlai ei fod yn dyfod yn ŵr. Gresyn na fuasai gweinidogaeth pwlpud Cefnarthen, a dysgeidiaeth yr aelwyd yn Cefncoed, yn cyfnerthu eu gilydd yn yr adeg bwysig hon. Ond y mae genym ofn fod yr hyn a adeiledid y pryd hwnw ar yr aelwyd, yn cael ei dynu i lawr yn y capel. Gwyddom, er ein gofid, nad oes dim ag a duedda yn

gryfach i ddyeithrio meddwl yr ieuanc oddiwrth grefydd, na dadleuon ac ymrysonau yn yr eglwys, o unrhyw natur. Ond yn y tymhor hwn yr aeth rhyfel yr athrawiaethau yn ddifrifol o boeth yn Nghefnarthen; yr oedd yr Arminiaid wedi dyfod yn allu llywodraethol yn yr eglwys, a blin fu y frwydr rhyngddynt a'r Calfiniaid. Ai nid gwell a fuasai iddynt ymwahanu yn gynt, gan fod pob undeb gwirioneddol rhwng y pleidiau wedi llwyr ddiflanu? O bosibl hyny; ond hwyrach fod eu hymlyniad wrth yr hen addoldy yn gwneyd y peth yn anhawdd iddynt. Fel y dywedwyd, bu y pleidiau yn pregethu yn erbyn eu gilydd, o'r un pwlpud, am saith mlynedd; ac yr oedd Williams yn mynychu y capel am bump allan o'r saith hyn. Gresyn na fuasai ef wedi rhoddi i ni hanes Cefnarthen yn y tymhor hwn, gan ddesgrifio yr hyn a welodd ac a glywodd; gallasai daflu goleu ar lu o gwestiynau sydd yn ddyrus i ni erbyn hyn, megys: A fyddai y pleidiau yn pregethu yn erbyn eu gilydd yn yr un odfa, neu ynte ar wahanol amserau? Os mai ar wahanol amserau, a fyddai y naill blaid yn mynychu cyfarfodydd y llall? A ydoedd Williams yn cymeryd rhan yn y dadleuon hyn, neu ynte a oedd yn eu hangymeradwyo hwynt, ac yn eu gochel? Rhaid i ofyniadau fel yma aros bellach heb eu hateb, ond yr ydym yn sicr o un peth, sef na ddarfu y dadleuon a'r ymrysonau hyn grefyddoli ei yspryd. Prin y gellir disgwyl y buasent yn foddion gras iddo. Os darfu iddo ef ymdaflu i'r dadleuon, hwyrach iddynt eangu cylch ei wybodaeth, a blaen-llymu ei alluoedd meddyliol.

Tybed nad oedd hanes eglwys Cefnarthen yn bresenol yn meddwl Williams pan yr oedd yn cyfansoddi *Theomemphus?* Credwn ei fod; ac mai trethu ei gof, yn hytrach na thynu ar ei ddychymyg, yr oedd pan yn darlunio y pregethwyr hyny, ag oeddynt yn ceisio dileu dylanwad *Boanerges* ac *Evangelius* oddiar feddwl ei arwr. Darllener y llinellau hyn yn ngoleu yr hanes yr ydym newydd ei osod gerbron y darllenydd am Gefnarthen, a chredwn y gwel ynddynt gyfatebiaeth mawr. Dyma fel y mae un, a alwai y bardd yn *Arbitrius Liber*, yn pregethu cyfiawnhad trwy weithredoedd:—

"Gwrandewch, hiliogaeth Adda ebe'r areithiwr mawr,
"Nid dim erioed ond cariad, wnaeth i chwi droedio'r llawr;
Meddyliau da tuag atoch sydd er creadigaeth byd,
A thraw yn nhragwyddoldeb, cyn rhoi'r elfenau 'nghyd.

Eich Crewr yw eich priod, eich priod oll o'r bron,
Ewyllysiwr da'n ddiameu, i bawb sydd ar y dòn;
Ni fyn e' i neb i farw, ond am i bawb gael byw,
Os gwir llyth'renau'r Beibl, wel hyn, gwirionedd yw.

Pa gyuifer gwersi sy' yno, pob un yn haeru 'nghyd,
Nad ydyw Duw am ddamnio, yn unig safio'r byd?
Gwae rhai sy'n cloi trugaredd wrth rai o ddynolryw,
Yn haeru rhagordeiniad, nad rhagwelediad yw.

P'odd gall un perchen rheswm i haeru maes yn lân,
I Dduw bwrpasu dynion, ryw rai i uffern dân?
Mae hyn yn gam anorphen â haufod mawr yr Iôr,
Sydd a'i ddaioni cymaint a dyfroedd mawr y môr.

Nid ydyw dyn heb allu, er iddo fyn'd ar ŵyr,
Mae ei 'wyllys a'i resymau, heb eto'i llygru'n llwyr;
Ei ddeall yw ei reswm, fe gadwodd hwn ei le,
Pan collodd ei frenhiniaeth o fewn i deyrnas ne'.

A dyma'm ueges inau, cyhoeddi i chwi'r gwir,
A gwneuthur pob dyledswydd, y t'wylla'n oleu clir;
Wel, pwyswch yn eich meddwl y geiriau yma'n llawn,
A gwnewch eich dyledswyddau o foreu hyd brydnawn.

Ymdrowch yn eich rhinweddau, ac ynddynt byddwch fyw,
Cyflawni pob gorchymyn i gyd yw meddwl Duw;
Am dori'r ddeddf mae damnio, fe dd'wedodd hyn ar g'oedd,
I'n dori oll os torwn orchymyn fyth o'n bodd.

At ddyledswyddau bellach, y perlau mwyaf drud
Yw dyledswyddau uefol, o'r cwbl sy'n y byd;
Gweddïau ac elusen, 'does mo'u cyffelyb hwy,
Hwy ro'nt i angau creulon ei hunan farwol glwy'.

Rho'wch ymaith bob rhyw bechod, o weithred ac o fryd,
Pob malais a chenfigen, a gormod garu'r byd;
Ein dyled ni yw caru, wrth geisio fe gair gras,
Nid yw e'n waith mor anhawdd i goncro pechod cas.

A dim ond gwneyd ein goreu, yw'r cwbl sydd gan ddyn,
A Duw sydd siwr o'i ateb, fe dystia'r gair ei hun;
Mae gras i'w gael ond ceisio, a'r ceisio sy' arnom ni,
A'r fyuyd gyntaf ceisiom fe rodda Duw yn ffri."

Fel hyn eilwaith y dywed *Orthocephalus*, yr hwn sydd bregethwr uniongred, ond ei fod yn hunanol, ymffrostgar, a sych:—

"Mae gau-athrawon lawer," 'he fe, "yn myn'd ar led,
Heb 'nabod ac heb ddeall mo egwyddorion cred;
Heb ganddynt ffurf na rheswm, ond rhyw gymysgedd cas,
O athrawiaethau anial maent yn eu taflu maes.

Mae'r Coptics a'r Armeniaid, ar hyd yr Aiphtaidd dir,
Yn ddigon pell, ysywaith, oddi wrth derfynau'r gwir;
Mae yma opiniynau o fewn ein gwlad ein hun,
Sydd ddiau yn ddinystriol i iachawdwriaeth dyn.

Mae'r Antinomian trwsgl, yn dweyd i maes ar g'oedd,
Os pechu wna neu beidio, y bydd ef wrth ei fodd;
Cyn iddo'n caru gyntaf, fe wyddai Duw ein bai,
'Rys wedi maddeu ein pechod, cyn i ni 'difarhau.

Drwg enbyd yw yr amser, rhyw athrawiaethau blin
Mae gau a gwag-athrawon, er's dyddiau yn eu trin;
Da iawn fod gan weinidog ryw lawer iawn o ddysg,
I gyfarwyddo'r bobol y rhodder e'n eu mysg.

Mi safais, ac mi safaf, ac nid wy'n ofni dim,
Yn erbyn llif o ddyfroedd, er cymaint yw eu grym;
Mewn llawer hrwydr buais, ond am fod geny'r gwir,
Cyn i mi lân goncwerio, ni chawn fod yno'n hir.

'Rwy'n gosod ffydd yn flaenaf, 'rwy'n gosod gwaith yn ail,
Os anog i sancteiddrwydd, 'rwy'n gosod *Crist* yn sail;
Pa ddyledswyddau enwir o foreu hyd brydnawn,
Mae'r cwbl geny'n gryno mewn iachawdwriaeth lawn.



ATHROFA LLWYNLLWYD, FEL Y MAE YN BRESENOL.

Mae amryw Galfinistiaid yn myn'd i maes o'u lle,
Rhy galed maent yn gwasgu'r pwnc ar yr ochr dde';
Y maent yn dala'r ethol, a'r gwrthod cas yn un,
Heb gofio llw'r drugaredd a dyngodd Duw ei hun.

'Chytuna'i ddim a Baxter, sy'n rhanu'r cyfiawnhad,
Na Chrisp, sy'n dodi'r gyfraith yn hollol tan ei draed,
Na Zinderdorf a'i drefn, 'dwy'n llyncu un o'r tri,
Ac ni bydd Athanasius yn feistr ffydd i mi.

Ni chaiff articlau Lloegr eu credu geny'n lân,
Na rhai wnawd yn Geneva, ryw flwyddau maith o'r blaen;
Er pured Eglwys Scotland, nid purdeb yw hi gyd,
Ni phiniaf ddim o'm crefydd, ar lawes neb o'r byd.

'Dwy'n gadael unrhyw gangben o grefydd o un man,
Ag y mae rhai yn ddamsang, nad wy'n ei chodi i'r lan;
'Dwy'n gadael un gofyniad yn y cyfamod grâs,
Nad wyf fi ar ryw amser yn ei gyhoeddi maes.

'Rwyf yn dyrchafu'r Arglwydd, ac yn darostwng dyn,
Yn tori lawr ei haeddiant a'i allu yn gytun;
'Rwyn curo cyfeiliornad ar aswy ac ar ddê,
'Rwyf yn cymhwyso 'mhobl i mewn i deyrnas ne'."

A dyma fel y mae *Schematicus* yn traethu ei lith yntau, pregethwr uniongred arall, ond sydd yn condemnio egwyddorion ac athrawiaethau pawb, ond yr eiddo ei hun:—

"Schematicus, un arall, un gwresog iawn ei ddawn,
Un pwnc oedd swm ei bregeth o foren hyd brydnawn;
Er fod rhyw bynciau eraill wrth eu bregethau 'nglyn,
Ni nynai ei zêl ef ronyn, nes d'ai at ei bwnc ei hun.

Yr arfaeth oedd ei eilun, ac yna'r arfaeth rad,
Oedd sylfaen ffydd, sancteiddrwydd, 'difeirwch, cyfiawnhad;
Olrheiniai ef ei natur, bob cangen yn gytun,
Oddi wrth un wers o'r Beibl, dros driugain Sul ag un.

Efe 'sgrifenodd lyfrau, rai meithion iawn eu hyd,
'Run pwnc oedd ei athrawiaeth, trwy rheiny oll i gyd;
Pwy bynag ŵr na chredai, anrasol oedd y dyn,
Fel credai ef heb amheu, Schematicus ei hun.

A'i athrawiaethau haerllug o'r diwedd 'nynodd dân,
Am farn ac opiniynau, dyeithr o'ent o'r blaen;
Daeth enw'n erbyn enw, fe gai un enw'n awr,
Ei godi cuwch a'r cwmwl, a'r llall ei dynu i lawr.

Terfysgwyd peman'r bobl, fe ranwyd yma a thraw,
Dau 'biniwn mewn un eglwys, ac weithiau wyth neu naw;
Zêl at y pethau lleiaf, yn gweithio yn y dall,
Un pwlpud yn fflangellu athrawiaethau'r llall.

Didolwyd, gwnawd partion, o'r bobl oedd gytun,
Tri'n erbyn pump rai prydiau, neu ddeg yn erbyn un;
Cyhoeddwyd cymanfaoedd o'r De i'r Dwyrain dir,
I chwilio gwraidd opiniwn, a gwneyd y pwnc yn glir.

Fe lidiwyd, anfoddlonwyd, fe dduwyd ar bob llaw,
Fe chwiliwyd am athrawon, rai newydd yma a thraw;
Pregethwyd, fe 'sgrifenwyd, pawb am ei bwnc ei hun,
Yn gant o ddarnau rhanwyd y Beibl oedd yn un.

Myfyriwyd Groeg a *Hebrew*, gopiau'r 'Sgrythyr Lan,
Un copi fe'i goreurid, fe roid y llall i'r tân;
Darllenwyd hen 'sgrifenwyr, rhai eu galw'n gywir câs,
Rhai'n hereticiaid deillion, ga'dd eu cyhoeddi maes.

Nes myn'd a llu o bobl fu'n ochr Sinai fryn,
Yn gwrando Boanerges yn brysur iawn cyn hyn;
Ar ol rhyw bynciau gweigion, a cholli'r yspryd trist,
Drylliedig, oedd yn gwaeddi am 'nabod *Iesu Grist*.

I 'mofyn dŵr a bedydd, 'nol gwneuthur proffes lân,
Anghofio bedydd yspryd, a bedydd nefol dân,
I bledio'n erbyn gwenwisg, a darllen gweddi maes,
Anghofio taernu calon, a dirgel ruddfan grâs.

Gwallt llaes sydd bwnc arbenig, rhaid cael y pen yn grwn,
Gwell rhwygo mil o eglwysi, na cholli'r pwncyn hwn;
Mae'n rhaid i hwn gael Esgob, ond Presbyter i'r llall,
Wel *Quaker* Independiad ddim gwell na mab y fall."

Braidd nad yw y desgrifiad uchod yn llythyrenol gywir o sefyllfa eglwys Cefnarthen yn nyddiau ieuenctyd Williams, sef tra y bu ef o fewn cylch ei dylanwad hi.

Ymddengys na fu raid i Williams adael cartref tra yn derbyn ei addysg, hyd iddo fyned i Athrofa Llwynllwyd. Diau mai mewn ysgolion cymydogaethol, yn nhref Llanymddyfri, hwyrach, y treuliodd y blynyddoedd hyny. Yr oedd yn llawn dwy-ar-bymtheg neu ddeunaw mlwydd oed pan yn myned i'r athrofa, o herwydd cawn ei fod wedi gorphen y cwrs arferol yno, sef tair neu bedair blynedd, erbyn ei fod yn un-ar-hugain oed. Y mae yr enw Athrofa Llwynllwyd yn disgyn yn ddyeithr ar ein clustiau. Nid oes enw o'r fath yn mhlith ein hysgolion. Byddai yn ddigon cywir, ac yn fwy dealladwy, dweyd mai i Athrofa Caerfyrddin yr aeth; lle y cafodd y fath nifer o enwogion Cymru eu haddysg. Yn y sefydliad hwnw y gorphenodd Williams ei addysg, er fod yr athrofa ar y pryd wedi ei symud o dref Caerfyrddin, ac yn cael ei chynal yn Llwynllwyd, yn agos i'r Gelli, yn Sir Frycheiniog. Yr achos o newidiad lle yr athrofa ydoedd hyn. Ar farwolaeth Mr. Thomas Perrot, athraw Athrofa Caerfyrddin, yn 1733, penodwyd Mr. Vavasor Griffiths, gweinidog Maesgwyn, Sir Faesyfed, i gymeryd ei le. Gwrthododd Mr. Griffiths fyned i Gaerfyrddin, am y barnai y buasai yn well i'r athrofa gael ei chadw yn y wlad, fel na fyddai y myfyrwyr yn agored i brofedigaethau tref. A hyn cydsyniodd awdurdodau yr athrofa; ac felly fe symudwyd y sefydliad at yr athraw. Yn ystod y saith mlynedd y bu dan ofal y dysgedig a'r duwiol Mr. Vavasor Griffiths, cynhaliwyd hi mewn tri neu bedwar o fanau, am nad oedd yr un adeilad wedi ei ddarpar ar ei chyfer. Y lle y cynhelid hi y pryd yr oedd Williams ynddi ydoedd yn amaethdy Llwynllwyd, preswylfod Mr. David Price, gweinidog eglwys Annibynol Maesyronen. Dywed Mr. Charles mai Mr. Price ydoedd athraw yr athrofa, ond y mae hyn yn gamgymeriad. Ac y mae y Parch. J. Kilsby Jones yr un mor gamsyniol, pan yn tybied mai yn Llwynllwyd y preswyliai Mr. Vavasor Griffiths.

Yr oedd Mr. Vavasor Griffiths yn un o'r ysgolheigion goreu, ac yn un o'r dynion mwyaf duwiol yn ei oes. Dywedir ei fod yn arfer mwy o lymder nag a wnelsai, oni buasai fod tynerwch eithafol Mr. Perrot,

wedi bod yn achlysur i lawer o'r myfyrwyr i ymollwng i gyfeiliornadau blin mewn barn a buchedd. Bu farw yn mhen tair blynedd wedi i Williams adael y sefydliad, sef yn 1741. Nid oes gair o hanes Williams tra y bu yn yr athrofa genym; ond gellir casglu ddarfod iddo wneyd defnydd da o'i gyfleusderau. Yr oedd yn lletya, debygid, gyda Mr. Price yn Llwynllwyd, ac yn mynychu capel Annibynol Maesyronen ar y Sabbathau. Tebygol fod ei holl fryd yn y tymhor hwn ar gasglu gwybodaeth, yn enwedig yn y cangenau hyny sydd yn dal perthynas a'r alwedigaeth feddygol, oblegyd dyma y cyfeiriad a fwriadai gymeryd. Sefydliad at barotoi pobl ieuainc ar gyfer y weinidogaeth oedd yr athrofa; ond cafodd ef fynediad iddi fel *lay student*. Nid oes hysbysrwydd pa hyd o amser y bu yn yr athrofa hon, ond gwyddis ddarfod iddo orphen ei efrydiaeth ynddi yn y flwyddyn 1738. Gan yr arferai pobl ieuainc aros mewn athrofeydd, yr amser hwnw fel yn bresenol, am dair neu bedair blynedd, aeth yno naill ai yn y flwyddyn 1734 neu 1735. Yr oedd mynediad Williams i Llwynllwyd felly agos yn gyfamserol a throedigaeth Howell Harris, a ffaith ryfedd, nas gellir yn hawdd gyfrif am dani ydyw, na ddaeth i gyffyrddiad personol a'r Diwygiwr o Drefecca yn ystod yr amser yr arhosodd yn yr athrofa. Rhaid iddo glywed llawer o son am dano. Gwedi ei argyhoeddiad daeth Harris i enwogrwydd buan, dechreuodd bregethu i'w gymydogion yn Nhalgarth, a chynyrfu y wlad o gwmpas yn ddiymaros. Cyn diwedd y flwyddyn 1737 yr oedd wedi ymweled a phob ardal yn Sir Frycheiniog, gan sefydlu seiadau, ac yr oedd wedi sefydlu amrai o'r cymdeithasau hyn yn Siroedd Maesyfed a Henffordd. Ond nid yw yn ymddangos iddo bregethu yn Glasbury, y pentref agosaf at Llwynllwyd, yn ystod yr adeg hon. Efallai, gan fod yr athrofa mor agos, y tybiai y gallai adael y lle i'r gweinidog duwiol a dysgedig oedd yn athraw arni, ynghyd a'r Parch. David Price, gweinidog parchus Maesyronen. Gwedi hyn, pa fodd bynag, sef yn y flwyddyn 1738, ysgrifenodd y Parch. Vavasor Griffiths at Harris, yn ei wahodd yno, a diau iddo yntau gydsynio a'r gwahoddiad, o herwydd gwelwn oddiwrth gofnodau Cymdeithasfa gyntaf Watford, fod eglwys Fethodistaidd yn Glasbury yn 1743. Ond dichon fod hyn wedi i Williams adael Llwynllwyd. Nis gall nad oedd gweithredoedd nerthol y Diwygiwr, a hynodrwydd neillduol ei weinidogaeth, yn destun siarad mawr yn yr athrofa, yn enwedig pan gofiom mai rhai a'u bryd ar y pwlpud oedd y rhan fwyaf o'r efrydwyr. Y mae yn fwy na thebyg i amryw o honynt fyned yn unswydd i Dalgarth, pellder o tua chwech milltir, er mwyn ei wrando. Pa fodd nad aeth Williams gyda hwynt, nid oes genym ond dyfalu. Efallai ei fod, fel llawer o'r Ymneillduwyr ar y pryd, yn dirmygu yn ei galon ŵr diurddau yn myned o gwmpas i gynghori. Neu efallai fod ei wanc am wybodaeth yn gryf, tra nad oedd ei dueddiadau crefyddol ond gwan ac eiddil. Hyn sydd sicr, tra yr oedd Howell Harris yn cyffroi y wlad, ac yn rhybuddio yr annuwiol i ffoi rhag y llid a fydd, yr oedd y llanc o Bantycelyn yn ymgolli yn ei efrydiau, ac yn ddifater am gyflwr ei enaid.

Ond daeth adeg ymadael a'r athrofa, ac yn y flwyddyn 1738 yr ydym yn ei gael yn dychwelyd adref i dŷ ei dad. Yr oedd ganddo daith faith, dros ddeg-ar-hugain o filldiroedd; arweiniai y ffordd ef drwy dref Talgarth, ac heibio i fynwent yr eglwys. Yr oedd Harris yn pregethu ar y fynwent, pan yr oedd efe yn pasio. Aeth i mewn i'r fynwent i weled a chlywed am y tro cyntaf y dyn y clywsai gymaint son am dano; a chafodd ei argyhoeddi mor sydyn ac mor effeithiol ag yr argyhoeddwyd Paul ar y ffordd i Damascus. Damwain hollol o du Williams ydoedd hyn, ond

> "Yr hyn sy'n ddamwain ddall i ddyn,
> Sy'n oleu arfaeth Iôr."

Ac yr oedd cyfarfyddiad digwyddiadol Williams â Howell Harris y boreu hwn o ganlyniadau pwysig iddo ef ei hun, ac i eglwys Crist yn Nghymru, o leiaf tra y bydd hi yn parhau i addoli yn yr iaith Gymraeg.

Y mae yn anhawdd peidio benthyca desgrifiad y diweddar "Hiraethog" (Dr. William Rees) o dröedigaeth Williams, er ei fod yn mhell o fod yn hanesyddol gywir, fel y cawn sylwi eto: "Ar ryw fore (Sabboth, y mae'n debygol) yn y flwyddyn 1738, dyna sain cloch llan blwyfol, mewn pentref neillduedig yn Sir Frycheiniog, yn gwahodd yr ardalwyr i ymgynull ynghyd i'r gwasanaeth crefyddol. Ymgynulla lliaws at eu gilydd. Yn eu mysg, dacw ŵr ieuanc, oddeutu un-ar-hugain oed, o gorff lluniaidd, a thaldra canolig, ac ymddygiad mwy boneddigaidd na'r cyffredin, yn myned i mewn i le yr addoliad. Telir sylw mwy na chyffredin iddo. Y mae naill ai yn ddyeithr yn y lle, neu y mae

newydd ddychwelyd i blith cydnabyddion wedi cryn absenoldeb. Craffwch arno! y mae rhywbeth yn ei wynebpryd a dynodiant ei lygaid a bâr i chwi deimlo rhyw fwy o ddyddordeb ynddo nag mewn unrhyw ŵr ieuanc arall drwy yr holl gynulleidfa; ond ni wyddoch yn iawn pa beth ydyw chwaith; rhywbeth ydyw na ellwch roddi cyfrif am dano, ac na ellwch chwaith help i chwi eich hunain wrtho. Pâr i chwi yn awr ac yn y man, drachefn a thrachefn, daflu eich llygaid arno, bron yn ddiarwybod i chwi eich hun. Dyma y gweinidog yn dyfod i mewn, a'r gwasanaeth yn myned i ddechreu. Ar hyn, wele ŵr canol oed, lled fyr o gorffolaeth, o agwedd difrif-ddwys anghyffredinol, yn dyfod i'r lle. Y mae pob llygad yn y synagog yn canolbwyntio arno. Cynhyrfa yr olwg arno wahanol deimladau yn y gynulleidfa, y rhai a ddadguddiant eu hunain drwy lygaid a delweddau wynebpryd y naill a'r llall. Ei ymddangosiad a dery fath o syndod ac arswyd drwy y lle. Y sylw a'r teimladau rhyfeddol a gynhyrfid fel hyn drwy ei ymddangosiad a enyn gywreinrwydd y gŵr ieuanc y buom yn edrych arno, a gofyna yn wylaidd a dystaw i'r agosaf ato: 'Pwy yw y gŵr rhyfedd hwn sydd yn enill y fath sylw cyffredinol ato?' Yr ateb yw: 'Dyna Howell Harris!' Y mae meddwl a llygaid y gŵr ieuanc yn y fan yn cael eu hoelio wrtho. Clywsai bethau rhyfedd am dano, ond ni welsai ef o'r blaen. Dyma y dyn hynod oedd yn aflonyddu y byd, ac fel yn gyru dynion a chythreuliaid i gynddeiriogrwydd, yn awr o flaen ei lygaid! Edrycha arno gyda gradd o ofn a chryndod.

"Dyma y gwasanaeth ar ben; rhedasid drwyddo mewn dull sychlyd a marwaidd. Arweinir y gynulleidfa allan gan y gweinidog; â efe yn mlaen, gydag un neu ddau o'i blwyfolion tua'r persondy; ond erys y gynulleidfa ar y fynwent, ac ymgasgla eraill o'r pentref a'r wlad oddiamgylch atynt. Erys y gŵr ieuanc hefyd ar ol. Yn mhen ychydig, dyma y gŵr a welsom gynau yn dyfod i'r llan, yn esgyn ar gareg fedd, a phob llygad wedi ei adsefydlu arno. Y mae bywiogrwydd anghyffredin yn gerfiedig ar lygad ac wynebpryd y gŵr ieuanc yn awr. Dyna genad y nef yn agoryd ei enau. Y mae ei lais fel sŵn taranau cryfion, neu adsain dyfroedd lawer; disgyna ei eiriau fel tân poeth ar y bobl. Newidia lliw eu hwynebpryd gyda phob ymadrodd. Ai yr un bobl a welwn yn awr yn y fynwent ag a welsom ychydig fynydau o'r blaen o fewn y muriau yna? Ië, yr un bobl gan mwyaf ydynt; ond nid yr un yw y pregethwr. 'Y mae hwn yn llefaru fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion.' Gafaela rhywbeth yn meddyliau a chydwybodau y bobl yn awr, a bâr i'r cryfaf ei galon frawychu, ac i'r gliniau cadarnaf guro yn erbyn eu gilydd. Y mae fel pe bai y nefoedd yn gwlawio tân a brwmstan am eu penau. Llenwir rhai o gynddaredd yn erbyn y pregethwr a'i athrawiaeth; eraill a lesmeiriant dan bangfeydd o argyhoeddiad cydwybod; eraill a lefant allan: 'Pa beth a wnawn ni?' Y mae yn gyffro cyffredinol; ond pa le mae y gŵr ieuanc dyddorgar hwnw? Dacw efe, a'i wyneb wedi gwynlasu, a'i holl gorff yn ysgwyd gan gryndod a braw. Y mae yn wir ddelw o ddychryn. Dysgwylia bob moment weled Mab y Dyn yn dyfod ar gymylau y nefoedd. Aeth rhyw saeth loyw-lem oddiar fwa athrawiaeth y gŵr sydd ar y gareg fedd acw i'w galon. Y mae cleddyf dau-finiog wedi ei drywanu hyd wahaniad yr enaid a'r yspryd. Y mae ganddo olwg wahanol arno ei hun yn awr i'r hyn fu ganddo erioed o'r blaen. Mewn gair, y mae yn ddyn newydd. Daeth allan o'r fynwent y boreu hwnw wedi ei greu o newydd."

Y mae yn hysbys bellach nad yw y desgrifiad campus uchod yn cydgordio yn hollol â ffeithiau hanes. Y mae mor fyw a phrydferth, fel y mae perygl yr anghofir mai desgrifiad barddonol ydyw, ac mai un felly y bwriadwyd iddo fod. Heb hyny, gall fod i fesur yn gamarweiniol. Cymerodd "Hiraethog" drwydded y bardd pan yn ei ysgrifenu, ac y mae y darlun, er cystal ydyw, yn wallus mewn amryw o fanylion. Gwir fod gan hanesydd, yn enwedig barddhanesydd, drwydded i lanw i fynu ddiffygion hanesiaeth a'i ddychymygion ei hun, ond iddynt fod yn naturiol a phriodol. Ond y mae i hyn ei derfynau. Rhaid i'r bardd barchu ffeithiau, a chadw mewn perffaith gydgordiad a hanesiaeth awdurdodedig. Fel yr oedd yn ofynol i brophwydi yr oes apostolaidd, pan brophwydent, brophwydo yn ol cysondeb y ffydd; felly, rhaid i feirdd ein hoes ninau, pan farddonant, farddoni yn ol cysondeb hanes. Tebygol, os nad sicr ydyw, na ddarfu Williams fwriadu yn mlaen llaw gwrando Howell Harris yn pregethu yn Nhalgarth; y mae yn anhebygol hefyd ei fod yn bresenol yn ngwasanaeth yr eglwys y boreu hwnw;

ac y mae yn sicr na ddarfu iddo weled Howell Harris yn ystod y gwasanaeth, os oedd yn bresenol. Nid oddiar gareg fedd ychwaith yr oedd Harris yn pregethu ar y fynwent, ac y mae y desgrifiad o oedran y pregethwr yn wallus; desgrifir ef yn "ŵr canol oed," tra nad oedd ar y pryd ond 24 oed. Nid yw yn debygol ychwaith mai Sabbath ydoedd, gan fod Williams ar ei ffordd adref, a bod yr hen Bresbyteriaid yn fanwl iawn mewn cadw y dydd yn gysegredig. Ac os mai yr hen Price Davies a weinyddai, ni redwyd trwy y gwasanaeth mewn dull sychlyd a marwaidd. Ond y mae yn ddarlun swynol er y diffygion hyn. Fel hyn y dywed eglwys. Ac nid ar gareg fedd yr oedd yn pregethu ychwaith, ond "heb un twmpath dan ei droed," yr hyn yn ddiau sydd yn golygu ei fod yn sefyll ar y llawr gwastad. Y mae tri phenill yn y gân,* "Golwg ar Deyrnas Crist," a ymddengys i ni yn cau allan y golygiad fod Williams yn awyddus am wrando ar Howell Harris ar ei ffordd adref yn Nhalgarth. Y mae y bardd yn y gân hono yn cyfarch ei enaid ei hun fel yma :—

"Fy enaid, d'wed pwy ddyben, pwy feddwl, pwy barto'd,  
Oedd ynot yn yr amser y'th alwyd gynta' erioed?  
Trwy foddion anhebygol, y denwyd fi oedd ffol,  
Mewn amser anhebygol i alw ar dy ol.



CAPEL ANNIBYNOL MAESYRONEN.

[*Sef yr Addoldy y byddai Williams yn ei fynychu, tra yn Athrofa Llwynllwyd.*]

Williams ei hun am ei argyhoeddiad yn marwnad Howell Harris :—

"Dyna'r fan trwy'n fyw mi gofiaf,  
Gwelais i di gynta' erioed,  
O flaen porth yr eglwys eang,  
Heb un twmpath dan dy droed;  
Mewn rhyw yspryd dwys nefolaidd,  
Fel yn ngolwg byd a ddaw,  
Yn cynghori dy blwyfolion  
A dweyd fod y farn gerllaw."

Gwelir fod y penill hwn yn gwrthddywedyd y desgrifiad uchod mewn dau bwynt o leiaf. Y mae yn amlwg mai "o flaen porth yr eglwys eang" y gwelodd y bardd Harris "gynta' erioed," felly nis gwelsai ef cyn hyny yn ystod y gwasanaeth yn yr

Yr arfaeth oedd i esgor, fe ddaeth dy drefn lân,  
Yn ddiarwybod imi a'r moddion yn y blaen;  
Pob peth yn ffitio'r dyben, gylch ogylch dan y nen,  
Mab Cis yn lle asynod, gâs goron ar ei ben.

Zachëus, bach y meddyliodd, ac yntau'n dringo fry,  
D'ai iachawdwriaeth rasol, pryd hyny idd ei dŷ;  
Ac felly Paul a Phetr, a Magdalen, a mwy,  
A minau'n ddibarotoad, gâs fywyd gyda hwy."

Y mae yn dra sicr genym mai amcan y bardd yn y llinellau uchod ydyw dangos pa cyn leied o law fu ganddo ef ei hun yn

* *Gweithiau William Williams o Bantycelyn*, gan y Parch. N. Cynhafal Jones, cyf. i., tudal. 163.

amgylchiadau ei argyhoeddiad, a pha mor llwyr yr oedd dan arweiniad Rhagluniaeth fawr y nef. Gwnaed hyn heb ddyben, heb feddwl, heb barotoad o'i du ef; trwy foddion anhebygol, ac mewn amser anhebygol. Cyflawniad ydoedd, debygid, o'r brophwydoliaeth: "Ceisiwyd fi gan y rhai ni ymofynasant am danaf, cafwyd fi gan y rhai ni'm ceisiasant."

Pa un ai ei glwyfo yn unig a gafodd Williams ar fynwent Talgarth y boreu hwnw, neu ynte a dywalltwyd olew yn ei glwyfau ar yr un adeg? Hwyrach nas gellir rhoddi atebiad pendant i'r cwestiwn hwn. Dywed ef ei fod wedi ei ddal gan wys oddi uchod, ond nid yw yn dweyd hefyd ei fod wedi derbyn rhyddhad yr efengyl. Fel hyn y mae efe yn mynegu:—

"Dyma'r boreu byth mi gofiaf,
 Clywais inau lais y nef;
Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod
 Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro dyrys anial
 Ol a gwrthol dilesâd,
Tra bo anadl yn fy ffroenau
 Mi a'i galwaf ef fy Nhad."

Swn taranau Sinai a glywir yn y penill hwn, a gweinidogaeth gyffelyb a geir yn mhregeth *Boanerges*, lle y tybir fod y bardd yn desgrifio ei droedigaeth ei hun:—

"Ac yna *Boanerges*,
 Agora'i enw pur
Rhwng awyr dudew, dywyll,
 A nefoedd oleu glir;
Mil oedd o glustiau'n gwrando
 A *Theomemph.* yn un,
Ac ofn yn ei galon,
 A chryndod yn ei lin.

Uwch coryn mynydd Sina,
 Yn uchel, uchel fry,
Ar aden cwmwl gwibiog
 Mewn awyr dywyll, ddu,
Lle clywai gwlad o ddynion,
 Lle y dadseiniai'r nef,
Mewn eitha' godidawgrwydd
 'Roedd ei sefyllfa ef.

Ei lais oedd fel taranau
 Amrywiol iawn ynghyd,
Neu fel yr udgorn olaf
 A eilw'r meirw ynghyd;
Yn creu rhyw arswyd rhyfedd,
 Trwy'r ddaear faith a'r nef,
A miloedd yn llewygu
 Wrth swn ei eiriau ef."

Ond os nad esgynodd Harris i fynydd Seion y pryd hwnw, diau i Williams ei weled wedi hyny yn esgyn yno, ac mai trwy ei weinidogaeth ef y cafodd efe ei ryddhad; pe fel arall, prin y buasem yn dysgwyl iddo arddel Howell Harris yn dad ysprydol iddo. Y mae Williams yn gosod allan Harris fel cenad hedd fel yma:—

"Dewch, gwrandewch ef yn agoryd
 Ddyfnder iachawdwriaeth gras!
Gosod allan y Messiah
 Yn y lliw hyfryda' maes;
Ac yn dodi'r cystuddiedig
 Ag sy'n ofni ei ras a'i rym,
Fel i chwerthin o orfoledd,
 Ac i 'mado heb ofni dim."

Argyhoeddiad rhyfeddol o rymus a gafodd Williams. Diau ddarfod i'r saeth gyrhaedd i ddyfnder ei enaid, ac iddo deimlo ingoedd angau. Ond pan gymhwyswyd i'w archoll y balm sydd yn iachau, fe'i meddyginiaethwyd yn llwyr. Yr oedd bellach yn ddyn newydd—hollol newydd, a daeth yn fyw i ystyriaethau ag yr oedd hyd yma yn farw iddynt. Dyma'r pryd y daeth gyntaf i gyffyrddiad ffyddiog a gwirioneddau mawrion yr efengyl. Cafodd yn awr ddatguddiad o'r ysprydol a'r tragywyddol. Difrifolwyd ei feddwl, sancteiddiwyd ei yspryd, dyrchafwyd ac unionwyd ei amcanion; a daeth i gysylltiad â phobl oedd yn llosgi mewn awydd am achub eneidiau. Cyflwynodd ei galon ei hun i'r Gwaredwr, ac ymddiriedodd ynddo am ei gadwedigaeth; a meddianwyd ef gan awydd angherddol am ddwyn eraill at Grist. Daeth i ofyn cwestiwn Saul, "Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur," a chafodd dystiolaeth yn ei fynwes fod yr Iesu yn gofyn am holl wasanaeth ei fywyd. Penderfynodd ufuddhau i'r alwad nefol, a chefnu am byth ar yr alwedigaeth ddaearol yr oedd wedi cymhwyso ei hun iddi, a chysegru ei holl fywyd i weinidogaeth y gair. Ei gymdeithion newydd oeddynt Howell Harris, Daniel Rowland, a'r cynghorwyr oedd yn eu canlyn; ac fe yfodd yn helaeth o yspryd y diwygiad Methodistaidd. Hyd yma yr oedd wedi troi yn hollol o fewn cylchoedd Ymneillduol a gwrth-Eglwysig; ac y mae yn debygol ei fod yn cyfranogi o egwyddorion a rhagfarnau ei bobl. Gwir nad oedd yn meddu argyhoeddiadau cryfion ar bethau crefyddol, ond prin y gellir tybied nad oedd gwrthwynebiad i'r Eglwys Wladol yn deimlad dwfn yn ei fynwes. Cadarnheir hyn i fesur gan un gair a ddefnyddir gan Williams am Howell Harris, offeryn ei droedigaeth, a i dad yn Nghrist. Yn y penill a ddifynwyd genym o'r blaen i amcan arall, dywed Williams: —

"Trwy 'foddion anhebygol'
 Y denwyd fi, oedd ffol;
Mewn amser anhebygol
 I alw ar dy ol."

Nis gwyddom beth a wnai Harris yn "foddion anhebygol" yn meddwl Williams, os nad ei fod yn Eglwyswr zêlog, tra yr oedd yntau yn Ymneillduwr o ddygiad i fynu, os nad o argyhoeddiad hefyd. Hyn yn benaf, feddyliem, yn nghyd a ieuenctid y pregethwr, a gyfansoddent yr anhebygrwydd hwn. Ond fe ddaeth yr anhebygol i ben, a thrwy hyny daeth Williams yn sydyn o fewn cylch dylanwad gwŷr Eglwysig, ac fe'i dygwyd ymaith o'i gysylltiadau cyntefig, megys gan lifeiriant. Beuir Williams am fyned i'r Eglwys Wladol, ac nis gellir edrych ar yr hyn a wnaeth yn amgen na chamgymeriad; ond fe gywirodd y camgymeriad a wnaeth mewn byr amser. Wedi iddo ddyfod i gyfathrach Howell Harris a Daniel Rowland, yr oedd ei fynediad i'r Eglwys Sefydledig yn hollol naturiol, a braidd yn anocheladwy. Credent hwy mai angen mawr yr oes hono oedd cael dynion o ddysg a doniau i'r offeiriadaeth, pobl fyddai yn llosgi o gariad at y Gwaredwr, ac o dosturi at gyflwr y wlad. Gwelent hwy yn Williams lestr etholedig Duw, a'i le priodol ef, yn eu tyb hwy, oedd yn yr offeiriadaeth. A thra yr oedd ei gymdeithion newydd yn ei wasgu i'r Eglwys, nid ymddengys fod yr un dylanwad cyferbyniol yn gweithredu arno. Nid oedd dim yn attyniadol yn yr eglwys y magwyd ef ynddi, i beri iddo ymgeisio am y weinidogaeth o'i mewn hi. Yr oedd yno dri o weinidogion yn barod, a dau o'r tri yn pregethu athrawiaethau a ystyriai efe yn heresi ofnadwy. Yn anffodus, nis gwelodd Williams Ymneillduaeth erioed ond yn y ffurf fwyaf anhawddgar. Yn rhyfela a'u gilydd y gadawsai efe eglwys Cefnarthen, dair neu bedair blynedd yn ol, ar ei fynediad i'r athrofa, ac yr oedd y rhyfel yn parhau, a'r frwydr yn boethach, pan y dychwelodd. Dan yr amgylchiadau, pa ryfedd iddo fyned i'r Eglwys Sefydledig? Y tufewn i'w muriau hi yn benaf yr oedd arweinyddion y Methodistiaid, pobl ag yr oedd ef yn awr yn barod i'w canlyn i'r lle bynag yr elent. Iddo ef, yr oedd y deffroad Methodistaidd yn ymddangos yn ardderchog a gogoneddus. Yn mhen blynyddoedd, y mae Williams yn desgrifio cychwyniad Methodistiaeth yn yr ymadroddion cyffrous canlynol: *"Ond O, hyfryd foreu! dysgleiriodd yr Haul ar Gymru; fe gododd Duw offerynau yma o'r llwch, ac a'u gosododd i eistedd gyda phendefigion ei bobl; fe daflwyd y rhwyd i'r môr, ac fe ddaeth allan bob rhyw o bysgod—mawr a bach. Chwe' sir yn y Deheu a gofleidiodd y gair yn foreu; fe glywyd y ceiliog yn canu; fe ddihunodd hen wylwyr ag oedd wedi bod yn cysgu; pregethwyd bob Sul yn yr eglwysi; deffrodd yr Ymneillduwyr; fe ganwyd iddynt alarnad, a rhai o honynt a alarodd; fe ganwyd iddynt bibell, a rhai a ddawnsiodd."

Yn mha le y bu efe yn darpar ar gyfer arholiad yr esgob nis gwyddom. Yr oedd yn ysgolhaig da yn barod; a thebygol ddarfod iddo gael pob cymhorth ag ydoedd yn eisiau arno gan ryw ŵr Eglwysig a drigau gerllaw. Fel hyn y dywed Mr. Charles am ei urddiad: "Urddwyd ef yn ddiacon yn yr Eglwys Sefydledig A.D. 1740, gan Nicholas Claget, Esgob Tyddewi, i guwradiaeth Llanwrtyd, a Llanddewi-Abergwesyn. Gwasanaethodd ei guwradiaeth am dair blynedd, a phregethodd, gydag ond ychydig lwyddiant, i bobl dywyll ac anfoesol iawn. Dywedai, gyda llawer o ddifyrwch, iddo gael ei roddi yn Llys yr Esgob am bedwar-ar-bymtheg o bechodau y bu yn euog o honynt: sef, am beidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio, a pheidio darllen rhai rhanau o'r gwasanaeth, a'r cyffelyb bethau bychain, dibwys." Dywed yn mhellach: "Mai y Parch. G. Whitefield, yn benaf, a'i hanogodd i adael yr Eglwys, a myned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Yr oedd yn gwasanaethu ei eglwysi o Gefncoed, deuddeg milldir o leiaf o Landdewi-Abergwesyn. Yn y dyddiau hyny yr oedd yn cadw gweddi deuluaidd dair gwaith yn y dydd, ac yr oedd ei holl ymarweddiad yn syml, ac yn dduwiol yn gyfatebol i hyny. Ni chafodd erioed ei gyflawn urddau, fel y dywedant; pallodd yr esgob ei urddo, o herwydd ei afreolaeth yn pregethu yn mhob man, heblaw yn yr eglwysi, yn y plwyfau yr oedd yn gweinidogaethu ynddynt. †Gwedi gadael, neu gael ei droi allan, nis gwn yn iawn pa un, o'r Eglwys Sefydledig, daeth yn gydnabyddus a'r Parch. Daniel Rowland, yr hwn a fyddai yn dyfod yn achlysurol i bregethu i gapel Ystrad-ffin, yr hwn oedd yn sefyll yn y plwyf yr oedd yn byw ynddo." Y mae amryw bethau yn y paragraph hwn nad

* *Ateb Philo Evangelius.*

† Gadael yr Eglwys Wladol o'i wirfodd a wnaeth efe, ar gais ei frodyr yn Sasiwn Watford; ac efe oedd y cyntaf o'r Tadau a'i gadawodd hi.

ydynt yn fanwl gywir. Sicr ydyw fod Williams yn gydnabyddus a Daniel Rowland yn mhell cyn iddo adael yr Eglwys, a chyn iddo ymuno a hi. Yr oedd Daniel Rowland yn pregethu yn Ystrad-ffin yn dra chynarol. Daethai Rowland a Harris i gydnabyddiaeth a'u gilydd flwyddyn cyn troedigaeth Williams, ac y mae yn rhesymol meddwl pan ddarfu i Williams ddyfod i gydnabyddiaeth a'r naill, na fu yn hir cyn dyfod yn gydnabyddus a'r llall. Y cyfeiriadau cyntaf a gawsom at Williams yn llythyrau y Diwygwyr Cymreig ydynt y rhai canlynol, pa rai a argraffwyd yn y *Weekly History*. Mewn llythyr dyddiedig Hydref 20, 1742, cawn Daniel Rowland yn ysgrifenu at Howell Harris fel hyn:

"Yr wyf yn clywed fod y brawd Williams wedi ei roddi yn Nghwrt yr Esgob, am nad yw yn byw yn ei blwyf."

A chawn gyfeiriad arall ato yn niwedd yr un flwyddyn, mewn llythyr oddiwrth Howell Harris at y brawd H——t.

"Ymadewais y boreu hyn a'r brawd W——ms, cuwrad Ll——d. Gyda yntau hefyd y mae gallu rhyfeddol. Y mae yn llosgi o gariad a zêl."


Mewn llythyr oddiwrth Evan Williams, cynghorwr, dyddiedig Awst 29, 1743, dywedir:

"Yr wyf newydd ddychwelyd ar ol bod yn gwrando ar y nodedig ŵr Duw, Mr. Rowland, pellder o ugain milldir. Rhyfeddol oedd gallu Mr. Rowland ar y Sabbath, a Mr. Williams ar y Sadwrn cyn hyny, ac yn y seiat. Dymuna Mr. Williams ar i mi hysbysu y brawd Harris fod yr esgob wedi gwrthod iddo ei gyflawn urddau, am ei fod yn Fethodist, er fod ganddo lythyrau cymeradwyol oddiwrth amryw o offeiriaid, ac oddiwrth ei blwyfolion ei hun. Fe anghymeradwyd fod y plwyfolion yn datgan eu cymeradwyaeth o hono."

Yn olaf, ysgrifena y brawd Thomas Jones at Howell Harris, Awst 30, 1743:

"Am un o'r gloch yr oeddwn yn Llangamarch, lle yr oedd seiat newydd gael ei sefydlu. Erbyn chwech yn yr hwyr, daethum i Bronydd, pan y cyfarfyddais a'r anwyl frawd Williams. Gwrthododd bregethu. Wedi yr odfa, cawsom seiat felus o ugain o rifedi."

Dengys y dyfyniadau uchod fod Williams yn gwbl hysbys i weinidogion a chynghorwyr cyntaf y diwygiad, a'i fod yn cael ei gydnabod yn gydweithiwr a hwy tra yr oedd yn yr Eglwys Sefydledig. Nid ymddengys i'w gysylltiad ef a'r Eglwys fod o nemawr gwasanaeth i'r diwygiad, nac o ddim mantais personol iddo ef ei hun. Pe buasai wedi llwyddo i gael llawn urddau Eglwysig, tra yn y sefydliad hwnw, diau y buasai ei barch a'i gyfleusderau i wneyd daioni yn helaethach. Rhoddid bri mawr ar urddau yr Eglwys Wladol yn yr oes hono gan y Methodistiaid, ac yr oeddynt yn bethau a fawr chwenychid. Pobl yn meddu urddau yn unig a bregethent yn yr eglwysi, ac oddiar y tir cysegredig. Ganddynt hwy yn unig yr oedd hawl i weinyddu y sacramentau. Ystyrid offeiriad yn ŵr o anrhydedd digyffelyb, perchid ef, telid gwarogaeth iddo, ac yr oedd ei awdurdod yn mron yn ddiderfyn. Methodd Williams gyrhaedd yr anrhydedd hon, a methodd yn unig o ddiffyg arafwch a phwyll. Yn lle ymgadw o fewn y terfynau gosodedig, ymdaflodd i weithgarwch, gan ddilyn esiampl Howell Harris, ac enynodd ddigofaint yr offeiriaid tuag ato, a chauwyd ei lwybr ef i ddyrchafiad ac anrhydedd Eglwysig a drain. Cyhuddid ef, meddai ef ei hun, o dori cynifer a phedwar-ar-bymtheg o ddeddfau yr Eglwys yn ystod tair blynedd o amser. Pechodau bychain, dibwys, y galwai Mr. Charles hwynt, ond pechodau ysgeler a rhyfygus iawn yr ystyriai yr awdurdodau Eglwysig hwynt. Cafodd ddwyn ei benyd, a chanlyniad ei weithredoedd; a gorfu iddo fod yn ŵr syml, heb lawn urddau am ei holl fywyd. Ymddengys fod Williams ei hun yn gosod llawn bris ar urddau Eglwysig, ac iddo gael ei siomi yn fawr pan y nacäwyd hwynt iddo. Fel yma y dywed Mr. Charles: "Nid oedd (Williams) yn cymeradwyo yr afreolaeth hwn, yn ei feddwl, dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynddo yr oedd yn ei barnu, ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwyllog; ond geill Duw ddwyn ei amcanion i ben trwy ffolineb dynion; a hwyrach mai fel yr oedd, yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni ei amcanion doeth ef." Yn ein tyb ni, y mae brawddeg Mr. Charles wedi ei cham-ddeall a'i cham-esbonio gan ysgrifenwyr diweddar. Addefwn ei bod yn amwys, ond nid yw yn anhawdd iawn i'w deongli. Beth oedd yr afreolaeth ag yr oedd Williams yn ei anghymeradwyo ynddo ei hun? Nid ei fynediad i'r Eglwys Wladol, fel y tybia rhai, na'i ymadawiad o honi, fel y barna eraill. Y mae Mr. Charles yn deffinio yr "afreolaeth" yn ddigon clir, sef "pregethu yn mhob


Hymn y
O arglwydd dwol fi yn llosc a gwan
yn ffoily Dringo r byd yr lan
am nofio yn llw yr ganan lan f
hob allol synnyd fawr ymlaeh
gynt Credais Cad fy Enaid cu
y fod yn fran yn Cwmgworr fru f
ag ddo hob foddianu r wlad
a brunodd Jesu yn ai waed
gwold pechod ynwr o bob gradd
yn fawr y llid hob gael y llad
Sydd bron yn llwyr i'ai fenaid llaith f
aman Cariad Dyw ai waith
O Dofro Cod fy Enaid cu
na ofna llw Elumon lu
Er maint yw grym uffornol grym
gorchfuga gwaed yr Jesu gwyw
au wyddai r Jesu yn bod byd
Mae pechod gad fe ynwi gid
ai fryd odd lawn trwy uffern lu
ym Dwyn y fryn Carsalem fru
mi grida hob baid am hyn trwy [illegible] f
Mad Cyfaill Da Caf wolod Dyw
y Dwg fy nhad fi y benfyn hadl
Er Salan wan ~~wael~~ ai Eraylwaith
mi gofia r addowidion gwyw
a wnaeth of gynt ym henwid byw

PHOTOGRAPH O LAWYSGRIF WILLIAMS YN EI IEUENCTYD.

[*Allan o ysgriflyfr y Bardd yn meddiant ei orwyres, Mrs. Jones, priod y Parch. Josiah Jones, Machynlleth.*]

man heblaw yn yr eglwysi, yn y plwyfau yr oedd yn gweinidogaethu ynddynt."

A ydym ynte yn barod i gydnabod ddarfod i Williams ddatgan ei edifeirwch am fyned i bregethu i'r prif-ffyrdd a'r caeau? Nac ydym, yn bendant. Ond yr ydym ar dystiolaeth Mr. Charles yn barod i gredu ddarfod iddo ddangos ei edifeirwch am beidio cyfyngu ei hun *dros amser ei guwradiaeth* o fewn ei blwyf. Collodd, drwy wneyd fel y gwnaeth, sefyllfa o anrhydedd yn mhlith ei frodyr am ei holl fywyd, a chollodd yr eglwysi ei wasanaeth yn ngweinyddiad yr ordinhadau hefyd. Bu hyn yn fwy o anfantais iddo, hwyrach, nag ydym yn ei feddwl. Yr ydym ni yn ystyried William Williams yn gydystâd a Daniel Rowland, Howell Davies, William Davies, Castellnedd, ac eraill, ond nid ydoedd felly. Pregethwr yn unig oedd efe, tra yr oeddynt hwy yn weinidogion ordeiniedig, ac yn meddu rhagorfreintiau eu swydd. Medrai yr holl offeiriaid Methodistaidd gymeryd lle Daniel Rowland ar Sul y cymundeb yn Llangeitho, pan y byddai galwad am hyny; ond nis meiddiai Williams wneyd felly, er ei fod yn bresenol fynychaf. Yr oedd yn *cynorthwyo* ar y cymundeb, ond nid yn *gweinyddu*. Bu yn llanw lle ail-raddol felly yn Llangeitho, yn agos i haner cant o flynyddoedd. Bu yn pregethu hefyd am bymtheg-mlynedd-ar-hugain, unwaith y mis, yn nghapel Llanlluan, lle ag y gweinyddid yr ordinhadau ynddo. Ar Sul y cymundeb yr oedd yn rhaid iddo ef i rhoddi lle i ryw ŵr ordeiniedig ag a fyddai o bosibl yn fyrach ei ddawn, ac yn llai ei gymhwysderau nag ef ei hun. Y mae yn naturiol i feddwl fod Williams yn aml yn teimlo y diraddiad hwn; ac y mae yn hollol gredadwy ddarfod iddo yn mhrydnawn ei ddydd gydnabod wrth Mr. Charles ei fod wedi gweithredu yn anoeth a byrbwyll, pan yn guwrad yn Llanwrtyd. Ond y mae ddarfod iddo ddatgan edifeirwch am bregethu mewn lleoedd anghysegredig, *ond dan yr amgylchiadau yr oedd efe ynddynt yn ystod ei guwradiaeth*, yn hollol anhygoel. Y mae ei eiriau a'i weithredoedd dros ei holl fywyd yn dangos yn amgen.

Blwyddyn nodedig iawn yn hanes Williams ydyw 1743, blwyddyn cynhaliad Cymdeithasfa gyntaf y Cyfundeb. Yn y Gymdeithasfa hono, a gynhaliwyd yn Watford, ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, y cyfarfyddodd efe gyntaf a'r enwog George Whitefield. Hwyrach mai yn hon y bu efe yn anog Williams i adael yr Eglwys Wladol, a myned i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Os felly bu, rhaid mai mewn ymddiddan cyfrinachol y gwnaed hyny, o herwydd nid oes yn yr adroddiad grybwylliad am hyn, hyd yr ail Gymdeithasfa, a gynhaliwyd yn yr un lle ar y 6ed a'r 7fed o Ebrill. Yno pasiwyd penderfyniad "Fod y Parchedig Mr. Williams i adael ei guwradiaeth, a bod yn gynorthwywr i'r Parchedig Mr. Daniel Rowland." Yn ychwanegol at hyn, penodwyd ef yn Gymedrolwr ar un o'r pump dosbarth y rhanwyd y wlad iddynt, sef Siroedd Maesyfed a Threfaldwyn; a gosodwyd yr enwog Richard Tibbot yn arolygwr dano. Mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd rhwng y ddwy Sasiwn yn Watford, sef ar y 3ydd o Chwefror, yn nhŷ Jeffrey Dafydd, o'r Rhiwiau, yn mhlwyf Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, gosodwyd gorchwyl pwysig arall ar ei ysgwyddau ef. Yr oedd yn bresenol yn y cyfarfod hwn, Howell Harris, Daniel Rowland, William Williams, a dau neu dri o gynghorwyr; a dywed Mr. Charles, "er nad oedd ond cyfarfod bychan o rhan nifer, ei fod wedi ei anrhydeddu yn fawr â phresenoldeb yr Arglwydd. Ar yr ail ddydd, darfu i Howell Harris anog pawb ag oedd yno i gyfansoddi ychydig benillion o bryddyddiaeth erbyn y cyfarfod nesaf, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi dawn pryddyddiaeth i un o honynt, a phwy oedd hwnw. Felly y gwnaethant; ac wedi iddynt i gyd ddarllen eu cyfansoddiadau, penderfynwyd yn gydun mai Mr. William Williams a gafodd y ddawn odidog hon, ac anogodd Mr. Harris, a phawb eraill, iddo ei harferyd er gogoniant Duw, a lles ei eglwys." Gwelir felly iddo gael ei apwyntio i wasanaeth fel efengylydd ac fel bardd, yn agos iawn i'r un amser. Sut y cyflawnodd efe y dyledswyddau hyn? Cawn weled yn y man. Edrychwn arno yn gyntaf fel efengylydd. Gwnaed ef yn brif swyddog ar eglwysi Maesyfed a Threfaldwyn, a thrwy ei fod yn gynorthwywr i Daniel Rowland, ar yr hwn yr oedd gofal rhan uchaf Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin, yr oedd rhan o ofal y siroedd hyny hefyd yn gorphwys arno ef. Cyflawnodd ddyledswyddau ei swydd gyda'r fath ymroddiad a zêl ag yr oedd yn bosibl i neb wneyd, ac eithrio Howell Harris ei hun. Gwnai, nid yn unig gadw golwg gyffredinol ar eglwysi ei ofal, ond gwnai i fynu ddiffygion y cynghorwyr oedd dano, gan ymweled a'r eglwysi ei hun, a danfon adroddiadau

o'i sefyllfa i'r Cymdeithasfaoedd. Cawn engraifft o hyn yn hanes eglwysi Llangwyryfon, Lledrod, Rhydfendigaid, &c., yn Sir Aberteifi. Yr oedd arholygiad yr eglwysi hyn yn gorphwys ar Morgan Hughes. Yn rhyw sut, methodd gyflawni ei ymddiriedaeth, ac ymwelodd Williams a'r eglwysi, ac y mae dau adroddiad a ddanfonodd Williams am danynt yn awr ar gael a chadw, yn llawysgrifau Williams ei hun, yn Nhrefecca.* Y mae y cyntaf o honynt yn rhy faith i'w osod i fewn yma. Rhydd adroddiad manwl am y pump eglwys ar wahan, a diwedda trwy ddweyd: "Yr wyf fi fy hun yn ymweled a hwy unwaith yn y chwech wythnos, ac yn cadw cwrdd eglwysig gyda hwy, fel y gwypwyf eu syniadau a'u sefyllfa. Teimlwyf gariad ac ymlyniad atynt, ac felly hwythau tuag ataf finau. Y mae derbyniad caredig i'w cynghorwr anghyoedd yn gyffredinol yn eu mysg, a da ganddynt gael eu holi ganddo ef, a chenyf finau. Yr wyf yn sylwi mai y fath a fydd y cynghorwr, pa un ai zêlog, siriol, a ffyddlawn, ai ynte claiar, &c., y cyfryw hefyd a fydd y bobl o dan ei ofal." Ceir adroddiad byr arall ganddo am yr un eglwysi, dyddiedig Mehefin 29ain, 1745, yn yr hwn y dywed: "Nid oes gyda mi fawr o hanes neillduol am danynt, oddiwrth yr hyn a gawsoch o'r blaen. Y maent yn para i ddyfal lynu wrth yr Arglwydd. Y rhan fwyaf o honynt sydd yn cynyddu mewn adnabyddiaeth o hono. Mae arnaf fi a hwythau ryw faint o flinder, am ein bod mewn eisiau o gynghorwyr preifat i edrych atynt yn wythnosol. Y rhai a fynant hwy eu cael, nis gallant ddyfod; a rhai a all ddyfod, nis derbyniant. Ond yr wyf yn gobeithio y caiff hyn ei gyflawni." Dengys hyn ei fod yn barod at bob gorchwyl, ac nad ystyriai yr un ddyledswydd yn rhy ddistadl iddo ef ei hun ei chyflawni.

Y mae olrhain teithiau a llafur Williams am haner cant o flynyddoedd yn anmhosibl. Nid ysgrifenwyd hwynt ond yn llyfr bywyd yr Oen. Fel hyn y dywed awdwr † *Methodistiaeth Cymru* am dano: "Mae yr hen ganiedydd peraidd, Williams, Pantycelyn, yn ei hen ddyddiau, pan yr oedd yn 73 mlwydd oed, ac yn tynu yn agos i derfyn ei oes, yn dweyd: 'Mae fy nyddiau yn tynu tua'r terfyn; y mae fy ngyrfa ymron wedi ei rhedeg. Cefais oes faith; yr wyf yn awr yn 73 mlwydd oed. Yr wyf wedi bod yn pregethu am y 43 ‡ mlynedd diweddaf, ac wedi teithio bob wythnos at eu gilydd, rhwng deugain a deg-a-deugain o filldiroedd, dros yr holl amser hyny. Y gwanwyn diweddaf, mi a deithiais bedair neu bum' waith drwy Ddeheudir Cymru; pob taith yn para pythefnos o amser, ac yn 200 milldir o hyd.'

"Gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl am ei deithiau, pan y dywedir iddo deithio digon o filldiroedd i gyrhaedd bedair gwaith o amgylch y ddaear,—nid llawer llai na chan' mil o filldiroedd! O ba faint o ddefnydd y gellir meddwl y bu y gŵr hwn yn ei oes i Gymru dywell? Pa sawl pregeth a draddododd? Pa sawl cyfarfod eglwysig a gadwodd? Ac yn mha nifer o gyfarfodydd cyhoeddus y bu? A phan y galwn i gof fywiogrwydd ei yspryd, tanbeidrwydd seraphaidd ei feddyliau, a'i ddibyniad cyson ar Dduw am ei fendith, pa swm o ddaioni, gan ei faint, ni chwblhaodd? Sicr yw ddarfod i'r cwmwl hwn, mewn ysbaid 43 o flynyddoedd, ddefnynu llawer o gawodydd bendithiol ar diroedd cras y Dywysogaeth; ïe, y mae efe wedi marw yn llefaru eto yn ei emynau bywiog, a'i gyfansoddiadau barddonol; a thrwyddynt hwy, y mae yn parhau hyd heddyw i adeiladu a chysuro plant Duw, yn filoedd ar filoedd ar hyd Cymru oll, ac yn llawer o drefydd Lloegr, ïe, yn nhir y Gorllewin bell; a diau genyf y pery ei waith barddonol yn ei flas a'i ddefnyddioldeb am oesoedd eto i ddyfod."

Awgrymir weithiau, gan rai pobl, nad oedd Williams ond pregethwr cyffredin, a bod ei nerth yn gorwedd mewn cyfeiriadau eraill. Nid hyn oedd syniad y bobl oeddynt yn cydoesi ag ef. Dyrchafent hwy ei

* Gwel *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii., tudal. 27.

† Cyf. i., tudal. 206.

‡ Mae yma gamargraff. Pan yr oedd Williams yn 73 oed, yr oedd wedi bod yn pregethu am 50 mlynedd, ac nid am 43. Y mae y dyfyniad Seisonig, a geir yn nechreu yr ysgrif hon, yr un mor wallus. Felly y ceir y cyfrif gan y Parchn. J. Hughes a N. Cynhafal Jones. Ceir y cyfrif yn gywir yn y copi o lythyr Williams at y Parch. T. Charles, fel y mae yn *Yr Arweinydd*, cyf. v., tudal. 180. Dyddiad y llythyr yw Ionawr 1af, 1791. Dywed yno fel yma: "Deallwch, er fy mod wedi gwella rhyw faint o'r poen dirfawr fu arnaf, nid wy' ond gwan a llesg eto, ac yn analluog iawn, ac nid oes geni fawr gobaith gallu dyfod allan fawr neu ddim byth mwy, am fy mod yn 73 oed; ond meddyliwch fath siomedigaeth i ddyn ag oedd yn trafaelio agos i dair mil o filldiroedd bob blwyddyn tros 50 o flynyddau, fod yn awr heb drafeilio dim rhagor na 4 o droedfeddi yn y dydd, sef o'r tân i'r gwely."

alluoedd pregethwrol ef, a rhoddent iddo y lle mwyaf parchus yn nghyfarfodydd pregethu y Cymdeithasfaoedd. Yr oedd yn aml yn pregethu o flaen Daniel Rowland. Nid oedd i'w gystadlu ag efe fel pregethwr, ac y mae yn bosibl nad oedd mor boblogaidd a Howell Harris; ond yn sicr nid oedd neb arall yn rhagori arno yn hyn. Dywedai Howell Harris fod ganddo "allu rhyfeddol," ac am ei allu pregethwrol yr oedd yn siarad. Dyma fel y dywed Mr. Charles am dano fel pregethwr: "Yr oedd ei ddoniau areithyddol yn helaeth, ei bregethau yn efengylaidd, yn brofiadol, ac yn felus; yn chwilio i mewn i au athrawiaethau a gau brofiadau, ac yn gwahaniaethu yn fanwl rhwng gau a gwir yspryd. Yr oedd ei ddychymyg yn gryf, ei lygad yn graff a threiddgar, a llawer o ddylanwadau nefol ar ei yspryd wrth weinidogaethu yn gyhoeddus, ac yn ei ymddiddanion a dynion am fater eu heneidiau yn y cymdeithasau neillduol." Yr oedd yn bur ymddibynol ar y gwynt nefol a gaffai wrth bregethu, ac fe ddywedir ddarfod iddo ddweyd wrth ei gyfaill, y Parch. Peter Williams: "Ti elli di, Peter, bregethu pe byddai yr Yspryd Glân yn Ffrainc; ond ni allaf fi wneyd dim o honi heb iddo fod wrth fy mhenelin i." Y mae y Parch. Thomas Jones, o Ddinbych, yn ei ddyrchafu fel duwinydd a phregethwr. Ar ol canmol Daniel Rowland, ysgrifena:—

* "Ond ai rhaid i Williams hefyd,
Ar ei ol yn fuan ddiengyd?
Oedd un ddyrnod ddim yn ddigon,
I geryddu plant afradlon?
Dau arweinydd eon mawrddysg
Yn ein gado yn y terfysg!
Llon eu gwedd, y'nt mewn hedd, tudraw i'r hedd llychllyd;
Gweiniaid yu yr helbul dybryd,
Ar ei hol yn ngwlad yr adfyd.

Doniau ar ei ben ei hunan
Oedd gan Williams, fywiog, wiwlan;
Medrus, manwl mewn athrawiaeth,
Egwyddorion a dysgyblaeth;
Ca'dd ei ddysgu i driu yn gymhwys
Bob rhyw gyflwr yn yr eglwys,
Cryf a gwan, yn mhob man, a wyddan', lle teithiai,
Llwybrau ceinion a ddangosai,
Cysur, maeth i'r gwan a roddai.

Cadarn ydoedd fel Duwinydd;
Nid anfuddiol fel Hanesydd;
I'r serchiadau ac i'r deall,
Taflai ffrwythau'r Ganaan ddiball;
At y galon, Balm o Gilead,
Clwyfau'r Oeu, a'r cyflawn bryniad,
Llawn iachad, rhydd a rhad, i'r anfad a'r dinerth,
Yn yr uuig ddwyfol Aberth,
A wnaeth IAWN am feiau anferth.

* * * *

O! 'r mawr golled fydd am dano,
Athraw doeth, wyliedydd effro!
Gras a deall, a hir brofiad,
Oeddynt ynddo mewn cysylltiad;
Amryw ffyrdd yr oedd ei ddefnydd
Yn dra amlwg 'r hyd y gwledydd;
Eto grym, angau llym, oedd lylym, ddiarbed,
Yn ei awr o'u mysg cai fyned;
Aeth o'r byd yn d'wysen addfed!"

Cyffelyb hefyd yw desgrifiad Jacob Jones, o'r Hendre, o hono:—

† "Nid oedd lle i ddysgwyl iddo
Aros yma ddim yn hir;
'Roedd e' beunydd yn addfedu
Tua'r nefol sanctaidd dir;
Wedi rhoddi fyny'n hollol
Chwilio naturiaethau'r llawr,
Dyna swm ei holl bregethau,
Oedd dyrchafu'r enw mawr!

Dewch i'w wrando yn pregethu
Yn ei ddyddiau ola' i gyd,
'I lygaid yn ffynonau dagrau
Wrth ganmol y Gwaredwr drud!
Nid am *system* Isaac Newton,
Pliny hen, na Ptolemy,
Mae e'n son uwchben y werin,
Ond am fynydd Calfari.


Pan ddoi Williams i'r *soseiet*,
Hynod yno oedd ei ddawn;
Fe olrheiniai droion calon,
A'i dichellion oll yn llawn;
Nid oedd rhaid ond agor genau,
Chwiliai fe'r cyflyrau ma's;
Gwahaniaethai rhwng y rhagrith
Ac effeithiau dwyfol râs.

'Roedd e'n bercheu goleu cyflym,
Ac fe leflai at y nôd,
Y llygad dû a'r fraich anwyla',
Ac ni fethodd byth mo'i dro'd;
Ond i'r golwg doi a'r eiluu,
Fe ddynoethai'r gwraidd yn llwyr,
Nes bai hen galonau celyd
'N toddi'n uuion fel y cwyr."

Amlwg yw na chyfrifai y Parchedigion Thomas Charles, Thomas Jones, na Sïon Lleyn a'u cyffelyb,—dynion o archwaeth uchel,—mo Williams yn bregethwr cyffredin. Ymddengys mai tybiaeth ddiweddar ydyw hon, ac nad oes iddi sail hanesyddol. Sut ynte y cododd syniad o'r fath? Y mae yr ateb i'w gael mewn sylw o eiddo y diweddar Dr. Lewis Edwards, o'r Bala. Pan yn traethu ar Williams fel duwinydd, dywed, "fod yn anhawdd ein cael i weled mwy nag un rhagoriaeth yn yr un person, felly yn ei achos ef, y mae dysgleirdeb ei

* *Hen Farwnadau*, gan y Parch. T. Levi.

† *Ibid.*


Dy glwyfau yw fy Rhan,
Fy nhirion Iesu da,
Y Rhain yw Nerth fy enaid gwan,
Y rhain am llwyr Iacha;
Or saled yw fy Mrych,
Or tlotted wyf yn awr,
Fy llawnder a gaf o llawnder Duw,
Am gweled fel y wawr.

Mi a brofais Dduw yn dda
Fy nhirion raslon Dad
Yn maddeu im fy meiau mawr
Yn rhwydd o'i gariad rhad,
Fe am seliodd i mewn hedd
O Rhyfedd iw ei Ras
Fe am bwydodd i a'r manna pur
Mewn gwledd o hyfryd flas.

PHOTOGRAPH O LAWYSGRIF WILLIAMS YN EI IEUENCTYD.

[*Yn dangos yr Hymnau wedi eu rhanu yn benillion, a'u hatalnodi. Allan o ysgriflyfr Mrs. Jones, Machynlleth.*]

farddoniaeth yn tueddu i guddio o'r golwg ei fawredd fel duwinydd." Y mae y bardd yn cysgodi y duwinydd, ac yn cysgodi y pregethwr hefyd. Eto cawn ei fod yn meddu ar gymhwysderau pregethwr o'r dosbarth blaenaf. Yr oedd ei ddoniau areithyddol yn helaeth, ei ddysg a'i wybodaeth yn eang, ei ddychymyg yn gryf, ei yspryd yn wresog, a'i barodrwydd dawn yn anarferol o gyflawn. Nis gallasai gŵr yn meddu y rhagoriaethau hyn fod yn bregethwr cyffredin. Meddai Williams hefyd gyflawnder o ffraethineb ac arabedd, ond nid ymddengys ei fod yn arfer y ddawn beryglus hono yn ei weinidogaeth. Rhoddai efe raff go hir iddi yn aml mewn ymddiddanion personol, ac weithiau yn y seiadau, ond nid un amser yn y pwlpud.

Ond er ein bod yn credu fod i Williams yn ei ddydd le uchel fel pregethwr, eto y mae yn hysbysol mai yn nghynulliadau y saint—yn y *societies* y byddai ei ddoniau amrywiol yn dyfod i'r golwg fwyaf. Yma yr oedd ei allu ymddiddanol i'w weled mewn llawn weithrediad. Nid oedd ei fath am gadw seiat. Y mae yn anmhosibl i orbrisio ei wasanaeth hirfaith i'r Cyfundeb yn y cyfeiriad pwysig hwn. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu mewn modd arbenig a neillduol iawn a'r ddawn i wahaniaethu ysprydoedd. Adnabyddai ddynion megys wrth reddf, ac yr oedd yn unplyg a gonest yn ei ymwneyd a phawb. Yr oedd hefyd yn hynod am ei allu i orchfygu terfysgoedd, a heddychu pleidiau, a godent weithiau yn erbyn eu gilydd yn yr eglwysi. Danfonid am dano yn aml mewn amgylchiadau o'r fath, ac yr oedd yn rhyfeddol o lwyddianus i adfer heddwch ar ol ei golli. Y mae llawer o engreifftiau o'i wasanaeth yn y cyfeiriadau hyn, wedi eu croniclo yn hanes ein heglwysi. Yr oedd hefyd yn nodedig o wasanaethgar yn nghynadleddau y Cyfarfodydd Misol, a'r Cymdeithasfaoedd, yn enwedig pan fyddai pwnc o athrawiaeth, neu rai o'r heresiau oedd yn blino yr eglwysi gerbron. Yr oedd ei graffder naturiol, a'i wybodaeth eang o athrawiaethau crefydd yn ei hynodi yn mhlith ei frodyr, a gwnaeth ddefnydd mawr o'r doniau arbenig yr oedd Pen mawr yr Eglwys wedi ei ymddiried iddo.

Rhaid i ni bellach droi at ei ysgrifeniadau. Ar yr hyn a ysgrifenodd y mae enwogrwydd Williams yn benaf yn sylfaenedig; yma y gorwedd ar waelod llydan a chadarn. Cafodd ei anog gan ei frodyr, fel y dywedwyd genym, i arfer ei ddoniau prydyddol yn 1743; ond y mae yn amlwg ei fod ef yn cyfansoddi hymnau yn mhell cyn hyny, hwyrach yn fuan ar ol ei argyhoeddiad yn 1738. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf yr ydys wedi dyfod o hyd i hen ysgrif-lyfr o eiddo Williams, yr hwn sydd yn awr yn meddiant Mrs. Jones, priod y Parch. Josiah Jones, Machynlleth, yr hon sydd orwyres i'r bardd. Hwn yn ddiau ydyw ei ysgrif-lyfr cyntaf ef. Y mae yn llyfr golygus, mewn cadwraeth dda, gyda chloriau lledr, a *clasp* pres. Ar y clawr, yn ei ddiwedd, y mae yr unig ddyddiad ag sydd arno, a hwnw yn llawysgrifen yr awdwr, sef *March 25th, 1745.* Mae ynddo o chwech i wyth cant o benillion, wedi eu hysgrifenu yn ddiau yn moreuddydd ei oes. Diau fod y dyddiad sydd ar ddiwedd y llyfr wedi ei ysgrifenu ar ol iddo gael ei orphen, ac nid oedd y bardd y pryd hwnw ond 28ain oed. Cynwysa lafur blynyddoedd, a diau fod y rhan gyntaf o hono wedi ei ysgrifenu yn foreu iawn. Hwyrach fod yr hymnau cyntaf wedi eu cyfansoddi yn agos i'w argyhoeddiad, a'i bod yn ddangoseg o ystâd ei feddwl ef ei hun yn y blynyddoedd cyntaf o'i fywyd crefyddol. Dangosant fod ei deimladau yn bur amrywiol. Y mae yn dechreu gan rodio yn y tywyllwch, yn gweddïo am ymwared, yn gweled gwawr, yn dyfod yn hyderus, ac hyd yn nod yn cyrhaedd sicrwydd, ac yn gofyn am barhad mewn gras. Y mae eilwaith mewn tywyllwch, yn achwyn ar erledigaethau, yn cael golwg ar y Cyfryngwr, yn cael sail eilwaith i hyderu, ac yn gweddïo am sicrwydd gobaith. Nis medrwn gael lle i ychwaneg nag un o'r hymnau dyddorol hyn, a dewisiwn y gyntaf, heb un rheswm arall heblaw mai hi yw y gyntaf yn y llyfr :—

* " Pe gwelswn i cyn myn'd i'm taith,
Mor ddyfned yw ffordd Duw a'i waith,
Anobeithiaswn yn y man
Gyfodi o ddystryw byth i'r lan.

Ond pan y'm galwyd fel Abraham,
Gwnes ufuddhau heb wybod p'am ;
Gan geisio gwel'd dyeithr Dduw,
Ond ffaelu ei ffeindio yn fy myw.

Pe gwelswn ddyn—mi carwn ef—
A ddysgai'r ffordd im' fyn'd i'r nef ;
Rhyw *guide* i'r nef, ei wel'd pe cawn,
Fy enaid fyddai lawen iawn.

Ond och ! sa' draw, ddymuniad gwiw,
A *drusto* i ddyn melldigaid yw ;
Rhaid i ti aros amser Crist,
Er maint dy *hast*, fy enaid trist.

---

* *Gweithiau Williams*, gan y Parch. N. Cynhafal Jones, D.D., cyf. ii, tudal.

* * * *
* * * *

'Rwy'n ffiaidd iawn, 'does fan yn lân,
'Rwy'n gymhwys iawn i fyn'd i'r tân!

Po' fwyaf geisiaf fyn'd i'r lan,
Isclach aiff fy enaid gwan;
Och! brysio raid,—gwel angau glas,
A mi prin gam o'r Aipht i maes!

Cymuno, darllen, gweddïo'r wyf;
'Chwanegu mae rhai'n at fy nghlwyf;
Cyfiawnder, angau, euogrwydd du,
Cytuno maent i'm damnio i!

Yn dra diobaith 'rwyf yn byw,
Heb allu rhoi fy mhwys ar Dduw;
Ac, fel y graig, mae'n nghalon gas,
Och fi! gwae fi! beth wnaf am ras?

'Rwy'n farw fel yr esgyrn sych,
A welsai 'Zeciel gynt trwy ddrych;
Llabyddiwyd fi a'r ddeddfol saeth,
'Does fawr o le im' fyn'd yn waeth.

Chwi, lân eneidiau, peraidd gainc,
Sy'n rhodio oddeutu'r orseddfainc,
P'odd daethoch yma,—traethwch im',
Bydd hyny'n well gen i na dim.

O Moses, Esau—mawr yw'ch bri—
A Daniel, Job,—p'odd daethoch chwi?
Dros flin flynyddoedd buoch, fil,
P'odd darfu i'ch gadw ffordd mor gul?

Chwi sy'n mwynhau'r goleuni glân,
Dewr filwyr Duw, mewn dwr a thân;
P'odd darfu i chwi gonero'r byd,
Pan ddaethoch trwy'r anialwch drud?

Yn awr, caf ateb gan y rhai'n,
Mewn geiriau amlwg, eglur, plaen;
Medd Pedr, Iago, Jude, ac Io'n—
'Daethom trwy ludded mawr a phoen.'

'Yn crynu'n flin y buom ni,'
Medd Moses, 'ar y mynydd du;'
'Minau,' medd Dafydd, 'lawer pryd
Wlychais a'm dagrau'm gwely clyd.'

A! dyma'r ffordd, medd pawb ynghyd,
Sy'n arwain tua'r nefol fyd;
Ffordd gul i'r cnawd, ffordd gyfyng yw,
Sy'n arwain tua thŷ ein Duw.

Unwaith cynygia'i eto i'r nef,
A Duw wrandawo ar fy llef;
O Arglwydd, clyw, a chlyw heb ball,
Daer lefain dy greadur dall.

Rho i mi nerth i fyn'd ymla'n,
Trwy ganol dyfroedd mawr a thân;
Ni thawaf ddim nes caffwyf le
Gyda fy Nuw, o fewn i'r ne'.

Gwerthfawrogir yr hymnau bachgenaidd hyn, yn benaf, am eu bod yn dangos ystad meddwl Williams yn ystod cyfnod ar ei fywyd ag sydd i fesur yn gyfnod tywyll. Cawn yma hefyd olwg ar ei awen yn ei blagur.

Y mae y ffaith ddarfod i Williams gyhoeddi y rhan gyntaf o'r *Aleluia* o fewn blwyddyn i'r amser y cafodd anogaeth ei frodyr i arfer ei ddawn prydyddol, yn dangos ei fod yn bur barod at y gwaith, ac yn awgrymu nad oedd cyfansoddi hymnau yn ddyeithrwaith iddo. Dyma lyfr argraffedig cyntaf Williams. Argraffwyd ef gan Felix Farley, yn Mryste. Daeth allan mewn chwech o ranau: Rhan i. tua dechreu 1744; ail argraffiad o'r unrhyw tua diwedd yr un flwyddyn; Rhan ii. yn 1745; Rhan iii. yn yr un flwyddyn; Rhan iv. yn 1746; Rhan v. yn 1747; a Rhan vi. tua diwedd yr un flwyddyn. Tybid, hyd yn ddiweddar, na chyhoeddwyd y rhanau uchod yn un llyfr hyd y flwyddyn 1758. Gelwid yr argraffiad hwnw yn "Drydydd Argraffiad," * ond y mae yn sicr, bellach, fod argraffiad o hono wedi ei gyhoeddi gan Felix Farley yn y flwyddyn 1749. Gelwid hwn yn "Ail Argraffiad." Teitl yr argraffiad ydyw '*Aleluia*, neu Gasgliad o Hymnau (gan mwyaf) o waith y Parchedig Mr. William Williams." Cymer y "gan mwyaf" i ystyriaeth, mae'n debyg, yr hymnau sydd yn Rhan vi., ag enwau eraill wrthynt.

Ymddengys ddarfod i Williams roddi ei bin ysgrifenu o'r neilldu, am un pedair blynedd, ar ol cyhoeddi y Chweched Ran o'r *Aleluia*, yn niwedd 1747, am fod ganddo fater pur bwysig mewn golwg, sef priodi. Dywed Mr. Charles am ei briodas fel hyn: "Pan oedd yn nghylch deuddeg-ar-hugain, priododd Mary Francis, brodor o Lanfynydd, ac wedi hyny a drigodd yn Llansawel. Bu Miss Francis yn aros gyda y Parch. Griffith Jones, Llanddowror; yr oedd yn ferch synwyrol dduwiol. Yr oedd gofal yr Arglwydd am dano yn ymddangos yn fawr, yn y fath rodd iddo a gwraig gall, brydferth, ddoeth, dduwiol, mwynaidd, a serchog." Gallwn ychwanegu fod Mrs. Williams yn gantores ragorol, ac felly yn medru profi llithrigrwydd yr emynau a gyfansoddid ganddo, cyn eu cyhoeddi. Gan ei bod yn unig ferch ac etifeddes ei thad yr oedd ganddi ran lew o fendithion y bywyd hwn. Enw ei thad ydoedd Mr. Thomas Francis, o Benlan. Daeth Williams yn bur gyfoethog drwy ei etifeddiaeth ei hun, a'r hyn y daeth iddo drwy ei briodas. Bu iddynt ddau o feibion, a phump o ferched. Cododd ei ddau fab i'r offeiriadaeth. Gwnaeth yr ieuangaf, John, adael yr Eglwys, ac ymuno a'r Methodistiaid; ond cadwodd yr hynaf, William, yn yr Eglwys Wladol i'r diwedd.

* Llythyr oddiwrth y Parch. Owen Jones, M.A., Llansantffraid.

Bellach, rhaid i ni ddychwelyd at weithiau llenyddol Williams. Mae yn llwyr anmhosibl, o fewn ein terfynau ni, i fanylu ar amseriad llyfrau Williams. Rhaid i ni foddloni ar gyfeirio y darllenydd am bob manylion at *Weithiau Williams, Pantycelyn*, gan y Parch. N. Cynhafal Jones, D.D., llyfr ag a bery yn gof-golofn oesol i'r bardd, ac yn anrhydedd arosol ar y golygydd llafurus a galluog. Rhoddwn yn y fan hon restr o'i lyfrau emynawl ef. Dilynwyd yr *Aleluia* gan *Caniadau y rhai sydd ar y mor o wydr*, *i Frenin y Saint*; *Ffarwel Weledig*: *Gloria in Excelsis*; *Rhai Hymnau Newyddion*, ynghyd a dau lyfr o emynau Seisonig dan yr enwau, *Gloria in Excelsis*, a *Hosannah to the Son of David*. Cyfansoddiadau barddonol eraill Williams ydynt y rhai canlynol: *Golwg ar Deyrnas Crist*; *Caniadau Duwiol*; *Theomemphus*: *Tair-ar-ddeg-ar-hugain o Farwnadau*; *Myfyrdodau ar Angau*: *Llyfr Amrywioldeb*: *Cerdd Newydd ar Briodas*; a *Gweddillion Awenyddol*.

Wele eto restr o'r gweithiau rhyddiaethol a gyhoeddwyd ganddo: *Sicrwydd Ffydd* (cyfieithiad o bregeth Erskine); *Pantheologia, neu Hanes Holl Grefyddau y Byd*: *Llythyr Martha Philopur*: *Ateb Philo Evangelius*; *Hanes Llwyddiant yr Efengyl* (cyfieithiad); *Crocodil Afon yr Aipht*: *Y Tri Wyr o Sodom*; *Aurora Borealis*: *Antinomiaeth*; *Drws Society Profiad*; *Cyfarwyddwr Priodas*: *Hanes Troedigaeth y Parch. Thomas Goodwin, D.D.*; *Imanuel*; *Ymddiddan rhwng Philalethes ac Eusebes, mewn perthynas i wir Gristionogrwydd.*

Pan ystyriom fod Williams yn teithio o gwmpas pump-a-deugain o filldiroedd bob wythnos trwy gydol ei oes, ac yn pregethu ac yn cadw seiadau yn ddidor, ymddengys y gwaith llenyddol a gyflawnodd yn nemawr llai na gwyrth. Cyrhaedda ei emynau y nifer o 916, a'r penillion dros bedair mil. Y mae ei ddwy brif gân, *Golwg ar Deyrnas Crist*, a'i *Theomemphus*, yn cynwys bob un dros bum' mil o linellau, ac y mae amryw o'i ganiadau eraill yn gyfansoddiadau meithion. Ei brif waith rhyddiaethol ydyw ei *Pantheologia, sef Hanes Holl Grefyddau y Byd*. Rhed athrylith Williams drwy ei holl weithiau, ac y mae ei ysgrifeniadau rhyddieithol yn dwyn yr un nodweddau a'i gyfansoddiadau barddonol. Yr oedd meddwl Williams yn rhyfeddol o gynyrchiol. Medrai ei awen ef aros yn hir ar ei hedyn. Esgynai yn uchel, a medrai aros yn hir heb ddisgyn. Dichon fod rhai o feirdd ac emynwyr ein gwlad wedi esgyn yn agos i'r un uchelderau ag yntau, ond ehediadau byrion oeddynt; gan nas gallent aros yn hir heb ddisgyn yn ol i'r ddaear. Yr oedd awen Williams fel eryr cryf yn esgyn yn gyflym ac yn aros yn hamddenol ar ei hedyn, ac yn disgyn yn ddiludded wrth ei hewyllys. Neu, a newid y gymhariaeth, yn nghyfansoddiadau llawer o feirdd ein gwlad, yr ydym yn gweled afonydd llydain a llynoedd prydferth; ond yn ngweithiau Williams cawn olwg ar y môr. Bardd di-urddau oedd, y mae'n wir, fel mai pregethwr di-urddau oedd Howell Harris. Gellid cymhwyso penill Williams i Howell Harris fel pregethwr, ato ef ei hun fel bardd:—

"Yntau, Howell, heb arddodiad
Dwylaw dynion o un rhyw,
Na chael cenad gan un esgob
Ag sydd llawer llai na Duw."

Ond cawsant ill dau eu hurddiad yn ddigyfrwng gan Dad y Goleuni. Cydnabyddwyd ef yn foreu yn fardd o uchel fri, gan y genedl Gymreig; a daeth yn fuan yn anghymarol fwy cymeradwy a phoblog na'r un bardd a fu o'i flaen. Darllenid a chenid ei weithiau yn awchus, a chafodd ei lyfrau gylchrediad digymhar. Bu y frawdoliaeth farddonol yn hir cyn ei gydnabod. Nid oedd efe o'u hurdd hwy, ac am hyny anwybyddent a diystyrent ef. Ond os nad enillodd gymeradwyaeth y beirdd a gydoesent ag ef, gwnaeth fwy trwy enill meddwl a theimlad y bobl. Dichon mai Sion Lleyn a Thomas Jones, o Ddinbych, oeddynt y cyntaf o "Feirdd Braint a Defawd" i ganiatau iddo eistedd gyda'r beirdd. Yn yr hen *Oleuad* ceir cywydd o waith Sion Lleyn, dan y teitl, "Paradwys Gerdd yn cael ei holrhain, sef y farddoniaeth a gariodd y grawn-sypiau i Israel Duw yn yr anialwch," ac ar ol ymholi

"P'le ceir awen ysplenydd!
Mirain hoff wawd; morwyn ffydd?"

y mae yn ateb yn nacaol, na cheir hi gan Homer, Horas, Vyrsil, Ofid, nac ychwaith gan feirdd Cymreig ei oes ef:—

"Nid (*a*) Efan, mwy na (*b*) Dafydd,
Nid (*c*) Hywel, er hel a'i rhydd;
Nid (*d*) Walter rydd geinber gân,
Gywreiniawg o'i gwir anian:
(*e*) Y Bardd Glas, (*f*) Thomas, nid da
A gwrdd ddim a'r gerdd yma;
(*g*) Goronwy hen, gywreinia'i hawl,
Ni feddodd y gân fuddiawl."

(*a*) Ieuan o Leyn. (*b*) Dafydd Ddu. (*c*) Howell Ieuanc o Lanllyfni. (*d*) Gwallter Mechain. (*e*) Y Bardd Glas o'r Gadair. (*f*) Twm o'r Nant. (*g*) Goronwy Owen.

Ond ar ol chwilio llawer, y mae yn cael o hyd i'r "Baradwys Gerdd" yn meddiant Williams, o Bantycelyn:—

"Ond Williams———————
Yn rhodd a gafodd y gân,
Yn fedrus i weddus wau,
A siarad y mesurau;
Fel gwin, ei ddyfal ganiad;
Fel y mêl oedd ei fawl mâd;
Dysgleiriach na dysgl arian,
Na phelydr gwydr ei gân;
Diau wych flodeuog wawd
A dyfodd ar ei dafawd;
Cantor craff, Asaph oedd,
Iach y molai uwch miloedd,
O ffraethder—effro wychiant,
Nid hyn ei gerdd—hymnau gant;
Tanau, gwrydau, Gwridog,
Wedi cael o waed y cawg;
Yn Nghymru ni bu neb iach,
Yn nyddu cerdd fwyneiddiach;
Dewiswyd gan ei D'wysog,
Yn Gerddor, goleu-ŵr glôg;
Dwysfardd y Briodasferch,
Mwyn ei sain, emynau serch.
Perlau ei emynau mawl,
A thlysau o'r iach lesawl;
Cymwys i'r wir Eglwys Rydd
(Llais difeth) yn llys Dofydd.'

Mae nodiad ar ddiwedd y cywydd gan Sïon Lleyn ei hun fel yma: "Y rhai hyn (y beirdd a enwir yn y rhan gyntaf) a fuant foddlawn ar wisg farddonol, heb yr enaid, ac am mai ei henaid yw gwir foliant i Naf, a dedwydd yw ei pherchenog, yr hyn beth a feddianodd y Parch. W. Williams, yn anad neb y' Nghymru, gan nad beth oedd ei gwisg hi ganddo ef; fy marn dlawd i yw, mai iddo ef y rhoddwyd enaid y gerdd o neb o'i gyd-oeswyr y' Nghymru. Os bydd lleferydd iaith ar gael ar ol yr adgyfodiad, nid amheuaf na bydd rhai o'r odlau melusber a ganodd Williams yn cael eu canu gan y gwaredigol hil y pryd hyny." Dengys yr hen gywydd hwn fod rhai o "Feirdd Braint a Defawd" ei oes ef yn cydnabod uwchafiaeth Williams. Yr un modd y mae Thomas Jones, o Ddinbych, yn ei ddyrchafu, gan ei alw, hwyrach am y tro cyntaf, yn "Bêr Ganiedydd Cymru." Arferai Dewi Wyn o Eifion, hefyd, un o feirdd galluocaf Cymru, ddywedyd, "y gallasai efe eistedd drwy gydol y nos, ar y noswaith oeraf yn y gauaf, heb dewyn o dân yn agos ato, i ddarllen gweithiau Williams, ac y buasai yn cael ei dwymno hyd at chwysu yn ddyferol wrth eu darllen."

Yn ystod yr haner can' mlynedd diweddaf, y mae clodfori a dyrchafu Williams wedi dyfod yn ffasiynol. Telir gwarogaeth iddo gan bawb. Efe yw "Peraidd Ganiedydd Cymru,' ac efe yw "Prif-fardd y genedl." Plygir iddo mewn parchedigaeth gan y doeth a'r deallus, ac y mae pob gradd yn teimlo swyn ei farddoniaeth. Ac y mae i sylwi arno, mai po fwyaf a ddarllenir ar ei gynyrchion ef, mwyaf oll y daw ei ragoriaethau i'r golwg. Hyd y flwyddyn 1867, yr oedd gweithiau Williams yn aros yn wasgaredig, yn gyfrolau a phamphledi prinion fel y cyhoeddwyd hwy gan yr awdwr ei hun, ac felly tuallan i gyrhaedd y bobl. Yn 1811, casglwyd ei holl emynau ynghyd, a chyhoeddwyd hwy gan ei fab, sef y Parch. John Williams, Pantycelyn; ond cafodd y wlad aros am dros haner cant o flynyddau wedi hyn (1867), cyn i'w holl weithiau gael eu casglu at eu gilydd. Gwnaed hyn gan y diweddar Barch. J. R. Kilsby Jones, gŵr a lanwodd le mawr yn llenyddiaeth ein gwlad, a gwr oedd yn edmygu y Bardd o Bantycelyn tuhwnt i fesur. Cafodd yr argraffiad cyflawn hwn gylchrediad helaeth, a daeth ei weithiau, am y tro cyntaf, yn hysbysol i'r oes hon. Yn ddiweddar, bendithiwyd y wlad ag argraffiad rhatach, cywirach, a llawer gwell yn mhob ystyr, gan y Parch. N. Cynhafal Jones, D.D., fel y mae y werin Gymreig, bellach, yn alluog i ffurfio barn drostynt eu hunain am wir werth a theilyngdod ei gynyrchion llenyddol ef. Ni raid i Williams yn awr wrth lythyr canmoliaeth. Cyn i'w weithiau ddyfod o fewn cyrhaedd pawb, gwnaeth Hiraethog, Mills, Brutus, Caledfryn, Eben Fardd, a'r Dr. Lewis Edwards, wasanaeth da drwy eu hysgrifeniadau am dano. Ysgrifenasant yn helaeth, gan ddifynu darnau neillduol yn esiamplau o'i waith, a dangos eu prydferthwch; ond y mae hyny, bellach, yn gwbl afreidiol. Y mae pob beirniadaeth wedi dystewi, a chymeradwyaeth y genedl wedi ei sicrhau.

Nid oes genym ofod i fanylu ar y cyfnewidiad mawr a effeithiodd Williams yn emynyddiaeth ein gwlad. Nid ydoedd yn ddim llai na chwyldroad. Teimlasai yr arweinwyr Methodistaidd yn Nghymru, yn gystal ag yn Lloegr, fod mawr anghen am well emynau yn y gwasanaeth crefyddol nag oedd mewn arferiad yn y cyfnod hwnw, ac yr oeddent yn awyddus am i ryw rai cymhwys ymgymeryd a'r gorchwyl. Disgynodd yr yspryd ar Charles Wesley a Toplady yn Lloegr, ac ar Williams, Morgan Rhys, ac eraill, yn Nghymru. Yn briodol iawn y dywed Mr. Charles, o'r Bala, am Williams fel

emynydd: "Yr oedd ei ddoniau prydyddol wedi ei rhoddi iddo yn naturiol ac yn helaeth gan yr Arglwydd. Eheda yn aml ar adenydd cryfion iawn, sydd yn ei gario yn odidog ac yn uchel. Aberth mawr y groes yw sylwedd a phwnc penaf ei holl ysgrifeniadau; a thra byddo cariad at y Gwrthddrych mawr hwnw yn nghalonau y Cymry, bydd ei waith yn gymeradwy yn eu plith, yn enwedig ei hymnau. Ehedai ar awel nefol, a chymerai y geiriau nesaf at law, a chwbl ddeallus i'r werin gyffredin, y rhai a hoffent ei ganiadau yn ddirfawr. Effeithiodd ei hymnau gyfnewidiad neillduol ar agwedd crefydd yn mhlith y Cymry, a'r addoliad cyhoeddus yn eu cyfarfodydd. Y mae rhai penillion yn ei hymnau fel marwor tanllyd yn poethi ac yn tanio yr holl nwydau wrth eu canu, ac yn peri eu dyblu yn aml gan y bobl, nes y byddant yn gwaeddu ac yn llamu o orfoledd. Y mae yr effeithiau cryfion hyn yn brawf neillduol o rym yr achos sydd yn eu peri." Nid oes gwell prawf i'w gael o lwyredd y cyfnewidiad a ddygwyd i mewn i emynyddiaeth ein gwlad gan y Diwygiad Methodistaidd, na'r ffaith nad oes yn bresenol ond ychydig iawn o hymnau mewn ymarferiad cyffredin, a gyfansoddwyd cyn yr amser hwnw. Teimlir ynddynt wres angherddol y diwygiad, a chlywir ynddynt swn gorfoledd a chân.

Nid oes dim yn amlycach na bod ysgrifenu a chyfansoddi barddoniaeth mor hawdd iddo ag anadlu. Y mae yn dweyd hyny ei hun ar rai achlysuron. Yn ei ragymadrodd i *Theomemphus*—cyfansoddiad yn cynwys tua phum' mil o linellau—dywed: "Fe redodd y llyfr hwn allan o'm hyspryd fel dwfr o ffynon, neu wê'r prif gopyn o'i fol ei hun. Y mae yn ddarn o waith newydd, nad oes un *platform* iddo yn Saesonig, Cymraeg, nac yn Lladin, am wn i. Fe redodd i fy neall fel y gwelwch, ac wrth feddwl y gall fod yn fuddiol, mi a'i printiais." Y mae y penill olaf yn "Marwnad Grace Price," yn cofnodi y ffaith ddarfod i'r alargan odidog hono gael ei chyfansoddi ganddo mewn ychydig oriau, cyfansoddiad a gynwysa 42 o benillion, ac un a gafodd y fath dderbyniad, fel y clywsom hen bobl yn dweyd i'r bardd wneyd ugeiniau o bunoedd o elw o honi. Y mae sicrwydd fod llawer o'i emynau yn fyr-fyfyr. Dywedir ei fod yn pregethu yn Meidrym, Sir Gaerfyrddin, ar foreu Sabbath, ac yn darllen ar ddechreu y gwasanaeth, y 4edd benod o Efengyl Ioan. Darllenodd yn mlaen yn ddidor hyd adnod y 35ain, yr hon sydd fel yma: "Onid ydych chwi yn dywedyd, Y mae eto bedwar mis, ac yna y daw y cynhauaf? Wele, yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, Dyrchefwch eich llygaid, ac edrychwch ar y meusydd, canys gwynion ydynt eisioes i'r cynhauaf." Wedi darllen yr adnod drosti, "Arhoswch chwi," meddai, yn syn-fyfyriol, "nid yw syniad yr adnod hon erioed wedi ei droi ar gân." "Arhoswch chwi," meddai eilwaith (yn fwy wrtho ei hun nag wrth y gynulleidfa), "Fel hyn, onide:"—

"Onid ydych chwi'n dywedyd fod eto bedwar mis,
Ac yna daw'r cynhauaf toreithiog gyda brys?
Dyrchefwch chwi eich llygaid, medd Iesu, brenin nef,
Can's gwynion ydyw'r meusydd lle mai ei wenith ef."

A darllenodd yn ei flaen i orphen y benod. Y mae llawer o'i emynau mwyaf poblogaidd yn gynyrchion byr-fyfyr; ac y mae i amryw o honynt liwiad lleol pur amlwg. Y mae bron yn sicr mai golygfa ramantus ar yr afon Tywi, lle y mae y ffordd yn arwain dros greigiau serth rhwng y Fannog a Chapel Soar, ddarfu awgrymu i Williams syniad y penill cyfarwydd hwnw:—

"Cul yw'r llwybr i mi gerdded,
Is fy llaw mae dyfnder mawr,
Ofn sydd arnaf yn fy nghalon
Rhag i'm traed i lithro i lawr;
Yn dy law y gallaf sefyll,
Yn dy law y dof i'r lan,
Yn dy law byth ni ddiffygiaf,
Er nad ydwyf fi ond gwan."

Ac y mae lliwiad lleol dyfnach fyth ar un arall o'i emynau. Y mae yr afon Cothi, heb fod yn mhell o Pumpsaint—lle a dramwyai Williams yn aml—yn ymollwng i bwll anferth, ac a elwir yn "Bwll Uffern Gothi," ac yr oedd ffordd newydd yn cael ei gwneyd heibio i'r fan yn nyddiau y bardd. Yma, meddir, y canodd efe am y

"Ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist
I basio heibio uffern drist;
Wedi ei phalmantu ganddo ef
O ganol byd i ganol nef."


Ond er fod y penillion hyn a u cyffelyb wedi eu hawgrymu iddo gan olygfeydd natur, ac wedi eu cyfansoddi yn hollol ddiorchest, eto, y mae Williams ei hun yn dangos mai nid heb barotoad a llafur mawr y cyfansoddodd ei brif weithiau. Fel hyn y dywed am ei brif gyfansoddiad barddonol, *Golwg ar Deyrnas Crist*. "Mi

wnes fy ngoreu wrth gyfansoddi hyn o lyfr am ddarllen llyfrau addas at yr achos, fel yr oeddwn yn myned drwyddo, a'r rhei'ny, os gallwn, yn uniongred a iachus. A phan y gwelwn rywbeth at fy mhwrpas, cymerwn swm hyny i fy meddwl, ac yna rhown rywfaint o'i sylwedd i lawr, wedi ei wisgo a fy ngeiriau fy hun, ond megys yn gyntaf ymborthi arno fel yr eidddo fy hun, a'i gymysgu a'r hyn oeddwn wedi ei wau o fy meddyliau eisioes, yr hyn sydd bell o fod yn feius. Ond y llyfr hwnw oeddwn yn glynu fwyaf wrtho, sef Llyfr Duw. Yn awr yr wyf yn gadael i hyn o waith i fyned allan i'r byd, a Duw a safo o'i blaid! Y mae arnaf gywilydd o'i blegyd, am fod ei wisgoedd mor dlawd, ac yntef yn cymeryd arno i ganmol Un mor ardderchog. . Yr wyf yn gobeithio y bydd i'm Duw ei guddio oddi wrth ddynion cyfrwys, *critic*, ag sydd yn cymeryd pob gwirionedd i ymresymu yn ei gylch, yn hytrach nag i adeiladu. Pwy bynag elo i graffu ar y farddoniaeth, mi wn nad oes yma yr un wers heb ei bai. A hyn a'm digalonodd lawer pryd i'w roi mewn *print*. A pha hwya' y bo yn fy llaw, mwya' i gyd wy'n ddiwygio arno. Ond y mae arnaf ofn ei gadw yn hwy, rhag tynu ymaith ei awch. Am hyny, aed fel y mae. Pwy effaith a gaiff, nis gwn i; ond hyn a wn, iddo beri llawer o boen ac o amser i mi esgor arno." Dywed ei fywgraffydd iddo astudio cymaint wrth gyfansoddi y bryddest odidog hon, fel yr effeithiodd yn niweidiol ar ei iechyd am y gweddill o'i oes.

Nid gorchwyl hawdd ydyw elfenu athrylith Williams, a dweyd yn bendant pa le y mae cuddiad ei nerth. Eto, y mae llawer o sylwadau perthynasol iawn wedi eu gwneyd gan feirniaid o enwogrwydd yn y cyfeiriad hwn. Ar ol bod yn cymharu *Coll Gwynfa* Miltwn, a *Golwg ar Deyrnas Crist* Williams, a chyfaddef yr anhawsdra i benderfynu pa un yw y rhagoraf, dywed "Hiraethog" (Dr. William Rees), fel yma:—* "Prawf diymwad o wir fonedd cyneddfau awenydd ydyw ei gallu i swyno pob gradd a dosbarth o gymdeithas fel eu gilydd—bod y dealltwriaethau cryfaf, y meddyliau mwyaf caboledig, ynghyd a'r werindorf ddisyml yn gyffredinol yn gallu cydfwynhau a chydwledda ar ei chynyrchion. Tery athrylith emynau Williams y galon ddynol fel y cyfryw, nes y cyd-ddychlama teimlad yr athronydd uchelgoeth, a theimlad y bugail gwledig o dan ddylanwad ei gwefriad. Tywysogion mewn dysg a doniau, a phob gradd oddiyno i waered, hyd at y weddw ddinod yn ei bwthyn neillduedig, a gydaddefant eu rhin. Clust dyner-foneddigaidd yr ysgolhaig, a chlust anysgybledig y gwerinwr isel, a'u cydfendithia hi, 'pan glywant ei geiriau, canys melus ydynt.' Pair sain ei haceniad i'r llygaid a belydra gan ddealltwriaeth ac hyawdledd, ac i'r llygad mwyaf hwyrdrwm ac amddifad o ddynodiant meddyliol i gyd-ollwng y deigryn dros eu hamrantau. Y mae llawer o wahaniaeth rhwng natur y mwynhad a brofir gan feddwl coeth a diwylliedig, a'r mwynhad a deimla y meddwl anghyfarwydd, er i ffynonell y mwynhad fod yr unrhyw. Cenir a mwynheir emynau Williams er budd ysprydol gan ganoedd o Gristionogion yn Nghymru, y rhai nad oes ganddynt nemawr i ddim dirnadaeth yn eu dealltwriaeth a'u barn am eu rhagoriaeth cynhenid. Un rheswm am ryfeddol effeithioldeb emynau Williams ydyw eu bod yn llefaru iaith natur gyda'r fath symledd pur a diaddurn. Y maent yn hudo cydymdeimlad ein natur gyda hwynt yn ddiarwybod i ni. Bydd y galon yn toddi, a'r llygad yn gollwng ei ddeigryn heb yn wybod iddynt eu hunain yn nghymdeithas ei ganiadau. Pa un bynag ai hiraeth, ai amheuaeth, ai ofn, ai hyder, ai llawenydd a osodir allan, rhaid i ni gydgyfranogi yn y teimlad, gan mor gywir y mae delweddau wynebpryd pob un o'r teimladau hyn yn cael eu portrëadu megys o flaen y meddwl. Nid yw byth yn llefaru mewn tafodiaith galed, neu iaith ddyfnach nag a ddealla y llafurwr anghyfarwydd, ac ni allai yr athraw uchelddysg ychwaith wneuthur cyfnewidiad er gwell yn iaith a dullwedd llaweroedd o'i emynau." Gwneir y sylwadau canlynol gan y Dr. Lewis Edwards arno fel bardd: † "Yr elfen gyntaf sydd yn anhebgorol mewn barddoniaeth yw *bywyd*. Dyma sydd yn gwneyd caniadau Homer mor swynol; nid oes ynddynt ond ychydig o'r hyn a feddylir yn y dyddiau hyn wrth y gair 'arddunawl;' ond y maent oll yn llawn bywyd. Yn yr ystyr y deallid y gair gan Longinus, y maent yn dra arddunawl, oblegyd y maent yn cynhyrfu ac yn tanio y meddwl wrth eu darllen. Ni fu neb yn meddu mwy o'r elfen hon na Williams, o Bantycelyn. Hyn a barodd i hen bererin ddywedyd unwaith yn ein clywedigaeth,

* *Traethodydd*, cyf. iii., tudal. 160.

† *Traethodau Llenyddol*, tudal. 157.



# ALELUIA,

NEU,

# CASCLIAD

O

# HYMNAU,

Ar amryw Yſtyriaethau.

O Waith y Parchedig

Mr. WILLIAM WILLIAMS

Eph. v. 19. *Gan leſaru wrth ei Gilydd mewn* SALMAU, *a* HYMNAU, *&c.*

Col. iii. 16. *Gan ddyſgu a rhybuddio pawb ei gilydd mewn* SALMAU, HYMNAU, *&c.*

Y DRYDYDD RHAN.

Argraphwŷd *Ymrhiſto* gan *FFLIX FARLEY*,
Yn y Flwyddyn M.DCC.XIV.

PHOTOGRAPH O WYNEB-DDALEN LLYFR HYMNAU CYNTAF WILLIAMS.

*Y mae gwall argraff yn y ddwy linell olaf. Enw yr Argraffydd oedd Felix Farley, a'r blwyddyn oedd* M.DCC.XLV.]

'fod emynau Williams fel y *marbles*, pan yr oedd llawer o emynau eraill mwy rheolaidd yn disgyn fel tameidiau o glai.' Nis gwyddom pa gyfrif i'w roddi am y bywyd hwn yn enaid y bardd, yn mhellach na'i fod yn deimlad cryfach na chyffredin—teimlad o brydferthwch anian, teimlad sydd yn myned i mewn i helynt dynoliaeth, yn ei mawredd a'i thrueni, ei llawenydd a'i galar, ei chariad a'i châs, ei daioni a'i drygioni.' Byddai yn hawdd ychwanegu. Y neb a gar weled pa mor uchel y safai Williams fel bardd, yn meddwl y diweddar Dr. Lewis Edwards, o'r Bala, darllened ei ysgrif alluog a dawnus ar "Gyfnewidwyr Hymnau," yn *Nhraethodydd* 1850. Teimlwn ei fod yn fwy pwysig yn awr i gael barn y parchedig

ddoctor ar Williams fel duwinydd. Ymddangosodd ysgrif o dan ei law ef, yn *Yr Arweinydd* am 1878, cyhoeddiad a olygid gan ei fab, y Parch. Llewelyn Edwards, M.A., ar "Dduwinyddiaeth Williams, Pantycelyn," ac er ei bod yn faith, teimlwn nas meiddiwn ei chwtogi. Dechreua gyda'r frawddeg a ddyfynwyd genym yn barod i bwrpas arall :—

"Cydnabyddir yn gyffredin gan y rhai sydd yn gallu myned trwy y geiriau at y meddyliau fod Williams yn fardd o radd uchel, ac yn neillduol ei fod fel emynwr yn rhagori yn yr angerddolrwydd teimlad sydd yn hanfodol mewn gwir farddoniaeth. Ond fel y mae yn anhawdd ein cael i weled mwy nag un rhagoriaeth yn yr un person, felly yn ei achos ef y mae dysgleirdeb ei farddoniaeth yn tueddu i guddio o'r golwg ei fawredd fel duwinydd: ac am hyny cymeraf y cyfle hwn i alw sylw at eangder ei olygiadau duwinyddol.

"Yn y lle cyntaf, byddai yn fuddiol i ni oll gymeryd ein dysgu yn fanwl gan Williams yn yr athrawiaeth am Berson y Cyfryngwr. Yn y gwrthdarawiad a gododd yn erbyn Howell Harris mae yn ddiau mai emynau Williams fu y moddion penaf i gadw y Methodistiaid rhag myned i eithafoedd yr ochr arall: ac er yr holl barch a deimlid iddo, yr oedd llawer y pryd hwnw, ac y mae llawer hyd heddyw, yn methu rhoddi derbyniad calonog i'r cyfryw eiriau a 'dwyfol waed,' 'dwyfol loes,' 'dwyfol glwy',' y rhai ydynt mor gyffredin yn ei ganiadau. Weithiau newidid hwynt, neu gadewid hwynt allan: a phan arferid hwynt, yr oedd hyny yn fynych ar y dealltwriaeth eu bod i'w cymeryd fel gormodiaeth farddonol, ac nid fel duwinyddiaeth gywir. Yn awr, yr hyn sydd genyf mewn golwg yw, nid gwneyd esgusawd dros y geiriau hyn a'u cyffelyb, ond dangos nad ydynt yn sefyll mewn angen am esgusawd. Yn eu hystyr fanylaf y maent yn berffaith gyson a'r athrawiaeth a ddysgir yn y Testament Newydd am Berson a gwaith yr Arglwydd Iesu Grist. Dywedir yno fod dynion wedi lladd Tywysog y bywyd, wedi croeshoelio Arglwydd y gogoniant. Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Yr Hwn oedd yn ffurf Duw, a'i dibrisiodd ei hun, ac a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes. Y mae o bwys i ni beidio cymysgu y ddwy natur; ond y mae mor bwysig a hyny i ni ofalu rhag mewn un modd i ni ranu y Person. Efe a'i hoffrymodd ei hun, nid rhan o hono ei hun; ac am hyny efe, yn anfeidroldeb ei Berson, ac nid rhan o hono, yw yr Iawn. O ganlyniad, y mae ei waed, yn yr ystyr helaethaf a all fod, yn ddwyfol waed, yn briod waed Mab Duw ei hun.

"Arferir priodoli angau pob dyn i'w holl berson, drwy ddweyd fod y dyn wedi marw, ac nid rhan o hono. Y mae y gyffelybiaeth hon, er mor anmherffaith, yn dangos rhesymoldeb y dywediad fod gwaed Crist yn ddwyfol waed. Ond yr oedd undeb agosach rhwng Person y Mab a'i natur ddynol ef nag sydd rhwng enaid dynol a chorff dynol. Heblaw hyny, yr oedd ei Berson dwyfol ef yn weithredol yn ei farwolaeth. Er mwyn cael cyffelybiaeth gyflawn y mae yn rhaid i ni feddwl am ddyn yn marw o'i fodd, yn taflu ei hun yn ysglyfaeth i angau mewn trefn i achub bywydau rhai o'i gyd-ddynion. Yn y cyfryw amgylchiad y mae yn marw, nid yn oddefol yn unig, ond yn weithredol; ac y mae ei holl enaid yn y weithred. Felly y gellir dweyd am yr Arglwydd Iesu Grist, fod ei holl Berson wedi ei wneuthur yn gnawd, fod ei holl Berson wedi darostwng ei hun, fod ei holl Berson yn y weithred o farw, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes.

"Y mae gan Williams mewn rhai manau ymadroddion cryfach eto, ac nid wyf yn myned i wneuthur esgusawd dros y rhai hyny ychwaith. Dyma un penill cyflawn, a darn o un arall, wedi eu cymeryd o ddwy hymn sydd yn dilyn eu gilydd yn ei waith :—

"'Mae'r ffordd yn awr yn rhydd
O'r ddae'r i entrych ne',
Er pan y daeth fy Nuw
I ddyoddef yn fy lle;
Mae'r nef, mae'r nef, o led y pen,
Can's hi ddyoddefodd ar y pren.

Boed bryn y groes, boed Calfari
Yn uwch na'r bryniau mwya' eu bri,
Am mai yma collwyd gwaed fy Nuw.'

"Goreu po gyntaf y dysg y darllenydd beidio dychrynu a thramgwyddo wrth eiriau cryfion o'r fath yma am farwolaeth ein Harglwydd. Yn lle hyny gwell fyddai iddo gynefino ei hun yn raddol i fyw ar fwyd cryf. Ac nid ydynt gryfach na'r rhai a ddyfynwyd eisioes o'r Testament Newydd; a dyma iaith gyffredin y brif eglwys.

"Gan fod y bardd o Bantycelyn yn meddu golygiadau mor eang am Berson y Gwaredwr, ac am ddwyfoldeb y gwaed, nid yw yn rhyfedd ei fod yn credu fod gwiwdeb a gwerth anfeidrol yn yr Iawn. Yr hyn sydd yn rhyfedd ydyw fod neb wedi bod erioed yn amheu gwirionedd mor

amlwg. Nid yw yn gweddu i ni geisio bychanu pechod; oblegyd er nad yw dyn mewn cymhariaeth ond bychan fel creadur, y mae mwy o ddrwg mewn un pechod nag y gall neb amgyffred. Er hyny, pan feddyliom fod Un oedd mor fawr fel nas gallasai fod neb mwy wedi ymostwng yn y fath fodd fel nas gallasai fod ymostyngiad mwy, y mae pob cyfartaledd yn diflanu o'r golwg; ac yr ydym yn barod i ddywedyd gyda Williams:—

"'Pechod yma, cariad acw,
Fu yno yn y glorian fawr;
Ac er trymed oedd y pechod,
Cariad bwysodd hyd y llawr.
Y gair Gorphenwyd
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.'

Ymddengys mai felly y cyfansoddwyd y penill, ac y cyhoeddwyd ef ar y cyntaf. Nid oedd y sawl a'i newidiodd yn euog o gyfeiliornad dirfawr. Ond pan y mae rhai mor fanwl a cheisio gwella gwaith eraill, y mae yn naturiol i ninau fod yn fanwl wrth farnu y gwelliant; ac y mae yn sicr mai prin y buasai Williams yn foddlawn i ddweyd fod cariad wedi ei bwyso, oblegyd nis gellir pwyso anfeidroldeb. Rhoddwyd y cariad yn y glorian, nid i'w bwyso, ond i orbwyso y pechod, yr hyn a wnaeth hyd y llawr. Yn yr un hymn dangosir y meddwl yn gryfach eto, os yw bosibl, yn y penill canlynol:—

"'Haeddiant Duwdod, o'i gymharu
'N erbyn uffern fawr o'r bron;
Dafn gwaed sy'n ganmil rhagor
Nag aflendid dudew hon:
Gw'radwyddiadau
Duw rydd iawn am feiau'r byd.'

Mewn man arall, rhif 427 o'r llyfr hymnau diweddaf, ceir y ddau benill ardderchog a ganlyn:—

"'Pe buasai fil o fydoedd
Yn cael eu prynu 'nghyd,
A'r cyfryw bris fuasent
Yn llawer iawn rhy ddrud:
'Does angel fyth, na seraph,
Na cherub o un rhyw,
I'r filfed ran all ddywedyd
Mor werthfawr gwaed fy Nuw.

O na allwn iuau'r awrhon
Ehedeg fyny fry,
A dysgu rhyw ganiadau
Sydd gan y nefol lu;
Fel byddai cydsain hyfryd
Rhwng dae'r a nef yn un,
Caniadau anfeidroldeb
Marwolaeth Duw yn ddyn.'

Gallesid rhoddi llaweroedd o benillion eraill yn cynwys yr un athrawiaeth; ond y mae hyny yn afreidiol, gan eu bod eisioes yn nwylaw y cyffredin o ddarllenwyr Cymru; ac felly ni chaf ond ychwanegu un penill allan o'r *Golwg ar Deyrnas Crist*, yr hwn y cyfeiriwyd fy sylw ato yn ddiweddar gan ddiacon darllengar a deallus yn Sir Feirionydd.

"'Dystawa, fy nghydwybod
Anesmwyth, rowd ddim llai
Nag y mae Duw yn ei ofyn
O daliad am fy mai;
Boddlondeb, a myn'd trosodd,
Rowd i anfeidrol lid;
A heddwch, a myn'd trosodd,
I edifeiriol fyd.'

"Yr eangder a geir yn nghaniadau Williams pan yn son am Berson a gwaith y Cyfryngwr, a welir hefyd yn ei olygiadau am y drefn drwy ei haeddiant ef i gadw pechaduriaid. Afreidiol yw cymeryd amser i brofi ei fod yn dal cyfiawnhad drwy ffydd yn ei holl helaethrwydd; oblegyd y mae Protestaniaid efengylaidd yn gyffredinol yn credu yr athrawiaeth hono. Ond nid oes unrhyw gydweledïad gyda golwg ar y drefn i aileni; ac y mae yn werth i ni chwilio beth oedd barn Williams, a oedd efe yn dal ailenedigaeth drwy ffydd, yr un modd a chyfiawnhad drwy ffydd. Mewn geiriau eraill, a ydyw aileni yn dyfod drwy ffydd, yn ol ei farn ef, ai ynte ffydd yn dyfod drwy aileni? Saif y mater hwn mewn cysylltiad agos ag amryw faterion eraill. Er enghraifft, os yw ffydd yn dyfod drwy aileni, y mae yn rhaid fod ailenedigaeth yn rhagflaenu cyfiawnhad; ac hefyd y mae yn rhaid i ni gredu fod yr Yspryd Glân yn aileni dyn yn ddigyfrwng, ac nid drwy y gair. A'r hyn sydd yn fwy pwysig na'r cwbl, y mae y golygiad yma yn cynwys fod bywyd ysprydol yn dyfod i'r enaid cyn ei uno â Christ drwy ffydd. Cyn myned i chwilio pa olygiad sydd yn gywir, byddai yn fuddiol cael ychydig o hanes yr athrawiaeth hon, fel y gweler i ba raddau y mae Williams yn cytuno â duwinyddion eraill; a gellir cyfyngu yr ymchwiliad bron yn gwbl i'r testun cyntaf, sef aileni drwy ffydd, neu ffydd drwy aileni, gan fod yr ateb a roddir i hwn yn effeithio ar y lleill.

"Y nesaf o'r holl dadau at yr Apostol Paul, er fod pellder anfesurol rhyngddynt, oedd Awstin o Hippo. Lled dywyll yw efe am ystyr y gair aileni, gan ei fod yn ei gysylltu yn ormodol â bedydd; er nad yw dweyd fod yr aileni hwn yn cynwys mwy na rhyddhad oddiwrth bechod gwreiddiol. Yr hyn a elwir gan Brotestaniaid efengylaidd yn aileni ydyw yr hyn a eilw efe yn

gyfiawnhau. Gwnaeth gamsyniad pwysig am ystyr y gair; ond y mae yn eithaf goleu yn gosod allan fod y cyfnewidiad hwn, pa beth bynag y gelwir ef, yn dyfod drwy ffydd. Efallai nad oes neb wedi deall Awstin yn well na Neander; ac fel hyn y mae efe yn symio i fyny ei farn ef ar y pwnc: 'Ond er fod y Pelagiaid yn gosod allan yn eglur y cysylltiad allanol rhwng Crist a'r credinwyr, yn seiliedig ar yr hyn a wnaeth efe unwaith, ac a enillodd dros ddynolryw, ac a sicrhaodd iddynt am yr amser dyfodol, er hyny gosodent y cysylltiad tufewnol rhwng y ddau yn mhell o'r golwg, yr hyn nis gallasai lai na bod, yn ol egwyddorion sylfaenol eu cyfundraeth. Y mae Awstin yn dwyn yn mlaen yn barhaus yn erbyn eu cynllun yr wrthddadl, eu bod yn gwneuthur gras Crist i gynwys dim mwy na chyfraniad o faddeuant: eu bod yn gadael dyn, wedi iddo gael hyn, i ryddid ei ewyllys ei hun, ac na chydnabyddent fod hyd yn nod yn awr ei holl gyfiawnder tufewnol neu ei sancteiddhad yn waith Crist yn unig; fod yr egwyddor newydd o fywyd dwyfol, yr hon yw ffynonell pob daioni yn y credinwyr, yn tarddu o'r undeb ag ef trwy ffydd. Yr undeb tufewnol rhwng Crist a chredinwyr, y cyfiawnhad neu sancteiddhad yn deilliaw o hyny a'i sylfaen yn Nghrist, dyma yr hyn a ddaliai Awstin yn eglur mewn gwrthwynebiad i'r Pelagiaid.'—*(History of the Church, vol. iv., p.* 363, *Bohn's edition).*

"Y mae yn amheus a oedd Calfin yn fwy dyn nag Awstin; ond y mae yn ysgrifenwr sydd yn medru dwyn ei feddyliau allan yn fwy eglur; ac nis gall dim fod yn fwy diamwys na'i farn fod aileni yn dyfod drwy ffydd. Yn y drydedd benod o'r trydydd llyfr o'i *Gorff Duwinyddiaeth*, yr hon sydd yn traethu, fel y dywedir yn nechreu y benod, am 'ailenedigaeth drwy ffydd,' yn y nawfed adran cawn y geiriau a ganlyn: 'Y mae y ddau hyn (sef marweiddiad y cnawd a bywhad yr Yspryd), yn dyfod i ni drwy undeb â Christ. Oblegyd os cawn wir gymdeithas yn ei angau ef, y mae ein hen ddyn yn cael ei groeshoelio drwy ei allu ef, a chorff pechod yn marw.' Yna dywed, 'Mewn un gair, wrth edifeirwch yr wyf yn deall ailenedigaeth.' Ac mewn manau eraill dadleua fod edifeirwch yn dyfod yn unig drwy ffydd. Nid oes achos ymofyn yma pa un a ydyw yn barnu yn gywir mai yr un peth yw edifeirwch ac ailenedigaeth; ond y mae yn amlwg mai ei olygiad ef oedd fod ailenedigaeth yn dyfod drwy undeb â Christ, a'r undeb hwnw yn dyfod drwy ffydd.

"Ar ol dyddiau Calfin aeth amryw o'r Protestaniaid i gredu ac amddiffyn y farn Arminaidd, yr hyn a barodd wrthdarawiad yn y lleill, fel yr aeth llawer o honynt yn fwy Calfinaidd na Chalfin. Ni fynent i neb feddwl am gredu yn Nghrist cyn ei aileni, ac yn yr aileni nid oedd lle i'r Gair; ac y mae lle i gasglu, yn ol barn rhai o honynt, nad oedd lle yn yr aileni i Grist ei hun. Ond rhag gwneyd cam â neb, dylid ychwanegu eu bod yn cydnabod fod yr aileni yn dwyn y meddwl at y gair ac at Grist. Fel hyn y dywed Ridgley yn ei *Gorff Duwinyddiaeth*, 'Nis gall y gair lesâu os na fydd wedi ei gyd-dymheru â ffydd; ac nis gall ffydd weithredu os na fydd yn tarddu o egwyddor o ras wedi ei phlanu oddimewn; gan hyny nid yw yr egwyddor hon o ras yn cael ei chynyrchu ganddo. Yr un peth fyddai tybied fod dal darlun prydferth o flaen dyn dall yn ei alluogi i weled.' Dilynwyd Ridgley gan Dr. Williams, o Rotherham, Dr. George Lewis, a lliaws o ysgrifenwyr eraill yn mysg yr Anghydffurfwyr. Hyn hefyd yw barn Dr. Hodge, o America, yr hwn yn ddiau ydyw un o dduwinyddion galluocaf yr oes hon; ac nis gallaf fyned heibio i'w enw heb dalu iddo deyrnged o warogaeth, ac anog pawb i ddarllen ei ysgrifeniadau.

"Ond y mae yn bryd i ni edrych pa beth oedd barn Williams a'r hen Fethodistiaid yn Nghymru ar y mater hwn. Fel hyn y dywed Williams yn ei *Theomemphus* am natur ffydd, ac am y drefn i aileni drwy ffydd:—

"''R efengyl wy'n bregethu,
  Nid yw hi ddim ond hyn,
Mynegu'r weithred ryfedd
  Wnawd ar Galfaria fryn;
Cyhoeddi'r addewidion,
  Cyhoeddi'r marwol glwy',
A diwedd llygredigaeth
  I'r sawl a gredo mwy.

O cred, O cred, cai gymhorth
  I dynu'th lygad de;
O cred, O cred, cai allu
  I dori'th fraich o'i lle:
Cred yn yr Oen fu farw
  Fry ar Galfaria fryn,
Y fynyd gynta' y credost
  Cai lawer mwy na hyn.

Nac edrych ar amodau
  Fyth fyth o'th fewn dy hun;
Trwy gredu daw amodau,
  Mae gras wrth gredu 'nghlŷn;
Y fynyd gynta' y credost
  Yw'r fynyd byddi byw,
Wrth gredu yn Nghrist yn unig
  Cai wel'd gogoniant Duw.

Nid credu yw bod genyt
 Ryw drugain nôd ac un,
Annywiol o rasusau
 Rhagorol ynot d' hun;
Ond credu yw dy weled
 Yn eisieu oll i gyd,
A'th eisieu yn peri it' bwyso
 Ar Brynwr mawr y byd.'

"Nid yw y penillion hyn ond pigion o lawer a allesid roddi; ond y mae hyn yn ddigon i ddangos beth oedd barn Williams am ffydd, fel y mae yn derbyn Crist heb fod unrhyw anian dduwiol na chalon newydd yn gymhwysder blaenorol yn y dyn ei hun. Yna yn y rhan olaf o bregeth Efangelius rhydd oleu pellach ar y drefn fel y canlyn:—

"'Crynhowch eich holl achwynion
 Y mwyaf sydd i'w gael,
Cewch yma ddigon digon
 I'ch ateb chwi yn hael;
'Does dim ond edrych yma,
 Mae edrych yn iachau,
Mae edrych yn sancteiddio,
 Mae edrych yn mwynhau.

Mae'r ffynon yn agored,
 Dewch edifeiriol rai;
Dewch chwithau yr un ffunud
 Sy'n methu edifarhau;
Dewch gafodd galon newydd,
 Dewch chwithau na cha'dd un,
I olchi pob budreddi
 Yn haeddiant Mab y dyn.'

Dyma oedd barn Williams; a gellir cymeryd yn ganiataol ei fod yn rhoddi barn gyffredin y Methodistiaid yn y cyfnod hwnw. Ar ol ei ddyddiau ef, y mae yn debyg na fu neb yn cynrychioli y Methodistiaid yn well na Mr. Charles o'r Bala: ac os dewisiwn gael ei olygiadau ef, nid oes raid i ni ond troi at yr *Hyfforddwr*. Yn yr wythfed benod, ar ol son am aileni, gofynir, 'Pa fodd y mae yr Yspryd yn gweithredu y cyfnewidiad hwn?' Ar ateb ydyw, 'Trwy uno yr enaid â Christ, canys trwy undeb â Christ y mae pob gras a rhagorfraint yn deillio i ni." Y mae yma radd o anhawsder, drwy fod yr *Hyfforddwr* yn y benod nesaf, ar ol dweyd fod yr Yspryd Glân yn dwyn pechadur at Grist, drwy amlygu Crist, yn myned yn mlaen i sylwi mai y rhai sydd yn derbyn y datguddiad hwn o Grist yw y rhai a wir gyfnewidiwyd gan Yspryd Duw. Byddai yn waith buddiol i blant yr Ysgol Sabbothol, pe chwilient y ddwy benod, nes cael golwg ar gysondeb y ddau ddywediad. Ond er mwyn cael golygiadau Mr. Charles yn helaethach ac yn eglurach, darllener y *Geiriadur*, dan y gair adenedigaeth.

"Wedi dangos fod golygiadau Williams am ailenedigaeth drwy ffydd yn cydfyned a'r hyn a geir yn ysgrifeniadau rhai o'r prif dduwinyddion, er yn gwahaniaethu oddiwrth y cyffredin o'r hen Anghydffurfwyr, y mae yn aros i chwilio i ba raddau y maent yn cytuno a thystiolaeth yr Ysgrythyr. Yn y benod gyntaf o Efengyl Ioan ceir ymadrodd fel hyn: 'Ond cynifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef.' Pa un ai aileni drwy ffydd sydd yma, neu ynte ffydd drwy aileni? Mae yn sicr mai at aileni, ac nid at fabwysiad, y mae Ioan yn cyfeirio; oblegyd y tufewnol yw ei bwnc ef yn barhaus, tra y mae Paul yn son mwy am gyflwr dyn yn ei berthynas â deddf. Ond pe byddai rhyw amheuaeth, y mae hyny yn cael ei symud yn yr adnod nesaf—'Y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw.' Felly, y drefn i ddyn gael ei aileni ydyw drwy dderbyn Crist; a'r rhai a dderbyniant Grist yw y sawl a gredant yn ei enw ef. Gwneir hyn yn eglurach eto gan Grist ei hun yn y drydedd benod, lle y dengys i Nicodemus fod ei deyrnas ef o natur ysprydol, ac am hyny yn gofyn cyfnewidiad ysprydol, sef geni drachefn, cyn y gellir ei gweled a myned i mewn iddi. Yr oedd hwn yn ddechreuad angenrheidiol i'r ymddiddan, gan fod yr Iuddewon mwyaf goleuedig yn coledd syniadau mor ddaearol am deyrnas y Mesiah. I'r cwbl nid oedd gan Nicodemus ond gofyn, Pa fodd? A diau ei fod yn gofyn o ddifrif; ac os felly, a ellir tybied fod yr Arglwydd Iesu yn gadael y gofyniad heb ei ateb? Na ellir yn ddiau. Ond, yn gyntaf, y mae yn hysbysu fod yn rhaid dwyn i'r golwg y pethau nefol am gariad Duw yn anfon ei unig-anedig Fab, y rhai ydynt yn fwy anhawdd eu credu na'r angenrheidrwydd am y cyfnewidiad tufewnol. Ond er mwyn enill Nicodemus i'w credu, y mae yn dywedyd ei fod ef wedi disgyn o'r nef, a'i fod hefyd yn y nef. Yna y mae yn myned rhagddo i ateb y gofyniad drwy amlygu y drefn i aileni: Ac megys y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn; fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.' Y bywyd tragywyddol hwn yw y bywyd a dderbynir yn yr ailenedigaeth; a gwelir ei fod yn dyfod drwy gredu. Dyma yr holl drefn ger ein bron; ac y mae yn dra thebyg fod y geiriau hyn yn meddwl Williams pan yn cyffelybu credu i edrych:—

"'Does dim ond edrych yma,
Mae edrych yn iachau,
Mae edrych yn sancteiddio,
Mae edrych yn fwynhau.'

"Yn llythyrau Paul daw yr un athrawiaeth i'r golwg, nid mewn ymadroddion achlysurol yn unig, ond fel swm a sylwedd ei ymresymiad, yn enwedig yn ei Epistol at y Rhufeiniaid. Fel sylfaen i'r holl ymdriniaeth am drefn yr efengyl, y mae yn traethu yn gyntaf am ein derbyniad gyda Duw drwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf, ac yna yn myned yn mlaen i sylwi ar y cyfnewidiad tufewnol fel y canlyniad angenrheidiol i gyfiawnhad drwy ffydd. Dechreua draethu ar y mater olaf yn pen. vi. 1, drwy ofyn, 'Beth wrth hyny a ddywedwn ni? a drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhao gras?' Mae yn amlwg na fuasai lle i'r gofyniad hwn pe buasai cyfiawnhad yn rhagdybied ailenedigaeth. Ar y dybiaeth fod gras wedi amlhau tuag at ddyn yn y cyfiawnhad, cyn fod gras ynddo, y gellir gofyn, 'A drigwn ni yn wastad mewn pechod fel yr amlhao gras?' Yr ateb i'r gofyniad hwn ydyw, 'A ninau wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn byw eto ynddo ef?' Y mae yr ateb hwn yn cynwys ein bod wedi meirw i bechod yn y cyfiawnhad; hyny ydyw, wedi meirw iddo yn gyfreithiol, fel nad oes gan bechod awdurdod arnom mwyach, megys nad oes gan y meistr awdurdod ar y caethwas pan fyddo y caethwas wedi marw. Ond pa fodd y mae y caethwas yn marw yn yr amgylchiad hwn? Dengys yr apostol yn yr un benod ei fod yn marw i bechod drwy ddyfod i undeb ffydd â marwolaeth Crist. Y mae hyn oll yn perthyn i gyfiawnhad; ac felly mae cyfiawnhad yn ngolwg yr apostol yn cynwys, nid rhyddhad oddiwrth gondemniad yn unig, ond rhyddhad oddiwrth arglwyddiaeth pechod, yr hyn sydd yn cynwys hefyd nas gall neb fod yn was cyfreithlawn i bechod wedi ei gyfiawnhau. Ond i ddangos yn fwy eglur eto y cysylltiad anwahanol rhwng cyfiawnhad a sancteiddhad, dygir yn mlaen ein perthynas a'r ddeddf, yr hon oedd yn ein rhwymo yn nghaethiwed pechod. Nid oedd modd i ni farw i arglwyddiaeth pechod heb i'r ddeddf gael ei newid, neu i ni farw i'r ddeddf; ac nid oedd modd i ni farw i'r ddeddf oddieithr drwy undeb ffydd â marwolaeth Crist. Y mae hyn eto yn perthyn i'r cyfiawnhad. Ond o'r ochr arall, 'Yr ydym yn marw i'r ddeddf (yn y cyfiawnhad) drwy gorff Crist; fel y byddem eiddo un arall, sef eiddo yr hwn a gyfodwyd o feirw, fel y dygem ffrwyth i Dduw.' A dyma wreiddyn ein hailenedigaeth, a dechreuad ein sancteiddhad. Gwelir fod y cwbl yn dyfod o undeb â Christ, a'r cwbl gan hyny yn dyfod drwy ffydd. Ceir yr un athrawiaeth yn y bedwaredd benod o'r Epistol at y Galatiaid, lle y dywedir ein bod wrth natur yn gaethion dan wyddorion y byd. Yr oedd yr etifeddiaeth yn barod; ond yr etifedd yn gaeth, ac yn rhaid ei brynu. Y canlyniad o'r prynu ydyw mabwysiad; a chanlyniad y mabwysiad ydyw anfon Yspryd y Mab i'n calonau ni, yn llefain Abba, Dad.



PWLPUD Y CAPEL COFFADWRIAETHOL YN LLANYMDDYFRI.

"Addysgiadol yw sylwi fel y mae Paul yn cyffelybu credu i farw, ac felly yn ei osod allan fel rhywbeth hollol groes i weithio, er mai o'r marw hwn y mae bywyd a gwaith yn tarddu. I'r un perwyl y dywed Williams, mai nid credu yw fod

genym rinweddau ynom ein hunain, ond gweled ein hunain yn eisieu oll i gyd, a'r eisieu hwnw yn peri i ni bwyso ar y digonolrwydd sydd yn Nghrist. Y mae hyn yn wahanol iawn i'r gred sydd yn rhy gyffredin fod yn rhaid cael bywyd newydd yn yr enaid cyn y gall neb gredu. Mae yn sicr na ddylid priodoli i eraill ganlyniadau y farn a goleddir ganddynt, os byddant hwy eu hunain yn ymwrthod a'r canlyniadau hyny. Er hyny, am y rhai sydd yn dal y farn hon, byddai yn dda iddynt ystyried mor agos ydynt, ac mor hawdd yw iddynt lithro i'r golygiad Pabaidd am ffydd a chyfiawnhad. Addefa y Pabyddion fod cyfiawnhad drwy ffydd; ond dywedant yr un pryd fod ffydd wirioneddol yn cynwys cariad, ac felly gwnant gyfiawnhad drwy ffydd yn gyfiawnhad drwy weithredoedd. Yr unig ffordd i wrthwynebu y golygiad Pabaidd ydyw drwy ddal, yn ol tystiolaeth amlwg yr Ysgrythyr, fod aileni yn dyfod drwy ffydd, ac nid ffydd yn dyfod drwy aileni. Yr wrthddadl fawr yn erbyn hyn yw, nas gall dyn gredu heb fod ynddo fywyd yn gyntaf. Ond ni feddylir fod neb yn credu yn gadwedigol heb yr Yspryd Glân, mwy nag y mae yn marw yn naturiol heb i Dduw beri hyny. Ac os caniateir fod yr Yspryd yn argyhoeddi dyn cyn ei aileni, paham na ellir caniatau ei fod yn ei ddwyn i gredu cyn ei aileni, er nad yw yr Yspryd yn preswylio ynddo nes y daw drwy gredu i undeb â Christ? Ond nid ei wella y mae yr Yspryd cyn iddo ddyfod at Grist, ond ei ddwyn at Grist er mwyn iddo gael ei wella. Gan hyny, nid oes achos i neb oedi nes cael tro cyn dyfod at y Ceidwad. Pe rhoddid derbyniad dwfn i'r athrawiaeth hon gan holl bregethwyr yr efengyl, byddent yn sicr o deimlo mwy o gryfder i alw ar bawb i ddyfod at Grist yn ddiymaros; ac i ddywedyd gyda Williams, yn y penill a ddyfynwyd eisioes:—

"'Mae'r ffynon yn agored,
  Dewch edifeiriol rai;
Dewch chwithau yr un ffunud
  Sy'n methu edifarhau;
Dewch gafodd galon newydd,
  Dewch chwithau na cha'dd un,
I olchi pob budreddi
  Yn haeddiant Mab y dyn.'"

Dichon ein bod wedi aros yn rhy hir ar deilyngdod llenyddol, a chysondeb athrawiaethol emynau a chyfansoddiadau eraill Williams, ond nid ydym yn anghofio fod eu prif ragoriaeth yn gorwedd mewn cyfeiriad arall. I lawer pererin blinedig y maent wedi bod fel dyfroedd oerion i enaid sychedig. Buont yn gyfnerth i'r llesg, ac yn olew a gwin i lawer enaid drylliedig. Cafodd llawer olwg ar y wlad well a'r Brenin yn ei degwch drwy ei emynau ef. Profasant yn foddion grâs i filoedd yn Nghymru, ac yr ydym yn hyderu y parhant yn eu rhinwedd am oesoedd lawer i ddyfod.

Nis medrwn adael Williams heb goffhau y difyr hanesion sydd am dano, a'r ffraeth benillion a wnaeth ar wahanol achlysuron. Nid ydynt o nemawr gwerth ar wahan oddiwrth eu hawduriaeth. Taflant oleuni ar ei barodrwydd, ei ffraethineb, a sirioldeb ei yspryd. Nid oes iddynt drefn amseryddol, nac ychwaith unrhyw sicrwydd am eu lleoliad, ac nis gellir dwyn nemawr o honynt o dan unrhyw ddosbarthiad. Gosodir hwy i fewn yma am fod gan y wlad barchedigaeth i fan-bethau y bardd o Bantycelyn, a gwneir hyny mor fyr ag a fydd yn ddichonadwy. Danfonodd y penill canlynol at ei wraig pan yr oedd ar daith trwy'r Gogledd:—

"Hêd, y gwcw, hêd yn fuan,
  Hêd y deryn glâs ei liw,
Hêd oddi yma i Bantycelyn,
  D'wed wrth Mali mod i'n fyw;
Hêd oddi yno i Lanfairmuallt,
  D'wed wrth Jack am gadw ei le,
Os na chaf ei weled yma,
  Caf ei weled yn y ne'."

Cawn yn *Methodistiaeth Cymru*, cyf. iii., tudal. 345, nodiad fel yma: "Daeth hanes arall i law am y bardd pan yr ydoedd ar daith yn Môn, ac yn yr hanes y mae ffurf wahanol ar y penill, 'Hêd y Gwcw,' ac ar yr amgylchiad a barodd ei gyfansoddi. Cymerwyd y bardd yn afiach, medd yr hanes, yn y Garnedd-ddu, a bu yn gorwedd ddyddiau rai. Yn ei salwch aeth yn isel iawn ei feddwl, a theimlai hiraeth angerddol am ei gartref, ac am ei deulu." Wylai a chanai fel hyn:—

"'Rwy'n awr yn eitha' Môn yn aros,
  Ac y mae yn fy yspryd glwy',
Am gael gweled Pantycelyn,
  'Chaf ei weled mo'no mwy!
Hêd, y gwcw, dros y bryniau,
  Hed, aderyn glâs ei liw,
Dwg i'm newydd, dwg yn fuan,
  A yw yno bawb yn fyw?
Hêd oddi yno i Lanfairmuallt,
  D'wed wrth Jack am gadw'i le,
Os na chai weled ar y ddaear,
  Y caf ei weled yn y ne';
Hêd oddi yno, dos at Mali,
  Dywed wrthi'n ddistaw bach,
Os ca'i genad gan yr Arglwydd,
  Y dof fi adre' eto'n iach."

Dywedir ddarfod i Williams, pan yn hen ŵr mewn tipyn o anghofrwydd meddwl, roddi "Hêd y Gwcw" allan i'w ganu, wrth ddechreu odfa mewn capel ag oedd wedi ei adeiladu yn bur agos i'r môr. Ymaflodd ei gyfaill yn nghwr ei gôt, a dywedodd yn ddistaw: "W. Williams, nid yw y penill yma yn weddus mewn addoliad." "Gwir a 'wedi di," ebe yntau; ac ar yr un anadl rhoddes y penill canlynol allan, a ddaeth i'w feddwl yn y fan, wrth glywed swn y môr:—

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr
Yn chwyddo byth i'r lan;
Mae ynddi ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan."

Gwnaeth y penill canlynol i dalu diolch i Enos, tad Owen Enos, o'r Twrgwyn, Sir Aberteifi. Yr oedd y bardd yn lletya ar dywydd ystormus yno, ac er mwyn iddo fyned i'w gyhoeddiad, rhoddodd Enos iddo fenthyg ei gaseg, a thaflodd ei wraig, "Pal," ei chlôg drosto, gan estyn iddo botel yn cynwys rhyw wlybwr ag y tybiai hi a'i cadwai ef yn gynes:—

"Deg bendith f'o ar y clogyn.
Ac ugain f'o ar 'Pal,'
A phymtheg f'o ar y gaseg
A'm cariodd i mor dal,
A naw f'o ar y botel,
Ddiddefnydd wrth fy nglun,
A'r *rhest* ar gopa Enos,
I'w gwneyd yn gant ag un."

Yr oedd unwaith yn pregethu yn Môn, ac yr oedd y wraig yn cyd-drafaelio ag ef, fel y digwyddai yn aml. Daethant i Langefni. Ar ol y bregeth aeth y ddau i dafarndy, o'r enw Penybont, i letya. Yr oedd cynllwyn yn ngwersyll yr erlidwyr yn erbyn y pregethwr, ac wedi deall pa le yr ydoedd, ymgasglodd haid o honynt wrth ddrws y gwesty. Yr oedd gyda hwy grythwr (*fiddler*). Ar y pryd yr oedd Williams a'i wraig yn aros yn y parlwr, clywent drwst traed llawer o bobl yn y fynedfa, a gwelent ddrws y parlwr yn agor, a'r crythwr yn sefyll o'u blaen, tra yr oedd llu o ddyhiriaid wrth ei gefn. Pan welodd Williams ef, galwodd arno: "Tyr'd i mewn, fachgen." Y crythwr a ofynodd, gyda llawer o goeg-foesgarwch, a garent hwy gael *tune?* "Carem," atebai Williams, "gad dy glywed yn chwareu." "Pa *dune?*" gofynai y crythwr. "Rhyw *dune* a leici di, fachgen—*Nancy Jig*, neu rywbeth arall"—oedd yr ateb. Ar hyn dechreuodd rygnu y crwth, a gwaeddodd Williams ar y wraig, "'Nawr, Mali, cân":—

"Gwaed dy groes sy'n codi fyny
'R eiddil yn gongcwerwr mawr;
Gwaed dy groes sydd yn darostwng
Cewri cedyrn fyrdd i lawr:
Gad i'm deimlo
Awel o Galfaria fryn."

A chanu a wnaethant nes gostegu ynfydrwydd y bobl, y rhai a lithrasant ymaith heb aflonyddu arnynt yn mhellach. Arferai Williams adrodd am erledigaeth arall a gafodd yn y Gogledd. Pregethai mewn tafarndy. Pan o gylch dechreu y gwasanaeth, daeth yswain y gymydogaeth a llu o bobl gydag ef, i'r amcan o'i niweidio. Ciliodd yntau o'r golwg, a darfu i'r tafarnwr ei berswadio i newid ei ddillad, ac ymddyeithrio. Daeth allan wedi newid ei wisg, ac ni ddarfu i'r erlidwyr ddeall mai efe ydoedd y pregethwr. Ond yn fuan cododd ystorm enbyd yn nghydwybod Williams yn nghylch priodoldeb ei ymddygiad, a daeth geiriau y Gwaredwr gyda nerth anorchfygol i'w feddwl: "Pwy bynag a'm gwado i yn ngwydd dynion, minau a'i gwadaf yntau yn ngwydd fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." Gorfu iddo ddychwelyd, a gwisgo ei ddillad ei hun, a gwynebu y perygl. Adnabuwyd ef yn y man, a dechreuasant ymosod arno, ond gan i'r tafarnwr gymeryd ei blaid, ni dderbyniodd niwed. Efe oedd y cyntaf a geisiodd bregethu yn nhref Caernarfon. Yr oedd wedi bod yn pregethu yn Sir Fôn. Yr oedd ei wraig gydag ef ar y daith hon. Wrth groesi y culfor o borth Talyfoel, dyrysodd Mrs. Williams yn rhyw fodd yn ngodreu yr hwyl, a thaflwyd hi dros ymyl y cwch i'r môr. Yr oedd tybiaeth gref i hyn gael ei wneyd o fwriad! Pa fodd bynag, gwaredwyd hi rhag boddi, a thiriasant yn ddiogel yn Nghaernarfon. Deallodd Williams yn fuan nad allai anturio pregethu yno, gan eu bod yn penderfynu ei rwystro neu ei ladd. Ymguddiodd, ac aeth ymaith mor ddirgel ag y medrai dranoeth. Nis medrai efe wrthsefyll erledigaeth fel y gwnai y gwrol Howell Harris.

Medrai roddi sen yn bur ddeheuig. Yr oedd tyddynwr o Landdewi, yr hwn oedd yn berchen gwaith neu gloddfa, yn achwyn wrtho fod ei amgylchiadau yn isel, a bod ei dad yn byw ar driugain punt yn y flwyddyn yn well nag yr oedd efe ar gant. Dywedodd Williams wrtho:—

"Rho heibio waith Llanddewi,
A chadw caseg fawr,
A bildio teiau newydd,
A thynu'r hen i lawr;
A phaid a rhenti'r tiroedd
I'r deiliaid yn rhy ddrud,
Gwna'r triugain fwy o lawer
Na wna y cant i gyd."

Cafodd un Evan Moses sen drymach ganddo. Teiliwr ac argraffydd oedd y gŵr hwn. Yr oedd wedi bod yn ddigon hyf i feirniadu marwnad Williams i Howell Harris, ac wedi gadael rhai penillion allan wrth ei argraffu hi:—

"Wel, gwrando, Evan Moses,
Y teiliwr gwaetha'i ryw,
O'r dorf ddirif deilwriaid
Erioed a greodd Duw;
'Dwy'n amheu nad yr Arglwydd.
A'th wnaeth di'n deiliwr glas;
Ond Satan a dy alwodd
At waith efengyl gràs."

Cyfansoddodd Williams lawer yn nyfnder y nôs, pan y byddai pawb eraill yn gorphwys. Dywedir y byddai yn aml, ar ol myned i orphwys ei hun, yn deffro ei gymhar, gan waeddu yn sydyn. "Mali, Mali; canwyll, canwyll, y mae yn rhaid i mi fyned i ysgrifenu." Goleuai Mali y ganwyll yn ddiymaros a dirwgnach, ond nid oedd efe bob amser pan ar ei deithiau yn cael yr un parodrwydd i weini arno. Un tro, yn y Collenau, yn ymyl Tonyrefail, medd rhai, yn Maesceinffordd, ger Llangamarch, medd eraill, methodd y bardd yn lan a dihuno y forwyn, a dyma fel y canodd iddi boreu dranoeth:—

"'R wy' 'nawr yn gwel'd yn eglur,
'Tai clychau mawr y Llan,
A rhod y felin bapyr,
A gyrdd y felin ban,
A'r badell fawr a'r crochan
Yn twmblo oddeutu'r tŷ,
A'r gwely'n tori dani,
Mae cysgu wnelai hi.'

Un tro yr oedd Williams ar daith trwy Fro Morganwg, ac yn pregethu yn Llysyfronydd. Yr oedd pobl y wlad o gwmpas wedi dyfod i'w wrando, ac yr oedd ganddo gopïau o *Theomemphus* i'w gwerthu ar ol yr odfa. Gwnaeth farchnad go dda o honynt; ond yr oedd un o'r enw Ned Lewis, un o wrandawyr Llangan, yn gomedd prynu, ac yn dweyd fod y llyfr yn rhy ddrud; dywedodd Williams wrtho:—

"Ned Lewis, er ei wrando,
Yn selog yn mhob man,
Sy'n hoffi ceiniog tincer,
Yn fwy na ffydd Llangan;
Ni phryn e' ddim o Theo',
Mae e' geiniog yn rhy ddrud,
Nes delo'r wiber danllyd
I frathu ei fynwes glyd."

Yr oedd dynes yn byw yn ymyl Castellnedd, yn Sir Forganwg, o'r enw Sali Stringol, ag y byddai Williams yn arfer masnachu â hi mewn llyfrau. Yr arfer oedd talu am yr hen wrth gael y newydd. Un tro, pan yr oedd Williams ar gylch, ni ddaeth Sali i'w gyfarfod fel y byddai yn arferol o wneyd, ac fe aeth y bardd i ofni y byddai iddo golli yr arian. Ysgrifenodd ati i achwyn, gan ddweyd y byddai ar amser penodedig yn Fforchonllwyn, Ystradgynlais, ac y carai iddi ei gyfarfod yno, a dwyn yr arian gyda hi. Digiodd Sali yn enbyd, a phan ddaeth yr amser, aeth yno yn ddrwg ei hwyl, er fod ganddi ffordd faith i'w cherdded. Yr oedd Williams yn lletya gyda Mr. Jones, yr offeiriad. Pan ddaeth Sali i'r tŷ, arweiniwyd hi i mewn i'r parlwr lle yr oedd y bardd, gŵr y tŷ, ac un neu ddau eraill yn eistedd. Cyfarchodd y bardd hi yn garedig, gan holi ei helynt; ond yr oedd hi yn rhy glwyfedig ei hyspryd i siarad, a thaflodd yr arian ar y bwrdd yn swta, a gofynodd am *receipt*. Gwelodd Williams fod y wraig dda wedi tramgwyddo, a dywedodd, "Cewch, cewch, cewch, cewch," yn hollol hunanfeddianol. "Rhowch i mi dipyn o bapyr, Mr. Jones," meddai, ac wedi ei gael, eisteddodd i lawr i ysgrifenu. Ar ol gorphen, estynodd y papyr i'r offeiriad, yr hwn a dorodd allan i chwerthin; a phan ddarllenodd hwnw ef allan i glywedigaeth y cwmni, yr oedd Sali yn chwerthin mor iach a neb o honynt. Dyma y *receipt*:—

"'Rwy'n rhyddhau Sali Stringol,
Y wraig a'r natur fawr,
O bob rhyw ddyled imi
O Noah hyd yn awr;
Dymunaf dda i Sali,
A'i chrefydd gyda hi,
A gwnaed hi hedd a'r nefoedd,
Fel gwnaeth hi hedd a mi."

Ryw bryd yn y flwyddyn 1788, yr oedd y bardd yn pregethu yn nghapel y Dyffryn (Dyffryn Clwyd), ac yn ol yr arfer gyffredin, yn y tymhor hwnw, yn cadw cyfarfod eglwysig ar ol yr odfa. Yr oedd yno ddau wedi aros i ymofyn am aelodiaeth o newydd, sef gŵr o saer yn y gymydogaeth, a merch ieuanc. Ymddiddanodd Williams a hwy, yn ol ei arfer, ac ar ol darfod, ebe fe, gan gyfarch yr eglwys: "Gadewch i'r eneth yma aros

gyda chwi, ac ymgeleddwch hi; ond am y gŵr yma, nid oes ganddo fwy o grefydd nag sydd gan fy ffon i," gan daro ei ffon ar y llawr. Felly y troes pethau allan.

Yr oedd gŵr, o'r enw William Powell, aelod o eglwys Llansamlet, Morganwg, wedi gwyro at Sandemaniaeth, gan ddilyn Mr. Popkins, yr hwn oedd wedi gwyro o'i flaen ef. Pan yr oedd efe ar ei wely angau ymwelodd y bardd o Bantycelyn ag ef, ac yn y gair a goffheir iddo ei ddweyd wrth y claf, y gallwn weled fod gan y bardd feddwl da am ei grefydd, er Llandeilo Fân, yn Sir Frycheiniog. Ymddengys mai Mrs. Lloyd, Aberllech, ger Beiludu, ydoedd hi, boneddiges a fu yn dra chymwynasgar i grefydd yr ardal hono yn ei dydd. Dyma atebiad boneddigaidd y bardd iddi:

> "Ti, bendefiges hawddgar,
>   Mi gadwaf yn fy ngho',
> I'th babell do'i bregethu
>   Pan ddelwyf gynta' i'th fro;
> Ac hefyd ti gai wobr,
>   Pan elo'r byd ar dân,
> Am wa'dd efengyl Iesu
>   I blwy' Llandeilo Fân.'



EGLWYS LLANFAIR-AR-Y-BRYN.

[*Yn dangos y Meini Coffadwriaethol cyntaf a osodwyd ar y beddau.*]

iddo lithro ychydig oddi ar y ffordd: "Wil, Wil," eb efe, "ti fuost ti yn *whil'o* llawer am ddyn'on perffaith yn dy dymhor, mi 'dy wela di yn nes atyn' nhw' yn awr nag erioed." At y Mr. Popkins uchod y cyfeiriai Williams pan y dywedai, mai "pedwar peth a'i gwnaethai yn bregethwr mawr—perwig Samson Thomas, ceffyl Howell Davies, cyfoeth Popkins, a doniau Rowlands."

Daeth gwraig foneddig ato unwaith i w wahodd i ddyfod i bregethu i w thŷ hi yn

Ymddengys ei fod yn ŵr pur ddifater am ei ymddangosiad personol. Nid oedd un gwasanaeth yn rhy isel iddo ef ei gyflawni. Elai o gwmpas y wlad fynychaf ar gefn ei geffyl, gyda sachaid o'i lyfrau ar y cyfrwy; ac os digwyddai i'r tywydd droi allan yn anffafriol, ac yntau yn ddiddarpariaeth, benthycai gôt rhyw gyfaill, neu glôg ei wraig, heb ymholi dim a fyddai dilladau felly yn gweddu gŵr parchus a chyfrifol fel efe. Cawn ei fod yn pregethu un tro yn mharlwr gŵr

boneddig yn Margam, Sir Forganwg. Ei bwlpud yno oedd bwrdd derw caboledig, ac i'r amcan dyblyg, o beidio niweidio y bwrdd, ac o beidio niweidio ei hun drwy syrthio oddiar y bwrdd llithrig, tynodd ymaith ei esgydiau, a phregethodd yn hwylus yn nhraed ei hosanau, ar y wledd o basgedigion breision, yn Mhrophwydoliaeth Esaiah.

Dro arall, cawn ei fod yn pregethu ar dalcen pont Castellnewydd-Emlyn. Y gauaf oedd hi, ac yr oedd ar amser yr odfa, meddir, yn "dywydd embeidus, ac yn lluwcho eira." Gwisgodd Williams ei gôt fawr, a rhwymodd ddau napcyn ar ei ben, a gosododd het walciog ar hyny. Yr oedd carthen rawn, o'r fath a ddefnyddid i nithio yd ar faes agored, wedi ei rhwymo dros y cyfan gyda ffiled gaws. Pregethodd yn hwylus allan o'r pentwr dillad hyn. Diau fod yr amgylchiad hwn yn un eithafol iawn, er y gwyddis ei fod yn cael ei flino yn dost gan yr "hyp," neu y pruddglwyf, yn ei henaint, sef y cyfnod ar ei fywyd y dywedir i'r peth gymeryd lle.


Yr oedd Morgan Rhys, yr emynydd enwog, yn enedigol o'r un ardal a Williams, sef ardal Llanymddyfri; a buont yn gydaelodau o eglwys Cilycwm, ar un tymhor o'u bywyd. Ffaith hynod ydyw fod dau emynydd mor nodedig a William Williams a Morgan Rhys yn enedigol o'r un ardal, ac yn aelodau o'r un eglwys. Cytunir i osod Williams yn mlaenaf yn mhlith yr emynwyr Cymreig, ac y mae pobl o farn, a "Hiraethog" yn eu mysg, yn gosod Morgan Rhys yn nesaf ato. Arferent adrodd eu hymnau wrth eu gilydd. Byddai Morgan Rhys weithiau hytrach yn amleiriog, ac ambell bryd yn arfer gormodiaeth anochelgar. Un tro, pan yr adroddodd hymn newydd o brofiad pur uchel, dywedodd y prif emynydd wrtho: "Wel, y mae genyt ti yn hona, beth bynag, brofiad Cristion a haner da." Y meddwl oedd ei fod gryn lawer uwchlaw cyrhaeddiad y cyffredin o gredinwyr.

Bellach, rhaid terfynu. Ymddengys ei fod wedi ei fendithio a chyfansoddiad corphorol cryf, a mwynhaodd iechyd da, er ei fod yn hynod esgeulus o hono. Eisteddai i fyny yn aml i ysgrifenu hyd y boreu, ac anfynych yr elai i'w wely hyd ddau o'r gloch. Dygodd hyn y graianwst (*gravel*) arno, a chafodd ei flino yn fawr yn y blynyddoedd olaf gan y pruddglwyf. Yr oedd mor ofnus ar derfyn ei oes, fel nad elai allan y nos wrtho ei hun. Bu farw Ionawr 11, 1791, yn 74 mlwydd oed, yn y gadair freichiau, lle y gosodasid ef i eistedd tra y taenid ei wely; ehedodd ei enaid i'r orphwysfa dragywyddol y canodd mor odidog am dani, tra yr oeddynt wrth y gorchwyl hwnw. Claddwyd ef yn barchus yn mynwent Llanfair-ar-y-bryn, a phregethwyd yn Mhantycelyn ar yr achlysur gan Mr. Llwyd, Henllan, Cayo, i gynulliad lliosog ag oedd wedi dyfod i weini y gymwynas olaf iddo.

---

## OLNODIAD.

Ar ol gorphen ysgrifenu y benod hon, tra yn chwilio cofnodau Trefecca, daethom o hyd i ffaith sydd i fesur yn cyfnerthu golygiad a amddiffynir genym ar dudalenau 154-6, ynglyn a'r cyfaddefiad o edifeirwch am afreolaeth, a wnaed gan Williams wrth Mr. Charles o'r Bala. Yr ydym yno yn dal mai edifarhau am iddo beidio *oedi* ei fynediad allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau a wnaeth efe, hyd nes y caffai ei lawn urddiad gan yr esgob. Cawn yn y cofnodau crybwylledig hanes Cymdeithasfa Fisol Longhouse, pan yr oedd yn bresenol Daniel Rowland, Howell Davies, a Howell Harris. Yn mysg pethau eraill, penderfynwyd "*Fod y brawd John Jones i fod yn ddystaw, mewn trefn i gael ei ordeinio, hyd nes y byddo yr ordeiniad trosodd.*" Y dyddiad ydyw Mehefin 8fed, 1743, sef dau fis wedi pasio penderfyniad fod Williams, Pantycelyn, i adael ei guwradiaeth. Dengys hyn fod yr arweinwyr eisioes wedi gweled mai gwell oedd i guwradiaid o dueddiadau Methodistaidd ymfoddloni ar fod dros amser yn ddysgyblion anamlwg, nes iddynt gael eu hordeinio; a'u bod yn cyfrif llafur presenol y cuwradiaid yn llai pwysig na'r gwasanaeth cyflawnach a fyddent yn alluog i'w roddi i'r diwygiad yn y dyfodol. Hwyrach mai gwrthodiad yr esgob i urddo Williams a roddodd iddynt agoriad llygaid. Gwelwn yn y penderfyniad uchod eu bod yn trefnu na fyddai i John Jones syrthio i'r un amryfusedd a'r Bardd o Bantycelyn.




DARLUNIAU O LEOEDD YN DAL PERTHYNAS A BYWYD A CHOFFADWRIAETH Y BARDD O BANTYCELYN.

sefyll ar fryn gyferbyn a Llwynllwyd, ac mewn pellder o tua dwy filldir. Y mae yn un o'r capelau Annibynol hynaf yn Nghymru.

CEFNCOED. Y mae yr amaethdy hwn heb nemawr o gyfnewidiadau ynddo er y dyddiau gynt.

EGLWYS LLANWRTYD. Nid oes gyfnewidiad o bwys yn yr eglwys hon er dyddiau Williams, er ei bod wedi myned dan adgyweiriadau.

AMAETHDY PANTYCELYN. Rhoddir yma ddau ddarlun o gartref y bardd. Dengys y cyntaf y tŷ fel yr ydoedd yn ei amser ef, a'r llall fel y mae yn bresenol. Yr ydym yn ddyledus i Mr. William Mackenzie am ganiatad i gyhoeddi darlun o'r adeilad cyntefig.

LLANFAIR-AR-Y-BRYN, A'R HEN ADEILADAU AR Y BEDDAU. Yr ydym yn ddyledus i Mr. W. Mackenzie am hwn hefyd.

Y GOFADAIL. Y Parch. T. Levi, Aberystwyth, ddarfu gychwyn y mudiad o osod y gofadail bresenol ar fedd Williams. Dechreuodd ar y gwaith yn fuan ar ol gorphen gyda chofadail y Parch. Daniel Rowland, Llangeitho. Gwasanaethai efe fel ysgrifenydd i'r mudiad, a D. Roberts, Ysw., Liverpool, fel trysorydd. Casglwyd at y pwrpas £300, ond ni wariwyd ar y gôfgolofn ond oddeutu £150. Gwnaed hi oddi wrth gynllun o eiddo Richard Owen, Ysw., Architect, Westminster Chambers, Liverpool. Y mae yn un-ar-bymtheg a haner o droedfeddi o uchder, ac o gwmpas chwe' tunell o bwysau. Ei defnydd ydyw ithfaen coch (*red granite*). Y mae yn gerfiedig arni y geiriau canlynol:—

Sacred to the memory of
the
REV. WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN,
in this Parish,
Author of several works in prose and verse.
He waits here, the coming of the
morning star, which shall usher in
the glories of the first resurrection,
when at the sound of the Archangel's trumpet
the sleeping dust shall be reanimated,
and death for ever
shall be swallowed up in victory.
Born 1717 ; Died Jan. 11th, 1791 .
Aged 74 years.

---

"Heb saeth, heb fraw, heb ofn, ac heb boen,
Mae'n canu o flaen yr orsedd ogoniant Duw a'r Oen ;
Yn nghanol myrdd myrddiynau, yn canu oll heb drai,
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau."

Ar yr ochr arall i'r gôfgolofn y mae yn gerfiedig fel yma :—

ALSO, MARY,
the beloved wife of the above
William Williams,
who died 11th June, 1799 ;
Aged 76 years.

ALSO, THE REV. WILLIAM WILLIAMS,
St. Clement's, Truro, Cornwall, Clerk,
eldest son of the above Rev. William Williams,
who died 30th Nov., 1818 ;
Aged 74 years.

ALSO OF THE REV. JOHN WILLIAMS,
OF PANTYCELYN,
youngest son of the above Rev. William Williams,
who died 5th June, 1828 ;
Aged 74 years.
A sinner saved.

Y CAPEL COFFADWRIAETHOL. Tua'r un amser ag yr oeddid yn apelio at y wlad am arian i godi cofgolofn ar fedd y bardd, penderfynodd Cyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin godi Capel Coffadwriaethol iddo yn nhref Llanymddyfri. Cyflawnwyd y ddau amcan. Y mae y capel yn un destlus a hardd. Cynlluniwyd ef gan Mr. J. H. Phillips, Architect, Caerdydd, ac adeiladwyd ef gan Mr. David Morgan, Adeiladydd, Abertawe. Mai ffenestri y ffrynt yn rhai lliwiedig, ac yn goffadwriaethol—un am y diweddar Dr. Thomas Phillips, goruchwyliwr y Feibl Gymdeithas, yr ail am y Parch. John Roberts (Ieuan Gwyllt), a'r drydedd am Ann Griffith, yr emynyddes enwog o Ddolwar Fechan. Costiodd y ffenestri lliwiedig hyn tua £160. Yr ydys yn dra dyledus am orpheniad y capel i ymroddiad a llafur y Parch. T. E. Thomas, Llanymddyfri, ynghyd a Mr. J. James, Draper, a brodyr eraill o dref Llanymddyfri. Costiodd £3,100. Agorwyd y capel ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Awst 7fed a'r 8fed, 1888. Pregethwyd ar yr achlysur yn y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn. W. Powell, Penfro, Edward Matthews, Dr. Saunders, T. Levi, Dr. Dickens Lewis, Dr. Cynddylan Jones, D. Lloyd Jones, M.A., H. Barrow Williams, a J. Williams, Brynsiencyn.

PWLPUD Y CAPEL COFFADWRIAETHOL. Gwnaed ef gan Mr. Joseph Rogerson, London Road, Liverpool. Maen yw ei ddefnydd—*Caen stone*, feddyliem—ac y mae wedi ei gerfio yn dra addurnol. Y mae pump *panel* cerfiedig yn cylchynu y pwlpud, a phob *panel*, ond un, yn arddangos rhyw hanes ysgrythyrol. Yn y canol ceir cerflun o Williams. Darlunir ef megys yn eistedd yn ei lyfrgell yn ysgrifenu barddoniaeth. Y cerfluniau eraill ydynt: "Dychweliad y Mab Afradlon," "Crist a'r Wraig o Samaria," "Yr Ystorm ar Fôr Tiberias," a'r "Samaritan Trugarog." Costiodd £150, a thalwyd am dano a rhan o'r arian a gasglwyd ar gyfer y gôfgolofn gan y Parch. T. Levi, Aberystwyth.

LLAWYSGRIFAU WILLIAMS. Yr ydym yn ddyledus i Bwyllgor y Llyfrau am y copiau hyn.

YR ALELUIA. Cymerwyd y darlun hwn oddi wrth y copi o'r argraffiad cyntaf, sydd yn meddiant y Parch. Owen Jones, M.A., Llansantffraid.

# PENOD VIII.

——:o:——

## WYTH MLYNEDD CYNTAF Y DIWYGIAD.

*Cynydd cyflym y diwygiad yn y Deheudir—Y Gogledd, gyda'r eithriad o Sir Drefaldwyn, yn elynol i'r symudiad—Y diwygiad Methodistaidd yn gyffelyb i ddiwygiad yr oes apostolaidd—Yr Ymneillduwyr ar y cyntaf yn cydweithredu, ond gwedi hyny yn peidio—Y Methodistiaid yn debygol o gael eu hesgymuno o'r Eglwys—Eu safle yn anamddiffynadwy—Ymgais at drefn—Y cynghorwyr cyntaf—Cyfarfodydd o'r arweinwyr a'r cynghorwyr yn dechreu cael eu cynal yn 1740—Yr angenrheidrwydd am Gymdeithasfa—Rheolau cyntaf y seiadau.*

DECHREUODD y diwygiad Methodistaidd yn 1735. Gwael a diolwg iawn oedd yr offerynau a ddefnyddiwyd i roddi bôd iddo; nid amgen cuwrad tlawd, na fu ei gyflog erioed dros ddeg punt y flwyddyn, mewn dyffryn gwledig yn Sir Aberteifi; a dyn ieuanc, na wnelai yr esgob roddi urddau sanctaidd iddo, wrth draed mynyddoedd Brycheiniog. Gellir ychwanegu atynt ddyn ieuanc arall yn nghanolbarth Penfro. Yn niwedd 1742, sef yn mhen llai nag wyth mlynedd wedi y cychwyniad cyntaf, yr oeddynt wedi gosod Cymru oll, o Gaergybi i Gaerdydd, yn wenfflam. Am y Deheudir, prin y mae yn ormod dweyd i'r garw gael ei dori yn ystod y cyfnod byr hwn. Nid oedd braidd unrhyw gymydogaeth, pa mor wledig ac anhygyrch bynag ei safle, lle na fuasai y Diwygwyr yn pregethu. Gwir mai Howell Harris oedd y mwyaf egniol gyda hyn. Y mae yn anmhosibl rhoddi syniad cywir am gyflymder ei wibdeithiau; yr oedd ar y cyfrwy, neu ynte yn cyhoeddi efengyl gras i bechaduriaid, o doriad y wawr hyd fachlud haul. Pregethai nid yn unig yn y trefydd, ac yn y mân bentrefydd yn y cymoedd unig, ond hefyd tan gysgod coeden, pa le bynag yr ymgasglai pobl, er na fyddai tai yn agos. Ceir traddodiad am dano yn mhob ardal braidd. Flynyddoedd lawer yn ol cerddai Mr. Daniel Davies, Ton, Rhondda, o Glanbran, ger Llanymddyfri, tua'r Sugar Loaf, sef y mynydd uchel a wahana rhwng Siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog. Ar ei daith pasiodd fwthyn Aberwyddon, lle y preswyliai hen wraig o'r enw Kitty Parry, a anesid yn y flwyddyn 1775. Wrth fod Mr. Davies yn ei holi am hen gofion y gymydogaeth, dangosai iddo goeden yr ochr arall i'r nant, a dywedai: "Fe fu Howell Harris yn pregethu dan y pren yna pan oedd yn ddyn ifanc;" ac nid oes na llan na phentref yn agos. Ceir cofion cyffelyb yn mhob rhan o'r wlad yn mron. Teithiai Rowland, hefyd, a Williams, Pantycelyn, lawer iawn; ac nid oedd Howell Davies heb wneyd teithiau hirion.

Mewn canlyniad, yr oedd cymdeithasau crefyddol wedi cael eu sefydlu dros y wlad, o Lanandras i Dyddewi. Mewn tai anedd yr oeddent eto; ac nid oeddent yn lliosog; ond yr oedd zêl yr aelodau yn fawr. Meddianesid Sir Faesyfed o gwr i gwr. Darllenwn am Howell Harris droiau yn Llanybister, ac ymddengys fod y molianu a'r gorfoleddu yno agos yn gyffelyb i'r hyn a gymerai le yn Llangeitho. Ysgrifena James Ingram at Howell Harris: *"Y mae yr Arglwydd yn bendithio y brawd William Evans yn rhyfedd. Y mae y tân a gyneuwyd ganddo yn Llanybister o'r un natur a thân Llangeitho, ac yn llawn mor gryf mewn wyth neu ddeg o aelodau y seiad. Bum yno yn ddiweddar, a phrin y clywid fy llais gan eu llefau. Yr oedd rhai dan argyhoeddiad o'u cyflwr colledig yn dweyd eu bod wedi eu damnio; eraill o fawr lawenydd wrth ddarganfod iachawdwriaeth yn Nghrist, a waeddent: 'Gogoniant! gogoniant! gogoniant i Dduw yn oes oesoedd am Iesu Grist.' Parhaodd hyn o gwmpas pedair awr." William Evans, yr hen gynghorwr o

* *Weekly History.*

Nantmel, yw "y brawd" y cyfeirir ato. Cawn seiadau wedi eu sefydlu yn Nantmel, Llanybister, Llandrindod, Claerwy, Aberedw, Dyserth, Glascwm, Llansantffraid, a lleoedd eraill yn Sir Faesyfed. Yr oedd cymdeithasau, hefyd, yn britho Sir Fynwy o Blaenau Gwent i Gasnewydd, ac o afon Rhymney yn y gorllewin hyd afon Wy yn y dwyrain. Yr ydym yn enwi y ddwy sir hon am iddynt gwedi hyn gael eu colli, agos yn hollol, i Fethodistiaeth. Yr oedd seiadau hefyd, a ystyrid o fewn cylch y Diwygwyr Cymreig, wedi cael eu sefydlu yn yr Amwythig, Llwydlo, Llanllieni, ac yn swyddi Caerloyw, Wilts, a Henffordd. Ychydig ar ol hyn dywed Thomas Jones, un o'r arolygwyr, fod * seiat hefyd, cynwysedig o bymtheg o bersonau wedi cael ei sefydlu yn nhref Henffordd; o ba rai yr oedd amryw wedi eu cyfiawnhau, ac eraill yn ceisio yn hyfryd. Yr oedd yn y dref eraill drachefn yn awyddus am wrando. Am Siroedd Brycheiniog, Morganwg, Caerfyrddin, Aberteifi, a Phenfro, yr oedd seiadau, rhai yn fychain a rhai yn fawrion, wedi cael eu planu ynddynt o gwr i gwr.

Rhaid addef mai ychydig o afael a gawsai y diwygiad eto ar y Gogledd. Er fod ymweliadau Howell Harris wedi creu gryn gyffro, nid yw yn ymddangos fod nemawr o seiadau wedi cael eu sefydlu yno trwy ei offerynoliaeth. Dywed yn ei ddydd-lyfr fod y drws yn Ngwynedd fel pe yn cael ei gadw yn nghau yn ei erbyn. Yr unig eithriad i hyn oedd Sir Drefaldwyn. Yr oedd y sir hon yn agos iddo, ac ymwelai yntau a hi yn fynych, yn enwedig y rhanau hyny o honi a ffiniai ar Frycheiniog a Maesyfed. Cawn fod cymdeithasau wedi cael eu sefydlu yn Llanbrynmair, Llanfair, Llanllugan, Mochdre, Llangurig, a Llandinam. Yr oedd yr achos yn Llandinam yn nodedig o lewyrchus, fel y dengys yr adroddiad a anfonwyd i Gymdeithasfa Trefecca, Mehefin, 1743. "A mae yma," ebai yr arolygwr, "tua deugain o aelodau, a phedwar cynghorwr anghyoedd. Ein hanwyl Arglwydd sydd yma yn Emmanuel. Y mae yn dwyn ei waith yn mlaen yn rhagorol, er gwaethaf llawer o rwystrau." Nid oedd gwahaniaeth rhwng Sir Drefaldwyn a siroedd y Deheudir gyda golwg ar ymdrechion y Diwygwyr, a'r llwyddiant a ddilynai eu llafur. Ond am y gweddill o Wynedd, ychydig o argraff a wnaethid arni. Ar yr un pryd, rhaid i ni gofio fod Lewis Rees yn llafurio gyda graddau o lwyddiant yn Llanbrynmair, a'i fod yn ymweled yn bur fynych a rhanau o Feirionydd. Yr oedd Jenkin Morgan, hefyd, un o ysgolfeistri Griffith Jones, yn cadw ysgol, ac yn pregethu, hyd y goddefid iddo, yn Sir Gaernarfon.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd trechwyd yr yspryd erlidgar i raddau mawr. Ar y dechreu, terfysgid y cyfarfodydd gan y werinos ddifeddwl, y rhai a gyffroid gan yr offeiriaid a'r boneddigion; a deuai y swyddogion gwladol yn mlaen i fygwth dirwy a charchar. Ond diflanodd hyn yn y Dê agos yn hollol, yn ystod yr wyth mlynedd cyntaf. Nid na chawn esiamplau o erlid gwedi hyn, ond y maent yn anaml, ac yn fwy o gynyrch damwain nag o ragfwriad. Yr oedd dau reswm am hyn. Un, fod nifer o ddynion dylanwadol yn mhob sir braidd wedi eu henill at y diwygiad, megys Marmaduke Gwynn; Price, yr ustus; yr Yswain Jones, Ffonmon; Howell Griffiths, Tref-feurig, ac eraill. Gosodai y rhai hyn eu hofn ar y rhai a hoffent derfysgu, fel na feiddient roddi rhaff i'w teimlad. Yn ychwanegol, yr oedd opiniwn y cyhoedd wedi troi yn gryf o blaid y Diwygwyr. Gwelai y bobl eu bugeiliaid priodol yn ddifater am eu heneidiau, a llawer o honynt yn arwain bucheddau anfoesol cyhoeddus; teimlent fod Harris a Rowland, a'u cydlafurwyr, yn ddynion o ddifrif, ac yn awyddus am eu hachub rhag distryw. Ac os oedd y seiadau yn fychain eu rhif, yr oedd cynulleidfaoedd anferth wedi cael eu codi i wrando; byddai clywed fod Rowland neu Harris yn dyfod trwy ryw ranbarth o'r wlad yn ei chyffroi drwyddi, ac ymgasglai miloedd i glywed, fel nad oedd unrhyw adeilad a ddaliai y torfeydd. Efallai mai nifer gymharol fychan fyddai yn cael eu hachub, ond yn bur aml ysgydwid yr holl gynulleidfa, a deffroid eu cydwybodau, nes y byddai eu holl enaid yn cael ei enill o blaid y gwirionedd. Yn ngwyneb y teimlad hwn anmhosibl oedd cyffroi erledigaeth. Dywedai Whitefield fod canoedd ar hyd a lled y wlad yn barod i roddi eu bywydau i lawr dros Howell Harris. Nid amheuwn fod yn mysg y rhai hyn lawer o ddynion anfoesol, meddwon mewn tafarndai, y rhai na fedrent ymwrthod a'u blysiau, ond oeddynt ar yr un pryd yn gwbl argyhoeddedig fod y Diwygwyr yn ddynion Duw.

* *Trevecca MSS.*

Ymddengys y diwygiad Methodistaidd i ni fel yn dwyn cyffelybrwydd nodedig i ddiwygiad yr oes apostolaidd. Yn un peth, drylliai y mân reolau oeddent mewn arferiad, gan ddwyn i mewn ddulliau newyddion o weithredu. Gwin newydd oedd Methodistiaeth, ac mor gryf oedd ei ymweithiad fel yr aeth yr hen gostrelau yn ganddryll. Bywyd ydoedd, ac fel pob bywyd, mynodd lunio corff iddo ei hun. Er yr ymlynai y Diwygwyr wrth Eglwys Loegr, ac y teimlent anhueddrwydd mawr i adael ei chymundeb, rhaid addef eu bod yn rhedeg yn ngwddf holl draddodiadau a defodau yr Eglwys. Fel esiamplau o hyn gallwn gyfeirio at y weinidogaeth deithiol, yr hon oedd yn ngwrthwyneb i'r dosparthiad eglwysig o'r wlad yn blwyfydd; at y weinidogaeth leygol, yr hon, trwy genadu i ddynion diurddau fyned o gwmpas i bregethu, a ymddangosai fel yn diystyru ordeiniad esgobol; at y cynulliadau mewn tai anedd, ac ar y maes agored, y rhai a droseddent y ddefod gyda golwg ar gysegriad; ac at ffurfiad y seiadau, yn y rhai y cynghorai pobl gymharol anwybodus. Ffurfiau newyddion ar fywyd crefyddol oedd y rhai hyn oll; rhoddwyd bod iddynt gan yr yni a'r brwdfrydedd ysprydol oedd yn y Diwygwyr, a'u hawyddfryd i gyfarfod amgylchiadau y wlad ar y pryd. Ni honent fod yr hyn a wnelent yn rheolaidd; yn unig dadleuent fod eu gwaith yn angenrheidiol yn ngwyneb cyflwr Cymru. Achub eneidiau oedd eu pwnc 'nawr; wrth wneyd hyny ni ofalent pa reolau o osodiad dynol a sathrent dan draed; ac fel y maent yn cerdded rhagddynt, clywir trwst y traddodiadau, o gwmpas pa rai yr ymgasglasai mwswgl henafiaeth, yn myned yn deilchion dan eu gwadnau.

Yn nesaf, tueddai i wneyd defnydd o bob dawn o fewn yr eglwys er cario y gwaith yn mlaen. Y mae amryw awgrymiadau yn llythyrau Howell Harris ei fod am wneyd defnydd o lafur benywaidd, fel y gwnaed yn Nghyfundeb y Wesleyaid ar ol hyn; nid i bregethu yr efengyl, ond i arolygu ac i gynghori yn y seiadau. Mewn llythyr at Mrs. James, o'r Fenni, a ddaeth ar ol hyn yn Mrs. Whitefield, ceisia ganddi ysgrifenu at y gwahanol gymdeithasau i'w cyffroi a'u cadarnhau. Dywed: "Cynhyrfwch bawb dros Dduw; gwnewch yn amlwg eich bod yn proffesu ei enw; profwch hwynt hyd adref. Pan yn ysgrifenu gadewch allan o ystyriaeth mai Mrs. J——s ydych, a pha beth a fydd syniad y byd am danoch; ond yn hytrach (ystyriwch) beth fydd eich syniad chwi am bethau pan fyddoch yn rhoddi y tabernacl hwn heibio; na ymddangosed unrhyw beth i chwi yn anffasiynol, anmhriodol, neu yn anweddaidd. Sonia St. Paul am wragedd anrhydeddus a'i cynorthwyent yn ei waith. Gall yr Yspryd Glân anadlu ynoch lythyrau i fod yn ddefnyddiol i eneidiau, yr un fath ag y medr fendithio geiriau." Nid oes unrhyw amheuaeth ei fod yma yn cymhell Mrs. James i lafur mwy neu lai cyhoeddus. Yr oedd hithau yn ddynes nodedig iawn, a haedda ei choffadwriaeth fwy o sylw nag y mae wedi gael. Dangosai letygarwch diderfyn i'r cynghorwyr o bob gradd; yr oedd yn llawn o fwyneidd-dra doethineb, ac ar yr un pryd yn hollol ddiofn. Gwedi priodi Mr. Whitefield, pan yr oeddent ill dau yn croesi y môr i Georgia, bygythiwyd y llong, yn mha un yr hwylient, gan elyn. Gwnaed parotoadau i frwydr, gan sicrhau yr hwylbren a dwyn y magnelau yn mlaen. Addefai Whitefield ei fod ef yn naturiol lwfr, a'i fod yn crynu gan ofn; ond am ei briod, yr oedd hi yn ddiwyd yn gwneuthur ergydion (*cartridges*), ac yn trefnu ar gyfer yr ymladdfa. Dro arall, ymgasglodd y werinos o gwmpas Whitefield pan y pregethai; lluchid ceryg ato o bob cyfeiriad; pan oedd yn tueddu i roddi fyny ac i ffoi, tynodd hi wrth ei wisg, gan ddweyd gyda gwroldeb diderfyn: "Yn awr, George, chwareuwch y dyn dros Dduw." Tybiai Howell Harris fod yn y wraig ardderchog yma ddefnydd diacones, a chymhellai hi i'w gyflwyno i wasanaeth Mab Duw. Ceir rhai awgrymiadau i'r un cyfeiriad yn ei lythyrau at "Chwaer o Sir Fynwy," ac at yr "Anwyl Chwaer, Paul." Nis gwyddom beth a rwystrodd defnyddio llafur benywaidd; efallai fod rhai o'r Diwygwyr eraill yn amheus am ei briodoldeb. Ond hyd y medrid yr oedd pob math ar ddawn yn cael ei ddwyn yn gaeth at Grist; zêl a thalent ymadroddi y cymharol anwybodus; callineb a gallu trefniadol yr hwn a fyddai yn safndrwm a thafodrwm fel Moses; nid oedd neb o fewn unrhyw gymdeithas i fod yn segur, nac unrhyw ddawn i gael ei esgeuluso.

Yn ychwanegol, yn ei ddechreuad cyntaf, darfu i'r diwygiad at-dynu iddo ei hun holl grefyddolder a difrifwch y Dywysogaeth. Nid oedd yn adnabod na sect na phlaid. Deuai personau perthynol i wahanol enwadau, a arferent edrych ar eu gilydd gyda rhagfarn ddiderfyn, yn mlaen

i gydweithio yn galonog. Deffroi y wlad, cael eneidiau at y Gwaredwr, a'u hadeiladu yn y gwirionedd, oedd yr amcan mawr; yn ymyl hynyna nid oedd enwadaeth ond dibwys. Ar y naill law, gwelwn nifer o offeiriaid perthynol i'r Eglwys Sefydledig yn cyfranogi yn y deffroad; dywedir fod o leiaf ddeg o'r cyfryw yn cael eu hadnabod fel Methodistiaid yr adeg hon; ac y mae lle i gasglu fod eraill, er na ddeuent allan yn gyhoeddus, yn dirgelaidd gydymdeimlo. Taflent ymaith eu rhagfarnau eglwysig, ac ymunent yn y gorchwyl o ysgwyd Cymru. O'r ochr arall, cawn yr holl weinidogion Ymneillduol, pa beth bynag fyddai eu golygiadau gwahaniaethol, a feddent unrhyw radd o ddifrifwch yspryd, yn croesawu y diwygiad gyda breichiau agored. Y mae tegwch hanesyddol, a chyfiawnder a'u coffadwriaeth, yn hawlio i ni goffau hyn. Derbyniasant Howell Harris a Daniel Rowland fel angelion; gwahoddasant hwy i'w cymydogaethau i bregethu, a gwnaethant bob peth o fewn eu gallu i gadarnhau eu dwylaw. Adnabyddasant y diwygiad ar unwaith fel bys Duw, fel anadliad oddiwrth y pedwar gwynt ar yr esgyrn sychion; a mawr fu eu llawenydd oblegyd ei ddyfodiad. Y mae hyn yn wir yn unig am y rhai o olygiadau uniawngred. Gwrthwynebai yr Arminiaid; ond buan y darfu i'r diwygiad ysgubo ymaith Arminiaeth anefengylaidd, fel yr ysguba chwythwm o wynt lonaid dyffryn o niwl ac o darth i ffwrdd; ac ni welwyd mo hono mwy yn Nghymru, oddigerth mewn ychydig gonglau, lle yr ymddadblygodd yn ol ei natur yn Ariaeth, ac yn Sosiniaeth. Cydweithredai y Bedyddwyr yn gystal a'r Annibynwyr; ac os hoffent ddwyn bedydd i amlygrwydd gormodol, yn ol barn a theimlad y Tadau Methodistaidd, hawdd maddeu iddynt, gan eu bod hwythau yn awyddus am wneyd yr hyn a fedrent yn mhlaid yr efengyl. Yr ydym am bwysleisio ar y ffaith, ddarfod i holl weinidogion difrifol Cymru, perthynol i bob enwad a phlaid, yn mron yn ddieithriad, ddyfod allan ar y cyntaf i bleidio y diwygiad. Talodd y nefoedd yn ol iddynt hwythau yn ehelaeth; bedyddiwyd hwy yn ddwys a'r un a'r unrhyw ysprydiaeth; gwnaed hwythau yn gymylau dyfradwy i ddyhidlo y gwlaw graslawn ar y tir sychedig; ac ymledodd y diwygiad y tu allan i derfynau Methodistiaeth. Y mae dylanwad y diwygiad i'w ganfod ar bob enwad crefyddol uniawngred yn Nghymru y dydd hwn.

Ond am amser byr y parhaodd y brawdgarwch a'r cydweithrediad cyffredinol hwn. Nid oedd rhagfarn wedi marw eto, er iddi fod mewn trwmgwsg am dymor. Cawn Edmund Jones, Pontypwl, y cyntaf i wahodd Howell Harris i Fynwy, ac i'r hwn am beth amser yr ymddiriedai Harris seiadau y rhan hono o'r wlad, yn ngwres ei zêl broselytiol yn ceisio ffurfio eglwysi Annibynol o'r dychweledigion, a hyny heb unrhyw gydymgynghoriad a'r rhai a fuasai yn offerynau i'w hargyhoeddi. Gwnaeth hyny yn y Brychgoed, ger Defynog, yn Nghastellnedd, mewn lle yn swydd Wilts, ac hyd yn nod yn nghymydogaeth Trefecca. Yr ydym wedi cyfeirio yn barod at lythyr Howell Harris ato mewn canlyniad; llythyr boneddigaidd, rhyddfrydig, a chatholig ei yspryd; ond a dramgwyddodd Edmund Jones i'r fath raddau fel ag i beidio cydweithredu mwy. Yn dyner, beia Harris ef am ei fod trwy ei ymddygiad yn gwanhau dwylaw y Diwygwyr, gan beri i'w gelynion edrych arnynt fel rhai awyddus am ffurfio plaid, tra yr oeddynt hwythau wedi datgan o'r cychwyn nad oedd hyny yn amcan ganddynt; am y perai i'w gwrthwynebwyr gredu am danynt eu bod yn rhagrithwyr, yn cyhoeddi eu ymlyniad wrth yr Eglwys, ac ar yr un pryd yn gosod i fynu sect arall mewn gwrthwynebiad i'r Eglwys, ac felly mewn ystyr yn tynu dan ei sail; ac am ei fod yn dwyn i mewn gyfnewidiad pwysig, nad oedd un prawf fod yr Arglwydd yn foddlon iddo, gan mai fel yr oeddynt yn flaenorol y daethai Duw at y Methodistiaid, gan eu bendithio. Eglura Harris, hefyd, y cyfarwyddiadau a roddir ganddo i'r holl ddychweledigion gyda golwg ar wrando y Gair, sef, ar iddynt fyned (1) lle y pregethir yr efengyl fwyaf pur; (2) lle y cyffyrddir ddwysaf a'u calonau; (3) lle y mae yr Arglwydd yn gweithio gryfaf ar eu heneidiau; (4) lle y maent yn cael eu cymhell yn mlaen, eu harwain, eu porthi, eu cadw rhag cysgadrwydd, a'u hanog i gynyddu ar ddelw Crist fwyaf. Gyda golwg ar y cymun, cynghora bawb i aros lle yr oeddynt, bydded eglwys neu gapel, er mwyn heddwch. Ni syrthiai Edmund Jones i mewn a golygiadau Howell Harris; cawn y Diwygiwr yn achwyn arno oblegyd ei zêl enwadol mewn amryw o'i lythyrau, a darfyddodd pob cydweithrediad rhyngddynt. Nid oedd Edmund Jones yn bresenol yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford. Yn gyffelyb y gweithredai David

Williams, Pwllypant. Er mai efe a wahoddasai Harris gyntaf i Forganwg, ac iddo ddiolch i'r nefoedd am yr effeithiau rhyfedd a gynyrchwyd trwy ei weinidogaeth, yr oedd yntau erbyn hyn wedi cloffi, ac yn Nghymdeithasfa Watford y mae yn amlwg trwy ei absenoldeb. Yr oedd rheswm arall am gloffni David Williams. Dechreuasai ollwng ei afael ar yr athrawiaethau efengylaidd; yn raddol, collodd gydymdeimlad yr adran oreu o'i enwad ei hyn, a chyn ei farw, yr oedd wedi cofleidio Pelagiaeth os nad Ariaeth. Ymddengys fod teimlad diflas at Howell Harris wedi ei enyn yn y rhan fwyaf o'r gweinidogion Ymneillduol y pryd hwn. Meddai, gyda golwg arnynt: "Ar y cyntaf hoffent fi yn fawr, gan fy mod yn anog y bobl i fyned i unrhyw fan i wrando, lle yr oedd Crist yn cael ei bregethu, a lle y derbynient fwyaf o fudd. A phan y cawsant fod eu capelau yn cael eu gorlenwi trwy hyn, yr oeddwn am beth amser yn fawr fy mharch gan bob plaid, ac nid oeddwn heb gefnogaeth i ymuno â hwy." Ond yn fuan cododd rhagfarn ei phen. Taranai Harris yn erbyn oerni, deddfoldeb, a diffyg dysgyblaeth yr Ymneillduwyr, lawn mor groch ag y gwnaethai yn flaenorol yn erbyn anfoesoldeb a difaterwch Eglwys Loegr. Ac yr oedd ei ymlyniad wrth yr Eglwys yn faen tramgwydd. Cyfeiriai yr Ymneillduwyr at fywyd penrydd yr offeiriaid a'r bobl yn yr Eglwys, ac at wrthwynebiad pendant y rhai oeddynt mewn awdurdod i'r diwygiad; dadleuent nad iawn anog y dychweledigion i gymuno gyda'r cyfryw; nas gallai fod yn wir eglwys pan y goddefid y fath bethau o'i mewn; fod aros ynddi fel ceisio y byw yn mysg y meirw, ac mai dyledswydd y Methodistiaid oedd ei gadael. A phan na welai Harris a'i frodyr eu ffordd yn rhydd i gydsynio, aed i edrych arnynt yn gilwgus, ac i wrthod cydweithio.

Yn wir, trodd yr Ymneillduwyr mewn rhai lleoedd yn erlidwyr, mor bell ag yr oedd eu gallu yn cyrhaedd. Mewn llythyr o eiddo William Richards, * cynghorwr yn Sir Aberteifi, at Howell Harris, dyddiedig Medi 12, 1742, ceir a ganlyn: "Y mae y cymdeithasau yn Blaenporth a Phenbryn wedi ymuno ag eiddo Howell Davies yn Llechryd, gyda'r eithriad o un aelod, yr hwn sydd wedi uno a'r Bedyddwyr, ac nid yw yn dod yn agos atom. Y mae y diafol wedi cyffroi y *Dissenters* yn ein herbyn, fel y cyffröa y gwynt y coed. Y maent yn gwyrdroi ein geiriau a'n hymddygiadau, gan dynu y casgliadau mwyaf dychrynllyd oddiwrthynt. Y mae ein hanwyl chwaer, Betti Thomas, yn cael ei blino yn fawr ganddynt; bygythiant ei hesgymuno, os nad ydynt wedi gwneyd hyny yn barod, am ei bod yn derbyn y Methodistiaid i'w thŷ. Y mae yn dyfod i'n seiat breifat; ac nis gwyddant beth i'w wneyd o honi (y seiat). Dywedant mai drws agored i Babyddiaeth ydyw, a llawer o bethau eraill poenus a chableddus." Prawf y llythyr hwn fod yr Ymneillduwyr mewn rhai manau wedi ymuno a'r digrefydd a'r erlidgar i gamddarlunio y seiat brofiad, trwy awgrymu weithiau eu bod yn dwyn cyffelybrwydd i gyffesu pechodau yn yr Eglwys Babaidd; ac weithiau, fel yr awgryma y gair "cableddus," trwy honi fod gweithredoedd pechadurus ac aflan yn cael eu cyflawni ynddi, ac mai dyna y rheswm paham ei dygid yn mlaen yn breifat. Addefa y Parch. Thomas Rees, D.D., † ddarfod i bob cydweithrediad o eiddo yr Ymneillduwyr a'r diwygiad Methodistaidd ddarfod gwedi y flwyddyn 1741, ac o hyny allan mai yr unig weinidogion a ymgyfathrachent a Howell Harris oeddynt y Parch. Henry Davies, Bryngwrach, a'r Parch. Benjamin Thomas, a darfod i'r diweddaf droi yn Fethodist proffesedig.

O'r ochr arall, gwnai yr awdurdodau Eglwysig eu goreu i darfu y Diwygwyr. Dan gochl esgusodion gau, nacaodd yr esgob ordeinio Harris ei hun, a gwrthododd lawn urddau i Williams, Pantycelyn. Dywed Howell Harris hefyd ddarfod i amryw o ddynion ieuainc talentog, yn meddu cymhwysderau diamheuol ar gyfer y weinidogaeth, ond oeddynt wedi bwrw eu coelbren yn mysg y Methodistiaid, apelio am ordeiniad esgobol, a chael eu gwrthod heb gymaint ag arholiad. Parodd hyn i eraill o gyffelyb nodwedd ddigaloni, a pheidio myned i mewn am ordeiniad, gan y credent mai ofer fyddai eu cais. Cyfododd cri yn mysg y Methodistiaid eu hunain mewn canlyniad am adael yr Eglwys. A phan na chydsyniai yr arweinwyr, ymadawodd amryw o'r cynghorwyr, gan gymeryd eu hurddo yn ol trefn yr Ymneillduwyr, a dilynwyd hwy gan rai canoedd o bobl. Rhydd Howell Harris y rhesymau

* *Trevecca MSS.*

† *History of Protestant Nonconformity in Wales,* page 355.

canlynol dros ei ymddygiad: Nad oedd y prophwydi gynt yn anog y duwiolion i gefnu ar yr eglwys Iuddewig, er ei bod wedi ymlygru yn ddirfawr; fod Iesu Grist ei hun yn addoli yn y deml ac yn y synagog fel aelod o gynulleidfa Israel, er fod yr offeiriaid yn anfoesol ac yn rhagrithiol; na throdd yr apostolion, gwedi adgyfodiad yr Iesu, eu cefnau ar y synagog hyd nes iddynt gael eu gyru allan; nad oedd rhinwedd y sacramentau yn dibynu o gwbl ar dduwioldeb neu anuwioldeb yr hwn a'u gweinyddai, ond ar ffydd y derbynydd; mai eu dyledswydd hwy oedd, nid cefnu ar yr hyn oedd yn ddiffygiol, ond ei ddiwygio, a dyfod yn eu perthynas ag ef yn halen y ddaear; fod llawer o greaduriaid truain yn derbyn lles trwyddynt, oedd mor llawn o ragfarn o blaid yr Eglwys, fel na wrandawent ar neb perthynol i gyfundeb arall; mai fel yr oeddynt y bendithiasai yr Arglwydd hwy, ac mai eu dyledswydd hwythau oedd peidio gwneyd unrhyw gyfnewidiad o bwys, hyd nes y caent brawf diamheuol o arweiniad dwyfol. Credwn mai y diweddaf oedd y prif reswm. Protestia Harris drosodd a throsodd nad dallbleidiaeth oedd yn ei gadw i mewn. Yr ydym yn ei gael yn ddiweddar yn cyfeirio droiau at "yr Eglwys dywyll hon." Ofni symud heb fod y golofn yn myned o'u blaenau oedd ar y Diwygwyr. Y mae yn sicr fod y posiblrwydd o gael ei yru allan gan amgylchiadau wedi tori yn gryf ar feddwl Harris y pryd hwn. Pan y datgana ei benderfyniad, yn ystod ei daith yn Sir Benfro, i beidio gadael Eglwys Loegr, nid yw ond mynegu ei deimlad yn ngwyneb amgylchiadau oedd fel yn ei drechu yn hollol. Anfonasai Whitefield lythyr at y Diwygwyr, diwedd y flwyddyn 1741, yn mha un y mynegai fod ymwahaniad oddiwrth yr Eglwys yn rhwym o gymeryd lle. Y mae y llythyr mor nodedig, yn neillduol gan ei fod yn dyfod oddiwrth glerigwr, fel yr hoffem ei ddifynu oll. Meddai Mr. Whitefield: "Medd gwahanol bersonau wahanol ddoniau. Y mae rhai wedi eu galw i ddeffroi, eraill i sefydlu ac i adeiladu. Medd rhai ddawn poblogaidd, cymhwys ar gyfer cynulleidfaoedd mawrion; symuda eraill mewn cylchoedd cyfyngach, a gallant fod yn dra defnyddiol yn y seiadau preifat. Yr wyf yn credu am y rhai a alwyd i fod yn gyhoeddus, y dylent ymroddi yn gyfangwbl i'r gwaith, gan fyned allan heb bwrs nac ysgrepan. Gwna y Meistr ddwyn y draul. Am eraill, y rhai na allant ond ymweled yn anghyoedd, dylent barhau i ddilyn eu galwedigaethau. Y mae rhai o honoch yn weinidogion perthynol i Eglwys Loegr; ond os ydych yn ffyddlon, nid wyf yn meddwl y gellwch barhau ynddi yn hir. Modd bynag, peidiwch myned allan hyd nes y bwrir chwi allan; ac yna, pan wedi eich bwrw allan er mwyn Iesu, peidiwch ofni pregethu yn y caeau." Yna, wedi cyfeirio at amryw drefniadau, dywed: "Gellir gwneyd hyn oll heb ymadawiad ffurfiol oddiwrth Eglwys Loegr, yr hyn, yr wyf yn gredu, nad yw Duw yn galw am dano yn bresenol." Dyna yn hollol deimlad y Diwygwyr Cymreig gyda golwg ar yr Eglwys; tybient mai ymadawiad oedd o'u blaenau; ond dewisent gael eu hesgymuno o honi, yn hytrach na myned allan eu hunain; byddent felly yn sicr mai ewyllys Duw oedd iddynt ymffurfio yn blaid, oblegyd ni chafodd y syniad am roddi y gwaith i fyny le yn eu meddyliau, naddo am awr.

Y pryd presenol, yr oedd gwaith y clerigwyr yn Sir Benfro, yn nghyd a chlerigwyr Brycheiniog, yn cael eu harwain gan Ficer Talgarth, yn gwrthod y sacrament i'r rhai oeddynt yn aelodau gyda'r Methodistiaid, yn dwyn pethau i argyfwng difrifol. Ni ddylid beio gormod ar Mr. Price Davies. Gweithredai ef a'i frodyr yn hollol onest, yn ol y goleuni oedd ganddynt. Rhaid addef fod agwedd y Methodistiaid ar y pryd yn un hollol eithriadol ac anghyson. Meddai y Parch. David Lloyd, offeiriad yn Sir Frycheiniog, yn y ddadleuaeth alluog a gariodd yn mlaen â Howell Harris: "Yr ydych yn achwyn fod y sacrament yn cael ei wrthod i rai personau. Yr wyf yn gobeithio nad oes yr un clerigwr yn ei wrthod i'w blwyfolion heb resymau digonol. Yr wyf yn gobeithio hefyd na fynech i unrhyw offeiriad gamarfer y peth sanctaidd, trwy ei roddi i rai nad ydynt yn perthyn i'w gynulleidfa, y rhai a ymwahanant oddiwrtho dan glogyn awydd am burdeb mwy; nac i'r rhai sydd yn condemnio ein haddoliad a'n hathrawiaeth. A fedrwch chwi gyfrif y rhai na ddeuant i'n cynulleidfaoedd yn eu heglwysydd plwyfol ond ar ddyddiau y sacrament, ac a safant allan y pryd hwnw hyd nes y byddo gwasanaeth y cymun wedi dechreu, fel yn perthyn i'n cymundeb ni, ac a ânt yn hwyr y dydd drachefn i dai cyrddau, ac nas gwyddom pa leoedd? Ai nid oes dim yn cael ei wneyd yn iawn yn ein heglwys? Ai gweinyddiad y sacrament yw yr oll o'n haddoliad? A ydych

yn tybio fod dyfod i'r eglwys, a derbyn y sacrament, unwaith y mis, yn ddigon i beri i ddyn gael ei ddynodi yn aelod o Eglwys Loegr? Y mae genych syniadau chwithig. Ai nid gwneyd y sacrament yn glogyn i ragrith a sism yw peth fel hyn? Ai nid camddefnydd o gorph a gwaed Crist ydyw? Ai nid twyllo pobl ydyw cymeryd arnoch eich bod yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig, tra ar yr un pryd yr ydych yn ymdrechu ei dinystrio wreiddyn a changen, gan ddal yr athrawiaethau mwyaf penboeth, ïe, athrawiaethau cythreuliaid, oddiwrth ba rai yr wyf yn gweddïo Duw ar iddo waredu pawb dynion?" Yr oedd David Lloyd a Howell Harris yn ddadleuwyr glewion, bob un o ddifrif, a'r naill yn deilwng o ddur y llall. Ar rai pwyntiau, yn arbenig hawl dyn heb ei ordeinio i fyned o gwmpas, dan amgylchiadau neillduol, i gynghori pechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd, Harris yn ddiau oedd y buddugwr; ond gyda golwg ar anghysondeb y Methodistiaid yn disgwyl cael y sacramentau yn yr eglwysydd plwyfol, heb dywyllu eu drysau ar unrhyw adeg arall, gan y Parch. David Lloyd yr oedd pen praffaf y ffon. Y gwir yw, nas gellid, gydag unrhyw degwch, alw corph y Methodistiaid, hyd yn nod mor foreu a hyn, yn Eglwyswyr; glynai yr arweinwyr wrthi, gan benderfynu peidio ei gadael heb arweiniad pendant; ond am y cyffredin bobl, ni feddent unrhyw barch iddi. Ni aent y tu fewn i'w muriau ond ar Sul cymundeb; y pryd hwnw nid aent i'r gwasanaeth cyffredin, nac i'r bregeth, os byddai yno rywbeth o'r fath; gwyddent na fedrai yr offeiriad bregethu efengyl Crist, ac mai baldorddi y ffregod fwyaf ynfyd a wnelai, neu ynte fellditihio y bobl a elent o gwmpas i gynghori heb awdurdod oddiwrth yr esgob; felly safent allan o gwmpas y drysau hyd nes y dechreuai gwasanaeth y cymun, ac yna aent at yr allor i gyfranogi o'r elfenau. Rhaid addef fod eu hymddygiad yn anghyson; braidd nad oedd yn anweddaidd; ac ar un olwg nid yw yn rhyfedd fod llawer o'r offeiriaid wedi dod i'r penderfyniad i wrthod y sacrament iddynt. Canlyniad yr anghysondeb hwn oedd fod y Methodistiaid yn anghymeradwy gan Eglwyswyr ac Ymneillduwyr. Meddai Howell Harris: "Y mae pob plaid fel yn ymuno i'n gwrthwynebu." Nid ydym yn sicr na chamgymerodd Rowland a Harris arwyddion yr amserau, ac nad oeddynt yn crefu am arwydd mwy pendant nag yr oedd ganddynt hawl i'w ddisgwyl; dywed y Parch. T. Rees, D.D., pe y buasent yn gadael yr Eglwys Wladol yr adeg hon, y buasai Cymru yn mron oll yn Fethodistaidd. Yr un pryd, y mae yn bosibl fod rhwystrau yn amlwg iddynt hwy, nas gallwn ni sydd yn barnu eu hymddygiad, gant a haner o flynyddoedd gwedi, gael unrhyw syniad am danynt.

Yn ystod y cyfnod o 1735 hyd ddiwedd 1742, yr oedd cryn lawer wedi cael ei wneyd tuag at gynyrchu trefn. Y mae yn ddiau y bodolai cydweithrediad rhwng Rowland a Harris er pan ddarfu iddynt gyfarfod gyntaf yn Eglwys Defynog, haf 1737; dalient afael ar bob cyfleustra i gydymgynghori, ac i gydgynllunio gyda golwg ar ddwyn y gwaith mawr yn mlaen; ymholent a'r Diwygwyr Seisnig, perthynol i bob plaid, fel yr oedd y trefniadau a wnelent i raddau mawr yn gynyrch barn addfed. Yn raddol, daeth yr ymgynghoriadau hyn, a gymerent le yn achlysurol pan y byddai rhyw achosion pwysig yn galw, i gael eu trefnu yn mlaen llaw, nes dyfod yn gyfarfodydd rheolaidd. Ar y wynebddalen a flaenora y *Trevecca Minutes* ceir y nodiad a ganlyn yn llawysgrif Howell Harris ei hun: "Cyfarfyddai y brodyr yn Nghymru am ragor na dwy flynedd cyn dyddiad y llyfr hwn (sef Ionawr, 1743), unwaith y mis, ac unwaith bob dau fis yn 1740, gan arholi llawer o'r cynghorwyr, a chwilio i geisio lle pob un. Ond ni ddeuwyd i unrhyw drefniant sefydlog (*settled agreement*) hyd ddyddiad y llyfr hwn, pan yr anfonwyd am Mr. Whitefield. Ac ymddangosai mai ewyllys Duw, fel ei hamlygid yn ngoleuni unol yr holl frodyr, wedi dysgwyl yn ddyfal wrth yr Arglwydd, a dadleu yr holl fater, oedd: Mai arolygwyr a chynghorwyr anghyoedd oedd y drefn i fod yn mysg y brodyr diurddau; fod y brawd Harris i'w harolygu oll, a'r gweinidogion ordeiniedig i fyned o gwmpas gymaint ag a fyddo posibl; fod yr arolygwyr i gael adran o wlad (*district*), a'r cynghorwyr anghyoedd i arolygu cymdeithas neu ddwy, gan ddilyn eu goruchwylion arferol, tra yr oedd rhyw ychydig, ag yr oedd eu doniau a'r fendith a brofid trwyddynt yn ymddangos yn eu cymhwyso at hyny, i fod yn gynorthwywyr i'r arolygwyr, mewn modd mwy cyffredinol." Y mae y nodiad hwn o'r pwys mwyaf. Dengys ddarfod i ymgynghoriadau y Diwygwyr ddechreu cymeryd ffurf reolaidd yn y flwyddyn 1740;

mai tuag unwaith bob dau fis y cyfarfyddent yn ystod y flwyddyn hono; iddynt ddyfod yn ymgynghoriadau misol yn 1741, a pharhau felly dros y flwyddyn ddilynol; ac mai prif fater yr ymdrafodaeth oedd profi cymhwysderau y cynghorwyr. Mewn cydgordiad hollol â hyn, ceir llythyr o eiddo Mr. Whitefield, a gyhoeddwyd yn yr *Evangelical Magazine* am 1826, wedi ei gyfeirio at gadeirydd un o'r cynulliadau yma, a'i ddyddio, Bristol, 28, 1741. Yn y llythyr, o ba un yr ydym wedi difynu yn barod, dywed fod y materion oedd i ddyfod tan sylw o'r pwysigrwydd mwyaf, a'i fod yn gofidio na fedrai fod yn bresenol gyda hwynt. Yna mynega ei farn yn rhydd ar amryw o'r pethau oeddynt i fod yn destynau ymdriniaeth. Y mae lawn mor amlwg oddiwrth y nodiad mai cymharol ddiawdurdod yr ystyrid y cyfarfodydd hyn; yr hyn a wneyd ynddynt oedd trefnu a chynghori; nid oeddynt yn pasio penderfyniadau sefydlog, gan hawlio awdurdod i'w gosod mewn grym, ac i orchymyn i'r brodyr eu cario allan. Yr oedd sefydliad y Gymdeithasfa, ddechreu y flwyddyn 1743, yn symudiad hollol newydd, ac er mwyn rhoddi arbenigrwydd ar y cam pwysig a gymerid, yn gystal ag er mwyn cael cymhorth gŵr o ddoniau mor ddysglaer, yr hwn oedd yn cydweled â hwy lygad yn llygad ar bob pwnc o athrawiaeth, y gwahoddwyd Whitefield i fod yn bresenol ac i gymeryd y gadair ar yr amgylchiad. Cadarnheir hyn gan dystiolaeth Howell Harris, mewn crynodeb o hanes ei fywyd sydd ar gael yn awr yn Nhrefecca. Fel hyn yr ysgrifena: "Yr haf hwn (1740), gan fod llawer yn sefyll i fyny i lefaru, mewn gwahanol leoedd yn Nghymru, tybiodd rhai o'r gweinidogion mai gwell fyddai gwneyd rhyw ymgais i drefnu pethau, er rhwystro anhrefn, ac fel na fyddai i bersonau anghyfaddas gymeryd y gwaith mewn llaw. Yna anogwyd pawb a lefarent yn y modd hwn i gyfarfod, i siarad am eu profiad parthed gwaith gras ar eu calonau, fel y gallent adnabod y naill y llall, er cael undeb a chymundeb fel brodyr yn mlaenaf oll. Yna i amlygu eu cymhellion, beth a barodd iddynt ymgymeryd a'r gwaith, a pha resymau a allai pob un roddi fel profion ei fod wedi cael ei alw iddo, ac yna i gyflwyno y cwbl i farn yr oll. Eto ni feddyliem ein bod wedi cael ein galw i ffurfio ein hunain yn enwad ar wahan; ni chymerasom arnom ychwaith i arholi neb gydag awdurdod i roddi i'r cyfryw genhadaeth; yn unig tybiem ein bod yn cael ein gorfodi i fyned mor bell a hynyna, os oeddym am ymffurfio yn gymdeithas, yr hon na fedr fodoli heb ryw fath o reolau." Teifl y difyniad hwn ffrwd o oleuni ar natur y cyfarfodydd trefniadol blaenorol i sefydliad y Gymdeithasfa. Gwelwn (1) Fod pawb a fyddent yn myned o gwmpas i gynghori yn cael eu gwahodd iddynt; (2) Mai gwrando profiad personol y cynghorwyr, ynghyd a'u cymhellion i'r gwaith cyhoeddus, oedd eu prif orchwyl; (3) Nad oeddynt yn honi unrhyw awdurdod ar y cynghorwyr, trwy ar y naill law roddi hawl iddynt i fyned o gwmpas, nac ar y llaw arall, eu hatal; yr oll a wnelent oedd datgan barn, a rhoddi cynghor, gan adael rhyngddynt hwy a gweithredu yn ol y cyfryw. Ond erbyn 1742 gwelai y Diwygwyr, os oedd yr anheilwng i gael ei rwystro i ymgymeryd â gwaith na feddai gymhwysder ar ei gyfer, ac felly i gael ei gadw rhag dwyn yr efengyl a'r diwygiad i anfri, fod yn rhaid iddynt yn eu cyfarfodydd trefniadol gymeryd mwy o awdurdod i'w dwylaw. Dyma un o'r prif resymau dros fyned yn y blaen i sefydlu y Gymdeithasfa.

Yr oedd y cynghorwyr, at ba rai yr ydys wedi cyfeirio yn barod, yn perthyn i Fethodistiaeth o'r cychwyn. Daethant i fod, nid trwy unrhyw benderfyniad dynol, ond trwy alwad o'r nefoedd. Nid gormod dweyd fod y swydd, os priodol galw swydd arni, yn greadigaeth uniongyrchol yr Ysbryd. Un rheswm paham yr ymledodd y diwygiad mor gyflym, ac y darfu iddo gymeryd ffurf barhaol, oedd cyfodiad dynion diurddau i gynghori eu cydfforddolion yn ngwahanol ranau y wlad. Oni bai am danynt hwy cawsai y seiadau bychain drengu o ddiffyg ymgeledd. Cymylau mawrion, cyfoethog o wlaw, oedd Daniel Rowland, Howell Harris, a'r prif Ddiwygwyr; pa le bynag yr aent pistyllent eu cynwys ar y sychdir diffrwyth, fel pe byddai ystorm o wlaw taranau wedi ymdori ar y fangre; ond wedi gwlychu y tir am y tro, aent hwy yn eu blaenau i dywallt y cyffelyb wlaw brâs ar ranau eraill y wlad; a buasai y gwahanol leoedd wedi gwywo gan sychder, yn absenoldeb y cymylau mawrion, oni buasai i'r Arglwydd godi y cynghorwyr, y rhai a fuont dan fendith Duw fel gwlith dyfrhaol i'r eglwysi. Dechreuasant yn hynod syml. Yn y cymdeithasau, oblegyd cymhwysder naturiol a phrofiad dyfnach o waith gras yn eu calonau, gelwid arnynt i ddarllen a gweddïo yn gyhoeddus, ac i

roddi gair o gynghor oddiwrth yr hyn a ddarllenid. Yn raddol darfu i rai o honynt ddadblygu dawn arbenig at hyn; aeth y gair o gynghor yn rhywbeth cyffelyb i bregeth; aeth y son am danynt i'r gymdeithas fechan nesaf, a galwyd hwy i egluro Gair Duw ac i roddi gair o gyngor yno, nes yn ddiarwybod iddynt eu hunain y deuwyd i edrych arnynt fel rhai yn ffurfio math o swyddogaeth ar wahan. Nid oeddynt yn cefnu ar eu galwedigaethau; ni dderbynient ond ychydig dâl am eu llafur; dyoddefent lawer o wawd a chamdriniaeth oddiar ddwylaw y drygionus a'r ffug-grefyddol; ond arhosodd eu bwa yn gryf er pob peth trwy rymus ddwylaw Duw Jacob. Amrywient yn ddirfawr parthed safle gymdeithasol, eangder gwybodaeth, dawn ymadrodd, a phrofiad ysprydol. Ceid yn eu mysg rai o safle barchus, wedi cael dygiad i fynu, ac addysg dda, yn cael eu hystyried fel yn perthyn i fonedd y tir, ond a ddewisent ddirmyg Crist gyda y Methodistiaid yn hytrach na rhodres a pharch bydol. Perthynai eraill o honynt i ysgolfeistri Griffith Jones. Rhaid y meddent, fel cymhwysder i swydd ysgolfeistr, raddau helaeth o gydnabyddiaeth a'r Ysgrythyr; arferent yn feunyddiol gyfarch eu hysgoleigion, a'u harholi yn y catecism; felly, cam byr iddynt oedd myned i ddweyd ychydig yn gyhoeddus wrth eu cyddynion. Cawn amryw o'r prif gynghorwyr yn perthyn i'r dosparth hwn. Ond yr oedd llawer o'r cynghorwyr yn dlawd eu hamgylchiadau, ac nid yn unig yn annysgedig, ond yn gymharol anwybodus yn athrawiaethau crefydd. Eithr cawsent olwg ar Grist croeshoeliedig fel Ceidwad holl ddigonol; tywynasai ei ogoniant ar eu heneidiau gyda thanbeidrwydd gorchfygol; llanwesid eu calonau a chariad diderfyn ato; ac er na wyddent ryw lawer yn ei gylch, teimlent reidrwydd i fynegu yr ychydig hyny i bawb o'u cwmpas. Fel Ahimaas gynt, yr oeddynt yn llawn awydd am redeg dros y Brenin; ac os nad oedd ganddynt genadwri gryno ar y cychwyn, cawsant hi cyn rhedeg nemawr. Ychydig a wyddai y wraig o Samaria am yr Iesu; ond gwedi i'w eiriau gyffwrdd a'i chalon, gadawodd yr ystên ar lan y ffynon er mynegu i'w chyd-ddinasyddion am y Person rhyfedd a gyfarfyddasai. Yn gyffelyb am y cynghorwyr Methodistaidd, ymroddasant fel yr oeddynt i'r gwaith, a seliodd Duw eu llafur a bendith. Arferiad y byd yw gwawdio llafur personau diurddau, a chyfeirio gyda dirmyg at eu galwedigaethau bydol. Meddai Dr. South am y Puritaniaid: "Gallant yn llythyrenol daro yr hoel ar ei chlopa. Medrant osod pwlpud wrth ei gilydd cyn pregethu ynddo." Yn ngolwg Dr. South, yr oedd medr saerniol yn anghymwysder hanfodol i'r weinidogaeth. Fel y sylwa awdwr *Methodistiaeth Cymru*: "Hen ddull o watwar pregethwr da gynt oedd gofyn, 'Onid hwn yw y saer?' Ond yn nghyfrif Duw yr oedd i'r Saer hwnw barch mawr; fe dderbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant.' Nid amheuwn fod cyfarchiadau rhai o'r cynghorwyr Methodistaidd yn dra annhrefnus; efallai fod eu hiaith yn sathredig, eu cymhariaethau yn gartrefol os nad yn arw, eu hystumiau yn annaturiol, a'u traddodiad yn gwbl amddifad o ddlysni araethyddol. Ond yr oeddynt yn llawn o zêl; profasent argyhoeddiad dwfn eu hunain, a chyfranogasent yn helaeth o felusder yr efengyl mewn canlyniad. Gwyddent beth oedd cael eu clwyfo a'u meddyginiaethu; os na feddent gymhwysder dysg, meddent gymhwysder profiad; a bendithiodd Duw eu gwaith. Nid anhebyg mai fel hyn yr oeddynt fwyaf cymwys. Gallent fyw ar ymborth gwael wrth deithio; medrent ddyoddef gerwinder tywydd heb fod eu cyfansoddiadau yn cael eu hamharu; a chan mai â dynion anniwylliedig y byddent yn ymwneyd gan mwyaf, yr oedd eu diffygion yn troi yn fanteision iddynt, ac yn eu galluogi i fyned yn fwy agos at y bobl. A chododd Duw o'r dosbarth hwn bregethwyr ddarfu ysgwyd Cymru; rhai ag yr oedd arucheledd eu doniau, a nerth eu hareithyddiaeth yn ysgubo y cwbl o'u blaen, ac y mae eu henwau yn eiriau teuluaidd yn Nghymru hyd y dydd hwn. Dywedir fod tua deugain o gynghorwyr yn bodoli rhwng pob rhan o'r wlad adeg y Gymdeithasfa gyntaf. Ar yr un pryd, rhuthrai rhai i'r gwaith o gynghori heb unrhyw gymhwysder ar ei gyfer. Disgynasai ar y cyfryw awydd am hynodrwydd a sylw, fel ar Simon Magus gynt, ac aent o gwmpas gwlad o'r naill gymdeithas i'r llall, gan wneyd mwy o niwed nac o les, nes peryglu cymeriad y diwygiad. Un o brif amcanion y Gymdeithasfa oedd dwyn y cynghorwyr i drefn, drwy gefnogi y cymhwys, ac atal yr anghymwys.

Yr oedd amcan arall, llawn mor bwysig, i'r Gymdeithasfa, sef dwyn y seiadau i ffurf. Yn flaenorol, yr oedd y cymdeith-

asau hyn yn hollol annibynol ar eu gilydd; ni feddent unrhyw rwymyn allanol o undeb; yr unig gysylltiad rhyngddynt oedd eu bod oll yn cyfranogi i raddau mwy neu lai o yspryd y diwygiad, a'u bod yn meddu parch diderfyn i Rowland, a Harris, a Howell Davies, y rhai a ystyrid ganddynt fel eu tadau yn Nghrist. Sail bersonol oedd i'r ufudd-dod a roddent i gyfarwyddiadau eu harweinwyr. Pe buasai rhyw gymdeithas yn myned ar gyfeiliorn mewn athrawiaeth, neu yn goddef o'i mewn y rhai drwg, nid oedd unrhyw allu i'w galw i gyfrif, ac i adfer pethau, ond dylanwad personol un o'r Diwygwyr blaenaf. Gwelwyd angenrhaid yn fuan am uno yr eglwysi yn un cyfansoddiad cryf, er mwyn i ddylanwad y diwygiad gael ei barhau, ac er mwyn ei gadw rhag rhedeg yn wyllt. Tua dechreu y flwyddyn 1742, tynasid allan gyfres o reolau ar gyfer y cymdeithasau. Ond ni cheisiwyd eu huno mewn trefniant cyffredinol hyd gyfarfyddiad y Gymdeithasfa yn Watford. Y mae yn sicr na chymerwyd y cam pwysig hwn heb lawer o ragfeddwl a rhagymgynghoriad; ac y mae lawn mor sicr mai i Howell Harris yr ydym yn ddyledus am gynlluniad a gweithiad allan yr hyn a ellir ei alw yn sail y cyfansoddiad Methodistaidd. Efe yn anad un o'r Tadau oedd y trefnydd; yr oedd ei feddwl ffrwythlawn ar waith yn wastad yn cynllunio; ac yn y cyfwng hwn yr oedd wedi bod mewn cydymgynghoriad ag amryw bersonau y tu allan i Gymru, yn gystal ag a'i frodyr yn y Dywysogaeth. Un y bu mewn gohebiaeth ag ef ar y mater oedd Mr. Oulton, gweinidog y Bedyddwyr yn Llanllieni (Leominster). Yr oedd Mr. Oulton yn ddyn gwir dduwiol, yn llawn o yspryd y diwygiad, ond yn Fedyddiwr cryf. Mewn llythyr ato dywedai Harris fod yn anhawdd iddynt oll ddyfod i gydweled gyda golwg ar y rhanau hyny o'r Beibl a gyfeiriant at ffurflywodraeth eglwysig, adeg a dull bedydd, a rhyw ychydig o gyffelyb allanolion ydynt yn fuan i ddarfod; a bod undeb yn anmhosibl hyd nes y cydunent i beidio gwneyd dim yn amod aelodaeth, amgen adnabyddiaeth achubol o'r Arglwydd Iesu, a ffydd fywiol yn cynyrchu sancteiddrwydd buchedd, yr hon a brofai ei bodolaeth trwy ei chynydd. "Pe bawn i," meddai, "a gofal cynulleidfa arnaf, ystyriwn yn ddyledswydd arnaf i dderbyn pawb yn aelodau y gallwn obeithio am danynt eu bod wedi eu geni o Dduw, er na fyddent yn cydweled â mi gyda golwg ar ychydig o bethau allanol." Nis gallai Mr. Oulton gyfranogi yn y syniadau catholig hyn; ffromai braidd wrth Mr. Harris am gyfeirio at fedydd fel un o'r allanolion bychain oedd yn fuan i ddiflanu, gan ei fod yn ordinhad wedi ei sefydlu gan Grist ei hun, ac i aros yn yr eglwys hyd ddiwedd y byd. Maentymiai hefyd fod y trefniadau allanol, y cyfeiriai Harris atynt gyda gradd o ddiystyrwch, lawn mor glir yn y Testament Newydd, ac yn llawn mor hawdd dyfod i sicrwydd gyda golwg arnynt, a'r gwirioneddau achubol. Cyfiawnder â Mr. Oulton yw ychwanegu, er na dderbyniwyd ei gynghor gyda golwg ar wneyd bedydd trwy drochiad yn amod aelodaeth, na ddarfu iddo dynu yn ol ei gydymdeimlad â Methodistiaeth o'r herwydd; ond ei fod gwedi hyn yn ysgrifenu at Howell Harris lawn mor gyfeillgar a brawdol, ac yn dangos llawn cymaint o ddyddordeb yn ffyniant y Cyfundeb. Y mae yn sicr ddarfod i sefydliad y Gymdeithasfa achosi pryder dwfn i'r Tadau Methodistaidd; teimlent eu ffordd bob cam a roddent; a diau mai gyda chalonau gorlwythog ac ysprydoedd ofnus y cyfarfuant yn Watford.

Yr ydym wedi cyfeirio at y rheolau i'r *societies* a dynwyd allan. Dywed Howell Harris yn ei Fywgraffiad mai efe a'u ffurfiodd; dywedir ar wyneb-ddalen y rheolau eu hunain eu bod wedi cael eu cyfansoddi "gan wŷr o Eglwys Loegr." Yr eglurhad yw mai Harris a'u drafftiodd; iddynt yn ganlynol gael eu cyflwyno i farn y gweddill o'r arweinwyr, a chael eu cymeradwyo ganddynt; a chwedi hyny iddynt gael eu cyhoeddi yn enw yr oll. Y mae y rheolau hyn yn bwysig ynddynt eu hunain; dangosant ysprydolrwydd meddwl dwfn; ond meddant ddyddordeb arbenig ar gyfrif mai dyma y genadwri gyntaf a anfonwyd gan y Methodistiaid at y gwahanol eglwysi. Felly, er eu bod i raddau yn faith, yr ydym yn eu gosod i mewn yn y cyfanswm.

"SAIL, DIBENION, A RHEOLAU Y CYMDEITHASAU neu y CYFARFODYDD NEILLTUOL, a ddechreuasant ymgynull yn ddiweddar yng Nghymru.—At y rhai y chwanegwyd rhai Hymnau i'w canu yn y Cyfarfodydd neilltuol. Gan wŷr o Eglwys Loegr.

"Diar. xv. 22. 'Oler fydd bwriadau lle ni byddo cynghor,' &c.
,, xxiv. 6. 'Trwy lawer o gynghorwyr y bydd diogelwch.'
,, xxvii. 17. 'Haiarn a hoga haiarn.'

"Bristol: Printed by Felix Farley in Castle Green.

M,DCCXLII.

"RHAGYMADRODD.

"At bawb ag sydd gwedi cael eu gwneuthur yn ewyllysgar i ymwadu â hwynt eu hunain, i gyfodi eu croes, ac i ddilyn yr Oen; ac yn neilltuol at y *Societies* o Eglwys Loegr.

"Yn ddiweddar fe ein cymhellwyd ni (ychydig o Weinidogion) i gyfarfod â'n gilydd mor fynych ag y gallom, i geisio gwylied yn fwy manol dros ein gilydd, ac er mwyn gwybod helynt praidd Crist yn well, ac er mwyn ymgynghori pa fodd i ymdreulio oreu yn ngwinllan ein Meistr; ac yn y cyfamser a gawsom ein calonau i gyttuno ar y Rheolau canlynol. A chan wybod mor wasgaredig ydych chwi, ac er mwyn eich cyfarwyddo pa fodd i adeiladu eich gilydd oreu yn eich Cyfarfodydd neilltuol, ni a farnasom yn ddyled arnom i ddanfon y Rheolau hyn atoch, gan obeithio y bydd i Dduw eu bendithio i chwi; a rhoddi calonau i chwi ymostwng y naill i'r llall, holwch eich gilydd wrthynt mor bell ag y gweloch y byddont yn uniawn. Tybiasom yn oreu eu rhoddi mewn print, fel y gallo pawb weled y gwirionedd o'n dibenion a'n rheolau yn ein Cyfarfodydd neilltuol; ac os bydd neb yn chwennych ymuno â ni, fel y gallo ef weled pa ddysgyblaeth yr ydym ni yn tybied yn ddyled ei chadw yn ein mysg. Gan edrych, pa waradwydd bynag a gaffom gan y byd, bod genym gydwybod ddirwystr yn hyn, na feiddiom ni wneyd dim yn y dirgel ag na allom ei gyfaddef pan gyhoeddir pob peth dirgel ar benau'r tai. Ofer yw neilltuo oddiwrth y byd ac ymddangos megys rhai a fyddai yn rhodio gyda Duw, a gwneuthur rheolau o'n rhodiad, oni fyddai ein heneidiau mewn undeb â Duw yn Nghrist, ac â'r naill y llall yn yr Ysbryd Glân; gwedi cael ein glanhau oddiwrth ein holl eilunod, gan ddysgwyl dim yn y byd, ond yr hyn a gafodd ein Pen o'n blaen, a'r hyn a addawodd Efe i'w holl ddilynwyr, sef cael ein casâu gan bawb er mwyn ei Enw Ef, Mat. x. 22. Ac y mae yn perthyn i ninnau edrych mai er ei fwyn ef yr ydym yn goddef; a thra byddom yn cael ein cablu a'n difenwi megys rhagrithwyr beilchion, segur, twyllodrus, edrychwn ar fod tyst o'n mewn yn dywedyd eu bod yn gelwyddog; onid ê ni erys Ysbryd gras a gogoniant i'n cysuro na'n cynorthwyo. Ond os er ei fwyn ef yr ydym yn dioddef, nac ofnwn: ni lwydda un offeryn a lunier i'n herbyn, Esa. liv. 17; a phyrth uffern ni allant ein gorchfygu, Mat. xvi. 18. Ond gwyliwn rhag ysbryd balch y Phariseaid: os ydym ni yn gweled, ac ereill yn ddall, pwy a wnaeth y gwahaniaeth? Dangoswn ein bod wedi bod gyda'r Iesu, trwy ein hymddygiad addfwyn, tirion, maddeugar, cariadus a gostyngedig, tuag at ein gwrthwynebwyr. Ac er mai trwy Grist yn unig yr ydym yn gadwedig, etto dangoswn ein cariad atto ef, am ein prynu a'n gwaredu yn rhad trwy ei fywyd a'i farwolaeth, trwy gyflawniad diragrith o'r holl ddyledswyddau gorchymynedig, gan garu y gyfraith, fel rheol o'n bywyd newydd a gawsom gan Grist, i'w chadw; yr hon yr ydym yn ymwrthod â hi, fel cyfammod i fyned at Dduw trwyddi i gael bywyd. Yr ydym yn atolwg arnoch i wylied yn eich *Societies* yn erbyn balchder ysbrydol, yn ymddangos mewn diystyru ereill, bod yn annioddefus i gyfaddef ein beiau ac i dderbyn cerydd; rhagrith, neu geisio ymddangos yn fwy llawn o gariad, ffydd, gostyngeiddrwydd, a goleuni, nag y byddoch; hunan-ewyllys a hunan-gariad, doethineb cnawdol, a phob ymddangosiad a fyddo yn tarddu oddiwrth gais dirgel yn y galon i ereill dybied eich bod yn dduwiol ac yn cynnyddu hefyd. Ac na pheidiwch hefyd â chwilio allan bob arwyddion o'r gwreiddyn ofnadwy, yr hwn a ddwg bob math o ffrwythau drwg, sef ariangarwch, seguryd, a diogi. Gwyliwch hefyd rhag geiriau segur, ysgafnder ysbryd, chwerthiniad cnawdol, meddyliau ofer, ac anffyddlondeb neu weniaeth mewn geiriau wrth farchnata, trwy ddywedyd geiriau dau-ddyblyg, neu ddywedyd mwy neu lai na'r gwir; gan wybod ein bod ni bob amser ger bron Duw. Dangoswch eich bod wedi ei osod ef bob amser ger eich bron. Edrychwch at gynnydd eich gilydd mewn addfwynder, tiriondeb, a gwir iselder ysbryd; a bydded genych gariad diragrith at bawb o deulu'r ffydd, a thosturi dwfn tuag at ereill, yn peri i chwi alaru yn y dirgel dros eu pechodau. Gwnewch bob peth mewn gwirionedd a symlrwydd, megys i'r Arglwydd. Os plant, gwyliwch ar wneyd eich goreu i ennill eich rhieni, os cnawdol ydynt, trwy eich ymddygiad ufudd a gostyngedig. Os rhïeni, edrychwch pa fodd yr ydych yn dwyn eich plant a'ch

tylwyth [i fyny] yn ofn yr Arglwydd, gan weddio a chwilio yr Ysgrythyrau yn fanol, a'u catecesio beunydd gartref, Deut. vi. 6, 7; Gen. viii. 19. Os tlawd ydych, byddwch foddlawn i'ch cyflwr, diwyd a ffyddlawn yn eich gwaith, gan fyw yn gyfatebol i'ch gradd. Os cyfoethog, edrychwch ar gyfranu, gan ystyried mai *stiwardiaid* ydych chwi; ac fel mai eiddo y Pen yw eich dâ chwi oll, bod yn ddyledus iddo ef gael ei ffordd a'i ewyllys yn eu trefnu hwynt fel y myno ei hun. Os hen Gristionogion profiadol ydych, magwch a dysgwch mewn addfwynder a thiriondeb y rhai gwan. Os rhai iefainc ydych, gochelwch ymrysonau, hunan, ac anghrediniaeth; a dysgwyliwch oll am groesau beunydd oddiallan ac oddifewn; a phan y byddoch agosaf at yr orseddfainc, cofiwch ninnau, y rhai ydym ychydig, a llawn o lygredd; ond yr ydym, er eich mwyn, gwedi cael ein cymhell i ymadael â phob peth, heb geisio dim ond bod yn ffyddlawn, fel y gallom ddywedyd yn y diwedd, 'Wele ni a'r plant a roddaist i ni.'

——o——

"SAIL Y CYFARFODYDD.

"I. Gorchymyn yr Ysbryd Glân trwy St. Paul yw, nad esgeulusom ein cydgynnulliad ein hunain, megys y mae arfer rhai, &c.

"II. Os yw yn ddyledswydd arnom gynghori ein gilydd tra y gelwir hi heddyw (neu bob dydd), o herwydd mai dyna'r modd ini ymgadw rhag cael ein caledu trwy dwyll pechod, Heb. iii. 13; yna, ni a ddylem ddyfod ynghyd i gynghori ein gilydd.

"III. Arfer y duwiolion oedd ymgynnull fel hyn dan yr Hen Destament (Gwel Mal. iii. 16), a than y Newydd hefyd. Wedi ymgynnull fel hyn yr oedd [y disgyblion], pan ymddangosodd Crist iddynt wedi ei adgyfodiad, ac y dywedodd, 'Tangnefedd i chwi.' Luc xxiv. 33—36.

"IV. Ein Hiachawdwr a addawodd fod yn y canol lle y byddai dau neu dri (oni fyddai ychwaneg) wedi ymgynnull, yr hon a addewid y mae pawb a ymgynnullasant mewn gwirionedd, ymhob oes, wedi ei phrofi yn cael ei chyflawnu, Mat. xviii. 20.

——o——

"EU DIBENION.

"1. Mewn ufudd-dod i'r gorchymyn, i annog i gariad a gweithredoedd da, Heb. x. 24.

"2. I ragflaenu calon-galedwch a gwrthgiliad tra y byddom weinion mewn gras, a'n llygredigaethau yn gryfion, a'n profedigaethau yn aml, 1 Cor. iii. 1, 2, 3, &c.

"3. Er mwyn dyfod i adnabod mwy o ddichellion Satan, 2 Cor. 11, a thwyll ein calonau, a gwaith gras a'i gynnydd yn ein heneidiau, 1 Pedr iii. 8.

"4. Er mwyn goleuo eu gilydd yng ngair Duw, ac er mwyn cadarnhau ac adeiladu y naill y llall yn y sancteiddiaf ffydd.

"5. Er mwyn cynghori eu gilydd a rhagflaenu ymrysonau, ac angharíad, a drwg-dybiau, a chenfigenau, &c. 1 Tim. vi. 4.

"6. I edrych yn ol bywyd ac ymarweddiad, ysbryd a thymmer, y naill y llall, ac er mwyn dwyn beichiau ein gilydd, Galat. vi. 2.

"7. Er mwyn gogoneddu gwaith gras Duw, trwy fynegu idd eu gilydd pa beth a wnaeth efe dros ein heneidiau, yn ol esampl Dafydd, Salm lxvi. 16.

"8. Er mwyn ymgryfhâu ynghyd yn erbyn gelynion ein heneidiau, y byd, y cnawd, a'r cythraul; er mwyn gweddïo dros ein gilydd, ac er mwyn cyfranu pob addysg a ddysgasom am Dduw, am ei Fab, ac am danom ein hunain, er pan fuom ynghyd o'r blaen.

——o——

"*Fel y byddo i'r Dibenion hyn gael eu hatteb, yr ydym yn cyttuno ar y Rheolau canlynol:—*

"1. Ar ol canu mawl a gweddïo, 1 Tim. ii. 1, bod ini agoryd ein calonau i'n gilydd, ac adrodd yn symlrwydd ein calonau yr hyn oll o'r drwg a'r da, yr ydym yn ei weled oddifewn ini, yn ol y cymhorth a gaffom, [ac mor bell ag y gweddai gwneyd hyny ger bron dynion.] Oherwydd yr ydym yn profi, trwy'r balchder sydd ynom, anewyllysgarwch i ddyfod â gweithredoedd y tywyllwch sydd o'n mewn i'r goleuni, rhag ini gael cywilydd; ac felly barodrwydd i guddio ein pechod: a thra byddom yn gwneuthur hyny, ni lwyddwn ni ddim yn ein heneidiau. Ond yr ydym yn profi, pan y gwelom ni y pechod wedi ei faddau, ac y caffom ein calonau i'w gasâu, y gallwn ddyfod âg ef i'r goleuni; a mawr yw yr undeb ysbryd, y rhyddid meddwl, a'r cariad yr ydym yn ei brofi fod yn canlyn y symlrwydd yma.

Ond os ni fydd i ni gael cymhorth i ddywedyd gyda rhywfaint o olwg ar y drwg sydd yn y fath lygredd, a galar a chywilydd o'n mewn am dano, yr ydym yn dueddol i wneuthur yn ysgafn o hyn, ac felly yn sychu ein gilydd. Ac wrth ddywedyd am ddaioni Duw, os bydd ini ollwng yn anghof olygu ei ogoniant ef, ac ymfoddloni â meddyliau y bydd i'r brodyr feddwl yn dda am danom, neu edrych yn wael ar y rhai a fyddo heb brofi mor bell a ni,—os hyn a gaiff le, yr ydym yn profi ein bod yn tristâu Ysbryd Duw, ac y mae dieithrwch yn canlyn rhwng Duw a'n heneidiau, ynghyd ag oerfelgarwch a sychder.

"2. Er mwyn tynu ymaith bob dim a'r sydd yn rhwystro cynnydd cariad, i ddywedyd pob drwg-dyb a lettyo yn ein meddyliau am ein gilydd, a ddelo oddiwrth Satan, cyhuddwr y brodyr, neu ryw ffordd arall. Os gwir fydd yr achwyniad, dywedwn ef er mwyn codi yr hwn a gwympodd, trwy ei geryddu ef yn addfwyn, yn ol cynghor ein Hiachawdwr, rhyngom ni ag ef ei hun, yna o flaen dau neu dri o'r brodyr, i edrych a welom ni arwyddion ynddo, fel y bo i'n cariad gael ei adnewyddu. Os bydd y drwg-dyb yn wir, yna deuwn a hyny i'r amlwg er cywilydd i ni ein hunain, fel na chaffo Satan le i weithio ei waith ei hun yn ein calonau ni. Llawer ydyw'r budd yr ydym wedi ei brofi oddiwrth hyn. Yr esgeulusdra o'r symlrwydd hyn a roddodd le i Satan weithio cymaint o ymrysonau, &c.

"3. Bod ini gymmeryd ein holi a'n chwilio gan ein gilydd; o herwydd mor barod yr ydym i sefyll yn rhy agos atom ein hunain, ac i beidio a myned i dre, wrth holi ein hunain.

——o——

"*Holiadau i brofi ein hunain wrthynt.*

"1 Beth yw ein dibenion ymhob dim ar a gymmerom yn llaw, pa un a'i gogoniant Duw, ai rhyw bleser neu esmwythder, rhyw glod neu anrhydedd, neu rhyw elw neu fudd i ni ein hunain?

"2. Beth ydym ni yn ei brofi o'n mewn yn ein cymhell i wneuthur yr hyn yr ydym ni yn ei wneuthur? Cariad Crist, neu ynte hunan gariad?

"3. Wrth ba ewyllys yr ydym ni yn rhodio, ac yn gwneuthur pob peth; pa un ai ewyllys ddadguddiedig Duw yn ei air, neu ynte ein hewyllys ein hunain? A ydym ni yn ymwadu a'n hewyllysiau ein hunain ymhob peth?

"4. Gan ein bod ni wedi rhoddi ein hunain yn y cyfamod gras i Dduw yn Nghrist, ac nad ydym ni mwyach i fyw i ni ein hunain, ond i'r Hwn a'n prynodd ni, ac a roddodd ei Hun drosom; a chan fod i ni ddwyn ffrwyth oddiwrth bob talent ag sy genym, yr ydym i wylied dros ein gilydd, pa fodd y byddo ini arferyd ein heneidiau, a'n cyrph, doniau, cof, dysg, amser, cyfoeth, a phob odfa i wneuthur a derbyn daioni, fel y dygom fwyaf o anrhydedd i Dduw, a lles i'w eglwys, trwy eu gosod allan yn ol rheol ei air Ef, gyda phob diwydrwydd a symlrwydd.

"5. Fel nad oes ond un corph gan Grist; ac fel y mae Efe yn gweddio ar i bawb o'i ddisgyblion (neu ei ddilynwyr) Ef i fod yn un;—fel nad yw'r nifer ond ychydig; fel ag y mae'r ffyddloniaid oll (o bob barn mewn pethau amgylchiadol) i fod ynghyd yn dragywydd yn ol hyn; fel ag y maent yn profi yn awr undeb, wedi ei weithio oddifewn, a'u gilydd yn yr Ysbryd Glân; fel ag y maent yn trafeilio yr un ffordd, yn ymladd dan yr un faner, yn erbyn yr un gelynion, yn ymborthi ar yr un manna, yn yfed o'r un ffynon ysbrydol, yn cael eu tywys gan yr un Ysbryd, wedi eu gwisgo a'r un cyfiawnder cyfrifol, yn ceisio yr un diben, ac yn cael eu cymhell gan yr un egwyddor, wedi clywed i gyd yr un llais, wedi eu prynu a'u golchi a'r un gwaed, &c., felly nid ydym ni yn atal neb o un farn rhag dyfod i fod yn aelod o'r *Society* gyhoedd ag a allo gael ei holl galon i gytuno a'r rhagddywededig Reolau, ac i ateb y cwestiynau canlynol.

"1. A ydych chwi wedi cael eich hargyhoeddi gan Ysbryd Duw i weled eich hunain yn golledig hollol, ac yn haeddu eich damnio? ac mai cyfiawn fyddai i Dduw orchymyn i bob creadur eich poeni, ac i'ch taflu i'r trueni a'r poenau eithaf, gan weled eich hunan y penaf o bechaduriaid?

"2. A ydych chwi wedi eich deffroi gan ras i weled nad yw eich goleuni chwi ddim ond tywyllwch? ac na ellwch chwi ddim adnabod y Tad, na'i Fab, yn gadwedigol, na chwi eich hunain, heb i'r Ysbryd Glân oleuo llygaid eich meddwl chwi yn oruwchnaturiol, gan eich bod wrth natur fel ebol asen wyllt?

"3. A ydych yn profi, nid yn cyfaddef yn unig, ond wedi cael eich dysgu gan yr

Arglwydd, i weled ac i wybod hyn, sef, bod pechod felly wedi gwenwyno eich holl natur yn y fath fodd ag na ellwch gymmaint a meddwl un meddwl da, na gwneuthur dim a fyddo cymmeradwy gan Dduw? Ac na ellwch ddim eich helpu eich hunan o'r cyflwr hwn mewn un modd, wrth natur?

"4. A ydych chwi yn credu ac yn profi mai trwy gyfiawnder Crist, yn cael ei gyfrif ini yn unig, y mae ini fod yn gadwedig? ac mai trwy ffydd y mae hwn yn cael ei dderbyn? ac mai Ysbryd Duw yn unig a all, ac sydd yn gweithio y ffydd hon? ac na allwn ni ddim ei gweithredu hi nag un gras arall nes y byddo i'r un Ysbryd, fel y gogledd-wynt neu y deheu-wynt chwythu arnom.

"5. A ydych (gan weled mai Crist yn unig yw'r ddinas noddfa i ffoi iddi rhag dialydd y gwaed) yn profi fod Ysbryd Duw wedi eich gwneuthur yn ewyllysgar i ymadael yn eich serchiadau â phob peth ag oedd gynt yn werthfawr ag yn felus genych? megys eich llygad deheu, eich cyfaill anwylaf, a'ch pechod melusaf, amlwg a dirgel, er mwyn Crist, ac i wneuthur lle iddo Ef yn y galon?

"6. A ydych chwi wedi bod yn y dirgel yn bwrw'r draul? Ac yn awr yn profi fod gras Duw wedi peri i chwi ymwadu a'ch dibenion, eich ewyllysiau, eich cyfiawnderau, a'ch doethineb eich hunain, ac i ymostwng i ewyllys, a chyfiawnder, a doethineb Crist? Ac yn ymfoddloni i ddioddef pob croes ag a gyfarfyddoch wrth fyned ar ei ol Ef, a thrwy allu ei ras Ef i selio ei air â'ch gwaed, os bydd achos.

"7. Os ydych etto heb gael tystiolaeth yr Ysbryd Glân i gyd-dystiolaethu â'ch ysbryd chwi eich bod yn blentyn i Dduw, a ydych chwi yn profi eich bod bob amser yn ceisio Duw â'ch holl galon, heb geisio dim ond Efe? Chwiliwch a [ydych yn cyfrif pob peth yn golled fel yr ennilloch Ef? ac nas gellwch orphwys ar hyn chwaith nes i chwi ei gael Ef?

"8. A ydych chwi yn profi na ellwch chwi ddim cael esmwythdra, na heddwch, oddiwrth ddim ag sydd wedi ei weithio ynoch hyd yma, nes y bo i chwi brofi fod Crist ynoch chwi—nes y gwyddoch eich bod yn credu,—nes y byddoch wedi cael y fath olwg ar gyfiawnder Crist yn boddloni cyfiawnder Duw drosoch chwi, ag a fyddo yn ennyn cariad ynoch chwi ato Ef, a hwnw yn eich cymhell i ufudd-dod; a'r cyfryw olwg ar ei ystlys fendigedig Ef wedi ei thrywanu, ag a ddryllio eich calon i alaru am bechod fel un yn galaru am ei gyntafanedig, ac i wir gasâu pob pechod, nes y byddoch wedi derbyn Ysbryd mabwysiad yn llefain Abba, Dad, ynoch chwi?

"9. A ydych chwi yn credu ac yn cydsynio a'r gwirioneddau sylfaenol, yn gyntaf, ynghylch y Drindod; yn ail, etholedigaeth; yn drydydd, pechod gwreiddiol; yn bedwerydd, cyfiawnhad trwy ffydd; yn bumed, parhad mewn ystâd o ras, &c., fel ag y maent yn cael eu dal allan yn Articlau a Homiliau Eglwys Loegr? Ac yn yr hyn nad ydym yn hollol, ysgatfydd, yn cytuno mewn rhai pethau amgylchiadol, megys dysgyblaeth eglwysig, seremoniau, y dull a'i amser o fedydd, &c., a ydych chwi yn addaw na bydd i chwi ddim blino eich cyd-aelodau ynghylch y pethau nad yw Duw wedi dyfod a ni i weled yr un modd?

"10. A ydych yn profi mai cariad Crist sydd yn eich cymhell i ymuno a ni? Ac a ydych chwi, yn ol dyfal ystyried, yn profi eich calon yn ddiragrith yn ymostwng i'r rheolau hyn, gan edrych arnom ni, a ninau arnoch chwithau, fel aelodau o'r un corff, fel plant yr un Tad, fel un, ac na ddywedoch wrth neb o'r rhai sydd oddiallan yr hyn a fyddom ni, yn symlrwydd ein calonau, yn eu dweyd? (Oherwydd mai taflu perlau o flaen moch, yw dweyd profiadau wrth yr annuwiol.)

"Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i bwy bynag a chwenycho fod yn aelod o honom, ar ol iddo yn gyntaf roi ei enw yn y cyfarfod o'r blaen, a dyfod a thystiolaeth rhai o'r brodyr (os bydd lle) ynghylch ei fywyd, a'i dymer a'i ymarweddiad, a pha gymaint o amser sydd er pan y daeth dan argyhoeddiad, ac i gael y cyfnewidiad yma yn ei fywyd. Fe ddichon bod rhai ag a fyddo heb eu rhyddhau odditan ysbryd caethiwed, ac eto yn gwir geisio, a'u bod eto heb gael; wedi cael eu gwneuthur yn ewyllysgar, ac heb yfed o ddwfr y bywyd, —y rhai hyn rhaid eu porthi a llaeth. Ac fel na byddo i eraill gael eu cadw yn ol ganddynt hwy, y rhai a fyddo wedi profi ymhellach, ac wedi derbyn cymhwysiadau, a ddylent adeiladu eraill trwy gynghori, &c. Ac eraill, wedi profi budd a llesâd wrth gyfarfod yn fwy neilltuol i fod yn fwy manol i chwilio; ni a gytunasom i gyfarfod i'r diben hyn yn fwy neilltuol; a phwy bynag a fyddo wedi bod dros amser yn y *Society* gyffredin, ac wedi ymddwyn yn addas, y mae i gael ei dderbyn i'r ymgyn-

ulliad yma, pan y gallo ateb i'r cwestiynau a ganlyn, neu eu cyffelyb.

"1. A wyddoch chwi eich bod yn credu? eich bod yn y ffydd? a bod eich pechodau wedi ei maddeu? a bod Crist wedi marw drosoch chwi yn neilltuol? ac yn awr yn trigo trwy ei Ysbryd ynoch chwi? a bod Duw wedi eich caru â chariad tragywyddol? A ydyw Ysbryd Duw bob amser yn cyd-dystiolaethu â'ch ysbryd chwi, eich bod yn blentyn i Dduw?

"2. A ydych chwi yn profi mwy-fwy o gydymdeimlad yn eich calon â'r rhai a demtir? a mwy o dosturi, o bwyll, ac o anian cariad yn eich ysbryd tuag at bawb, ond yn enwedig at deulu y ffydd, pwy bynag fyddont?

"3. A ydych chwi yn profi mwy o oleuni ysbrydol o'ch mewn, yn dadguddio i chwi fwyfwy o burdeb a sancteiddrwydd Duw, ac ysbrydolrwydd ei gyfraith ef, ac yn dangos i chwi fwy o bla a thwyll eich calon, a drwg pechod, a gwerthfawrogrwydd Crist?

"4. A ydyw eich cydwybod yn fwy tyner i argyhoeddi am y dechreuad cyntaf o bechod yn y meddwl? am bob edrychiad anllad â'r llygaid? Am y dechreuad cyntaf o ysgafnder neu lawenydd cnawdol, neu ragrith, neu hunan, neu natur chwerw, yn y dechreuad cyntaf o honynt? am eiriau segur, am ollwng Duw yn anghof, am feddyliau llygredig ac ofer?

"5. Pa wers a ddysgodd yr Arglwydd i chwi er pan fuom ni ynghyd o'r blaen? Pa faint a welwch chwi [yn] fwy o ddrwg a thwyll eich calon? o ddichellion Satan? o ddyfnderoedd gras Duw, a rhyfeddol waith ei ras Ef ynoch? o oleuni ysbrydol, profiadol, yn ei air Ef?

"6. A ydych chwi yn gweled mwy o ryfeddod yng nghariad neilltuol Duw tuag atoch chwi? Ac a ydyw yr olwg hyn yn eich cyfnewid i'w ddelw Ef, ac yn gweithio ynoch fwy o hiraeth am ei ogoneddu Ef yn y cwbl? ac am ei weled Ef yn dyfod i gael ei ogoneddu yn ei saint?

"7. A ydyw pechodau rhai eraill yn dyfod yn fwy agos atoch? Ac a ydych chwi yn profi bod eich eneidiau yn cael eu gwreiddio a'u hadeiladu fwyfwy mewn cariad? fel nad yw pob golwg ar eich gwendid, a grym eich llygredd, a'ch tywyllwch, &c., ynoch, a fu yn peri poen (er eu bod yn achos o alar), ond eich bod yn amlycach yn canfod eich holl iachawdwriaeth yn Nghrist? a thrwy olwg ar y cyflawnder, a'r gallu a'r ffyddlondeb, sydd ynddo Ef, yn rhodio yn gysurus yng nghanol profedigaethau, ac yn dweyd: 'Mi a wn i bwy y credais,' pan y byddo hi dywyllaf arnoch?

"8. A ellwch chwi ddywedyd, trwy eich bod wedi dyfod i weled yn fwyfwy amlwg, trwy dystiolaeth y dwfr a'r gwaed, bod eich enwau wedi eu hysgrifenu yn llyfr y bywyd; ac y gwyddoch ar sail gywir, ar yr hunan-ymholiad manylaf, wrth air Duw: 'na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddianau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, eich gwahanu oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd;' ac na all neb eich tynu chwi o'i law Ef, oherwydd ei fod Ef yn fwy na phawb oll; ond pan yr ymddattodo ein daiarol dŷ o'r babell hon, bod i chwi adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd; ac mai eich sail chwi i hyn oll yw cyfamod tragywyddol ac anghyfnewidiol Duw?"


# PENOD IX.

——:o:——

## Y GYMDEITHASFA.

*Howell Harris ar ei daith tua Watford—Y chwech cyntaf—Penderfyniadau y Gymdeithasfa—Gorphen mewn cân a moliant—Cyfarfodydd Misol Llanddeusant, Trefecca, Tyddyn, Llanwrtyd, a Glanyrafonddu—Ail Gymdeithasfa Watford—Taith Whitefield a Howell Harris trwy ranau helaeth o'r Deheudir—Argyhoeddiad Peter Williams—Cyfarfodydd Misol Gelliglyd, Watford, Dygoedydd, a Longhouse—Cymdeithasfa Chwarterol Trefecca—Y ddau arolygydd tramgwyddus—Whitefield a Howell Harris yn ysgrifenu llythyrau atynt.*

CYNHALIWYD y Gymdeithasfa gyntaf yn Watford, dyddiau Mercher a Iau, Ionawr 5 a 6, 1743. I'r dyddiad hwn dwg dydd-lyfr Howell Harris a dydd-lyfr Whitefield dystiolaeth bendant, a chadarnheir ef gan amseriad y llu o lythyrau a ysgrifenwyd yn uniongyrchol gwedi; felly, nid oes lle i unrhyw betrusder gyda golwg ar y mater. Y tebygolrwydd yw ddarfod i awdwr parchus *Methodistiaeth Cymru* gael ei arwain ar gyfeiliorn yma eto trwy gamddeall yr hen galendar eglwysig. Cychwynodd Howell Harris, yn ol ei ddydd-lyfr, foreu Sul, Ionawr 2, 1743. Teimlai bwysigrwydd dirfawr y cyfarfod ar ba un yr oedd yn wynebu, nid yn unig i'r diwygiad Methodistaidd, ond hefyd i grefydd Cymru; a'r peth cyntaf a geir ar y dyddiad yn ei lyfr yw: "Myned i gyfarfod y Gymdeithasfa yn Sir Forganwg." Nid ai ar hyd y ffordd unionaf, a'r un a arferai gymeryd pan yn teithio i Forganwg neu Fynwy, sef heibio Cantref, wrth draed y Banau; eithr cadwai yn mhell ar y chwith, er mwyn cymeryd Cwm Iau ar ei hynt, fel y gallai ymgynghori a'r offeiriad duwiol a weinidogaethai yno, Thomas Jones, ac y caffai ei enaid gyfnerth wrth wrando arno yn pregethu Gair y Bywyd. Arweinid ef trwy olygfeydd mor brydferth a rhamantus a dim sydd yn Nghymru; eithr nid ymddengys fod ei yspryd mewn unrhyw gydymdeimlad a'r tlysni a'i cylchynai; yr oedd pryder ei feddwl yn gymaint, fel nas gallai gael tawelwch ond trwy ddyrchafu gweddi at Dduw. Wedi gweddio dros Miss Ann Williams, a thros ei fam, "gweddiais," meddai, "dros ein Cymdeithasfa, ar i Dduw ddyfod i'n mysg i'n cyfarwyddo, a chyda golwg ar fy myned dros y môr; cefais ryddid mawr i osod yr achos gerbron yr Arglwydd, ond ni chefais ateb; dros yr Eglwys dywyll hon, a thros bawb sydd mewn pechod. Cefais nerth i alaru ac i lefain ar ran holl deulu Duw, gan weled yr holl eglwys fel yn perthyn i'w deulu ef, ar iddynt gael eu dwyn i rodio yn y goleuni." Rhwng naw a deg o'r gloch cyfarfu nifer o frodyr ef, rywle ynghanol y mynyddoedd, y rhai a dystiolaethent i'r lles a dderbyniasent oddiwrth Dduw trwyddo. Gwedi penderfynu rhyw faterion perthynol i'r gymdeithas fechan yno, a rhoddi ei gofal i'r brawd Joseph, yr hwn y tybiai a ordeiniasid gan Dduw i ofalu am y praidd, aeth yn ei flaen. Daeth myned dros y môr i bwyso ar ei feddwl eto. Gwelai y gallai yr eglwys yn Nghymru fyned yn mlaen hebddo. Ond yr oedd ei galon yn orlawn o anwyldeb at ei blant ysprydol, a gwnaed iddo lefain: "O, pa fodd y gallaf eu gadael?" Cyffrowyd ei yspryd ynddo, ynghanol gwylltineb y mynydd, i fendithio a molianu Duw. "Pa fodd," meddai, "y gallaf dy fendigo am Iesu Grist, a'r cyfoeth a drysorwyd ynddo?" Wedi cyrhaedd Cwm Iau, agorodd ei fynwes i Thomas Jones; mynegai am ddrygedd ei galon, yr hwn a gynhyrfid pan glywai ei fod i gael ei esgymuno; wrth adrodd torodd i lawr gan wendid corph. Pregethodd yr hen offeiriad yn hyfryd; eithr ni chafodd Harris unrhyw nerth; ond cafodd afael ryfedd ar weddi, yr hyn a ddygodd gryfder i'w gorph a'i enaid. Ymadawodd boreu y Llun, gwedi ymgynghori a Mr. Jones, yr



CAPEL ANNIBYNOL WATFORD.

hwn a ddangosodd yspryd gwir gatholig, a chyrhaeddodd y Goetre, ger Pontypŵl, o gwmpas saith. Pregethodd yno boreu dydd Mawrth, gan rybuddio y gwrandawyr rhag hunan a drygedd y galon. Cysgodd yn Llanfihangel nos Fawrth. Y peth cyntaf a ysgrifena yn ei ddydd-lyfr boreu Mercher yw: "Myned i'r Gymdeithasfa; y mae gofal yr oll ar yr Iesu." Achwyna ei fod yn wanaidd ei gorph, ac yn teimlo yn druenus heb sicr bresenoldeb Iesu Grist. Cafodd wyneb yr Arglwydd ar ei daith, a dymunai fod ganddo ddeng mil o fywydau i'w cyflwyno iddo. Cyrhaeddodd Watford tua chanol dydd.

Gorwedda Watford ar lechwedd cwm sydd yn myned i mewn i'r mynydd, tua thri chwarter milltir i'r gorllewin o Gaerphili, rhwng dyffrynoedd y Rhymney a'r Tâf. Nid oes yno na thref na phentref. Yr unig adeiladau ydynt ffermdy golygus Watford-fawr, yr hwn, yn adeg Howell Harris, oedd yn balasdy o gryn fri, a chapel Ymneillduol Watford, rhyw ddau led cae yn uwch i fynu, ac a dderbyniodd ei enw oddiwrth y tir ar ba un y cawsai ei adeiladu. Dywedir yn *Methodistiaeth Cymru*: "Yn ymyl tŷ Watford, y mae capel Presbyteraidd hen iawn, yn yr hwn yr arferai y Diwygwyr Methodistaidd bregethu, gan y coleddid hwynt gan Mr. a Mrs. Price, y rhai oeddynt yn preswylio yn y palasdy y pryd hwnw. Am y Mrs. Price hon y canodd Williams, Pantycelyn, alareb ragorol ar ol ei marw. Yr wyf yn tueddu i feddwl nad oedd yr un gweinidog sefydlog yn yr hen gapel y pryd hwnw; a chan fod Mr. Price yn llochi y Methodistiaid, efe a agorodd ei dŷ ei hun i'w croesawu, ac a gafodd ganiatad iddynt ddefnyddio y capel, o leiaf yn achlysurol, i gynal cyfarfodydd.' Buasai yn anhawdd gwthio mwy o gamgymeriadau i le mor fychan. Nid gwraig Price, yr ustus, oedd Grace Price, i'r hon y canodd Williams alareb, ond gwraig Cadben Price, ei fab; ac nid oedd wedi ei geni pan y cynhaliai y Methodistiaid eu Cymdeithasfa gyntaf yno. Rhy brin y gellir galw capel Watford yn "gapel Presbyteraidd." Nid oedd ychwaith yn hen; rhyw dair blynedd cyn y Gymdeithasfa y cawsai ei adeiladu; a nerth yr adfywiad a ganlynodd ymweliad cyntaf Howell Harris a'r lle a roddodd galon yn y bobl i ymosod ar y gwaith o'i godi. "Ystafell newydd" y geilw Harris yr adeilad. Nid oedd ychwaith heb weinidog, gan fod David Williams, Pwllypant, yn dal y lle mewn undeb a Chaerdydd.

Cyfarfyddodd y Gymdeithasfa y tro cyntaf yn nghapel Watford am ddau o'r gloch. Meddai Howell Harris, yn ei ddydd-lyfr: "Arosasom yn yr ystafell

newydd hyd saith, yna aethom i dŷ y brawd Price." Ar un olwg, y mae yn syn iddynt gael y capel, gan fod David Williams, y gweinidog, wedi darfod cydweithio â hwy. Ond dylid cofio mai rhai a ddychwelasid trwy weinidogaeth Harris oedd y nifer amlaf o'r aelodau yno; mai ei ymweliad ef yn 1738 a fu yn achlysur i'r capel gael ei adeiladu; ac yr ystyriai yr eglwys ei hunan ar y pryd i raddau mawr yn Fethodistaidd, a pharhaodd i deimlo felly hyd nes y darfu i syniadau Arminaidd, a haner Ariaidd David Williams, orfodi y Methodistiaid i ymwahanu, ac i adeiladu capel y Groeswen. Dewiswyd Mr. Whitefield yn gadeirydd. Agorodd yntau y cyfarfod trwy weddi, mawl, a chyngor. Dywed Harris na welodd y fath serchowgrwydd meddwl, y fath gariad a grym, wedi cydgwrdd yn neb ag yn y gŵr da hwnw. Heblaw Mr. Whitefield, yr oedd yn bresenol y Parchn. Daniel Rowland, John Powell, a William Williams, oll yn offeiriaid urddedig; ynghyd a Mri. Howell Harris, Joseph Humphreys, a John Cennick, lleygwyr. Y chwech hyn yn unig a gyfansoddent y Gymdeithasfa ar y cyntaf. Ystyrid y tri offeiriad yn perthyn iddi ar gyfrif eu hordeiniad; Howell Harris ar gyfrif ei sefyllfa eithriadol fel y mwyaf ei lafur o bawb, a sylfeinydd y nifer amlaf o'r seiadau; a Mri. John Cennick a Joseph Humphreys, oblegyd y safle uchel a feddent yn mysg Methodistiaid Lloegr. Cuwrad Aberystruth, ger Blaenau Gwent, oedd y Parch. John Powell; argyhoeddasid ef trwy weinidogaeth Howell Harris, pan yr ymwelodd gyntaf a'r rhan hono o'r wlad; a daeth mewn canlyniad yn bregethwr efengylaidd a thra sylweddol. Er ei holl awydd am wneyd daioni, cafodd ei erlid yn fawr yn Aberystruth. Ymddengys fod ei wraig hefyd yn ddynes nodedig o grefyddol; a dywed Mr. Edmund Jones y tybid yn gyffredin,* ddarfod i waith rhai o'r prif blwyfolion, yn mysg pa rai yr oedd ei thad, wrthwynebu caniatau i Daniel Rowland bregethu yn yr eglwys effeithio mor ddwys ar ei meddwl, fel ag i fyrhau ei dyddiau. Gwedi dyoddef llawer oblegyd ei gysylltiad a'r Methodistiaid, cafodd Mr. Powell fywioliaeth yn rhan isaf o Fynwy, lle y trigodd hyd ddydd ei farwolaeth.

John Cennick ydoedd fab i Grynwr o Reading, a chafodd ddygiad i fynu crefyddol, gan gael ei arfer i weddïo nos a boreu gan ei fam. Eithr tyfu yn fachgen drwg a wnaeth John. Arferai ganu caneuon masweddgar, chwareu cardiau, a mynychu y chwareudai; anfonodd ei dad ef naw gwaith i Lundain i'w brentisio i ryw gelfyddyd; eithr ni chymerai neb ef gan mor ddrwg ydoedd, oddigerth rhyw saer, yr hwn a'i derbyniodd ar brawf, eithr a wrthododd ei gymeryd fel egwyddorwas pan ddaeth yr amser i hyny. Argyhoeddwyd y llanc tra yn cerdded Cheapside, un o heolydd poblog Llundain, yn y flwyddyn 1735, tua'r un adeg a Howell Harris. Pa foddion a fendithiwyd iddo, nis gwyddom; ond bu mewn teimladau ofnadwy am amser. Ymprydiai yn fynych, a hyny am amser maith, a gweddïai naw gwaith bob dydd. Ofnai ysprydion yn enbyd; ac yr oedd arno fawr ddychryn cyfarfod a'r diafol. Gan y teimlai fod bara, hyd yn nod bara sych, dienllyn, yn ymborth rhy dda i bechadur mor fawr ag efe, ymroddodd i fwyta cloron, mês, a glaswellt; ac ymawyddai am fyw yn gyfangwbl ar lysiau a gwreiddiau. Ni chafodd heddwch i'w enaid hyd Hydref, 1737; y pryd hwnw datguddiodd Duw ei drugaredd iddo, ac aeth yntau i'w ffordd yn llawen. Dechreuodd bregethu ar unwaith, fel Howell Harris, a chyfansoddi hymnau. Argraffwyd nifer o'i hymnau, wedi ei golygu gan Charles Wesley, yn y flwyddyn 1739. Yr un flwyddyn cyfarfyddodd a John Wesley, yr hwn a'i hapwyntiodd yn ysgolfeistr i Kingswood, ger Bryste, lle yr oedd nifer mawr o lowyr wedi eu dychwelyd. Cyrhaeddodd Kingswood yn mis Mehefin; er ei fawr siomedigaeth cafodd fod Wesley wedi ymadael am Lundain, ond gwahoddwyd ef i fyned i wrando rhyw ddyn ieuanc yn darllen pregeth i'r glowyr. Lle y cyfarfod oedd dan gysgod sycamorwydden, yn ymyl y fan y bwriedid i'r ysgol fod. Daeth y glowyr ynghyd, tua phum' cant o honynt, ond ni ddaeth darllenydd y bregeth. Bu raid i Cennick bregethu iddynt, a chafodd odfa nerthol; dygodd Duw dystiolaeth i air ei ras, a chredodd llawer i fywyd tragywyddol. Pregethodd dranoeth, a dwy waith y Sul dilynol. Daeth Howell Harris i'r lle; ymroddodd y ddau, pregethwr diurddau cyntaf Lloegr, a phregethwr diurddau cyntaf Cymru, i bregethu i dyrfaoedd oeddynt yn awchus am wrando y Gair; fel pan gyrhaeddodd John Wesley yno y dydd Mawrth dilynol, yr oedd clod y ddau efengylwr yn mhob

* *History of the Parish of Aberystruth.*

genau. Ni cheisiodd Wesley daflu rhwystr ar ffordd John Cennick, ac iddo ef y perthyn yr anrhydedd o fod yr efengylwr lleygol cyntaf perthynol i'r Methodistiaid Seisonig. Ac ymddengys ei fod wedi ei ddonio yn helaeth. Meddai barodrwydd ymadrodd mawr, a gwroldeb diderfyn. Pan yr ymranodd Wesley a Whitefield, mewn canlyniad i syniadau Arminaidd y blaenaf, glynodd Cennick wrth y blaid Galfinaidd, ac yr oedd yn un o'r deuddeg-a-deugain a drowyd allan o gymdeithas Kingswood gan Wesley, yn y flwyddyn 1741. Efe, gwedi hyn, oedd llaw ddeheu Whitefield. Eithr yn y flwyddyn 1745, tra yr oedd Whitefield yn America, ymadawodd a'r Methodistiaid, ac ymunodd a'r Eglwys Forafaidd. Bu farw yn 1755. Dywed Tyerman am dano: "Meddai Cennick ei wendidau; ond mewn bod yn farw i'r byd, mewn cymundeb â Duw, gwroldeb Cristionogol, ac amynedd siriol, byddai yn anhawdd cael ei ragorach." Ychwanega Tyerman, gan lefaru oddiar safle Wesleyad: "Er ei Galfiniaeth, ac er ei ddadleuon a John Wesley, yr ydym yn caru y dyn."

Mab i weinidog Ymneillduol yn Burford, lle heb fod yn nepell o Rydychain, oedd Joseph Humphreys; ac er fod ei enw yn Gymreig, nid oes un sicrwydd ei fod o haniad Cymreig. Ganwyd ef Hydref 28, 1720, felly yr oedd ychydig dros ddwyflwydd-ar-hugain oed adeg y Gymdeithasfa yn Watford. Cafodd addysg well na'r cyffredin. Bu ei dad farw pan nad oedd Joseph ond llanc tair-mlwydd-ar-ddeg; a chawsai yn ei ddydd ei ddirmygu gan Ymneillduwyr ac Eglwyswyr, oblegyd ei zêl a'i fywyd Puritanaidd. Gwedi hyn anfonwyd Joseph i ysgol yn Llundain, yn mha un yr oedd dynion ieuainc yn cael eu parotoi ar gyfer y weinidogaeth, a thuag at y pwlpud yr edrychai yntau. Arferai y llanciau a fwriedid i fod yn bregethwyr gynal cyfarfodydd gweddi; tybiai yntau ei hun yn ffodus mewn cael bwrw ei goelbren yn mysg dynion ieuainc o'r fath dduwioldeb a difrifwch; ond yn fuan gwelodd nad oedd yr oll ond clogyn, a'u bod yn ddirgel yn ymroddi i chwareuon annheilwng, yn gystal ag i ymddiddanion cellweirus ac ofer. Y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da; daeth Joseph Humphreys yn fuan mor ysgafn a'r un o honynt; ac yn y dirgel yn inffidel. Rhoddodd râff i'w nwydau llygredig, gan arwain bywyd cyhoeddus annuwiol. Yn raddol sobrodd drachefn, ymaelododd mewn eglwys Ymneillduol yn Llundain, a dechreuodd bregethu, "ond yr oeddwn heb fy argyhoeddi," meddai. Haf 1739, aeth i wrando Whitefield, gweinidogaeth yr hwn a ddylanwadai yn fawr arno; wrth weled y torfeydd yn ymwasgu yn awchus i wrando yr efengyl, dywedai ynddo ei hun: "Ni welwyd y fath beth yn Israel." Ceisiodd gymdeithasu ag ef, ac un nos cafodd y fraint o swpera gydag ef a Howell Harris, a rhai brodyr eraill, mewn gwesty yn Blackheath. Gwedi swpera, aed i siarad am bethau crefydd; aeth y tafarndy yn gysegr; teimlai Humphreys y lle yn nefoedd ar y ddaear. Un diwrnod, tra y canent emyn yn yr athrofa, lle y parhäi i fod yn efrydydd, cafodd y fath brawf o gariad maddeuol Crist, fel y toddodd ei galon o'i fewn, ac yr aeth ei lygaid yn ffynhonau o ddagrau. Holai ei gyd-efrydwyr ef beth oedd y mater; ond yr oll a allai ateb oedd ei fod yn ddedwydd. Gwedi hyn, dechreuodd bregethu mewn ystafell ddawnsio; cafodd gynulleifaoedd mawrion, a ffurfiodd yno gymdeithas eglwysig, yn rhifo tua saith ugain o aelodau. Pregethai yr athrawiaethau Calfinaidd, pechadur yn cael ei gyfiawnhau gerbron Duw ar sail haeddiant Iesu Grist yn unig. Am hyn gwrthwynebwyd ef yn yr athrofa, daeth yn wawd ei gyd-efrydwyr, cafodd ei erlid gan ei athraw, a'i adael gan ei gyfeillion, tybiwyd ei fod wedi colli ei synwyrau, a Rhagfyr 19, 1739, cafodd ei esgymuno o'r sefydliad, heb fod unrhyw gyhuddiad arall yn cael ei ddwyn i'w erbyn. Ond er pob peth rhaid oedd iddo gael pregethu, a bu yn gweinyddu i'r seiadau yn Deptford, Greenwich, a Ratcliffe. Caffai ei erlid; weithiau byddai mewn perygl am ei fywyd, oblegyd cerig yn cael eu lluchio ato, ond ni ofalai. Yn y flwyddyn 1741 unodd a Whitefield, a phregethwr teithiol mewn cysylltiad ag ef ydoedd pan ddaeth i Gymdeithasfa Watford. Hawlia tegwch hanesyddol i ni grybwyll na fu diwedd ei fywyd agos mor ddysglaer a'r rhan gyntaf. Yn mhen amser gadawodd Whitefield, gan gymeryd ei ordeinio yn weinidog Presbyteraidd; a chwedi hyny urddwyd ef yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. A dywedir ei fod yn gwawdio y Methodistiaid, ac yn cyfeirio at ei hanes yn ei mysg fel adeg ei wallgofrwydd.

Y mae aelodau eraill y Gymdeithasfa or adnabyddus fel nad rhaid cyfeirio

atynt. Braidd na saif y Gymdeithasfa hon ar ei phen ei hun yn hanes y byd. Mewn difrif, edrycher arni, yn cael ei gwneyd i fynu o chwech o ddynion ieuainc, pob un dan ddeg-ar-hugain oed, wedi ymgynull mewn capel bychan ar lechwedd y mynydd, i drefnu mesurau i ddwyn Prydain at Grist! Nid gwallgof ydynt; ac nid wynebu ar anturiaeth, heb ymdeimlo a'i hanhawsderau, y maent ychwaith. Y maent yn ofnadwy o ddifrifol, eu calonau sydd yn berwi ynddynt gan gariad at yr Iesu, a zêl am achub eneidiau; y mae amryw o honynt yn barod yn adnabyddus trwy Loegr a Chymru fel pregethwyr digyffelyb, y rhai gyda hyawdledd wedi ei ieuo gydag efengyl bur, a fedrant dynu miloedd i'w gwrando, a'u cadw am oriau wyneb yn wyneb a sylweddau tragywyddoldeb. Edrychir arnynt gan ganoedd fel eu tadau yn Nghrist, a cherir hwy mor angherddol gan lawer, fel y tynent eu llygaid o'u penau iddynt. O'u cwmpas, yn y capel diaddurn, y mae degau a gawsent eu hargyhoeddi trwy eu hofferynoliaeth, ac mewn canlyniad a ddechreuasent gynghori pechaduriaid; ond yn awr ydynt yn disgwyl yn bryderus am gael rhyw gyfran benodol yn y gwaith ysprydol wedi ei gyflwyno iddynt. Cyfarfod hanesyddol oedd y cynulliad; teimlir ei ddylanwad hyd y dydd hwn; a diau y bydd ei hanes yn felus hyd byth gan bawb ag y mae lles ysprydol Cymru yn agos at eu calonau.

Gwaith cyntaf y cyfarfod oedd arholi y cynghorwyr cyhoedd, sef y rhai a arferent deithio o gwmpas i bregethu, dan nawdd y Diwygwyr. Ei henwau oeddynt Herbert Jenkins, James Beaumont, Thomas James, Morgan John Lewis, Benjamin Thomas, John Jones, a Thomas Lewis. Deuant oll dan ein sylw eto. Profwyd hwy a chwestiynau celyd, a hyny nid yn unig gyda golwg ar eangder eu gwybodaeth, a'u huniongrededd, ond hefyd gyda golwg ar waith gras ar eu calonau, eu cymhellion i'r gwaith, a'r doniau a feddent fel cymhwysder ar ei gyfer. Gwedi bod yn ymddiddan â hwy yn y capel hyd saith, ymneillduwyd i balas Watford, ac yr oedd yn agos i un o'r gloch y boreu pan eu derbyniwyd yn aelodau o'r Gymdeithasfa. Whitefield a John Cennick a gymerent y rhan fwyaf blaenllaw yn yr ymddiddan. A ddarfu i Howell Harris gael briw am na chafodd ei osod yn y gadair, ac am fod y ddau Sais yn cael lle mwy amlwg nag efe? Yr ydym, oddiwrth rai dywediadau yn ei ddydd-lyfr, yn tybio iddo gael. Cawn ef yn achwyn ar yr ymosodiadau a wnelai hunan arno: "Bydded i mi geisio bod yn ddim," meddai; "myfi yw y gwaelaf, y balchaf, y dallaf, a'r gwaethaf o bawb," meddai drachefn; dywed ei fod yn ofni agor ei enau, fod yn dda ganddo mai i ran Whitefield y syrthiodd y gwaith, yr ymawyddai am fod yn guddiedig a chael ei anghofio; ond fod prudd-der dirfawr wedi ymdaenu drosto. Ymddengys hyn fel pe bai yn ymladd yn erbyn rhyw siomiant a gawsai yn y cyfarfod. Paham lai? Dyn a gwendid ynddo oedd yntau. Ond cafodd fuddugoliaeth ar y teimlad anfoddog yn fuan, a thyr allan i weddïo dros Whitefield, yr offeiriaid, a'r cynghorwyr. Daeth y pwnc o fyned dros y môr i'w flino drachefn; dywed nad oedd wedi cael amlygiad clir o feddwl yr Arglwydd ar y mater; ond daeth i hyn: "Os wyf i fyned, yr wyf yn ddedwydd; os nad wyf i fyned, yr wyf yn ddedwydd; ond bydded i mi gael gras i ogoneddu Duw."

Boreu dydd Iau, am wyth, pregethodd Daniel Rowland, oddiar Rhuf. viii. 1: "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu;" yr oedd yn odfa nerthol. Dangosodd natur cyfiawnder Crist, a'r perygl i'r athrawiaeth am gyfiawnhad heb weithredoedd gael ei chamddeall a'i chamddefnyddio. Dangosodd yn mhellach nodau y rhai a gawsent eu cyfiawnhau trwy ras, nad ydynt yn byw mewn pechod, nac yn cael pleser ynddo; ac eglurodd nodwedd y rhai sydd yn rhodio yn ol yr Yspryd. Cafodd y bregeth ddylanwad dwfn, yn enwedig ar y pregethwyr; teimlai Howell Harris ei fod ef yn caru yr Yspryd Glân yn arbenig, a dywedai James Beaumont ei fod ef wedi cael cariad newydd at y Tri Pherson. Ymffurfiodd y Gymdeithasfa drachefn am un-ar-ddeg. Prif waith y cyfarfod oedd arholi y cynghorwyr anghyoedd, yr hyn orchwyl a ymddiriedwyd yn benaf i Howell Harris. Cafodd nerth rhyfedd gyda hyn. Dywed fod ei sylwadau yn cyrhaedd i'r byw; iddo gyfeirio at y farn, a thragywyddoldeb, a'r gyfraith, nes yr oedd dychryn yn ymdaenu dros bawb; "yr oedd yn llé ofnadwy," meddai. Gwasgodd arnynt, os oeddynt yn teimlo ddarfod i'r Yspryd Glân ymddiried gofal yr ŵyn iddynt, y rhaid iddynt gael eu llenwi a gofal tad, tynerwch mam, a chydymdeimlad brodyr; fod arnynt eisiau yr Iesu yn yr oll o'i enwau, brenin, offeiriad,

a phrophwyd; ac yn ei holl rasau, ffydd, cariad, gostyngeiddrwydd, doethineb, mwyneidd-dra, a thosturi. "Teimlwn hwy," meddai, "fel rhan o honof fy hun; yr oeddwn yn foddlon bod yn arolygwr i wylio drostynt; ac yr oeddwn yn dra chartrefol gyda hwynt. Darostyngwyd hwythau hyd adref; deallent fod arnynt eisiau pob cymhwysder." Buwyd yn y capel hyd saith, yn ymdrin a gwahanol faterion; "ac yr oeddym oll yn cyduno ar bob peth,' meddai Howell Harris. Awd gwedi hyny i'r tŷ; eisteddwyd i fynu hyd gwedi deuddeg yn gorphen y gwaith, yn gosod pob un yn ei le, ac yn trefnu y Gymdeithasfa. "Yr oeddym yn llawn cariad," meddai Harris, "yn sicr, yr oedd yr Arglwydd gyda ni; o gwmpas dau, aethum i'm gwely yn hyfryd yn fy yspryd." Gwelir, os cafodd teimlad anniddig le yn ei fynwes y dydd blaenorol, ei fod erbyn hyn wedi diflanu yn llwyr; fod dylanwad yr Yspryd Glân wedi ei uno ef a'r holl frodyr ynghyd, fel y mae dau haiarn yn cael eu hasio mewn twym ias. Yr oedd rhyw fân bethau, pa fodd bynag, heb eu llwyr benderfynu; a chyfododd y brodyr o gwmpas haner awr wedi saith dydd Gwener, i orphen y trefniadau. "Erbyn deg," meddai Howell Harris, "yr oeddym wedi trefnu ein holl faterion, ac yn llawn cariad. O'r fath heddwch, doethineb, serch, a threfn a welir pan y rhoddir yr holl waith i ddwylaw yr Arglwydd!" Ymadawodd y nifer fwyaf tua chanol dydd, eithr arosodd Harris a John Cennick i bregethu y noswaith hono. Cawsant odfa ryfedd. Sylw Harris yw: "Daeth Duw i lawr." Teimlai ei hun yn cael ei dynu allan o hono ei hunan yn felus pan y pregethai Cennick; aeth ei gadwynau yn ddarnau; teimlai ei fod mewn byd newydd, byd o ryddid. Yr oedd yr effeithiau yn ddwysach pan yr aeth ef ei hun i lefaru. "Yr oeddwn fel yn yr amser gynt," meddai; "dangosais fod y rhai sydd yn meddu ffydd yn Nghrist yn gweled gogoniant yr Iesu, eu bod yn aros yn yr Yspryd, yn caru eu gilydd, yn meddu gwir zêl dros achos Duw; eithr eu bod yn myned allan o'r Yspryd yn fynych, fel plentyn gwedi myned dros drothwy y drws, yn cael ei hun yn ddiarwybod iddo yn mysg y cŵn a'r moch, ond na faidd y creaduriaid hyn ddyfod i'r tŷ. Yn sicr, gwresogwyd llawer gan dân Duw. Yna aeth yn floedd yn mysg y dorf." Dyddorol yw deall na therfynodd y Gymdeithasfa gyntaf, mwy na degau o Gymdeithasfaoedd ar ei hol, heb arwyddion amlwg o'r Presenoldeb dwyfol. Ymadawyd ynghanol moliant a chân. Ac os oedd llethrau mynydd Caerphili, a dyffrynoedd y Tâf a'r Rhymney, yn adseinio y noswaith hono gan glodforedd y dorf a ddychwelai adref wedi yfed hyd at ddigon o felus win yr iachawdwriaeth, nid oedd ond canlyniad naturiol y dylanwadau a ddisgynent yn ddibrin ar y lliaws a ymgasglasai ynghyd.

A ganlyn yw penderfyniadau y Gymdeithasfa, fel eu ceir yn llawysgrif Howell Harris:—

"* Cydunwyd fod y brodyr canlynol i fod yn gynghorwyr cyhoedd; sef Herbert Jenkins, James Beaumont, Thomas James (i fod fel y mae hyd nes y byddo ei amgylchiadau wedi cael eu trefnu), Morgan John Lewis, Benjamin Thomas, John Jones, a Thomas Lewis.

"Cydunwyd fod Richard Tibbott i fod yn ymwelydd cyffredinol a'r seiadau.

"Cydunwyd fod y brodyr canlynol i fod yn gynghorwyr anghyoedd:—

"James Williams, i ymweled a'r cymdeithasau yn Cayo, Talley, Llanfynydd, a Llangathen.

"Morgan Hewes (felly y sillebir ei enw), Cayo, Lledrod, a Rhydfendigaid.

"David Williams, Lledrod a Llanilar.

"Price Thomas, Pontargamddwr a Charon.

"John Powell, Defynog.

"Wm. Evans, Llanddewi, Llandegle, a Llandrindock (Llandrindod ?).

"Howell Griffith, Llantrisant a Glynogwr.

"Richard Thomas, Llanedern, ac i gynorthwyo yn Watford.

"John Belsher, ymwelydd a'r brodyr sengl yn Watford.

"Evan Thomas, Mynyddislwyn.

"William Rice, ymwelydd a'r brodyr priod yn Watford.

"Thomas Evans, i gymeryd gofal y pethau allanol yn Watford.

"William Morgan, ymwelydd y gwŷr.

"Henry Harris, i gynorthwyo y brawd Price.

"Thomas Price, i gymeryd gofal Watford.

"William Powell, i gymeryd gofal y seiadau yn ei dŷ.

"Stephen Jones, Glasgoed a'r Goetre.

"Thomas Lewis, Pentyrch a Newhouse.

---

* *Trevecca Minutes.*

"Richard Jones, a John Deer, Aberthyn, Llanilltyd, ac Aberddawen.

"Charles Powell, Glasbury a Bronllys.

"John Jones, Cwmdu a Grwynefechan.

"Morgan John, Palleg, Creunant, Llanddeusant, a Cwmaman.

"Cymeradwywyd Wm. Harry, a John Richards.

"Cydunwyd ar i'r brodyr a deimlent betrusder gyda golwg ar dderbyn y sacrament yn yr Eglwys, oblegyd annuwioldeb yr offeiriaid; a chyda'r Ymneillduwyr, oblegyd eu clauarineb, barhau i dderbyn yn yr Eglwys, hyd nes yr agorai yr Arglwydd ddrws amlwg i ni adael ei chymundeb.

"Cydunwyd na fyddai i'r un cynghorwr gael ei dderbyn i'n mysg ond y sawl a fyddai wedi ei gymeradwyo; ac nad oedd neb i fyned dros ei derfynau gosodedig heb gael ymgynghoriad a chyfarwyddyd yn gyntaf.

"Cydunwyd fod i bob cynghorwr anghyoedd ddwyn adroddiad am y cymdeithasau sydd dan ei ofal, ynghyd a phwy a fydd wedi cael eu derbyn i aelodiaeth, i'r Gymdeithasfa, yr hon sydd i gael ei chynal y Mercher cyntaf gwedi y 25ain o Fawrth, 1743.

"Gwelodd yr Arglwydd yn dda fod yn mysg y brodyr, ac, yn ol pob ymddangosiad, i lewyrchu ei wyneb ar eu hymgynghoriad. Gogoniant yn y goruchaf i Dduw."

Gwelir fod yspryd yr ysgrifenydd, yr hwn nid oedd yn neb amgen na Howell Harris, wedi gwresogi o'i fewn wrth groniclo y cofnodion; y mae ei draed ar yr uchelfanau; ac ymdora ei deimlad brwdfrydig allan mewn moliant i'r Arglwydd, yr hwn a'u harweiniasai yn eu holl ymgynghoriadau. Y mae amryw bethau yn y cofnodion sydd yn galw am sylw. Gwelwn fod Watford yn cael ei wneyd yn fath o ganolbwynt i'r symudiad. Ai sefyllfa gyfleus y lle, fel man canolog rhwng Cymru a Lloegr, oedd y rheswm am hyny, ynte cymhwysder Thomas Price, perchenog a phreswylydd palas Watford, at y gorchwylion y rhaid eu cyflawni mewn lle o'r fath, nis gwyddom. Y mae y penderfyniad yn anog y rhai oeddynt yn betrusgar gyda golwg ar pa le y derbynient y cymundeb, i barhau i wneyd hyny yn yr Eglwys Wladol, wedi cael ei feirniadu yn llym. Meddai y Parch. T. Rees, D.D.: * "Y mae y penderfyniad yn arddangos ymlyniad dall arweinwyr cyntaf y Methodistiaid wrth yr Eglwys Sefydledig, pan yr anogent eu canlynwyr i gymuno yn yr eglwysydd plwyfol gydag offeiriaid annuwiol, yn hytrach na chyda yr Ymneillduwyr clauar, pa mor dduwiol bynag y gallent fod." Fod yr arweinwyr Methodistaidd, yn arbenig Howell Harris, yn dwyn mawr zêl dros yr Eglwys Sefydledig, sydd sicr; fel Eglwyswyr yr edrychent arnynt eu hunain; ac nid oeddynt am adael ei chymundeb, oni orfodid hwynt. Ond efallai nad oedd eu hymlyniad mor ddall ag y myn Dr. Rees. Gellir dwyn y rhesymau canlynol dros y penderfyniad y daethent iddo: (1) Anogaeth ydoedd i'r rhai oeddent hyd hyny wedi arfer cymuno yn yr Eglwys; profir hyny gan y gair "parhau;" nid oes yma gymaint ag awgrym i'r Ymneillduwyr i adael yr enwad i ba un y perthynent. (2) Yr oedd yr oerni a'r clauarineb ysprydol oedd wedi meddianu llawer o'r eglwysi Ymneillduol yr adeg hon, yn gymaint rhwystr ar ffordd crefydd yn mryd y Tadau Methodistaidd, a buchedd anfoesol yr offeiriaid. Yn eu golwg hwy nis gallai oerni ysprydol a duwioldeb gyd-drigo. Nis gallai dyn wedi ei ferwi gan y diwygiad, a'i galon yn llosgi ynddo gan gariad at y Gwaredwr, lai na theimlo gwrthnaws o'i fewn wrth weled gwasanaeth y cymundeb yn cael ei gyflawni gan weinidog a'i yspryd ynddo mor oer a'r rhew. Ac mewn aml i fan yr oedd yr oerni yn gynyrch syniadau anefengylaidd am berson Crist, a natur yr iawn a roddodd. Yn yr Eglwys, pa mor anfucheddol bynag y gallai yr offeiriad a weinyddai fod, yr oedd y gwasanaeth a ddarllenid ganddo yn ardderchog, ac yn llawn maeth i dduwioldeb. (3) "Hyd nes y rhoddai yr Arglwydd ddrws agored iddynt i adael cymundeb yr Eglwys," yr oedd yr anogaeth. Felly y dywed y penderfyniad. Ymddangosai yr adeg yn ymyl iddynt ar y pryd; yr oedd gwaith rhai o'r offeiriaid yn gwrthod y sacrament i'w canlynwyr fel yn dwyn pethau i argyfwng; ac os y dymunent i'r rhai a gawsent eu hargyhoeddi trwy eu gweinidogaeth barhau ynghyd, heb fod rhai yn ymuno a'r blaid yma, a'r lleill a'r blaid arall, pwy a fedr eu beio? (4) Yr oedd yspryd diflas, ac, i raddau, erledigaethus, at y Methodistiaid, fel yr ydym wedi sylwi yn barod, wedi cael lle erbyn hyn yn mynwesau llawer o'r gweinidogion Ymneillduol, ac yn eu heglwysi. Mewn rhai

* *History of Protestant Nonconformity in Wales.*

eglwysi awd mor bell ag atal o gymundeb y rhai a fynychent gyfarfodydd y Methodistiaid. * Yn nghofnodau Cymdeithasfa Fisol Glanyrafonddu, a gynhaliwyd Ebrill 17, 1744, ceir cyfeiriad at un Thomas Dafydd, a gawsai ei ddiarddel gan yr Ymneillduwyr oblegyd ymgyfathrachu a'r Methodistiaid, a chaniateir iddo aelodiaeth, a gwasanaethu fel cynghorwr anghyoedd ar brawf, tan arolygiaeth y brawd James Williams, ond nad ydyw i adael ei alwedigaeth. Yr ydym wedi crybwyll am hen wraig, o'r enw Betti Thomas, yn cael ei bygwth ag esgymundod oblegyd yr un peth, yn ngodreu Sir Aberteifi. Ffynai yr un teimlad yn Lloegr, lle y dyoddefodd y duwiol a'r diragfarn Dr. Doddridge ei erlid yn dost gan yr Ymneillduwyr, am ymgyfathrachu a'r Methodistiaid. Yr oedd yr ysprydiaeth yma yn naturiol wedi cynyrchu diflasdod yn y Methodistiaid at yr Ymneillduwyr, nes erbyn hyn yr oeddynt wedi myned, mewn llawer man, yn bur bell oddiwrth eu gilydd. Erbyn cymeryd yr oll i ystyriaeth nid yw penderfyniad y Gymdeithasfa yn Watford, gyda golwg ar gymuno yn yr Eglwys, mewn un modd i synu ato.

Nid oes unrhyw gyfeiriad at Howell Harris, na neb o'r offeiriaid, yn mhenderfyniadau y Gymdeithasfa; ond y mae eu gwaith yn cael ei benodi yn y nodiad, a ddifynwyd genym yn barod, sydd yn blaenori y cofnodau; sef fod y brawd Harris i arolygu yr holl eglwysi a'r cynghorwyr, a bod y gweinidogion ordeiniedig i fyned o gwmpas hyd byth ag y medrent. Cafodd Howell Harris y gorchwyl a ddymunai ei galon. Os oedd yn bryderus cyn i'r Gymdeithasfa gyfarfod, yr oedd ei yspryd yn llawn hyder a gorfoledd gwedi iddi fyned trosodd. "Penderfynwyd gan yr Arglwydd," meddai, "gyda golwg ar fy arosiad yn Nghymru, fy mod i aros i drefnu y cymdeithasau, i ddarllen, ac i ysgrifenu hyd byth ag y caniata fy nghorph. Wrth weled cynllun Duw, fel y dymunaswn iddo fod, llanwyd fy enaid â chariad, fel y llefwn: 'O, gad i mi ddwyn dy holl feichiau di.' Aeth fy nghalon gyda'r rhai a ymadawent a'r Gymdeithasfa." Ymadawodd yntau dydd Sadwrn, ond nid cyn gweddïo yn daer am gael ei gynysgaeddu yn helaeth a'r cymhwysderau gofynol i'w waith. "O, Iesu," llefai, "er mwyn dy ogoniant dy hun, a'th enw, a'th achos, dyro i mi ffydd, cariad, gallu, a phob doniau, gan fy mod yn eu gofyn er dy fwyn di a'th ogoniant, ac nid i mi fy hun, nid hyd yn nod er mwyn fy iachawdwriaeth; a dyro dy fendith ar fy llafur." Cyd-deithiai amryw frodyr gydag ef, ac yn eu mysg Beaumont a Cennick. Cyrhaeddasant Gelligaer erbyn tua deuddeg. Wrth fod Beaumont yn gofyn bendith ar yr ymborth yno, cafodd Howell Harris ymweliad o'r nefoedd; gweddïodd yn dufewnol am gymhorth i fugeilio yr ŵyn; am bob doethineb, cariad, tynerwch, a gofal angenrheidiol at y gorchwyl; a dywed ei fod yn teimlo yspryd y bugail yn barod o'i fewn. Aeth Harris yn ei flaen trwy Cantref, lle y treuliodd ran o'r Sabbath, Felinfach, a Llywel, gan ddychwelyd i Drefecca dydd Iau. Ni fu yno ond dau ddiwrnod, gan fod trefnu y cymdeithasau yn unol â phenderfyniad y Gymdeithasfa, a dwyn yr holl gynghorwyr i ufudd-dod, yn galw arno i fyned o gwmpas. Eithr gwelodd ryw ogoniant yn Nghrist cyn cychwyn i'w daith, na welsai ei gyffelyb erioed o'r blaen, a hyny yn benaf trwy ddarllen llyfr wedi cael ei ysgrifenu gan un o'r Bedyddwyr ar natur eglwys. Dywed fod dynion yn ymranu yn bleidiau, er fod natur yr eglwys yn ysprydol, ond fod yr Yspryd yn bendithio rhywbeth perthynol i bob un iddo ef, a'i fod yn rhydd oddiwrth fod mewn caethiwed i blaid.

Erbyn y Gymdeithasfa Fisol yn Llanddeusant, yr hon a gynhaliwyd Chwefror 3, 1743, yr oedd wedi teithio trwy ranau helaeth o Siroedd Brycheiniog, Mynwy, a Morganwg, gan sefydlu y seiadau, a phregethu yr efengyl. Ni ddywedir pwy oedd yn bresenol yno, rhoddir yn unig y penderfyniadau, y rhai sydd fel y canlyn:—

"Fod y rhai sydd yn cynghori mewn un seiad i barhau, fel yr ydym yn awr yn eu cymeradwyo, ar yr amod eu bod yn dyfod i'n Cymdeithasfa nesaf.

"Fod y brodyr W. Williams, Cerigcadarn; William John, Lancothi; Jenkin Jenkins, Llandefathen; David Rees, Tirabbad; Hopkin John, a John Meyrick, i fod fel y maent yn awr yn cael eu trefnu, a'u bod i ddyfod i'r Gymdeithasfa nesaf.

"Fod y rhai canlynol i gael eu dystewi hyd y Gymdeithasfa nesaf, ac i gyfarfod â ni yno, sef James Tomkins; David Price, Dyserth; Richard Thomas, Ystradfellte; John David, Llandyfeilog; John Watkins, Defynog; a Thomas Price, Llandilo Fach.

"Fod y brawd John Jones, Cayo, i ym-

* *Trevecca Minutes.*

sefydlu yn agos i Gastellnedd, ac i arolygu bob yn ail wythnos y seiadau yn Creunant, Hafod, Castellnedd, Palleg, Cwmamman, Llandilo Fach, Llangyfelach, Llansamlet, Llanddeusant, Blaen Llywel, Casllwchwr, Llanon, Pembre, a Defynog, gyda y brawd John Richard; a'u bod i gael eu cynorthwyo gan y brawd Jeffrey Dafydd yn Llanddeusant, John Powell yn Defynog, Jenkin John yn Llywel, Edward Meyrick yn Pembre, a George Phillips yn Nghastellnedd a'r Hafod.

"Fod y brawd Richard William Dafydd i arolygu y seiadau yn Llandyfaelog, Cilgarw, Llanddarog, a Chaerfyrddin.

"Fod y brawd John Rees i gynghori dan ofal y parchedig frawd William Williams.

"Fod y brawd William Richard i arolygu y seiadau canlynol: Blaenheinaf (Blaenhoffnant), Dyffryn Saith, Blaenporth, Twrgwyn, Llechryd, a Llanfair-y-llwyn.

"Fod y brawd William Harry i gadw ysgol yn Sir Gaernarfon, ac i gynghori yn y gymydogaeth, hyd byth ag y medr, rhwng oriau yr ysgol.

"Fod y brawd William John, Llanwrda, a'r brawd Dafydd, i gynorthwyo y brawd James Williams yn seiadau Llanwrda, Llansadwrn, Cilgarw, a Talley.

"Fod y brawd Richard Tibbot i gadw ysgol yn Sir Benfro.

"Fod y brawd John Dafydd i lefaru ar brawf o flaen y brodyr yn seiadau Llandyfaelog, a Chilgarw, hyd nes cawn farn y brodyr."

Dyma gofnodau Cyfarfod Misol cyntaf Sir Gaerfyrddin. Gwelir mor debyg oedd ei waith a'i arddull i eiddo Cyfarfod Misol yr amser presenol. Awgryma y cofnodau amryw gwestiynau dyddorol, nad oes genym hamdden i sylwi arnynt; ond rhaid i ni ddifynu rhan o ddydd-lyfr Howell Harris gyda golwg ar y cyfarfod. Fel hyn yr ysgrifena: "Cymdeithasfa Fisol yn Llanddeusant. Ar y ffordd yno yr oeddwn yn sych, a marw, a difater; ond yn y man, trwy gredu fod Duw wedi fy ngharu fel yr ydwyf, yn galed ac yn ddifater, dechreuodd cariad gynhesu yn fy enaid, a gollyngwyd fi yn rhydd. Gwelaf fod Duw yn fy ngharu yn fy mhechod, heb yr un rheswm am hyny, ond am mai felly y rhynga bodd yn ei olwg. Teimlais ynof fod Duw yn myned i wneyd rhyw bethau mawrion ynof fi, neu i mi, neu drwof fi, neu erof fi. Am y rhan fwyaf o'r ffordd yr oedd fy nghalon yn llosgi ynof fel pentewyn o'r tân. Daethum i'r lle gwedi deuddeg, ac yno yr eisteddasom yn penderfynu materion y seiadau hyd yn agos i saith, ac mewn gweddi. Dygodd yr Arglwydd fi y tufewn i'r llen, a chadwodd fi yno yn hyfryd, am y rhan fwyaf o'r amser. Myfi yw y gwaelaf o honynt oll, ond yr hyn a ofnais a fuasai yn faich i mi a wnaed yn hawdd ac yn felus. Cytunasom oll. Yn sicr yr oedd yr Arglwydd yno. Ond wrth ganu yr hymnau diweddaf, cyneuwyd ynom y fath fflam fel na allem ymadael; yn sicr tosturiodd yr Iesu wrthym; ac er fy mod (yn flaenorol) yn ddifater, cyneuwyd ynof y fath gariad at y brodyr, fel yr oeddwn fel gwreichionen o dân mewn fflam. A phan y gwelais fod un o'r brodyr i fyned i Ogledd Cymru, darfu i fy enaid yn wir fendithio Duw am hyny. Wrth ganfod fod y nerth oll, fel pe bai, gyda y brawd Rowland, teimlais fy enaid yn ddiolchgar ynof; yr oeddwn yn foddlon cael fy yspeilio o'm nerth a'm doniau er mwyn iddo ef gael yr oll; llawenychais a bendithiais Dduw yn wir wrth ei weled ef mor llawn o Dduw. O, fel y gwresogem ynghyd! Gwedi eistedd a threfnu ein holl amgylchiadau, gwrandewais ar un o'r brodyr yn cynghori hyd nes oedd wedi naw. O'r fath bethau y mae yr Arglwydd yn myned i'w cyflawni ar y ddaear, yn neillduol erof ac ynof fi! O'r fath newyddion a glywais o Sir Aberteifi, y fath dywalltiadau o'r Yspryd sydd yno, y fath fflamiau o gariad! Fflamiai fy nghalon, a llosgai ynof fel pentewyn glo, wrth ganfod fel y mae Duw yn rhoddi gallu, a zêl, a goleuni i'r brodyr." Gwelir ddarfod i'r Cyfarfod Misol cyntaf derfynu mewn moliant; fod y brodyr yno oll yn gytun ac yn cydweled; fod doniau ardderchog Rowland yn rhoddi iddo y flaenoriaeth ar bawb yn ngolwg Howell Harris, a'i fod yntau yn gallu bendithio Duw y nefoedd o herwydd y gras a arddangosid ynddo.

Yn nghofnodau Trefecca rhoddir hanes cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhrefecca, Chwefror 7, 1743, sef yn mhen pedwar diwrnod gwedi Cyfarfod Misol Llanddeusant. Dibwys oedd y penderfyniadau a basiwyd, ac yr oedd y rhai hyny i gael eu cyflwyno i ystyriaeth bellach y Gymdeithasfa. Y tebygolrwydd yw nad oedd yn Gyfarfod Misol rheolaidd, a gwelwn oddiwrth ddydd-lyfr Howell Harris nad oedd efe yn bresenol.

Cynhaliwyd cyfarfod yn Tyfyn, neu Tyddyn, Sir Drefaldwyn, Chwefror 17, pan y penderfynwyd fod y brodyr Morgan

Hughes, Benj. Cadman, a Lewis Evan i gymeryd gofal y seiadau yn Tyddyn, Llanidloes, Llanllugan, Llanwyddelan, Bwlchyrhwyaid, a Mochdre, gyda Thomas Bowen fel goruchwyliwr neu genhadwr. Yr oedd Howell Harris yn hwn; eithr y mae yn amheus a oedd yn gyfarfod rheolaidd; y tebygolrwydd yw mai cymeryd mantais ar bresenoldeb y Diwygiwr o Drefecca a wnaed i ymgynghori ar ychydig bethau. Rhaid mai byr hefyd fu yr ymgynghoriad, oblegyd dywed Harris yn ei ddydd-lyfr iddo fod yn ysgrifenu hyd o gwmpas deg, ac y mae yn pregethu yn Nhrefeglwys, pellder o ryw saith milldir, o gwmpas deuddeg. Tebyg mai gwedi yr odfa y nos flaenorol y bu yr ymgynghoriad.

Yn ganlynol, cawn gyfarfod yn Llanwrtyd, na roddir ei ddyddiad, pan y gosodwyd yr holl gynghorwyr yn y rhan hono tan ofal y Parch. W. Williams, oedd ar y pryd yn guwrad yn Llanwrtyd.

Mawrth 1, 1743, cynhaliwyd Cymdeithasfa Fisol dra phwysig yn Glanyrafonddu, Sir Gaerfyrddin, yn mha un y gwnaed cryn nifer o drefniadau, ac y cydunwyd ar nifer o gynygion i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa Chwarterol oedd i gael ei chynal yn Watford. Yn mysg pethau eraill penderfynwyd :—

"Fod y brawd David Williams, Llangyndeyrn, i gynghori yn unig gerbron y brodyr, yn y cymdeithasau preifat agosaf, hyd nes y byddo wedi cael tystiolaeth oddiwrthynt, a'i fod i ddyfod i'n Cymdeithasfa nesaf i gael ei holi.

"Fod y rhai canlynol i gael eu dystewi, am ein bod yn argyhoeddedig nad ydynt wedi cael eu hanfon gan Dduw: James Tomkins; Richard Thomas, Ystradfellte; John Watkins, Defynog; a Thomas Price, Llandilo Fach.

"Fod y brawd John Richard, Llansamlet, i gymeryd gofal, ac i gynghori yn seiadau Cefnfedw, Blaencrai, Llanddeusant, Cwmaman, Llanon, Pembre, Casllwchwr, Llandafen, Llandremor, Llangyfelach, Llansamlet, Castellnedd, Hafod, Creunant, a Talley; ei fod i ymweled â hwy unwaith bob pythefnos, un bob dydd, ac i gael ei gynorthwyo gan John Jones, Cayo, yr hwn sydd i ymweled â hwy unwaith yn y mis, gan fyned o gwmpas un wythnos, a gweithio yr wythnos arall.

"Fod y brawd William Harry i gadw ysgol yn Sir Gaernarfon; a'r brawd Richard Tibbott i gadw ysgol yn Sir Benfro.

"Fod y brawd John David, o Landyfaelog, i lefaru yn seiadau Llandyfaelog a Chilgarw, ar brawf, gerbron y brodyr, hyd y Gymdeithasfa nesaf, pan y disgwylir barn y brodyr o berthynas iddo.

"Fod Hopkin John, Llangyfelach; John Meyrick, Llandafen; a John Jones, Llandyfalle, y rhai na ddaethant hyd yn hyn i'n Cymdeithasfa i gael eu holi, i aros yn y lleoedd a benodwyd iddynt fel y maent wedi eu sefydlu, ar yr amod eu bod yn dyfod y tro nesaf, os bydd hyny yn gyfleus iddynt."

Yr ydym yn rhoddi lle i'r cofnodau hyn, oblegyd eu bod yn ddangoseg o'r modd y gweithredai y Methodistiaid yn eu Cymdeithasfaoedd, a'u Cyfarfodydd Misol cyntaf; mor fanwl oeddynt yn eu trefniadau, ac mor ddidderbyn wyneb a chydwybodol. Am lawer o'r cynghorwyr y cyfeirir atynt, y mae pob peth perthynol iddynt ond eu henwau wedi myned yn anghof; nid oes efallai gymaint a thraddodiad o barthed iddynt ar gael yn yr ardaloedd lle y preswylient; nid oes adswn o'u hanes wedi cyrhaedd i lawr i'n hoes ni; ac eto, y mae yn sicr fod rhai o honynt yn ddynion o ddefnyddioldeb mawr, os mewn cylchoedd cymharol gyfyng; eu bod yn llawn zêl ac ymroddiad, ac nid oes ond y dydd hwnw a ddengys faint yr aberth a wnaethant dros yr Arglwydd Iesu, a pha mor ddyledus yw y cyfundeb Methodistaidd hyd yn nod y dydd hwn i'w llafur cariad.

Pasiwyd hefyd y penderfyniadau dilynol fel cynygion i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa: "Fod y Gymdeithasfa Gyffredinol o weinidogion a chynghorwyr, sydd yn unedig yn Lloegr a Chymru, i gyfarfod yn unig bob haner blwyddyn, oblegyd y pellder mawr. Fod y brodyr Saesnig i gyfarfod unwaith cydrhwng, felly hefyd y brodyr Cymreig, rywle tua chanol y Deheudir, fel y penderfynir; ond eu bod i ymohebu yn fisol trwy lythyrau. Fod cynifer ag a fedr o'r gweinidogion, a'r cynghorwyr cyhoedd, i gyfarfod unwaith y mis, neu ddwywaith rhwng pob Cymdeithasfa Chwarterol, neu i anfon eu llythyrau. Fod gofal cyffredinol yr holl achos i gael ei gyflwyno i'r gweinidogion ordeiniedig, sef Meistri Whitefield, Rowland, Howell Davies, John Powell, Thomas Lewis, a William Williams; ac fel ymwelwyr cyffredinol, neu gynorthwywyr, dan y chwech gweinidog hyn, fod y chwech canlynol i gael eu hapwyntio, sef Meistri John Cennick, Thomas Adams, a Joseph Humphreys, yn Lloegr; a Meistri Howell

Harris, James Beaumont, a Herbert Jenkins, yn Nghymru; eu bod i gael fel cynorthwywyr, er mwyn arolygiaeth fanylach, y chwech cynghorwr anghyoedd a ganlyn, pob un o honynt i gael cylch a gofal neillduol, sef John Richard, William Richard, John Harris, Thomas James, John Jones, a Morgan John (Morgan John Lewis, yn ddiau), deuddeg cymdeithas yr un, neu lai, iddynt; a Morgan Hughes, James Williams, Milbourn Bloom, Thomas Lewis, Thomas Williams, Richard William David, chwech cymdeithas yr un. Yn gyflawn, 6 gweinidog urddedig, 6 i'w cynorthwyo; 6 cynghorwr dros ddeuddeg o seiadau, a 6 dros chwech o seiadau. Fod yr holl gynghorwyr anghyoedd eraill i roddi cyfrif am yr un neu ddwy gymdeithas sydd o dan eu gofal i'r ymwelydd cyffredinol a fyddo wedi ei osod drostynt; fel y byddo adroddiad, yn bersonol neu trwy lythyr, yn cael ei dderbyn yn mhob Cyfarfod Misol. Pan fyddo un yn cynyg ei hun fel cynghorwr, ei fod i gynghori yn mlaenaf yn y cymdeithasau preifat; ac yn gyntaf i dderbyn cymeradwyaeth rhyw Gristion, neu Gristionogion difrifol a phrofiadol, a'i clywsant ef yn aml; yn ail, barn tri neu bedwar o'r cynghorwyr anghyoedd a chyhoedd, a'r gweinidogion ordeiniedig; ac yn drydydd, ei fod i gael ei arholi parthed ei ras, galwad, cymhwysderau, doniau, ac athrawiaeth. Mewn trefn i ofalu am y tlawd a'r afiach, ac am yr arian a gesglir, ac i fod yn genad y gymdeithas, ac yn dangnefedd-wneuthurwr; fod goruchwyliwr neu ddau i gael eu dewis yn mhob seiat. Mewn cysylltiad a'r 6 cynghorwr y cyfeiriwyd atynt, sef John Cennick, Howell Harris, &c., y rhai ydynt i fod yn gynorthwywyr y gweinidogion ordeiniedig, eu bod heb unrhyw derfynau gosodedig gyda golwg ar leoedd, ond i fyned o gwmpas fel y byddo galwad, eithr Howell Harris gan mwyaf yn Nghymru; a'r 12 cynghorwr arall y cyfeiriwyd atynt i gael terfynau penodol, y rhai y gellir eu newid trwy ymgynghoriad a'r gymdeithas."

Cynhaliwyd yr ail Gymdeithasfa Chwarterol yn Watford, Ebrill 6ed a'r 7fed, 1743. Yr oedd yn bresenol o weinidogion ordeiniedig, Meistri Whitefield, William Williams, a Thomas Lewis, yn nghyd a Henry Davies, Ymneillduwr. O'r arolygwyr, yr oedd yn bresenol Meistri Harris, Herbert Jenkins, Thomas James, James Beaumont, Morgan Hughes, Morgan John Lewis, Thomas Williams, a Thomas Adams. Dewiswyd Mr. Whitefield yn llywydd, yr hwn a agorodd y Gymdeithasfa gyda phregeth ar y geiriau: "Ac Enoch a rodiodd gyda Duw." Ymddengys iddo gael cymorth anarferol. Ysgrifena Whitefield yn ei ddydd-lyfr: "Dydd Mercher, ar haner dydd, agorais y Gymdeithasfa, gydag anerchiad difrifol ac agos, ar rodio gyda Duw. Teimlai y brodyr a'r bobl lawer o'r presenoldeb dwyfol. Gwedi hyny aethom at y trefniadau. Penderfynwyd amryw faterion o bwysigrwydd mawr. Torasom i fynu o gwmpas saith; cyfarfyddasom drachefn am ddeg, a pharhasom yn penderfynu pethau perthynol i'r seiadau hyd ddau o'r gloch y boreu. Dydd Iau, eisteddasom drachefn hyd bedwar yn y prydnhawn. Yna, wedi cymeryd lluniaeth, pregethais ar orphwysdra y credadyn; gwedi hyny aethom yn y blaen gyda'r trefniadau, gan orphen y Gymdeithasfa o gwmpas haner nos."

Y mae pregeth agoriadol Whitefield ar gael, a diau ei bod yn un o'i oreuon. Temtir ni i ddifynu rhanau o honi: "Ni symudir y pechod preswyliedig yn hollol," meddai, "hyd nes y byddom yn crymu ein pen, ac yn rhoddi i fynu yr yspryd. Llefara yr Apostol Paul am dano ei hun yn ddiau, a hyny nid pan oedd yn Pharisead, ond yn Gristion gwirioneddol, pan yr achwyna fod y drwg yn bresenol gydag ef, pan yr ewyllysiai wneuthur da; yn bresenol gydag ef, nid yn meddu llywodraeth arno, ond yn gwrthwynebu ac yn rhwystro ei fwriadau a'i actau daionus, fel na fedrai gyflawni yr hyn a ewyllysiai i'r perffeithrwydd ag y dymunai y dyn newydd. Dyma a eilw yn bechod yn preswylio ynddo. Ond am allu llywodraethol pechod, y mae yn cael ei ddinystrio yn mhob enaid sydd wedi ei eni yn wirioneddol o Dduw; a gwanheir ef yn raddol fel y byddo y credadyn yn cynyddu mewn gras, ac fel y byddo Yspryd Duw yn cael goruchafiaeth fwyfwy yn ei galon." Meddai drachefn: "Gweddi! gweddi! gweddi! Y mae yn dwyn Duw a dyn at eu gilydd, ac yn eu cadw ynghyd; y mae yn dyrchafu dyn at Dduw, ac yn tynu Duw i lawr at ddyn. Os dymunech rodio gyda Duw, gweddïwch; gweddïwch yn ddibaid. Byddwch yn aml mewn gweddi ddirgel. Pan gyda gorchwylion cyffredin bywyd arferwch saeth-weddïau yn barhaus. Anfonwch, o bryd i bryd, lythyrau byrion i'r nefoedd, ar adenydd ffydd. Cyrhaedd-

ant hyd galon Duw, a dychwelant yn llwythog o fendithion." Gyda chyfeiriad at yr hyn y cyhuddid ef yn fynych o hono, sylwa gyda medr mawr: "Er mai hanfod penboethni yw honi ein bod yn cael ein harwain gan yr Yspryd heb y Gair ysgrifenedig; eto dyledswydd pob Cristion yw cymeryd ei arwain gan yr Yspryd mewn undeb a'r Gair ysgrifenedig. Yr wyf yn dymuno arnoch, gan hyny, O gredinwyr, ar i chwi wylio symudiadau Yspryd y Duw bendigedig yn eich calonau; a phrofwch eich syniadau a'ch cymhellion wrth Air difeth a sanctaidd Duw. Trwy arfer y rhagocheliad hwn, chwi a hwyliwch yn ddyogel yn y canol rhwng dau eithaf peryglus, sef penboethni ar y naill law, a Deistiaeth ac anffyddiaeth ronc ar y llaw arall. Terfyna mewn diweddglo hyawdl: "Un gair," meddai, "un gair wrth fy mrodyr yn y weinidogaeth, ac yna byddaf wedi gorphen. Chwi a welwch, fy mrodyr, fod fy nghalon yn llawn; braidd na allwn ddweyd ei bod yn rhy lawn i lefaru, ac eto yn rhy lawn i fod yn ddystaw, heb ddyferu gair i chwi. Sylwais ar ddechreu yr anerchiad fod Enoch, yn ol pob tebyg, yn ddyn cyhoeddus, ac yn bregethwr tanllyd. Er ei fod wedi marw, y mae yn llefaru eto wrthym ni, i fywiocau ein zêl, ac i'n gwneyd yn fwy ymdrechgar yn ngwasanaeth ein Meistr gogoneddus a bendigedig. Sut y pregethodd Enoch? Pa fodd y rhodiodd gyda Duw? Bydded i ni ei ddilyn, fel yr oedd efe yn ddilynwr Crist. Y mae y barnwr wrth y drws. Yr hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda. Y mae ei wobr gydag ef; ac os byddwn ni yn zêlog dros Arglwydd y lluoedd, cawn heb fod yn hir lewyrchu fel y sêr yn y ffurfafen yn nheyrnas ein Tad byth bythoedd."

Felly y pregethai Whitefield gerbron y Gymdeithasfa yn Watford, ac nid rhyfedd fod y frawdoliaeth yn toddi dan ddylanwad ei ymadroddion. Daw ei ddoniau godidog i'r golwg yn amlwg yn y difyniadau byrion hyn. Y mae yspryd y peth byw i'w deimlo ynddynt. Er fod ei bresenoldeb yn absenol, ac nas gallwn glywed acenion ei lais, y llais melus a allai wladeiddio cynulleiddfa a'i llwyr goncro, meddir, trwy yn unig floeddio y gair "Mesopotamia;" eto, canfyddwn ynddynt yn amlwg nodweddion y gwir areithiwr. Y mae mor amlwg a hyny nad mewn llais a thraddodiad yn unig y gorweddai cuddiad ei nerth, ond ei fod yn dduwinydd gwych, ac yn fanwl ac yn athronyddol yn nghyfansoddiad ei bregeth.

A ganlyn yw prif benderfyniadau y Gymdeithasfa: "Fod y Parch. Mr. Williams i adael ei guwradiaeth, ac i fod yn gynorthwywr i'r Parch. Mr. Rowland. Fod y brawd Howell Harris i fod yn arolygydd dros Gymru, ac i fyned i Loegr pan elwir am dano. Fod y brawd Herbert Jenkins i fod yn gynorthwywr i Mr. Harris, ac hefyd i'r brodyr Saesonig. Fod y brawd James Beaumont i gymeryd arolygiaeth Sir Faesyfed, a Sir Henffordd, ac i gael ei gynorthwyo gan y brodyr John Williams, John Jones, William Evans, David Price, ac hefyd gan Richard Lewis, os cymeradwyir ef gan y Gymdeithasfa Fisol. Fod y brawd Morgan Hughes, os teimla ryddid i hyny, i arolygu Sir Drefaldwyn, gan gael ei gynorthwyo gan y brodyr Lewis Evan, Benjamin Cadman, a Thomas Bowen (dalier sylw: gwedi hir brawf newidiwyd hyn, a gosodwyd Richard Tibbott yn ei le). Fod y brawd Thomas James i arolygu rhan o Frycheiniog, hyd yr afon Wysg, ac i gael ei gynorthwyo gan y brodyr T. Bowen, Ed. Bowen, T. Bowen, Buallt, Jos. Saunders, John Williams, Tregunter, W Williams, Jenkin Jenkins, David Rees, a Rees Morgan. Fod y brawd Morgan John Lewis i arolygu cymdeithasau Dolygaer, Cwmdu, Cantref, Defynog, a Llywel, oll yn Mrycheiniog; Llanddeusant, yn Sir Gaerfyrddin; a Mynwy, yr ochr arall i'r Wysg; ac i gael ei gynorthwyo gan y brodyr John Jones, John Powell, Richard Thomas, John Belsher, Evan Thomas, Stephen Jones, Jeffrey David, a Jenkin John. Fod y brawd Thomas Lewis i arolygu y cymdeithasau rhwng y Passage a'r afon Wysg, i gynorthwyo y brodyr Seisonig, pan elwir am dano, ac i gael ei gynorthwyo gan y brawd Geo. Cross. Fod y brawd Thomas Williams i arolygu Morganwg mor bell a Llantrisant, ac i gael ei gynorthwyo gan y brodyr E. Evans, W. Powell, T. Price, W. Edward, T. Lewis, R. Jones, J. Yeoman, a H. Griffith. Fod y brawd John Harris i arolygu Sir Benfro, ei gynorthwywyr i gael eu penderfynu yn Nghymdeithasfa Fisol nesaf y sir. Fod y brawd Milbourn Bloom i arolygu Sir Gaerfyrddin hyd Gastellnedd, ac i gael ei gynorthwyo gan Jno. Richards, ac eraill. Fod y brawd James Williams i arolygu y rhan arall o Sir Gaerfyrddin, ac i gael ei gynorthwyo gan nifer o frodyr. Fod y

brawd David Williams i arolygu Sir Aberteifi." Tebygol mai David Williams, Aberthyn, gwedi hyn, oedd y brawd diweddaf.

Heblaw y trefniadau hyn, rhai a ddynodant wyliadwriaeth ddyfal dros yr holl gymdeithasau, pasiwyd, yn mysg eraill, y penderfyniadau canlynol: "Fod yr arolygwyr i gael rhyddid i bregethu ar eu teithiau, os gelwir arnynt, ac os tybiant yn eu calonau y byddai i'r brodyr yn y Gymdeithasfa, pe yn gydnabyddus a'u hamgylchiadau, ganiatau iddynt; nad yw y brodyr yn credu yn eu calonau fod y brawd James Tomkins wedi cael ei alw gan Dduw i fod yn bregethwr, ac y maent yn penderfynu peidio ei gefnogi, a pheidio ei wahardd, ond ei adael i'r Yspryd. Fod pawb sydd yn tybio eu bod wedi cael eu galw i gynghori i wneyd apêl i un o'r Cymdeithasfaoedd Misol, gan yr hon y gwneir ymchwiliad manwl i'w doniau, eu gras, a'u galwad; os cymeradwyir hwynt, y maent i gael maes penodedig, fel y gwel y Gymdeithasfa yn briodol; ac y mae y cyfryw gymeradwyaeth i gael ei ddwyn i'r Gymdeithasfa Gyffredinol, ac i gael ei gymeradwyo yno. Fod yr arolygwyr i ddanfon adroddiad am waith Duw yn eu meusydd neillduol i Lundain, i fod yno ddiwedd pob mis, ac i gyfeirio eu llythyrau at weinidog y Tabernacl, i ofal Mr. John Sims. Fod pob arolygwr i feddu llyfr, yn mha un yr ysgrifena enwau ei holl gynghorwyr anghyoedd, ac enwau pob aelod perthynol i'r seiadau preifat, gan eu rhanu i ddynion priod, gwragedd priod, dynion sengl, benywod sengl, ac hefyd i ddwyn adroddiad am ystâd pob seiat i'r Gymdeithasfa Gyffredinol. Fod ysgrifenydd i gael ei benodi i bob Cyfarfod Misol, yr hwn a gofnoda y gweithrediadau mewn llyfr. Fod Cymdeithasfaoedd Misol i gael eu cynal yn y lleoedd a ganlyn: Maesyfed a Threfaldwyn, gyda y Parch. W. Williams yn gymedrolwr; Siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, gyda Mr. Rowland yn gymedrolwr; Brycheiniog, gyda Thomas Lewis; Penfro, gyda Mr. Howell Davies; Morganwg a Mynwy, gyda Mr. John Powell. Fod pob Cymdeithasfa Fisol i gynwys gweinidog ordeiniedig, os yn bosibl, fel cymedrolwr; arolygydd y rhandir, yn nghyd a'i gynorthwywyr; yn absenoldeb gweinidog ordeiniedig, yr arolygydd i fod yn gymedrolwr. Fod pob Cymdeithasfa i gael ei dechreu trwy weddi, a'i therfynu trwy weddi a chyngor, a bod yr holl arolygyddion i fod yn bresenol, heb eithrio y cynghorwyr anghyoedd, os hoffant ddyfod. Fod y Parch. Mr. Whitefield i ddewis y brawd Howell Harris i fod yn gymedrolwr yn ei absenoldeb."

Cofnodir yn mhellach ddarfod i'r Gymdeithasfa gael ei chario yn mlaen gyda llawer o undeb a chariad, ac i'r brodyr ymadael a'u gilydd gan fendithio Duw am yr hyn a wnaeth, a chan ddisgwyl pethau mwy yn y dyfodol. Ysgrifena Whitefield mewn llythyr ddarfod iddo ef gael ei ddewis yn gymedrolwr parhaus, os byddai yn Lloegr. Ni cheir hyny, mewn geiriau pendant, yn y cofnodau; ac eto cynwysir ef, o ran ystyr, yn y penderfyniad fod Whitefield, os yn absenol, i benodi Howell Harris i gymeryd ei le. Edrycha Tyerman ar y penderfyniad hwn fel yn gosod Whitefield yn llywydd ar holl Fethodistiaid Cymru, a dywed fod sedd yr awdurdod yn cael ei symud o'r Dywysogaeth, ac yn cael ei gosod yn Llundain. Yr ydym yn amheus a olygai y Gymdeithasfa hyny yn hollol; ac eto, pan gofiwn fod y nifer amlaf o'r aelodau yn bleidiol i ffurflywodraeth esgobol, y mae yn ddiau y bwriadent gyflwyno gyda'r gadair ryw gymaint o awdurdod rhwng y Cymdeithasfaoedd.

Daethai Whitefield i lawr i Gymru y tro yma gyda'r bwriad, nid yn unig o gymeryd rhan yn ngweithrediadau Cymdeithasfa Watford, ond hefyd er cymeryd taith trwy ranau o'r Deheudir, a pha rai nad oedd wedi ymweled yn flaenorol. Yr oedd i'r daith amcan deublyg, sef pregethu yr efengyl am y deyrnas, hoff waith y gweinidog poblogaidd hwn; ac hefyd dwyn yr holl gymdeithasau crefyddol, a'r cynghorwyr perthynol iddynt, i syrthio i mewn a threfniadau y Gymdeithasfa, ac felly ffurfio un corph cyfansawdd a chryf. Yn anffodus, nid yw holl ddydd-lyfr Howell Harris ar gael; ond anfonodd Whitefield adroddiad dyddorol, a chymarol fanwl, o'r daith i Lundain, i'w gyhoeddi yn y *Weekly History*. Ysgrifena y llythyr cyntaf o Watford, Ebrill 7, 1843. Gwedi rhoddi hanes y Gymdeithasfa, dywed: "Nis gallaf ddweyd wrthych y fath gynydd sydd wedi cymeryd lle er y Gymdeithasfa o'r blaen. Yr wyf yn cofio pan y marchogwn ar hyd Gymru, bedair blynedd yn ol, i'r Arglwydd beri i mi deimlo yn fy nghalon fy mod yn debyg i Joshua yn myned oddiamgylch, gan gymeryd y naill ddinas ar ol y llall. Adgofiai

yr anwyl frawd Harris fi yn awr o hyny, ac awgrymai fy mod y tro hwn yn debyg i Joshua yn rhanu y wlad. Y mae yn ymddangos fod Duw wedi rhoddi i'r brodyr sanctaidd ymddarostyngiad. Dewiswyd fi, os yn Lloegr, yn gymedrolwr parhaus; a gobeithiaf y bydd i'r Iachawdwr roddi i mi yspryd at hyn. Teimlwn fy mod i raddau mawr dan addysg ddwyfol, a chydnabyddai y brodyr yn ewyllysgar yr awdurdod a rodded i mi. Y mae y brodyr wedi gosod y seiadau yn Nghymru ar fy nghalon. Efallai y deuaf i Lundain yn mhen mis. Ymddengys mai ewyllys yr Arglwydd yw i mi aros yn Nghymru am ryw bythefnos, a chymeryd taith trwy Sir Benfro. Y mae drysau llydain yn agored yno.

"LLANTRISANT, Ebrill 10, 1743. Pregethais y ddoe yn Nghaerdydd i gynulleidfa fawr. Eisteddai y gwatwarwyr mwyaf yn llonydd wrth fy ochr, a theimlai plant Duw y dwyfol bresenoldeb. Yn yr hwyr aethum i Ffonmon; derbyniodd Mr. Jones ni yn garedig; a gwelodd Duw yn dda lefaru drosof yn y seiat, lle y pregethais. Y boreu hwn pregethais drachefn. Yr oedd yn amser bendigedig. Y mae y brawd anwyl Harris yn pregethu yn Gymraeg. Y mae y bobl yma yn hynod syml." Felly yr ysgrifena Whitefield, ond yn ol llythyr Howell Harris, yn Aberddawen y pregethai y ddau, ond aethant i Ffonmon i letya. Dywed hefyd mai yn Mhenmarc y pregethasant yr ail foreu.

Y mae y llythyr nesaf o Abertawe, ac wedi ei ddyddio Ebrill 12. Fel hyn y dywed gŵr Duw: "Y mae pethau mawrion yn cael eu gwneyd, ac i gael eu gwneyd yn Nghymru; y mae drws effeithiol wedi cael ei agor i bregethiad yr efengyl. Pregethais ddoe yn Nghastellnedd, oddiar dyganllaw (*balcony*) yn yr heol, i o gwmpas tair mil o eneidiau. Yr oedd yr Arglwydd gyda mi mewn gwirionedd. Y boreu heddyw pregethais yma (Abertawe) i o gwmpas pedair mil, gyda mawr eglurhad yr Yspryd. O gwmpas un, pregethais gyda mwynhad mawr yn Harbrook, bedair milldir o bellder, ac yr wyf newydd ddychwelyd er pregethu yma eto. Llefarai yr anwyl frawd Harris ddoe a heddyw yn Gymraeg." Yna y canlyn ol-ysgrif, wedi ei hysgrifenu ar ol saith yn yr hwyr: "Yr wyf newydd orphen pregethu. Dychlamai eich calon gan lawenydd pe baech yma. Y mae Abertawe wedi ei chymeryd. Ni phregethais erioed gyda mwy o nerth argyhoeddiadol. Yr oedd llawer o'r cyfoethogion a'r mawrion yn bresenol, a'r gynulleidfa yn fwy nag yn y boreu. Gorchfygodd yr Iesu trosof. Iddo ef boed yr holl ogoniant. Clodforwch ef; clodforwch ef drosof fi." Ysgrifenai yn amlwg tan ddylanwad y cyffro oedd wedi ei feddianu yn y pwlpud, ac y mae yn hawdd gweled fod ei galon yn crychneidio ynddo. Tôn milwr buddugoliaethus, wedi enill un o gaerau pwysicaf y gelyn, sydd i'w theimlo yn ei eiriau, a rhydd yr holl glod nid i'w ddewrder a'i fedr ei hun, ond i bresenoldeb yr Iesu, ei Gadfridog.

Yr ydym yn ei gael yn nesaf yn Lacharn, Ebrill 15, a dywed: "Wedi i mi adael Llantrisant, gwnaeth y diafol ymdrech galed i'm tynu allan o Gymru, trwy geisio fy mherswadio na ddylwn fyn'd yn mhellach; ond yr oedd ein Hiachawdwr yn rhy gryf iddo. Pregethais dydd Mercher yn Llanelli i gynulleidfa fawr, ac yn yr hwyr yn Abergwili. Dydd Iau, pregethais yn Nghaerfyrddin, un o'r trefydd mwyaf a boneddigeiddiaf yn Nghymru; yn y boreu llefarwn oddiar ben y groes, yn yr hwyr oddiar fwrdd yn ymyl. Yr oedd y Sessiwn fawr yno. Dymunodd yr ustusiaid arnaf aros hyd nes y byddent hwy wedi codi, ac y deuent i wrando. Hwy ddaethant, a llawer o filoedd yn ychwaneg, ac amryw o bobl bendefigaidd. Yr oedd yr Iesu gyda mi, a hyderaf i lawer o dda gael ei wneyd. Y mae y brawd anwyl Harris yn cynghori yn mhob lle. Ymddengys ein Hiachawdwr fel pe byddai wedi rhoddi trefydd Cymru i mi. Yr wyf yn hoffi Cymru yn ddirfawr. Yn mhen rhyw ddeg diwrnod gobeithiaf fod yn Mryste." Y mae yn Hwlffordd, Ebrill 17, ac yn ysgrifenu: "Pregethais yn Narberth gyda mawr eglurhad yr Yspryd, i amryw filoedd o eneidiau, y rhai oeddynt nid yn anhebyg i lowyr Kingswood. Y boreu hwn pregethais yn Llysyfran i gynulleidfa gyffelyb i eiddo Moorfields; a'r prydnhawn i o gwmpas yr un nifer yn y dref hon. Hefyd, darllenais y gweddïau. Y mae yr awdurdod, y nerth, a'r llwyddiant sydd yn cael ei roddi gan Dduw i mi, yn mysg cyfoethog a thlawd, yn anrhaethadwy. O, cynorthwywch fi i'w folianu.' Pan yn dweyd fod y gynulleidfa yn Llysyfran yn debyg i eiddo Moorfields, diau mai cyffelyb mewn lliosogrwydd a feddylia; cyfrifai Howell Harris hi yn ddeuddeg mil. Tueddwn i feddwl fod y Diwygwyr, yn

eu brwdfrydedd, yn gorgyfrif, fel y mae yr arfer wastadol ynglyn a thorfeydd, ond y mae yn sicr fod cynulleidfaoedd Penfro y tro hwn yn anferth, a bod holl drigolion y sir, agos, yn Gymry ac yn Saeson, wedi ymgasglu i wrando yr efengyl.

Cawn ef yn Nghaerfyrddin eto, Ebrill y 20, o'r hwn le yr ysgrifena: "Pregethais dydd Mercher yn Hwlffordd i o gwmpas wyth mil, ac yn y prydnhawn i amryw filoedd yn Narberth. Y boreu hwn llefarais gyda melusder mawr yn Lacharn. Wrth fy mod yn croesi y geincfor cefais foesgyfarchiad na dderbyniais ei gyffelyb o'r blaen, sef un llong yn tanio nifer o fagnelau, a llongau eraill yn cyhwfan eu banerau. Nis gellwch ddirnad y fath barch a delir i mi yma; y mae Duw wedi darpar Cymru i'm derbyn. Iddo ef boed yr holl glod. Pregethais yn Cydweli i gynulleidfa fawr. Yma (Caerfyrddin) pregethai un o'r offeiriaid yn fy erbyn y Sul diweddaf, gan fy enwi; ond fel fy ngwrthwynebwyr eraill, ac fel gwiber yn cnoi durlif (*file*), gwnaeth niwed yn unig iddo ei hun. Yr wyf yn cael fy hun fel pe mewn byd newydd, a hwnw yn un nodedig o ddymunol." Ar y 25, ysgrifena o Rhaiadr: "Ebrill 22, pregethais yn Nghaerfyrddin i tua deng mil o bobl, a'r anwyl Mr. Rowland ar fy ol, gyda melusder a nerth dirfawr. Cawsom Gymdeithasfa fendigedig arall y dydd blaenorol, ac yr ydym yn awr wedi trefnu holl siroedd Cymru." Ychwanega ddarfod iddo bregethu dydd Sadwrn, y 23, yn Llangathen, lle y caniatawyd yr eglwys iddo, ac yr oedd cynulleidfa fawr wedi ymgynull; yn yr hwyr pregethodd yn Llanymddyfri. Llefara yn Llanymddyfri foreu y Sul drachefn, a dywed fod Duw gydag ef; ac erbyn yr hwyr y mae yn Aberhonddu, pellder o dair-milldir-ar-hugain, lle y mae cynulleidfa fawr, a hynod foneddigaidd, wedi dyfod ynghyd. Dydd Llun, cawn ef yn Nhrefecca, ac yn yr hwyr yn Gwenfithen, yn agos i'r Gelli. Am dano ei hun dywed: "Y mae fy nghorph yn wan, ond yr wyf wrth draed fy Mhrynwr; y mae efe yn llywodraethu yn frenin yn fy nghalon, ac yr wyf yn llawenychu, ac yn fuddugoliaethus ar bob peth." Aeth yn ei flaen oddiyno i Lanfairmuallt, ac yna i Gore, yn Sir Faesyfed, y lle olaf y pregethodd ynddo yn Nghymru. Dywed: "Yn wir, cadwodd ein Hiachawdwr ei win goreu hyd y diwedd; yr oedd ein phiol yn rhedeg trosodd." Rhwng wyth a naw yn yr hwyr cychwynodd am Lanllieni (Leominster), yr hwn le a gyrhaeddodd o gwmpas tri o'r gloch y boreu. Aeth yn ei flaen trwy Henffordd a Ross, a daeth i Gaerloyw oddeutu wyth yn yr hwyr, Ebrill 28. Symia hanes ei daith i fynu fel y canlyn: "Darfu i mi, mewn tair wythnos o amser, drafaelu pedwar cant o filltiroedd, treulio tri diwrnod mewn dwy Gymdeithasfa, pregethu o gwmpas deugain gwaith, a phasio trwy saith o siroedd. Yma, ynte, mi a osodaf i fynu fy Ebenezer; mi a ddiolchaf i'r gogoneddus Iesu am ei holl drugareddau; ac o ddyfnder fy nghalon rhof iddo y clod."

Wedi y cwbl, y mae yn sicr na chroniclodd hanes ei holl daith. *Y mae traddodiad yn Nhregaron ddarfod iddo yr adeg hon, neu yn fuan gwedi, ymweled a rhanau o Sir Aberteifi, a'i fod yn pregethu yn y dref hono oddiar y gareg farch, yn ymyl yr hen Grown. Cymry uniaith oedd y gynulleidfa gan mwyaf, ond torodd allan yn orfoledd mawr yn yr odfa, er mai yr unig air a ddeallid oedd "Haleliwia." Ymddengys hyn ar un olwg yn rhyfedd, ond soniai Dr. Owen Thomas am gyfreithiwr enwog yn Llundain, a arferai fyned i wrando Ebenezer Morris * bob nos Sabboth, pan y byddai y gŵr enwog hwnw yn gweinidogaethu yn y Brif-ddinas, a bod ei wyneb yn wastad yn foddfa o ddagrau, er na ddeallai air o'r bregeth. Y mae yn sicr i'r ymweliad hwn o eiddo Whitefield fod yn dra bendithiol i Gymru. Cadarnha llythyrau Howell Harris, a Thomas Price, o Watford, ac eraill, yr hyn a ddywed ef am y nerthoedd oeddynt yn cydfyned a'i weinidogaeth. Efallai mai yn Abertawe a Chaerfyrddin y cafodd yr odfaeon rhyfeddaf o'r oll. Dywed Price, Watford, mewn llythyr at Whitefield, yn fuan gwedi, ei fod wedi clywed newyddion gogoneddus am lawer wedi cael eu deffro yn Nghaerfyrddin, un o ba rai ydoedd ddynes anniwair gyhoeddus, a'u bod yn myned i sefydlu seiat yn y dref. Ond yr enwocaf o'r dychweledigion, yn ddiau, oedd Peter Williams, yr hwn, yn laslanc un-ar-hugain oed, oedd ar y pryd yn yr athrofa yn y dref, ac a aethai yn llechwraidd i wrando y pregethwr hyawdl Saesonig, er gwaethaf gwaharddiad llywydd y sefydliad. Yr oedd troedigaeth y gŵr, a ddaeth gwedi hyn yn dad esbonwyr Cymru, yn fwy na digon o dâl am

---

* Ysgrif Mr. Daniel Davies, Ton.




PALASDY WATFORD, GER CAERPHILI, SIR FORGANWG.

*Cartref "Price yr Ustus," a Mrs. Grace Price, ei ferch-yn-nghyfraith; a lle y cynhaliwyd rhai o*

holl drafferthion taith Whitefield. Bu yr ymweliad yn fendithiol hefyd er sicrhau ufudd-dod y seiadau a'r cynghorwyr i drefniadau y Gymdeithasfa. Yr oedd enwogrwydd Whitefield, ynghyd a'i ddyeithrwch, a'i ddawn llifeiriol, a'r parchedigaeth cyffredinol iddo a deimlid gan wreng a bonheddig, yn tueddu yn gryf i gynyrchu ufudd-dod i'r rheolau a osodai gerbron, fel llywydd y Gymdeithasfa. Cydnebydd Howell Harris hyny mewn llythyr ato, dyddiedig Mai 12, 1743: "Bendigedig fyddo Duw," meddai, "yr hwn a dueddodd eich enaid i feddwl am yr ŵyn gwasgaredig, tlodion, a gwahanglwyfus, sydd yn Nghymru." Ysgrifena Thomas James, Cerigcadarn, ato hefyd: "Darfu i'r Arglwydd fendithio eich dyfodiad atom yn fawr; mewn cysylltiad a zêl a threfn dda, y mae pawb fel pe yn barod i ymddarostwng, gan edrych arno fel yr hyn a wnaeth yr Arglwydd, ac nid dyn. Heb fod yn hir ni a ymsymudwn yn ofnadwy fel llu banerog."

Ond i ddychwelyd at gofnodau y Cymdeithasfaoedd. Croniclir cyfarfod o'r brodyr yn nhŷ y cynghorwr Bloom; ni roddir dyddiad y cyfarfod, ac nis gwyddom a oedd yn Gymdeithasfa Fisol reolaidd a'i peidio. Preswyliai Mr. Bloom yn Llanarthney, nid yn nepell o Gaerfyrddin, a thueddwn i feddwl mai dyma y Gymdeithasfa Fisol y cyfeiria Whitefield ati, yn mha un y pregethai Daniel Rowland ar ei ol. Dibwys yw y penderfyniadau a basiwyd, ond haedda y nodiad a ganlyn ei groniclo: "Wrth ymadael, disgynodd yr Arglwydd mewn modd mor hynod i'n mysg, fel yr aethom oll yn fflam, ac yr unwyd ni oll mewn gwir gariad."

Cynhaliwyd Cymdeithasfa Fisol yn Gelliglyd, Mai 1, 1743, ac ymddengys i Whitefield, yn ol y cofnodau, ddychwelyd o Gaerloyw i fod yn bresenol. Yr oedd yno heblaw efe, Daniel Rowland, Howell Davies, a Howell Harris, ynghyd a nifer o'r arolygwyr a'r cynghorwyr. Y prif benderfyniadau oeddynt: "Fod y brawd Geo. Bowen i ddilyn ei orchwyl hyd y Gymdeithasfa nesaf yn Sir Benfro. Fod yr offeiriaid a'r arolygwyr i gasglu yr hyn a fedrant yn eu gwahanol seiadau er mwyn argraffu llyfrau Cymraeg. Fod William Jones, David Evan, a Rich. Tibbot i fod yn ysgolfeistri Cymreig. Ac nad yw y cynghorwyr anghyoedd ar eu teithiau i anfon rhybudd o'u dyfodiad i unrhyw fan; eithr os dymunir arnynt gallant lefaru mewn unrhyw dŷ i'r teulu neu y cymydogion."

Yn Watford, Mai 11, yr oedd y Gymdeithasfa Fisol nesaf, pan y llywyddai John Powell, ac yr oedd Howell Harris, a chryn nifer o'r arolygwyr a'r cynghorwyr yn bresenol. Yn mysg pethau eraill, pasiwyd: "Fod Mr. Thomas Price i fod yn oruchwyliwr y gymdeithas hon fel o'r blaen, ac hefyd i gynorthwyo y brawd Thomas Williams. Fod y gwrywod a'r benywod i gyfarfod ar wahan, fel y byddo Yspryd yr Arglwydd yn eu cyfarwyddo. Fod yr arolygwyr yn mhob seiat breifat i anerch y dynion a'r benywod ar wahan, fel y byddont yn gweled yr achlysur yn galw, ac fel y bo Yspryd yr Arglwydd yn eu cyfarwyddo."

Mai 19, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Llandremor, ger Llandilo Fach. Llywyddai Daniel Rowland, ond bychan oedd y cynulliad. Cymharol annyddorol hefyd oedd y penderfyniadau, ond dengys y cofnod a ganlyn ystâd yr amseroedd: "Fod John ac Edward Meirig, oni throir hwy allan gan eu rhieni, i gynghori yn breifat dan orolygiaeth y brawd John Richard."

Cynhaliwyd Cymdeithasfa Fisol yn Dygoedydd, Mai 25, 1743, pan yr oedd yn bresenol Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn, ill dau yn gweithredu fel cymedrolwyr; Howell Harris, Benjamin Thomas, yr hwn oedd weinidog Ymneillduol, ynghyd a James Williams, yr arolygwr ar ranau o Sir Gaerfyrddin. Penderfynwyd ar i'r brawd Thomas David, yr hwn a fuasai dan arholiad gyda golwg ar ei alwad, gael cynghori ar brawf, dan arolygiaeth James Williams, mewn dwy seiat breifat hyd y Gymdeithasfa nesaf, pan y disgwylir tystiolaeth oddiwrtho, ac oddiwrth y brodyr a'i gwrandawodd. Pasiwyd y cyffelyb am Jos. John, a David John. Hefyd, fod blwch i gael ei osod yn mhob seiad, dan ofal un o'r ddau *steward*, i dderbyn cyfraniadau wythnosol tuag at achos Duw; a bod pob cynghorwr anghyoedd i gadw llyfr ag enwau y rhai sydd dan ei ofal, yr hwn lyfr a ddygir ganddo i'r Gymdeithasfa Chwarterol, a'i fod i hysbysu pa swm a ellir hebgor, trwy gydsyniad unol y gwahanol seiadau, at y gwaith cyhoeddus. Gwelir fod y drefn bresenol o gasglu wedi cael ei bod yn nghychwyniad Methodistiaeth.

Yn mhen dau ddiwrnod, sef Mai 27, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Dolberthog,

Llandrindod; llywyddai Williams, Pantycelyn, ond yr unig benderfyniad a basiwyd oedd, fod y brawd Richard Lewis, Ymneillduwr, yn cael ei osod yn gynorthwywr i'r brawd James Beaumont.

Ar yr 8fed o Fehefin, cynhaliwyd Cymdeithasfa Fisol yn Longhouse, Sir Benfro, pan y llywyddai Daniel Rowland, a Howell Davies, ac yr oedd Howell Harris yn bresenol. Yn mysg pethau eraill, penodwyd nifer o eglwysi i fod dan arolygiaeth Thomas Meyler, John Harris, a William Richard. Pasiwyd fod y brawd Watkin Watkins i gymhwyso ei hun i fod yn ysgrifenydd i'r brawd Rowland, neu y brawd Davies. Fod y brawd John Jones i fod yn ddystaw am ryw amser, mewn trefn iddo gael ei ordeinio, hyd nes y byddo yr ordeiniad trosodd; a bod y brawd Richard Tibbot i weithio, ac i fynychu rhyw seiadau preifat, hyd nes y caffo ysgol Gymraeg.

Yr ydym yn dyfod yn awr at y drydedd Gymdeithasfa Chwarterol reolaidd, yr hon a gynhaliwyd yn Nhrefecca, Mehefin 29 a 30, 1743. Yr oedd yn Gymdeithasfa bwysig, gan y disgwylid iddi adroddiadau yr arolygwyr gyda golwg ar rif ac ansawdd y seiadau. Daeth Whitefield yno o Lundain i gymeryd y gadair, gan drafaelu trwy Gaerloyw a Bryste; yr oedd yn bresenol yn ychwanegol Daniel Rowland, W. Williams, Howell Davies, John Powell, Thomas Lewis, a Benjamin Thomas, gweinidog Ymneillduol. Yr oedd y cynghorwyr cyhoeddus canlynol yno: Howell Harris, Herbert Jenkins, James Beaumont, Thomas James, Morgan John Lewis, Thomas Williams, Richard Tibbot, Thos. Lewis, a William Richards. Fel hyn yr adrodda Whitefield hanes y Gymdeithasfa: *"Cyrhaeddais Drefecca dydd Mercher, Mehefin 29, lle y cyfarfyddais a byddin gyfan o dystion yr Iesu. Am bump yn y prydnhawn pregethais i; gwedi i mi orphen, pregethodd a gweddïodd Howell Davies. O gwmpas wyth, agorasom y Gymdeithasfa gyda difrifwch mawr. Yr oedd ein Hiachawdwr gyda mi mewn modd arbenig, yn fy nysgu, ac yn fy nghynorthwyo i lanw fy lle. Gohiriasom o gwmpas canol nos, ond darfu rhai o'r brodyr aros i fynu trwy yr holl nos, gan groesawu y boreu gyda gweddi a mawl. Am wyth, cyfarfyddasom drachefn, a siriolwyd ni yn fawr gan adroddiadau syml yr arolygwyr am eu gwahanol seiadau. Parhasom gyda'r trefniadau hyd ddau yn y prydnhawn, a thorasom i fynu gyda difrifwch mawr a llawenydd sanctaidd. Cawsom undeb rhyfedd a'n gilydd. Yn wir, y mae yr Iesu wedi gwneyd pethau mawrion i Gymru. Y mae y gwaith wedi llwyddo yn ddirfawr. Synwn weled y fath drefn. Y mae y brawd Howell Davies wedi cael ei fendithio er argyhoeddiad clerigwr ieuanc, offeiriad St. Bartholomew, yn Llundain."

Yr offeiriad oedd y Parch. Richard Thomas Bateman, * at yr hwn yr ydym wedi cyfeirio yn flaenorol. Disgynai o deulu pendefigaidd, ac yr oedd yn ŵr o ddoniau mawr. Gwedi ei argyhoeddiad daeth yn weithiwr difefl yn ngwinllan Crist. Rhoddai bob rhyddid i Whitefield a Wesley i bregethu yn ei eglwys, a chawn ei fod yn bresenol yn nghynadledd y Wesleyaid yn 1748. Eithr i ddychwelyd at y Gymdeithasfa, dywed y cofnodau iddi gael ei hagor gyda difrifwch arbenig gan Mr. Whitefield, trwy bregeth, a gweddi daer am arweiniad yr Yspryd Glân. Ei phrif waith oedd darllen a gwrando yr adroddiadau a ddygid gan yr arolygwyr am sefyllfa y cymdeithasau a osodasid dan eu gofal. Cawn gyfeirio at yr adroddiadau yma eto. Yr unig orchwyl arall a gyflawnodd, mor bell ag y dengys y cofnodau, oedd cymeryd i ystyriaeth lythyr John Richard, yr hwn a gondemniai y trefniadau a wnaethid yn flaenorol. Un o breswylwyr Llansamlet oedd John Richard; yr oedd yn arolygydd ar bymtheg o eglwysi yn nghyffiniau Morganwg a Chaerfyrddin, â phob un o ba rai y disgwylid iddo ymweled unwaith y pythefnos. Yn ei lythyr, maentymiai fod rhanu yr aelodau i sengl, priod, a gweddw, a'u holi yn fanwl parthed eu cyflwr ac ystâd eu heneidiau yn Babaidd; fod gosod eu henwau i lawr ar lyfr yn anysgrythyrol; a bod trefnu arolygwyr dros ranau o wlad yn gamwri. Ond y mae yn amlwg oddiwrth rediad yr hyn a ysgrifenai, mai prif achos ei anesmwythid oedd, fod y Gymdeithasfa wedi cyfyngu ei lafur i gylch, gan ei rwystro i fyned o gwmpas i bregethu fel yr ewyllysiai. Dywed fod y rhesymau canlynol yn ei berswadio mai ewyllys yr Arglwydd oedd iddo fyned oddiamgylch. "Yn mlaenaf," meddai, "yr wyf yn profi fy enaid yn fwyaf awyddus am fyned po fwyaf o Dduw sydd yn tywynu

* Tyerman's *Life of Whitefield*, vol. ii., p. 62.

* Gwel tudal. 136.

arnaf. Yn ail, nad wyf yn myned i un man nad wyf yn cael tystiolaeth gan y brodyr, a rhai marciau gan Dduw, fod yr Arglwydd yn fy arddel fel offeryn yn ei law i wneuthur rhyw ddaioni yn ei eglwys. Yn drydydd, na adawodd fi yn fynych heb lawer o gymorth, ac na adawodd fi erioed, mor bell ag yr wyf yn cofio, yn hollol i mi fy hun. Yn bedwerydd, mi dybygwn rai prydiau fy mod yn teimlo newyn anorchfygol yn fy yspryd am ddychweliad pechaduriaid at Dduw, ac y gallwn ddweyd y trengwn pe y tawn. Yn bumed, yr wyf yn gwybod pe yr awn oddiamgylch y cawn lefaru wrth ddeg enaid am bob un yr wyf yn llefaru wrtho yn awr, a pha fwyaf o bysgod a fyddo, mwyaf oll o gysur sydd i daflu y rhwyd. Yn chweched, nid wyf yn awr yn cael llefaru ond unwaith yn y pedair-awr-ar-hugain, a'r unwaith hyny wedi nos, mewn rhai manau; ond pe bawn yn myned o amgylch mi a gawn lefaru gynifer gwaith ag y gallwn. Yn seithfed, mi a fyddaf yn gorfod dweyd nas gallaf fyned i rai manau, er fy mod yn cael fy anog gan Dduw i fyned, ac yn cael galwad gan ddynion. Yn wythfed, y mae genyf ormod i gymeryd gofal neillduol am danynt, a rhy fychan i fyned yn gyhoeddus oddiamgylch iddynt o hyd; canys y mae'r bobl, ar ol hir arfer o ddyn, yn esgeuluso dyfod i wrando, a chwi ellwch ddeall ei bod yn anghysurus i mi i fyned ddeng-milltir-ar-hugain o ffordd heb gael fawr pobl ynghyd yn y diwedd, a hyny yn y dydd." Diwedda trwy siarsio y brodyr yn y Gymdeithasfa ar iddynt edrych ati ar fod Yspryd Duw yn eu harwain mewn cysylltiad ag ef, a thrwy awgrymu tuedd i fyned o gwmpas ar ei gyfrifoldeb ei hun mewn dibrisdod o'u trefniadau. Hen Gristion syml oedd John Richard, fel y mae yn amlwg, yn arllwys allan ei deimladau siomedig, oblegyd cael cyfyngu arno yn ei waith, gyda gonestrwydd unplyg; a mynega fod dau beth yn peri iddo amheu ei alwad, sef fod y brodyr yn ei rwystro, a'r olwg oedd yn gael ar fawredd y gwaith. Ond y mae ei brofiad crefyddol yn ogoneddus. "Y mae yn dda genyf wneuthur a allaf dros Dduw," meddai, "hyd yn nod pe byddai iddo fy nhaflu i uffern yn y diwedd; ond mi dybygwn nad oes yr un man a wnaeth Duw, gwneled y diafol ei waethaf, na fydd i mi fwynhau Duw ynddo, a chanmol yr anwyl Iesu." Anhawdd genym feddwl na ddarfu darlleniad y llythyr hwn dynu dagrau o lygaid y brodyr ymgynulledig; ac er na fedrent ganiatau iddo yr hyn a ddymunai, gan mai cymharol fyr mewn doniau ydoedd, eto y teimlent eu calonau yn cynhesu ato. Yr oedd llythyr o gyffelyb nodwedd wedi cael ei anfon hefyd gan Rhisiart William Dafydd, cynghorwr o Sir Gaerfyrddin, yr hwn y darllenasom am dano yn nghofnodau ail Gymdeithasfa Watford ei fod i fyned dan arholiad.

Penderfynodd y Gymdeithasfa fod Whitefield i ysgrifenu atebion i'r llythyrau hyn; darllenodd yntau yr hyn a ysgrifenasai yn un o'r cyfarfodydd dilynol, yr hyn a dderbyniodd gymeradwyaeth unfrydol y brodyr. Y mae yr atebion ar gael, ac yn ddyddorol. Dywed Whitefield wrth John Richard, gyda golwg ar ei fygythiad i fyned o gwmpas ar draws pob trefniadau, y teimlasai y frawdoliaeth yn flin pe y rhoddasai achos cyfiawn iddo i gymeryd y cwrs hwn; ond gan na wnaethai, a chan y teimlai yn sicr mai dibwys, a hawdd rhoddi pen arno, fuasai unrhyw wrthwynebiad a allai efe godi yn y dull yma, ei bod yn teimlo y gallai ymddiried yr achos i'r Arglwydd Iesu, a bod yn hollol dawel yn ei gylch. Cydnabydda er hyny y gallai y Gymdeithasfa gyfeiliorni, a dywed y byddai y brodyr yn barod i ail-ystyried yn ofalus unrhyw brofion a ddygid yn mlaen fod yr hyn a benderfynasent yn groes i feddwl Duw. Yna â yn mlaen i ateb ei wrthddadleuon. Gyda golwg ar groniclo enwau yr aelodau mewn llyfr, dywed: "Pa beth, anwyl frawd, sydd yn anysgrythyrol yn hyn? Onid yw ein Harglwydd Iesu yn dweyd fod y bugail da yn galw ei ddefaid erbyn eu henw? Onid ydyw pob plwyf yn cadw coflyfr o'r plwyfolion? Onid yw yr Ymneillduwyr yn ysgrifenu enwau pawb mewn llyfr a fyddo mewn cymundeb gyda hwynt? A pheth yw llyfr Numeri ond cofres o enwau meibion Israel? Gyda golwg ar ymofyn am gyflwr ysprydol pob enaid, ymddengys i ni ei fod yn hanfodol angenrheidiol. Yr ydym yn edrych ar yr eglwys fel clafdy, a'i gweinidogion fel physigwyr, y rhai a ddeuant o dro i dro i edrych pa fodd y mae gyda y rhai sydd dan eu gofal. Yr wyf yn tybio pan aeth yr apostolion oddiamgylch i edrych hynt eu brodyr, iddynt chwilio i ansawdd yspryd pob un. Nid ydym yn gwybod pa fodd y gall gweinidog bregethu oddigerth ei fod yn gwybod am gyflwr ei bobl, na pha fodd y gallech chwi anfon yr adroddiad a anfonasoch, am yr hwn yr ydym yn diolch i chwi, oni bai i chwi wneyd rhyw ymchwil-

iad.' Yna â ymlaen i ddweyd mai amcan rhanu yr aelodau i ddosparthiadau o sengl, priod, a gweddw, oedd er mwyn cael cyfrif eglur, ac hefyd allu cymhwyso cynghorion priodol at eu gwahanol sefyllfaoedd. Awgryma fod hyn yn cael ei wneyd yn yr Eglwys Apostolaidd; fod Ioan yn ysgrifenu at y gwŷr ieuainc, a Phaul yn cynghori y rhai oeddynt yn wir weddwon, yr hyn a dybia eu bod yn ffurfio dosparth ar wahan yn yr eglwys. Diwedda trwy achwyn ar ryw William Christopher yn ysgrifenu mewn arddull anweddaidd at Daniel Rowland, a thrwy ei gynghori ef, John Richard, i chwilio o ba yspryd yr ydoedd. Y genadwri a anfonwyd at Rhisiart William Dafydd oedd ceisio ganddo ddarllen y llythyr a anfonasid at John Richard.

Tueddwn i feddwl yr ystyriai Howell Harris lythyr Whitefield yn rhy amddifad o dynerwch, ac o ras yr efengyl, ac felly ysgrifenodd at y ddau frawd tramgwyddus ar ei gyfrifoldeb ei hun. Wrth John Richard dywed: "Mi a wn beth yw profedigaethau o'r fath hyn; er mwyn yr Iesu byddwch arafaidd a phwyllog; y mae'r gelyn yn ceisio eich temtio i wneuthur rhwyg yn ein mysg, a'n dodi i wanhau dwylaw ein gilydd. Byddwch ostyngedig; ofnwch eich hunan; gelyn dirgel yw yn wir, anhawdd ei adnabod. Y mae yn bosibl i ni (sef John Richard a Harris) gamsynied; maent hwy (aelodau y Gymdeithasfa) yn llawer, a bagad o honynt o leiaf yn agos at yr Arglwydd, ac yn chwilio ei Air ef, ac yn disgwyl wrth ddysgeidiaeth ac arweiniad ei Yspryd mor glos a ninau; ac y maent yn bwyllog, ac wedi gwrando fy rhesymau i, yn ofn yr Arglwydd, yn methu gweled fel fi. Myfi, yn hytrach, a ofnaf fod yn anffaeledig, ac a ddisgwyliaf wrth yr Arglwydd, rhag i mi wneuthur terfysg yn ei waith ef, a blino ysprydoedd ei anwyl weision, y rhai oeddynt yn Nghrist o'm blaen i, ac wedi bod a'u bywyd yn eu dwylaw drosto, ac yn ei gyngor cyn ein geni ni yn ysprydol—y fath feddyliau a'r rhai hyn a fu fuddugol i mi yn fy mhrofedigaethau. Y mae fy enaid i, anwyl bererin, yn dy garu yn wresog, a chyda phob tiriondeb ac anwyldra brawdol yr wyf yn dyweddu.—Dy ostyngedig gydfilwr, How. Harris."

Wrth Rhisiart William Dafydd dywed: "Fy anwyl, anwyl frawd, er pan adnabum i chwi gyntaf, yr ydych wedi bod yn anwyl i mi. Er nad wyf yn fy nghalon yn teimlo fy hun yn deilwng i olchi eich traed, goddefwch i mi ofyn genych er mwyn yr Iesu, yr hwn sydd anwyl genych, am ymdrechu cadw undeb yr Yspryd yn nghwlwm tangnefedd, a bod yn wyliadwrus rhag y gelyn cyffredinol, cyhuddwr y brodyr. Un corph ydym, ac ni all un aelod fod heb y llall, gadewch i ni gyd-ddwyn a'n gilydd. Mae'r gwaith yn fawr, a ninau yn anghymwys iawn iddo; gochelwn redeg o flaen ein gilydd. Gan obeithio eich bod yn credu fy mod yn ostyngedig yn eich gwir garu yn yr Arglwydd, fel eich brawd a'ch cydfilwr tlawd, dymunaf anerch yr holl ŵyn yn fy enw i."

Ysgrifenwr llythyrau heb ei fath oedd Howell Harris; teimlir cynhesrwydd ei galon yn mhob brawddeg o'r rhai blaenorol; ac nid rhyfedd i'r ddau frawd tramgwyddus doddi, a syrthio i mewn a'r trefniadau. Cawn John Richard yn y llwch mewn canlyniad, ac yn ysgrifenu llythyr edifeiriol i'r Gymdeithasfa nesaf: "Blin genyf, anwyl frodyr," meddai, "ddarfod i mi sefyll yn gyndyn yn eich erbyn cyhyd. Credu yr wyf na wyr neb yn iawn, ond a gafodd brofiad, pa mor ddichellgar yw yr hen sarph, fel y bu gyda mi yn yr amgylchiad hwn, ac mor gyflawn oeddwn yn meddiant y diafol, fel y tybiais fod yn rhaid i chwi ymostwng i fy marn i. Ond yr wyf yn credu fod y diafol wedi twyllo ei hun. Bendigedig fyddo Duw, yr hwn a ddug ddaioni allan o ddrwg; oblegyd fe'm dysgwyd gan Dduw, fel yr wyf yn credu, i beidio byth eto a meddwl fod mwy o oleuni genyf nag sydd gan holl blant Duw; ac heblaw hyn, fe fu yr amgylchiad yn gymorth i mi i sefyll yn erbyn yr un a'r unrhyw yspryd yn rhai o'r brodyr yn Llansamlet yn ddiweddar. Oddiwrth eich anheilwng frawd, John Richard."

Felly y terfyna cofnodau Trefecca am 1743; dygir y gweddill i mewn i'r hanes wrth fyned yn y blaen.

# PENOD X.

——:o:——

## RHAI O'R CYNGHORWYR BOREUAF.

*Richard Tibbot—Lewis Evan, Llanllugan—Herbert Jenkins—James Ingram—James Beaumont—Thomas James, Cerigcadarn—Morgan John Lewis—David Williams, Llysyfronydd—Thomas Williams—William Edward, yr Adeiladydd—William Richard—Benjamin Thomas—John Harris, St. Kinox—John Harry, Treamlod—William Edward, Rhydygele—Rhai o'r Adroddiadau a anfonwyd i'r Cymdeithasfaoedd.*

BYDDAI unrhyw hanes am y diwygiad Methodistaidd yn ei ddechreuad cyntaf, na roddai le mawr i ymdrechion y cynghorwyr, a'u llafur cariad gydag achos Crist, yn dra anghyflawn, ac yn wir yn gamarweiniol. Mewn peiriant, y mae yr olwynion bychain o lawn cymaint pwys, er nad mor amlwg, a'r olwynion mawrion. Y prif olwynion, mor bell ag yr oedd a fynai dynion a'r peth, yn y diwygiad, oeddynt Rowland, a Harris, a William Williams, Pantycelyn, a Howell Davies. Olwynion bychain, o'u cymharu a'r rhai hyn, oedd y cynghorwyr, er fod rhai o honynt hwythau yn fwy, a rhai yn llai; ond heb eu gwasanaeth a'u cymhorth, ni symudasai y peiriant yn ei flaen fel y gwnaeth. Yr ydym yn meddu ar lawer o hanes y rhai penaf o honynt; gwyddom am eu teithiau, eu peryglon, a'u dyoddefiadau; adnabyddwn eu cymeriadau yn bur drwyadl yn rhinwedd y llythyrau a ysgrifenwyd ganddynt. Yr oeddynt oll yn llawn tân; bedyddiasid hwy yn helaeth ag yspryd yr adfywiad; a meddent ddewrder a barai iddynt gael eu clodfori fel gwroniaid, pe buasai yn cael ei arddangos ar faes y gwaed. Nid oeddynt heb eu gwendidau; pwy sydd? Y mae rhai o'u mympwyon a'u syniadau yn ymddangos i ni yn awr yn dra gwirion; ond nis gellir amheu eu gonestrwydd, eu zêl, a'u teyrngarwch i Grist. Am eraill, nid oes genym ond eu henwau; prin y ceir unrhyw adgofion o'u hanes yn y cymydogaethau yn mha rai y buont yn llafurio; nid oes cofnod ar gael am ddim a wnaethant ar lyfrau y ddaear; ond sicr yw fod eu ffyddlondeb a'u diwydrwydd wedi eu croniclo yn fanwl ar y llyfrau fry, a phan y daw yr Iesu i'w ogoneddu yn ei saint, bydd yr hen gynghorwyr Methodistaidd yn adlewyrchu ei glodforedd mor effeithiol a neb pwy bynag. Dynion diddysg oedd llawer o honynt, cartrefol eu gwisg, plaen eu geiriau, heb fawr caboliad na gwrtaith meddyliol; ond gwnaent i fynu am bob diffyg trwy eu hymroddiad, a'u llafur, a'u zêl dros y Gwaredwr. Drwg genym mai hanes ychydig o'r prif gynghorwyr yn unig a ganiata ein terfynau i ni roddi.

Un o'r cynghorwyr mwyaf adnabyddus, er efallai nad y mwyaf nodedig ei ddoniau, oedd Richard Tibbot. Ganwyd ef yn Hafodypant, plwyf Llanbrynmair, Ionawr 18, 1718, ac yr oedd yr ieuangaf o chwech o blant. Ymddengys fod ei rieni yn hynod am eu duwioldeb, ac ymunodd Richard a chrefydd cyn ei fod yn llawn pymtheg mlwydd oed, a hyny, yn dra sicr, yn eglwys Annibynol Llanbrynmair. Dywedir iddo ddechreu pregethu yn y flwyddyn 1738, yn llencyn ieuanc pedair-mlwydd-ar-bymtheg. Nid yw hyn yn golygu y pregethai yn rheolaidd; nid oedd cyfleusterau i hyny ganddo ar y pryd; ond anerchai gynulleidfa yn awr ac yn y man, pan y gofynai Mr. Lewis Rees ganddo wneyd hyny. Diau fod Richard Tibbot yn un o wrandawyr mwyaf aiddgar Howell Harris, pan yr ymwelodd a'r Gogledd yn 1740, ac y mae yn sicr ddarfod i'w weinidogaeth effro, gyffrous, adael argraff ddofn arno. Tua'r flwyddyn 1741 aeth i ysgol y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Ai Lewis Rees, ynte Howell Harris, a'i cymhellodd i gymeryd y cam hwn, ni wyddis. Yn bur fuan ymunodd a'r Methodistiaid. Tybir iddo fod am ryw gymaint o amser yn cadw ysgol yn nghymydogaeth Llanddowror. Tebygol hefyd ei fod yn cynghori yn nghymdeithasau y Methodistiaid yn rhanau isaf Sir Gaerfyrddin, a'r rhan

uchaf o Sir Benfro. Gwel y darllenydd amryw gyfeiriadau ato yn nghofnodau Trefecca. Yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford penodwyd ef yn ymwelydd cyffredinol y seiadau (*bands*); mewn Cymdeithasfa ddilynol penderfynwyd ei fod i gadw ysgol yn Sir Benfro; a chyn diwedd y flwyddyn 1743 gosodwyd ef yn arolygwr y cymdeithasau bychain a gawsent eu ffurfio yn Sir Drefaldwyn. Yn Nghymdeithasfa Fisol Nantmel, Sir Faesyfed, Ebrill 18, 1744, pasiwyd ei fod i ymroddi yn hollol ac yn gwbl i'r gwaith o ymweled a'r holl eglwysi (yn Sir Drefaldwyn) unwaith bob wythnos. Ond mewn Cymdeithasfa arall, a gynhaliwyd Hydref yr un flwyddyn, penderfynwyd ei fod i fyned at y brawd John Richard i ddysgu y grefft o rwymo llyfrau.

Er fod Richard Tibbot wedi ymuno a'r Methodistiaid, ac yn llafurus yn eu mysg, eto teimlai gryn ymlyniad wrth yr Annibynwyr, ac ymgymysgai â hwy i raddau mawr. Crëodd hyn ryw gymaint o ragfarn ato yn meddyliau y Methodistiaid, ac aethant i dybio ei fod yn fwy hoff o'r Ymneillduwyr nag o honynt hwy. A wnaed achwyniad cyhoeddus yn ei erbyn am hyn, nis gwyddom; ond deallai ef fod y cyfryw deimlad yn bodoli. Y mae llythyr o'i eiddo at Gymdeithasfa Hydref, 1745, ar gael yn Nhrefecca, yr hwn y teimlwn fod tegwch hanesyddol yn galw arnom i'w gyhoeddi. Yn ychwanegol, y mae yn ddyddorol ar gyfrif y goleu a dafla ar yspryd yr amseroedd, ac ar ansawdd meddwl Tibbot. Fel hyn y dywed: "Y mae genym gynifer o faterion yn ein Cymdeithasfaoedd Chwarterol, fel mai ychydig o gyfleustra a feddwn i fynegu ein barn a'n profiad parthed amryw bethau, y byddai yn fuddiol i'n cynydd a'n hundeb, a'n cariad brawdol, i ni ymdrin â hwy. Y mae yn ein mysg, hefyd, gynifer o wahanol syniadau am ddisgyblaeth (ffurf-lywodraeth?) eglwysig, fel yr ydym yn barod i ymrañu oddiwrth ein gilydd weithiau gyda golwg arnynt, fel y brodyr yn Sir Forganwg, yr hyn mewn rhan sydd yn oeri ein cariad, ac yn lleihau ein brawdgarwch, a'n hundeb. Gan fy mod yn fynych gyda'r Ymneillduwyr, ac yn eu cymdeithas yn aml, yr hyn a eill fod yn achlysur i chwi dybio fy mod yn cael fy arwain ganddynt, a'm bod yn wrthwynebus i chwi mewn tymer a barn, tybiais yn angenrheidiol wneyd datganiad o'm syniadau gyda golwg ar seiliau crefydd, pa mor bell yr wyf yn cydweled a chwi, a pha mor bell yr wyf yn cydweled a'r Ymneillduwyr.

"1. Dywedaf ychydig o'm meddwl, i ddechreu, gyda golwg ar egwyddorion pwysicaf crefydd. Yma, fy mrodyr, rhaid i mi gyffesu fy nygn anwybodaeth; y mae fy nghalon wedi bod yn ddolurus er ys rhai blynyddoedd oblegyd fy anwybodaeth; ond hyderaf nad wyf yn gorphwys yn gyfangwbl ar gyffes. Nid wyf yn meddwl ei fod yn ddigonol sail i mi ddarfod i mi feddianu nifer o resymau, a chael rhyw fath o oleuni oddifewn, a phrofi rhyw gymaint o nerth ac awdurdod yn fy ngorfodi i gredu rhyw egwyddorion; gwelaf y rhaid i mi gael goleuni oddiwrth yr Yspryd Glân i oleuo llygaid fy enaid, fel y gwelwyf weithrediadau ysprydol mor glir ag y gwelaf wrthddrychau naturiol yn ngoleuni yr haul, ac fel na byddo i mi newid fy marn gyda golwg arnynt yn nydd angau, yn nydd y farn, ac i dragywyddoldeb. Dyma y ffydd a'r wybodaeth a ddymunaf, ac yr wyf yn ocheneidio am na feddaf; am y wybodaeth hon yr ymgeisiaf, hyd nes y meddianaf hi, yn llawn ac yn berffaith. Dyma fy ffydd a'm barn, fel yr wyf yn gweled yn bresenol, (*a*) Mai un Duw sydd; (*b*) Fod Tri Pherson yn y Duwdod, o'r un sylwedd, gallu, a gogoniant, sef y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân. (*c*) Ein bod oll wedi cwympo yn Adda, ac wrth naturiaeth yn blant digofaint. (*d*) Ddarfod i Dduw ethol rhyw nifer i fywyd tragywyddol cyn dechreuad y byd. (*e*) I Fab Duw ddyfod yn ddyn i waredu ei bobl etholedig. (*f*) Mai trwy ei ufudd-dod ef y cyfiawnheir ei bobl, ac mai trwy ffydd y deuant i feddiant o'i gyfiawnder. (*g*) Fod y ddeddf yn rheol bywyd i'r rhai sydd wedi eu cyfiawnhau trwy Grist. Cymaint a hyna am yr erthyglau.

"2. Mewn cysylltiad a disgyblaeth eglwysig, credaf ei fod yn oddefol i rai, mewn rhyw amgylchiadau, i bregethu, heb dderbyn awdurdod oddiwrth ddynion, fel yr arferwn ni yn awr; ac mai ein dyledswydd ni ac eraill, dan y fath amgylchiadau, yw disgwyl am arweiniad yr Arglwydd trwy ei Yspryd, canlyn rheol ei Air, gofalu na byddom yn gwneyd dim yn groes i'w Air ysgrifenedig, a chrefu am arweiniad Rhagluniaeth ac Yspryd Duw i ddyfod i drefn ragorach. Er mai ein dyledswydd yw bod yn drefnus, eto ni ddylai amryw drefniadau ein cadw rhag brawdgarwch, a chymdeithasu ag eraill,

na fyddo yn cadw y cyffelyb drefniant, ond ydynt yn cyduno â ni am y prif athrawiaethau, a chyda golwg ar fywyd crefydd. Ond yr wyf yn foddlon i aros fel yr ydym parthed disgyblaeth eglwysig, hyd nes y byddo i Dduw roddi i ni drefn a disgyblaeth well yn ei amser ei hun.

"3. Gyda golwg ar fy undeb a'r cyffredinolrwydd o'r corph o honom ni, ac a'r Ymneillduwyr, y mae undeb fy nghalon yr un a'r undeb a broffesaf, ac a ddangosaf yn fy ymddygiad. Fel y darfu i mi adael yr Ymneillduwyr, o ran cymeryd fy llywodraeth ganddynt, a rhoddi fy hun i'ch llywodraeth chwi, gan broffesu fy hun yn aelod gyda chwi, felly yr wyf yn teimlo yn fy nghalon fwy o undeb a'r cyffredinolrwydd o honoch nag a'r Ymneillduwyr. Ond y mae yr amryw brofedigaethau a gefais y blynyddoedd diweddaf wedi bod mor gryfion, fel na fedraf dderbyn egwyddorion crefyddol, na threfn eglwysig, oddiwrth unrhyw blaid o bobl, yn unig am eu bod hwy yn eu proffesu, heb i mi fy hun weled eu gwirionedd. Nid wyf yn awr, ychwaith, mor hawdd fy moddhau o wirionedd pethau ag oeddwn unwaith, am fy mod yn gweled ddarfod i mi gael fy nhwyllo wrth dderbyn golygiadau fel gwir, gan feddwl fy mod wedi fy ngoleuo ynddynt gan yr Yspryd Glân, tra y gwelais ar ol hyny nad oedd fy ngoleuni ond rhanol ac anmherffaith. Hawdd genyf gyffesu ddarfod i mi gredu mor gryf yn nghywirdeb rhai pethau, fel na phetruswn sefyll drostynt, hyd yn nod pe bai y bobl gallaf a goreu yn barnu yn wahanol; ac yr oedd fy zèl wedi tyfu gymaint goruwch fy marn, fel na ddarllenwn unrhyw lyfr a fyddai yn groes i'm golygiadau, fel pe bawn yn berffaith mewn gwybodaeth, ac yn anffaeledig; ac yr oeddwn yn barod i gondemnio unrhyw un, fel dyn anwybodus, a ddywedai air yn fy erbyn. Ond cefais fynych achos i newid fy syniad am anffaeledigrwydd fy ngwybodaeth gwedi hyn. Ond yn awr teimlaf rwymau i fod yn eiddigus gyda golwg ar fy ngwybodaeth, ac i ddirnad pethau yn ddwfn cyn eu credu, ac nis gallaf ddirnad dim heb gael fy nysgu gan Yspryd Duw. Er fy mod yn fwy mewn undeb â chwi nag a'r Ymneillduwyr, eto gwelaf amryw bethau yn ein mysg sydd yn gofyn am gael eu diwygio: (*a*) Ein bod yn rhy barod i dderbyn pethau fel gwirionedd, heb eu chwilio yn ddigon manwl, ac i farnu yn dda am danynt, yn ol y gradd o gysur a weithiant oddimewn i ni. (*b*) Tueddwn i edrych ar bob cysur a dyddanwch fel cynyrch Yspryd Duw, yn yr hyn y dylem weithiau fod yn dra gochelgar, ac hefyd i farnu bywyd crefydd wrth zêl, a gwresowgrwydd teimladau, gan gondemnio eraill nad ydynt lawn mor zêlog fel defodwyr. Gwell genyf fi farnu pobl wrth eu hymarweddiad cyffredinol, yn hytrach nag wrth yr hyn a ymddangosant mewn odfaeon. (*c*) Y mae yn ein mysg ormod o yspryd partïol, yr hyn wyf yn ei gashau yn mhawb. Yr ydym yn rhy barod i gondemnio rhai o'n brodyr, yr Ymneillduwyr, i'w cau allan o'n cymdeithas, ac i ddweyd yn eu herbyn; yr hyn, pe y gwnaethent hwy a ni, a alwem yn erledigaeth. Y mae yspryd agored, diragfarn, yn werthfawr.

"4. Gyda golwg ar yr Ymneillduwyr, yr wyf yn caru yr hyn sydd dda ynddynt; ond cyn y gallaf eu barnu yn gywir, rhaid i mi wybod eu hamgylchiadau, oblegyd gwahaniaethant gymaint yn eu mysg eu hunain ag a wahaniaethwn ni oddiwrthynt hwy; felly, nid wyf yn cyduno a'r Socin-iaid, yr Ariaid, yr Arminiaid, a'r Baxteriaid sydd yn eu mysg; ond y mae y rhai difrifol a sobr o honynt mor anwyl i mi a neb, ac yr wyf yn cadw ar y telerau mwyaf anwyl â hwynt. Eithr nid wyf yn cael fy nghario i roddi fy hun dan eu llywodraeth, am fy mod yn credu mai ewyllys Duw yw i mi aros fel yr wyf.

"5. Y mae genyf rai pethau i'w gosod ger eich bron, a fyddai, fel yr wyf yn credu, yn fuddiol i ni: (*a*) Dylem fod yn fyrach, os yw bosibl, wrth ymdrin ag allanolion, gan ymddiddan mwy am brif bynciau crefydd, a holi ein hunain am ein sail, a'n sicrwydd, a'n profiad o honynt. Gwedi dod mor bell i'n Cymdeithasfaoedd, da fyddai i ni hebgor peth o amser cysgu, ac amser bwyta, gan ymroddi i adeiladu y naill y llall yn ysprydol. (*b*) Tueddaf i feddwl mai buddiol i ni fyddai rhoddi ein barn gyda golwg ar egwyddorion mewn argraff, fel na byddo camsyniadau, na lle i neb feddwl ein bod yn coleddu syniadau nad ydym. Byddai hyn, hefyd, yn gymorth i ni ddeall golygiadau ein gilydd, ac yn tueddu i fwy o undeb. A manteisiol fyddai gadael tystiolaeth am wirionedd yr efengyl ar ein hol, fel y gallai lefaru er lles oesoedd i ddyfod. (*c*) Tybiaf, pe y gwelai Rhagluniaeth yn dda agor y ffordd, y dylid gosod ysgol i fynu, er mwyn gweini rhyw gymaint o hyfforddiant i'r rhai sydd yn cynghori. Gallai ychydig o fisoedd ynddi,

gyda bendith Duw ar yr addysg, fod yn dra llesiol. Hyn yn ostyngedig, fy mrodyr, oddiwrth eich annheilwng frawd a chydfilwr, RICHARD TIBBOT."

Dengys y llythyr hwn Richard Tibbot fel gŵr craff, nodedig o ddiragfarn, ac yn meddu gwroldeb digonol i ddweyd ei olygiadau wrth Gymdeithasfa a gynwysai ddynion fel Whitefield, Rowland, a Harris. Yr oedd yn fwy o Fethodist nag o Annibynwr; ac nid oedd cefnu ar y Methodistiaid yn ei fwriad yr adeg yma; ond elai i mewn ac allan gyda phob plaid uniongred, gan deimlo yn gynes at bawb oedd yn caru yr Arglwydd Iesu. Mor bell ag y gwyddom, efe, yn y llythyr hwn, a awgrymodd gyntaf y priodoldeb o gael Cyffes Ffydd a Rheolau Dysgyblaethol, a dyma hefyd y cyfeiriad cyntaf at gael athrofa. Mewn rhyw bethau diau ei fod o flaen ei oes. Y mae y crybwylliad a geir yn y llythyr am y brodyr yn Sir Forganwg yn cyfeirio at genadwri cynghorwyr y Groeswen at Gymdeithasfa Cayo, Gwanwyn 1745, yr hon a ddaw dan ein sylw eto. Tra yr oedd yr Ymneillduwyr ar y pryd wedi ymgladdu yn ormodol mewn defodau oerion, ac yn condemnio pob gwresowgrwydd crefyddol, gwelai Richard Tibbot berygl i'r Methodistiaid roddi pwys gormodol ar zêl, a phrofiad tumewnol; a hiraethai ei enaid am fwy o oddefgarwch a chariad brawdol o'r ddau tu.

Y mae yn sicr i'r llythyr roddi boddlonrwydd i'r Gymdeithasfa, oblegyd ychydig wedi hyn cawn holl eglwysi Gwynedd wedi eu gosod dan ei ofal; arolygai y cymdeithasau yn Siroedd Trefaldwyn, Meirion, Dinbych, ac Arfon. Wrth deithio, dyoddefodd ei ran o erledigaethau. Unwaith yn Sir Gaernarfon, pan ar ganol pregethu, ymosodwyd arno gan was boneddwr, yr hwn a'i curodd a ffon o gwmpas ei ben yn ddidrugaredd, fel y syrthiodd mewn llewyg, ac y bu glaf am amser. Dro arall, pan ar daith yn yr un sir, dygwyd ef gerbron heddynad, yr hwn a'i triniodd fel *vagabond*, gan ei anfon adref o gwnstab i gwnstab, y naill yn ei roddi i fynu i'r llall, fel pe byddai yn greadur peryglus. Yn yr ymraniad rhwng Rowland a Harris, ymunodd Tibbot ar y cychwyn a phlaid y diweddaf. Yr oedd yn naturiol iddo wneyd felly; Harris oedd y cyntaf o'r Methodistiaid i enill ei fryd; Harris oedd y mwyaf ei ddylanwad o'r Diwygwyr yn Sir Drefaldwyn, a chydag ef y bwriodd yr holl seiadau yn y sir eu coelbren. Cawn enwau Tibbot, a Lewis Evan, Llanllugan, yn mysg y rhai oeddynt yn bresenol yn Nghymdeithasfa gyntaf plaid Harris, yr hon a gynhaliwyd yn St. Nicholas, Gorph. 25, 1758; a rhaid fod cryn zêl yn eu meddianu cyn y teithient o ganol Trefaldwyn i Fro Morganwg er mwyn bod yno. Yn y Gymdeithasfa trefnwyd fod Richard Tibbot i ddwyn adroddiad am ystâd y seiadau yn Sir Drefaldwyn i'r Gymdeithasfa ddilynol, ac i fyned ar daith i'r Gogledd i bregethu am dair wythnos. Cawn ef hefyd yn Nghymdeithasfa Fisol Llwynyberllan, Rhagfyr 30, yr un flwyddyn, ac yr oedd yn un o'r rhai ddarfu ateb pan y gofynodd Harris pwy oedd yn barod i roddi ei galon a'i law i'r Arglwydd. Nid oedd yn Nghymdeithasfa Dyserth y dydd Iau canlynol, ond ceir nodiad yn y cofnodau yn dweyd iddo gael ei anfon y boreu hwnw i'r Gogledd, yr hyn a ddengys mai nid diffyg cydymdeimlad â Howell Harris, a'r rhai a ymlynent wrtho, a achosai ei absenoldeb. Yn raddol, pa fodd bynag, ymddengys i amheuaeth gref godi yn meddwl Tibbot gyda golwg ar yr yspryd a lywodraethai Harris a'i ganlynwyr. Ac yn Nghymdeithasfa y blaid, yr hon a gynhaliwyd yn Llwynbongam, Gorph. 2, 1751, daeth pethau i argyfwng. Gofynai Harris am arwydd, pwy oedd a ffydd ganddo i gymeryd y wlad, ac i sefyll yn unig yn y gwaith gyda'r Arglwydd, heb neb gydag ef. Ystyr hyn, dybygid, oedd myned o gwmpas y seiadau, er cael ganddynt gefnu ar yr offeiriaid Methodistaidd. Gwrthododd amryw arwyddo. Y nos gyntaf, yr oedd Tibbot yn anmhenderfynol; gwelai y brodyr heb fod yn sefydlog, a theimlai awydd am gael ymddiddan a'r blaid arall. Ceisiai Harris ymresymu ag ef, a dangos yr angenrheidrwydd am farn sefydlog; dywedai, yn mhellach, fod y rhai a ymadawsant wedi tramgwyddo, a bod pob moddion posibl wedi cael ei ddefnyddio i'w hadfer. Eithr ofer a fu yr ymresymu. A boreu dranoeth, trowyd Richard Tibbot allan am wrthod ufuddhau i fyned o gwmpas, ac am ei benderfyniad i fyned i ymddiddan a phlaid Daniel Rowland. Allan yr aeth, gan fwrw ei goelbren gyda Rowland, a pherthyn i'w blaid ef y bu tra mewn cysylltiad a'r Methodistiaid. Ni phallodd ei deimladau caredig at Harris er hyn, a phan fu gwraig y diweddaf farw ysgrifenodd Tibbot ato lythyr, yr hwn sydd yn awr ar gael, yn datgan ei gydymdeimlad

ag ef yn ei dywydd; llythyr Cristionogol, yn llawn o syniadau aruchel, yn gystal a thynerwch.

Llafuriodd Richard Tibbot yn mysg y Methodistiaid hyd y flwyddyn 1762. Y pryd hwnw yr oedd eglwys Annibynol Llanbrynmair yn amddifad o weinidog, gan fod y Parch. Lewis Rees wedi symud i'r Mynyddbach, ger Abertawe; taer gymhellwyd Tibbot i gymeryd ei le, yr hyn a wnaeth yntau. Tebygol fod arno, fel amryw o'r cynghorwyr eraill, awydd cael ei ordeinio, yr hyn ni chai gan y Methodistiaid. Ar yr un pryd, nid oedd, wrth gymeryd y cam hwn, yn troseddu unrhyw egwyddor, nac yn gwneyd cam a'i gydwybod; gyda'r Annibynwyr y cawsai ei ddwyn i fynu; pan gwedi ymuno a'r Methodistiaid, ymgymysgai yn rhwydd a'i frodyr gynt, gan deimlo parch mawr iddynt; ac o'r dechreu nid oedd enwad a phlaid o nemawr pwys yn ei olwg. Gweithiodd yn ddyfal yn Llanbrynmair; cyrhaeddai cylch ei weinidogaeth o Fachynlleth i Landinam; ac yn ychwanegol, teithiai yn fynych trwy Ddê a Gogledd Cymru. Yr oedd mor gymeradwy yn mysg y Methodistiaid a chynt, ac nid oedd ei barch yntau iddynt hwy ddim yn llai; presenolai ei hun hyd ddiwedd ei oes yn Nghymdeithasfaoedd Llangeitho a'r Bala, a chaffai bregethu ynddynt ar yr adeg fwyaf anrhydeddus. Pan yn teithio, pregethai yn nghapelau y ddau enwad yn ddiwahaniaeth, a chroesawid ef yn addoldai y Bedyddwyr. Ni wyddai am gulni enwadol; yr oedd ei dŷ yn Llanbrynmair yn agored i weinidogion a chynghorwyr pob plaid grefyddol.

Nid oes ond y dydd mawr a ddengys faint llafur y gŵr da hwn, na'r erlidiau a ddyoddefodd yn ei ymdrechion gyda'r efengyl. Arferai fyned i'r Waenfawr, ger Caernarfon, er cymaint y peryglon y gosodai ei hyn yn agored iddynt, a lletyai yn nhŷ Thomas Griffith, tad y bardd adnabyddus, Dafydd Ddu Eryri, yr hwn a gadwai siop fechan yn ymyl y bont. Pan ddeuai Tibbot i olwg y lle, torai allan i ganu; ac ar waith Thomas Griffiths yn clywed y llais, cyffröai trwyddo, a dywedai mewn llinell farddonol:—

"Dyna Tibbot, yr wy'n tybied."

I'r Waenfawr y cyrchai yr ychydig Fethodistiaid oeddynt yn nhref Caernarfon i addoli. Cynygiodd Williams, Pantycelyn, bregethu yn y dref, ond rhwystrwyd ef gan yr erlidwyr. Er gwaethaf y terfysgwyr, meiddiodd Tibbot lefaru yno tua'r flwyddyn 1770. Safai, meddir, ar risiau tŷ un Hugh Owen, lledrwr (*currier*), gyferbyn a thafarndy "Y Delyn," yn ngwaelod heol Penyrallt. Ond ni chafodd lonyddwch. I gychwyn, daeth un Twm y Goes-fawr yno, gan sefyll ar risiau uwch, a lluchio prenddysglau at y pregethwr, nes yr oedd ei ben yn orchuddiedig gan archollion, a'i waed yn llifo. Yn ganlynol, cynygiodd rhyw adyn ei saethu, ond methodd. Gwaeddai rhyw un yn groch dros y lle, mewn cynddaredd oedd yn gyfartal i'w anwybodaeth: "I ba beth y mae y diafliaid hyn yn dyfod yma i ddwyn yr efengyl oddiar Grist, nis gwn i." Pa fodd y gorphenodd yr odfa, ni ddywedir, ond ar y terfyn carcharwyd y pregethwr a'i anifail yn y castell; gollyngwyd hwy ymaith, modd bynag, foreu tranoeth, heb dderbyn niwaid.

Cawn hanes am dano, gyda chynghorwr o'r enw Edward Parry, yn pregethu yn gyfagos i Henllan, Sir Ddinbych. Daeth offeiriad Llanefydd, ynghyd a Mr. Wynn, Plasnewydd, yno i'w rhwystro. Tueddai Mr. Wynn i aros i wrando, er cael deall-twriaeth am yr athrawiaeth a draethid ganddynt; ond rhuthro yn mlaen yn ei afiaeth a wnaeth yr offeiriad, gan ofyn yn sarug: "Paham y meiddiwch bregethu mewn tŷ heb ei drwyddedu?" Atebodd Edward Parry yn fwynaidd: "Y mae gorchymyn wedi ei roddi i fyned i'r priffyrdd a'r caeau; ac yn fy nhyb i, nid gwaeth myned i dŷ, os bydd cyfleusdra yn rhoi." "Yr wyf fi," ebai'r offeiriad, "yn pregethu i'r plwyfolion bob Sul, fel nad oes raid i neb arall ymyraeth." Deallodd Tibbot wrth hyn mai clerigwr ydoedd, ac ebai efe: "Yr wyf yn tybied, Syr, mai o'r un llyfr a minau yr ydych chwi yn pregethu, ac feallai oddiar yr un testunau." "Rhowch weled pa lyfr sydd genych," ebai'r clerigwr. Estynodd yntau Destament Groeg iddo. Agorodd yr offeiriad a Mr. Wynn eu llygaid pan welsant y Testament Groeg; ni thybiasent fod y Pengryniaid dirmygus yn gwybod dim am yr ieithoedd clasurol, ac ymadawsant ill dau heb ddweyd gair yn ychwaneg.

Y tro olaf y pregethodd Richard Tibbot oedd Ionawr 21, 1798. Pregethodd ddwy waith y Sul hwnw, a gweinyddodd yr ordinhad o Swper yr Arglwydd mewn dau le. Ymddangosai fel pe byddai ei gorph yn gryfach, a'i deimladau yn fwy nefolaidd

nag arferol. Sylwai un o'i wrandawyr ei fod, wrth son am ddyoddefiadau yr Arglwydd Iesu, braidd fel be buasai yr ochr fewn i'r llen. Bu farw Mawrth 18, 1798, yn agos i bedwar ugain mlwydd oed. Pregethodd ei olynydd, y Parch. John Roberts, yn ei gladdedigaeth, oddiar y geiriau: "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel?" Tystiolaeth pawb a'i hadwaenent oedd ei fod yn ddyn galluog, ac o alluoedd meddyliol cryfion; er nad oedd yn ymadroddus, nac o ddoniau dysglaer, yr oedd yn dduwinydd gwych; ac yr ydoedd yn un o heddychol ffyddloniaid Israel. Mewn cyfnod ag yr oedd rhagfarn grefyddol yn rhedeg yn uchel, a dallbleidiaeth yn ffynu, yr oedd Tibbot yn glynu wrth hanfodion yr efengyl, gan ddibrisio y mân gwestiynau a wahanent y naill blaid oddiwrth y llall. Y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig hyd y dydd hwn.

Cynghorwr arall yn Sir Drefaldwyn a haedda ein sylw yw Lewis Evan, Llanllugan. Yr ydym wedi cyfeirio yn barod at ei argyhoeddiad yn Nhrefeglwys, dan weinidogaeth Howell Harris, yn y flwyddyn 1740, a'i waith yn dechreu cynghori yn bur fuan gwedin, heb gael caniatad gan unrhyw lŷs, crefyddol na gwladol. Ymddengys iddo gael ei eni yn y flwyddyn 1719, ac felly yr oedd yr un oed a Richard Tibbot. Gwehydd oedd wrth ei gelfyddyd; gweithiai gyda ei dad mewn lle o'r enw Crygnant. Peth dyeithr yn y wlad y pryd hwnw oedd fod gwehydd ieuanc yn myned o gwmpas o dŷ i dŷ, i ddarllen y Beibl, ac i weddïo, a chynghori; creodd ei ymddygiad gryn gyffro yn yr ardal; ac yn bur fuan deffrodd erledigaeth. Gwasanaethai dyn cryf o gorph yn Plashelyg, amaethdy rhwng cartref Lewis Evan a thŷ yr arferai gyrchu iddo i ddarllen; ymddengys fod y gweddïo a'r cynghori yn cythruddo gwas Plashelyg yn enbyd, a gwyliai Lewis Evan yn pasio, gan ei fygwth yn dost oni roddai heibio y gorchwyl. Hyn nis gwnai yntau, a'r diwedd a fu i'r adyn creulon ei guro yn dost, nes yr oedd y ffordd yn goch gan ei waed. Yr oll a atebodd i'w erlidiwr ydoedd: "Dywed i mi, fy machgen gwyn, pa beth a wnaethum i ti, gan dy fod yn fy nhrybaeddu fel hyn?"

Ceir cyfeiriadau mynych at Lewis Evan yn nghofnodau Trefecca. Mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn y Tyddyn, ger Llanidloes, Chwefror 17, 1743, rhoddwyd nifer o eglwysi Sir Drefaldwyn dan ei ofal ef, mewn undeb a Morgan Hughes, a Benjamin Cadman. Yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn Glanyrafonddu, yn mhen pythefnos gwedin, rhoddwyd cymdeithasau Llanllugan, a Llanwyddelan, yn gyfangwbl tan arolygiaeth Lewis Evan, tra y cafodd B. Cadman ei drefnu i ymweled a holl eglwysi y sir. Penderfynwyd mewn Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, Ionawr, 1744: "Fod y brawd Lewis Evan i fyned can belled ag y gallai, yn gyson a'r alwad a fyddai arno, i Sir Feirionydd." Yn adroddiad Richard Tibbot o ansawdd yr eglwysi yn Nhrefaldwyn, yn yr un flwyddyn, dywedir: Y mae Lewis Evan, yr hwn sydd yn cynghori yn Llanllugan, yn cael ei arddel gan yr Arglwydd i fod yn ddefnyddiol i lawer; y mae amryw ddrysau yn cael eu hagor iddo, ac amryw wedi cael eu hargyhoeddu trwy ei athrawiaeth." Ymddengys ei fod yn bregethwr effeithiol, ac yn dra derbyniol gan y cymdeithasau tros yr holl wlad. Mewn llythyr oddiwrth un T. E., Tyddyn, dyddiedig Awst 1, 1746, at Harris, ceir a ganlyn: "Yr oedd y brawd Lewis, o Lanllugan, yma ychydig amser yn ol; crychneidiai calonau y saint o'u mewn tan ei ymadroddion. Syndod fel y mae yr Arglwydd yn peri i'r dyn hwn gynyddu mewn dawn a gras." Yn haf 1747, dywed Mr. T. Bowen, Tyddyn, mewn llythyr at Harris: "Y mae dyfodiad y brawd Lewis Evan atom wedi bod yn nodedig o adfywiol yn ddiweddar." Oddiwrth yr amrywiol dystiolaethau yma nis gellir amheu fod y cynghorwr diaddysg o Lanllugan yn meddu llawer o gymhwysderau pregethwrol, a'i fod yn cael ei fendithio gan ei Feistr i fod yn offeryn i achub pechaduriaid, ac i adeiladu y saint.

Fel holl gymdeithasau a chynghorwyr Trefaldwyn, yn yr ymraniad gofidus rhwng Rowland a Harris, cymerodd Lewis Evan blaid y diweddaf, ei dad yn y ffydd, ac yr oedd yn bresenol yn y Gymdeithasfa gyntaf a gynhaliwyd ganddo ef a'i bleidwyr yn St. Nicholas. Pan y penderfynwyd yno anfon nifer o gynghorwyr i Ogledd Cymru, er perswadio y seiadau mai Harris oedd yn gywir, a bod Rowland a'i ganlynwyr wedi colli eu gafael ar yr Arglwydd, yr oedd Lewis Evan, Llanllugan, yn un o'r anfonedigion. Dengys hyn yr ystyrid ef yn ddyn o ymddiried. Cawn ef yn bresenol yn Nghymdeithasfa yr Harrisiaid, a gynhaliwyd yn Dyserth,

Ion. 3, 1751, a darfu iddo, fel nifer o gynghorwyr eraill, ddatgan ar gyhoedd ei barodrwydd i gyflwyno ei hun a'r oll a feddai i'r Arglwydd. Penodwyd ef yno i fod yn un o'r rhai oeddynt i adael pob peth, ac i fyned o gwmpas yn wastadol, i wasanaethu yr achos. Yr oedd yn Nghymdeithasfa y blaid yn Nhrefecca, y Chwefror canlynol; yn Nghymdeithasfa Castellnedd, Ebrill 10, yr un flwyddyn; ac yn Nghymdeithasfa Llwynbongam, Gorph. 2, 1751, lle y gwnaeth, fel eraill, ail ddatganiad o'i ymroddiad i wasanaethu crefydd tan arweiniad Harris. Cafodd yr anrhydedd o bregethu hefyd yn y Gymdeithasfa hon. Y tro diweddaf y ceir ei enw yn y cysylltiad hwn yw yn Nghymdeithasfa Trefecca, Hydref 2, 1751. Anogid y brodyr yno gan Harris i adrodd eu teimladau yn rhydd; yr ail i agor ei enau oedd Lewis Evan; dywedai ef ei fod yn teimlo angenrhaid arno, ddydd a nos, i fyned at yr Iesu croeshoeliedig, ac i weithio drosto. Eithr yn raddol darfu i dra-awdurdod cynyddol Howell Harris, a'i waith yn cyfyngu yn benaf ei lafur i Drefecca, beri i Lewis Evan, fel nifer o gynghorwyr eraill, droi ei gefn arno, ac ail ymuno a'r Methodistiaid dan dywysiad Daniel Rowland.

Ni ddyoddefodd neb yn yr oes hono fwy dros yr efengyl na Lewis Evan; darllena ei beryglon, ei ddyoddefaint, a'i waredigaethau fel rhamant. * Pan y teithiai unwaith yn Nyffryn Clwyd, yr oedd dau ddyn yn sefyll yn ymyl pont yn ei ddisgwyl, gyda phastynau mawrion yn eu dwylaw; a chan un o honynt tarawyd ef ar ei ben, nes yr oedd ei waed yn ffrydio. Ni wyddai efe, oblegyd y syfrdandod a achosid gan y ddyrnod, fod ei waed yn llifo, nes i ryw wraig ei gyfarfod, a gofyn iddo yn gyffrous: "Yn enw'r mawredd, beth yw y drefn yna sydd arnoch?" Fel yr oedd, cyrhaeddodd dŷ un o'i gyfeillion, lle y cafodd olchi ei friwiau, a phob ymgeledd. Dro arall, pan yn cynghori yn Darowain, nid yn nepell o Fachynlleth, daeth tua thriugain o ddihyrwyr o'r dref i aflonyddu arno, gan lawn fwriadu ei niweidio. Gan eu bod yn rhy ffyrnig i ymresymu â hwynt, ac yn rhy gryfion i'w gwrthsefyll, nid oedd dim i'w wneyd ond ffoi, a ffoi a wnaeth. Gan ei fod yn ysgafn o gorph, ac yn chwimwth ar ei droed, nid oedd heb obaith dianc. Wrth redeg, syrthiodd i ffos ddofn, a ddigwyddodd fod yn sych ar y pryd; daeth i'w feddwl y gallai y ffos fod yn ymguddfa iddo. Ynddi y llechodd nes yr aeth yr erlidwyr heibio, ac felly y dihangodd o'u crafangau.

Pan yn pregethu yn y Bala un Sabboth, anfonodd boneddwr, oedd hefyd yn heddynad, swyddogion i'w ddal, ac i'w ddwyn ger ei fron. Galwyd Lewis Evan i'r parlwr, a chymerodd yr ymddiddan canlynol le rhwng y ddau:—

Ynad. "Ai ti a fu yn pregethu yn y Bala?"

Lewis Evan. "Ië, Syr, myfi fu yn rhoddi gair o gyngor i'r bobl."

Ynad. "O ba le yr wyt yn dod, a pheth yw dy orchwyl pan fyddi gartref?"

L. E. "O Sir Drefaldwyn, o blwyf Llanllugan, yr wyf yn dod, a gwehydd wyf wrth fy ngalwedigaeth."

Ynad. "Beth a ddaeth a thi y ffordd hon? Ai nid oedd genyt ddigon o waith gartref?"

L. E. "Oedd, digon; ond mi ddaethum yma i roddi gair o gynghor i'm cydbechaduriaid."

Ynad. "Nid oes yma ddim o dy eisiau. Y mae genym ni bersoniaid wedi cael addysg dda, ac wedi cael eu dwyn i fyny trwy draul fawr yn Rhydychain, i bregethu i ni."

L. E. "Y mae digon o waith iddynt hwy a minau. Y mae y bobl yn myned yn lluoedd tua dystryw er y cyfan.'

Ynad. "Mi a'th anfonaf i'r carchar am dy waith."

L. E. "Bu fy ngwell i yn y carchar o'm blaen. Carcharwyd yr Arglwydd Iesu ei hun, er iddo ddyfod i'r byd i gadw pechaduriaid." Gyda hyn, dywedai y gwehydd air yn mhellach am yr Arglwydd Iesu, ac am ei amcan goruchel yn dyfod i'r byd; ond yr ynad a'i lluddiodd, gan ofyn: "A wyt ti yn meddwl pregethu yn fy mharlwr i?"

"Nid wyf yn meddwl, Syr," oedd yr ateb, "fod eich parlwr chwi yn rhy dda i ddywedyd am Iesu Grist ynddo." Gwelai yr ynad nad oedd fawr tebygolrwydd yr enillai lawer ar y pregethwr trwy ymddiddan o'r fath; felly, anfonodd ef i garchar Dolgellau, lle y bu y gwehydd tlawd am yspaid haner blwyddyn. Eithr aeth cyfeillion yr efengyl i chwilio i mewn i'r helynt, a chawsant fod y prawf a'r ddedfryd yn afreolaidd, a bod y boneddwr a'i traddododd, yn ol pob tebyg, wedi gosod ei hun yn ngafael y gyfraith trwy yr

---

* *Drych r Amseroedd.*

anmhyfusedd a gyflawnasai. Deallodd yr ynad hyny yn ogystal, a bod cyfeillion Lewis Evan yn bwriadu cael ymchwiliad i'r helynt. Brysiodd i Ddolgellau, ac i'r carchar at Lewis Evan, lle y cymerodd yr ymddiddan a ganlyn le:—

Ynad. "Wel, Lewis, ai yma yr wyt ti eto?"

L. E. "Ië, Syr, dyma lle yr wyf."

Ynad. "Mae yn debyg mai yma y byddi di byth."

L. E. "Na, ni fyddaf fi na chwithau yma byth."

Ynad. "Pe y rhoddit ychydig arian, mi a allwn dy gael allan."

L. E. "Yn wir, Syr, chwi a ddylech fy nghael allan am ddim, gan fod genych law fawr yn fy rhoddi i mewn."

Ynad. "Dywed i mi, a oes llawer o honoch?"

L. E. "Oes, Syr, y mae llawer o honom, ac fe fydd mwy o lawer eto yn mhen ychydig amser."

Ynad. "Yn nghrog y bo'ch chwi wrth yr un gangen."

L. E. "O! Syr, chwi fyddwch chwi wedi hen bydru cyn hyny."

Afreidiol ychwanegu ddarfod gollwng Lewis Evan yn rhydd yn ebrwydd, ac heb ddim costau. Mewn canlyniad, gadawyd yr ynad yn llonydd, ond rhoddwyd ar ddeall iddo y cedwid llygad arno o hyny allan, ac na oddefid iddo gyflawni y fath gamwri mwy.

Meddai Lewis Evan lawer o ffraethder a pharodrwydd ymadrodd yn nghanol diniweidrwydd diddichell. Dringasai ef a Mr. Foulkes, Machynlleth, i ben yr Wyddfa unwaith; ac wedi cyrhaedd ei gopa tynai Mr. Foulkes ei het, a dywedai: "Beth pe yr aem ychydig i weddi?" "Da iawn, Mr. Foulkes," oedd yr ateb; "gwnewch ar bob cyfrif, daliwch afael ar y cyfleustra, oblegyd ni fuoch mor agos i'r nefoedd erioed o'r blaen." Rhaid i ni ymatal, onide gallem groniclo llu o hanesion am dano. Dyn bychan ydoedd, bywiog ei ysgogiadau, cyflym ei leferydd, a pharod ei ymadrodd. Ni ystyrid ef yn bregethwr mawr, ond bu yn dra defnyddiol. Daliai afael ar bob cyfle i gynghori. Yr oedd rhyw adnod o'r Beibl, neu air o addysg, ar ei wefus yn wastad. Cyffelybid ef i ysgol symudol, gan mor ddyfal yr oedd yn cyfranu gwybodaeth am Dduw, a chyflwr colledig dyn, i'r rhai a gyfarfyddai. Bu farw yn y flwyddyn 1792, yn 72 mlwydd oed, ac yn ddiau aeth i dangnefedd. Canodd nai iddo farwnad ar ei ol, ond nis gallwn ei chofnodi o ddiffyg lle.

Cynghorwr arall, o gryn enwogrwydd, oedd Herbert Jenkins. Cawsai ei eni yn mhlwyf Mynyddislwyn, Sir Fynwy, yn y flwyddyn 1721. Ymddengys fod ei rieni yn ddynion crefyddol, ac mewn amgylchiadau cysurus, a rhoisant addysg dda i'w mab. Bu am ryw gymaint o amser yn yr ysgol yn Mryste, gyda Mr. Bernard Fosket, athraw athrofa y Bedyddwyr. Yn ol pob tebyg, argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth Howell Harris, ac yn bur fuan dechreuodd lefaru am Grist wrth ei gyd-bechaduriaid. Gan y medrai bregethu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'i fod o ddawn poblogaidd, daeth galwad mawr am ei wasanaeth. Yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford, ei enw ef a geir y blaenaf ar restr y cynghorwyr a dderbyniwyd i undeb y Gymdeithasfa. Ei enw ef hefyd yw y cyntaf ar restr y cynghorwyr presenol yn yr ail Gymdeithasfa; a phan y dosrenid y wlad tan arolygiaeth cynghorwyr, ni roddwyd adran i Herbert Jenkins, eithr trefnwyd iddo i fod yn gynorthwywr i Howell Harris, ac i'r brodyr Saesnig. Amlwg felly yr ystyrid ef mewn rhai pethau yn rhagori ar ei gyd-gynghorwyr. Dywedir iddo gael yr apwyntiad gwedi i Howell Harris ei glywed yn pregethu yn ardderchog, ar ddirgelwch Duwdod y Gwaredwr. Pa mor uchel y syniai Harris am dano a welir oddiwrth lythyr o'i eiddo at Whitefield, Chwefror 12, 1743. Meddai: "Y mae yr Arglwydd yn bendithio y brawd Herbert Jenkins yn fawr. Gwelais ef yr wythnos hon, ar ei ddychweliad o Siroedd Penfro, Morganwg, a Chaerfyrddin. Y mae yn cael ei arddel, a'i hoffi; ac y mae galw cyffredinol am dano; ac oni fydd ei alwad i swydd Wilts yn bur eglur, nid wyf yn meddwl y dylai fyned, oddieithr yn achlysurol, yn enwedig gan fod y brawd Adams yn dyfod yn mlaen mor ddymunol.

Ymddengys, modd bynag, mai llefau y brodyr Saesnig a orfu, oblegyd yn eu mysg hwy y treuliodd Herbert Jenkins y rhan fwyaf o weddill ei oes. Yn *Hanes Bywyd yr Iarlles Huntington*, dywedir iddo ymuno a chymdeithas Mr. Wesley yn 1743, ac iddo deithio yn y cyfundeb hwnw am rai blynyddau gyda dyhewyd a llwyddiant; ei fod yn bresenol yn ail gynhadledd y Wesleyaid, a gynhaliwyd yn Mryste yn 1745, ac y ceir ei enw yn olaf ar restr y pregethwyr teithiol. Ond nid yw yn

ymddangos fod y nodiad yn hollol gywir. Nid ymwahanasai Herbert Jenkins oddiwrth ei hen frodyr, er iddo lafurio yn mysg y Wesleyaid am beth amser. Yn mhellach yn mlaen, dywedir yn y cofiant iddo ymuno drachefn a Mr. Whitefield, a llafurio gyda Cennick ac eraill yn Nghyfundeb y Tabernacl, a'i fod yn pregethu llawer yn Nghymru. Cawn ef mewn cymdeithasau perthynol i'w gyfundeb ei hun yn Mryste, Mawrth 20, 1744. Y mae llythyr o'i eiddo at Howell Harris, dyddiedig Ebrill 11, 1745, ar gael yn Nhrefecca, yn dangos ddarfod i Herbert Jenkins oeri rhyw gymaint at y Methodistiaid, ac at Harris ei hun. Achwyna yn y llythyr nad oedd Harris yn teimlo ato fel cynt, a'i fod wedi dwyn cyhuddiadau pwysig yn ei erbyn. Sef yn (1) Nad ydoedd ei holl galon ynglyn wrth yr achos. Gwada hyn yn hollol, ond dywed yr ymddengys iddo fod Harris yn nesu yn rhy agos at y Morafiaid, a'i fod yntau yn eiddigus o'r herwydd. (2) Nad ydoedd yn cymeradwyo y trefniadau Methodistaidd a wnaed yn y Gymdeithasfa. Ateba ei fod yn cydweled a'r seiadau preifat, yn y rhai yr ymgynullai yr aelodau i weddïo, ac i ganu, ac i adrodd eu profiadau; fod y cyfryw gyfarfodydd wedi profi yn nodedig o fendithiol; ond nad oedd yn cydweled a gosod ymwelwyr dros y seiadau, ac mai goreu pa gyntaf y byddai hyny yn darfod. (3) Ei fod yn aros gyda y Methodistiaid, er yn anghytuno a'u trefniadau, gyda'r bwriad o ymadael yn mhen amser, a thynu y bobl ar ei ol. Y mae yn gwadu y cyhuddiad hwn yn y modd mwyaf diamwys. (4) Ei fod mewn ystyr yn ddyn gwahanol, ac yn teimlo yn wahanol at Howell Harris. Addefa fod peth gwir yn hyn: "Unwaith," meddai, "yr oeddwn yn eich gwneyd yn rheol cred ac ymddygiad; tybiwn eich bod yn anffaeledig. Ond yn awr yr wyf yn ei theimlo yn ddyledswydd arnaf i beidio canlyn neb, ddim cymaint a cham, ond i'r graddau y mae efe yn canlyn Crist." Gorphena ei lythyr trwy ddweyd ei fod yn parchu Harris yn fawr, fel un oedd yn Nghrist o'i flaen ef, ac fel un a anrhydeddasid gan yr Arglwydd, trwy gael ei wneyd yn offeryn i ddychwelyd llawer o eneidiau.

Nid yw yn ymddangos i Howell Harris ddigio o herwydd y llythyr, ond yn hytrach i hyn glirio i ffwrdd lawer o'r niwl a orweddai rhyngddynt. Yn 1745, penodwyd Herbert Jenkins i wasanaethu yn y Tabernacl, fel olynydd i Harris, hyd Chwefror y flwyddyn ddilynol. Mewn llythyr arall at Howell Harris, hysbysa iddo lawn fwriadu myned i'r athrofa, a gedwid gan un Mr. Thompson, i berffeithio ei hun yn mhellach mewn Lladin a Groeg; ond er cynyg droiau, i gynifer o anhawsderau gyfodi ar ei ffordd, fel yr oedd yn argyhoeddedig nad ewyllys Duw oedd iddo fyned. Ddarfod i Mr. Stephens, gweinidog yr Annibynwyr yn Plymouth, ei anog i fyned i Gaerloyw, a chymeryd trwydded fel pregethwr Ymneillduol; fod y brawd Adams wedi gwneyd felly, gan gael trwydded, a myned i Orllewin Lloegr i lafurio; ond nas gallai efe feddwl gwneyd peth o'r fath heb ymgynghori yn gyntaf a'r Gymdeithasfa. Gyda golwg ar gael ei ordeinio yn Eglwys Loegr, ei fod yn awr yn gwbl ddiobaith. Buasai y dydd blaenorol gydag Esgob Bryste, ac yn dweyd ei holl hanes wrtho; gwrandawodd yr Esgob ef yn amyneddgar, ac ymddygodd ato yn foesgar, gan awgrymu iddo na fyddai fawr gwrthwynebiad i'w ysgolheigiaeth. Ond yr oedd Methodistiaeth Herbert Jenkins ar ei ffordd. Dywedodd yr Esgob wrtho y byddai yn anhawdd iddo gael teitl, a chael esgob a'i hordeiniai; ac hyd yn nod pe y caffai hyn, y gwneyd yr arholiad yn fwy caled iddo am ei fod yn Fethodist. Diwedda ei lythyr gyda'r geiriau hyn: "Yr wyf yn gobeithio y bydd i fy mrawd anwyl weddïo trosof. O! pan fyddoch agosaf at yr Oen, erfyniwch arno am arwain ei blentyn yn ei holl ffyrdd."

Fel yr ofnai, methiant a fu pob ymgais o'i eiddo i gael urddau yn yr Eglwys Sefydledig. Mewn canlyniad, cawn ef yn bwrw ei goelbren gyda'r Ymneillduwyr, ac yn y flwyddyn 1749, urddwyd ef yn weinidog ar eglwys Annibynol Maidstone, lle y llafuriodd, gyda mawr lwyddiant, am bedair-blynedd-ar-hugain. Bu farw yn anterth ei boblogrwydd, Rhagfyr 11, 1772, yn 51 mlwydd oed. Y mae yn sicr fod Herbert Jenkins yn ddyn gwych, yn bregethwr hyawdl, ac yn llawn o yni; a phe y gwelsai y Methodistiaid eu ffordd yn rhydd i'w ordeinio, ni fuasai byth yn gadael y Cyfundeb. Cyfansoddodd amryw emynau, ac y mae un emyn o'i eiddo ar gael yn awr. Cynwysa bump o benillion ar "Gynydd Gras." Ymddengys iddo hefyd gyfieithu amryw o emynau John Cennick, y rhai, gydag eiddo David Jenkins, ei frawd, a argraffwyd dan yr enw, "*Hymnau ar*

*amryw ystyriaethau*, gan amryw Awdwyr, Bristol, 1744."

Nid yw enw James Ingram i'w gael yn nghofnodau Trefecca, ond y mae yn sicr ei fod yn bregethwr teithiol o gryn enwogrwydd. Nid yw hanes ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu genym; ond ymddengys iddo gael ei argyhoeddi trwy Howell Harris. Yn fuan, gwnaeth Harris ef yn was ac yn olygwr ar ei eiddo yn Nhrefecca; a throdd y gwas, gan ganlyn ei feistr, i gynghori. Y llythyr cyntaf oddiwrtho sydd genym, ysgrifenwyd ef at Harris, rywbryd yn y flwyddyn 1744, o garchar Aberhonddu. Cawsai Ingram ei ddal er mwyn ei orfodi i ymuno a'r fyddyn. Dyma un o ffurfiau yr erledigaeth yn erbyn y Methodistiaid, a ddygid yn mlaen gan offeiriaid a boneddwyr y dyddiau hyny, sef carcharu y cynghorwyr, a'u gorfodi i fyned yn filwyr, neu i ymuno a'r *militia*. Cawn bedwar cynghorwr yr un pryd, yn y flwyddyn 1745, gyda'r fyddyn yn nhref Caerloyw. Ond i ddychwelyd at James Ingram. Yn ei lythyr o'r carchar, dywed: "Gyda chywilydd yr wyf yn cyffesu ei bod yn isel arnaf neithiwr; ond y boreu heddyw galluogwyd fi i lefaru ar y geiriau hyny: 'Yn ol dy ddydd y bydd dy nerth.' Cefais ryddid neithiwr i esbonio y ddeuddegfed benod o'r Datguddiad, am o gwmpas awr; parheis yn hwy heddyw, gyda chymorth anghyffredin. Yr oedd fy enaid yn y nefoedd; yn enwedig pan oeddwn yn gweddïo drosoch chwi, a thros y cyfeillion. A chwedi hyny, pan y daeth fy nhad, a Sali (ei wraig), gweddïais gyda phleser mawr. Yr wyf yn erfyn arnoch berswadio Sali, yr hon sydd yn benderfynol o ddyfod gyda mi; ond yn sicr, nid yw yn iawn iddi wneyd, er fod ymadael a hi i mi fel pe y rhwygid asen o'm hochr." Prin yr oedd yr offeiriaid yn manteisio wrth garcharu James Ingram; yr oedd cynghori yn llosgi fel tân yn ei yspryd, a gwnai hyny yn y carchar, i'r rhai, fel yntau, a gawsent eu dal, er mwyn eu gorfodi i ymuno a'r fyddyn.

Bu Mr. Marmaduke Gwynn yn gwneyd ei oreu i'w gael yn rhydd, eithr methiant a fu yr ymgais. Noddfa olaf pob Methodist gorthrymedig oedd yr Iarlles Huntington, ac ati hi yr apeliodd Howell Harris ar ran ei was. Y mae llythyr Ysgrifenydd yr Iarlles, a anfonwyd mewn atebiad at Harris, Mehefin 13, 1744, ar gael. Dywed: "Ein hunig ffordd i gynorthwyo Mr. Ingram yw trwy apelio at Iarll Stair, y prif gadfridog; ac ni fedd efe awdurdod dros y swyddogion gwladol, eithr yn unig y rhai milwrol. Felly, os nad yw Ingram wedi cael ei roddi i fynu i'r awdurdodau milwrol, nis geill yr Iarll wneyd dim drosto. Cawsom ddwy esiampl o diriondeb a thegwch ei arglwyddiaeth yn ddiweddar. Pan y darfu i mi, fel goruchwyliwr yr Iarlles, brofi i'w foddlonrwydd fod y ddau y dadleuwn drostynt yn bregethwyr Methodistaidd, er heb fod mewn urddau, a'u bod wedi cael eu dirwasgu i'r fyddyn trwy falais a thwyll yr offeiriaid, a'r *churchwardens*, a'r oferwyr, efe a ryddhaodd un o honynt yn uniongyrchol, ar yr amod iddo dalu i lawr yr arian, a'r costau yr aethai y gatrawd iddi ynglyn ag ef; yr hyn a wnaed ar unwaith. Ac am y llall, cafwyd dyn cryf i gymeryd ei le. Felly, chwi a welwch, y rhaid i chwi anfon pob manylion am Ingram, a phrofi nad yw yn syrthio tan y ddeddf seneddol ddiweddaf, gan ei fod yn was i chwi, ac yn edrych ar ol eich eiddo, yr hwn ydych yn cadw tŷ, a'r cyfryw dŷ yn eiddo i chwi eich hun, a'ch bod wedi cael addysg dda yn yr ysgolion ac yn y brifysgol, a'ch bod yn parhau i ddilyn eich efrydiau. Nid rhaid i chwi ddweyd eich bod yn bregethwr Methodist. Ac os gellwch ychwanegu eich bod yn *freeholder*, goreu oll; a bydd yn barod o'ch plaid i gael eich ryddhau, pe y rhoddent mewn gweithrediad eu bygythion mileinig yn eich erbyn chwi. Rhaid i chwi nodi hefyd a pha gatrawd y cysylltir Ingram; pwy yw ei gadben, a'i filwriad, a rhaid i chwi addaw naill ai talu yr arian a'r costau i'r gatrawd, neu fod y dyn yn barod i'w gynyg yn ei le."

Teifl y llythyr hwn ffrwd o oleuni ar y modd yr ymddygid at y Methodistiaid. Gwelwn (1) Fod y cynghorwyr yn cael eu gorfodi i ymuno a'r fyddyn. (2) Yr ystyrid eu cael yn rhydd trwy dalu arian, neu gynyg dynion eraill yn eu lle, yn ffafr. (3) Na cheid y ffafr hon heb apelio at yr awdurdodau milwraidd uchaf. (4) Nad oedd Howell Harris ei hun, er yn dal eiddo rhydd-ddaliadol, yn ddiberygl o gael ei bresio. (5) Mai yr offeiriaid, a'r rhai oeddynt yn ufudd weision iddynt, oedd wrth wraidd y cyfan. Pa fodd bynag, daeth Ingram yn rhydd. Ysgrifena at Howell Harris, Mehefin 19, 1744: "Gallaf eich hysbysu fy mod allan o garchar Aberhonddu er ys pythefnos, ar yr amod fy mod yn rhoddi fy hun i fynu yno pan ddaw y swyddog. Yr oeddwn yn rhy fyr

i dir-filwr, a chedwir fi i fod yn fôr-filwr, er fy mod yn rhy fyr i hyny yn ogystal, gan nad wyf ond pum troedfedd a dwy-fodfedd-a-haner o hyd. Ni wn ddim am yr amser, na'r llong yn mha un y cymerir fi i ffwrdd, na pha un a gymerir fi o gwbl. Y mae amryw ynadon, a Syr H. H., aelod seneddol, wedi addaw gwneyd eu goreu i'm cael yn rhydd. Y mae eraill yn rhuo fel llewod. Eithr rhuent hwy; Duw sydd yn teyrnasu. Pregethais, yn gyffredin, dair gwaith y dydd yn ystod y tair wythnos y bum yn y carchar. Yr wyf yn awr ar fy nghylchdaith yn Sir Henffordd. Anerchwch bawb sydd yn caru llwyddiant Seion yn fy enw. Eich tlawd ac anheilwng was, ond trwy ras, eich dedwydd frawd, JAMES INGRAM." Tebygol mai yn rhydd, ac yn pregethu Crist, y bu o hyn hyd ddiwedd ei oes. Yn Gorph. 28, 1744, ysgrifena Benjamin Cadman at Howell Harris gyda golwg arno: "Cafodd y brawd Ingram, pan oedd ddiweddaf yn Nantmel, alwad i fyned trosodd i Drefaldwyn. Atebai ef nad oedd ganddo awdurdod arno ei hun, ac nas gallai fyned heb eich caniatad chwi. Yr ydym yn dymuno arnoch dalu ymweliad â ni, os gellwch; os na ellwch, ar i chwi roddi rhyddid i'r brawd Jemmi. Ingram i ddyfod." Hydref, yr un flwyddyn, ysgrifena John Sparks at Howell Harris o Hwlffordd: "Neithiwr, pregethodd y brawd Ingram yn fy hen bwlpud i yma. Llefarai yn felus ac yn gysurlawn oddiar y geiriau: 'I chwi y rhai sydd yn credu y mae yn urddas.' Daethai llawer i wrando, a gobeithiaf i rai glywed mewn gwirionedd." Yn Ionawr, 1745, cawn yr hen gynghorwr, John Richard, Llansamlet, yn ysgrifenu: "Mi a fum gyda fy mrawd James Ingram yn Newton, yn ei wrando yn llefaru; daethai llawer o bobl i'w wrando, a gallaf ddweyd trwy brofiad ddyfod o'r Arglwydd yno i'n cyfarfod. Bendigedig a fyddo ei enw ef. Amen. Yr wyf yn credu i'r odfa gael ei bendithio i agor calonau rhai i genhadon Duw, os nad i Dduw ei hun; canys chwi a ryfeddech y fath dynerwch oedd yn eu hysprydoedd. Gosodwch ar y brawd Jemmi i fyned yno mor fynych ag y gallo, canys yr wyf yn credu pe y byddai iddo fyned yno i aros am wythnos, y byddai i'r holl fro gael ei hagor i dderbyn cenhadau yr Arglwydd. Yr wyf yn teimlo fy enaid fel llew am ysglyfaeth, am gael yr eneidiau hyny oddi tan lywodraeth Satan." Y mae yn amlwg oddiwrth y llythyrau hyn a'u cyffelyb fod James Ingram yn dra phoblogaidd fel cynghorwr.

Tua chanol haf 1745, tybia fod Howell Harris wedi cael ei anfoddhau ganddo, oblegyd ei ddiofalwch. "Fel yr oeddwn yn dyfod o Erwd," meddai, "daeth i'm meddwl mai gwell fyddai i mi aros mwy gartref, gan fy mod i, a'm ceffyl, a'm golchiad, yn dra chostus i chwi, tra nad wyf o fawr gwasanaeth yn Nhrefecca. Eto, er mai prawf o falchder fyddai i mi dybio y gallwn gyffroi pobl anffrwythlawn y sir hon, yr wyf yn gostyngedig dybio fod gan yr Arglwydd genadwri atynt i'w hanfon drwof fi. Dynoethwyd braich yr Arglwydd tra y pregethwn yn ngwyl Aberedw; darfu i un o brif ddynion yr wyl dori ei goes; a syrthiodd un arall, cymydog i ni, wrth ddychwelyd o wyl arall, dydd Sul diweddaf, oddiar ei geffyl, a bu farw yn y fan." Pa gysylltiad oedd rhwng pregethu Ingram a gwaith y dyn yn tori ei goes, ni ddywed; y mae yn fwy na thebyg yr edrychai ar y ddamwain fel barn Duw. Modd bynag, adferwyd cyd-ddealltwriaeth yn fuan rhwng Ingram a'i feistr. Cawn amryw lythyrau o'i eiddo at Howell Harris gwedi hyn, yn mha rai y dengys awydd am ymroddi i'r gwaith Saesnig. Eithr cyn yr ymraniad yr ydym yn colli golwg arno yn llwyr. A fu efe farw yn gymharol ieuanc, neu ynte, a ymsefydlodd fel gweinidog Ymneillduol ar ryw eglwys yn Lloegr, nis gwyddom.

Ceir nifer o gyfeiriadau yn nghofnodau Trefecca, ac yn llythyrau Howell Harris, at James Beaumont, cynghorwr yn Sir Faesyfed. Ymdddengys mai yn Gore, lle yr oedd hen eglwys Ymneillduol, ac yn yr hwn le hefyd y bu seiat gynes gan y Methodistiaid, y preswyliai. Dywedir ei fod yn ymadroddwr gwresog. Rhaid yr ystyriai Howell Harris ef yn mysg yr enwocaf o'r cynghorwyr, oblegyd enw Beaumont yw yr uchaf ar y rhestr bron yn ddieithriad, oddigerth eiddo Herbert Jenkins. Cafodd ei dderbyn i undeb y Gymdeithasfa fel cynghorwr cyhoedd yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford. Yn Nghymdeithasfa Fisol Glanyrafonddu, cafodd ei benodi, gyda Howell Harris a Herbert Jenkins, i fod yn ymwelydd cyffredinol dros yr holl seiadau. Yn ail Gymdeithasfa Watford, gwnaed ef yn arolygwr dros seiadau Siroedd Maesyfed a Henffordd. Profa y llythyr canlynol, o eiddo Howell Harris ato, pa mor uchel y meddyliai y Diwygiwr o

Drefecca am dano, a pha mor gynhes oedd y lle a feddai yn ei serchiadau. Y mae wedi ei ddyddio Gorph. 9, 1743: "Fy Mrawd Anwyl, ac agos iawn, Beaumont. Dal yn mlaen i ymladd; y mae y frwydr wedi ei henill; wele, y mae yr Iesu yn dangos y goron a bwrcaswyd ganddo. Dos rhagot, tydi filwr dewr; ni saf dim o'th flaen, oblegyd y mae Crist o'th ochr. Gwna ei glwyfau gwaedlyd ef lanw dy holl raid; ïe, pe y gwnai angau ac uffern rwystro ar y ffordd. Clyw! y mae yr Iesu yn galw; bydded i James ufuddhau. Efallai y câ y llythyr hwn fy anwylaf frawd, a'm hagosaf gyfaill, yn flin arno ei hun, ac yn gruddfan am ryddid. Wel, cymer yr Iesu dy faich i ffwrdd; ac hyd hyny efe a'th gynal di dano, gan dy gymeryd yn llwyr o fysg pethau amser, a dangos i ti bethau na welodd llygaid eu cyffelyb. Y pryd hwnw cofia am dy frawd tlawd, ffol, drygionus, a phechadurus, a ddymunai rodio yn Nghrist. Y mae yr Arglwydd wedi gweled yn dda yn wastad ymostwng i ddyfod i'n plith pan fydd ei ragluniaeth yn ein dwyn yn nghyd. . . Yr wyf yn mawr hiraethu am weled fy anwyl gydfilwr yn fflamio fwyfwy mewn zêl dros yr Oen; y mae pob gras a dawn a roddir i chwi yn mwyhau fy hapusrwydd. Yn fuan, ni a gyfarfyddwn draw, yn mysg y llwyth adeiniog, lle y bydd pechod a gofid wedi eu dinystrio. Yn sicr, nis gall neb yno glodfori rhad ras, a chariad arfaethol, yn uwch na ni, na chyda phereiddiach sain. Ydwyf, fy anwylaf frawd, a'm cydddinesydd, yr eiddot byth yn yr Oen, How. HARRIS."

Dengys y llythyr hwn anwyldeb diderfyn Harris at James Beaumont. Y mae yn sicr ei fod yntau yn ddyn beiddgar, nodedig o ddiofn, ac agos mor egniol a Harris ei hun gyda theithio a phregethu. Rhydd y difyniad canlynol o lythyr a ysgrifenodd at Harris, Awst 2, 1742, olwg ar y dyn: "Y mae llawer dan argyhoeddiad yn Llanybister, Meddigre, Llanddewi, a Maesgwyn, lle y pregethais ddwy waith gyda nerth. Yr oedd y diafol yn rhuo ei oreu. Bendigedig fyddo Duw, y mae teyrnas yr un drwg yn cwympo i lawr bendramwnwgl o gwmpas ei glustiau. Felly nid rhyfedd ei fod yn rhuo, gan fod ei amser mor fyr. Bydded i'r Duw tragywyddol ddryllio ei deyrnas fwyfwy, er mwyn Iesu Grist. Amen." A yn mlaen i ddweyd fod drws newydd yn ei blwyf ef wedi cael ei agor i'r efengyl, lle y pregethodd y noson cynt, tan arddeliad amlwg; fod y *churchwarden* a'i deulu yn y cyfarfod; i lawer gael eu cyffroi; ac ar y terfyn i'r *churchwarden* ei wahodd i'w dŷ, ac arlwyo gwledd iddo. Pregethodd dranoeth yn yr un lle; yr oedd y swyddog eglwysig yno drachefn, a theimlodd dan y Gair i'r fath raddau, nes y bu raid iddo eistedd i lawr, a gwaeddu allan. Yr oedd rhai o'r teulu hefyd yn wylo dros y lle. Diwedda ei lythyr trwy ddweyd fod yr Arglwydd wedi ei fendithio yn rhyfedd yn mysg pobl Maesyfed, a bod ei ddau frawd, a'i chwaer fechan, yn rhodio yn ostyngedig gerbron yr Arglwydd. Nid bob amser yr oedd swyddogion eglwysig mor dyner o hono. Cymerer y difyniad canlynol a ysgrifenodd i Lundain at Mr. Grace, Tachwedd 29, 1742: "Bum yn ddiweddar yn Siroedd Brycheiniog, Henffordd, a Morganwg. Yn Sir Forganwg, yr oedd Duw gyda mi yn rhyfeddol; gellid meddwl fod teyrnas y cythraul yn syrthio; ni chefais y fath daith erioed o'r blaen, bendigedig fyddo fy anwyl Iachawdwr. Aethum yn ddiweddar i wylnos a gynhelid yn y wlad. Gafaelodd offeiriad y plwyf ynof, gan fygwth fy rhoddi yn y stocs. Atebais inau i mi fod yn y stocs o'r blaen o herwydd yr un peth, a'm bod yn foddlon cael fy rhoddi ynddynt eto. Ni chyflawnodd ei fygythiad, ond cadwodd fi yno am beth amser, nes y gwaredodd yr Arglwydd fi o'i law. Aethum i dŷ ychydig ffordd o'r lle, a phregethais i nifer o eneidiau tlodion, y rhai a'm canlynasent o'r fan lle y'm cymerasid yn garcharor. Y mae yr Arglwydd yn rasol iawn i gynghorwyr tlawd Maesyfed. Y mae yn agor eu geneuau yn rhyfedd mewn ffeiriau a marchnadoedd."

Cafodd James Beaumont ei ran o erlidiau. Rhydd y llythyr dilynol, a ysgrifenwyd at Howell Harris, rywbryd yn y flwyddyn 1744, hanes ei ymweliad ef, a'r hen gynghorwr William Evans, Nantmel, â rhan o Sir Drefaldwyn: "Pan aethum i Lanidloes, rhoddodd boneddiges o'r lle genad i mi bregethu dan neuadd y dref. Ond gyda bod y bobl yn dechreu ymgasglu, daeth y *churchwarden*, gan beri terfysg mawr. Ymddengys fod ganddo awdurdod oddiwrth ganghellydd yr esgobaeth i'm rhwystro i lefaru yn y dref. Pan ddaeth yn agos ataf, gofynodd: 'Trwy ba awdurdod yr ydych yn pregethu yn y lle hwn?' Atebais inau mai trwy awdurdod Gair Duw. Ond ni ofalai efe am y

pethau a berthyn i Dduw, eithr yn hytrach pa fodd y gallai fy nhynu i lawr o'r lle y safwn arno. Pan welais ei fod yn benderfynol o'm rhwystro, dywedais wrtho fy mod yn barod i ufuddhau i holl gyfreithiau y tir, yn wladol ac yn eglwysig. Dechreuodd geisio fy arwain ymaith fel carcharor; tynais inau fy oriawr allan er gweled pa awr o'r dydd ydoedd; ar hyn pallodd calon y dyn o'i fewn, newidiodd ei wedd, a chyfnewidiodd o ran ei leferydd. Dywedodd ei fod yn fater cydwybod ganddo i fy rhwystro, gan fod y canghellydd wedi ei orchymyn yn gaeth na chaffai neb bregethu yn y dref; ac os pregethai rhywun ar iddo ei gymeryd yn garcharor. Ond yn lle fy nghymeryd i fynu, aeth ymaith, gan ddymuno yn dda i mi.

"Yn bur fuan, dychwelais i'r lle yr oeddwn i bregethu, a rhoddais allan air o hymn. Trwy amser y canu yr oedd pob peth yn dawel; ond pan aethum i weddi, daeth yr yswain, gan ganu yn ei gorn hela, a galw ynghyd y bytheuaid bychain (*beagles*)." Ymddengys mai y werinos derfysglyd a olyga wrth y *beagles;* ac mai siarad yn ffugrol y mae. "Ymddangosent," meddai, "fel cŵn, yn barod am eu hysglyfaeth. Ond ni oddefodd yr Arglwydd iddynt fy nghamdrin yn mhellach na fy ngorchuddio drosof a thom, ac wyau. Rhegent y collent eu bywydau cyn y cawn bregethu yn y dref. Aethum inau i gwmyn cyfagos, ond y tu allan i gylch y gorfforiaeth, a chanlynodd llawer o bobl. Gwnaeth yr Arglwydd fi yn gryf, ac yn ddisigl, a rhoddodd i mi i lefaru ei air gyda hyfdra, ac nid oedd fy llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Methais a phregethu yn Nhrefeglwys, oblegyd ystorm enbyd o wynt a gwlaw. Llechai ŵyn Crist o dan berth yn ymyl y fan y trefnasid i mi lefaru; ond treiddiai y gwlaw trwy y llwyni, ac yr oedd y creaduriaid truain yn oerion ac yn wlyb. Gan nad oedd cyfaill i'n derbyn, meddyliasom am fyned i dafarndy, ryw haner milltir o'r lle. Yno, yn y gwesty, cynyddodd y bobl. Erlidwyr oedd y tafarnwr, a'i wraig. Gofynasom ganiatad i ganu hymn, a chawsom; galluogodd Duw ni i ganu a'r yspryd ac a'r deall. Gwedi canu clodydd ein Prynwr, cymerais ryddid i gynghori ac i weddïo.

"O gwmpas deuddeg o'r gloch dranoeth aethom i'r Drefnewydd, a chauodd y trigolion o'n cwmpas ar bob tu. Lledent eu safnau arnom, ac ysgyrnigent ddanedd, fel llew parod am ei ysglyfaeth. Dywedodd Person y dref wrth ei ysgolheigion, pwy bynag o honynt a'n curai waethaf, y caffai fwy o ffafr gydag ef mewn cysylltiad ag addysg. Ffordd ryfedd o bwrcasu dysg, sef ei brynu a gwaed! Gwnaed yr ymosodiad cyntaf arnaf gan y menywod, y rhai a wlychent eu ffedogau yn nghenel y cŵn, er mwyn dwbio fy wyneb a'r budreddu aflan. Safai y brawd William Evans yn fy ymyl, gan geisio fy nghysgodi oddiwrth yr ergydion ar fy nghorph eiddil; ond yn ofer. Curent eu ceffylau, gan geisio gyru trosom. Codasant i fynu fath o gert, neu chwerfan, fel y syrthiai arnom, ac y rhoddai derfyn ar ein hoedl. Yr oedd y cerig a hyrddid atom yn myned gyda'r fath ruthr, fel y treiddient trwy glawdd, oedd ryw gymaint o bellder. Fel hyn y parhaodd y werin derfysglyd i'n baeddu yn y modd mwyaf barbaraidd, hyd nes i un o honynt fy nharo, fel y llewygais. Pan welsant nas gallwn ddal mwy, taflodd rhai o honynt eu harfau i lawr, gan ddweyd fy mod wedi cael digon. Daliai y brawd Evans fi yn ei freichiau hyd nes y daethum ataf fy hun, yna aeth i chwilio am fy ngheffyl, yr hwn a yrasid ymaith gan yr erlidwyr. Fel y safwn wrthyf fy hun, daeth dynes annhrugarog, gan geisio fy nharo a phren ysgwâr, ond gwelodd y brawd Evans hi, a chyfryngodd rhyngof a'i hamcan gwaedlyd. Erbyn hyn yr oeddwn wedi fy ngorchuddio drosof a thom ac a gwaed, ac mor wan, fel nas gallwn sefyll heb gymhorth. Tra y ceisiai fy nghyfeillion fy nghynorthwyo allan o'r llaid, i ba un y cawswn fy nhaflu, daeth benyw, a thaflodd ddyrnaid o dom i'm safn, yr hyn a gymerth ymaith fy anadl, yn mron. Gwaedais tros ddwy filltir o ffordd, ar ol cael ymwared oddiwrth fy erlidwyr; a phan aethum i ddiosg fy nillad, cefais fod fy mhen, a rhanau o'm crys, fel pe y baent wedi eu trochi mewn gwaed. Wedi cael plastr i fy mhen, ac ymborth i fy nghorph, gweddïais ar fy Nhad nefol am faddeu iddynt, ac yr oeddwn yn ddedwydd o ran fy meddwl Dyma y derbyniad a gefais gan bobl y Drefnewydd. Yr wyf yn gweddïo ar i Dduw roddi iddynt galon newydd, er mwyn Iesu Grist. Amen, ac Amen."

Fel hyn yr ymddygid at yr hen gynghorwyr; dyma y driniaeth a dderbynient oddiwrth y bobl y ceisient eu llesoli yn yr ystyr uchaf. Ond er llid y personiaid, a chynddaredd y dorf, ni lwfrhaent; aent rhagddynt gydag yspryd diofn i gyhoeddi

efengyl gras Duw i bechaduriaid. Ni chythruddwyd hwynt ychwaith fel ag i geisio dial eu camwri; yn hytrach, fel Stephan, y merthyr Cristionogol cyntaf, ac fel yr Arglwydd Iesu ei hun, medrent weddïo dros eu herlidwyr yn eu gwaed. Dyma wroniaid na fedr y byd ddangos eu rhagorach.

Yn mhen peth amser aeth Beaumont drosodd i lafurio yn Lloegr. Ysgrifena at Howell Harris, Ebrill 11, 1745, i ddweyd ei fod yn bwriadu myned tua Bath a Llundain. Achwyna hefyd yn y llythyr hwn fod oerfelgarwch wedi codi rhwng Harris ag ef. Pa beth oedd achos yr oerni nis gwyddom; tueddwn i feddwl mai gwahaniaeth barn ar ryw bwnc o athrawiaeth; ond cynyddu wnaeth y pellder rhwng y ddau gyfaill, nes myned yn dra dolurus. Cawn un Rice Williams, cynghorwr yn Sir Faesyfed, yn ysgrifenu at Howell Harris, Rhagfyr 29, 1748, fel y canlyn: "Bydded i'r Arglwydd frysio eich ymweliad â ni i gadw seiat breifat. Os câ pethau fyned yn mlaen yn hir fel y maent, gellwch ffarwelio a seiat Sir Faesyfed. Y mae rhai yn ddigon hyf i daeru, os troir Beaumont allan, y bydd i liaws o'r cynghorwyr ei ganlyn, gan ei fod yn sicr o gymdeithas y sir. Y mae Beaumont yn pregethu yn ein herbyn bob wythnos. Yn awr, y mae ein seiat fechan, oedd mewn perffaith undeb, yn ferw trwyddi, ac yn llawn o zêl bartïol. Yr wyf yn ofni y canlyniadau. Anfonwyd am dano ef (Beaumont) gan James Probert, i'r Castell, nos Iau diweddaf, lle y maent yn ymgynull yn wythnosol, ond, fel ag yr wyf yn deall, heb yn wybod i'r lleill. Y mae wedi cael ei wahodd i ddod yma, hefyd, ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd; ond bwriadaf ei rwystro, gan fod Thomas James i fod yma, yr hwn sydd ychydig yn llai tra-awdurdodol. Y mae y ddadl ynghylch sancteiddhad, yr hyn (fel yr honant) nid yw ond credu syml. Ni oddefir cyfeiriad at ddyledswydd, na gorchymyn; ac nid ydynt yn credu mewn cynydd mewn gras; a chaseir gwylio ac ymprydio. Y mae Tom Sheen wedi yfed yn ddwfn o athrawiaeth Beaumont; efe yw gŵr ei ddeheulaw. Llawer o'n haelodau a gloffant rhwng dau feddwl, heb wybod pa fodd i fyned yn mlaen. Y mae ein Credo Nicea yn cael ei chashau gan ein hathrawon newyddion; honant y dylai gael ei diwygio, yn arbenig y rhan am genhedliad o'r Tad cyn dechreuad y byd."

Fel hyn yr ysgrifena Rice Williams, a rhydd ei lythyr gipolwg ar y golygiadau gwahaniaethol a ddelid gan Beaumont. Ai nid dyma wraidd y gymysgedd o Sandemaniaeth ac Antinomiaeth a ffynai am beth amser yn ardaloedd Llanfairmuallt, gwedi yr ymraniad rhwng Rowland a Harris, at ba un y cyfeirir yn *Nrych yr Amseroedd*, i'r hon y dywedir fod Thomas Sheen yn athraw? Nid yw yn debyg i James Beaumont fyw yn hir gwedi y llythyr uchod; y mae yn sicr ei fod wedi marw cyn y flwyddyn 1750. Dywedir mai cael ei daro a chareg a wnaeth pan yn pregethu yn yr awyr agored, ac i'r ddyrnod droi yn angau iddo. Y dyb yw mai yn Sir Benfro y cymerodd hyny le. Sicr yw ei fod yn ŵr ymroddgar, llawn o zêl a gwroldeb; a gofidus gorfod croniclo ddarfod iddo gyfeiliorni i raddau oddiwrth y ffydd cyn diwedd ei oes.

Y cynghorwr nesaf a ddaw dan ein sylw yw Thomas James, Cerigcadarn, yn Sir Frycheiniog. Ychydig iawn o'i hanes personol sydd genym, ond a allwn gasglu oddiwrth ei lythyrau, ynghyd a'r cyfeiriadau ato yn nghofnodau Trefecca. Ymddengys, modd bynag, iddo gael ei argyhoeddi tan weinidogaeth Howell Harris, ac iddo ddechreu cynghori ar unwaith. Y mae genym brofion y cynghorai yn nechreu y flwyddyn 1741. Mewn llythyr, dyddiedig Hydref 9, 1742, at Howell Harris, yn Llundain, dywed ddarfod iddo bregethu mewn gwylmabsant, yn Llanfihangel, y flwyddyn flaenorol, a chael ei fendithio i argyhoeddi rhyw enaid. Tybiai fod hyn yn gosod rhwymau arno i fyned i'r wylmabsant y flwyddyn ganlynol. Ceisiai y diafol ei rwystro, gan sibrwd wrtho y cai ei ladd; daeth nifer o gyfeillion ato i ddangos iddo y perygl, a gelynion i'w ddychrynu; ond ni wrandawai Thomas James; yno yr aeth, a'i fywyd yn ei ddwrn. Cyrhaeddodd Lanfihangel cyn i'r rhialtwch ddechreu; aeth y tafarnwr ato, a geiriau llawn mêl ar ei wefusau, gan geisio ganddo beidio terfysgu, ac y byddai yn dda ganddo ei weled yno unrhyw amser arall. Atebai yntau na wnai derfysgu, ond mai ei waith oedd sefyll i fynu yn erbyn teyrnas Satan; na lefarai yn erbyn dim ond pechod; ac os oedd y tafarnwr am gefnogi pechod, fod yn rhaid iddo ei wrthwynebu. Erbyn hyn, yr oedd y dorf yn dechreu ymgasglu. Daeth dynes, lawn o'r cythraul, a hyrddiodd ei hun ar ei draws, nes ei fwrw i lawr, gan ddweyd

mai ar ei thir hi yr oedd yn sefyll. "O'r goreu," atebai'r cynghorwr, "mi a safaf ar y brif-ffordd." I'r brif-ffordd yr aed, rhoddodd y pregethwr air allan i ganu, eithr y tafarnwr a ddaeth, gan regu na chaffai aros yno, a galw ar y bechgyn i barotoi'r cerig. Dyma y rhai hyny yn rhuthro yn erbyn yr ychydig saint oedd wedi ymgynull ar yr heol, a chyda mwrdd-dra yn eu hwynebau, a chan floeddio fod y brif-ffordd yn rhydd i bawb, gwthient y gynulleidfa fechan o'u blaen, fel na chaffai aros. Yr oedd pastynau yn eu dwylaw, ond, meddai Thomas James: "Mor bell ag yr wyf yn cofio, nid oedd arnom ofn. Yr oedd tân yn llosgi yn fy nghalon trwy yr amser." Yn awr y mae yn myned yn frwydr rhwng y ddwy deyrnas, pob un o'r ddwy yn ymladd a'u harfau priodol ei hun. Gwaeddodd y pregethwr am osteg, fel y gallai siarad a'r arweinydd; eithr pan y cymerodd ef allan o'r dorf, yr oedd y dyn mor wan fel y crynai yn ei wyddfod, ac aeth i ffwrdd a'i liniau yn curo ynghyd. Ail gychwynwyd yr odfa; tra y canai ac y gweddïai y saint yr oedd gweision y diafol yn taflu tom a darnau o goed atynt; gorchuddiwyd gwyneb William Evans, Nantmel, a llaid. Ond ni chafodd neb niwed; y Beibl agored, a'u dillad yn unig, a gafodd gam. A'r Iesu gariodd y dydd. Pregethodd Thomas James am awr a haner, oddiar y geiriau: "Ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi," gan argyhoeddi yr annuwiol, a chadarnhau yr ŵyn. Ar derfyn ei bregeth teimlai gariad mawr at ei elynion, a chymhellai hwynt gyda thaerni i ddyfod at y Gwaredwr, gan ddangos ei fod yn alluog i achub hyd yr eithaf. Trowyd yr wylmabsant yn gyfarfod pregethu; ac ar y terfyn aeth y tafarnwr at ŵr Duw, gan ei wahodd i'w dŷ i swpera. Diwedda Thomas James ei lythyr gyda'r geiriau: "Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant."

Yn y Gymdeithasfa gyntaf yn Watford, cafodd ei dderbyn fel cynghorwr cyhoedd, ond ni phenodwyd maes iddo i'w arolygu, oblegyd rhyw helynt ynglyn a'i amgylchiadau. Erbyn ail Gymdeithasfa Watford, ymddengys fod y rhwystr wedi cael ei symud, a chafodd yntau ei osod yn arolygwr ar seiadau Brycheiniog, oeddynt yr ochr nesaf i Drefecca i'r afon Wysg. Cyflawnodd yn ffyddlawn y gorchwyl a gawsai ei ymddiried iddo, fel y dengys yr adroddiadau a anfonodd i mewn. Bu mewn aml i helynt wrth wasanaethu praidd Duw. Mewn llythyr a anfonodd at Cennick, Mawrth 26, 1743, rhydd hanes ei ymweliad a rhyw seiat, ar gyffyniau Siroedd Maesyfed a Brycheiniog, yn nghwmni James Beaumont, a brawd arall. Er cyrhaedd y lle, rhaid oedd iddynt groesi yr afon Wy; a pherswadiodd boneddwr y badwyr i godi crogbris arnynt. Pan na thalent, gwnaed y cwch yn sicr wrth raff yn nghanol yr afon; a daeth llu o bobl i lan y dwfr, o'r Gelli a manau eraill, er cael digrifwch wrth eu gweled yn methu myned nac yn ol nac yn mlaen. Ond yr oedd beiddgarwch a dyfais yn y cynghorwyr; troisant y cwch yn bwlpud i'r Iesu; a dechreuasant bregethu i'r dorf oedd o'r ddau tu. Ffyrnigodd yr erlidwyr, ac ymroisant i luchio cerig at y llefarwyr. Eithr cadwodd Duw ei weision yn rhyfedd; ni anafwyd un o'r tri; ac ymddengys i'r odfa, na chawsai ei chyhoeddi yn mlaen llaw, fod yn foddion i achub amryw. Gwedi i'r cynghorwyr gael eu cadw uwch ben y dwfr am bump awr, yn canu, ac yn gweddïo, ac yn cynghori, caed allan nad oedd gan y cychwyr yr un drwydded; a bu dda ganddynt gymeryd y tri brawd i dir. Tybia Thomas James ddarfod clwyfo cydwybodau y cychwyr eu hunain.

Gorchuddir rhan olaf bywyd y gwas ffyddlawn hwn i Grist a thywyllwch. Y cyfeiriad olaf a gawn ato yw yn llythyr Rice Williams, Rhagfyr 29, 1748. Ni cheir ei enw yn mysg y rhai a ymlynent wrth Harris adeg yr ymraniad. Naill ai yr oedd wedi marw yn flaenorol, neu ynte bwriodd ei goelbren, yn yr argyfwng pwysig hwnw, gyda Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn. Y mae yn sicr fod Thomas James yn un o'r cynghorwyr mwyaf defnyddiol. Cyfunai yn ei dymheredd y llew a'r oen. Nid oedd arno ofn perygl; mentrai i ganol yr erlidwyr yn ddi fraw; ond yr oedd yn nodedig o dirion a gostyngedig wrth drin y praidd.

Y cynghorwr nesaf a ddaw dan ein sylw yw Thomas William, arolygydd adran o Sir Forganwg. Ychydig o'i hanes sydd ar gael; ond ymddengys iddo gael ei argyhoeddi ar daith gyntaf Howell Harris i blwyf Eglwys Ilan, yn y flwyddyn 1738, ac iddo ddechreu cynghori ar unwaith. Pan yr ymneillduodd y Methodistiaid o Watford, oblegyd cyfeiliornadau David Williams, y gweinidog, gan ymsefydlu yn y Groeswen, yr oedd Thomas Williams yn

un o'r fyntai a aeth allan. Yn Nghymdeithasfa Fisol Glanyrafonddu, a gynhaliwyd Mawrth 1, 1743, penodwyd ef i arolygu seiadau y rhan ddwyreiniol o Forganwg, can belled a Llantrisant, a chafodd hyn ei gadarnhau yn Nghymdeithasfa nesaf Watford. Y mae amryw o'r adroddiadau am ansawdd yr eglwysi, a osodasid dan ei ofal, yn awr ar gael, ac y maent yn dra dyddorol. Pan y cyfododd anesmwythid yn meddyliau cynghorwyr y Groeswen, parthed cymuno yn yr Eglwys Wladol, yr oedd Thomas William yn un o'r rhai ddarfu arwyddo y llythyr hanesyddol, a anfonwyd at Gymdeithasfa Cayo, Mawrth 30, 1745. A chan nad oedd atebiad y Gymdeithasfa yn ei foddloni, cymerodd ef, mewn undeb a William Edwards, yr adeiladydd, ei ordeinio yn weinidog i'r Groeswen, yn ol dull yr Ymneillduwyr, ac yno y bu yn llafurio, gan weinyddu y sacramentau, hyd ddydd ei farwolaeth. Nid yw yn ymddangos ei fod yn ystyried ei hun trwy hyn yn ymadael a'r Methodistiaid, o leiaf yn llwyr; ac yr oedd y Diwygwyr yn arfer ymweled a'r Groeswen ar eu teithiau fel cynt. Nid hir y bu fyw gwedi ei ordeiniad, bu farw yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Ilan, am nad oedd claddfa yn perthyn i'r Groeswen y pryd hwnw.

Am ei gyd-weinidog, sef William Edward, a elwir yn gyffredin, "William Edwards, yr adeiladydd," y mae ei hanes yn fwy adnabyddus. Cafodd ei eni mewn ffermdy bychan, yn mhlwyf Eglwys Ilan, rhwng Pontypridd a Chaerphili, o'r enw Bryn, yn y flwyddyn 1719. Efe oedd yr ieuangaf o bedwar o blant, a phan nad oedd ond dwy flwydd oed, bu farw ei dad. Ychydig o ysgol a gafodd, prin digon i'w alluogi i ddarllen ac ysgrifenu Cymraeg. Treuliodd ei faboed yn llafurio ar y tyddyn. Wrth adgyweirio y cloddiau cerig oedd ar y tir, dechreuodd ymhoffi



WILLIAM EDWARD, YR ADEILADYDD.
[*Un o'r Cynghorwyr boreuaf.*]

mewn adeiladaeth; ac yn bur fuan aeth ei glod fel gwneuthurwr cloddiau sychion dros y wlad. Wedi gweled seiri meini wrth eu gorchwyl, a sylwi pa fath arfau a ddefnyddient, teimlai ei hun yn alluog i adeiladu tai, a daeth i ragori yn y gelfyddyd. Yn agos i'w gartref yr oedd hen gastell enwog Caerphili, gyda ei furiau cryfion, a'i fŵau celfydd, yn sefyll i fynu, gan herio ystormydd y canrifoedd. Yr oedd athrylith adeiladu yn y llanc William Edward, a threuliai bob awr a allai hebgor mewn astudio nodweddion yr adeilad, ac yn fuan daeth i ddeall egwyddor bŵa (*arch*). Pan tuag un-ar-hugain mlwydd oed, gosododd weithfa haiarn (*iron forge*) i fynu yn Nghaerdydd, ac aeth i'r ysgol yno at ddyn dall, o'r enw Walter Rosser, lle y dysgodd Saesneg, ac elfenau gwyddoniaeth. Tua'r flwyddyn 1749, ymgymerodd ag adeiladu pont dros afon Tâf, yn Mhontypridd, yr hyn orchwyl a gyflawnodd gyda medr mawr. Ond yn mhen tua blwyddyn, daeth llifeiriant enbyd; cauwyd bŵau y bont gan y coed a'r llwyni a ddeuent gyda'r dwfr i lawr o'r cymoedd uwchlaw; cronodd y dwfr, a than y pwysau anferth rhoddodd y bont ffordd. Y mae yntau yn ymosod i adeiladu pont arall, ac fel na ddigwyddai anffawd gyffelyb drachefn, penderfyna ei gwneyd o un bŵa. Eithr cyn fod y bont wedi ei gorphen, darfu i'r pwysau ar y ddau pen wasgu y gareg glo allan, a syrthiodd hithau i'r afon. Ni wangalonodd William Edward; canfyddodd ble y camgymerasai; ac ymosododd i adeiladu trydedd bont, sef y bont fwyaf o un bŵa yn y byd. Y mae y bont hon yn sefyll hyd heddyw, ac yn brawf o athrylith a dewrder y gŵr a'i lluniodd.

Ond a hanes grefyddol William Edward y mae a fynom ni. Argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth Howell Harris, pan nad oedd ond llanc pedair-mlwydd-ar-bymtheg oed. Ymroddodd ar unwaith i wasanaethu Crist, a dechreuodd gynghori ei gydbechaduriaid. Yn Nghymdeithasfa Watford, pan y penodwyd ei gyfaill, Thomas William, yn arolygydd, gosodwyd William Edward, fel cynghorwr anghyoedd, i fod yn un o'i gynorthwywyr. Y mae yn debyg nad diffyg dawn na chymhwysder oedd yr achos na osodwyd ef yn arolygwr, ond amledd a phwysigrwydd ei orchwylion bydol, gan ei fod, heblaw cynghori, yn cadw tyddyn, ac yn adeiladydd prysur. Prawf ei fod yn dra derbyniol yw penderfyniad Cymdeithasfa Watford, Ebrill 24, 1744, sef nad oedd y cynghorwyr anghyoedd i lefaru yn gyhoeddus, eithr yn y seiadau preifat, gyda'r eithriad o William Edward, am yr hwn yr oedd galw i Lantrisant a'r Groeswen. Cawn ei enw ef wrth lythyr cynghorwyr y Groeswen i'r Gymdeithasfa, a chafodd ei ordeinio yn weinidog yno yr un pryd a Thomas William. Ar farwolaeth ei gyfaill, daeth yn unig weinidog y Groeswen, ac yno y bu yn llafurio, gyda mawr gymeradwyaeth, hyd ddydd ei farwolaeth. Methodist yr ystyriai ei hun hyd ddiwedd ei oes. Cymerai ychydig gydnabyddiaeth gan yr eglwys am ei lafur, ond ni roddodd i fynu ei orchwylion bydol; yn hytrach parhaodd i adeiladu pontydd a thai, ac i amaethu ei dyddyn, yn ogystal a phregethu yr efengyl. Bu farw yn y flwyddyn 1789, yn dri-ugain-a-deg mlwydd oed, a chafodd ei gladdu yn mynwent Eglwys Ilan. Y mae crefydd wedi aros yn ei deulu hyd y dydd hwn. Gorŵyr iddo yw Dr. Edwards, Caerdydd, yr hwn nid yn unig sydd yn enwog fel meddyg, ond hefyd yn ŵr tra chrefyddol.

Am y tri arall o gynghorwyr y Groeswen a ddarfu arwyddo y llythyr i'r Gymdeithasfa, sef Thomas Price, John Belsher, ac Evan Thomas, nid rhyw lawer o'u hanes a wyddom. Nid oes dim ond enw Evan Thomas wedi ein cyrhaedd. John Belsher oedd y dysgleiriaf ei ddoniau o'r pump, a'r mwyaf poblogaidd. Pan y penderfynwyd yn Watford, Ebrill 27, 1744, fod un i gael ei ddewis i lwyr ymroddi i'r gwaith, er mwyn bod yn gymorth i Howell Harris, a chynorthwyo yr arolygwyr yn eu gwahanol adranau, wedi cryn ymddiddan parthed ei gymhwysderau mewnol ac allanol, syrthiodd y coelbren ar John Belsher, fel yr addasaf i lanw y swydd. Tybia y Parch. John Hughes mai ar gyfer y Gogledd yn benaf y gwnaed y penodiad hwn; ond y mae hyny yn anghywir; dywed y penderfyniad mai ei faes oedd Siroedd Mynw , Morganwg, a Chaerfyrddin. Ceir nodiad yn nghofnodau Cymdeithasfa Fisol Llanfihangel, Mai 3, 1744, yn awgrymu fod cryn betrusder wedi codi yn ei feddwl gyda golwg ar gymuno yn yr Eglwys Wladol, ond iddo addaw cadw ei amheuaeth iddo ei hun. Tua diwedd y flwyddyn 1745, neu ddechreu y ganlynol, cafodd ei benodi, gyda thri o gynghorwyr eraill, i fyned i Wynedd, er ceisio ei darostwng i'r efengyl. Dyma yr hanes olaf sydd genym am dano. A

ddarfu iddo farw yn gynar, neu ynte ymuno a'r Ymneillduwyr, nis gwyddom. Am Thomas Price, perchenog palas Watford, yr hwn a alwa Williams, Pantycelyn, yn "Price yr Ustus," nid oes llawer o hanes. Y tebygolrwydd yw iddo gael ei argyhoeddi dan Howell Harris, ac i'w dŷ gael ei daflu ar unwaith yn agored i'r efengyl. Ymadawodd yntau a chapel Watford, oblegyd heresi David Williams, gan ymaelodi gyda'r Methodistiaid yn y Groeswen. Gwnaed ef yn arolygwr ar nifer o eglwysi yn Morganwg, mewn cysylltiad â Thomas Williams, ac y mae genym nifer o adroddiadau o'i eiddo. Er iddo arwyddo y llythyr at y Gymdeithasfa, ac iddo barhau mewn cysylltiad a'r Groeswen wedi urddo gweinidog yno, Methodist yr ystyriai efe ei hun hyd ei fedd, a chyrchai y Diwygwyr i'w dŷ megys cynt. Ymddengys iddo roddi pregethu i fynu yn bur gynar. Ceir llythyr o'i eiddo at y Gymdeithasfa yn y *Weekly History*, yn deisyf cael ei ryddhau oddiwrth y gwaith. Ni rydd reswm penodol dros ei gais. Ond ymddengys nad oedd ei ddoniau mor ddysglaer a rhai o'r cynghorwyr, a'i fod yn barod yn dechreu cael ei flino gan *asthma*. Tad-yn-nghyfraith oedd i Grace Price, i'r hon y canodd Williams ei farwnad odidog; ei fab, Nathaniel, oedd ei gŵr; ac yr oedd Thomas Price yn fyw, er yn llesg ac yn gaeth gan y diffyg anadl, pan y bu ei ferch-yn-nghyfraith dduwiol farw. Profir hyny gan y penill canlynol:—

"Price y Justis, ti ge'st golled,
Rwymodd *asthma* ar dy 'stôl,
Aeth dy ferch i ganol nefoedd,
Fe'th adawyd dithau'n ol;
Aros ronyn, trwy amynedd,
Yn y dyrys anial dir,
Ti gai gyda gwraig y capten
Ganu anthem cyn bo hir."

Cynghorwr o gryn enwogrwydd, ac un a fu yn dra gweithgar yn nechreuad Methodistiaeth, oedd y Parch. Morgan John Lewis. Hanai, yn ol pob tebyg, o Blaenau Gwent, a chafodd ei argyhoeddi ar daith gyntaf Howell Harris i Fynwy, yn y flwyddyn 1738. Yn bur fuan dechreuodd gynghori, a cheir aml gyfeiriad ato yn nghofnodau Trefecca. Yr oedd yn un o'r rhai a gafodd eu penodi yn gynghorwyr cyhoedd yn Nghymdeithasfa gyntaf Watford. Yn ail Gymdeithasfa Watford, gosodwyd ef yn arolygydd ar y seiadau yn Dolygaer, Cwmdu, Cantref, Defynog, a Llywel, yn Mrycheiniog; Llanddeusant, yn Sir Gaerfyrddin, a'r oll o Fynwy, yr ochr nesaf i Gymru i'r afon Wysg. Y mae amryw o'r adroddiadau a anfonodd i mewn yn awr ar gael. Yn Nghymdeithasfa Llanfihangel, Mai 3, 1744, bu ymdriniaeth bwysig ar y priodoldeb o barhau i dderbyn y cymundeb yn Eglwys Loegr; ymddengys mai Morgan John Lewis a agorodd y ddadl, a'i fod yn gryf dros i'r Methodistiaid ordeinio gweinidogion iddynt eu hunain. Penderfynu peidio, nes cael arweiniad eglurach a wnaed, a dywedir yn y cofnodau ddarfod "i'r brawd Morgan John Lewis gyduno, mewn ffordd o oddefgarwch, i beidio symud, hyd nes y byddai i'r Arglwydd ein gwthio allan, neu ynte ddwyn diwygiad i mewn." Cymerodd ran flaenllaw yn y ddadl yn Nghymdeithasfa Llanidloes, rhwng pleidwyr Rowland a Harris, yr hon a derfynodd mewn ymraniad; ymddengys mai efe a ddygodd y pwnc i sylw. Pleidiwr Rowland oedd efe, a chyda'r Diwygiwr o Langeitho, a Williams, Pantycelyn, y bwriodd ei goelbren. Yn nghymydogaeth y New Inn, yn Sir Fynwy, y preswyliai; a chwedi yr ymraniad, i'r ddeadell fechan a ymgynullai yno, y pregethai yn benaf. Cynyddodd y gymdeithas yno yn fawr, drwy i nifer o Eglwyswyr efengylaidd, na fedrent ddyoddef gweinidogaeth anefengylaidd offeiriad Llanfrechfa, ymuno a hi; mewn canlyniad, adeiladwyd capel, ac ystabl ynglyn ag ef. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1751. Ond yr oedd yr aelodau yn analluog i gael y cymundeb; ni oddefai eu cydwybod iddynt gymuno gyda'r clerigwyr digrefydd yn y llan, ac nid oeddynt am ymuno a'r Ymneillduwyr. Yn eu cyfyngder, anfonasant ddau genad i Langeitho, i ofyn cyngor Daniel Rowland. Yntau, wedi gwrando arnynt, a dwys ystyried yr amgylchiadau, a'u cynghorodd i alw Morgan John Lewis yn weinidog iddynt, trwy ympryd a gweddi; ac ychwanegai: "Gwna gweddi y ffydd fwy o les iddo na dwylaw unrhyw esgob dan haul." Dyn nodedig o ryddfrydig oedd Daniel Rowland; nid oedd ei ymlyniad wrth yr Eglwys agos mor gryf ag eiddo Harris, ac ychydig o bwys a roddai ar ordeiniad esgobol. Derbyniwyd ei gynghor gan eglwys y New Inn. Ymgynullodd yr holl aelodau ynghyd; wedi darllen rhanau o'r Gair, a chanu, a gweddïo, mynegodd y pregethwr ei gredo ar g'oedd; yna dangosodd yr eglwys trwy arwydd ei dewisiad o hono i fod yn weinidog iddi. Yn ganlynol, cyfododd un o'r blaenoriaid, ac

mewn modd difrifol cyhoeddodd Morgan John Lewis yn weinidog dros Grist, i eglwys y New Inn, i gymeryd ei gofal yn yr Arglwydd. Dywedir yn *Methodistiaeth Cymru* mai Sulgwyn, 1756, y cymerodd hyn le; ond tueddwn i feddwl ei fod yn gynarach.

Parodd yr ordeiniad hwn, un o'r rhai cyntaf yn mysg y Methodistiaid, gyffro dirfawr. Beiai yr Eglwyswyr y peth mewn modd chwerw, am yr ystyrient waith neb yn gweinyddu y sacramentau, heb feddu ordeiniad esgobol, yn rhyfyg ac yn ysgelerder. Beiai yr Ymneillduwyr y weithred lawn mor chwerw, am nad oedd unrhyw weinidog ordeiniedig wedi bod a llaw yn yr urddiad. Yr oeddynt hwy yn eu ffordd eu hunain lawn mor gulion a'r Eglwyswyr, ac yn credu lawn mor gryf mewn math o olyniaeth apostolaidd. Meddai Morgan John Lewis, ac eglwys y New Inn, syniadau mwy rhyddfrydig, a nes at y Testament Newydd, am osodiad gweinidog ar eglwys. "Llawer o ddyeithrwch, chwerwder, anfrawdgarwch, a dirmyg, a daflwyd arnom," meddai Mr. Lewis; "Fe'n gwrthwynebwyd yn gyhoeddus y cyfle cyntaf a gafwyd. Ond y mae y ffordd yr ydym ni yn broffesu yn ymddangos i ni yn fwy cydsyniol a threfn yr efengyl, ac yn ateb y dyben yn well, ar y dewisiad cyhoeddus, neu ordeinasiwn gweinidogion. Dymunwn i'r Arglwydd ein cynorthwyo bawb i gydoddef ein gilydd mewn cariad." Gan mor gynddeiriog oedd yr ystorm a ymosodai ar eglwys y New Inn, a chan mor anwireddus a disail oedd y chwedlau a daenid am dani, ac am ei gweinidog, barnodd Morgan John Lewis yn ddoeth argraffu math o Gyffes Ffydd, yn yr hon y gosodai allan mewn modd clir yr egwyddorion a gredai.

Eglwys Fethodistaidd oedd eiddo y New Inn dros yr holl amser y bu Morgan John Lewis yn gweinyddu iddi. Yn wir, ni wnai eglwysi Ymneillduol y wlad ymgyfathrachu a hi; ni ddeuai gweinidogion yr Anghydffurfwyr yno ar unrhyw gyfrif i gyflenwi ei phwlpud; cauid hi y tu allan i'r gwersyll, yr un fath a'r gwahanglwyfus gynt yn Israel; a gellid tybio ddarfod iddi bechu y pechod anfaddeuol wrth alw gweinidog i'w bugeilio yn ol y drefn a ystyriai hi fwyaf cyson a dysgeidiaeth y Testament Newydd. Mor gryf ac mor greulon ydyw rhagfarn! Pa fodd bynag, deuai y cynghorwyr Methodistaidd yno ar eu teithiau, gan sirioli calon y gweinidog a'i gynulleidfa drwy eu hymweliad. Yno y llafuriodd Morgan John Lewis am o gwmpas pymtheg mlynedd gwedi, gyda mawr lwyddiant. Teimlodd yr holl wlad o gwmpas oddiwrth ei weinidogaeth; ymgasglai dynion i wrando arno bymtheg milltir o bellder. Eithr daeth ei wasanaeth i derfyn mewn modd hynod iawn. Y Sabbath olaf y bu yn pregethu yn y New Inn, aeth yn yr hwyr i gynal gwasanaeth crefyddol mewn ffermdy yn nghymydogaeth Pontypŵl, tua milltir allan i'r dref. Yn y tŷ lle y darfu iddo bregethu y lletyai y noson hono. Dranoeth, cyn iddo godi o'i wely, daeth perchenog y tyddyn i'r lle, a rhyw swyddog milwraidd gydag ef, a chan gyfarch gŵr y tŷ, gofynai: "Pa le y mae y pregethwr a fu yn cadw cwrdd yma neithiwr?" Atebwyd yn ofnus iawn ei fod yn ei wely. "Rhaid i ni gael ei weled," ebai'r boneddwr; "y mae arnom eisiau cael ymddiddan ag ef." Cynygiodd y gŵr ei alw i lawr atynt, ond ni wnai hyny mo'r tro i'r boneddwyr, eithr rhuthrasant i fynu y grisiau, ac i mewn â hwy i ystafell wely y gweinidog yn ddiseremoni. Yno y cysgai gŵr Duw heb freuddwydio am berygl. Tynodd y swyddog milwraidd ei gleddyf, a chan sefyll wrth ochr y gwely, a dal y cledd uwchben y pregethwr, gwaeddodd mewn llais croch: "Heretic, deffro!" Deffrodd yntau, a'r olwg gyntaf a ganfu oedd milwr yn dal arf uwch ei ben, fel pe ar fedr ei drywanu. Yr oedd yr olygfa mor enbyd, ac yn ymrithio o'i flaen mor ddisymwth, cyn iddo gael amser i ymresymu ag ef ei hun, nac i ymbarotoi ar gyfer y brofedigaeth, fel y bu yn ddigon i ysgytio ei natur o'i lle, ac i ddyrysu ei synwyr. Ymddadebrodd i raddau gwedi hyn, ond ni ddaeth byth yn alluog i bregethu. Darfu a bod yn gysur iddo ei hun, a chollodd ei ddefnyddioldeb i eraill, ac yn mhen tua blwyddyn ymollyngodd i'r bedd. Meddai y Parch. John Hughes: "O ran ymddangosiad, y gelyn a gawsai yr oruchafiaeth. Y New Inn, a Sir Fynwy, ïe, a Chymru oll, a gafodd y golled." Duwinydd gwych oedd Morgan John Lewis; meddai gydnabyddiaeth ddofn a Gair Duw, a chryn dreiddgarwch meddwl i fyned i mewn i'w ystyr. Pregethai gyda nerth a hyawdledd, a chrynai dynion tan ddylanwad ei weinidogaeth. Yr oedd yn dra difrifddwys yn wastad, a dywedir na welwyd erioed wên ar ei wyneb. Gyda hyn oll, yr oedd yn Grist-

ion pur, ac yn ddyn gwir ostyngedig. Bu farw tua'r flwyddyn 1771, wedi gwasanaethu Cyfundeb y Methodistiaid am tua deng-mlynedd-ar-hugain.


Pregethwr rhagorol, ac un a fu yn dra defnyddiol, oedd y Parch. David Williams, Llysyfronydd. Dywedir yn *Methodistiaeth Cymru* mai brodor o Landyfaelog, yn Sir Gaerfyrddin, ydoedd. Y mae yn bur sicr fod hyn yn gamgymeriad, ac mai o Dregaron yr hanai; mai yno y cafodd ei eni a'i fagu, ac y cafodd grefydd. Efe yw y Dafydd William, y cyfeiria Mr. Hughes ato fel cynghorwr, a breswyliai yn Nhregaron ar gychwyniad yr achos yno. Yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, dywedir ei fod yn Blaenpenal, a'i fod yn un o ddisgyblion Philip Pugh, ond iddo, ar doriad allan y diwygiad Methodistaidd, ymuno a Daniel Rowland yn Llangeitho. I hyn nid oes sail o gwbl; ceisir dal yr honiad i fynu yn unig ag "ymddengys;" cyfid oddiar awydd anghymesur am wneyd holl gynghorwyr cyntaf y Methodistiaid yn broselytiaid oddiwrth yr Ymneillduwyr. Y mae y tebygolrwydd yn gryf fel arall. Nid oedd David Williams ond glaslanc, dwy-ar-bymtheg mlwydd oed, pan y dechreuodd Daniel Rowland gynhyrfu; y tebyg yw ei fod yn gyffelyb i'w gyfoed, yn ddifater am Dduw a phethau ysprydol; ac mai nerth angerddol gweinidogaeth y Diwygiwr o Langeitho a'i torodd i lawr, ac a'i dygodd i feddwl am grefydd. Yn bur fuan, pan yn ngwres ei gariad cyntaf, dechreuodd gynghori, a dygodd ei ddoniau enillgar ef i sylw Rowland. Yn ail Gymdeithasfa Watford cafodd David Williams ei benodi yn arolygwr yn Sir Aberteifi; a oedd holl seiadau y sir dan ei ofal, ynte ryw gyfran o honynt, ni ddywedir. Nid yw ei enw wrth un o'r adroddiadau a anfonwyd i'r Gymdeithasfa. Pan y penderfynwyd anfon pedwar o'r pregethwyr enwocaf i Ogledd Cymru i lafurio, oblegyd fod crefydd mor isel yno, pob un o honynt i aros am chwarter blwyddyn, yr oedd David Williams yn un o'r cyfryw. Mor werthfawr oedd ei lafur, ac mor gymeradwy oedd ei weinidogaeth, fel y dywedir iddo gael gwahoddiad taer i ymsefydlu yn y Bala. Wrth deithio Gwynedd cafodd ei drin yn arw yn aml. Cawsai ei gyhoeddi unwaith i bregethu mewn tŷ bychan yn nghymydogaeth Caergwrle, yn Sir Fflint. Daethai yno yn lled gynar, ond yn min y nos, rhuthrai merch i'r tŷ, a'i hanadl yn ei gwddf, gan ddweyd fod llu o erlidwyr gerllaw. Cododd gŵr y tŷ, a chlodd y drws. Gyda hyny, dyma y dyrfa afreolus yno, ac yn nghanol rhegfeydd a swn, yn gorchymyn gyru y pregethwr allan. Ni fynai pobl y tŷ gydsynio. Darfu i'r gwrthodiad gynhyrfu yr erlidwyr yn fwy, a thyngent i'r dystryw mawr, oni wnaent yru y llefarwr allan y tynent y tŷ i lawr am eu penau. Rhedodd rhai o honynt i gyrchu trosolion, er mwyn rhoddi eu bwriad dieflig mewn grym. Penderfynodd David Williams, ar hyn, yr ai allan i'w mysg. Pan y ceisid ei atal, dywedai: "Gollyngwch fi; rhaid i mi gael myned." Allan yr aeth i ganol y dyrfa ffyrnig, a chan edrych yn ddiofn arnynt, gofynodd: "Yn enw'r Gwr goreu, beth sydd a fynoch a dyn dyeithr ar ei daith? Pa enw neu anrhydedd a gaech pe baech yn fy lladd?" Digwyddodd fod yn eu mysg ryw ddyn cryf, a rhyw deimlad o anrhydedd heb ddiffodd yn ei fynwes. Safodd hwn i fynu, a chyda llonaid ei safn o lwon, gwaeddodd: "Dyn iawn yw hwn. Mi a fynaf chwareu teg iddo." Gwelodd David Williams fod y drws wedi ei agor iddo megys yn wyrthiol i lefaru; cafodd le i sefyll arno wrth ochr y ffordd, a phregethodd gyda dylanwad mawr wrth oleu'r lloer; a diau na chuddiodd Haul y Cyfiawnder ei wyneb. Bu yr erlidwyr mor ddystaw a chŵn yr Aipht, ac ymadawsant yn heddychol. Rhydd y Parch. E. Morgan, Syston, yr hanes ychydig yn wahanol. Dywed efe ddarfod i'r erlidwyr ymaflyd yn y pregethwr, gan ei gymeryd at ryw lyn, a bygwth ei foddi. Pan ar gael ei daflu i mewn, gwaeddodd David Williams: "Bydd yn warth tragywyddol i bobl Caergwrle, os boddant hen bregethwr penllwyd, a ddaethai o eithafion y Deheudir i gyhoeddi iachawdwriaeth iddynt." A dyma y pryd, meddai Mr. Morgan, y darfu i'r dyn cryf gyfryngu rhyngddo a'r gwaethaf.

Ymddengys ddarfod i David Williams symud i Lysyfronydd, er gofalu am y mân gymdeithasau a gawsent eu sefydlu yn Mro Morganwg, ac mai gan Daniel Rowland y bu y prif law yn ei symudiad. Yn bur fuan priododd a Miss Pritchard, Talygarn, yr hon a berthynai i deulu tra chyfrifol. Pan y cyfododd awydd yn y cymdeithasau am gael rhai o'r cynghorwyr yn weinidogion, ordeiniwyd David Williams yn weinidog i eglwys yr Aberthyn. Dywedir yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* mai yn y flwyddyn 1766 y bu hyn; ond

credwn iddo gymeryd lle gryn lawer yn gynt. Wedi ceisio gwneyd Mr. Williams yn Annibynwr yn nechreu ei oes, y mae yr un llyfr yn ceisio ei wneyd yn Annibynwr o'i urddiad yn mlaen. Dywedir iddo gael ei ordeinio yn ol trefn yr Annibynwyr. Y mae hyn yn anghywir. Y mae y traddodiad am ei ordeiniad yn gyffelyb i eiddo Morgan John Lewis. Methai y ddeadell fechan yn yr Aberthyn a chael gweinyddiad cyson o'r ordinhadau gan offeiriad Methodistaidd; yr oedd Davies heb ddyfod eto i Gastellnedd, a Jones heb ddyfod i Langan; nid oedd yr aelodau yn foddlawn myned i gymuno at offeiriaid digrefydd yr eglwysi cymydogaethol, ac felly anfonasant at Daniel Rowland i geisio cyfarwyddyd. Ei gyngor ef oedd ar iddynt ordeinio David Williams. Hyny a wnaethant, a gweinyddodd yntau yr ordinhadau yn y lle hyd ddydd ei farwolaeth. Nid oes hanes i weinidogion Ymneillduol gael eu galw i gymeryd rhan yn y ddefod; y mae yn fwy na thebyg mai cynllun eglwys y New Inn a ddilynwyd. Dengys yr hanes pa mor rhyddfrydig oedd Daniel Rowland; mor llac oedd y rhwymau a'u cysylltent wrth yr Eglwys Sefydledig, a'r modd yr oedd yn gallu ymddyrchafu goruwch mân ragfarnau yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr. Yn yr un dull yn hollol yr ordeiniwyd Thomas Williams, a fu am flynyddoedd yn aelod gyda David Williams yn yr Aberthyn, yn weinidog Bethesda-y-Fro, fel y dengys cofnod yn llawysgrif yr hen fardd, John Williams, St. Athan.

Parhaodd David Williams yn Fethodist gwedi ei ordeiniad fel cynt, ac eglwys Fethodistaidd yw yr Aberthyn hyd y dydd hwn. Gweinyddai swper yr Arglwydd yno yn fisol, ac ar y cyfryw achlysuron ymgynullai ato liaws o grefyddwyr yr ardaloedd o gwmpas. Ni roddodd i fynu deithio ychwaith; mynychai y Cyfarfodydd Misol a'r Cymdeithasfaoedd; ac elai o gwmpas trwy Gymru i efengylu yr un fath a'i frodyr. Yr ydoedd yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau. A dywedir mai efe a ddysgodd ffordd Duw yn fanylach i Jones, Langan, ac a fu yn arweinydd i'r gŵr enwog hwnw mewn duwinyddiaeth. Tynerwch a nodweddai ei weinidogaeth. Nid Boanerges ydoedd, yn sefyll ar goryn Ebal, ac yn taranu melldithion uwchben anwir fyd; ond Mab Dyddanwch, yn cymhwyso y Balm o Gilead at glwyfau y rhai oeddynt yn archolledig a briw. Enillgar ydoedd o ran dawn, a melus odiaeth o ran llais. Dywed John Evans, o'r Bala, am dano: "Gŵr tirion oedd efe, mwynaidd iawn, a phregethwr hynod o iraidd a gwlithog." Gyda golwg arno ef a John Belsher, ychwanega yr un gŵr: "Bu y ddau hyn yn dyfod atom bob yn ail dros rai blynyddoedd, yn ngwyneb llawer o iselder ac anhawsderau. Nid oeddem ni ond tlodion i gyd, ac o'r braidd y gallem roddi llety a thipyn o fwyd iddynt, wedi iddynt, trwy fawr ymdrech, ddyfod atom. Byddai y brodyr yn y Deheudir yn garedig yn eu cynorthwyo, onide nis gallent dalu eu ffordd ar eu teithiau." Cafodd David Williams lawer o drafferth yn yr Aberthyn; daeth Sabeliaeth i mewn i'r eglwys, a bu yn achos llawer o ddadleu ac ymrafaelio. Ond cadwodd ef ffurf yr athrawiaeth iachus, a bu farw mewn tangnefedd, gan adael Bro Morganwg mewn galar ar ei ol. Gweddus cofnodi fod Mr. Williams yn frawd yn ol y cnawd i'r enwog fardd, John Williams, St. Athan, awdwr yr emyn ardderchog:—

"Pwy welaf o Edom yn dod?"



CAREG-FEDD
Y PARCH. DAVID WILLIAMS,
LLYSYFRONYDD.

Ychydig iawn a wyddom am William Richard, arolygwr seiadau y rhan isaf o Sir Aberteifi, yn nghyd a'r oll o gymdeithasau glàn y môr yn Sir Benfro, mor bell a Thyddewi, ond a geir yn nghofnodau Trefecca. Un o ddychweledigion Daniel Rowland ydoedd, a dechreuodd gynghori yn mron yn union wedi iddo gael crefydd. Cawn y cyfeiriad cyntaf ato yn nghofnodau Cyfarfod Misol Llanddeusant, pan y rhoddwyd nifer o seiadau dan ei ofal. Cyfeirir ato hefyd yn nghofnodau ail Gymdeithasfa Watford, lle y dywedir ei fod i aros fel yr ydoedd hyd Gymdeithasfa Dygoedydd. Yn Nghymdeithasfa Fisol Glanyrafonddu, ail-roddir seiadau Blaenhownant, Dyffryn Saith, Blaenporth, Twrgwyn, a Llechryd dan ei ofal, a gelwir ef yn "William Richard o Landdewi-frevi." A ydoedd yn preswylio yn Llanddewi-brefi ar y pryd, nis gwyddom; y tebygolrwydd yw mai oddiyno yr hanai, ond ddarfod iddo symud ei breswyl cyn hyn i gymydogaeth Aberteifi. Yn ngweithiau barddonol Williams, Pantycelyn, ceir marwnad i un William Richard, o Abercarfan, yn mhlwyf Llanddewi-brefi, yr hwn a fu farw o'r darfodedigaeth, haf 1770. Y mae amryw bethau yn y farwnad yn pleidio mai yr un ydyw a William Richard y cynghorwr. Dywed y bardd:—

> "Mae Llanfrynach wan yn wylo
> Hyd yn awr, wrth gofio am dano.'

Gorwedda Llanfrynach yn gyfagos i gydiad y tair sir, sef Penfro, Caerfyrddin, ac Aberteifi, ac felly yr oedd yn ymyl y maes a gawsai ei ymddiried i William Richard, os nad oedd yn wir yn rhan o hono. Os ydym yn gywir yn ein dyfaliad, profasai William Richard bethau cryfion ar gychwyn ei fywyd crefyddol; buasai yn neidio ac yn molianu tan weinidogaeth danllyd Rowland; a chadwodd ei goron hyd ddiwedd ei ddydd. Fel hyn ei desgrifir gan Williams:—

> "Gwelais ef ar oriau hyfryd,
> Yn moreuddydd braf ei fywyd,
> Yn molianu, yn prophwydo,
> Yn flaena' o'r werin yn Llangeitho;
> Chwys fel nentydd clir yn llifo,
> Tarth trwy ei wisgoedd tew yn suo;
> Cariad pur, gwerthfawr clir, yn gwir enynu,
> Nes oedd corph yn gorfod helpu
> Enaid allan i'w fynegu.
>
> Mi fum unwaith wrth ei wely,
> 'Roedd ei wledd fel gwleddoedd gwindy,
> A'i holl eiriau'n tarddu'n gyson,
> O grediniaeth, heb ddim ofon:
> Gwyr yn twymo wrth y siarad,
> Merched, hwythau'n wylo cariad;
> Minau f'hun, waelaf ddyn, gwanaidd, yn gwenu,
> Ac yn hyfryd eiddigeddu,
> Weled plentyn arna i'n blaenu.

Y mae y desgrifiad yn nodedig o fyw. Braidd na welwn ef yn moreuddydd ei fywyd, gyda dillad tewion, wedi eu gwneyd o frethyn cartref, yn ol arfer ffermwyr y pryd hwnw, am dano; y mae y syniadau am ogoniant y Gwaredwr a ymrithiant gerbron ei feddwl mor ogoneddus, nes y mae ei gorph yn gorfod helpu ei enaid i roddi mynegiant iddynt. Wrth ei fod yn neidio ac yn molianu, y mae chwys fel nentydd yn llifo dros ei wyneb, a'i ddillad yn myned yn wlybion am dano, fel pe buasai tarth wedi treiddio trwyddynt. A chan yn amlwg y cyfunai wybodaeth grefyddol eang, a medr mawr mewn ymwneyd a'r dychweledigion, nid rhyfedd fod seiadau glàn y môr mewn rhanau o ddwy sir yn cael eu gosod dan ei ofal. Gallwn dybio ddarfod iddo yn mhen amser symud yn ei ol i Landdewi-brefi, ac mai yno yr arhosodd hyd ddydd ei farwolaeth. Nid tawel a fu ei fywyd crefyddol yno; bu mewn dadleuon poethion; eithr safodd yn ffyddlon trwy bob anhawsder. Meddai William Williams yn mhellach:—

> "Ti, Llanddewi, fu'n agosa'
> Gneifio'r blew oedd ar ei gopa,
> Mwg a thâu fu iddo'n galed
> Yn y ffrae rhwng Twrcs ac Indiaid;
> Ond fe safodd Wil i fynu
> Pan oedd Efan laith yn methu."

Nis gwyddom beth oedd testun y ffrae, na phwy oedd y "Twrcs ac Indiaid" a'i dygent yn mlaen; na phwy oedd yr "Efan laith" a fethodd sefyll ei dir; ac ofer dyfalu yn awr. Yr hyn sydd yn bwysig yw deall ddarfod i William Richard ddyfod

> "O'r anialwch mawr i fynu,
> Heb ei ladd, heb ei orchfygu."

Gweinidog Ymneillduol, a ymunodd a'r Methodistiaid, oedd y Parch. Benjamin Thomas. Ychydig iawn o'i hanes sydd genym. Yn nghofnodau ail Gymdeithasfa Watford, cyfeirir at ddau weinidog Anghydffurfiol; un yn bresenol, sef y Parch. Henry Davies, Bryngwrach; a'r llall yn absenol, sef y Parch. Benjamin Thomas. Rhoddir eu henwau yn mysg yr offeiriaid ordeiniedig; gellid meddwl yr edrychid ar urddiad Ymneillduol fel yn hollol gyfartal i ordeiniad Esgobol; y mae enw Howell Harris yn is i lawr, sef yn mysg y lleygwyr. Rhaid nad oedd y

Tadau Methodistaidd, er eu hymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig, yn ddynion rhagfarnllyd. Yr ydym yn cael y Parch. B. Thomas yn bresenol yn Nghymdeithasfa Trefecca, haf 1743, yn gystal ac yn Nghymdeithasfa y Fenni y mis Mawrth dilynol. Yn Nghymdeithasfa Porthyrhyd, Hydref, 1744, penderfynwyd fod y brawd Benjamin Thomas i gynorthwyo Howell Harris fel arolygwr dros holl Gymru, yn lle Herbert Jenkins, yr hwn a ymroddasai i lafurio yn benaf yn Lloegr.

Teithiai Mr. Thomas lawer, trwy Ddè a Gogledd Cymru, ac ni ddihangodd rhag erlidiau, mwy na'r gweddill o'i frodyr. Cawn hanes am dano yn pregethu yn Minffordd un tro, mewn adeilad wedi cael ei drwyddedu yn ol y gyfraith i gynal addoliad. Daeth yno lu o erlidwyr, gyda ffyn mawrion yn ei dwylaw, ac i un o'r ffyn hyn yr oedd pen haiarn. Ceisiwyd taro y pregethwr a'r ffon hon, ond ar un Howell Thomas, o Blas Llangefni, y disgynodd yr ergyd ; ac yr oedd y tarawiad mor chwimwth fel y torodd y pen haiarn i ffwrdd, gan fyned dros y clawdd i'r ffos tu hwnt. Dilynodd yr erlidwyr y dorf am chwarter milltir, gan eu curo a'u baeddu yn ddidrugaredd, nes yr oedd eu gwaed yn ffrydio ar hyd y ffordd. Ymddengys, modd bynag, i B. Thomas ddianc yn gymharol ddianaf, gan ei fod yn ŵr cyflym ar ei draed. Tyner oedd nodwedd pregethu Benj. Thomas ; llifai y dagrau i lawr ei ruddiau wrth gynghori pechaduriaid. Pregethai unwaith yn y Bontuchel, yn Sir Ddinbych. Daeth dyn i'w wrando o'r enw Thomas Parry, gŵr pwyllog, tra ymlyngar wrth Eglwys Loegr, a llawn rhagfarn at y Methodistiaid. Ond cymhellasid ef gan ei frawd i ddyfod i'r odfa. "Ti gei weled, Twm," meddai ei frawd, "y bydd y dyn yn pregethu o'i galon, canys bydd ei ddagrau yn treiglo i lawr ei wyneb." Pwnc y bregeth oedd ailenedigaeth. Mawr ddymunasai Thomas Parry gael pregeth ar y mater hwn ; ond nid oedd y clerigwr a wasanaethai yn yr eglwys yn cyfeirio un amser at y mater. Eithr cafodd yn y pregethwr o'r Dè fwy na boddlonrwydd i'w gywreinrwydd, ac eglurhad ar bwnc duwinyddol ; bachodd y gwirionedd yn ei gydwybod, a daeth yn ddyn newydd o'r dydd hwnw allan. Daeth gwedi hyny yn adnabyddus fel Thomas Parry, o'r Rhewl, ac yn un o'r blaenoriaid galluocaf a mwyaf defnyddiol yn holl Wynedd. Nid ydym yn gwybod pa bryd na pha le y terfynodd y Parch. Benjamin Thomas ei yrfa. Ymddengys, pa fodd bynag, mai wrth blaid Rowland y glynodd yn amser yr ymraniad, ac iddo barhau i efengylu yn mysg y Methodistiaid hyd ddiwedd ei oes.

Yr oedd dau gynghorwr yn Sir Benfro, cyffelyb o ran enwau, y rhai y mae eu hanes wedi eu cydgymysgu yn anobeithiol yn *Methodistiaeth Cymru*. Un oedd John Harris, St. Kennox, yr hwn, mor foreu a'r flwyddyn 1743, a benodwyd yn arolygwr ar y cymdeithasau yn Llawhaden, Prendergast, Jefferson, Carew, Llandysilio, a Gellidawel. Y llall oedd John Harry, Treamlod, cynghorwr anghyoedd. Y blaenaf oedd yr enwocaf o lawer. Ymddengys ei fod yn ddyn siriol, yn bwrlymu o athrylith, yn ysgolhaig gwell na'r cyffredin mewn Cymraeg a Saesneg, a chyda hyn yn meddu gwroldeb diofn. Er dangos ei gymeriad, nis gallwn wneyd yn well na difynu rhanau o'i lythyrau i'r Cymdeithasfaoedd. Fel hyn yr ysgrifena at Gymdeithasfa Fisol Longhouse, Medi 28, 1743, gan gyfarch Daniel Rowland a Howell Davies : "Anwyl a charedig fugeiliaid. O'r diwedd, fe'm cymhellir, o gariad at yr anwyl Immanuel, i'ch hysbysu pa fodd y mae wedi bod arnaf er ein Cymdeithasfa Fisol ddiweddaf, pryd y rhoddasoch arnaf ofal amrywiol gymdeithasau. Pan y gofynwyd i mi y pryd hwnw am fy rhyddid (sef rhyddid i fyned o gwmpas i arolygu y seiadau), atebais fel y dysgwylid i mi. Ond daeth y syniad ar unwaith i'm meddwl, pa fodd y gallwn i, nad wyf ond baban mewn profiad, ryfygu sefyll i fynu fel clorian i bwyso eneidiau ? Meddyliais ynof fy hun, pe y digwyddai rhyw amryfusedd ynglyn ag esbonio, y byddai yn llai niweidiol i enaid nag a fyddai barnu ar gam rhwng cnawd ac yspryd, a rhwng gwir a gau gariad. Pa fodd bynag, fe fu y gair 'Rhydd' a atebais i chwi, fel cadwen i fy rhwymo i edrych beth a gymerais mewn llaw. Syrthiodd dychryn ar fy enaid, rhag im fod nid yn unig yn anffyddlawn i'r anwyl Oen, ond yn dristwch i fy hoff athrawon, ac hefyd yn waradwydd i ffyrdd Duw, ac i'w blant. Daeth y baich hwn mor annyoddefol fel ag yr oedd corph ag enaid yn mron cael eu llethu dano. Bum yn yr ing am gryn amser, yn meddwl mwy am y Gymdeithasfa, lle y gelwid arnaf i roddi cyfrif o'm goruchwyliaeth, nag am y farn fawr. Ymroddais i anfon at y cymdeith-

asau i ymgynull ar amser priodol ac mewn trefn, gan ymddangos iddynt fel gŵr o awdurdod." Yn canlyn, ceir adroddiad o ansawdd y seiadau. Yn sicr, nid dyn cyffredin a allasai ysgrifenu fel y gwna John Harris.

Yr un gŵr, sef John Harris, St. Kennox, sydd mewn llythyr, dyddiedig Mai 12, 1745, yn cofnodi hanes ei ymweliad a chymydogaeth Tenby. "Nid oes, bellach," meddai, "yr un rhan o'r sir na fum yn cynghori ynddi, ond tref Penfro, a bwrdeisdref Tenby, yr hon sydd borthladd tua phump neu chwech milltir o Penfro. Bum yn llefaru o fewn dwy filltir i'r lle, nos Wener diweddaf. Nid oes ond un brawd crefyddol yn byw yn Tenby; mynych y ceisiasai hwn genyf ddyfod i'r dref i bregethu; yn awr, anfonais ato y deuwn i'w dŷ i letya, ac os gwelai efe yn oreu wahodd rhyw nifer o wŷr a gwragedd adnabyddus iddo, ac yn chwenych fy ngwrando, i fy nghyfarfod, y gwnawn esbonio ychydig o adnodau yn yr ystafell gefn. Felly hefyd y gwnaeth y gŵr. Ond pan oeddwn ar ganol y gwasanaeth, daeth y cwnstab i mewn, gan ddweyd: 'Syr, y mae yn rhaid i chwi dewi; gorchymynir i mi gan y maer eich dwyn o'i flaen yn ddioedi.' Dywedais inau y cydsyniwn a'r cais, ond gan fy mod ar wasanaeth Meistr arall yn awr, fy mod yn hawlio caniatad i draddodi fy neges drosto ef yn nghyntaf. Ar hyn, efe a adawodd yr ystafell. Eithr cyn i mi orphen, dyma y cuwrad i mewn, a chydag ef yr oedd cwnstebli, a phedwar neu bump o foneddigion. Ceisiai y cuwrad gan y swyddog fy llusgo i lawr. Atebodd yntau: 'Gresyn fyddai hyny, cyn iddo orphen, oblegyd y mae yn llefaru yn felus.'

"'I lawr ag ef,' ebai y cuwrad, 'onide mi rof gyfraith arnat ti am esgeuluso dy ddyledswydd.'

"Er fod y dynion (y cwnstebli) yn haner meddw, cefais genad i orphen yr odfa; ac yn wir, yr oedd yn hyfryd ar fy yspryd, ac ar fy ngwrandawyr hawddgar, y rhai a rifent tua deugain. Disgynais oddiar y lle y safwn, a thra yr ymesgusodent (y swyddogion) wrth ŵr y tŷ, yr oedd eu gwedd yn llwyd rhyfedd.

"'Ni a ddaethom, Mr. Thomas,' meddent, 'i weled y darluniau gwych sydd genych.'

"Atebais inau: 'Tybygwyf, foneddigion, mai fi yw y darlun y daethoch i'w weled.' Ar hyn, y swyddog a roes ei law ar fy ysgwydd, gan ddweyd: 'Yr ydych yn garcharor, Syr, a rhaid i chwi ddyfod o flaen y maer.'

"'Yr wyf yn barod i ddyfod,' ebe finau. Pan aethom i'r heol, a hyny rhwng naw a deg o'r gloch y nos, yr oedd yno tua mil o bobl, yn wŷr ac yn wragedd, gyda llusernau a chanhwyllau yn fy nysgwyl, ac yn llefain yn echrys: 'Ymaith ag ef! Ymaith ag ef!'

"At y maer yr aethom. Hwn, heb edrych yn fy wyneb, a ofynodd am fy nhrwydded. Atebais nad oedd genyf yr un. Gofynodd: 'Pa fodd y meiddiwch ddyfod i'n tref ni i bregethu?'

"I hyn atebais: 'Ni chyhoeddwyd fi i bregethu; eithr gwedi i'r bobl wybod am fy nyfodiad yma i letya, daethant i mewn; minau a esboniais ychydig adnodau iddynt, canasom emyn neu ddwy, a gweddïasom.'

"'Rhaid i chwi,' ebe y maer, 'roddi meichiau am eich ymddangosiad yma y cwarter sessiwn nesaf.'

"'Da fyddai genyf wybod, Syr, beth sydd genych i'w roddi yn fy erbyn.'

"'Eich gwaith yn pregethu,' oedd yr ateb.

"'Os hyny yw y trosedd, Syr, chwi a'u cewch yn ewyllysgar. Am ba swm y gofynir hwynt?'

"'Am ddau cant o bunoedd,' oedd yr ateb. Yr oedd yno ddau frawd yn barod i ymrwymo, ond gofynodd rhywrai a safent gerllaw: A roddech chwi eich gair, pe y caech fyned yn rhydd yn awr, na ddeuwch yma i bregethu mwy?'

"'Hyny nis gallaf ei wneyd,' ebe finau; 'er na ddaethum yma i bregethu y tro hwn, nid oes sicrwydd na fydd raid i mi bregethu yma cyn y fory, oblegyd nid oes genyf awdurdod arnaf fy hun.'

"'Gan bwy, atolwg, y mae awdurdod arnoch?' gofynai gwraig y maer.

"'Dan awdurdod fy Meistr yr wyf.'


"'Pwy yw eich meistr? Ai y diafol?'

"'Nage. Y mae fy Meistr i yn feistr ar y diafol, ac arnoch chwithau yn ogystal.'

"'Ust,' ebe y maer wrth y wraig, 'tewch a son.' Gyda hyn, galwyd arnaf i lawarwyddo yr ymrwymiad, a gollyngwyd fi yn rhydd."

Dyma adroddiad John Harris o helynt Tenby. Pan aeth allan i'r heol yr oedd yno dorf o derfysgwyr yn ei ddysgwyl, yn ffyrnig eu gwedd, ac yn barod i ymosod arno. Ond amddiffynwyd ef yn annysgwyliadwy gan ryw ynad, a deimlai yn garedig at y Methodistiaid, a chymerodd

ef i'w dŷ, gan ei letya fel brenin. "Dychwelais inau adref dranoeth," meddai, "a'r dagrau yn llifo dros fy ngruddiau, o wir dosturi at drigolion tlodion Tenby." Sut y bu yn y sessiwn nis gwyddom. Y tebygolrwydd yw i'r Arglwydd, yn ol ei arfer, i'r rhai a garant ei enw, amddiffyn ei was, a'i ddwyn yn ddyogel allan o fysg y llewod. Y mae hanes John Harris, o'r ymraniad allan, yn gorwedd dan gryn dywyllwch. Dywedir iddo, yn yr argyfwng hwnw, gymeryd plaid Harris; a phan y deallodd tan arolygiaeth y brawd William Richard. Yn Nghymdeithasfa Fisol Hwlffordd, Ionawr 28, 1745, penderfynwyd fod y brodyr John Harry, a John Morris, gan eu bod yn addysgu mewn ysgol, i gynghori gymaint ag a fedrant yn gyson a gofal yr ysgolion. Ymddengys fod John Harry yn ddyn tra gweithgar, ac yn dal gafael ar bob cyfleustra i gynghori ei gyd-bechaduriaid gyda golwg ar eu mater tragywyddol. Lletyai unwaith mewn ffermdy, ac nid esgeulusodd rybuddio y rhai a weinyddent




BEDDROD JOHN HARRY, TREAMLOD, SIR BENFRO.

*[Yma hefyd y claddwyd ei fab, y Parch. Evan Harris, a'i wyr, y Parch. Thomas Harris.]*

fod y blaid yn gwanhau, ac yn rhwym o ddarfod, iddo, fel y cynghorwr John Sparks, o Hwlffordd, ymuno a'r eglwys Forafaidd.

Am John Harry, o Dreamlod, dywedir mai brodor o ranau uchaf Penfro ydoedd, ac mai tuag adeg y diwygiad y symudodd i lawr i odreu y sir. Cawn y cyfeiriad cyntaf ato yn nghofnodau Trefecca yn nglyn a Chymdeithasfa Fisol Llangwg, neu Llangwm, Gorph. 16, 1744. Yno penderfynwyd fod y brawd John Harry yn cael ei gymeradwyo, a'i fod i gynghori fel o'r blaen hyd y Gymdeithasfa Fisol nesaf, yno. Boreu dranoeth, gofynai y feistres i'r llances o forwyn oedd yno: "Dos a botasau y gŵr dyeithr iddo." "Nac af fi, yn wir," oedd yr ateb. "Paham hyny?" "F'wed wrthw i mod i yn bechadur," meddai yr eneth. Prawf diymwad nad esgeulusai efe unrhyw gyfle i wneyd daioni.

Yr oedd gan yr hynod Rowland Hill feddwl uchel am dduwioldeb John Harry. Pregethai Mr. Hill unwaith yn Nhreamlod, gwedi i'r hen gynghorwr farw; ond yr oedd y weddw, a'i fab, y Parch. Evan Harris, yn preswylio yno ar y pryd.

Wrth ymadael, dywedai: "Os ewch chwi i'r nefoedd o'm blaen i, cofiwch fi at John Harry, a dywedwch fy mod inau hefyd yn dyfod.' Dro arall, galwodd ŵyr i John Harry, sef y Parch. T. Harris, Hwlffordd, yn nhŷ Mr. Hill yn Llundain. "Pwy ydych chwi?" ebai Mr. Hill. "Yr wyf yn ŵyr i'r diweddar John Harry, o Dreamlod," atebai yr ymwelydd. Ar hyn, ymunionodd Mr. Hill; sefydlodd ei lygaid ar y dyn ieuanc, ac meddai, mewn llais llawn o deimlad: "Os oes un dyn o'n byd llygredig ni yn y nef, y mae yr hen John Harry yno." Efallai mai ei berthynas a'r hen John Harrŷ a barodd i Mr. T. Harris gael ei ddewis gwedi hyn i fod yn weinidog Wooton-under-Edge, lle yr arosodd am rai blynyddoedd. Gyda Rowland y glynodd efengylydd Treamlod yn yr ymraniad, a bu yn nodedig o ddefnyddiol yn nghylchoedd Methodistaidd Penfro hyd ddiwedd ei oes. Pregethai unwaith yn y mis yn nghapel Woodstock. Gelwid y Sabbathau yno yn ol enw y pregethwr a fyddai yn gweinyddu. "Sul Rowland" y gelwid Sul pen y mis; "Sul John Harry" oedd yr ail; "Sul Henry Richard," tad Eben a Thomas Richard, oedd y trydydd; a "Sul William Griffith" oedd yr olaf. Bu John Harry farw yn y flwyddyn 1788, yn nhŷ offeiriad Trefdraeth. Yn ei angladd, pregethwyd gan Sampson Thomas, oddiar y geiriau: "Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd." Pregethwyd hefyd ar yr amgylchiad yn eglwys Treamlod, gan Mr. Rowland, oddiar y geiriau: "Ac os o braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?" Nid yw yr hen John Harry heb fod rhai o'i hiliogaeth yn gweinyddu mewn pethau sanctaidd, yn mysg y Methodistiaid, hyd y dydd hwn. Mab iddo oedd y Parch. Evan Harris, a gafodd ei ordeinio yn mysg y fyntai gyntaf yn Llandilo Fawr, yn y flwyddyn 1811. Mab iddo yntau oedd y Parch. Thomas Harris, gŵr o ddoniau arbenig, ond a derfynodd ei yrfa mewn cysylltiad a'r Eglwys Wladol. Gorŵyr i John Harry yw y Parch. James Harris, Clarbeston Road; ac yr ydym yn deall fod mab iddo yntau eto wedi cychwyn gyda gweinidogaeth y Gair.

Un o gynghorwyr hynotaf Penfro oedd William Edward, Rhydygele. Darllenwn am dano yn nghofnodau Trefecca yn cael caniatad i ymweled a chymdeithasau Tyddewi, Penrhos, a Mounton, yn wythnosol, ar brawf, hyd y Gymdeithasfa ddyfodol. Yr oedd yn llawn tân a chyffro, a meddai lawer o dalent naturiol, a medr i gyfarch pechaduriaid, ond ei fod yn drwsgl ac yn dra anwrteithiedig. Methodist ydoedd; dan weinidogaeth Howell Harris y cawsai ei argyhoeddi; ond ymgymysgai gryn lawer a'r Ymneillduwyr, ac yn eu cyfarfodydd arbenig, eisteddai bob amser yn mysg y swyddogion. Edrychent hwy arno ef fel un rhy danbaid, a rhy ddireol; credai yntau eu bod hwy yn rhy farwaidd ac anefengylaidd. Gyda llawer o ffraethineb, dangosai iddynt unwaith y gwahaniaeth rhwng ei ddull ef yn pregethu, a'r eiddynt hwy, trwy gymhariaeth o dŷ ar dân. "Eich dull chwi," meddai, "yw dweyd: Wrth deithio yn y nos, yn 1af, Mi a ganfum dân. Yn 2il, Mi a welais fŵg. Yn 3ydd, Mi a ddeallais fod y tŷ yn llosgi. Yn 4ydd, Mi a wybum fod y teulu ynddo mewn trwmgwsg. Yn 5ed, Mi a ddaethum i'ch deffro, a'ch galw allan, rhag eich dyfetha. Fy null inau, wedi deall fod y tŷ ar dân, a'r teulu yn cysgu, yw gwaeddu, heb na chyntaf nac ail: Iwb! Iwb! Hawyr! Hawyr! Deffrowch! Deuwch allan ar frys, y mae y tŷ ar dân, onide fe'ch llosgir yn lludw!"

Saer oedd William Edward wrth ei grefft. Arweiniwyd ef unwaith, wrth ddilyn ei gelfyddyd, i fysg y Saeson a breswyliai ran o Benfro, a hyny mewn palasdy, lle yr oedd pobl dra boneddigaidd yn byw. Yn fuan, aeth y si allan fod y saer yn bregethwr. Gwedi ei holi, a chael fod y chwedl yn wir, trefnodd y foneddiges fod iddo gael anerch y teulu y Sul canlynol. Y Sul a ddaeth, ac esgynodd William Edward i ben ystôl, er mwyn bod yn uwch na'i wrandawyr. Tynodd lyfr allan o'i logell, gan ddarllen yn Saesneg o hono fel testun: "Pwy bynag a yr ei was neu ei forwyn i godi pytatws, neu i dori bresych, ar foreu Sabbath, a ddemnir dros byth." "Dyma fy nhestun, madam," meddai; "yn awr, gyda'ch cenad, mi a af yn mlaen." Eithr cyffrodd y foneddiges yn enbyd; nid oedd yn ddieuog yn ngwyneb y cyhuddiad; a bloeddiodd yn groch: "Nag ewch ddim yn mlaen, yr adyn; dewch i lawr ar unwaith; dim ychwaneg o'r fath gleber!" Ac i lawr y bu raid iddo ddod, heb wneyd rhagor na darllen y testun, a therfynodd y cyfarfod. Dengys yr hanesyn fod tân a zêl yn yspryd y cynghorwr, ond yn fynych fod y

cyfryw yn tori allan yn wyllt, heb gael eu llywodraethu gan ysbryd pwyll.

Byddai ei dymer yn aml yn fagl iddo. Unwaith, aeth yn ddadl rhyngddo a Thomas Hooper, ei gymydog; aeth yr ymryson yn enbyd o boeth, ac yn y cyffro rhoddes William Edward wth i'w wrthwynebydd, nes y syrthiodd yn sybyrthol yn erbyn rhyw arf, gan gael archoll ddofn ar ei dalcen. Dyma y si allan fod William Edward, Rhydygele, pregethwr efengyl, wedi taro ei gymydog a chaib, fel yr oedd ei ymenydd yn y golwg. Gellir yn hawddach ddychymygu na darlunio y gofid a barodd y chwedl i'r cyfeillion crefyddol. Dygwyd y mater yn mlaen yn y seiat. Gwadai yntau iddo daro Tom Hooper. Eithr ni chredai ei gyd-aelodau; ymddangosai yr archoll yn profi yn wahanol. Penderfynwyd ei ddiarddel. Cyn myned allan, gofynai ganiatad i fyned i weddi. Yr oedd y weddi yn un ryfedd; gruddfanau yr hen bererin mewn edifeirwch wrth yr orsedd, gan grefu am faddeuant, ac apeliai at hollwybodaeth y Goruchaf nad oedd wedi gwneyd yr hyn y cyhuddid ef o hono. "Y mae fy mrodyr yn gwrthod fy nghredu," meddai, "eithr gwyddost ti, Arglwydd Mawr, na tharewais mo Tom Hooper yn ei dalcen a'r gaib." Gorchfygwyd ei gyd-aelodau, a chwedi eu hargyhoeddi yn drwyadl nad oedd yn bwriadu drwg, caniatasant iddo aros yn eu mysg. Bu y tro yn wers iddo am ei oes; daeth gwedi hyn mor hynod am ei larieidd-dra a'i arafwch ag oedd yn flaenorol am ei fyrbwylldra. A gorphenodd ei yrfa yn fawr ei barch gan bawb a'i hadwaenai.

Bellach, rhaid i ni adael y cynghorwyr, er mor ddifyrus ac addysgiadol eu hanes. Yr amser a ballai i ni fynegu am John Richard, Llansamlet, yr hwn oedd yn ŵr gwresog ei yspryd, a gonest ei galon, ac er tramgwyddo wrth arweinwyr y Gymdeithasfa oblegyd cyfyngu o honynt ar ei faes llafur, a ddaeth i'w le yn fuan, gan gyfaddef ei ffolineb, a gofyn am faddeuant; am Howell Griffith, Trefeurig, yr hwn oedd yn ŵr dysgedig, ac mewn amgylchiadau da, ac a fu o fawr ddefnydd i achos yr Arglwydd yn ngymydogaethau Llantrisant, Tonyrefail, a Bro Morganwg, ac nad oedd uwchlaw derbyn cerydd yn garedig gan ei frodyr, pan y teimlent ei fod yn tueddu i fyned ar gyfeiliorn; am James Williams, arolygydd y seiadau yn Sir Gaerfyrddin, adroddiadau pa un o sefyllfa y cymdeithasau a osodasid dan ei ofal sydd yn awr ar gael, ac yn dra dyddorol eu cynwys; am Milbourn Bloom, a breswyliai yn Llanarthney, yn nhŷ yr hwn y cedwid y Cyfarfod Misol nodedig, pan y disgynodd Yspryd Duw fel fflam i fysg ei bobl, nes gwresogi eu calonau, a pheri iddynt folianu ei enw; am Morgan Hughes, a fu unwaith yn arolygydd seiadau Sir Drefaldwyn, a chwedi hyny, mewn undeb a Williams, Pantycelyn, yn arolygydd seiadau rhan uchaf Sir Aberteifi, yr hwn, am ei waith yn myned o gwmpas i efengylu, a wysiwyd i frawdlys Aberteifi, yn y flwyddyn 1743, ond erbyn myned yno, a ddaeth yn rhydd am nad oedd neb i'w erlyn; ac am amryw eraill. A'u cymeryd fel dosbarth, dynion ardderchog oedd yr hen gynghorwyr. Eu hunig wendid, os gwendid hefyd, oedd awydd am gael eu hordeinio, fel y gallent weini yr ordinhadau megys gweinidogion yr Ymneillduwyr. Ychydig o gydymdeimlad oedd rhwng y nifer fwyaf o honynt a'r Eglwys Sefydledig; yr oedd eu cydymdeimlad a'r Ymneillduwyr yn fwy. A phan na fynai yr arweinwyr ganiatau ordeiniad iddynt, aeth amryw trosodd at yr Ymneillduwyr, gan gymeryd gofal eglwysi a gwasanaeth eu Harglwydd a'u cenhedlaeth yn ffyddlawn. Dyma fel y collodd y Cyfundeb Evan Williams, y crybwyllasom am dano yn dianc o'r Gogledd oblegyd poethder yr erledigaeth; a John Thomas, a ymsefydlodd yn y Rhaiadr; a Richard Tibbot, Herbert Jenkins, Milbourn Bloom, ac amryw o ddynion talentog eraill. Eithr glynodd y nifer fwyaf yn ffyddlawn, er pob temtasiwn i gefnu. Ond yr ydym yn colli golwg ar amryw o honynt yn amser yr ymraniad, a pha beth a ddaeth o honynt, nis gwyddom. Aeth rhai yn Annibynwyr; cyfeiliornodd eraill oddiwrth y ffydd, gan ffurfio mân bleidiau, a gosod eu hunain yn ben arnynt; ond am y nifer fwyaf, ymlynasant wrth Rowland, Howell Davies, a Williams, Pantycelyn, a buont farw ar y maes fel medelwyr diwyd, a'u crymanau yn eu dwylaw.

Yr ydym yn dyfod yn awr at adroddiadau y cynghorwyr, a anfonwyd i'r Cymdeithasfaoedd, yn desgrifio sefyllfa yr eglwysi a osodasid dan eu gofal. Y mae yr adroddiadau hyn mor lliosog, fel nas gallwn ond difynu ychydig o honynt, a hyny megys ar antur. Yr adroddiad cyntaf yn nghofnodau Trefecca yw eiddo

Thomas James, Cerigcadarn, o ba un y mae a ganlyn yn esiampl :—

"Cymdeithas Llanfair-muallt. Cynghorwr, Thomas Bowen :—

| *Enwau yr Aelodau.* | *Eu Sefyllfa.* |
|---|---|
| Thomas James | Tystiolaeth lawn ac arosol. |
| Thomas Bowen | Mewn rhyddid helaeth. |
| Evan Evans | Wedi cael tystiolaeth, ond yn wan mewn gras. |
| Sarah Williams | Wedi ei chyfiawnhâu, ac wedi dod allan o'r ffwrnes. |
| Sarah James | Tystiolaeth gyflawn, oud mewn dirfawr gaethiwed. |
| Eliza Bowen | Yn gyffelyb, ond i raddau wedi ei gadael. |
| Ann Baisdel | Profiad hyfryd, ond yn wan. |
| Mary Bowen | Yn dyfal geisio yr Arglwydd Iesu. |
| Margaret Lewis | Wedi ei chyfiawnhau yn ddiweddar. |
| Eliza Price | Tystiolaeth lawn, ond yn dechreu canfod ei chalon yn fwyfwy caled |
| Susan Davies | Wedi ei chyfiawnhau, ond yn awr tan lawer o amheuon. |
| Margaret Bowen | Yn gyffelyb, ond yn meddu llygredigaethau cryfion. |
| Elenor Jones | Yn dechreu ymadfer o'i gwrthgiliad. |
| Gwen James, Susan James, Gwen Kinsey | Wedi myned i ogoniant, fel yr wyf yn credu." |

Rhif yr aelodau yma oeddynt 13.

"Cymdeithas Llanafan. Cynghorwyr anghyoedd, Edward Bowen a Thomas Bowen :—

| *Enwau yr Aelodau.* | *Eu Sefyllfa* |
|---|---|
| Rice Price | Yn dwyn tystiolaeth yn ei gystudd. |
| Thomas Price | Yn gyffelyb, ond wedi colli llawer o'i gariad, a'i zêl, gan fod wedi ei faglu yn y byd. |
| Thomas Jones | Mewn caethiwed dirfawr. Yn dysgwyl. |
| Stephen Jones | Dan lawer o dywyllwch. |
| James Evans | Yn wan mewn gras ; ond yn dysgwyl. |
| Thomas Bowen | Tystiolaeth lawn yn aml, ond nid yn arosol. |
| Edward Bowen | Tystiolaeth lawn ac arosol. |
| Eliza Evans | Tan lawer o amheuon oblegyd grym llygredigaethau. |
| Mary Jones | Y gair hwn wedi ei selio iddi hi : "A chariad tragywyddol y'th gerais." |
| Catherine Jones | Tystiolaeth hyfryd o gariad Duw. |
| Mary Price | Yr un modd. |
| Diana Evans | Yn rhodio yn agos at Dduw, ond mewn llawer o amheuon. |
| Margaret Bound | Tystiolaeth lawn." |

Tri-ar-ddeg oedd rhif yr aelodau yma yn ogystal.

"Cymdeithas Llanwrtyd. Cynghorwr anghyoedd, Rice Morgan :—

| *Enwau yr Aelodau.* | *Eu Sefyllfa.* |
|---|---|
| Rice Morgan | Yn rhodio yn agos, ond mewn peth amheuaeth. |
| David Williams | Nid yw wedi ei adael mewn un gradd o amheuaeth. |
| Rice Williams | Ei gyflwr yn dywyll iawn. |
| Thomas Lloyd | Efe yn tybio ddarfod iddo gael tystiolaeth, ond eraill heb eu llawn foddloni yn ei gyflwr. |
| Edward Winston | Mewn caethiwed mawr. |
| Roderick Rice | Mewn caethiwed a thywyllwch. |
| Ann Lloyd | Yn ceisio yn ddyfal, ond mewn treialon dirfawr. |
| Eliza Evans | Ar y ffordd yn ceisio. |
| Margaret Evans | Yn ei chariad cyntaf. |
| Eliza Williams | Yn llwythog o anghrediniaeth." |

Yr oedd 28 o aelodau yn perthyn i'r gymdeithas hon, a dywedir ei bod yn myned yn y blaen yn hyfryd. Rhydd gyfrif cyffelyb am seiadau Merthyr Cynog, Llandyfathen, Cerigcadarn, Llanddewi'r Cwm, a Llaneigion. Y mae ei sylwadau ar gyflyrau y gwahanol aelodau i'r pwynt, ac yn fynych yn brydferth. Dywed am un William Saunders, Llaneigion : "Gwedi bod mewn dirfawr amheuaeth gyda golwg ar dduwdod Crist, ond yn awr creda nid yn unig ei fod yn Dduw, ond hefyd yn Dduw iddo ef." Am un Mrs. P., o'r un seiat, dywed : "Medd dystiolaeth lawn, ac y mae yn rhodio yn agos, ond nid yw ei henw wedi ei ysgrifenu, am fod y gŵr yn bytheirio ac yn erlid." Ychwanega am yr un gymdeithas : "Y mae saith yn ychwaneg i ddod i mewn."

Dengys y cofnodion hyn ddirfawr wahaniaeth parthed ysprydolrwydd meddwl rhwng y Methodistiaid a'r Ymneillduwyr oeddynt yn y wlad o'u blaen. Dosparthu Dr. John Evans, yn y daflen y cyfeiriasom ati yn barod, y rhai a berthynent i'r Anghydffurfwyr yn ol eu sefyllfa fydol ; rhenir hwy i ynadon, ysweiniaid, rhai yn meddu pleidlais yn y sir neu y fwrdeisdref, rhydd-ddeiliaid, amaethwyr, masnachwyr, a labrwyr. Nid yw yr hen gynghorwr o Gerigcadarn yn prisio dim parthed safle fydol aelodau y gwahanol seiadau ; dibwys ganddo pa un ai labrwyr ynte ustusiaid ydynt ; rhana efe hwy yn ol eu cyflwr ysprydol, sef rhai wedi eu cyfiawnhau, rhai yn dyfal geisio, a rhai dan draed amheuon, &c. Yr oedd y Methodistiaid cyntaf yn byw gymaint yn y Presenoldeb Dwyfol, fel nad oedd mân wahaniaethau y byd o un pwys yn eu golwg. Eithr y mae

Thomas James heb orphen ei adroddiad. Fel hyn y dywed am y seiadau canlynol:—

| | |
|---|---|
| "Trefecca | Heb fod mewn trefn. |
| Llangamarch | Newydd ei ffurfio. Cynghorwr anghyoedd — David. Rhif, oddeutu 14. |
| Llwyncoll | Mewn trefn, ond nid yw yn gyfleus i mi rhoddi ei chyfrif. |
| Llanfihangel-Nant-Bran | Y seiat newydd ei ffurfio. |
| Llanfihangel-Fechan | Ni wnant eto ymostwng i unrhyw drefn. |
| Tref Aberhonddu | Heb ei ffurfio. |
| Llangors | Heb ddod i drefn. |
| Cilhonwy | Y seiat tan Mr. Beaumont. |
| Dyserth | Heb gael ei phrofi.' |

Dywed fod yr aelodau y rhydd gyfrif o honynt yn 134, ond y byddai y cyfanswm yn sicr o fod yn 200. Cofier mai rhan o Frycheiniog oedd dan ei ofal. Terfyna yn y modd a ganlyn: "Bendigedig fyddo ein Hiachawdwr am hyn o ddechreuad, gan obeithio y gwna efe ei Jerusalem yn llawenydd yr holl ddaear, oblegyd yn wir eto y mae lle. Am hyn, gweddïwch lawer drosom, a throsof fi, yr annheilwng—THOS. JAMES."

Cymerer eto adroddiad Morgan Jones, arolygwr dros ranau o Fynwy. Fel hyn yr ysgrifena efe:—

"GOETRE. Y maent yn 13 o rif, gydag un goruchwyliwr drostynt, yr hwn sydd ŵr tra gofalus. Nid oes yma ond dau ŵr priod, a dim un sengl. Derbyniwyd dau yn ddiweddar, un yn wraig mor hawddgar yn ei hyspryd a'r un o'r lleill. Y mae rhai, fel yr wyf yn credu, yn Gristionogion, ond heb uno eto a'r seiat breifat. Y mae yr aelodau wedi profi mesur o ryddid, neu amlygrwydd eu bod wedi cael eu cyfiawnhau, bawb o honynt ond un, rhai fwy, a rhai lai. . Meddant ryddid mawr at eu gilydd, ac at y brawd Stephen Jones, eu cynghorwr anghyoedd. Gwn ddarfod i'r Arglwydd fendithio fy llafur yn eu mysg. Meddwn ryddid mawr y naill at y llall. Bendigedig a fyddo y sanctaidd Dduw, yr hwn a'i dygodd.

"GLASCOED. Y maent tua 9 mewn rhif. Y brawd Jones, eu cynghorwr anghyoedd, a wasanaetha swydd goruchwyliwr, ac, fel yr wyf yn credu, a wasanaetha yn ffyddlawn. Y maent wedi eu gosod yn y drefn oreu bosibl, ac ystyried eu hamgylchiadau. Cyfarfyddant yn breifat mor aml ag y gallant, ac y mae yr Arglwydd yn eu bendithio, fel y mae yn bendithio pawb a gyfarfyddant felly. Nid wyf yn gwybod am un nad yw yn barod i dystio fod yr Arglwydd yn eu bendithio yn rhyfedd yn eu cynulliadau preifat; ond am y rhai sydd yn gwrthsefyll, y maent yn myned yn sychach bob dydd. Y mae yr holl aelodau wedi profi cariad Duw wedi ei dywallt ar led yn eu calonau i'r fath raddau, fel y maent wedi eu hargyhoeddi fod eu pechodau wedi eu maddeu, a'u hanwireddau wedi eu cuddio. Yr wyf yn credu fod eu profiad yn gadarn ac yn gywir, oblegyd y mae eu bywydau yn cyfateb. Tlodion ydynt gan mwyaf, ond y maent yn ffyddlawn yn eu galwedigaethau, ac hefyd y naill i'r llall. Y maent yn foddlawn gweithio er cynorthwyo eu gilydd, pan yn glaf neu mewn eisiau. Y mae i mi undeb mawr a hwy, a felly hwythau ataf finau. Bendigedig fyddo Duw am ei ddwyn oddiamgylch. Amen.

"ST. BRIDES. Pedwar-ar-ddeg o rif ydynt, a chredaf eu bod yn Gristionogion sylweddol o ran gwybodaeth a phrofiad. Holais hwynt yn breifat, a chefais dystiolaeth ddarfod iddynt oll brofi rhyddid yr efengyl i raddau mawr, oddigerth tri; ac y mae un o'r tri wedi cael fod Crist yn eiddo iddi, ond y mae ei ffydd yn wan. Am y ddau arall, dywedant nad ydynt eto wedi cael gafael ar yr Arglwydd, ond yr wyf yn credu eu bod, a dyna farn y gweddill o'r brodyr. Meddyliais iddynt wneyd yn glir mai gwaith Duw ydoedd, er eu bod yn ceisio ei guddio. Temtir hwy gan y gelyn i gredu na chawsant eu hargyhoeddi erioed, er fod eu calonau yn ymddangos yn ddrylliedig. Y maent mor ostyngedig a neb a welais.

"MYNYDDISLWYN. Y maent yn 10 o rif, gyda dau oruchwyliwr drostynt, ac y mae yr Arglwydd yn bendithio y moddion iddynt. Cynorthwyir fi, ac felly eraill hefyd, pan fyddwyf yn llefaru yn eu mysg. Cyfarfyddant yn breifat unwaith yr wythnos, a chant gymaint o les trwy hyn a dim. Y maent yn ddiargyhoedd yn eu bywydau. Medd rhai o honynt dystiolaeth ddarfod eu cyfiawnhau, a dyhea y gweddill yn feunyddiol am ei gael.

"LLANGADOG. Daw cryn nifer ynghyd i wrando y Gair yn y cymdeithasau cyhoeddus, a rhydd yr Arglwydd allu i lefaru mewn cariad. Pedwar-ar-ddeg sydd wedi rhoddi eu henwau. Y maent yn rhy ieuainc i dderbyn un i edrych drostynt, ond daw un atynt o Lanfihangel mor fynych ag sydd bosibl. Dechreu ymgynull yn breifat y maent. Yr wyf yn teimlo rhyddid mawr yn eu mysg, am eu bod

mor debyg i blant, gan fod yn foddlawn cymeryd eu dysgu.

"TREFETHIN. Y maent yn 19 o rif, gyda thri goruchwyliwr. Y rheswm fod tri ganddynt yw, fod dau o honynt yn fasnachwyr, ac felly yn analluog i ddyfod i bob moddion. Cyfarfyddant dair gwaith yr wythnos, a theimlant lawer o Dduw yn eu mysg, yn arbenig yn eu cyfarfodydd preifat. Rhodiant yn ddiargyhoedd, ac y maent, mi a hyderaf, yn cynyddu yn ngwybodaeth yr Arglwydd. Y maent, gan mwyaf, yn deimladwy o gariad maddeuol Duw. Y mae seiat fechan yn Llanheiddel hefyd, nad yw yn ewyllysgar i gymeryd ei dwyn i drefn hyd yn hyn; ond ar yr un pryd, y mae yno lawer o blant anwyl i Dduw.

"GRWYNEFECHAN. Ugain yw rhif yr aelodau yma; y maent mewn trefn, gyda dau oruchwyliwr yn gofalu drostynt. Cyfarfyddant dair gwaith yr wythnos, un o'r tair yn breifat. Gallant oll dystiolaethu fod ganddynt amlygrwydd ddarfod eu cyfiawnhau, er fod rhai heb deimlo cymaint o gysur ag y buont. Ond yr wyf yn hyderu fod yr Arglwydd yn eu mysg. Teimlais nerth mawr pan fum yn eu plith ddiweddaf.

"CWMDU. Rhif yr aelodau yw 12. Y mae yr Arglwydd yn llewyrchu arnynt, ac yn tywallt ei Yspryd i'w mysg yn fwy nag erioed. Y maent oll, ond dau, wedi profi cariad maddeuol Duw. Cant weithiau gymaint o bresenoldeb Duw, nes peri iddynt lefain: 'Arglwydd, digon yw!' Teimlant gymaint o Dduw mewn gweddi weithiau, nes dymuno peidio myned o'r fan, hyd nes y byddo iddynt ymadael i fod gyda Christ.

"CANTREF. Y maent yn 14 o rif, a chredaf am y rhan fwyaf o honynt ddarfod eu selio gan yr Yspryd Glân hyd ddydd prynedigaeth.

"BLAENYLLYN. Ugain ydynt o rif. Arholais hwy yn breifat, a chefais fwy o foddlonrwydd nag a feddyliais y gellid gael. Credaf fod yr Arglwydd wedi dechreu gwaith ar eu heneidiau. Ymddangosant yn dra gonest; mor bell ag y gallaf farnu, y maent wedi bwrw eu heneidiau ar Grist; ond nid ydynt eto wedi cael llawer o arwyddion o gariad Duw.

"LLYWEL (Sir Frycheiniog). Y maent yn 18 o rif, ac y maent wedi eu gosod mewn cystal trefn ag a allaf, gyda goruchwyliwr i wylio drostynt. Y maent yn benderfynol o gyfarfod yn breifat, i weled beth a wna Duw i'w heneidiau. Buont yn dra esgeulus o hyn. Teimlodd rhai o honynt fesur o gariad Duw; yr wyf yn eu cael yn foddlon cymeryd eu dysgu, ond nid oes llawer o undeb yn eu mysg, am na chyfarfyddant yn breifat. Dylent gael eu cymeryd yn dyner, fel baban sugno ar y fron, oblegyd eu gwendid.

"LLANDDEUSANT (Sir Gaerfyrdddin). Wyth-ar-hugain o rifedi ydynt yma; y maent wedi eu gosod mewn trefn, gyda dau oruchwyliwr anghyoedd yn eu mysg. Cyfarfyddant yn gyhoeddus ddwy waith yr wythnos, ac unwaith yn breifat. Credaf fod gwaith mawr yn cael ei gario yn mlaen yn eu plith. Gallant dystiolaethu fod Duw yn tywallt ei Yspryd yn helaeth arnynt, yn arbenig yn eu cyfarfodydd anghyoedd. Medd rhai o honynt brofiad helaeth a dwfn o gariad Duw; ond y mae eraill mewn caethiwed. Y maent oll yn ddiargyhoedd o ran ymarweddiad. Tystiolaethant ddarfod i'r Arglwydd fy mendithio i fod o les i'w heneidiau. Bendigedig a fyddo yr Arglwydd hyd byth! Amen, ac Amen. Teimlais nerth rhyfedd yn eu mysg y tro diweddaf, wrth lefaru am fawrion bethau Duw, oddiar Actau ii. 11; yr oedd tua dau cant yn bresenol.

"D.S. Y mae ychydig o eneidiau hefyd yn cyfarfod yn Llanfihangel-Cerig-Cornel, tua thair milltir o'r Fenni, y rhai a anghofiwyd y tro diweddaf yn Watford. Dymunwn i chwi feddwl am danynt, ac anfon rhywun i ymweled â hwynt. Y brawd Morgan John Lewis yw y cymhwysaf, yn ein tyb ni, gan nad yw y brawd Beaumont yn medru siarad Cymraeg."

Byr, mewn cymhariaeth, yw adroddiad Thomas Williams, arolygydd adran o Forganwg, o'r cymdeithasau a osodasid dan ei ofal ef. Y mae fel y canlyn, ond ein bod yn gadael allan yr enwau:—

"GROESWEN—

| | *Gwyr.* | *Gwragedd.* | *Dynion sengl.* | *Merched sengl* |
|---|---|---|---|---|
| Wedi eu cyfiawnhau | 9 | 8 | 13 | 9 |
| Dan y ddeddf .. | 1 | 2 | 3 | 4 |

Rhif aelodau cyffredin y Groeswen oedd 49; ychwaneger at hyny y pump cynghorwr anghyoedd, a gwnaent y cyfanswm yn 54. Dywedir yn mhellach fod un ferch ieuanc, o'r enw Amy Price, wedi marw mewn llawn sicrwydd ffydd.

"LLANTRISANT—

| | *Gwyr.* | *Dynion sengl.* | *Merched sengl.* |
|---|---|---|---|
| Wedi eu cyfiawnhau, ac yn meddu rhyddid.. | 4 | 2 | 1 |
| Dan y ddeddf .. .. | 7 | 2 | 2 |

Felly, rhif seiat Llantrisant oedd deunaw, ac os yw y cyfrif yn gywir, ni pherthynai yr un wraig briod iddi.

Rhifai cymdeithas Llanedern 6, o ba rai yr oedd 4 wedi eu cyfiawnhau, a 2 dan y ddeddf; Dinas Powis, 13, o ba rai yr oedd 2 wedi eu cyfiawnhau, ac yn meddu rhyddid; 6 wedi eu cyfiawnhau, ond mewn caethiwed, a'r gweddill dan y ddeddf; St. Nicholas, 32, o ba rai yr oedd 15 wedi eu cyfiawnhau, ac yn meddu rhyddid; 11 wedi ei cyfiawnhau, eithr mewn caethiwed, a'r gweddill dan y ddeddf. Rhifai seiat Pentyrch 9; Aberddawen, 15; ac Aberthyn, 19. Rhif yr holl aelodau dan ofal Thomas Williams oedd 168.

Nodedig o fyr yw adroddiad James Williams, arolygwr rhan o Sir Gaerfyrddin. Dywed fod seiat Cayo yn rhifo 49; Talyllychau, 45; Llansawel, 46; Llangathen, 37; Cwmann, 32. Am seiat Cilycwm, yr oedd yn ieuanc, ac heb ei dwyn i drefn, ac felly ni roddir ei rhifedi. Dywed am rai o'r aelodau eu bod yn meddu rhyddid, eraill fel pe yn canfod yr orphwysfa, a'r gweddill tan y ddeddf. Am y rhai a feddent ryddid, nid oeddynt oll ar yr un tir, oblegyd am nifer o honynt dywedir eu bod yn meddu mesur bychan o ryddid.

Adroddiad tra dyddorol yw eiddo William Richard, arolygwr y rhan isaf o Sir Aberteifi, a'r rhan Gymreig o Sir Benfro. Cymerer yr esiampl a ganlyn :—

"Dyffryn Saith—

| *Enwau yr Aelodau.* | *Eu Sefyllfa.* |
|---|---|
| 1. Thomas Dafydd | Yn credu, ond tan rai amheuon o herwydd temtasiynau; y mae yn dymuno ac yn dyheu am fwy o ryddid. |
| 2. Dafydd Morgan | Wedi archwaethu llawer o gariad Duw; y mae yn credu yn wastadol; ei brofiadau ydynt yn dra syml. |
| 3. Dafydd Rees | Yn credu, ond tan lawer o gymylau. Daeth trwy lawer o brofedigaethau, ond yn gorchfygu fwy fwy. |
| 4. Jenkin John | Tan dreialon am dymhor, yn dywyll ac yn sych ei yspryd. |
| 11. Margaret Thomas | Tan lawer o argyhoeddiadau, ond yn dra thywyll." |

Nis gallwn gofnodi yr holl daflen, eithr rhifai cymdeithas Dyffryn Saith 20, ac ymddengys na pherthynai iddi yr un wraig briod; eiddo Blaenhownant, 10; Twrgwyn, 9; Llwyndafydd, 10; ac Aberporth, 20. Yn Sir Benfro, rhifai cymdeithas Longhouse 15; cymdeithas Tyddewi, 11; eiddo Abergwaun, 35; Dinas, 7; Trefdraeth, 13; Pencaer, 7; Llwynygrawys ac Eglwyswrw, 35. Gwna yr oll 190, gyda 19 o aelodau ar brawf.

Cyn terfynu, rhaid i ni roddi adroddiad John Harris, St. Kennox. Fel hyn y dywed: "Ar y 13eg o'r mis, mi a gyfarfyddais ag ŵyn Prendergast ac Ismason yn Phonton (25 o rifedi); agorwyd ffenestri y nefoedd, a gwlawiwyd i lawr arnom wlith cariad Duw, nes yr oeddem ar ymgolli a boddi yn y môr mawr. Rhoddwyd i mi deimlo doethineb, gwybodaeth, deall, gostyngeiddrwydd, a chydymdeimlad a fy ŵyn anwyl, fel y gallwn ddweyd: 'Teyrnas Dduw sydd o fewn i mi,' ac hefyd, 'Duw cariad yw.' Yr oedd yr ŵyn fel asgwrn o'm hasgwrn, a chnawd o'm cnawd. Canasom y gân newydd, a chanasom ag un anadl.

"Y 14eg o'r mis, yn Llawhaden. Nid oedd ond 11 o rif, ond yr oedd fy serch yn parhau ac yn cynyddu. Ar weddi, nid digon oedd penlinio; sythiodd dau ar eu hwynebau ar y llawr, ac o braidd y medrent gyfodi. A thra y gosodwn ger eu bron gariad yr Oen, nis gallent aros yn yr ystafell, eithr aethant allan o un i un, gan ymdreiglo yn y llwch, a gwaeddi: 'Michael, cân di, nis gallwn ni!'

"Y 15fed o'r mis, yn Jefferson. Ysgydwyd tŵr Babel, ac yr oedd ar ei ogwydd i syrthio, yn ddirgel ac ar gyhoedd. Galluogwyd fi i gredu ddarfod iddo gwympo; yr oedd sain hyfryd rhad ras yn mhob genau, a phob calon yn llawn o gariad.

"Ar y 18fed o'r mis, yn Carew. Rhif 25. Wedi cynghori yn gyhoeddus datguddiwyd i mi nad oes dim yn trallodi'r diafol yn gymaint a'r seiadau preifat. Yr oedd hyny yn amlwg yn ei offerynau, sef y bobl gnawdol o bob enwad; y maent yn eu cashau uwchlaw pob peth. Er fod y drws yn nghau ar y dechreu, daeth yr anwyl Oen, gan sefyll yn y canol, a dywedyd: 'Tangnefedd i chwi!' Yna yr ŵyn anwyl a doddwyd hyd ddagrau, ac a lanwyd â chariad, nes y gwaeddodd un allan: 'Gresyn! gresyn! y mae yn llifo drosodd. Na fydd hanerog, eithr llanwer eraill hefyd.' A thorodd y lleill allan i lefain: 'Bendigedig fyddo Duw am Iesu Grist.'

"Ar y 19eg o'r mis, yn Mounton, ger Narberth. Rhif 9. Cawsom gymundeb

melus a'r anwyl Immanuel. Gan fod yr hin yn wlyb, ac amgylchiadau eraill yn ymyraeth, nid oeddent yn fy nysgwyl, felly yr oedd 11 o'r aelodau yn absenol.

"Ar yr 20fed o'r mis, yn Gellidawel. Rhif 16. O'r cychwyn, ie, hyd yn awr, ni chymerodd yr anwyl Oen ei wenau melus oddiarnaf, ond fe'm dyddanodd megys ar ei lin, nes fy llenwi i, a'r ŵyn yn ogystal, a chariad, gan beri i ni lefain ar lu y nef: 'O, chwi wyryfon gogoneddus, cenwch, oblegyd rhyddhawyd chwi oddiwrth y clai. Treblwch eich cân, nes y deuwn ninau!'

"Felly, gan fy mod yn eich galw yn anwyl frodyr, fe a'm gwnaed yn gyfranog o'ch llafur, a'ch hymdrechion, yn eich gwaith mawr. Yr wyf yn tybio fy mod yn dwyn y baich gyda chwi. A chan fy mod yn credu fod ein hanwyl Archoffeiriad yn eich cynorthwyo, yr wyf yn meddwl fel mai efe ydyw awdwr, y bydd hefyd yn berffeithydd y gwaith; er y gall Satan a'i offerynau ddweyd fel Tobiah wrth Sanbalat am waith Nehemiah yn adeiladu muriau Jerusalem: 'Pe'd elai lwynog i fyny, efe a fwriai i lawr eu mur hwynt.' Ewch yn mlaen, yn wir y mae gan Oen Duw law yn y gwaith a pha un ydych yn ymwneyd, a chwithau a gewch fedi o ffrwyth eich llafur. Hyn oddiwrth yr annheilyngaf o bawb sydd yn ceisio gwyneb yr Oen—JOHN HARRIS."

Dengys yr adroddiadau hyn lawer o frwdaniaeth yspryd, a llawer o fedr i adnabod sefyllfa ysprydol yr eneidiau, gofal pa rai a gawsai ei ymddiried i'r cynghorwyr. Adroddiadau am sefyllfa pethau tua dechreu y flwyddyn 1743 ydynt. Dylem gadw mewn cof nad yw nifer yr aelodau yn ddangoseg o gwbl o rifedi y rhai a wrandawent yr efengyl gyda y Methodistiaid, ac a ystyrient eu hunain yn ganlynwyr Rowland a Harris. Nid gorchwyl hawdd oedd ymuno a'r seiat y pryd hwnw. Yr oedd y drws mor gul, a'r ddisgyblaeth ynddi mor lem, fel y cawn amryw o'r arolygwyr yn cyfaddef fod rhai wedi eu hachub i fywyd tragywyddol, fel yr oeddynt hwy yn barnu, ond heb ymuno ag unrhyw gymdeithas. Yn Llanddeusant, cawn nad oedd rhif yr aelodau ond wyth-ar-hugain, ond barnai yr arolygwr fod y gynulleidfa a'i gwrandawai ef yno tua dau cant.

# PENOD XI.

—:o:—

## HOWELL HARRIS

(1743-44).

*Gwaeledd iechyd Harris yn ei dueddu i roddi i fynu y gwaith cyhoeddus—Ymosodiad Edmund Jones ar y Methodistiaid—Dechreu codi capelau—Capelau Maesgwyn a'r Groeswen—Prawf Morgan Hughes—Dadl ag Esgob Tyddewi—Pumed ymweliad H. Harris a Llundain—Y Gymdeithasfa Saesnig—Glynu wrth yr Eglwys Sefydledig—Whitefield yn tybio y cai ei wneyd yn esgob—Dadl a Richard Jenkins gyda golwg ar y Gair—Ystorm yn Nghymdeithasfa Glanyrafonddu—Cymdeithasfa Watford, 1744—Y Methodistiaid a'r gyfraith wladol—Llythyr aelodau Mynyddislwyn—Chweched ymweliad Harris a Llundain—Amryw Gymdeithasfaoedd Chwarterol a Misol.*

YR ydym yn barod wedi olrhain hanes Howell Harris hyd tua chanol y flwyddyn 1743. Gwelsom ei fod yn teithio yn ddidor, ac yn llafurio yn hwyr ac yn foreu, mewn cynghori pechaduriaid, cadarnhau y saint, trefnu y seiadau, ac arolygu pob peth cysylltiedig a'r symudiad grymus oedd yr Arglwydd wedi gychwyn trwyddo ef a Rowland. O Gymdeithasfa gyntaf Watford, a gynhaliwyd ddechreu Ionawr, hyd ganol Awst, pan yr aeth am ychydig amser i Lundain, prin y gellir dweyd iddo gael diwrnod o orphwys. Yn ychwanegol, yr oedd ei ohebiaeth yn ddirfawr. Ysgrifenid ato gan bersonau na welodd mo honynt erioed, a hyny ar bob math o faterion; ac yr oedd yntau mor gydwybodol a gofalus, fel na adawai lythyr heb ei ateb. Dan yr holl bwys hyn, nid rhyfedd i'w iechyd fethu. Nid gormod dweyd iddo amharu ei gyfansoddiad i'r fath raddau, fel na bu mor gryf a chynt byth. Fel rheol, pan yn croniclo helynt pob diwrnod yn ei ddydd-lyfr, dechreua trwy gofnodi fod ei gorph yn sâl ac yn friw. Pan ar daith yn Sir Benfro, mis Mehefin, cwyna fod poen annyoddefol yn ei wddf, ac yn saethu trwy ei ben, a bod ei lygaid, ei glustiau, a'i dafod yn y cyfryw stâd, fel nas gallent gyflawni eu swyddau priodol. Parodd hyn iddo feddwl am roddi y cynghori i fynu, ac ymroddi yn gyfangwbl i'r gwaith o arolygu y cymdeithasau. Mewn llythyr at gyfaill yn Llundain, dyddiedig Mehefin 4, 1743, dywed: "Y mae yn gwasgu yn drwm ar fy meddwl fy mod yn cael fy ngalw oddiwrth y gwaith cyhoeddus at yr hyn sydd yn fwy preifat. Rhoddaf fy rhesymau i chwi, a gwn y gwnewch chwithau eu lledu gerbron yr Arglwydd, ynghyd a'r credinwyr gweddïgar o'ch cydnabod. (1) Ymddengys fel pe bai Duw yn gosod hyn yn fwy ar fy nghalon na'r llall. (2) Y mae fy natur wedi ei hamharu a'i threulio allan i'r fath raddau, a'm corph wedi myned mor egwan, fel nad oes genyf nerth digonol; ac ni fu y cyfryw genyf er ys amser maith, ond pan ei cawn yn wyrthiol trwy ffydd. (3) Yr wyf yn gyson yn colli fy llais, fel na fedraf wneyd i gynulleidfa fawr glywed, o leiaf heb boen dirfawr. (4) Trwy gyfres o dreialon anarferol o bob cyfeiriad, oddiwrth ddynion, oddiwrth Satan, ac oddiwrth fy natur felldigedig fy hun, y mae yr Arglwydd fel pe yn fy nghymwyso yn neillduol at waith oddifewn. (5) Darfu iddo gyfranu doniau cyhoeddus i alw, argyhoeddi, ac i ddal Crist gerbron yr annychweledig, yn helaethach ar amryw o'r brodyr nag arnaf fi, a chredaf eu bod yn cael eu bendithio yn fwy yn y gwaith. (6) Ymddengys angenrheidrwydd am rywun at y gwaith hwn, ac y mae digon o wahaniaeth rhyngddo a'r gwaith cyhoeddus. (7) Trwy hyn, gallwn roddi mwy o amser at ddarllen, ysgrifenu llythyrau, ac, efallai, gwneyd a derbyn mwy o ddaioni yn breifat. Y rhesymau hyn, yn neillduol fy nghrygni a'm gwaeledd, sydd yn eu gwneyd yn anmhosibl i mi ddod i Lun-

dain, oni ddaw rhyw frawd gyda mi at y gwaith cyhoeddus." Pa fodd bynag, dywed i'w selni ddysgu gwersi gwerthfawr iddo, sef ei ddyledswydd i gydymdeimlo a'r rhai ydynt mewn poen; deall y fath gydymdeimlad sydd rhwng y naill ran o'r corph a'r llall, a'r parodrwydd sydd yn y naill aelod i gynorthwyo y llall, yr hyn sydd yn ddrych o'r undeb dirgel ac ysprydol a fodola rhwng y saint; a theimlai yn sicr fod y cystudd wedi ei fwriadu er lles iddo, er ei wneyd yn fwy gostyngedig, ac felly ei barotoi i dderbyn rhyw ddawn oedd Duw ar fedr ei gyfranu iddo.

Ymddengys i'r rhwyg oedd wedi dechreu eisioes rhwng y Diwygwyr a'r Ymneillduwyr ymledu yn ddirfawr tua'r cyfnod hwn. Mai 30, 1743, cawn Howell Harris yn ysgrifenu yn ei ddydd-lyfr: "Clywais trwy y brawd H. am broclamasiwn cyhoeddus yn ein herbyn gan yr anwyl frawd Edmund Jones, a'r rhai a ymlynant wrtho yn mysg gweinidogion yr Annibynwyr. (Condemniant ni): Yn gyntaf, am ein bod yn cymuno gydag offeiriaid cnawdol; ac yn ail, am nad ydym wedi ein hordeinio." "Y brawd H.," yn ol pob tebyg, oedd Herbert Jenkins, yr hwn ar y pryd oedd ar ymweliad a Threfecca. Math o alw i'r gâd oedd y proclamasiwn, yn ddiau, mewn canlyniad i waith Cymdeithasfa Watford yn cynghori yr aelodau a arferent gymuno yn yr Eglwys i barhau, hyd nes yr agorai yr Arglwydd ddrws i adael ei chymundeb. Ymddengys ei fod yn benderfyniad cymanfa, ac yn cael ei anfon at yr eglwysi yn ei chylchlythyr. Y mae cyfeiriad yr ail adran o'r cyhuddiad, sef pregethu heb feddu ordeiniad, yn uniongyrchol at Howell Harris. A dweyd y lleiaf, yr oedd hyn yn anniolchgarwch mawr ar ran Edmund Jones a'i frodyr. Wedi i'r Diwygiwr ymweled a'u hardaloedd ar eu cais, a bod yn foddion yn llaw Duw i argyhoeddi lliaws o eneidiau, o ba rai y darfu i nifer mawr ymuno a'u heglwysi, peth tra annheilwng oedd troi arno, gan ddanod mewn proclamasiwn cyhoeddus, a ddeuai, yn ol pob tebyg, yn swyddogol o'u cymanfa, nad oedd wedi ei ordeinio. Eithr ni chythruddwyd yspryd Howell Harris. Meddai: "Darfu i'r Yspryd Glân, fy anwyl Arweinydd, fy nghadw rhag fy yspryd fy hun, gan fy narostwng, a'm danfon at Dduw, a rhoddi i mi gariad at bawb sydd yn ymwahanu oddiwrthym. Galluogwyd fi i lefain yn y dirgel: 'O Dad, dangos i mi dy lais mewn perthynas i hyn; gwel fel yr ymosodir arnom o bob cyfeiriad. O arwain ni, a threfna ni fel y mynost, a sancteiddia yr oll i ni. Bendithia y rhai sydd yn ein herbyn. Pa hyd y caiff dy blant di ymryson ar y ffordd, a bod yn rhanedig? (Yma rhoddwyd i mi yspryd galar oblegyd hyn). O cadw ni rhag eu niweidio, na gwanhau eu dwylaw mewn un modd. Bendithia a llwydda hwy i gasglu eneidiau atat ti, a bydd yn eu mysg.'" Os bu gweddi anhunangar erioed, yn anadlu yspryd Iesu Grist, yr oedd y weddi hon o eiddo Howell Harris ar ran Edmund Jones, a gweinidogion yr Annibynwyr, felly. Teimla ei hun ddarfod iddo gael ei ddyrchafu uwchlaw ei natur lygredig, oblegyd sylwa rhwng cromfachau: "Y mae hyn yn mhell oddiwrth yr hen ddyn."

Darfu i broclamasiwn Edmund Jones ddwyn ffrwyth, a pheri i nifer o weinidogion yr Ymneillduwyr, oeddynt hyd yn hyn wedi bod yn cynorthwyo gyda'r diwygiad, droi eu cefnau. Yn mhen ychydig ddyddiau cawn Howell Harris yn ysgrifenu fel y canlyn yn ei ddydd-lyfr: "Clywais eto fod nifer o frodyr anwyl, gweinidogion, yn bwriadu ein gadael, oblegyd rhagfarn atom. Yr oedd yn dra phoenus. Ond darfu i Yspryd Duw, trwy yr hwn y gallaf wneyd a dyoddef pob peth, fy nghadw rhag fy hunan. Darostyngwyd fi yn isel, a gwnaed i mi garu Duw o'r herwydd; gan fy mod yn ei weled yn gadwraeth rhag hunan, a rhag ymuno yn gnawdol. Ni theimlwn na llid na dig atynt; gallwn olchi eu traed; ac anfonais genadwri atynt, os gadawent hwy ni, nas gallem ni eu gadael hwy." Byddai yn anmhosibl cyfarfod ag yspryd mwy rhyddfrydig. Efallai fod yr ymadrodd "ymuno yn gnawdol" yn cyfeirio at y perygl y bu Harris unwaith yn ei ofni, sef iddo ef a'i gyd-ddiwygwyr gael eu gyru gan amgylchiadau i ymuno a'r Ymneillduwyr, heb fod yr undeb rhyngddynt yn undeb yspryd a chalon. O hyn allan, ychydig o gymhorth a gafodd Harris oddiwrth weinidogion yr Ymneillduwyr; yr oedd ei fod yn myned o gwmpas i gynghori, heb gael ei ordeinio gan esgob, na'i urddo gan weinidog, yn faen tramgwydd iddynt nas gallent gamu drosto.

Yr oedd cyffro wedi enyn yn mysg y Methodistiaid erbyn hyn am adeiladu capelau; nid mewn gwrthwynebiad i'r eglwysydd plwyfol, ond er cyfleustra i'r

lleygwyr lefaru, gan fod y tai anedd yn myned yn rhy fychain i'r cynulleidfaoedd, ac hefyd er mwyn cynal y seiadau ynddynt. Yn ol pob tebyg, y capel cyntaf perthynol i'r Methodistiaid ag y mae genym hanes am dano, yw capel Maesgwyn, yn Sir Faesyfed. Nid yr un Maesgwyn yw a'r lle o'r un enw cyfagos i'r Gelli, yn mha un y gweinyddai y gweinidog Ymneillduol enwog, Vavasor Griffiths; y mae yn fwy i'r gogledd, ac yn gorwedd rhwng y Rhaiadr a Llanybister. Ysgrifena James Beaumont at Howell Harris, yr hwn oedd yn Llundain, Awst 2, 1742: "Y mae yr Ustus V——n yn bygwth tynu tŷ codi addoldai yn y flwyddyn 1742. O fewn corph y flwyddyn hono ysgrifena at foneddiges gyfoethog, nad oedd yn ddiberygl o gael ei pherswadio i gyfranu ei heiddo at bethau diraid, gan ddynodi amryw achosion teilwng oeddynt yn galw am gymhorth, ac yn mysg pethau eraill, dywed: "Y mae llyfrau i'w hargraffu a'u gwasgar, a thai seiat i'w hadeiladu." Sefydliad neillduol i'r Methodistiaid oedd y seiat, a rhaid mai ar adeiladu addoldai iddynt hwy yr oedd bryd Howell Harris, pan y cyfeiria at dai seiat.

Ymddengys i gapel y Groeswen gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1742. Dyddiad



CAPEL ANNIBYNOL Y GROESWEN.

[*Adeiladwyd y Capel cyntaf gan y Methodistiaid yn y flwyddyn 1742.*]

cwrdd Maesgwyn i lawr." Pe capel Ymneillduol fyddai, buasai wedi ei drwyddedu yn ol y gyfraith, a buasai gymaint allan o gyrhaedd unrhyw ustus i'w dynu i'r llawr ag eglwys gadeiriol Tyddewi ei hun. Anhawdd meddwl na wyddai Beaumont hyn yn dda. Ond gan nad oedd y Methodistiaid gynt yn codi trwydded ar eu haddoldai, am nad ystyrient eu hunain yn Ymneillduwyr, yr oedd yr adeiladau a osodent i fynu i raddau mawr at drugaredd yr erlidwyr. Y tebygolrwydd yw mai capel Methodistaidd oedd Maesgwyn. Yr oedd Howell Harris yn fyw gan awydd gweithred y tir, ar ba un y saif, yw Mehefin 2, 1742. Yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, ceisir gwadu mai y Methodistiaid a'i hadeiladodd, a dywedir yn bendant na fu erioed yn perthyn iddynt. Fel hyn yr ysgrifenir: "Yn 1742, adeiladwyd capel bychan ar ben y Groeswen, ar gwr cae, a elwid y Waunfach, fel cangen o'r Watford, y mae yn dra thebyg. Ond yn mhen ychydig amser, aeth y bobl a ymgynullent yno yn rhy Fethodistaidd i bobl y Watford a'u gweinidog allu cyddynu a hwy; ac felly buont am flynyddau yn ymgyfeillachu mwy a'r Methodistiaid

nag a'r Annibynwyr. Ond ni buont ar un adeg o'u hanes yn Fethodistaidd hollol; a chamgymeriad yw haeru mai gan y Methodistiaid yr adeiladwyd ef, oblegyd yr oedd wedi ei adeiladu cyn i'r Methodistiaid ymffurfio yn gorph. Ffurfiwyd yma gymdeithas eglwysig yn ol cynllun Howell Harris, a bu am dymor yn cael ei hystyried yn gymdeithas Fethodistaidd, yn ol yr ystyr a roddid i Fethodistiaeth ar y pryd."

Y mae y difyniad hwn nid yn unig yn dywyll a chymysglyd, gyda ei wahanol adranau yn gwrthddweyd eu gilydd, ond y mae yn ogystal yn gwbl gamarweiniol. Nid eglwys Watford yn lledu ei therfynau, ac yn bwrw ei gwraidd i lawr mewn tir newydd, a roddodd fod i gymdeithas y Groeswen, ond y Methodistiaid, gwedi blino dadleu yn erbyn David Williams a'i heresi, a chwilient am gartref heddychol. Thomas Price, o'r Watford, cynghorwr gyda'r Methodistiaid, oedd y prif ysgogydd yn y symudiad, a'i enw ef yw y blaenaf o'r ymddiriedolwyr ar weithred trosglwyddiad tir y capel. Cymerai seiat y Groeswen ei llywodraethu gan y Gymdeithasfa fel y seiadau eraill, a cheir ei hadroddiadau, a anfonwyd i'r Gymdeithasfa, yn mysg yr adroddiadau sydd yn awr yn Nhrefecca. Yn mhellach, datgana cynghorwyr y Groeswen yn bendant, yn eu llythyr hanesyddol at Gymdeithasfa Cayo, mai trwy y Methodistiaid y cawsent eu hargyhoeddi a'u dwyn at grefydd, ac mai hwy a gydnabyddent fel eu tadau yn Nghrist. Yn ngwyneb y ffeithiau hyn ofer dweyd na fu eglwys y Groeswen erioed yn Fethodistaidd. Yr oedd mor Fethodistaidd a'r gymdeithas a ffurfiwyd yn ei ysgubor gan Daniel Rowland, yn Llangeitho, ac nid yw fod y capel wedi cael ei adeiladu ychydig fisoedd cyn ffurfiad y Gymdeithasfa, os mai felly y bu, yn newid dim ar y cwestiwn.

Fel y dywedasom, tua'r blynyddoedd 1742-43, yr oedd adeiladu capelau wedi dod yn gwestiwn pwysig yn mysg y Methodistiaid, a thueddwn i feddwl fod amryw wedi cael eu gosod i fynu yn ngwahanol ranau y wlad. Yn mis Mawrth, 1743, ysgrifena y Parch. Benjamin Thomas, y gweinidog Ymneillduol a ymunodd a'r Methodistiaid, at Howell Harris: "Darfu i'r Eglwyswyr gloi un o'r tai cyrddau yn fy erbyn, a phregethais inau gyda fy nghefn ar y drws. Tybia rhai ddarfod iddynt ysgrifenu i Lundain gyda golwg ar hyn. Byddwch mor garedig a rhoddi gwybod i ni beth a allant wneyd. Yr wyf yn foddlon rhoddi fy nghorph a fy enaid i ddyoddef drosto, os rhydd efe i mi nerth." Anhawdd genym feddwl fod Mr. Thomas yn cyfeirio at un o'r capelau Ymneillduol; gwyddai efe, a gwyddai yr holl wlad erbyn hyn, fod Deddf Goddefiad yn gysgod i'r cyfryw, ac nad oedd gan neb, hyd yn nod Archesgob Caergaint, hawl i ymyraeth â hwy; y mae tebygolrwydd cryf mai at dai cyrddau perthynol i'r Methodistiaid y cyfeiria, y rhai oeddynt yn ddiamddiffyn, gan nad oeddynt wedi eu trwyddedu yn ol y gyfraith. Yn Nghymdeithasfa Porthyrhyd, a gynhaliwyd Hyd. 3, 1744, penderfynwyd, yn mysg pethau eraill, fod tŷ at ddybenion crefyddol yn cael ei adeiladu yn Llansawel. Nid oes un rheswm dros amheu ddarfod i hyn gael ei gario allan, ac nid yw geiriad y penderfyniad yn awgrymu ei fod yn symudiad newydd.

Teimlai Howell Harris ddyddordeb arbenig yn y dyddiau o'r flwyddyn a fyddent yn cyfateb i'r adegau pwysig yn ei fywyd ysprydol. Cawn ef yn ysgrifenu Ebrill 6, 1743: "Ar y dydd hwn, wyth mlynedd yn ol, yn ol dyddiau y mis, Sul y Pasg y flwyddyn hono, y derbyniais y sacrament am y tro cyntaf. Yr oeddwn wedi cael fy argyhoeddi gyda golwg ar yr angenrheidrwydd am hyn y Sul blaenorol, sef Mawrth 30. Y pryd hwn cynyrchwyd y fath argraff ar fy yspryd na adawodd fi am bythefnos gwedi. Yna cefais *Holl ddyledswydd dyn*, trwy yr hwn y daethum yn raddol i ganfod fy nhrueni, yr hyn a derfynodd mewn argyhoeddiad." Ebrill 20, 1743, ysgrifena: "Heddyw yw dyddgylch yr wythfed flwyddyn oddiar fy argyhoeddiad cyntaf, trwy ddarllen *Holl ddyledswydd dyn*." Sulgwyn yr un flwyddyn cawn ef yn ysgrifenu: "Dyma gylchwyl yr wythfed flwyddyn er pan y cefais olwg gyntaf—trwy ffydd—ar Grist yn marw trosof, ac y teimlais heddwch a llawenydd. O gwmpas yr amser hwn, wyth mlynedd yn ol, y bwriwyd Satan allan o honof. Yn awr, gwnaed i fy enaid lefain, nid mewn teimlad yn unig ond gyda gradd o oleuni, 'Satan, ti a wyddost dy fod wedi dy fwrw allan o honof, trwy allu Duw; fod Duw yn awr ynof. Ti a wyddost, Satan, mai plentyn Duw ydwyf yn awr, a llestr etholedig iddo. Ti a wyddost mai fi yw dy arglwydd, na chefaist lywodraethu arnaf byth oddiar hyny, ac na chai di ddim llywodraethu arnaf fi. Ti a wyddost fy mod yn eiddo'r

Arglwydd, nas gelli fy niweidio. Gwnaed i fy enaid yn awr mewn ffydd goncwerio ar fy holl elynion, trwy weled fod Duw wedi fy ngharu, ac wedi fy ngwaredu rhagddynt oll. Gwnaed fi, yn wir, yn ddiolchgar am fy ngwaredu o deyrnas y diafol, gyda ei grym a'i thrueni. Gwelais yn awr, trwy ffydd, fy rhagorfreintiau, fy mod yn eiddo yr Arglwydd, ac yntau yn eiddo i minau. Wyth mlynedd yn ol tynwyd fi o grafangau y diafol at Dduw; ond yn awr y mae arnaf eisiau cael fy ngwaredu oddiwrth ddylanwad y cnawd, a'r natur, yn mha rai y mae Satan yn gweithio. O Dduw, gwared fi rhag fy hunan! O, gwared fi rhag fy natur!" Yn sicr, nis gallai neb ond un yn byw llawer yn y byd ysprydol ysgrifenu fel hyn.


Un o ddigwyddiadau mawr y flwyddyn 1743, oedd dal y cynghorwr Morgan Hughes, a'i anfon i garchar Aberteifi, i sefyll ei brawf yn y brawdlys yno, heb ganiatau iddo gael myned yn rhydd yn y cyfamser, trwy roddi meichiau am ei ymddangosiad. Cynyrchodd yr amgylchiad gyffro dirfawr yn mysg y Methodistiaid; ymddangosai yr helynt, y naill ffordd neu y llall, fel yn penderfynu tynged y diwygiad. Pan y pasiai Howell Harris trwy dref Aberteifi, ar ei ffordd i Gymdeithasfa Fisol Longhouse, yr oedd Morgan Hughes, druan, yn gaeth y tu fewn i furiau y carchar. Nis gallodd fyned i'r carchar i'w weled; nid yw yn ymddangos fod ganddo drwydded i hyny oddiwrth yr ynadon. Ond hawdd gweled ei deimlad yn y difyniad canlynol o'i ddydd-lyfr: "Aberteifi, dydd Mercher. Yn y dirgel cefais achos y brawd Morgan Hughes, y carcharor, yn gwasgu yn drwm arnaf. Teimlais y fath gariad ynof fel yr oeddwn fel pe wedi cymeryd lle y carcharor, ac yn teimlo fel y teimlai efe; yr oedd pob peth oedd genyf, bywyd, arian a chwbl, at ei wasanaeth; gallwn ddyoddef yn ei le. Teimlwn hefyd y cyfryw gariad tadol at yr oll o'r cynghorwyr, fel y gallwn ddyoddef gyda hwy. Ysgrifenais lythyr at y brawd Rowland, yn ei gyfarwyddo i geisio cael y brawd yn rhydd trwy roddi meichiau." Teimlad diflas i un a'i ymysgaroedd mor dosturiol a Howell Harris, oedd gorfod cefnu ar Aberteifi heb weled ei gyfaill, na medru ei gynorthwyo mewn un modd. Ni lwyddwyd i gael Morgan Hughes allan trwy feichiau, ychwaith; bu raid iddo aros yn rhwym hyd ddydd y prawf. Teimlai Thomas Price, o'r Watford, a'r gymdeithas i ba un y perthynai, yn ddwfn oblegyd yr helynt. Meddai Mr. Price, mewn llythyr at Howell Harris: "Yr wyf yn ofidus, ac eto yn llawenhau, oblegyd yr erledigaeth ar y brawd Rowland a'r brawd Hughes." Awgryma hyn fod Daniel Rowland yn ogystal wedi cael ei wysio i sefyll ei brawf yn Aberteifi, ond na feiddai yr ynadon draddodi offeiriad ordeiniedig i garchar. Ychwanega Mr. Price: "Bûm yn meddwl myned i Aberteifi erbyn y brawdlys, gyda y brodyr William Morgan a Watkin Evans; ond gan i rwystrau ddyfod ar ein ffordd, a bod y draul yn anghymesur, yr ydym yn anfon hyn (swm o arian) gyda ein serch i'r brodyr Rowland a Hughes. Yr ydym yn anfon cymaint ag a fedrwn o'n cariad gyfranu, er mwyn i chwi symud yr achos i Westminster, ac yr ydym yn barod i'ch cynorthwyo hyd eithaf ein gallu. Gwell i ni fod yn ddiffynwyr, ond os nad ânt yn y blaen, dymunwn arnoch ddwyn cyhuddgwyn yn eu herbyn am gam drin Morgan Hughes ar brif-ffordd y brenin. Nid rhaid wrth dyst, gan i'r peth gael ei gyflawni mewn lle mor gyhoeddus." Felly yr ysgrifena Mr. Price, a hawdd gweled ei fod wedi ei gyffroi, ac y meddai yn ogystal lawer o wybodaeth o'r gyfraith.

Ar foreu dydd Llun, tua diwedd mis Ebrill, y mae Howell Harris a Daniel Rowland yn cychwyn o Langeitho tua brawdlys Aberteifi. Yr oedd eu ffordd ar y cyntaf trwy ddyffryn prydferth Aeron, un o'r rhai tlysaf yn Nghymru; erbyn tri daethant i Clwyd Jack, haner ffermdy a haner palasdy, tua thair milltir islaw Talsarn, lle y cawsant ymborth i'w hanifeiliaid. Cyrhaeddasant dŷ un Walter Watkins erbyn chwech, ac yr oedd yn agos i naw arnynt cyn cyrhaedd Aberteifi. Melus odiaeth oedd y gyfeillach ar y ffordd; teimlent ddirfawr hyfrydwch mewn cael cyd-ddyoddef. Gwelai Howell Harris fawr dynerwch a doethineb Duw yn nhrefniant eu dyoddefaint; ar y cychwyn, pan oeddynt yn wan, ni erlidid hwy ond trwy eu gwatwar a'u gwawdio, dim ond digon o wrthwynebiad yn eu cyfarfod i roddi rhyw gymaint o ymarferiad i'w gras eiddil; a phan, tua phedair blynedd yn ol y cyfododd ystorm yr oedd ganddynt gyflawnder o frodyr, a chyfeillion ac arian i fod yn gymhorth iddynt. Daeth ar ei feddwl i ysgrifenu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg, fel gallai pawb ddod i adnabod Crist; ond teimlai mai ei ddyledswydd gyntaf oedd ymweled a'r seiadau, lle yr oedd yn amlwg

fod yr Arglwydd yn ei fendithio. Wedi cyrhaedd Aberteifi, y peth cyntaf oedd ymweled a Morgan Hughes, y brawd oedd yn y carchar. "Pan ei gwelais," meddai Howell Harris, "aeth fy nghalon yn fflam; tynwyd fi allan mewn nerth ffydd, a chariad, a gwres, fel y diflanodd pob ofn ac iselder yspryd, a dychryn ymddangos gerbron y fainc; gallwn eu gwynebu oll yn wrol, a dyoddef gyda fy mrawd. Yn ngrym y nerth hwn gallwn, yn wir, fyned i'r fflamau; tynwyd ofn y werinos i ffwrdd oddiwrthyf; yr oedd ynof ddigon o ddewrder i arddel fy Arglwydd. Daethum at Morgan Hughes pan oedd yn isel ei yspryd, ac yn gweled pob peth yn ei erbyn, heb wybod am neb a gymerai ei achos mewn llaw. Ond cefais ddigon o nerth ffydd i ddweyd a dangos fod Duw uwchlaw iddynt oll, nad oes arnom eisiau cymhorth braich o gnawd, gan fod Duw yn chwerthin ar ben y diafol, a phob ymgais o'i eiddo, ac y byddai iddo ddwyn da o hyn oll. Cysurais fy mrawd, a theimlais fy hun yn llawn cariad a thosturi at ein gwrthwynebwyr."

Manyla Howell Harris ar eu hanes yn Aberteifi, lle y buont o nos Lun hyd brydnawn dydd Iau. Dywed fod ei gorph yn wan, ond am ei enaid yr oedd yn byw yn mhell uwchlaw y creadur, ac yn bendithio Duw am edrych ar ei fath. Daethai llawer o'r brodyr crefyddol yn nghyd, fel nad oedd prinder cydymdeimlad nac arian; ac yn nghanol eu pryder cadwent gyfarfodydd i weddïo, a chanu, a molianu, y fath na chlywyd y cyffelyb o'r blaen mewn brawdlys. Ymddengys mai un W. Llwyd oedd blaenor yr uchel reithwyr; dangosodd hwn ei fod yn gyfaill i'r diwygiad; ac meddai Harris: "Teimlwn fy enaid yn ymlenwi o gariad ato, cyffelyb i eiddo yr angelion." Buont yn ymgynghori a chyfreithiwr, a dadleuydd, ac yn egluro yr holl achos. Arweiniodd Mr. Llwyd Harris i'r *coffee room* yn y prif westy, i ganol yr uchelreithwyr a'r mawrion, ac ymddengys i argraff ffafriol gael ei gynyrchu. Dydd Iau y daeth y prawf yn mlaen. Yn nghyntaf oll gosodwyd gerbron bump o ddrwgweithredwyr; tri am ladrata caseg, a buwch, a rhyw gymaint o arian; a dau am dori tŷ. Wedi gorphen â'r lladron, a'r tŷ-dorwyr, dygwyd Morgan Hughes gerbron. Ond yr oedd yn ddealledig erbyn hyn fod yr uchel-reithwyr wedi taflu yr achos allan, trwy ddylanwad Mr. Llwyd yn benaf, ac yr oedd ei wraig, boneddiges ieuanc dyner, wedi dylanwadu arno yntau. Addawsai Harris i Mr. Llwyd na byddai i'r Methodistiaid osod cyfraith ar eu herlynwyr, ond iddynt dalu holl gostau y prawf. Felly, nid oedd gan y barnwr ddim i'w wneyd ond rhyddhau Morgan Hughes, heb ei osod ar ei brawf, ac wrth wneyd hyny dangosodd barch mawr at y rhai a erlynid heb ddim yn eu herbyn ond eu crefydd. "O Arglwydd," meddai Harris, "y mae hyn oll yn dyfod oddiwrthyt ti." Felly y terfynodd y prawf yn Mrawdlys Aberteifi, ac y mae yn sicr i'r amgylchiad feddu dylanwad mawr er gyru ofn ar y gwrthwynebwyr, a chalonogi y rhai a geisient addoli Duw yn ol argyhoeddiad eu cydwybodau.

Yn ystod y flwyddyn 1743, hefyd, bu Howell Harris mewn gohebiaeth ag Esgob Tyddewi, gyda golwg ar waith y clerigwyr yn gwrthod y cymundeb iddo, ac i'r rhai oeddynt wedi eu hachub trwyddo. Nid oes un o lythyrau yr Esgob ar gael, ond y mae yn Nhrefecca gopi o lythyr a anfonodd Howell Harris at Ysgrifenydd yr Esgob. Ei ddyddiad yw Awst 1, 1743. Gellir casglu oddiwrtho fod achwynion trymion wedi cael eu dwyn yn erbyn Harris, parthed athrawiaeth ac ymddygiad; a chawn yntau wrth ateb yn dweyd ei feddwl yn ddifloesgni, heb ofni awgrymu nad yw yr Esgob yn hollol iach yn y ffydd. Difynwn ranau o hono: "Yr wyf eto yn amheus a ydyw ei arglwyddiaeth yn cyduno gyda golwg ar gyfiawnhad, mai unig achos am gyfiawnhad gerbron Duw yw ufudd-dod gweithredol a dyoddefol Iesu Grist, heb unrhyw waith o eiddom ein hunain; a bod yr haeddiant hwn yn cael ei drosglwyddo yn rhad i ni gan Dduw, ac yn cael ei ddirnad yn y gydwybod fel yn eiddo i ni trwy y gras o ffydd, yr hwn hefyd sydd yn cael ei roddi i ni. Y mae y ffydd hon yn profi ei hun i ni y wir ffydd, trwy fod yr Yspryd Glân yn tystiolaethu yn ein calonau; ac i'r byd trwy fywyd ac ymarweddiad uniawn. Yn yr ystyr hwn yr wyf yn credu fod sancteiddrwydd tumewnol ac allanol yn angenrheidiol; sef yn angenrheidiol i rodio ynddynt tua'n cartref tragywyddol; a phob amser yn angenrheidiol fel y ffrwyth sydd yn canlyn cyfiawnhad. Gyda golwg ar y cyhuddiadau amgauedig yn eich llythyr, yr wyf yn addef rhai, ac yn gwadu rhai. Ond chwi a addefwch eu bod yn llawn chwerwder, a theimlad cas. Gyda golwg ar y lleoedd y bum yn llefaru ynddynt, cydnabyddaf ddarfod i mi



PHOTOGRAPH O DUDALEN O DDYDD-LYFR HOWELL HARRIS.

wneyd casgliadau at amcanion crefyddol yr ochr arall i'r môr, ond telais hwy bob ceiniog i Mr. Whitefield, fel y dengys ei lyfr, a thalodd yntau hwy at yr amcan mewn golwg. Parthed fy mod yn dal perffeithrwydd dibechod, ni chredais ac ni chyhoeddais hyny erioed. Eithr wedi bod yn nghymdeithas Mr. Wesley, tua thair blynedd yn ol, yr wyf yn addef i mi arfer ymadroddion heb fod yn glir ; ond wedi deall ei fod ef yn dal y cyfryw gred, mi a ysgrifenais lythyr maith ato, ac a ysgerais fy hun oddiwrtho ar bwnc o athrawiaeth. Er hyny, yr wyf eto yn credu ei fod yn ddyn gonest, yn ymdreulio mewn gwneyd daioni, ac fel y cyfryw, yr wyf yn ei garu ac yn ei anrhydeddu. Credaf y byddai ei arglwyddiaeth yn fwy ffafriol i ni pe na chredai yr oll y mae yn glywed. Cyhuddir fi o ddweyd nad yw y naill le yn fwy sanctaidd na'r llall. Yr wyf yn gobeithio eich bod chwithau yn credu felly, nad oes yr un gwahaniaeth, dan yr efengyl, rhwng un lle a lle arall, ond gwahaniaeth cyfleustra ; ac na cheir unrhyw addewid yn yr Ysgrythyr am bresenoldeb Duw mewn un man rhagor man arall, oddigerth gyda golwg ar deml

Solomon. Nid oedd hyny ychwaith ond fel yr oedd yn gysgod o'r eglwys Gristionogol, ac i barhau yn unig hyd nes y sefydlid addoliad ysprydol, pan y darfyddai yr holl gysgodau. Yn awr, pa le bynag yr ymgynull dau neu dri yn enw yr Iesu, ac mewn ffydd, yno y mae presenoldeb Duw. Ar yr un pryd, er mwyn trefn allanol, dymunwn na fyddai un rheswm yn erbyn, a'i fod yn bosibl i ni oll ymgynull yn yr un lle. Am y cyhuddiad ddarfod i mi lefaru ar adeg y gwasanaeth dwyfol yn Felin-newydd, credaf ddarfod i chwi gael eich camhysbysu; mewn anwybodaeth y gwnaethum, os gwnaethum hefyd; yr oedd yn ymyl machlud haul arnaf yn cyrhaedd yno, mor bell ag yr wyf yn cofio. Os troir fi allan o gymundeb, pan na ellir dwyn unrhyw achwyn yn erbyn fy ymarweddiad, tra y mae eraill yn cael derbyniad, er byw mewn pechodau ysgeler, dan rith tynerwch cydwybod, daw yn amlwg ryw ddydd, os nad yw felly yn awr, a ydyw hyn yn ymddygiad cydwybodol. Gwyddoch os nad oes ymwared i'w gael oddiwrth hyn, ac oddiwrth y cyffelyb weithredoedd direswm ac anghariadus, yn y llysoedd eglwysig, fod y gyfraith wladol i'w chael. Os troir aelodau allan o eglwys yn unig am fyned i wrando lle y medrant ddeall yr hyn a wrandawant yn well nag yn eu heglwysydd plwyfol, a lle y cânt fwy o les, ac y teimlant fwy o'r Presenoldeb Dwyfol, nis gwn pa fodd y gall y cyfryw Eglwys gael ei rhyddhau oddiwrth yspryd erledigaeth, na honi ei bod yn meddu y cariad catholig, na'r tynerwch, y rhai y tybiwn ydynt brif nodweddion eglwys."

Llythyr teilwng o apostol. Hawdd gweled ei fod yn ysgrifenu gyda phob gonestrwydd, ac yn hollol ddiofn, er ei fod yn awyddus am dalu i'r Esgob a'i Gaplan bob parch gweddus. Yn ngoleuni y llythyr yma gallwn weled natur y cyhuddiadau a ddygid yn erbyn Howell Harris, sef (1) Ei fod yn dal nad yw gweithredoedd da yn amod cyfiawnhad, a'i fod yn pregethu athrawiaeth John Wesley gyda golwg ar berffeithrwydd dibechod y credadyn. (2) Ei fod yn casglu arian yn y cyfarfodydd crefyddol a gynhelid ganddo, gan ddefnyddio y cyfryw at ei wasanaeth ei hun. (3) Y pregethai nad oedd cysegriad esgobol yn gwneyd adeilad yn fwy sanctaidd, ond y gellid defnyddio unrhyw le, pa un bynag ai wedi ei gysegru neu ynte heb ei gysegru, at ddybenion crefyddol. (4) Ei fod yn cynal ei gyfarfodydd ar yr un adeg ag yr oedd yr offeiriaid yn cynal gwasanaeth dwyfol yn y llanau. Profa yntau ei fod yn ddieuog o rai o'r pethau a osodid i'w erbyn; ac am y pethau eraill, fod ei syniadau yn fwy Ysgrythyrol nag eiddo ei wrthwynebwyr. Gyda golwg ar wrthod y cymun bendigaid iddo ef, a'r Methodistiaid, tra yn derbyn i'r ordinhad sanctaidd ddynion o fucheddau annuwiol cyhoeddus, ysgrifena gyda grym anwrthwynebol, ac anhawdd genym feddwl nad oedd y gwrid yn dyrchafu i ruddiau Esgob Tyddewi wrth ddarllen ei eiriau llosgedig. Da genym weled nad oedd eglwysyddiaeth Harris yn myned mor bell ag y tybir weithiau, ac mai dibwys iawn yr edrychai ar gysegriad esgob. Yr ydym yn parchu ei ddewrder, a'i onestrwydd, ynghyd a'i gydwybodolrwydd i wirionedd ac i Grist.

Dydd Mercher, Awst 3, 1743, y mae Howell Harris yn cychwyn ar gefn ei geffyl tua Llundain, sef ei bumed ymweliad a'r brif-ddinas. Amcan ei ymweliad oedd cael cyfarfod a'r brodyr Saesnig yn eu Cymdeithasfa Gyffredinol. Eithr nid ai y ffordd unionaf; yn hytrach cymerai dro ar draws y Deheudir, mewn rhan er defnyddio pob mantais i bregethu yr efengyl, ac mewn rhan er cael cydymgynghori a'i frodyr, fel y byddai yn alluog yn y Gymdeithasfa i roddi mynegiant i syniadau yr arweinwyr yn Nghymru, yn gystal a'i syniad ei hun. Aeth y diwrnod cyntaf i Beiliau, lle y pregethodd oddiar y geiriau: "Myfi yw y ffordd." Yr oedd yn odfa dda, a theimlai yntau ryddid mawr. Tranoeth, aeth i Myddfai, lle y llefarodd oddiar y geiriau: "Portha fy wyn." Nid arosodd yma nemawr, eithr teithiodd yn ei flaen i'r Parke, yn Sir Benfro, a chyfrifa fod taith y diwrnod o gwmpas haner can' milltir. Yma yr arosodd hyd brydnhawn dydd Sadwrn. Oddiyno aeth yn ei flaen trwy Lanstephan, hyd Gapel Evan. Ymddengys fod Cymdeithasfa Fisol yn cael ei chynal yma. Pregethodd Howell Davies yn mlaenaf, i gynulleidfa o saint yn benaf. Ar ei ol ef llefarodd Daniel Rowland, oddiar Gal. ii. 20: "Mi a groshoeliwyd gyda Christ.' Pregeth anarferol, gyda goleuni a gwres mawr. Dangosai yn (1) Fel y mae yr enaid yn canfod ei hun yn wag o bob daioni, ac fel y mae yn canfod ei ddigonedd, am amser a thragywyddoldeb, yn Nghrist. (2) Natur y farwolaeth o ba

un y mae y Cristion yn marw yn rhinwedd ei undeb â Christ; sef ei bod (*a*) yn farwolaeth boenus, (*b*) yn farwolaeth araf a dyhoenus, (*c*) yn farwolaeth gywilyddus, ond (*d*) ei bod yn dwyn llawenydd i'r enaid. (3) Dangosodd natur y bywyd sydd i'w gael trwy undeb â Christ, a'r fath ddirgelwch yw y credadyn; ei fod yn farw ac eto yn fyw, yn wan ac eto yn gadarn, yn bechadurus ac eto yn bur, yn ddall ac eto yn gweled, yn cwympo ac eto ar ei draed. Y casgliad oedd fod pawb amddifad o'r bywyd hwn o dan y felldith. Gwaeddai gydag awdurdod: "Bechadur, beth wnei di! Dere allan oddi tan y gyfraith, ac oddiwrth bechod, a hunan, a'r byd, a rho dy hun i Grist." Cafodd nerth anghyffredin; yr oedd calon Harris yn gyffrous o'i fewn hyd yr Amen, a theimlai sicrwydd ynddo y gwnai Duw ddisgyn, a bendithio'r gwaith.

O Gapel Evan aeth Harris yn ei flaen ar draws Siroedd Caerfyrddin, Morganwg, a Mynwy, gan bregethu efengyl gras Duw yn Abertawe, Castellnedd, Llantrisant, Watford, a Llanfihangel, a lleoedd eraill, a chyrhaeddodd Bryste dydd Mercher, pen y pythefnos er pan y cychwynodd o gartref. Brysiodd gyda'i gydymaith, James Beaumont, i'r ystafell newydd i wrando Mr. Mansfield yn pregethu. Pwnc y bregeth oedd cyfiawnhad heb weithredoedd y ddeddf; eglurai y llefarwr y mater mor glir, gan ddangos geudeb yr egwyddor o wneyd hyn, a'r llall, ac arall, er mwyn cael bywyd, fel y llanwyd enaid Harris a diolchgarwch i Dduw am gyfodi y fath oleuni yn y wlad. Teimlai ei falchder hefyd yn cael rhyw gymaint o glwyf am ddarfod iddo dybio nas gallai y cyfryw oleuni ddyfod "heb fod rhai o honom ni yn eu mysg." Ai y Cymry a olyga wrth y "ni," nis gwyddom. Bwriadai fod yn bresenol mewn Cymdeithasfa Fisol yn Mryste, ond yr oedd drosodd cyn iddo gyrhaedd. Eithr wedi clywed y penderfyniadau teimlai y gallai gymeradwyo yr oll. Boreu dydd Iau ail gychwynodd tua Llundain, gan gyrhaedd yno oddeutu pump prydnawn dydd Gwener. Elai i mewn i'r ddinas trwy Hyde Park, gan basio yr adeiladau mwyaf gorwych perthynol iddi, ond prin y sylwai ar y mawredd oedd o'i gwmpas; agorodd Duw ei lygaid i ganfod gogoniant byd arall, a gwychder tŷ ei Dad, yr hwn ogoniant sydd dragywyddol, tra y mae mawredd daear i ddiflanu. Er mor flinedig ydoedd, aeth y noson hono i'r Tabernacl i wrando Mr. Whitefield yn pregethu, a theimlo ei enaid yn ymddarostwng ynddo tan ddylanwad y gwirionedd.

Boreu dydd Sadwrn aeth Howell Harris, yn ngwmni Whitefield, i gyfarfod â John a Charles Wesley. Teimlai nad oedd yn gymhwys i fod yn mysg y cyfryw gymdeithion, ac y byddai yn fraint iddo gael bod wrth eu traed i'w cynorthwyo. Mater eu hymgynghoriad oedd gwaith mawr y diwygiad, y posiblrwydd o undeb rhyngddynt, a'r priodoldeb o neillduo personau i gyfarfod er cael cydweithrediad. Cafwyd cryn ymddiddan gyda golwg ar gyfranogi o'r sacrament yn nghyd; nid oedd y ddau Wesley yn teimlo eu hunain yn rhydd i hyny; ofnent rhag i gyfarfyddiad canlynwyr Whitefield a'u canlynwyr hwythau beri dadleuon. Cydunent mai dymunol cael pregethwyr diurddau, eu bod gan bob eglwys; mai gwell peidio ymffurfio yn blaid wahaniaethol hyd nes y byddai iddynt gael eu gwthio allan o Eglwys Loegr; ac hefyd i roddi cyfraith ar y werinos a ymosodai arnynt, fel y gallent gadw eu rhyddid. Eithr nid oedd y Diwygwyr am ddial; bwriadent faddeu i'r rhai a'i camdriniai wedi iddynt ddeall ddarfod iddynt droseddu cyfraith y tir. Penderfynasant yn mhellach apelio at y gyfraith wladol rhag traha y llysoedd Eglwysig. Ymadawyd mewn teimlad hyfryd, wedi cydymostwng gerbron gorsedd gras.

Dydd Mercher, yn mhen yr wythnos, y dechreuodd y Gymdeithasfa, yr hon oedd yn gyffredinol i'r holl frodyr Saesnig. Pwnc cyntaf yr ymdriniaeth oedd y priodoldeb o ymwahanu oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Meddai Howell Harris: "Darfu i'r brawd Whitefield a minau sefyll yn erbyn; ac yn y pen draw darbwyllwyd y brodyr i aros fel yr ydym. Yr wyf yn cael nad yw yr Arglwydd am ddinystrio yr Eglwys Genedlaethol dlawd hon. Yn (1) Y mae ganddo lawer o eneidiau da o'i mewn, nad ydynt yn ymuno â ni. (2) Y mae yn cadw ac yn bendithio y brawd W. yn fawr. (3) Y mae yn goruwch-lywodraethu malais y clerigwyr. (4) Y mae wedi argraffu yn ddwfn ar feddwl y brawd Whitefield y bydd iddo gael ei wneyd yn esgob, a thrwy hyn y mae yn ei gadw yn mlaen fel y mae yn awr. (5) Y mae yn rhagluniaethol wedi ein cadw rhag ysgar oddiwrthi hyd yn hyn. Parhaodd y ddadl yn hir; dadleuais (1) brydferthwch ffurf yr ordeiniad yn ein mysg; (2) fod yn rhaid i'r sawl a fyddo

am gael ei ordeinio gael cymeradwyaeth y sawl sydd yn ei adwaen, gan y rhaid cyhoeddi ei fwriad o gynyg ei hun, yn eglwys y plwyf, dri Sul yn mlaen llaw; (3) rhaid iddo gael cymeriad oddiwrth dri offeiriad sydd yn ei adnabod; (4) rhaid iddo gael ei arholi gan yr esgob. Dywedais nad aethum allan ar y cyntaf i ffurfio plaid, ond i ddiwygio y wlad, ac mai dyna wyf yn wneyd yn awr.

"Cydunwyd nad yw y brawd Humphreys i gymeryd ei ordeinio (yn ol ffurf yr Anghydffurfwyr). Sonia ef am ymuno â'r Ymneillduwyr, a chymeryd y gynulleidfa gydag ef. Cefais ryddid i ddweyd am iddo yn hyn ateb i'w gydwybod; ond pe bawn i yn ei gefnogi gyda golwg ar ordeiniad, y byddwn yn dyfod yn un ag ef yn yr *act*, ac yn ei gwneyd yn eiddo i mi fy hun. A chan nas gallwn gymeryd fy ordeinio fy hunan yn y cyfryw fodd, nas gallwn ei gefnogi yntau. Eithr y byddai i mi wedi hyny ddal cymundeb ag ef fel brawd Ymneillduol, ond nid fel un o'r Methodistiaid, y rhai ydynt yn briodol yn perthyn i Eglwys Loegr, oni yrir hwy allan. Cydunwyd gyda golwg ar y cyfryw Ymneillduwyr ag sydd yn ymuno â ni, fod i rai gweinidogion Ymneillduol a wnant hyny, gael cyfranu yr ordinhad; ac yn mysg y gweddill, y rhai na fedrant gael y cymun yn yr Eglwys, rhai o'n hoffeiriaid ni a fyddant yn rhydd. Y mae hyn yn groes i'r canonau; eithr yr ydym yn gwadu awdurdod y rhai hyny."

Teifl yr ymdrafodaeth ffrwd o oleuni ar agwedd meddwl y Methodistiaid yr adeg hon. Yr oedd y pwnc o barhau yn nghymundeb yr Eglwys wedi dyfod yn gwestiwn llosgawl. Whitefield, a Howell Harris, oedd y mwyaf awyddus am aros i mewn. Am Whitefield y mae yn sicr ei fod yn credu y caffai ei wneyd yn esgob; yr oedd ei gyfeillgarwch a'r Iarlles Huntington, ac a phendefigion a boneddigesau urddasol eraill yn ei gefnogi yn ei dyb; ceir amryw gyfeiriadau yn nydd-lyfr Harris at y gobaith y byddai iddynt gael esgob mewn cydymdeimlad a'r diwygiad; a diau fod a fynai hyn a'i ymlyniad penderfynol wrth y Sefydliad. Nid ydym am awgrymu fod Whitefield yn wageddus ei feddwl, ac yn awyddus am y swydd er dyrchafiad personol. Tebygol y credai mai y modd i beri i grefydd efengylaidd wreiddio yn y deyrnas oedd trwy efengyleiddio yr Eglwys Wladol; a phe bai y Methodistiaid yn cefnu arni, ac yn ymffurfio yn blaid ar wahan, y byddai i'r amcan gael ei oedi, os nad ei wneyd yn amhosibl. Ac eto, efallai nad oedd urddas y swydd heb feddu rhyw gymaint o ddylanwad arno. Pwy sydd yn hollol rydd oddiwrth awydd am ddyrchafiad? Am Howell Harris, nid hawdd deall grym ei ymlyniad. Ar y naill law yr ydym yn ei gael yn ddyn rhyddfrydig, yn dibrisio traddodiadau a defodau yr Eglwys Wladol, yn tori ar draws ffurfiau a ystyrid yn awdurdodol, ac yn meiddio dweyd yn ngwyneb yr Esgob nad oedd gwahaniaeth o gwbl rhwng tŷ wedi ei gysegru, a thŷ heb ei gysegru. O'r ochr arall, ni fynai son am adael ei chymundeb, oddigerth cael ei yru allan. Modd bynag, yr ydym yn sicr ei fod yn gwbl anhunangar yn y mater. Nid oedd ei lygaid yn cael eu dallu gan swydd, ac nid oedd yn awyddus am gael ei ddyrchafu. Os oedd yn dymuno cael ei ordeinio, awyddai am hyny er cael mantais helaethach i wneyd daioni.

Ond i fyned yn mlaen gyda phenderfyniadau y Gymdeithasfa. Cydunwyd mai cyfreithlon erlyn â chyfraith y werinos a derfysgent y cyfarfodydd, ac a ymosodent ar y crefyddwyr. "Ar hyn," meddai Howell Harris, "llanwyd fy enaid a thosturi at y terfysgwyr; cefais y fath olwg ar eu trueni, a'r fath gariad atynt, fel yr oedd fy nghalon ar dori." Wrth benderfynu gosod yr achos yn llaw cyfreithiwr, yr oedd gofal i gael ei gymeryd nad oedd y personau a erlynid i gael eu niweidio; gyru ofn arnynt yn unig oedd yr amcan. Yna aed i giniawa i dŷ un Mr. Richardson. O gwmpas y bwrdd bu cryn ymddiddan gyda golwg ar y Morafiaid, a'u cyfeiliornadau; a gwnaeth Howell Harris ymdrech i leihau chwerwder teimlad rhai o'r brodyr atynt. Yn yr hwyr yr oedd seiat. "Ac er fy mod trwy y dydd," meddai Harris, "yn mhell o'r goleuni, ac heb feddu cymundeb yspryd â Duw, yn y canu daeth y dylanwad dwyfol arnaf, fel y cefais fy nhynu yn agos at yr Arglwydd, ac y perwyd i mi lefain am gael peidio dychwelyd i'r creadur."

Ymgynullai y Gymdeithasfa ychydig wedi saith dydd Iau drachefn. Teimlai Howell Harris ei hun yn dywyll ac yn dra digysur; yr oedd y ddadl y dydd blaenorol wedi dolurio ei yspryd. "Yr oedd cryn betrusder yn fy meddwl," meddai, "pa un a barhawn i fod yn gysylltiedig a'r Gymdeithasfa hon. Er y gallwn aros i ddysgwyl am dano, nis gallaf deimlo yr un undeb brawdol atynt ag at y brodyr yn Nghymru. Ychydig wedi saith aethum

at y brodyr, ac eisteddasom hyd wedi dau, yn trefnu achosion y Tabernacl, gan ddewis yn (1) ymwelydd a'r cleifion, (2) athraw ysgol, (3) llyfrwerthydd, (4) un yn ben ar bob dosparth, er ceisio eu dwyn i drefn. Yna cafwyd ymddiddan maith am y priodoldeb o bregethu y ddeddf fel rheol bywyd i gredinwyr. Yr oedd y brawd Cennick yn erbyn hyn, eithr pregethu Crist, hyd nes y byddem yn dyfod yn debyg iddo, a phechod yn cael ei ddystrywio. Minau a ddywedais nad oeddwn yn cyduno ag ef, a bod ei syniadau yn Antinomaidd. Fy mod yn meddwl fel mai trwy adnabyddiaeth o Dduw yn Nghrist y mae y creadur newydd yn cael ei borthi, felly mai trwy sancteiddrwydd Duw yn y gyfraith y mae gweled drwg pechod, ac y dinystrir yr hen ddyn, sef y natur lygredig. Mai nid hyd nes y byddom yn credu yr ydym dan y ddeddf, ond hyd nes na byddo dim o'r hen natur yn aros; a bod y ddeddf i barhau yn athraw i ni hyd nes y dygir ni i lwyr ddarostyngiad i'r Iesu. Gwelwn ei fod ef (Cennick) y tuhwnt i mi yn mhell mewn rhyddid, ond nis gallwn uno ag ef yn hyn. Cefais nerth i ddweyd sut yr oedd arnaf, fy mod yn methu teimlo undeb â hwynt, y modd yr oeddwn yn teimlo petrusder gyda golwg ar ddyfod i Lundain gwedi hyn, a datgenais fy mwriad i beidio dyfod. Yr oeddwn yn farw, a dwl, a thywyll, a sych, yn mhell oddiwrth Dduw, ac nis gallwn deimlo cymundeb â Duw nac â hwy. Darostyngwyd fi; gwelais nad oeddwn yn deilwng i ddyfod i'w mysg, ac eto yr oeddwn yn llawn cariad atynt. Yna ymddiddanasom am lawer o bethau.

Yna, gwedi trefnu ymwelwyr mewn cysylltiad a'r Tabernacl, ynghyd a r tŷ newydd, ciniawsom yn nghyd; yr oeddwn yn afiach o ran corph, ac yn flinedig yn fy yspryd. Ymneillduais, a cheisiais weddïo a thynu yn agos at fy Arglwydd, ond nis gallwn. Ychydig o Dduw a welwn yn fy neall, yn fy ewyllys, ac yn fy serchiadau; ond llawer o'r diafol, ynghyd a'r natur hono sydd yn barod i gyneu mewn unrhyw brofedigaeth. Myfi yw yr eiddilaf, y dallaf, y mwyaf llygredig, a'r llawnaf o hunan o bawb; a thra yn dymuno am i undeb mewnol i gael ei ffurfio, yr wyf yn ewyllysgar i fod mewn undeb allanol á hwy. Yr oedd yn boenus arnaf heddyw; ac eto yr wyf yn drwyadl ddedwydd, o herwydd fy mod trwy ffydd yn gorwedd ar ffyddlondeb Crist." Felly yr ysgrifena Howell Harris, a therfynodd y Gymdeithasfa trwy iddo ef bregethu oddiar Heb. x. 19, 20.

Dyma y ddadl frwd gyntaf, yn cynyrchu teimladau dolurus, a gymerodd le yn Nghymdeithasfaoedd y Methodistiaid. Hawdd gweled ddarfod i Howell Harris golli ei dymer. Cydnebydd yntau hyny mewn gofid, gan achwyn yn dost ar ei natur lygredig, yr hon sydd yn barod i danio ar y brofedigaeth leiaf. Cawn gipolwg am y tro cyntaf ar y dymher gyffrous, a'r yspryd na oddefai gymeryd ei wrthwynebu, a andwyodd ei ddefnyddioldeb gwedi hyn, ac a barodd iddo droi ei gefn ar ei frodyr. Y mae yn sicr fod a fynai ei iechyd, canlyniad naturiol gorlafur, a'r ysprydiaeth oedd yn dechreu ei feddianu.

Dychwelodd i Lundain ddechreu mis Hydref. Y peth cyntaf a gofnoda wedi dychwelyd adref yw ymddiddan ag un Richard Jenkins, yr hwn oedd wedi gadael y Methodistiaid, ac wedi ymuno a'r Ymneillduwyr. "Gwelais," meddai, "ei fod yn synio yn gyfeiliornus am danaf, sef fy mod wedi newid fy marn gyda golwg ar y Gair ysgrifenedig a bywiol; fy mod yn derbyn ac yn coleddu chwedlau anwireddus am danynt, gan edrych arnynt fel plaid wedi ymuno yn ein herbyn, a'm bod wedi gosod gorfodaeth ar bobl i gadw i ffwrdd oddiwrthynt. Atebais inau fod y goleuni a ganlynent yn digwydd gwanhau ein dwylaw; am danaf fy hun, fy mod wedi cael fy ngalw i aros yn yr Eglwys Sefydledig; a'u bod yn pregethu yn ein herbyn. Ond gyda golwg ar Mr. Edmund Jones, fy mod yn credu am dano ei fod yn blentyn i Dduw, yn wir weinidog i Grist, ac yn gwneyd pob peth a wnelai yn gydwybodol; ond fy mod inau yn aros yn yr Eglwys o herwydd cydwybod, ac nid o herwydd rhagfarn. Yna mynegais fy syniadau gyda golwg ar y Gair ysgrifenedig, nad yw Duw ynddo yn hanfodol, nac yn barhaus, nac yn gweithio ynddo yn wastad, ond fel y mae yn ewyllysio; mai offeryn ydyw y Gair, trwy yr hwn y mae yr Arglwydd yn gweithio i alw pechaduriaid ato ei hunan, ac i ddatguddio iddynt yr Arglwydd Iesu. Ond ynddo ei hun, ac ar wahan oddiwrth Dduw, nad yw ond llythyren farw, a'i fod yn amddifad o oleuni, a bywyd; mai yn Nuw yn unig y mae y bywyd. Ei fod (y Gair) yn destament ysgrifenedig, yn cynwys cymunroddion i blant Duw, ac yn ddarlun o Dduw, yn ei gynrychioli gerbron y byd;

ond nas gallwn weled Duw ei hun heb i'r Yspryd ei ddatguddio i'n heneidiau; fod yr Yspryd ar wahan oddiwrth y Gair, ac nad yw wedi rhwymo ei hun wrtho, er ei fod wedi ein rhwymo ni; a bod dal ei fod yn wastad ynddo, pe byddai ein grasusau ni yn weithgar i'w ganfod, yr un peth, yn ol fy meddwl i, a dweyd fod yr Yspryd yn wastad yn y dwfr bedydd, neu yn yr elfenau yn Swper yr Arglwydd; a'i fod yn wadiad ar benarglwyddiaeth yr Yspryd, yr hwn sydd yn tywynu fel y rhynga bodd iddo yn y Gair, ac yn ein heneidiau ni. Ein bod yn deall ei fod yn fynych yn bresenol yn y Gair i eraill pan nad yw i ni, ac i ni heb fod i eraill. Fy mod yn cael am y llyfr, a elwir y Beibl, ei fod yn unig am amser, tra y byddom yn y cnawd, ac na fydd ei angen yn y byd ysprydol, am y gall Duw lefaru yno yn ddigyfrwng wrth ein heneidiau. Pan y mae yr Arglwydd yn llefaru trwy y Beibl, fod y llais a'r nerth yn bethau ar wahan oddiwrth y Beibl, a'i fod yn farw hyd yn nod y pryd hwnw, er fod bywyd yn dyfod i ni trwyddo, ac nad yw ond cyfrwng."

Prawf y difyniad hwn fod Harris yn dduwinydd ardderchog, ac y meddai graffder dirfawr i adnabod pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt. Gwelir hefyd fod y gwahanfur rhyngddo a'r Ymneillduwyr yn ymddyrchafu yn raddol, a bod y naill wedi myned yn ddrwgdybus o'r llall. Dau ddiwrnod o orphwys, os gellir ei alw yn orphwys, a gafodd wedi dychwelyd o Lundain, cyn cychwyn drachefn ar ei deithiau. Nos Sul y cyrhaeddodd adref; dydd Mercher canlynol wyneba ar Glanyrafonddu, yn yr hwn le y cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol. Ar y ffordd goddiweddodd rai o'r wyn, cymdeithas pa rai a fu yn foddion i danio ei enaid. "Pan y clywais," meddai, "am y gweinidogion Ymneillduol yn troi yn ein herbyn, ac yn bwrw rhai allan am ymuno â ni, galerais. Pan y clywais drachefn fod y gwaith yn myned yn mlaen yn ogoneddus trwy y brodyr Rowland, Williams, a Davies, llawer yn dyfod tan argyhoeddiadau, a chanoedd lawer yn dyfod i'r ordinhad, fflamiodd fy enaid ynof, a thynwyd fi allan i fendithio yr Arglwydd." Yn Llwynyberllan cyfarfyddodd a'r tri offeiriad y clywsai am eu llwyddiant, sef Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, a thaniwyd ei yspryd yn eu cwmni. Teimlai amddifadrwydd o rym i fyned i Ogledd Cymru, ond meddai, "teimlwn y gallai fy enaid apelio at Dduw, gan lefain: 'O Arglwydd, ti a wyddost fy mod yn foddlon myned yno i farw, ac yna i ddod atat ti." Pregethodd Howell Davies yn Llwynyberllan, oddiar Esaiah i. 6, a chafodd odfa nerthol. Dranoeth cyrhaeddodd cenhadau Crist Glanyrafonddu, a chafodd Herbert Jenkins afael ryfedd ar weddi wrth agor y Gymdeithasfa. I gychwyn, llefarodd Harris hyd nes tua haner awr wedi dau wrth yr holl frodyr cynulledig, am fawredd y gwaith, am drefn a darostyngiad, am ddarllen yr Ysgrythyr, a llyfrau da eraill er diwyllio eu meddyliau; a'i fod yn gweled mai ei le ef oedd cynorthwyo y gweinidogion ordeiniedig.

Ond chwythodd ystorm ar y Gymdeithasfa. Meddai Howell Harris: "Cyfododd dadl yn ein mysg gyda golwg ar y Morafiaid; yr oedd y brawd Rowland yn rhagfarnllyd o'u plaid; safais inau yn erbyn eu cyfeiliornadau. A'r gelyn a lywodraethodd fy yspryd. Drachefn, y brawd Morgan John Lewis a ddatganodd ei argyhoeddiad gyda golwg ar adael yr Eglwys Sefydledig, fod ei sail yn Iuddewaidd, ei chanonau yn anysgrythyrol, ei hoffeiriaid yn elynion Duw, a'i haddoliad yn ffurfiol, gyda llawer o goelgrefydd Babyddol, a'i fod yn meddwl y dylem ei gadael yn awr; mai yn awr yw yr amser i adael cyfeiliornadau, pan yr ydym yn argyhoeddedig o honynt. (Datganodd yn mhellach): Ein bod yn awr yn eglwys, ac y dylem ymwahanu; i'r eglwys Iuddewig gael ei sefydlu yn gyntaf yn yr Aipht, yn ganlynol iddi gael ei dwyn i'r anialwch, ac ymwahanu; fod yr eglwys Gristionogol am beth amser yn yr eglwys Iuddewig, ac yna iddi ymwahanu. Yna yr holl frodyr a gytunasant yn erbyn hyn, nad oeddem yn cael ein galw i ymneillduo; na ddarfu i ddisgyblion Crist adael yr eglwys Iuddewaidd nes iddynt gael eu gwthio allan; ac nad ydym ni yn euog am ddim o'r drygau sydd yn yr Eglwys, gan ein bod wedi codi ein llais yn eu herbyn. Datgenais i fy ffydd a'm rhesymau y bydd i'r gwaith hwn (sef y diwygiad) lanw yr Eglwys a'r deyrnas." Y mae yn dra sicr i'r ddadl fod yn frwd, ac i Howell Harris gyffroi yn enbyd. Y mae yr ymadrodd fod y gelyn yn llywodraethu ei yspryd, yn dra arwyddocaol, ond yn dangos gonestrwydd na cheir yn gyffredin ei gyffelyb. Ai parch i deimladau Howell Harris a barodd i'r brodyr benderfynu yn unfryd na wnaent ymwahanu, ynte argyhoeddiad gwirioneddol mai aros yn yr Eglwys oedd eu

dyledswydd, nis gwyddom. Ond hyfryd cofnodi ddarfod i'r ystorm dawelu, ac i dangnefedd lanw y gynhadledd. Meddai y dydd-lyfr: "Yna, wedi cyduno i aros fel yr ydym, a chwedi ateb rhyw bethau i'r rhai a betrusent, gweddïasom a chanasom, a daeth nerth a thân i'n mysg."

O hyn hyd y diwedd aeth y Gymdeithasfa yn mlaen yn hyfryd. Dygai yr arolygwyr eu hadroddiadau i mewn, y rhai oeddynt yn nodedig o galonogol, a phenderfynwyd llawer o bethau. Yn yr ymdrafodaeth, cafwyd goleuni arbenig trwy y brodyr Morgan John Lewis, a William Richard. Gosodwyd y brawd John Richard, Llansamlet, yn ol yn ei le, wedi iddo fod dan ychydig gerydd. "Wedi penderfynu pob peth," meddai Harris, "a chael fod arolygwyr Siroedd Mynwy, a Threfaldwyn, yn glauar, agorodd yr Arglwydd fy ngenau, a chyda dwyfol ddoethineb, gallu, awdurdod, cariad, a melusder, mi a hyderaf, anerchais y cynghorwyr gyda golwg ar eu gwaith; y pwys iddynt iawn ymddwyn yn mysg yr ŵyn; am ein hanghymwysder, bawb o honom, i'r gorchwyl; am y pwys o ymroddi i ddarllen; am adeiladu y saint fel meini bywiol, am gymeryd y gwaith yn uniongyrchol o law Duw, ac am garu ein gilydd. Yr oedd bywyd a gallu yn cydfyned a'r ymadroddion, yn dangos pa mor fawr yw y pethau a wna Duw yn fuan trwy y gymdeithas hon." Boreu dranoeth, sef dydd Iau, ysgrifena drachefn: "Yr oedd swn canu a gweddïo i'w glywed trwy gydol y nos. Yr oedd cwmwl cyfan o dystion yr Oen wedi ymgynull, sef tri offeiriad, dau frawd Ymneillduol, deuddeg arolygwr, a nifer mawr o gynghorwyr. Teimlwn agosrwydd mawr at Dduw. Treuliais y boreu mewn ffarwelio a'r b odyr, ac yn trefnu fy nheithiau, yr hyn wyf yn wneyd bob amser gyda mawr ofal a gweddi." Arosodd yn Glanyrafonddu hyd dydd Sadwrn, ac yna cychwynodd am Langeitho. Y Sul, cafodd flas mawr ar wasanaeth yr Eglwys, a phregethodd Rowland yn rhyfedd oddiar Hosea i. 10. Yr oedd mewn agosrwydd mawr at yr Arglwydd hefyd ar y cymundeb. Dywed fod y gynulleidfa fawr a ddaethai yn nghyd yn dyfod o wyth o wahanol siroedd. Yn y prydnhawn, am bump, pregethodd Harris oddiar y geiriau: "Aroswch yn fy nghariad," a chafodd ryddid ymadrodd dirfawr. Boreu dydd Llun, cyfid am bump, teimla gariad angerddol at Rowland a Williams, Pantycelyn, fel nad hawdd ffarwelio â hwy, ac am chwech cychwyna tua Llanbrynmair. Tramwyodd trwy ranau helaeth o Siroedd Trefaldwyn, Maesyfed, a Brycheiniog cyn dychwelyd.

Yn mis Tachwedd cawn ef yn bresenol mewn Cymdeithasfa Fisol yn Llanddeusant. Ni fu yno na digter na dadl, ond pob peth yn myned yn mlaen yn hyfryd. Rhoddodd Harris siars ddifrifol iawn i'r cynghorwyr, gyda golwg ar eu hymddygiad, eu gwisg, a'u darllen; dangosai fawredd y gwaith, gwerth yr ŵyn, a pha fodd y dylent eu caru, a bod yn dyner o honynt, er mwyn Crist. "Yr oeddwn yn fanwl," meddai, "wrth ddangos sut y mae hunan a balchder yn dyfod i mewn, dan wahanol liwiau, megys gwisgoedd, &c. Yna agorwyd fy ngenau, gan Dduw, yr wyf yn credu, i geryddu brawd am fod yn anffyddlawn i'w ymddiriedaeth. Tra yr oeddwn yn ei geryddu aethum i lawr i'r llwch, yr oeddwn yn cael fy nhrywanu gan gariad ato, a dangosais ganlyniadau niweidiol anffyddlondeb i ymddiriedaeth i bawb o honom, ei fod yn ddirmyg ar awdurdod Duw yn ein mysg." Nid oedd Harris yn fwy dirmygus a gwael yn ei olwg ei hun un amser, na phan yn gweini cerydd i arall, a chawn ef y tro hwn yn llefain ar y canol: "O Arglwydd! Pwy wyf fi i fod yn y fath le o ymddiried! Yr wyf yn ei deimlo i'r byw, ei fod yn fy ngosod fwyfwy yn lle tad, ac y mae hyn yn fy ngyru i'r llwch."

Diorphwys y teithiai Howell Harris misoedd Tachwedd a Rhagfyr, 1743. Yr ydym yn ei gael yn barhaus naill ai yn Llangeitho, neu ynte yn nghymdeithas Daniel Rowland a Williams, Pantycelyn, mewn rhanau eraill o'r wlad, yr hyn a arwydda fod materion pwysig cysylltiedig â'r diwygiad yn peri dirfawr bryder, ac yn gofyn am aml a dwys gydymgynghoriad. Eithr yr oedd yspryd Harris ar uchelfanau y maes. Dydd Nadolig ysgrifena: "Yr wyf yn awr yn dychwelyd o daith am bedair wythnos trwy Siroedd Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin, lle y mae y gwaith yn myned yn mlaen yn rhyfedd. Ni welais erioed o'r blaen yn y nifer amlaf o leoedd y fath dân, bywyd, nerth, a rhyddid ffydd. Bydded i Grist gadw mewn cof yn ein mysg ryfeddol waith yr Yspryd Glân. Yn sicr, y mae yr Arglwydd wedi dychwelyd i'w deml. Neithiwr, yn y dirgel, yr oedd fy enaid yn llosgi gan

awydd am ogoneddu Duw; yr oedd fy enaid ar dân gan fawl i Dduw. Llefwn: 'O Dduw, yr wyf yn dy garu ac yn dy fendithio am Grist. Yr wyf yn dy fendithio am ei fywyd, fy nheitl perffaith i'r nef; yr wyf yn dy fendithio am ei farwolaeth, fy ngwaredigaeth rhag y felldith; yr wyf yn dy fendithio am ei adgyfodiad, am orchfygu marwolaeth, a phechod, a'r diafol; yr wyf yn dy fendithio am ei fod yn awr mewn gogoniant, a phob awdurdod ganddo.' O, y rhyddid hwn! Cryfhawyd fy ffydd yn fawr wrth ddarllen Mat. i. 21, y gellid fy ngwaredu oddiwrth fy mhechodau. Cefais lawer o nerth i weddïo dros y sir hon, yn enwedig ar i Dduw aros yma, a'm bendithio inau iddi."

Blwyddyn ryfedd yn hanes Methodistiaeth Cymru yw y flwyddyn 1743. Ynddi y cymerodd cyfansoddiad y Cyfundeb ffurf arosol, ac y darostyngwyd y seiadau a'r cynghorwyr i drefn. Bu yn gyfnod o ddirfawr bryder, o ymdrechion arwrol, ac o ymweliadau grymus. A chawn Howell Harris ar ei therfyn mewn yspryd bendigedig, yn bendithio ac yn molianu Duw.

Y dydd Mercher cyntaf yn y flwyddyn 1744, cyfarfyddai y Gymdeithasfa Chwarterol yn Watford. Y mae profiad Harris ar ei ffordd yno yn haeddu ei groniclo: "Llefais mewn dwfn ddarostyngiad: 'O Arglwydd, oni bai am y gras sydd ynot ti, O Iesu, nis gallwn fyned yn y blaen; dychrynid fi gan y treialon a'r croesau; ynot ti ac ar dy ras yr wyf yn pwyso.' Cefais olwg hyfryd ar ogoniant, cariad, a melusder Duw; gorweddais yn gysurus arno, gan lefain: 'Gyda golwg ar fyned i Lundain, dangos i mi, Arglwydd, a ydwyt yn fy anfon. Yr un peth i mi yw myned neu beidio myned. Yn unig bydded i mi dy gael di, yna danfon fi i uffern, os wyt yn ewyllysio, i bregethu i'r gethr sydd yno. Yr wyt ti yn frenin arnynt hwy, ac y maent yn rhan o dy deyrnas.' Gwelais hyn mor amlwg fel yr oeddwn yn barod i fyned neu beidio myned. Yna yn ddisymwth cododd cri ynof: 'O Arglwydd, anfon fi i Lundain; anfon genadwri gyda mi er bendith i'r ŵyn.' Teimlwn gariad dwfn, a dymuniad am gael fy anfon i'w mysg. Gyda golwg ar y mawrion yr wyf i ymddangos ger eu bron, sef esgobion, &c., gwnaed i fy enaid lefain: 'O Arglwydd, yr wyt ti yn y nefoedd; ar y gras sydd ynot ti yr wyf yn pwyso.' . Y ddoe oedd y dydd yr ymddangosai yr ŵyn perthynol i Sir Drefaldwyn, gerbron y gelynion yn Bangor; teimlais gymundeb dwfn â hwy yn eu dyoddefaint, a hyder y byddai i Dduw fod gyda hwy. Am danaf fy hun, teimlwn yn barod i fyned i ganol y werinos, a marwolaethau o bob ffurf, gan fy mod yn gweled Crist uwchlaw pob peth."

Gyda golwg ar Fethodistiaid Sir Drefaldwyn yn cael eu gwysio i Bangor, teifl y difyniad canlynol o lythyr Howell Harris at yr Hybarch Griffith Jones, ryw gymaint o oleuni: "Oddiar pan welais chwi bum yn Sir Drefaldwyn. Y ddoe aethant (y Methodistiaid) i Bangor; ac yn ol eich cyfarwyddyd chwi ymgynghorais â rhai personau deallus yn y gyfraith. Ymddengys mai yr unig ffordd trwy ba un y gellir symud achosion o'r llys hwnw i'r *Court of Arches* yw trwy *writ* oddiwrth yr Arglwydd Brif Ynad, a elwir *nolle prosequi*. Dydd Sadwrn nesaf, yn Nhrefecca, yr wyf yn dysgwyl cael hysbysrwydd am y gweithrediadau yn eu herbyn, a pha un a fydd i hyny, a materion eraill, fy ngalw ar unwaith i Lundain. Neithiwr, cyfarfyddais a Mr. Whitefield yma; y mae efe am i mi fyned, ac am gario yr achos yn mlaen. Ond gan mai achos yr Arglwydd ydyw, nid amheuaf y bydd iddo dueddu meddyliau pawb ydynt dan lywodraeth deddf ei gariad i uno, galon a llaw, i'w gario yn mlaen. Bendigedig a fyddo Duw, y mae y gwaith ar gynydd yn mhob man, a drysau newyddion yn agor." Ysgrifenwyd y llythyr hwn o Watford, Ionawr, 1744. Gwelwn fod Griffith Jones, er na ymunai yn ffurfiol â'r Methodistiaid, yn calonog gydymdeimlo â'r diwygiad, a'i fod yn ŵr o gynghor i'r Diwygwyr ar bob achos dyrys. Sut yr aeth pethau yn mlaen yn Mrawdlys Bangor, nis gwyddom, ond gallwn fod yn sicr ddarfod i'r Arglwydd, yn ol ei arfer, i'r rhai a garant ei enw, ofalu am ei eiddo. Y "materion eraill" y cyfeiria Harris atynt, fel yn debyg o'i alw i Lundain, oedd y cynghaws cyfreithiol a ddygid yn mlaen yn erbyn y rhai ddarfu ymosod ar y Methodistiaid yn Hampton, gan derfysgu eu cyfarfodydd. Yr oedd canlyniad y cynghaws o'r pwys mwyaf i'r Methodistiaid, am y penderfynai eu hawl i gael llonyddwch i addoli Duw yn ol argyhoeddiad eu cydwybod.

Cymdeithasfa fechan ydoedd yn Watford. Yr oedd Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, yn absenol; dywed cofnodau Trefecca mai gerwinder yr hin a'u rhwystrodd, ac i'w ceffylau fethu. Ond daethai Whitefield yno yn

ffyddlawn i gymeryd y gadair; yr oedd y Parch. Henry Davies, Bryngwrach, wedi cyrhaedd, ac hefyd y nifer amlaf o'r arolygwyr. Dechreuwyd am ddeuddeg trwy weddi a mawl. Meddai Harris: "Dysgwyliais am nerth i roddi fy mywyd i lawr; teimlwn fy hun yn foddlawn gwneyd hyny, ac eto ni chymerwyd arswyd marwolaeth i ffwrdd; gwelwn ddadgysylltiad natur a newid stad yn beth i'w fawr ofni. Gwelais angau fel anghenfil dychrynllyd, ond gwelais Iesu Grist uwchlaw iddo, ac uwchlaw y diafol; ac yn yr ymdeimlad o nerth Crist cymerwyd yr arswyd ymaith." Gwaith cyntaf y Gymdeithasfa oedd derbyn adroddiad yr arolygwyr. Yna traddododd Whitefield anerchiad i'r cynghorwyr. Yn ganlynol, pregethodd Whitefield, gyda chryn nerth, oddiar Heb. viii. 10-12. Yna ail eisteddodd y frawdoliaeth i ymdrin â gwahanol faterion, o'r hyn y rhydd Harris y crynodeb canlynol: "1. Llefarodd Whitefield am y cynghaws cyfreithiol, a daeth Yspryd Duw i lawr; cefais nerth i weled ei fod dros yr Arglwydd, felly hefyd y gwelai yr holl frodyr. Profodd yn foddion i'n gwasgu yn agosach at ein gilydd, ac felly ni a gyfranasom yr hyn a fedrem at yr achos. 2. Gofynodd Whitefield genyf ysgrifenu hanes fy mywyd; cefais inau ryddid mawr tuag at Grist, gan ganfod ei fod yn dysgwyl hyn genyf; cefais nerth i benderfynu gwneyd, er mwyn yr ŵyn, ac o gariad ato ef, gan mai ei eiddo ef yw yr holl waith. 3. Pan y gofynwyd genyf i fyned i Lundain, i weled llawer o'r mawrion, a phan oedd arnaf ofn y prawf, cefais nerth i gyfeirio fy ngolwg at glwyfau yr Iesu, a chododd cri ynof: 'O Arglwydd, gad i mi fyned; gad i mi fyned, ac anfon fi.' Yna, wedi gweddïo mewn cryn ryddid gyda'r brodyr, agorwyd fy ngenau i gynghori, a daeth tân, a nerth, a bywyd i'n mysg. Tuag un-ar-ddeg aethom i'r Watford, ac eisteddasom i fynu hyd bump, yn siarad yn rhydd gyda'r brodyr am lawer o faterion, megys cynhanfodiad eneidiau, taith yr Israeliaid tua Chanaan, &c. Y mae fy holl hyder yn y gras sydd yn Nghrist. O fel yr ydym yn cael ein ffafrio, ac fel y mae yr Oen yn ein harwain ac yn tosturio wrthym." Hawdd gweled fod yr yspryd goreu yn ffynu, a bod y brodyr yn rhydd iawn yn nghymdeithas eu gilydd. Tyna Harris mewn ychydig linellau ddarlun prydferth o'r cwmni yn mhalas Watford o gwmpas y tân, wedi gorphen eu gwaith, ac yn aros i fynu hyd bump o'r gloch y boreu, yn ymdrin â chwestiynau dyrys a damcanol, cyffelyb i gynhanfodiad eneidiau. Gwelwn hefyd mai yn y capel y cynaliwyd y cyfarfodydd. Ond pa un ai capel Watford, ynte capel y Groeswen, sydd ansicr; y mae dull y geiriad yn ffafrio y diweddaf.

A ganlyn yw yr adroddiad am y Gymdeithasfa yn nghofnodau Trefecca:—

"Darllenwyd llythyr oddiwrth seiat Cnapllwyd, yn gofyn ar i'r brawd George Phillips gael ei anfon i'w cynorthwyo. Pwyswyd y mater gan y brodyr, a chydunwyd ei fod i gael ei anfon.

"Yr oedd adroddiad y brawd Beaumont am ei seiadau yn felus; dangosai eu bod mewn stad o gynydd; ond yr oedd arno angen llafurwr oddifewn, i feithrin yr eneidiau. Cydunwyd ei fod i ofalu am danynt ei hun, mor bell ag y bydd hyny yn gyson â'i gynllun, hyd nes y cyfyd yr Arglwydd rywun yn meddu y ddawn neillduol hon.

"Y mae y brawd Thomas Lewis i gael ei roddi yn gyfangwbl i'r brodyr Saesnig.

"Creda y brodyr fod y brawd Jacob Jones yn cael ei alw gan ein Hiachawdwr i weithio yn ei winllan, ac y maent yn cyduno iddo fod yn gynorthwywr i'r brawd Morgan John Lewis. Yr un fath am y brawd Richard Edward.

"Cydunwyd fod y brawd William John i fod yn arolygwr dros Sir Gaerfyrddin, yn lle y brawd Bloom, yr hwn sydd wedi ymddiswyddo.

"Derbyniwyd adroddiadau y brodyr Morgan John Lewis, Thomas Williams, William Richard, William John, Thomas James, a Richard Tibbot, am seiadau Trefaldwyn, Morganwg, Brycheiniog, Mynwy, a rhanau o Faesyfed, a Chaerfyrddin. Yr oeddynt yn hyfryd yn wir. Nis gellid cael yr adroddiadau eraill. Y mae Cymdeithasfaoedd Misol wedi cael eu cynal yn mhob cylch o arolygiaeth er ein Cymdeithasfa ddiweddaf, sef yn Gellidorchleithe, Cayo, Trefecca, a Watford; siomiant a fu yn Dygoed; ac yr oedd yr Arglwydd gyda ni yn mhob man; a phenderfynem bob peth, yr ydym yn gobeithio, yn ol ewyllys ein Hiachawdwr, mewn cariad, a heddwch, ac undeb. Ein Cymdeithasfa nesaf i fod yn y Fenni, y dydd Mercher cyntaf gwedi Gwyl Fair."

Ymddengys ddarfod i holl drefniadau y Gymdeithasfa gael eu gwneyd y diwrnod cyntaf, ond pregethodd Whitefield boreu

dranoeth am wyth, oddiar 1 Cor. xv. 53, dan arddeliad anarferol. O gwmpas deg, cychwynodd Harris ac yntau tua'r Fenni. Ar eu ffordd pasient gymydogaeth Pontypŵl, maes llafur y Parch. Edmund Jones. Llonwyd Howell Harris yn fawr wrth glywed am ymdrechion a llwyddiant y gŵr da hwnw. Meddai: "Cefais lawer o undeb ag ef, a serch ato, er ddarfod i Satan ar y cyntaf geisio creu pellder rhyngom, fel nad oeddwn yn hoffi ei weled." Fe gofir mai Edmund Jones fuasai a'r llaw flaenaf yn lluniad ac anfoniad allan y proclamasiwn hwnw yn erbyn y Methodistiaid; ac felly y mae yr yspryd a ddengys Harris yn y difyniad uchod yn fawrfrydig anarferol.

Y mae y llythyr canlynol, a anfonwyd at arweinwyr y diwygiad gan aelodau seiat Mynyddislwyn, yn esbonio ei hun, ac yn taflu goleuni pruddaidd ar fywyd llygredig clerigwyr Eglwys Loegr ar y pryd: "Anwyl frodyr; yr ydym mewn cyfyngder yn ein meddyliau o herwydd ein bod yn ffaelu bod yn gyfranog o'r ordinhadau. O herwydd y mae ein cuwrad ni yn un ag y mae y gair am dano ei fod wedi ei dyngu yn odinebwr, ac oblegyd hyny yr ydym yn methu cael rhyddid i gydfwyta, heb dori gorchymyn Duw. Yr ydym yn dymuno cael eich barn chwi ar y mater. Yr ydym yn gweled fod yr ordinhadau yn foddion na ddylid eu hesgeuluso, ac na ddylid, ychwaith, bwyso arnynt yn ormod. Dymuno cael cynghor oddiwrthych yr ydym, gyda chofio am danom gerbron gorseddfainc y gras." Dyddiad y llythyr hwn yw Ionawr 2, 1744. Diau y bwriedid iddo gael ei ddarllen a'i ystyried yn Nghymdeithasfa Watford, eithr nid oes un cyfeiriad ato yn ei chofnodau. A gafodd efe sylw yno, ac os do, pa ateb a roddwyd, sydd yn gwbl anhysbys.

Dydd Mercher, Ionawr 11, 1744, y mae Howell Harris yn cychwyn am Lundain. Cyrhaeddodd Ross o gwmpas tri yn y prydnawn, wedi cymdeithas anarferol o fuddiol am ran o'r ffordd gyda y brawd Morgan John Lewis; dysgasant amryw wersi buddiol yn nghyd, gan weled mai trwy brofiad y mae adnabod Duw, ein hunain, Crist, a dichellion y diafol. Cyrhaeddodd Gaerloyw erbyn pump, a chwedi cael adgyfnerthiad i'w gorph aeth i'r seiat, lle y cafodd achlysur i lawenhau. Cododd boreu dranoeth am chwech, er mwyn anerch aelodau y seiat, yr hyn a wnaeth oddiar y geiriau: "Canys eiddot ti yw y deyrnas.' Nos Sadwrn, daeth i Lundain, gan fyned ar ei union i dŷ Mr. Whitefield, lle y clywodd newyddion gogoneddus am lwyddiant y gwaith. Boreu y Sul, aeth tua St. Paul; nis gallai glywed yr offeiriad yn pregethu; ond cafodd nerth i weddïo dros Eglwys Loegr: "O Arglwydd, dychwel; y mae dy ogoniant ar riniog y drws, bron ymadael oddiwrthym. O tyred, ailadeilada yr adwyau; fel, os oes yma goffadwriaeth i'th enw, os oes genyt had yn ngweddill, os nad yw y gogoniant wedi llwyr adael, y gallwyf aros yn yr Eglwys druan hon." Teimlodd y fath gariad at yr eneidiau tywyll oedd yn yr Eglwys fel nas gallai eu gadael, ond gwnaed iddo lefain: "O Iesu, yr wyt wedi agor tai cyrddau (y mae llawer o dai cyrddau wedi eu hagor yn awr), ac yr wyf, Arglwydd, yn dy fendithio am hyny; ond ai ni wnei di ein bendithio ninau, ac agor drysau yr eglwysydd?" Teimlodd yspryd galar; cyffesodd ei bechodau ei hun, pechodau yr Eglwys, a phechodau y genedl, a llefodd: "O Arglwydd, yr wyt yn canfod ein bod yn farw, mewn trwmgwsg, ac nid yn unig hyny, ond yn gwrthryfela yn dy erbyn di, ac yn dy demtio yn mhob ryw fodd. O tosturia wrthym, a dychwel atom drachefn." Wedi i'r bregeth orphen aeth at fwrdd y cymun, a gwelodd yr oll y safai mewn angen am dano yn Nghrist. Y noson hono aeth i wrando Whitefield yn pregethu, yr hyn a wnaeth yn ardderchog, oddiar hanes Samson; ac yn y seiat a ddilynai anerchodd Harris y frawdoliaeth. Clywodd yno am Esgob Llundain yn ysgrifenu yn eu herbyn.

Boreu dydd Llun aeth efe a Whitefield at y cyfreithiwr, gyda golwg ar y cynghaws. Cafodd ar ddeall na wnai y terfysgwyr unrhyw ddiffyniad, yr hyn a barodd i Harris lefain allan: "Gogoniant!" Dydd Mawrth yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn cael ei chynal yn y Tabernacl; ymddengys nad oedd llawer o faterion yn galw am sylw; yr unig beth y cyfeirir ato yn y dydd-lyfr oedd, priodas rhai brodyr, i'r hyn nad oedd tadau eu darpar-wragedd yn foddlawn. Beth a benderfynwyd ar hyn ni ddywedir. Bu yn Llundain hyd Mawrth 15fed, yn pregethu, yn cynghori yn y cymdeithasau, ac mewn amryw gynadleddau o weinidogion. Ymwelodd a'r palas brenhinol yn Kensington; a charcharorion wedi eu dedfrydu i angau yn Newgate; a chawn ef amryw droiau ar ymweliad a'r Iarlles Huntington. Yr oedd Llundain yn ferw

yr amser yma rhag i'r Ffrancod oresgyn y deyrnas; cyfranogai Harris ei hun o'r ofn, a dywed ddarfod i lynges elynol ddyfod unwaith i fynu y Thames. Ymddengys fod ei iechyd hefyd yn wael trwy yr holl amser; weithiau methai godi o'i wely hyd ganol dydd. Cyrhaeddodd Gaerloyw nos Wener, Mawrth 16, ac amcanai fod yn y brawdlys, yn mhrawf terfysgwyr Hampton. Ni wnaethant fawr o ddiffyniad, a dyfarnwyd hwy yn euog, ond gadawyd maint y ddirwy i'w thalu ganddynt i'w phenderfynu gan Lys y *King's Bench*, yn Llundain. Meddai Whitefield, yr hwn yntau hefyd oedd yn bresenol: "Yr wyf yn clywed fod y terfysgwyr wedi dychrynu yn enbyd; ond nid ydynt yn gwybod mai ein hamcan yw dangos beth a allwn wneyd, ac yna maddeu iddynt." Ychydig o enghreifftiau a geir o ddynion mor alluog i faddeu i'w gelynion, a thrwy hyny gyflawni gorchymyn Crist, a'r Methodistiaid.

Nos Sul, Mawrth 19, y cyrhaeddodd Drefecca, yn lluddedig ac yn llesg. Dydd Mercher, yr wythnos ganlynol, yr ydym yn ei gael mewn Cymdeithasfa Chwarterol yn y Fenni. Daethai Whitefield yno i gymeryd y gadair; yr oedd Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, yn bresenol, yn nghyd â chryn nifer o'r arolygwyr. Y mae yn clywed, gyda ei fod yn cyrhaedd y lle, am gwymp rhai brodyr. "Rhoddodd yr Arglwydd i mi," meddai, "i deimlo baich o alar oblegyd ein bod yn pechu fel hyn yn erbyn ein hanwyl Dad; ein bod ni, sydd yn cael ein ffafrio mor fawr, yn pechu yn ei erbyn. Cyfarfyddais a brawd arall, Mr. William Evans, yr hwn oedd dan ryw feichiau, a theimlais yn fwy nag erioed fod ei faich yn gwasgu ar fy yspryd." Yna dywed iddo fyned yn mhell oddiwrth yr Arglwydd, i lygredd ei natur ymdori i'r golwg mewn llid, iddo golli ei dymher, a phoethi, a chlywodd ddarfod i'w boethder daflu rhywun i lewyg. Gwelodd mor anghyfaddas ydoedd i'w le, ac mor annheilwng i fod yn ŵr priod, yr hyn yn awr a bwysai yn drwm ar ei feddwl; ac aeth i'w ystafell i ymddarostwng ger bron yr Arglwydd. Bu yn drallodus iawn yno. Ond galluogwyd ef cyn dod allan i ddiolch i Dduw am guddio ei wyneb oddiwrtho, ac am adael i'w lygredd amlygu ei hun, gan fod tuedd yn hyn i'w gadw yn ostyngedig. Daeth yn foddlon rhoddi i fynu ei ddarpar-wraig, ei le yn yr eglwys, a phob rhodd a dawn a gawsai. Agorodd Whitefield y Gymdeithasfa trwy bregethu ar y geiriau, "A wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?" Dangosodd nodau cariad at Grist, ei fod yn llawenhau wrth glywed am lwyddiant yr efengyl, ei fod yn awyddu marw, yn gallu caru ei elyn, yn meddwl ac yn siarad am dano ef, ac yn caru plant Duw perthynol i bob plaid grefyddol. Ei fod yn ein galluogi i agor ein calonau i'n gilydd; nas gallwn garu Crist heb wybod hyny; a'i fod yn peri i ni roddi pob peth i fynu iddo ef. Wrth weddïo ar derfyn y cyfarfod cafodd nerth anarferol. Yn y cyfarfod neillduol, gosodwyd ar Harris i weinyddu dysgyblaeth ar frawd oedd wedi troseddu; gwelai ei hun, wrth wneyd hyny, yn waeth na'r un a ddysgyblai, ond fod Duw yn cuddio ei ddrwg, tra y daethai drwg y brawd oedd ger bron i'r golwg. Gwanai hyn ef fel pe ei trywanid a dagr yn ei galon. Tranoeth pregethodd gyda llawer o nerth.

Heblaw trefniad y Cyfarfodydd Misol am y misoedd dyfodol, yr unig benderfyniadau o eiddo y Gymdeithasfa a groniclir yn nghofnodau Trefecca yw a ganlyn:—

"Cydunwyd yn ddifrifol nad oes neb i fod yn absenol o Gymdeithasfa, oddigerth iddo allu rhoddi rheswm am hyny a ddeil yn nydd y farn.

"Fod y Gymdeithasfa Chwarterol nesaf i gael ei chynal yn Nhrefecca, y dydd cyntaf wedi pen y chwarter.

"Fod y brawd John Richard i barhau i fyned o gwmpas hyd y Gymdeithasfa nesaf, ac yn y cyfamser, fod Mr. Harris i ymweled a'i seiadau, er eu cymhell i ddwyn ffrwyth iddo. Yr oedd yn absenol, ond anfonodd adroddiad am y seiadau, yr hwn oedd yn hynod felus.

"Fod y brawd Dafydd Williams i ddyfod i'r Gymdeithasfa Chwarterol nesaf, i ateb i'r pethau a roddir i'w erbyn.

"Fod pregethu i gael ei gynal yn mhob Cymdeithasfa Chwarterol; yr offeiriaid i weinyddu yn eu cylch; y Gymdeithasfa i ddechreu am ddeuddeg, a'r brodyr wedi cymeryd lluniaeth yn flaenorol. Mr. Rowland i bregethu y tro nesaf."

Ychydig sydd yn y cofnodau yma yn galw am sylw. Gwelwn fod yr hen frawd John Richard, Llansamlet, yn dlawd ei amgylchiadau, ac mai amcan ymweliad Harris a'i seiadau oedd eu cymhell i estyn cymhorth arianol iddo. Gwelwn hefyd y lle mawr a gaffai pregethu yn y Cymdeithasfaoedd o'r dechreu.

Ebrill 2, 1744, yr ydym yn cael Harris

mewn Cymdeithasfa Saesnig, yn Wiltshire. Whitefield a lywyddai; ymddengys mai efe oedd cadeirydd sefydlog y Cymdeithasfaoedd Saesnig yn ogystal a'r rhai Cymreig. Ar y cyntaf teimlai Howell Harris ei hun yn galed ac yn gnawdol; ond pan ddechreuodd y cadeirydd weddïo dros y brenhin, a'r wlad, ac yn erbyn y Pabyddion, toddodd ei galon o'i fewn, a gollyngwyd ei yspryd yn rhydd. Eisteddwyd hyd o gwmpas pump yn trefnu rheolau cyffredinol, ac yn gosod pawb yn eu lle, offeiriaid, pregethwyr, cynghorwyr, a goruchwylwyr. Tra y gwneyd hyn, teimlai Harris awydd myned allan i'r rhyfel, i gael marw ar faes y gwaed. Dywed hefyd iddo gael ei wneyd yn offeryn i gymeryd cam yn mlaen tuag at ymwahanu oddiwrth y brawd J. W.; John Wesley, yn ddiau.

Ebrill 13, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nantmel, yn Sir Faesyfed; yr oedd Howell Harris yn bresenol, ond Williams, Pantycelyn, a lywyddai. Meddai Harris, yn ei ddydd-lyfr: "Yn wir fy ngenau a agorwyd i anerch y brodyr yn gyffredinol, gan ofyn a oeddynt yn teimlo y gwaith wedi ei osod yn ddwfn yn eu calonau; a oedd cariad at eneidiau wedi ei gynyrchu ynddynt; ac a oedd golwg ar fawredd a natur y gwaith, a gwerth eneidiau wedi peri iddynt ofyn am nerth a doethineb? Hefyd, a oedd yr Yspryd wedi dangos iddynt (1) Ogoniant Crist? (2) Drygedd y galon, nad yw y naill yn ddigon heb y llall? A ydyw Duw wedi rhoddi dwy ffydd iddynt, un er mwyn eu heneidiau, a'r llall er mwyn y gwaith? A ydyw teimlad o fawredd y gwaith yn eich gwasgu i'r llawr, a theimlad o'r anrhydedd a berthyn iddo yn eich gwneyd yn ostyngedig, ac yn eich cyffroi? Yna y brodyr a atebasant yn hyfryd. Dangosodd y brawd Beaumont fel yr oedd Duw wedi ei waredu ef rhag hunan-gariad, trwy weled ei hun a'r gwaith yn Nuw am amser, ac i dragywyddoldeb. Yna, gwedi arholi y brodyr (gwelwn fod yr Arglwydd yn fy nghymhwyso ar gyfer y lle, ac yn fy mendithio ynddo), galluogwyd fi i'w cyffroi i ddiwydrwydd, ac i ddangos iddynt pa fodd i ymddwyn mewn teuluoedd. Ymddiddanais yn faith gyda y brawd—gyda golwg ar ei briodas, a'i ragolygon mewn bywyd, gan ddangos na ddylai gweinidog ymrwystro gyda phethau'r byd ond mor lleied byth ag sydd yn bosibl. Cefais lawer o ffydd, a gwresawgrwydd, a zêl, a rhyddid i gynghori, ac yn neillduol i weddïo, ac yna ymadewais yn hyfryd mewn cariad." Gwelir ddarfod i Howell Harris mor foreu a hyn weled mai dyledswydd gweinidogion y Gair oedd llwyr ymroddi i'r weinidogaeth, mor bell ag yr oedd hyny o fewn eu cyrhaedd.

A ganlyn yw penderfyniadau Cymdeithasfa Nantmel, fel eu ceir yn nghofnodau Trefecca:—

"Penderfynwyd fod y brawd Richard i gael ei neillduo yn hollol ac yn gyfangwbl i'r gwaith o ymweled a'r cymdeithasau, yr oll o honynt bob wythnos.

"Fod y brawd Edward Bowen i oedi ei briodas yn bresenol, am nad ydym yn glir ei bod o Dduw.

"Fod y cynghorwyr i ofalu, pan yn ymweled a theuluoedd, i gynghori ac addysgu y plant, y gweision a'r morwynion, &c. Cawsom lawer o wyneb yr Arglwydd, yn ein haddysgu, ac yn tanio ein calonau, gan roddi i ni lawer o oleuni ysprydol gyda golwg ar ein gwaith a'n lleoedd, a chan ddangos i ni fawredd y gwaith, ac ymweled â ni yn nglyn ag ef."

Ymadawodd Howell Harris yn nghwmni Williams, Pantycelyn, o gwmpas pump o'r gloch; melus odiaeth oedd y gyfeillach rhwng y ddau gyfaill wrth groesi mynyddoedd Maesyfed a Brycheiniog; Williams yn cyfeirio ei gamrau tua chartref, heibio Llanwrtyd, lle y buasai yn guwrad gynt, a Harris yn myned i Ddolyfelin, lle yr oedd ei gyhoeddiad i bregethu. Meddai y dyddlyfr: "Cefais hyfrydwch dirfawr gyda y brawd Williams; ffafriwyd fi â golwg ar Dduw, oll yn oll, yn debyg i'r hyn a gefais yn y boreu." Treuliodd y Sul yn Llanwrtyd, ac aeth i'r eglwys yn y boreu; ond nid Williams a wasanaethai yno yn awr, ond rhywun hollol wahanol parthed dirnadaeth o wirioneddau yr efengyl, a dawn i'w traethu. Meddai Harris: "Cefais dosturi dirfawr at yr offeiriaid tlodion dall, gan lefain drostynt fel dros ddeillion ar ochr y ffordd." Wedi i'r gwasanaeth ddarfod, pregethodd yntau, oddiar Salm xxiii.; cafodd ryddid mawr wrth lefaru ac wrth weddïo. Yn yr hwyr pregethodd i dyrfa fawr, yn rhifo llawer o ganoedd, mewn lle o'r enw Penylan, tua thair milltir allan o'r pentref. Dydd Llun y mae yn Llwynyberllan; aeth yn ei flaen oddiyno i Gilycwm, a phregethodd yn ymyl y dderwen fawr sydd yn nghanol y pentref oddiar Salm xxiii., i dorf o amryw ganoedd. Yr oedd yn odfa nerthol. Cyfarfyddodd yno a chlerigwr o'r enw Llewelyn Llewelyn

dyn galluog, llawn bywyd, ond yn llithro yn aml mewn modd ffiaidd. Teithiodd rhagddo i Gayo, wedi pregethu ar y ffordd cydrhwng, ac aeth y noson hono i seiat breifat. Dydd Mawrth y mae yn Nghwmygwlaw. Aeth oddiyno i gapel Abergorlech, lle y pregethai Daniel Rowland. Llefarai oddiar Jer. viii. 7, a chafodd nerth rhyfedd i egluro'r gwirionedd. Dydd Mawrth, Ebrill 17, ymgynullent mewn Cymdeithasfa Fisol, yn Glanyrafonddu; heblaw Rowland a Harris, yr oedd Williams, Pantycelyn, yno, yn nghyd a'r Parch. Benjamin Thomas, a nifer mawr o arolygwyr a chynghorwyr. Yr oedd yn chwech o'r gloch yn yr hwyr ar y cyfarfod yn dechreu; buont yn cydeistedd yn trefnu materion, ac yn cydweddïo hyd o gwmpas un-ar-ddeg. Yr oedd Harris mewn yspryd rhagorol; hawdd deall wrth ei sylwadau fod y Gymdeithasfa flaenorol yn yr un lle, pan y llywodraethwyd ei yspryd gan y gelyn, yn pwyso yn drwm ar ei feddwl. "Yr oeddwn," meddai, "mewn yspryd gweddïgar, ac yn hyfryd at y brodyr; tueddai pob peth i'm darostwng; yr oeddwn yn isel, ac yn addfwyn, ac mor ddedwydd. Wrth weddïo gwelais fod angau, uffern, rhyfel, a phob peth dychrynllyd i natur, o fewn awdurdod Crist; canfyddwn ef goruwch iddynt oll. Wrth gynghori gwnaed fi yn rhydd ac yn hyf; dangosais eu dyledswydd at yr ŵyn, ddarfod i'r Iesu eu llwyr brynu, fel y byddai iddynt ddefnyddio enaid, corph, amser, anadl, talent, ac arian yn ei wasanaeth, &c., ac nid i wasanaethu hunan. Cefais ryddid i lefain: 'Arglwydd, y mae pob peth yn eiddot ti; eiddot ti yw fy enaid, a'm corph; felly nis gellir eu colli.' Gyda y goleuni hwn drylliwyd fy yspryd, fel y gallwn oddef cael fy ngwrthwynebu, ac ymostwng i bob peth." Yn sicr, prawf y difyniadau hyn ei fod mewn tymher nodedig o hyfryd.

Yn canlyn wele y penderfyniadau a basiwyd:—

"Penderfynwyd fod Dafydd William Rees i fyned a chyfaddef iddo lefaru ar fai wrth ymddiddan a Mr. Griffith Jones, ger bron Mr. Davies; a phan eu cymodir, ei fod i gael ei adfer i'w swydd fel cynghorwr, ond ei fod i ymatal hyd hyny.

"Fod Thomas Dafydd, gan ddarfod i'r Ymneillduwyr ei droi allan am gymdeithasu â ni, i gael ei uno yn llwyr â ni yn Erwd, ac i gynghori ar brawf, tan arolygiaeth James Williams, ond nid yw i adael ei orchwyl yn y cyfamser.

"Fod y cynghorwyr i lefaru yn y ffurf o anerchiad, ac nid yn y ffurf o bregeth.

"Fod y brawd Thomas Griffith i gael ei dderbyn fel cynghorwr preifat, tan arolygiaeth y Meistri Rowland a Williams.

"Fod Benjamin Rees i gael cynghori, fel brawd perthynol i'r Ymneillduwyr, hyd y Gymdeithasfa nesaf.

"Fod John Dafydd i gynghori yn ei gymydogaeth ei hun, ar brawf, tan arolygiaeth y brawd James Williams, hyd nes ceir adroddiad gyda golwg ar ei ddoniau, a'i gymhwysderau, mewn trefn i arholiad.

"Fod y brawd Evan John i gael ateb i'w lythyr trwy Mr. Williams, sef nad ydym yn cael ein perswadio gyda golwg ar ei alwad i gynghori, fel y gallwn roddi iddo ddeheulaw cymdeithas, ac felly ein bod yn ei gyflwyno i'r Arglwydd.'

Gwelwn fod y dull o brofi pregethwyr y dyddiau hyny yn gyffelyb iawn i'r dull presenol, gyda'r eithriad fod y rhai nad oedd gweledigaeth eglur gyda golwg ar eu cymhwysderau, nid yn cael eu hatal, ond yn cael eu cyflwyno i'r Arglwydd. Pa beth yw ystyr hyny, nid ydym yn hollol sicr. Efallai mai eu gadael tan fath o brawf hyd nes y ceid goleuni ar y mater oddiwrth Ben yr Eglwys.

Yn mhen dau ddiwrnod drachefn, sef Ebrill 19, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Llandremore. Dylid cofio fod y Cyfarfodydd Misol hyn, sydd yn cael eu cynal ar sodlau eu gilydd, yn perthyn i wahanol randiroedd, ond y dysgwylid i Howell Harris, hyd ag y byddai hyny yn bosibl iddo, i bresenoli eu hunan ynddynt oll. Yma Howell Davies a lywyddai. Yr oedd y ddau Howell y pryd hwn ar bwynt priodi, a bu iddynt ymgynghoriad a chyfeillach felus yn nglyn â'r mater. Cymdeithasfa fechan ydoedd; ychydig a ddaethai yn nghyd, a chymharol ddibwys oedd y gweithrediadau. Ond ymddengys iddynt gael profion amlwg o foddlonrwydd Duw. I gychwyn, pregethodd Harris oddiar Matt. xxviii. 18, a chafodd nerth neillduol i lefaru wrth saint a phechaduriaid. Wrth agor y seiat breifat trwy weddi, daeth yr Arglwydd i lawr, gan eu gwneyd oll yn ostyngedig, a'u goleuo, a'u tanio. Wedi sefydlu y brawd William Cristopher yn gateceisiwr, siaradodd Harris yn bur blaen a rhyw frawd, gyda golwg ar iddo ymuno â'r Ymneillduwyr, neu a'r Methodistiaid. "Yna," meddai, "wedi trefnu pob un yn ei le, ymadawsom fel mewn fflam." Dau benderfyniad o'r Gymdeithasfa hon sydd

ar y cofnodau; sef "Fod William Cristopher i fod yn gateceisiwr, i gateceisio yn unig, a'n bod i geisio sefydlu cateceisio yn mhob lle; a chan fod galwad daer ar y brawd Richard William Dafydd i Gorseinon, a bod dirfawr angen yno, ac yn Pembre, ein bod yn cydsynio iddo ef, a'i frawd, i fyned i ymweled a hwy hyd y Gymdeithasfa nesaf yn Abergorlech."

Wedi tramwy trwy ranau helaeth o Siroedd Caerfyrddin a Morganwg yr ydym yn cael Howell Harris mewn Cymdeithasfa Fisol yn Watford, a chan nad oedd yno yr un offeiriad urddedig, efe a lywyddai. Pregethodd yn y tŷ newydd, sef naill ai capel y Watford neu y Groeswen, y noson cynt, gydag arddeliad anghyffredin. Dangosodd, gyda nerth na chafodd ei gyffelyb erioed o'r blaen, y fath frenin yw Crist; pa mor ardderchog yw ei deyrnas; fod nefoedd, daear, ac uffern yn perthyn iddi; y modd y mae yn llywodraethu dros bob peth—gras a phechod, goleuni a thywyllwch, bywyd ac angau, y byd ysprydol a'r byd naturiol. Yna eglurodd ddyogelwch deiliaid y deyrnas, fod gair Duw; llw Duw; ffyddlondeb, gallu, doethineb, trugaredd, a natur Duw, fel cadwynau cryfion yn eu cadw rhag syrthio; ac nad oedd dynion drwg, a phechod, a Satan, ond gweision Duw, wedi eu bwriadu i ddwyn y saint yn mlaen, trwy gyfarth fel cŵn wrth eu sodlau. "Yna," meddai, "mi a gadarnheais y rhai a ofnent gael eu pressio i fyned allan i'r rhyfel, gan ddangos y gwna pelen magnel y tro cystal a rhywbeth arall i'w hanfon adref. Bloeddiais! pe y gwelech mor gyfoethog ydych, mor ddyogel, ac mor ddedwydd; y fath Frenin sydd arnoch, byddai arnoch gywilydd o honoch eich hunain am eich ofnau a'ch diffrwythder; llefwch am i chwi, a'ch holl dalentau gael eu defnyddio ganddo, gan deimlo y fath anrhydedd ydyw; ewch lle y mynoch, ac i fysg unrhyw greaduriaid y mynoch, eich bod o hyd o fewn tiriogaethau Crist. O Frenin gogoneddus! Ychwaneged eich ffydd i weled gogoniant ei deyrnas!" Ymddengys ei bod yn odfa nerthol, tu hwnt; dywed efe na chafodd ei chyffelyb erioed o'r blaen, ac na chadd syniadau mor ardderchog erioed. Efallai hyny; ond y cof diweddaf yw y cof goreu. Cynyddodd yr hwyl wrth ganu a gweddïo ar y diwedd. "Canfyddais ogoniant teyrnas yr Iesu," meddai, "yn y fath oleuni prydferth, fel y fflamiwyd ac y cadarnhawyd fy enaid, ac y parwyd i mi ymuno a'r côr fry i ganu, 'Teilwng yw'r Oen a laddwyd! Teilwng yw yn wir!'"

O gwmpas deuddeg, dydd Mercher, agorwyd y Gymdeithasfa. Wrth weddïo ar y dechreu disgynodd ar yspryd Harris i ofyn a oedd yr Arglwydd yn myned i roddi y Methodistiaid i fynu? Cafodd ei berswadio i'r gwrthwyneb, a theimlai fod y cyfryw argyhoeddiad yn dyfod oddiwrth Dduw ei hun. Buont yn eistedd, gydag ychydig seibiant, hyd ddeuddeg o'r gloch y nos. Cawsant drafferth fawr gydag un cynghorwr, o'r enw William Rees, yn ceisio ei argyhoeddi o'i gyfeiliornadau. Maentymiai ef ei fod yn berffaith; ni addawai ychwaith fod yn ddystaw gyda golwg ar ei berffeithrwydd tybiedig yn y cymdeithasau; "felly," meddai Harris, "er mwyn gogoniant Duw, daioni yr ŵyn, a lles ei enaid ef ei hun, ni a'i troisom ef allan o'r seiat, gan yr ymddangosai wedi ymchwyddo yn fawr. Wrth ymgynghori â Duw gyda golwg ar hyn, cefais hyder gan mai yr Arglwydd oedd wedi fy anfon, y byddai iddo ofalu fy nghynysgaeddu â phob gwybodaeth a goleuni angenrheidiol." Eisteddasant i lawr hyd o gwmpas pedwar yn y boreu, yn rhydd ymddiddan am amryw bethau; am gymundeb Eglwys Loegr, ac yspryd erledigaethus ei hoffeiriaid, am briodas agoshaol Howell Harris, a phethau eraill. Barnai y brodyr hefyd, mai John Belsher oedd y cymhwysaf, mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyr, doniau, a gras, i fod yn gynorthwywr i Mr. Harris yn ei waith mawr.

Y mae y penderfyniadau a basiwyd, fel eu ceir yn nghofnodau Trefecca, y modd a ganlyn:—

"Cydunwyd fod i'r brawd Price ofalu am seiadau Sir Fynwy, ar y morfa, fel cynt, ac i gael ei gynorthwyo gan y brawd Thomas Williams, mor bell ag y gall.

"Wedi cryn ymgynghoriad cydunwyd i drefnu y cynghorwyr anghyhoedd, na byddo iddynt gynghori yn gyhoedd, ond yn y seiadau preifat yn unig; gyda yr eithriad o William Edward, am yr hwn yr oedd galwad daer i Lantrisant a'r Groeswen. Joseph Simons i fod fel o'r blaen; Evan Thomas i fyned i Machen a Mynyddislwyn fel o'r blaen ar brawf; a'n bod yn chwilio am bersonau priodol i gateceisio y rhai oddifewn ac oddiallan, er mwyn sefydlu yr ŵyn a'r gwrandawyr mewn gwybodaeth iachus o egwyddorion crefydd, trwy gatecism Mr. Griffith Jones.

"Er mwyn gwell trefn yn nglyn â'r

cateceisio, pan ei sefydlir, fod yr arolygwyr i fod yn bresenol, i gynorthwyo yn y gwaith.

"Fod Edward Lloyd yn cael ei gynyg i fod yn gateceisiwr yn y Groeswen, Samuel Jeremiah yn Llanedern, William Thomas yn Aberthyn a Llanharry, Edward Edwards in Dinas Powys a St. Nicholas, Cristopher Basset yn Aberddawen, Howell Griffith neu Morgan Howell yn Llantrisant, William Hughes yn Nottage, a Jenkin Lewis yn yr Hafod.

"Cydunwyd, gan fod cylchoedd yr arolygwyr yn rhy fawr, y gallant ymweled a'r seiadau unwaith y pythefnos yn unig; a chan fod y brawd Herbert Jenkins, a gawsai ei osod i gynorthwyo y brawd Harris fel arolygydd cyffredinol, yn treulio haner ei amser yn Lloegr, y rhaid dewis un i ymroddi yn gyfangwbl i'r gwaith, i fyned o gwmpas fel cynorthwywr i'r brawd Harris, ac i helpio yr arolygwyr. Wedi ymgynghori gyda golwg ar ei gymhwysderau mewnol ac allanol, ein bod yn cynyg y brawd John Belsher fel y mwyaf cymhwys i lanw y lle hwn, yn y rhanau o Siroedd Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin, ar làn y môr, a orweddant yn nghylchoedd y brodyr John Richard, Thomas William, Thomas Price, a rhan o gylch Morgan John; a bod yr arolygydd i gyfarfod ei gynorthwywyr, er mwyn sefydlu yr ŵyn, unwaith y pythefnos, ar nos Wener.

"Cydunwyd nad ydym yn cael ein perswadio am alwad y brawd William Rees i gynghori, a'n bod yn anfon ato i ddymuno arno roddi i fynu, hyd nes y caffom ragor o foddlonrwydd ynddo; ond fod y brawd William Powell i barhau i fyned yn mlaen, gan ddysgwyl i ba le y bydd yr Arglwydd yn ei alw ac yn ei sefydlu.

"Gan fod y brawd Richard Jones i'w feio, ar amryw gyfrifon, am ymlynu yn ormodol wrth y byd, a bod yn anffyddlawn i'r ymddiriedaeth a roddasid iddo, heb ymdeimlo a'i ddyledswydd tuag atom ni, ei frodyr, a'i fod wedi parhau yn y rhai hyn, yn nghyd a beiau eraill, ar ol aml gynghor a cherydd; ein bod yn cyduno i'w hysbysu oni wna edifarhau am ei golliadau, ac addaw diwygio, ein bod yn dymuno arno am beidio llefaru mwyach fel un o honom ni, a'n bod yn anfon at y seiadau i'w hysbysu o'r penderfyniad hwn. Ond os ymddengys yn edifeiriol, ein bod yn caniatau iddo fyned yn mlaen ar brawf hyd y Gymdeithasfa Gyffredinol nesaf.

"Cydunwyd y byddai i ni, trwy nerth Duw, ddechreu llefaru, &c., yn fanwl o fewn i awr neu lai o'r amser a benodwyd.

"Fod y brawd Richard Thomas i ddyfod i'n Cymdeithasfa yn Llanfihangel i gael ei sefydlu.

"Traethasom ar amrywiol bynciau duwinyddol, a chydunwyd nad ydym yn Eglwys na Sect, ac nad ydym i alw ein hunain felly, ond seiadau oddifewn i'r Eglwys Sefydledig, hyd nes y'n troir allan; ac nad yw y llefarwyr i alw eu hunain yn weinidogion, ond cynghorwyr.

"Yr ydym yn gweled hefyd nad yw yr hyn sydd er gogoniant i Dduw, ac yn llesiol, mewn un man, yn ateb y pwrpas mewn man arall.

"Gan nad yw dawn y cynghorwyr anghyoedd ond byr, ei fod yn cael ei adael i ddoethineb yr arolygwyr i'w cyfnewid, fel y gwelant yn oreu yn eu cyfarfodydd pythefnosol, ac nad yw y cynghorwyr i drefnu eu lleoedd eu hunain heb ganiatad.

"Gwedi ymddiddan yn hir a William Rees parthed rhai cyfeiliornadau Antinomaidd, yr oedd wedi syrthio iddynt, a chwedi cynyg iddo aros yn ein mysg, er hyny, os addewai beidio ein terfysgu, a therfysgu yr ŵyn, trwy ei gyfeiliornadau, a phan nad addewai (er ei fod yn addef y crwydrai yn aml ar weddi), ond y taerai nad oedd wedi pechu er ys dyddiau, ac nad oedd unrhyw bechod yn ei ddeall, ei ewyllys, na'i gydwybod, ni a benderfynasom ei droi allan o'r seiadau, ac o'r Gymdeithasfa, gan rybuddio yr holl seiadau rhag ei heresi, ac i beidio cael unrhyw gymundeb agos âg ef. Felly, darfu i ni yn ddifrifol, ar ol dwys ystyriaeth a gweddi, ei droi allan, ac yr oedd ein calonau yn doddedig o gariad ato, gofal am ogoniant Duw, a chydag ofn sanctaidd, a gofal am yr ŵyn."

Felly y terfyna cofnodau y Gymdeithasfa Fisol hon yn Watford, ac yr oedd yn un o'r rhai pwysicaf a gynhaliwyd. Cawn un, am y tro cyntaf yn hanes y Methodistiaid, yn cael ei esgymuno am gyfeiliornad mewn athrawiaeth, ac yr oedd calonau y brodyr yn mron myned yn ddrylliau wrth orfod ei ddisgyblu. Antinomiaeth oedd yr heresi a flinai y Methodistiaid cyntaf; efallai mai un rheswm am hyn oedd tuedd i fyned i'r eithafion cyferbyniol i'r Ymneillduwyr, y rhai a anrheithid gan Arminiaeth. Y mae yn sicr nad yr un William Rees a drowyd allan, a'r brawd o'r un enw a ataliwyd

rhag cynghori oblegyd byrder ei ddawn. Yr oedd y blaenaf yn bresenol, a chafwyd dadl faith ag ef; yr oedd yr olaf yn absenol, felly anfon cenadwri ato a wnaed. Yr ydym yn gweled ymlyniad cryf wrth Eglwys Loegr yn ngwaith y Gymdeithasfa yn penderfynu peidio ymgyfenwi yn Eglwys nac yn Sect, ac yn gwarafun i'r cynghorwyr alw eu hunain yn weinidogion; Howell Harris, yn ddiau, oedd yn gyfrifol am y penderfyniadau hyn; yr oedd efe yn fwy ymlyngar wrth yr Eglwys na neb; yr oedd Rowland, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, yn absenol; ac yr oeddynt hwy yn llawer llai eu parch i'r Sefydliad, ac yn fwy parod i gefnu arno.

Y dydd Gwener canlynol cawn Harris yn Pentyrch, tua chwech milltir o Gaerdydd, ac y mae y nodiad yn ei ddydd-lyfr yn haeddu ei groniclo: "Yr oedd fy natur wedi ei llwyr weithio allan, ac ni chyfodais hyd gwedi deg. Wrth fod y brawd T. P. a minau yn agor ein calonau i'n gilydd, a chael fod fy ffaeleddau yn cael siarad am danynt yn ddirgel, cefais olwg ar natur hunan a balchder, gan ei weled ynof fel mynydd, yn ymddyrchafu yn erbyn Duw, a hyny i'r fath uchder fel nas gallai neb ond Duw ei faddeu a'i ddinystrio. Cefais galon i alaru o'i herwydd, a ffydd i gyflwyno fy hunanoldeb a'm balchder i law Duw i gael eu dinystrio. Yr wyf yn cael fod y brodyr yn dyfod yn agosach ataf, gan deimlo fod eu hachos hwy yn debyg i'r eiddof fi." Y mae yn glir mai yn mysg y Methodistiaid y siaredid am ffaeleddau Harris yn ddirgel; cyhoeddai ei elynion yr hyn a ganfyddent yn feius ynddo ar benau tai. Felly yr oedd tymher gyffrous y Diwygiwr, a felltenai allan pan ei gwrthwynebid, neu pan y sonid am ymadael ag Eglwys Loegr, wedi dyfod yn destun sylw yn mysg y cynghorwyr a'r aelodau cyffredin. Ymdeimlai yntau a'i ffaeledd, a gofidiai o'i herwydd, gan ei gymeryd at yr Arglwydd i gael maddeuant ac ymwared oddiwrtho. Dydd Sadwrn y mae yn Aberthyn. Boreu y Sul aeth i eglwys Wenfo, lle y gwasanaethai clerigwr efengylaidd o'r enw William Thomas; cyfranogodd o'r sacrament, a diolchai i Dduw ei fod wedi gadael yr ordinhad yn yr Eglwys. Llefai: "O Dduw, na fydded i ni gael ein troi allan o'r ordinhad yn yr Eglwys dlawd, amddifad hon; yn hytrach, bydded i ni ddyfod yn halen iddi. Na fydded i'n llygredigaethau ni, ein hunanoldeb, a'n balchder, a'n tuedd i ddirmygu eraill; nac i lygredigaethau rhai eraill, a'r yspryd erledigaethus sydd ynddynt, ein troi ni allan. O dychwel atom, a bydded i ni ddyfod yn oleuni yr holl dir."

Y mae y nodiad canlynol yn ei ddyddlyfr, wedi ei ysgrifenu yn Watford y dydd Mawrth dilynol, yn esbonio ei hun: "Y maent yn ceisio dwyn oddiarnaf yr hyn wyf yn barod wedi ei roddi ymaith, a'r hyn nad yw yn feddiant i mi, ond i Grist, sef fy mywyd. Gwelaf yn hyn brawf i fy ffydd. Y mae gwarant allan i fy mhressio i'r fyddin. Pan aethum i feddwl am y peth cefais ryddhad wrth lefain ar yr Arglwydd: 'O Arglwydd, yr hyn wyt ti yn wneyd a saif. Ti ydwyt frenhin. Nis gallant weithredu hebot ti. Yn awr, dysg fi yn unig i'th ogoneddu, ac i lawenychu fod genyf enaid a chorph i'w rhoi i ti.' Ni chefais erioed brofiad mor felus. Y mae y newydd (am y warant) mor bell o fod yn boenus i mi, fel na chymerwn fil o fydoedd am fod heb ei glywed. Daeth y geiriau i fy meddwl a fendithiwyd i mi saith mlynedd yn ol, sef: 'Ni ddichon neb ei gau.' Gwelwn hwy oll yn llaw Crist." Profiad bendigedig. Nid ydym yn gweled Howell Harris yn ymddyrchafu mor uchel mewn gras, nac yn dangos yspryd mor ardderchog, un amser, a phan y mae yr ystorm yn rhuthro ar ei draws.

Cynhelid Cymdeithasfa Fisol, Mai 3, yn Llanfihangel; nid oedd yma eto yr un offeiriad urddedig yn bresenol, ac felly, Howell Harris a lywyddai. A ganlyn yw y penderfyniadau, fel eu ceir yn nghofnodau Trefecca:—

"Cydunwyd yma, fel yn Watford, gyda golwg ar gateceisio, ein bod yn ei argymhell ar y brodyr, a'n bod i ddefnyddio catecism Mr. Griffith Jones, yn neillduol y catecism ar y credo.

"Fod y brawd John Belsher i gynorthwyo y brawd Harris mewn helpio yr arolygwyr, fel y penderfynwyd yn Watford.

"Fod y cynghorwyr anghyoedd i gymeryd gofal uniongyrchol ymweled a'r cymdeithasau preifat, pan gyfarfyddant yn ddirgel, oddigerth ar amgylchiadau arbenig, pan fydd rhywrai i'w derbyn, neu i'w tori allan, neu ryw betrusder i'w symud, neu pan fyddo angen ymgynghoriad gyda golwg ar briodas.

"Cydunwyd fel yn Watford gyda golwg ar drefnu y cynghorwyr anghyoedd.

"Wedi ymddiddan a'n gilydd, a chyflwyno ein goleuni yn rhydd y naill i'r llall, gyda golwg ar ein dyledswydd at yr holl

hil ddynol, a'r berthynas yr ydym yn sefyll ynddi at bawb yn gyffredinol fel cydgreaduriaid, at yr holl eglwys dros yr holl fyd yn neillduol, fel corph Crist, ac at y gangen hon o honi yn y wladwriaeth hon, ond yn fwyaf arbenig at y rhai sydd yn cymdeithasu â ni, cydunasom, er mwyn symud mor bell ag y medrwn bob maen tramgwydd, i gymuno yn ein heglwysydd plwyfol, ac i gynghori y bobl i wneyd hyny, fel na byddom yn ymddangos yn debyg i sect. Yr oeddem wedi cyduno yn flaenorol i beidio galw ein cymdeithasau yn eglwysi, ond seiadau o fewn yr Eglwys Sefydledig; ac i beidio galw y cynghorwyr yn weinidogion. Yn neillduol, gan ein bod yn gweled fod petrusder y rhan fwyaf (gyda golwg ar gymuno yn eu heglwysydd plwyfol) yn codi o'u tywyllwch a'u llygredd, ac nid o'u gras; yn (1), am eu bod yn edrych ar, ac yn tramgwyddo wrth feiau rhai eraill, sydd yn derbyn gyda hwy, yr hyn sydd yn sawri yn gryf o yspryd y Pharisead yn pwyntio at y Publican, ac yn bradychu anwybodaeth gormodol am danynt eu hunain, a rhy fach o dosturi at eraill; yn (2), am eu bod yn edrych ar waeledd neu bechadurusrwydd yr offeiriad, gan ddweyd: Pa fodd y gallwn ddysgwyl bendith, neu dderbyn lles trwy y cyfryw un? yr hyn sydd yn profi diffyg ffydd i edrych trwy y moddion at Dduw, ac yn dangos dibyniad ar ras y person sydd yn gweinyddu, ac nid ar y gras sydd yn Nghrist.

"Cydunodd y brawd Morgan John Lewis â hyn, mewn ffordd o gyd-ddwyn, hyd nes y byddai i'r Arglwydd ein gwthio allan, neu ynte ddwyn diwygiad i mewn. Yn unig, mynegai fod eu heglwys blwyfol hwy mewn annhrefn hollol, heb un trefniant sefydlog gyda golwg ar amser (yr ordinhad); a phan y cynygiai gael yr ordinhad yn St. Brides, i'r offeiriad ei dderbyn yn garedig, gan ddweyd nad oedd ganddo un gwrthwynebiad iddo, ond fod y canonau yn erbyn. Ni feddai y brawd Belsher ryddid llawn gyda golwg ar hyn, ond cadwai ei amheuaeth iddo ei hun. Yr oedd y lleill yn foddlon."

Gwelir fod yr un materion yn cael eu trin, a'r un penderfyniadau yn cael eu pasio, mewn gwahanol Gyfarfodydd Misol. Yr amcan oedd cael cyd-ddealltwriaeth ar ran yr holl gymdeithasau a'r holl gynghorwyr yn ngwahanol ranau y wlad. Y mae yn amlwg ddarfod i berthynas y Methodistiaid a'r Eglwys Sefydledig fod yn destun dadl faith yn y cyfarfod. Eithr ni chollodd Harris ei dymher, fel yn Nghymdeithasfa Glanyrafonddu. Yn hytrach, pwyswyd y rhesymau o blaid ac yn erbyn ymadael gyda gofal; ac yn y diwedd trodd y cyfarfod o blaid aros hyd nes y byddai iddynt gael eu bwrw allan. A ydyw Harris yn rhoddi rhyw gymaint o liw ei syniadau ei hun ar y cofnodau, pan yn crybwyll fod y cri am beidio cyd-dderbyn â dynion annuwiol o law offeiriad anfoesol, yn codi nid o ras, ond o lygredigaeth, ac yn sawri o yspryd Phariseaeth, nis gwyddom. Diau mai felly y teimlai efe, a naturiol tybio fod ei deimladau yn dylanwadu arno pan yn ysgrifenu.

Dydd y Gymdeithasfa, Iau Dyrchafael, sef Mai 3, 1744, ysgrifena yn y modd a ganlyn: "Saith mlynedd i'r dydd hwn, pan yr ymddangosai y drws fel yn cael ei gau yn fy erbyn i fyned o gwmpas, darfu i dad * anfon ei fab i geisio genyf lefaru yn ei dŷ ef, yr hyn a brofodd yn foddion i agor y drws i mi i fyned o amgylch. Ac yn awr yr wyf yn myned i gael ei ferch." Gwelwn oddiwrth y difyniad hwn mai Mr. Williams, o'r Ysgrin, oedd y boneddwr o Sir Faesyfed a wahoddodd Harris i bregethu yn ei dŷ, yn y flwyddyn 1737, ac a fu yn foddion yn llaw rhagluniaeth i ledu y diwygiad dros y wlad. Ymddengys fod priodas agoshaol Howell Harris yn cyffroi mawrion Brycheiniog a Maesyfed yn ddirfawr. Yr oedd Williams, o'r Ysgrin, yn foneddwr, ac yn perthyn i'w cylch neillduol hwy; a byddai cael Miss Williams yn wraig yn dwyn Harris, y Methodist a ddirmygent yn eu calon, i fath o gysylltiad â hwy, yr hyn beth nis gallant ei oddef. Ei rwystro i briodi Miss Williams, o'r Ysgrin, oedd y prif amcan wrth godi gwarant i'w bressio i fod yn filwr. "Yr wyf yn cael," ysgrifena, "fod llid yr ynadon yn cyffroi yn ddirfawr yn fy erbyn. Dywedai U.H. wrth dad * y gwnai fy anfon i'r rhyfel, pe yn unig er fy rhwystro i gael ei ferch yn wraig." Darfu iddynt gynhyrfu brawd Miss Williams i fod yn wrthwynebol i'r briodas, ac i ymuno yn eu cynllwyn.

O'r diwedd dyma yr ystorm yn dechreu rhuthro arno. Dydd Mawrth, Mai 8, ysgrifena: "O gwmpas un o'r gloch daeth William G—— a'r cwnstab i gymeryd Jemmi i fod yn filwr." James Morgan, golygwr ei dŷ, a chynghorwr gyda'r Methodistiaid, oedd "Jemmi." "Cawswn fy rhybuddio eu bod yn dyfod; felly

rhedais i fynu y grisiau, a syrthiais gerbron yr Arglwydd. Ond am ychydig amser yr oeddwn wedi fy ngadael, fel nas gallwn weddïo, na thynu yn agos at Dduw. Yr oeddwn yn ymroddedig, ond gan fy mod wedi suddo i afael hunan ni theimlwn y nerth a'r bywyd a arferwn deimlo. Yr oeddwn mewn llyfethair gan ofn slafaidd, fel nas gallwn fod yn hyf. Cawswn fy narostwng fel petrysen; yr oedd y gelyn gerllaw; teimlwn y cnawd yn dychrynu rhag i'r tŷ o glai gael ei ddatod trwy ergyd ar fy mhen. Yn raddol, pa fodd bynag, daethum gymaint ataf fy hun fel ag i fyned i lawr at y gweithwyr." Yr oedd y gweithwyr hyn yn parotoi y tŷ yn Nhrefecca, a gawsai yn rhodd gan ei frawd Joseph, ar gyfer ei ddarpar-wraig ag yntau. Hawdd gweled ddarfod i ffydd Howell Harris ballu am enyd; y mae y cadarn, nad ofnai holl luoedd y fall, yn gwanychu am ychydig, nes dyfod fel gŵr arall. Nid ysgrifenu hanes dyn perffaith yr ydym, ond dyn duwiol, a'i ras ambell dro yn myned dan gwmwl. Ond nid yw y cwbl wedi ei adrodd eto. Rhag ofn i'r ustus a'r cwnstab ddychwelyd a'i gymeryd yntau, dihangodd i gyfeiriad Tynyewm, yn Sir Faesyfed. Mewn difrif, ai dyma Howell Harris! Nid rhyfedd ei fod yn croniclo ar y ffordd, ei fod o hyd mewn caethiwed, a'i fod yn gwaeddi: "O fy ngwendid!" Ond meddai, drachefn: "Y mae yr Arglwydd yn fy adwaen." Ni pharhaodd y ffit o ddigalondid yn hir, pa fodd bynag. "Llanwyd fy enaid â nerth," meddai; "gwelwn nad oedd fy mywyd, pe ei collwn ddeng mil o weithiau, yn ddim yn ymyl ei ogoniant ef. Gwelwn fy holl elynion fel dim." Aeth yn ei flaen i'r Ysgrin, i gysuro a gwroli Miss Williams, ar gyfer y prawf oedd o'i blaen, a thranoeth dychwelodd i Drefecca, i aros y canlyniadau, beth bynag a fyddent.

Dydd Iau, Mai 11, yr oedd ystad ei feddwl yn ogoneddus. "Gwelais," meddai, "nad yw fy nghorph yn eiddof fi, ond eiddo yr Arglwydd. Gwell genyf ddisgyn i uffern filiwn o weithiau trosodd, na rhoddi lle am eiliad i syniad anfoddog, iddo ef lywodraethu fy enaid, a gwneyd â mi fel y mae yn ewyllysio, hyd yn nod pe bai iddo fy nifodi, neu osod cospedigaeth dragywyddol arnaf. Gan fy mod wedi cael fy mhrynu ganddo, ai ni chaiff wneyd â mi fel yr ewyllysia? Clywais heddyw drachefn a thrachefn y byddwn yn sicr o gael fy nghymeryd yfory, a bod yr holl ynadon yn llidiog yn fy erbyn, yn arbenig o herwydd fy mhriodas." Tranoeth i'r dydd yr ysgrifena yr oedd y Gymdeithasfa Fisol i gael ei chynal yn Nhrefecca; ac ymddengys ddarfod i'r erlidwyr benderfynu rhoddi y warant mewn grym pan fyddai Harris yn anerch y cyfarfod cyhoeddus, er mwyn gyru ofn ar bawb, ac yn neillduol ar y cynghorwyr fyddai wedi ymgynull o wahanol barthau y wlad. Ond yr oedd gŵr Duw yn hollol ddiofn.

"Cefais y fath olwg ar Dduw fel uwchlaw iddynt oll, a'r fath sicrwydd y gwnai roddi i mi ddrws agored nas dichon neb ei gau," meddai, "fel yr edrychwn ar fy ngwrthwynebwyr fel gwybed a gwagedd." Ni adawodd ei Arglwydd ef heb gysuron yn y cythrwfl hwn. Daeth un brawd yr holl ffordd o Gastellnedd er ceisio sirioli ei yspryd. Dygodd un arall y newydd iddo fod Maer Bryste wedi cyhoeddi na wnai ddanfon yr un o'r Methodistiaid i'r rhyfel. "Toddodd hyn fy nghalon yn llymaid,' meddai; "gwelwn fod Duw o hyd yn ymddangos o'n plaid. Y mae llawer yn fy nghynghori i beidio llefaru yfory, gan fy mod yn sicr o gael fy nghymeryd; ond gwelaf mai fy nyledswydd yw myned yn y blaen gyda'r gwaith, a'm bod yn cael fy ngalw i ddyoddef ynddo. Llenwir fi yn fynych a llawenydd wrth weled fod fy nyoddefaint gerllaw; bryd arall yr wyf yn ofni ac yn crynu yn yr olwg ar Dduw, ac ar eu cynddaredd a'u llid hwy, yr hyn sydd wialen Duw, yn cael ei chymhwyso ganddo at ein cnawd; y mae yn myned fel brath cleddyf trwodd. Ond drachefn, gyda phob croes, yr wyf yn cael rhyw gymaint o ychwanegiad nerth i'r dyn newydd, a rhyw gymaint o hunan a natur yn cael ei gymeryd ymaith."

Dydd Gwener oedd y diwrnod i osod y warant mewn grym, pan fyddai y Gymdeithasfa wedi ymgynull. Cyfododd Harris yn siriol ei yspryd; gwelai Dduw yn eistedd ar y llifeiriant. "Ysgrifenais fy nydd-lyfr," meddai; "trefnais fy holl amgylchiadau ar gyfer fy ngharchariad; ac yr oeddwn yn hapus a dedwydd. Cadwyd fi rhag edrych am amddiffyn cnawdol: gallwn ddianc pe yr ewyllysiwn; ond gwelwn mai fy nyledswydd oedd sefyll." I'r cyfarfod yr aeth, i sefyll i fynu dros ei Dduw. Cyn myned, gweddïai dros ei fam, na ddiffygiai ei ffydd. Bu yn y cyfarfod preifat gyda'r cynghorwyr hyd gwedi un, yna aeth i'r odfa gyhoeddus. Daeth torf fawr yn nghyd; cafodd yntau nerth anghyffredin wrth lefaru. Ei fater

oedd y tŷ ar y tywod, a'r tŷ ar y graig. Cyn terfynu, agorodd ei galon i'r bobl; dywedai ei fod yn barod i ddyoddef, ac mai cariad at Dduw ac at eu heneidiau hwy a'u dygasai yno y dydd hwnw. Rywsut, ni roddwyd y warant mewn grym. Ai nerth y geiriau a lefarai gŵr Duw a wanhaodd freichiau yr erlidwyr; ynte a oedd arnynt fraw i afaelu mewn dyn mor enwog a Howell Harris, yr hwn a feddai eiddo rhydd-ddaliol, ac a noddid gan rai o brif bendefigion y deyrnas, nis gwyddom. Ond gofalodd Duw am ei was; diarfogodd yr erlidwyr mor effeithiol ag y cauodd safnau y llewod yn y ffau gynt.

Bychan oedd y Gymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca; nid oedd yr un o'r tri offeiriad yn bresenol, ac ond dau o'r arolygwyr, sef Morgan John Lewis, a Thomas James; efallai fod yr erledigaeth wedi cadw y gweddill i ffwrdd. Daethai, modd bynag, nifer da o gynghorwyr yn nghyd. Y prif benderfyniadau a basiwyd ydynt a ganlyn:—

"Rhoddasom ein barn i'r brawd Walter Hill, gyda golwg ar ei betrusder i dderbyn y sacrament gydag offeiriaid cnawdol, &c.; y dylem am y presenol, hyd nes y byddo i ni gael ein troi allan, neu i ddiwygiad gael ei ddwyn i mewn, oddef a chyd-ddwyn er mwyn y gwaith.

"Cydunwyd fod i'r brawd John Williams, fel y cynghorwyr anghyoedd eraill, beidio aros yn sefydlog i arolygu yr un seiadau, ond i gael ei anfon draw ac yma, yn ol doethineb yr arolygwr, fel y byddo efe yn canfod fod ei ddawn a chyflwr y bobl yn galw.

"Fod y brawd Thomas Jones i gyflogi ei hun gyda John Richard, ac i fod fel o'r blaen hyd y Gymdeithasfa gyffredinol nesaf, gan ymweled a Sir Faesyfed unwaith y mis.

"Wedi cryn ymgynghoriad parthed priodas y brawd Morgan John Lewis, cawsom ryddid i gydweled a'r peth.

"Cydunwyd fod i fater priodas y brawd Edward Bowen i gael ei benderfynu gan y brodyr Thomas James a Thomas Bowen, ar ol ymgynghori â'r seiadau y mae efe a hithau yn perthyn iddynt.

"Fod y brawd Walter Hill i fyned i wasanaeth y brawd William Evans, a bod Mr. Roberts i gael ysgrifenu ato, i ddymuno arno ei ollwng; a bod y brodyr i gael ymddiddan â hwy, fel y byddo iddynt ryddhau y brawd Evans o ran o'i gyflog.

"Fod y brawd William Evans i gyflwyno ei hun yn hollol i'r gwaith, mor bell ag y byddo hyny yn gyson â'i ofalon teuluaidd, a'i fod i arolygu yr holl seiadau sydd dan y brawd Beaumont yn ystod ei absenoldeb ef (Beaumont) yn Llundain, ac i gael ei gynorthwyo gan y brawd Thomas James.

"Ein bod oll, yn ystod yr amser profedigaethus hwn, i arfer diwydrwydd dyblyg, ac i ymdrechu gyda chateceisio yn ein teuluoedd.

"Meddyliem nad oedd bwriad y brawd Thomas i briodi o'r Arglwydd."

Yn mhen tri diwrnod wedi Cymdeithasfa Fisol Trefecca, sef Mai 15, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Brynbychan. Daeth lliaws yn nghyd yno, ac yn eu mysg Daniel Rowland, yr hwn a lywyddai, Williams, Pantycelyn, y Parch. Benjamin Thomas, Richard Tibbot, &c. Aeth Howell Harris tuag yno trwy gantref Buallt, gan lefaru mewn amrywiol fanau ar y ffordd. Am 10 o'r gloch, boreu y Gymdeithasfa, pregethai Daniel Rowland yn nghapel Eglwysig Abergorlech, tua phedair milltir o Brynbychan. Ei destun oedd, Salm ii. 6, a chafodd odfa hynod. Dangosai pa mor ddyogel oedd eglwys Dduw, mor anmhosibl oedd ei gorchfygu, er cymaint o lid a fodolai yn erbyn Crist. Gorphenodd trwy alw ar holl blant Duw i fuddugoliaethu mewn gobaith, ac i beidio cael eu cyffroi wrth glywed son am ryfeloedd, &c., gan fod ein Cesar (Crist) yn fyw. "Nid yn unig y mae yn fyw," meddai y pregethwr, "ond y mae yn teyrnasu. Gorfoleddwch; y mae Crist yn teyrnasu!" Gwaeddai enaid Harris oddifewn iddo wrth wrando: "Gogoniant i Grist!" Yr oedd yn odfa ryfedd. A phan y gweddïai y pregethwr ar y diwedd dros bob dosparth o ddynion, ac yn eu mysg dros y brenhin, llewyrchodd goleuni anarferol ar y gynulleidfa. Meddai Harris: "Bendigai fy enaid Dduw am yr anwyl Rowland; am y dawn, y nerth, y ddoethineb, y gwroldeb, a'r awdurdod a roddodd iddo; a theimlwn yn foddlawn bod heb ddim (dawn) er mwyn iddynt hwy flaguro er gogoniant Duw." Cyrhaeddasant Brynbychan yn y prydnawn; am bump cyfarfyddodd y Gymdeithasfa, a buont yn cydeistedd hyd ddeg yn yr hwyr. Teimlai Harris yn bur sâl, ond agorodd Duw ei enau i anerch y brodyr, gyda golwg ar natur gostyngeiddrwydd, ac yspryd drylliedig, ac ymgydnabyddiaeth â Duw. Cafodd y fath olwg yn y cyfarfod ar nerth y gelynion, mawredd y gwaith, ei

anghymwysder ei hun ar ei gyfer, a'r angen oedd arno am bob gras, fel y llefai: "Arglwydd, ni wnai dim beri i mi fyned allan (i bregethu), ond dy fod di yn fy anfon; hyn, a hyn yn unig yw y sail yr wyf yn adeiladu arni, fy mod wedi cael fy anfon ganddo ef." Dranoeth, aeth yn nghwmni Rowland a Williams mor bell a Dygoedydd; yno pregethodd Daniel Rowland, ar Can. ii. 14, ac ymddengys iddo gael hwyl anarferol. Yna ymwahanodd y cyfeillion, Rowland a Williams yn myned tua Cheredigion, a Harris tua Threfecca.

Ychydig, a chymharol ddibwys, oedd penderfyniadau Cymdeithasfa Brynbychan:—

"Cydunwyd, gwedi dadl faith, fod Evan John i gael ei adael i'r Arglwydd, hyd nes y caffom oleuni pellach i ganfod ei alwad; nid oedd ef yn teimlo ei hun yn rhydd i roddi i fynu.

"Fod enw yr hwn sydd i gynghori i gael ei hysbysu, pan y cyhoeddir fod cynghori i gymeryd lle mewn unrhyw le.

"Fod catecеisio i gael ei osod i fynu, a'i drefnu yn y fath fodd ag a fo fwyaf buddiol, er cyffroi pawb i chwilio yr Ysgrythyrau.

"Fod William Samuel i gynghori ar brawf o gwmpas cartref."

Fel yr oedd adeg priodas Harris yn agoshau, cynyddai y gwrthwynebiadau i'r undeb. Yr oedd teulu Miss Williams ei hun yn chwerw ac yn erlidgar. Cynygiai ei thad, a roddasai unwaith ei gydsyniad i'r briodas, bymtheg cant o bunoedd iddi am dynu yn ol; bygythiai ei mam ei churo; ac yr oedd ei brawd yn llawn cynddaredd. Yn ychwanegol, taenid chwedlau ar led oeddynt yn dra niweidiol i gymeriad y Diwygiwr, sef ei fod yn priodi yn unig er mwyn y gwaddol a gaffai gyda ei wraig, ac nad oedd ef a hithau yn myned i'r ystad briodasol mewn ffordd anrhydeddus. Pan glywid am gwymp tybiedig y dyn a elai o gwmpas i bregethu, gan fygwth digofaint Duw ar holl weithredwyr anwiredd, llawenychai ustusiaid Brycheiniog a Maesyfed fel pe wedi cael ysglyfaeth lawer. Eithr yr oedd rhuddin yn y ferch ieuanc; ac er pob gwrthwynebiad, unwyd hi a Howell Harris mewn glân briodas yn Nghapel Ystrad-ffin, Mehefin 18, 1744. Er rhoddi taw ar elynion crefydd, gwrthododd Harris gymeryd ceiniog o waddol gyda hi; ac yn y cyfnod priodol profodd amser fod y chwedl arall yn anwireddus.

Ar y 27ain o Fehefin, cynhelid y Gymdeithasfa Chwarterol yn Nhrefecca. Ymgynullodd y frawdoliaeth yn bur gryno, ac yn mysg eraill yr oedd Daniel Rowland, Howell Davies, Williams, Pantycelyn, wedi dyfod. Am un-ar-ddeg yn y boreu, pregethodd Rowland, oddiar Heb. vi. 18, gan ddangos yr angenrheidrwydd am ffydd o flaen gweithredoedd, a'r ddyledswydd o fyned at yr addewidion cyn myned at y gorchymyn. Teimlai Harris eu hun yn drymaidd a chysglyd yn ystod y cyfarfod. Nid oedd hyd yn nod Rowland yn gallu tanio cynulleidfa bob amser. Gwedi hyny pregethodd Herbert Jenkins, oddiar Phil. iv. 4, a chafodd gryn afael ar y bobl. "Wedi iddo orphen," meddai Harris, "aethom i giniaw, a chefais bleser mawr tra yn gwasanaethu ar y brodyr wrth y bwrdd, gan deimlo yn ddiolchgar fod genyf dŷ i groesawu cenhadau Duw. O gwmpas tri, aethum gyda'r gweddill o'r frawdoliaeth i'r Gymdeithasfa, lle yr arosasom hyd ddeg. Yr oedd genym faterion o bwys i'w hystyried, yn arbenig y priodoldeb i'r offeiriaid gyfranu y sacrament mewn tai. Yr oeddwn i, gyda mawr wres a zêl, wedi bod yn erbyn hyn; ond wrth weled cymaint o anesmwythder yn yr ŵyn, a bod llawer yn ein gadael o'r herwydd, ymddangosai i mi fod llais rhagluniaeth yn galw ar yr offeiriaid i fyned un cam yn mhellach. Ond gan na theimlent hwy yn rhydd, cydunasom i neillduo diwrnod yr wythnos nesaf i ymgynghori â Duw. Yr oeddem yn unfryd yn ein holl ymgynghoriadau a'n penderfyniadau. Mor raddol y mae yr Arglwydd yn ein harwain, fel y gallwn ei ddwyn. Wrth ddarllen hanes yr arolygwyr am yr ŵyn dan eu gofal, cawsom foddhad mawr. Ond yr oeddwn i yn sych. Yna swperasom, a chawsom gymdeithas felus yn nghyd, yn trefnu ein Cyfarfodydd Misol am y dyfodol." Dranoeth pregethodd Morgan John Lewis, gyda nerth mawr, oddiar Hab. iii. 19, ac yna ymwahanodd y brodyr.

Am unwaith, gwelwn fod Howell Harris yn fwy rhyddfrydig na Daniel Rowland, a Howell Davies, a Williams, Pantycelyn. Daethai ef yn foddlon i'r offeiriaid weinyddu y sacramentau mewn tai byw, yn y plwyfydd hyny lle yr oedd offeiriaid yn anfoesol, neu lle y gwrthodid y cymundeb i'r Methodistiaid. Nid oeddynt hwy eto yn barod i gymeryd cam mor bwysig. Diau y gwelent yr arweiniai hyn i beri i'r Esgob gymeryd eu trwyddedau oddiarnynt, yr hyn a allai wneyd yn hawdd,

gan nad oedd un o honynt yn fwy na chuwrad.

Dyma y penderfyniadau a basiwyd, fel eu ceir yn nghofnodau Trefecca :—

"Cydunwyd, wedi ymgynghoriad, parthed yr angenrheidrwydd am gynorthwywr i'r brodyr Morgan John, Thomas Price, Thomas William, a John Richard, fod i'r brawd John Belsher ymroddi yn hollol i'w cynorthwo hyd y Gymdeithasfa Chwarterol nesaf.

"Deallwyd fod y brawd Evan Williams am ein gadael, a myned i fysg yr Ymneillduwyr.

"Cydunwyd fod y brawd Morgan John i gyfnewid taith gyda y brodyr Thomas William a Thomas James.

"Atebwyd llythyr oddiwrth y brawd Richard Charles gyda golwg ar weithio ar y Sabbath, ar fod iddo ymgadw oddiwrth bob gwaith diangenrhaid, a chadw y dydd Sabbath yn sanctaidd.

"Cydunwyd fod y brawd (Herbert) Jenkins i ddyfod o Loegr fis cyn y Gymdeithasfa nesaf, ac yna i fod yn fwy arosol a sefydlog.

"Fod ein Cymdeithasfa Chwarterol nesaf i fod yn Mhorthyrhyd, tair milltir o Lanymddyfri, y Mercher cyntaf wedi Gwyl Mihangel, a'r brawd Howell Davies i'w hagor, trwy bregethu am ddeg o'r gloch y boreu.

"Fod yr holl frodyr i gadw diwrnod o ympryd a gweddi yn yr wythnos nesaf ar eu penau eu hunain, o herwydd amryw faterion.

"Darllenwyd yr holl adroddiadau, ac yr oeddynt yn hyfryd.

"Cydunwyd fod y brawd William Williams i ymweled â'r cymdeithasau yn mhen uchaf Sir Aberteifi, unwaith bob chwech wythnos, ar brawf, hyd y Gymdeithasfa Gyffredinol nesaf."

Diau mai Williams, Pantycelyn, oedd yr ymwelwr hwn. Eithr dealler mai nid efe, yr hwn oedd yn offeiriad ordeiniedig, a osodid ar ei brawf, ond y cynllun yn ol pa un yr oedd i ymweled bob chwech wythnos a'r cymdeithasau. Ni theimlai y Gymdeithasfa yn sicr pa fodd y gweithiai y cyfryw drefniant.

Arosodd Howell Harris yn Nhrefecca, yn adnewyddu tŷ ei breswylfod, ac yn pregethu yn yr ardaloedd o gwmpas, am ryw naw diwrnod wedi y Gymdeithasfa. Gorphenaf 7, y mae efe a'i briod yn cychwyn am daith o dair wythnos trwy ranau o Maesyfed, Brycheniog, Caerfyrddin, Morganwg, a Phenfro, gan gyrhaedd Llangug, neu Llangwm, Gorph. 16. Yno cynhelid Cymdeithasfa Fisol. Eithr ar eu ffordd yno buont ar ymweliad â Howell Davies, yn y Parke. Teimlai Harris yn hyfryd wrth fyned tua'r Gymdeithasfa. "Cefais y fath serch at ogoniant Duw,' meddai, "fel y llyncwyd yr holl achosion eraill i fynu yn hyn. Nid oeddwn yn dymuno unrhyw ras na doniau, ond er mwyn ei ogoniant ef. Nid oedd fy iachawdwriaeth fy hunan yn ddim yn ymyl hyn. Llefais : 'O Arglwydd, dyro i mi ras, ffydd, cariad, doethineb, gostyngeiddrwydd, a gwroldeb i ymddyrchafu uwchlaw pechod, angau, a Satan, yn unig er mwyn hyn, sef fel y gallaf ogoneddu dy enw, ac ymddwyn fel dy blentyn a'th weinidog di. Am danaf fy hunan, dyro i mi i'th wasanaethu, ac yna gwna fel y mynot a fi, am amser a thragywyddoldeb.' Eisteddasom ynghyd yn ein cyfarfod hyd chwech, yn trefnu y cynghorwyr, ac yn penderfynu amryw faterion. Yr wyf yn credu i'r Arglwydd ein bendithio yn fawr, y naill i'r llall, gan roddi i ni gryn oleuni ar amryw bethau. Clywais oddiwrth y brawd William Richard pa mor arswydus yw myned o flaen yr Arglwydd gymaint a cham, a pha mor llym fydd ein dyoddefaint o'r herwydd ; ac hefyd y fath farn yw peidio bod a'n hamser yn cael ei lanw gan yr Arglwydd gyda y naill ddyledswydd neu y llall." Sicr yw mai y cynghorwr o Landdewi-brefi oedd y William Richard hwn ; ac nid annhebyg mai efe ei hun, mewn rhyw amgylchiad neu gilydd, oedd wedi rhedeg o flaen yr Arglwydd, a chwedi cael ei gospi yn drwm am y rhyfyg. Am natur y cam a gymerodd, ynghyd a'r farn a ddisgynodd arno mewn canlyniad, nid oes genym yn awr ond dyfalu. "Dysgais wersi gan amryw frodyr eraill," meddai Harris, "yn enwedig pan ddywedai y brawd Thomas Miles os na fydd genym oleuni tufewnol, mai da yw canlyn y llais allanol, sef eiddo rhagluniaeth. Dywedwyd llawer am William Edward (Rhydygele), a George Gambold." Yna ymadawodd Howell Harris am Hwlffordd, lle y pregethodd y noson hono gyda nerth anghyffredin oddiar eiriau yn Llyfr Job.

Y mae penderfyniadau Cyfarfod Misol Llangwm fel y canlyn :—

"Cydunwyd fod y brawd John Harry, gan ddarfod iddo dderbyn cymeradwyaeth, i gynghori fel o'r blaen hyd ein Cymdeithasfa Fisol nesaf, tan arolygiaeth y brawd William Richard.

"Fod y brawd George Bowen i lynu yn ddiwyd wrth ei alwedigaeth bresenol, ac i gynghori yn ei gymydogaeth dan y brawd John Harris.

"Fod y brawd W. Gambold, gan ddarfod iddo gael ei gymeradwyo fel cynghorwr, i fyned o gwmpas gymaint ag a fedr, gyda chymeryd gofal priodol am ei nain.

"Fod y brawd John Morris, gan ddarfod iddo gael ei gymeradwyo fel cynghorwr, i barhau i gadw ysgol, fel y mae yn gwneyd yn awr, hyd nes y bo i ragluniaeth agor drws arall iddo.

"Fod y brodyr John Sparks a John Evans, gan ddarfod eu derbyn a'u cymeradwyo fel cynghorwyr, i arfer eu doniau dan arolygiaeth y brawd Davies.

"Fod y brodyr John Lloyd a John Gibbon i gynghori yn breifat, fel y gwnaent o'r blaen, ac yn gyhoeddus dan arolygiaeth y brawd W Richard.

"Yr un peth gyda golwg ar y brawd John Hugh.

"Fod y brawd John Griffiths i ymweled a'i gymydogion, ac i ddarllen iddynt ar y Sabbath, ac hefyd i gynghori yn breifat dan y brawd W Richard.

"Fod y brawd John i gynghori fel o'r blaen ar brawf, a'r brawd William Jones dan arolygiaeth Thomas Miller.

"Fod y brodyr William Lewis a John Thomas i gynorthwyo y brawd John Harris yn ei waith preifat."

Dyna fel y darllen y cofnodau. Nid ydym yn gwybod y nesaf peth i ddim am amryw y crybwyllir eu henwau yma: eithr buddiol cadw ar glawr y penderfyniadau gyda golwg arnynt, fel esiampl o ddull y tadau yn cario y gwaith yn mlaen. Aeth Howell Harris a'i briod yn mlaen trwy ranau o Sir Aberteifi, gan alw yn Nghastell-newydd-Emlyn, Blaenporth, Llanwenog, a Chilfriw. Erbyn y 26, yr oeddynt yn Glanyrafonddu. Yna cyfarfyddodd Harris a phrofedigaeth, hanes pa un a gaiff adrodd yn ei eiriau ei hun: "Cefais demtasiwn yn y lle hwn, trwy glywed am gynyg o eiddo Satan i beri rhaniad rhyngom a'r offeiriaid gyda golwg ar y tân sydd yn ein mysg. Neithiwr dygais fy nhystiolaeth yn erbyn ymddygiad eithafol rhai, yn chwerthin allan, yn llamu ac yn neidio, yr hyn y mae yr offeiriaid yn ei gondemnio. Gwedi i mi ddweyd fy meddwl, oddiwrth yr Arglwydd, fel y tybiwn, gwrthwynebwyd fi yn gryf gan y cnawd, a chan reswm daearol; minau a'i cyflwynais i Dduw, gwedi i mi gael nerth i ymddwyn fel Cristion. Cefais atebiad gyda golwg ar yr hyn a ddywedais am y tân, sef fod yr hyn a lefarais yn boddio yr Arglwydd. O fel y mae Duw yn sefyll wrth fy ochr, gan fy nghlirio a'm cyfiawnhau, pan yr wyf yn dinystrio fy hun, a'm cymeriad, ac yn colli fy awdurdod, trwy beidio ymddwyn yn deilwng o lysgenhadwr y nef." Nid yw y difyniad yn hollol glir, ond gallwn feddwl ddarfod i Harris lefaru gyda gwres yn erbyn yr arddangosiadau gormodol o deimlad a wnelid gan rai; i rywrai feiddio ei wrthwynebu, a hawlio fod y cyfryw arddangosiadau yn gyfreithlon, ac iddo yntau mewn canlyniad golli ei dymer, ac ymddwyn, fel yr ystyriai efe yn ganlynol, yn annheilwng o weinidog Crist. Pan dawelodd ei gyffro, cyflwynodd yr holl fater i Dduw yn y nefoedd. Yn mhen enyd, cafodd atebiad ei fod yn iawn yn ei farn; eithr teimlai yn edifar oblegyd colli llywodraeth ar ei yspryd; ac yr oedd yn ymwybodol ddarfod iddo ymddwyn yn annheilwng o lysgenhadwr oddiwrth Dduw. Dyna y rheswm fod ei gydwybod yn ei gondemnio, er fod ei farn ar y mater mewn dadl yn gywir.

Prin y cafodd Howell Harris ddychwelyd i Drefecca nad oedd yn bryd iddo gychwyn drachefn i Gymdeithasfa Fisol, a gynhelid yn Cwmbrith, ger Llandrindod, Awst 1, 1744. Yno, Williams, Pantycelyn, a lywyddai. Y mae y cofnodau am y cyfarfod fel y canlyn:—

"Gwedi holi am ansawdd y cymdeithasau yn Sir Drefaldwyn, i'r brawd Richard Tibbot, cydunwyd, gan nad yw ei holl amser yn cael ei gymeryd i fynu, ei fod yn awr, dros amser y cynhauaf, i gynorthwyo'r brodyr, hyd nes y caffo ryw orchwyl arall.

"Ar ol arholiad manwl ar y brawd Edward Buffton am ei wybodaeth o dduwdod yr Iesu, a'i waith yn dwyn pechodau ei bobl ar y pren; am barhad y saint mewn gras; am ddatguddiad yr Yspryd Glân, a thrueni yr holl ddynoliaeth wrth natur, a chael ein boddloni gyda golwg ar ei ras, a'i alwad i lefaru dros y Duw mawr, cydunwyd ei fod i gynorthwyo y brawd Beaumont fel cynghorwr anghyoedd.

"Yn gymaint a bod gwrthwynebiad ac erlid mawr yn Llanllieni (Leominster), ac yn gymaint a bod yr Arglwydd yn rhoddi iddynt nerth ffydd yn eu heneidiau, cydunwyd fod y brodyr i gyfarfod fel arferol, gan orchymyn eu hunain i Dduw; ac os gwneir unrhyw gamwri, fel y byddo y

Gair yn cael ei rwystro, a'u bywydau hwythau yn cael eu gosod mewn perygl, fod iddynt ddefnyddio y gyfraith mewn ffydd, a bod y brawd Beaumont i fyned i'w cynorthwyo gwedi i'w wraig gael ei dwyn i'w gwelyfod."

Yn ychwanegol, gwelwn oddiwrth ddydd-lyfr Harris ddarfod i'r cyfarfod benderfynu fod Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn, i fyned ar daith i Ogledd Cymru; neu i Williams hysbysu fod hyn yn eu bwriad. Meddai: "Teimlais fod holl alluoedd uffern wedi ymgynghreirio yn ein herbyn. Yna cefais gariad mawr at, a chydymdeimlad dwfn â y brodyr Rowland a Williams yn eu gwaith, gan eu bod yn myned yn fuan i Ogledd Cymru, i ganol peryglon; yn ganlynol cefais gydymdeimlad â'r holl Fethodistiaid a'r offeiriaid yn Nghymru, yna yn Lloegr, ac yna dros y byd, am fy mod yn gweled eu bod wedi ymuno mewn un yspryd yn erbyn uffern. O y gwahaniaeth rhwng deall a'r yspryd a dim ond dirnadaeth o wirionedd yn y llythyren!"

Yn mhen deng niwrnod, sef Awst 12, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Llangeitho. Teithiodd Howell Harris tuag yno trwy Lanidloes a Llanbrynmair, gan bregethu mewn amryw fanau yn Sir Drefaldwyn. Cafodd Richard Tibbot yn gydymaith am beth amser, ac wrth ymddiddan a'r cynghorwr duwiolfrydig hwnw, gwelai mor fychan oedd ei ddirnadaeth ei hun o ogoniant a dirgelwch pethau dwyfol. Daeth i Langeitho yn hwyr nos Sadwrn. Ar y ffordd, teimlai y fath gariad brawdol at Daniel Rowland fel nas gallai ymatal rhag llefain: "O Arglwydd, anfon genadwri o gariad a nerth drwof fi, greadur gwan, iddo ef, fy mrawd hynaf; ac O, gwared fi oddiwrth fy hen natur, er mwyn dy enw." Boreu y Sul, aeth i'r eglwys erbyn naw. Williams, Pantycelyn, oedd yn pregethu; a'i destun oedd Zechariah xiii. 9: "A dygaf y drydydd ran trwy y tân, a phuraf hwynt fel puro arian, a choethaf hwynt fel coethi aur." Difyna Harris yn helaeth o'r sylwadau, ac yr ydym yn cofnodi rhai o honynt fel esiampl o arddull gweinidogaeth Williams. "Dangosodd," meddai, "pa fath yw y tân yn mha un y mae yn puro ei bobl. Yn gyntaf, ei fod yn anfon yspryd caethiwed arnynt; nid caethiwed deddfol, yn codi o ofn slafaidd; ond cuddiad ei wyneb. Ei fod yn gadael ffydd iddynt, ond eto yn cuddio ei wyneb, yr hyn sydd yn waeth nag uffern i'r cyfryw ag sydd yn ei garu. Yn ail, ei fod yn puro trwy dân croesau rhagluniaethol, gan nodi Dafydd a Job fel esiamplau. Yn drydydd, trwy ollwng pechod a llygredigaeth yn rhydd ynom, yr hyn yw y tân dirgelaidd, a'r baich trymaf o bob peth i'r Cristion. Yr oedd ei sylwadau yma yn agos. Dangosodd, yn mhellach, effeithiau y tân, ei fod yn rhoddi goleuni, a'i fod yn llosgi pob pechod." Felly y pregethai Williams yn eglwys blwyfol Llangeitho. Meddai Harris: "Yr oedd yn bregeth hyfryd. O'r fath fendith yw gweinidogaeth y Gair!" Ond teimlai hefyd nad oedd yn ddigon clir ar rai pwyntiau. "Er mor rhagorol oedd yr ymadroddion," meddai; "traddodwyd rhai pethau yn y cyfryw fodd, fel pe buaswn yn y cnawd, ac heb gael fy rhyddhau gan Un arall, y cawswn fy nwyn i gaethiwed, o eisiau gwahaniaethu yn fwy clir." Daethant allan o'r eglwys ychydig cyn deuddeg. Yn y prydnawn aethant i Eglwys Llancwnlle; pwy a weinyddai yno ni ddywedir. Yn yr hwyr pregethodd Howell Harris i gynulleidfa fawr oddiar y geiriau: "Fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn;" ac ymddengys fod yr odfa yn un dra grymus.

Yn ol y dydd-lyfr, nos Sabbath, wedi gwaith cyhoeddus y dydd, y cynhaliwyd y Gymdeithasfa Fisol. Meddai: "Daethom adref yn ddedwydd, ac yr oedd undeb hyfryd rhyngom. Eisteddasom i fynu hyd ddeuddeg mewn Cymdeithasfa, ymddiddanasom am lawer o bethau, ac yr oeddym yn hapus yn nghyd." Ychydig o arolygwyr a chynghorwyr oedd yn bresenol, a'r drafodaeth dilynol, yn ol y cofnodau, oedd yr unig fater y bu ymdriniaeth arno: "Wedi ymchwiliad manwl i helynt y brawd Morgan Hughes, ac heb fedru cyduno yn ein goleuni, ni a'i rhoddasom i bleidlais, a fyddai iddo gael llefaru yn breifat neu na fyddai, ac yr oeddem yn gyfartal ranedig. Arosasom am beth amser, a pharhäi pob un yn ei olygiad, un haner am iddo lefaru, a'r haner arall yn erbyn. Felly gadawyd y peth heb ei benderfynu, a'r seiadau i gael eu harolygu gan David Williams a Thomas Griffiths." Prawf sylwadau dydd-lyfr Harris, er fod y brodyr yn y Gymdeithasfa yn rhanedig, na fu dim drwgdeimlad rhyngddynt, ond y cydunent gyda phob heddwch i wahaniaethu. Ymddengys hefyd i bethau eraill fod yn destunau ymddiddan. Meddai Harris: "Yr wyf yn hyderu fod yr Arglwydd yn myned i gyflwyno i mi y fraint fawr o ddarllen ac

ysgrifenu. Hyn nis gallaf ei wneyd hyd nes y caf ryddid." Ai ysgrifenu llyfrau at wasanaeth y dychweledigion a olyga, nis gwyddom. Eto; "Yn awr, gan fod y brodyr Rowland a Williams yn myned i'r Gogledd, gwnaed i mi ddwyn cyfran fechan o'u beichiau, ac i ddadleu ar eu rhan, ar i'r Arglwydd gadw eu calonau mewn buddugoliaeth a rhyddid; gan fy ngweled fy hun yn rhy egwan i'r fath dreialon dirfawr, ac eto yn foddlawn myned, pe y cawn fy anfon. Llefwn: 'O Arglwydd, na âd i'th elynion fuddugoliaethu.'" Cafwyd pregeth yn Eglwys Llangeitho boreu dydd Llun drachefn, a hyny gan Rowland, yn ol pob tebyg. Yn y prydnhawn, aeth Harris i Llanbedr Pontstephan, lle y pregethodd oddiar gareg yn yr heol i gynulleidfa fawr, oddiar y geiriau yn Job: "Mi a glywais a'm clustiau son am danat." Dychwelodd drwy Gilycwm a Dolyfelin, gan gyrhaedd Trefecca prydnhawn dydd Gwener.

Yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn cael ei chynal yn Nhrefecca yn mhen llai nag wythnos, sef Awst 18. Cymdeithasfa fechan ydoedd; heb yr un offeiriad yn bresenol, a Howell Harris yn llywyddu. A ganlyn yw ei chofnodau:—

"Wedi darllen yr hyn y cytunasem arno yn flaenorol, ac ymgynghori yn nghyd, cydunwyd fod y brawd Thomas Jones i ymroddi yn gyfangwbl i'r gwaith, ac i fod yn gynorthwywr i'r brodyr Thomas Jones, Richard Tibbot, James Beaumont, a Morgan John, a'i fod i ymweled a Siroedd Brycheiniog, Trefaldwyn, y rhan Gymreig o Faesyfed, yn nghyd a seiat Longtown, dan arolygiaeth y brawd Howell Harris.

"Yn gymaint a bod y brawd Evans mewn cyfyngder am ryw arian, eu bod i gael eu benthyca yn uniongyrchol, a bod y mater yn cael ei gyflwyno i'r cymdeithasau, er mwyn ysgafnhau ei faich.

"Fod y brawd Joseph Saunders, mor fuan ag y byddo ei amgylchiadau wedi dod i drefn, i roddi prydnhawn dydd Sadwrn, yn nghyd â'r Sabbath, i ymweled ar yn ail a'r seiadau cymydogaethol.

"Fod y brodyr i wneyd yr oll a allant i gael dau le i bregethu ynddynt bob Sul, a'u bod i drefnu eu cyfarfodydd yn y cyfryw fodd na byddont yn rhwystr ar ffordd neb i fyned i leoedd eraill o addoliad.

"Fod y brawd Thomas Bowen i aros yn Llanfair-muallt am haner blwyddyn heb symud, i aros clywed llais Duw yn fwy clir."

Ychydig sydd yn galw am sylw yn y cofnodau hyn. Dengys y penderfyniad am drefnu y cyfarfodydd fel na rwystrent neb i fyned i leoedd eraill o addoliad, mor benderfynol oedd y Methodistiaid i beidio ymffurfio yn blaid ar wahan. Prawf y trefniant gyda golwg ar gynorthwyo y brawd Evans, sef William Evans, y cynghorwr tanllyd ei yspryd o Nantmel, yn ddiau, mor llawn oedd eu mynwesau o gydymdeimlad, ac fel yr oedd baich un yn dod yn faich pawb.

Yr ydym wedi dangos yn flaenorol ddarfod i erledigaeth ar ran y werinos ddarfod agos yn hollol cyn hyn, yn y rhan fwyaf o'r Deheudir, ac yn neillduol yn Mrycheiniog; yr oedd y teimlad cyffredin wedi troi o du y Methodistiaid. Ond yr oedd yspryd erlid yn cyffroi y boneddigion yn fwy nag erioed. Yn y Sessiwn a gynhaliwyd yn Aberhonddu, Awst 28, 1744, cyflwynwyd y penderfyniad canlynol gan Uchel Reithwyr Brycheiniog i'r Barnwr a eisteddai ar y fainc: "Yn gymaint a'n bod ni, Uchel Reithwyr Sir Frycheiniog, wedi derbyn fel siars oddiwrth Anrhydeddus Farnwr y gylchdaith hon, yn mysg amryw bethau eraill dysgedig a chanmoladwy, y dylem alw sylw at bob rhwystr ar ffordd ein crefydd sanctaidd, y darn mwyaf gwerthfawr o'n cyfansoddiad gwladol; ac yn gymaint a'i fod yn rhy wybyddus fod amryw (fel yr ydym yn cael ein hysbysu) o gyfarfodydd anghyfreithlon yn cael eu cynal ar y maes, a lleoedd eraill, gan bersonau sydd yn galw eu hunain yn Fethodistiaid, y rhai y mae eu pregethwyr yn honi eu bod yn esbonio yr Ysgrythyrau Sanctaidd tan ddylanwad ysprydoliaeth, trwy yr hyn y maent yn casglu yn nghyd dyrfaoedd mawrion o bersonau afreolus, er mawr berygl i heddwch teyrnas ein harglwydd Frenhin, a'r hyn, oddigerth iddo gael ei osod i lawr yn fuan, a all beryglu heddwch yr holl ymherodraeth yn gyffredinol; ac yn gymaint a bod y pregethwyr, neu y dysgawdwyr ffugiol hyn, yn eu cyfarfodydd afreolaidd, trwy ei hathrawiaethau penboeth, yn dyrysu meddyliau llawer o ddeiliaid ei Fawrhydi, yr hyn, mewn amser, a eill brofi yn dra pheryglus, hyd yn nod er dinystr ein crefydd sefydledig, ac yn ganlynol dymchwel ein llywodraeth dda, yn eglwysig ac yn wladol; yr ydym, er mwyn bod mor fanwl ag y gallwn wrth ddynoethi y cynllun mileinig hwn, yn cyflwyno i sylw y tai canlynol, sef: Ponty-

wal, plwyf Bronllys, tŷ John Watkins, a thŷ Howell Harris yn Nhrefecca, plwyf Talgarth, y ddau yn y sir hon, fel lleoedd sydd yn cynal ac yn cefnogi y cyfryw gynulliadau afreolaidd; ac yr ydym yn dymuno ar ein Anrhydeddus Farnwr, os nad yw awdurdod y llys yn ddigonol i ddarostwng yr afreoleidd-derau hyn, ar iddo appelio, er cyrhaedd hyny, at ryw awdurdod oruwch, fel y byddo i'n crefydd, heddwch y genedl yn gyffredinol, ac eiddo y sir hon yn neillduol, gael ei dyogelu ar sail ein Sefydliad henafol a chanmoladwy."

Byddai yn anhawdd dychymygu am gofeb mwy gyflawn o anwiredd, a thebycach o gyffroi yr awdurdodau gwladol yn erbyn y Methodistiaid. Nid oedd cofion y rhyfel cartrefol wedi myned ar ddifancoll eto, ac yr oedd y rhyfel rhwng y deyrnas a Ffrainc yn peri fod y llywodraeth yn gwylio gyda llygad eiddigus bob cynulliad, y tybid fod teimlad anniddig yn cael ei feithrin ynddo. Felly, yr oedd Uchel Reithwyr Brycheiniog yn llunio pluen i gyfateb i liw'r dwfr. Anhawdd meddwl na wyddent fod y Methodistiaid yn deyrngarol i'r carn; yr amcanent, hyd ag oedd ynddynt, i gadw yr heddwch cyffredin; na fyddent yn cynal unrhyw gyfarfod heb weddïo dros y brenhin, a thros bawb oedd mewn awdurdod; ond yr oedd gelyniaeth y boneddigion atynt yn gyfryw, yr hyn yn ddiau a gyffröid gan falais yr offeiriaid erlidgar ac eiddigus, fel nad gormod ganddynt gyflwyno i'r barnwr gwladol, yn mhrif Sessiwn y sir, ddarluniad, y gwyddent ei fod yn gelwyddog, o bobl a geisient addoli Duw yn ol argyhoeddiad eu cydwybod. Pa beth a ddywedodd y barnwr ar yr achlysur, sydd anhysbys; ond sicr yw na ddaeth dim o'r peth.

Yr ydym yn cael Cymdeithasfa yn Abergorlech, Medi 4. Tebygol, oblegyd bychandra rhif y rhai a ddaethant yn nghyd, mai Cymdeithasfa Fisol ydoedd, er na ddywedir hyny yn y cofnodau. Y cymedrolwr oedd Daniel Rowland; ac yr oedd Williams, Pantycelyn, a Howell Harris, yn nghyd â nifer o'r arolygwyr yn bresenol. Pregethai Rowland yn nghapel Abergorlech ar Heb. ii. 11: "Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un y maent oll." Dangosai y modd y daethai Crist i sancteiddio ei bobl; mor fawr yw gwaith sancteiddhad; fel yr oedd Crist wedi ymddiosg o'i ogoniant er ei ddwyn yn mlaen; a'r modd yr ydym yn cael ein gwneyd yn gyffelyb i Dduw, er nad yn anfeidrol mewn graddau fel efe. "Cafodd lewyrch anghyffredin," meddai Harris; "ac yn awr, pan yr ydym yn cael ein troi allan o'r capelau, gwnaed i fy enaid lawenychu o'i herwydd, gan fy mod yn gweled yr Arglwydd uwchlaw iddynt oll." Cyfeiria yr ymadrodd "troi allan o'r capelau" at helynt capel Eglwysig Abergorlech, yr hon a ddaw dan ein sylw yn y cofnodau. Yr oll a ddywed Harris am y Gymdeithasfa yn ei ddydd-lyfr yw iddynt gael cyfarfod melus yn nghyd. Y mae ei chofnodau fel y canlyn:—

"Cydunwyd fod deiseb at yr Esgob yn cael ei thynu i fynu, gyda golwg ar gapel Abergorlech, yn datgan, gyda phob gostyngeiddrwydd, ein bwriad i barhau Mr. Williams fel bugail; ac, os bydd raid, i ddyoddef o'r herwydd.

"Fod y brawd John Morgan i fod yn ddystaw, a pheidio llefaru, hyd y Gymdeithasfa nesaf.

"Fod rhyw gyfran o amser, yn yr wythnos ddyfodol, yn cael ei neillduo gan bob un o honom, er ymostyngiad ac ymbil.

"Fod tŷ i gael ei adeiladu yn Llansawel at ddybenion crefyddol, megys pregethu, a chadw ysgol."

Capel Eglwysig oedd Abergorlech; tebygol na chynelid gwasanaeth crefyddol ynddo yr adeg hon gan yr Eglwys, ac felly i'r Methodistiaid gymeryd meddiant o hono er pregethu, ac efallai gyfranu yr ordinhad, gan fod y lle wedi ei gysegru. Diau mai Williams, Pantycelyn, oedd "y bugail" a ofalai am y lle. Ymddengys fod yr Esgob am eu rhwystro, ac am gau y capel, dyna y rheswm am y ddeiseb, a'r penderfyniad i barhau i bregethu ynddo, hyd yn nod pe eu cospid am hyny. "Yna," ysgrifenai Harris, "daethom i Glanyrafonddu. Pan y clywais am lwyddiant anarferol y brawd Rowland, yn Ngogledd Cymru, llanwyd fy enaid a diolchgarwch." Aeth yn ei flaen, efe a'i wraig, i Langathen; clywodd ryw glerigwr ieuanc yn eglwys y plwyf yn pregethu ystwff rhyfedd yn lle efengyl; a rhwng gwendid corph a chlywed y fath ffwlbri, teimlai y fath wasgfa nas gall iaith ei ddesgrifio. Wedi i'r gwasanaeth orphen pregethodd yntau y tu allan; y testun oedd, y mab afradlon, ac yr oedd y clerigwr yn mysg y gwrandawyr. Cafodd nerth anghyffredin; eithr pan aeth i ddangos fel yr oedd plentyn Duw yn hiraethu am gartref, ac nad oedd yn ofni dydd y farn, marchogodd y clerigwr ieuanc i ffwrdd. Dydd Sadwrn

yr oedd Harris yn ei ol yn Nhrefecca. Erbyn cyrhaedd yno cafodd fod cymylau duon yn hofran uwch ei ben; clywai sî fod yr erlidwyr eto am ei bressio i'r fyddin; ond ymgysurai yn nghanol yr oll wrth weled fod pob peth dan ofal yr Arglwydd, ac y gallai oruwch-lywodraethu y cyfan i'w ogoniant.

Y mae y dydd-lyfr yn dra dyddorol, ond rhaid i ni foddloni ar ychydig loffion o hono. Medi 10, ysgrifena Harris: "Heddyw ffafriwyd fi a dau lythyr o Sir Forganwg, yn mhob un o'r rhai y cefais bryd o fwyd gan Duw. Cynwysai un newydd am yr efengyl yn enill tir yn Morganwg, yn mysg y milwyr. Wrth ddarllen, yr oeddwn yn fflam o gariad at Dduw, ac at yr anwylaf Price." Tebygol mai Price, o'r Watford, a ysgrifenasai y llythyr. "Y llall a daer erfyniai arnaf fyned trosodd i borthi fy mhlant ysprydol. Llefwn am gael fy anfon yno, i borthi fy ŵyn, ac am gael fy anfon, ac nid yn waglaw." Medi 11, ysgrifena: "O gwmpas un-ar-ddeg aethum tua thŷ cwrdd Tredwstan (capel yr Annibynwyr); ofnwn fyned, rhag rhoddi tramgwydd i rywun, ac eto awyddwn am fyned, er cael cyfarfod â fy Nuw. Felly aethum, gyda phob symlrwydd, gan ymddiried y cwbl iddo ef. Er fod dyn yn pregethu nas gallwn farnu dim am ei ras; ac er fod yn ei bwnc fwy o reswm nag o Grist—'O na baent ddoethion'—eto, cefais symlrwydd i wrando, ac i dderbyn y cyfan mewn cariad a gostyngeiddrwydd. Ar y dechreu, llefais ar ran y gynulleidfa hon, a holl gynulleidfaoedd yr Ymneillduwyr perthynol i'r genedl, ar i'r Arglwydd ddychwelyd atynt, a'u llanw. Yn nesaf, pan y dywedai mai un ran o ddoethineb yw cael amcan cywir er gogoniant Duw, a chael cymdeithas ag ef, teimlais awyddfryd cryf am hyn, ac am hyn yn unig." Dengys y difyniad hwn (1) fod yn mysg y Methodistiaid rai mor llawn o ragfarn at yr Ymneillduwyr, fel ag i beri i Howell Harris ofni eu tramgwyddo wrth fyned i gapel Ymneillduol. (2) Nad oedd Harris ei hun yn cyfranogi mewn un gradd o'r cyfryw ragfarn, er ei fod yn dra ymlyngar wrth yr Eglwys Sefydledig; ond yn hytrach y disgwyliai gyfarfod a'i Dduw dan weinidogaeth brawd o Annibynwr. (3) Fod y weinidogaeth Ymneillduol yr adeg hono, os oedd y bregeth yn Nhredwstan yn engrhaifft deg o honi, yn rhy amddifad o Grist, yn marn y Diwygiwr, ac yn pwyso yn ormodol ar ddyledswyddau. (4) Y teimlai Harris fod presenoldeb yr Arglwydd wedi gadael yr Ymneillduwyr yn Nghymru, y pryd hwnw, i raddau mawr beth bynag, a'i fod yntau yn llawn o yspryd gweddi ar i Dduw ddychwelyd i'w plith.

Dydd Sadwrn, Medi 17, cychwyna Howell Harris a'i wraig am daith faith, mewn rhan, o ufudd-dod i wahoddiad y brodyr yn Morganwg, ac mewn rhan, er bod yn bresenol mewn amryw Gymdeithasfaoedd. Pregethodd y noson hono yn nghapel Eglwysig Grwynefechan gyda nerth anghyffredin. Gwelai fod gan Dduw blant yno. Aeth yn ei flaen i Lanbedr, ger Crughywel; a boreu y Sul yr oedd yn Cwm Iau, yn gwrando yr offeiriad duwiol, Mr. Jones. Pregethodd yntau yn felus oddiar Dat. iii. 3, gan agor yr addewidion. Yn y prydnhawn, pregethai Harris; yr oedd ei wendid corphorol gymaint, fel y methai fyned yn ei flaen; llefodd ar yr Arglwydd mewn ffydd am nerth, gan ddweyd: "Pa beth bynag a gaf genyt, oni wariaf ef oll er dy fwyn di?" Mewn atebiad i'r weddi daeth nerth; testun y sylwadau oedd y geiriau yn Ioan: "Fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn;" ond yn lle bod yn fab dyddanwch, gwnaed iddo daranu, nes yr oedd yr holl dorf yn cael ei chyffroi. Oddiyno aethant i Aberbig; yr oedd mor sal fel mai o braidd y gallai siarad; ond wrth lefaru oddiar 1 Ioan iii. 1, cafodd nerth, enaid a chorph; daeth yr Arglwydd i'w mysg mewn modd anarferol iawn; agorwyd ei enau yntau yn rhyfedd i ddangos rhagorfreintiau y duwiolion, a natur cariad Duw tuag atynt. Dydd Llun y maent yn y Goetre, dydd Mawrth yn Llanheiddel, Mercher yn Tonsawndwr, Iau yn St. Bride, a nos Iau cyrhaedda Watford, lle y mae Cymdeithasfa Fisol yn cael ei chynal. Harris oedd y cymedrolwr. Meddai: "Gwelwn y fath anrhydedd a osodid arnaf, fy mod yma fel cymedrolwr; darostyngwyd fi yn fy yspryd oblegyd hyn, a gwnaed i mi grynu rhag ofn balchder. Daeth yr Arglwydd i'n mysg, a thynodd i lawr lawer o waith Satan, megys rhagfarn, &c., a rhoddodd i mi ddoethineb rhyfedd, gan ddysgu i mi trwy bob peth lawer o wersi." Pregethodd ar y diwedd i gynulleidfa anarferol o fawr. Darllena cofnodau y Gymdeithasfa fel y canlyn:—

"Gan fod y gelyn wedi dechreu creu peth rhagfarn rhwng rhai o'r llafurwyr, yr hyn a gododd oddiar ddiffyg rhagor o gariad a

gostyngeiddrwydd wrth lefaru yn gyhoeddus, ac mewn ymddygiadau preifat, wedi dysgwyl yn ostyngedig wrth Dduw, pob un yn agor ei galon ac yn cyfaddef rhyw fai, a phawb wedi dysgu gwersi pwysig, gan weled yn neillduol nad digon fod y llygad yn syml, ond y rhaid i'r rheol a'r bwriad fod yn iawn, a'r oll mewn yspryd iawn, cyn y byddo ein hymddygiad yn ddyogel, cydunasom, ac yr oeddym yn un, bendigedig fyddo Duw, gan ganfod llawer o ddichellion y gelyn. Gan fod y brawd Howell Griffith wedi cael ei oddiweddid gan fai, a chwedi dangos profion digonol o edifeirwch gwirioneddol at y brodyr, cydunwyd ei fod i gael ei dderbyn drachefn ar brawf, ar yr amod ei fod yn cymeryd gofal am achos ei gwymp yn y dyfodol.

"Fod y brawd Richard Jones i gael ymddiddan ag ef gan y brawd Harris, ac i gael ei dderbyn yn unig ar arwyddion o wellhad oddiwrth ei ddifaterwch, yr hyn a ddangosodd yn mhen dau ddiwrnod wedi siarad ag ef gerbron yr holl seiadau yn St. Nicholas, pan y trefnwyd ei fod ef a'r brawd Thomas Lewis, Pwllymeirch, i gyfnewid bob yn ail Sabbath, ac i gadw yn ddifwlch eu cymundeb â'r brodyr.

"Trefnwyd y goruchwylwyr yn seiadau St. Nicholas, ac hefyd yn seiadau St. Andrews, Aberthyn, ac Aberddawen.

"Gan ddarfod i Thomas Williams ddweyd rhywbeth yn erbyn y gŵn a'r cassog (*cassock and gown*), addefodd nad hwy eu hunain oedd mewn golwg ganddo, eithr gwneuthur eilunod o honynt.

"Addefodd y brawd Powell hefyd ei fai, ddarfod iddo gyfeirio at y brodyr Price a Belsher fel rhai heb fod yn uniongred mewn rhai egwyddorion; ac ystyrid ei fod yn ddiofal wrth anog y bobl i beidio parchu y pregethwyr yn fwy nag eraill; fod hyn yn tueddu i wanhau dwylaw y pregethwyr, ac yn rhwystro y bobl i barchu y swydd; er mai ei amcan ef (Powell) oedd peidio gwneyd eilunod o honynt, neu dderbyn wyneb personau yn ol y cnawd."

Dengys y cofnodau hyn fod y Methodistiaid yn dechreu cyfarfod â rhwystrau mewnol; fod rhai o'r cynghorwyr a berchid fwyaf yn cael eu dal gan feiau, a mawr angen am eu hadgyweirio; ac nad oeddynt yn gwbl rydd oddiwrth eiddigedd a rhagfarn y naill at y llall. Y mae yn amlwg nad yw diwygiad grymus, a theimladau dyfnion a chyffrous, yn dinystrio yr hen ddyn yn y bobl oreu mewn diwrnod. Anhawdd peidio gwenu wrth weled y mawr ofal a gymerir rhag i neb lefaru gair condemniol am bethau perthynol i'r Eglwys, ac yn arbenig y gwisgoedd offeiriadol. Ond y mae yn deilwng o sylw nad oedd yr un offeiriad urddedig yn bresenol yn y Gymdeithasfa; ac felly nad neb o honynt hwy oedd yn gyfrifol am yr eiddigedd hwn. Aeth Howell Harris yn bur fanwl trwy ranau o Sir Forganwg a Sir Gaerfyrddin, gan gyfeirio ei gamrau tua Phorthyrhyd, lle y cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol, Hydref 3 a 4. Prawf y difyniad canlynol ansawdd ei yspryd: "Cefais nerth i ddymuno ar i mi gael fy ngwneyd yn fendith i bawb, y ffordd yr wyf yn teithio; i'r cynghorwyr, ac i'r ŵyn, fel y gallwn fendigo pob tŷ yr awn iddo, a bod o les i bawb sydd yn fy ngwrando. Gwelais y fath anrhydedd y mae Duw yn roddi arnaf trwy fy ngosod yn y fath safle. Gweddïais dros y gweithwyr, yn arbenig ar iddynt fod yn un."

Y diwrnod cyn y Gymdeithasfa daethant i gapel Abergorlech, lle y pregethai Rowland, oddiar y geiriau: "Dos yn fy ol i, Satan." Ymddengys ei bod yn bregeth amserol, a thra miniog. Y "Satan" yr anogai y brodyr i ddweyd wrtho, "Dos yn fy ol i," oedd balchder. Ymhelaethai ar ymfalchio mewn doniau, ac mewn grasusau, gan ddangos i'r rhai na feddent ddawn mor ddedwydd ydynt, eu bod yn gyffelyb i lwyn isel, yn ddyogel rhag llawer o dreialon a phrofedigaethau a chwythant ar y rhai sydd wedi eu donio yn helaeth; ac fel yr oedd yr Arglwydd yn edrych ar ffydd yn hytrach nag ar ddoniau. Yna llefarai wrth y rhai a feddent ddoniau, gan ddangos yn (1) Nad yw y doniau wedi eu rhoddi er ein mwyn ni, ond er mwyn eraill; (2) Fod y rhai a feddant lawer o dalentau yn aml yn brin mewn gras; (3) Nad yw dawn yn ddim yn ngolwg Duw mwy na phe byddent hebddo; mai ar ffydd yr edrych efe; (4) Fod doniau yn cael eu rhoddi yn amodol; y gellir eu cymeryd ymaith, a bod hyn yn cael ei wneyd yn aml; (5) Fod doniau yn aml yn arwain i brofedigaethau, fel siaced fraith Joseph. Yna trodd at falchder mewn grasusau, gan egluro fod Duw yn erbyn pob ffurf ar falchder, nad oes dim a wneir mewn balchder yn llwyddo. Yn ddiweddaf, dangosodd arwyddion ymfalchio mewn gras, sef mawrhau ein gras, ac ymddiried ynddo, yn lle yn Nghrist. Pregeth i'r cynghorwyr ydoedd yn benaf; yr oedd pob gair yn dweyd ar Howell Harris. "Gwnaed

i fy enaid blygu o dan y Gair," meddai; "llefwn am ostyngeiddrwydd i mi fy hunan ac i'r cynghorwyr. Pan y clywais fod y sacrament i gael ei weinyddu, wedi i'r capel fod yn nghau, llanwyd fy enaid a diolchgarwch, gan weled fod yr Arglwydd yn dychwelyd atom. Ond pwy sydd yn cael ei lethu gan y fath gorph o falchder a mi! Y fath gwympiadau wyf yn gael o'r herwydd!"

Gwelwn ddarfod i ymdrech y Methodistiaid gyda golwg ar gapel Abergorlech fod yn llwyddianus. Pregethai Rowland drachefn yn Glanyrafonddu, y nos flaenorol i'r Gymdeithasfa. Ei destun oedd, Datguddiad xiv. 1. Wrth fyned yn nghyd tua Phorthyrhyd cyfarfyddasant a nifer mawr o frodyr a'u gwyneb ar y cyfarfod. Clywodd Harris amryw newyddion a'i llonodd yn fawr: (1) Fod yr Archesgob wedi cynyg ordeinio un o bobl Mr. Wesley; (2) Pan y tynwyd y cwyn yn erbyn ei dŷ yn Nhrefecca (gan yr Uchel Reithwyr yn Sessiwn Aberhonddu), i Mr. Joseph Hughes sefyll yn ei erbyn, a'i rwystro; (3) Fod yr Arglwydd wedi bendigo Mr. Gw. i agor ei ddrws i bregethu; (4) Fod yr efengyl yn enill tir mewn gwahanol ffurf mewn llawer o leoedd. Agorwyd y Gymdeithasfa trwy bregeth gan Daniel Rowland. Ei fater oedd, yr Arglwydd yn fur o dân o amgylch ei bobl. Yna anerchodd Howell Harris y cynghorwyr ar anrhydedd, mawredd, a phwysigrwydd y gwaith; eu hanghymwysder ar ei gyfer, gan ddangos y fath rai oeddynt, a phwy a pha fath oedd eu gelynion; natur gwir ostyngeiddrwydd, ei fod yn golygu ein bod yn ddim yn ein golwg ein hunain, a'n bod mor ofalus am helynt y brodyr ag am ein helyntion ein hun; a'r angenrheidrwydd oedd arnynt oll am ddoethineb. "Wrth agoshau at Dduw," meddai, "cefais y fath oleuni yn fy yspryd, na chefais ei gyffelyb erioed o'r blaen. Yna cawsom ymddiddan maith ar natur ymrwymiad (*contract*); a chawsom lawer o oleuni, yn neillduol i weled mor anwybodus ydym."

Ymadawyd y noson hono mewn tymer hyfryd; ond boreu dranoeth cyfododd tymhestl yn eu mysg. Caiff Howell Harris adrodd yr hanes. "Y boreu hwn," meddai, "cawsom groes. Ceryddais i y brawd Rowland, ac eraill, am hunanesmwythid, ac am beidio myned o gwmpas gymaint ag a ddylai. Digiodd yntau. Ond yn fuan drylliodd yr Arglwydd y fagl, ac ail unodd ni. Ymresymais i yn erbyn y ddau, a'r Arglwydd a ddrylliodd fy nghalon, ac a'm darostyngodd yn y fath fodd, fel yr oeddwn yn foddlawn nid yn unig i'r brodyr weled fy ngwendidau, ond yn llawenhau yn hyny; ac oddiar ymdeimlad o'm llygredigaethau a'm gwendid llefwn am gael fy ngosod o'r naill du, gan weled pob un o honynt yn llanw ei le yn well na mi. Yr oeddwn yn wir wedi fy narostwng; nis gallwn lai nag wylo ger eu bron, gan gyfaddef beth oedd allan o le; gallwn orwedd wrth eu traed hwy oll." Y mae yn bur amlwg ddarfod i dymherau poeth Harris ei orchfygu yma eto, a pheri iddo roddi briw i'w frodyr; ac yr ydym yn ei gael yntau yn y llwch mewn canlyniad, yn gruddfan ac yn wylo, ac yn taer ddymuno maddeuant. Yn sicr, darfu canfod y dewr pan yn wyneb perygl, yn ei ddagrau gerbron ei frodyr, effeithio yn ddwys ar y frawdoliaeth, a gorchwyl hawdd a dedwydd oedd estyn maddeuant iddo. Ymadawyd yn y teimladau goreu. A ganlyn yw penderfyniadau y Gymdeithasfa, fel y maent wedi eu croniclo yn y cofnodau:—

"Wedi cryn ymgynghoriad gyda golwg ar fawredd y gwaith, ac am weled a theimlo ei faich, cydunwyd i gadw dau ddiwrnod i fod yn nghyd.

"Fod un o'r offeiriaid urddedig i bregethu yn mhob Cymdeithasfa Chwarterol, yn olynol; ac os rhwystra rhagluniaeth yr un benodwyd rhag bod yn bresenol, fod y nesaf ato i bregethu.

"Cydunwyd i ysgrifenu at y brodyr Davies, a John Harris, am na ddarfu iddynt anfon rheswm dros eu habsenoldeb; ac hefyd at y brawd Thomas Miller, oblegyd llwyr esgeuluso ein Cymdeithasfaoedd.

"Fod y brawd Jenkins, oblegyd yr angenrheidrwydd presenol, a'i alwad i Loegr, i fod yn gyfangwbl yno, oddigerth pythefnos bob tri mis, y rhai y mae i'w rhoddi i ni, adeg ein Cymdeithasfaoedd Chwarterol.

"Fod y brawd Benjamin Thomas i gynorthwyo y brawd Harris, yn lle y brawd Jenkins, yn arolygiaeth holl Gymru.

"Fod y brawd James Ingram, gwas cyflog gyda y brawd Harris, i'w gynorthwyo fel cynghorwr, ac ysgrifwas, ac i gael ei anfon ganddo i Loegr a Chymru, i gynorthwyo, fel y bo galw; efe a'r brawd Thomas ar brawf hyd y Gymdeithasfa nesaf.

"Fod y brawd Roger Williams i fyned

i Ferthyr, i ddilyn ei alwedigaeth, ac i gynorthwyo y brodyr Thomas James, a Morgan John, ar brawf hyd y Gymdeithasfa nesaf.


"Fod y rhai hyny o'r arolygwyr a feddant oleuni a chymhwysder, i gael rhyddid i egluro yr Ysgrythyrau; ond am y cynghorwyr anghyoedd, nad ydynt i lefaru mewn ffordd o bregethu, oddiar destun, ond cynghori neu esbonio. Hyn i'w gadarnhau eto, pan y ceir rhagor o oleuni.

"Fod y brawd Harris i gario cerydd yn enw y brodyr at y brawd John Williams, oblegyd ei esgeulusdod i wylio dros y cymdeithasau sydd dan ei ofal; a'i fod i gael myned yn mlaen eto ar brawf am fis, ond ei fod i gael ei droi allan y pryd hwnw oddigerth iddo ddangos ffyddlondeb ac ufudd-dod."

Y mae amryw bethau teilwng o sylw yn y cofnodau hyn, ond nid oes genym hamdden i fanylu. Hyfryd deall, modd bynag, i Howell Harris ymweled ar ei ffordd adref a'r brawd John Williams, a chael ganddo blygu hyd y llawr. "Nid oeddwn fel y dylaswn," meddai Harris, "eto efe a ddarostyngwyd ac a doddwyd; a daeth arnaf yr hyn na theimlais erioed o'r blaen yr un fath, sef baich yr Arglwydd. Yr oedd yr Arglwydd yn wir yn agos atom ein dau; drylliodd ein calonau, ac wylasom."

Nid llawer o amser a gafodd Howell Harris yn Nhrefecca wedi dychwelyd; yn fuan yr ydym yn ei gael yn cychwyn am Gymdeithasfa Fisol, a gynhelid yn Nantmel, Sir Faesyfed, Hydref 18. Ar ei ffordd tua Nantmel, cafodd ddwy odfa ryfedd, yn wir, odfaeon hynotaf ei oes. Meddai: "Gwnaeth yr Arglwydd y dydd hwn yn ddiwrnod mawr i mi. Mewn lle o'r enw Gwernfyddai, tua deng milltir o Dalgarth, gweddïais a phregethais oddiar 1 Ioan i. 7; cefais ryddid mawr; dysgwyd fi pa fodd i drywanu, a chlwyfo, ac argyhoeddi y rhai oeddynt heb Dduw, ac yn byw mewn pechod. Yr oedd y llewyrch yn anghyffredin. Yna, daethum i Trefilod, lle sydd tua dwy neu bedair milltir yn mhellach. Ar y ffordd cefais olwg eglurach nag erioed ar fawrhydi a gogoniant Duw, a hyny fel sicrwydd y gwnai fy nwyn trwy yr holl dreialon ato ei hun. Cefais ddatguddiad hefyd o ogoniant yr Iesu, a rhyddid mawr wrth lefaru oddiar Dat. xii. 1. Dangoswn fel yr oedd duwdod Crist yn cael ei amlygu i'r eglwys; y fath awdurdod sydd yn yr amlygrwydd a rydd Duw; effeithiau hyn ar ein heneidiau. Yr oeddwn yn cyrhaedd hyd adref yma Dangosais y modd y dylem wrando a gweddïo; ein bod yn dyfod i gyfarfod â Duw, a'r modd pan y deuwn yn ddifater nad ydym yn ei weled. Yr oeddwn yn awr yn trywanu i'r byw, ac yn llefaru gydag awdurdod mawr. Dangosais fod rhai pechodau a drwg arferion y geill plentyn syrthio iddynt, a rhai nas gall; a'r modd yr oeddynt yn gaethion iddynt eu hunain ac i'r byd. Yr oedd yn lle ofnadwy mewn gwirionedd. Cafodd llawer, mi a hyderaf, eu dychwelyd." Gwelir mai gwirioneddau amlwg a syml yr efengyl a gyhoeddai Howell Harris; nid yw yn ymddangos fod y sylwadau ychwaith yn nodedig am eu trefnusrwydd; ond yr oedd arddeliad dwyfol ar ei eiriau; teimlai y dorf oedd o'i flaen fod ganddo genadwri oddiwrth Arglwydd yr holl ddaear; a chrynent fel dail yr aethnen gerbron y nerth anorchfygol a deimlid.

Brysiodd Harris i Nantmel, lle y pregethai Daniel Rowland. Yr oedd y teimlad dolurus a gynyrchwyd yn Mhorthyrhyd wedi llwyr iachau erbyn hyn. Meddai y dydd-lyfr: "O gwmpas pump aethum i'r Gymdeithasfa, a theimlais yn fy enaid, trwy yr Yspryd Glân, undeb a'r brawd Rowland. O, y fath ddirgelwch sydd yn yr eglwys, na wyr y byd ddim am dano! Y fath gydgymundeb ag ef ei hun y mae yr Arglwydd yn roddi i'r creaduriaid tlawd sydd yn cael eu ffafrio ganddo! Cefais y fath undeb a'r holl frodyr, fel nas gallwn feddwl am eu gadael ar ol; yr oeddwn yn un â hwynt. Cefais oleuni anghyffredin wrth arholi cynghorwr ieuanc, a dangos iddo fawredd y gwaith. Ymdrinasom a llawer o bethau, gan drefnu diwrnod o ymostyngiad a gweddi, unwaith y mis, a chymorth i'r saint erlidiedig yn Llanllieni, a gwasgu ar yr ŵyn i rodio yn fwy agos, ac i ddwyn ffrwyth. Teimlwn fy nghalon yn llosgi ynof. Yna agorwyd fy ngenau gan yr Arglwydd i lefaru am y rhyddid Cristionogol, am fuddugoliaeth ar bechod a Satan, y fraint o fod yn gredinwyr, perygl clauarineb, a'r angenrheidrwydd am zêl, tân, a bywyd; na ddylem fod mewn caethiwed, onide nas gallwn arwain yr ŵyn i ryddid. Ond hyd yn nod pe byddem ni ein hunain tan draed Satan, na ddylem dynu eraill yno, ond yn hytrach llawenychu wrth weled eraill yn gorchfygu. Yr oeddwn i yn yr Yspryd; ac yr oeddym oll yn hyfryd a dedwydd. Teimlwn fy hun yn fwy o goncwerwr ar ddiafol a phechod




MAP O DEITHIAU HOWELL HARRIS, WEDI EI DYNU GANDDO EF EI HUN.

*[Cafwyd hwn yn mysg ei bapyrau rhyddion. Ar y tu cefn ceir taflen gyflawn, yn dangos pellder y gwahanol leoedd.]*

nag erioed. Ysgrifenasai un brawd lythyr i'm ceryddu i a'r brawd Rowland am ein hysgafnder. Cefais nerth i'w ateb mewn cariad."

Felly yr ysgrifenai Howell Harris am Gymdeithasfa Nantmel; hawdd gweled fod cariad brawdol yn llifo yno. Yr oedd y Diwygiwr o Drefecca yn arbenig ar yr uchel fanau, y diafol a phechod tan ei draed, a'i galon yn nghlwm wrth eiddo ei frodyr. A ganlyn yw y cofnodau :—

"Wedi arholiad, a dangos natur a mawredd y gwaith o gynghori, penderfynwyd fod y brawd Thomas Meredith, Mochdre, i gynghori ar brawf yn ei seiadau ei hun.

"Gwedi hir ymddiddan parthed stâd y cymdeithasau, perygl clauarineb, a'r angenrheidrwydd am dân dwyfol, a bywyd, cydunwyd ar i'r holl frodyr gyffroi y bobl i wrando lle y mae arwyddion o fywyd, ac i dderbyn yn serchus bob cenad sydd a bywyd ynddo.

"Cydunwyd, gan fod esgeulusdra cyffredinol gyda golwg ar ddwyn ffrwyth i'r Arglwydd, ac hefyd yn rhodiad rhai, fod y bobl i gael eu hanog i ddwyn ffrwyth, ac i rodio yn addas.

"Fod dydd o ymostyngiad a gweddi i'w gynal unwaith yn y mis, i ymddarostwng oblegyd ein pechodau, a phechodau yr holl eglwys weledig, yn nghyd ag eiddo yr holl fyd, yn arbenig gyda golwg ar y rhyfel.

"Fod y dydd cyntaf o Dachwedd nesaf i gael ei gynal yn ddydd o ymostyngiad trwy yr holl seiadau, o herwydd yr erledigaeth yn Llanllieni.

"Fod y brawd Richard Tibbot i fyned at y brawd John Richard i ddysgu y grefft o rwymo llyfrau."

Yn mhen pum niwrnod cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca. Howell Harris a lywyddai. Yr holl gofnod a geir am dani yw hyn: "Wedi agor ein calonau i'n gilydd, a chydnabod ein clauarineb a'n difaterwch, yn nghyd ag arafwch ein cynydd mewn sancteiddrwydd, a hyny gyda chalonau drylliog i raddau, a than deimlad o ddrygedd ein pechodau ein hunain, a phechodau eraill, cadarnhawyd y penderfyniadau a basiwyd yn Nantmel."

Y mae y nodiad canlynol yn dra arwyddocaol o safle Howell Harris yn nglyn â'r diwygiad: "Ni chynhaliwyd rhagor o Gymdeithasfaoedd Misol y chwarter hwn. Aeth y brawd Harris i Lundain." Cychwynodd Howell Harris a'i briod tua'r brif-ddinas tua chanol Tachwedd, a dychwelasant yn eu holau dydd Sadwrn, Rhagfyr 29.

# PENOD XII.

——:o:——

## HOWELL HARRIS

(1745).

*Pregeth Williams, Pantycelyn, yn Nghymdeithasfa Watford—Ymdrin a phynciau athrawiaethol dyfnion—Harris, yn Erwd, yn galw gwaed Crist yn "waed Duw"—Cymdeithasfa Abergorlech—Howell Harris mewn dyfroedd dyfnion yn Sir Benfro—Daniel Rowland yn rhybuddio Harris i fod yn fwy gofalus parthed yr athrawiaethau a bregethai—Sefyllfa gyffrous Methodistiaid Lloegr—Cymdeithasfa Bryste—Cymdeithasfa Cayo—Llythyr cynghorwyr y Groeswen—Price Davies yn caniatau y sacrament i'r Methodistiaid yn Nhalgarth—Dalgamad Howell Harris yn Nghymdeithasfa Watford—Howell Harris yn Llundain eto—Pressio i'r fyddyn—H. Harris ar daith yn Sir Forganwg—H. Harris yn arolygwr y Methodistiaid Saesneg—Dadl a Griffith Jones, Llanddowror—Ymweled a Llundain eto.*

CYCHWYNODD y Methodistiaid ar y flwyddyn 1745 trwy gynal Cymdeithasfa Chwarterol yn Watford, ar yr ail ddydd o Ionawr, at ba un, yn syn iawn, nid oes unrhyw gyfeiriad yn nghofnodau Trefecca. Cyrhaeddodd Howell Harris y lle y noson cynt. Cymysglyd oedd ei brofiad. Ar y cychwyn llenwid ei feddwl a llawenydd ac a rhyddid wrth weled yn Nghrist ei holl hawl a'i deitl i fywyd tragywyddol. Eithr yn Watford clywodd, fel yr ymddengys, am ryw gyfeiliornadau oedd ar led, a dadleuon, a chyffrodd hyny ei yspryd yn ddirfawr. "Gwelais," meddai, "ddarfod i'r gelyn gael ei ollwng yn rhydd yn ein mysg, ac megys y trigai yn ein llygredigaethau yn flaenorol, ei fod yn awr ynom yn yspryd cyfeiliornad a thwyll. Yna, wrth edrych ar ein dadleuon, cefais ryddid i lefain: 'O Arglwydd, os wyt yn bwriadu ein huno oll yn un, a n dwyn yma oll, a pheidio caniatau i ni gael ein gwasgar na'n rhanu yma, yna dyro i mi gael y fath olwg arnynt (y brodyr cynulledig), ac ar y gwaith, ag a bâr i mi fuddugoliaethu mewn llawenydd, ac hefyd i alaru.' Wedi dysgwyl am beth amser, cefais y fath olwg ar fawredd a mawrhydi Duw, y cartref gogoneddus sydd fry, ei waith, pa mor ogoneddus yw yr eglwys, yn nghyd â'r gwaith sydd genym mewn llaw, fel y cefais yspryd i alaru trosof fy hun a'r lleill."

Y mae yn amlwg ei fod yn gythryblus ei feddwl rhag i'r Gymdeithasfa fod yn faes rhyfel, ac iddi derfynu mewn ymraniad. Yna aeth i wrando Williams, Pantycelyn, yn pregethu, yr hyn a wnaeth gyda nerth mawr, oddiar Can. iii. 8. "Agorodd yr holl lyfr hyd y fan hon," meddai Harris, yna dangosodd natur y nos y cyfeirir ati yma, fel (1) nos yspryd deddfol; (2) nos erledigaeth; ac yn (3) nos profedigaethau a thrallodion. Olrheiniai hyn yn hanes yr eglwys yn yr Aipht, yn Nghanaan, yn Jerusalem, ac hyd yn awr, gan gyfeirio yn neillduol at Job, a Joseph, &c. Dangosodd er mor lliosog oedd gelynion yr eglwys, fod Duw yn ei hamddiffyn. Yr oedd yn anghyffredin o bwerus wrth ddangos fod erledigaeth, efallai, wrth y drws. Yr oedd yn cyrhaedd i'r byw wrth gyffroi pawb i fod yn ddiwyd, yn awr tra y mae ein rhyddid genym."

Y mae yn amlwg i Williams gael odfa anghyffredin. Yna eisteddodd y Gymdeithasfa hyd o gwmpas wyth yn yr hwyr, ac yn groes i ofnau llawer, ffynai undeb a chydgordiad hyfryd yn y cyfarfod. Eithr trowyd un brawd o gynghorwr o'i swydd oblegyd ei esgeulusdra. "Yna," meddai Harris, "ymdriniasom â rhai dadleuon a gymerasai le yn mysg y brodyr. Gwelais werth yr Ysgrythyrau, a'r drugaredd fawr eu bod genym, a bod yn rhaid i ni gredu y gwirioneddau a gynwysant heb ymresymu

yn eu cylch. Dywedais fod chwech o ddirgeledigaethau i'w credu, nas gellir eu hamgyffred. Yn (1) y Drindod; (2) yr ymgnawdoliad; (3) cyfrifiad o bechodau Adda i ni, a'n cyfranogiad o honynt wrth natur; (4) cyfrifiad o Grist trwy ras i ni, a'n cyfranogiad o hono; (5) fod Duw wedi caru ei bobl a chariad tragywyddol, ac eto, hyd nes eu hargyhoeddir, eu bod yn blant digofaint, a than y felldith; (6) fod gan Dduw etholedigaeth, ond dim gwrthodedigaeth." Y mae yn amlwg nid yn unig fod Harris yn iach yn y ffydd, ac yn dduwinydd rhagorol, ond hefyd y meddai syniad cywir am derfynau y rheswm dynol, gan ddeall fod rhai dirgeledigaethau yn perthyn i'n crefydd nad gwiw ceisio llygadrythu yn ymchwilgar iddynt, ond yn hytrach ymostwng yn addolgar gerbron y mawr ragorol ogoniant a gynwysant. "Yna," meddai, "ymdriniasom a Supralapsariaeth, a Sublapsariaeth, ddarfod i Dduw ein caru yn rhad, ac mai Crist yw y ffordd ar hyd pa un y rhed ei gariad atom; y modd y mae yn ewyllysio pechod, sef trwy ei oddef; ac wrth ymdrin â'r pethau mawrion hyn gwelais ein hanwybodaeth." Nid rhyfedd; yr oedd y brodyr yn gwthio eu cychod i ddyfroedd dyfnion. Ond y mae yn ddyddorol sylwi nad dynion bychain, yn cael eu dylanwadu gan zêl benboeth, oedd y Tadau Methodistaidd, ond fod dirgeledigaethau yr efengyl, y rhai nad yw yn debyg y medr y rheswm dynol byth eu cwmpasu, yn meddu attyniad mawr iddynt. Fel na byddo i'r darllenydd gael ei ddychrynu gan y termau mawrion a dyeithr, Supralapsariaeth a Sublapsariaeth, gallwn ei hysbysu fod a fynont a threfn y bwriadau yn y cynghor dwyfol; y cyntaf yn dal fod y bwriad i achub dyn yn Nghrist yn blaenori y bwriad i oddef iddo gwympo; tra y mae yr olaf yn dal y gwrthwyneb.

Eithr rhaid i ni fyned yn mlaen gyda desgrifiad Howell Harris o'r Gymdeithasfa. "Cefais ryddid wrth ganu i ofyn i'r Arglwydd a oedd yr hyn a wnaethom yn foddlawn iddo. Pan yn gweddïo, tynwyd fi allan mewn dwfn ostyngeiddrwydd, cariad, a drylliog galon. Wrth glywed newyddion da am y modd yr oedd yr Arglwydd yn arddel y brodyr, llawenychais yn fawr, gan weled fy hun y gwaelaf o honynt oll. Yna, gwedi bwyta, eisteddasom i lawr hyd o gwmpas deuddeg." Dranoeth, eisteddodd y Gymdeithasfa drachefn hyd o gwmpas un-ar-ddeg, a chlowyd y cwbl i fynu gyda phregeth gan Daniel Rowland, oddiar y geiriau yn Nehemiah: "O fy Nuw, cofia hwynt." Ymddengys fod yr odfa yn un arbenig, hyd yn nod i Rowland. Meddai Harris: "Wrth weddïo teimlwn fy yspryd yn cael ei dynu allan yn y deisyfiadau gydag ef; yn neillduol pan y gweddïai dros y brenhin a'r genedl; a chefais brawf yr ai y gwaith yn ei flaen, ac nad ai yr erledigaeth yn mlaen. Yn sicr, yr oedd yn llawn o Dduw. Cefais nerth i gydymdrechu ag ef yn ei bregeth. Y fath ddylanwad, yr wyf yn meddwl, ni welais erioed, fel yr oeddwn dan orfodaeth i anrhydeddu yr anwyl frawd Rowland. Yn sicr, yr oedd y nerthoedd yn rhyfeddol y tro hwn. Cafodd ddoethineb rhyfedd, yn fewnol ac yn allanol, i ddangos fel y mae pob aelod yn meddu ei le a'i ddefnydd yn y corph, felly hefyd yn yr eglwys. 'Os wyt wrthgiliwr,' meddai, 'darllen yr Hebreaid; os wyt ddefosiynol, darllen y Salmau; os wyt o dueddfryd ryfelgar, darllen Joshua a'r Barnwyr; ond os wyt am gyflawni pethau mawr, darllen Nehemiah; aeth efe tuhwnt i bawb yn mawredd ei ymgymeriadau, a hyny heb offerynau cymhwys.'" Nis gallwn fyned yn mlaen gyda difynu pregeth Rowland, er cymaint y brofedigaeth. Meddai Harris: "Y mae nerth rhyfedd wedi ei roddi iddo i dynu eneidiau at Dduw, ac i dynu Duw atynt hwy. Yr oedd fel pe nas gallai roddi i fynu ymdrechu. Bendigedig a fyddo yr Arglwydd, ei fod eto yn ein mysg yn y fath fodd. Gwelaf fod graddau helaethach o allu wedi ei roddi iddo na neb o fewn fy adnabyddiaeth. Am danaf fy hun, ychydig o allu a feddaf, ac ychydig ddylanwad." Nid rhyfedd i'r brodyr, gwedi y fath amlygiad o bresenoldeb y Goruchaf yn eu mysg, ymadael yn llawen.

Cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, Ionawr 16. A ganlyn yw ei chofnodau:—

"Gwedi treulio amryw oriau yn nghyd, yn gweddïo ac yn canu, mewn cariadwledd, trwy yr hyn y taniwyd ein calonau mewn modd anarferol, pob un yn teimlo presenoldeb yr Arglwydd mewn modd tra anghyffredin, wrth fod pob un o'r brodyr yn darllen ei adroddiad am y seiadau oedd dan ei ofal, penderfynwyd:—

"Ein bod yn trefnu rhyw foddion i ysgafnhau y brawd James yn ei amgylchiadau allanol, fel y byddo yn fwy rhydd i fyned o gwmpas.

"Ymroddi i weddi gyda golwg ar fwriad y brawd Thomas Jones parthed priodas,

gan gyduno ei fod i adael ei ysgol yn gyfangwbl.

"Fod y brawd Thomas Jones i chwilio i mewn i amgylchiadau y brawd Edward Bowen, ac i geisio deall a ydyw yr Arglwydd am iddo symud o'r lle y mae.

"Fod y brawd Lewis Evan i fyned mor bell ag y gall i'r Gogledd, i Sir Feirionydd, mewn ufudd-dod i alwadau allanol.

"Anerchwyd y cyfarfod gan y brawd Harris gyda golwg ar ostyngeiddrwydd, ffydd, a zêl, ac am chwilio yr Ysgrythyrau, ynghyd a gofal na byddo ein zêl a'n cynhesrwydd yn myned y tu hwnt i'n gwybodaeth, a'n golwg ar Dduw trwy ffydd.

"Fod y brawd Harris i siarad â brawd yn Merthyr sydd yn myned i briodi gwraig heb ganiatad ei thad, er ceisio cael ganddo oedi.

"Fod y brawd Harris i benderfynu rhyw anghyd-ddealltwriaeth yn seiat Llanafan, yn codi oddiar fod yr Ymneillduwyr yn dyfod (i bregethu) i'r tŷ lle y cyfarfyddent, yn amser eu cyfarfodydd, a hwythau yn cwyno nad ydynt yn cael un budd wrth eu gwrando.

"Wedi bod yn fwy dedwydd, hyfryd, a llawnach o'r cariad dwyfol nag arfer, a chwedi penderfynu pob peth, pob un yn dwyn tystiolaeth i bresenoldeb amlwg yr Arglwydd yn ein mysg, ymadawsom o gwmpas deuddeg, wedi bod yn nghyd yn y pregethu, y gariad-wledd, a'r Gymdeithasfa, am o gwmpas deuddeg awr. Gogoniant yn y goruchaf i Dduw!"

Y mae yn sicr iddynt gael Cymdeithasfa lewyrchus anarferol. Meddai Harris: "Wrth ganu a gweddïo llanwyd ein calonau a'n heneidiau fel â gwin newydd. Cefais ddoethineb wedi ei roddi i mi i drefnu ein hamgylchiadau, wedi chwilio i stâd yr holl gymdeithasau a'r cynghorwyr. Anogais i ostyngeiddrwydd, doethineb, chwilio yr Ysgrythyrau, gan eu rhybuddio gyda golwg ar dân a zêl. Ond wedi cael mwy o dân nag y gallai ffydd ei ddwyn, y cnawd a'i derbyniodd, a minau a syrthiais. Ond O, dynerwch yr Arglwydd tuag atom. Cefais ychydig olwg i weled fod Duw o'n plaid." Nid hawdd deall beth a feddylia wrth ddarfod iddo gael mwy o dân nag y gallai ffydd ei ddwyn. Ai nid yw yn awgrymu tuedd, yn ymylu ar fod yn afiach, i ddadansoddi yn ormodol ystâd ei galon, a natur ei deimladau? Modd bynag, tebygol yr ystyriai nad oedd ei zêl yn y cyfarfod yn gyfangwbl yn ol gwybodaeth, a bod yr hwyl i raddau yn fwy na'r argyhoeddiad. Dengys y nodiad dynerwch cydwybod na cheir yn gyffredin ei gyffelyb.

Tranoeth, y mae yn parotoi i gychwyn i daith fawr, o dros fis o amser, trwy ranau helaeth o Ddê a Gogledd Cymru. Dengys y nodiad canlynol ei deimlad ar yr achlysur: "Heddyw, ysgrifenais lythyr Cymraeg i Sir Feirionydd, wedi cael fy llanw o gariad neillduol atynt, a deall fod ewyllys yr Arglwydd i mi ymweled â hwynt, ac efallai i farw yn eu mysg." Ai y gorlafur yn debyg o brofi yn ormod i'w gyfansoddiad eiddil, a olyga, ynte y posiblrwydd iddo gael ei osod i farwolaeth gan yr erlidwyr, nis gwyddom. Dydd Gwener, aeth mor bell ag Erwd, lle y pregethodd gyda nerth anarferol. "Dywedais wrthynt," meddai, "am edrych at waed Duw. Ni chefais gymaint erioed o'r blaen o'r goleuni hwn, i ganfod y gwaed, ac i weled yr angenrheidrwydd am iddo fod yn waed Duw. Felly, ni chefais erioed o'r blaen gymaint o nerth ac awdurdod wrth bregethu." Y mae y bregeth hon yn Erwd yn drobwynt yn ei hanes, fel y pryd y defnyddiodd gyntaf yr ymadrodd "gwaed Duw," yr hwn ddywediad a brofodd yn dramgwydd mawr i'r brodyr, ac a fu yn un o brif achosion yr ymraniad. Ond dilynwn y daith trwy gyfrwng y dydd-lyfr: "Aethum yn fy mlaen yn hyfryd tua Llanfairmuallt, ac ar y ffordd yr oedd gwaed Crist fel gwaed Duw wedi ei osod yn rhyfedd gerbron fy ngolwg. A'r goleuni hwn a'm cadwai yn ddedwydd. Ni welais yn flaenorol ddirgelwch y gwaed hwn fel gwaed Duw. Daethum i Lanfair. Wrth weled y plant yn chwareu, drylliwyd fy nghalon gan alar duwiol; prin y gallwn ei oddef." Pregethodd yno gyda chryn arddeliad. Aeth i Dolyfelin, lle y cyfarfyddodd â Mr. Gwynn, presenoldeb yr hwn yn wastad a daniai ei enaid. Pregethodd oddiar Gal. iv. 1. Lletyai yn nhŷ Mr. Gwynn y noswaith hono, lle y darllenodd lyfr o waith Mr. Griffith Jones ar dragywyddol gariad Duw. "Wrth ddarllen," meddai, "rhwygodd Duw y gorchudd; cefais y fath oleuni na chefais ei gyffelyb o'r blaen, i weled ddarfod iddo fy ngharu â chariad tragywyddol, ac y bwriadai yn nhragywyddoldeb fy nwyn i ogoniant. Yn y goleuni hwn gwelwn bob peth yn diflanu i ffwrdd, a fy hun yn wrthddrych cariad tragywyddol y Drindod,

fel y ffieiddiwn fy hun oblegyd pechod, ac y deallwn natur pechod, wreiddyn a changen, yn fwy nag erioed." Aeth i Langamarch, lle y pregethodd oddiar eiriau yn Hosea, ac y cafodd odfa nerthol. Pasiodd trwy Merthyr Cynog, lle y pregethodd oddiar Phil. iv. 4; oddiyno i Landdewi, lle y derbyniodd y sacrament; ac yn ei flaen i'r Glyn, lle y pregethodd oddiar Esaiah lxxx. 1. "Cefais yma fwy o nerth i bregethu y gwaed nag erioed," meddai; "dangosais nad hwn sydd yn cael ei bregethu, ond rhesymau, ac mai dyna paham yr ydym wedi colli y nerth o'n mysg; a bod rhai yn ei ddirmygu. Cyfeiriais at allu yr Arglwydd; mai gwaed Duw ydyw, ac am adnabod Crist yn unig." Gwelir fod yr un syniad yn oruchaf yn ei feddwl trwy y daith. Aeth yn mlaen trwy Blaenllywel, gan ddyfod i Landdeusant y diwrnod o flaen y Gymdeithasfa Fisol yn Abergorlech. Y mae ei brofiad yma yn haeddu ei groniclo. Meddai: "Heddyw a ddoe toddwyd fi yn llwyr, a darostyngwyd fi wrth draed yr Arglwydd, wrth gael goleuni gan yr Yspryd Glân i ganfod y trugareddau allanol sydd yn fy nghylchynu. Ac felly, tan ddylanwadau dwyfol, mi a syrthiais ar y llawr, ac a addolais, gan gyfaddef fel y canlyn: 'O Arglwydd, tydi ydwyt oll yn gariad; y mae yn llifo yn rhydd i mi. Minau ydwyf oll yn bechod, a hunan, ac anwybodaeth, a gelyniaeth; ac yn arbenig yn annghrediniol ac anniolchgar. Ond eto, yr wyt ti yn maddeu y cwbl. O gariad digyffelyb!' Yna tynwyd fi allan mewn dymuniad ar iddo egluro ei ogoniant yn Nghrist. Yno cefais ryddid i ddymuno ar iddo fod yn ein mysg, a dylanwadu ar y brawd Rowland i fyned yn fwy o gwmpas yr ŵyn, i'w porthi a'u tanio."

Gwelwn fod Harris dan yr argyhoeddiad eto nad oedd Daniel Rowland mor ymdrechgar gyda theithio ag y dylasai. Nis gallwn benderfynu a oedd gradd o wirionedd yn hyn; ai ynte nad oedd Harris yn cymeryd yn ddigonol i ystyriaeth amgylchiadau ei gyfaill, yr hwn oedd yn guwrad tair o eglwysydd pwysig. Ion. 22 y cynhelid y Gymdeithasfa Fisol yn Abergorlech; yr oedd Rowland, a Williams, Pantycelyn, yn bresenol, a'r cyntaf oedd yn y gadair. Agorwyd y gweithrediadau gyda phregeth gan Rowland oddiar Jeremiah vi. 5. Meddai Harris: "Wrth ymuno yn y weddi fwyaf nerthol, feddyliaf, a wrandewais erioed, teimlwn fy hun yn cael fy narostwng; gwelwn fy hun y creadur gwaethaf a greodd Duw; fod mwy o bechod yn dylifo allan o honof na neb o fewn y byd. Fy enaid a ddarostyngwyd ynof; canfyddwn fy hun y diweddaf yn ngwinllan Duw; gwelwn y brawd Rowland fel fy mrawd hynaf, ac eto fod Duw wedi fy anfon inau." Wedi y bregeth gweinyddid y sacrament. O gwmpas pump ymgynullwyd i drin gwahanol faterion, a buwyd wrth hyny hyd o gwmpas deg. Nid yw Harris yn son dim am y penderfyniadau; yn unig crybwylla ei fod ef a Rowland yn cydletya. Y mae cofnodau y Gymdeithasfa fel hyn:—

"Wedi gwrando am ystad y seiadau, a chael fod clauarineb yn ffynu yn Sir Forganwg, a lleoedd eraill, penderfynwyd cadw dydd o ymostyngiad rhwng hyn a Chwefror 21ain.

"Cydunwyd fod y brawd John Morgan i fyned o gwmpas ar unwaith, i gasglu yr arian am y llyfrau, i dalu Mr. Farley, cyhoeddwr y *Weekly History*.

"Fod y brawd David Williams i fyned i ymddiddan â Mr. Griffith Jones, dydd Sadwrn nesaf, ac i gynorthwyo y brawd John Richard pan y gall, gyda gofalu am yr ysgol."

Dyna yr holl o'r cofnodau, a gwelwn mai cymharol ddibwys ydynt. Gwelwn fod y Parch. D. Williams, Llysyfronydd, wedi symud i Forganwg erbyn 1745. Aeth Harris a Rowland yn nghyd tua Chilycwm, lle y pregethodd y diweddaf. Teithiodd Harris trwy Glanyrafonddu, lle y pregethodd ac y bu yn anerch y seiat, a Llanarthney, Llanon, a St. Clears, gan gyrhaedd y Parke, cartref Howell Davies, erbyn y Sul. Bu mewn dyfroedd dyfnion y Sul hwn, a chaiff ef ei hun adrodd yr hanes: "Gwelwn fy hun," meddai, "heb ddim gofal am ogoniant Duw, heb ddim cariad at y brodyr, heb dosturi, nac ystyriaeth o'r canlyniadau. Canfyddwn fy mod yn pechu yn erbyn cariad a gras; yn erbyn trugaredd, moddion, perthynasau, a bendithion. Gwelaf fy mod yn suddo yn ddyfnach, ddyfnach. O ddyfnder drwg pechod! Yr oeddwn yn y fath drueni a dyryswch, fel nas gallaswn ddyfod allan o hono. Ond er fy mod wedi fy ngwanhau a'm dryllio, teimlwn gariad pur at y brodyr, a gwelwn fy hun yn annheilwng i fod yn eu mysg, gan eu bod oll yn cael eu ffafrio yn fwy na mi mewn gras a sancteiddrwydd. O gwmpas tri aethum i lawr, ond ni theimlwn yn rhydd i fyned at y brodyr;

gwelwn yr un pryd ganlyniadau niweidiol peidio myned; ond nis gallwn help. Yn unig cefais nerth i lefain ar i'r Arglwydd gyflawni ei ewyllys, bydded y peth a fyddo. Eithr fel yr oeddwn yn dychwelyd tua Llanddowror, a chwedi dyfod i'r fan lle yr oedd yn rhaid i mi benderfynu, tosturiodd yr Arglwydd wrthyf, a rhoddodd yn sydyn y fath gariad i mi at y brodyr, fel nas gallwn lai na llefain yn fy yspryd am fod gyda hwynt, a chael byw a marw gyda hwynt. Yr oeddwn yn un â hwy mewn modd neillduol. Cefais y fath undeb â'r brawd (Howell) Davies, na chefais ei gyffelyb o'r blaen, gan deimlo ffrwd o serch at ei enaid a'i gorph fel teml Duw, fel un yn ffafr Duw, ac fel cenad Duw." Amlwg yw iddo fod mewn ystorm ofnadwy o ran ei feddwl; ac y mae yn bur sicr iddi godi oddiar ryw dramgwydd a gawsai yn y brodyr. Nid annhebyg iddo glywed rhyw chwedl, naill ai ar ei ffordd i Sir Benfro, neu ynte yn nhŷ Howell Davies y nos o'r blaen, a barodd iddo ymddigio. Efallai iddo glywed ei bregethau yn cael eu beirniadu, neu fod rhai o'i hoff gynlluniau yn cael eu gwrthwynebu. Ffromodd yn aruthr o herwydd hyn; poethodd ei dymherau nes y collodd pob llywodraeth arnynt am yspaid; a chwedi ymlonyddu i raddau, er y teimlai gywilydd o hono ei hun, ni fedrai gael rhyddid i fyned i fysg ei gyfeillion, oeddent wedi cydymgynull y dydd cyn y Gymdeithasfa, ac yn treulio y prydnhawn mewn gweddi a mawl. Bu mewn cyfyng-gynghor pa beth a wnelai, ai tori pob cysylltiad â hwy, a dychwelyd adref, ynte myned i'w mysg. Trwy drugaredd, llanwyd ei fynwes a chariad, fel y trodd y rhod o blaid y diweddaf; ond yr oedd yr amgylchiad yn flaenbrawf o'r dymhestl a gludodd Harris allan o'r cylch Methodistaidd yn mhen pum mlynedd ar ol hyn.

Ar ol tymhestl y daw hindda; ac ymddengys fod yr haul yn llewyrchu ar y frawdoliaeth oedd wedi ymgynull yn Hwlffordd, yn y Gymdeithasfa, prydnhawn dydd Llun. Meddai Harris: "Yr oeddwn yn agos at Dduw, a galluogwyd ni i drefnu ein cynlluniau tuhwnt i bob disgwyliad, fel y synwn ddarfod i'r gelyn geisio fy rhwystro i ddyfod yma. Yn sicr, gwnaed llawer o waith; a threfnasom amryw bethau a ymddangosent yn dra dyrus; megys am arolygwr newydd, trefnu y cynghorwyr anghyoedd, symud rhagfarnau am y tŷ newydd yn y lle hwn, agor ein calonau i'n gilydd gyda golwg ar gyfiawnhad, a pha mor bell y geill eneidiau fyned heb ras achubol, Saul yn enghraifft, yn nghyd â Judas, Balaam, Demas, y morwynion ffol, a'r rhai y crybwyllir am danynt yn Heb. vi. Cawsom lawer o serch at ein gilydd, ac undeb, a chydweithrediad. Yna aethum i bregethu." Gyda golwg ar ei bregeth, dywed: "Eangwyd fy nghalon, fy ngenau a agorwyd, teimlai y bobl, a disgynodd yr Arglwydd mewn modd anghyffredin i lawr; yn enwedig pan y dangosais mor ardderchog y byddai gyda hwynt yn angau, pan fyddai eu llygaid yn pylu, a'r galon yn pallu; 'yna,' meddwn, 'y cewch chwi, ïe, chwi bechaduriaid tlawd a dirmygedig sydd yn credu, weled gogoniant tŷ ein Tad, uno â'r llu nefol, a sefyll o gylch yr orsedd i orfoleddu ac addoli.'" Cafodd odfa nerthol iawn, ac wrth ymadael yr oedd ei galon yn gynhes at ei Waredwr ac at y brodyr. A ganlyn yw y prif benderfyniadau a gafodd eu pasio:—

"Fod y brawd William Edward i fod ar brawf hyd y Gymdeithasfa nesaf, ac i ymweled yn wythnosol a seiadau Tyddewi, Penrhos, a Mounton; a'i fod ef, yn nghyd â'r holl gynghorwyr anghyoedd eraill, i beidio ymweled a lleoedd eraill, ond fel y bydd eu hamgylchiadau, a'u gofal penodol yn caniatau, a than gyfarwyddid eu harolygwyr.

"Fod y brawd Cristopher Mendus i ymweled yn wythnosol a seiadau Walton-West, a Studder, gyda y rhyddid a'r rhwymau y cyfeiriwyd atynt.

"Fod y brawd John Sparks i gynghori ar brawf fel cynt yn nghymydogaeth Hwlffordd, dan arolygiaeth y brawd Davies.

"Fod y brawd George Gambold i fyned o gwmpas yn gyfangwbl, ac i adael yr ysgol, er llefaru yn gyhoeddus fel arolygwr, ar brawf hyd ein Cymdeithasfa Chwarterol nesaf yn Cayo."

Wedi y Gymdeithasfa aeth Howell Harris trwy ranau helaeth o Benfro, gan basio trwy Dyddewi, Trefin, lle y cafodd odfa anarferol iawn, Bwlchygroes, Llwynygrawys, ac Eglwyswrw. Testun ei weinidogaeth yn mhob lle oedd y gwaed, a'r clwyfau. Yna teithiodd Sir Aberteifi ar ei hyd, gan ymweled a Llechryd, Cwmcynon, Cilrhedyn, Llanbedr-pont-Stephan, Capel Bettws, a Llanddewi-brefi, lle y lletyai mewn hen balasdy yn nghesail y mynydd, o'r enw Foelallt. Yn mhob man rhoddai bwys mawr ar rinwedd y gwaed,

oblegyd ei fod yn waed Duw. "Yr wyf yn gweled fy mod yn pregethu'r gwirionedd," meddai. Aeth y Sul i Langeitho, i wrando Rowland; ac oddiyno i eglwys Llancwnlle, a phregethodd ei hun yn yr hwyr yn mhentref Gwynfil, ger Llangeitho, i gynulleidfa o rhwng dwy a thair mil. Rhwystrwyd ef i fyned i Ogledd Cymru, fel y bwriadesai, a dychwelodd adref trwy Gayo a Llwynyberllan. Rhydd y crynodeb canlynol o'r daith: "Mis i heddyw yr aethum o gartref i ymweled â Siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, taith o tua thri chant o filltiroedd, a galluogwyd fi i bregethu o gwmpas haner cant o weithiau, gan brofi bendithion diderfyn, yn nghyd â nerth meddwl a chorph anarferol i gyhoeddi Crist." Yn mhen ychydig ddyddiau wedi ei ddychweliad yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca. Dibwys oedd y trefniadau a wnaed; ond yn nglyn â hi cynhaliwyd cariad-wledd, yn mha un y cafwyd arwyddion arbenig o bresenoldeb y Goruchaf. "Yr oedd yn gariad-wledd yn wir; buom yno yn canu, yn gweddïo, ac yn cynghori, hyd nes yr oedd gwedi deg. Ond beth wyf fi wrth lawer o honynt? Yr oedd y brodyr wedi eu tanio i'r fath raddau fel y buont yn canu ac yn gweddïo hyd yn agos i ddau. Gogoniant i Dduw, yr hwn sydd eto yn ein mysg! Yn y gariad-wledd cefais nerth i geisio, ac i guro; teimlwn ryw gymaint o agosrwydd at Dduw; ond ni ddaeth yn y modd fflamllyd hwnw y daethai gynt, i gymeryd ymaith y gorchudd, gan ddangos ei ogoniant, nes toddi fy enaid, a rhoddi i mi fynediad i mewn agos. Ond parhausom i ymdrechu gyda Duw, ac yn mhen ychydig cefais nerth i ofyn i'r Arglwydd a oedd yn bwriadu ymweled a'r genedl yn ei ras, a dychwelyd atom? A oedd yn bwriadu sefyll wrth gefn y Methodistiaid tlodion, gan eu harwain a'u hamddiffyn? Yn ganlynol, cefais foddlonrwydd yn fy enaid fy hun ei fod yn dyfod atom mewn cariad. Gwedi hyny, cefais ryddid i ofyn yr un peth yn y weddi gyhoeddus, a'r Arglwydd a ymddangosodd yn nghydwybod y brodyr, a boddlonodd hwy yn yr un dull ag y boddlonwyd fi. Yna, cefais ryddid mawr i'w hanog i ymdrech, i fywyd, a zêl, a gweithgarwch."

Dengys y difyniadau hyn ddyn yn byw yn agos iawn at yr Arglwydd. A oedd ei waith yn cwestiyno y Duw mawr, ac yn gofyn ateb pendant ganddo gyda golwg ar y dyfodol, ac yna yn cymeryd ei deimladau boddlongar ei hun a'i frodyr fel atebiad cadarnhaol i'r hyn a ofynwyd, yn dangos ystad meddwl hollol iachus, ni chymerwn arnom benderfynu. Ymddengys fel blaguryn o'r dueddfryd gyfriniol a ymddadblygodd ynddo i raddau gormodol wedi hyn. Yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca drachefn ar yr ail ddydd o Fawrth, a daeth Daniel Rowland i bregethu i'r ardaloedd cylchynol amryw ddyddiau yn flaenorol. Aeth Harris i'w wrando i Erwd. Pregethodd yntau yn rhyfedd oddiar Phil. iii. 1: "Ië, yn ddiameu, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd." O'r cofnodau llawn o'r bregeth a rydd Harris, nis gallwn ddifynu ond ychydig. "Dangosodd," meddai, "fel yr oedd ein cyflwr yn Nghrist yn rhagori ar eiddo Adda. Yn (1) Pe y parhäi Adda heb bechu, nid ydym yn cael y cawsai ei symud oddiar y ddaear; ond yr ydym ni i gael ein symud i'r nefoedd at Dduw. (2) Nid oedd efe ond mewn paradwys i ba un yr oedd Satan yn gallu cael mynediad, ond yr ydym ni i gael ein symud i fan lle nas gall ddyfod. (3) Er ei fod mewn ystyr yn llawn o ras, eto nid oedd ganddo ddigonedd y tu cefn; felly, er y medrai sefyll, yr oedd yn bosibl iddo syrthio; ond y mae genym ni drysorau dihysbydd y tu cefn i ni, faint bynag a wariom. Yma yr oedd (Rowland) hyd adref ar barhad mewn gras, gan ddangos os oedd Satan wedi ein dinystrio trwy bechod fel nas gallwn achub ein hunain, eto fod Crist yn well gweithiwr nag efe; felly, ai ni fydd iddo ein hachub mor effeithiol fel nas gallwn ddamnio ein hunain? Dangosodd fod y rhai a gamddefnyddiant yr athrawiaeth hon yn gnawdol. Yn nesaf, eglurodd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist, gan ddangos mawredd y wybodaeth hon, a'i defnyddioldeb, ei bod yn dwyn pardwn, gras, a dedwyddwch. Yr oedd yn llawn addysg, ac o ddoethineb ddwyfol," meddai. "Yna aethum gydag ef tua Threfecca, i wrando arno, ac i gael fy nghryfhau wrth wrando. Dywedai fod yr Arglwydd yn fy rhoddi i iddo gyda hwy i gryfhau ei ddwylaw, ac i lefaru yr un peth ag yntau, a rhybuddiai fi i fod yn fwy gofalus yn fy athrawiaeth." Y mae yr ymadrodd olaf hwn yn dra arwyddocaol, ac yn dangos fod y Diwygiwr o Drefecca, yn marn ei frodyr, yn tueddu i fod yn anochelgar yn ei ymadroddion pan

yn egluro athrawiaethau mawrion yr efengyl. Derbyniodd ef y rhybudd, modd bynag, yn yr yspryd yr oedd yn cael ei roddi. "Cawsom gariad ac undeb," meddai, "a chefais ryw gymaint o ostyngeiddrwydd wrth weled fy hun yn cael sylwi arnaf gan unrhyw un. Wrth ei wrando yn pregethu (yn Nhrefecca) oddiar y geiriau: 'Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun,' nid oeddwn yn meddwl i mi erioed glywed y fath ddoethineb." Teimlai Harris yspryd milwr yn deffro ynddo wrth wrando.

A ganlyn yw cofnodau y Gymdeithasfa Fisol: "Yr oeddym wedi cyfarfod o'r blaen (Chwef. 16), gan dreulio cryn amser yn dra buddiol i ystyried cyflwr y genedl, a'r eglwys, a sylwi ar arwyddion yr amserau, pob un yn gofyn i'r llall pa oleuni, yn ei dyb ef, oedd yr Arglwydd yn roddi y pryd hwn gyda golwg ar y gwaith, pan y mae cymaint o bethau yn dygwydd i fygwth dinystr. Meddai pob un ffydd, yn fwy clir neu wan, yr a'i y gwaith yn ei flaen; yn wir nad oedd eto ond dechreu, er fod rhai yn tybio y gallai treialon ddygwydd yn gyntaf. Yr oedd yr Arglwydd gyda ni mewn modd arbenig iawn; cadwyd y brodyr i fynu, i ganu ac i weddïo, hyd gwedi deuddeg.

"Wedi agor ein calonau i'n gilydd, a gofyn cwestiynau y naill i'r llall gyda golwg ar y gwaith, cydunwyd i gyfarfod drachefn dydd Gwener, Mawrth 29, am ddeg yn y boreu, a phob pedwerydd dydd Gwener, o Mawrth y cyntaf, fel y byddai i bob dydd perthynol i'n Cymdeithasfa breifat fod yn ddydd o ymostyngiad a gweddi yn nghyd.

"Cydunwyd fod amgylchiadau y brawd Thomas Jones i gael eu gosod gerbron y seiadau preifat.

"Fod y dydd Mawrth yn mhen y pythefnos i fod yn ddydd o ymostyngiad personol yn mhlith y ffyddloniaid, o herwydd yr ymraniadau yn Lloegr, a'r clauarineb a phechodau eraill yn Lloegr a Chymru."

Dengys y cofnod diweddaf fod sefyllfa y Methodistiaid yn Lloegr yn dra chyffrous; fod ymbleidio a rhaniadau yn eu mysg; ac yr oedd eu llywydd, Whitefield, yn yr America er y flwyddyn flaenorol; o ganlyniad, ar ysgwyddau Howell Harris, yn benaf, y disgynai y gofal. Dechreu Mawrth, cynelid Cymdeithasfa yn Mryste, ac aeth Harris yno yn nghwmni Beaumont. Yr oedd ei yspryd yn brudd ynddo oblegyd yr amrafaelion rhwng y cynghorwyr. Yn y cwch, wrth groesi yr Hafren, rhoddwyd iddo agosrwydd mawr at Dduw, a nerth i ofyn iddo am ei gadw rhag ei yspryd ei hun yn nydd y demtasiwn oedd yn agoshau, rhag iddo ei dramgwyddo ef, na thramgwyddo y brodyr, yr hyn a ofnai uwchlaw pob peth. Boddlonodd Duw ef y gwnai ei gadw. Wedi cyrhaedd Bryste galwodd y frawdoliaeth yn nghyd; cynaliwyd cyfarfod i ymostwng gerbron y Goruchaf Dduw, ac i ofyn am arweiniad; yna anerchodd Harris hwy, gan ddweyd fod gan yr Arglwydd gweryl â hwy. Boreu dydd y Gymdeithasfa bu mewn ymdrech angerddol â'r Arglwydd cyn myned allan o'r tŷ; gwelai y diwrnod yn ddydd o dreial, yn ddydd galar, ac yn ddydd o ymostyngiad. Cododd chwant myned adref arno, ac eto llefai ei fod yn foddlon aros yno ond iddo weled bod hyny er gogoniant i Dduw. "Y fath nifer," meddai, "hyd yn nod o'r rhai a broffesant eu bod yn adnabod yr Arglwydd, sydd yn llawenychu yn ein hymraniadau; rhai a gondemniant y gwirioneddau ydym yn draethu; eraill a gondemniant yr yspryd a'r zêl. O Arglwydd, pa hyd y gadewi ni i fod yn watwargerdd? Ai nid dy blant di ydym, a'th genadon tlawd, wedi eu hanfon genyt? O tosturia wrthym!" Yn yr yspryd hwn yr aeth i fysg y brodyr. Daeth rhyw deimlad drylliedig dros y brodyr wrth ddarllen cofnodau y Gymdeithasfa o'r blaen. "Yna," meddai, "bum yn ymresymu â'r brawd Bishop, yr hwn sydd yn myned i ymneillduo, ac i uno â'r Bedyddwyr. Wedi siarad rhydd daethom i ddealltwriaeth ag ef, gyda golwg ar y rhai sydd heb eu bedyddio, ond wedi eu hargyhoeddi. Tybiai ef y dylem godi trwydded i bregethu, mai dyfais ddynol yw bedydd babanod; fod ganddo hawl i weinyddu y sacramentau heb ordeiniad nac arddodiad dwylaw. A hyn darfu i ni oll anghytuno. Nid oedd rhai o honom, a minau yn eu mysg, yn rhydd i godi trwydded. Yr oedd pawb o honom yn anmharod i weinyddu yr ordinhadau heb ordeiniad, ac yn anmharod hefyd i ordeinio yn ein mysg ein hunain. Yr oeddym yn unfarn hefyd parthed bedydd babanod, ond cytunasom y gallai efe ddyfod i'n mysg, os dymunai. Wedi cael fy nghymhell, aethum i bregethu i'r neuadd, i dorf fawr." Cafodd odfa dda, ac agosrwydd mawr at yr Arglwydd ar weddi, wrth ddechreu a diweddu.

Parhäi y Gymdeithasfa dros ddydd

Iau a dydd Gwener, a ffynai heddwch yn yr holl gyfarfodydd. "Yn sicr, gwrandawodd yr Arglwydd ein gweddi," meddai Harris, "ac unodd yn hyfryd ein calonau a'n heneidiau. Teimlwn fod yr Arglwydd yn rhoddi i mi symlrwydd, cariad, a rhyddid, a buddugoliaeth ar ragfarn, i siarad yn syml, ac i beidio ymryson parthed geiriau. Gwelwn ein bod yn meddwl yr un peth (1) gyda golwg ar Grist ein cyfiawnder; yr oeddynt hwy yn golygu yr un peth wrth ei alw ein sancteiddrwydd, ag a olygwn ni wrth ei alw yn gyfiawnder cyfranedig; neu sancteiddrwydd personol. (2) Eu bod hwy yn golygu yr un peth wrth ffrwythau ffydd, neu ffrwythau yr Yspryd, ag a olygwn ni wrth y creadur newydd, sef egwyddor o ras oddifewn yn yr enaid. (3) Eu bod hwy yn golygu yr un peth wrth y gair ffydd mewn ymarferiad ag a olygwn ni wrth ffydd, neu gymundeb â Duw. (4) Eu bod hwy yn meddwl yr un peth wrth ffydd allan o ymarferiad ag a olygwn ni wrth y gair anghredu, neu wrthgilio yn y galon. (5) Pan y siaradent yn erbyn profiad, golygent yn unig peidio ei osod allan o'i le, sef yn gyfnewid am Grist. Yna, cydunasom, os byddem yn defnyddio rhyw derm nad yw yn yr Ysgrythyr, i'w egluro mewn geiriau Ysgrythyrol; ac, hyd y mae yn bosibl, i gyfyngu ein hunain i ymadroddion Beiblaidd." Drachefn, "Cydunasom am gyfiawnhad a sancteiddhad; mai Crist, ac nid ffydd, yw y sylfaen ar ba un y dylem bwyso; a chawsom oleuni a rhyddid anghyffredin wrth ymdrin parthed angenrheidrwydd a lle ffrwyth, sef sancteiddrwydd calon a buchedd; yn nghyd â lle y gyfraith neu y gorchymyn mewn crefydd. Golygem yr un peth yn flaenorol, pan yr ymddangosem fel yn gwrthddweyd ein gilydd. Cydunasom hefyd am y modd i ddelio a'r rhai sydd yn tori y ddeddf yn eu bucheddau: nad ydynt yn gredinwyr, am fod Crist yn ysgrifenu ei gyfraith ar galon y credadyn. Mynegasom ein holl galonau i'n gilydd ar bob pwynt; ysgrifenasom hefyd i lawr y pethau y cydunem arnynt. Cydunasom hefyd gyda golwg ar wahanol raddau ffydd—ffydd wan a ffydd gref, ffydd ddamcaniaethol, ffydd grediniol, a ffydd achubol. Cydunwyd hefyd gyda golwg ar y brawd Cudworth; nid oeddwn i yn tueddu ato fel cydlafurwr; ond pan y mynegodd ei fod yn syml, heb dwyll na hoced, yn cyduno a'r hyn a ysgrifenasid i lawr, cefais ryddid i'w dderbyn. Trefnwyd cylchdeithiau pob un; a chwedi trefnu y pregethwyr ieuainc yn eu gwahanol leoedd, ymadawsom yn hyfryd a dedwydd, wedi offrymu mawl a gweddi i Dduw, yr hwn a roddodd i ni y fuddugoliaeth."

Felly y terfynodd Cymdeithasfa Bryste, ac y mae yn sicr fod ei dylanwad yn fawr ar Fethodistiaeth Cymru yn gystal ag eiddo Lloegr. Am y waith gyntaf, tynwyd i fynu fath o Gyffes Ffydd, a Rheolau Disgyblaethol, a gosodwyd y cyfryw i lawr mewn ysgrifen, fel y gellid apelio atynt yn ol llaw. Hawdd gweled fod yr adeg yma yn un o gyffro mawr, a bod y cyffro hwnw yn peri fod holl athrawiaethau crefydd yn cael eu chwilio a'u dadleu. Yr oedd anuniongrededd yn cael yr un driniaeth ag anfoesoldeb, a hawdd iawn i frodyr oedd myned i ymryson yn nghylch geiriau, pan y golygent yr un peth. Doeth iawn yn y frawdoliaeth oedd cyduno i arfer geiriau Ysgrythyrol, hyd byth ag oedd yn bosibl, wrth egluro pob athrawiaeth; ac nid rhyfedd fod Harris yn galw y Gymdeithasfa yn "Gymdeithasfa fendigedig." Y mae yn ddiau fod perygl ymraniad ar y pryd. Felly, o leiaf, y golygai Howell Harris; a chredwn mai ei ddoethineb a'i arafwch ef fel llywydd y gynadledd a fu yn offerynol i ailsefydlu heddwch, ac i gadw y brodyr rhag ymwahanu. Fel hyn yr ysgrifena gyda golwg ar yr ymdrafodaeth at Mr. Erskine, Ebrill 12, 1745: "Ni fedraf byth anghofio eich gofal pan y cyfarfyddem yn Mryste. Yr oedd, yn wir, yn amser enbyd; ond y Duw sydd yn wrandawr gweddi a agorodd ei glustiau i lefau ei liaws plant a afaelent ynddo. Yr oedd pethau wedi myned mor bell fel na allai unrhyw foddion dynol leshau, ond Duw a dosturiodd wrthym, ac ni oddefai i'w ogoniant, ei waith, a'i blant, a'i genhadau tlawd a drygionus gael eu sathru dan draed, nac i'w gelynion orfoleddu. Gwnaeth ryfeddodau erddom. Ni ddynoethwyd ei fraich yn fwy o'n plaid erioed. Cynlluniau Satan a ddarganfyddwyd, a'i fwriad uffernol a wnaed yn ddim. Gan y gwn eich bod wedi cael y manylion gan y brawd Edwards, nid rhaid i mi ond nodi mai y moddion a ddefnyddiodd i'n huno oedd a ganlyn. Yn gyntaf, datguddiodd i ni, o leiaf i rai honom, y canlyniadau arswydus a fyddant yn debyg o ddilyn ymraniad; y dianrhydedd a dderbyniai ein hanwyl Arglwydd, y tramgwydd a deflid ar ffordd yr annychweledig, a'r annhrefn a ddeuai i'n mysg ninau, a phawb sydd yn

ein caru. Yn nesaf, wedi creu ynom, o leiaf yn rhai o honom, ddymuniad am fod yn un, a than ddylanwad y dymuniad hwn i dywallt ein calonau gerbron yr Arglwydd, efe a symudodd ein rhagfarnau allan o'n hysprydoedd, gan roddi i ni ffydd y byddai iddo eto drugarhau wrthym, a'n huno yn ei wirionedd, er mor annhebyg yr ymddangosai hyny. Yna, wrth agor ein calonau i'n gilydd, y gorchudd a'n cadwai rhag deall ein gilydd o'r blaen a gymerwyd ymaith, a chawsom fod ein camddealltwriaethau a'n gwahaniaethau yn cyfodi o gamgymeryd geiriau ein gilydd. Oblegyd gyda golwg ar gyfiawnhad a sancteiddhad, a ffydd achubol, golygem yr un peth, er y gwahaniaethem yn ein dull o egluro yr un gwirionedd. Fel y gwelwch, yr wyf yn credu, yn nghofnodau ein cytundeb, yr oedd y brawd Cennick wedi bod yn anwyliadwrus yn rhai o'i ymadroddion, yn ngwres ei zêl, ac oddiar ddymuniad difrifol am ddyrchafu y Duw-ddyn, yr Emmanuel gogoneddus; ac wrth ddifodi y gau noddfeydd sydd yn cadw cynifer heb ddyfod i fyw mewn ffydd wirioneddol ar y gwaed a'r clwyfau, darfu i'r gelyn ei wthio fel y llithrodd ryw gymaint wrth lefaru, ac y dyrysodd rai o'r bobl a wrandawent, fel ag i'w gamgymeryd yn y ddau eithafion. Yr oedd rhai o'r dynion ieuainc, mi a gredaf, yn fwy beius fyth. Ond ar bob llaw, yr wyf yn gobeithio ein bod wedi cael ein darostwng, a'n dwyn yn agosach at ein Meistr tyner a thosturiol."

Nis gallwn fanylu ar gynwys y llythyr, er fod ynddo amryw bethau yn haeddu sylw. Treuliodd Howell Harris ei Sabbath yn Bath, a dychwelodd adref erbyn dydd Iau, Mawrth 29, fel ag i fod yn bresenol yn y Gymdeithasfa Fisol, yn Nhrefecca. Cyfarfyddai ei frodyr gyda chalon lawen, oblegyd fod pethau wedi troi allan gystal yn Mryste; ac eto yr oedd pob llwyddiant gyda'r gwaith yn ei ddarostwng, ac yn ei lenwi a gostyngeiddrwydd. Fel hyn yr ysgrifena: "Yr oedd ein cyfarfod yn llwythog o newyddion da. Wrth weddi tynwyd fi allan yn hynod, a llewyrchodd yr Arglwydd ei wyneb arnom, gan wresogi ein calonau. Wrth fy mod yn gosod o'u blaen y cynygiad o Scotland, am gadw diwrnod bob tri mis, a phob boreu Sul, i ddiolch i'r Arglwydd am yr adfywiad diweddar yn Lloegr, a Chymru, ac America; cynygiad a pha un y darfu i'r brodyr gyduno, cefais nerth i weled nad oedd hyn yn perthyn i neb yn fwy na mi. Yn (1) Nid oes neb wedi cael ei ffafrio yn gymaint a mi, y gwaethaf a'r annheilyngaf o bawb. (2) Nid oes neb wedi digio a themtio yr Arglwydd fel myfi, ac felly nid oes ar neb gymaint o rwymau i'w ganmol, ac i ymostwng ger ei fron. (3) Nid oes ar neb gymaint o rwymedigaeth i ddymuno am lwyddiant y gwaith. Llefais am gael fy ngwneyd yn gydwybodol yn hyn. Gwedi ymholi am ansawdd y cymdeithasau, ac am y dull y cedwid y dyddiau o ymostyngiad, ymadawsom yn hyfryd ein hysprydoedd."

Yn nghofnodau Trefecca ceir yr adroddiad a ganlyn:—

"Cymdeithasfa Trefecca, Mawrth 29; Howell Harris, cymedrolwr: Wedi adrodd ddarfod i'r Arglwydd wrando ein gweddïau parthed uno y brodyr yn Lloegr, trefnwyd ein Cymdeithasfa Fisol nesaf i fod yn nhŷ Thomas James, dydd Gwener, Ebrill 26.

"Gan fod cynygiad wedi dyfod o Scotland i gadw diwrnod bob tri mis, gan ddechreu gyda Thachwedd 1, yn ddydd o weddïau, am ddwy flynedd, ac hefyd i gyfarfod bob boreu Sul, oblegyd y gwaith diweddar yn Lloegr, Cymru, Scotland, ac America, i ddiolch i Dduw am dano, i weddïo am iddo fyned yn mlaen, ac i ymostwng oblegyd y pechod oedd yn cydfyned ag ef; cydunasom â'r cynygiad i gadw y dydd cyntaf o Fai nesaf, a phob boreu Sul, gyda chynifer ag a allwn gael. Ac hefyd yn breifat, i roddi i hyn gymaint o le ag a allwn yn ein calonau, a'n hamser, bob nos Sadwrn, ac i gymhell hyn ar eraill."

Y dydd Mercher a Iau canlynol, sef yr wythnos gyntaf yn Ebrill, cynelid Cymdeithasfa Chwarterol yn Nghayo; Cymdeithasfa bwysig ar amryw gyfrifon, ond nid yw ei hanes yn ysgrifenedig yn nghofnodau Trefecca. Agorwyd y gynhadledd gyda phregeth gan John Powell, yr offeiriad o Sir Fynwy. Meddai Harris: "Yr oeddwn yn ddifrifol ac yn drymaidd, ond nid yn yr Yspryd, wrth wrando. Eithr cefais nerth i ymdrechu drosto, ar i Dduw lewyrchu arno, a daeth yr Arglwydd i lawr. Yna ciniawasom; a phregethodd y brawd G. oddiar Ioan i. 1, 2. Yr oedd ganddo gyflawnder o eiriau, ond yr oedd wedi ei adael yn hollol, a ninau yn sych yn ymddangosiadol. Yr oedd yr Arglwydd fel pe yn mhell oddiwrthym. Trywanwyd fi wrth glywed y brawd Rowland yn dweyd fod yr Arglwydd fel pe yn gadael y

cynghorwyr. Gwelwn hyn fy hunan, mewn cysylltiad â mi ac eraill. Bendithiwyd yr ymadrodd; rhoddwyd i ni ryw gymaint o wyliadwriaeth, a zêl, a galar am ein gwrthgiliad parhaus oddiwrth yr Arglwydd, a'n heilunaddoliaeth, a'n puteindra ysprydol. Ond, yn sicr, nid oedd ein cyfarfod eto yn llawn o Dduw. Wrth ddarllen llythyr oddiwrth y brawd Howell Davies, yn datgan y fath anrhydedd oedd cael pregethu gwaed Crist, cefais oleuni ac argyhoeddiad i weled nad yw gogoniant y gwaed hwn ond prin dechreu dyfod i'r golwg. Darllenasom ddau lythyr o Fynwy a Morganwg gyda golwg ar ymadael oddiwrthym." Pa gymdeithas yn Sir Fynwy a anfonodd y cyfryw lythyr sydd anhysbys, ond yr oedd y llythyr o Sir Forganwg oddiwrth gynghorwyr y Groeswen, ac y mae mor bwysig, ac mor nodweddiadol o deimlad llawer o'r cynghorwyr ar y pryd, fel yr haedda gael ei gofnodi oll. Fel hyn y darllena:—

"At yr anwyl frodyr yn gyffredinol, a'r gweinidogion yn neillduol, cynulledig yn Nghayo, anfon anerch.

"Gras fyddo gyda chwi oll. Amen. Yr ydym yn credu am danoch mai rhai ydych sydd anwyl gan Dduw, a bod Duw yn anwyl genych chwithau, a'ch bod mewn modd neillduol wedi cael eich galw gan Dduw i waith y weinidogaeth, a bod achos Duw yn agos atoch, ac yn pwyso ar eich ysprydoedd; a'ch bod wedi cael adnabyddiaeth helaeth o'i ewyllys, ac o herwydd hyny angenrhaid a osodwyd arnom i ddanfon atoch fel rhai a dderbyniodd y gras o gydymdeimlad â ni, ac amryw eraill sydd yr amser hwn mewn llawer o gaethiwed, o herwydd yr annhrefn sydd yn ein plith. Mae ein cydwybodau wedi eu rhwymo gan Air Duw, fel nas gallwn barhau fel hyn allan o drefn Duw; canys gweled yr ydym fod Duw wedi gosod trefn yn ei eglwys, er y dechreuad, yr hon sydd i barhau hyd y diwedd. Ni a dybygem mai eich dyledswydd chwi yw cydymdeimlo â ni yn yr achos mawr hwn; canys chwi a fuoch yn anogaeth i ni fyned dros Dduw allan o drefn; ac er dim a wyddom ni fe'n llwyddodd Duw ni mewn mesur, ac a fydd i chwi, fel goruchwylwyr da yn nhŷ Dduw, ymegnio i ddwyn y gwaith da hwn yn mlaen i drefn? Mae yn annhebygol iawn i un corph o bobl barhau fel hyn dros ei holl amser. Yr y'm ni yn disgwyl am gael eich meddyliau chwi yn yr achos hwn, yn agos er ys dwy flynedd, ac nid y'm yn gweled dim argoel eich bod chwi wedi pwyso y mater hwn fel y dylasai gael; ond yr y'm yn ofni fod gormod o ragfarnau yn eich dygiad i fynu yn nglyn wrthych. Ein meddwl yw, eich bod yn ormod yn nglyn wrth yr Eglwys Sefydledig. Yr ydym ni yn gweled pe bai chwi yn cael eich ordeinio yn Eglwys Loegr, fel ag yr ydych yn disgwyl, na byddai hyny yn ddigon i wneuthur yn esmwyth amrywiol o frodyr a chwiorydd yn y wlad; canys eisiau sydd arnynt gael rhai i weinidogaethu y Gair a'r ordinhadau iddynt yn ei bryd, ac i edrych drostynt fel bugail dros y praidd, ac y byddai raid i ni gael ein hatal, neu fod fel ag yr ydym, yr hyn beth nis gallwn feddwl ar ei wneuthur.

"Yr ydym wedi rhoddi ein hachos yn llaw Duw, gan obeithio, os na fydd i chwi dosturio wrthym, y bydd i Dduw agor ffordd i ni gael gwell trefn. O frodyr, y mae yn dost genym glywed nad oes genych ddim rhyddid i ni gynghori, o herwydd nad ydym wedi ein hordeinio; ac nad ydych, can belled ag y gallwn ni weled, yn gofalu pa un a gaffom ni ein hordeinio a'i peidio. Os na fydd i chwi gydymdeimlo â ni, yr ydym yn gweled fod galwad i ni droi ein golygon ffordd arall, a Duw fyddo yn gyfarwyddwr i ni. Yr ydym yn cyfaddef mai eich llafur chwi ydym, ac y mae yn dost genym orfod ymadael â chwi, a rhoi lle i eraill ddyfod i mewn i'ch llafur chwi; eto, yr ydym yn rhwym i dori trwy bob anhawsdra, er mwyn enw yr Arglwydd Iesu, a chydwybod dda. Ac nid ydym yn gwneuthur hyn mewn byrbwylldra. ond gan ei ystyried yn ddwys ac yn ddifrifol; ac fel y mae yn cael ei ystyried y mae yn dyfod yn nes atom, fel ag y mae yn anhawdd ei ddyoddef. Un achos paham y mae ein cydwybodau mor gaethiwus yw, o herwydd fod trefn o arddodiad dwylaw yn cael ei arfer yr amser gynt, sef amser yr apostolion, ar bob math ag oedd yn gweinidogaethu y Gair, nid yn unig yr esgobion a'r henuriaid, ond hefyd y diaconiaid, fel y gallwch weled yn Actau vi. 6: 'Y rhai a osodasant hwy gerbron yr apostolion; ac wedi iddynt weddïo hwy a osodasant eu dwylaw arnynt hwy.' Wedi hyn yr ydym yn cael hanes am yr effaith ragorol a ganlynodd, fel y gellwch weled yn y wers ganlynol. Mae yn debygol fod y rhai hyn, fel ninau, wedi bod lawer gwaith yn llefaru, a bod Duw yn eu llwyddo; eto, feallai, nad oedd gan yr esgobion a'r henuriaid hollol ryddid iddynt,

mwy nag sydd genych chwi, yr offeiriaid, atom ni yn bresenol; am hyny ni a ddymunem arnoch wneuthur yr un peth; ac wrth wneuthur felly ni ellwch dramgwyddo neb dynion a gymero Air Duw fel rheol benaf i rodio wrthi, ac ni a allwn ddisgwyl yr un effeithiau, sef chwanegu at ein rhifedi, a bod yn gadernid i'r rhai sydd eisoes wedi eu galw. Ni a ddymunem na fyddo i'r brodyr edrych arnom fel pobl wedi syrthio i glauarwch, o herwydd ein bod fel hyn yn anfon ein meddyliau atoch, na'n bod yn disgwyl am gael enwau mawrion yma; nage, canys os rhoddwch chwi le iddo yn eich rheswm, nid ydym yn actio yn y cyfryw fodd. O herwydd hyn, ni allasem fyned ymaith yn ddystaw, ac felly cael ein hordeinio, a chymeryd cynulleidfaoedd dan ein golygiad. Nage, frodyr; yr ydym yn foddlawn i gydlafurio gyda chwi, fel yr ydym hyd eto, ac i gymeryd ein llywodraethu genych chwi fel o'r blaen, eto yn yr Arglwydd, ac yn ol ei Air. Yr ydym wedi bod yn ceisio dodi ein hachosion o'ch blaen chwi er ys talm o amser, ond ni chawsom ryddid i wneuthur felly. Duw a dosturio wrthym mewn amser o gyfyngder, pan y mae ein tadau yn Nghrist, a'n brodyr yn yr Arglwydd, yn ein gadael yn amddifaid. Hyn, yn bresenol, oddiwrth eich caredicaf frodyr,

"THOMAS PRICE,
"WILLIAM EDWARD,
"THOMAS WILLIAM,
"JOHN BELSHER,
"EVAN THOMAS."

Rhaid addef fod hwn yn lythyr cryf, er y cynwysa rai cyfeiriadau personol nad ydynt yn gwbl barchus. Prin yr oedd yn weddus ar ran y cynghorwyr hyn i awgrymu, pe y caffai rhai o ddynion blaenaf y Gymdeithasfa eu hordeinio yn ol trefn Eglwys Loegr, nad gwaeth ganddi beth a ddeuai o'r lleill. Hawdd darllen rhwng y llinellau awydd mawr am ordeiniad; yr oeddynt yn barod i aros gyda'r Methodistiaid, ond iddynt gael eu hordeinio; yr oeddynt yn benderfynol i ymadael oni chaent. Diau genym fod y cyffelyb ysprydiaeth yn ymweithio fel lefain yn mysg y cynghorwyr trwy lawer o'r cynulleidfaoedd. Dyddorol fyddai gwybod pa ateb a roddwyd i'r llythyr, os atebwyd ef o gwbl; nid yw y wybodaeth hono genym; ond teifl dydd-lyfr Howell Harris lawer o oleuni ar stâd meddwl y frawdoliaeth cynulledig yn Nghayo, yn nglyn a'r mater hwn. Meddai: "Cawsom hir ymchwiliad i natur ac arwyddion balchder, sydd yn awr yn dechreu ymddangos yn y cynghorwyr. Agorasom ein calonau i'n gilydd, gan weled fod yn rhaid i ni ddatgan yn erbyn yr Ymneillduwyr, eu bod yn cysgu, ac yn gadael yr Arglwydd. Rhoddodd yr Arglwydd i mi genadwri i'w chyhoeddi i'r brodyr; cenadwri ofnadwy, yn tori i'r byw, gyda golwg ar ostyngeiddrwydd, a thlodi yspryd. Yr oedd yr Arglwydd yno yn wir. Datganai amryw fod y geiriau yn trywanu eu heneidiau fel cleddyfau. Cyfeiriais at berygl balchder; mor ffiaidd oedd ein gweled ni (y cynghorwyr) yn falch, gan na feddwn ond ychydig ddoniau, ac ychydig wybodaeth mewn unrhyw beth; a'n bod heb ddysg na medr, yn wael, ac yn ddirmygus yn ngolwg pawb, ac felly hefyd mewn gwirionedd. Dangosais y dylem gywilyddio, ac ymostwng gerbron Duw, wrth weled cynifer yn ymgynull i wrando ar greaduriaid mor wael; a'r modd y mae balchder yn ymddangos mewn anallu i oddef cerydd." Prawf y difyniadau hyn mai fel balchder yspryd ar ran y cynghorwyr, yr edrychai Howell Harris, a'r brodyr yn Nghayo, ar y dymuniad angerddol am urddiad oedd yn dechreu dangos ei ben, ac yn peri dadleuaeth frwd ac ymraniad. Ymddengys y pethau canlynol yn bur glir: (1) Fod arweinwyr y Methodistiaid yr adeg hon, ac yn arbenig Howell Harris, yn dra ymlyngar wrth yr Eglwys Sefydledig, ac yn rhy anmharod i gydnabod hawliau y cynghorwyr mwyaf galluog gyda golwg ar ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth. Awyddent am i amryw gael urddau esgobol; eithr oni chaent y fraint hono, nid oeddynt yn barod i ymgymeryd a'r cyfrifoldeb o ordeinio yn eu mysg eu hunain. Gwell ganddynt, yn hytrach, oedd i'r cymdeithasau ddyoddef amddifadrwydd, ac i'r cynghorwyr galluocaf gefnu. (2) Tra yr oedd rhai cynghorwyr wedi eu cynysgaethu â doniau helaeth, ac yn meddu gwybodaeth ddofn o'r Ysgrythyr, fod lliaws o rai eraill yn weiniaid eu galluoedd, yn brin eu dirnadaeth, ac yn amddifad o chwaeth a barn; ac eto, nid annhebyg fod yr awydd am ordeiniad, er mwyn cael safle uwch yn yr eglwys, yn gryfach yn y dosbarth olaf hwn na neb. Felly, pe y dechreuid ordeinio y cynghorwyr, nid annhebyg y byddai hyny fel pe yr agorid argae, y llifai cenfigen ac eiddigedd i fewn i fysg y brodyr fel afon. (3) Y mae yn bur sicr fod amryw, a'r rhai

hyny, efallai, y dosparth mwyaf parchus, o'r rhai a ganlynent y Diwygwyr, ac a ymgyfenwent yn Fethodistiaid, yn fwy ymlyngar wrth yr Eglwys na'r arweinwyr; a phe y gwelent y duedd leiaf yn y Cyfundeb i ymffurfio yn blaid Ymneillduol, y troent eu cefnau arno ar unwaith. Rhwng pob peth, ni welai Rowland a Harris eu ffordd i symud; disgwylient yn awyddus am oleuni mwy pendant a chlir. Ar yr un pryd, tueddwn i feddwl iddynt fod yn rhy amddifad o feiddgarwch yn y cyfnod hwn, a'u bod yn disgwyl arwydd eglurach nag oedd ganddynt hawl i wneyd, a thrwy hyny iddynt golli canoedd o'u canlynwyr, y rhai a ymunasant â phleidiau eraill. Ni fu hyn, modd bynag, yn golled i grefydd, oblegyd bu yn foddion i greu yspryd llawer mwy efengylaidd, a mwy ymosodol, yn y cyfryw bleidiau, ac efallai yn atalfa effeithiol ar yr yspryd cyfeiliorni a ffynai yn eu mysg.

Y peth cyntaf a wnaeth Howell Harris ar ol cyrhaedd adref oedd myned at Price Davies, offeiriad Talgarth, er cael ganddo ganiatau i'r Methodistiaid gymuno yn yr eglwys, yr hon fraint a ataliasai oddiwrthynt am agos i ddwy flynedd a haner. "Gwrthwynebai yntau," meddai Harris, "yn (1) Am fy mod yn pregethu gartref ar adeg y gwasanaeth dwyfol. Atebais inau na wnaethum y fath beth, yn fwriadol, erioed. (2) Fy mod yn pregethu yn erbyn canonau yr Eglwys. Atebais nad oedd y canonau yn gyfraith, am na chawsent erioed eu cadarnhau gan Weithred Seneddol. (3) Fy mod wedi dolurio Esgob Llundain. Dywedais fy mod yn meddwl na wnaethum hyny, ond nad oedd yr Esgob yn glir gyda golwg ar gyfiawnhad, a phe y cawn fy ngalw o'i flaen y teimlwn yn ddyledswydd arnaf i ddweyd hyny wrtho; ond os oeddwn wedi camddifynu ei eiriau yn fy llythyr at Mr. Glyde, mai y rheswm oedd, nad oedd llythyr yr Esgob genyf wrth law pan yn ysgrifenu, ac y gwnawn gyfaddef fy mai mewn llythyr arall. (4) Nad oeddwn yn dyfod i wrando i eglwys fy mhlwyf. Atebais mai anaml yr oeddwn gartref; fy mod weithiau yn myned i'r capel, a'm bod wedi clywed llawer o bregethu da yno; ac weithiau i eglwys Talarchddu, lle y clywn yr hyn a gytunai a'm chwaeth yn well (nag yn eglwys Talgarth); ond nad oeddwn yn cadw i ffwrdd oddiar unrhyw ddrwgfwriad, ac yr awn i Dalgarth oni bai am Mr. Edwards, y cuwrad. (5) Fy mod yn ymosod ar yr offeiriaid yn eu cefnau; ac os oeddynt yn feius, mai fy nyledswydd oedd tosturio wrthynt. Atebais na oddefwn ynof y fath deimlad at neb, ond ei bod yn rhwymedig arnaf i sefyll yn gyhoeddus yn erbyn eu pechodau, am eu bod yn foddion i galedu eraill mewn pechod trwy eu hesiampl, gan fod llawer o honynt yn feddwon, ac yn cael eu canfod yn feddw. Dangosais iddo fel yr oeddwn wedi llafurio i gadw llawer yn yr Eglwys, oeddynt yn annhueddol i hyny oblegyd annuwioldeb ac anwybodaeth y clerigwyr, y rhai a bregethent weithredoedd yn lle Crist. Pan y gwrthwynebai hyn, cydnabyddais y dylent gael eu pregethu yn eu lle, fel ffrwythau ffydd. Dywedai fod y bobl, ar ol gwrando arnaf fi, yn edrych yn watwarus arno ef, ac yn ei ddirmygu. Dywedais fy mod yn gobeithio na wnaethum i hyny erioed. Cydnabyddodd na wnaethum. Dywedais, yn mhellach, pa bryd bynag y gwelwn y cyfryw yspryd ynof fy hun, neu mewn eraill, fy mod yn ei geryddu. Yr oedd yn chwerw yn erbyn y brawd Rowland, gan ei fygwth a gwys os byth y deuai yno drachefn. Pan yr honai nas gallwn ddwyn cosp arno ef am wrthod y sacrament i mi, fel yr oeddwn wedi bygwth yn fy llythyr, cyfeiriais ef at y prawf rhwng Esgob Manaw a'r llywodraeth, pan yr oedd wedi gwrthod y sacrament, ac y cafodd ei wysio o'r herwydd." Felly y terfynodd yr ymddiddan rhwng Harris a'r hen Price Davies, ac y mae yn dra dyddorol fel engrhaifft o'r teimlad o'r ddau tu. Nid yw yn ymddangos i'r offeiriad roddi ateb penderfynol ar y pryd; ond ildio a wnaeth, oblegyd ar gyfer Sul y Pasg cawn y nodiad a ganlyn yn y dydd-lyfr: "Aethum i eglwys Talgarth, a chefais ganiatad i gyfranogi o'r sacrament. Yr oeddwn yn isel fy meddwl yn ystod y canu, eithr yn y bregeth, ar Col. iii. 1, synwyd fi at ei huniongrededd a'i hysprydolrwydd; yna aethum at y bwrdd, wedi bod yn agos at yr Arglwydd trwy ystod y bregeth, a gwnaed fi yn ddiolchgar o herwydd clywed y fath bregeth yma.'

Fel y trefnasid yn flaenorol, cynhaliwyd Cymdeithasfa Fisol yn nhŷ Thomas James, Cerigcadarn, ar y 26ain o Ebrill. Ni cheir ei phenderfyniadau yn y cofnodau; tebyg mai dibwys oeddynt; ond rhydd Howell Harris ryw gymaint o'i hanes yn y dydd-lyfr. "Eisteddasom yn nghyd," meddai, "hyd gwedi pedwar, a'r Arglwydd a'm gwnaeth yn finiog, ac yn dra

llym i'r brodyr. Dangosais y rhaid i ni gael ein dysgu gan Dduw yn yr oll ag a geisiwn ddysgu i'r bobl, onide nas gallwn lefaru gydag awdurdod, a bywyd, a hyfdra; y dylem ddeall ein perthynas â holl greaduriaid Duw, â phawb dynion, ac â phawb credinwyr, gan weled ein bod wedi ein geni i'r byd cynddrwg a'r diaflaid; pan fyddom yn myned gerbron y bobl, ein bod yn wynebu ar greaduriaid sydd yn farw mewn pechod, y rhai na effeithia geiriau na rhesymau fwy arnynt na phe y ceisiem dyllu careg â bys, oddieithr i Dduw lefaru wrthynt a'u dwysbigo; y dylem benderfynu peidio myned at y bobl heb Dduw, a gofalu, gwedi myned, am gadw ein llygaid yn sefydlog ar Dduw; oblegyd pan fyddom yn myned yn y cnawd, os canfyddwn yn y gynulleidfa ŵr doeth a phrofiadol, ni a anghofiwn y bobl, gan gyfeirio ein holl ymadroddion ato ef, a cheisio gosod ein hunain yn iawn yn ei syniad ef, ac felly anghofio yr Arglwydd. Yna dangosais fel yr oedd y bobl wedi syrthio i drwmgwsg, fel, er eu bod yn teimlo tan weinidogaeth y Gair, nad ydynt yn eu bywydau yn cydnabod yr Arglwydd, ac na dderbyniant gerydd. Sylwais y byddai yn well i ni beidio pregethu, oni wneir ni yn effeithiol i ddwysbigo ac argyhoeddi. Cyfeiriais at falchder—balchder mewn dillad—ein dull o geisio ei guddio, ac fel yr ydym yn gaethion iddo. Yr oedd nerth mawr yn ein mysg. Yr wyf yn credu y caiff hyn ei fendithio iddynt, ac i'r ŵyn. Gwelais ddarfod i'r Arglwydd fy anfon gyda'r genadwri hon atynt. Yna, gwedi trefnu dydd o ymostyngiad, a phenderfynu ein cylchdeithiau, aethum, o gwmpas wyth, tua Llangamarch." Pregethodd yno gyda nerth mawr, ac aeth i dŷ Mr. Gwynn i gysgu.

Yr wythnos ganlynol aeth ar daith i ranau o Fynwy a Morganwg, er mwyn, yn un peth, bod yn bresenol yn Nghymdeithasfa Watford; ac, fel y dengys y dydd-lyfr, er mwyn cadarnhau y cynghorwyr. Yr oedd y cyffro a'r anesmwythder a ffynai yn eu mysg yn gwasgu yn drwm ar ei feddwl. Meddai: "Yr wyf yn teimlo fy enaid yn crynu oblegyd y cynghorwyr; y mae hunangais yn cynyddu yn eu mysg, a thlodi yspryd yn darfod, a gwybodaeth y pen yn dyfod yn mlaen. O fy Nuw, dwg ni i'th ddysgeidiaeth di, fel y gwelom ac y gogoneddom di, ac y deuwn yn debyg i ti. Byddai yn beth arswydus i'r Methodistiaid adael yr Arglwydd ar ol cymaint a wnaeth efe iddynt. Eithr y mae fy Arglwydd yn dyner wrthyf yn y dydd hwn o brawf. Yr wyf yn cael mai yr hyn yn unig a geisiant yw, ordeiniad, disgyblaeth, a chynulleidfaoedd. O, ai nid ydynt yn hyn yn debyg i'r Israeliaid a geisient frenin er mwyn bod fel y cenhedloedd eraill?" Wedi pregethu yn Cantref, Dolygaer, Llanheiddel, a New Inn, cyrhaeddodd Watford y nos cyn y Gymdeithasfa. Yr oedd yma o fewn dwy filltir i'r Groeswen, canolbwynt y cyffro am ordeiniad, o'r hwn le hefyd yr anfonasid y llythyr i Gymdeithasfa Cayo. O angenrheidrwydd, felly, rhaid fod awydd y cynghorwyr am gael eu hordeinio, a'r cynhwrf yn nglyn â hyny, yn uchaf ar feddwl pawb a ddaethai yn nghyd; a rhaid i'r mater gael ei drafod. Cymerodd Harris fantais ar bresenoldeb llawer o'r brodyr i drin y pwnc yn flaenorol i gynulliad ffurfiol y Gymdeithasfa, gan draethu yn helaeth ei syniadau ei hun, ac ateb rhesymau a gwrthddadleuon. Caiff y dydd-lyfr adrodd yr hanes: "Wrth ymddiddan â'r brodyr, dywedais fy mod yn gwahaniaethu oddiwrthynt mewn tri pheth. Yn mlaenaf, nad oeddwn erioed wedi edrych ar y seiadau fel eglwysi, ond fel canghenau bychain o Eglwys. Yn nesaf, nad oeddwn wedi edrych ar y cynghorwyr fel gweinidogion i weini yr ordinhadau, na, gyda golwg ar lawer o honynt, fel rhai i gyfranu y Gair yn y ffordd o bregethu, ond mewn ffordd o gynghori. Yn drydydd, nad oeddwn wedi edrych arnom erioed fel sect, ond fel pobl o fewn i'r Eglwys, wedi ein galw er mwyn diwygiad, hyd nes naill y gwrandewir ni neu y troir ni allan. Dangosais y rhaid i bwy bynag a elwir i lafurio fel diwygiwr gael cariad cryf i ddyoddef llawer. Dywedais fod yr holl anesmwythder hwn, yn ol fy marn i, yn codi yn—

"I. Oddiwrth Satan yn gweithio yn ddirgel i geisio ein rhanu. Fy rhesymau ydynt y rhai canlynol: (1) Nis gallaf gredu fod y petrusder (gyda golwg ar gymuno yn yr Eglwys) wedi cael ei gynyrchu gan Dduw, gan na ddaeth yr amser eto i'w symud, na gweithredu yn ei ol. (2) Am y rhai ddarfu ildio i'r petrusder hwn, fel pe yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd, nid ydynt wedi llwyddo. (3) Nis gallem gyduno â'r Ymneillduwyr pe yr ymunem â hwy, oblegyd eu Baxteriaeth mewn athrawiaeth, a'u clauarineb fel proffeswyr, tra y byddent hwy yn edrych arnom ni fel rhai urddasol, ac na chaem awdurdod yn eu mysg i fyned yn mlaen â gwaith y diwygiad. (4) Fod


y syniad am fyned allan fel sect wahaniaethol yn arswydus i mi.

"II. Yr wyf yn meddwl fod y petrusder hwn yn codi hefyd oddiar hunan. Rhesymau: (1) Y maent yn meddu cryn gredin-iaeth yn eu gallu i ddeall yr Ysgrythyr. (2) Nid ydynt yn teimlo pwysfawredd y gwaith yn dyfod yn ddigon dwys ar eu heneidiau. (3) Nid ydynt yn gweled canlyniadau yr hyn a geisiant.

"III. Yr wyf yn credu y dangosai yr Arglwydd y dymunoldeb o hyn i'r rhai y mae wedi egluro mwyaf o'i feddwl, ac y dechreuai yr ymraniad (oddiwrth yr Eglwys) trwy y rhai y mae wedi, ac yn, rhoddi mwyaf o amlygrwydd o hono ei hun. Mewn atebiad i wrthddadleuon, dywedais: (1) Nad oedd neb wedi gadael eglwys sefydledig hyd nes y caent eu gwthio allan, megys yr apostolion oddiwrth yr Iuddewon, a'r Protestaniaid oddiwrth y Pabyddion; a bod y diweddaf wedi derbyn yr ordeiniad a'r ordinhadau oddiwrth y Pabyddion am gan' mlynedd cyn ymffurfio yn eglwys. (2) Pan y gwrthddadleuid nad oedd yn debyg y byddai i lawer o'r cynghorwyr gael eu hordeinio gan yr Eglwys Sefydledig, oblegyd diffyg gwybodaeth o'r ieithoedd, atebais, pan yr agorid y drws i ni y rhaid i hyny gymeryd lle trwy i'r Arglwydd agoryd calon (yr Esgobion) i ordeinio o herwydd cydwybod, ac nid glynu wrth ffurfiau; neu ynte rhaid iddynt ein gwthio o'u mysg. (3) Dangosais, gyda golwg ar ordeiniad, er fod llawer yn ein mysg yn ei ddymuno, na ystyrid ef yn beth o bwys mawr yn nyddiau yr apostolion. Pan y pregethai Apolos, na anghymeradwyir ef am fyned o gwmpas heb ei ordeinio, ond am ddiffyg goleuni i adnabod Crist. (Ni roddid pwys ar ordeiniad) ychwaith yn nghlyn â'r rhai a elent o gwmpas pan laddwyd Stephan. Gwrthddadl: Ond adeg erledigaeth oedd hyny. Ateb: Felly y mae yn awr, pan yr ydym ni yn ceisio cael ein hordeinio.

"Lleferais fy meddwl, a meddwl y brawd Rowland, gyda golwg ar y cynghorwyr, fy mod wrth weled y fath falchder, a'r fath ansefydlogrwydd yn rhwym wrth lawer o honynt, yn crynu drostynt; ac hefyd gyda golwg ar y bobl gyffredin, eu bod yn syrthio i gwsg, o ddiffyg rhai i bregethu iddynt fywyd ffydd, ac i ddangos mai yr hyn sydd o bwys ydyw, nid beth y maent yn ei deimlo, ond beth y maent yn ei wneyd. Yr wyf yn credu i'r Arglwydd fendithio ein dyfodiad yn nghyd yn rhyfeddol, a thuhwnt i'm dysgwyliad. Cafodd y brodyr fwy o gariad, gostyngeiddrwydd, ac ymddarostyngiad nag a ddysgwyliwn, gan ei gymeryd yn garedig fy mod yn dweyd fy marn am danynt, ac yn dangos na lwyddent os aent yn mlaen (gyda mater yr ordeiniad); ond y profai hyny, yn fy marn i, yn fwy o rwystr i'r gwaith na dim a ddigwyddasai hyd yn hyn. Dywedais fy meddwl hefyd gyda golwg ar ffurf o addoliad, y buasai yn dda genyf pe bae un yr Eglwys yn cael ei ddiwygio, a'i ddefnyddiad yn cael ei adael at farn y gweinidog. Atebais wrthddadl arall hefyd, gan ddangos nas gallai ordeiniad gadw dynion cnawdol rhag ymaflyd yn y gwaith."

Yr oedd hwn tuhwnt i ddadl yn gyfarfod pwysig; ac ymddengys i Howell Harris ei hunan, heb gymhorth neb o'i frodyr, orchfygu y wanc am ordeiniad a ffynai yn mysg y cynghorwyr. Ei brif resymau dros beidio ymneillduo oeddynt yn (1) Ofni nad oedd Yspryd yr Arglwydd yn arwain hyn, ac felly y profai y peth yn rhwystr mawr ar ffordd y diwygiad. (2) Gobaith yr etholid esgobion llawn cydymdeimlad â'r diwygiad, y rhai a ordeinient y rhai mwyaf galluog a chymhwys o'r cynghorwyr, heb roddi gormod o bwys ar ddysgeidiaeth ddynol. Nid rhyfedd ei fod ar ei ben ei hun yn ymostwng gerbron Duw am yr anrhydedd a rodded arno, a'i fod yn gweled teyrnas Satan yn cwympo i'r llawr. Yn y Gymdeithasfa, dranoeth, yr oedd pob peth yn gysurus. Anerchodd Harris y cynghorwyr gyda grym; penderfynasant hwythau i adael i'r mater mewn dadl syrthio, a myned yn mlaen fel cynt. Eithr cydunwyd i dynu i fynu bapyr yn egluro eu holl achos, i'w gyflwyno i'r esgobion. Y noson hono aeth Harris i bregethu i'r Groeswen, at y rhai oeddent wedi ymneillduo. Ei destun oedd yr ymadrodd yn Llyfr y Datguddiad: "Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf;" a chafodd odfa anghyffredin. A defnyddio ei eiriau ef ei hun, daeth yr Arglwydd i lawr. "Holl ddymuniad fy enaid," meddai, "oedd am i'r Arglwydd ddod yno, ac aros yn mysg y bobl, gan nad yw geiriau, na mater, na dyrchafu y llais, nac wylo, yn ddim heb Dduw. Cefais ryddid mawr i ddangos sut y mae Iesu Grist y cyntaf, a'r nerth sydd yn hyn i orchfygu ofn; ei fod y cyntaf o flaen dynion, os oes arnom ofn dyn; y cyntaf o flaen y diaflaid; a'r cyntaf o flaen pechod. Y gallai yr Iesu ddweyd: 'Mi a wn ddechreu dyn, a dechreu Satan, a dechreu pechod; mi a wn eithaf eu gallu,



PHOTOGRAPH O LYTHYR RICHARD TIBBOT AT HOWELL HARRIS, AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH EI BRIOD.

[*Gwel tudalen 213.*

a'u cyfrwysdra; mi a allaf blymio eu gwaelodion.' Yna, dangosais y modd yr oedd y diweddaf, a'i fod yn cyhoeddi: 'Mi a fyddaf y diweddaf gwedi pechod, a dynion, a diaflaid; mi a arosaf ar y maes hyd nes y byddont oll wedi eu concro; mi a arosaf yn dy enaid i'w lanhau hyd nes y byddo yn berffaith. Yr wyf yn dy enaid, i dy olchi hyd nes y byddot yn lan ac yn bur, heb na brycheuyn na chrychni. Yr wyf ynot i ymladd dy frwydrau, hyd nes y byddo yr holl elynion sydd yn dy amgylchu wedi eu concro. Nac ofna, yn y dydd olaf, pan y bydd y cyfan yn cael ei losgi gan dân; mi a fyddaf y diweddaf. Myfi, yr hwn sydd wedi dy garu, a'r hwn wyt tithau yn garu; myfi, yr hwn wyt yn ddymuno uwchlaw y cwbl, a'r hwn yr wyt wedi gadael pob peth er ei fwyn; myfi a fyddaf yno, y diweddaf. Yr wyf wedi bod yn farw, mae yn wir; mi a orphenais dy iachawdwriaeth ar y groes; disgynais i'r dyfnder i orchfygu angau a Satan; ond er i mi farw, yr wyf yn fyw.'" Erbyn hyn, yr oedd yn lle ofnadwy yn y cyfarfod, a'r bobl wedi cyfodi fel gallt o goed ar eu traed. Ond y mae y pregethwr yn myned yn mlaen i gymhwyso'r athrawiaeth. "Dyma ddigon," gwaeddai: "Y mae'r Iesu yn fyw! Dowch yn awr, dyrchafwch eich llygaid at y gwaed! Edrychwch, a chwi a welwch gastell marwolaeth wedi ei ddymchwelyd, y llew wedi ei gadwyno a'i goncro, uffern wedi ei gorchfygu; chwi a gewch weled goleuni yr ochr hwnt i angau.' Yr oedd y pregethwr yn awr yn feistr y gynulleidfa; yr oedd yn llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glân, a phob gair a lefarai yn cyrhaedd hyd adref. Yna, aeth yn mlaen i daranu yn erbyn gelynion Crist, y Sosiniaid, yr Ariaid, y Deistiaid, y Pab, ac uffern, a gorphenodd y bregeth trwy eu hanog oll i ymostwng i'r Gwaredwr. "Cefais nerth rhyfedd," meddai; "yr oedd fy enaid yn rhydd, ac yn llawn o ffydd, o oleuni, ac o Ysbryd yr Iesu. O mor ogoneddus yw y goleu hwn!" Nid annhebyg fod a fynai y nerthoedd a deimlid yn yr odfa yn dwyn gwell ysbryd i mewn i fysg y cynghorwyr, lawn cymaint ag ymresymiadau Howell Harris yn y Gymdeithasfa.

O Watford, aeth Harris tua'r Aberthyn, yn dra dedwydd ei feddwl, gan adael y cynghorwyr, a gawsent eu ceryddu ganddo, yn iselfrydig o yspryd. Ei destun yma oedd Es. xx. 2, 3, a chafodd gryn nerth i ddangos beth a wnaethai yr Arglwydd erddynt, ac fel yr oeddynt hwythau yn myned yn mlaen i buteinio oddiwrthi. Yn y seiat a ddilynai, bu y pwnc o ymadael a'r Eglwys dan sylw, ac yr oeddynt oll yn unfryd i beidio ymwahanu. Dydd Sadwrn, aeth i St. Nicholas. Clywodd yma fod y *press gang* allan, a llawenychai ei enaid o'i fewn wrth feddwl am y peryglon ar ba rai yr oedd ei wyneb. Yn eglwys Wenfo, yr oedd clerigwr tra efengylaidd, ac yn ol ei arfer, pan fyddai yn y gymydogaeth, aeth Harris yno y Sul i wrando y Gair, ac i gyfranogi o'r sacrament. Yna, cyfeiriodd ei wyneb tua chartref, gan basio trwy Watford, a phregethu, gydag arddeliad, yn Mynyddislwyn, Gelligaer, a Pontsticyll, a chyrhaeddodd adref erbyn y cyntaf o Fai, yr hwn oedd yn ddydd o ymostyngiad ac ympryd, yn ol trefniad y Gymdeithasfa. Yn mhen ychydig ddyddiau derbyniodd lythyr o Lundain, yn ei alw i fynu, gan fod llawer o faterion pwysig yn galw am eu trefnu, a Whitefield o hyd yn America. Lledodd yntau y llythyr gerbron yr Arglwydd; teimlai ei fod yn gyfangwbl at ei wasanaeth ef, fel clai yn llaw y lluniwr; a theimlai yn anrhydedd i fyned, os oedd Duw yn ei alw. Cyn cychwyn tua'r brifddinas, modd bynag, cymerodd daith faith trwy Orllewin Morganwg, gan ymweled â Llansamlet, a gwlad Browyr; trwy ranau o Sir Gaerfyrddin, ac aeth mor bell a'r Parke, yn Sir Benfro. Yr hyn a'i dygodd yma oedd cydymdeimlad a'i anwyl gyfaill, Howell Davies, yr hwn oedd mewn dyfroedd dyfnion oblegyd colli ei briod. Wedi treulio Sabbath yn Llanddowror, gyda yr Hybarch Griffith Jones, dychwelodd Harris i Abergorlech, lle y cynhelid Cymdeithasfa Fisol. Yno pregethai Daniel Rowland. Cafodd afael ryfedd ar weddi ar y dechreu. Meddai y dydd-lyfr: "Yr anwyl frawd Rowland a weddïodd yn rhyfeddol. Pan aeth i ddeisyf ar ran y genedl, ac i alw Duw yn ol i breswylio yn ein mysg, llanwyd y lle gan bresenoldeb yr Arglwydd. Yr wyf yn teimlo yn sicr i'r weddi hon fyned ar ei hunion i'r nef." Testun Rowland oedd, 2 Cor. vii. 1; a'i fater ydoedd, fod athrawiaeth rhad ras yn ddinystriol i bechod. Yr oedd yr Arglwydd yn y lle mewn modd anarferol iawn. Nid oes unrhyw gofnod o'r Gymdeithasfa ar gael, ond yr hyn a gronicla Howell Harris yn ei ddydd-lyfr. Meddai: "Eisteddais gyda'r brodyr yn hwyr, am fod gwarant i bressio allan. Holasom ein gilydd gyda

golwg ar ein parodrwydd i fyned i'r rhyfel; yr oedd pob un yn foddlawn, os cai ei alw; ond penderfynasom fod yn synwyrol a chall. Cydunasom i fod yn fwy trefnus yn ein teithiau, fel y caffai yr ŵyn well porthiant. Cawsom lawer o gariad, a chymundeb yspryd." Dychwelodd adref trwy Glanyrafonddu, a Llanddeusant. Ymddengys nad oedd meddwl Harris ei hun ddim yn hollol esmwyth gyda golwg ar y penderfyniad i aros yn yr Eglwys Sefydledig; cyfeiria ato amryw droiau yn ystod y daith; ac wedi dychwelyd i Drefecca, y mae nodiad pur hynod yn y dydd-lyfr: "Gweddïais yn daer ar i'r Arglwydd ddychwelyd i'n mysg; ond pan y cefais atebiad ffafriol gyda golwg ar y gwaith, ni chefais ddim yn ffafr y Sefydliad, yr esgobion, a'r clerigwyr, er fy mod yn dadleu llawer o'u plaid." Yn sicr, y mae y geiriau yn arwyddo cryn anesmwythder yspryd.

Tua chanol Mai, cawn ef a Mrs. Harris yn cychwyn am Lundain. Nid oedd yn ddibryder gyda golwg ar yr achos yn Nghymru yn ystod ei absenoldeb; "ond," meddai, "cefais ffydd i gyflwyno yr holl lafurwyr i'w ofal ef, gan fy mod i yn myned i'w gadael am ychydig, a llefais ar i'r Arglwydd fod yn ddoethineb, ac yn nerth iddynt, a'u galluogi i sathru Satan dan eu traed." Erbyn cyrhaedd y brif-ddinas, cafodd fod y cymdeithasau yno mewn stâd dra annhrefnus; ymraniadau a dadleuon wedi dod i mewn i'w mysg, a chwestiynau wedi codi parthed purdeb buchedd rhai o'r aelodau. "Yr wyf yn clywed y fath bethau yma, ac yn gweled y fath ymraniadau, fel nas gwn beth i'w wneyd nac i'w ddweyd," meddai. "Y mae yn dda i mi mai Crist yw fy holl ddoethineb a'm nerth; yr wyf yn gweled fy mywyd a'm hiechyd yn ei law. O, pa fodd yr ymddygaf yn y dydd hwn o brawf." Un Mr. Cudworth oedd wrth wraidd y drwg, sef yr un ag a fuasai yn cynhyrfu yn flaenorol yn Mryste. Nid yn unig yr oedd wedi dwyn dadleuon i mewn am natur cyfranogiad yr enaid o gyfiawnder Crist, ond yr oedd rhyw helynt flin wedi codi gyda golwg ar ei gymeriad personol, a chyhuddid ef o ryw anfoesoldeb na enwir. Credai Harris am dano na chawsai erioed ei aileni, a'r diwedd a fu tori pob cysylltiad ag ef. Tua phythefnos y bu Mr. a Mrs. Harris yn Llundain, ac ymddengys iddo fod yn nodedig o lwyddianus yn mysg y brodyr Saesnig i wastadhau eu hymrafaelion, a'u dwyn at eu gilydd. Nis gallwn ddifynu y dydd-lyfr am yr yspaid hwn, er y cynwysa hanes manwl a dyddorol, ond y mae ynddo un nodiad tra arwyddocaol. "Neithiwr," meddai, "datgenais mai un gofal yn unig a arferai fod arnaf pan yn esgyn i'r pwlpud, sef ar i bawb yn y cyfarfod gael lles trwy fy ngeiriau, ac ar i Grist gael ei ddatguddio i bawb; ond yn awr fod arnaf bryder gyda golwg ar beth arall, sef ofn rhag i mi dramgwyddo rhyw rai. Ac os gwelaf amryw o blant Duw yn dyfod i wrando gyda chlustiau gochelgar, yn unig er mwyn gweled a ffaelaf, y mae yn brawf dolurus fy mod yn methu credu eu bod yn ceisio fy nghynorthwyo, a dal fy mreichiau i fyny â'u gweddïau. O mor boenus yw dadleuaeth! Mor falch ar bob cyfrif a fyddwn i gael myned i neillduaeth, oni bai mai yr Arglwydd ddarfu fy ngalw yma." Awgryma y nodiad fod rhai o'r frawdoliaeth, yn Llundain, yn dechreu amheu a oedd Harris yn iach yn y ffydd, ac yn myned i'w wrando gyda y bwriad o'i ddal yn tripio. Bu ef a'i briod am gryn amser tua Bath a Bryste ar eu ffordd adref, ac yr oedd yn Fehefin 26, pan y cyrhaeddasant Drefecca.

Llonwyd calon Howell Harris yn fawr wrth ddeall fod y gwaith da wedi myned rhagddo yn Nghymru yn ystod ei absenoldeb. Clywai yn arbenig am y nerth oedd yn cydfyned a gweinidogaeth Howell Davies, ac enynodd ei enaid yn fflam ynddo o'r herwydd. "Llonwyd fy yspryd," meddai, "â diolchgarwch, ac hefyd â chariad ato, ac at bob tyst sydd gan Dduw yn y byd. O ddaioni fy Arglwydd, yn fy mendithio fel pe na byddwn un amser yn pechu yn ei erbyn! Tynwyd fy enaid allan mewn llawenydd oblegyd y doniau, y grasau, y llwyddiant, y doethineb, a'r nerth y mae yn roddi i eraill." Yn sicr, ceir yma ryddfrydigrwydd yspryd na welir yn aml ei gyffelyb. Yn fuan clywodd fod dyn yn dyfod y dydd hwnw o Aberhonddu, er ei gymeryd, a gwneyd milwr o hono. Teimlai nerth ei natur lygredig fel y gwelwodd wrth glywed y newydd. Ond aeth i'r dirgel; yno cafodd olwg ar ogoniant yr Arglwydd Iesu Grist, fel un a phob awdurdod yn ei law. Gwelai fod y diaflaid, a phob math o ddrwgddynion, ac yn eu mysg y dyn â'r warant, o Aberhonddu, mewn cadwyn ganddo ef. Llanwodd hyn ei yspryd a thangnefedd. Gwelai werth yr addewidion, yn neillduol yr addewid, "Pan elych trwy y dyfroedd myfi a fyddaf

gyda thi,' fel y galluogwyd ef, nid yn unig i fod yn dawel o ran ei feddwl, ond hefyd i gysuro ei deulu. Eithr ystori gelwyddog oedd y chwedl yn y diwedd; neu, os oedd y cyfryw ddrwgfwriad yn mryd y gwrthwynebwyr, ni roddwyd mo hono mewn grym.

Ar y 3ydd dydd o Orphenaf cynelid Cymdeithasfa Chwarterol, yn Blaenyglyn. Nid oedd Daniel Rowland yno, eithr daethai Howell Davies, a Williams, Pantycelyn, i'r cyfarfod, yn nghyd â'r Parch. John Powell, yr offeiriad, o Fynwy. Fel y gellid disgwyl, yr oedd Howell Harris hefyd yn bresenol. A ganlyn yw y cofnodau :—

"Wedi derbyn llythyr oddiwrth y brawd George Gambold, gyda golwg ar ei alwad, pa un ai (cynghorwr) cyhoedd neu breifat fyddai, a chwedi deall fod ei ddoniau yn hytrach at adeiladu y saint nag at argyhoeddi, a'i fod wedi cael ei fendithio mewn amryw leoedd yn gyhoeddus, ni a ledasom y mater gerbron yr Arglwydd, ac yna ni a'i cyflwynasom i'r brawd Howell Davies, gan adael iddo benderfynu yn mha leoedd y caffai lefaru yn gyhoeddus, ac yn mha leoedd yn breifat, a hyny ar brawf hyd y Gymdeithasfa nesaf.

"Gwedi derbyn dau lythyr, un oddiwrth y brawd John Richards, a'r llall oddiwrth y brawd Richard Tibbot, y rhai oeddynt mewn cryn betrusder pa fodd i ymddwyn ar hyn o bryd, gan y byddent yn sicr o gael eu pressio pe yr aent i rai lleoedd yr arferent fyned iddynt, ac yn gofyn am gyfarwyddyd, ai nid gwell iddynt roi eu hunain y tuhwnt i gyrhaedd gelynion, trwy gymeryd trwydded, cydunasom oll y byddai cymeryd trwydded, yn bresenol, yn ddianrhydedd i'r Arglwydd, yr un fath ag y byddai gadael y gwaith. Meddyliem, felly, mai gwell i'r rhai sydd allan o afael y gelyn fyned i'r lleoedd mwyaf peryglus, a'r lleill fyned yn fwy preifat, gan arfer pob doethineb diniwed, am mai prawf am amser ydyw hwn, ac na ddylai gael edrych arno fel erledigaeth. Ond am y brawd William Richard, yr oedd efe a'i feddwl mor llawn o amgylchiad Daniel fel y teimlai ei hun dan rwymau i fyned fel cynt. Cydunasom hefyd, os deuai yr erledigaeth yn gyffredinol, a'r efengyl yn cael ei rhwystro yn hollol, i apelio at y llywodraeth. Os gwrthodir ni yno, i ddeisebu yr esgobion; yna, os cymerir ein rhyddid ymaith yn gyfangwbl, bydd y ffordd yn rhydd i ymwahanu.

"Darllenwyd adroddiadau y brodyr, y rhai a ddygent newyddion da am lwyddiant yr efengyl yn y rhan fwyaf o leoedd; y brodyr Thomas James a Thomas Williams, heb ysgrifenu adroddiad.

"Cydunwyd fod i'r brodyr dderbyn tanysgrifiadau er argraffu llyfr Elizeus Cole, ar 'Benarglwyddiaeth Duw,' yn Gymraeg, hyd y Gymdeithasfa nesaf."

Rhaid fod gwrthwynebiad y brodyr i ymneillduo, ac i ymffurfio yn blaid, yn gryf, pan y dewisent gymeryd eu llusgo o fynwes eu teuluoedd, a'u rhwygo oddiwrth y cymdeithasau oedd mor anwyl ganddynt a'u llygaid, yn hytrach na gosod eu hunain allan o gyrhaedd y perygl, trwy gymeryd trwydded i bregethu, a thrwy hyny gyfaddef eu hunain yn Anghydffurfwyr. Gweddus cadw mewn cof hefyd fod y rhai a basient y penderfyniad uchod yn agored i'r ddryc-hin eu hunain. Disgwyliai hyd yn nod Howell Harris bob dydd i'r awdurdodau anfon gwarant i'w gymeryd. Yn ychwanegol, yr oedd amryw o'r cynghorwyr a gawsent eu pressio yn barod yn bresenol yn y cyfarfod, wedi cael caniatad i ymweled â'u brodyr; ac am beth amser buont hwy a'r lleill yn cydgymysgu eu dagrau, ac yn cyd-ddyrchafu eu hocheneidiau at Dduw. Y rhai y cyfeirir atynt, fel allan o berygl, oedd y rhai a gawsant eu hordeinio, naill ai yn yr Eglwys Sefydledig, neu yn ol trefn yr Ymneillduwyr. Tybiai Howell Harris mai y dull goreu i ddwyn y cyfarfod i deimlad o ymddiriedaeth tawel oedd cyfeirio at wirioneddau tragywyddol yr iachawdwriaeth. "Cyfeiriais," meddai, "gyda grym at berygl ein synwyr ein hunain, ac at ddirgelwch y Duwdod, nad yw yn bosibl ei ddirnad ond trwy ffydd yn ngoleuni yr Yspryd. Dangosais fel y mae fy llygaid yn dechreu cael eu hagor i ganfod mawr ddirgelion y Duwdod. Yn (1) Y Gair yn cael ei wneuthur yn gnawd. (2) Y Trindod mewn undod. (3) Gwirioneddolrwydd yr undeb rhyngom a Christ. Credaf i hyn brofi yn foddion i gyffroi y brodyr allan o'u doethineb eu hunain, i dremio ar y dirgeledigaethau dwyfol; ac yn arbenig cynhyrfwyd hwy wrth edrych ar y gwaed. Yno yr ydym yn gweled y Tad, y Mab, a'r Yspryd. Yno yr ydym yn canfod cariad tragywyddol Duw. A daeth yr Arglwydd i lawr, ac yr oeddym yn ddedwydd yn nghyd.' Byddai yn anhawdd cael gwell engrhaifft nag a geir yma o saint yn ymddiried yn yr Arglwydd, ac yn

nghadernid ei allu ef, nes yr oedd ofn perygl yn cael ei lyncu o'r golwg gan fawredd y tra-ragorol ogoniant sydd yn Nuw.

Ar y 16eg o Orphenaf, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Erwd, ac a ganlyn yw ei chofnod: "Yn y Gymdeithasfa hon, ni phenderfynwyd dim neillduol, ond treuliwyd yr amser mewn canu, a gweddïo, ac agor ein calonau i'n gilydd gyda golwg ar ansawdd y gwaith, ac ystâd yr Eglwys a'r genedl. Buom yno am rai oriau, a daeth Duw i'n mysg, gan ein dal i fynu."

Tua diwedd y mis, aeth Harris am daith i Sir Forganwg, hanes pa un a ddifynwn allan o'i ddydd-lyfr:—

"TREFECCA, Sul, 28 Gorphenaf, 1745. Gan mai heddyw yr wyf yn dechreu fy nhaith trwy Sir Forganwg, syrthiais gerbron yr Arglwydd, a chefais agoshad nodedig ato wrth ofyn ar ran fy anwyl wraig, a'm teulu. Atebodd fi y cawn ei gweled drachefn, a'i derbyn o law marwolaeth, fel y gwnaethwn y boreu hwn wrth ddihuno. Cefais ryddid i ddeisyf gyda golwg ar fy nhaith, am i mi gael fy mendithio, a chael fy ngwneyd yn fendith i bawb, pa le bynag yr af. Wedi gweddïo gyda'r teulu, cychwynais. Pan gyrhaeddais Cantref, yr oedd y brodyr yn dyfod allan o'r eglwys. Siriolwyd fi yn fawr wrth eu cyfarfod; a fflamiwyd fy enaid ynof wrth glywed pa mor dda yw efe i'r brodyr sydd wedi cael ei pressio. Ar y ffordd tua Watford, cefais gryn agosrwydd at Dduw wrth ganu, ac wrth folianu ei enw am y trugareddau a roddasai i eraill. Daethum yno o gwmpas saith, gwedi trafaelu oddeutu deugain milltir mewn wyth awr. Yno, mi a lewygais gerbron y bobl ar derfyn y weddi; gwedi dyfod ataf fy hun, lleferais oddiar yr ymadrodd: 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.' Cefais ryddid mawr wrth gyfeirio at undeb y naturiaethau, ac at waed y Duwdod. Daeth y nerth i lawr yn benaf wrth fy mod yn cymhwyso yr athrawiaeth, gan ddangos fel y mae y ddynoliaeth yn Nghrist wedi ei huno â Duw, felly yr ydym ninau ynddo wedi ein huno â Duw. Cefais gymorth i egluro yr undeb hwn, fel y mae yr enaid a'r corph yn un â Christ, ein henaid ni yn un a'i eiddo ef, a'n corph ni a'i gorph ef. Yna, cyfeiriais ataf fy hun, er i dân losgi fy nghorph, ac i bryfed ei fwyta, eto y cawn ef drachefn yn ogoneddus. Cefais ryddid mawr i'w cyffroi i fyw yn ngolwg Crist, ac i gadw yn agos ato."

Bwriedid cynal Cymdeithasfa yn Watford, am yr hyn y ceir y nodiad canlynol yn Nghofnodau Trefecca: "Bwriadem gynal Cymdeithasfa, ond yr oedd y brawd Price wedi myned i Sir Gaerfyrddin, ac nis gallem gael cyfarfod a'r brawd Richard Jones, yr hwn yr oedd pob moddion wedi eu defnyddio tuag ato, er ei ddiwygio oddiwrth ei ddiofalwch, a'i esgeulusdra gyda'r gwaith. Dymunwyd arno drachefn i beidio llefaru yn gyhoeddus hyd nes y caffai ei adnewyddu drachefn trwy edifeirwch, a phenderfynodd y brodyr i beidio anfon am dano hyd nes y byddo achos Duw yn pwyso mwy ar ei galon."

Ond i ddychwelyd at y dydd-lyfr: "WATFORD, dydd Llun. Heddyw, gwelais ddirgelwch y gwaed yn fwy nag erioed; yr oedd gerbron fy llygaid trwy y dydd. Gwelwn fy holl iachawdwriaeth, a'm nerth, a'm ffynon i ymolchi, fel môr yn llifo allan oddiwrth Dduw, yn rhinwedd yr undeb dirgeledig; ac felly fod ei gwraidd yn Nuw. Llefwn am i ogoniant y gwaed a'r cyfiawnder yma gael ei amlygu trwy yr holl fyd, gan fod pob gwirionedd yn cyfarfod ac yn canolbwyntio yn y gwirionedd hwn—y Gair wedi ei wneuthur yn gnawd. Cefais ryddid i ddangos i'r brawd Thomas William mai Duw yw y pen saer celfydd; mai efe sydd yn gwybod i ba le yn yr adeiladaeth y mae pob un yn gymhwys; ac hyd nes y byddo pawb yn y lle a fwriada efe iddynt, mai gwanhau, ac nid cryfhau, yr adeilad a wnant." Tebygol fod cyfeiriad y sylwadau hyn at awydd cynghorwyr y Groeswen am ordeiniad, fel y byddai ganddynt hawl i weini yr ordinhadau, ac felly sefyll ar yr un tir a gweinidogion Ymneillduol. "Datgenais fy syniad fy mod yn gweled rhyw gymaint o Dduw yn mhob ffurf ar addoliad—Esgobyddiaeth, Presbyteriaeth, ac Annibyniaeth—a rhyw gymaint o'r dyn hefyd, efallai. Geill pob un o honynt fod yn iawn ar ambell adeg, mewn rhai lleoedd, a than ryw amgylchiadau; ond nis gall un o honynt fod mor gyffredinol iawn, fel ag i beidio goddef y lleill. Y mae gwahaniaeth mawr hefyd rhwng pan fyddo y brenin a'r llywodraethwyr yn Gristionogion, a phan fyddant yn elynion Crist.

"Daethum yn fy mlaen i Dinas Powis. Cefais lawer o ryddid wrth weddïo, ac wrth lefaru ar Matt. i. 21. Yr oeddwn wedi cael awdurdod i drywanu, i ddeffroi, ac i argyhoeddi. Dangoswn fel yr oedd Duw yn cashau pechod, ei fod wedi dyfod i'w

ddinystrio, wreiddyn a changen; a pha le bynag y byddo Yspryd yr Arglwydd, yno y bydd rhyfel, hyd nes y byddo pechod wedi ei orchfygu. Dangosais sut y mae yn ei ddinystrio, trwy ddatguddio y gwaed. Yma yr oeddwn yn cyrhaedd i'r byw. Llefarais mewn modd argyhoeddiadol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddatgan mai fy ngwobr i am fy llafur oedd eu gweled hwy yn rhodio gyda Duw. Er fy mod yn wan, yn sâl, mewn poen, ac yn mron llewygu, siaradais yn breifat hyd adref am rodio yn sanctaidd, am gadw dysgyblaeth, am dori allan pwy bynag sydd yn rhodio yn anweddaidd, a rhwystro pawb i gynghori oni fydd arwyddion fod y gwaith ar eu calonau. Cefais ryddid mawr gyda y rhan hon hefyd. Deallais fod y gelyn yn ceisio fy nuo, a gwanhau fy mreichiau, trwy daenu ar led fy mod wedi syrthio i gyfeiliornadau. Yn hyn hefyd cefais fy nghadw yn dawel a diolchgar, er yn nghanol poen.

"DINAS POWIS (dydd Mawrth). Neithiwr cadwyd fi yn agos at yr Arglwydd, yn mhell uwchlaw'r cnawd, yn fy mhoenau i gyd. Yr wyf yn cael fod y brawd Wesley, yn nghyd â'r brodyr, yn fy narlunio fel wedi syrthio i gyfeiliornadau. Yn hyn yr wyf yn llawenychu, eu bod yn fy ngwneyd i yn ddim, gan fy yspeilio o fy enwogrwydd, ac o'r eneidiau (a argyhoeddwyd drwof), fel y byddo i'r Person rhyfeddol sydd fry gael ei ddyrchafu. Llefais: 'O Arglwydd, na chofier fi, ond i'r graddau y byddot yn defnyddio y cof am danaf, er lledu dy foliant di. Dysg bawb i dy adnabod; galluoga ni oll i feddwl ac i lefaru yn iawn am danat ti.' Aethum tua St. Nicholas, rhyw bum' milltir o bellder, mewn poen mawr o herwydd y ddanodd. Gelwais gyda Mr. Hodge, a chefais ef yn llawn cariad. Pan ddaeth yr amser i lefaru, rhoddodd yr Arglwydd nerth ynof i wynebu ar y gwaith, a chefais lawer o awdurdod a goleuni. Yr oeddwn yn llym yn erbyn y rhai a esgusodent bechod, neu a geisient dadogi y bai ar Dduw; dangosais fod gwraidd pob drwg ynom ni, ac yn y diafol. Yr oeddwn yn cyrhaedd i'r byw wrth ddynodi y gwirionedd yn cynyddu yn y pen, ac nid yn y galon. Yn breifat, drachefn, yr oeddwn yn agos iawn parthed chwynu y seiat, a pheidio goddef drygioni ynom ein hunain, nac yn neb arall, onide y byddai i'r Arglwydd ein gadael. Datgenais na wnawn arbed neb, ond y trown allan bawb a rodiai yn anweddaidd, pwy bynag fyddent. Gwrthddadl: Yna, ni a awn yn ychydig. Ateb: Pe na baem ond dau, bydded i ni fod yn nghyd yn yr Arglwydd. Gwrthddadl: Fe â y seiadau i lawr. Ateb: Gadawer iddynt fyned; oni chawn seiadau yn yr Arglwydd, bydded iddynt oll fyned yn ddarnau mân. Yna, gosodais o'u blaen achos Richard Jones; ei fod wedi cael ei ddystewi oblegyd ei ddifaterwch, ac eto, fod rhai yn ei alw i lefaru. Datgenais ei fod wedi tristhau yr Arglwydd, a'i fod yn dangos nad yw achos Duw yn agos at ei galon; ac hyd nes y rhoddir edifeirwch iddo, nas gallaf gydlafurio ag ef, ac na ddeuaf ychwaith i'r seiadau sydd yn ei alw. Yr wyf yn gwneyd hyn o gydwybod tuag at Dduw. Pan ddatgenais felly, llewyrchodd yr Arglwydd yn fy enaid; toddodd fy nghalon ynof yn felus, gan ddwyn tystiolaeth ddarfod i mi ryngu ei fodd ef. Aethum ymaith yn llawn cariad.

"Cyfeiriais fy nhraed tuag Aberddawen erbyn chwech. Yr oedd poen y ddanodd yn mron bod yn annyoddefol, ond gwnaed i fy enaid fendigo a moli Duw o'r herwydd; gwelwn mai gwialen ydoedd, oblegyd fy mod yn crwydro oddiwrth yr Arglwydd, ac yr oeddwn yn caru Duw am dani. Gelwais yn Ffonmon, ond gan mor fawr oedd y boen, nis gallwn aros yma ond ychydig fynydau. Pan ddaethum i Aberddawen, cefais lonydd gan y boen i lefaru i dorf fawr ar, 'Byddwch lawen yn wastadol;' ond trowyd fy ymadrodd i fod yn finiog a llym. Daethum i Pentrythyn, rhyw chwech milltir o ffordd; yr oedd y boen yn dyfod yn mlaen drachefn; teimlwn fy mod wedi cael fy ngwaredu oddiwrth angau, ond O, mor wan a fyddwn mewn poenau oni bai fod genyf Dduw! Cefais ddyoddefgarwch wrth dynu y dant allan; pan yr oedd y boen yn aros drachefn, gofynais feddwl yr Arglwydd gyda golwg ar dynu dant arall; gwedi tynu hwnw allan darfyddodd y poenau.

"PENTRYTHYN (dydd Mercher). Neithiwr, yn Aberddawen, yr oedd llawer o bobl Mr. Wesley yn gwrando, a dywedais ein bod ni a hwythau yn cyduno gyda golwg ar hyn, y rhaid i ni gael ein gwaredu oddiwrth bechod yn y pen draw, a bod y Cristion yn llawenychu yn yr olwg ar hyn; ei fod yn llawenychu hyd yn nod yn nghanol ei alar oblegyd llygredigaethau ei natur, gan fod Duw yn ei garu, yn maddeu iddo, ac yn edrych arno fel yn berffaith yn Nghrist. Y boreu hwn, yn y dirgel, cefais

olwg bellach yn fy yspryd, y rhaid i mi fod ar fynydd Seion, yn nghymdeithas myrddiwn o rai sanctaidd, ac felly, gwelwn fy hun yn estron yma. Aethum o gwmpas un i lefaru yn yr Aberthyn, a chefais odfa anghyffredinol o nerthol wrth bregethu ar, 'Aroswch yn fy nghariad.' Yr oeddwn yn llym wrth y rhai nad oedd a'u holl hyfrydwch yn Nuw. O mor felus yw cael pregethu yn yr Arglwydd! Yr oedd y cynulleidfaoedd yn lliosocach nag arferol yn y rhan fwyaf o fanau. Yna aethum i'r seiat breifat, ac eisteddasom i fynu yr holl nos, hyd yn agos i chwech; a rhyfedd fel y cryfhaodd yr Arglwydd fi yn fy enaid a'm corph. Daeth efe yno; gwnaeth ni fel fflam o dân â'i gariad; cynysgaethodd ni â bywyd, a nerth, a gwres. Yr oeddwn yn llym atynt, na oddefent bechod yn eu mysg, na dim tebyg iddo. Yna cadarnheais eu ffydd yn y gwaith, gan ddangos fod pob arwydd ei fod o Dduw, a'i fod wedi ymledu trwy yr holl wlad, eu hochr hwy a'r ochr arall i'r môr. Am yr wrthddadl fod yr offerynau yn wael, atebais fod hyn yr un fath ag yn amser yr apostolion; ac, yn llaw Duw, fod yr offerynau gwaelaf gystal a'r goreu. Cyfeiriais at ataliad Richard Jones oddiwrth bregethu, oblegyd ei ddifaterwch, ac na oddefai gerydd, gan ddangos y rhaid i ni fod yn un mewn gwrthod ei fath, onide na fydd dim awdurdod yn ein mysg. Yna dangosais, gyda grym, yr anghenrheidrwydd am i bawb gael eu dysgu gan Dduw, a'u llanw o hono, ar gyfer eu lleoedd. Yna, wrth ganu a gweddio, taniwyd ein hysprydoedd; yr oedd yr Arglwydd gyda ni yn wir. Cadwyd fy llygaid yn sefydlog ar y Jerusalem newydd, yr oeddwn yn llawn o deimlad, ac yn awyddu bod yno. Cynhyrfais y brodyr yn erbyn y diafol, gan ddangos fel y darfu iddo ein dinystrio ar y cyntaf, ac fel y mae yn parhau i'n rhanu, ac i'n gwneyd yn annedwydd. Erbyn hyn yr oedd y brodyr yn llawn bywyd. O, gogoniant i Dduw am ddychwelyd atom eto! Cyfeiriais at y dirgelwch mawr; y Gair wedi ei wneuthur yn gnawd, a'r modd y llewyrchodd arnaf gyntaf. Gwedi hyn, cliriwyd amryw achwyniadau oedd ganddynt yn erbyn eu gilydd, ac yr oeddynt yn awr yn hollol rydd oddiwrth y demtasiwn i ymneillduo."

Er mor ddyddorol yw y dydd-lyfr, rhaid i ni frysio yn mlaen. Aeth o'r Aberthyn i Penprysc, ffermdy, nid yn nepell o Lantrisant, lle y pregethodd gyda nerth anarferol iawn, oddiar Matt. xxviii. 18. Toddai y gynulleidfa fel llyn dwfr tan ddylanwad y Gair. Yr un diwrnod (dydd Iau) llefarodd mewn lle o'r enw Hafod, oddiar y geiriau: "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Tybia na chafodd y fath nerth i bregethu erioed o'r blaen. Yr oedd yr Arglwydd yn wir yn y lle. Wylai llawer yn hidl; bloeddiai eraill dan rym argyhoeddiad; cafodd Satan ei glwyfo, a dynoethwyd angau yn ogoneddus gerbron y credinwyr, fel yr wylai Harris ei hun ddagrau melus o lawenydd. Gwaeddai: "Nid wyf yn gofalu pa un a fydd trefn ar fy mhregethu a'i peidio; nid trefn sydd arnaf eisiau, ond gallu." Aeth yn ei flaen i gyfeiriad Castellnedd, a chlywai fod y werinos yno wedi penderfynu ei fobio. Gwingai y cnawd o'r herwydd am ychydig, ond tawelodd Duw ei yspryd yn fuan. Cyn cyrhaedd yno pregethodd mewn lle o'r enw Cwrt Herbert, ar "Byddwch lawen yn wastadol." Cafodd dynerwch mawr yma wrth wahodd yr holl gynulleidfa at Grist. Cafodd lonydd gan werinos Castellnedd. Yn Llansamlet, darfu i oruchwyliwr y tir ar ba un y safai wrth bregethu, gydio yn ei geffyl ef, a cheffylau y cynghorwyr eraill, at y rhent oedd yn ddyledus ar yr amaethwr. Aeth Harris i siarad ag ef; dangosodd yr a'i gwaith Duw yn mlaen er pob gwrthwynebiad. Cynygiodd y goruchwyliwr ei geffyl yn ol iddo, ond iddo addaw na ddeuai yno i bregethu drachefn. Atebai yntau, nas gallai addaw y fath beth am fil o geffylau, nac am ei fywyd. Yr oedd ganddo ddigon o gariad i ddymuno gweled y dyn anghyfiawn yn y nefoedd; nid yn unig boddlonai i'r ceffyl gael ei gymeryd, ond bendithiai Dduw am hyny, am y tueddai yn flaenorol i fod yn falch o'r anifail. Oddiyno brysia yn mlaen i ffermdy, o'r enw Perllan-Robert, yn Nghymydogaeth Abertawe, yn yr hwn le yr oedd Howell Davies yn pregethu. Pa beth oedd yn dwyn Efengylydd Penfro i Forganwg, nis gwyddom. Pregethodd, gyda dylanwad, oddiar Zech. xii. 8; dywed Harris ei fod yn marchog ar adenydd yr Hollalluog; a bod yr odfa yn un nerthol anarferol. Yr oedd cydgyfarfyddiad y ddau gyfaill, a ymdreulient yn ngwasanaeth eu Harglwydd, yn adnewyddiad yspryd i'r ddau. Hysbysai Mr. Davies fod llwyddiant rhyfedd ar y gwaith yn Sir Benfro, yn y rhanau Saesnig a'r rhai Cymreig. Aeth Howell Harris yn ei flaen trwy Abergorlech, Glanyrafonddu, Llanddeu-

sant, a Llywel, gan gyrhaedd Trefecca, gwedi absenoldeb o bythefnos. Trwy yr holl daith yr oedd ei gorph yn wan; llewygai weithiau gan lymder y poen a ddyoddefai; ond nerthai yr Arglwydd ef yn rhyfedd pan godai i lefaru, a chafodd odfaeon mor nerthol ag a gafodd yn ei fywyd. Yr oedd cyflwr yr eglwysi yn Lloegr hefyd yn gwasgu yn drwm ar ei feddwl; dywed iddo gael llythyrau o Lundain, yn dangos fod yr annhrefn yn y seiadau yno yn parhau; ei gysur yn ngwyneb yr oll ydoedd mai yr Arglwydd sydd Dduw.

Awst 8, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, yn yr hon y llywyddai Howell Harris. Y mae ei chofnodau fel y canlyn:—

"Agorodd y brawd Harris, trwy ddangos ansawdd gwaith yr Arglwydd yn Lloegr, Scotland, Cymru, America, a Ffrainc; ac yna agorodd pob un ei galon gyda golwg ar ystâd y gwaith yn ein mysg ni, a chyflwr y genedl. Dymunai y brawd Morgan John Lewis i ddeiseb at yr esgobion gael ei thynu i fynu, ac i un neu ddau o bersonau priodol gael eu hanfon o bob seiat at yr offeiriaid plwyfol, i geisio mewn modd tyner dyfod i gyd-ddealltwriaeth â hwy, er gweled pa effaith a gaffai hyn, dan fendith Duw, i hyrwyddo y diwygiad. Tybiai eraill na ddaethai yr amser eto, a bod y gwaith yn sicr o fyned yn ei flaen.

"Cymerwyd i ystyriaeth anwiredd y wlad, cyflwr y proffeswyr, ein pechodau a'n gwaeleddau ein hunain; a chawsom adnewyddiad dirfawr wrth glywed am y moddion a ddefnyddiodd yr Arglwydd yn Ngogledd Cymru, lle yr oedd y drws wedi ei gau yn erbyn y Gair, i ddwyn yr efengyl i'r trefi; sef trwy ddyn ieuanc a gawsai ei bressio i'r fyddin, yr hwn a galonogwyd, ac yn wir a gymhellwyd, i bregethu gan y cadben, yr hwn a safai wrth ei ochr, gyda ei gleddyf noeth yn ei law, i'w amddiffyn tra y pregethai.

"Rhai o'n rhesymau paham na wnai Duw roddi i fynu y genedl hon ydynt y canlynol: (1) Anchwiliadwy olud ei ras. (2) Fod ganddo eglwys yma, oddiar adeg y Diwygiad Protestanaidd. (3) Y diwygiad diweddar, yr hwn a ddechreuwyd ganddo mewn modd mor nodedig, trwy foddion anarferol. (4) Ei waith yn dwyn y diwygiad yn mlaen er gwaethaf pob gwrthwynebiadau, y rhai ydynt eto yn parhau. (5) Ei fod yn cadw meddyliau y llafurwyr mor rhydd, a chatholig, heb duedd at ymwahanu. (6) Ei waith yn dyogelu ein rhyddid i ni, fel nad oes cyfreithiau erlidgar wedi cael eu pasio. Cynghorodd y brawd Harris yn wresog; a chwedi canu a gweddïo, a thywallt ein calonau y naill i'r llall, yr oeddym yn dra hapus a gwynfydedig. Yr oedd yr Arglwydd yn wir yn ein mysg, a rhoddodd i ni lawer o fendithion."

Awgryma y cofnodion amryw gwestiynau, ond rhaid i ni basio. Ymddengys fod cynygiad Morgan John Lewis, parthed deisebu yr esgobion, a nesu at offeiriaid y gwahanol blwyfydd, wrth fodd calon Howell Harris, a dywed yn ei ddydd-lyfr y canfyddai M. J. Lewis a James Ingram fel colofnau o nerth i'r achos. Dywed yn mhellach, iddo egluro i'r cyfarfod yr anghydfod a gyfodasai rhyngddo ef a John Cennick. Am tranoeth, ysgrifena ei fod yn ddydd o brawf iddo. Daeth i'w law bapyryn o waith Archesgob Caergaint, wedi ei gyfeirio at y Methodistiaid. Wedi darllen hwnw, yn ol pob tebygolrwydd dynol, nad oedd dim gobaith i'r gwaith fyned yn y blaen (yn yr Eglwys); a gwnaed iddo edrych at Dduw yn unig, gan adael y mater i orphwys gydag efe.

Ar y 22ain o Awst, yr oedd Cymdeithasfa yn y Tyddyn. Llywyddai Daniel Rowland, ac yr oedd Williams, Pantycelyn, hefyd yn bresenol. Cyn cychwyn tuag yno clywodd Harris fod dau o'r brodyr Saesnig wedi troi eu cefnau, ac aeth y newydd i'w galon fel dagr. Pregethai Williams, Pantycelyn, ar yr adnodau blaenaf yn Ioan xv. Marwaidd oedd yr odfa; ond pan aeth Rowland i weddïo daeth awel dyner dros y cyfarfod. Y Gymdeithasfa hon yw yr olaf y croniclir ei gweithrediadau yn nghofnodau Trefecca; o hyn allan rhaid i ni ddifynu am yr hanes ar y dydd-lyfr, ac ar y llythyrau. A ganlyn yw ei chofnodau:—

"Cydunwyd fod y brawd Evan David i fyned yn mlaen fel cynt; felly hefyd Andrew Whitaker.

"Wedi ymddiddan maith a'r brawd Benjamin Cadman, gan nad yw yn benderfynol yn ei feddwl pa un a'i uno â ni, neu ynte â'r Ymneillduwyr, a wna, cydunwyd ei fod i ymatal oddiwrth gynghori hyd y Gymdeithasfa Chwarterol nesaf; a bod ei benderfyniad ef, a barn y seiadau, gyda golwg arno, i gael eu dwyn yno gan y brawd Richard Tibbot."

Yn y dydd-lyfr, dywed Howell Harris

ddarfod i ymgeisydd oddiwrth yr Ymneillduwyr ddyfod i'w mysg; bu y frawdoliaeth yn ymresymu ag ef, gan ddangos fod cryn wahaniaeth rhwng yr Ymneillduwyr a hwythau, ac nas gallai gyduno a'r ddau, a'u bod yn gweled y rhai a ymunent a'r Ymneillduwyr yn dilyn rheswm cnawdol, ac yn myned yn glauar; eu bod yn dymuno llwyddiant a nerth iddo; ond os byddai yn ffyddlon fel hwy mewn cysylltiad ag Eglwys Loegr, ac ar yr un pryd ddatgan yn erbyn ei llygredigaethau, y byddai yn sicr o gael ei nerthu. Cydunodd pawb ar hyn. Yn yr hwyr, wedi y Gymdeithasfa, aethant tua thŷ Thomas James, tua deng milltir-ar-hugain o bellder, ac ar y ffordd, testun y siarad oedd, ysprydion a bwganod. Clywodd Harris y fath hanesion am danynt, ac am y pethau a wnaent, nes y treiddiai iasau trwy ei gnawd.

Tua chanol Medi, yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol y brodyr Saesnig yn cael ei chynal yn Caerloyw, ac oblegyd yr anghydfod a fodolai yn eu mysg, teimlai Howell Harris ei hun dan rwymau i fyned yno. Mor fuan ag y cyrhaeddodd, daeth John Cennick ato, gan agor ei galon, a dangos fel yr oedd achos Duw yn pwyso ar ei feddwl, ac fel yr oedd ymddygiadau rhai o'r brodyr wedi blino ei enaid, a pheri iddo wylo ffrydiau o ddagrau wrth draed y Gwaredwr. Mynegai, yn mhellach, ddarfod iddo ymgynghori ag amryw y teimlai ymddiried yn eu barn, a'u bod yn cyduno y rhaid iddynt hwy eu dau, Cennick a Harris, ymgymeryd a holl ofal yr achos, a rhoddi y brodyr ieuangaf tan ddysgyblaeth. "Pan y dywedodd," meddai Harris, "fod arno eisiau rhywun a ai gydag ef at yr ystanc, teimlais agosrwydd mawr ato; ond yr oedd fy mhechadurusrwydd a fy ngwendid yn rhythu arnaf." Ei benderfyniad oedd cyflwyno yr holl fater i'r Arglwydd, a dyma ei eiriau gerbron yr orsedd: (1) "Nis gallaf ymwrthod â'r anrhydedd hon, a sefyll yn erbyn yr alwad am fil o fydoedd. (2) Nid oes genyf unrhyw ateb i'w roddi, ond lledu ger dy fron di fy holl bechodau, a'm hannheilyngdod, a'm hammurdeb, a'm balchder, a'm tymher, a'm hanghymhwysder. (3) Os wyt ti yn fy ngalw, yna gwn y derbyniaf o'th drysor ras i lanw fy lle, ac argyhoeddiad llawnach gyda golwg ar beth yw dy ewyllys. (4) Dyro i mi olwg newydd ar dy eglwys, ac ar dy achos; gâd i mi ei deimlo wedi ei osod yn fy nghalon; (ac felly y cefais. Rhoddwyd i mi ddatguddiad helaethach o ogoniant a dirgelwch yr eglwys, fel priod i Dduw, ac wedi ei dyrchafu allan o bechod ac uffern i ogoniant. Yn y goleu hwn, er nad oedd ond gwan, gwelwn bob rhwystr fel dim o flaen yr eglwys ogoneddus.) (5) Yna dyro i mi lygad eryr, er doethineb a dealltwriaeth; nerth ych, er amynedd, diwydrwydd, a sefydlogrwydd; a chalon llew, er dewrder, beiddgarwch, a phenderfyniad, fel y gallwyf dy ogoneddu a llanw y lle hwn. (6) Cwyd fi uwchlaw y bywyd hwn, gan nad yw yr holl a berthyn iddo ond tarth a gwagedd."

Nid oedd unrhyw swm o waith yn ormod i'r Diwygiwr o Drefecca ymgymeryd ag ef. Ar ei ysgwydd ef yn benaf, er fod ganddo gydweithwyr galluog, y gorweddai pwys y trefniadau yn nglyn â gwaith y diwygiad yn Nghymru. Braidd nad oedd y llafur a'r cyfrifoldeb perthynol i hyn yn mron llethu ei natur; ac yn awr dyma ef eto, mewn undeb a John Cennick, yn ymgymeryd a holl gyfrifoldeb yr achos yn mysg y brodyr Saesnig. Ymdeimlad â phresenoldeb Duw yn unig a allasai ei gynysgaethu a'r fath wroldeb. Aed i'r Gymdeithasfa gwedi ciniaw, ac eisteddwyd i lawr trwy y nos hyd chwech o'r gloch dranoeth, gyda'r trefniadau. "Yn sicr, yr oedd yr Arglwydd yn ein mysg, ac yn ein goruwch-lywodraethu," meddai Harris. Gwnaeth Cennick araeth hyawdl, yn dangos sut y dylent fod a'u holl enaid yn ngwaith yr Arglwydd hyd oni ddelo. Wedi gorphen gyda'r allanolion aed i siarad am wahanol athrawiaethau, ac yn eu mysg am iachawdwriaeth gyffredinol. Dywedai Cennick ei fod yn credu yr athrawiaeth, ond nad oedd yn athrawiaeth i'w phregethu, oddigerth gan angel, tua mil o flynyddoedd gwedi yr adgyfodiad. Ymddiddanwyd am y Duwdod, ac yr oedd pawb yn gweled lygad yn llygad. Wrth ganu yr emyn, cafodd Harris olwg ar ddirgelwch y Duwdod yn y dyn, a darostyngwyd ei enaid ynddo. Wrth gadarnhau penderfyniad Cymdeithasfa Llundain, gyda golwg ar ddiarddel Mr. Cudworth, yr hwn oedd yn myned bellach, bellach, teimlai Howell Harris agosrwydd mawr at y brodyr, a dywedodd ei feddwl wrthynt yn bur groyw.

Cyn diwedd mis Medi cynelid Cymdeithasfa Chwarterol y Cymry, yn Erwd, Daeth pump o gynghorwyr, ac un offeiriad i letya i dŷ Mr. Harris y noson cynt;

diolchai yntau am y fraint o'u cael. Pregethodd William Richards, y cynghorwr o Aberteifi, ar ras, ei natur a'i ragoriaeth, a chafodd odfa felus. Dranoeth, yn Erwd, pregethodd Daniel Rowland i gychwyn, oddiar y geiriau: "O na bai i mi adenydd fel colomen," a chafodd, fel arfer, odfa nerthol. Ar ei ol, pregethai John Sparks, yn Saesneg, oddiar y genadwri at eglwys Laodicea. Teimlai Harris yn ddirfawr drosto, am ei fod yn ieuanc, a gweddïai am i'r Arglwydd ei arddel; yr hon weddi a atebwyd yn helaeth. Yn y cyfarfod preifat, rhoddodd Rowland anerchiad llym, yn cyrhaedd i'r byw, gyda golwg ar drefn, yn nghyd a gwagedd rhai o'r cynghorwyr. Eithr yn raddol teimlai Harris fod yspryd rhy ysgafn wedi dod i'r cyfarfod, o ba un yr oedd efe ei hun wedi cyfranogi. "Ceryddais y brawd Price," meddai, "gan ddatgan mai efe oedd yn fy llygru i. Digiodd yntau, ac aeth allan. Yn ganlynol, drylliwyd fy nghalon ynof; yna llewyrchodd yr Arglwydd arnaf, a gwelais y deuai y cwbl yn iawn, am mai efe sydd Dduw. Ac felly y bu." Y mae darllen am yr amgylchiad hwn, a'r cyffelyb, yn dra dyddorol, pe na bai ond er dangos nad oedd y Methodistiaid cyntaf ond dynion, a'u bod yn agored, weithiau, i fyned yn blentynaidd, ac i ddigio wrth eu gilydd am y nesaf peth i ddim. Dengys hefyd dynerwch cydwybod dirfawr; fod y gradd lleiaf o ysgafnder yn annyoddefol yn eu mysg. Boreu dranoeth, codwyd yn foreu, er gorphen gwaith y Gymdeithasfa. Gwedi agor eu calonau y naill i'r llall, cafwyd eu bod oll yn deyrngar i'r brenin, a datganai Harris mai y brenin George oedd yr unig deyrn cyfreithlawn. Yna, aeth y brodyr William Richards, Rice, Llanwrtyd; James Ingram, a Morgan John Lewis, i weddi yn olynol, gan ymostwng o herwydd eu pechodau eu hunain, a phechodau y genedl. Daeth yr Arglwydd i'w mysg yn amlwg. Datganent i'w gilydd, yn gystal ag ar eu gliniau, nad oedd eu cyrph yn eiddo eu hunain. Anogent y naill y llall i ganlyn Crist yn fwy agos, ac i bregethu ychwaneg ar ffrwyth yr Yspryd. Taer gymhellai Harris hefyd yr offeiriaid urddedig i ymweled â Morganwg a Mynwy, fod mawr angen am danynt, a bod eu doniau yn tra rhagori ar yr eiddo ef. Ymadawyd yn felus, wedi cael Cymdeithasfa ddedwydd.

Ar ddydd Mercher, yn nechreu mis Hydref, cawn Howell Harris yn cychwyn am daith faith i Sir Benfro. Aeth yn nghyntaf i'r Glyn; oddiyno yn ei flaen i Crai, lle nad oedd y bobl wedi ymgasglu, am, yn ol pob tebyg, na chlywsent am ei ddyfodiad. Pregethodd y noswaith hono yn gyfagos i Trecastell, a chafodd odfa nerthol. Dranoeth y mae yn Llanddeusant, a Glanyrafonddu; dydd Sadwrn yn Glancothi; ac wedi pregethu y Gair mewn amryw fanau yn Sir Gaerfyrddin, cyrhaeddodd Landdowror prydnhawn dydd Sul, mewn pryd i wrando yr Hybarch Griffith Jones. Pwnc pregeth Mr. Jones oedd y sarff bres. Diolchai Harris i Dduw am fod y fath oleuni yn mysg y Cymry. Aeth i dŷ Mr. Jones i letya, a deallodd yn fuan fod y gŵr da wedi clywed llawer o chwedlau parthed annhrefn y Methodistiaid. "Dywedai Mr. Jones," meddai, "fod gormod o honom yn agored i gael ein cyhuddo o falchder, a barn ehud, yn nghyd â chwerwder yspryd; a'n bod yn ddiffygiol mewn gostyngeiddrwydd a chariad, ac yn galw eraill yn erlidwyr. Yr oedd wedi clywed am ein troion anghall yn Lloegr a Chymru; am ein hymraniad yn Lloegr; ac yr oedd yn dramgwyddedig oblegyd y bloeddio a'r gwaeddi allan dan y Gair. Cyfeiriai at ein gwaith yn cateceisio, yr arweiniai mewn amser i annhrefn, ac y deuai yn y diwedd i'r dim. Atebais, nas gallai hyny ddigwydd; pa beth bynag a ddeuai o honom ni fel Corph, fy mod yn credu fod canoedd wedi cael eu hargyhoeddi a'u hachub. Dywedais fy mod yn credu yr oll a ddywedasai oddiar wybodaeth bersonol; ond ei fod yn faich arnaf ddarfod iddo wrando ar ein cyhuddwyr, a'u credu, heb ein dwyn ni wyneb yn wyneb â hwy; a phe y gwnaethai hyny y cawsai fod y gwaith hwn o Dduw. Meddyliwn y dylasem gael rhagor o le yn ei serchiadau. Lleferais wrth Madam Bevan ac yntau, gan gael rhyddid oddiwrth Dduw i ddweyd yr oll a wyddwn; y modd yr oeddynt oll (yr Eglwyswyr) wedi gwanhau ein dwylaw, a'n diarddel, a chreu rhagfarn yn meddyliau rhai yn Bath yn ein herbyn. Pan y cyfeiriodd at ei lyfr ar yr Articlau, gan fy nghyhuddo i o rwystro ei werthiant, dywedais nad oeddwn yn cyduno a'r llyfr, a pha beth bynag a ddywedais neu a ysgrifenais, ei fod yn codi o gydwybod. Gofynai ai nid oeddwn yn teimlo dymuniad am i bawb gael eu hachub? Atebais fy mod yn cael fy nhemtio yn gryf weithiau i weddïo dros y cythraul; ond nad oeddwn yn gweled un


lle canol rhwng achubiaeth yr etholedigion yn unig, ac achubiaeth pawb. Pan y gwasgai arnaf am fy marn, dywedais fy mod yn meddwl mai yr etholedigion yn unig a gedwir; am y lleill, fod yna anmhosiblrwydd ar y ffordd, a hwnw yn tarddu nid o Dduw, ond o honynt eu hunain, a'm bod yn credu ei fod yn gyfeiliornus wrth bleidio y posiblrwydd i bawb gael eu hachub. Cyfeiriodd at waith Tillotson, *Holl Ddyledswydd Dyn*, gan ganmawl Tillotson fel y dyn goreu a eisteddodd erioed yn y gadair archesgobol, a dadleu fod ei lyfr yn un o'r rhai galluocaf ar y pwnc; a bod y llyfr mor llawn o garedigrwydd Cristionogol, fel mai prin yr oedd yn gadael neb yn golledig yn y pen draw. Atebais yn ol y gallai gael y fath syniadau yn ngweithiau athronwyr, ond nad dyna athrawiaeth Paul na Christ. Yna, mynegais iddo am ei draethodau Saesnig (*Welsh Piety*, Griffith Jones), yn y rhai y fflangellai ni fel Corph, fy mod yn tybio am yr ymosodiad cyntaf, er yr aroglai yn ormodol o ddoethineb y byd hwn, fod ei lygad yn syml wrth ei wneyd, gan mai cael rhagor o ryddid gan yr esgobion a fwriadai; ond pan y gwelais ef yn ailadrodd yr unrhyw, gan grybwyll am ein gwendidau, heb gyfeirio at ddim arall, nas gallai y fath ymddygiad fod yn garedig, ac y gwnai gryfhau y rhagfarn yn ein herbyn, yn arbenig gan ei fod mewn argraff, ac hefyd yn dyfod oddiwrtho ef, gwaith yr hwn a ddarllenid, efallai, yn mhen mil o flynyddoedd. Addefai ei fod yn rhagfarnllyd yn erbyn ein Corph ni, gan ei alw yn wrth-Ysgrythyrol, ac yn ordeiniad. Esboniais iddo ein hamcan, sef cael gwybodaeth o stâd ysprydol y dychweledigion, ac nid sefydlu ordeiniad. Mewn cysylltiad â chateceisio, tybiwn ei fod yn ei ddyrchafu yn rhy uchel, mai ei wir ddefnydd oedd nid cymeryd lle pregethu, ond bod yn is-ddarostyngedig i hyny; ar yr un pryd, yr hoffwn ei weled yn cael ei osod i fynu mewn teuluoedd lle y byddai personau cymhwys at hyny, a'm bod i wedi gwneyd fy ngoreu i'w osod i fynu. Yr oedd yn ymosod yn drwm ar y cynghorwyr anghyoedd, gan ddweyd eu bod yn anwybodus, ac yn anghymwys i'r gwaith, a bod ganddynt gopi o'n seiadau, a'r lleoedd eu cedwid. Gwedais inau ein bod yn anfon y cyfryw allan ond i wylio dros eneidiau eu gilydd, a phan y caem fod neb yn ymddwyn yn anweddaidd, ein bod yn peri iddo beidio. Gofynai ai nid oeddym yn tueddu i ymffurfio yn sect? Atebais ein bod yn dysgwyl, naill ai cael ein himpio i mewn yn gyfangwbl i'r Eglwys Sefydledig, neu gael ein troi allan; ac yna, naill ai i ymuno a rhyw blaid arall, neu ymffurfio yn blaid ar wahan. Mynegais yn mhellach fy mod wedi clywed y brawd Rowland yn ceryddu y rhai a floeddient yn y cyfarfodydd, ond fy mod yn credu am lawer o honynt nas gallent ymatal, a bod yn well genyf eu gweled yn gwaeddi nac yn dylyfu gên. Addefai yntau ei fod yn hoffi gweled pobl yn wylo yn yr odfaeon, ac hyd yn nod yn gruddfan. Siaredais ag ef yn breifat am wneyd rhywbeth i fynu rhyngddo a Mr. Rowland, fel na chaffo y gelyn ddyfod rhwng y rhai sydd yn caru yr Arglwydd; a dymunais arno, gan fy mod yn gwybod ei fod yn myned a'n hachos yn feunyddiol at yr orsedd, ar iddo beidio myned yn rhagfarnllyd yn ein herbyn, oblegyd ein camsyniadau a'n hafreolaeth ymddangosiadol; mai gyda phob gostyngeiddrwydd y dymunwn ei ddweyd, ond fod Duw yn wir yn ein mysg. Ymadawsom yn ddrylliog, ac yn gariadlawn; ac wrth ymadael, dywedais fy mod yn ei anrhydeddu yn fawr; felly hefyd y gwna pawb o'r brodyr, hyd y gwyddwn i. Dymunais arno ddyfod i'n mysg; dywedais fy mod yn credu y buasai yn nes atom oni bai am eraill, a'm bod inau i'm beio am na fyddwn yn ymweled ag ef yn fwy mynych. Ymddangosent (Griffith Jones a Madam Bevan) yn fwy cyfeillgar atom nag o'r blaen, ond yr oeddynt wedi clustymwrando ar adroddiadau annyoddefol. Dywedai ein bod yn cael ein cyhuddo o gofleidio Cwaceriaeth, a phob math o gyfeiliornadau, ac o adael y Beibl, gan ddilyn y teimlad tufewnol. Atebais nad oedd hyn yn wir; eithr nad oedd y Beibl ond llythyren farw i ni hyd nes y profom waith yr Yspryd ar ein calonau; mai nid y naill na'r llall ar wahan, ond y ddau yn nghyd raid i ni gael."

Felly y terfyna yr ymddiddan rhwng Howell Harris ar y naill law, a Griffith Jones a Madam Bevan ar y llaw arall. Hawdd gweled fod y ddadleuaeth yn fynych yn frwd; yr arferai y ddwy ochr lawer iawn o blaendra; ond y mae yn hyfryd sylwi iddynt gael eu llywodraethu gan yspryd cariad trwy y cyfan, a phan y llefarent y caswir eu bod yn nes at golli dagrau nag at golli eu tymherau. Nid yn unig y mae y ddadleuaeth yn ddyddorol, ond yn ogystal yn taflu ffrwd o oleuni ar

amryw bethau cysylltiedig â Methodistiaeth. Gwelwn (1) Fod Griffith Jones, tra ar y dechreu yn cydymdeimlo yn ddwfn a'r diwygiad Methodistaidd, erbyn hyn wedi troi yn feirniad, ac wedi roddi gormod o goel i'r chwedlau anwireddus a daenid am y Diwygwyr. Efallai fod a fynai awydd rhai o'r cynghorwyr am gael eu hordeinio yn ol dull yr Ymneillduwyr â hyn. (2) Fod Howell Harris yn fwy o Galfin, a braidd na ddywedem, yn alluocach duwinydd na Griffith Jones. Yr oedd yr olaf, yn bur amlwg, yn ormod tan ddylanwad Archesgob Tillotson, yr hwn a gyfeiliornasai yn bur bell i dir Arminiaeth. (3) Fod Howell Harris, tra yn synio yn uchel am Griffith Jones, ac yn ei anrhydeddu yn fawr, yn rhy annibynol i'w ganlyn yn wasaidd, a'i fod yn meiddio gwahaniaethu oddiwrtho gyda golwg ar rai o wirioneddau trefn yr iachawdwriaeth.

Ond rhaid i ni ganlyn Howell Harris ar ei daith. "Yr oeddwn yn ddiolchgar am Griffith Jones," meddai, "ac am ei holl geryddon; llefwn am i mi beidio cael fy ngadael heb ryw un i'm rhybuddio." Dydd Llun, pregethodd yn y Pale i gynulleidfa anferth, oddiar y geiriau: "Canys i chwi y rhoddwyd, *bod i chwi*, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddyoddef erddo ef." Yr oedd yr Arglwydd yma yn amlwg; torai llawer allan i folianu, ac arferai yntau ei ddylanwad i gymedroli yr hyn a dybiai allan o le. Yn y prydnhawn, yr oedd yn Carew, lle y pregethodd oddiar y Salm gyntaf. Odfa ofnadwy oedd hon. "Ar y cychwyn,' meddai, "yr oeddwn yn dra arswydlawn i'r annuwiol. Yn sicr, yr oedd yr Arglwydd yn y lle mewn modd rhyfeddol iawn." Bu hefyd yn cynghori yr ŵyn, y rhai, yn angerdd eu zêl, oeddynt yn rhy barod i fyned allan o'r llwybr. Boreu dydd Mawrth, yn Carew, cafodd rhyw frawd afael rhyfedd ar weddi, nes peri i Harris deimlo fod yr Arglwydd yn amlwg yn Sir Benfro. Mewn lle o'r enw Lampha, ger tref Penfro, cynhelid Cwrt Leet, i ba un y cyrchasai amryw o'r mawrion; cymerodd yntau fantais ar yr amgylchiad i bregethu. Ei destun oedd, Ex. xx. 1: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw;" a chyda llawer o serchawgrwydd ceryddodd y boneddigion, y clerigwyr, a'r bobl oll, am eu bywydau afreolus. Cymerai fantais yr adegau hyn i weddïo tros yr Eglwys, y brenin, a'r deyrnas, yr hon oedd yn llawn berw, ac i daranu yn erbyn y rhai a bleidient yr Ymhonwr *(Pretender)*. Nos Fawrth, yr oedd yn Nerth, ger Aberdaugleddyf; dydd Mercher, yn Menfro a Walton, lle y pregethodd gyda chryn hwylusdod, oddiar Rhuf. viii. 15. Dydd Iau, cafodd odfa anghyffredin yn Hwlffordd. Yna aeth i Hay's Castle; yr oedd Duw yma yn amlwg; gwedi hyn i Lanilow a Longhouse; a boreu y Sul aeth i eglwys Morfil, nid yn nepell o Woodstock, i wrando Howell Davies. Dydd Llun, yr oedd Cymdeithasfa Fisol mewn lle o'r enw Ffynon Gaino. "Yma,' meddai, "agorodd yr Arglwydd fy ngenau i lefaru am y tân, ac am allu Duw, a'i fod ef yn y Gair oll yn oll. Cydunai yr holl frodyr fod y tân o Dduw. Y brawd Gambold a sylwai y rhaid i ni fod yn farw i ni ein hunain, heb ddysgwyl dim wrth fyned o gwmpas ond oerni, a noethni, a newyn, a thlodi, a chael ein difenwi, a hyny gan Gristionogion; ond y dylem fyned dros Grist pe baem yn garpiog, ac yn droednoeth, gan roddi ein dillad a'n hymborth y naill i'r llall, a bod heb y cyfryw ein hunain, os rhaid. Cydunai pawb. Cyfeiriais, gyda nerth, am beidio rhoddi tramgwydd i'r clerigwyr, hyd ag y mae yn bosibl; mai yn yr Eglwys Sefydledig yr ydym ni. Dangosais eu rhagfarn yn Ysgotland ac America. Cyfeiriais at le pob un; mai fy mhlant ysprydol i yw y brodyr Davies a Williams; ond gan eu bod wedi eu hordeinio, fy mod yn dal fy hun mewn darostyngiad iddynt, ac y dylem oll ddyfod i'w cynorthwyo. Siaradais am Griffith Jones, y dylem nesu ato, hyd byth ag y mae yn bosibl, a'i garu. Y dylem osod cateceisio i fynu hyd byth ag sydd yn bosibl, a chadw at y Gair ysgrifenedig, gan ddwyn pawb dynion ato, oblegyd efe yw ein rheol. Cydunai pawb. Cydunwyd hefyd i gadw y dydd cyntaf o Dachwedd yn ddydd o ymostyngiad."

Y mae un peth newydd hollol i ni yn yr hanes hwn, sef, mai Howell Harris oedd tad ysprydol Howell Davies, yn gystal a Williams, Pantycelyn. Eithr felly y dywedir yn bendant. Aeth Harris, yn yr hwyr, yn mlaen at Lwynygrawys; taranodd yn erbyn yr Ymhonwr, a chanmolodd y brenin George, a chafodd nerth anarferol. Yna cyfeiriodd ei gamrau trwy Eglwyswrw, Cerig Ioan, gan groesi i Aberteifi, ac ymweled a Blaenporth, Cwmcynon, a lleoedd eraill. Nos Wener, daeth i Langeitho; boreu dranoeth, croesodd y mynydd, gan basio trwy Abergwesyn, a chyrhaeddodd



S.r

Talgarth Feb. 27 1735-6

When first I was inform'd yt you took upon you to instruct your Neighbours at Trefeca on a particular Occasion, I mean of ye Nature of ye Sacram.t and inforce ye Duty by reading a Chapter out of yt excellent Book The whole Duty of Man, I tho't it proceeded from a pious and charitable Disposition. But since you've advanc'd so far as to have your publick Lectures from House to House, and even within ye Limits of ye Church, it's full Time to let you know ye Sin and Penalty you incur by so doing. The Office you've fondly undertaken, belongs not to ye Layty any farther yn privately in yr own Families: And if you'll be pleas'd to take your Bible in Hand, you'll there find ye heavy Judgm.ts wch God inflicted upon ye Sacrilege and Impiety of those who audaciously presum'd in invade the Office ministerial. If you'll consult ye Histories of this as well as other Nations, you'll see ye dismal & lamentable Effects of a factious Zeal, & a Puritanical Sanctity; for 'tis an easy Matter to seduce ignorant and illiterate People, and by cunning Insinuat.ns from House to House, induce them to embrace wt Tenets you please. I've got one heavy Crime to lay to your Charge, wch is this, That after you've expatiated upon a Sunday in ye Whole Duty of Man to your Audit.rs, wch in my Opinion is wrote in so plain & intelligible a Maner yt it's incapable of a Paraphrase, unless it be to obscure & confound ye Auth.rs Meaning, You conclude wth a long Extempo:rary Prayer, wth Repetitions, Tautologies &c. Pray consider how odiously this savours of Phanaticism & Hypocrisy. Wt I've already s.d will I hope dissuade you for ye future from such Practices; But if ye Admonition of yr Minister ont prevail, I will acquaint yr Bro.r of it: and if you will persist in your Way, I must acquaint my Diocesan of it, wch will prove an immoveable Obstruction to yours ever getting into holy Orders. For your Continuance in it will give me as well as others just Reason to conclude yt your Intellectuals are not sound. I am yours well wisher & assur'd humble Serv.t P Davies

PS Sir Circul.th sent you Mr Nelson & by seriously weighing wt is there s.d of ye sacred Function, as you see mark'd in ye ◦. 'tis you will be convinc'd of your Error.

PHOTOGRAPH O LYTHYR CERYDDOL Y PARCH. PRICE DAVIES, TALGARTH, I HOWELL HARRIS.

[Gwel tudalen 77.

Drefecca y noswaith hono. Eithr dros y Sabbath yn unig y cafodd fod gyda ei deulu. Boreu dydd Llun, ar lasiad y wawr, y mae ymaith drachefn, ac yn cyrhaedd Cayo tua chanol dydd, lle y pregethodd gyda nerth oddiar y Salm gyntaf. Yn gynar yn y prydnhawn yr oedd yn Llwynyberllan, yn yr hwn le y cedwid Cymdeithasfa Fisol. Daniel Rowland a lywyddai. Nid yw yn ymddangos ddarfod i benderfyniadau o bwys gael eu pasio; ond bu Howell Harris yn anerch y cynghorwyr gyda difrifwch mawr. Meddai: "Datgenais mai perffeithrwydd oedd y nod o fy mlaen; os syrthiaf, fod yn rhaid i mi gyfodi, ac mai hunanymwadiad sydd yn gosod gwerth ar waith. Anogais ar i'r seiadau gael eu cyffroi i ddarllen yr Ysgrythyr, a dwyn eu holl brofiadau at faen prawf yr Ysgrythyr; ac oni fyddant yn gyson â'r Beibl nad ydynt i gael eu derbyn. Dywedais y rhaid i'r bobl gael pregethu iddynt mor gyson ag sydd bosibl, a'u cynghori i beidio gwneyd sŵn yn yr odfaeon cyhoeddus." Gwelir fod anghymeradwyaeth Griffith Jones o waith y rhai mwyaf tanbaid eu tymherau, yn tori allan i waeddi dan y Gair, yn cael ei gludo trwy Harris i'r cymdeithasau. Dranoeth, pregethodd Daniel Rowland yn nghapel Abergorlech, oddiar Hosea ix. 12. Gwedi y bregeth yr oedd cymundeb, a daeth Harris allan yn hyfryd a dedwydd ei deimlad, ac yn ddyn rhydd. Aeth y ddau gyfaill yn nghyd i Glanyrafonddu. Melus odiaeth oedd y gyfeillach rhyngddynt; y naill yn agor ei galon i'r llall. Yno gorfodwyd Harris i bregethu, yr hyn a wnaeth yn effeithiol, am ddirgelwch duwioldeb. Pregethodd Daniel Rowland boreu dranoeth, yna aethant i Dygoedydd, a chafodd Rowland odfa i'w chofio byth. Yma ymadawsant, a dychwelodd Howell Harris drwy Ceincoed, Llangamarch, a Wernddyfwg, gan gyrhaedd gartref yn hwyr nos Sadwrn.

Yr wythnos ganlynol yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Watford, a chawn Harris a Rowland yno eto. Rhaid fod eu llafur yn ddiderfyn. Dychwelodd Harris adref nos Iau, a boreu dydd Sadwrn cychwyna am daith i Sir Drefaldwyn, gan bregethu yn Tyddyn, Trefeglwys, Llanbrynmair, Blaencarno, Llanllugan, a Mochdref. Yn y lle olaf datganodd ei farn yn bur rhydd wrth Richard Tibbot am yr Ymneillduwyr, nad oeddynt yn ymddangos iddo ef yn gosod ceisio Duw fel eu prif amcan, eithr yn hytrach uniongrededd, trefn, swn, a moesoldeb; am dano ei hun, na ofalai pe na lefarai air wrth y bobl, oddigerth fod yr Arglwydd yn defnyddio y cyfryw air i glwyfo rhai, ac i feddyginiaethu eraill; mai ei holl amcan oedd delio a chalonau. Ei fod yn bleidiol i uniongrededd, ac hyd yn nod i efrydu llyfrau ac ieithoedd, fel pethau is-ddarostyngedig i'r Yspryd, ond ei fod am i Dduw gael cymhwyso y pregethwyr at y gwaith, trwy ddatguddio ei hun iddynt. Fod ei galon ef yn gatholig, a'i fod yn erbyn rhagfarn o bob tu, ac am gynydd mewn pob math o wybodaeth, ond nid trwy nac yn y llythyren yn unig, ond yn yr Yspryd, trwy weithrediad ffydd, ac mai hanfod ffydd yw adnabyddiaeth o Dduw, fel y mae yn datguddio ei hun yn Iesu Grist. Pa beth a achlysurodd yr ymddiddan hwn, nis gwyddom; nid annhebyg fod Tibbot yn gwasgu ar Harris am gymeryd dalen allan o lyfr yr Ymneillduwyr, a sefydlu math o athrofa i addysgu y cynghorwyr, fel yr awgrymasai yn ei lythyr at y Gymdeithasfa. Ond i fyned yn mlaen, ymadawodd Harris yma, gyda serchawgrwydd mawr, a nifer o ŵyn anwyl yr Iesu, o Siroedd Caernarfon a Meirionydd, ac aeth yn ol trwy Lwynethel a Llandrindod.

Yr wythnos olaf yn Tachwedd, cawn ef a Mrs. Harris yn cychwyn am Lundain. Parhau yn gymysglyd yr oedd pethau yn mysg y brodyr Saesnig, ac yn ben ar y cwbl, bygythiai Cennick eu gadael, gan ymuno a'r Morafiaid. Yn y Gymdeithasfa Chwarterol, a gynhelid yn y Tabernacl, Rhagfyr 4, daeth y mater yn mlaen. "Agorodd y brawd Cennick," meddai Harris, "ei galon gyda golwg ar y Morafiaid, a'r rheidrwydd a deimlai i ymuno â hwy ar unwaith. Dywedais inau fy mod yn eu hadwaen, ac yn eu parchu, ond nas gallwn gydweled â hwy, am (1) Eu bod yn gwrthod cyhoeddi y gyfraith i bechaduriaid, i ddangos iddynt eu hangen o Grist. (2) Am nad oedd ganddynt ond un mater yn eu gweinidogaeth, sef person yr Arglwydd Iesu, ac felly eu bod yn gwrthod addef graddau mewn ffydd. (3) Am eu bod yn dal y caiff pawb eu hachub yn y pen draw. Dywedais yn mhellach, pan y cyflwynai efe ofal y Tabernacl i mi, nas gallwn wrthod ymgymeryd a'r baich, hyd nes y dychwelai Mr. Whitefield, neu y trefnid rhyw gynllun arall. Yr oeddwn yn barod wedi lledu y mater gerbron yr Arglwydd, ac yr oedd yntau wedi eu gosod (y brodyr Saesnig) ar fy nghalon, fel yr

oeddynt yn asgwrn o'm hasgwrn, ac yn gnawd o'm cnawd." Y mae yn anhawdd peidio synu at ei feiddgarwch. Ar ei ysgwyddau ef yn benaf y gorphwysai gofal achos y Methodistiaid yn Nghymru; yr oedd ei lafur yn eu plith hwy bron bod yn ormod i'w natur; a dyma ef yn awr, ac wedi colli John Cennick, ar ei ben ei hun yn ymgymeryd â holl ofal yr achos yn Llundain ac yn Lloegr. Y noswaith hono aeth Harris i'r Tŵr at ei frawd. Dranoeth, y mae Cennick yn ffarwelio a'r Gymdeithasfa, ac, yn nghanol dagrau, yn cyflwyno yr holl ofal i Howell Harris. "Siaradodd," meddai y dydd-lyfr, "am ddirgelwch person Crist yn ogoneddus; cyfeiriodd lygaid y bobl at y gwaed, gan erchi iddynt addoli'r clwyfau. Wylai y bobl yn hidl; cefais inau ryddid i wylo. Ar y diwedd, gweddïodd yn afaelgar trosof fi, a llewyrchodd goleuni i mewn i fy enaid." Yn sicr, nid dyma y modd y bydd dynion yn gyffredin yn cefnu ar eu cyfeillion crefyddol, ac yn ymuno â phlaid arall. Os oedd Cennick yn cyfeiliorni o ran ei farn, nis gellir peidio edmygu ei gydwybodolrwydd. Ond nid oedd y diwedd eto. Tranoeth, sef dydd olaf y Gymdeithasfa, y mae nifer o'r brodyr blaenaf, sef Hammond, Heatly, Solivan, a Thorn, yn datgan eu penderfyniad i ganlyn Cennick, ac ymuno a'r Morafiaid. Datganai un arall, Goodwin, ei fwriad i ymadael, ond yr arosai am oleuni pellach cyn penderfynu a wnai uno a'r Morafiaid. O'r rhai a ystyrid yn arweinwyr, nid oedd yn aros bellach i sefyll wrth ochr Howell Harris, ond Herbert Jenkins, ac Adams. Ni lwfrhaodd ei enaid ynddo yn yr argyfwng difrifol hwn; ymnerthodd yn y gras sydd yn yr Arglwydd; ysgrifenodd at Whitefield, i'w hysbysu o'r holl amgylchiadau, a llifodd cysur i'w yspryd oddiwrth y geiriau: "A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef." Wedi trefnu pethau cystal ag y gellid yn y Tabernacl, ac yn Lloegr oll, ar ol yr argyfwng difrifol yr aethid trwyddo, dychwelodd Howell Harris a'i briod i Gymru ychydig cyn y Nadolig. Eithr ni ddychwelodd i orphwys. Ail tranoeth i'r Nadolig, y mae yn cychwyn am daith faith drachefn i Siroedd Mynwy a Morganwg; ac yn Dinas Powis, o fewn rhyw dair milltir i Gaerdydd, y torodd gwawr 1746 arno.

# PENOD XIII.

——:o:——

## HOWELL HARRIS

(1746).

*Taith Howell Harris yn Sir Forganwg—Gwrthwynebiad i'w athrawiaeth yn dechreu codi—Thomas Williams, y Groeswen, yn dychwelyd at y Methodistiaid—Cymdeithasfa y Glyn—Llythyr at Mr. Thomas Adams—Cymdeithasfa Glancothi—Y Cyfarfod Chwechwythnosol—Howell Harris yn Llundain—Cymdeithasfa ystormus yn Watford—Ymosodiad y Morafiaid ar Gymru—Howell Harris yn Hwlffordd—Yr anghytundeb rhwng Rowland a Harris yn cychwyn yn Nghymdeithasfa Trefecca—Rowland a Harris yn ail-heddychu—Cymdeithasfa gyffrous yn Castellnedd—Cymdeithasfa ddymunol yn Watford.*

FEL y dywedasom, yn Dinas Powis y torodd gwawr y flwyddyn 1746 ar Howell Harris, ac y mae ei sylwadau yn y dydd-lyfr yn haeddu eu difynu: "DINAS POWIS, dydd Calan. Y boreu hwn cefais galenig, yn wir, gan fy anwyl Arglwydd. Dangosodd i mi ei fod uwchlaw fy nghalon, ac uwchlaw fy llygredigaethau, er cymaint eu cryfdwr, a'i fod uwchlaw yr holl ddiaflaid, uwchlaw dynion, ac uwchlaw fy ofnau a'm treialon. Wrth ganfod hyn mewn ffydd darfu i fy enaid ei addoli a'i folianu yn ogoneddus. Aethum i Aberddawen erbyn un. Yno pregethais ar Rhuf. vii., am gorph pechod. Cefais ddirfawr ryddid i egluro y pechod gwreiddiol; fod y plant yn bechaduriaid; a'u bod mewn gwirionedd wedi eu damnio a'u colli yn Adda. Dangosais fel y mae yr Yspryd yn argyhoeddi yr enaid o hyn, ac yn peri iddo i alaru o'i herwydd, fel gwrthryfel yn erbyn Duw. Cefais nerth i gyhoeddi gogoniant a dirgelwch Crist, a'r fraint o gael addoli y dyn Crist; ac am y rhai sydd yn esgeuluso un cyfleustra, na chaent byth gyfle drachefn oni bai am dragywyddol gariad Duw, ac y byddent yn anghredinwyr yn oes oesoedd. Dangosais am y doethion, y dysgyblion, Thomas, a Stephan, yn ei weled ac yn ei addoli, ac fel y mae efe a'r Tad yn un, megys y dywedodd wrth Phylip. Yn sicr, cawsom galenig yma, a bendithiwyd ef hefyd.

"Aethum erbyn chwech i'r Aberthyn. Yma anrhydeddodd yr Arglwydd fi yn fwy nag erioed wrth weddïo a phregethu. Er fod Satan wedi arfogi meddyliau yr aelodau yn erbyn dirgelwch Crist, trwy resymeg, eto yr Arglwydd, fel yr addefent eu hunain, a dynodd i lawr eu holl resymeg trwy ei Air a'i Yspryd; ar yr un pryd, dalient yn gryf yn erbyn addoli ei ddyndod ar y cyntaf. Cawsom galenig ardderchog o gariad, yn sicr. Pregethais oddiar y geiriau yn Esaiah: 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni. Yr oeddwn yn agos at yr Arglwydd; teimlwn fy hun yn farw i fy hunan; yn sicr, yr oedd yr Yspryd Glân yn bresenol. Dangosais mai y Duw mawr oedd baban Bethlehem; felly yr addolai y doethion ef; felly hefyd yr addolai Stephan y dyn Iesu, sef oblegyd ei weled ef yn Dduw; felly hefyd y cyfaddefai Petr wrth y dyn (Iesu) ei fod yn Dduw; dyna fel y dywedai wrth yr Iuddewon ddarfod iddynt groeshoelio Arglwydd y gogoniant, sef Duw; dyna y modd y galwai Paul ei waed, yn waed Duw ei hun; felly y galwai Thomas y dyn (Iesu) ei Dduw. Yn sicr, y mae yn Dduw, a phwy bynag sydd yn ei weled ef, y mae yn gweled y Tad, megys y dywedodd wrth Phylip. Er fod tri Pherson yn y Drindod, nid oes ond un Duw. Dangosais y modd y rhwygwyd y gorchudd, amryw flynyddoedd yn ol, ar y ffordd i Sir Drefaldwyn, ac y tywynodd Duw arnaf trwy y gair hwnw: 'Mawr yw dirgelwch duwioldeb,' ac mai hyn yn awr yw fy mwyd a'm bywyd. Darostyngwyd fi wrth weled yr anrhydedd a osodid arnaf fy mod yn cael cario y genadwri hon i'r ŵyn."

Yr ydym yn difynu ei eiriau yn helaeth, er dangos mor llwyr oedd ei fyfyrdodau wedi cael eu llyncu gan ddirgelwch undeb y ddwy natur yn mherson Crist. Dyna

fater mawr ei weinidogaeth yn bresenol. Prin yr ydym yn tybio fod ei syniadau, ar y cyfan, yn gyfeiliornus, ond y mae ei ddull o eirio yn anhapus; a theimlwn fod gormod o duedd ynddo i fanylu, ac i gario ei gasgliadau yn rhy bell. Hawdd gweled hefyd fod gwrthwynebiad yn dechreu codi i'w olygiadau yn y cymdeithasau, ond fod ei bresenoldeb ef, yn nghyd â grym ei hyawdledd, a'i frwdfrydedd, yn darostwng pob gwrthwynebiad a ddeuai iddynt. Ond i fyned yn mlaen â'r dyddlyfr: "ABERTHYN, dydd Iau. Neithiwr, cawsom seiat hyd gwedi deg. Cefais ryddid i ddatgan fy ofnau am y seiadau, eu bod yn gorphwys ar rywbeth, heb ddyfod at waed Crist i weled eu cwbl oll. Dyma y rheswm am eu cwerylon a'u dadleuon, ac ni chawn byth ein huno heb ddyfod at y gwaed hwn. Dangosais, yn gyhoeddus ac yn breifat, fel yr oeddwn yn gweled yn yr Iesu dosturiaethau, tynerwch, a chydymdeimlad dyn, ac anfeidroldeb y Duwdod wedi ei uno â hyn. Pa fodd, nas gallwn ddweyd, as nas gallai yr angelion. Dangosais y modd y mae rheswm cnawdol yn gwahanu y Duw a'r dyn, am na fedr ddirnad y dirgelwch. Yn y dirgel, drachefn, clywais fel y mae yr Arglwydd yn dwyn y brawd Thomas Williams yn ei ol, ac yn eu rhwystro i gael eu rhanu a'u gwasgar yn Llantrisant. Porthwyd fi wrth weled mai yr Arglwydd sydd Dduw. Cafodd un brawd a fuasai mewn profedigaeth gref, parthed duwdod Crist, ei ollwng yn rhydd heno. Dangosais iddynt y modd yr oedd yr Arglwydd wedi eu galw i ddangos ei ogoniant ynddynt. Peidiwch gorphwys ynte mewn ffurfiau, a gwybodaeth, a threfniadau ac allanolion.

"Yna aethum i St. Nicholas, lle y cefais ryddid a nerth mawr i lefaru oddiar eiriau yn llyfr Datguddiad. Gwedi hyn aethum tua Llantrisant. Ar y ffordd, clywais fod rhai yno yn wrthwynebol i mi, yr hyn a brofodd yn fendith i mi, i'm darostwng i'r llwch, a'm gwneyd yn dlawd yn yr yspryd. Plygais i weddïo yn ngwydd cynulleidfa fawr, yn y llwch, gan deimlo fy anghymhwysder, eithr yr Arglwydd a'm dyrchafodd, gan roddi i mi yspryd llew, fel yr oeddwn yn cario pob peth o'm blaen. Yr oeddwn yn flaenorol wedi profi dwyfoldeb Crist allan o'r Ysgrythyr, gan ddangos fod y dyn hwn yn Dduw. Ni chefais erioed o'r blaen y fath awdurdod. Cyhoeddais i bawb a allai glywed mai y Duw-ddyn yw fy mywyd, a'm pob peth, i dragywyddoldeb. Os nad yw ef yn Dduw, nad yw ei waed yn meddu unrhyw rinwedd; ein bod oll yn golledig yn oes oesoedd. Pregethwn am y doethion yn dyfod i addoli y sanctaidd faban, sef Iesu. Rhyfedd fel y mae rheswm cnawdol a natur yn gwingo yn erbyn y gwirionedd hwn; yr wyf yn ei deimlo fy hun. Ond galluogwyd fi i frawychu, i bledio, ac i agor yr Ysgrythyr, fel y cafodd rheswm ei ddystewi, gan ddangos ei dywyllwch, ei anwybodaeth, a'i elyniaeth at Dduw. Dangosais fel yr oedd marwolaeth a chlauarineb wedi ymdaenu tros Eglwys Loegr, a thros yr Ymneillduwyr yn ogystal, er pan beidiwyd pregethu y gwaed hwn. Yn flaenorol, fod yr athrawiaeth yma yn adsain trwy yr holl eglwysydd, a bod nerth a bywyd ynddynt y pryd hwnw. Atebais resymau a ddefnyddir yn ein herbyn (fel Methodistiaid), sef fod ein pregethu yn annysgedig. Profais fod hyn yn ddadl o'n plaid. Oblegyd o ba le y gallwn gael y doniau hyn, os nad oddiwrth Dduw? Y mae eraill lawn mor ddoniol, ac yn fwy dysgedig, eithr na fedrant bregethu, pe y caent y byd am hyny. Yr wyf fi yn cyhoeddi, nid trwy fy ngwybodaeth, oblegyd ychydig wybodaeth a feddaf, na thrwy fy nysgeidiaeth, eithr yr wyf yn llefaru yr hyn a gaf gan yr Arglwydd; pan fyddwyf yn myned gerbron y bobl nas gwn beth a ddywedaf, ond fy mod yn rhoi fy hun i Dduw. Cefais lawer o awdurdod i gymhwyso y gwirionedd, ac i ddangos, os nad oedd y baban hwn, y dyn hwn, yn Dduw, sut nad oedd y doethion yn pechu wrth ei addoli, a Stephan ddim yn pechu wrth weddïo arno, a Thomas, wrth ei alw, 'Fy Arglwydd a'm Duw;' a Phetr wrth ei alw yn Arglwydd, ac yn Fab Duw?

"Yn y seiat breifat agorodd y brawd Thomas Williams ei holl galon, gan ddangos y modd y daeth y demtasiwn i ymneillduo gyntaf arno, o gwmpas pedair blynedd yn ol; i gychwyn, trwy ddymuniad am gael ei ordeinio; yna, trwy fwyhau mân bethau, nes eu gweled yn fawr; a phan na ildiem i'w betrusder, iddo fyned i edrych arnom fel rhai rhagfarnllyd, ac i'w galon fyned oddiwrthym. Yn ganlynol, aeth i'n dirmygu, gan ganfod ein gwaeleddau, ac edrych arnom fel rhai ieuainc, dibrofiad, a hunangeisiol. A'i fod o hyd yn tybio mai canlyn ei gydwybod yr ydoedd hyd bron yn awr; pan gwedi iddo ymneillduo yr agorodd yr Arglwydd ei lygaid i weled, mor glir ag sydd bosibl, mai

gwaith y diafol oedd y cwbl, a magl, a'i fod yn meddwl hyny am bawb oedd wedi ein gadael. Dywedai yn mhellach ei fod yn rhydd yn awr i gymuno yn yr Eglwys, yr hyn na fedrai o'r blaen. Llewyrchasai yr un goleuni hefyd ar feddwl y brawd a ymneillduasai y Sul o'r blaen, ac y mae yntau yn dyfod yn ei ol. O Arglwydd, dy waith di yw hyn! Darostwng fi! Yr wyt yn ein harddel, am dy fod yn ewyllysio, ac am mai Duw ydwyt. Eglurais inau holl hanes y Diwygiad Protestanaidd, fel yr oedd Duw wedi anrhydeddu Eglwys Loegr, am mai ynddi y tywynasai y goleuni gyntaf trwy Wycliffe; cyfeiriais at Huss, Jerome, o Prague; oddiwrthynt hwy aethum at Luther, Calvin, sefydliad yr Eglwys Brotestanaidd; yna at Harry, Edward, Mary, ac Elizabeth, yn y wlad yma; fel yr oedd yr Eglwys yn wrthglawdd yn erbyn Pabyddiaeth tu hwnt i bawb arall; y modd na chaem y fath oddefiad gan unrhyw eglwys arall o fewn y byd. Dangosais y modd y maent yn rhoddi i lawr bregethu lleygol yn Ysgotland, ac yn awr yn yr America; eu bod yn carcharu y cenhadon Morafaidd yn unig am bregethu gwaed Crist, fel y gwnawn ni. Agorais yr holl gwestiwn gyda golwg ar yr Ymneillduwyr, a'r Parch. Edmund Jones; eu hystâd pan yr adnabyddais hwy gyntaf, a'u hystâd yn awr; y modd yr wyf yn gweled y sawl sydd yn ymuno â hwy yn suddo yn raddol i'r un ffurfioldeb a hwythau, ac fel y maent yn ceisio tynu pawb a fedrant oddiwrthym ni; a'r fath wahaniaeth sydd rhyngddynt, parthed yspryd, athrawiaeth, a chynllun, a'r eiddom ni, fel y mae unrhyw gysylltiad agos rhyngom yn anmhosibl."

Y mae amryw bethau yn ein taro wrth ddarllen y difyniadau hyn: (1) Mai prif destun, a braidd unig destun, gweinidogaeth Howell Harris yn awr oedd dirgelwch undeb y ddwy natur yn Mherson yr Arglwydd Iesu; teimlai ei fod wedi cael datguddiad ar y mater o'r nefoedd; ymddangosai holl rinwedd y dyoddefaint a'r gwaed iddo yn dibynu ar fod yr undeb mor agos, fel, mewn ystyr, fod y natur ddynol yn cael ei dwyfoli, ac yn dyfod yn wrthddrych addoliad. Gallwn ni yn bresenol weled fod cryn gymysgedd yn ei syniadau, er, hefyd, fod ganddo gymal pwysig o'r gwirionedd; a'i fod yn gwahanu mewn athrawiaeth yr hyn na fuasai erioed ar wahan mewn ffaith, sef natur ddynol y Gwaredwr oddiwrth ei berson dwyfol. Wrth ymresymu y pwnc yma, defnyddia ymadroddion an-Ysgrythyrol, ymadroddion nas gallent lai na rhoddi tramgwydd, erbyn eu hystyried yn bwyllog, er fod ei wresawgrwydd ef yn cuddio eu hanmhrydferthwch ar y pryd. Ac yr oedd yn gwthio ei syniadau i eithafion, gan anghofio y gwirioneddau cyferbyniol. (2) Y mae yn dra sicr mai Thomas Williams, y Groeswen, a gawsai ei ordeinio yn weinidog yno yn ol dull yr Ymneillduwyr, oedd y brawd a gyfaddefai ei edifeirwch oblegyd gadael y Methodistiaid. Efallai na ddylem wasgu ei gyffes yn rhy bell, a thybio ei fod am beidio gweini yr ordinhadau mwy. Ond amlwg yw ei fod wedi cael ei siomi yn yr Ymneillduwyr, ac am wasgu yn glosach at y Methodistiaid; gan gyfaddef fod mwy o'r dylanwadau dwyfol yn cael eu teimlo yn eu mysg; ac mai fel Methodist y dymunai gael edrych arno mwy. (3) Canfyddwn resymau Howell Harris dros lynu wrth Eglwys Loegr, nad oedd yn cael ei lywodraethu gan ragfarn ddall yn y mater. Tybiai, fel y gwnai John Elias ar ol hyny, mai hi oedd yr unig wrthglawdd effeithiol yn erbyn Pabyddiaeth; nad oedd yn gweled y cai pregethu lleygol, yr hyn a gawsai ei fendithio mor amlwg i Gymru, ei oddef mewn unrhyw gyfundeb crefyddol arall; ac yr oedd ffurfioldeb, clauarineb, a chyfeiliornadau athrawiaethol nifer mawr o'r Ymneillduwyr yn dramgwydd iddo.

O Lantrisant, aeth i dŷ William Powell; yna i'r Graigwen, yn mhlwyf Eglwys Ilan, yn egwan o gorph, ond yn gadarn mewn ffydd. Cafodd odfa nerthol yma, er fod llawer o wrthwynebwyr undeb y ddwy natur yn bresenol. Ni chymerodd destun, eithr dangosodd allan o'r Ysgrythyr fawredd y dirgelwch; llawer a doddwyd wrth wrando, ond darfu i rai aros yn sych. Gwedi y bregeth, yn y seiat a ddilynai, agorodd yr holl helynt gyda golwg ar Thomas Williams; dywedodd Thomas Williams ei hun yr un peth ag a gyfaddefasai yn Llantrisant; gofynodd Harris i bawb o honynt, a oeddynt yn argyhoeddedig eu bod yn awr yn ffordd Duw, ac a oeddynt heb unrhyw awyddfryd am ymuno a'r Ymneillduwyr? Dywedasant oll yn un llais eu bod. Ymhelaethodd yntau ar y gwahaniaeth rhwng y Methodistiaid a'r Ymneillduwyr; fod yr Ymneillduwyr yn gorphwys mewn ffurf a chynllun; tra yr ymwthiai y Methodistiaid yn mlaen yn llawn yspryd a goleuni; nad yw yr Ym-

neillduwyr ychwaith yn canfod drygedd lliaws o bechodau, fel yr ymddangosant i'r Methodistiaid. Gwedi hyny, dywedodd rhywun nas gallai gyduno a'r hyn oedd Harris wedi draethu; datganodd cynghorwr perthynol i'r seiat hefyd, os rhaid iddo draethu ei farn, fod y farn hono yn groes i'r hyn oedd wedi cael ei bregethu y noson hono. Y mae yn amlwg mai syniad Howell Harris parthed person Crist oedd yn cael ei wrthwynebu. Cafodd yntau awdurdod i ateb nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu at yr hyn a draethasai allan o'r pwlpud; os oedd y cynghorwr yn gwrthwynebu hyny, mai heretic ydoedd, ac nas gallasai efe, Harris, ddal unrhyw gymundeb ag ef. Yna gofynodd i aelodau y seiat, a oeddynt yn credu yr athrawiaeth a bregethai efe? Atebasant hwythau eu bod. "Troes inau at y cynghorwr," meddai Harris, yn ei ddydd-lyfr, "a dywedais nas gallwn gymdeithasu ag ef (y cynghorwr) hyd nes y byddai iddo ymddarostwng am dywyllu gogoniant Crist, tramgwyddo ei wyn, a gwrthwynebu yr hyn na ddeallai. Dywedais, yn mhellach, mai dyma y genadwri oeddwn wedi dderbyn oddiwrth Dduw; nas gallwn ildio un iota o honi, mai hi oedd fy mywyd; a thrwy ras, fy mod yn foddlawn marw drosti. Os nad yw Crist yn wir Dduw ac yn wir ddyn, ac fel y cyfryw wedi byw a dyoddef; yna, yr wyf fi wedi fy ngholli yn oes oesoedd. Dangosais nad digon dweyd fod Duw yn y dyn hwn; fod Duw yn y credinwyr; mai cyfeiliornad oedd galw y Gwaredwr yn Dduw ac yn ddyn; fod undeb tragywyddol rhyngom ni sydd yn credu â Duw; ond ddarfod i'r Gair gael ei *wneuthur* yn gnawd. Pa fodd, nis gwn. Os oedd ef, y cynghorwr, yn gwadu ddarfod i Dduw ddyoddef, a bod Crist yn gweddïo ar y Tad, na ddylwn ymresymu ag ef, am mai dirgelwch ydoedd, ac nas gellid ei dderbyn ond trwy yr Yspryd Glân. Cyfeiriais at Grist yn galw ei hun yn Dduw weithiau, a phryd arall yn ddyn; weithiau yn honi fod ganddo awdurdod i roddi ei einioes i lawr, ac i'w chymeryd hi drachefn, a phryd arall yn gweddïo ar y Tad, ac yn cyfaddef nas gallai wneyd dim hebddo, mai yr un person a wnelai y ddau beth. Dyma y gwirionedd, ond nis gallwn ei amgyffred. Yn ganlynol, pan y dymunai wrthwynebu, gorchymynais iddo fod yn ddystaw, am ei fod wedi tori ei hun i ffwrdd o fod yn perthyn i ni. Yr oedd yntau yn gyndyn, a gwadai fy awdurdod i'w droi ef allan; mai yn y seiat yr oedd yr awdurdod hono, ac nid ynof fi. Atebais nad oeddwn yn ei ddiarddel ond mewn undeb a'm cydweithwyr; ac nad oeddwn i na hwythau yn gwneyd hyny onid yw y seiat hon yn ein dewis yn ewyllysgar i'w rheoli ac i wylio drosti; ac os oedd yn gwneyd hyny fy mod yn barnu fod genyf awdurdod i dderbyn i mewn ac i droi allan. Yna mi a genais Salm. Yr oeddwn yn flaenorol, wrth siarad, wedi cael fy nhoddi, ond wrth ganu llanwodd yr Yspryd fi â dymuniad ar i Dduw gymeryd ymaith fy holl ddoniau, a'i wisgo ef, y cynghorwr, â hwy. Llefais, yn dufewnol, ar i mi gael y fraint o'i weled yn llewyrchu yn ddysgleiriach na mi mewn gogoniant. Wrth gydweddïo, daeth yr Arglwydd i lawr mewn modd anghyffredin, gan ddryllio ein calonau. Yr oedd yma wylo mawr, a'r fath gariad, a gostyngeiddrwydd, ac ysprydoedd drylliedig, na welais y cyffelyb o'r blaen. Gofynais i'r Arglwydd, pa hyd y cawn gnoi a thraflyncu ein gilydd, ac ymranu? Ar y terfyn, dysgwyliwn y deuai efe, y cynghorwr, ataf, gan gyfaddef mai temtasiwn oedd wedi ei orddiwes; ond gan na ddaeth, aethum i ato ef, gan ei alw yn frawd, a syrthio ar ei wddf. Yr oll a ddywedodd ef ydoedd, nad oedd yn cael undeb â ni. Atebais fy mod yn gwneyd y cyfan er mwyn yr Arglwydd, a'i wirionedd, ac o gydwybod; ac er fod ei ddiarddel fel rhwygo fy nghroen oddiam fy esgyrn, fy mod yn rhwym o'i wneyd. Gwrthodais ddadleu yn hwy, gan ei bod yn un-ar-ddeg o'r gloch; felly, cusenais ef, a gweddïais gydag ef a'r brodyr, ac felly aethum i ffwrdd, yn drymach fy nghalon nag erioed."

Y mae yn amlwg fod Howell Harris wedi cael syniadau dyrchafedig am berson yr Arglwydd Iesu, ac am agosrwydd undeb y ddwy natur ynddo, a hyny y tuhwnt i neb o'i frodyr. Yr oedd gwirionedd gogoneddus wedi gwawrio ar ei feddwl; gwirionedd nad oedd y Diwygwyr eraill, efallai, yn talu sylw digonol iddo. Er hyny, cawn yn brithio ei ddydd-lyfr ymadroddion an-Ysgrythyrol, y rhai a brofant fod ei syniadau i raddau yn gymysglyd, a'i ddull o eirio yn fynych yn anhapus. A dyma ef yn awr, am y tro cyntaf, yn diarddel, allan o'r seiat, gynghorwr nad oedd yn gallu syrthio i mewn a'i olygiadau neillduol ef. Hawdd gweled fod defnyddiau ystorm yn dechreu cael eu cynyrchu. Aeth Howell Harris yn ei flaen tua Wat-

ford, yn glaf, ac yn barod i lewygu o ran ei gorph. Wrth feddwl am y genadwri neillduol a roddasid iddo, a'r gwrthwynebiad a welai yn dechreu codi, llefai: "O Arglwydd, ti a wyddost, fy unig amcan yw dwyn pawb atat ti, i'th weled di, fel yr wyt wedi datguddio dy hun yn dy Air." "Yna," meddai, "cefais yspryd i alaru am bob gair a ddywedaswn allan o le, ac i ddymuno am iddo ddangos ei ogoniant. Dychrynwn rhag myned i'r Gymdeithasfa, rhag ofn iddynt wrthwynebu y genadwri. Eto, ymddiriedwn yn yr Arglwydd, gan lefain: 'O Arglwydd, nis gallaf wadu dy wirionedd di, ac nis gallaf anghytuno a'm brodyr.' Yna, aethum tua Gelligaer, lle y cefais dystiolaeth fod Duw wedi fy anfon, ac wedi maddeu fy holl bechodau hyd yn awr. Cefais ryddid i lefaru oddiar: 'Fy ngeiriau i, yspryd ydynt a bywyd ydynt.'" Tybia i'r gynulleidfa gael bendith; yna, aeth i Mynyddislwyn; yr oedd yn glaf, ac yn wan, yn mron llewygu, ond yr hwn a'i danfonasai yno a'i nerthodd, gorph a meddwl. Ei destun oedd: "Mab a roddwyd i ni.' Teimlai ei fod wedi cael ei alw yma i lefaru am y dirgelwch, yr hyn na chawsai yn Gelligaer. "Galluogwyd fi," meddai, "i lefaru am ardderchawgrwydd gwybodaeth y Mab hwn; y modd y rhaid i bawb ddod i'w adnabod; truenusrwydd y rhai nad ydynt yn ei adnabod; y modd y mae yr Ysgrythyrau yn dwyn tystiolaeth iddo; mai hwy yw y meusydd, ac efe yw y perl sydd wedi ei guddio ynddynt. Dangosais am y datguddiad o Grist sydd yn cael ei roddi yn unig gan yr Yspryd. Cefais ryddid i ddangos am ddirgelwch Crist; fod y dyn hwn yn Dduw; yr oedd yr Yspryd yn cydfyned a'r Gair, yr oedd llawer yn teimlo, a llawer yn wylo."

Cyrhaeddodd le o'r enw Pen-heol-y-badd nos Sadwrn. Aeth filltir yn mhellach, i Tonsawndwr, boreu y Sul, lle y pregethodd oddiar y geiriau: "A hyn yw y bywyd tragywyddol." Yr oedd yr Arglwydd yn bresenol, ac wylai llawer. Dangosai fod dydd gogoneddus ar wawrio, gan fod y ceiliogod, sef gwenidogion Duw, yn canu trwy yr holl wlad. Cyfeiriodd yma hefyd at y dirgelwch. Oddiyno aeth yn ei flaen i'r New Inn. "Mab a roddwyd i ni" oedd y testun yma eto, a dirgelwch Crist oedd y mater. Yr oedd gras mawr ar y bobl, a gobeithiai fod gogoniant y Gwaredwr ar lewyrchu ar yr eglwys. Cyhoeddasid Howell Davies i bregethu yn Tonsawndwr dydd Llun; methodd gyrhaedd yno oblegyd afiechyd, a dychwelodd Howell Harris i gymeryd ei le. Cafodd odfa anghyffredin wrth lefaru am gorph pechod. Eithr cafodd lwybr rywsut i fyned at y pwnc oedd yn awr wedi llyncu ei fryd, sef dirgelwch y ddwy natur yn Nghrist. "Yn sicr," meddai, "bendithiodd yr Arglwydd y bobl a mi, ac ymddangosodd ynof, yn gystal a throsof, tra yr oeddwn yn ei bregethu ef a'i ddirgelwch. Dangosodd y cawn yn fuan, trwy ei wirionedd a'i waed, gyfarfod y bobl eto mewn gogoniant, allan o gyrhaedd pechod." Cychwyna am Lanheiddel yn nesaf. Cafodd odfa ryfedd iawn yma, gan deimlo fod yr addewidion iddo yn fwyd, ac yn ddiod, ac yn nerth. "Ni chefais y fath wyliau erioed o'r blaen," meddai; "cadwodd y gwin goreu yn olaf. Dywedais, hyd yn nod pe bawn yn Ymneillduwr (dangoswn nad oeddwn yn eu herbyn, ond o'u plaid, gan fy mod yn eu caru), y deuwn at y Methodistiaid, oblegyd gyda hwy y mae yr Arglwydd." Eithr y mae y chwerw yma yn gymysg a'r melus yn barhaus, a chafodd Harris brofi hyny yn Llanheiddel. Fel hyn yr ysgrifena: "Boreu dydd Mawrth. Cefais ergyd wrth glywed fod y brodyr yn Watford wedi suddo yn ddyfnach i'w cyfeiliornad o wrthod addoli dynoliaeth Crist, a'u bod wedi tynu atynt Mr. Davies, a'r dyn ieuanc oedd gydag ef; a bod rhyw un o honynt wedi galw corph marw ein Harglwydd yn gelain farw. Gyda y baich hwn cefais ffydd i lefain ar i'r Arglwydd ei sancteiddio i mi, i'm darostwng. Cefais ryddid mawr hefyd i weddïo dros y brodyr, y rhai ydynt yn llefaru am yr hyn na wyddant eto; yna, daliwyd gogoniant Crist ger fy mron, ei ogoniant o'r cryd i'r bedd, ac yr oedd Duw yn agos ataf."

Pwy oedd y Mr. Davies a gawsai ei hudo gan y brodyr yn Watford, nis gwyddom. Y mae yn amlwg fod pregethu Howell Harris am ddirgelwch person Crist yn dechreu berwi y seiadau; fod yr ymadroddion eithafol ac anwyliadwrus, efallai, a ddefnyddiai ef, yn cynyrchu yr eithafion cyferbyniol; a bod yn rhai yn tueddu i ddefnyddio ymadroddion carlamus. Ychwanega Harris yn ei ddydd-lyfr: "Y mae genyf i fyned i'r Gymdeithasfa; ac mi a awn dan ofn y brodyr, rhag i'r cyfeiliornad hwn gael ei goledd yn eu mysg, oni bai am ffydd. Yr wyf yn meddu goleuni, tynerwch, gwroldeb, ac awdurdod mewn

cysylltiad â rhai o honynt, fel brodyr ieuangach wedi eu hymddiried i'm gofal, a bod yn rhaid i hyn weithio er daioni, fel y mae pob gwrthwynebiad wedi gwneyd hyd yma." Yn y Glyn yr oedd y Gymdeithasfa i'w chynal, Ionawr 9, 1746; y dydd cyn hyny, wrth deithio tua Thaf-Fawr; ceisiai ddyfalu pa wrthwynebiad iddo ef a'i athrawiaeth a gyfodid gan y brodyr. Cafodd olwg newydd ar ogoniant a duwdod Crist, wrth weled fod y llywodraeth ar ei ysgwydd. Yn Taf-Fawr, cafodd gryn nerth wrth bregethu y gwaed. Cyfeiriodd yn llym hefyd at yr Ymneillduwyr cnawdol, y rhai a siaradent yn ddidaw am drefn, a ffurf-lywodraeth eglwysig, ac a alwent eu hunain yn eglwys, ond oeddynt yn hollol amddifad o fywyd. Oddiyma aeth i'r Glyn, lle y cynhelid y Gymdeithasfa; yr oedd ganddo daith o ddeg awr ar gefn ceffyl, a chyrhaeddodd yno yn hwyr y nos flaenorol i'r cyfarfod.

Y mae yn sicr fod Howell Harris yn dychrynu wrth feddwl am y Gymdeithasfa; dysgwyliai yn sicr y byddai i ymosodiad enbyd gael ei wneyd arno, ac ar yr athrawiaeth neillduol a bregethai, a cheisiai ymgadarnhau ar ei gyfer. "Teimlwn," meddai, "fod arnaf awydd cyfarfod a'r brodyr er cael fy sathru dan draed, fy nghondemnio, a'm gwrthwynebu; ni welwn ddim arall o'm blaen; llawenychwn ynddo, gan ei weled yn foddion i dynu i lawr fy malchder. Ond cefais olwg hefyd ar y dianrhydedd a gaffai ein Harglwydd wrth ein bod yn gwrthwynebu ein gilydd, ac ar yr ŵyn yn cael eu gwasgaru, a'u rhanu; yr oedd hyn yn dra dolurus i mi. Cefais nerth i weddïo ar i Dduw ein cadw yn nghyd." Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Williams, Pantycelyn, oddiar Eph. vi. 11; ac ymddengys ei bod yn odfa nodedig o lewyrchus. "Daeth awel nerthol i lawr arnom," meddai Harris; "fflamiwyd fy enaid o'm mewn, a darostyngwyd fi i'r llwch; yr oeddwn yn ddiolchgar am y dawn, a'r gras, a'r nerth oedd yn cael ei roddi." Gwedi y bregeth, cydginiawodd y brodyr, a dechreuwyd trin y gwahanol faterion, ar ol gweddi felus gan y brawd Morgan Jones. Yn ystod y weddi, yr oedd yr amenau mor uchel a chyffrous, fel y tramgwyddodd rhai; eithr dadleuodd Harris fod y tân o Dduw. Darllenwyd nifer o lythyrau, ac yr oedd ffydd y frawdoliaeth yn cynyddu fel y cynyddai eu treialon. "Y mae Satan yn ein profi o bob cyfeiriad," meddai Harris, "ond yr Arglwydd a ymddangosodd yn rhyfedd yn ein mysg ni heddyw, gan wneyd i fynu y rhwyg erchyll a ofnwn o Sir Forganwg. O dynerwch Duw! Yr hyn a ofnwn a symudwyd, a'n hysprydoedd a unwyd; eithr dengys hyn y fath blant ydym, mor lleied o gydymdeimlad a'n gilydd a feddwn; mor barod ydym i ymranu, ac i osod yr esboniad gwaethaf ar eiriau ein gilydd. Addefodd y brodyr iddynt fy nghamgymeryd, a'u pechod, yn cychwyn cwestiynau cnawdol parthed addoli dynoliaeth Crist, a'u gwaith yn rhoddi bod i syniadau cnawdol am ddyndod y Gwaredwr, fel pe y byddai ei ddyndod ar wahan oddiwrth ei dduwdod yn ei ddyoddefiadau, ac felly nad yw i'w addoli; a'u gwaith yn honi mai ei ddyndod yw y ffordd, y drws, a'r offrwm, ac felly, nad ydoedd i'w addoli o gwbl. Ar eu gwaith yn cydnabod eu bai, cefais ryddid i lefaru am ddirgelwch Crist, a'r modd y datguddiwyd ef i mi gyntaf. Dywedodd y brawd Rowland fod Ainsworth yn sylwi ddarfod i Dduw farw fel yr oedd yn Dduw-ddyn; ac fel pe bai yr un yn physigwr ac yn gyfreithiwr, y byddai yn briodol dweyd i'r physigwr farw, neu ynte y cyfreithiwr. Ai fod ef ei hun wedi pregethu, dydd Nadolig, am ddirgelwch Crist, oddiar y geiriau: 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd.' O Dad tyner! Dangosais fel yr oedd y duwdod yn nglyn a'r enaid a'r corph (yn Nghrist) pan yr oeddynt wedi eu hysgar oddiwrth eu gilydd; y modd yr oedd hyn yn llewyrchu arnaf; fy mod yn credu nad oeddynt hwy yn eu weled ond yn ngoleu rheswm, ac felly y dylent fod yn ddystaw. Dywedais fy mod yn credu fod y Morafiaid yn iawn yn y mater yma, ac nad oeddwn i wedi newid fy meddwl gyda golwg ar unrhyw wirionedd, ond wedi tyfu ac wedi ymgryfhau yn y goleuni. Yr wyf yn cael fod y gelyn yn ceisio ein gwahanu yn Sir Benfro, a bod yr yspryd Morafaidd yn ymledu yno; ceisiais inau dawelu pethau. Y mae yn dda mai yr Arglwydd sydd Dduw. Dywedais wrth John Belsher fy mod yn tybio fy mod yn gweled ynddo anghymwysder i ddelio ag eneidiau gweiniaid. Cefais ryddid mawr ar weddi ar y terfyn.'

Felly y terfynodd y Gymdeithasfa bwysig hon. Nid ydym yn teimlo y rhaid i ni wrth esgusawd am ddifynu ei hanes mor helaeth allan o'r dydd-lyfr, yn nghyd a hanes y daith. Y pryd hwn y rhoddwyd lefain yr ymraniad yn y blawd. Yr oedd yr hyn a eilw yn ddirgelwch Crist wedi

llyncu bryd Harris i'r fath raddau fel mai prin y cyfeiriai at un pwnc arall wrth bregethu; yr oedd mor argyhoeddiadol o'i wirionedd, ac o'i bwysigrwydd fel gwirionedd, fel yr oedd yn barod i farw yn hytrach nag ildio modfedd ar y mater. Y mae yn amlwg mai yn mhlith y cynghorwyr y cododd gwrthwynebiad gyntaf i'r athrawiaeth. Diau yr ofnai Harris y buasai Rowland, a Williams, yn y Gymdeithasfa, yn cymeryd eu plaid, ac yn cyduno â hwy i ymosod arno; yn hyny cafodd ei siomi yr ochr oreu; yr hyn a wnaethant hwy oedd darbwyllo y rhai a wrthwynebent i gyfaddef eu bod wedi camddeall ei eiriau, a'u bod wedi cyfodi cwestiynau cnawdol yn nglyn â pherson ein Harglwydd; ac mewn canlyniad i ymostwng wrth ei draed. Os oedd Rowland yn canfod gwrthyni rhai o ymadroddion Harris y pryd hwnw, ni awgrymodd hyny mewn un modd; gosodai hyny i lawr i ddull o eirio, gan gredu eu bod ill dau yr un yn y gwraidd. Nid rhyfedd fod Harris mewn tymher fuddugoliaethus, a'i draed ar yr uchelfanau.

Pa mor orfoleddus y teimlai a ddangosir yn y llythyr canlynol, a ysgrifenwyd ganddo o Drefecca, dranoeth i'r Gymdeithasfa, at Mr. Thomas Adams, un o gynghorwyr Whitefield, yn y Tabernacl: "Fy anwyl gyd-weithiwr, a'm hanwylaf frawd,—Yr wyf wedi bod am bythefnos o daith; neithiwr y daethum adref o'r Gymdeithasfa; ac ni fu genyf erioed y fath adroddiad i'w anfon i chwi. Ni ddarfu i'n Harglwydd erioed, yr wyf yn meddwl, ddyrysu cynllwynion y gelyn, a bendithio ei ddrudfawr ŵyn a brynwyd ganddo, ac agor ei gariadlawn fynwes, i'r fath raddau ag yn awr. Er pan ddychwelais, gwnaed fi yn dyst o'i ogoniant a'i fawrhydi. Nis geill tafod fynegu y fath weithredoedd nerthol sydd yn cael eu cyflawni ganddo trwy ddwylaw ei weinidogion yma. Y mae yr offeiriaid fel seraphiaid fflamllyd; a llawer o'r brodyr lleyg ydynt yn nodedig o lwyddianus. Y mae tair sir—Penfro, Caerfyrddin, ac Aberteifi—yn ymddangos fel preswylfeydd arbenig yr Arglwydd, ac yn ganolbwynt y gwaith, fel pe bae. Mewn amryw fanau yn Siroedd Morganwg, Mynwy, Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, y maent yn tyfu yn ardderchog, ac er fod y gelyn yn barhaus yn hau ei efrau, eto y mae cariad brawdol a symlrwydd yn ffynu. Y fath yw yr arddangosiad o ogoniant Duw yn ngras Iesu Grist fel, mewn amryw leoedd, y mae yn llwyr orchfygu natur. Y mae amryw yn cael eu bedyddio ag addawedig dân y Glân Ysbryd i'r fath raddau, fel y maent yn methu bod yn ddystaw; eu huchel amenau, a'u haleliwia o fawl i'r hwn a'u prynodd, yn fynych sydd yn boddi llais y pregethwr. Treulir llawer o oriau, ïe, nosweithiau cyfain, mewn canu a gweddïo. O ddyddiau gogoneddus! Y mae y ceiliogod yn canu, ac y mae gwawr boreu clir yn tori. Yn sicr, y mae y Cadben ar y maes; yr Arglwydd a ymwelodd a'i deml. Y deillion (ysprydol) ydynt yn cael eu golwg yn ddyddiol; clustiau y byddariaid sydd yn cael eu hagor; y cloffion sydd yn rhodio, a'r meirw yn cael eu cyfodi. Y mae teyrnas ein Duw a'n Crist wedi dyfod i'n mysg; gwae y rhai a wrthwynebant, yn gyhoedd neu yn ddirgel. Yn ein Cymdeithasfa yr oeddym yn fwy hapus nag erioed. Cawsom adroddiadau ardderchog gan y gwahanol arolygwyr am yr eneidiau oeddynt dan eu gofal. Satan sydd mewn dyryswch. Anwyl frawd, ewch yn mlaen yn hyf, sethrir ef yn gyfangwbl heb fod yn hir. Ein Duw a'n bendithia ac a'n llwydda; bydded i ninau bob amser olchi ei draed. Y fory, yr wyf yn pregethu gartref; dydd Llun, yr wyf yn cychwyn ar daith arall. Yn union gwedi fy nychweliad bwriadaf, os Duw a'i myn, fyned i Lundain. Y mae eich ceffyl yn gryf. Ar y daith hon bwriadaf fenthyca ceffyl i'm hanfon o le i le. Una fy ngwraig mewn cofion serchog atoch chwi a'ch priod. Yr eiddoch, yn ein hanwyl Waredwr, How. Harris."

Fel yr arfaethasai, cawn ef yn cychwyn i'w daith dydd Llun, Ionawr 13. Ceir ei brofiad wrth fyned yn ei ddydd-lyfr: "Heddyw, cyn cychwyn i daith i Siroedd Morganwg a Chaerfyrddin, dyrchafwyd fy enaid uwchlaw pechod, ofn, a Satan, a gwnaed fi yn orchfygwr trwy ffydd. Aethum tua Chwmcamlais, pellder o ddeg neu bymtheg milltir; ar y ffordd, fy enaid a adfywiwyd ynof, wrth weled nad oedd genyf yr un Duw ond y dyn Crist Iesu, a'i fod yn Dduw maddeugar, a chariadlawn, yn fy nghyfiawnhau, yn fy mendithio, ac yn fy arwain. Gwelais fod rhyw gyfoeth dihysbydd yn y dirgelwch—Duw wedi ei wneuthur yn gnawd. Cefais ryddid mawr wrth weddïo a phregethu oddiar 1 Ioan v. 7; cyfeiriwyd fi yn fwyaf neillduol at y clauar a'r cnawdol, y cyfryw oeddynt wedi ein gadael, ac ymuno a'r Ymneillduwyr;

dangosais eu bod wedi myned allan o ffordd Duw; pa nifer sydd yn feddw beunyddiol ar win newydd Duw, a bod y gwaith yn ddwyfol, fel y profa yr arwyddion." Nid hawdd deall y cyfeiriad at y rhai oeddynt yn feddw ar win newydd Duw; geill olygu yn y cysylltiad, naill ai mai ychydig o'r Ymneillduwyr, neu ynte fod llawer o'r Methodistiaid felly. Pregethodd yma hefyd am y dirgelwch. Aeth yn ei flaen i Landdeusant, lle y pregethodd oddiar Ioan xvii. 3. Cafodd lawer o nerth; llefarai weithiau yn erbyn proffeswyr cnawdol, bryd arall yn erbyn y rhai oeddynt yn gyhoeddus annuwiol. Gwelai ei fod yn cael ei arwain mewn gwahanol ffyrdd; weithiau i daranu; bryd arall yn fwy i gysuro ac iachau. Yma eto, cyn gorphen, cyhoeddai y dirgelwch sydd yn Nghrist. "Agorais y cyfan gydag awdurdod," meddai, "gan ddangos fod y dyn hwn yn Dduw, ac mai efe oedd yr unig Dduw." Dydd Mercher, aeth tua Thygwyn. Ei destun yma oedd: 'A hwy a'i gorchfygasant ef trwy waed yr Oen.'' Yr oedd yn agos at yr Arglwydd wrth lefaru, ac yn ddedwydd; ymddangosai y bobl hefyd yn gariadlawn. Ond ni ddaeth y nerth mawr hyd nes y dechreuodd son am fuddugoliaeth y dyn duwiol trwy Grist ar bechod. Dydd Iau, cawn ef yn Gell-y-dorch-leithe, ac fel hyn yr ysgrifena: "Neithiwr, llamai a neidiai yr wyn, ar ol cael eu porthi ar ddirgelwch Crist; yn awr y mae y goleuni yn dechreu tywynu arnynt." Yn Llangadog, llefarodd gyda chryn nerth a goleuni oddiar 1 Ioan v. 7, ac wrth ei fod yn dangos y gwahaniaeth rhwng canlynwyr Crist a phechaduriaid, llewyrchodd goleuni o dragywyddoldeb ar ei enaid, dysgleiriach na dim a welsai o'r blaen; gwelai y byd hwn fel cysgod gwanaidd o'r un i ddod. Efengylu a wnelai yno, a gwahodd pawb at Grist yn felus; ond ni ddaeth y nerth hyd nes y dechreuodd ymdrin â dirgelwch Crist. "Dangoswn," meddai, "fod ofn yn cilio pan fyddo gogoniant Grist yn ymddangos. Agorais y cwbl, fel arfer, am Grist, yn arbenig am dano yn sefyll yn fud gerbon Pilat, a'i waith yn cymeryd ein pechod a'n heuogrwydd ni arno ei hun, trwy yr hyn y mae Duw yn gallu ymddwyn at y rhai sydd yn credu, fel pe byddent heb bechu. Dangosais, os bu Crist farw dros bawb, yna y rhaid i bawb gael eu rhyddhau, nas gellir eu cospi hwy drachefn. Yr oeddwn yn nerthol wrth ymdrin â genedigaeth, bywyd, dyoddefiadau, a marwolaeth yr Iesu, ac wrth egluro cyffes Petr, Paul, a Thomas. Yma hefyd yr wyn a borthwyd."

Cawn ef yn nesaf yn Llansamlet. Tebygol mai rhyw blwyf yn Sir Forganwg oedd y Llangadog blaenorol. Teimlai yn egwan, ac yn barod i lewygu, ar y ffordd; ond pan y dechreuodd bregethu, daeth nerth corphorol iddo yn ddisymwth. Gwybodaeth benarglwyddiaethol Duw yn Nghrist oedd y mater y llefarai arno, a chafodd ei arwain i roddi arbenigrwydd ar ddirgelwch y gwaed, gan ddangos mai dyma sylfaen yr oll oeddynt yn fwynhau, a llefain ei fod yn barod i fentro tragywyddoldeb ar bwys y gwaed hwn. Yr oedd yn odfa nerthol iawn. Ar y diwedd, cadwyd seiat breifat, ac meddai: "Arosasom yn nghyd hyd ddeg; yr oedd y nerth a'r bywyd yn peri ein bod fel fflam; daeth adref ataf mor agored ydym i ddichellion Satan; eithr cefais lonyddwch wrth gyflwyno y cwbl i law Duw." Amlwg yw fod rhyw arwyddion annymunol yn y cynulliad yn nghanol y gwresawgrwydd, y rhai oeddynt yn eglur i lygad y Diwygiwr. Cawn ef yn nesaf yn Mherllan-Robert. Pregethodd yma yn Gymraeg ac yn Saesneg; odfa doddedig ydoedd; ond nid oedd ynddi gymaint o dân, a nerth, a gwaeddi allan, ag a geid dan weinidogaeth yr offeiriaid. "Cefais dynerwch mawr," medd, "wrth gyflwyno fy nghenadwri arferol am ddirgelwch Crist; ymddangosai llawer fel be byddent yn teimlo; ac yr oedd nerth yn cydfyned a'r Gair wrth fy mod yn pregethu am ddirgelwch y Gwaredwr, a dirgelwch y Drindod, ac yn dynoethi rheswm cnawdol." Nos Wener, aeth yn ei flaen i Casllwchwr, lle y pregethodd oddiar y geiriau: "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd." Yma clywodd am y boneddwr a gymerasai ei geffyl oddiarno yn agos i Gastellnedd, pan ar ei daith trwy y rhanbarth hwn yn flaenorol, ei fod wedi colli dau o'i geffylau; a'i fod yntau wedi cael ei gymeryd yn sal mewn clefyd, o ba un yr oedd eto heb gael ei adfer. "Llawer ac amrywiol yw y gwersi a ddysgir i mi, gan bob math o bobl wyf yn gyfarfod," meddai Harris; "ond nid wyf yn gweled neb cynddrwg a mi fy hun, na neb yn cael y fath ffafr." Cyfarfyddodd yma hefyd y boneddwr ieuanc, Mr. Dawkins, wrth ei enw, yr hwn a ymddangosai dan gryn deimlad, a chafodd lawer o bleser wrth ymddiddan

ag ef am bethau ysprydol. "Y mae gwaith mawr yn cael ei gario yn mlaen," meddai; "ordeiniwyd offeiriad ieuanc yma yn ddiweddar, yr hwn sydd yn Gristion. O Arglwydd, ymwel â dy eglwys!" Rhaid fod cyflwr offeiriaid Eglwys Loegr yn ddifrifol yr adeg hon, pan y mae ordeiniad offeiriad oedd yn Gristion yn ffaith i alw sylw arbenig ati, ac i ddiolch am dani.

Dydd Sadwrn, aeth i Pembre erbyn dau; yr oedd y bobl wedi bod yn dysgwyl am dano am bedair awr; syna yntau fel y mae yn colli ei amser yn barhaus, ond dywed nas gallai help. Cafodd ryddid i lefaru yma, ond nid oedd y dylanwad yn fawr. Bwriadai gyrhaedd Llanddowror nos Sadwrn, ond methodd groesi y culfor yn Llanstephan, nes yr oedd yn rhy hwyr i fyned yn mhellach. Modd bynag, ni threuliodd ei amser yn ofer; clywodd y bobl ei fod yn y lle; daeth torf yn nghyd, a chafodd yntau gyfle i lefaru. Yr oedd ei bregeth ar ffurf ei bregethau cyntaf, sef dynoethi cnawdolrwydd a dallineb offeiriaid yr Eglwys, drygioni y boneddigion, ac arferion isel y bobl gyffredin. Ymddengys ei bod yn odfa iw chofio byth. Yr oedd y dylanwad ar deimlad Harris ei hun yn mron yn llethol. Wrth weled fel yr oedd yr Arglwydd yn cario ei waith yn mlaen, gwaeddai: "Haleliwia! Amen! O felus dragywyddoldeb! Gwelaf yn awr paham y darfu i'r Arglwydd fy nghadw mor hir mewn caethiwed gan ofn angau, sef er mwyn i mi ymgydnabyddu â chelloedd tywyll marwolaeth, ac felly allu cysuro eraill pan fyddont yn croesi." Cyrhaeddodd Landdowror o gwmpas un y Sul; yr oedd yn mhell oddiwrth yr Arglwydd ar y ffordd. Testun y Parch. Griffith Jones ydoedd: "A hon yw y ddamnedigaeth." Cafodd Howell Harris fendith wrth wrando, ac yn neillduol yn y cymundeb a ddilynai. Eithr pan y soniai yr hen offeiriad am "amodau iachawdwriaeth," teimlai Harris mai Crist oedd ei amod ef, a'i deitl i holl fendithion y cyfamod. Aeth i Merthyr, yn Sir Gaerfyrddin, erbyn y nos, lle y cafodd odfa felus.

Dydd Llun, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Glancothi, a chyrhaeddodd Howell Harris yno o gwmpas dau. Yr oedd Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn, yn bresenol, yn nghyd a Benjamin Thomas, y gweinidog Ymneillduol; ond nid yw Harris yn croniclo unrhyw ymdriniaeth ar faterion, na dim a ddywedwyd gan neb ond efe ei hun. Fel hyn yr ysgrifena: "Cefais agosrwydd mawr at yr Arglwydd yn y weddi; gostyngwyd fy nghalon, a daeth yr Arglwydd i lawr pan y dangoswn fel yr oedd llygaid pawb arnom, ac yr anogwn i wyliadwriaeth, a pheidio rhoddi tramgwydd i neb mewn dim. Eglurais fod ymddwyn yn wahanol yn profi diffyg cariad at eneidiau. Yr oeddwn yn rymus wrth ddangos yr angenrheidrwydd am ostyngeiddrwydd, a thra y caem ein cadw yn y llwch y byddai i'r Arglwydd ein hanrydeddu. Disgynodd Duw i'n plith; toddwyd llawer, ac wylent yn hidl. Eisteddasom am o bedair i bum' awr; yr oedd yr Arglwydd yn ein mysg mewn modd neillduol, gan roddi i ni gariad a doethineb i ddyoddef ein gilydd, tra yr ymdriniem a materion o'r pwysigrwydd mwyaf, ac am y rhwyg a geisiai Satan ei wneyd yn ein plith. Yr oeddem oll yma yn ostyngedig, ac mewn undeb." Yna, cronicla anerchiad a draddodwyd ganddo; dywed iddo gyfeirio at ddirgelwch Crist; fel yr oedd angau Crist wedi dinystrio marwolaeth; fel yr oedd corph ac enaid ein Hiachawdwr mewn undeb a'i dduwdod tra ar wahan oddiwrth eu gilydd; fel y cawsai y dirgelwch hwn ei ddatguddio iddo ef gyntaf, ac fel na bu yntau yn anufudd i'r weledigaeth nefol. Dangosai hefyd fel yr oedd Satan yn ceisio peri i rai gyfeiliorni, trwy wrthwynebu yr ymadrodd, "cymhwysiad o'r gwaed," gan ddewis yn hytrach y term, "derbyniad o Grist," a thrwy hyny ddynesu at athrawiaeth yr Antinomiad, sef cyfiawnhad er tragywyddoldeb mewn sylwedd, a chyfiawnhad gweithredol pan fu Crist farw. Cydunai y brodyr a phob gwirionedd a draethai. Yr oedd yn nerthol ac yn agos wrth ddangos fod Duw wedi caru yr etholedigion er tragywyddoldeb, a Christ, fel eu pen, wedi marw dros eu pechodau oll, ac yn eu lle; ac eto eu bod yn farw, ac yn wrthrychau digofaint Duw, hyd nes y caffont eu geni drachefn, ac y credont, ac y caffo Crist ei gymhwyso atynt. Yr oedd pawb yn gweled lygad yn llygad, ac ymadawyd yn hyfryd o gwmpas naw.

Er hwyred ydoedd, aeth Rowland, Williams, Pantycelyn, a Harris, i Glanyrafonddu i letya, ac yr oedd yn ddeuddeg o'r gloch arnynt yn cyrhaedd. Wrth ochr Williams y marchogai Harris, a chafodd fendith hyfryd yn y gymdeithas. Dydd Mawrth, pregethai Rowland yn nghapel Abergorlech. Meddai Harris: "Clywais

y bregeth fwyaf ardderchog, gan ŵr mawr Duw, oddiar Salm cv. 14, 15." Ymddengys fod yr Arglwydd yn agos hefyd yn y sacrament. Gwelai Howell Harris dri dirgelwch mawr, Duw, Crist, a'r eglwys; am y diweddaf, canfyddai ei bod yn ogoneddus yn wir. Wrth ei fod yn siarad am y dirgeledigaethau hyn, tramgwyddodd rhai; ceryddodd yntau hwy am yr hyn a welai allan o le ynddynt; ond yr oedd undeb anwyl rhyngddo a'r brawd Rowland. Wedi dychwelyd i Glanyrafonddu, pregethodd Rowland drachefn, oddiar Joel iii. 13; odfa anghyffredin oedd hon eto; yr oedd enaid Harris yn fflam o'i fewn; gwelai yn Rowland yr un yspryd ag oedd ynddo ef ei hun. Ymddengys fod gorfoleddu mawr yn y cyfarfod hwn. Cynghorodd Harris mewn modd brawdol y rhai oeddynt ar dân gan gariad, a theimlad o fuddugoliaeth, ac yr oeddynt hwythau yn ddigon gostyngedig i dderbyn y cynghor. Aeth y cyfeillion yn nghyd dydd Mercher i Lwynyberllan; pregethodd Rowland yma eto ar Jer. xxxiii. 6; cafwyd yma arwyddion amlwg o bresenoldeb yr Arglwydd. Llefarodd Harris yma hefyd, a dywed fod ei dafod fel pin ysgrifenydd buan. Yna, wedi bod yn ddedwydd tu hwnt yn nghymdeithas y brawd Rowland, cyfeiriodd Howell Harris ei wyneb tuag adref. Yr oedd yn Bronydd dydd Iau, yn Nolyfelin dydd Gwener, a chyrhaeddodd Drefecca y noson hono, wedi taith o yn agos i bythefnos. Dengys y cofnodau fod dirgelwch person Crist yn parhau i fod yn brif wrthddrych myfyrdod Harris; mai dyna a bregethai braidd yn mhob lle; ac ar y cyfan, nad oedd fawr gwrthwynebiad i'r athrawiaeth a gyhoeddai yn cael ei ddangos. Yn arbenig, yr oedd Daniel Rowland ag yntau mewn undeb perffaith.

Y peth cyntaf a wnaeth wedi myned adref oedd sefydlu math o gyfarfod chwechwythnosol, agored i bawb oedd yn llefaru. Trefn y cyfarfod oedd pregethu am ddeg; yna, seiat breifat a chariad-wledd i'r holl aelodau allent ddyfod, o bob cyfeiriad; a chwedi hyny, Cymdeithasfa i'r cynghorwyr, nid yn gymaint er trefnu materion, ag er gweled gwynebau eu gilydd yn yr Arglwydd. Y tro hwn pregethodd Harris; ei destun oedd: "Mawr yw dirgelwch duwioldeb;" a llanwodd Duw y lle a'i bresenoldeb. Yn y seiat, drachefn, deuai y dylanwadau nefol i lawr yn ddidor. Amddiffynai Harris y gorfoleddu yn yr odfaeon, gan gyfeirio at Dafydd yn dawnsio o flaen yr arch, a Christ yn marchog mewn buddugoliaeth i Jerusalem, fel profion. Wedi ciniawa, cyfarfyddasant yn y Gymdeithasfa; yr oedd yr Arglwydd yn eu mysg fel fflam dân; nis gallant ddweyd yr un gair am amser, ond llefain, "Gogoniant! Gogoniant! Haleliwia!" Wedi cael seibiant, siaradodd Harris am falchder, diogi, a difaterwch, a'u bod trwy y peth hyn yn gofidio y rhai oedd yn agos at Dduw. "Agorasom ein holl galonau i'n gilydd," meddai; "rhai o faglau Satan a ddrylliwyd, a'r Arglwydd a ymddangosodd drachefn i rwystro y rhwyg oedd Satan wedi arfaethu. Siaradais a'r brawd Beaumont gyda golwg ar rai ymadroddion tywyll a arferai. Daeth yr Arglwydd arnom eto fel fflamau tân; yr oeddem yn llawn cariad, a llawenydd, a chanem fuddugoliaeth. Gwedi swpera, a siarad yn breifat, ymadawsom, yn feddw gan win newydd Duw." Y mae yn sicr fod y cyfarfodydd yn llawn bywyd a hwyl, ac fod y dylanwadau yn dra nerthol.

Ddechreu Chwefror, aeth Howell Harris i Lundain, i gyflawni dyledswyddau ei swydd fel arolygwr cyffredinol yr eglwysi Saesneg. Er fod y cyfrifoldeb yn fawr, nid oedd heb ymdeimlo a'r anrhydedd a rodded arno; pan yn synu at ddaioni Duw tuag ato, cyfeiria drosodd a throsodd at y ffaith ei fod wedi cael ei osod yn ben yr achos yn Lloegr. Nid oedd yn amddifad o uchelgais; ac yr oedd ei safle uchel a phwysig yn foddhad i'r cyfryw deimlad. Bu yn Llundain am dros fis, ac yr oedd llywodraethu y brodyr bron yn ormod o dasg iddo. Nis gallwn fanylu ar yr hanes, er ei fod wedi ei ysgrifenu yn llawn, am nad yw yn perthyn yn hanfodol i Fethodistiaeth Cymru. Ar ei ffordd adref, daeth Harris i Gymdeithasfa Bryste, a gynhelid Mawrth 7fed a'r 8fed. Heblaw helyntion mewnol, yr oedd perthynas y seiadau a'r Morafiaid yn peri trafferth, a phenderfynodd y Gymdeithasfa anfon llythyr at y cyfundeb Morafaidd, fod galwad arni i sefydlu achosion yn Swydd Wilts. Dywed y cofnodau fod cryn lawer o annhrefn a chyffro yn y Gymdeithasfa, oblegyd yr annhueddrwydd a ddangosai Herbert Jenkins i gydweithredu a'i frodyr. Dychwelodd Harris adref, gan bregethu mewn amryw leoedd yn Sir Fynwy ar y ffordd, megys Llanfaches, Goetre, a'r New Inn. Yn y lle diweddaf, cynhaliwyd math o Gymdeithasfa, a chafodd gysur dirfawr o herwydd agwedd ymostyngar, a

phrofiad crefyddol, y brawd Morgan Jones. Wrth gymharu eu golygiadau, yr oedd y ddau yn cyduno yn hollol. Cydolygent na ddylent geisio caethiwo yr Yspryd o ran ei weithrediadau trwy unrhyw gynlluniau, na thrwy unrhyw drefn wrth bregethu; fod yn rhaid wrth yr Yspryd a'r Gair; mai y ddau yn nghyd oedd goleuni a rheol yr eglwys.

Ychydig o orphwys oedd i Howell Harris gwedi dychwelyd adref. Diwedd Mawrth, a dechreu Ebrill, cawn ef ar daith yn Siroedd Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, gan ymweled a'r Tyddyn, Bwlchyrhaidd, Mochdref, Llanllugan, a Llansantffraid. Caffai gyfarfodydd nerthol tu hwnt yn mhob man, braidd; y bobl a dorent allan mewn sain cân a moliant; byddai eu hamenau a'u haleliwia yn aml yn boddi ei lais, ac arosent yn nghyd i orfoleddu am oriau gwedi i'r odfa orphen. Ar y dechreu, bu Harris yn wrthwynebol i'r cyfryw dori allan; dylanwad Grffith Jones, Llanddowror, arno a gyfrifai am hyny yn benaf; ond yn awr, y mae yn gefnogol i'r peth, ac yn ei amddiffyn â gorchymynion ac esiamplau allan o'r Beibl. Tua diwedd mis Ebrill, cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol yn Watford. Y nos Fawrth cyn y Gymdeithasfa, pregethai Daniel Rowland yn nghapel y Groeswen, ac aeth Harris yno. Mater y bregeth oedd, ymdrech gydag achos yr Arglwydd. Pregethodd Harris hefyd, a dywed i'r Arglwydd lanw y lle a'i bresenoldeb. Y mae yn ymddangos fod y seiat yn y Groeswen erbyn hyn, ar ol ychydig o ymddyeithrwch, lawn mor Fethodistaidd ag unrhyw un o'r seiadau. Pregethodd Harris gyda'r fath yni nes yr oedd ei gorph yn ddolurus. Atebai wrthddadleuon y rhai a ofynent, ai Arminiaid, ynte Antinomiaid ydych? "Nid wyf wedi dod i ymdrin â phethau felly," meddai y pregethwr, "ond i ofyn pwy sydd ar du yr Arglwydd. Y mae Duw wedi myned allan yn erbyn Satan ac yn erbyn pechod; os yw dy galon o blaid yr Arglwydd, rho dy law i mi?"

Bu i raddau yn ystormus yn y Gymdeithasfa. Yr oedd y Morafiaid am sefydlu achosion yn Nghymru, ac yn ceisio denu atynt y rhai a gawsent eu hargyhoeddi trwy weinidogaeth y Methodistiaid. Y lle y ceisient osod eu traed i lawr gyntaf arno oedd Hwlffordd, yn Sir Benfro. Efallai fod dylanwad John Gambold, gwedi hyn, yr Esgob Gambold, yn cyfrif am eu dewisiad o Hwlffordd; gan fod amryw o'r Methodistiaid yn y dref, a'i chwmpasoedd, yn berthynasau agos iddo yn ol y cnawd. Naturiol oedd i'r peth ddyfod yn destun ymdriniaeth yn y Gymdeithasfa. Tueddai rhai i gondemnio y Morafiaid yn llym. "Eithr," meddai Harris, "datgenais fy marn fod gormod o gulni a rhagfarn ynom ni a hwythau, ac y rhoddem fantais i'r diafol oni fyddem yn fwy gostyngedig; fy mod gymaint a neb yn erbyn cyfeiliornadau y Morafiaid, ac yn erbyn eu gwaith yn dyfod i Gymru i greu ymraniad; ond nas gallwn gyduno ag ymadroddion y brodyr yn y Gymdeithasfa, a'm bod yn gweled ynddynt ddiffyg ffydd i adael y gwaith yn llaw yr Arglwydd." Yr oedd Howell Harris yn fwy cydnabyddus a'r Morafiaid; arferai fynychu eu cyfeillachau pan yn Llundain; gwyddai mai trwy eu hofferynoliaeth hwy yn benaf y cawsai John Wesley ei arwain at grefydd efengylaidd; a chredai fod gwreiddyn y mater ganddynt, er nad oedd yn cydweled â llawer o'u syniadau; felly, naturiol oedd iddo deimlo yn dynerach atynt. Modd bynag, aeth y ddadleuaeth yn Watford yn boeth; ac wrth fod Harris yn dadleu dros roddi yr eglurhad tyneraf ar olygiadau y Morafiaid, cyhuddodd rhywun ef o fod yn Antinomiad. Teimlodd yntau y sarhad i'r byw. Yr oedd yn dra dolurus ei deimlad wrth ymadael; meddyliai fod y brodyr yn edrych arno fel peth gwael. Felly y teimlai boreu dranoeth. Ond daeth Howell Davies, a Williams, Pantycelyn, ato yn dra llariaidd a gostyngedig; adroddodd yntau ei helynt a'i dywydd wrthynt, a chawsant gyfeillach nodedig o felus. Y rheswm nad oedd Rowland gyda y ddau offeiriad arall oedd ddarfod iddo gael ei gyhoeddi i bregethu y boreu hwnw. Gwedi yr ymddiddan, brysiasant i glywed Rowland; ond erbyn iddynt gyrhaedd, yr oedd yr odfa trosodd. Yn breifat, galarai Harris wrth weled y brodyr o wahanol syniadau mor chwerw yn erbyn eu gilydd, ac wrth weled Daniel Rowland mor ystyfnig yn erbyn y Morafiaid. Yr oedd ei feddwl yn dra chymysglyd. Ail-agorodd y mater yn y Gymdeithasfa, gan ddatgan ei fod yn erbyn pob peth beius yn y Morafiaid, ac yn wrthwynebol i'w gwaith yn dyfod i Gymru, i beri ymraniad; nas gallai eu condemnio, am y credai eu bod yn rhan o gorph Crist; ac er fod eu penau i raddau yn gyfeiliornus, eto, fod llawer o honynt

yn eu calonau yn meddu adnabyddiaeth agosach o'r Iesu na rhai o'r Methodistiaid. Dywedai, yn mhellach, nad oedd teyrnas ein Harglwydd yn dibynu ar ragfarn, ac ar zêl boeth dros yr hyn a ystyrir yn wirionedd, ond ar addfwynder, a chariad; nad oedd ef ei hun ond gwas, ac nad oedd ganddo awdurdod i rwystro eraill. Datganai mai nid trwy wrthwynebiad agored y buasent debycaf o rwystro y Morafiaid, ond trwy yspryd cymhedrol a chariadlawn, ac ymresymu â hwy yn arafaidd. Ofnai rhag i'r helynt rwystro y gwaith, a gwneyd i ffwrdd a symlrwydd y weinidogaeth yn eu mysg. Ni ddywed yn bendant pa fodd y terfynodd yr ymdrafodaeth, ond gallwn feddwl mai penderfyniad y brodyr oedd fod Howell Harris i ymweled â Hwlffordd. Cychwynodd yntau ddiwrnod y Gymdeithasfa; cyrhaeddodd Hafod, pellder o bum'-milldir-ar-hugain, nos Iau. Erbyn nos Sadwrn, yr oedd yn Llanddowror; bu y Sul yn ymgynghori â Griffith Jones, ac yn gwrando arno yn pregethu; a daeth nos Sul i dŷ Howell Davies, sef y Parke. Nos Lun, aeth i Hwlffordd, ac yn y seiat breifat cafodd lawer o ryddid i egluro dichellion Satan, ac i gyfeirio at ragfarn, balchder, a hunanymddiried. Boreu dranoeth, gwnaeth ef a John Sparks eu goreu i rwystro ymraniad. Pregethai Harris oddiar Rhuf. vii. 24; ac yn y bregeth llwyddodd i roddi yr ergyd olaf ar ddyfais y diafol, am y pryd, modd bynag. Eglurodd gyfeiliornadau y Morafiaid; yr angenrheidrwydd am bregethu y ddeddf; y pwys o chwilio yr Ysgrythyrau, a gwreiddio y dychweledigion ynddynt. Teimlai ei fod wedi llwyddo yn ei neges, ac aeth ymaith yn hapus a dedwydd tua Wolf's Castle. Oddiyno tramwyodd trwy Laneilw, Tyddewi, Longhouse, Abergwaen, Ty'r Yet, Cerig Ioan, Cwm Cynon, a Llangeitho, lle y treuliodd y Sul. Boreu y Sabbath, cafodd Rowland odfa ryfedd yn Llancwnlle; ei fater oedd, ymdrechu yn erbyn y diafol; yr oedd y dylanwad ar Howell Harris bron yn fwy nag y medrai ymgynal o dano; dywed mai unwaith o'r blaen yn unig y clywsai Rowland yn y fath yspryd. Hawdd darllen rhwng y llinellau y teimlai Harris ddarfod iddo boethi gormod yn Watford; ac nad oedd ei yspryd yn y Gymdeithasfa y peth y dylasai fod; dywed ei fod wedi dyfod i Langeitho mewn yspryd hunanymwadol. Meddai: "Yr oeddwn yn teimlo undeb agos at y brawd Rowland; gwelwn mai fy mraint a'm dedwyddwch oedd cael cadarnhau ei ddwylaw, byw a marw mewn undeb ag ef, a threulio tragywyddoldeb yn ei gymdeithas. Yr oeddwn yn ei garu fel fy enaid fy hun. Gwedi y sacrament, aethom i Langeitho; am chwech, sefais i fynu i bregethu; ac wedi dechreu y cyfarfod, llonwyd fi yn fawr wrth weled y brawd Rowland yn dyfod i mewn." Ymddengys mai odfa galed a gafodd. "Teimlwn gywilydd," meddai, "nad oedd dylanwad yn cydfyned a'm geiriau; ni wylai neb, ac nid oedd neb yn teimlo." Efallai fod rhyw gymaint o blentyneiddiwch yn y teimlad a ddatgana, ond y mae yn dra naturiol. "Eithr," meddai, "gwnaed fi yn ostyngedig; ac yr oeddwn yn foddlon bod yn wael yn eu golwg."

Boreu dydd Llun, cronicla fod ei galon yn llifo drosodd gan serch at Daniel Rowland. "Dywedais wrtho," meddai, "y teimlwn yn anrhydedd i gael golchi ei draed, ac i gyflawni erddo y swyddau gwaelaf; fy mod yn llawen ac yn ddiolchgar am y talentau a dderbyniasai, a'r llwyddiant a goronai ei ymdrechion, ac am gael fy rhifo yn mysg ei gyfeillion. Cefais ffydd i weled y byddai i mi a Rowland orchfygu pob rhwystrau." Hyfryd gweled fel yr ymglymai enaid y ddau gyfaill wrth eu gilydd, er fod cymylau yn codi rhyngddynt weithiau. Pregethodd Harris yn Llangeitho dydd Llun drachefn, cyn ymadael, a chafodd odfa nerthol. Yna, cyfeiriodd ei gamrau yn ei ol, gan ymweled â Glanyrafonddu, Llandilo Fawr, Gellydorch-leithe, Tref-Feurig, ger Llantrisant, lle y rhoddwyd ceffyl yn rhodd iddo gan y frawdoliaeth; Aberthyn, St. Nicholas, a Dinas Powis. Y Sul, yr oedd yn y Groeswen, ac wrth bregethu ar y geiriau, "A hwy a'i gorchfygasant ef trwy waed yr Oen," yr oedd yn ofnadwy i annuwiolion, ac yn cario pob peth o'i flaen. Cawn ef yn Watford, y Llun, ac ymddengys fod rhyw ddadleuon poenus yn parhau yma yn mysg y frawdoliaeth. Rhybuddiodd hwy fod Satan wedi ei ollwng yn rhydd yn eu mysg, a'i fod am eu rhanu, fel y rhanasai y brodyr yn Lloegr trwy ei ddichellion. Archodd iddynt hefyd holi eu hunain, a oedd pob gras ganddynt mewn gweithrediad, yn arbenig edifeirwch efengylaidd, hunanymholiad, a thynerwch cydwybod. "Hynod," meddai, "fel y mae yr Arglwydd yn ein cadw rhag cyfeiliornadau, er ein bod fel pe ar y dibyn yn aml. Hyderaf

ddarfod i Arminiaeth ac Antinomiaeth gael ergyd effeithiol." Nos Lun, ymwelodd â Mynyddislwyn. Ei destun oedd: "Byddwch lawen yn wastadol;" ond yn lle dyddanu y saint, fel yr arferai wrth lefaru ar y geiriau hyn, arweiniwyd ef yn ddiarwybod iddo ei hun i daranu yn ofnadwy. "Yr oeddwn yn trywanu i'r byw y rhai ydynt yn llawen," ysgrifena, "ond sydd heb eu geni drachefn, ac heb ras Duw yn eu calonau. Yn arbenig, yr oeddwn yn ddychrynllyd i'r arweinwyr mewn rhysedd, ac i'r erlidwyr. Nis gallwn mo'r help. Yr Arglwydd a'm harweiniai; nid oedd genyf feddyliau o'r eiddof fy hun. Condemniwn y rhai oeddynt yn llawen am fod y byd ganddynt, ac am eu bod yn iach, ac yn debyg o fod yn hirhoedlog. Cefais fy arwain i daranu yn ofnadwy iawn yn erbyn yr offeiriaid cnawdol, y rhai ydynt yn rhegu, ac yn meddwi, ac yn anwybodus am Dduw. Dangosais nad rhyfedd fod y cyfryw i'w cael pan nad oes neb yn y plwyf yn gweddïo am gael dyn da yn offeiriad. A diweddais trwy ddangos mai o gariad at eu heneidiau yr oeddwn yn llefaru fel hyn." Pregeth ryfedd yn ddiau, oddiar y fath destun; ond teimlai Harris mai dyna y cyfeiriad y gofynai yr Arglwydd iddo ei gymeryd. Dydd Iau, y mae yn Llanfihangel, yn Sir Fynwy. Oddiyno â yn ei flaen i'r New Inn, eithr ychydig o nerth sydd yn cydfyned a'r llefaru. Yna, tramwya trwy Coedca-mawr, a Llanheiddel, gan ddychwelyd adref dranoeth, gwedi taith faith a phwysig.

Ddechreu Mai, y mae yn cychwyn eto am Lundain. Y mae nodiad yn ei ddyddlyfr sydd yn bwysig: "Aethum i Fair Oak erbyn yr hwyr. Ar y ffordd, cefais olwg ar ogoniant person Crist; eithr hysbyswyd fi fod y brawd Rowland yn benderfynol o wrthwynebu pregethu y gwaed. Daeth y newydd yn drwm ar fy enaid; ond gwnaeth Duw fi yn ostyngedig, a chefais nerth i lefain ar iddo anfon gyda'r hwn yr anfonai. Yr oeddwn yn foddlawn cael fy nyosg o'm holl ddoniau, ond i'r gwirionedd, a'r holl wirionedd, gael ei fynegu." Arosodd yn Llundain hyd gwedi y Gymdeithasfa, yr hon a gynhelid Mehefin 18, ac yna dychwelodd yn ei ol i Drefecca.

Ar y 27ain o Fehefin, cynhaliwyd Cymdeithasfa Chwarterol yn Nhrefecca, a medd y Gymdeithasfa ddyddordeb a phwysigrwydd pruddglwyfus, oblegyd mai ynddi y dechreuodd yr anghydweledigad rhwng Howell Harris ag arweinwyr eraill y diwygiad yn Nghymru, a derfynodd yn y pen draw mewn ymraniad hollol. Caiff Harris adrodd yr hanes, oddiar ei safbwynt ef. "Teimlwn neithiwr a heddyw," meddai, "lwythi o feichiau ar fy enaid; yr oedd i mi agosrwydd yspryd mawr at y brawd Rowland; ond yr oedd fy nghalon yn ofidus oblegyd fy mhechodau fy hun, a phechodau y brodyr. Pan y gofynodd y brawd Rowland am lyfr i mi, teimlwn barodrwydd i roddi gwaed fy nghalon iddo. Teimlais fy hun dan angenrheidrwydd i siarad ag ef. Wrth ymddiddan ag ef yn breifat, yn lle cael fy maich wedi ei ysgafnhau, trymhawyd ef, fel y gallaf ddweyd fy mod yn dechreu dyoddef gyda Christ. Gwelais ychydig o'r baich y mae Crist yn orfod gario, oddiwrth gyndynrwydd a gwrthnysigrwydd ei blant; a phan yr wyf fi yn teimlo cymaint oblegyd ymosodiad arnaf o un cyfeiriad, pa faint a deimlai ef pan yr oedd holl bechodau ei bobl yn pwyso arno? Pan y cwynai Rowland ar y cynghorwyr, ac y dirmygai eu gweinidogaeth, dywedais nad oedd yn anrhydeddu y rhai oedd yr Arglwydd wedi anfon; a dyrchefais fy llef at Dduw, ar iddo eu gwisgo â gostyngeiddrwydd, ac os oedd rhai o honynt heb gael eu hanfon ganddo ef, ar iddo chwynu y cyfryw allan. Dymunwn hefyd ar iddo ddangos eu hanfoniad i'r anwyl frawd Rowland, yr hwn sydd yn credu eu bod yn dwyn gwaradwydd ar yr efengyl, ac nad ydynt yn gwneyd dim da. Yn fy ymddiddan a'r brawd Rowland, cefais ryddid i bwyntio allan yr oll a welwn yn feius ynddo, sef ysgafnder, a diffyg yspryd tadol, gan ddangos y dylem ni fyned o flaen y brodyr mewn ffydd, gostyngeiddrwydd, cariad, a hirymaros. Cyfaddefai yntau hyn, ond dywedai nad oedd yr Arglwydd wedi ei osod ef yn dad i'r saint, ac na feddai gymhwysder ar gyfer y lle. Atebais fy mod i yn ei anrhydeddu ef fel y cyfryw, ond fy mod yn gofidio wrth ei weled mor ddiofal yn gosod beichiau ar ysgwyddau ei frodyr. Dywedais ddarfod i mi lefaru yn Llundain, yn gyhoeddus ac yn breifat, yn erbyn y Morafiaid; yn erbyn eu balchder, a'u cyfeiliornadau; fy mod yn awr o'r un farn gyda golwg ar bob pwynt o athrawiaeth ag oeddwn ddeng mlynedd yn ol; nad oeddwn wedi cyfnewid o gwbl, na thuag at y brodyr a'm galwent yn gyfnewidiol. Pan y cyhuddai fi o Forafiaeth, am fy mod yn rhoddi arbenigrwydd

ar waed Crist, a'm bod yn addoli y Dyn (Crist), ac yn defnyddio y term 'Oen,' dywedais ddarfod i mi gael cipolwg ar ogoniant person Crist cyn i mi wybod fod y fath bobl a Morafiaid; ac mor bell ag y maent yn pregethu y dirgelwch, fy mod yn cyduno â hwynt; ond nad oeddwn wedi derbyn dim oddiwrthynt, ond oddiwrth yr Arglwydd. Pan y defnyddiwn y gair 'Oen, ei fod yn felus i mi, ond fod genyf ryddid i arfer holl enwau yr Iesu; fod un enw yn cael ei wneyd yn felus i mi yn awr, ac un arall bryd arall, ond nad oeddwn i yn digio oblegyd eu bod hwy yn defnyddio unrhyw un o'r teitlau, ac na ddylem ymyraeth â rhyddid ein gilydd yn hyn. Dywedais, yn mhellach, nad oeddwn yn adwaen un Duw allan o Grist; fy mod yn gweled yr oll o'r Duwdod yn y Dyn hwn, gan fod y Tad a'r Mab yn un; a phan yr edrychaf ar Dduw yn fy rheswm, fy mod yn ei weled yn Dduw mawr, ond yn Nghrist fy mod yn gweled ei anfeidroldeb. Grwgnachai (Rowland) am fy mod yn defnyddio y term dirgelwch, ond atebais fod Paul yn cyfeirio at ddirgelwch Crist yn fynych. Yr oedd yn dra anystwyth pan y datganwn mai am heddwch, a chariad, a thynerwch yr oeddwn i, a'u bod hwy (y Morafiaid) yn blant megys ninau, a'n bod ni yn ffaeledig fel hwythau; a'n bod o'r ddwy ochr yn cael ein hanrheithio gan yr unrhyw falchder, yr hyn yw ein pechod. Dywedodd ddarfod iddo fy nghlywed yn pregethu Antinomiaeth; atebais nas gwyddwn pa ymadroddion anwyliadwrus a allwn fod wedi ddefnyddio, ond os nad oeddwn yn camddeall beth a feddylir wrth Antinomiaeth, nad oeddwn yn dal cymaint a brigyn o'r fath athrawiaeth. Ar yr un pryd, fy mod yn gweled rhyddid gogoneddus yn yr efengyl, a'm bod wedi cael fy arwain i wahaniaethu rhwng goruchwyliaeth y ddeddf a goruchwyliaeth yr efengyl, am fod y cyntaf yn pwyso ar y llythyren, tra yr oedd y diweddaf yn gynyrch Yspryd yr Arglwydd. Hysbysais ef fy mod wedi ei glywed ef yn pregethu y cyfryw athrawiaeth yn llawer mwy nag yn awr, sef am gyfiawnhad, a chyfiawnder Crist, yr hwn sydd wedi ei orphen; a chan mor ychydig a glywn ganddo am y gwirioneddau gogoneddus hyn yn awr, fy mod yn cael fy nhueddu i feddwl eu bod ganddo yn ei ddeall, ond nid yn ei galon. Dymunais arno gyfeirio at yr ymadroddion an-Ysgrythyrol a ddefnyddiaswn, fel y gallem fyned yn y blaen megys brodyr, heb eiddigeddu wrth ein gilydd; eithr atebodd nad oedd yn eu cofio. Hysbysais ef, yn mhellach, yr awn yn mlaen heb ofni unrhyw frawd, gan mai oddiwrth yr Arglwydd y derbyniaswn fy nghenadwri a'm gweinidogaeth; fy mod yn cychwyn wrthyf fy hun, ac yr awn yn mlaen wrthyf fy hun. Ond mai dolurus fyddai myned yn mlaen fel yn awr, ac yr ymneillduwn i Loegr hyd nes y byddai yr ystorm drosodd. Gofynais iddo, a oedd yn tybio ei fod yn gweled mor ddwfn i ddirgelwch Crist yn awr ag y gwnai yn mhen deng mlynedd eto? Ond gyda golwg ar y dull o gyflwyno y gwirioneddau ysprydol hyn y dylem fod yn dyner, a chyd-ddwyn a'n gilydd, fel na byddom yn peri i'r naill y llall ddweyd yr hyn a ewyllysiwn ni. Ond yr oedd yn dra ystyfnig; er fy mod yn gobeithio y bendithia yr Arglwydd rywbeth iddo. Nid oes ond Duw a all rwystro ymraniad yn awr. Cyfeiriais at falchder y bobl oedd gyda hwy (yr offeiriaid); hefyd at eu hyspryd beirniadol, nad ffrwyth yr Yspryd oedd hwnw. Yna, wedi ymddiddan ag ef, mi a gludais fy maich, ac a'i teflais gerbron yr Arglwydd; yna, ysgrifenais fy nydd-lyfr hyd ddeuddeg o'r gloch."

Y mae cofnodi yr anghydfod hwn rhwng y ddau, ag y gellir edrych arnynt yn allanol fel dwy golofn y diwygiad, yn orchwyl blin. Rhaid cofio mai un tu i'r ddalen yn unig a gawn yma, a phe y byddai yn bosibl cael adroddiad Daniel Rowland o'r helynt, y mae yn sicr y caem hanes tra gwahanol. Gwelwn, hefyd, ddarfod i Howell Harris ysgrifenu yr adroddiad yn nghanol teimladau cyffrous, pan yr oedd digllonedd chwerw yn berwi ei yspryd; ac y buasai ef ei hun yn mhen amser gwedi, ar ol i'r ystorm basio, yn debyg o gymedroli llawer o'i eiriau. Ond i fyned yn mlaen a'r dyddlyfr: "Aethum i lawr i wrando Williams, Pantycelyn, yn pregethu; cawsom bregeth ragorol iawn, ar undeb y credinwyr; a saethodd i fy meddwl mai yr Arglwydd a roddasai y mater iddo. Gwelwn y fath wrthwynebiad i'r undeb hwn, fel nas gallai neb ond yr Arglwydd eu symud. Gwedi hyny pregethodd y brawd Howell Davies yn Saesneg, oddiar Joshua i. 9. Yr oedd yr ymadroddion yn gymhwys i mi; yr oeddwn yn eu credu mewn ffydd; ond yr hyn y teimlwn ei eisiau oedd cymhwysiad uniongyrchol o honynt ataf. Gwedi hyn aethum i'r Gymdeithasfa, yr hon a

ofnwn mor fawr, oblegyd y rhagfarnau oeddynt wedi cripio i feddyliau y brodyr yn erbyn eu gilydd. Yr oeddwn yn llwythog; a dangosodd yr Arglwydd ragfarn y brawd Rowland yn erbyn y brodyr. Addefai nad oedd yn teimlo yn rhydd at lawer; ei fod yn dirmygu anwybodaeth y brodyr. Pan ofynwyd syniad y frawdoliaeth am danaf fi, dywedodd rhai eu bod yn ofnus am danaf, fy mod yn gwyro at Antinomiaeth a Morafiaeth. Atebais nad oeddwn wedi cyfnewid mewn unrhyw bwnc o ffydd er pan y cawswn fy ngwreiddio yn athrawiaeth etholedigaeth; yn unig ddarfod i mi arfer rhai ymadroddion tywyll gyda golwg ar berffeithrwydd, ryw chwech mlynedd yn ol, ond hyd yn nod y pryd hwnw na olygwn berffeithrwydd dibechod, a phan y deallais fod y brawd Wesley yn golygu hyny, i mi ddatgan yn ei erbyn. Ymdrechodd y brawd Rowland brofi fy mod yn gyfnewidiol, yn gwrthddweyd fy hun, yn dra anwireddus, ac yn Antinomiad. Dywedais fel y synwyd fi pan yr hysbysodd fi gyntaf fod llawer yn edrych arnaf fel un cyfnewidiol, hyd nes y cofiais fy mod wedi gweddïo yn daer am i'r Arglwydd fy narostwng yn marn y brodyr, rhag iddynt feddwl yn rhy uchel am danaf, ac y saethodd i fy meddwl mai dyma y ffordd oedd Duw yn gymeryd i ateb fy ngweddi. Am fy ngweinidogaeth, dywedais fy mod wedi ei derbyn gan yr Arglwydd; a'm bod yn sefyll neu yn syrthio i fy Meistr fy hun. Gyda golwg ar y brodyr, fy mod yn eu caru ac yn eu hanrhydeddu yn yr Arglwydd, nas gallwn oddef iddo (Rowland) eu dirmygu; ond am eu ffaeleddau, fy mod yn gobeithio y byddai i'r Arglwydd a'u hanfonodd eu symud, a'u cymhwyso hwythau i'w gwaith fwy fwy. Dywedais wrtho fy mod yn caru ac yn gwerthfawrogi ei weinidogaeth, a'm bod yn ei anrhydeddu yntau yn y pwlpud; ond am dano allan o'r pwlpud, fod yn ddrwg genyf drosto; ac os oedd yr hyn a glywswn am dano yn wir, fod yn anhawdd genyf feddwl fod y fath swm o hunan a balchder yn perthyn iddo. Oni bai fy mod yn credu ddarfod iddo gael ei anfon gan Dduw, nas gallwn aros gydag ef; ond yn awr y caffai wneyd yr hyn a fynai, a dweyd yr hyn a fynai. Gan ei fod yn credu yn y Gair fel rheol, y buasai yn dda genyf pe bai y cyfryw yn cael ei ddwyn adref at ei gydwybod; ac nad oedd yr ymadroddion llymion, ffraeth, a chnawdol a ddefnyddiai yn dyfod oddiwrth yr Yspryd. Cawsom ymddiddan am sancteiddhad, a phan y cyfeiriasant at gyfaddasder i ddyfod at Grist, sef argyhoeddiad, sefais i fynu i wrthdystio, a dywedais fy mod yn dyst yn erbyn; fy mod i, a llawer eraill, wedi cael ein tynu gan gariad; ac nad oes dim yn angenrheidiol er iachawdwriaeth, ond cymhwysiad o gyfiawnder Crist. Darfu iddo ef (Rowland) a llawer o rai eraill ddatgan yn erbyn fy ngwaith yn pregethu y gwaed, am (1) nas gallent dderbyn yr athrawiaeth; (2) am nas gallasai Duw farw; (3) am na ddylid pregethu dirgelwch nas gellir ei esbonio. Dywedais fy mod wedi derbyn hyn gan Dduw, ac nid oddiwrth ddyn, ac y gwnawn ei bregethu; y gwnai Duw dori ffordd i mi trwy ddiaflaid a dynion; a phe y baent oll yn sefyll yn erbyn, nad oeddwn yn edrych arnynt yn fwy na gwybed. Nad oeddwn yn gofidio am ddim ond oblegyd eu hanwybodaeth hwy am y dirgelwch, yr hwn yw fy mwyd i. Dangosais na ddarfu i Dduw ddyoddef, ac nas gallasai; ond i'r Duw-ddyn ddyoddef; nid y Dyn na'r Duw ar wahan, ond y ddwy natur yn nghyd; ac na welais i erioed mo hono yn Ddyn, ond yn Dduw yn ogystal. Pe y buaswn wedi ei weled yn y preseb, y gwnaethwn ei addoli; ac yr addolaswn ei gorph marw cysegredig ar waelod y bedd, am fod y corph mewn undeb a'r Duwdod, yn gystal a'i enaid yn mharadwys. Am yr athrawiaeth hon, dywedais fy mod yn foddlon ei selio â fy ngwaed; ac hyd nes y darfu i mi ei chredu, nad oeddwn wedi fy rhyddhau rhag ofn angau. Datgenais fy mod yn caru y Morafiaid, am fy mod yn credu eu bod yn perthyn i'r Arglwydd; ond oddiar fy adnabyddiaeth gyntaf o honynt, nad oeddwn wedi cyduno a'r oll o'u daliadau, a'm bod wedi pregethu yn erbyn eu cyfeiliornadau yn Llundain ac yn Hwlffordd, gan rybuddio y brodyr yn erbyn y cyfryw gyfeiliornadau. Pan y dywedent (yn y Gymdeithasfa) fy mod yn addoli gwaed Crist, dywedais fy mod, fel rhan o Grist, gan nad oedd un rhan o hono ar wahan oddiwrth ei Dduwdod. Pan y dywedasant fy mod wedi cyfnewid yn fy null o bregethu, fy mod ar y cyntaf yn taranu, a chwedi hyny yn cyhoeddi rhad ras, ac yn ganlynol ffrwythau ffydd, atebais fod yr oll trwy yr un Yspryd; fy mod yn cael fy arwain i daranu yn awr weithiau, ond fod yn rhaid i mi bregethu fel ei rhoddir i mi. Addefais nad oeddwn, oblegyd fy nghnawdolrwydd a'm pechod, yn chwilio

digon ar yr Ysgrythyrau, ond y gwyddent oll fel yr oeddwn wedi llafurio i osod i fynu gateceisio, a darlleniad cyson o'r Beibl. Pan y llefarodd y brawd Rowland yn awdurdodol, datgenais fy mod yn gwadu ei awdurdod, fy mod yn edrych ar ei swydd fel dim; fy mod yn barod i'w dderbyn fel brawd, ond nid mewn un modd arall. Gwedi darllen yr adroddiadau, gweddïodd un brawd; gweddïais inau, a daeth yr Arglwydd i lawr. Cefais ryddid i lefaru yn hyf wrth y brodyr—yr oedd efe (Rowland) a'r offeiriaid wedi myned allan—gan ddangos fod gan yr Arglwydd lais tuag atom yn hyn; cyffröais hwy i fwy o ddiwydrwydd mewn darllen yr Ysgrythyrau, a llyfrau da eraill; am fod yn ddifrifol yn y gwaith, a mynu gweled eu bod yn gwneyd pob peth dros Dduw. Gwedi i ni swpera, ac i'r offeiriaid fyned i'w gwelyau, daeth yr Arglwydd i lawr mewn modd rhyfedd; teimlwn fy nghalon yn fflam, a'm henaid yn llawn goleuni a ffydd. Arosodd cwmni da ar y llawr trwy y nos hyd bedwar o'r gloch y boreu, yn canu, ac yn gorfoleddu; yr oeddym yn debyg i Dafydd o flaen yr arch. Cynghorais i fwy o wyliadwriaeth, gostyngeiddrwydd, ac ofn duwiol. Ond goddiweddwyd fi gan y gelyn, a syrthiais am ryw gymaint o amser; ond cyfodwyd fi drachefn wrth fy mod yn gofyn yn syml gan yr Arglwydd. Yna, trefnais fy nheithiau."

Felly y terfyna hanes y Gymdeithasfa ofidus hon. Boreu tranoeth, yr oedd Rowland, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies yn ymadael am gartref; ond cyn eu myned, mynodd Howell Harris gyfle i ddweyd gair wrth Rowland. "Dywedais wrtho," meddai, "am ofalu pregethu llai allan o lyfrau, a mwy allan o'i galon, yr hyn a dderbyniai oddiwrth Dduw; fy mod yn gofidio wrth weled mor lleied o ffrwyth yr Yspryd yn ei ymddygiad; a'm bod yn falch gweled yr offeiriaid yn unol, er fy mod i yn ddafad ddu yn eu mysg." Cofnoda yn mhellach fod Rowland yn dyner wrth ymadael. Gwedi iddynt gefnu, pregethodd gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr gyda llawer o hwyl; dywedai nad oedd neb i feddu awdurdod ar y pregethwyr ond Crist, ac anogai y bobl i beidio myned i wrando offeiriaid cnawdol. Y tri offeiriad oedd wedi myned i ffwrdd a olygai, yn ddiau. Y mae teimlad Howell Harris ar derfyn y Gymdeithasfa yn anesboniadwy. "I'r Gymdeithasfa flaenorol," meddai, "mi a aethum yn llawn hyfrydwch, a sirioldeb, ac ymadawais dan feichiau trymion; daethum i'r Gymdeithasfa hon yn llwythog ac yn flin, ac aethum o honi yn llawn gorfoledd." Gorfoledd yn wir, pan yr oedd Methodistiaeth wedi cael dyrnod a barlysodd ei holl symudiadau am amser, ac oddiwrth ba un y teimla hyd y dydd hwn! Ond rhaid i ni gofio mai ysgrifenu hanes dynion anmherffaith yr ydym.

Rhaid i ni adael hyd yn nes yn mlaen unrhyw ymchwiliad i uniongrededd golygiadau duwinyddol Howell Harris, ond y mae yr hanes a rydd yn ei ddydd-lyfr yn awgrymu i'r meddwl amryw bethau. (1) Y mae yn dra sicr ddarfod iddo gamgymeryd geiriau Daniel Rowland, a'r ddau offeiriad arall. Rhy brin y gallwn dybio iddynt ddweyd wrtho eu bod yn dirmygu ei weinidogaeth; cawsai ei eiriau eu bendithio er iachawdwriaeth i ddau o'r tri, a naturiol meddwl eu bod yn synio ac yn siarad yn barchus am ei bregethu. Anhawdd meddwl, ychwaith, eu bod yn ei gondemnio am alw Crist yn "Oen;" heblaw fod y term yn Ysgrythyrol, ceir ef yn britho pregethau Rowland, a hymnau Williams, Pantycelyn, a chydnebydd Harris ei hun fod y tri yn ymostwng i awdurdod y Beibl. Rhydd efe yr hyn a ddywedent fel yr ymddangosai iddo ef ar y pryd, pan yr oedd ei dymher wedi ei chyffroi i'r pwynt eithaf, ac felly yn analluog i ddirnad yn glir ystyr ymadroddion ei wrthwynebwyr. (2) Hawdd gweled ei fod yn y Gymdeithasfa yn cario pethau yn mlaen gyda llaw uchel. Ni wnai ymresymu a'r brodyr gyda golwg ar yr hyn a bregethai, am y tybiai ddarfod iddo dderbyn cynwys ei genadwri fel datguddiad oddiwrth Dduw; bygythiai, os gwrthwynebid ef, yru yn mlaen trwy ddynion a diaflaid; a dywedai nad oedd ei wrthwynebwyr ond fel gwybed yn ei olwg. Hawdd gweled hefyd iddo ddefnyddio ymadroddion chwerw a brathog. Cyhudda Rowland o fod yn meddu crefydd y pen, ac nid crefydd y galon; ac o fod yn cael ei lywodraethu gan falchder. Mor bell ag y gallwn gasglu, nid oedd yr offeiriaid agos mor chwerw eu hyspryd; ystyfnigrwydd yw y prif fai a rydd yn eu herbyn. (3) Rhaid cydnabod fod teimlad eiddigus wedi dyfod i mewn i fysg yr arweinwyr. Diau nad oedd y tri offeiriad, yn arbenig Daniel Rowland, yn rhydd oddiwrtho. Gwelent Howell Harris, er

heb ei ordeinio, ac heb feddu doniau gweinidogaethol rhai o honynt, o herwydd ei yni, a thanbeidrwydd ei zêl, yn fwy ei ddylanwad na hwy ar y cymdeithasau, ac wedi cael ei ddyrchafu i fod yn ben ar Fethodistiaid Calfinaidd Lloegr. Gan mai dynion anmherffaith oeddynt, a'u bod, efallai, yn berchen uchelgais, naturiol iddynt oedd teimlo yn eiddigus, a thalu sylw gormodol i golliadau yr hwn oedd wedi ei ddyrchafu mor uchel. O'r tu arall, nid annhebyg fod ei ddyrchafiad wedi peri i Harris ymchwyddo, ac i fyned i edrych i lawr ar yr offeiriaid, y rhai a berchid gan yr adran fwyaf Eglwysig o'r Methodistiaid yn fwy nag efe, oblegyd eu hordeiniad. Ofnwn fod yr hen gwestiwn, "Pwy fydd fwyaf?" wedi cael gormod o le yn mynwesau y naill a'r llall. (4) Ymddengys yn bur amlwg fod Howell Harris yn y Gymdeithasfa, os nad yn flaenorol i hyny, yn gwneyd ymgais effeithiol i ffurfio y cynghorwyr yn blaid yn erbyn yr offeiriaid. Cawn efe a hwythau yn aros ar ol mewn ymgynghoriad gwedi i'r tri offeiriad fyned allan. Buont i lawr hefyd hyd wawr y boreu yn canu, ac yn gweddïo, ac yn ymddiddan, pan yr oedd y tri arall wedi myned i orphwys i'w gwelyau. Yn flaenorol, yr ydym yn cael Harris yn pwysleisio ar anwybodaeth y cynghorwyr; yn awr, y mae yn eu dyrchafu fel rhai wedi eu hanfon gan Dduw. Amcan amlwg yr oll yw eu cylymu wrtho ei hun. Hawdd iddo oedd dylanwadu ar y cynghorwyr. Efe oedd tad ysprydol llawer o honynt. Yn ychwanegol, yr oedd efe a hwythau mewn ystyr ar yr un tir, sef heb urddau, ac felly nid anhawdd eu cael i gyduno mewn eiddigedd at y rhai oeddynt wedi derbyn ordeiniad esgobol. (5) Ofnwn mai ei gred ei fod wedi llwyddo i ffurfio plaid gref, trwy gymhorth pa un y gallai ysgwyd ymaith Daniel Rowland, a'r ddau offeiriad arall, oedd gwreiddyn y teimlad llawen a lanwai ei fynwes ar derfyn y Gymdeithasfa. Ni ddychymygodd y gallai yr offeiriaid ei drechu. Gwelai ei hun yn y dyfodol agos yn ben ar Fethodistiaid Cymru, fel yr oedd yn barod ar Fethodistiaid Calfinaidd Lloegr, ac felly heb neb i'w wrthwynebu. Nid ydym am dybio mai balchder calon oedd wrth wraidd yr awyddfryd hwn; yr ydym yn credu gwell pethau am dano; diau y perswadiai ei hun y gallai, yn ei sefyllfa newydd a dyrchafedig, wasanaethu yr Arglwydd Iesu a'r efengyl yn fwy effeithiol. Pe y gwelsai y trychineb a achosid gan yr anghydfod rhyngddo ef a'i frodyr, diau y buasai ei galon yn chwerw ynddo, a'i obenydd yn foddfa o ddagrau.

Dranoeth i'r Gymdeithasfa, cawn deimlad arall yn ei feddianu; teimlad o alar am fod y brodyr wedi gwrthod y genadwri parthed dirgelwch Crist, a gogoniant ei waed; a'u bod yn ei ddirmygu yntau oblegyd ei symlrwydd a'i anwybodaeth. Ddechreu yr wythnos ganlynol cychwynodd ar daith i Sir Fynwy, a diau fod sefydlu ei awdurdod ei hun dros y seiadau yn un o'i amcanion. Cawn ef, i gychwyn, yn Fairmeadow, rhwng Talgarth a Chrughywel; ei destun oedd: "Gwir yw y gair;" ac ymosodai yn enbyd ar falchder. Y noswaith hono yr oedd yn Cilonwy, a dywed iddo gael yma yr hen nerth a nodweddai ei bregethu ar y cyntaf, wrth lefaru oddiar: "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Dydd Mercher, aeth i le yn mhlwyf Grismond, lle y gwelodd lawer o ddrwgdeimlad ar ran yr Ymneillduwyr. Dywed iddo gael cenadwri ar y ffordd oddiwrth yr Arglwydd nad oedd i fyned i Sir Aberteifi, ond y cai awdurdod a nerth wrth bregethu y gwaed, a dirgelwch Crist, yr hon genadwri ni dderbyniai ei wrthwynebwyr. Pasiodd yn ei flaen trwy y Fenni, lle y cafodd odfa dda, ac y deallodd fod y newydd wedi rhedeg fel tân gwyllt trwy y wlad fod Rowland yn erbyn y cynghorwyr; ac ymwelodd a'r Goetre, Llanfihangel, Tonsawndwr, a New Inn, lle yr anerchodd y cynghorwyr gyda nerth. Dychwelodd yn ei ol i Drefecca erbyn y Sul. Er ei holl wroldeb, ceir arwyddion ei fod yn teimlo cryn unigrwydd ar ol colli cyfeillgarwch y brodyr; a chawn ef yn troi at Grist, gan ddweyd: "Ti yw fy mrawd! Fy mrawd oeddyt gerbron Pilat; fy mrawd oeddyt ar y groes; a'm brawd ydwyt yn awr yn y nefoedd; ac ynot ti yr wyf yn ogoneddus ac yn orchfygwr." Dywed ddarfod i'r Arglwydd ei arddel yn rhyfedd yn y daith hon, gan ei anrhydeddu i'r un graddau ag yr oedd y brawd Rowland yn ei ddirmygu. "Y mae y cymeriadau gwaethaf," meddai, "yn dwyn tystiolaeth i mi fy mod yn ddyn gonest."

Ddechreu yr wythnos ganlynol cychwyna am daith faith trwy Siroedd Caerfyrddin, Trefaldwyn, a Maesyfed. Aeth i Drecastell-yn-Llywel y noson gyntaf, lle y cafodd nerth i ddangos anfeidrol rinwedd gwaed Crist; ac yn y seiat breifat a

ddilynai dangosodd glauarineb, rhagfarn, a doethineb pen yr Ymneillduwyr, gan ddweyd ei fod yn eu caru, ond y dymunai eu gweled yn gwasgu yn nes at Dduw. Y mae yn nesaf yn Llanddeusant, ac yn cael odfa rymus. Gofynai iddo ei hun a wnai barhau i dalu dwy bunt yn y flwyddyn tuag at gael y brawd Rowland i bregethu yn y sir hono yn fisol? Tebyg fod Daniel Rowland yn dyfod yn fisol yn awr i Abergorlech, a bod Harris yn ei gynorthwyo i dalu y person a gymerai ei le yn Llangeitho. A ganlyn yw profiad Howell Harris yn Llanddeusant: "Cefais barodrwydd neithiwr i ddyoddef pob peth, o bob cyfeiriad; oddiwrth y rhai cnawdol a'r rhai ysprydol, ac hyd yn nod oddiwrth y brawd Rowland, yr hwn sydd wedi cael caniatad i fy nirmygu, a'm gwarthruddo, ac i sathru arnaf, gan fy nghyhuddo o gyfeiliorni, ac o Antinomiaeth. Y boreu hwn breuddwydiais fod fy nghalon wedi ymddryllio o gariad (at Rowland); ei fod yntau hefyd felly, ac i ni syrthio ar yddfau ein gilydd." Ymddengys i'w freuddwyd effeithio yn ddwys ar ei feddwl, am y credai mewn breuddwydion fel cenadwriaethau oddiwrth Dduw. Yr oedd Daniel Rowland yn pregethu yn Abergorlech; tebygol fod Cymdeithasfa Fisol yno; ac wedi cryn betrusder, ac ymladd ag ystyfnigrwydd ei ysbryd, penderfynodd Harris fyned i'w wrando. Testun Rowland oedd, Dat. ii. 17: "I'r hwn sydd yn gorchfygu y rhoddaf iddo fwyta o'r manna cuddiedig," &c. "Agorodd yn ardderchog," meddai Harris, "trwy ddangos fod pob gras yn ras gweithgar; dadlenodd gyfeiliornad yr Antinomiaid, y rhai a briodolant haeddiant i ras, ac a ddywedant eu bod yn caru Crist, tra yn byw mewn pechod." Wrth wrando, y mae Harris yn toddi; cyfid cri yn ei enaid ar iddynt allu caru eu gilydd, a deall eu gilydd yn well; a gofynai i Dduw: "Pa hyd y goddefir i mi ddwyn ffrwythau balchder, cyndynrwydd, a chnawd? Yr wyf yn clywed yr un iaith gan dy holl ffyddlon genhadau, tra y maent yn gwrthwynebu eu gilydd, a'r naill yn credu am y llall ei fod yn elyn i'r gwirionedd." Dymunai ar i'r ystorm chwythu trosodd. "Yr oedd goleuni ac efengyl yn mhregeth y brawd Rowland," meddai; "dangosai fod y rhyfel Cristionogol yn rhyfel sanctaidd; mai y Sanctaidd yw y Cadben; fod y tir ar ba un yr ymleddir, sef yr eglwys, yn sanctaidd; a'i fod i gael ei ddwyn yn mlaen trwy foddion sanctaidd. Pwy all osod allan mewn ysgrifen y bywyd a'r nerth oedd yma?" Sicr yw ei bod yn odfa rymus, a chafodd Harris ei orchfygu. Aeth y ddau yn nghyd i Talyllychau. "Ar y ffordd, cyflawnwyd fy mreuddwyd," meddai Harris; "agorais iddo fy holl enaid; llawer o waith y gelyn a olchwyd ymaith, a daethom yn nes at ein gilydd. Dywedais wrtho fel yr oeddwn yn cyduno a'i bregeth heddyw. Dywedodd yntau ei fod yn anrhydeddu fy ngweinidogaeth, ac y rhaid i bawb gydnabod ddarfod i'r Arglwydd fy anfon, a'm harddel. Dywedais wrtho fy maich; fy mod yn teimlo nad oedd yn anrhydeddu y Morafiaid yn ddigonol, ac felly ei fod yn pechu yn erbyn yr Arglwydd. Dywedodd yn ol nad oedd yn teimlo yn gas atynt, ac y caent bregethu yn ei eglwys, ond iddynt beidio cyhoeddi eu hopyniynau neillduol. Dywedais inau, os deuent i Gymru, y gwrthwynebwn eu cyfeiliornadau; ond y gwnawn hyny yn ngharaid Duw, am y tybiwn y gwyddant fwy am yr Arglwydd na myfi. Achwynai fy mod yn gwasgu yn rhy glos at y brawd Beaumont; addefais inau hyny, ond fy mod yn gwneyd er ei gymedroli, ac fel na byddai iddo gael ei droi allan oddiwrthym." Dyma y ddau Ddiwygiwr wedi ymheddychu i raddau mawr.

Pregethodd Howell Harris yn Nhalyllychau; ond pregethodd Rowland gyda nerth ac angerddoldeb neillduol, ar Dat. xii. 9. Teimlai Harris fod yr Arglwydd yn llawer amlycach yn ngweinidogaeth Rowland nag yn ei eiddo ef. "Hynod y goleuni a'r nerth sydd ganddo,' meddai; "trwy yr holl amser yr oedd yn llefaru, teimlwn undeb enaid ag ef, a'm bod yn nglyn wrtho. Wedin, aethum gydag ef i Gwmygwlaw. Yr wyf yn gobeithio fod yr ystorm hon trosodd. Ar y ffordd, yr oeddym yn gorfoleddu, yn neidio, ac yn canu, ac yr oeddym yn debyg i bersonau gwedi meddwi." Yr oedd y fath orfoledd yn llenwi eu mynwesau, o herwydd cael eu dwyn yn nghyd, fel nas gwyddent beth i wneyd â hwy eu hunain. Braidd nad ydynt yn ymddangos yn debyg i blant, yn eu cwerylon, ac yn eu cymod drachefn. Dywedai Harris wrth Rowland iddo bregethu yn Llundain yn erbyn y Morafiaid, ac yn Nghymru yn erbyn yr Antinomiaid, a hyny bron yn yr un geiriau ag y pregethai Rowland y dydd cynt. Meddai Harris, yn mhellach: "Cyfaddefai nad dim a glywodd genyf fi oedd wedi peri

iddo ymddigio, ond fy ngwaith yn glynu wrth y brawd Beaumont, a thrwy hyny gyfiawnhau yr hyn nad yw yn iawn. Yr wyf yn gobeithio ddarfod ein huno eto yn y gwirionedd. Dywedais wrth Rowland ei fod wedi pechu yn erbyn fy ngweinidogaeth. Gwadodd hyn, a maentymiai ei fod yn edrych arnaf fel cenad Duw, ond addefai ei fod yn edrych i lawr ar y cynghorwyr. Arglwydd, dinystria y teimlad hwn ynddo. Creda hyd yn nod yn awr fy mod yn rhy dyner at y Morafiaid; ond am heddwch yr wyf fi, a chariad, a thawelwch yn nhŷ yr Arglwydd."

Aeth y ddau i Lwynyberllan. Pregethodd Howell Harris ar ogoniant yr eglwys; yna llefarodd Daniel Rowland oddiar Mat. ix. 49, a chafodd odfa nerthol tu hwnt. Yma ymadawent; aeth Harris i Bronydd, lle yr oedd nerth a dylanwad yn cydfyned a'r genadwri; oddiyno i Merthyr, Erwd, Llanfair-muallt, a Llangamarch. Yr oedd goleuni a nerth anarferol yn cydfyned a'i eiriau yn y lle diweddaf. Boreu y Sul dilynol yr oedd yn Dolyfelin; oddiyno aeth yn ei flaen i Rhaiadr, lle yr oedd mewn cadwyn wrth geisio llefaru, a chyrhaeddodd Tyddyn y noswaith hono. Yr oedd cynulleidfa anferth wedi dod yn nghyd yma, a chafodd yntau odfa dda. Gwedi y bregeth buwyd mewn seiat breifat hyd ddeuddeg o'r gloch. Am waed Crist, ei Dduwdod, ei ogoniant, a'i ddirgelwch, y llefarai Harris yn y seiat; dywedai mai dyma y sail, a bod Duw a ninau yn un yn y fan yma. Dywedai, yn mhellach, fod pump peth yn cael eu priodoli yn yr Ysgrythyr i waed Crist: (1) Anfeidrol rinwedd, (2) Gallu i ddofi anfeidrol lid, (3) Ei fod wedi diddymu angau i'r credadyn, (4) Wedi diffodd y tân tragywyddol iddo, (5) Ac wedi dwyn i mewn fendithion annherfynol. "Nid oes un Duw ond Crist," meddai; "ac os wyt wedi dy uno â Christ, yr wyt wedi dy uno a'r oll sydd Dduw." Er hwyred ydoedd pan y gorphenwyd y seiat, nid aeth Howell Harris i'w wely, eithr arosodd i lawr trwy gydol y nos, yn anerch ac yn rhybuddio y cynghorwyr. Tranoeth, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yma. Nid yw yn ymddangos fod yr un o'r offeiriaid yn bresenol, ond daeth lliaws o'r cynghorwyr yn nghyd; dechreuent hwy edrych ar Harris fel eu cadben. Athrawiaethodd yntau ar y dirgelwch, gan ddangos fel yr oedd ei enaid mewn undeb ag enaid Crist, a'i gorph â chorph Crist am dragywyddoldeb. Eglurodd yn nesaf y modd yr oedd rhaniadau yn dyfod i'w mysg, sef trwy fod rhai yn rhoddi arbenigrwydd ar un gwirionedd, megys cyfiawnhad, gan alw y rhai sydd yn pwysleisio ar sancteiddhad yn rhai deddfol; tra yr oedd eraill yn rhoddi arbenigrwydd ar sancteiddhad, ac yn galw y rhai a bwysleisient ar gyfiawnhad yn Antinomiaid. Ymdriniwyd yno ag athrawiaeth y Drindod, ac am undod y Duwdod. Cronicla ei fod mor lluddedig gan feithder ei daith, a'r nifer o weithiau yr oedd wedi pregethu, fel nas gallasai fwyta. Ymadawodd o gwmpas pedwar dydd Llun, a chafodd gerydd am rywbeth gan ryw gyfaill anwyl, yr hyn oedd yn dra dolurus i gnawd, ac hyd yn nod i ras.

St. Harmon, ar derfyn Sir Faesyfed, yw y lle y mae yn ymweled ag ef yn nesaf; gwedi hyny y mae yn nhŷ un Hugh Edwards. Yma cafodd ei gymeryd i fynu yn anarferol gan ogoniant corph yr Arglwydd Iesu, a rhed yr ymadrodd, "Bwyta ei gorph, ac yfed ei waed," yn barhaus trwy ei feddwl. Gwedi hyny cawn ef yn cyfeirio ei gamrau tua thŷ William Evans, Nantmel. Ar y ffordd, fel yr oedd dylanwad personol Daniel Rowland yn gwanhau ar ei deimlad, ymddengys fod yr hen gweryl yn cael lle mwy yn ei feddwl. "Gwelais yn glir," meddai, "fel yr oedd Duw wedi fy nghadw yn y canol rhwng pob cyfeiliornadau, ac fel y darfu i'r brawd Rowland, trwy fy ngwrthwynebu, leddfu fy ngwroldeb, a gwanhau fy mreichiau. Gwelais fod gogoniant Duw wedi cilio allan o'i galon, a hunan wedi cripio i fewn. Gwelais y cyfodai Duw fi i fynu, ac y safai o'm plaid." Y mae yn syn darllen fod y fath deimladau annheilwng yn cael lle yn ei feddwl am ei gyfaill, yr un y dawnsiai mewn gorfoledd ychydig ddyddiau cyn hyny, oblegyd cael heddwch ag ef. Nid yw yr ymdoriad hwn yn un clod i ben na chalon Howell Harris. Ond nid croniclo hanes dynion perffaith yr ydym. Yr oedd yn bur ddolurus ei galon wrth fyned i dŷ William Evans; ymddengys fod yr hen gynghorwr o Nantmel yn un o bleidwyr Daniel Rowland yn Nhrefecca. Ond cafodd undeb yspryd a'r brawd, ac ymadawsant wedi deall eu gilydd yn well. Yn nesaf, aeth i dŷ y brawd Buffton, lle y pregethodd ar waed Crist, gan, ar yr un pryd, anog y brodyr i gyd-ddwyn a'u gilydd. Yr oedd James Beaumont wedi pregethu yn flaenorol ar ddirgelwch Duw. Eisteddasant

yn nghyd yn breifat hyd yr hwyr, gan agor eu calonau i'w gilydd, a symud rhagfarnau. Yr oedd Beaumont yn myned gryn lawer yn mhellach na Harris yn ei ymadroddion; ac amddiffyn Beaumont oedd un o'r cyhuddiadau a roddid yn erbyn Harris. Bu y Diwygiwr yma ar ei oreu yn ceisio cymedroli rhai o syniadau Beaumont, yn arbenig ei esboniad ar yr ymadrodd, "Bwyta corph ac yfed gwaed" ein Harglwydd. Dywedai wrtho, hyd yn nod os oedd y gwirionedd ganddo, nad oedd yr amser i'w gyhoeddi wedi dyfod eto. Yna, aeth trwy Dolyberthog, Llansantffraid, Ty'ncwm, a Dolywilod, a dychwelodd i Drefecca, ar ol taith o yn agos i dair wythnos. Y mae un nodiad am ei helynt yn Llansantffraid yn haeddu ei gofnodi. "Cefais lawer o ryddid," meddai, "i siarad ag offeiriad y plwyf, Mr. Williams. Ceisiais hefyd ei dyneru at y brawd Beaumont, yr hwn oedd wedi ei dramgwyddo, fel y mae wedi tramgwyddo llawer o rai eraill." Profa y difyniad fod athrawiaeth Beaumont yn dyfod yn gyffredinol anghymeradwy, a da fuasai i Harris beidio gwneyd cymaint cyfaill o hono.

Tranoeth i'w ddychweliad, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca; nid oedd un o'r offeiriaid ynddi, a Howell Harris a lywyddai. Llefarodd yn helaeth am waed Crist, a rhoddodd gyfarwyddiadau i'r cynghorwyr pa fodd i ymddwyn, gan ei fod ef ar fyned i Lundain. Bu priodas y cynghorwr Thomas Jones hefyd dan sylw, a'r hyn y cytunwyd. Derbyniodd Howell Harris Grynwr i'w dŷ, yn Nhrefecca, i letya, fel y gallai fwynhau breintiau y lle. Ai nid dyma flaenffrwyth "teulu" Trefecca? Dywed iddo hefyd gael ei gyfarwyddo gan yr Arglwydd i anfon ei geffyl i'r cynghorwr Thomas James. Tua chanol Awst, y mae yn cychwyn am Lundain, ac ar ei ffordd yno yn tramwyo rhanau helaeth o Siroedd Morganwg a Mynwy, gan bresenoli ei hun yn y Gymdeithasfa Fisol yn y Groeswen. Nid oedd yr un o'r offeiriaid yno; felly, efe a lywyddai. Nid yw yn ymddangos ei bod yn Gymdeithasfa hollol hapus. Yr oedd cryn wrthwynebiad yn Watford a'r Groeswen i arddull ei weinidogaeth; yn wir, oddiyma y cychwynasai y gwrthwynebiad. "Aethum i fysg y brodyr, sef y pregethwyr," meddai; "dywedais wrthynt nad oeddwn yn eu clywed yn cwyno digon am eu hanwybodaeth o Dduw a Christ, a'u tuedd at Antinomiaeth; a'm bod yn ofni am danynt nad oeddynt yn argyhoeddedig o'u hanwybodaeth, neu ynte, eu bod yn rhy hunanol i'w addef. Cyfaddefent ychydig o hyn, ond yr oeddynt yn dramgwyddedig am nad oeddwn yn gwahaniaethu yn ddigon clir (yn fy ngweinidogaeth). Yna, agorais iddynt y geiriau, 'Bwyta cnawd Mab y Dyn,' fel y gwnaethum yn Aberthyn. Ceisiais hefyd symud ymaith eu maen tramgwydd. Ceryddais eu balchder, ond ni dderbyniwyd ef. Agorais fy nghalon iddynt, fel yr egyr tad ei galon i'w blant, fy mod yn credu yn y Drindod, ond fod fy ffydd yn rhy wan i ymborthi ar yr athrawiaeth, nac i'w phregethu; ond fy mod yn cael fy ngalw i bregethu undeb person Crist, ac mai dyma fy ymborth. Perswadiais hwy nad oeddwn am ymuno a'r Morafiaid. Yna, aethum ymaith tua Watford a'm calon yn drom." Ar y ffordd yno, teimlai bwysigrwydd y lle a lanwai; ei fod wedi cael ei osod yn mysg y tadau yn nhŷ Dduw, ochr yn ochr a'r offeiriaid ordeiniedig.

Gellid meddwl fod y Gymdeithasfa yn cael ei chynal yn rhanol yn Watford, yn gystal a'r Groeswen. A boreu tranoeth, cyfarfyddodd Harris a'r cynghorwyr drachefn yn Watford, gan eu hanerch gyda golwg ar ei berthynas ef â hwy. "Dangosais i'r brodyr ieuainc eu lle,' meddai, "a'm lle inau; a'r modd yr oeddwn yn teimlo fod yr Yspryd Glân wedi fy ngosod fel tad dros y cynghorwyr; mai fy nghynorthwywyr i ydynt; ond nad oeddynt yn caniatau i mi awdurdod tad i'w ceryddu; ond fy mod yn cael fy nghateceisio ganddynt, a'm dwylaw yn cael eu gwanhau, a'm gweinidogaeth ei rhwystro, ac yr ymddangosent i mi fel wedi ymgolli mewn balchder. Dywedais fy mod yn argyhoeddedig ddarfod i mi fyned yn rhy bell wrth geisio eu boddloni, ac egluro fy hun, a darostwng fy hun iddynt. Ceryddais hwynt am eu balchder, a'u diffyg gofal am ogoniant Duw. Toddodd un o honynt wrth fy mod yn gweddïo; dywedodd un arall fy mod yn dwyn cyfeiliornadau i'r eglwys. Gofynais gan Dduw faddeu iddo, ac aethum i ffwrdd.' Na, nid oedd yn Gymdeithasfa hapus. Ceir awgrymiadau fod Howell Harris yn trin y cynghorwyr gyda llaw uchel, a'i fod yn dysgwyl ymostyngiad personol a gwarogaeth iddo ef oddiwrthynt; a'i fod yn ystyried ei hunan yn ben arnynt, rhagor Daniel Rowland, a'r ddau offeiriad arall.

Bu yn Llundain am ddau fis. A'i helynt yno nid oes a fynom, gan nad yw yn dal cysylltiad uniongyrchol â Methodistiaeth Cymru. Daeth yn ei ol tua diwedd mis Medi. Dranoeth i'w ddychweliad pregethai yn Nhrefecca, ac achwyna ddarfod i'w frawd—ni ddywed pa un ai Joseph ai Thomas—wrthod dyfod i'w wrando, er ei fod yn aros gydag ef ar y pryd. Yn mhen ychydig ddyddiau yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol i gael ei chynal yn Castellnedd, ac aeth Harris tuag yno. Yn y Glyn, ar ei ffordd tua'r Gymdeithasfa, clywodd ei fod, mewn ystyr, wedi cael ei fwrw i ffwrdd gan y brodyr, a'i fod yn cael ei bortreadu mewn lliwiau duon. Gwnaeth hyn ei yspryd yn chwerw ynddo. Yn Gelly-dorch-leithe, clywodd bregeth ryfedd gan Morgan John Lewis, ar fab yr addewid, y ryfeddaf a glywsai yn ei oes. Diolchai Harris am fod y fath oleuni yn eu mysg, ac nas gallai lai na'i anrhydeddu. Eithr yr oedd gweled fod y brodyr wedi cydymuno yn ei erbyn ef (Harris) yn pwyso yn drwm ar ei feddwl; a gofynai i'r Arglwydd ai cerydd arno am ryw bechod ydoedd hyn, ynte, ai anrhydedd a osodid arno, ac y tröai eto i fod yn berl yn ei goron?

Cyfarfyddodd y Gymdeithasfa o gwmpas saith nos Fercher, a bu yn gyfarfod tra chyffröus. Caiff Howell Harris adrodd ei hanes. "Dywedais wrth y brodyr," meddai, "eu bod yn anwyl genyf fi, y gallwn olchi eu traed; a'm bod yn foddlawn bod heb ddoniau, na llwyddiant, na gallu, er mwyn iddynt hwy gael y cwbl. Yma yr oeddwn yn ddrylliog, a thorais allan i wylo. Cyn hyn, yr oeddwn yn fy yspryd fy hun, am fy mod wedi cael fy nhemtio. Yr oeddwn wedi clywed iddynt gynal Cymdeithasfa, ryw bythefnos yn flaenorol, ac yn hono iddynt drefnu fod y brawd Rowland i gymeryd fy lle, gan roddi hawl iddo i benderfynu pwy oedd i gael ei ddanfon i bregethu, ac i ba le. Am danaf fi, trefnent fy mod i fyned i Sir Gaerfyrddin, ac na chawn fyned i Forganwg, am nad oedd derbyniad i mi yno, ac y tybiai y cymdeithasau fy mod yn pregethu cyfeiliornadau. Yna, mi a eglurais fy syniadau am berson Crist, gan ddangos nad oeddwn yn gwahaniaethu oddiwrthynt hwy, ond fod y gelyn wedi dyfod i'n mysg. Agorais yr holl fater am fy mhenodiad ar y cyntaf, y modd yr oeddynt hwy, mewn undeb â Mr. Whitefield, wedi fy newis, ond yn awr fy mod yn cael fy nhroi allan, ac nas gwn am beth, ond yn sicr fod rhyw bechod yn cael ei ffeindio ynof. Eglurais fy mod yn cael fy ngalw yn ddyn deddfol yn Lloegr, am fy mod yn pregethu yn erbyn yr Antinomiaid, a'r Morafiaid, a darfod i mi droi Mr. Cudworth allan; tra yn Nghymru, y gelwir fi yn Antinomiad, ac yn Forafiad. Pan y dywedent hwy fy mod gynt, os codai rhyw anghydwelediad rhyngof a'r brawd Rowland, yn crio, yn syrthio ar ei wddf, ac yn derbyn ei air, ond yn awr fy mod yn fwy anystwyth, dywedais nad oeddwn yn gwybod i mi ei geryddu am ddim, oddigerth ysgafnder, a'm bod yn gwybod mai myfi oedd y gwaethaf o honynt oll, ond fy mod yn cael fy nyrchafu trwy edifeirwch; ac nad oeddwn yn gwybod fy mod yn ystyfnig gyda golwg ar ddim, oddigerth eu bod am geisio fy yspeilio o'r gwirionedd yma, sef fod y Dyn hwn yn Dduw. Os oeddynt am geisio hyny, y caent fi yn ystyfnig, ond fy mod yn gobeithio nad oeddynt. Efallai ddarfod i mi yn flaenorol fyned yn rhy bell mewn darostwng fy hun (i Rowland); os do, ei bechod ef a chwithau yw eich bod yn duo fy nghymeriad, yn gwanhau fy nwylaw, ac yn pechu yn erbyn fy ngweinidogaeth, gan fy ngalw yn Antinomiad. Dangosais fel yr oeddwn i yn cyduno â phob gair a bregethent hwy, ond eu bod hwy, heb gael un achos o'r cychwyn, yn troi yn fy erbyn i. Am fy lle, nas gallaf ei roddi i fynu; fod yr Arglwydd wedi gosod o fy mlaen ddrws agored, yr hwn nis dichon neb ei gau; na feiddiwn ei roddi i fynu, am mai Duw a'm gosododd ynddo; a chan mai yr Arglwydd a'm gosododd ynddo, bydded iddynt hwy edrych ati am geisio fy nhroi ymaith. Yr wyf yn gweled yn awr i Satan gael caniatad i ddallu llygaid, ac i frashau calon y brodyr, gan osod y naill yn erbyn y llall. O'r fath ystorm ydyw! Agorais drachefn am ddirgelwch Crist, a'i ddyoddefiadau; nad ydym yn gwybod pa fodd i lefaru am danynt. Pan y cyhuddent fi o addoli y gwaed, dywedais nad oeddwn yn gwahanu gwaed Crist oddiwrth ei berson, ond yn edrych arno fel rhan o hono; nas gallaf weled un rhan o hono heb weled yr oll o hono, a bod perffeithiau y naill natur yn aml yn cael eu priodoli i'r llall. Ddarfod i Dduw farw am i'r Dyn oedd yn Dduw farw. Yna, datgenais yn erbyn John Belsher, ei fod yn ymddangos i mi yn ymchwyddo, ac nas gallwn gydweithio ag ef. Enwais leoedd yn mha rai

y cyhuddent fi o Antinomiaeth; cyfeiriais at y modd yr oeddynt wedi cadw Cymdeithasfaoedd yn fy absenoldeb, a'r modd y meddyliwn eu bod wedi pechu yn fy erbyn, er mai fi oedd tad y nifer fwyaf o honynt.

"O gwmpas deg aeth y brodyr i swpera, minau a aethum i ysgrifenu fy nydd-lyfr, pawb yn llawn o honom ein hunain, ac heb ond ychydig o'r Arglwydd yn ein mysg. Yr oedd ganddynt hwy gynygiad i'w osod gerbron y frawdoliaeth parthed gosod y brawd Rowland yn fy lle, i dderbyn ac i fwrw allan y cynghorwyr, ac i drefnu i bob un ei gylchdaith. Datgenais fy mod yn rhydd i roddi fy lle i fynu fel arolygwr cyffredinol, ond nas gallwn osod fy hun dan ei awdurdod ef (Rowland), i gael fy anfon yma a thraw, fel y gwelai efe yn dda. Yr oeddwn wedi derbyn hawl oddiwrth yr Arglwydd i fyned i'r lleoedd a dybiwn yn briodol, ac nas gallwn roddi hyn i fynu heb bechu yn erbyn Duw. Meddyliwn na ddeuai pethau i'w lle hyd nes yr ymddarostyngent gerbron yr Arglwydd am eu pechod yn fy erbyn, ac yn erbyn fy ngweinidogaeth.

"CASTELLNEDD, dydd Iau. Y Gymdeithasfa yn parhau. Neithiwr, cefais ryddid i fyned at yr Arglwydd, ac i bledio ar ran y brodyr, gan lefain: 'O Arglwydd, ti a wyddost ddarfod i ti fy narostwng gerbron y brawd Rowland, gan wneyd i mi lafurio am heddwch ac undeb; ti a wyddost hefyd eu bod wedi pechu yn erbyn fy ngweinidogaeth, gan wanhau fy nwylaw. Bydded i ti faddeu iddynt.' Yn y Gymdeithasfa, cyhuddid fi o ohebu a'r Morafiaid; dywedais nad oedd un ohebiaeth rhyngom, ond fy mod yn awyddus am hyny, gan yr anrhydeddwn hwynt yn fawr, oblegyd eu bod yn adnabod Iesu Grist. Mr. Powell (yr offeiriad) a geryddodd y cynghorwyr a'm gwrthwynebent; brawd arall a siaradodd i'r byw, fod eu geiriau yn fy erbyn i yn ei wanu ef; ac un arall drachefn a ddywedodd mai myfi oedd tad ysprydol y nifer amlaf o honynt, os nad eu tad oll. . Dywedais, drachefn, fy mod yn barod i roddi fy lle i fynu i'r brawd Rowland, ond nas gallwn, heb bechu yn erbyn yr Arglwydd, roddi iddo awdurdod ar fy ngweinidogaeth, i'm trefnu i ba leoedd i fyned, a pha beth i bregethu. Yna, gwedi i mi ddatgan fy mod yn edrych arnaf fy hun fel wedi cael fy symud o fy lle hyd nes yr ail-benodid fi, y brawd Morgan Jones a safodd i fynu, ac a ddywedodd, mi a feddyliwn yn yr Arglwydd, ei fod, gerbron Duw a dynion, yn fy newis i fod yn olygwr drosto yn yr Arglwydd, gan ddarfod i'r Arglwydd fy nghymhwyso tuag at y cyfryw le tuhwnt i neb. Yr oedd y brawd Powell wedi dweyd felly o'r blaen. Dywedai amryw yr un peth yn awr. Gwelais fod yr Arglwydd yn fy ail-sefydlu yn fy lle. Dangosais, gyda golwg ar y brawd John Belsher, ei fod wedi ceisio gwneyd rhwyg, trwy gamddarlunio pethau i'r brawd Rowland, a'i fod wedi ymchwyddo i'r fath raddau, fel nas gallwn gydweithio ag ef, nes iddo ymddarostwng. Am y brawd Benjamin Thomas, yr oedd ef wedi condemnio fy athrawiaeth, ac wedi llefaru yn fy erbyn; dygaswn ei faich er ys amser, gan ddysgwyl i'r Arglwydd ei argyhoeddi, nas gallwn lafurio gydag yntau heb iddo gael ei ddarostwng. Achosodd hyn gyffro adnewyddol. Eithr glynais wrth fy mhenderfyniad, am ei fod ar fy nghydwybod. Yna, darllenwyd yr adroddiadau, aethum i weddi, a daeth yr Arglwydd i lawr. Cefais ryddid i gynghori y brodyr; boddlonais hwy gyda golwg ar bob peth. Y mae yn rhyfedd fel yr oeddynt wedi derbyn camachwyn am danaf. Clywsent fy mod am uno a'r Morafiaid; fy mod yn duo eu cymeriadau wrth bregethu, a bod genyf ryw ddull newydd o bregethu; ond cawsant gymhorth i fy nghredu yn awr. Anerchais hwynt, gan ddangos fod y prawf hwn wedi dyfod arnom am nad oeddym yn treulio digon o amser mewn hunanymholiad, a dywedais nad oeddwn yn clywed digon o swn edifeirwch yn eu gweddïau. Gwedi terfynu, syrthiasant ar fy ngwddf; a'r brodyr tramgwyddus a ddaethant ataf, gan ofyn i mi faddeu iddynt, yr hyn a wnaethum yn hawdd. Dywedais nas gallwn wrthsefyll dynion ymostyngar a drylliog. Yna, ni oll a ollyngwyd yn rhydd; mwynasom lawenydd cyffredinol, a syrthiodd ein beichiau i ffwrdd. Cefais ryddid i addaw cyfarfod yma yn mhen pythefnos a'r brawd Rowland."

Ysgrifenodd Howell Harris y nodiadau hyn yn ei ddydd-lyfr yn nghanol cyffro yr helynt, pan yr oedd ei yspryd yn ferw o'i fewn; ac i ba raddau y darfu i'w deimladau daflu eu lliw ar yr hyn a ddywed, sydd anhawdd ei benderfynu. Yn anffodus, ei ymadroddion ei hun, yn mron yn gyfangwbl, a gronicla; prin y dengys â pha eiriau ei hatebwyd. Gallwn dybio ddarfod iddo gael ei gynhyrfu yn enbyd ar y ffordd i'r Gymdeithasfa gan y chwedlau a

glywodd; iddo, wedi cyrhaedd y cyfarfod, ymosod yn uniongyrchol ar y brodyr cynulledig, gan eu cyhuddo o geisio ei ddisodli yn ei absenoldeb, o bechu yn erbyn ei weinidogaeth, a phardduo ei gymeriad; iddo ddatgan na wnai ymostwng i gymeryd ei lywodraethu gan Daniel Rowland, a'i anfon o le i le i bregethu fel ei trefnid; ac na chymerai ychwaith ei gyfarwyddo gyda golwg ar gynwys ei weinidogaeth gan neb. Yr oedd yn ddyn o deimladau cryfion, a rhaid fod ei ruad ar lawr y Gymdeithasfa yn dra brawychus i'r frawdoliaeth. Yn ol pob tebyg, prin y caent wneyd unrhyw hunan-amddiffyniad ganddo; ac yn sicr, ni chaent gyfeirio at unrhyw fai a welent ynddo, er ei fod ef yn dynoethi eu beiau hwy yn gwbl ddibetrus. O'r diwedd, llwyddwyd i'w dawelu, wrth fod nifer o'r cynghorwyr yn datgan o'r newydd eu hymddiried ynddo; ac, yn ol pob tebyg, wrth fod Daniel Rowland, a'r ddau offeiriad arall, yn ei sicrhau nad oedd y chwedlau a gawsant eu cludo iddo yn wirionedd. Ar yr un pryd, nid annhebyg fod rhyw gymaint o sail i'r ystorïau yma. Gan fod nifer o gynghorwyr Sir Forganwg yn dra gwrthwynebol i syniadau athrawiaethol Harris, a bod yr odfaeon a gynhaliai yno yn aml yn gorphen mewn dadleuon brwd, a theimlad chwerw, nid annaturiol tybio ddarfod i'r Gymdeithasfa farnu mai gwell, dan yr amgylchiadau, fyddai iddo beidio ymweled â Morganwg can amled ag yr arferai, a gwneyd Sir Gaerfyrddin yn fwy o faes ei lafur. Ceir arwyddion annghamsyniol fod eiddigedd wedi dyfod i mewn rhwng Harris a Rowland erbyn hyn; yr oedd y ddau yn ddynion o dymherau cryfion, a'r naill fel y llall, efallai, yn hoffi llywodraeth, ac y mae yn fwy na thebyg fod eu canlynwyr yn chwythu'r tân o'r ddau tu. Nid yw papyrau Rowland, yn anffodus, ar gael; felly, nis gallwn roddi yr hanes fel yr edrychai ef arno. Ond naturiol ddigon tybio fod dylanwad mawr Harris ar y cynghorwyr, yn nghyd a'r dyrchafiad a gawsai i fod yn brif olygwr y seiadau Saesnig, wedi cynyrchu rhyw gymaint o eiddigedd yn mynwes y Diwygiwr hyawdl o Langeitho, yn arbenig gan ei fod yn ymwybodol y meddai ar ddoniau gweinidogaethol rhagorach na'i gyfaill. O'r ochr arall, credwn y ceir arwyddion annghamsyniol, hyd yn nod yn ei adroddiad ei hun o Gymdeithasfa Castellnedd, fod Howell Harris yn hawlio arglwyddiaeth ac uchafiaeth yn mysg y Methodistiaid. Cyhudda y brodyr o gynal Cymdeithasfa pan yr oedd ef yn absenol, fel pe byddai ei bresenoldeb yn angenrheidrwydd anhebgor mewn cynulliad o'r fath. Cyfeiria at ei "le" fel arolygwr cyffredinol, fel pe byddai uwchlaw eiddo Rowland, a Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, tra yn y blynyddoedd cyntaf y daliai ei hun mewn darostyngiad iddynt, am eu bod hwy yn offeiriaid urddedig, tra nad oedd ef ond lleygwr. Ymddengys ei fod yn tybio, pan y datganai na wnai gydweithio â gwahanol frodyr, y gallai ysgwyd ymaith o'r frawdoliaeth y neb a ewyllysiai, hyd yn nod Rowland ei hun. Cryfheid ef yn yr ysprydiaeth hon, am y tybiai ei fod mewn cymundeb uniongyrchol a'r nefoedd, ac felly yn rhwym o fod yn iawn mewn pob dim, a'r rhai a'i gwrthwynebant yn gyfeiliornus. Ni wnai ymresymu gyda golwg ar ei syniadau duwinyddol; edrychai arnynt fel datguddiad a gawsai oddiwrth yr Arglwydd. Yn y cnawd yr oedd pawb a feiddiai olygu yn wahanol iddo. Tybiai, yn mhellach, ei fod yn cael llais yr Arglwydd gyda golwg ar luniad ei deithiau, trefniad amgylchiadau ei dŷ, ac amgylchiadau y seiadau, yn nghyd a'r moddion y dylid eu harfer i gario gwaith y diwygiad yn mlaen. O ganlyniad, nid oedd arno eisiau ymgynghori â neb am ddim; credai y dylai pawb ymostwng i'w drefniadau, am eu bod yn ddwyfol. Ond teg dweyd fod ei gydwybodolrwydd yn yr oll yn ddiamheuol; ei fod i raddau mawr yn anhunangar; os yr awyddai am y brif gadair, y gwnai hyny nid er mwyn porthiant i'w wagedd, ond er mantais i gario yn mlaen waith yr Arglwydd yn fwy effeithiol; a'i fod mewn yni, ac ymdrech, a pharodrwydd i dreulio ei hun allan yn ngwaith yr Iesu, yn rhagori ar ei frodyr oll.

Dychwelodd Howell Harris o'r Gymdeithasfa trwy Lansamlet a Blaenllywel, gan bregethu mewn amryw leoedd ar y ffordd. Ceir ei brofiad yn y difyniad canlynol allan o'i ddydd-lyfr: "O Arglwydd," meddai, "bydded i'r brodyr gael eu darostwng ger dy fron di. O anwyl Dad, nis gallaf foddloni rhoddi i fynu y goron a gyflwynaist i mi yn y gwaith hwn. Ond yr wyf yn dwyn y brodyr atat ti; pâr iddynt adnabod eu lle, ac i blygu i'th Yspryd." Wedi bod gartref yn Nhrefecca am o gwmpas pythefnos, cawn ef yn cychwyn tua Watford, i'r Gymdeithasfa, er ymgynghoriad pellach â Daniel Row-

land. Yn Gelligaer, ar y ffordd yno, ysgrifena: "Yr oeddwn yn caru y brawd Rowland; teimlwn nas gallwn ymadael ag ef, er ei fod ef yn foddlon ymadael â mi; ond am frawd arall—Benjamin Thomas—y mae yn gorwedd yn bwysau arnaf, a gweddïais ar i'r Arglwydd ei ddarostwng." Cyrhaeddodd y Gymdeithasfa yn y prydnhawn. Ar y cyntaf, yr oedd pawb yn dra dystaw, fel pe byddent arnynt ofn eu gilydd; yna, dechreuodd Harris agor ei fynwes, gan ddatgan fod y brodyr wedi pechu yn ei erbyn, trwy goleddu drwgdybiau am dano, ac eiddigedd at yr athrawiaethau a bregethai, a'i wresawgrwydd wrth draddodi. Cyfaddefodd Rowland ei fod ar fai wrth ddarllen gormod ar lythyrau yn achwyn arno, ac y teimlai yn hollol rydd at Harris a'i weinidogaeth, ond iddo wadu pwyntiau neillduol y Morafiaid. Atebodd yntau na fu yn eu coledd erioed; ei fod wedi pregethu yn eu herbyn yn Llundain, ac yn erbyn yr Antinomiaid wrth eu henwau. Yna, agorasant eu calonau i'w gilydd, a chawsant eu bod yn cydweled yn hollol. Yn ganlynol, pregethodd Daniel Rowland, a chafodd odfa nerthol. Teimlai Harris fod yr athrawiaeth wrth ei fodd. "Cefais heddwch yn fy enaid," meddai; "gwelais fod y brawd Rowland wedi cael un ddawn, a minau ddawn arall." Gellir meddwl mai yn y Groeswen y cynhelid y cyfarfod, gan y sonir am danynt yn myned yn nghyd i Watford wedi i'r odfa orphen. Cydgerddai Harris gyda Morgan John Lewis; yr oedd y gymdeithas rhyngddynt yn dra melus; a dywedai ei holl feddwl wrtho. Buont i lawr yn rhydd-ymddiddan hyd bump o'r gloch y boreu. "Yr ydym yn deall ein gilydd," meddai Harris, "ein hundeb diweddaf yw yr egluraf a'r goreu ydym wedi gael." Boreu dranoeth, agorodd Howell Harris ei feddwl drachefn, gan ddangos y modd yr oeddynt oll wedi syrthio i bechod; fel yr oedd yn cashau Antinomiaeth, a'i fod yn un a'i frodyr yn ei olygiadau. Cyfeiriai at yr hyn y beuid ef o'i herwydd, sef ei fod yn llefaru yn barchus am y Morafiaid, a dywedai y rhaid fod hyny yn codi o'i ras, oblegyd ei fod yn wrthwynebol iddynt ar lawer pwynt. Yna, ymadawodd am Rhywderyn, lle y pregethodd am ogoniant Crist. Yn St. Bride, ei destun ydoedd: "Ac efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." Cyrhaeddodd dŷ un Robert Evans, yn agos i Gaerlleon-ar-Wysg, nos Sadwrn, a phregethodd gyda gwresawgrwydd a nerth oddiar y geiriau: "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y datodai weithredoedd diafol." Dengys ei fyfyrdodau boreu y Sul canlynol nad oedd wedi llwyr wella oddiwrth y teimlad a gawsai. "Yr wyf yn gweled," meddai, "fod ein profedigaeth ddiweddar wedi arwain pob un i adnabod ei le yn well, ac i astudio mwy ar ffurf-lywodraeth eglwysig. Yr wyf yn gweled mai fy lle i yw bod yn rhydd, i edrych ar ol y seiadau a gesglais yn nghyd, oni fydd iddynt fy ngwrthod. Gwelaf fod llawer o'r brodyr yn fy nirmygu, ac yn ddolurus o herwydd fy ngwendidau; ond yr wyf yn cael nerth i gyflwyno yr oll i'r Arglwydd, ac i ofyn iddo ar iddo fy nghadw yn fy lle." Yn nesaf, yr ydym yn ei gael yn teithio trwy Lanfaches a'r New Inn. Yn y lle diweddaf, mewn seiat breifat, cymerodd fantais i ddangos y gwahaniaeth rhwng yr Ymneillduwyr a'r Methodistiaid. "Yr ydym ni," meddai, (1) yn pregethu yn benaf i'r galon a'r yspryd, ac yr ydym yn eu cyrhaedd, gan glwyfo y cnawd, a'i wneyd yn ddolurus. Pwysleisiwn am gael ffydd yn y galon, yn hytrach na goleu yn y pen. Y mae eu goleuni hwythau (yr Ymneillduwyr) yn dyfod o'r pen, yn gwneyd yr enaid yn esmwyth, ac nid yw yn cryfhau ffydd. (2) Yr ydym ni yn cyffroi yr enaid i'w ddyfnder, gan gario yr argyhoeddiad i'r gwaelodion, gan roddi gwybodaeth helaethach trwy yr Yspryd o Grist; y maent hwythau yn gadael yr enaid yn dawel a digyffro. (3) Nid ydynt yn chwilio y galon, ac yn dangos eu ffydd mewn ymarferiad, fel y mae ganddynt mewn athrawiaeth. (4) Nid ydynt yn rhydd o duedd i dynu eneidiau atynt (oddiwrth y Methodistiaid). Dywedodd un fod y seiadau yn honi hawl i ofyn i'r sawl a fynent ddod i bregethu i'w mysg. Atebais inau fy mod yn erbyn eu gorfodi i dderbyn unrhyw un yn groes i'w hewyllys; ond os oeddynt yn edrych arnaf fel un a fu yn offeryn i'w casglu yn nghyd ar y cyntaf, ac os oeddynt wedi syrthio i mewn a'r drefn a sefydlwyd gan Mr. Whitefield, mewn cydymgynghoriad a'r brodyr, y rhaid i mi fel tad wylio drostynt, ac y rhaid i mi hefyd wybod, a rhoddi fy nghydsyniad parthed pwy a fydd yn cydlafurio â mi. Gyda golwg ar y cynghorwyr hefyd, fy mod am wylio trostynt, eu galw yn nghyd i'w cynghori a'u cadarnhau, eu ceryddu, ac hefyd am eu cael i bregethu ar brawf."

Gwelir na wnai ganiatau penrhyddid i'r seiadau.

Dranoeth, yn y Goetre, drachefn, y mae ffurf briodol ar lywodraeth eglwysig y Methodistiaid yn Nghymru, a'i le ei hun yn eu mysg, yn dyfod yn destun ei fyfyrdod. Fel hyn yr ysgrifena: "Y mae arnaf eisiau gwybod natur a helaethrwydd y lle yn mha un y cefais fy ngosod gan yr Arglwydd, fel na phechwyf rhagllaw, trwy ofn fy hun, na'r gwrthwyneb, ond ei lanw fel y dymunai y Gwaredwr i mi, er adeiladaeth i'r ŵyn. Gwelaf ein bod yn cael ein harwain i fod i raddau yn gyffelyb i Esgobiaeth a Henaduriaeth, gyda y brawd Whitefield fel archesgob; myfi, er fy mod heb ordeiniad, fel y bu Paul am beth amser, wedi cael fy addysgu i fod yn arolygwr cyffredinol dros y gweithwyr a'r praidd; a'r offeiriaid ordeiniedig fel efengylwyr, i bregethu yn mhob man. Ond y mae un peth yn aneglur i mi; efallai ei fod yn aros yn dywyll am na wyddom yn mha le y terfyna y symudiad; ac o bosibl y cawn ein himpio i mewn i'r Eglwys, ac y daw goleuni ar y mater fel y byddo amgylchiadau yn cyfnewid. Yr hyn sydd yn aneglur i mi yw, a ydyw yr offeiriaid a minau i fod yn unol yn ein gofal am y seiadau, ac yn y pregethu? neu ynte, a ydyw y gwaith preifat yn perthyn i mi yn briodol, a hwythau yn cynorthwyo? neu ynte, a ddylai adran o wlad gael ei rhoddi i bob un? neu ynte, drachefn, a ydym i fyned yn y blaen fel hyn hyd nes y gwthir ni allan, neu y cawn ein derbyn i mewn i'r Eglwys? Modd bynag, yr wyf yn teimlo gofal y seiadau y bum yn foddion i'w casglu yn nghyd, a'r rhai sydd wedi fy newis i fod yn olygwr arnynt, yn gwasgu arnaf yn y fath fodd fel nas gallaf eu rhoddi i fynu. Arglwydd, nid wyf yn gwybod dim; dangos i mi yr hyn sydd yn angenrheidiol dros yr amser presenol, fel na chyfeiliornaf ar y naill law na'r llall. Hyd yn hyn, y mae y gwaith yn Nghymru wedi bod trwyddo draw i bawb; ond amlwg fod eisiau dod i ryw ffurf; da fod y llywodraeth ar dy ysgwydd di, Arglwydd. Eisiau gwybod ewyllys fy Arglwydd sydd arnaf, fel na phechwyf. Gallwn feddwl ein bod yn cael ein harwain i ryw fath o ddysgyblaeth. Arglwydd, dos di o'n blaen. Gallwn feddwl mai gwaith yr offeiriaid fyddai myned o gwmpas i bregethu, ac i weinyddu y sacramentau, bod yn bresenol yn y Cymdeithasfaoedd, a gweini y cymundeb ynddynt; fy ngwaith inau, myned i'r Cymdeithasfaoedd, a siarad yno, pregethu pan fedraf, ymweled a'r holl seiadau preifat ac a'r Cymdeithasfaoedd Misol hyd byth ag y medraf, yn Nghymru ac yn Lloegr, er fod gofal Llundain wedi ei osod arnaf hefyd. Beth hefyd (a berthyn i mi) nis gwn eto. Gyda golwg ar berthynas y naill o honom a'r llall, Arglwydd, arwain a goleua fi." Gwelir fod cynllun o ffurflywodraeth eglwysig yn dechreu cael ei ffurfio yn meddwl Howell Harris. Yn y cynllun hwn, ymddengys yn bur glir ei fod am gau yr offeiriaid allan o bob llywodraeth uniongyrchol ar y seiadau a'r cynghorwyr; yr ystyriai hyny yn hawlfraint yn perthyn iddo ei hun; a'i fod am eu cyfyngu hwy, o leiaf yn benaf, i weinidogaeth y Gair, a gweinyddiad o'r sacramentau. Y Goetre oedd y lle diweddaf y bu ynddo ar y daith hon cyn dychwelyd adref.

Y peth cyntaf a glywodd wedi cyrhaedd Trefecca oedd, fod Rowland yn parhau i'w gyhuddo o gyfeiliorni oddiwrth y wir athrawiaeth. Un o'r cynghorwyr a gludodd y chwedl iddo. Nid annhebyg ei fod yn rhy barod i dderbyn chwedlau disail. Penderfynodd oddef, modd bynag, fel na chymerai ymraniad le. Ar y dydd cyntaf o Dachwedd, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, eithr nid oedd un o'r offeiriaid yno. Cafwyd anerchiad gan y brawd Beaumont, yn mha un y datganai nad oedd y ddeddf i gael ei phregethu fel moddion i argyhoeddi a deffro pechadur, mai yr hyn a ddylid bregethu oedd ffydd; nad oedd y ddeddf yn rheol bywyd i gredinwyr; a gwadai hefyd dragywyddol genhedliad Crist. Ymddengys fod Beaumont erbyn hyn wedi myned yn Antinomiad rhonc. Buont i lawr am y rhan fwyaf o'r nos yn ceisio ymresymu ag ef, ond yn ofer. Gwedi iddo ef ymadael, bu Harris, a thua haner cant o gynghorwyr, ar lawr hyd y boreu yn gweddïo, yn canu, ac yn molianu, a theimlent fod yr Arglwydd yn wir yn eu mysg. Tua chanol Tachwedd, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Tyddyn, ac aeth Harris yno, gan bregethu mewn amryw leoedd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed ar y ffordd. Yr oedd Williams, Pantycelyn, yn bresenol, a phregethodd gyda nerth mawr. Daethai dyn o'r Bala yno i ofyn cynghor, am fod y brawd Lewis Evan wedi cael ei fwrw i garchar Dolgellau. Cafodd gyfarwyddyd pa fodd i weithredu, a gwnaed casgliad o bedwar gini yn y man i'w gynorthwyo, er mai deg-ar-hugain

oedd rhif y rhai oeddynt yn bresenol. Teimlent yn ddiolchgar am ei garchariad, oblegyd ei fod yn gyfleustra iddynt ddangos iddo ryw arwydd o'u serch. Dywedai Harris y rhaid iddynt oll wneyd ymdrech yn erbyn y diafol yn Ngogledd Cymru. Cyfeiriodd at ei safle ei hun; nad oedd yn ddyledus i unrhyw ddyn o fewn y byd, ond yn unig i'r Arglwydd; ei fod yn aml yn gwrthod arian fel cydnabyddiaeth am ei waith, oblegyd nad oedd yn rhydd i'w derbyn, oddigerth eu bod yn cael eu roddi mewn ffydd, gan ei theimlo yn anrhydedd i gael rhoddi i'r Arglwydd. Ymddiddanwyd hefyd a brawd a wrthodai athrawiaeth y gwaed. Dywedai Harris ei fod yn derbyn ac yn teimlo yr athrawiaeth; a'i bod i'w chael yn y Beibl, ac nid yn ffugrol, ond yn sylweddol ac ysprydol.

Yn ystod mis Rhagfyr, bu Howell Harris ar daith ddwy waith drwy ranau o Siroedd Morganwg a Chaerfyrddin. Y dydd olaf o'r flwyddyn yr ydym yn ei gael yn Llanddowror, mewn ymgynghoriad a'r Parch. Griffith Jones. Llonwyd ef yn fawr wrth ddeall fod bwriad i osod i fynu ysgolion cateceisio yn mhob rhan o'r wlad, os byddai yr Archesgob, yn nghyd a'r esgobion a'r clerigwyr, yn foddlawn. Dywedai fod y Methodistiaid yn barod i gynorthwyo gyda hyn, ac i ymostwng i'r Esgob; eu bod yn benderfynol i beidio gadael Eglwys Loegr; a dangosai y graddau yr oedd cateceisio wedi cael ei ddwyn i mewn i'r seiadau preifat. Taer ddymunai ar Griffith Jones i ymuno â hwy, fel na fyddai dynion ystrywgar yn gallu eu rhanu, trwy gario chwedlau anwireddus am y naill i'r llall. Yr oedd y gymdeithas ag offeiriad duwiol Llanddowror yn falm i'w enaid.

# PENOD XIV

——:o:——

## HOWELL HARRIS

### (1747-48).

*Gwaredigaeth hynod yn Llansantffraid—Amryw Gymdeithasfaoedd—Harris yn cyhuddo Williams, Pantycelyn, o bregethu yn ddeddfol—Dealltwriaeth a'r Wesleyaid—Howell Harris yn ymweled a Mon, Arfon, Dinbych, a Meirionydd—Llythyr cryf at y Parch. Edmund Jones—Taith i Orllewin Lloegr—Syr Watkin Williams Wynne yn erlid y Methodistiaid—Cymdeithasfa Llanbedr—Adroddiad am gasgliad—Cymdeithasfa Caerfyrddin—Y myfyrwyr yn rhuthro i'r Gymdeithasfa—Howell Harris yn Sir Benfro—Dadl a dau weinidog Ymneillduol.*

YR ydym yn cael Howell Harris, y dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd, yn Hwlffordd, yn Sir Benfro. Gwedi pregethu, bu mewn ymgynghoriad a'r gweinidogion Morafaidd, y rhai erbyn hyn oeddynt wedi sefydlu achos yn y dref. Tybiai mai gwell fyddai cael cynhadledd o'r Morafiaid a'r Methodistiaid, er symud rhyw feini tramgwydd. Nid oedd am undeb â hwy, ychwaith, ond am i'r ddwy blaid synio am eu gilydd mewn cariad. Tranoeth, y mae yn Longhouse, a'r noswaith hono yn Nhyddewi, lle yr oedd cynulleidfa anferth wedi ymgynull. Aeth yn ei flaen trwy Felindre, Llechryd, a Thy'r Yet, gan gyrhaedd Castellnewydd-yn-Emlyn dydd Mercher, lle y cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Williams, Pantycelyn; yr oedd yn hynod felus. Yna, pregethodd Harris, yn benaf ar gyflwr y deyrnas, yn wleidyddol a chrefyddol. Bu yn Gymdeithasfa hapus drwyddi; teimlai Harris fod ei yspryd wedi ei uno ag eiddo y brodyr am byth. Ymdriniwyd ag amryw faterion, megys cateceisio, dyledswydd y seiadau i ymgynghori a'r arweinwyr cyn derbyn neb i'w mysg i bregethu, a pheidio goddef neb i fod yn bresenol yn y seiadau ond yr aelodau. Gwedi darllen yr adroddiadau, yn mysg y rhai yr oedd cyfeiriad at y tŷ seiat a gawsai ei adeiladu yn Llansawel, a chwedi trefnu y Gymdeithasfa ddilynol, ymadawyd yn felus. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn cael ei wneyd at Daniel Rowland na Howell Davies; y mae yn debyg nad oeddynt yn bresenol. "Tybiaf," meddai Harris, "fy mod yn gweled pethau mawrion yn agoshau, gwedi yr ystorm a'r brofedigaeth ddiweddar, yr hon, mi a hyderaf, sydd yn agos trosodd." Dychwelodd trwy Maesnoni, Llangamarch, a Llansantffraid. Yn y lle diweddaf cafwyd gwaredigaeth ryfedd. "Yn y seiat breifat," meddai Harris, "yr oeddym i fynu y grisiau, tua dau gant o honom, a thorodd y trawst canol, fel y syrthiasom oll. Eithr ni thorwyd asgwrn i neb. Yr oedd plentyn bach yn y cryd o dan y cyfan; ond aeth estyllen ar draws y cryd, fel na chyffyrddodd dim a'r baban; yn wir, ni ddeffrodd o'i gwsg. Pe y digwyddasai bum' mynyd yn gynt cawsai llawer eu clwyfo.' Aeth gyda Mr. Williams, offeiriad Llansantffraid, i'r eglwys, lle y gwrandawodd bregeth dra rhagorol. Gwedi pregethu ei hun, yn ofnadwy o ddifrifol, dychwelodd adref.

Yr wythnos ganlynol yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca. Agorwyd hi gyda phregeth gan Howell Harris, oddiar y geiriau: "Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim yn fy enw i," &c. "Cefais yr Yspryd gyda mi yn wir," meddai, "i egluro iddynt natur cyfiawnhad; y modd yr ydym yn gyfiawn yn nghyfiawnder Crist; yn addfwyn yn ei addfwynder, ac yn ufudd yn ei ufudd-dod. Dangosais nad oes genym ddim cyfiawnder ynom ein hunain; a pha mor bell y gallwn fyned mewn gras, ac eto bod yn dra anwybodus am farwolaeth a chyfiawnder yr Iesu. Yn sicr, rhwygwyd y llen heddyw, a gwelodd llawer eu hunain yn gyflawn yn y wisg

hon." Y mae yn amlwg nad oedd Harris yn glynu yn glos wrth ei destun, ond ei fod yn cymeryd rhyddid i fyned oddiwrtho at unrhyw wirionedd y tybiai mai buddiol fyddai ei draethu. Gwedi y bregeth yr oedd seiat gyffredinol i'r holl aelodau. Ac ymddengys ei bod yn gyfarfod rhyfedd; y dylanwadau dwyfol a lanwent y lle. Yn ngwres y cynhyrfiad, gwaeddai Harris: "Y chwi a fedr fyned ymaith, ewch; ni fynwn neb yma ond y rhai sydd a gorfodaeth arnynt i ddyfod. Os nad ydych wedi eich geni oddi uchod; os nad ydych o rif y rhai y rhaid iddynt weddïo, a bod yn ddiwyd gyda eu hiachawdwriaeth, cedwch draw. Ond nis gallwch gadw draw; y mae yn rhaid i chwi ddyfod, oblegyd yr Arglwydd sydd Dduw, a rhaid i bob peth roddi ffordd. O, gynifer o bethau sydd yn eich tynu yn y blaen! Y mae y cyfamod yn dweyd, 'Y mae yn rhaid iddynt ddyfod!' Y gwaed sydd yn dywedyd, 'Rhaid iddynt ddyfod! Felly hefyd y dywed gras, a'r addewidion." Hawdd deall fod tân Duw wedi disgyn i'r lle, a bod calon Harris yn llosgi yn ei fynwes. Yn y Gymdeithasfa, nid yw yn ymddangos i benderfyniadau o bwys gael eu pasio, ond cymhellai y Diwygiwr y cynghorwyr gyda phob difrifwch i osod i fynu gateceisio yn mhob man, ac i anog yr aelodau i ymgydnabyddu a'r Ysgrythyr.

Diwedd yr wythnos, cychwyna am daith o rai wythnosau trwy Wlad yr Haf, Devon, a Chornwall, ond ar ei ffordd y mae yn pregethu mewn amryw leoedd yn Siroedd Morganwg a Mynwy. Aeth y noson gyntaf tua Blaentawe, ac wrth groesi y mynyddoedd, yr oedd ei fyfyrdodau yn sefydlog ar yr Ysgrythyr, a theimlai fod Duw yn gydymaith iddo. Yr oedd y myfyrdod tawel hwn wedi nawseiddio ei yspryd ar gyfer yr odfa. Yr efengyl yn allu Duw er iachawdwriaeth oedd ei fater, a chafodd lawer o ryddid i lefaru. Boreu dranoeth, pregethodd yn Gelly-dorch-leithe, a'r nos yn Castellnedd. Ymddengys fod y seiat yn y lle diweddaf mewn cryn derfysg, fod ynddi rai o olygiadau Arminaidd, yr hon gyfundraeth nas gallai Harris ei goddef. Anerchodd yr aelodau yn gryf, dywedodd y rhaid iddynt ddewis y naill blaid neu y llall, nas gallent berthyn i'r ddwy. Yna, eglurodd athrawiaeth etholedigaeth, ac atebodd wrthddadleuon. "Paham y geilw Duw arnom i droi, oni feddwn allu i droi?" meddai y gwrthddadleuydd. Atebai yntau: "Os ydym ni wedi colli y gallu i gyflawni, nid yw yr Arglwydd wedi colli ei hawl i ofyn." Eglurodd, yn mhellach, ddarfod i Dduw roddi y gyfraith i ddyn er argyhoeddiad, dangos iddo ei fod yn golledig, a'i gau dan gondemniad. Gwedi hyn, esboniodd iddynt ei safle ei hun, y modd yr oedd yr Arglwydd a'r brodyr wedi ei osod yn ei le, fel Arolygydd cyffredinol dros y seiadau a'r cynghorwyr; ond rhag ofn hunangais nad oedd wedi defnyddio ei awdurdod; a gorchymynodd iddynt na oddefent i neb ddyfod i'w mysg i gynghori ond rhai wedi eu hawdurdodi i hyny. Tybia iddo fod yma, dan fendith Duw, yn foddion i rwystro rhwyg. Gwedi hyn ymwela a'r Hafod, a Nottage. Yn y lle diweddaf, datgana ei farn y byddai i'r Methodistiaid, y Wesleyaid, a'r Morafiaid, gael eu huno a'r Eglwys Sefydledig. Yn sicr, y dymuniad oedd tad y meddylddrych. Dranoeth, y mae mewn lle o'r enw Ffwrnes-newyddar-Daf. Yn y seiat breifat yma cododd Satan wrthwynebiad i athrawiaeth dirgelwch y gwaed, yn mherson rhyw gynghorwr anghyoedd. Ceryddodd Harris ef, a chan ei fod yn parhau yn gyndyn bu raid iddo ei ddiarddel. Y dydd canlynol, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn New Inn, Sir Fynwy. Llefarodd yntau yn helaeth ar ei le ei hun fel Arolygwr cyffredinol; ar ei benderfyniad i beidio gadael Eglwys Loegr, er ei fod yn caru yr Ymneillduwyr; anogodd i ddysgyblaeth mewn teuluoedd, ac ar i bob un adnabod ei le. "Gwedi i mi orphen," meddai, "cefais brofedigaeth oddiwrth y brawd Morgan John Lewis. Dywedai fy mod yn tra awdurdodi arnynt, ac yn eu cadw mewn caethiwed. Nad iawn i mi ddweyd fod pawb a'm gwrthwynebai i yn dywyll, yn gnawdol, a than lywodraeth y diafol. Nad oedd genyf awdurdod Gair Duw dros yr hyn a wnawn, a thros i bawb roddi i fynu eu cred i Grist a'i eglwys, ond fy mod wedi ei gael oddiwrth y Morafiaid. Dywedai ei fod ef yn bleidiol i Rowland, a bod genyf ragfarn at y Parch. Edmund Jones. Canlynwyd hyn gan derfysg dirfawr." A pha eiriau y darfu iddo ateb Morgan John Lewis nid yw yn dweyd; ond ymddengys i'r Gymdeithasfa fod yn dra anhapus. "Yr oedd llawer o frwdaniaeth yno," meddai, "a daeth Satan i lawr." Eithr ymddengys i bethau dawelu cyn y diwedd, ac iddynt drefnu amryw bethau yn heddychol.

Aeth yn ei flaen trwy Bryste, lle y cynhelid Cymdeithasfa, Bath, Wellington,

Exeter, Kingsbridge, Plymouth, a St. Gennis, yn Cornwall. Parhaodd y daith hon am bum' wythnos, ac am ran fawr o honi yr oedd John Wesley yn gydymaith iddo. Tri diwrnod y bu gartref ar ol dychwelyd cyn cychwyn i Gymdeithasfa Fisol Llanfair-muallt. Yr oedd nifer o'r cynghorwyr wedi ymgasglu yma, yn nghyd â dau offeiriad, a'r boneddwr duwiolfrydig, Mr. Gwynn. Galarai Harris o herwydd fod Antinomiaeth ar gynydd yn y parthau hyn. "Arholais bregethwr," meddai, "a daethom i benderfyniad gyda golwg ar dŷ yma." Y "tŷ" hwn oedd Capel Alpha, yr hwn yn fynych, ond yn annghywir, a elwir yn gapel cyntaf y Methodistiaid yn Nghymru. Eu capel cyntaf yn Mrycheiniog ydoedd. Ymwelodd yn ganlynol a'r Tyddyn, lle y treuliodd y Sabbath. A oedd yma fath o Gymdeithasfa, nis gwyddom; ond penderfynodd ef a'r brodyr i wneyd y dydd Mercher canlynol yn ddydd gweddi dros Lewis Evan, yr hwn o hyd oedd yn y carchar. Gweddïodd yn daer dros Ogledd Cymru, ar i Air yr Arglwydd redeg; gwelai mai yn erbyn Duw yr oedd yr holl wrthwynebiad. Y dydd dilynol, yr oedd yn Penybont, Sir Faesyfed, a bu yn dra llym yn y seiat breifat wrth y proffeswyr clauar. "Dangosais y ddyledswydd," meddai, "o roddi y cwbl a feddem i'r Arglwydd, a chael pob peth yn gyffredin; a'r modd yr oedd yr Arglwydd wedi ymddwyn atynt hwy, a hwythau ato ef. Adroddais iddynt fy hanes; fy mod am amser wedi bod yn teithio haner can' milltir y dydd, ond na wnaent hwy ddyfod ychydig filltiroedd i'r cyfarfodydd, rhag ofn cael anwyd. Datgenais y trown allan bawb a absenolai eu hunain o ddwy seiat, pwy bynag a fyddent; na chaffai tŷ Dduw ei ddirmygu ganddynt, y caent deimlo awdurdod y weinidogaeth." "Yr ydym wedi derbyn cenadwri gan Dduw," meddai; "ac er nad ydym yn galw ein hunain yn esgobion, offeiriaid, na diaconiaid; eto, yr ydym yn weinidogion yr Arglwydd. Y mae Duw yn ein hadwaen. Yma yr oeddwn yn llym, oblegyd nad oedd ganddynt dŷ cwrdd, gan ddangos y gallai amryw o honynt gyfranu pum' neu ddeg punt. Llawer a ddarostyngwyd, ac a oeddynt yn ddrylliog, gan waeddi: 'Myfi yw y gŵr.' A darfu i rai o honynt gyduno i gyfarfod, i adeiladu tŷ." Gwelwn ddau beth yn y difyniadau hyn. Sef (1) Fod capelau wedi cael eu hadeiladu mewn cryn nifer o leoedd yn mysg y Methodistiaid, fel y mae Harris yn ei theimlo yn ddyledswydd arno i geryddu seiat Penybont—lle gwledig, yn Sir Faesyfed—am na buasent hwythau wedi gwneyd yn gyffelyb. (2) Cawn yma, am y tro cyntaf, awgrym, ar ba un y gweithredodd Howell Harris ar ol hyn yn Nhrefecca, sef na ddylai Cristionogion ddal eiddo personol, ond bod a phob peth yn gyffredin rhyngddynt.



CAPEL ALPHA, LLANFAIR-MUALLT, SIR FRYCHEINIOG.

[*Adeiladwyd gyntaf yn y flwyddyn 1747. Darlun yr ail Gapel ydyw hwn.*]

Dranoeth, brysiodd Howell Harris i

Drefecca, lle yr oedd Cymdeithasfa Fisol i gael ei chynal. Agorodd y Gymdeithasfa gyda phregeth ar y geiriau: "Pan wyf wan, yna yr wyf gadarn." Dywed ei fod yma mewn lle ofnadwy, yn sefyll megys rhwng y byw a'r meirw. "Yr oeddwn yn llym at yr Ymneillduwyr," meddai, "a'r holl broffeswyr cnawdol, gan ddangos eu bod oll yn ddigllawn wrthyf am fy mod yn eu ceryddu, ond mai mewn cariad yr oeddwn yn gwneyd hyny, a phe bai yn fy ngallu, y dyrchafwn hwy i fynu o'r llwch. Dangosais ein bod yn gyflawn yn Nghrist, yn ddyogel yn Nghrist, ac yn fwy na choncwerwyr ynddo ef." Yn y seiat breifat a ddilynai, daeth yr Arglwydd i lawr, a rhoddodd i Harris bethau newydd a hen i'w dweyd. Dangosodd nas gallent fyned yn ol, y rhaid iddynt fyned yn mlaen. Yn y Gymdeithasfa, nid yw yn ymddangos i unrhyw benderfyniadau gael eu pasio; treuliwyd yr amser trwy fod Harris yn adrodd am lwyddiant y gwaith yn Lloegr.

Ddechreu mis Mawrth, aeth i Lundain, lle yr arhosodd hyd y Pasg. Prin yr oedd wedi dychwelyd na chawn ef yn cychwyn drachefn i Gymdeithasfa Chwarterol Watford. Y dydd Gwener blaenorol i'r Gymdeithasfa, pregetha yn y Goetre, Sir Fynwy; ac yn y seiat breifat trinia yr aelodau yno yn llym. "Dangosais iddynt," meddai, "y fath yspryd gwrthwynebol i'm gweinidogaeth oedd yma o'r cychwyn; mor ddiog oeddynt, fel na ddeuent dair milltir o ffordd, i'r New Inn, i'n cyfarfod cyffredinol; ac felly, eu bod yn gwneyd yr oll a allent i rwystro y gwaith. Eu bod yn absenoli eu hunain o'r Eglwys, ac yn gadael ei chymundeb, tra y mae yn amlwg ddarfod i'r Arglwydd ein galw yn y dull hwn; a'u bod yn gwanhau fy nwylaw yn fwy na neb. Dywedais, oni symudent yn mlaen, na ddeuwn i'w mysg; nas gallwn fyned lle nad oedd athrawiaeth y gwaed, a'r gwaed ei hun, trwy yr Yspryd, yn cael rhedeg yn rhydd. Os yw yr athrawiaeth yn faich arnoch, meddwn, y mae, mewn ystyr, felly i mi, oblegyd yr wyf yn appelio at Dduw nas gallaf beidio ei phregethu; nid gan ddyn na dynes ei derbyniais, ond gan Dduw; y mae genyf er ys saith mlynedd. Datgenais mai dyma fy ymweliad olaf, oddigerth i mi weled cyfnewidiad; yna, lleferais yn felus am y gwaed, a'r Yspryd a ddaeth i lawr, ac yr oeddym yn dra thyner." Yr oedd seiat y Goetre yn gyfagos i'r New Inn, lle y gweinidogaethai Morgan John Lewis, yr hwn oedd yn wrthwynebwr cryf i athrawiaethau neillduol Howell Harris, a rhydd hyn gyfrif am y gwrthwynebiad a deimlid yno at y Diwygiwr o Drefecca. Y mae yn ffaith awgrymiadol na ymwelodd Harris y tro yma a'r New Inn. Aeth i Lanheiddel y Sadwrn; treuliodd y Sul yn nhŷ Robert Evans, ger Caerlleon-ar-Wysg; pregethodd yn Llanfaches dydd Llun, ac yr oedd yn bur llym at yr aelodau. Daeth i Watford y nos cyn y Gymdeithasfa, a chlywodd y fath chwedlau, fel y gofidiwyd ei enaid ynddo. Nis gwyddai pa fodd i weithredu, gan fod rhyw gynghorwr wedi ei ddwyn yno a droisai efe allan, am nad oedd ei yspryd mewn cydymdeimlad a'r Methodistiaid. Yr oedd yno, hefyd, weinidog perthynol i'r Ymneillduwyr, yr hwn, yn groes i ddymuniad Harris, a elai o gwmpas y seiadau. Yn ei drallod, ymneillduodd i weddïo. Llewyrchodd yr Arglwydd arno pan ar ei liniau; dychwelodd at y brodyr, ac wrth gydymddiddan symudwyd rhan fawr o'i faich. Yna, aeth i'r Groeswen i wrando Daniel Rowland yn pregethu. Y testun oedd, Heb. vi. 7, a chafwyd odfa ryfedd; teimlai Harris ei serchiadau yn ymglymu am ei anwyl frawd wrth wrando, a hyny braidd yn dynach nag erioed.

Y peth cyntaf a wnaed yn y Gymdeithasfa oedd appwyntio tri brawd i gynorthwyo Howell Harris yn ei waith fel arolygydd, sef Benjamin Thomas, y gweinidog Ymneillduol, Thomas Jones, a Thomas Williams. Thomas Williams, o'r Groeswen, oedd y diweddaf, yn ddiau, a phrofa ei appwyntiad ei fod wedi ail-gysylltu ei hun yn llwyr a'r Methodistiaid. Daeth cryn gyffro ac anghydwelediad i fysg y brodyr wrth ymdrin ag achos y cynghorwr yr oedd Harris wedi ei ddiarddel. Er na ddywedir hyny yn bendant, awgryma y dydd-lyfr na chadarnhawyd y ddedfryd. Yn y cyfwng rhwng y cyfarfodydd cafodd Harris ymddiddan preifat pur faith â Rowland, ac ymddengys fod teimladau da yn ffynu rhyngddynt. "Yr Arglwydd a gymerodd ymaith y beichiau annyoddefol oedd yn gwasgu arnaf," meddai Harris; "cefais ryddid i ddweyd wrth y brodyr oll yr hyn a dybiwn oedd allan o le ynddynt, a'r modd y dylem gryfhau breichiau ein gilydd. Y dylai yr offeiriaid a minau ddweyd wrth ein gilydd y pethau a glywn, fel y gallwn ymdrin â hwy cyn dyfod i fysg y brodyr, onide y collwn bob

awdurdod. Cefais nerth i geryddu balchder y brodyr, gan ddangos y dylai gwroldeb, callineb, ffyddlondeb, a thynerwch fod yn ein mysg yn wastad, ac y dylai pob un adnabod ei le. Cefais lef ynof am i'r Arglwydd ddyfod i'n mysg. Gwedi penderfynu amryw bethau, a threfnu cylchdeithiau y brodyr, ymadawsom yn hyfryd, wedi ein dwyn unwaith i fin ymraniad." Ar y terfyn, pregethodd Daniel Rowland oddiar y geiriau: "Onid oes balm yn Gilead?" Ar y cychwyn, yr oedd Harris yn sych; ond pan ddaeth y pregethwr at waed Crist, er mai ychydig eiriau a ddywedodd am dano, cyffrodd ei yspryd ynddo; gwelai ynddo ei hun fynydd o hunan, a byd o falchder; ond gwelai, hefyd, y cai ei waredu oddiwrth y cwbl, gan mai yr Arglwydd sydd Dduw. "Yr wyf yn cael," meddai, "nad yw pregethu profiad yn fy mhorthi; eithr pan leferir am y Dyn Crist, yna yr wyf yn cael ymborth." Y mae yr ymadrodd nesaf yn anhawdd ei ddeall. "Crybwyllais wrth y brawd Williams,' meddai, "ei fod yn ddeddfol, a'i fod ar ol mewn athrawiaeth, gyda gorchudd ar ei lygaid. Ond wrth ganfod yr Arglwydd gydag ef, ac yntau mor syml, gwnaed fi yn ddiolchgar am yr holl ddoniau a rodded i'r naill a'r llall o honom." Williams, Pantycelyn, ar ol mewn athrawiaeth! Yr ydym ni wedi arfer edrych arno fel y penaf, braidd, o'r duwinyddion; fel un, yn rhinwedd rhyw reddf ysprydol a drigai ynddo, yn dyfod i gydnabyddiaeth â gwirioneddau dwyfol, y methai y duwinyddion athronaidd, gyda eu holl resymeg, ymddyrchafu atynt. Tybiem mai efe oedd y nesaf yn ei syniadau o'r Diwygwyr Methodistaidd at olygiadau neillduol Harris, parthed agosrwydd perthynas y ddwy natur yn mherson ein Harglwydd. Cawn yn ei emynau lawer o'r ymadroddion ag y beïd ar y Diwygiwr o Drefecca am eu defnyddio. Ac eto, cawn yma Harris yn ei gyhuddo o fod yn ddiffygiol mewn duwinyddiaeth, ac o fod â gorchudd ar ei lygaid. Nid oes genym un esboniad i'w roddi ar hyn; rhaid i ni gymeryd y dydd-lyfr fel y mae.

Dydd Sadwrn, aeth i St. Nicholas, lle y cafodd odfa felus. Ar y terfyn, cafodd ymddiddan a'r cynghorwr anghyoedd, William Harry, am gryfhau yr undeb rhyngddo ef a'r brawd Rowland. Gwelai y cynghorwr y byddai rhwyg rhwng y ddau arweinydd yn ddinystr i'r seiadau. Ymwelodd, yn nesaf, a'r Aberthyn, lle y llefarodd yn llym, gan ddangos y byddai y rhai nad ydynt yn ufuddhau i'r efengyl yn waeth eu cyflwr na'r paganiaid. Nos Sadwrn, daeth i Lantrisant, a phregethodd yn gyffelyb i'r modd y gwnaethai yn Aberthyn. Yn y seiat breifat a ddilynai gwnaeth ei oreu i uno yr aelodau; cymhellodd hwynt i osod i fynu gateceisio. Boreu y Sul, aeth i'r eglwys, lle y cafodd ei loni gan bregeth dda; a chwedi hyny, yn y sacrament, profodd ddirfawr felusder. Dydd Llun, y mae yn yr Hafod, lle y llefara am natur y gwaith a gerid yn mlaen gan Dduw yn Nghymru er ys deng mlynedd bellach. Cynghora y rhai a gymunent yn y capelau Ymneillduol i barhau i wneyd hyny, a'r rhai a arferent gymuno yn yr Eglwys i barhau yr un modd. Dengys y modd yr arosodd yr Apostolion yn yr Eglwys Iuddewig, er fod yr un rhesymau ganddynt dros droi eu cefnau arni, ag sydd gan y Methodistiaid dros gefnu ar yr Eglwys Sefydledig. Yna, aeth tua Chastellnedd. Ar y ffordd yno gwelai fod Duw yn anfeidrol; yn anfeidrol yn ei berffeithiau, yn anfeidrol yn ei wirionedd, ac yn anfeidrol yn ei gariad, fel nad oes un gwrthddrych mewn un man i'w gymharu iddo. Yn Nghastellnedd, cyfarfyddodd â chwaer grefyddol, a fwriadai ail-briodi, yr hon a honai ei bod wedi cael ateb oddiwrth yr Arglwydd gwahanol i'r hyn a gawsai Harris; daeth hyn yn drwm arno, gan beri iddo lefain ar yr Arglwydd: "Paham y gosodaist fi yn y safle hon?" Eithr gwnaed ef yn dawel yn ei feddwl, gan weled mai yr Arglwydd a drefnasai y lle iddo, ac a roddasai iddo gymhwysderau ar ei gyfer, a hyny er mwyn ei ogoniant ei hun. Pregethodd gyda rhyddid mawr, oddiar Gal. vi. 1. Dangosai y fraint o gael canlyn Crist; taranai yn erbyn anwiredd, gan ddangos fod y cyfamod tragywyddol yn erbyn pechod o bob math. Yn y seiat breifat, gosododd ryw gasgliadau ger eu bron, ac anogodd hwynt i ddysgyblaeth. Dydd Mawrth, cawn ef yn myned i wrando Daniel Rowland, i rywle cyfagos i Gastellnedd. "Pregethodd y brawd Rowland yn ogoneddus heddyw," meddai, "ar undeb y credinwyr; dangosodd yr angenrheidrwydd ar iddynt oll gyduno mewn cariad, ac ar i bob un adnabod ei le, ac aros ynddo, fel na bydd y frwynen yn tybio ei hun yn gedrwydden, a'r falwoden yn meddwl ei hun yn gawrfil. Mwynheais ef yn ddirfawr; gwnaed i mi

lawenychu o'i herwydd; a theimlwn yr undeb agosaf ag ef, gan ddymuno cael byw a marw gydag ef. Yr oedd nerth anarferol yn cydfyned a'r Gair; llanwyd eneidiau o'r Arglwydd, a chwythodd awelon balmaidd drosom." Wedi y cyfarfod, aeth Harris i ymweled â brawd claf, oedd yn llawn o ffydd; yna, teithiodd Rowland ag yntau yn nghyd i Glanyrafonddu, pellder o bum'-milltir-ar-hugain, ac ymddengys fod Williams, Pantycelyn, yn y cwmni. "Cefais lawer o ryddid i ddweyd wrth y brawd Rowland am fy undeb ag ef," meddai Harris; "am i ni fod yn un i gadarnhau dwylaw ein gilydd, ac er meddu awdurdod, gan geisio ganddo ef gynorthwyo. Cyfeiriais, hefyd, at yr angenrheidrwydd am ddysgyblaeth. Yr oedd ef yn gryf yn erbyn yr athrawiaeth am dystiolaeth yr Yspryd, ac yn ddolurus ar Mr. Griffith Jones. Llwyddais i'w gymedroli yn y ddau beth. Bu pethau eraill yn destunau ymddiddan, megys fy ngalwad i bregethu; yr Urim a'r Thumim, &c." Dranoeth, wedi cyrhaedd Glanyrafonddu, ysgrifena drachefn: "Y ddoe, wrth drafaelu gyda y brawd Rowland, cefais lawer o ryddid, ond gwelaf fod cryn waith i'w wneyd eto gan yr Arglwydd. Siaredais am sancteiddrwydd y gwaith; am ein hannrhefn, ein diffyg dysgyblaeth, a'n pleidgarwch; ac am i ni gydweled yn breifat gyda golwg ar bob peth, fel y byddom yn myned i fysg yr eneidiau gan lefaru ag un llais. Dangosais am y modd y mae y gwaith i'w gario yn y blaen yn y canol, megys rhwng Esgobyddiaeth a Henaduriaeth; am y brawd Wesley yn dyfod i fysg ein llafur; ac am benderfynu i bob un ei le. Ymddiddanasom am y rhyfel; ac am y cri oedd yn fy enaid ar i mi adael bendith ar fy ol pa le bynag yr awn. Llefarais i'r byw wrtho ef, a'r brawd Williams, gyda golwg ar ysgafnder, am iddynt fod yn ofalus, fel y gallwyf geryddu y brodyr eraill, onide y byddai iddynt redeg am loches at eu hesiampl hwy; ac am iddynt oddef fy lle i yn y gwaith preifat, yr hwn sydd yn perthyn i'm lle a'm swyddogaeth."

Nid oes genym hamdden i sylwi ond ar un peth yn y difyniadau dyddorol hyn, sef yr ysgafnder y rhybuddir Rowland, a Williams, Pantycelyn, rhagddo. Nid oes genym sail o gwbl dros feddwl eu bod yn ddynion ysgeifn yn ystyr arferol y gair; yr oeddynt yn byw gormod yn nghymdeithas gwirioneddau dwysion yr efengyl i arfer ysgafnder; ond ymddengys eu bod yn naturiol yn siriol o dymher, ac yn medru mwynhau chwerthiniad iachus, gan weled yr ochr ddigrif i ambell ddigwyddiad; tra yr oedd Howell Harris, o'r ochr arall, mor eithafol o sobr a dwys, fel yr ymddangosai pob digrifwch iddo, pa mor ddiniwed bynag y gallai fod, fel yn agoshau i gymydogaeth yr hyn sydd bechadurus. Ymwahanodd y cyfeillion yn Glanyrafonddu, ac aeth Harris tua chyfeiriad cartref, gan bregethu ar y ffordd yn Llanddeusant, a Chefnyfedw. Dau ddiwrnod y bu yn Nhrefecca cyn cychwyn drachefn am daith i Sir Drefaldwyn. Ymddengys fod y cynghorwr William Richard yn myned gydag ef, fel cyfaill iddo. Aethant trwy Ty'nycwm, a Llansantffraid, yn Sir Faesyfed, i Mochdref. Pregethodd yma yn Gymraeg ac yn Saesneg i nifer o bobl syml, yn dechreu dyfod i wrando yr efengyl. Ei destun oedd, Mat. xi. 28. "Cefais ryddid mawr," meddai, "a llawer o nerth i'w gwahodd at Grist. Dangosais nas gallent gael eu hachub trwy eu gweithredoedd; ac os oeddynt yn ymddiried yn eu gweithredoedd, mai eilunaddolwyr ydynt, ac nad yw cariad Duw ynddynt." Gwedi y bregeth, cynhaliwyd seiat breifat; llefarodd y Diwygiwr ar waed Crist; aeth yn lle rhyfedd yno; a buont yn nghyd hyd dri o'r gloch y boreu, yn canu, yn gweddïo, ac yn cynghori. Bloeddiai Harris yn ddiymatal: "*Y Gwaed!* Y GWAED! Y GWAED!" ac yn y diwedd boddid ei lais gan floeddiadau y cynghorwyr oeddynt yn bresenol. Oddiyma aeth i Lanfair, lle y cafodd odfa rymus, wrth ymosod ar falchder. Yn nesaf, cawn ef yn Llanbrynmair, ac wrth ei fod yn llefaru am waed Crist, daeth yr Yspryd Glân i lawr yn rhyfedd. Dangosodd mai gwaed Duw ydoedd, a bod angenrheidrwydd anorfod am dano; yna, ymhelaethodd ar dduwdod Crist; ac nid oedd neb yn bresenol i wrthwynebu yr athrawiaeth. Yn y seiat breifat a ddilynai, gan fod llawer wedi ymgasglu yno o Môn, a Sir Gaernarfon, eglurodd natur y seiadau, dysgyblaeth y Methodistiaid, ei le ei hun yn mysg y Methodistiaid, yn nghyd a'r modd y dechreuasai fyned o gwmpas i bregethu. Ymhelaethodd, yn mhellach, ar y gwahaniaeth rhwng y Methodistiaid a'r Ymneillduwyr, ei fod yn (1) Yn wahaniaeth mewn athrawiaeth, gan fod llawer o honynt hwy (yr Ymneillduwyr) yn Baxteriaid. (2) Yn wahaniaeth mewn dysgyblaeth, gan fod y Methodistiaid oddifewn i'r

Eglwys Sefydledig. Ac yn (3) Yn wahaniaeth mewn yspryd. Yn nesaf, aeth i Blaen-Trefeglwys, lle y pregethodd oddiar 1 Ioan v. 4: "Oblegyd beth bynag a aned o Dduw y mae yn gorchfygu y byd." Cafodd odfa nerthol anghyffredin; daeth yr Arglwydd i lawr mor amlwg, fel y bu raid i'r pregethwr roddi i fynu, am y boddid ei lais gan floeddiadau y dyrfa. Oddiyno teithiodd i'r Tyddyn, a chlywodd am ryw frawd anwyl o gynghorwr a syrthiasai i amryfusedd, fel yr oedd yn rhaid ei dori allan. Aeth calon Harris yn ddrylliau wrth glywed; neshaodd at orsedd gras er gwybod meddwl yr Arglwydd ar y mater; a'r ateb a gafodd oedd fod gogoniant Duw a phurdeb y ddysgyblaeth yn galw am i'r cerydd gael ei weinyddu, ac y byddai yn foddion i gadw i lawr Satan a phechod. Yr oedd nifer o Siroedd Môn, Caernarfon, a Meirionydd yn y Tyddyn eto; yn wir, ymddengys eu bod yn ei ganlyn trwy ystod y daith; ac yn y seiat breifat a ddilynai y bregeth, cymerodd fantais ar eu presenoldeb i osod gerbron amryw faterion amgylchiadol. "Gosodais o'u blaen," meddai, "achos y tŷ yn Sir Gaerfyrddin; y cynghaws cyfreithiol; a dwyn ffrwyth i'r Yspryd, sef yn benaf, gostyngeiddrwydd. Dywedais y rhaid i ni enill, pa un a gariwn y gyfraith a'i peidio, am fod Duw gyda ni. Anogais hefyd i ddysgyblaeth; gan ddangos pe na byddai ond chwech yn y seiat, fod hyny yn ddigon i fyned yn mlaen yn yr Arglwydd, ac y gwnai efe ychwanegu atynt. Wedi gorphen pregethu, yr oeddwn gyda yr holl bregethwyr; gwelwn fy lle, a bod yr Arglwydd wedi rhoddi goleuni a doniau i mi i'w lanw. Yna, wedi gweddïo, ymadawsom yn felus a'r ŵyn o'r tair sir bellenig." Tebygol mai capel Llansawel a feddylia wrth "y tŷ yn Sir Gaerfyrddin." At ba gynghaws cyfreithiol y cyfeiria sydd anhysbys; yr oedd y Methodistiaid, druain, yn cael eu herlyn mewn rhyw lŷs neu gilydd yn barhaus yr adeg hon. Tramwyodd oddiyma i Ddolyfelin, a Llanfair-muallt, gan gyrhaedd adref wedi absenoldeb o ryw naw diwrnod. Cronicla fod dylanwadau anarferol yn cydfyned a'i weinidogaeth yn ystod y daith hon. Dylasem grybwyll fod Cymdeithasfa Fisol yn Llanfair-muallt, ac, yn ol cyfrif Harris, yr oedd o bedwar i bum' cant o aelodau yn bresenol.

Yr wythnos ganlynol, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Merthyr Cynog. Daeth y cynghorwr Beaumont i Drefecca y dydd blaenorol; dywedodd Howell Harris wrtho am y pethau a welai allan o le yn y seiadau dan ei ofal, a chyfeiriodd at y dadleuon a'r eiddigedd oedd yn eu mysg. Cydunasant ar ddau beth, sef fod pob un at ei ryddid i draethu y genadwri yn ei ffordd ei hun, ond iddo wneyd hyny mewn symlrwydd; ac yn nesaf, mae yr hyn sydd yn oll-bwysig mewn pregeth yw fod yr Arglwydd ynddi. Aethant yn nghyd tua'r Gymdeithasfa. Ar y ffordd, dadleuai Beaumont mai unig ddefnydd y ddeddf yw egluro trueni pechadur; na ddylid anog neb i rinwedd, oblegyd fod y ddeddf yn ei orchymyn, ond mai cyfeirio y pechadur at Grist a ddylid. Atebai Harris fod yr athrawiaeth hon yn sawru o Antinomiaeth. Yn Merthyr, ceisiodd Harris ddwyn rhai aelodau crefyddol, oeddynt wedi cwympo allan, i gymod; ond ofer a fu ei ymdrech. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Williams, Pantycelyn, ar y morwynion ffol. Gofidiai Harris yn ddirfawr wrth glywed mor lleied o Grist ynddi; tybiai ei bod yn ddeddfol; ac eto, ymdawelai, gan gredu fod y pregethwr yn llaw Duw, ac y byddai iddo ef ei dywys i'r iawn. Gwedi darfod yr odfa, ceryddodd Harris y pregethwr am ryw ymadroddion deddfol a ddefnyddiasai; ond ni dderbyniodd Williams y cerydd mewn yspryd gostyngedig, eithr gwresogodd ei dymher. Dywedai ei fod yn caru pawb, ac na ofalai pa foddion a ddefnyddiai i yru pobl oddiwrth eu pechodau. Eithr cafodd Harris wledd i'w enaid wrth wrando ar Morgan John Lewis yn pregethu ar ddirgelwch yr iachawdwriaeth yn Nghrist. Dangosai na wnaeth yr Iesu ddim fel Duw, na dim fel dyn, ond pob peth fel Emmanuel; eglurai y modd y dywedasai Crist yn y tragywyddoldeb pell: "Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys, o fy Nuw;" a'r modd yr oedd yr Oen wedi ei ladd er dechreuad y byd; dywedai fod nid yn unig ein heuogrwydd wedi ei roddi arno, ond hefyd ein hanwireddau. "Cefais fwy o undeb ag ef nag erioed," meddai Harris; "nis gallwn beidio ei garu." Aeth y ddau yn nghyd yn gariadus i Drefecca, ac agorodd Harris ei holl fynwes i'w gyfaill, gan bwysleisio ar yr angenrheidrwydd am ragor o undeb rhyngddynt, a mynu deall eu gilydd cyn myned gerbron y bobl.

Yr ydym wedi cael aml gyfeiriad yn y dydd-lyfr gyda golwg ar y ddau Wesley yn dyfod i mewn i lafur y Methodistiaid

yn Nghymru. Ymddengys fod John Wesley wedi pregethu yn Nghaerdydd, ac hefyd yn Nghastellnedd, a rhyw leoedd eraill, efallai, yn y Dywysogaeth, yn ystod y flwyddyn 1746, ac ofnai y brodyr Cymreig y ceid dau enwad o Fethodistiaid yn Nghymru, a'r naill yn tynu dan sail y llall. Er cael cyd-ddealltwriaeth ar hyn, gwahoddwyd John Wesley i Gymdeithasfa, a gynhelid yn Mryste, diwedd Ionawr, 1747, ac y mae y penderfyniad y cydunwyd arno yn bwysig a dyddorol. Fel hyn ei ceir yn nghofnodau y Gymdeithasfa: "Ofnid, oblegyd ddarfod i Mr. Wesley bregethu yn Nghastellnedd, mai y canlyniad a fyddai ymraniad yn y seiat. Atebodd Mr. Wesley: Nid wyf yn bwriadu gosod i fynu seiat yn Ngastellnedd, nac mewn unrhyw dref arall yn Nghymru, lle y mae seiat yn barod; ond i wneyd yr oll a allaf i rwystro ymraniad.' Ac yr ydym yn cyduno oll, pa bryd bynag y bydd i ni bregethu yn achlysurol yn mysg pobl ein gilydd, y bydd i ni wneyd ein goreu, nid i wanhau, ond i gryfhau dwylaw ein gilydd, a hyny yn arbenig trwy lafurio i rwystro ymraniad. A chan fod ymraniad wedi cymeryd lle yn Ngorllewin Lloegr, cydunwyd fod brawd oddiwrth Mr. Wesley i fyned yno, gyda y brawd Harris, i geisio iachau y clwyf, ac i anog y bobl i gariad. Cydunwyd, yn mhellach, i amddiffyn yn ofalus gymeriad y naill y llall." A'r adran berthynol i Gymru o'r penderfyniad y mae a fynom ni. Y mae yn sicr i John Wesley gadw at y cytundeb yn deyrngar, ac mai hyn sydd yn cyfrif am y ffaith na wnaeth Wesleyaeth ei hymddangosiad yn y Dywysogaeth hyd ddechreu y ganrif ddilynol. Teimlai y ddwy adran o'r fyddyn Fethodistaidd, er eu bod wedi ymwahanu, a'u bod yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd ar rai athrawiaethau o bwys; eto, eu bod wedi cychwyn o'r un ffynhonell, ac yn cael eu llywodraethu gan y cyffelyb yspryd, a'u bod yn rhy agos gyfathrach i ymosod ar eu gilydd trwy osod i fynu seiadau gwrthwynebol.

Ganol mis Mai, cychwynodd Howell Harris am Lundain, a bu yno am agos i ddau fis o amser. Prin y cafodd fod gartref dri diwrnod wedi dychwelyd, nad oedd galw arno i fyned i Gymdeithasfa Chwarterol Cilycwm. Dywed y dydd-lyfr fod y Gymdeithasfa yn cael ei chynal yn y "Tŷ Newydd," yr hyn a brawf fod yma gapel Methodistaidd wedi ei adeiladu. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Peter Williams, y tro cyntaf y darllenwn am dano yn pregethu mewn Sassiwn. Ei destun oedd: "Mor gu genyf dy gyfraith di," a phregethodd yn rhagorol, meddai Harris. Ar ei ol, pregethodd Daniel Rowland yn ardderchog. Teimlai Harris fod yma genadwri oddiwrth yr Arglwydd ato ef; toddwyd ei enaid o'i fewn; ac er fod yn y bregeth rai ymadroddion deddfol, teimlai yn ddiolchgar fod gan Dduw y fath ddyn i sefyll i fynu drosto. "Cefais dystiolaeth ynof," meddai, "fod Duw wedi dyfod i'r gwersyll yn erbyn Satan a phechod, ac felly ein bod yn sicr o'r fuddugoliaeth." Gwedi llawer o gymhell, ufuddhaodd Howell Harris i bregethu, a chafodd odfa hapus iawn. Ymddengys ei bod yn Gymdeithasfa ddedwydd drwyddi. "Yr oeddym yn ddedwydd ac yn gariadlawn," meddai y dydd-lyfr; "a phenderfynasom amryw bethau, yn tueddu at well dysgyblaeth, yn hollol unol, y rhai y methem eu penderfynu yn flaenorol. Darfu i ni gadarnhau dwylaw ein gilydd, a threfnu rheolau parthed priodas. Cawsom hyfrydwch dirfawr wrth ganu a gweddïo; ac yr oedd yn felus fod yr Arglwydd wedi rhoddi i ni seibiant oddiwrth ystorm enbyd." O'r Gymdeithasfa, aeth Howell Harris i'r Ceincoed, lle y preswyliai Peraidd Ganiedydd Cymru ar y pryd. Boreu dranoeth, pregethodd Thomas Williams, y Groeswen, a Harris ar ei ol. Gwaed Crist, yn ei rinwedd, ei ogoniant, a'i anfeidroldeb, oedd mater Harris; ac ychwanega fod y brawd Williams, Pantycelyn, yn gwrando. Wedi yr odfa, aeth Howell Harris a Thomas Williams yn nghyd i Drefecca, a chawsant gyfeillach felus ar y ffordd.

Tua dechreu Awst, cawn y Diwygiwr yn cychwyn am daith faith trwy Siroedd Caerfyrddin, Aberteifi, a Phenfro. Pregethodd yn nghyntaf yn Llanfair-muallt, ar yr heol, i gynulleidfa anferth o bobl. Ffynon wedi ei hagor i dŷ Dafydd ac i breswylwyr Jerusalem oedd ei fater; ac efengylai yn felus, gan wahodd pawb i'r ffynon. Yn y seiat breifat, bu yn ymdrin a'r tŷ cwrdd y bwriedid ei godi yn y dref. O Lanfair, aeth Mr. Gwynn ag yntau i Glanirfon, ger Llanwrtyd; cyfrifa fod y gynulleidfa yma yn ddwy fil o bobl. Dirgelwch ein cyfiawnhad a'n sancteiddhad yn Nghrist, trwy ei fod ef yn cael ei wneyd yn bechod trosom, oedd ei fater, ac ymddengys iddo gael odfa rymus. Yr oedd

ganddo daith o ugain milltir i Gayo, ac yr oedd yn hwyr arno yn cyrhaedd yno; felly, yr oedd y gynulleidfa a ddaethai i wrando arno wedi gwasgaru. Pregethodd boreu dranoeth, modd bynag. Sylwa yma, nad oedd mewn angen am drefnusrwydd, na chanlyn testun, wrth bregethu: "Yr Arglwydd sydd yn siarad," meddai; "yr wyf finau yn argyhoeddi, yn taranu, yn cymhell, neu ynte yn cyhoeddi fod Duw wedi caru y byd, yn union fel y byddaf yn cael fy nghyfarwyddo." Awgryma y sylw mai pregeth ddidestun a roddodd yn Nghayo. Y lle nesaf y pregetha ynddo yw y tŷ cwrdd newydd yn Llansawel; ffynon wedi ei hagor yw y testun; a dywed ei fod yn enbyd o lym at y rhai a broffesent grefydd, ond a aent at yr Ysgrythyr gyda goleuni natur. "Yr oedd yr Arglwydd yn amlwg yn mysg y bobl,' meddai; "llawer oeddynt yn ddrylliog, ac a fendithiwyd." Trafaelu yn fras y mae, a chawn ef y noson hono wedi croesi y gadwyn fynyddoedd sydd ar derfyn gogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin, ac wedi cyrhaedd Maesnoni. Cyd-deithiai ag ef yno ryw glerigwr ieuanc, newydd gychwyn gyda chrefydd, a chynghorai Harris ef yn ddifrifol iawn i fod yn ffyddlawn i Dduw, ac i'r eneidiau dan ei ofal, a pheidio ymgynghori â chig a gwaed. Ei destun yn Maesnoni oedd, Rhuf. vii. 21. Yr oedd dau offeiriad a chynghorwr yn gwrando arno, a chafodd awdurdod a nerth i'w rhybuddio, fel y byddai iddynt ateb i Dduw, ar iddynt bregethu y gwaed i'r bobl. Yna, aeth at ei hoff bwnc, dirgelwch y Duwdod, a dirgelwch Crist. "Y Dyn hwn yw Duw," meddai, "nid oes un Duw arall. Dangosais fod rhai Cristionogion yn gwneyd tri Duw, ac yn edrych ar y Tad fel uwchlaw Crist." Dranoeth, sylwa drachefn: "Neithiwr, dangosais nad oes yr un Duw ond Crist; nad yw y Tad a'r Yspryd yn Dduwiau eraill, onide na fyddai yr un o honynt yn Dduw; eto, mai y Gair, ac nid y Tad na'r Yspryd, a wnaed yn gnawd. Dangosais y modd y daeth Duw yn ddyn, ac y bu farw, a bod ei waed yn waed Duw." Y lle nesaf y pregetha ynddo yw Cwmcynon, a dirgelwch y gwaed yw y mater. Oddiyno, teithiai trwy Pengwenallt, Llwynygrawys, lle y teimlai yn wael ei iechyd, ac Abergwaun. Odfa ddilewyrch a gafodd yn y lle diweddaf. Dydd Sul, wythnos wedi ei gychwyniad o gartref, cawn ef yn Nghastellyblaidd. Aeth yn y boreu i eglwys Hay's Castle, "lle y mae yr Arglwydd yn casglu ei braidd yn nghyd i'w porthi trwy y brawd Howell Davies," ac efe a weinyddai yn yr eglwys y boreu hwnw. "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd," oedd ei destun; eithr teimlo yn galed a chnawdol a wnelai Harris wrth wrando. Eithr ar y cymundeb a ddilynai, daeth yr Arglwydd i lawr, a gwnaed pen Calfaria yn hynod felus, wrth fod yr Yspryd yn ei ddangos. "Cefais olwg fwy ardderchog nag erioed ar fendithion a chyfoeth Calfaria," meddai; "yr wyf yn myned i fynu ato ef yno, lle y mae pechod a marwolaeth yn cael eu concro. O, Calfaria! Calfaria! Dyma lle y mae pardwn a phob bendith i'w cael." Gwedi hyny, pregethodd yntau, oddiar Eph. iii. 18, a chafodd odfa rymus anarferol. Y noson hono, aeth i Longhouse, lle y cadwodd seiat breifat, gan ymdrin â nifer o faterion, megys y pleser o gyfarfod Paul, Petr, a Dafydd, yn y nefoedd, gwobrau ffyddlondeb, a'r angenrheidrwydd am oddefgarwch. Ac yna aeth at ei hoff fater, sef dirgelwch Crist.

Dydd Mercher, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Hwlffordd, ac aeth yntau yno. Ar y ffordd, gweddïai yn daer dros y brodyr, ar i hunan gael ei ddinystrio ynddynt, ar i Dduw fod oll yn oll, ac ar i bob un weled ei le ei hun, a lle eraill. Pwy oedd yn y Gymdeithasfa, ni ddywed, ac ni chronicla ymadroddion neb, oddigerth ei eiddo ei hun. Agorodd y gynhadledd gydag anerchiad, yn yr hwn yr aeth dros nifer mawr o wahanol faterion; dangosodd y modd y tywynodd goleuni yr addewidion amodol arno gyntaf; y modd y dylai ffydd, gras, a gwaith, gael eu pregethu yn eu lleoedd priodol, a'r angenrheidrwydd am dlodi yspryd. Yr oedd yn dra llym wrth gyfeirio at falchder a difaterwch, ac at y rheidrwydd i bob un adwaen ei le, ei berthynas a'r corph, ac a'r Pen. Ymddengys fod rhywrai yn euog o dori eu cyhoeddiadau y pryd hwnw, a dywedai Harris y dylent gael eu hatal i bregethu am flwyddyn. "Yna," meddai, "cyfeiriais at waith rhai o'r offeiriaid yn fy nghyhuddo o fod wedi cyfnewid mewn athrawiaeth, ac yn fy ngalw yn Antinomiad. Ymgyngorasom am y modd i dderbyn i'r seiat, ac i dori allan. Gwelwn nad oedd yr un dull ddim yn gweddu pob man, ac y rhaid i ni ymwadu a'n rheswm ein hunain. Yr oeddwn yn finiog wrth gyfeirio at dderbyn wyneb, ac am yr angenrheidrwydd i ni gryfhau dwylaw ein

gilydd, a dywedais fy mod wedi dod yno i gryfhau dwylaw yr offeiriaid. Yna, aethum i'r ystafell, lle y lleferais oddiar Mat. viii. 26." Gwedi y bregeth, bu seiat drachefn; eisteddodd y cynghorwyr a Harris i fynu hyd ddau o'r gloch y boreu, a dywed ei bod yn noswaith fendigedig. Ymddengys ei bod yn Gymdeithasfa hapus, a phawb yn cydweled; ond y mae yn dra thebyg nad oedd neb o'r offeiriaid yno, a bod Howell Harris yn cael pob peth yn ei ffordd ei hun. Oddiyma, pasia trwy Walton-West, Llangwm, a Mounton, ac yna dychwel i Drefecca, wedi taith o un-diwrnod-ar-bymtheg. Y mae yn deilwng o sylw na alwodd y tro hwn yn y Parke, cartref Howell Davies, er ei fod yn pasio yn agos, nac ychwaith yn Llangeitho. Er ei fod yn cydweithio a'i frodyr hyd yn hyn, hawdd gweled fod ei deimladau atynt wedi oeri, ac nad oedd, fel cynt, yn dyheu am eu cymdeithas. Gyda golwg ar y cyhuddiad o Antinomiaeth, y cyfeiria ato fel wedi cael ei ddwyn yn ei erbyn gan un o'r offeiriaid, efallai fod rhyw gymaint o sail iddo. Cymdeithasai ormod a Beaumont, yr hwn a gyfeiliornasai yn bur bell i gyfeiriad Antinomiaeth; wedi bod yn nghyfeillach y brawd hwnw, a chael ei ddylanwadu i raddau ganddo, byddai yn defnyddio ymadroddion nas gellid eu cyfiawnhau, ac yn galw pregethu dyledswydd yn ddeddfol; ond wedi ymryddhau oddiwrth ddylanwad Beaumont, deuai yn ei ol drachefn.

Y mae yn ddrwg genym fod y dydd-lyfr, o ganol Awst hyd ddiwedd mis Hydref, ar goll, ac y mae ein gofid yn fwy oblegyd iddo gymeryd taith i'r Gogledd yn mis Hydref. Cawn ef yn ysgrifenu at ei wraig o Lanbrynmair, Hydref 21; ac y mae olysgrif i'r llythyr o'r Bala, y dydd Gwener canlynol. Fel hyn y dywed: "Daethom yn ddiogel yma, a hynod fel y mae yr Arglwydd wedi bod gyda ni. Y mae Duw wedi cymeryd y lle hwn; ni chawsom ddim gwrthwynebiad; ond yr oedd pob peth yn dawel. Nid yw yn debyg y cawn ein rhwystro mwy. Yn mhen deuddeg diwrnod yr wyf yn gobeithio eich gweled eto. Yr ydym yn myned i Sir Gaernarfon, a Môn, ac yna trwy Siroedd Dinbych, a Meirionydd." Tebygol fod James Beaumont gydag ef fel cydymaith. Cawn ef yn yr Amwythig, Hydref 31, yn dychwelyd adref, ac yn ei ddydd-lyfr ysgrifena fel y canlyn: "Daethum yma neithiwr, gwedi taith yn Ngogledd Cymru, lle y dysgwyliaswn y cawn fy llofruddio, a'r lle yr oedd y drws wedi cael ei gau yn fy erbyn am rai blynyddoedd, gan lid y werinos, a chwerwder y clerigwyr, y rhai a gawsent eu cynhyrfu yn waeth am fod y bobl yn gadael yr Eglwys yn hollol ar ol fy ngwrando. Yn awr y mae y drws yn agored, ac er i mi fod yn y Bala, a Sir Gaernarfon, lle y buaswn mewn perygl am fy mywyd, yr oedd y gelyn wedi ei gadwyno, ac yr wyf yn gobeithio i lawer o dda gael ei wneyd. Sefydlwyd seiadau; llawer o'r rhai a adawsent yr Eglwys a arweiniwyd i ddyfod yn eu hol, ac i aros ynddi. Cefais fy nerthu yn oruwchnaturiol i drafaelu o gwmpas deg-milltir-ar-hugain y dydd; i aros i lawr hyd ddeuddeg, a thri, a chwech o'r gloch y boreu; i drefnu seiadau, i holi eneidiau, ac i bregethu. O Arglwydd, ti a glywaist ein gweddïau, ac a roddaist i mi i ddychwelyd. Ti a roddaist i mi i weled dy iachawdwriaeth yn dyfod i Ogledd Cymru, druenus a thywyll. Ymwelaist a'r bobl a eisteddent mewn tywyllwch Aiphtaidd tew. Tebygol y gwneir gwaith mawr yn Siroedd Meirionydd, Caernarfon, Môn, a Dinbych; gellid meddwl fod tueddfryd at wrando yn y bobl; O na chyfrifid fi yn deilwng i ddwyn cenadwri y Brenhin." Felly yr ysgrifena y Diwygiwr yn yr Amwythig, ar ei ffordd adref. Hyfryd fuasai genym ei ganlyn trwy yr holl daith, gan ddeall â pha leoedd yr ymwelai, a pha fath odfa a gaffai yn mhob lle; ond o'r pleser hwn yr ydym wedi cael ein hamddifadu. O'r Amwythig, tramwyodd trwy Berriw, y Tyddyn, a Llanfair-muallt, gan bregethu yn mhob lle ar ei ffordd i Drefecca.

Cyn myned i'r Gogledd, ysgrifenodd lythyr pwysig at y Parch. Edmund Jones; ac er meithed y llythyr, teimlwn y dylai gael ei osod i mewn yn llawn, ar gyfrif ei eglurder, ei yspryd Cristionogol, a'r goleu a deifl ar amryw gwestiynau. Fel hyn y darllena: "Anwyl frawd,—Yr wyf yn cael, oddiwrth lythyr o'r eiddoch at Mr. Price, fy mod yn cael fy nghyhuddo o haeru pethau croes i Air Duw, a chroes i'm hymadroddion fy hun ar adegau eraill. Ac nid hyny yn unig, ond hefyd o haeru mai Duw sydd yn rhoddi hyn i mi yn ddigyfrwng, ac felly, fy mod yn gwneyd Duw yn gelwyddog. Yr ydych yn meddwl fod hyn yn beth enbyd; yr wyf finau yn meddwl yr un peth; ac oddiar pan ei clywais yr wyf wedi bod yn holi fy hun,

gan wysio fy nghydwybod i gyflawni ei swydd, ond yr wyf yn methu cael fy hun yn euog. Ar ba seiliau y gwneir y cyhuddiad, nis gwn; a pheth a allaswn ddweyd, oddiwrth yr hyn y gallai rhai pobl dda, trwy gamddeall, trwy demtasiwn Satan, neu trwy fy mod yn llefaru yn aneglur, rywbryd neu gilydd, gasglu y cyfryw syniad, nis gallaf gofio; gan nad wyf wedi cael clywed pwy yw y cyhudd-wyr, na pheth yw y geiriau a ddefnyddiais. Ond os defnyddiais y cyfryw ymadroddion, neu rywbeth yn ymylu arnynt, yr wyf yn datgan fy mod yn ofidus am danynt. Ond synwn fy mod yn cael fy nghyhuddo, fy mhrofi yn euog, a chael ymddwyn ataf felly, a minau heb glywed dim am y peth. Yr oeddwn yn tybio na wnelai Mr. Jones ymddwyn felly at neb. Efallai eich bod yn meddwl wrth ysgrifenu at arall, heb fy hysbysu i, y cymerwn y cerydd yn fwy tirion gan arall. Ond beth bynag am hyny, nid oedd hyn yn ganlyn y rheol wrth ba un yr ydym i rodio. Ar yr un pryd, gallaf ddweyd fy mod yn ddiolchgar i ddyfod i wybodaeth am fy ffaeleddau rywfodd, oblegyd gwn fy mod yn llawn o honynt. Os gellwch edrych arnaf mewn unrhyw ystyr fel yn cael fy nefnyddio gan Dduw, er fy mod, yn ol y goleu sydd genych chwi, yn cael fy nghamarwain; os gellwch edrych arnaf fodd yn y byd fel brawd, neu gydweithiwr, byddai yn dda pe na baech yn rhoddi coel i adroddiadau sydd yn rhwystro cariad brawdol, yr hwn, y gallaf ddweyd, fy mod yn ei gael yn fy enaid atoch chwi. Er fy mod wedi meddwl fod eich zêl dros Annibyniaeth wedi eich cario weithiau yn rhy bell, i geisio rhwystro y gwaith ag y mae yr Arglwydd, yr wyf yn gostyngedig dybio, wedi ei ymddiried i mi; ac er fy mod wedi ei chael yn ddyled-swydd i wrthdystio yn erbyn rhai mesurau a gymerasoch; oni wnaethum hyn mewn gostyngeiddrwydd, a chyda chariad a phwyll, yr wyf yn edrych arno fel un o'r pethau ag y mae yn rhaid i mi alaru o'u herwydd bob dydd.

Bid sicr, y mae rhyw bethau yn ein golygiadau a'n barnau yn ein cadw i raddau yn mhell oddiwrth ein gilydd. Yr wyf wedi, a throsof fy hun yn, dymuno ar i bawb a arddelir i unrhyw fesur gan yr Arglwydd gael cyfleusderau cyffredinol i gyfarfod, i gydymddiddan, ac i benderfynu ar ryw reolau i rwystro oerfelgarwch, rhagfarn, celwydd, a gwanhau dwylaw ein gilydd. Gyda golwg ar y profion a ddygwch yn mlaen y byddai yn well i ni adael yr Eglwys Sefydledig, a'r haeriad ei fod yn ein bwriad i osod ein hunain i fynu fel eglwys; nid wyf yn foddhaol gyda golwg ar y naill na'r llall. Am y diweddaf, ni chlywais gymaint a son am dano o'r blaen. Am y cyntaf, buasai yn dda genyf pe baech yn fy hysbysu parthed defnydd-ioldeb y brodyr sydd wedi ein gadael. Yr ydych chwi yn addef fod crynswth y bobl ydynt yn marw o eisiau gwybodaeth yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig; ac y mae drysau newyddion yn agor iddynt yn barhaus o fewn cylch eu Heglwys eu hun. Am y brodyr a'n gadawodd, y maent eu hunain yn cyffesu eu bod yn cael mwyaf o'r Arglwydd pan y cyfarfyddant a'u hen gyfeillion. Nid wyf yn cael eu bod yn cael eu bendithio i ail-ddeffro y proffeswyr cysglyd, yn mysg pa rai y maent. A chan fod arnom eisiau cymhorth i fyned allan yn erbyn byd tywyll a drwgdybus, nis gallaf lai na chredu ddarfod i gylch eu defnyddioldeb gael ei gyfyngu yn ddirfawr, o herwydd eu bod yn gadael y gwaith cyhoeddus am un llai cyhoeddus. Gyda golwg ar ein bod yn rhwystro pobl i uno â rhyw frodyr Ymneillduol, nis gallaf lai nag edrych ar y cyhuddiad fel un hollol annheg, gan ei fod yn gwbl wybyddus i'r nifer amlaf o'r cynulleidfaoedd (Ymneill-duol), y darfu i ni sefydlu yn eu cymydog-aeth, gael eu cynyddu a'u bywhau trwy ein hofferynoliaeth. Yn ol y goleuni a feddem, ymddangosai i ni nad oedd yr eneidiau yn llwyddo (yn mysg yr Ym-neillduwyr), ac addefent hwy eu hunain mai yn ein mysg ni yr oeddynt yn cael eu porthi. Am eraill, oeddynt yn fywiog, ac yn taflu eu heneidiau i'r gwaith, tra gyda ni, gwedi iddynt ymneillduo, hwy a aethant yn glauar a difater. Felly, yn lle cynyddu mewn bywyd ysprydol, hwy a aethant yn ol. Eraill a gawsant eu tramgwyddo, a'u cadw rhag dyfod i wrando arnom, trwy dybio ein bod mewn cyfrwysdra yn honi perthynas ag Eglwys Loegr. Yr oedd rhagfarn y rhai hyn yn annyoddefol, a gwnaent eu goreu i dynu pobl o'r lleoedd, yn mha rhai y darfu i'r Yspryd Glân eu cadw, a'u porthi am amser maith. Os ar yr ystyriaethau hyn y darfu i mi lefaru yn erbyn ymddygiadau rhai o honoch, ond i chwi gadw mewn cof y rheol am wneyd i eraill fel yr ewyllysiech i eraill wneyd i chwithau, bydd i'ch digofaint gael ei leddfu i raddau mawr. Pe y deuai rhyw-rai i fysg y bobl y buoch chwi yn offerynol

i'w galw, a'u casglu allan o'r byd, gan eu harwain ar gyfeiliorn; yn enwedig os oeddynt yn hollol dawel pe y cawsent lonydd; a phe y caech eu bod mewn canlyniad yn myned i wrando pregethwyr nad oeddych yn hollol foddhaus ar eu hathrawiaeth, oni theimlech hi yn galed fod y rhai hyn (sef y rhai a arweinient eich pobl ar gyfeiliorn) yn cwyno am eich bod yn ceisio cadw eich cynulleidfaoedd yn nghyd, tra mewn gwirionedd mai hwy oedd yr ymosodwyr, ac a ruthrasent i mewn i lafur rhai eraill?

Y mae ein rhesymau dros aros yn yr Eglwys Sefydledig yn ymddangos i ni yn drymach o lawer na'r rhesymau dros ei gadael. Felly, credem y pechem yn erbyn yr Arglwydd a'i waith pe y troem ein cefnau arni; a rhoddem gyfle i'r gelyn i rwystro y diwygiad gogoneddus, yr hwn sydd yn helaethu ei derfynau bob dydd. Yn fy nhyb ostyngedig i, pe y codasai rhyw ddiwygiwr yn mysg yr eglwysi Ymneillduol, heb osod i fynu gynulleidfaoedd ar wahan, buasai yn gwneyd mwy o wasanaeth i eglwys Dduw, ac yn rhoddi llai o dramgwydd i eraill. Yr wyf yn dweyd hyn yn unig fel fy syniad i ar y mater; nid wyf yn barnu; gwn fod gan Dduw amrywiol fwriadau, felly, yr wyf yn ddystaw. Fy marn i ydyw, a dyna oedd eich barn chwithau unwaith, fod yr Arglwydd yn gadael yr Ymneillduwyr, ac yn myned i fywhau ei waith yn yr Eglwys Sefydledig. Pe y deuech i'n mysg fel cynt, ac mewn dull na fyddai genym le i feddwl eich bod yn dyfod i geisio ein rhanu, yr wyf yn credu y gwelech ein bod yn y ffurf y mynai Duw i ni fod: a'i fod ef yn ein mysg, er ein llygredigaethau, ein gwendidau, a'n cymysgedd. Pe y deuech felly, cryfhaech ein dwylaw, yn lle eu gwanhau, gan weled ein bod yn dwyn pwys y dydd a'r gwres, a bod yr holl fyd ac uffern yn ein herbyn. Wrth ganfod yr anhawsderau â pha rai yr ydym yn ymladd, cynhyrfid eich calon ddewr ynoch eto, a llosgai eich yspryd mewn cydymdeimlad a'r dynion ieuainc sydd yn myned allan, a'u bywydau yn eu dwylaw, yn erbyn y Philistiaid. Deuwch. Na fydded cynhen rhyngom mwyach. Bydded i ni gytuno yn hyn, sef na byddo i ni wanhau dwylaw ein gilydd; ac os na ellwch gredu ein bod ni yn iawn wrth aros yn yr Eglwys Sefydledig, peidiwch a'n condemnio, pan y sicrhawn chwi mai mater o gydwybod yn hollol ydyw genym. Yr ydym yn gweled y fath waith wedi ei ddechreu; rhai clerigwyr o enwogrwydd wedi cael eu deffro; nifer o bersonau o'r safle fwyaf anrhydeddus yn dyfod i wrando, a rhai o honom wedi cael ein galw i bregethu yn breifat o flaen pendefigion, yn mysg pa rai y mae un ardalydd, un iarll, dwy arglwyddes, a dwy foneddiges o deitl. Yr ydym yn gweled rhagfarn yn syrthio, a drysau yn agor trwy yr oll o Loegr, yn mron, ac, o'r diwedd, yn Ngogledd Cymru, a hyd yn nod yn yr Iwerddon. Felly, peidiwch ein condemnio, os oes arnom ofn rhedeg o flaen yr Arglwydd. . Ni frysia yr hwn a gredo. Bydded i ni gymeryd ein dysgu gan Dduw, a bod yn amyneddgar, ac yn ddyoddefus, ac yn ffyddlawn iddo ef; yna, gwelwn y bydd i'r gwirionedd lwyddo yn amser da Duw, gan yru cyfeiliornad a phenrhyddid allan o'r Eglwys; neu ynte, caiff Satan y fath allu i greu erledigaeth o fewn i'r Eglwys, fel ag i yru allan yr holl ffyddloniaid. Os ydyw yr hen Eglwys i gael ei gadael i wrthod y goleuni, a chynulleidfaoedd ar wahan iddi i gael eu ffurfio, yr hyn yr wyf yn gobeithio na fydd byth, yna, rhaid i Ragluniaeth drefnu yr amser a'r offerynau. O, gan Dduw, na allech chwi ddyoddef mwy gyda'r hen Ymneillduwyr, a llafurio yn eu mysg mewn amynedd, a cheisio cael dynion ieuainc llawn cariad i ddilyn yr hen weinidogion, a pheidio sefydlu cynulleidfaoedd ar wahan, gan geisio tynu pobl oddiwrthym ni; eithr ein gadael yn yr Eglwys Sefydledig. Yna, mi a allwn eich cyfarfod yn breifat, neu mewn Cymdeithasfa, i'r pwrpas o sefydlu pethau, a'ch anrhydeddu fel un nad wyf yn deilwng i olchi ei draed. Yna, mi a allwn agor fy holl galon i chwi gymaint ag erioed. Yr wyf yn gobeithio fy mod yn ysgrifenu yn symlrwydd yr efengyl. A gallaf yn ddiragrith alw fy hun mor gariadus ag erioed: Eich annheilyngaf Frawd, a chyd-bechadur, eithr wedi ei achub trwy ras, ac yn wir awyddus am eich cyfarfod fry, i gydfoli yn dragywyddol; ac i ymddwyn yma fel eich cyd-ddinesydd, a'ch cyd-lafurwr,—H. Harris."

Llythyr cryf, eto boneddigaidd, wedi ei ysgrifenu mewn yspryd Cristionogol, ac yn llawn o natur dda. Y mae rhai pethau sydd i raddau yn dywyll ynddo, megys yr anogaeth i Edmund Jones i lafurio mewn cydweithrediad a'r hen Ymneillduwyr. A oes yma awgrym fod y prophwyd o Bontypŵl, er ei holl dduwioldeb, nid yn unig

yn erlid y Methodistiaid, ac yn ceisio lladrata eu pobl, ond hefyd yn ddraen yn ystlys ei frodyr ei hun, ac yn methu cydweithio â hwynt? Modd bynag, gwneir rhai pethau yn hollol glir yn y llythyr: (1) Dengys nad oes sail o gwbl i'r hyn a haerir gan Dr. Rees, Abertawe, a haneswyr eraill a'i canlynant, sef mai proselytiaid o fysg yr Ymneillduwyr oedd aelodau cyntaf y Methodistiaid. Dywed Harris yn bendant, fel ffaith oedd yn gyffredinol wybyddus, na ddarfu i'r Methodistiaid adeiladu ar sail yr Ymneillduwyr, na thynu pobl oddiwrthynt; ond, yn hytrach, i sefydliad seiadau yn nghymydogaeth hen eglwysi Ymneillduol, fod o fantais i'r eglwysi hyny, trwy ychwanegu eu rhif, a chynyddu eu gweithgarwch. (2) Er yr ymlynai Harris wrth yr Eglwys Sefydledig, nid oedd yn erlidgar o gwbl at y rhai a'i gadawsent. Ar yr un pryd, ofnai ddarfod iddynt gyfyngu ar gylch eu gweithgarwch trwy gefnu arni, a lleihau eu cyfleusterau i wneyd daioni. (3) Breuddwydiai fod yr Eglwys Sefydledig i gael ei lefeinio trwyddi gan y diwygiad; y deuai y pendefigion yn bleidiol i bregethu efengylaidd, ac efallai yn aelodau gweithgar o'r seiadau Methodistaidd. Nid rhyfedd, felly, ei fod yn wrthwynebol i ymneillduo oddiwrthi. Tra y byddai gobaith i'w freuddwyd gael ei sylweddoli, ystyriai mai rhedeg o flaen yr Arglwydd fyddai ei gadael.

Yr wythnos wedi iddo ddychwelyd o Ogledd Cymru, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca. Nid oedd yr un o'r offeiriaid yno; felly, Howell Harris a lywyddai. Agorodd y Gymdeithasfa gyda phregeth, ac ymddengys iddo gael cyfarfod annghyffredin. Yn y seiat a ddilynai, anerchodd yr aelodau ar amryw faterion, ac yn arbenig cyfeiriodd eu golygon at waed Crist. "Y gwaed!" meddai; "y mae yn waed hollalluog, yn waed anfeidrol; pwy a fedr ei blymio? Y gwaed hwn a unodd fy enaid â Duw. Os oes arnoch awydd am fod yn sanctaidd, ymolchwch yn hwn. Os ydych am goncwerio pechod a Satan, dewch at y gwaed. Os ydych am fyned i'r nefoedd, cymerwch y gwaed gyda chwi." Ac wrth ei fod yn ymhelaethu ar rinwedd y gwaed, aeth yn floedd trwy y lle, nes y boddwyd ei lais yn gyfangwbl gan lefau y rhai a wrandawent. Teimlai ei fod wedi cael y fath awdurdod na chafodd yn fynych ei gyffelyb. Yr ail wythnos yn Tachwedd, cychwynodd am Lundain; pasiodd trwy Henffordd; bu mewn Cymdeithasfa berthynol i'r brodyr Saesnig yn Ross; ac ni chyrhaeddodd Drefecca yn ei ol, gwedi ei ymdaith yn y Brif-ddinas, hyd y Llun olaf o'r flwyddyn.

Tri diwrnod y cafodd fod gartref cyn ei fod yn cychwyn am daith faith i Orllewin Lloegr, yr hon oedd i barhau am fis. Torodd gwawr y flwyddyn newydd arno yn Cwmdu, lle rhwng Talgarth a Chrughywel. Dranoeth, cawn ef yn y New Inn, Sir Fynwy. Heblaw pregethu, yr oedd yn casglu at y capel newydd oedd wedi ei adeiladu yn Llanfair-muallt, ond yn groes i arfer casglwyr yn gyffredin, ni wnai dderbyn nac arian nac addewidion ar y pryd, rhag i'r rhoddion gael eu cyfranu o gariad ato ef, ac nid mewn ffydd. Yr un prydnhawn, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn y lle; gorchwyl penaf yr hon oedd adferu y brawd William Edward, o'r Groeswen, yr hwn a gawsai ei osod tan ddysgyblaeth, oblegyd cyfeiliornad mewn athrawiaeth. Dau gwestiwn a ofynodd Howell Harris iddo, ac y mae ffurf arbenig y cwestiynau yn dynodi syniadau neillduol yr holwr. (1) A oedd yn galonog yn medru addoli y baban Iesu? (2) A oedd yn credu fod datguddiad ysprydol o Grist i'w gael uwchlaw y wybodaeth am dano a geir yn y llythyren? Atebodd William Edward y ddau ofyniad yn foddhaol, a chafodd ei ail-sefydlu fel cynghorwr. Yn y Gymdeithasfa, hefyd, bu ymddiddan parthed priodas, am ofalu am ystafell (capel) New Inn, a derbyniwyd dau i ddechreu pregethu. Eithr derbyniodd lythyr oddiwrth ddau frawd yn ei gyhuddo o wneyd rhywbeth allan o le. Yr oedd y Gymdeithasfa yn hapus trwyddi; cydwelai ef a'r brodyr yn hollol ar bob peth. Yn Ngorllewin Lloegr ymwelodd ag Exon, Plymouth, Kingsbridge, a lleoedd eraill, ac ni ddychwelodd yn ei ol hyd ddechreu Chwefror.

Dranoeth i'w ddychweliad, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, ac agorodd hi gyda phregeth oddiar y geiriau: "Du ydwyf fi, ond hawddgar." Cymerodd achlysur ar ei bregeth i gyfeirio at y chwedlau anwireddus a daenid am dano gan yr Ymneillduwyr, sef ei fod yn elynol iddynt. "Yr unig reswm sydd ganddynt dros ddweyd hyn," meddai, "yw fy mod yn llefaru yn erbyn eu pechodau; ac ar yr un tir yn union gellid haeru fy mod yn elynol i Eglwys Loegr, gan fy mod yn ymddwyn yr un modd ati hithau. Ond

Sunday January 3. 1747 preach'd at adwy'r clawd about 4 o'clock the church warden assisted by the constable took the names of the auditors munday. 4th went in ye morning to Ross—on with an intention to teach, but being presently apprehended by the constable with orders to appear before some justice we were interrupted. in obedience to the warrant which bore date January the third sign'd Watkin, Wm Wynn Baron: we appeared at Sr Watkin's Palace about eleven o'clock. 6 men out of eight or nine of us the others pass'd by: were examin'd, the examination lasted till about 4 o'clock ~~some of us~~ we suffer'd cold and hunger; some of us being apprehended in their bed with ye break of day whilst it was yet dark. in the conclusion ~~orders~~ Sr Watkin order'd 20£ to be levy'd (if not otherwise had) upon ye goods and chattles of ye teacher forthwith and a crown apiece on ye hearers. accordingly, the constable, chief-constable, & church-warden came to my lodging about 10. at night and demanded the money, it being refused; the chief-constable held me by the arm & ye church-warden took twenty shillings & two pence out of my pocket.

the chief-constable's name is ~~Richard~~ Hasketh in ye Parish of Rhyabon

Edward Jones ch. warden in ye parish of wrexam

Peter William

Richard Hasketh Chieff Cunstable

BYR-HANES O ERLEDIGAETH PETER WILLIAMS YN ADWY'R CLAWDD, FEL YR YSGRIFENWYD EF GANDDO EF EI HUN.

[Ceir y copi gwreiddiol yn Athrofa Trefecca.]

dywedais fy mod bob amser yn gwahaniaethu rhwng y dieuog a'r euog; a'm bod yn adnabod llawer o ddynion da a grasol, yn bregethwyr ac yn bobl, yn mysg yr Ymneillduwyr, y rhai wyf yn garu; a phe bai yn fy ngallu, na wnawn roddi terfyn ar nac eglwys na chapel, eithr yn hytrach eu llanw o Dduw." Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa, bu ef a'r pregethwyr yn ymdrin â gwahanol faterion, ac yn trefnu eu teithiau, a gorphenwyd y cyfan yn hynod hapus. Ar y dydd olaf o Ionawr, y mae yn cychwyn am daith i Siroedd Caerfyrddin, Aberteifi, a Phenfro. Y mae nodiad yn ei ddydd-lyfr ar gyfer Llangamarch sydd yn haeddu ei groniclo. "Ymgynghorais a'r Arglwydd am lawer o bethau," meddai, "a chefais nerth mawr i ymdrechu â Duw gyda golwg ar Syr Watkin Williams Wynne; gelwais arno yn lew, ar iddo amlygu ei allu. 'Na ad i'r ymgais yma o eiddo Satan lwyddo,' meddwn; 'achub enaid y boneddwr, ond dymchwel ei gynlluniau.'" Yr oedd Syr Watkin yr adeg yma yn erlid saint Duw gyda llaw uchel. Teifl y difyniad canlynol o lythyr, a ysgrifenwyd gan Howell Harris at chwaer grefyddol yn Llundain, oleuni ar ymddygiadau y barwnig o Wynnestay: "Yr ydych wedi clywed rhyw gymaint am y driniaeth a dderbynia ein brodyr a'n chwiorydd ar law Syr Watkin Williams Wynne. Darfu iddo osod dirwy o bedwar ugain punt ar y bobl dlawd am dderbyn a gwrando ein brodyr, fel y mae amryw trwy hyn wedi cael eu dinystrio yn hollol, a'r efengyl wedi cael ei rhwystro am amser. Yr wyf yn dymuno ar y brawd Jenkins, os yw yna, i alw yr eneidiau yn nghyd ar ryw amser penodol i weddïo, ac i ysgrifenu parthed hyn at yr holl seiadau. Byddwch wrol, fy chwaer, newydd da ydyw; y mae yr Arglwydd yn dyfod, ac y mae Satan yn rhuo. Bydded i bob un edrych at ei arfogaeth, y mae amseroedd ardderchog a gogoneddus gerllaw." Yr ydym yn gweled oddiwrth lythyr Peter Williams i'r gŵr da hwnw orfod teimlo llid Syr Watkin. Yn ychwanegol at hyn, yr oedd yn bygwth troi ymaith oddiar ei ystâd bawb a feiddiai ymgysylltu a'r Methodistiaid, a chan mai efe a berchenogai yr holl wlad, yn mron, golygai ei fygythiad, pe y cai ei gario allan, ddiwreiddiad crefydd agos yn llwyr allan o'r fro. Felly, yr oedd ugeiniau heblaw Howell Harris yn agoshau at yr Arglwydd i geisio ganddo gyfryngu. Atebwyd eu gweddïau mewn ffordd ofnadwy. Un prydnhawn, tua blwyddyn ar ol hyn, marchogai Syr Watkin ar gefn ei farch yn mharc Wynnestay; ac ar ddaear wastad tripiodd yr anifail rywsut, nes y cwympodd ei farchogwr, gan ddisgyn ar ei ben ar y llawr, fel y bu farw yn y fan. Yn ddiau, y mae Duw a farna y ddaear. Ceir traddodiad arall am yr helynt yn y Gogledd, sef fod nifer o bobl druain dlodion wedi cydymgynull mewn cyfarfod gweddi, yn nghymydogaeth y Bala, a darfod i un o'r gweddïwyr gael y fath afael wrth grefu ar i'r Arglwydd gyfryngu i atal yr erledigaeth, fel y teimlai yn sicr wrth gyfodi oddiar ei liniau fod ei ddymuniadau wedi cyrhaedd y nefoedd. A rhoddodd benill allan i'w ganu, o'i gyfansoddiad ei hun, yn cofnodi ei deimlad:—

"Mae Esther wedi cychwyn
I mewn i lys y Brenhin,
Caiff pardwn iddi ei estyn,
Ac ofer waith Syr Watkin."

Ar yr adeg benodol hon, meddir, tra y cenid y penill yn y cyfarfod gweddi, y cyfarfyddodd y barwnig a'i angau yn mharc Wynnestay.

O Langamarch, aeth Harris i Lanwrda, ac oddiyno i Lanbedr-Pont-Stephan, trwy oerni dirfawr, lle yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol i gael ei chynal. Clywodd chwedlau anhapus ar y ffordd, parthed teimlad ei frodyr tuag ato, fel yr oedd ei yspryd ynddo yn llwythog wrth nesu at y dref. Wedi llawer o gymhell, cafwyd ganddo bregethu yn Llanbedr, boreu y Gymdeithasfa. Teifl brawddeg neu ddwy o'i eiddo oleuni ar y syniadau neillduol a goleddai. "Dangosais nad oes ond un Duw," meddai; "nad oes un Duw i fynu nac i lawr, ond Iesu Grist. Eglurais y modd yr oedd rhai yn gwneuthur eilun, gan ei alw y Tad, a'i osod uwchlaw Iesu Grist, a'u bod yn addoli yr eilun hwn yn lle yr unig wir a'r bywiol Dduw. Dangosais fel yr oeddynt gystal a bod yn Ariaid, wrth osod Crist i roddi boddlonrwydd i'r Tad; ac os gwnaeth efe hyny, pwy a roddes foddlonrwydd i'r Mab, a'r Yspryd. Gwrthddadl: Eithr yr ydych chwi yn addoli yr Iesu? Ateb: Yr ydym yn addoli y Tad, y Mab, a'r Yspryd ynddo (sef yn yr Iesu); tri yn un, ac un yn dri." Dengys y difyniad hwn fod Harris yn dra chymysglyd o ran ei olygiadau ar y Drindod, a'i fod yn nesu yn yn bur agos at Sabeliaeth.

Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa bu dadleu brwd, a rhyw gymaint o deimlad anhapus. "Tra y mynwn i roddi i fynu y gyfraith mewn ffydd, yn Ngogledd Cymru," meddai, "ac y ceryddwn hunan ac yspryd cnawdol, un a ddaethai oddiyno i ofyn am gyfarwyddyd, daeth Satan i lawr. Cyhuddodd rhywun fi o falchder. Gwrthodais inau weithredu heb i'r brodyr gydnabod eu bai, a datgan gofid, gan fy ngosod yn fy lle priodol; a dywedais nad oedd genyf un amcan wrth ddyfod yno heblaw gwasanaethu Crist, ac y rhaid i bob un sefyll yn ei le ei hun. Daeth yr Arglwydd i'n mysg drachefn. Cefais gyfleustra i egluro ein rhesymau dros aros yn yr Eglwys. Yr wyf yn cael fod yr Arglwydd, trwy amrywiol ffyrdd, yn dwyn y brodyr i ymsefydlu o'i mewn. Cydunasom i gasglu i ddwyn yn mlaen y gyfraith yn erbyn Syr Watkin Williams Wynne. Trefnodd y brodyr eu teithiau. Yn breifat, cefais ateb oddiwrth yr Arglwydd gyda golwg ar y gyfraith, a chyda golwg ar gyflogi Mr. Williams, Caerlleon, i'w chario yn mlaen. Yr wyf yn cael Yspryd Duw ynof yn gwaeddi yn gryf yn erbyn Syr Watkin." Byddai yn ddyddorol gwybod sut y terfynodd helynt y gyfraith, ac ai marwolaeth ddisymwth y boneddwr a roddodd ben arni. Dranoeth, aeth pethau yn mlaen yn bur hwylus; eithr bu Harris yn rhoddi gwers lem i rai brodyr am eu hysgafnder a'u cnawdolrwydd, ac aeth yn ddadl rhyngddo a Rowland, a Williams, Pantycelyn, am reolau i droi proffeswyr cnawdol allan. Dadleuent hwy fod hyn yn anhawdd ac yn beryglus. "Ond," meddai Harris, "deliais i yn gryf fod yna lygad, neu oleuni ysprydol, yn y Cristion, yr hwn sydd yn barnu ac yn mesur pob peth." Mynai ef osod y rhai difraw oll dan ddysgyblaeth. Sut y terfynodd y ddadl, nis gwyddom, ond gwnaed llawer o drefniadau, ac ymwahanodd y brodyr mewn teimlad hapus at eu gilydd. Eithr y mae yn anmhosibl darllen adroddiad Howell Harris ei hun am y Gymdeithasfa, heb deimlo ei fod yn dra arglwyddaidd, ac yn honi llywodraeth; a'i fod yn cyfeirio yn rhy fynych at "ei le" yn y Gymdeithasfa, fel pe buasai wedi cael ei osod yn oruchaf ar ei frodyr. Y mae yn ofidus gweled un mor llawn o natur dda, a mor gynhes ei yspryd, wedi cael ei feddianu gan y fath deimlad.

O Lanbedr, aeth Harris ar daith bur fanwl trwy ranau isaf Sir Aberteifi, rhanau o Benfro, Caerfyrddin, a Morganwg. Heblaw pregethu, a threfnu materion yn y seiadau, yr oedd hefyd yn casglu at Dŷ yr Amddifaid, a sefydlasid gan Whitefield yn Georgia. Ar amlen y dydd-lyfr, ceir y swm a gasglwyd yn mhob lle, a chan mai dyma yr adroddiad cyntaf o gasgliad cyffredinol yn mysg Methodistiaid Cymru, yr ydym yn ei groniclo. Heblaw ei fod yn ddyddorol, teifl ryw gymaint o oleuni ar nerth cymharol y gwahanol seiadau. "Derbyniais," meddai, "at Dŷ yr Amddifaid yn—

| | *P.* | *s.* | *c.* |
|---|---|---|---|
| "Maesnoni | 0 | 13 | 0 |
| Twrgwyn | 0 | 11 | 1 |
| Cwmcynon | 0 | 11 | 0 |
| Castellnewydd-Emlyn | 0 | 7 | 8 |
| Llechryd | 1 | 4 | 3 |
| Trefdraeth | 0 | 10 | 3 |
| Abergwaun | 0 | 3 | 6 |
| Trevin | 0 | 9 | 3 |
| Llanferan | 0 | 0 | 8 |
| Hay's Castle | 1 | 6 | 10 |
| Hwlffordd | 1 | 6 | 6 |
| Llangwm | 0 | 6 | 3 |
| Carew | 1 | 1 | 1½ |
| Jefferson | 0 | 12 | 1½ |
| Meidrim | 0 | 12 | 2 |
| Caerfyrddin | 1 | 3 | 5 |
| Llanddeusant | 0 | 2 | 2 |
| Ffoi (ger Llanelli) | 0 | 4 | 1 |
| Llanon | 0 | 3 | 2 |
| Abertawe | 0 | 8 | 4 |
| Llansamlet | 0 | 6 | 1 |
| Castellnedd | 0 | 8 | 9 |
| Hafod | 0 | 5 | 9½ |
| Penprysg | 0 | 12 | 0 |
| Llantrisant | 0 | 15 | 0 |
| How. Griffiths | 0 | 2 | 6 |
| Aberddawen | 0 | 3 | 7 |
| St. Nicholas | 1 | 1 | 6 |
| Groeswen | 1 | 8 | 0" |

Teithiai Howell Harris yn ddiorphwys yn ystod y Gwanwyn hwn; nid oedd ball ar ei ymdrechion: cawn ef weithiau yn Morganwg a Mynwy; bryd arall yn Sir Drefaldwyn, neu Sir Gaerfyrddin; a phan na fyddai yn mhell o gartref, ymwelai a'r lleoedd cyfagos yn Mrycheiniog a Maesyfed. Ofer i ni geisio ei ganlyn i bob man, a phrin y byddai yn fuddiol i'r darllenydd. Yr wythnos gyntaf yn mis Mai, cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol yn Nghaerfyrddin. Dywed Harris iddo fyned i'r ystafell, a phregethu yno i dorf anferth. Awgryma hyn fod y Methodistiaid wedi adeiladu capel yn y dref. Ei destun ydoedd: "Trwy ras yr ydych yn gadwedig," a chafodd nerth a goleuni anarferol i ganmol gras Duw. Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa, daeth rhyw awel dyner wrth ganu ar y cychwyn. Yna,

darllenwyd cofnodau y Gymdeithasfa flaenorol; derbyniwyd arian o wahanol leoedd at y gyfraith; ymgynghorwyd am y modd i'w chario yn mlaen; a phenderfynwyd fod Harris, a Price, o Watford, i ymweled a'r cyfreithiwr. Trefnwyd brodyr, hefyd, i ymweled â Gogledd Cymru. Boreu yr ail ddiwrnod, darllenwyd yr adroddiadau, ac yr oeddynt yn dra melus. "Ond," meddai Harris, "yr oedd y brawd Rowland yn eiddigus o honof fi gyda golwg ar y Drindod. Yr oedd wedi digio oblegyd rhywbeth a ddywedais gyda golwg ar ein bod yn rhanu y Duwdod yn gnawdol, ac yn gosod y Tad uwchlaw y Mab. Dywedais wrtho fy mod yn ofni nad oedd yn adnabod yr Arglwydd, a bloeddiais gydag awdurdod: Nid oes ond un Duw, ac fe ymleda y goleuni hwn dros y byd, er gwaethaf pob gwrthwynebiad! Pan y darllenaf y Puritaniaid, nid wyf yn cael fy mod yn gwahaniaethu oddiwrthynt mewn un dim. Dirmygodd (Rowland) fi, a dywedodd nad oeddwn yn darllen nac yn pregethu yr Ysgrythyr. Syrthiais dan hyn, a dywedais: 'Y mae yn wir nad wyf yn astudio nac yn myfyrio digon ar yr Ysgrythyrau; hoffwn fyfyrio ynddynt bob moment, a'm gofid yw fy mod yn methu!' Gwrthwynebai dystiolaeth yr Yspryd. Atebais, er fod llawer yn twyllo eu hunain, eto, rhoddir ateb i weddi. Yna, yr ystorm a chwythodd drosodd, a phan oedd pob peth yn dawel, gwahoddodd fi yn galonog i Sir Aberteifi." Amlwg yw fod y naill a'r llall yn meddu tymherau poethlyd, ac yn eu cyffro yn dweyd pethau caledion am eu gilydd. Prin yr oedd heddwch wedi ei adfer, pan y daeth llythyr i'r Gymdeithasfa, yn anuniongyrchol oddiwrth fyfyrwyr athrofa y dref, yn cynwys hèr i ddadl, gyda golwg ar rywbeth a ddywedasai Harris yn ei bregeth. Yn ganlynol, rhuthrodd y myfyrwyr i'r cyfarfod, ac etholasant un o'u mysg i fod yn enau drostynt mewn dadl. Yr oedd hyn yn ymddygiad tra anweddus; a chan mai pregethwyr ieuainc yr athrofa Ymneillduol oedd y nifer amlaf o honynt, yr oedd yr hyn a wnaethant yn fwy annheilwng fyth. Dywed Harris fod llawer o dymher ddrwg wedi cael ei hamlygu o'r ddwy ochr; yn neillduol o'i du ef, pan y ceryddai hwy am eu balchder. Maentymient hwy, i gychwyn, fod Harris yn dinystrio rheswm. Atebai yntau fod teimlad dwfn yn rhwym o ymddangos. "Beth," meddai, "pe bai drwgweithredwr ar y ffordd i'r crogbren yn derbyn pardwn o law'r brenhin; a mwy, yn cael sicrwydd ei fod i gael ei fabwysiadu i deulu y brenhin, ai ni floeddiai dros y lle?" Addefodd yr efrydwyr fod ei gymhariaeth yn anwrthwynebol. Yn ganlynol, dechreuodd wneyd gwawd o honynt, gan ddweyd eu bod wedi dysgu ymresymu wrth reol, a holai iddynt paham na ddygasent eu meistr gyda hwynt. Pan yr achwynent oblegyd y wawdiaeth, dywedai ei fod yn dilyn y cyfarwyddyd Ysgrythyrol, sef ateb y ffol yn ol ei ffolineb. Dywedodd, yn mhellach, ei fod yn synu at eu balchder, a'u gwaith yn ymosod ar gorph o bobl lafurus gyda chrefydd, ac mai hyn oedd yr ymosodiad agored cyntaf a wnaed ar y Gymdeithasfa. Cyhuddai un o honynt ef o ddweyd y gosodai yr Ymneillduwyr ef, pe y medrent, yn uffern. Gwadodd Harris i'r fath ymadrodd ddisgyn erioed dros ei wefusau. "Dywedais," meddai, "nas gallwn oddef i neb fychanu y gweinidogion Ymneillduol, fy mod yn meddwl yn uchel am lawer o honynt, a'm bod am heddwch. Ceryddais y dyn ieuanc, Evan William, a ddychwelasai o Ogledd Cymru, am mai efe oedd wedi cyffroi yr Ymneillduwyr yn erbyn gwaith Duw." Yn sicr, yr oedd yn syn gweled Evan William, a fuasai yn gynghorwr yn mysg y Methodistiaid, yn awr yn mysg y terfysgwyr a ruthrent i'r Gymdeithasfa. Ceryddodd ŵr ieuanc arall, yr hwn a daenasai y chwedl trwy y dref fod yr offeiriaid yn dyfod i wrthwynebu Harris a'i ganlynwyr, a bod rhagolygon golygus am derfysg. "Yr wyf yn gobeithio," meddai, "y bendithir hyn iddynt, i ddarostwng eu balchder, oblegyd teimlwn gariad at eu heneidiau."

Ar y nawfed o Fai, agorodd ysgol yn Nhrefecca, ac aeth o gwmpas y rhieni i'w cymhell i anfon eu plant yno. Yr oedd er ys rhai blynyddoedd yn adeiladu tŷ yn Nhrefecca; a oedd casglu teulu mawr yno, o wahanol gymydogaethau, er rhoddi iddynt fanteision crefyddol, yn fwriad ganddo ar hyn o bryd, sydd anhawdd ei benderfynu. Yr wythnos ganlynol, cawn ef mewn Cyfarfod Misol yn Dyserth. Adroddodd wrth y brodyr hanes y Gymdeithasfa yn Nghaerfyrddin; y gwrthwynebiad a gawsid oddiwrth yr efrydwyr; eglurodd ei ymddygiad tuag at yr Ymneillduwyr; trefnodd gyda golwg ar gael ysgol yno; a phenderfynodd fod y dydd Iau canlynol i gael ei dreulio mewn gweddi. Yr oedd yno gynghorwyr o Sir Drefaldwyn, a gawsent eu

gosod dan gerydd gan Howell Harris oblegyd eu balchder; gobeithiai allu eu derbyn yn awr; ond nid oedd eu pechod wedi ei ddarostwng; a rhaid ydoedd parhau y ddysgyblaeth. Bu gyda hwy drachefn a thrachefn yn ceisio eu perswadio; yr oedd y boreu yn gwawrio pan y rhodd y gorchwyl i fynu; a phan y methodd ei hun, anfonodd y cynghorwr Thomas James atynt. Eithr ofer a fu ymgais y ddau. Eu gwir drosedd oedd cyfeiliorni mewn athrawiaeth. Ganol mis Mai, aeth i Lundain, ac arosodd yno hyd ddechreu Gorphenaf. Yn ystod yr amser hwn, disgynodd i'w ran y gorchwyl annymunol o droi Herbert Jenkins allan o'r Cyfundeb.

Y mae y dydd-lyfr, o ddechreu Gorphenaf hyd ganol Awst, ar goll. Yr ydym yn cael Daniel Rowland a Howell Harris, Awst 19, yn teithio yn nghyd i Drefynwy, ac yn hynod gyfeillgar. Agorodd Harris ei holl fynwes iddo, gan egluro y rheswm am ddiarddeliad Herbert Jenkins, ac hefyd esbonio rhai ymadroddion o'i eiddo yn Ngogledd Cymru. Tueddwn i feddwl mai dychwelyd yr oeddynt, wedi bod yn hebrwng yr Iarlles Huntington yn ei hol i Loegr, ar ol treulio rhai wythnosau yn Nghymru. Yr oeddynt hwy eu dau, yn nghyd â Griffith Jones, a Howell Davies, wedi cyfarfod yr Iarlles yn Mryste; teithiasant trwy y rhan fwyaf o Ddeheudir Cymru yn araf; byddai rhai o'r offeiriaid yn pregethu yn y pentrefydd, trwy ba rai yr oeddynt yn myned, neu ynte, rai o'r prif gynghorwyr, a chafwyd odfaeon y cofiodd y foneddiges dduwiol am danynt hyd ei bedd. Buont yn aros am rai dyddiau yn Nhrefecca, a chafodd Griffith Jones odfa ryfedd yno ar y maes. Yn *The Life and Times of Selina, Countess of Huntington*, dywedir i'r daith hon gymeryd lle ddiwedd Mai a dechreu Mehefin. Ond yn ol dydd-lyfr Howell Harris, nis geill hyn fod yn gywir, oblegyd bu ef yn Llundain yn gweinidogaethu trwy y rhan fwyaf o Fai, a thrwy yr oll o Fehefin. Tebygol, mai diwedd Gorphenaf, a dechreu Awst, "rhwng y ddau gynhauaf," fel y dywedir, y cymerodd yr Iarlles y daith hon.

Yn ganlynol, yr ydym yn ei gael ar daith trwy Siroedd Aberteifi a Phenfro. Nis gallwn ei ddilyn o le i le, ond hyfryd gweled fod Howell Davies yn gyfaill ac yn gydymaith iddo ar ei ymweliad a Phenfro. Ac yr oedd cynulleidfaoedd aruthrol yn dyfod i'w wrando yn mhob man. Yn y Parke yr oedd mewn cyfynggyngor gyda golwg ar beth i bregethu, gan fod nifer mawr o offeiriaid yn bresenol, a llawer o Ymneillduwyr rhagfarnllyd. Ymddengys ei fod ef a'r Ymneillduwyr yn pellhau yn gyflym oddiwrth eu gilydd. Wedi ymgynghori â Duw, cymerodd yn destun, 1 Cor. ii. 2: "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." "Dangosais" meddai, "y modd yr oeddynt wedi blino Paul a'u dadleuon; ond yn awr ei fod wedi penderfynu na chaent ei flino mwy; na fyddai a fynai ychwaneg ag unrhyw wybodaeth ond Crist croeshoeliedig. Yna, arweiniwyd fi i lefaru ar ddirgelwch duwioldeb. Pwysleisiais mai dirgelwch ydyw, ai fod tu hwnt i ddadl. Yn unol a'm harfer, llefarais yn gryf parthed Duwdod Crist, ei fod yn Dduw yn y preseb, ac yn Dduw ar y groes; ac er mai y natur ddynol a ddyoddefodd, eto fod ei ddyoddefiadau yn Ddwyfol. Eglurais ei eiriau gyda golwg ar ei fod yn israddol i'r Tad, ac yn gydraddol ag ef. Cyfeiriais at y lleidr yn gweddïo ar y Dyn hwn, iddo fentro ei enaid arno, gan ei weled yn Oruchaf Lywodraethwr, ac yn Dduw ar y tragywyddoldeb i ba un yr oedd ar gymeryd naid. Ni ddarfu iddo yntau wrthod y weddi, ond atebodd hi gyda mawrhydi teilwng o Dduw. Cyfeiriais at Stephan yn gweddïo arno. Dangosais, nid yn unig ei fod ef—y Dyn hwn—y Person hwn—yn Dduw, ond ei fod yn Dduw tragywyddol; mai efe yw yr unig Dduw, mai efe a wnaeth y bydoedd, ac nad oes yr un Duw arall ar wahan nac uwchlaw iddo; ein bod yn credu yn y Duwdod, yn ol credoau Athanasius, Nicene, a'r Apostolion, fod tri o gyd-dragywyddol Bersonau, ond nad oes ond un Duw; ac mai yr un Duw hwn yn mherson y Mab a ddaeth yn ddyn, ac a roddodd ei fywyd i lawr. Yna, troais atynt, a gofynais ai nid oeddynt yn gwneyd tri Duw? Ac ai nid oeddynt yn myned heibio iddo at Dad, yr hwn a ystyrient yn fwy nag ef? Dangosais nad oedd y fath Dad, oddiwrth ei ymadrodd ef ei hun wrth Phylip; ac nad oes na mwy na llai, na chynt na chwedin, yn y Duwdod; a bod yr hwn sydd yn gweled y Mab yn gweled yr oll o'r Duwdod, yr hwn a leinw bob lle, a phob peth ar unwaith. Yn awr, os mai efe yw yr unig Dduw, ac os nad oes ond efe, ai nid oes rhai o honoch wedi bod yn addoli Duw dyeithr, ïe, yn addoli llun a delw yn eich deall? Yr ydych yn pasio heibio y Duw byw, i addoli hwn, y duw

dychymygol yma a elwch yn Dad. Yr oeddwn yn gryf ar hyn, er y rhaid i mi arfer pob tynerwch at bawb, eto fod yn rhaid i mi sefyll wrth y gwaed hwn." Yr ydym yn cofnodi ei sylwadau yn helaeth, er dangos natur ei olygiadau. Yna aeth yn mlaen i ddangos ei berthynas a'r Ymneillduwyr, ei fod yn eu parchu, ac yn pregethu yn eu capelau; mai ei holl amcan oedd eu dyrchafu at Dduw; nad oedd y Methodistiaid yn bwriadu gosod i fyny blaid, mai yn yr Eglwys Sefydledig yr oeddynt wedi eu galw. Cyfeiriodd hefyd at ryw lythyr a daenid trwy Gymru a Lloegr gyda golwg arno, yr hwn a gynwysai gyhuddiadau hollol anwireddus.

Yr oedd y wasg Saesnig yn tywallt allan bob math o lysnafedd ar y Methodistiaid yr adeg hon. Mewn un pamphledyn, dywedid eu bod yn gwneyd eu canlynwyr yn wallgof; ddarfod i amryw o honynt yn Nghymru gyflawni mwrddradau, a'u bod yn hongian mewn gefynau ar y pryd. Desgrifid Whitefield fel un a melin wynt yn ei ben, ac fel yn myned o gwmpas y byd i geisio rhywun y gallai daro ei ymenydd allan. Ond Griffith Jones, Llanddowror, a enllibid waethaf o bawb. Honai ysgrifenydd arall, yr hwn, fel y mae'r gwaethaf, oedd ŵr dysgedig, fod Methodistiaid Cymru yn arfer godineb, ac na ystyrid puteindra yn bechod ganddynt o gwbl. Dywedai, yn mhellach, fod y pregethwyr Methodistaidd yn peri i'r aelodau gyffesu eu pechodau iddynt, a bod un o honynt, Will Richard, wrth ei enw, a chobler wrth ei gelfyddyd, pan fyddai yn maddeu pechodau un, yn estyn iddo ddarn o bapyr, gan sicrhau y cyfryw y gwnelai y papyr agor drws y nefoedd iddo. Nid annhebyg y cyfeiriai Harris at un o'r rhai hyn.

Boreu dranoeth, derbyniodd lythyr oddiwrth ddau weinidog Ymneillduol, gyda golwg ar ei bregeth y noson cynt. Gwelai y rhaid iddo ddyoddef oblegyd ei weinidogaeth. Aeth i lawr i ymddiddan â hwynt. Dywedodd un o honynt, Thomas Morgan, wrth ei enw, nad oedd y Dyn a ddyoddefodd yn Dduw tragywyddol. Oblegyd yr ymadrodd hwn galwodd Harris ef yn heretic, a dywedodd y gwnai bregethu yn ei erbyn hyd at waed, ond os galwai ei eiriau yn ol, neu yr addefai ei fod yn ddall, y gwnelai yntau fod yn ddystaw hyd nes y caffai ef (Thomas Morgan) oleuni pellach oddiwrth Dduw. "Dywedais ei fod yn fater cydwybod genyf," meddai, "ac y rhaid i mi ymdrechu drosto hyd at waed, mai efe yw y Duw tragywyddol. Dangosais iddynt eu hanwybodaeth, ac na all neb adnabod Crist ond yn ngoleu yr Yspryd Glân; fod yr undeb rhwng y ddwy natur yn Nghrist yn dragywyddol, ac felly mai y cabledd a'r digywilydd-dra mwyaf yn fy ngolwg i, oedd dweyd ei fod yn cyflawni unrhyw beth, neu yn dyoddef fel dyn, ac nid fel y tragywyddol Dduw." Datganai ei obaith y llewyrchai gogoniant y Person hwn yn mysg yr Ymneillduwyr. Ymadawsant yn y diwedd yn hapus; gair diweddaf Howell Harris wrthynt ydoedd: "Peidiwch gwneyd mân wahaniaethau deillion; fflamiwch ar led ogoniant y Dyn hwn, ac yna mi a ddymunaf i chwi ffawd dda." Oddiyma dychwelodd trwy Lacharn, Caerfyrddin, Pontargothi, Capel Llanlluan, Llandremore, Abertawe, Gelly-dorch-leithe, a'r Hafod, gan gyrhaedd Trefecca ar y 24ain o Fedi. Cafodd gynulleidfaoedd anferth yn mhob man, ac ymddengys fod cryn arddeliad ar ei weinidogaeth. Dirgelwch Crist, ac agosrwydd undeb y ddwy natur ynddo, fel yr oedd y ddynoliaeth yn cael ei dwyfoli fel rhan o'r Person; dyna oedd y mater y pregethai arno yn mhob man, er y byddai yn amrywio ei destynau.

O Medi 25 hyd Rhagfyr 18, y mae y dydd-lyfr ar goll, felly nis gallwn gael unrhyw wybodaeth am ei lafur yn ystod y cyfnod hwn. Dranoeth i'r Nadolig, cynhelid Cyfarfod Cyffredinol—felly y geilw Harris ef—yn Nhrefecca. A ydoedd yn Gymdeithasfa reolaidd, nis gwyddom; ond nid oes grybwylliad fod yr un o'r offeiriaid yn bresenol. Agorwyd y cyfarfod gyda phregeth gan Harris, ar yr angelion yn ymweled a'r bugeiliaid pan anwyd Crist. Nid yw yn ymddangos fod llawer o drefn ar y bregeth; aeth ar draws lliaws o faterion; dywed iddo lefaru am dair awr, a bod cryn lawer o nerth yn cydfyned a'r genadwri. Fel arfer, ymhelaethodd ar ddirgelwch Crist, gan brofi mai efe oedd y gwir a'r tragywyddol Dduw; nad oes yr un Duw uwchlaw iddo, a bod y Drindod trwy yr undeb sydd yn y Duwdod yn preswylio ynddo. Dangosodd ei Ddwyfol ymostyngiad yn preswylio yn mru y wyryf, ac yn cymeryd ein natur ni, a thrwy hyn, ffurfio y fath Berson na welwyd ei gyffelyb erioed o'r blaen. Yna, cyfeiriodd at yr Ymhonwr, gan ddatgan nad oedd arnynt awydd am un brenin i lywodraethu dros eu cyrph ond y brenhin George; ond fod y Brenhin Iesu uwchlaw

iddo ef. "Awn lle y mynwn," meddai, "ni a fyddwn yn nheyrnas yr Iesu. Pan yr oedd y gwaith hwn yn cychwyn, creodd Satan wrthwynebiad iddo ; eithr daeth i'r dim. P'le mae Satan yn awr?" Yn y seiat a ddilynai, bu yn dra llym wrth y proffeswyr am nad oeddynt yn dwyn ffrwyth. Dywedai ei fod wedi talu ardreth yr ystafell yn Nhrefecca ei hun am gryn amser ; na ddaeth neb ato i ofyn sut yr oedd yn gallu fforddio ; ei bod yn ddigon iddo ef bregethu y Gair iddynt heb roddi ystafell yn ogystal ; ai fod wedi cynhal ysgol yn y lle am amser ar ei draul ei hun. Condemniodd hwy am beidio cydymdeimlo a'u brodyr, gan ddweyd fod rhai o'r cynghorwyr yn dlodion, ac mewn perygl o gael eu hanfon i'r carchar. "Beth a fyddai i gynifer o seiadau eu cynorthwyo?" meddai. Gallwn feddwl fod ei eiriau yn cyrhaedd i'r asgwrn. Buont yno hyd ddau o'r gloch y boreu, a Harris yn dangos i'r brodyr eu diffygion. Yna, trefnwyd amryw faterion. Bu achos James Beaumont dan sylw, yn yr hwn yr oedd yspryd cyfeiliorni wedi ymaflyd. Dadleuai Harris yn erbyn ei droi allan, eithr ymddwyn ato mewn modd efengylaidd, yn y gobaith y byddai i Dduw ei ddwyn i'r iawn. Cyn diweddu, daeth y dylanwadau nefol i lawr yn helaeth ; llamai y brodyr gan faint eu llawenydd ; a chwedi bod yn canu ac yn bloeddio concwest, yr oedd yn bump o'r gloch y boreu ar Howell Harris yn myned i'w wely.

Y mae yn debygol fod Harris yn fwy rhydd i'r gwaith yn Nghymru yr haner olaf o'r flwyddyn 1748 nag y buasai am gryn amser yn flaenorol, gan i Whitefield, ar ol bod yn yr Amerig am bedair blynedd a haner, ddychwelyd i Lundain ddechreu Gorphenaf. Yn y Gymdeithasfa a gynhelid yn Llundain, Gorphenaf 20, 1748, Whitefield a lywyddai. Fel math o isgadben dan Whitefield, yr edrychai Harris arno ei hun yn ei berthynas a'r brodyr Saesnig. Nid oedd Whitefield, modd bynag, yn hollol barod i gymeryd ei le fel cynt yn eu mysg. Dywedai fod y fath annhrefn wedi dod i mewn i'w plith, trwy fod y pregethwyr ieuainc yn myned tu hwnt i'w terfynau priodol, fel nas gwyddai beth i'w wneyd. Y mynai glywed o wahanol gyfeiriadau cyn gwneyd ei feddwl i fynu, ond ei fod yn benderfynol o beidio cydlafurio â neb na ddangosai barodrwydd i gymeryd ei ddysgu, ac i fod tan ddysgyblaeth. Nid oedd, meddai, yn awyddu am fod yn ben, ond y rhaid iddynt (y pregethwyr ieuainc) adnabod eu lle, ac edrych arnynt eu hunain fel ymgeiswyr ar brawf, ac arno yntau fel tad arnynt, onide na ddaliai gysylltiad â hwynt. Mewn canlyniad i'r araeth hon, plygodd y brodyr, a dywedasant eu bod am ymostwng yn gyfangwbl iddo, a defnyddio pob moddion i gynyddu mewn defnyddioldeb. Cymerodd dyfodiad Whitefield ran o faich Harris oddiar ei war ; a diau fod cynghor a chydymdeimlad cyfaill mor ddiffuant, yn falm i'w enaid yn y treialon trwy ba rai yr oedd yn pasio.

# PENOD XV.

——:o:——

## HOWELL HARRIS

## (1749-50).

*Harris yn amddiffyn James Beaumont—Dyledswyddau y goruchwylwyr—Harris yn beio seiat y Groeswen am ordeinio brodyr i weinyddu yr ordinhadau—Ei syniad am athrofa—Taith i Sir Drefaldwyn—Ymweliad arall a Llangeitho—Ymheddychu a'r Parch. Price Davies—Taith arall trwy Benfro, Caerfyrddin, a Morganwg—Parotoi at ymraniad—Harris yn ymosod ar yr offeiriaid—Pregeth nerthol yn y Groeswen—Howell Harris a Price, o'r Watford—Ffrwgwd parthed troi y goruchwylwyr allan yn yr Aberthyn—Cymdeithasfa Llanidloes—Dim yn bosibl bellach ond ymraniad.*

BOREU y dydd cyntaf o'r flwyddyn 1749, cawn Howell Harris yn deffro yn Aberedw, lle y cyrhaeddasai o gwmpas un-ar-ddeg y nos flaenorol, ar ei ffordd i Gymdeithasfa Fisol Llanfair-muallt. Y mae ei brofiad wrth fyned o Aberedw i Lanfair yn haeddu ei gofnodi. "Cefais ddychryn yn fy nghalon," meddai, "rhag colli gwedd wyneb Duw; llefais yn fwy nag y gwnaethum erioed: 'O Arglwydd, yr wyf yn ofni dy ŵg yn fwy nag uffern! Y mae arnaf fwy o ofn colli gwedd dy wyneb, rhwystro dy waith, a thristhau dy Yspryd, nag unrhyw erledigaeth. Os gwgi di, pwy all fy nghysuro?' Teimlwn yn fy enaid ofn cael doniau, llwyddiant, a nerth, rhag na roddwn yr holl ogoniant i'r Arglwydd." Yn Llanfair, pregethodd ar Luc ii. 5. Gwedi y bregeth, yr oedd seiat i'r holl aelodau. Yma yr oedd yn dra llym wrth y rhai oeddynt yn byw mewn pechod, gan ddangos iddynt fod Duw yn eu canfod, ac y gwnai eu datguddio, oni edifarhäent. Ceryddai y rhai oeddynt yn ddifater am gymdeithas a'r Arglwydd, ac yn edrych ar bechod yn fach, gan fod eu cydwybodau wedi eu halogi; ond cysurai y rhai oeddynt yn ddrylliog o herwydd eu beiau, gan fod yn barod i'w gadael. Dywedodd wrthynt mai plant y wraig rydd, sef Sarah, oeddynt, a'u bod yn perthyn i'r Jerusalem newydd. Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa, daeth achos Beaumont i fynu drachefn; yr oedd llawer o'r cynghorwyr am ei droi allan, oblegyd heresi; ond nis gallai Harris gyduno; credai na fyddai Duw yn foddlon i hyn ar y pryd, a bod yr awydd yn codi oddiar rhagfarn y cynghorwyr. Dywedai wrthynt y gwyddai fod Beaumont yn blentyn Duw, a'i fod yn fwy ei ddawn na hwy, ac mai eu balchder oedd y rheswm am eu parodrwydd i'w ddysgyblu. Llwyddodd yn y diwedd i'w gadw i mewn. Yr oedd Howell Harris yn gyfaill diffuant. Yna, ymhelaethodd ar natur y gwaith; y modd yr oedd yn teimlo y treialon a'r beichiau perthynol iddo yn anrhydedd. Yn nesaf, aeth i Glanirfon, ffermdy yn nghymydogaeth Llanwrtyd. Pregethodd yma am y nefoedd, ac am y farn. Nis gwyr pa sut y llefarodd, ond daeth yr Arglwydd i lawr, a boddwyd ei lais yn Hosanah y gwrandawyr.

Ionawr 3, y mae yn Llwynyberllan, ac yn y seiat breifat, cynghora yr aelodau i sefydlu ysgol Gristionogol—ysgol Griffith Jones, yn ddiau—ar unwaith. Ymddengys fod hyn yn genhadaeth arbenig ganddo y pryd presenol. Anoga hwy hefyd i gyfranu rhyw gymaint i'r Arglwydd yn wythnosol. Yn Llansawel, cyfarfyddodd a dyn ieuanc o ysgolfeistr, i'r hwn yr eglurodd y modd priodol o addysgu, sef cyfeirio llygaid y plant yn mlaenaf oll at Dduw, plygu eu hysprydoedd dan iau Crist, a'u hyfforddi yn ngwahanol ganghenau moesoldeb, yn gystal ag yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Wedi pregethu ar enedigaeth Crist, cadwyd seiat breifat. Yma ymdriniodd ag addysg plant, yr angenrheidrwydd am sefydlu ysgol Gristionogol, y pwys i'r aelodau i fod yn ddarostyngedig i'w hathrawon, a cheryddodd hwy yn llym am na pharchent James Williams, eu harolygwr, fel yr oeddynt yn ei barchu ef, a Daniel

Rowland. Cyn terfynu, modd bynag, trodd at bethau mwy cysurlawn, ac aeth yn ganu ac yn folianu dros y lle. Oddiyma aeth i Glanyrafonddu, a dywed iddo lefaru y dydd hwnw saith o weithiau, rhwng pregethu ac anerch seiadau. Teithiodd trwy Langathen, Llanegwad, a Glancothi, gan gyrhaedd Caerfyrddin erbyn y Gymdeithasfa Fisol, a gynhelid yno Ionawr 5. Ofnai fod treialon dirfawr i'w gyfarfod yma, ac aeth at yr Arglwydd am gymhorth. Ymweliad yr angelion a'r bugeiliaid ar feusydd Bethlehem, oedd pwnc y bregeth agoriadol yn Nghaerfyrddin; ond nid yw yn ymddangos ei fod yn cadw yn glos gyda ei destun. "Cefais lawer o awdurdod," meddai, "i geryddu pechod, i ddangos yr angenrheidrwydd am edifeirwch, ac i rybuddio y rhai a ymdroent mewn anwiredd. Yr oeddwn yn arswydlawn wrth draethu am hollwybodaeth Duw, ac am ei fygythion, a'i wiail." Gyda ei fod yn gorphen pregethu, a chyn i gyfarfod neillduol y Gymdeithasfa ddechreu, deallodd fod ei was wrth y drws, yn dwyn y newydd galarus fod ei ferch fechan —yr anwylaf, y brydferthaf, a'r ffelaf o fewn y byd, yn marn ei thad—wedi marw. Aeth at yr Arglwydd ar ei union i ofyn am gyfarwyddyd; datganai ei barodrwydd i fyned yn y blaen ar ei daith, a gadael i'w wraig gladdu y marw, os mai hyny oedd yr ewyllys ddwyfol. Cafodd ateb, am iddo drefnu y materion perthynol i'r Gymdeithasfa, a dychwelyd tranoeth. Hyny a wnaeth. Dangosodd le y brodyr, a'i le ei hun; fod rhyw Moses neu gilydd, llawn o awdurdod, yn barhaus yn yr eglwys; fod ei fantell yn disgyn oddiar ei ysgwyddau wrth fyned i'r nefoedd; eithr fod rhywun arall yn barhaus yn ei chael, a bod dawn ac awdurdod yr apostolion yn perthyn i rywun yn awr, oblegyd fod yr un angenrheidrwydd am danynt. Braidd nad oes yma fwy nag awgrym mai Harris a wisgai y fantell ar hyn o bryd. Anogodd y cynghorwyr i ymwadu â hwy eu hunain, ac i feddu undeb yspryd a chalon. Bu yma lawer o ganu a molianu. Cychwynodd tua Threfecca am dri o'r gloch boreu dranoeth, a chyrhaeddodd yno, pellder o driugain milltir, erbyn yr hwyr.

Dydd Mercher, Ionawr 12, cychwyna i daith arall. Yr oedd yn nos, ac yn enbyd o dywyll arno, cyn cyrhaedd Cantref, wrth draed Bannau Brycheiniog; rhuai y gwynt yn ofnadwy, y gwlaw a ddisgynai fel rhaiadr, ac yr oedd y teithiwr blin yn oer, ac yn wlyb. Ond ni theimlai y gronyn lleiaf o anghysur. "Gwnaeth yr Arglwydd y tywyllwch a'r dymhestl yn felus i mi," meddai, "gwelwn fy hun y dyn hapusaf o fewn y byd; ni newidiwn sefyllfa a'r mwyaf cyfoethog." Tranoeth, pasiodd trwy y Glyn, a Blaen-Glyn-Tawe, gan gyrhaedd Gelly-dorch-leithe, ffermdy pur fawr yn nghymydogaeth Castellnedd, erbyn yr hwyr. Ar y ffordd, myfyriai ar fawredd ei ragorfreintiau, ac ar ogoniant Duw, y Tri yn Un wedi ymgnawdoli. Dydd Gwener, pregethodd yn Llangattwg, oddiar 1 Ioan iii. 8; dangosodd fawredd y prynedigaeth, i Dduw greu y byd mewn chwe' diwrnod, ond iddo fod bedair mil o flynyddoedd yn parotoi ar gyfer gwaith yr iachawdwriaeth. Yna, aeth at ei hoff bwnc, dirgelwch y ddwy natur yn Nghrist. Cynhelid Cymdeithasfa Fisol yma, eithr cyn iddi ddechreu, clywodd Harris newyddion tra anghysurus, sef fod rhywrai a adwaenai mewn dyled, a bod gŵr o ddylanwad wedi bod yn rhedeg y Methodistiaid i lawr, gan ddweyd eu bod yn dyfod i'r dim; a'i fod ef, Harris, wedi cyfnewid. Disgynodd hyn yn drwm arno; ond, fel arfer, aeth a'i faich at yr Arglwydd ar ei union. Yn y cyfarfod neillduol, anerchodd y cynghorwyr a'r aelodau yn ddwys, parthed darllen yr Ysgrythyrau, a'u gwneyd yn rheol yn mhob dim; am wneyd casgliadau yn fwy cyson; am aberthu hunan, a dywedai ei fod ef yn ddiweddar wedi ymwrthod a chan' punt yn y flwyddyn. Anogodd hwy i fod yn ffyddlawn i'r goleuni oedd ganddynt. "Nid wyf yn eich gweled ond dim o flaen y diafol," meddai, "os pechwch Dduw ymaith." Teimlodd undeb anarferol a'r holl frawdoliaeth. Pasiodd trwy Nottage, lle y pregethodd ar Grist wedi dyfod i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid; a'r Hafod, lle y bu yn dra llym wrth y proffeswyr cnawdol; a Chefncribwr, lle y cafodd nerth na chawsai ei gyffelyb o'r blaen, i anog am roddi iau Crist yn drom ar yddfau y Cristionogion ieuainc. Dydd Llun, yr oedd yn Llantrisant. Dywed ei fod yn gwisgo y dillad gwaelaf o'i holl frodyr, ac yn marchog y ceffyl salaf, ond ei fod yn hollol foddlawn. Yna, cadwai seiat breifat, ac anogai yr aelodau i beidio ymgyfathrachu gormod a'r Ymneillduwyr, y rhai oeddynt yn farw i Dduw, i raddau mawr, ac wedi ymroddi i ffurfioldeb, ond heb ddim awdurdod i gadw y byd a hunan allan. Yna, eglurodd drefn y Methodistiaid, a'i le ei hun.

Gwelai fod yr Arglwydd yn ei gymhwyso fwy fwy ar gyfer ei le, gan fyned gydag ef, a gwneyd pob peth erddo. Dydd Mawrth, ymwelodd a St. Nicholas. Yma, anogai hwy i ranu eu heiddo yn dair rhan; un i dalu eu dyledion cyfiawn, y rhan arall i gynal eu rhieni a'u teuluoedd, a'r rhan arall mewn gwneuthur daioni, yn nghylch yr hyn y dylent ymgynghori a'r Arglwydd. Wrth weddïo ar y terfyn, daeth Duw i lawr mor amlwg, fel y boddid llais y pregethwr gan floeddiadau y dorf. Cyn ymadael, bu mewn ymgynghoriad a'r pregethwyr a'r goruchwylwyr. Dangosodd y cymhwysderau angenrheidiol yn y goruchwylwyr, sef eu bod yn adnabod Duw, ac yn cael cymdeithas ag ef, er gwybod ei ewyllys; a'u bod yn gynefin a themtasiynau, er mwyn bod yn feddianol ar amynedd. Eu gwaith ydoedd: (1) Derbyn yr holl gasgliadau, cadw cyfrif o honynt, a dwyn y swm i'r Gymdeithasfa Fisol. (2) Gofalu am y drws yn y gynulleidfa, arwain dyeithriaid i'w lleoedd, a chadw y plant a'r cŵn yn ddystaw. (3) Edrych ar ol y cleifion a'r tlodion. (4) Sylwi ar y rhai ydynt yn mynychu y moddion, a thori atynt i siarad â hwynt. (5) Edrych am y rhai absenol, a gweled a ydynt wedi syrthio, neu yn tueddu at ysgafnder. Yna, eglurodd nad oedd y Methodistiaid ond rhan o gorph Crist; fod y Wesleyaid, y Morafiaid, a'r Ymneillduwyr yn perthyn iddo yn ogystal. Cadwer mewn cof, mai y rhai a alwn ni yn flaenoriaid, a adwaenid yn amser Harris fel goruchwylwyr, neu stewardiaid seiat.

Yn nesaf, aeth i Aberddawen; ei destun yma ydoedd: "Dysgwch genyf." Oddiyno i Dinas Powis, lle y pregethodd oddiar: "Cymerwch fy iau arnoch." Yn y Groeswen, pregethodd am dair awr; dechreuai am wyth, a pharhaodd hyd un-ar-ddeg. Ar derfyn yr odfa, cadwodd seiat breifat am chwech awr yn mhellach, sef hyd bump. Felly y dywed ef ei hun. Ymddengys fod nifer mawr o'r gwahanol seiadau wedi ymgasglu i'r Groeswen, er na chynhelid yno Gymdeithasfa reolaidd, a chymerodd yntau fantais i osod mewn trefn y pethau a ystyriai allan o le yn mhob un. Dechreuodd gyda Llantrisant, gan alw yr aelodau yn mlaen, a'u trin yn llym am yr annrhefn oedd yn eu mysg, yr anngharedigrwydd, a'r diffyg gofal am ogoniant Duw. Dywedai fod yr Arglwydd yn eu bendithio tra y byddent yn unol, ond pan y byddent yn cweryla, eu bod yn tori ei galon. Yna, aeth i weddi ar eu rhan, a chafodd afael ryfedd; daeth Duw i lawr, gan eu darostwng yn isel, ac yn y diwedd cawsant oruchafiaeth. Gwedi hyn, gosododd ddwy seiat arall mewn trefn, ni ddywed beth oedd allan o le ynddynt. Yn ganlynol, rhoddodd gynghorion cyffredinol, gan eu hanog i ddyfod i'r Cyfarfodydd Misol, y rhai a esgeulusid yn mron yn gyfangwbl ganddynt. Dywedodd fod yn rhaid iddynt adael pob peth, fel yntau, a'i fod yn benderfynol o wasanaethu y rhai a feddent yr un ffydd ag efe, gan fod yn farw iddynt eu hunain, heb ofalu beth a fwytaent, na pheth a wisgent, na phwy fyddai yn uchaf, na phwy yn isaf. Ei fod yn ei theimlo yn anrhydedd cael bod yn wlyb hyd ei groen, cael ymdreulio, a bod ar ei eithaf, a chael ei gashau gan bawb oblegyd yr efengyl; yr ai i ddaeargelloedd am flynyddoedd, ïe, y dyoddefai angau er eu mwyn. Dywedai, yn mhellach, ei fod yn gwneyd yr oll a wnelai bron yn ddidâl, y gallai deithio can' milltir heb fod neb yn holi pa fodd yr oedd ei amgylchiadau; ond fod llawer yn dyfod ato am gymorth mewn cyfyngder, gan gredu ei fod yn gyfoethog, am y llanwai y fath le yn mysg y Methodistiaid, a bod cynifer o seiadau dan ei ofal. Gwasgoddd arnynt am gymeryd achos Crist at eu calonau; rhoddodd ger eu bron achos y capel newydd yn Llanfair-muallt, ac anogodd hwy i gasglu at achos Duw yn wythnosol. Atebodd rhywun nas gallent gyfranu, eithr rhoddodd Harris wers iddo nad anghofiai am dro. Dywedodd fod pawb i gyfranu, hyd yn nod y tlodion, gan gyfeirio at ddwy hatling y wraig weddw; eu bod oll yn rhan o'r Corph; eu bod yn pechu wrth feddu, oddigerth eu bod yn meddianu yn Nuw, ac nad oes dim ffrwyth yn gymeradwy, hyd yn nod pe y caffai ei olchi yn ngwaed Crist, oni fydd yn ffrwyth Yspryd Duw. Wedi gorphen y seiat, bu yn anerch y cynghorwyr a'r goruchwylwyr yn gyffelyb i fel y gwnaeth yn St. Nicholas, gan ddangos iddynt eu gwahanol ddyledswyddau. "Gelwais hwy oll yma i gyfrif am gyfranu y sacrament yn y tŷ hwn (Groeswen), gan ei fod yn dal cysylltiad a'r holl Gorph, heb ymgynghori â ni oll. Dywedais, os aent yn y blaen fel hyn, y dyoddefai y gwaith, ac y gwnawn i eu gadael. Dangosais fy mod wedi dyfod i symud yr hyn oedd rhy drwm iddynt, ac i'w cadarnhau. Rhoddais gynghorion iddynt parthed dysgyblaeth, ac eisteddasom

yn nghyd hyd wyth; yr oeddwn wedi bod yn y gwaith am ddeuddeg awr, heb gael dim i fwyta nac i yfed."

Cyfarfod rhyfedd oedd hwn, yn ddiau. Ceir yma gryn gadarnhad i'r traddodiad mai ar anogaeth Daniel Rowland yr ordeiniwyd rhai i weinyddu y sacramentau gyntaf yn y Groeswen; y mae cwyn Harris, na ddylasent gymeryd y fath ryddid heb ymgynghori â hwy *oll*, yn awgrymu yn bur gryf ddarfod iddynt ymgynghori a rhywun, neu rywrai. Ac â phwy y gwnaethent, ond â Daniel Rowland? Dengys yn amlwg, hefyd, fod y peth yn gwbl groes i farn a theimlad Howell Harris; efe a lynai dynaf wrth yr meddygol, yn ogystal a duwinyddiaeth hanesiaeth eglwysig, a dadleuon athraw iaethol. Siaredais yn rhydd ag ef an natur y gwaith, y modd y mae yn mynei yn ei flaen gyda nerth, a'r modd y dylen ddefnyddio rhyw foddion er diwyllio y pregethwyr, a chael coleg, er dwyn i fyn ddynion ieuainc blaenllaw i'r weinidogaeth Yr oeddwn hefyd yn credu fod Mr. White field yn rhy benderfynol, pan yr honai foc gwybodaeth o Ladin yn hanfodol." Dyma yr hedyn a blanodd Richard Tibbot, yı ei lythyr at y Gymdeithasfa, parthec addysgu y cynghorwyr, yn awr yn ffrwyth yn meddwl Howell Harris. Gwelir y fatl goleg a fwriadai, sef sefydliad lle y bydda



CAPEL ABERTHYN, GER PONTFAEN, YN MHRO MORGANWG.
[*Adeiladwyd yn y flwyddyn 1749.*]

Eglwys o bawb. Y mae ei fod yn cael rhyddid i ddyfod yno, i bwyntio allan iddynt eu dyledswyddau, ac hyd yn nod i'w ceryddu am yr hyn a dybiai oedd allan o le ynddynt, yn brawf diymwad fod cynulleidfa y Groeswen lawn mor Fethodistaidd gwedi yr ordeiniad a chyn hyny. Dranoeth, yn Watford, cafodd ymddiddan nodedig o ddyddorol a'r brawd Thomas Price. "Dangosais iddo natur ein lle," meddai, "fod y fath gorph o bobl yn dibynu arnom, ac yn dal perthynas plant â ni; y dylem, er eu mwyn, fod yn rhyw gymaint o gyfreithwyr, ac o feddygon, yn gystal ag o dduwinyddion, ac o dadau; ac y dylem ddarllen llyfrau cyfreithiol a elfenau meddyginiaeth, ac egwyddorion y gyfraith wladol, yn ogystal a gwahano adranau duwinyddiaeth, yn cael eu dysgu Rhoddai bwys ar y pethau blaenaf, an fod llawer o'r dychweledigion yn dra an wybodus ynddynt, ac yn dibynu yn gyfan gwbl am oleuni ac arweiniad ar y rhai ystyrient yn dadau crefyddol. Teithiod trwy Fair Oak a Redwick; daeth galwa sydyn arno i ddychwelyd i Drefecca; eith yr oedd yn ei ol yn y Goetre, dydd Mawrth Ionawr y 24, wedi teithio trwy gydol y nos. "Cyrhaeddais yma am dri o'r glocl y boreu," meddai, "gorphwysais am ddw awr yn fy nillad; yr oedd yn rhaid i m fyned yn y blaen i gyfarfod Mr. Whitefiel

yn Nghaerloyw; gan fod gwaith y Brenhin yn galw am frys a phenderfyniad."

Nid oes genym hamdden i adrodd hanes Cymdeithasfa y brodyr Saesnig yn Nghaerloyw; ond y mae yn amlwg fod Harris yn edmygydd diderfyn o Whitefield, ac yn ei garu yn angerddol. "Cefais y fath olwg ar Mr. Whitefield," meddai, "ag a wresogodd fy nghalon ato yn fawr, gan fod yr Arglwydd, a'i gariad, yn trigo ynddo. Yr oeddwn yn ei garu yn ddirfawr, ac yn llawenychu fod y fath ddyn wedi ei eni." Ar y chwechfed o Chwefror, yr oedd Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca, yr hon a agorwyd gan Howell Harris gyda phregeth rymus, oddiar y geiriau: "Y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd a fyddant fel mynydd Seion, yr hwn ni syflir." Nid yw yn cofio ddarfod iddo gael y fath odfa o'r blaen, yr oedd yr Arglwydd mewn gwirionedd yn eu mysg. Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa trefnwyd teithiau y brodyr, lleoedd y Cyfarfod Misol, a goruchwylwyr ar y gwahanol seiadau. Anogodd y brodyr ieuainc, hefyd, i ddod unwaith yr wythnos, yn awr ac yn y man, i Drefecca, i gael gwersi. Pwy oedd i'w haddysgu, ni ddywedir, ac nid ydym yn gwybod i ba raddau y rhoddwyd yr anogaeth mewn gweithrediad. Cofnoda, hefyd, fod y brawd William Griffiths, o Sir Gaernarfon, yn bresenol.

Dydd Llun, Chwefror 14, cawn ef yn cychwyn am daith i Siroedd Maesyfed a Threfaldwyn. Pregethodd yn Erwd y nos gyntaf ar natur ffydd. Dranoeth, yn Llanfair-muallt, ei destun ydoedd: "Ys truan o ddyn ydwyf fi." Yn y seiat breifat a ddilynai, yr oedd amryw gynghorwyr yn bresenol, a chymerodd yntau fantais ar y cyfleustra i ddangos y fath anrhydedd iddynt oedd cael gwasanaethu yr Arglwydd. "Dywedais wrthynt," meddai, "am y cynyg a gefais ar le gwerth can' punt yn y flwyddyn, lle y gallaswn wisgo coler hardd, gyda *lace* aur; nad oedd dim yn fy rhwystro ond cydwybod. Gyda gwaith yr efengyl yr wyf yn aml yn wlyb hyd y croen, ac yn oer. A ydwyf yn grwgnach? A ydwyf yn ei theimlo yn galed? Na, na; yr wyf yn synu fy mod yn cael fy anrhydeddu mor fawr." Yna, cyfeiriodd at y casgliad wythnosol, y dylent roddi, nid pob un geiniog, ond pob un yn ol ei allu; ac anogodd y gweithwyr, pan yn gwneyd cytundeb a'u meistriaid, ar iddynt gadw amser at waith Duw. Yn Llansantffraid, ei destun ydoedd: "Byddwch lawen yn wastadol." Yn y seiat breifat, dangosodd fod rheol Gair Duw, ac esiampl yr Arglwydd Iesu, yr un. Fod dadleu am y gwahaniaeth rhyngddynt yn debyg i ddadleu ar y gwahaniaeth rhwng fod un a dau yn gwneyd tri; neu ynte fod dau ac un yn gwneyd tri. Anogodd hwy i fod yn rhydd oddiwrth bartïaeth, ac am dderbyn yr holl bregethwyr, beth bynag a fyddai eu doniau, yr un fath. Yn Dolswydd, yr oedd Beaumont yn gwrando arno, ac aeth y ddau yn nghyd i Lwynhelyth. Ei destun yn Mochdref oedd: "O Israel, ti a'th ddinystriaist dy hun," a chafodd odfa dyner. Mynegodd ei fod wedi gadael dau cant o bunoedd y flwyddyn er mwyn y gwaith; ac y gwnelai hyny eto. Dangosodd y fath waith oedd Duw yn gario yn mlaen, ac nad oedd ond dechreu yn awr; mai yr hyn a wnelai yn benaf yn bresenol oedd symud y drain a'r mieri o'r ffordd; fod uffern wedi ymgynhyrfu yn ofnadwy yn erbyn y gwaith hwn ar ei gychwyniad, ond nas gallai ei ddinystrio; mai eiddo yr Arglwydd oedd yr oll a feddent; pan y rhoisant eu hunain i Dduw iddynt roddi eu meddianau yn ogystal; nas gallent ei alw yn ol mwy, ac nad oeddynt am hyny. Cawn ef yn Berriw dydd Gwener; pwnc y bregeth oedd, y mab afradlon. Yn Llanllugan, pregethai yn nhŷ un Richard Thomas; "Gwir yw y gair," oedd ei destun; ac ar y terfyn cafodd ymddiddan tra dyddorol â Lewis Evan, yr hwn a gawsai ei ollwng yn rhydd o garchar Dolgellau, am natur balchder. Dydd Sadwrn, cawn ef yn Llanfair-careinion; Eph. ii. 8, oedd ei destun; a chyhoeddai i'r bobl nad oedd un gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'r damnedigion ond a wnelai gras Duw, ac eto, mor anniolchgar ac anffrwythlawn oeddynt hwy wedi bod. Yr oedd awdurdod a nerth yn cydfyned a'i genadwri. Yn Blaen Carno, pregethai ar: "Chwi a ddaethoch i fynydd Seion;" odfa sych, braidd, ac eto cafodd fesur o oleuni wrth gymhwyso y gwirionedd.

Yn Llanbrynmair yr oedd nos Sadwrn, a phregethodd oddiar y geiriau: "Adda, pa le yr wyt ti?" Boreu y Sul, cafodd seiat breifat yn yr un lle; deuddeg oedd yn bresenol. Dangosodd, i gychwyn, fod y seiadau yn debyg i glafdai, lle yr oedd pawb yn sâl, ac yn rhaid iddynt wrth gymhwysiad beunyddiol o waed Crist hyd ddyfnder y galon; fod yn bosibl i'r deall gael ei oleuo, a'r teimladau eu cyffwrdd,

ac eto i bechod, rhagfarn, ac ofn angau fod yn aros yn nyfnder yr enaid. Fod y seiadau yn debyg i ysgolion, lle yr oedd pawb yn cael eu dysgu gan Dduw. Aeth yn mlaen i ganmol yr Eglwys Sefydledig, gan alw y Methodistiaid yn Ddiwygwyr o'i mewn; dangosodd ei le ei hun, fod gofal yr holl bregethwyr a'r seiadau trwy Gymru yn gorphwys arno; cyfeiriodd at y brawd Richard Tibbot, ac at y gwahaniaeth rhyngddynt a'r Ymneillduwyr. Wedi y seiat, cynhaliwyd odfa gyhoeddus; pregethai Lewis Evan yn mlaenaf; taranu y gyfraith yn ofnadwy a wnelai efe, ac arweiniwyd Harris ar ei ol i efengylu. Yn y prydnhawn, aeth tua Llwydcoed, pellder o ryw un-milltir-ar-ddeg. Ar y ffordd, gofynodd dri chwestiwn i'r Arglwydd. (1) A oedd rhywbeth yn ei yspryd oedd yn gwrthod plygu, ac ymostwng i Dduw? Cafodd ateb, nad oedd. (2) Mewn atebiad i ofyniad sicrhawyd ef fod athrawiaeth, dysgyblaeth, a threfn y Methodistiaid yn gymeradwy gan yr Arglwydd, ac y gwnai ei breswyl yn eu mysg. (3) Gofynai ai buddiol fyddai iddo ddyfod y ffordd hono drachefn, yn mhen ychydig ddyddiau, i addysgu y cynghorwyr? a chafodd ateb yn gadarnhaol, yn mhen enyd. Gwelai y lles a allai ddeilliaw oddiwrth hyn; eithr mai gwaith newydd ydoedd, ac ofnai ei gymeryd heb i'r Arglwydd ei roddi iddo, a'r angenrheidrwydd anorfod am i Dduw fod wrth ei gefn, os oedd i ymaflyd ynddo. Llawenhäi wrth feddwl fod yr Arglwydd am ddefnyddio ei holl alluoedd ef (Harris), hyd yn nod y ddysgeidiaeth a gafodd yn y gwahanol ysgolion. Prawf hyn fod Howell Harris am ychwanegu at ei orchwylion blaenorol, y swydd o fod yn fath o athraw symudol, er cyfranu i'r cynghorwyr addysg gyffelyb i'r hyn a gawsent mewn coleg duwinyddol. Cafodd ymddiddan maith hefyd a Richard Tibbot am yr Ymneillduwyr. Dywedai fod ei galon yn uniawn tuag atynt; ei fod yn eu caru, ac yn galaru am yr hyn oedd allan o le ynddynt; mai ei amcan wrth lefaru yn eu herbyn oedd eu symud o'u marweidd-dra a'u ffurfioldeb. Dangosodd, yn mhellach, y modd y dechreuasant oeri ato, pan y gwelodd oleuni yr efengyl yn glir gyntaf, ac y dechreuodd wahodd pechaduriaid at Grist fel yr oeddynt. Tybiai fod llawer o'r Ymneillduwyr yn blant dynion da, ac wedi derbyn addysg dda, mewn canlyniad i'r hyn y daethent i broffesu; ond nad oeddynt wedi cael eu symud allan o honynt hwy eu hunain, nac wedi derbyn yr efengyl mewn gwirionedd, er y credai fod llawer o'u pregethwyr a'u pobl yn perthyn i'r Arglwydd. Cydunai Tibbot, a dywedai y gwnai gymuno yn yr Eglwys, er fod hyny, o herwydd ei addysg a'i ddygiad i fynu, braidd yn chwith ganddo; mai yn achlysurol yn unig yr oedd wedi derbyn gan yr Ymneillduwyr; ond gan ei fod yn llafurio yn awr yn eu canol, tybiai y gwnai eu tramgwyddo wrth gymuno yn eglwys ei blwyf, ac y gallai fyned i ryw eglwys blwyfol arall i dderbyn. A hyn cydwelai Howell Harris.

Yr oedd torf anferth wedi ymgasglu yn Llwydcoed; Rhuf. vii. 24, oedd testun Harris, a chafodd odfa nerthol. Gwedi y bregeth, cadwodd seiat gyffredinol breifat, sef seiat i'r aelodau a'r cynghorwyr o wahanol fanau oedd yn digwydd bod yn bresenol, a bu yno, a chyda'r cynghorwyr, hyd un o'r gloch y boreu. Anogodd hwy i brynu yr amser, ac i addysgu y plant; penderfynodd ryw faterion dyrys i'r brodyr; a threfnodd oruchwylwyr yn y gwahanol seiadau, i ddarllen y Beibl a'i egluro, a chyfeiriodd at ei fwriad i ddyfod yno yn mhen ychydig ddyddiau i addysgu y cynghorwyr. Wrth wasgu arnynt i ymroddi i wasanaeth Duw, dywedai: "Nid wyf yn cynyg unrhyw ddysglaid i chwi, heb fy mod wedi profi o honi fy hun; rhaid i ni gael ein dysgu ein hunain, a hyny yn aml trwy demtasiwn boeth, cyn y gallwn eich dysgu chwi." Dywedai, yn mhellach: "Y mae yr Arglwydd yn myned i gymeryd meddiant o'r wlad rhag blaen. Nid wyf yn gofyn dim llai yn bresenol na Phrydain Fawr. Ar y dechreu, ni ofynwn am fwy na fy mherthynasau, fy nghymydogion, a'r plwyf; ond yn awr, ni wna dim llai na'r holl wlad fy nhro." Cafwyd seiat ryfedd iawn. "Yr oedd yn amser gogoneddus o ryddid," meddai. Dydd Llun, yr oedd yn Ty-mawr, Trefeglwys. Oddiyno aeth i Lanidloes, lle y pregethodd yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond y rhan fwyaf yn Gymraeg. Yn y Tyddyn y mae dydd Mawrth, ac ymdrinia yma ag achos y cynghorwr Thomas Bowen, yr hwn oedd wedi colli yspryd crefydd i raddau mawr. Bu Harris yn ymddiddan ag ef am rai oriau, yn ateb ei wrthddadleuon, ac yn ymresymu; cafodd ddoethineb mawr yn nglyn â hyn, ond parhau yn ystyfnig a wnaeth Thomas Bowen. Boreu dranoeth, gwnaeth gynyg arno drachefn; galwodd yn ei dŷ, gan ateb ei resymau, a chau ei enau, fel nad oedd ganddo air i'w ddweyd;

ond ofer a fu yr ymgais, yr oedd calon y cynghorwr wedi suddo i'r byd. Oddiyma pasiodd trwy Rhaiadr, Dolyfelin, ac Erwd, gan ddychwelyd adref dydd Gwener, gwedi taith lafurus o yn agos i bythefnos.

Yn ystod yr ychydig amser y bu gartref, cronicla ddarfod iddo dderbyn pedwar gwrthgiliwr i'r seiat yn Nhrefecca; gwrthododd dderbyn un wraig oddiwrth yr Ymneillduwyr, nes iddi, yn gyntaf, gael hamdden i ystyried y mater mewn difrifwch. Cyfarfyddodd ddwy waith a'r cynghorwyr, er eu haddysgu a'u cymhwyso at y gwaith. Dywed iddynt fod yn ymwneyd am beth amser ag egwyddorion sylfaenol sillebiaeth, darlleniaeth, rhifyddiaeth, a gramadeg. Gyda y gwaith hwn teimlai bleser dirfawr. Daeth y newydd i'w glustiau fod ei frawd-yn-nghyfraith wedi cael swydd dan y brenhin, gwerth pum' cant o bunoedd yn y flwyddyn. "Yr oeddwn yn ddiolchgar am y swydd sydd genyf fi," meddai; "yr wyf finau yn was y Brenhin, sef gwas Brenhin brenhinoedd, ac y mae genyf le anrhydeddus yn ei gyfrin-gynghor."

Tua diwedd Chwefror, cawn ef yn cychwyn am daith faith yn Siroedd Aberteifi a Phenfro. Yn Bolgoed, ffermdy tua dwy filltir o Aberhonddu, llefarodd oddiar y geiriau: "Du ydwyf fi, ond hawddgar." Yn Bronwydd, yn y seiat breifat ar ol y bregeth, arweiniwyd ef i adrodd cychwyniad a chynydd y diwygiad, y modd y cawsai ef ei benodi yn Watford yn arolygwr cyffredinol; yna, dangosai nad oedd y seiadau yn eglwysi, ond canghenau diwygiedig o'r Eglwys Sefydledig, yn mha un yr oeddynt i aros hyd nes y llyncid y tywyllwch oedd yn y Sefydliad yn y goleuni claer, neu ynte y caent eu gwthio allan o honi. Dywedai, yn mhellach, ei fod yn caru yr Ymneillduwyr, ac nas gallai oddef i neb eu dirmygu na'u hamarchu. Oddiyma aeth i Gilycwm, lle y pregethodd ar y ddyledswydd o aros yn Nghrist. Cafwyd seiat ryfedd ar ol y bregeth. Wrth ei fod yn egluro gymaint a wnaeth yr Arglwydd erddynt, torodd y fath orfoledd allan, a chanmol Duw, fel y bu raid iddo roddi i fynu am amser. Tramwyodd yn ganlynol trwy Lwynyberllan, Llansadwrn, Cayo, a Llancrwys; ac ar y ffordd cafodd sicrwydd i'w feddwl y rhoddai yr Arglwydd yr ieithoedd—Lladin, Groeg, a Hebraeg—iddo, fel y byddai yn fwy defnyddiol i'r praidd. Cawsai ffydd i weddïo am hyn; ni chymerai ball mewn un modd, am y gwelai y tueddai at ogoniant Duw. Yr oedd yn foreu Sabbath arno pan y croesai ar draws y mynyddoedd, a thrwy ddyffryn ffrwythlawn Teifi, nes dod i Capel Bettws, tua dwy filltir islaw Llangeitho. Yma arosodd hyd nes y deuai Rowland o Lancwnlle i weinyddu y sacrament. Diau fod ei yspryd i raddau yn gythryblus ynddo, oblegyd ni fuasai yn Llangeitho er ys dwy flynedd bellach, o herwydd yr oerfelgarwch a gyfodasai rhwng Rowland ag yntau. Cafodd arwydd arbenig o ffafr Duw yn yr ordinhad. Y prydnawn hwnw, yn Nghapel Gwynfil, yr enw wrth ba un yr adnabyddir pentref Llangeitho yn y cymydogaethau cyfagos, pregethodd i dyrfa anferth yn yr awyr agored. Ei destun ydoedd: "Du ydwyf fi, ond hawddgar." Yr oedd wedi gwlawio yn drwm trwy y dydd, ond nid cynt y gorphenodd Harris ei weddi, nag y gwasgarwyd y cymylau, ac y daeth yr haul i'r golwg, a chafwyd hîn ddymunol i gynal y cyfarfod. Gwedi y bregeth, cadwodd seiat breifat am dair awr. Llefarai am amryw bethau; am ganlyn esiampl Crist, ac nad oedd yn gweled ei hun yn ddiafol mewn cnawd ond pan yn myfyrio ar ymddarostyngiad y Gwaredwr; am dynerwch Crist at Petr yn peidio danod ei gwymp iddo, ac am ddarllen yr Ysgrythyrau, gan ddangos y byddai hyn yn aros wedi i'w teimladau oeri. Rhoddodd reolau i'r gwŷr a'r gwragedd yn y seiadau, ar iddynt ddarllen penod, a gweddïo, ac oni fyddai i Dduw agor eu genau i siarad er adeiladaeth, ar iddynt beidio siarad o gwbl. Yr oedd y presenoldeb dwyfol mor amlwg yn y cyfarfod, fel y methai Harris fyned yn ei flaen. "Bloeddiwn i fy hun," meddai, "nis gallwn ymatal; dydd o ymgymodi ydoedd. Cefais nerth ychwanegol at y gwaith. Gweddïai llawer, ac nis gall tafod fynegu y gorfoleddu oedd yno." Y noswaith hono teimlai ei gorph yn dra lluddedig. Cyn ymadael, taer ddymunai ar Daniel Rowland i ymweled a Sir Frycheiniog. Y mae yn sicr fod gwell dealltwriaeth yn ffynu rhwng y ddau nag a fuasai.

Nos Lun, pregethai yn Abermeurig; pregeth lem, a llawn bygythion, a deddf, a tharanau. Deallodd yn ganlynol fod y lle yn dra annuwiol a llygredig, ac mai dyna oedd eisiau yno. Dydd Mawrth, cawn ef yn Cwm Cynon; ac yn y seiat ar ol y bregeth, dywedai na ddylai hunan a diafol gael trigo yn nhŷ Dduw; fod ganddo

ef gomissiwn yn erbyn y diaflaid, ac yn erbyn pob peth a ddeilliai o uffern yn y proffeswyr. Taranodd hefyd yn erbyn y dull cnawdol o garu oedd yn y wlad, a holai hwynt a oeddynt yn myned i'r eglwys bob Sul, i wrando Rowland neu Howell Davies. Yn Dyffryn Saith, pregethai ar: "A hyn yw y bywyd tragywyddol," ac yn Nghastell-newydd-Emlyn, ar: "Ys truan o ddyn ydwyf fi." Pasiodd yn mlaen trwy Pen-y-wenallt, Dygoed, i Ty'r Yet. Yn y lle diweddaf, yr oedd nifer o gynghorwyr wedi ymgynull, a bu yntau yn eu cymhell i sefydlu casgliad wythnosol yn mhob man. Dangosodd iddynt ei amgylchiadau ei hun, nad oedd ganddo ddim ond yr addewid i syrthio yn ol arni, ac y buasai wedi rhoddi ei waith i fynu er ys llawer dydd oni bai y tyst oedd o'i fewn fod Duw wedi ei alw ato. Ymwelodd yn nesaf â Longhouse, ac a Hay's Castle, lle y bu yn gwrando Howell Davies yn eglwys y plwyf, ac yn cyfranogi o'r sacrament.

Y dydd Llun canlynol, brysiodd i Hwlffordd, lle y cynhelid Cymdeithasfa Fisol. Cafodd fod yr Arglwydd yno o'i flaen. Pan y trefnent parthed casgliad wythnosol, gwrthwynebai rhai; a chynghorai Harris hwy i fod yn araf gyda hyn, rhag nad oedd Duw ynddo, a phe y gwthient y peth yn mlaen trwy y tew a'r tenau, efallai y collent eu dylanwad yn yr efengyl, yr hwn ddylanwad yr oedd Crist wedi ei bwrcasu a'i briod waed. Dangosai mai y ffordd oreu i orchfygu cyndynrwydd oedd trwy gariad ac amynedd. Cyfeiriodd at ei amgylchiadau, nad oedd wedi derbyn pum' punt mewn chwe' mis; ei fod wedi gwrthod can' punt y flwyddyn, yr hyn a fuasai yn ddau cant yn bur fuan; ond ei fod yn llawenychu wrth fod mewn tlodi ac anghysur, gan ei chyfrif yn anrhydedd. Wedi trefnu amryw bethau, aeth i'r ystafell i bregethu; ei destun oedd, Eph. v. 20, a moesoldeb Cristionogol ei fater. Cyfarfyddai y Gymdeithasfa ar ddiwedd yr odfa, a bu Howell Harris yn dangos iddynt yr addysg a hoffai i'r cynghorwyr gael, sef sillebiaeth, gramadeg Saesneg, rheitheg, rhesymeg, daearyddiaeth, hanesiaeth, athroniaeth, ac ieithoedd. Mynegodd fel y buasai yn rhoddi gwersi yn Nhrefecca; yr oedd yr holl gynghorwyr yn ymddangos yn foddlon, a chydunwyd fod John Sparks i barotoi llyfrau sillebu, a chopïau, erbyn y Gymdeithasfa nesaf. Dysgwylid i'r goruchwylwyr hefyd gymeryd gwersi. "Yna," meddai, "dangosais fod eisiau addysg yn mhob peth, onide nis gallent fod yn ddefnyddiol, ac fel tadau; y dylent ddysgu pa fodd i ymddwyn wrth y bwrdd, ac mewn cwmni, yn ol eu cymeriadau, nid fel *fops*, ac nid fel ynfydion; a pha fodd i gyfarch. Dysgais yr hyn a allwn, ac ar iddynt fod yn farw iddynt eu hunain, ac i'r byd, ac i'w ffasiynau, fel na byddai o bwys ganddynt beth a wisgent. Dangosais anrhydedd ein swydd, ein bod yn cael agoshau at berson y Brenhin." Gwelir fod cynllun Howell Harris o addysg athrofaol yn un tra eang. Canfyddai y rhaid dechreu yn isel. Yr oedd rhai o'r cynghorwyr heb gael ond ychydig o addysg foreuol, ac felly rhaid eu hyfforddi mewn sillebiaeth ac ysgrifenu; ond bwriadai i'r cwrs ymeangu ac ymddyrchafu, fel na fyddai y rhai a elent trwyddo yn ol mewn diwylliant i glerigwyr yr Eglwys Sefydledig. Dengys y cyfeiriad at hyfforddi y dynion ieuainc mewn cyfarch, ac mewn iawn ymddygiad wrth y bwrdd, mor ymarferol ydoedd Harris yn ei holl gynlluniau. Yr oedd llawer o'r pregethwyr ieuainc yn hanu o deuluoedd tlodion; gwyddent gryn lawer am athrawiaethau yr efengyl, ond ychydig am reolau moesgarwch, ac arferion cymdeithasol, fel eu dysgid gan Arglwydd Chesterfield; a chan y byddent yn cael eu gwahodd, nid yn anfynych y pryd hwnw, i dai boneddigion y wlad, amryw o ba rai a dueddent at Fethodistiaeth, yr oedd perygl iddynt fyned yn wrthddrychau gwawd i'r rhai anianol yn y cyfryw leoedd. Eithr yr oedd y Diwygiwr yn dra awyddus am iddynt beidio myned yn falch, pa anrhydedd bynag a roddid arnynt; a phwyntiai allan fod cael agoshau at berson y Brenhin yn fwy o urddas na chael myned i dŷ unrhyw bendefig.

O Hwlffordd, aeth Harris i dref Penfro, lle y pregethodd i gynulleidfa fawr, ar Mat. i. 21. Enw yr Iesu oedd ei fater; dangosai ei fod yn Frenhin, yn Offeiriad, ac yn Brophwyd; ac yr oedd nerth a goleuni dirfawr yn cydfyned a'r sylwadau. Cawn ef yn nesaf mewn lle o'r enw Caino. Dywed ei fod yn lluddedig o ran corph, a'i fod yn llefaru mewn cryn gaethiwed, ond hydera i rywrai dderbyn bendith. "Y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd a fyddant fel mynydd Seion," oedd ei destun. Yn y seiat breifat, cafodd ryddid mawr wrth gynghori yr aelodau i fyw trwy ffydd. Dywedai am y cynghorwyr eu bod yn benderfynol i fyned yn eu blaen i bregethu, hyd yn nod pe raid iddynt fod heb ddillad,

a myned o gwmpas yn droednoeth. Dangosodd ddyledswydd meistri a gweision, y dylent hunan-ymwadu mwy; mai Iesu Grist yw yr esiampl yn hyn, ac mai buddiol iddynt fyddai byw yn îs na'u sefyllfa, fel y byddai ganddynt rywbeth i'w gyfranu i'r Arglwydd. Am dano ei hun dywedai, yr ystyriai hi yn anrhydedd cael bod yn wlyb, a thrafaelu can' milltir yr wythnos, gan bregethu ddwy neu dair gwaith y dydd, heb gael dim fel tâl am ei lafur, ond yr hyn a dderbyniai gan yr Arglwydd. Ei le nesaf oedd Jefferson. Wrth deithio tuag yno, cythruddwyd ef yn ddirfawr gan ryw chwedl a ddaeth i'w glustiau, sef ddarfod i Daniel Rowland ddweyd fod dylanwad Mr. Whitefield arno wedi peri iddo newid ei farn gyda golwg ar athrawiaeth y Drindod; a darfod i Howell Davies awgrymu i rywun nad oedd efe (Harris) yr un yn awr ag a oedd gynt. Ar y dechreu, teimlai y rhaid iddo gael iawn am y sarhad; ond yn mhen ychydig llonyddodd ei dymher, a phenderfynodd ddyoddef yr oll. Y mae yn sicr fod cludwyr chwedlau yn gwneyd llawer o niwed i'w yspryd. Yn Jefferson, ei destun ydoedd: "Mawr yw dirgelwch duwioldeb." "Dangosais," meddai, "yn mha ystyr y mae yn ddirgelwch. Yn (1) am ei fod wedi ei guddio yn gyfangwbl oddiwrth y dyn anianol; ni ẃyr efe ddim yn ei gylch. (2) Am mai trwy ffydd, a thrwy ddysgeidiaeth yr Yspryd Glân yn unig y gellir ei wybod, ac nid trwy foddion naturiol, megys darllen, efrydu, a myfyrio, er fod yr Yspryd yn aml yn dyfod trwy y cyfryngau hyn, ac felly y dylem eu defnyddio. (3) Y mae yn ddirgelwch am nas gellir plymio i'w waelodion, hyd yn nod gan y rhai sydd yn canfod ddyfnaf iddo." Dywed, yn mhellach, iddo gymhwyso yr athrawiaeth gyda nerth at bechaduriaid difater. "Yr oeddwn yn ofnadwy o lym," meddai, "hyrddiais ddychrynfeydd Duw arnynt, gan ddangos eu bod yn pechu yn erbyn deddf ac efengyl. Dangosais pa fodd y mae yr hen a'r ieuainc, y cyfoethog a'r tlawd, yn cydbechu ar y ffordd lydan, ac eto yn taeru nad oes un rheidrwydd am fyned o gwmpas i gynghori y bobl. Dangosais sefyllfa y sir; taranais yn arswydus, a rhybuddiais hwy." Diau ei bod yn lle ofnadwy yno, a bod y dylanwad yn ormod i gnawd. Yn y seiat a ddilynai, yn yr hon yr oedd John Harris yn bresenol, anogodd hwy yn gryf i gariad brawdol, ac i beidio esgeuluso y moddion. "Ni wyddoch faint eich colled wrth esgeuluso un cyfleustra,' meddai. Pregethodd gyda nerth yn St. Kennox; ac wrth fyned oddiyno i Maenclochog, rhaid oedd iddo ef a John Sparks, yr hwn oedd yn dra anwyl ganddo, ymadael. Eithr aeth John Harris yn mhellach gydag ef, ac anogai yntau ef i gyffroi yr aelodau i fod ar eu goreu dros yr Arglwydd. "Am danaf fy hun," meddai, "dywedais nas gallwn orphwys, a'm bod yn benderfynol, trwy ras, o farw yn y gwaith anrhydeddus hwn."

O Maenclochog, cawn ef yn myned yn nghwmni ei hen gyfaill, Howell Davies, i'r Parke. Cyffelyba hwy i deithwyr wedi cael eu dwyn yn nghyd, ar ol bod yn tramwy trwy ystormydd enbyd. Agorodd Harris ei holl galon i'w frawd, gan ddangos mawredd y gwaith, y modd yr oedd yn llwyddo, ac fel y credai fod y tymhestloedd y buont ynddynt, yn tueddu i'w cadw rhag ymfalchio. Ei destun yma oedd: "Gwir yw y gair." Yna, teithia trwy Gilfach, Mounton, Lacharn, Merthyr, a Llanpumsant. Yn y rhan fwyaf o'r lleoedd hyn, pregethai heb un testun, ac yr oedd nerth mawr yn cydfyned a'i weinidogaeth. Yn Nghaerfyrddin, gwrandawodd ar John Richard yn pregethu ar ymddarostyngiad y Gwaredwr; yn ganlynol, pregethodd yntau ar ddirgelwch Crist. Ymddengys fod yma Gymdeithasfa Fisol, a gwasgai Harris yn ddwys ar y pregethwyr y dymunoldeb iddynt i ymdrechu am ragor o addysg. Gorphenodd ei daith yn Llanddeusant; yr oedd yn ddyfnder nos arno yn cyrhaedd y lle, a dywed ei fod yn wlyb hyd ei groen, ac yn oer, wrth groesi y Mynydd Du. Er hwyred ydoedd, yr oedd yn rhaid iddo bregethu; dechreuai yr odfa am ddeuddeg o'r gloch y nos, a'r mater oedd: "Iachawdwriaeth orphenedig;" a daeth yr Arglwydd i lawr. Oddiyma, aeth ar ei union tua Threfecca, yr hwn le a gyrhaeddodd am bedwar o'r gloch y boreu, y dydd o flaen y Pasg. Fel hyn yr ysgrifena wedi dychwelyd: "Y boreu hwn daethum adref, ar ol taith o dros dair wythnos yn Siroedd Penfro, Aberteifi, a Chaerfyrddin, a chwedi tramwy dros un-cant-ar-ddeg o filltiroedd. Ffafriodd yr Arglwydd fi yn rhyfedd yn mhob man, wrth bregethu, cynghori yn y seiadau preifat, a threfnu pethau cysylltiedig a theyrnas dragywyddol ein Hachubwr. Er ein holl bechadurusrwydd, y mae yr Arglwydd yn cario ei waith yn mlaen yn mhob man. Yr wyf yn credu fy mod yn

cael yr anrhydedd o adael bendith ar fy ol, pa le bynag yr af, i'r eglwys, i'r byd, ac i'r cynghorwyr. Llawer o ddarganfyddiadau melus o'i ogoniant a roddwyd i mi gan yr Arglwydd."

Ar y 25ain o Fawrth y dychwelodd Howell Harris. Y dydd Mawrth canlynol, cynhelid Cymdeithasfa Fisol yn Nhrefecca. "Yn y seiat gyffredinol," meddai, "cefais y fath deimlad o'r cariad a'r presenoldeb Dwyfol, fel na allwn lefaru. Yr oedd pawb yn llawn o Dduw. Yna, fy ngenau a agorwyd dros ddwy awr, mewn tynerwch a chariad; dangosais iddynt am gariad Duw, am yr anrhydedd o gael bod yn ngwasanaeth Duw, ac am fywyd ffydd." Yn y cyfarfod neillduol, holodd y cynghorwyr yn fanwl, a threfnwyd teithiau pob un. Ar y dydd cyntaf o Ebrill, cychwynodd am Lundain, ac ni ddychwelodd yn ei ol hyd y nawfed o Fai. Un hwyr, yn bur fuan wedi ei ddychweliad, daeth y Parch. Price Davies, Ficer Talgarth, i ymweled ag ef, ac yr oedd yn fwy isel a serchog nag y gwelsai Harris ef erioed o'r blaen. Adroddodd ei holl hanes wrth Price Davies, y modd y cawsai ei ddeffro trwy ei waith ef yn galw y bobl at y sacrament, a'r modd y dechreuasai fyned o gwmpas i bregethu. Nad oedd ganddo unrhyw gynllun ar y cychwyn; nad oedd wedi clywed am Whitefield na Wesley, ac nad oedd ganddo unrhyw ddychymyg y buasai y gwaith yn cynyddu fel y gwnaethai. Datganai, yn mhellach, ei benderfyniad i lynu wrth yr Eglwys Sefydledig. "Dywedais," meddai, "y dylai y rhai a ddygasid i fynu yn yr Eglwys aros ynddi; os codai rhyw betrusder yn eu meddwl y dylent fyned ag ef at yr offeiriad; os na wnai ef ddangos amynedd a rhoddi boddlonrwydd iddynt, y dylent fyned at ryw offeiriad arall; os na chaent eu boddloni gan unrhyw offeiriad, y dylent ddyfod ataf fi, neu ryw un o honom (y Methodistiaid); ac os methent gael boddlonrwydd yn neb o honom, yna, eu bod at eu rhyddid i ganlyn eu goleuni, a'u cydwybod." Datganodd, yn mhellach, am elyniaeth yr offeiriaid ato, eu bod wedi arfer pregethu yn ei erbyn, a darfod iddo fod mewn perygl am ei fywyd oddiwrthynt; ond mai am ddiwygiad oedd efe, a gwneyd cymaint o dda ag a oedd bosibl, a phe y gadawai y Methodistiaid yr Eglwys, y gadawai yntau hwythau. Addefai Mr. Davies fod eisiau diwygiad yn fawr. "Yna," meddai Harris, "dangosais i Mr. Price Davies, fod rhagfarnau (yr offeiriaid at y Methodistiaid) wedi lleihau yn ddirfawr, am fod llawer o bethau oedd yn feius ynom wedi cael eu cywiro, a'u bod yn gweled ein bod yn glynu wrth yr Eglwys. Addefais hefyd ddarfod i mi ac eraill fod yn rhy wresog yn ein zêl. Dywedai yntau mai hyn a aethai i glustiau y clerigwyr a'r esgobion; eto, addefai fod llawer o honynt yn ddynion drwg, a'i fod ef ei hun yn eithaf drwg." Wrth glywed yr addefiad hwn, torodd y Diwygiwr i folianu: "Rhyfedd, Arglwydd," meddai; "beth na elli di wneyd?" Yna, aeth yn mlaen i ganmol yr Eglwys, fod ei gwasanaeth o'r fath felusaf. Yr ydym yn croniclo yr hanes hwn er mwyn tegwch hanesyddol, yn gystal ag o herwydd ei ddyddordeb. Profa fod yspryd Howell Harris, oedd yn wastad yn gynhes at yr Eglwys Sefydledig, ac yn ymlyngar wrthi, er cymaint o feiau a ganfyddai o'i mewn, erbyn hyn yn ymgordeddu am dani yn dynach, a'i fod yn benderfynol o beidio ei gadael, hyd yn nod pe bai raid cefnu ar y Methodistiaid, oblegyd ei ymlyniad. Nid annhebyg mai adnewyddu ei gymdeithas â Whitefield a ddygodd oddiamgylch y cyfnewidiad hwn yn ei deimlad.

Yn mis Mai, pasiodd Daniel Rowland trwy Drefecca, a bu Harris yn ei wrando yn pregethu. Ei destun ydoedd, Rhuf. viii. 13, a'i fater, gras mewn ymdrech â phechod. Dywedai na ildiai gras i lygredd hyd nes y byddai y drwg wedi ei lwyr orchfygu; fod y Cristion yn marweiddio gweithredoedd y cnawd, ac a'i holl galon yn eu cashau; fod llawer o Phariseaid i'w cael, oeddynt yn foesol yn unig oddiallan, ac na wna dim foddloni Duw na gras ond llwyr ddinystr pechod. Yr oedd yr athrawiaeth wrth fodd calon Howell Harris. "Gwelwn," meddai, "fod yr Arglwydd yn myned allan yn erbyn pechod; canfyddwn hyn wrth ei fod yn rhoi y fath gomissiwn i'w was, a gwnaed i'm henaid lawenychu ynof o'r herwydd."

O ganol Mai hyd ddiwedd Gorphenaf, y mae y dydd-lyfr ar goll. Ddechreu mis Awst, aeth Howell Harris i Lundain, ac arosodd yno hyd ganol Medi. Prif ddigwyddiad y cyfnod hwn oedd gwaith Whitefield, mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd yn y Tabernacl, Medi 1-7, yn ymneillduo yn gyfangwbl oddiwrth arolygiaeth y Cyfundeb Saesnig, ac yn trosglwyddo yr holl ymddiriedaeth i Howell Harris. Cydunai amryw bethau i beri i Whitefield gymeryd y cwrs hwn. (1) Er

ei fod yn meddu cymhwysder at drefniadaeth, a llawer o fedr at lywodraethu ac arwain, eto, nid dyma ei brif allu, na'i hoff waith. Uwchlaw pob peth, pregethwr oedd Whitefield, a galw pechaduriaid at Grist oedd y gorchwyl yn mha un yr ymhyfrydai. Ac er cael rhyddid i fyned o gwmpas i ba le bynag y byddai galwad, a phregethu yr Arglwydd Iesu yn mhob man lle y caffai ddrws agored, teimlai fod yn rhaid iddo roddi i fynu bob cyfrifoldeb a gofal am allanolion. (?) Yr oedd yr anghydfod a'r dadleuon parhaus a anrheithiai y Cyfundeb yn Lloegr, wedi blino ei yspryd; teimlai nas gallai gyd-ddwyn a'r brodyr gwrthnysig yn hwy; ac er nad oedd am dori ei gysylltiad â hwy, eto, nid oedd am gymeryd ei flino yn hwy gan eu hymrysonau. (3) Y mae yn bur sicr fod ei deimlad at yr Eglwys Sefydledig wedi newid. Ar y dechreu, credai fod diwygiad ynddi yn anmhosibl; barnai y byddai raid i'r Methodistiaid, fel corph o bobl, ei gadael yn bur fuan; ond yn awr, trwy gymdeithasu a llawer o fonedd y tir, ac yn arbenig a'r Iarlles Huntington, daethai i dybio mai trwy ddiwygio yr Eglwys, y gellid diwygio y deyrnas. Tybiai y cai ef ei wneyd yn esgob, ac y caffai clerigwyr efengylaidd eu dyrchafu i safleoedd o awdurdod, a thrwy hyn, y deuai yr Eglwys drwyddi yn efengylaidd. Felly, nid oedd yn awyddus am liosogi seiadau Methodistaidd, nac am fod yn arweinydd iddynt. Y mae yn bur sicr ddarfod iddo ddylanwadu ar Howell Harris, a'i wneyd yntau hefyd yn fwy ymlyngar wrth Eglwys Loegr.

Cawn Howell Harris, tua diwedd mis Medi, yn ymweled a rhanau o Sir Gaerfyrddin. Mewn seiat yn Llwynyberllan, dywedai ei fod yn foddlon bod o'r golwg mewn cysylltiad a'r gwaith; i Whitefield fod yn ben ar y Cyfundeb yn Lloegr, a Rowland yn Nghymru; ac os boddlonent, fod John Wesley drostynt hwythau drachefn. Y gwnai y lle isaf ei dro ef (Harris); fod cario y gwirionedd o gwmpas, heb neb yn ei weled, yn ddigon o anrhydedd iddo; ac nad gwaeth ganddo i eraill gael yr holl barch a'r poblogrwydd. Diau ei fod yn hollol onest yn yr hyn a ddywed, ac mai dyna ei deimlad y foment hono. Eithr y mae un frawddeg yn dilyn, a awgryma ryw gymaint o chwerwder yspryd, sef: "Dymunaf na fyddo i'r brawd Rowland gael cwymp, fel yr ymddengys yn debyg yn awr." Yn bur fuan, cawn ef yn cychwyn am daith i Forganwg. Dywed ei fod yn wanllyd o gorph, a bod ei enaid yn flin ynddo o herwydd yr annhrefn oedd yn mhlith y Methodistiaid. Pregethodd y noson gyntaf yn Cantref; boreu dranoeth yn Taf-Fawr, ac achwyna yn enbyd ar erwinder y ffordd; y nos, yr oedd yn Llanfabon. Ar ei ffordd i'r Groeswen, clywodd am rhyw helynt a ddigwyddasai yn y Goetre. Teimlai faich annyoddefol yn pwyso arno mewn canlyniad; gwelai fod serch partïol yn debyg o wneyd byd o niwed yn eu mysg, ac ocheneidiai wrth weled Satan yn cael caniatad i'w rhwygo. Eithr wrth bregethu, ar Mat. xi. 28, 29, daeth yr Arglwydd i lawr, a chafwyd odfa rymus. Yn y seiat breifat, agorodd ei galon; dywedai ei fod yn gweled ei hun y gwaethaf o bawb; ond yn Nghrist ei fod fel pe byddai heb bechu, ac fel pe bai pechod heb ddyfod i'r byd. "Daeth awelon nerthol o'r Yspryd i lawr," meddai, "pan y dangoswn ein hundeb â Christ. Gofynais iddynt, 'A ydych chwi yn teithio ffordd hyn?' Dyma fy mywyd i. Nid wyf yn ddyledus i'r cnawd, ond i'r Arglwydd, am fyw iddo." Gwedi y seiat, bu gyda y pregethwyr a'r goruchwylwyr hyd ddeuddeg o'r gloch y nos. Daeth awel gryf i lawr yma eto. "Dangosais iddynt," meddai, "y Duw tragywyddol yn y preseb. Cwestiynais hwynt hyd adref am Dduwdod y Gwaredwr; dangosais y modd y datguddiwyd y gwirionedd hwn i mi; ac eglurais am fy undeb a'r Morafiaid, am ddirgelwch y Drindod, a'r modd y mae y Drindod sanctaidd yn preswylio yn Nghrist; am beidio gwneyd dim heb ymgynghori a'r Arglwydd, gan ei gydnabod ef fel Meistr. Daeth chwythwm cryf i lawr, a phenderfynasom lawer o bethau."

Dranoeth, aeth ef, a Thomas Price, o'r Watford, i Gaerdydd. Wrth glywed crochfloedd y werinos yma tueddai i grynu; ni fedrai feddianu ei hun am dipyn; ond yn y man nerthwyd ef i efengylu yn felus, oddiar y geiriau: "O angau, pa le y mae dy golyn?" Gwenodd yr Arglwydd arno ef ac ar y bobl. Cafodd ymddiddan maith a'r brawd Price, yr hwn sydd yn haeddu ei gofnodi. "Cynygiais," meddai Harris, "roddi fy lle i fynu o ran yr enw o hono; i Rowland gael bod yn ben yn Nghymru, Whitefield yn Lloegr, a Wesley drostynt hwythau ill dau. Dywedais y gwnawn yr un gwasanaeth wedin ag yn awr, ac nad oes genyf fawr ymddiried yn neb; fy mod yn gweled diffyg arfer rheol cariad at ein gilydd, a bod eiddigedd wedi dyfod i'n

mysg. Dangosais y modd y mae y brawd Rowland yn gwanhau fy nwylaw; fy mod yn Lloegr yn cael fy meio am gadw y Morafiaid a'r Wesleyaid allan o Gymru, ac yn Nghymru fy mod yn cael fy nghyhuddo o'u bradychu (sef i'r Morafiaid). Cyfeiriais at falchder, at gariad at y byd, ac nad oedd ef (Price) mor syml ag y buasai. Agorodd yntau ei holl galon a'i ofnau. Dywedodd na wnai y brawd Rowland gymeryd fy lle, yr unai â hwy i fy anrhydeddu am fy nhalentau a'm gwasanaeth; ond ei fod (Rowland) yn meddwl nad wyf yn arfer fy rheswm yn wastad, ond yn gweithredu oddiar deimlad y foment. Dywedodd, yn mhellach, na wnai ef (Price) a'r brodyr, gymeryd y brawd Rowland yn fy lle. Ymadawsom yn felus." Y mae yn bur sicr fod Thomas Price yn dweyd yn eglur beth oedd teimlad Daniel Rowland at y Diwygiwr o Drefecca, sef ei fod yn ei anrhydeddu am ei yni, a'i wasanaeth, ac nad awyddai mewn un modd am gymeryd ei le; ond ei fod yn beio arno am fyrbwylldra a diffyg barn.

Cawn Harris yn nesaf yn Dinas Powis, lle y pregethodd ar ateb yr Iesu i ddysgyblion Ioan Fedyddiwr. Duwdod Crist oedd y mater. Yn St. Andrew's, cyfarfyddodd a'r brawd Morgan Jones, gan yr hwn y clywodd am y gyfraith yn Ngogledd Cymru. Ni ddywed ddim am natur y newyddion. Ymddengys fod Morgan John Lewis yma hefyd, a thorodd Harris ato, parthed sefyllfa pethau yn eu mysg. "Dywedais," meddai, "fod y gwaith yn rhy drwm i mi, oni chawn gymorth gan eneidiau ydynt yn feirw iddynt eu hunain, ac yn ei gweled yn anrhydedd i ymdreulio yn ngwasanaeth yr Arglwydd, gan fod a'r achos ar eu calonau. Dangosais fod fy ngwaith mor fawr fel mai da fyddai i rywun ddilyn fy ergyd, gan fagu y cynghorwyr a'r goruchwylwyr ieuainc, a myned o gwmpas teuluoedd, i'w deffro, fel y byddo yr Arglwydd yn ben ar y cwbl. Cynygiais osod yr offeiriaid yn ben yn Lloegr ac yn Ngymru, ac i minau fod o'r golwg." Gwelir fod ei deimlad yn parhau i raddau yn chwerw at yr offeiriaid, a bod y cwestiwn, pwy a fydd ben? yn cael gormod o le yn ei feddwl. Aeth yn nesaf i St. Nicholas, a chafodd gyfleustra yma i wrando Howell Davies. Gwedi yr odfa, dywedodd Mr. Davies wrtho, fod y diafol yn rhuo yn ei erbyn yn ofnadwy yn Nghaerfyrddin, ac yn Dygoed, a'i fod yn cael ei gyhuddo o ryw anfoesoldeb, a bod caneuon gwawdlyd wedi eu cyfansoddi iddo. Aeth y peth trwy ei galon fel brath cleddyf. Wrth fyned tua'r Aberthyn nis gallai lefaru gan faint ei ofid. Yno, modd bynag, cafodd lawer o nerth wrth lefaru ar y geiriau: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw." Yn y seiat a ddilynai, dywedodd lawer am berson Crist, a'i waed, a'i haeddiant; ei fod yn Anfeidrol yn y groth, yn Anfeidrol yn ei enedigaeth, ac yn Anfeidrol yn ei fywyd, yn ei ufudd-dod, ac yn ei angau. Ceryddodd yr aelodau yn llym am eu balchder, eu cybydd-dod, a'r modd y gwarient eu harian, a rhybuddiodd hwy rhag barnu y cynghorwyr, onide, y gallent syrthio i'r un pechod a Corah. Wedi y seiat i'r aelodau, yr oedd seiat drachefn i'r cynghorwyr a'r goruchwylwyr, ac ymddengys fod Harris yn y seiadau yma yn trefnu pethau, fel pe y byddent yn meddu awdurdod Cyfarfod Misol. Pasiodd trwy Penprysc, gan bregethu efengyl y deyrnas, a daeth i Nottage. Yma, clywodd y bwriedid ei osod yn ymddiriedolwr ar y capel oedd agos a chael ei orphen yn Aberthyn. Taflodd hyn ef i beth petrusder; ofnai rhag i'r offeiriaid Methodistaidd deimlo, o herwydd fod ei enw ef yn y weithred, a'u henwau hwythau allan; ac na ddeuent i bregethu i'r capel o'r herwydd. "Yr wyf yn foddlon," meddai, "cymeryd fy rhan yn holl drafferthion tŷ Dduw, ond nid yn ei anrhydedd." Pasiodd trwy yr Hafod o Langattwg, gan ddyfod i Lansamlet, lle yr oedd torf anferth wedi ymgasglu. Cafodd odfa rymus, wrth ddangos gogoniant yr Iesu, ac anfeidroldeb yr iachawdwriaeth. Ei destun yn Abertawe oedd: "Canys efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau;" a bu ar ei oreu yn cyhoeddi dirgelwch y Drindod. Yn y seiat breifat, ceryddodd yr aelodau yn llym am eu balchder trefol, am eu gwrthwynebiad i frodyr o dalentau bychain i ddyfod i'w mysg i gynghori, ac am rwystro y gwaith trwy y cyfryw ymddygiad. "Nid yw hyn," meddai, "ond eich balchder, a'ch diffyg o farn addfed; yr hyn sydd arnom eisiau, yw cael gallu Duw gyda phwy bynag sydd yn dyfod." Oddiyma aeth yn bur fanwl trwy wlad Gower, a rhanau o Sir Gaerfyrddin, gan ddychwelyd i Drefecca tua chanol mis Hydref.

Gyda ei grefyddolder dwfn, a'i synwyr cyffredin cryf, yr oedd Howell Harris yn dra hygoelus, ac yn ymylu ar fod yn goelgrefyddol. Tybiai ei fod yn derbyn cenadwri bendant oddiwrth Dduw, trwy

adael i'r Beibl agor o hono ei hun, a darllen yr adnod gyntaf a ddeuai o flaen ei lygaid. Holai gwestiynau i'r Anfeidrol ar bob mater, fychan a mawr, a chredai fod ystâd ei feddwl mewn canlyniad yn atebiad oddiwrth yr Arglwydd i'w ofyniadau. A chawn ef yn awr, o herwydd y dueddfryd hon ynddo, yn cyfarfod a phrofedigaeth bur chwerw. Daeth dynes a ymunasai â chrefydd tan ddylanwad ei weinidogaeth ef, i Drefecca. Ei henw oedd Mrs. Griffiths, neu fel ei gelwir yn y cofnodau, "Madam Griffiths." Yr oedd ei gŵr, ar ol ei chamdrin yn enbyd, wedi ei gadael. Honai hon ei bod wedi ei llanw a'r ddawn brophwydol, a'i bod yn alluog i brofi yr ysprydion. Yn syn iawn, credodd yntau ei honiadau, ac yn ei ddiniweidrwydd, tybiodd fod Pen yr Eglwys wedi anrhydeddu y Methodistiaid ag un o ddoniau arbenig yr oes Apostolaidd. Meddyliodd y gallai fod o wasanaeth dirfawr i'r diwygiad, trwy fod yn lle llygaid iddo ef, gan ei gyfarwyddo pa fodd i ymddwyn mewn achosion o anhawsder, a'i alluogi i wahaniaethu y rhagrithwyr oddiwrth y gwir gredinwyr. Penderfynodd ar unwaith ei chymeryd gydag ef ar ei deithiau, er y gwelai y gwnai rhywrai dynu cam-gasgliad oddiwrth y cyfryw ymddygiad. Ond nid oedd ei briod yn credu ynddi. A phan aeth i osod y mater gerbron rhai o'r brodyr, yn y rhai yr oedd ganddo ymddiried, dangosasent hwythau anfoddlonrwydd. Ond fel arfer, ni wnai gwrthwynebiad leddfu dim ar ei syniadau; yn hytrach, gwnelai ef yn fwy penderfynol yn ei farn. "Rhaid i'r gwrthwynebiad hwn ddarfod," meddai, "fel y mae pawb a'm gwrthwynebodd o'r dechreu wedi dyfod i'r dim. Diau genyf fod Mrs. Griffiths yn golofn yn nhŷ Dduw." Nid oes y sail leiaf dros amheu purdeb bywyd Howell Harris; yr oedd ei holl syniadau mor ddihalog a gwawr y boreu; yn wir, cyfodai ei berygl o'i ddiniweidrwydd, ac o'i anhawsder i ganfod achlysur i ddrwgdybiaeth mewn pethau a ystyrid yn amheus gan bobl eraill. Ar yr un pryd, ymddengys rhywbeth tebyg iawn i fel pe byddai gorphwylledd crefyddol wedi ei feddianu. Yn bur rhyfedd, yr ydym yn cael i John Wesley, un o'r dynion craffaf ei farn, fod mewn profedigaeth gyffelyb. Modd bynag, y mae yn bur sicr ddarfod i hygoeledd Harris yn y mater roddi achlysur, am dymhor, i elynion yr Arglwydd gablu.

Ddechreu mis Tachwedd, cychwynodd ar daith trwy ranau o Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn. Nid awn i fanylu ar ei hanes, ond cawn yn nglyn â hi, ddau beth o ryw gymaint o bwysigrwydd. Un oedd, ei waith yn ymwasgu yn nes at James Beaumont, yr hwn a goleddai syniadau pur hynod am y Drindod, ac a aethai yn mhell i gyfeiriad Antinomiaeth. Meddai Harris ryw dynerwch rhyfedd at Beaumont; efe, mewn ystyr, oedd ei Absalom. Y mae yn awr yn ei gymeryd yn gydymaith iddo, yn ei ganmol yn pregethu, ac yn dweyd ei fod o yspryd mor ostyngedig, ac mor barod i gymeryd ei ddysgu. Sut y gallai ddweyd hyn sydd yn syn, pan yr oedd ef a'r cynghorwyr wedi treulio noswaith yn Nhrefecca i geisio darbwyllo Beaumont i adael rhyw ymadroddion an-Ysgrythyrol a ddefnyddiai, ac wedi methu. Gwyddai Harris ei fod, trwy wneyd cyfaill o Beaumont, yn tramgwyddo ei frodyr yn enbyd. Peth arall a nodweddai y daith oedd, ei waith yn hysbysu y cynghorwyr, nad oedd y gwahaniaeth rhyngddynt a John Wesley yn rhyw fawr iawn. "Cefais ymddiddan â Mr. Wesley," meddai, "a gwelwn nad oeddym yn gwahaniaethu rhyw lawer gyda golwg ar berffeithrwydd, ond yn unig gyda golwg ar ei natur, am mai Crist yw ein perffeithrwydd ni, a'n bod yn tyfu i fynu yn raddol hyd ato trwy ffydd. Hefyd, am syrthiad oddiwrth ras, a pharhad mewn gras, yr ydym yn gwahaniaethu gyda golwg ar y pwynt lle y dylid ei osod. A chyda golwg ar brynedigaeth gyffredinol, ein bod ni yn credu ddarfod i Grist farw dros bawb, ond nad yw rhinwedd ei farwolaeth yn cael ei gymhwyso at neb, ond yr etholedigion. Cydunem hefyd gyda golwg ar gyfiawnhad; fod bywyd, yn gystal a marwolaeth Crist, yn cael ei gyfrif i ni." Tueddwn i feddwl fod Harris yn agored i gael dylanwadu arno i raddau gan ei gyfeillion, a bod eu syniadau hwy, am dymhor, yn cael lliwio ei syniadau ef, oni fyddai iddynt fyned i ddadleu yn ei erbyn, ac i'w wrthwynebu. Gwthiai Beaumont arno hefyd y syniad y cai, yn bur fuan, fod yn ben gwirioneddol ar yr holl seiadau yn Nghymru.

Ddiwedd mis Tachwedd, cychwynodd am Lundain, ac ni ddaeth yn ei ol hyd Ionawr 27, y flwyddyn ganlynol, sef 1750. Cyn ymadael, torodd ei gysylltiad yn llwyr a'r brodyr Saesnig. Y rheswm am hyn oedd anghydwelediad rhyngddo a Whitefield. Mynai y diweddaf iddo beidio ymgymysgu a'r Wesleyaid a'r Morafiaid, a mynychu eu

cymdeithasau, fel yr arferai wneyd. A hyn ni chydsyniai yntau: "Fy awydd mawr i," meddai wrth Whitefield, "yw undeb, ar i'r eglwys weledig fod yn un, fel yr eglwys ddirgeledig, ac ar i Grist gael ei bregethu yn ol dysgeidiaeth yr Ysgrythyr." Ychwanegai: "Dywedais wrtho nad oedd ganddo awdurdod arnaf fi, mwy nag sydd genyf fi arno ef, sef yn unig dweyd wrth ein gilydd beth a welwn allan o le, y naill yn y llall.' Y mae ymddygiad Whitefield yn y mater yma yn dra hynod, yn arbenig gan ei fod ef wedi ail-ddechreu newid pwlpud â John Wesley, a'u bod yn cyduno i ddwyn yn mlaen wasanaeth crefyddol, un yn darllen y gweddïau, a'r llall yn pregethu. Modd bynag, oerodd hyn deimlad Harris at Whitefield, a phenderfynodd na wnai lafurio mwyach yn yr un cyfundeb ag ef.

Ar y dydd olaf o Ionawr, cynhelid Cymdeithasfa Chwarterol yn y New Inn, Sir Fynwy, ac aeth Harris yno. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Daniel Rowland. Ar y dechreu, hoffai Harris yr athrawiaeth; pan y dywedai y pregethwr fod yr iachawdwriaeth wedi ei gorphen, chwythodd awel dyner dros y cyfarfod. "Ond," meddai, "tywyllodd bethau trwy ymadroddion cnawdol am y Drindod; gellid meddwl wrtho fod y Tad ar ei ben ei hun pan yn creu; fod y Mab wrtho ei hun pan yn prynu; a'r Yspryd Glan wrtho ei hun pan yn sancteiddio. Dywedai hefyd, fod y dynion goreu yn amheu weithiau, oblegyd eu llygredigaethau, a'u gwaith yn peidio edrych at yr Arglwydd." Awgryma ei gondemniad o'r dywediad hwn gan Rowland, ei fod wedi cael ei ddylanwadu, i ryw fesur, gan syniadau Wesley, parthed perffeithrwydd. Dywed, yn mhellach, na ddaeth gogoniant Crist i'r amlwg, ac iddo gael ei feddwl yn ymwneyd a'r pwnc o brynu coed ieuainc, i'w planu yn Nhrefecca. Dengys hyn gyfnewidiad dirfawr yn ei yspryd; nid dyma y modd yr arferai wrando ar Daniel Rowland. Yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa, cyhuddodd Rowland ef o fod yn barhaus yn newid ei syniadau, ac o dra-arglwyddiaethu ar bawb na wnai ymostwng iddo, gan wneyd ei arch yn mhob dim. Atebodd yntau ei fod yn ddieuog o'r ddau gyhuddiad. Am y cyntaf, bod yn bwhwman mewn athrawiaeth, nad oedd wedi cyfnewid o gwbl, er pan ddechreuodd fyned allan yn gyhoeddus. Am yr olaf, sef arfer tra-awdurdod, mai dyna y pechod â pha un yr oedd wedi halogi ei hun leiaf; mai ei brif ddyben yn wastad oedd dyrchafu Crist. "Dywedais yn mhellach,' meddai, "y gwnawn eu hargyhoeddi o gywirdeb fy amcanion, trwy ymneillduo, a rhoddi i fynu fy lle yn mysg y pregethwyr, ac yn mysg y bobl. Fy mod wedi gweithredu ynddo mor hir ag yr oeddent hwy yn barod i'm derbyn mewn ffydd; ond os oedd pethau fel y dywedai efe (Rowland), a'u bod yn ofni dweyd eu meddyliau wrthyf, y gwnawn ymadael, gan fyned o gwmpas yn unig i'r lleoedd y cawn ddrws agored gan Dduw. Yr awn at y pregethwyr a'r bobl a roddai dderbyniad i mi, nas gallai neb fy rhwystro i wneyd hyny." Ychwanega, fod yr ystorm yma wedi codi oddiwrth Mr. Whitefield, ac oddiwrth eu rhagfarn at y brawd Beaumont. Tebyg y tybiai ddarfod i Whitefield anfon at Rowland, fod syniadau arbenig John Wesley yn nawseiddio ei bregethu i ryw raddau. Gyda hyn, cododd Howell Harris i fyned allan. Atebodd Rowland mai gwell i Harris aros, ac yr ai ef (Rowland) allan. Tawelodd pethau am ychydig. "Cododd ystorm drachefn," meddai, "gyda golwg ar y brawd Beaumont. Dywedais fy mod yn foddlawn iddynt ei geryddu am unrhyw beth oedd allan o le ynddo, mewn athrawiaeth neu ymddygiad; ond na wnawn gyduno i'w droi ef i ffwrdd, yn unig oblegyd rhagfarn, ac heb achos cyfiawn. Dywedais fy mod yn gwybod ei fod yn iach yn y ffydd, ac yn cael ei arddel gan Dduw, a fy mod yn anfoddlawn i'w rwymo, megys â chadwyn, gyda golwg ar y lleoedd i bregethu ynddynt, rhag fod gan yr Arglwydd ryw genadwri i'w hanfon trwyddo. Gwelwn eu bod (yr offeiriaid) yn cam-ddefnyddio eu hawdurdod. Gwelwn, a dywedais hyny, ein bod yn wynfydedig nad oedd neb yn ein mysg mewn awdurdod, a'r fath farn fyddai i rywun gael ei osod." Aeth yn ei flaen i siarad am Grist, anwybodaeth llawer o honynt am dano, anfeidroldeb ei ddyoddefaint, ei glwyfau, a'i waed, ac anfeidroldeb pechod. "Pan y siaradai y brawd Rowland yn gnawdol," meddai, "dywedais wrtho am weddïo rhag i'w holl wybodaeth fod allan o lyfrau. Yr oedd yn ystorm enbyd, a'r brawd Rowland a fygythiai ymadael, oni throem Beaumont allan." Aeth Harris a'r achos at yr Arglwydd; gwelai yn glir mai cadw Beaumont i mewn oedd achos yr holl gyffro yn Lloegr, ac yn Nghymru. Ond gadael pethau fel yr oeddynt am y chwar-

ter hwnw a fu y diwedd, a thynerodd Phillips gryn lawer ar y frawdoliaeth, trwy ddweyd fod Beaumont yn credu yn y Drindod. Gwedi hyny, trefnwyd nifer o faterion, a cheryddwyd rhyw frawd am ysgrifenu yn erbyn Griffith Jones, ac ymyraeth mewn mater nad oedd yn perthyn iddo. Y mae y brawddegau nesaf yn y dydd-lyfr yn haeddu eu croniclo: "Ar hyn, aeth y brawd Rowland, a'r brawd Price i ffwrdd, ac yn uniongyrchol daeth yr Arglwydd i lawr. Dangosais iddynt, i bwrpas, anfeidroldeb a gogoniant y gwaith; eglurais fel y mae yn ymledu, ac os byddai i'r cynghorwyr fod yn ffyddlawn ar ychydig, y caent eu dyrchafu i fod yn dadau. Cyhoeddais, yn ngwydd pawb, anfeidroldeb a gogoniant Crist; mai ofer fyddai ceisio ei wrthwynebu; bum yn llym at un a'i gwrthwynebai, ac a edrychai arno yn gnawdol. Gwelwn, a dangosais hyny i'r brodyr, nad oedd Duw yn dyfod i lawr atom, hyd nes i Rowland a Price, &c., ymadael, ac mai eu hanghrediniaeth a'u hunanoldeb yn y mater hwn oedd yn cadw Duw i ffwrdd." Yn sicr, yr oedd y sylw hwn yn un tra angharedig, ac yn dangos yspryd wedi myned yn mhell allan o'i le.

Cyn ymadael o'r New Inn, cafodd Howell Harris ymddiddan maith drachefn â Rowland, Price, a Howell Davies. Dywedasant wrtho fod Whitefield wedi anfon atynt gyda golwg arno, ac am ei syniadau; a'i fod ef (Whitefield) am yru y pregethwyr atynt hwy. Dadleuai Harris o blaid Beaumont, ond ni fynent wrando arno yn y pwnc hwn. Eithr, wrth ymddiddan, daethant gryn lawer yn nes at eu gilydd, a thynerodd y naill at y llall. Rhybuddiai Harris hwy am gadw yn nes at Dduw; ceisiai ganddynt gael cyfarfod yn breifat, ac i'r naill agor ei galon i'r llall, a dweyd beth a welent allan o le yn eu gilydd. Achwynai fod Daniel Rowland yn erbyn y Morafiaid, ac yn erbyn y Wesleyaid; ei fod ef (Harris) yn gweled canlynwyr Whitefield a Wesley fel dwy gangen o'r eglwys ddiwygiedig. Wedi dangos y dylent deimlo beiau eu gilydd fel eu beiau eu hunain, a bod eu gwaith yn duo eu gilydd yr un peth a phe y duent eu hunain, chwythodd yr ystorm heibio, ac wrth ganu emyn, teimlent fod yr Arglwydd yn eu mysg.

Yr oedd dau ddylanwad tra niweidiol ar Howell Harris yr adeg hon, y rhai ni fynai, er pob cynghori a rhybuddio, eu hysgwyd i ffwrdd. Un oedd dylanwad James Beaumont. Ymddengys fod Beaumont yn bresenol, nid yn unig wedi cyfeiliorni yn mhell oddiwrth y ffydd, ond ei fod yn ogystal wedi ymlenwi o falchder, a'i fod, hyd y medrai, yn ceisio troi calon Harris oddiwrth y rhai y buasai yn cydweithio â hwy o'r cychwyn. Pe y buasai yn cydsynio i daflu Beaumont dros y bwrdd yn Nghymdeithasfa y New Inn, fel y dylasai, yn ddiau, buasai yr ystorm yn tawelu ar unwaith. Ond ni fynai; yr oedd yn benderfynol o gadw Jonah yn y llong. Y dylanwad niweidiol arall arno oedd eiddo y wraig a hònai yspryd prophwydoliaeth. Credai am hon, ei bod wedi ymddyrchafu yn uwch i'r goleuni dwyfol na neb ar y ddaear, ond efe ei hun; fod gan yr Arglwydd waith dirfawr i'w gyflawni yn Nghymru, trwyddo ef a hithau, a bod pob gwrthwynebiad iddi, yn wrthwynebiad yn erbyn ewyllys Duw. Yr oedd hithau yn ddichellgar, yn llanw ei fynwes â rhagfarn yn erbyn ei frodyr. Yr oedd wedi prophwydo, meddai Harris, y byddai iddo ymwahanu oddiwrth Mr. Whitefield; ac hefyd, y darfyddai pob undeb rhyngddo â Daniel Rowland. Cymerai arni yn awr, ei bod wedi cael datguddiad, y byddai efe yn fuan yn ben ar yr holl bregethwyr a'r seiadau yn Nghymru. Ysgrifenai ato o Lundain, i'w rybuddio i fod yn ffyddlon i bregethu y Dyn Iesu; ac edrychai yntau ar y rhybudd fel cenadwri uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd. Gwnaeth dylanwad y ddynes gyfrwys a rhagrithiol hon niwed dirfawr iddo; parodd anghysur yn ei deulu; a rhoddodd achlysur i'w wrthwynebwyr i daenu chwedlau anwireddus ar led gyda golwg ar burdeb ei fuchedd. I'r chwedlau hyn nid oedd rhith o sail; ni fu dyn ar wyneb y ddaear yn fwy rhydd oddiwrth lywodraeth nwydau anifeilaidd; y mae tôn ysprydol ei gyfeiriadau at y ddynes, yn ei ddydd-lyfr, yn brawf o'r goleu yn mha un yr edrychai arni. Ni fuasem yn cyfeirio at ei dylanwad arno yn awr, oni bai ei fod yn hollol sicr fod ganddi law fawr yn nygiad oddiamgylch y rhwyg rhyngddo ef a'i gymdeithion, a'i gyd-lafurwyr.

Ychydig o ddyddiau y bu Howell Harris gartref cyn cychwyn ar daith i Sir Benfro. Nis gallwn fanylu ar y daith hon, eithr cyfeirio yn unig at rai pethau o ddyddordeb cysylltiedig â hi. Yn Llandilo Fawr, cyfarfyddodd â Daniel Rowland, eithr ychydig o'r hen gyfeillgarwch a ffynai rhyngddynt. "Nid wyf yn cael nemawr

o gariad brawdol, a chymundeb Cristionogol ag ef yn awr," meddai Harris, "ond yn hytrach, y mae fy yspryd yn cael ei gau. Dywedais wrtho mai ychydig o natur pechod a welem, onide y byddai arnom fwy o'i ofn; ac nad oeddwn yn gweled y gwaith yn pwyso ar neb, o ganlyniad, yr awn allan wrthyf fy hun. Ymddiddanasom, hefyd, am gael tŷ i bregethu ynddo yma." Yn Longhouse, yn Sir Benfro, cyfarfyddodd â Benjamin Thomas, yr hwn a ystyriai yn nesaf at Daniel Rowland, fel un o'i brif wrthwynebwyr. Fel hyn y dywed yn ei ddydd-lyfr: "Lleferais yn rhydd wrth Benjamin Thomas, gan ddangos y fath blant ydym oll, a'r modd yr ydym, bawb o honom, allan o drefn, heb neb yn adnabod ei le, ac mor anwybodus ydym oll o Grist. Cymerodd yntau y cwbl genyf. Gwelais, a theimlais, mor fawr yw y gorchwyl o ddwyn Crist gerbron y bobl; nad oeddwn yn ei wneyd yn iawn, a llefwn am gael bod gerbron yr Arglwydd, gan nad wyf yn goddef unrhyw bechod (yn y seiadau), ac nad wyf yn caniatau lle i hunan. O ganlyniad, y mae y gwrthwynebiad, nid yn fy erbyn i, ond yn erbyn Duw." Teifl y difyniad diweddaf gryn oleuni ar ystâd ei feddwl, sef, yr ystyriai fod yr Arglwydd wedi ei benodi yn llywodraethwr ar y cymdeithasau, a chan ddarfod iddo yntau, hyd eithaf ei allu, fod yn ffyddlawn i'r ymddiriedaeth, fod codi yn ei erbyn yn wrthryfel yn erbyn y trefniadau dwyfol. Cawn ef, yn nesaf, mewn Cymdeithasfa Fisol yn Hwlffordd, yn mha un yr oedd Howell Davies yn bresenol. Nid yw yn ymddangos i ddim o bwys gael ei benderfynu ynddi, ond y mae ei ymddiddan wrth ffarwelio â Howell Davies yn haeddu ei gofnodi. "Dywedais wrtho," meddai, "fod gogoniant Crist yn dechreu cael ei amlygu, ac y cai pawb a wrthwynebai eu dinystrio. Dangosais iddo am gnawdolrwydd a deddfoldeb y brawd Rowland, nad yw yn cynyddu mewn gwybodaeth o Grist, a'i fod yn ymddangos fel yn tyfu mewn hunanoldeb. Cyfeiriais at falchder y brawd Beaumont, a'r modd yr oeddwn, hyd y gallwn gael cyfleustra, er pan gafodd gogoniant Crist ei amlygu gyntaf yn ein mysg, yn ymdrechu chwilio y Beibl, a gweithiau dynion da. Ac yn awr, y dinystrai Duw yr holl wrthwynebwyr. Dywedais, fy mod yn tybio mai y brawd Rowland a fyddai y diweddaf i ddod i mewn." Y diweddaf i ddod i gydnabyddiaeth â gogoniant yr Arglwydd Iesu a olyga, yn ddiau. Pa ateb a wnaeth Howell Davies i hyn oll, nis gwyddom; efallai y gwelai nad gwiw iddo ar y pryd wneyd unrhyw amddiffyniad i Daniel Rowland.

Cynhelid Cymdeithasfa Fisol, hefyd, yn Nghaerfyrddin, a bu Harris yn anerch y cynghorwyr a'r goruchwylwyr gyda difrifwch mawr. "Y mae hyn," meddai, "yn rhan o fy swydd bwysig, i'r hon, yn wir, y perthyn llawer o ganghenau, y rhai na welais yn y goleu priodol o'r blaen. Gwelaf fod mwy o ganghenau wedi eu rhoddi i mi nag i neb o'r pregethwyr, yr offeiriaid, na'r cynghorwyr, oddigerth Mr. Jones (Griffith Jones, Llanddowror). Arweiniwyd fi yma i geryddu am ysgafnder, ac yfed, ac am fod yn un â Christ; a dangosais fel y mae llawer wedi syrthio trwy falchder. Yr oeddwn yn llym am gynyddu mewn tlodi yspryd. Dangosais fel y mae y gwaith, er pob peth, yn myned yn y blaen yn rhyfedd, a'r modd y mae fy mwa yn arhoi yn gryf. Gwrthodais un a syrthiasai, oedd yn cynyg dyfod atom, ac a ymddangosai yn dra gostyngedig, am nad oedd ei yspryd yn ddigon drylliedig, ac am nad oeddwn yn teimlo yspryd yn ei eiriau." Wedi teithio trwy gryn lawer o Sir Gaerfyrddin, a rhan o Forganwg, cawn ef yn Llangattwg, ger Castellnedd, ac y mae yr adroddiad a rydd am ei helynt yn y lle hwn yn dra phwysig. "Neithiwr," meddai, "gwedi i mi bregethu yn gyhoeddus gyda chryn arddeliad, darfu i Mr. Peter Williams fy ngwrthwynebu yn bendant, gan ddweyd fy mod yn cyhoeddi fy hun; gwnaeth hyny yn fwy ar ol y seiat breifat; yna, aeth i ffwrdd. Yr oeddwn yn llym ac yn geryddol yma, fel yn Hwlffordd; ond yma, yn benaf, oblegyd eu difaterwch am waith Duw, ac am eu pleidgarwch a'u cnawdolrwydd tuag at Mr. Rowland. Dywedais, nad oeddwn yn gweled neb yn adwaen ei le, ac felly, fy mod yn benderfynol o fyned o gwmpas fy hun, gan weled pwy a unai yr Arglwydd â mi, gan osod ei waith arnynt, fel yr aent trwy bob peth. Dangosais, fy mod yn gweled yspryd slafaidd a sismaidd yn meddianu y bobl; mai gweinidogaeth y Gair yn unig a gawsai ei roddi i ni, a'r ordinhadau i fod yn yr eglwysydd plwyfol. Rhoddais gynghorion gyda golwg ar amryw achosion. Gwedi hyn, cynghorais yn llym, am fod yn un â Christ yn mhob peth. Daeth yr Arglwydd i lawr ar hyn. Llawer o'r cynghorwyr a'r stiwardiaid

a gyffesasant fawredd eu pechodau, eu dyledswyddau, a'u breintiau. Datgenais fy serch atynt, a'm bod yn eu ceryddu mewn cariad. Clywais gymaint am lygredigaethau a sismau yn tori allan yn ein mysg, fel mai braidd y gallwn ddal, ac am frodyr yn esgeuluso eu lleoedd wedi iddynt gael eu cyhoeddi. Gymaint o bethau sydd genyf i fyned trwyddynt. Y mae yn dda mai yr Arglwydd sydd Dduw." Yr ydym yn cael yma, am y tro cyntaf, y cytunai Peter Williams a'r offeiriaid, sef Rowland, Williams, a Davies, mewn gwrthwynebiad i Howell Harris. A oedd yn wrthwynebol i'w athrawiaeth, nis gwyddom; y prif gyhuddiad a rydd yn ei erbyn yw, ei fod yn pregethu ei hun. Braidd na awgryma hyn fod ei safle yn mysg y Methodistiaid, a'i gwerylon a'i frodyr, yn cael cryn le yn mhregethu Harris yn ystod y daith hon. Yr ydym yn cael, hefyd, fod Harris erbyn hyn, wedi gwneyd ei feddwl i fynu i ymranu, ac i ffurfio plaid ei hun, gan obeithio y byddai i'r nifer fwyaf o'r cynghorwyr, ac o'r bobl, ei ganlyn. Yr oedd hyn yn ei fryd er ys tipyn, a chawn ef yn awgrymu y peth wrth Daniel Rowland, yn Llandilo Fawr.

Yn Rhosfawr, lle yn ngorllewin Morganwg, cafodd ymddiddan maith â dau gynghorwr, sef John Richard, Llansamlet, a William James. Ei amcan yn amlwg oedd eu henill i fod o'i du ef, yn yr ymraniad ag yr oedd wedi penderfynu arno. Fel hyn y dywed: "Dangosais iddynt ein cwymp oddiwrth Dduw i yspryd y byd, a gwelent nad yw yr Arglwydd Iesu yn awr yn cael ei garu, ond fod llygredigaethau yn dyfod i mewn fel afon. Dangosais mai gwybodaeth pen a bregethai yr offeiriaid; mai y pen a'r teimlad y maent yn gyfarch; ond fod yspryd y bobl yn myned yn fwy daearol, hunangar, cellweirus, nwydus, a chnawdol; fod y bobl yn diystyru pawb ond yr offeiriaid, gan barchu y gŵn, a'r enw. Eglurais yr angenrheidrwydd am edrych ar yr oll yn Nuw, a chanfod pob peth yn awr yn ngoleu y dydd diweddaf. Dymunwn arnynt ymgasglu yn nghyd, nid er mwyn plaid, ond i gadarnhau y naill y llall yn y goleu a roddasid iddynt gan Dduw; ar iddynt fyned i fysg y bobl, i'w hachub rhag y plâ sydd yn ein hanrheithio, sef ysgafnder, ac edrych yn y cnawd am bob peth; ar iddynt geisio dyrchafu y bobl i fynu hyd at y goleuni; ac ar iddynt adael i mi wybod sut yr oedd pethau yn myned yn mlaen. Dangosais nad oedd genyf neb yn awr i'm cynorthwyo; fod llawer yn cyfarwyddo y cynulleidfaoedd, ond nad oeddynt yn cynyddu yn ngharied Crist, nac yn gofalu am ei orchymynion; nad oedd Gair yr Arglwydd yn cynyddu mewn dylanwad, am nad oeddent yn gweled Crist yn ei fygythion, yn ei addewidion, ac yn ei orchymynion; nad ydynt yn ei weled ef a'i Air yn un, a'u bod yn edrych ar y Gair yn y cnawd, fel y gwna y byd. Gwelwn ei bod yn bryd, bellach, i sefyll, ac i wrthwynebu parchu y pen, a pharchu y cnawd. Dywedais fy meddwl am yr offeiriaid, ac yn arbenig Rowland, fy mod yn tybio mai efe a fyddai y diweddaf i ddyfod i'r goleuni; a'i fod yn elynol i bob bygwth, ac yn ddifater am wybod meddwl Duw." A yn ei flaen i gyhuddo yr offeiriaid o ariangarwch, ac i ddweyd nad oedd eu gweinidogaeth yn effeithiol i ddwyn oddiamgylch fywyd ysprydol. "Gwelwn ei bod yn bryd i mi," meddai, "i ddyfod o Loegr i Gymru i wrthsefyll yr hunan sydd yn dyfod i mewn. Rhaid i mi ddysgwyl cael fy marnu yn llym, a'm camdrin gan bobl, y rhai, fel plant drygionus, a ymwrthodant a'r iau." Yna, datgana ei ffydd yn ei swydd, ac y rhaid i'r gwaith fyned yn y blaen, er cymaint y gwrthwynebiad. Nid yw yr hanes hwn mewn un modd yn ddymunol i'w adrodd; nid melus gweled hen gyfeillion wedi ymranu, ac wedi myned i gamddeall eu gilydd mor drylwyr; a rhaid fod yspryd Harris ei hun yn cael ei glwyfo, pan yn cyhuddo ei gymdeithion a'i gyd-lafurwyr gynt, o fod yn meddu ar oleu pen yn unig, ac o edrych ar wirioneddau gogoneddus yr efengyl yn gyfangwbl yn y cnawd. Eithr yn hyn oll, tybiai ei fod yn cario allan y comissiwn dwyfol.

Yn Cefngleision, cynghora y goruchwylwyr perthynol i'r seiadau i gyfarfod unwaith y mis o leiaf, ar eu penau eu hunain, i gydweddïo, i agor eu calonau i'w gilydd, ac i drefnu y gwahanol achosion a fyddai yn codi. Nid oedd am i'r trefniadau fyned o flaen yr holl gymdeithas, gan fod perygl felly iddynt gael eu mynegu i'r byd. "Dangosais," meddai, "am fabanod a phlant, na ddylid ymddiried cyfrinach iddynt; mai bara yn unig sydd yn angenrheidiol i'r cyntaf, ac ymborth, dillad, dysgyblaeth, a gwaith, i'r ail; ac oni chedwir hwy danodd, y gwnant ddinystrio eu hunain, a phawb cysylltiedig â hwynt." Gwelir ei fod yn credu mewn llywodraethu y cymdeithasau â gwialen haiarn, braidd,

ac nad oedd am ganiatau llais o gwbl mewn ymdriniaeth ag achosion i'r aelodau cyffredin. Eithr ychwanega: "Lleferais i'r byw am wneyd eilunod o'r gŵn, a'r enw, a phethau eraill perthynol i'r offeiriaid. Dangosais yr angenrheidrwydd am edrych ar y cwbl fel y gwna yr Arglwydd. Nad yw yr enwau a'r pethau yma (o eiddo yr offeiriaid) ond cnawdol, ac ar gyfer rhai cnawdol; ond fod llawer o Gristionogion (Methodistaidd) na wnant edrych ar unrhyw weinidogion ond offeiriaid, ac felly hefyd yr offeiriaid eu hunain; ond fod doniau yr Yspryd a gwaith Crist yn gyfartal ogoneddus yn mhawb. Cyfeiriais at waith lleygwyr yn addysgu, megys Paul, Apolos, a'r brodyr gwasgaredig o Jerusalem; fod Calvin, a hyd yn nod yr esgobion, yn cyfaddef y gallai lleygwyr bregethu mewn achosion o angenrheidrwydd ac erledigaeth. Eglurais pwy oedd yn fawr yn fy ngolwg i, sef y rhai ydynt yn ofni, yn caru, ac yn anrhydeddu Duw mewn gwirionedd, y rhai sydd a'i achos ar eu calon, sydd yn rhodio yn ostyngedig gerbron Duw, ac a ydynt yn wyliadwrus. Gwelwn bethau yn fwy yn yr Yspryd nag erioed, a bod yr Arglwydd wedi myned allan, gan ddechreu gosod meini yn nghyd." Ystyr y frawddeg olaf, feddyliem, yw, ei fod yn canfod addfedrwydd yn bresenol i ffurfio plaid ar wahan i'r Methodistiaid. Meddai eto: "Dangosais y modd yr oeddynt hwy hyd yn nod yn parchu y clerigwr am fod yr enw offeiriad arno; ond y dylem eu parchu i'r graddau ag y mae yr Arglwydd yn eu harddel, a dim yn mhellach." Diau ei fod yn hollol yn ei le yn hyn, ond gwelir fod ei yspryd wedi newid yn ddirfawr er y Gymdeithasfa gynt yn Watford, pan y gweinyddai gerydd ar ryw gynghorwr anffodus, oedd wedi dweyd rhywbeth yn amharchus am y gŵn. Ychwanega: "Cefais ffydd i gyflwyno yr oll a ddywedais am yr offeiriaid, sef Rowland a Williams, i Dduw, gan mai am ddyrchafu yr Arglwydd yr wyf fi, ac am i bob un aros, a chael ei weled, yn y lle y gosododd yr Arglwydd ef ynddo. Cefais lythyr o Gilycwm, i gymeryd gofal y seiat yno; lledais yr achos gerbron yr Arglwydd, a chefais ganiatad i'w chymeryd yn Nuw, a thros Dduw." Y mae y frawddeg olaf yn bwysig tuhwnt. Dengys fod y cweryl rhwng Rowland a Harris yn rhedeg i mewn yn gryf i'r seiadau, a'u bod hwythau yn dechreu rhesu eu hunain gydag un neu y llall. Syn, braidd, yw gweled seiat Cilycwm yn anfon y fath genadwri at Howell Harris; yn Nghilycwm yr oedd Williams, Pantycelyn, ar yr hwn yr edrychai Harris yn awr fel gwrthwynebwr, yn aelod, a rhaid fod dylanwad y bardd yn ei gartref ei hunan yn gryf. Deallwn ar ol hyn nad oedd y llythyr wedi cael ei anfon gan y seiat yn ei chyfanswm, ond gan ryw bersonau ynddi.

Ar y pumed o Fawrth, cyrhaeddodd Drefecca, ar ol taith fwy manwl trwy Ddeheudir Cymru nag a wnaethai erioed o'r blaen. Yno yr oedd llythyr oddiwrth John Cennick yn ei aros. Teimlai y fath anwyldeb at y brawd hwn, fel y gallai rhedeg yn ei gwmni dros y byd, a llefai am ei gael yn gydymaith yn y gwaith drachefn. Y mae yn sicr y teimlai Howell Harris yn dra unig yn awr. Yr oedd wedi anghytuno â Whitefield, ar yr hwn yr edrychai unwaith fel tywysog Duw; ac yr oedd wedi ymddyeithrio oddiwrth ei hen gydweithwyr yn Nghymru. Enwa Cennick, Beaumont, John Sparks, John Harry, John Richard, a Thomas Williams, Groeswen, fel rhai oeddynt yn cydymdeimlo ag ef. Yr oedd yn awr yn pregethu yn gyhoeddus yn erbyn yr offeiriaid Methodistaidd, fel y dengys y difyniad canlynol o'i ddydd-lyfr: "Mawrth 10. Arweiniwyd fi i lefaru yn llym am falchder a hunan ein proffeswyr ieuainc, nad yw crefydd Crist i'w gweled ynddynt. Dangosais y modd y mae offeiriaid a phobl y Methodistiaid yn syrthio fwy fwy i hunan a balchder. Pa nifer o honynt a ddaw yn mlaen, Duw yn unig a ŵyr. Am y nifer fwyaf, dangosais eu bod o'r gwraidd yn Iuddewon, yn Phariseaid, ac yn elynion i'n Hiachawdwr; nad yw eu crefydd ond ychydig o oleuni pen, a chyffyrddiadau ysgafn ar y dymher, tra y mae hunan o dan y cwbl, a'u bod yn tyfu yn y cnawd, gan ddwyn ffrwyth i'r cnawd ac i'r byd." Buasai yn anhawdd dweyd dim mwy miniog, a rhaid ei fod yn peri i'r bobl edrych ar Daniel Rowland a'i blaid mewn goleu tra anffafriol. "Byddai cystal genyf," meddai, "fyned i uffern yn gyhoeddus, a myned yno yn nghymdeithas proffeswr cnawdol."

Ychydig o ddyddiau y bu gartref; cawn ef yn fuan yn cychwyn am daith i Sir Drefaldwyn. Yn mhob pregeth o'i eiddo yn mron y cyfeiriai at yr offeiriaid, nad oeddynt yn adnabod eu lle, a'u bod yn byw yn y cnawd. Yn y Tyddyn, Mawrth 14, ysgrifena fel y canlyn: "Y brawd Richard Tibbot a ofynodd i mi pa beth i

wneyd, gan fod y tadau, sef Rowland a minau, yn anghytuno? Agorais iddo yr oll o'n hanghydwelediad; y modd yr oedd yr Arglwydd wedi peri i mi ddechreu y gwaith hwn wrthyf fy hun, ac i fyned allan o flaen Whitefield, Wesley, a Rowland; ddarfod iddo fy ngosod yn dad yn y Gymdeithasfa, a'u bod yn arfer ymostwng i'm ceryddon, hyd nes, rai blynyddoedd yn ol, y dechreuodd Rowland eu gwrthod, a gwrthwynebu pregethu y gwaed o ragfarn at y Morafiaid. Dangosais y modd yr oeddwn wedi derbyn gogoniant a marwolaeth ein Hiachawdwr bedair blynedd cyn dyfod i gydnabyddiaeth â hwy, ac i mi ffurfio undeb â hwynt pan ddeallais eu bod yn adnabod ei Dduwdod a'i farwolaeth. Eglurais y modd yr oeddwn wedi rhoddi i fynu Siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin, lle y mae ganddo ef (Rowland) ddylanwad, am fod ein goleuni yn anghytuno wrth drefnu materion allanol, ac am nad yw wrth bregethu yn cynyddu, oddigerth mewn deddfoldeb, ac efrydiau a gyffyrddant a'r deall ac a'r teimlad. Ond yn awr fy mod wedi cael anfon am danaf i Sir Gaerfyrddin, ond na weithredaf (ar y gwahoddiad) oni ddewisant fi yn hollol i drefnu materion preifat, ac yntau (Rowland) yn unig i bregethu; neu ynte, efe yn unig i drefnu, a minau i bregethu. Felly yr wyf wedi cynyg i'r cynghorwyr yn mhob man, ac felly yma." Nid annhebyg mai at y llythyr o Gilycwm y cyfeiria wrth son am yr alwad o Sir Gaerfyrddin. Gwelwn nad yw yn gryf yn ei amseryddiaeth; nid oedd pedair blynedd rhwng ei argyhoeddiad a'i gydnabyddiaeth â Daniel Rowland, eithr ychydig gyda dwy flynedd. Gwedi ymweled â Mochdref, Llanbrynmair, Llwydcoed, Dolyfelin, a Llangamarch, dychwelodd trwy Aberhonddu i Drefecca, Mawrth 24. Gwelai fod holl Gymru wedi ei rhoddi gan yr Arglwydd iddo, ei fod wedi cael ei osod ar binacl y deml, ond teimlai ei annigonoldeb i'w sefyllfa a'i gyfrifoldeb.

Ar y dydd olaf o Fawrth, cawn ef yn nhŷ un William Powell yn pregethu, a hyny i dyrfa anferth. Ei destun ydoedd: "Trwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." Tebygol fod tŷ Mr. Powell rywle yn Sir Forganwg. Ond yr oedd meddwl Harris yn llawn o sefydlu plaid ar wahan oddiwrth y Methodistiaid. Fel hyn y dywed yn ei ddydd-lyfr: "Cefais ymddiddan a'r brawd Thomas Williams am gael cyfarfod preifat arall gydag ef, W. Powell, Thomas Jones, John Richard, a Beaumont, &c., a rhai cyffelyb ydynt yn tyfu i fynu hyd at ein goleuni, i gyfnewid syniadau a'n gilydd, ac i ymgynghori parthed casglu yn nghyd yr eneidiau, ac i weled pwy yn mysg y bobl sydd yn cynyddu mewn gwybodaeth o Grist croeshoeliedig, ac mewn bywyd ffydd, gan fyw ar Grist, a marw i hunan ac i'r byd." Y lle nesaf y cawn ef yw Llantrisant, a Thomas Williams yn gydymaith iddo, a dywed iddo bregethu gyda nerth, a gwroldeb, a beiddgarwch, i gynulleidfa anferth o fawr. Yn y seiat breifat, gorchymynai gydag awdurdod ar iddynt ufuddhau i Grist, ac yr oedd yn llym i bawb a unai ag unrhyw un i bechu yn ei erbyn. Yr oedd cynulleidfa fawr hefyd yn yr Aberthyn; gwelai fod llawer yn dyfod i'r goleuni, a'i fod yntau yn myned i fuddugoliaethu, a gweddïai mewn hwyl: "Gogoniant am waed yr Oen!" Gwedi y bregeth, cynhaliodd seiat breifat o'r holl seiadau. Dywedai wrthynt y parchent ef yn fwy pe buasai yn werth mil o bunau yn y flwyddyn, ac yn gwisgo gŵn offeiriadol. "Dangosais," meddai, "fod Paul yn ddirmygus yn ngolwg llawer; nad oedd Calvin ond lleygwr; y modd yr oedd Duw wedi fy ngwneyd yn dad ac yn ddechreuydd y diwygiad hwn, a'm bod wedi myned allan (i bregethu) bedair blynedd o flaen Whitefield, Wesley, na Rowland." Gwelwn ei fod yn hollol gyfeiliornus yn ei amseryddiaeth. "Efallai,' meddai, yn mhellach, "i Dduw beri hyn er tynu i lawr falchder yr offeiriaid, ac i ddangos y gwna efe weithio yn ei ffordd ei hun, ac mai efe ei hunan sydd yn gwneyd y gwaith. Mynegais iddynt oni ddeuent yn ol y Beibl at draed Crist, y drylliwn y seiadau yn ddarnau, na chai Crist ei watwar gyda rhith o ufudd-dod.' Wrth ddyfod at draed Crist y golygai, yn ddiau, credu yr athrawiaeth a ddysgai efe am berson Crist. Gwedi y seiat gyffredinol, bu ganddo gyfarfod i'r cynghorwyr a'r goruchwylwyr, ac ymddengys i bethau fyned yn dra annymunol. Achwynai rhai ar William Powell; dywedai Harris mai ei ffyddlondeb i Dduw oedd y rheswm am hyny. "Daeth Satan i'n mysg," meddai; "troais ddau allan, a cherddodd tri arall allan." Dywed fod ei enaid yn ofidus o'i fewn wrth geryddu a dysgyblu, ond mai yr Arglwydd a osodasai y peth arno.

Wedi teithio trwy Nottage ac Aberddawen, daeth i gastell Ffonmon, lle y

cafodd odfa dda, wrth bregethu am y dyn a gafodd ei ollwng i lawr trwy y tô at Grist. Yr oedd William Powell a Thomas Williams gydag ef yn mhob man, ac yr oedd yntau yn eu cyfarwyddo gyda golwg ar gasglu yn nghyd y rhai oedd o gyffelyb olygiadau. Cafwyd seiat ystormus braidd yn Dinas Powis; "troais un cynghorwr allan," meddai, "a derbyniais un arall i mewn." Yn Nghaerdydd, pregethai ar ddyoddefaint Crist. Yr oedd Thomas Price, o'r Watford, yno, ac aeth y ddau yn nghyd i'r Groeswen. Ar y ffordd, dywedai Harris nad oedd Daniel Rowland yn caru Crist, ac mai anaml y byddai yn ei bregethu; nad oedd y dylanwadau a ddeuent trwy Rowland ond awelon ysgeifn allanol yn disgyn ar y bobl, y rhai a ddiflanent yn fuan; ac mai y rhai a gadwent fwyaf o swn yn y cyfarfodydd oeddynt yn aml y mwyaf difater. Yr ydym yn teimlo yn ofidus wrth ddarllen ei sylwadau; nis gellir eu hesbonio ond ar y tir fod teimlad chwerw yn peri iddo weled pob peth o chwith. "Dywedais hefyd wrth y brawd Price," meddai, "ei fod wedi suddo i'r byd, ei fod yn caru y byd, a'i fod wedi gadael yr Arglwydd. Yna, cododd ystorm enbyd, a dangosodd elyniaeth at ddirgelwch Crist. Aethum ymaith yn llwythog fy yspryd; daeth ar fy ol; ymddiddanasom am bob peth yn dawel, a dywedodd ei fod yn derbyn fy athrawiaeth fel y pregethais hi yn Nghaerdydd, a'i fod yn benderfynol o ddechreu o'r newydd. Yna, cynygiais iddo i ni fyned yn nghyd i Ogledd Cymru, ond nid oedd yn rhydd i hyny." Credwn mai amcan y mynediad i'r Gogledd oedd cymeryd meddiant o'r seiadau.

Y mae ei bregeth yn y Groeswen mor gyffrous, fel yr haedda ei difynu. Ei destun ydoedd, 1 Ioan iii. 1: "Gwelwch pa fath gariad a roddes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn blant i Dduw." Meddai: "Dangosais, gyda llawer o ryddid, mor agos y mae Duw at y credinwyr, a'r modd y mae yn eu rhyddhau oddiwrth eu pechod. Eglurir y gwirionedd hwn yn y Beibl fel peidio cyfrif, peidio cofio, peidio gweled, maddeu, cuddio, a rhoddi ar y bwch dihangol. Dangosais fod rhai yn y byd yn awr ag y mae Duw yn edrych arnynt, yn Nghrist, fel pe byddent heb bechu. Meddwn: 'Trwy ddatguddio ei ogoniant y mae yr Arglwydd wedi agor y nefoedd i chwi; trwy eich uno ag efe ei hun y mae wedi eich gosod yn y nefolion leoedd, gan eich gwneyd fel pe byddech heb bechu. Yr wyf yn gofyn i chwi, pwy o honoch, wedi peryglu ei fywyd i achub cyfaill, ac wedi gorchfygu pob rhwystr, a adawai y cyfaill yn y diwedd i'r gelyn? Y chwi sydd dadau, a fedrwch chwi aros mewn tŷ cynhes, llawn o bob math o luniaeth, a gadael eich plentyn i farw o'r tu allan, o eisiau ymborth a thân, yn arbenig pe y llefai efe arnoch, hyd yn nod pe baech wedi digio wrtho? O deuwch, a dychwelwch at yr Arglwydd. Efe a faddeua eich holl bechodau, ond i chwi beidio byw ynddynt. Teifl sothach, megys deng mil o bunoedd yn y flwyddyn, i'w elynion, ïe, i gŵn; beth sydd ganddo, ynte, yn stôr ar eich cyfer chwi, ei blant?' Dangosais y rhaid i ni gael darlun o'r credadyn a'r anghredadyn yn y ddau fyd cyn y bydd ein syniad yn gyflawn. Eglurais, yn mhellach, fod y credinwyr, mewn gwirionedd, yn byw ar ymborth angelion, sef bara y bywyd, a'u bod yn yfed gwaed Crist, fel y byddant byw yn dragywyddol. 'Ni a fyddwn byw byth!' meddwn. 'Ni byddwn farw yn dragywydd; cysgu yn unig a wnawn; cau ein llygaid ar y byd, a'u hagor drachefn yn Nuw, a'n holl bechodau, a'n profedigaethau, a'n maglau o'r tu ol i ni. A phan yr ymddangoswn yn ngogoniant yr Iesu, ni fydd yno na hen ŵr na baban, na neb yn gloff, na neb yn llesg. Y mae ein cyrph a'n heneidiau yn awr mewn undeb â Christ, ac a fedr efe drigo mewn purdeb a gogoniant, uwchlaw pechod, uwchlaw angau, ac uwchlaw Satan, a'ch gadael chwi, ei blant, o danynt? Na fedr byth. Deffrowch, ynte! Cyfodwch o'r llwch!' Yna, dangosais fawredd y Cristion wrth y wisg sydd am dano, yr un wisg a Duw y Tad ei hun, yr un wisg ag a wisgir gan yr holl deulu yn y nefoedd, ac ar y ddaear; a bod Iesu Grist yn frawd iddynt, ac nad oedd arno gywilydd eu harddel." Cofnoda ddarfod iddo gael odfa fendigedig, fod nerth y dyddiau gynt yn cydfyned a'r genadwri. Yn y seiat breifat a ddilynai, yr oedd yr un teimlad hyfryd yn ffynu.

Pan yr oedd Howell Harris yn gallu anghofio ei dramgwyddiadau, a'i le ei hun yn y seiadau, ac yn cael ei lanw ag yspryd yr efengyl, fel yn y Groeswen, yr oedd yn ofnadwy o nerthol, ac yn cario pob peth o'i flaen. Rhyferthwy cryf ydoedd, yn dadwreiddio y coedydd talgryfion, ac yn ysgubo ymaith bob rhwystr a allai fod ar ei ffordd. Yr oedd llewyrch nefol ar ei yspryd yr odfa hon, ond tywyniad haul

rhwng cymylau ydoedd, a chawn y tywyllwch yn dychwelyd yn fuan. Gwedi y seiat, bu mewn ymgynghoriad a'r cynghorwyr a'r stiwardiaid; cydiodd yr un yspryd ag a amlygasid yn yr Aberthyn, yn un o'r stiwardiaid; trodd Harris ef allan; dywedai yntau ei fod yn tra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw. Ymhelaethodd Harris, gan ddangos fod y pregethwyr ag yntau yn meddu yr un weinidogaeth a Moses, a'r prophwydi, a'r apostolion; eu bod yn ymladd yn erbyn yr un diaflaid, ac wedi cael eu llanw a'r un yspryd; ac er eu bod, o ran eu teimlad, yn barod i fyned dan draed pawb, eto, fod yn rhaid iddynt fawrhau eu swydd, onide y cai Iesu Grist ei ddarostwng.

Chwythwm bychan oedd yr helynt gyda'r stiwardiaid yn y Groeswen, eithr daeth ystorm enbyd yn Watford dranoeth. Caiff Harris ei hun adrodd yr hanes. "Y boreu hwn,' meddai, "cefais frwydr ofnadwy iawn â Satan, yn y brawd Price, a'r brawd David Williams, am y stiwardiaid y darfu i mi eu troi allan yn Aberthyn. Pan ddaw Satan i mewn, anhawdd iawn ei gael allan. O'r diwedd, dywedais wrthynt y gwnawn eu gadael, a myned allan wrthyf fy hun, fel cynt. Dywedais mai Iuddewon ydynt, nad ydynt yn adnabod yr Iesu, nac yn ei garu, ac eto, eu bod yn tybio eu bod yn dadau. Eu bod wedi tyfu yn y cnawd, a bod yr Arglwydd wedi cyd-ddwyn â hwy hyd yn awr; ond na wna oddef yn hwy, a'i fod wedi myned allan yn erbyn cnawdolrwydd. 'Os ydych chwi,' meddwn, 'yn gaeth i ddyn ac i gnawd, nid ydwyf fi.' Yr oeddynt hwy yn eiriol dros y goruchwylwyr, ac yn dweyd y perai eu troi allan annhrefn mawr. Dywedais fy mod yn gweled y gwaith yn pwyso ar yr Arglwydd, ac nid ar ysgwyddau y fath ddynion, a'm bod yn barod i adael y canlyniadau iddo ef. Dangosais eu bod, trwy eu hymddygiad, yn sathru fy lle o dan eu traed, ac yn cyfansoddi eu hunain yn fath o lys uwchlaw; ond fy mod yn benderfynol o fynu y rhyddid a brynodd Crist i mi. 'Nid oes yr un o honoch ag awdurdod arnaf fi,' meddwn; 'nid ydych wedi cael awdurdod o'r fath gan Dduw na dyn. Pe bai yr holl Gymdeithasfa gnawdol, fel yr ydych yn ei galw, yn fy esgymuno, gwnawn yr un peth eto. Nid wyf yn talu un sylw i neb, ond i'r Arglwydd.'" Yna, ymneillduodd i weddïo; ac yr oedd yn flaenorol wedi derbyn llythyr oddiwrth Madam Griffiths, y ddynes a hònai yspryd prophwydoliaeth, yn rhagfynegu am annhrefn mawr oedd wrth y drws, ac yn debyg o gynyddu. David Williams, gweinidog yr Aberthyn, yn ddiau, oedd y brawd oedd gyda Thomas Price yn y ffrwgwd. Dengys y difyniad hwn fod tymher Harris weithiau yn aflywodraethus; ei fod yn hòni awdurdod unbenaethol ar yr holl seiadau, ac na oddefai i neb ymyraeth a'i waith, hyd yn nod mewn ffordd o gynghor ac eiriolaeth. Braidd na theimlwn fod gradd o wallgofrwydd wedi ei feddianu. Yn y dirgel, dywed iddo weled i ddyfnderoedd pethau ysprydol yn mhellach nag erioed. "Yna," meddai, "gan fy mod yn gweled fod y gwrthwynebiad yn erbyn yr Arglwydd, ac nid yn fy erbyn i, mi a aethum yn ol at y brodyr, a dangosais iddynt fel y maent wedi suddo i'r cnawd, a'u bod wedi gadael i'r cythraul ddyfod i mewn i dŷ Dduw, ac yn awr, nad oeddynt yn foddlawn ei droi allan; ond fy mod i yn benderfynol o fyned yn y blaen, ac y safwn fy hunan. Dywedais y cydsyniwn a'u cais (sef i adferu y stiwardiaid) oni bai fod arnaf ofn digio yr Arglwydd. Meddwn: 'Nis gallwn barhau i fyned yn mlaen yn nghyd, gan nad ydych yn gweled yr un fath a mi, ac na feddwch ffydd i ymddarostwng i'm goleuni i, a'm gadael i i'r Arglwydd. Dyn rhydd Duw wyf fi, ni thalaf sylw i neb ond efe.' Dangosais y modd yr oedd y stiwardiaid wedi ymddwyn, gan farnu y pregethwr yn ei gefn, heb ddweyd yr un gair wrtho ef, nac wrthyf fi. Erchais i Thomas Williams fynu gweled a oedd y bobl yn yr yspryd hwn; os oeddynt yn galw am danaf fi, am iddo anfon ataf, onide na ddeuwn i'w mysg byth." Amlwg yw nad oedd mewn tymher y gellid ymresymu ag ef. Edrychai arno ei hun fel mewn cymundeb cyson a'r nefoedd, ac yn cael ei arwain yn uniongyrchol gan yspryd Duw yn yr oll a wnelai; ac felly, fod ei wrthwynebu ef yr un peth yn hollol a gwrthwynebu Duw. Modd bynag, lleddfodd y dymhestl i raddau; aeth Thomas Price a David Williams gydag ef, i'w wrando yn Machen; a siriolodd hyny lawer ar ei yspryd. Teithiodd trwy Sir Fynwy, yn arbenig y rhanau nesaf at Loegr o honi, yn fanwl, ac ni ddychwelodd adref hyd y 15fed o Ebrill.

Mai y 5ed, cawn ef yn cychwyn i Gymdeithasfa Llanidloes, gyda Beaumont yn gydymaith iddo. Yr oedd yn myned mewn tymher orfoleddus; gwaeddai yn barhaus: "Gogoniant am waed yr Oen!"

Yn Llanfair-muallt, cymerodd Beaumont y naill du, a cheryddodd ef yn llym am ddefnyddio geiriau Groeg wrth bregethu. "Gŵyr pawb," meddai, "nad ydych chwi yn gwybod Groeg. Balchder yspryd sydd yn eich cyffroi. A phe baech yn ei wybod, mor ffol fyddai dangos hyny wrth bregethu? Y mae arnaf ofn ei fod yn myned o flaen cwymp. Yr ydych wedi llygru yr holl bregethwyr, ac er fod goleuni yr efengyl genych, Iuddew ydych o ran yspryd, ac yr ydych yn annheilwng o'r ŵyn, ac o Grist." Medrai Harris geryddu Beaumont ei hun, ond ni oddefai i neb arall wneyd. Eithr wrth glywed ei gyfaill yn pregethu yn Llansantffraid am ddyndod Crist, gwelai ei fod yn mhellach yn mlaen nag efe yn ngwybodaeth ffydd, a daeth awel nerthol dros ei yspryd, a thros y cyfarfod. Oddiyno aeth i Lanidloes. "Mor fuan ag y daethum i'r dref," meddai, "teimlwn y diafol yn bwysau anferth ar fy yspryd, fel yr oedd yn rhaid i mi floeddio am fy mywyd: 'Gogoniant am waed yr Oen!' er cadw fy nhymer yn ei lle." O fewn ei yspryd, y mae yn debyg, y gwaeddai. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth gan Peter Williams, ar drueni dyn. Dywedai ei fod yn gyfreithiol farw, tan ddedfryd tragywyddol ddamnedigaeth, ac yn elyn i Dduw; fod y drws o gymundeb rhyngddo â Duw wedi cael ei gau; ond fod Crist wedi dyfod er ein llwyr brynu. Ymddengys ei bod yn odfa nerthol, ond ofnai Harris mai ychydig oedd efe, a'r gwrandawyr eraill, yn deimlo o fin y gwirionedd. "Yna," meddai, "aethum i giniaw, ond yr oedd Mr. Rowland, a Williams, mor llawn o elyniaeth, ac, fel yr wyf yn meddwl, o falchder, ac o hunan, fel y bu raid i mi ddweyd wrtho, y gallwn rodio gydag ef fel brawd, ond nad oedd wedi cael ei osod fel archesgob drosof fi, nad oedd ganddo un awdurdod oddiwrth Dduw na dyn arnaf, ac na wnawn blygu iddo mewn un modd. Dywedais yr un fath am Williams." Pa beth a atebasant, nis gwyddom. Yna, aeth Harris i bregethu; ei destun oedd, 1 Cor. ii. 2: "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio." Cafodd afael anghyffredin ar weddi. Yna, dangosodd fod llawer o bethau yn dda yn eu lle, ond fod yr apostol yn troi ei lygaid oddiwrthynt i gyd at Grist croeshoeliedig, fel at ganolbwynt; fod y wybodaeth sydd yn Nghrist yn egluro natur y cwymp, anfeidroldeb yr angen cysylltiedig, anfeidrol ddrwg-haeddiant pechod, a gwirioneddolrwydd uffern; a bod y perygl o wrthod Crist yn fawr. "Yna," meddai, "cyhoeddais athrawiaeth y gwaed, a daeth Duw i lawr, tra y dangoswn mai trwy y gwaed y cawsem ein prynu, a'n dwyn yn agos at Dduw. Gwedi hyn, aethom yn nghyd (i gyfarfod neillduol y Gymdeithasfa), a'r Arglwydd a gadwodd y diafol yn rhwym mewn cadwyn; cawsom lonyddwch; teimlwn yn fy yspryd ein bod yn cael buddugoliaeth trwy ffydd; penderfynasom y teithiau yn Ngogledd Cymru, ac amryw faterion eraill, a gosodasom ddau bregethwr i'r Gogledd. Mor fuan ag yr aeth Mr. Rowland allan, daeth Duw i lawr yn ogoneddus; gosodwyd fy yspryd yn rhydd, a dangosais iddynt ogoniant yr Iachawdwr, gan eu hanog i edrych arno, i fod yn un ag ef, ac i adeiladu eu heneidiau arno." Yr oedd y Gymdeithasfa yn parhau dranoeth, ond ymadawodd y ddau bregethwr o Ogledd Cymru, a siarsai Harris hwy i wylio yn erbyn hunan, a balchder, ac i arwain y bobl at Grist. Yn y cyfarfod neillduol, ymosododd Howell Harris yn enbyd ar Morgan John Lewis, gan ei gyhuddo o feddu gwybodaeth pen yn unig; "cyfodwyd fy llais a'm hyspryd," meddai, "yn erbyn y diafol oedd yn ei yspryd ef; a chwedi i dri dystiolaethu yn ei erbyn, dywedais wrtho na chaffai bregethu gyda mi, oni ddeuai i lawr, ac addef ei fai." Yna, dywed iddo drefnu nifer o faterion, ac anerch y cynghorwyr, gan ddangos ei fod wedi cael ei osod gan Dduw yn dad y Gymdeithasfa.

Felly y terfynodd Cymdeithasfa Llanidloes, yr olaf i Harris a Rowland fod ynddi yn nghyd. Dengys yr adroddiad fod Howell Harris yn cario pob peth o'i flaen. Yn Siroedd Trefaldwyn, Maesyfed, a Brycheiniog, efe oedd y mwyaf ei ddylanwad o lawer; mewn Cymdeithasfa, lle yr oedd y nifer amlaf o'r cynghorwyr yn dyfod o'r siroedd hyn, gallai wneyd fel y mynai; nid gwiw i'r offeiriaid ei wrthwynebu, ac ymddengys i Daniel Rowland ymadael, gan roddi y maes iddo. Gwedi i'r offeiriaid fyned yr oedd fel brenhin yn mysg llu; yr oedd y pregethwyr yn ufudd iddo, ac yntau yn cael trefnu pob materion yn ol ei ddoethineb a'i farn. Nid rhyfedd, felly, ei fod ar uchel fanau y maes. A siarad yn fanwl, ni chymerodd ymraniad ffurfiol le yn Llanidloes; nid yw yn ymddangos i ddadleuon poethion iawn gym-

eryd lle yn y Gymdeithasfa ychwaith; ond yr oedd y teimlad yn dra annymunol, ac ymddengys i'r ddwy ochr ymadael, gan benderfynu yn ddirgel na wnaent gydgyfarfod mewn Cymdeithasfa drachefn. Gyda yr yni a'r cyflymder a'i nodweddai, gweithredodd Harris ar y teimlad hwn ar unwaith. Ar y ffordd adref, yn Erwd, eisteddodd ef, a'r cynghorwyr John Richard, Thomas Williams, Thomas James, a Thomas Bowen, i fynu hyd yn hwyr y nos, i drefnu gyda golwg ar y gwaith, ac ar ddyfod i undeb agosach a'u gilydd. Dywedai wrthynt fod hyn yn anhebgorol angenrheidiol, a chydunent hwythau. "Gwedi dangos," meddai, "y modd y dylem ystyried ein gilydd yn Nuw, a pha beth i wneyd mewn cysylltiad a'r pregethwyr, a'r modd y dylem eu harwain at y goleuni, fel yr arferai ein Harglwydd wneyd, dywedais wrthynt am wylio dros y seiadau, a rhoddi gwybod am eu hystâd i mi. Ac yna y caem gyfarfod drachefn mewn mis o amser i weddïo, ac i gydymgynghori." Gwelir penderfyniad i gasglu y seiadau yn nghyd, a gosod Harris yn ben arnynt, yn amlwg yn y difyniad hwn.

Am y gweddill o fis Mai, bu Harris yn teithio Sir Frycheiniog, ac yn trefnu pethau gartref. Ar y dydd cyntaf o Fehefin, cychwynodd am daith faith i Forganwg a Mynwy. Y Sul, yr oedd yn Aberthyn, a dywed iddo gael cynulleidfa anferth, y fwyaf a gafodd yn y sir erioed, ac yr oedd awdurdod yn y weinidogaeth. Ond yn y seiat breifat yr oedd pethau yn dra therfysglyd; dywedai Harris fod y diafol yn y lle, a throdd allan y stiwardiaid a ddaethent yno heb ymgynghoriad blaenorol ag ef. Aethant hwythau. Parhaodd i geryddu; dywedai eu bod yn llawn o falchder a hunan, ac yn y diwedd cofnoda i lawer dori allan i wylo. Wedi pregethu yn St. Nicholas, a Chaerdydd, daeth i Watford. Yr oedd yn nerthol wrth bregethu; gwaeddai yn ddiymatal: 'Y Gwaed! y Gwaed! y Gwaed! Oni yfwch ef, fe'ch demnir byth!" Yn y seiat, dywedai eu bod oll yn y cnawd, nad oeddynt yn argyhoeddedig o'u pechod yn erbyn Crist, eu bod yn ddeillion, a chyffelybai hwy i Judas. "Dywedais wrth Price," meddai, "yr awn allan wrthyf fy hun, ac y mynwn weled pwy a anfonai yr Arglwydd gyda mi. Agorais iddo am yr oll sydd wedi pasio, ac am Rowland; y modd y mae (Rowland) wedi syrthio er ys blynyddoedd, fod ei syniadau yn ddeddfol, a bod y diafol ynddo mor gryf, fel na fedr ei wrthsefyll." Aeth oddiyma i Lanheiddel, a'r New Inn, a bu yn amser enbyd rhyngddo a Morgan John Lewis a David Williams. Gorphenodd ei daith yn y Goetre, lle yr ysgrifena: "Cefais allan fod cydfwriad wedi cael ei ffurfio yma yn fy erbyn, ac yn erbyn athrawiaeth y gwaed; ni wyddwn ddim am dano, ond yn awr daeth i'r goleu." Ymddengys i agwedd pethau yma, yn nghyd a'r yspryd a welai trwy ei holl daith, beri iddo benderfynu dychwelyd i Drefecca ar unwaith.

Prin y dychwelasai pan y cafodd lythyr o Sir Fynwy yn ei hysbysu fod yr holl bregethwyr wedi troi yn ei erbyn, a'u bod yn ei feio yn enbyd am gymeryd o gwmpas Madam Griffiths, y ddynes a hònai yspryd prophwydoliaeth. Yr ydym wedi cyfeirio at y wraig hon droiau o'r blaen. Credai efe ei bod yn meddu ar ddawn prophwydoliaeth, a'i bod wedi cael ei rhoddi gan Dduw i fod yn llygad iddo, i farnu a phrofi yr ysprydion, fel y gallai adnabod pob math o gymeriadau ac athrawiaethau. Y mae yn syn fod dyn mor ysprydol ac mor graff mor hygoelus. Sicr yw ddarfod i'r ddynes ragrithiol hon wneyd niwed dirfawr i'w yspryd ac i'w achos. Yn Nhrefecca, galwodd y frawdoliaeth yn nghyd; nid annhebyg hefyd fod yno gynghorwyr wedi ymgasglu o'r seiadau cymydogaethol; eglurodd iddynt sefyllfa pethau, a phwysigrwydd ymraniad. "Ond," meddai, "y mae y brodyr wedi ymranu oddiwrthym ni yn barod." Aethant a'r achos at yr Arglwydd. "Cefais ateb gan yr Arglwydd," meddai, "mai ni yw corph a chanolbwynt gwaith y Methodistiaid; ac mai yn y corph hwn y mae meddwl, gwirionedd, gwaed, a gogoniant Duw; a bod Duw yn ein mysg, gyda yr holl rasau a'r doniau sydd yn cydfyned a'i bresenoldeb." Wedi ymgynghori drachefn, cydwelwyd fod yn rhaid iddynt ymranu cyn y gallent byth fod yn un, gan fod Rowland a'i blaid yn pregethu gras yn lle Crist, a'u bod yn ymddyrchafu fwy fwy yn erbyn athrawiaeth y gwaed.

# PENOD XVI.

——:o:——

## YR YMRANIAD.

*Syniadau athrawiaethol Howell Harris—"Ymddiddan rhwng Uniawngred a Chamsyniol"—Achosion i'r ymraniad heblaw gwahaniaeth barn parthed athrawiaeth—Harris yn petruso cyn ymranu—Plaid Rowland yn cyfarfod yn Llantrisant, ac yn ymwrthod a Harris—Yntau yn cynal pwyllgor yn Llansamlet—Cymdeithasfa gyntaf plaid Harris, yn St. Nicholas—Cymdeithasfa Llanfair-muallt—Llythyr Harris at Rowland—Harris yn Sir Benfro—Harris yn Ngogledd Cymru—Cymdeithasfa Llwynyberllan a Dyserth.*

EFALLAI mai dyma y lle mwyaf priodol i wneyd ychydig sylwadau ar syniadau athrawiaethol Howell Harris. Nis gall neb sydd wedi ymgydnabyddu mewn un gradd a'i bregethau, ei lythyrau, a'i ddadleuon â gwahanol bersonau ar wahanol bynciau, amheu ei fod yn dduwinydd gwych. Meddai lygad eryr i adnabod y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt; ac mewn cysylltiad ag un gwirionedd pwysig, ymddengys ei fod wedi plymio yn ddyfnach na neb o'i gydoeswyr yn Nghymru, oddigerth, o bosibl, Williams, Pantycelyn. Y gwirionedd hwn oedd, agosrwydd undeb y ddwy natur yn mherson ein Harglwydd. Ymdeimlai a'r gwrthyni o wahanu y naturiaethau, ac o ddweyd fod y Gwaredwr yn gwneyd un peth fel Duw, a pheth arall fel dyn; a beiddiodd gyhoeddi fod yr oll o berson Crist yn mhob peth a wnelai, ac yn mhob peth a ddyoddefai. Tra nad cywir nac Ysgrythyrol dweyd ddarfod i Dduw farw, yr oedd Howell Harris yn ei le pan yn dadleu fod perthynas agosach rhwng duwdod y Gwaredwr a'r angau, na nerthu a dal y natur ddynol i fyned trwy y dyoddefaint; i Fab Duw farw; a bod y Person Anfeidrol yn yr iawn. Nid ydym yn meddwl ychwaith ei fod yn dal, pan yr eglurai ei syniadau, ddarfod i Dduw farw; oblegyd cawn ef yn dangos amryw weithiau, fod natur ddwyfol yr Arglwydd Iesu yn dal gafael ddiollwng yn ei gorph pan yn gorwedd yn farw ar waelod bedd, ac yn ei enaid, pan am ychydig amser y preswyliai ar wahan i'r corph yn mharadwys. Nid ydym yn hoffi yr ymadrodd, "gwaed Duw;" tuedda yn ormodol i fateroli y Duwdod; ond nid oedd y geiriau yn ngenau y Diwygiwr ond ffordd gref o osod allan y gwirionedd pwysig, oedd wedi llanw ei enaid a'i ogoniant, sef fod holl berson y Duw-ddyn yn ei angau, ac yn cyfansoddi ei aberth. Credai ef iddo ddarganfod y gwirionedd hwn trwy ddatguddiad o'r nef; a darfu i fawr ddysgleirdeb y datguddiad ddallu ei feddwl am beth amser, fel nas gallai weled unrhyw wirionedd arall. Yn nglyn a'r athrawiaeth hon, yr oedd wedi gwthio yn fwy i'r dwfn na'r un o'i gydlafurwyr.

Ond nid oedd ganddo weledigaeth eglur, a rhaid addef fod cryn gymysgedd yn ei syniadau, neu ynte ei fod yn anffodus yn ei ddull o eirio. Ymddengys fel pe yn tybio ddarfod i natur ddynol ein Harglwydd, wrth ddyfod i undeb a'i berson dwyfol, gael ei thrawsnewid a'i gogoneddu rywsut, nes dyfod i gyfranogi o briodoleddau arbenig y ddwyfoliaeth. Pan y dywed fod y gwaed yn anfeidrol, a'i fod yn llanw tragywyddoldeb, gorfodir ni i gredu y golyga rywbeth heblaw anfeidroldeb haeddiant. Yr oedd gan bob peth cyfriniol ddylanwad mawr arno. Nid hawdd ychwaith deall ei syniadau am y Drindod. Weithiau, gellir meddwl ei fod yn hollol uniongred; dywed yn groew ei fod yn credu mewn tri pherson; mai y Mab, neu y Gair, a ddarfu ymgnawdoli, ac nid y Tad na'r Yspryd, a'i fod yn wrthwynebol i Sabeliaeth. Ond yn ymyl hyn, yr ydym yn dyfod ar draws cymysgedd. Dywed fod y Drindod Sanctaidd wedi ymgnawdoli yn yr Iesu; nad oes yr un Duw y tu allan i'r Iesu; fod y Drindod ynddo ef; a bod y rhai a gredant fod y Tad mewn unrhyw

ystyr uwchlaw yr Iesu yn gosod i fynu eilun ddychymygol, gerbron yr hwn y syrthient i lawr ac yr addolent. Gwadai felly ddarfod i'r Gwaredwr ddyhuddo digofaint y Tad; a gofynai yn wawdlyd, pwy a ddyhuddodd lid y Mab, a'r Yspryd Glân? Rhaid i bob dyn meddylgar gydymdeimlo ag ef pan y dywed fod y Drindod yn ddirgelwch iddo, a bod yr athrawiaeth yn ormod o ddirgelwch iddo allu ymborthi arni, ac efallai, yn y diwedd, fod y cymysgedd yn fwy yn ngosodiad y syniadau allan, nag yn y syniadau eu hunain.

Fel hyn yr ysgrifena Mr. Charles, o'r Bala, ar fater yr ymraniad: "Tebygol fod Mr. Harris yn ŵr o dymher go wresog, a pha beth bynag a gymerai le yn ei feddwl, yr oedd yn ei dderbyn, ac yn ei ddilyn gyda bywiogrwydd poethlyd. Tebygol fod y bobl heb eu haddysgu yn fanwl yn y pynciau mawrion hyn, gan fod yr athrawiaeth, gan mwyaf, yn cerdded llwybr cwbl wahanol. Dywedodd un o'r hen broffeswyr wrthyf, ei fod ef, ac amryw frodyr, gyda eu gilydd mewn cymdeithas neillduol dros bum' mlynedd, heb wybod dim am Grist, hyd yn nod yn hanesiol, a phan glywsant ryw bregethwr yn son yn neillduol am dano, nid oeddynt yn ei ddeall, nac yn gwybod am bwy yr oedd yn pregethu. Gofynais i'r hen ŵr duwiol, beth oedd yn cael ei bregethu iddynt? Atebodd nad oeddynt yn clywed am ddim ond am ddrwg pechod, tân uffern, a damnedigaeth, nes y byddent yn crynu gan ofnau mawrion, a dychryn calon." Y mae yn bur sicr fod yr hen ŵr yma yn camddarlunio pethau, neu ynte nad oedd wedi clywed neb yn ystod y pum' mlynedd y cyfeiriai atynt, ond y mwyaf anwybodus o'r cynghorwyr, oblegyd yr oedd pregethau Rowland a Harris yn llawn o Grist, a phan y byddent yn dangos drygedd pechod, aent i Galfaria er ei weled yn ei liwiau duaf. Ond i fyned yn mlaen gyda geiriau Mr. Charles: "Cafodd Harris ei wrthwynebu gan rai brodyr oedd yn cael eu blino gan ei ddull yn llefaru am berson a marwolaeth Crist, sef fod Duw wedi marw, &c., &c. Barnent fod y dywediad yn an-Ysgrythyrol, ac yn tueddu at Sabeliaeth. Yr oedd gwrthwynebiad oddiwrth ei frodyr crefyddol yn beth hollol anadnabyddus i Mr. Harris; hyd yn hyn yr oeddent yn gwrando arno fel tad, a phen-athraw, fel yr oedd yn wirioneddol i'r rhan fwyaf o honynt. Yn lle arafu, a phwyllo, ac ystyried yn ddiduedd a oedd ei ymadroddion yn addas am y pynciau uchod, chwerwodd ei yspryd tuag atynt, a phellhasant yn raddol oddiwrth eu gilydd, hyd nes y diweddodd mewn ymraniad gofidus."

Er mwyn deall golygiadau Daniel Rowland, yr ydym yn cofnodi traethawd byr a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1749, pan yr oedd y ddadl rhyngddo ef a Harris yn ei phoethder mwyaf. Ei enw yw, "YMDDIDDAN RHWNG UNIAWNGRED A CHAMSYNIOL." Prin y rhaid dweyd mai Rowland ei hun yw "Uniawngred," ac mai Howell Harris yw "Camsyniol":—

"*Uniawngred.* Henffych well, fy mrawd; y mae yn dda genyf eich gweled, a chael yr odfa hon i ymddiddan â chwi. Yr wyf yn clywed eich bod chwi, ac eraill, yn camachwyn arnom; yr ydych yn dweyd ein bod ni yn Ariaid.

"*Camsyniol.* Gwir iawn; mi a ddywedais felly, ac yr wyf eto—

"*Uniawn.* Yr ydych! Pa fodd y beiddiwch chwi haeru y fath anwiredd? Yr ydym ni yn credu fod Iesu Grist yn wir Dduw, a'i fod ef yn gyd-dragywyddol, gogyfuwch, a chydsylweddol a'i Dad.

"*Cam.* Yr wyf fi yn dweyd mai Ariaid ydych; ac yr ydym yn cyhoeddi hyn i'r byd.

"*Uniawn.* Dyma ffordd ofnadwy o ymddwyn. Ystyriwch, atolwg, pwy yw tad y celwydd. Yr ydych, nid yn unig wedi eich rhoddi i fyny i gredu anwiredd, ond yn ddigywilydd i'w gyhoeddi; ac nid hyn yw yr unig beth ag yr ydych yn camachwyn arnom. Maddeued yr Arglwydd i chwi am eich holl ddrwg enllib. Atolwg, dysgwch o hyn allan, i gadw o fewn terfynau gwirionedd. Yr ydys yn dywedyd wrthyf, eich bod chwi yn gwadu fod tri pherson yn y Duwdod.

"*Cam.* Tri pherson! Yr wyf fi yn dywedyd i chwi, mai gair cnawdol yw *person*; nid allaf ei arferyd.

"*Uniawn.* Pam? Y mae yn cael ei arferyd yn yr Ysgrythyr, Heb. i. 3; ac y mae yn cael ei arferyd er y dechreuad. Yr wyf fi yn barnu ei fod yn air priodol, ddigon. Ond yr ydych chwi yn ddoethach na'ch hynafiaid. Bod tri pherson yn y Duwdod sydd eglur, oddiwrth amryw fanau yn yr Ysgrythyr. Y mae ein Harglwydd yn gorchymyn i'w ddysgyblion i fedyddio yr holl genhedloedd yn *enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glan.* Ac y mae St. Ioan yn dweyd wrthym fod tri yn tystiol-

aethu yn y nef, *y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glan; a'r tri hyn, un ydynt.* Y mae Athanasius, ac Eglwys Loegr, yn rhagorol yn gosod allan y gwirionedd mawr hwn; *un person sydd i'r Tad, arall i'r Mab, ac arall i'r Ysbryd Glan. Y gogoned, lan, fendigaid Drindod, tri pherson, ac un Duw, &c.* Ond yr wyf fi yn clywed eich bod chwi yn maentymio heresi y Patripassiaid; yr ydych yn dweyd fod y Tad wedi cael ei wneuthur yn gnawd, yn gystal a'r Mab.

"*Cam.* Yr ydwyf; fe a'i datguddiwyd felly i mi.

"*Uniawn.* Datguddiwyd? Pa ddatguddiadau yw y rhai hyn genych? Y mae hyn yn wrthwyneb i ddatguddiedig Air Duw, yr hwn sydd yn dweyd wrthym mai y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. Yr ydych, mae'n debygol, yn maentymio heresi y Patripassiaid, yn gystal a'r Sabeliaid.

"*Cam.* Chwi a ellwch alw enwau. Dyma'r peth yr wyf fi yn ei gredu, fod y Tad, yn gystal a'r Mab, wedi cael ei wneuthur yn gnawd, dyoddef, a marw. Ond, atolwg, a ydych chwi yn credu i Dduw farw?

"*Uniawn.* Yspryd yw Duw, heb gorph, rhanau, na dyoddefiadau; ac felly, ni all ddyoddef, na marw. Fe ei gelwir ef yn *anfarwol* Dduw, ac am hyny, ni ddichon farw.

"*Cam.* Yr wyf fi yn dweyd i Dduw ddyoddef, a marw.

"*Uniawn.* Yr wyf fi yn credu i'r ail berson yn y Drindod fendigaid, Duw y Mab, gymeryd arno natur ddynol, yr hwn a ddaeth i fod yn un person yn y Duwddyn; ond yr oedd y ddwy natur mor bell yn wahanol, y naill oddiwrth y llall, fel mai y natur ddynol a ddyoddefodd, ac a fu farw. Ond, fel ag yr oedd wedi ei huno â'r Duwdod, yr hyn a wnaeth, ac a ddyoddefodd, oedd o'r cyfryw werth, a haeddiant anfeidrol, ag a foddlonodd gyfiawnder Duw am bechod dyn. Yr Ysgrythyrau canlynol ydynt yn dangos yn oleu, mai yn ei natur ddynol yn unig y bu Crist farw. 1 Petr iii. 18: *Wedi ei farwolaethu*, neu a fu farw, *yn y cnawd.* 2 Cor. xiii. 4: Ei groeshoelio ef *o ran gwendid*, neu megys yr oedd ef yn ddyn. 1 Petr ii. 24: Yr hwn, ei hun, a ddug ein pechodau ni *yn ei gorph* ar y pren.

"*Cam.* Yr wyf fi yn credu fod y fath undeb rhwng y ddwy natur, fel y darfu i Dduw, yn gystal a dyn, farw.

"*Uniawn.* Felly, chwi a chwanegasoch heresi yr Eutychiaid at y ddwy arall. Ond yr wyf fi yn credu y gwirionedd, yr hyn y mae Athanasius yn ei ddal, sef fod ein Harglwydd Iesu Grist yn berffaith Dduw, a pherffaith ddyn, ond un person, a hyny nid wrth *gymysgu y sylwedd*, ond trwy undeb person; Un, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd, megys ag yr wyf fi yn deall eich bod chwi yn ei osod ef allan, *ond gan gymeryd y dyndod at Dduw.*

"*Cam.* Onid yw yr Ysgrythyr yn dywedyd fod y Gair wedi cael ei wneuthur yn gnawd?

"*Uniawn.* Mae yr esgob duwiol Beveridge, yr wyf yn meddwl, yn gosod y gwirionedd hyn mewn goleuni eglur: 'Pan gymerodd ein Harglwydd,' medd ef, 'ein natur ni arno, fe ddaeth yn ddyn, yn gystal ag yn Dduw. Y natur ddynol ynddo ef, nid oedd yn cael ei *chymysgu*, fel pe buasai y ddwy natur yn awr wedi eu gwneuthur yn un. Yr oeddynt eill dwy yn aros yn wahanol oddiwrth eu gilydd ynddynt eu hunain, er eu bod wedi eu huno yn y cyfryw fodd, ag yr oeddynt yn gwneuthur ond un person.' Yn fy marn i, dweyd fod Duw yn marw, a Duw yn dyoddef, sydd gabledd ofnadwy. Heresi y Sabeliaid sydd yn eich arwain i osod heibio arferyd yr Arglwydd Iesu fel cyfryngwr, a dadleuwr gyda ei Dad; a heresi yr Eutychiaid sydd yn eich arwain i haeru fod corph Crist, yn mhob man, yn gystal a'i dduwdod.

"*Cam.* Yr ydwyf fi yn dywedyd fod y fath undeb rhwng y ddwy natur, fel lle y byddo un, y bydd y llall hefyd.

"*Uniawn.* Mae fy Meibl i yn dywedyd wrthyf, fod corph yr Arglwydd Iesu wedi esgyn i'r nefoedd, a'i fod ef i aros *yno*, hyd amseroedd adferiad pob peth. Nid yw credo yr Apostolion a'ch credo chwi yn cytuno. Rhyfedd y fath gynwysiad o heresiau ydych wedi bentyru yn nghyd. Heblaw eich bod chwi yn Antinomiad, yr ydych yn *Sabeliad, †Patripassiad, ‡Eutychiad, ac §Ubicwitariad.

---

"* Y Sabeliaid oeddent hereticiaid, canlynwyr un Sabelius (esgob neu henadur yn Affrica, yn y drydedd ganrif), yr hwn a ddysgodd nad oedd dim gwahaniaeth rhwng y tri Pherson yn y Drindod, ond eu bod hwy i gyd yn un; ac o herwydd hyny fe ddarfu i'r Tad a'r Yspryd Glân ddyoddef marwolaeth yn gystal a'r Mab.

"† Y Patripassiaid oeddent hereticiaid (tua diwedd yr ail ganrif), y rhai a ddywedent i'r Tad ddyoddef yn gystal a'r Mab. (O'r Lladin, *pater* a *passio*—tadoddefiad).

"‡ Yr Eutychiaid oeddent hereticiaid, y rhai oeddent yn maentymio bod y ddwy natur felly

"*Cam.* Dyma fy marn i, beth bynag a wnaeth Crist yn un natur, fe a'i gwnaeth yn y ddwy; ni wnaeth efe ddim mewn un natur yn wahanol oddiwrth y llall.

"*Uniawn.* Os felly y mae, fe fu chwant bwyd ar y Duwdod; fe gysgodd, ac a fu ddarostyngedig i'r cyfryw wendidau, yr hyn yw cabledd erchyll, yn wir. Ac os yw'r peth yr ydych chwi yn ei haeru yn wir, sef, *beth bynag a wnaeth Crist mewn un natur, fe a'i gwnaeth yn y ddwy*; ni wyddai Crist, fel yr oedd ef yn Dduw, pa bryd y byddai dydd y farn; ac wrth hyny, nid oedd efe ddim yn wir Dduw, yn eich barn chwi, gan nad oedd efe ddim yn hollwybodol. Gwelwch yn awr pwy yw yr Ariad.

"*Cam.* Yr wyf fi yn dywedyd wrthych, fod y pethau yma, ag yr ydych chwi yn eu gwrthwynebu, wedi eu datguddio i ni. Pe buasech chwithau wedi eich gwir oleuo, ac heb gael eich arwain gan eich rheswm cnawdol, chwi a welech y dirgeledigaethau hyn fel ninau. Ond yn awr, gan eich bod chwi yn dywyll, nid ellwch amgyffred y pethau gogoneddus ag sydd wedi eu datguddio i ni.

"*Uniawn.* Gadewch fod y peth felly, ein bod ni yn dywyll ac yn anwybodus; ond, atolwg, peidiwch a barnu yr holl henafiaid, cyfansoddwyr gwasanaeth ein Heglwys ni, yr hen ŵr da hyny, Athanasius; ïe, yn wir, yn fyr, yr holl gorph o ddefinyddion uniawngred.

"*Cam.* Felly, yr ydych chwi yn crynhoi eich gwybodaeth wrth ddarllen llyfrau. Mi a ddymunwn pe bai yr holl lyfrau wedi eu llosgi. Ond, atolwg, a ydych chwi yn maentymio fod y Duwdod yn gadael ein Harglwydd yn ei groeshoeliad?

"*Uniawn.* Mi a glywais eich bod yn dweyd i mi ddywedyd felly, pan nad yw hyn ond un arall o'ch anwireddau. Yr wyf fi yn dywedyd, i Dduw guddio ei wyneb yn y cyfryw fodd, fel ag yr oedd y natur ddynol heb deimlo cysur y Duwdod, yr hyn a barodd i Grist waeddi allan: *Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?* Dyma yr ymadawiad ag yr wyf fi yn ei feddwl. Ond yr wyf fi yn credu fod undeb personol y ddwy natur yn aros o hyd, fel ag yr oedd ein Harglwydd yn Dduw-ddyn yn y groth, yn Dduw-ddyn ar y groes, ac yn Dduw-ddyn yn y bedd.

"DANIEL ROWLAND.

"Mi a ail-ddymunaf arnoch, unwaith yn ychwaneg, i gadw o fewn terfynau gwirionedd. Mi a gynghorwn i chwi, yn lle llosgi llyfrau da, eu darllen hwy, yn enwedig y goreu o lyfrau, y Beibl. A chwanegwch lawer o weddi at hyn; a chwedi'n, yr wyf yn ymddiried, y bydd i chwi gael eich gwaredu oddiwrth eich hunan-dyb, a rhoddi heibio duo a diystyru eraill, ac heb gael eich arwain gan yr yspryd gwyllt ag sydd yn awr yn eich meddianu; ac fe fydd i chwi gael eich adferyd i'r hen lwybrau gwirionedd; ac ni bydd eich barn yn hwy gael ei llygru gan yr heresiau yr ydych yn awr yn eu maentymio. A Duw a roddo i chwi ddeall da yn mhob peth. Amen."

Cyhoeddwyd trydydd argraffiad o'r *Ymddiddan* yn y flwyddyn 1792, dros y Gymdeithasfa, a chafodd ei argraffu yn swyddfa John Daniel, Caerfyrddin. I'r argraffiad hwn, ceir y rhagymadrodd a ganlyn: "Ddarllenydd diduedd, nid oedd meddyliau cydsyniol yr *Association*, wrth roi anogaeth i ail-argraffu yr *Ymddiddan rhwng yr Uniawngred a'r Camsyniol*, yn tueddu i ddianrhydeddu, diystyru, nac enllibio un person penodol, nac un gangen eglwysig sydd yn proffesu ffydd yn enw tragywyddol Fab Duw, a brawdgarwch. Ond yn gymaint a bod aneirif o bobl newydd yn awr yn weithwyr yn y winllan; rhai yn dadau, yn athrawon, a chynorthwywyr; y dyben ydyw hysbysu yn eirwir beth oedd barn uniawngred tadau, cenadon, a chynorthwywyr, yn nechreuad yr *Association*, yn enwedig y Parchedig Mr. D. Rowland. 1 Ioan ii. 24: *Arosed, gan hyny, ynoch chwi yr hyn a glywsoch o'r dechreuad. Od erys ynoch yr hyn a glywsoch o'r dechreuad, chwithau hefyd a gewch aros yn y Mab, ac yn y Tad.*" Wrth y rhagymadrodd yma cawn enwau J. E. a J. T. Dywed Mr. Morris Davies, Bangor, ar sail tystiolaeth a ystyria yn ddigonol, mai yr Hybarch John Evans, o'r Bala, oedd J. E.; a thybia mai yr hen bregethwr ffyddlawn, John Thomas, o Lancwnlle, ond a orphenodd ei yrfa yn Ninbych, oedd J. T. Y mae argraffiad 1792, hefyd, yn cynwys yr emyn ganlynol; ni wyddis a ydoedd yn yr argraffiadau blaen-

wedi eu cydgymysgu yn Nghrist, fel y darfu i'r Duwdod ddyoddef a marw. (Oddiwrth Eutychus, abad o Gaercystenyn, o.c. 448.)

"§ Yr Ubicwitariaid sydd yn dywedyd bod corph ein Hiachawdwr yn mhob man yn gystal a'i Dduwdod. (O'r Lladin, *ubique*—yn mhob lle. Plaid yn mysg y Lutheriaid oeddent, a gododd tua'r flwyddyn 1560.)"

orol; felly, nid oes sicrwydd mai Daniel Rowland yw eu hawdwr:—

"Y Tri yn Un mewn undeb,
  Yn nhragywyddoldeb draw,
Ymrwymodd mewn cyfamod,
  Fel rhoddi llaw mewn llaw,
I godi f'enaid euog,
  O ryw ddyfnderoedd mawr,
A'm canu fel yr eira,
  Ffieiddiaf lwch y llawr.

Pan oedd cyfiawnder difrif
  Yn llosgi megys tân,
A swn taranau Sinai
  Yn gyru'r gwres yn mlaen,
Gwaed Iesu croeshoeliedig
  A wnaeth foddlonrwydd llawn;
Myrdd o fyrddiynau heddy'
  Sy'n canu am yr iawn.

Yr Yspryd Glân sancteiddiol,
  Y ffynon o lanhad,
Sydd yn cymhwyso'n helaeth
  Yr iachawdwriaeth rad,
Nes byddo f'enaid ofnus,
  Crynedig, ar y llawr,
Yn dechreu hwylio'i danau,
  Yn y cystuddiau mawr.

Fe'm dysg, fe'm cyfarwydda,
  I gerdded ar fy nhaith;
Fel colofn dân fe'm harwain
  Trwy'r dyrys anial maith;
Nes delwy' i Sion dawel,
  Sy' heb ryfel byth, na phoen,
Ond cydsain Haleluwiah!
  Hosana i Dduw a'r Oen.

Fe dderfydd peraidd bynciau
  Yr hediaid mân y sydd
Yn chwareu 'u llaes adenydd,
  Ar doriad gwawr y dydd;
Ond gwaredigion Sion,
  A ddaeth o'r cystudd mawr;
Par eu caniadau 'n newydd,
  A newydd fydd eu gwawr."

Dengys yr *Ymddiddan* hwn fod syniadau Daniel Rowland ar y pynciau mewn dadl, yn gyffelyb i eiddo y rhai a ystyrir yn gyffredin yn dduwinyddion uniawngred, a'i fod yn dra chydnabyddus a hanesiaeth eglwysig. Dengys, hefyd, ysywaeth, ei fod wedi ymddigio trwyddo, ac i chwerwder ei yspryd ei arwain i ddefnyddio geiriau llymion, fel brath cleddyf. Nid ydym yn sicr, ychwaith, ei fod yn cyflwyno golygiadau Howell Harris gyda hollol degwch; prin, efallai, y gellid dysgwyl hyny wrtho mewn dadleuaeth mor gyffrous. Nid cywir dweyd fod Harris yn ymwrthod, o leiaf yn gyfangwbl, a'r gair person, pan yn cyfeirio at y Drindod; yr ydym wedi dod ar draws y term droiau, yn y difyniadau a rydd o'i bregethau. Nid ydym ychwaith wedi cael ei fod yn dal ddarfod i'r Tad ymgnawdoli, ond efallai yr ystyriai Rowland hyn yn gasgliad anocheladwy oddiwrth y dywediad fod y Drindod yn preswylio yn Iesu Grist. Nid annhebyg, hefyd, fod Harris, yn ngwres ei areithyddiaeth wrth bregethu, yn defnyddio ymadroddion mwy eithafol nag a gofnoda pan yn ysgrifenu yr hyn a ddywedodd, gwedi i'r gwres gilio. Eithr am y pethau eraill, sef ei fod yn condemnio gwybodaeth llyfrau, yn galw ei wrthwynebwyr yn Ariaid, ac yn Ddeistiaid, ei fod yn dal fod corph yr Arglwydd Iesu yn holl-bresenol, a'i fod, pan y gwesgid yn galed arno, yn syrthio yn ol ar y datguddiad y tybiai ei fod wedi ei dderbyn, y mae sail iddynt oll yn nydd-lyfr Harris ei hun. Hyd yn nod pe na byddai ei olygiadau ar y Drindod a dirgelwch person Crist yn annghywir, yr oedd yn pwysleisio yn ormodol ar hyn, ac yn rhoddi iddo fwy o le nag oedd yn briodol, yn ol cysondeb y ffydd. Yn mlynyddoedd olaf ei gysylltiad a'r Methodistiaid, prin y cai dim arall sylw yn ei weinidogaeth; beth bynag a fyddai ei destun, troai at y pwnc hwn fel y nodwydd at begwn y gogledd; ac un o'r achwyniadau a ddygid yn ei erbyn ydoedd, fod cyfnewidiad hollol wedi cymeryd lle yn nhôn ei bregethu. Diau mai un rheswm am hyn oedd y gwrthwynebiad a gyfododd i'w athrawiaeth. Ymgyndynu, a myned yn fwy penderfynol, a wnelai, yn ddieithriad, pan y caffai ei wrthwynebu. A gosodai allan ei syniadau mewn ymadroddion a dull tra chyffrous. Meddai unwaith: "Nid wyf yn adnabod yr un Duw ond Iesu Grist; cymerwch chwi y lleill i gyd; yr wyf yn eu herio oll." Yr oedd ymadroddion o'r natur yma, yn nghyd a'r haeriad fod ei wrthwynebwyr yn addoli eilunod o greadigaeth eu dychymyg eu hunain, ac yn gwadu priodol dduwdod yr Arglwydd Iesu, yn annyoddefol i deimlad Daniel Rowland a'i gyfeillion, ac yn gwneyd aros mewn cydgymundeb ag ef yn anmhosibl.


Rhaid cofio, hefyd, fod achosion eraill i'r ymraniad heblaw gwahaniaeth barn parthed athrawiaeth. Hònai Harris awdurdod unbenaethol dros y seiadau a'r cynghorwyr. Geilw ei hun drosodd a throsodd yn dad y Gymdeithasfa; cyffelyba ei swydd i eiddo Moses, yr hwn a osodasid yn farnwr ar Israel, ac ystyria ei fod wedi cael ei osod ynddi gan Dduw lawn mor uniongyrchol. Nid ymgynghorai â barn ei frodyr; ac ystyriai fod dywedyd yn ei erbyn yn wrthwynebu Duw. Diarddelai o'r seiat, a thorai y cynghorwyr allan,

wrth ei ewyllys; nid ymostyngai i ymgynghori â na Chyfarfod Misol na Chymdeithasfa yn y mater hwn. Gwaith yr offeiriaid, fel y tybiai, oedd myned o gwmpas i bregethu a gweinyddu yr ordinhadau; a gwaith y cynghorwyr a'r stiwardiaid oedd cario allan y trefniadau a wnelai efe ar eu cyfer. A chan ei fod yn hawdd ei gyffroi, ac yn meddu tymherau cryfion, yn wir, bron aflywodraethus, gweithredai yn fynych oddiar deimlad y foment. Cyhudda Rowland ef yn ei wyneb o droi y cynghorwyr allan mewn nwyd. Nid gwiw ymresymu ag ef; barnai fod llywodraethu y seiadau yn perthyn i'w swyddogaeth ef, ac y dylai pawb arall fod yn ddystaw; a chredai ei fod yn gweithredu yn uniongyrchol dan arweiniad dwyfol. Nid rhyfedd, gan hyny, i wrthryfel dori allan. A hawdd gweled fod ei dra-awdurdod yn boenus i Daniel Rowland, a Howell Davies, a Williams, Pantycelyn, y rhai oeddynt yn offeiriaid urddedig, tra nad oedd efe ond lleygwr. Naturiol iddynt hwy fuasai edrych ar eu safle, a gwrthod ei gydnabod fel cydradd, chwaithach fel un wedi ei osod mewn awdurdod drostynt. Ni theimlent felly; ond yr oeddynt yn anfoddlawn iddo gael yr holl awenau i'w ddwylaw.

Cynyddodd yr anfoddlonrwydd yn erbyn Howell Harris yn enbyd trwy ei waith yn cymeryd Madam Griffiths, y ddynes a hònai yspryd prophwydoliaeth, o gwmpas. Dygai hi i'r seiadau, ac i'r Cymdeithasfaoedd Misol; galwai hi yn "Llygad," a chredai ei bod yn rhodd Duw iddo i'w alluogi i adnabod y rhagrithwyr, ac i'w gynorthwyo mewn barn. Fel y darfu i ni sylwi, nid oes rhith o sail dros amheu ei burdeb. Nid ydym yn tybio fod unrhyw amheuaeth gwirioneddol am hyny ar y pryd. Ond eto, cynyrchodd ei ymddygiad deimlad blin. Credai y nifer amlaf, hyd yn nod o'i ganlynwyr, mai dynes ragrithiol ydoedd, ac yr oeddynt yn hollol iawn. Wrth ei fod yn dychwelyd adref o Lundain, trwy Erwd, dywedai un o'i brif gyfeillion wrtho, fod pethau wedi dyfod i stâd ryfedd, pan yr oedd dynes yn ben ar y Gymdeithasfa. Ysgrifenodd Thomas James, y cynghorwr o Cerigcadarn, ato gan ei feio. Ei ateb iddynt oll oedd, nad oedd ganddo ef un ewyllys yn y mater; ddarfod iddo ef ymladd yn erbyn y peth ar y dechreu, ond i'r Arglwydd ei drechu; ac erbyn hyn fod llawer o'r pregethwyr yn credu mor ddiysgog ei bod hi yn "Llygad," fel na safent i mewn yn y Cyfundeb, oddigerth ei bod hi yn cael ei lle. Yr oedd ei ymddygiad yn nodedig o blentynaidd, ac yn dangos hygoeledd na cheir yn fynych ei gyffelyb; ond eto, yr oedd yn hollol unol â chymeriad Howell Harris, yr hwn, er ei holl nerth a'i graffder, oedd mewn rhyw bethau yn dra choelgrefyddol. Yr ydym yn tybio ddarfod i hyn, yn gymaint a dim, gyflymu dyfodiad yr ymraniad.

Gwedi y Gymdeithasfa yn Llanidloes, teimlai y ddwy ochr nas gallent gydfyw; ac eto, wedi dyfod i ymyl y dibyn, yr oedd Harris yn petruso cymeryd naid i'r tywyllwch; ond cymerwyd y mater o'i ddwylaw gan y blaid arall. Ar ddydd Sadwrn, Gorph. 4, 1750, cyfarfyddodd Daniel Rowland, Howell Davies, Williams, Pantycelyn, yn nghyd â rhyw offeiriad arall nas gwyddom ei enw, mewn Cymdeithasfa yn Llantrisant; yr oedd yno yn ychwanegol un-ar-ddeg o gynghorwyr cyhoedd, a phedwar o rai anghyoedd; ac yn y cyfarfod hwn penderfynwyd tori pob cysylltiad â Howell Harris. Yr oedd efe ar daith yn Nghapel Evan, Sir Gaerfyrddin, ar y pryd. Cyffrowyd ei yspryd pan y clywodd, ond dywedodd yn y seiat ei fod yn benderfynol o fyned yn ei flaen; ddarfod iddo yn flaenorol weled y diafol yn codi yn ei erbyn yn y werinos, yr offeiriaid, a'r boneddigion, ac i'r cwbl ddod i'r dim; y gwelai y gwrthwynebiad yma yn diflanu eto, a'i fod yn teimlo yspryd o'i fewn oedd yn anorchfygol. Dywedai, yn mhellach, fod yr ymraniad gwirioneddol wedi cymeryd lle bedair blynedd yn flaenorol. Yn awr, cawn yntau yn dechreu trefnu ei blaid. Y dydd Llun canlynol, Gorph. 6, casglodd wyth o bregethwyr yn nghyd i Lansamlet, i Wern-Llestr, yn ol pob tebyg, lle y cedwid y seiadau, i wneyd yr hyn a eilw ef yn "osod i lawr sylfaen tŷ Dduw." Dywed iddynt gael cyfarfod bendigedig; eu bod yn bwyta yr un bara, ac yn cael eu bywiocau gan yr un yspryd. Galwyd Harris ganddynt i fod yn ben ar yr holl seiadau; llawenychai y brodyr yn y rhwyg; a dywedai Harris fod Rowland a'i blaid yn codi yn erbyn yr Arglwydd, yn erbyn ei Yspryd, ac yn erbyn ei wirionedd. "Yn y dirgel," meddai, "gwelais y mynai Duw i ni ymwrthod a'r brodyr, ac a'u Cymdeithasfa, am (1) Eu bod o ran eu hyspryd wedi cefnu ar yr Arglwydd. (2) Am eu bod mewn gwirionedd yn elynion iddo. (3) Am eu bod yn cashau llywodraeth ei Yspryd. (4) Am eu bod yn dirmygu yr

Urim a'r Thumim. (5) Am na feddant fywyd i ymborthi ar Grist. (6) Am eu bod yn dirmygu athrawiaeth y cnawd a'r gwaed hwn; ac yr wyf finau yn caru y cnawd a'r gwaed anfeidrol ac anwyl hwn mewn gwirionedd." Pa beth a olyga wrth yr "Urim a'r Thumim," nis gwyddom, os nad y ffug-brophwydes. Ar y nawfed o Orphenaf, cawn ef yn cadw seiat yn Llwynyberllan, a chwyna yn enbyd fod y seiadau wedi myned yn ffurfiol, yn gnawdol, ac yn fagwrfa i falchder; ond dywed ei fod ef yn foddlon ymweled â hwy cyhyd ag y byddai ei ymweliadau yn dderbyniol, ac o fendith. Dranoeth, yn Cefnygweision, Rowland a'i blaid yn adnabod yr Arglwydd, a'u bod yn elynol i'r gwaed; eu bod yn wrthwynebol i bob peth oedd o Dduw; ac nad oeddynt yn eu pregethau yn myned i ddyfnder yspryd y bobl, ond eu bod yn appelio yn benaf at y pen a'r teimlad, ac felly fod y gwrandawyr yn myned yn ysgafn ac yn gnawdol. Dywedai, yn mhellach, ddarfod iddynt trwy gydgyfarfod, ac ymwrthod ag ef, ei gau allan o'r tŷ (y capel) yn Nghilycwm. Dengys y nodiad hwn nad oedd y seiat yn Nghilycwm, fel y cyfryw, wedi ei wahodd yn flaenorol i gymeryd ei gofal, eithr rhyw bersonau ynddi. Poenus tu hwnt yw gweled y



LLANTRISANT, SIR FORGANWG.
(*Lle y cynhaliwyd Cymdeithasfa gyntaf plaid Rowland.*)

cofnoda iddo ddyfod allan yn fuddugoliaethus o'r rhyfel poethaf y buasai ynddo erioed. Ymddengys i Daniel Rowland ag yntau gyfarfod, efallai yn Llwynyberllan, ac iddi fyned yn ymrafael chwerw rhyngddynt. Cyhuddai Rowland ef o fod wedi syrthio oddiwrth ras, o gyfnewid yn barhaus, o dalu sylw yn unig i ranau o'r Ysgrythyr, ac o'r gwirionedd am berson Crist, ac nid i'r oll, o droi pobl allan o'r seiadau mewn nwyd, o ymranu oddiwrthynt, ac o ddweyd nad oes dros chwech yn Nghymru yn adnabod yr Arglwydd. Atebai Harris ei fod yn ofni nad oedd ddau hen gydlafurwr wedi myned mor chwerw yn erbyn eu gilydd, yn benaf trwy annealltwriaeth; ond dengys yr ymddiddan o ba bethau y cyhuddent eu gilydd.

Yn mhen wythnos gwedi, sef Gorph. 17, clywodd am farwolaeth James Beaumont. Ymddengys iddo farw yn sydyn, ond awgryma y cofnodiad iddo farw yn ei gartref, yn Sir Faesyfed; ac nid oes unrhyw awgrym yn cael ei roddi iddo gael ei osod i farwolaeth gan elynion yr efengyl. Ei eiriau diweddaf, medd y dydd-lyfr, cyn i'w yspryd ddianc at ei

Waredwr, pan y cynygid ychydig win iddo gan ei briod, oedd: "Nid yfaf o ffrwyth hwn y winwydden hyd onid yfwyf ef yn newydd yn nheyrnas fy Nhad." Teimlodd Harris yn enbyd ar ol ei gyfaill; yr oedd i Beaumont le cynhes yn ei galon, a dywed fod ei enaid yntau yn hiraethu am fyned adref. Yr ydym ninau yn meddwl fod gwreiddyn y mater yn y cynghorwr o Sir Faesyfed; llafuriodd yn galed, a dyoddefodd lawer gyda'r efengyl; ond yr oedd iddo lawer o ffaeleddau, a chyfeiliornasai yn bur bell oddiwrth y ffydd sydd yn Nghrist. Ac yr ydym yn teimlo yn sicr ddarfod iddo ddylanwadu er niwed ar yspryd Howell Harris.

Gwnelai Harris bob ymdrech posibl yr adeg hon i sicrhau cydymdeimlad y seiadau gydag ef, ac i gael y cynghorwyr o'i blaid. Teithiai yn ddiorphwys; ac anfonai lythyrau at y rhai y tybiai y medrai ddylanwadu arnynt. Yn bur fuan wedi cyfarfod yr offeiriaid yn Llantrisant, anfonodd lythyr yn llaw cenad at John Sparks, y cynghorwr o Hwlffordd, o ba un y difynwn a ganlyn: "Y mae yr offeiriaid, ac amryw o'r cynghorwyr, wedi datgan yn fy erbyn, oblegyd fy egwyddorion, fy ymarferiad, a'm hyspryd. Nid wyf yn ysgrifenu atoch i'ch sicrhau o'm plaid i yn y rhyfel hwn, oblegyd gwyr yr Arglwydd Iesu, yr unig ddoeth Dduw, yr hwn yw fy oll, nad oes genyf blaid, ond fy mod ar fy mhen fy hun, fel yr aethum allan ar y cyntaf, gyda'r eithriad fod ychydig o'r rhai a garant y cnawd, y clwyfau, a'r gwaed, yn crogi wrthyf. Ni fedrant adael y penaf pechadur (Harris). Tybiais yn ddyledswydd arnaf i ysgrifenu atoch yn fyr; cewch y manylion gan y dygiedydd. Os yw ein Hiachawdwr yn eich tueddu i ddymuno rhagor o wybodaeth, cyn penderfynu gyda pha blaid y gwnewch uno i lafurio, gwnaf gyfarfod â chwi yn Lacharn, dydd Iau pythefnos i'r nesaf. Os medrwch chwi, a'r brawd Gambold, a'r brawd John Harris ddyfod i'm cyfarfod i Lacharn, anfonwch air. Neu ynte, mi a ymdrechwn ddyfod i St. Kennox, i'ch cyfarfod oll, neu rai o honoch, fel y byddo i chwi gael gwybod yr holl wirionedd. Y mae Mr. (Howell) Davies, a Benjamin Thomas, &c., wedi cyduno oll i'm gwrthod; a chan ei fod ef (Howell Davies), a'r bobl, o bosibl, yn edrych ar Sir Benfro fel ei faes neillduol ef, ni wnaf ddyfod, oni chaf fy ngalw gan y bobl, neu y pregethwyr, neu y ddau. Ydwyf, gyda'r serch cryfaf yn nghorph darniedig ein Duw a'n Hiachawdwr, yr eiddoch i bob tragywyddoldeb,—How. Harris." Y mae yn anmhosibl darllen y llythyr hwn, gyda'r teimlad dwfn o unigrwydd a red trwyddo, heb fod deigryn yn dyfod i'r llygad, pwy bynag a gondemniwn fel yn fwyaf cyfrifol am yr ymraniad.

Ar y 26ain o Orphenaf, 1750, cynhaliodd Harris a'i blaid eu Cymdeithasfa gyntaf yn St. Nicholas, pentref gwledig bychan yn Mro Morganwg, tua chwech milltir o Gaerdydd. Paham y dewiswyd y llecyn hwn, nis gwyddom; nid oedd mewn un modd yn ganolog i'r oll o Gymru; efallai fod y seiadau o gwmpas yn fwy lliosog, ac mewn mwy o gydymdeimlad ag ef. Yr oedd y rhai canlynol yn bresenol: Howell Harris, Thomas Williams (Groeswen), John Richard (Llansamlet), Henry Thomas, William Jones, Roger Williams, Thomas Bowen (yr hynaf), Thomas Bowen (yr ieuangaf), Richard Tibbot, Thomas Sheen, Thomas Meredith, Lewis Evan, Edward Davies, John Lewis, David William Thomas, Stephen Jones, Richard David, John Davies, a George Phillips. Gwelir eu bod yn namyn un ugain. Sut yr oedd cynghorwyr Sir Benfro yn absenol, nis gwyddom; yr oedd yno amryw mewn dwfn gydymdeimlad â Howell Harris; efallai eu bod heb lwyr benderfynu gyda pha blaid i uno. Aeth Harris tuag yno yn nghwmni offeiriad, o'r enw Henry Lloyd, eithr nid ydym yn cael yr offeiriad hwn yn bresenol yn nghyfarfod neillduol y Gymdeithasfa. Ymddengys fod rhai o bleidwyr Rowland wedi dyfod i'r lle o ran cywreinrwydd. "Pan welais elynion croes Crist yno," meddai Harris, "fy anwyl Arglwydd a'm cyfarfyddodd, ac a'm dyrchafodd uwchlaw pawb, wrth ganu yn fuddugoliaethus, ac wrth weddio a phregethu oddiar, 'Ni a welsom ei ogoniant ef.' Yn sicr, yr oedd yr Arglwydd fy Nuw yma fel rhyfelwr, yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Ariaid, y Deistiaid, a'u Duw. Datgenais (wrth ganlynwyr Rowland) fy mod yn benderfynol o fyned yn mlaen, gan ganlyn yr un yspryd ag oedd genyf o'r dechreuad; ac os mai o'r diafol y mae yr yspryd, ei fod yn fy ngwneyd yn dra dedwydd, ac yn fy arwain at Grist. Dywedais: 'Yr ydym ni yn benderfynol o fyned yn mlaen; y mae amryw ugeiniau o honom wedi cyduno; a thra nad ydych chwi yn credu dim ond a ddeallwch, yr ydym ni yn derbyn Duw ar ei Air, ac yn ymwrthod a'n deall ein hunain.'" Ych-

wanegodd ei fod yn foddlon mentro ei dragywyddoldeb ar yr yspryd oedd yn gweithio ynddo, a chyffelybai hwythau i Cora, Dathan, ac Abiram.

Dywed y cofnodau: "Dyma y Gymdeithasfa gyntaf a gynhaliwyd wedi i'r pedwar offeiriad a'r un-pregethwr-ar-ddeg gyfarfod, i ddatgan yn erbyn athrawiaeth ac yspryd y brawd Harris. Cyfarfyddasom ninau i ddysgwyl wrth yr Arglwydd, i gael gweled beth a ellid wneyd, gan fod yr holl waith agos wedi sefyll. Teimlodd pawb rywbeth na chawsent mewn Cymdeithasfa erioed o'r blaen, a gwelsant fod ein Hiachawdwr wedi gosod i lawr sail gwaith pwysig. Yr oedd cymaint a hyn drachefn wedi uno, ond ni fedrent fod yn bresenol oblegyd amgylchiadau. Gellid meddwl fod gwedd newydd ar bethau. Yr ydym yn awr mewn gobaith o weled gogoniant yr Iachawdwr, dysgyblaeth ei Yspryd, a bywyd ffydd yn cael ei ddwyn i mewn i'r diwygiad, ac yspryd mwy catholig at bawb; ac o weled doethineb a balchder dyn yn cael eu halltudio unwaith eto, ac enw Crist yn cael ei ddyrchafu yn ein mysg. Wedi y bregeth ar, 'Ni a welsom ei ogoniant ef,' wrth ein bod yn canu mewn modd buddugoliaethus, daeth yr Arglwydd i lawr i ddatgan rhyfel yn erbyn y pregethwyr eraill oeddynt wedi ymgynghori yn erbyn Duw, ei angau, a'i Yspryd. Rhoddodd yr Arglwydd i ni un galon; ond pan y cawsom nad oedd yr Yspryd yn rhedeg mor rhydd yn mysg y brodyr ieuangaf, rhag iddynt gymeryd tramgwydd oddiwrth Madam Griffiths, archasom i bawb agor eu calonau gyda golwg arni." "Madam Griffiths" oedd y ffug-brophwydes, ac yr oedd wedi dyfod i St. Nicholas i'r Gymdeithasfa. Agorodd Harris ei holl hanes, y modd yr oedd wedi cael ei gwneyd yn fam yn Israel, nad oedd wedi cael cymaint ffydd yn neb arall, ddarfod iddi brophwydo am yr ymraniad hwn cyn ei ddyfod, a'i bod wedi bod o ddirfawr gymhorth iddo ef i wasanaethu mewn ffydd yn yr Arglwydd. Dywedai fod tri math o oleuni, sef goleuni natur, goleuni prophwydoliaeth, a goleuni ffydd, yn gweddnewid ac yn cymeryd meddiant o'r hyn a ganfyddwn. Mewn canlyniad i eglurhad Harris, dywedodd y naw brawd y ceir eu henwau yn mlaenaf ar y rhestr, ddarfod iddynt gael eu temtio; ond eu bod wedi cael eu hargyhoeddi yn yr Arglwydd ddarfod i Madam Griffiths gael ei chyfodi i fod yn Llygad iddynt, i'w bendithio yn yr hyn yr oeddynt yn ddiffygiol ynddo, ac hefyd i ddarganfod yr ysprydion, ac i gael meddwl Crist yn eu plith. Mewn canlyniad, cydunwyd i anfon am dani i'r Gymdeithasfa, i'w cynorthwyo yn eu hymdriniaeth â gwahanol achosion.

Yn nesaf, cafwyd helynt gyda rhyw frawd, a elwir yn "Old Adams." Dywed y cofnodau ei fod wedi cael ei dwyllo gan ddiafol, a darfod iddo ddyfod i'r Gymdeithasfa i'w dolurio a'u rhwystro. "Dywedais wrtho," meddai Harris, "os oedd John Wesley a George Whitefield yn cynyg eu seiadau, yr awn a'r mater at yr Arglwydd. Eithr pan orchymynwyd iddo fyned allan, dechreuodd ruo; fy yspryd inau a ddyrchafwyd, a gelwais ef yn dwyllwr, yn elyn Duw, ac yn aubrophwyd; ac yn enw yr holl frawdoliaeth mi a'i hesgymunais ef." Y mae y geiriau nesaf yn y cofnodau o'r dyddordeb mwyaf: "Yna, daeth Mr. Peter Williams i'r cyfarfod; yr oedd am aros i mewn, ond ni wnai uno." Anhawdd dweyd beth oedd amcan ei ddyfodiad, ai ceisio cyfryngu rhwng y ddwy blaid cyn i bethau fyned yn rhy bell, ynte ceisio gwybodaeth ychwanegol am y materion mewn dadl. "Datganasom ein penderfyniad i beidio uno (a phlaid Rowland) hyd nes y byddai i'r brodyr ymranedig edifarhau, a chael eu dwyn at yr Arglwydd. Dangosais y tri pheth yn mha rai yr ydym yn gwahaniaethu. (1) Y maent hwy yn pregethu Crist yn benaf i'r pen, ac y maent yn erbyn gogoniant ein Hiachawdwr, yr hwn a geisiwn ni ei osod gerbron y bobl. (2) Y maent hwy yn adeiladu ar hen syniadau, ac ar brofiad; yr ydym ninau yn cyffroi yr eneidiau i grediniaeth barhaus yn yr Arglwydd. (3) Yr ydym ni am ddysgyblaeth wirioneddol yr Yspryd, tra y maent hwy wedi cilio oddiwrth yr Arglwydd, a geill eneidiau wrando arnynt yn barhaus, heb gael eu deffro i ganfod pechadurusrwydd angrhediniaeth, hunangyfiawnder, deddfoldeb, a pheidio ymborthi ar yr Arglwydd. Mynegasom, yn mhellach, mai ein pwynt yw nid pwy a fydd fwyaf, ond pwy a fydd leiaf. Dywedodd y brawd Harris ei fod yn gweled ei hun y gwaelaf o'r brodyr, ond fod gwahaniaeth rhwng gweithwyr (yn yr eglwys) ag aelodau preifat; fod rhai yn fabanod, eraill yn ieuainc, ac eraill yn dadau; a bod gwahanol ddoniau, a graddau o ffydd, a gwahaniaeth yn yspryd y pregethwyr; a'n bod yn syrthio gerbron yr Arglwydd i weled lle pob un. Dywed-

odd, hefyd, ein bod yn cymeryd esiampl, yspryd, a gorchymyn ein Harglwydd fel ein rheol. Yn hyn oll yr oeddym yn cyduno fel un. Gwedi hyn, efe (Peter Williams) a aeth allan." Efallai iddo deimlo fod pob gobaith am gymod wedi darfod.

Yn canlyn ceir y penderfyniadau: "Cydunwyd fod y pregethwyr i gyfarfod mewn Cymdeithasfaoedd fel cynt; fod y Gymdeithasfa nesaf i fod yn Llanfair-muallt, Medi 26, ac yn y cyfamser ein bod i gymeryd i ystyriaeth y priodoldeb o gynal Cymdeithasfa i holl Gymru unwaith yn y flwyddyn, a Chymdeithasfa bob chwech mis yn Neheudir ac yn Ngogledd Cymru ar wahan.

"Cymerwyd i ystyriaeth y priodoldeb o gynal seiadau preifat, a chytunasom oll i'w cynal, gwedi i'r brawd Harris egluro natur y seiadau allan o'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Penderfynasom, hefyd fagu yr eneidiau sydd wedi eu deffro i weled eu hangen am Iachawdwr, mewn corlanau bychain iddo ef; ond na wnawn gymeryd neb i fod yn rhan o'r Corph hwn, nac i gael ei alw ar ein henw, ond y rhai sydd naill ai yn gweled gogoniant yr Achubwr, neu ynte eu hanwybodaeth o hono, ac yn byw mewn ffydd arno. Cydunwyd, hefyd, fod y rhai sydd yn canfod y gogoniant i gyfarfod ar wahan i edrych ar Grist, ymborthi arno, siarad am dano, a gweddïo arno; a bod y lleill i gael eu cyfarfod gan berson priodol i gael eu meithrin, mor hir ag y byddant yn barod i gymeryd eu dysgu, ac y parhant yn ostyngedig, yn ddiwyd, ac yn parhau i ymarfer â moddion.

"Cydunasom fod ein holl aelodau i gyduno yn addoliad ac yn ordinhadau yr Eglwys Sefydledig; mai Gair y cymod yn unig a ymddiriedwyd i ni; a'n bod i fyned yn y blaen fel Diwygwyr yn yr Eglwys, fel y gwnaethom o'r dechreu, ac yn yr un goleuni a'r un yspryd.

"Cydunwyd, hefyd, fod y brawd W. Powell a'r brawd Thomas Williams i ddwyn adroddiad am ansawdd yr achos yn Mynwy a Morganwg i'r Gymdeithasfa nesaf; y brawd John Richard a'r brawd Rue Thomas i wneyd yr un peth am Orllewin Morganwg, Caerfyrddin, a Phenfro; Thomas Jones i wneyd hyny am ran o Frycheiniog a Henffordd; Charles Bowen am y gweddill o Frycheiniog a Maesyfed, a Richard Tibbot am Drefaldwyn. Yr oeddynt, yn mhellach, i weled pa le yr oedd drysau yn cael eu hagor, a pha le y gallai y brawd Harris sefydlu seiadau o'r newydd, neu yn mysg y rhai oedd wedi cael eu gwasgar."

Dywedir ddarfod i un Stephen Jones gael ei droi allan gan blaid Rowland, am iddo ddatgan fod gwaed Crist mor fawr, fel nas gallai ei ddirnad na'i egluro; a chyhuddir Rowland a'i bleidwyr o haeru nad oeddynt yn credu dim ond a ddeallent. Wrth reswm, yr oedd i'r Stephen Jones yma dderbyniad croesawus yn Nghymdeithasfa St. Nicholas. Siaradwyd am ein Hiachawdwr, ei fod yn Llew yn gystal ac yn Oen; fod yspryd cerydd yn deilliaw oddiwrtho, yn ogystal ag yspryd addfwynder. Penderfynwyd, hefyd, anfon cenhadau i Ogledd Cymru, gan fod y brodyr oedd wedi ymwahanu yn rhwystro yr eneidiau i ddyfod at Grist; yr oedd y cenhadau yma, hefyd, i geisio perswadio pawb i beidio myned i wrando ar neb perthynol i blaid Rowland, hyd nes y dychwelai y blaid hono at yr Arglwydd. Y cyntaf a drefnwyd i fyned i'r Gogledd oedd Roger Williams; yr oedd ef i gychwyn ar unwaith; yr oedd Rue Thomas i fyned yn mhen pythefnos gwedi; Richard William Dafydd i fyned yn ganlynol; ac yr oedd Lewis Evan i gyfarfod â phob un, ac i fod yn gydymaith iddo hyd nes y dychwelai. Ac yn olaf, fis cyn y Gymdeithasfa nesaf, yr oedd Thomas Williams a David Thomas i fyned, i benderfynu ar gyfarfodydd, ac i alw y pregethwyr oeddynt am uno â Harris i ddyfod i'r Gymdeithasfa yn Llanfair. Dywedir, yn mhellach, ddarfod i'r Arglwydd agor genau Madam Griffiths, y Llygad, i lefaru i'r byw. Dywedai, pe y byddent yn ddigon ysprydol, y gallent weled ysprydoedd pobl mor glir ag yr oeddynt yn gweled eu gwynebau.

Felly y terfynodd Cymdeithasfa gyntaf plaid Harris. Yr ydym yn teimlo fod cryn lawer o gymysgedd i'w ganfod ynddi. Nid oes amheuaeth fod Harris a'i bleidwyr yn hollol gydwybodol; eu bod yn credu mai gyda hwy yr oedd y gwirionedd, a bod yr offeiriaid wedi gadael Crist. Tybient fod parhad gwir grefydd yn Nghymru yn dibynu ar iddynt hwy gael goruchafiaeth. O'r ochr arall, anhawdd credu fod yr holl frwdaniaeth o'r nefoedd; tra y condemnient gnawdolrwydd, nid oeddynt hwy eu hunain yn rhydd oddiwrth y cnawd. Gyda danfoniad allan y cenhadau hyn, dechreuodd cyffro enbyd yn ngwersyll y Methodistiaid. Gwedi pregethu, byddai y cenhadau yn casglu

y proffeswyr yn nghyd; rhybuddient hwy rhag yr offeiriaid, y rhai, meddent, oedd wedi colli Duw; ac yn yspryd y gorchymyn a gawsent wrth fyned allan, anogent hwy i beidio gwrando ar Rowland a'i blaid. Mewn canlyniad, aeth y seiadau yn rhanedig, ac hyd yn nod aelodau yr un teulu. Ni roddid derbyniad i Daniel Rowland mewn lliaws o fanau ag yr edrychid ar ei ddyfodiad yn flaenorol fel eiddo angel Duw. Nid anmhosibl fod cryn lawer o chwerwder ac yspryd erledigaeth, hefyd, o du yr offeiriaid a'u pleidwyr, ond nad yw eu gweithrediadau hwy wedi eu croniclo. O'r Gymdeithasfa yna ryw dybiaeth yn nyfnder ei yspryd eu bod yn un yn eu golygiadau am y gwirioneddau hanfodol. yr ydym am gofnodi llythyr a ysgrifenwyd ganddo: "Fy anwyl frawd Rowland. Pa le yr ydych yn awr? Pa yspryd sydd wedi eich meddianu? Pa frwydrau ydych yn ymladd, ac yn erbyn pwy? Deuwch yn awr, a dychwelwch. Os ydych yn edrych arnaf fi yn waeth na chwi eich hun, fel y mae genych hawl i wneyd, rhydd hyny hawl i mi i waeddi yn uwch, Gras! Gras! Beth bynag, y mae arnoch chwithau eisiau eich golchi fel finau; gadewch i ni ein dau, ynte, fyned i'r ffynon ar ein cyfer. Peidiwch




WERN-LLESTR.

*[Lle y pregethodd H. Harris gyntaf yn Llansamlet, a lle y mae yn debygol y cynhaliodd ei bwyllgor cyntaf wedi yr ymraniad.]*

gyntaf a gynhaliwyd gan blaid Rowland, anfonasid gorchymyn i Harris i anfon cyfrif, a hyny, o bellaf, cyn pen tair wythnos, am yr arian oedd wedi gasglu at y gyfraith yn erbyn Syr Watkin Williams Wynne. Ateba yntau mai yr oll a dderbyniasai oddiwrth bleidwyr Rowland, oedd pum' punt oddiwrth Rowland ei hun, pum' punt oddiwrth Benjamin Thomas, a gini oddiwrth Williams, Pantycelyn. Am y gweddill o'r arian, nad oedd yn gyfrifol iddynt hwy. Yn ganlynol, dengys sut yr oedd yr arian wedi cael eu talu allan. Eithr fel prawf nad oedd serch Harris at Daniel Rowland wedi llwyr oeri, a bod tramgwyddo am y grisiau. A ydych yn tybio ei fod yn bosibl fy mod i yn caru pechod, ac wedi gadael anwyl gariad Duw? Yr wyf yn fwy pechadur na phawb; ond yr wyf yn gadael iddo ef ddangos yr ochr arall i'r ddalen i chwi, pa un a ydwyf yn goddef i mi fy hun ei ddolurio, ac ai wnawn farw er mwyn dangos ei ogoniant i chwi. Deuwch; peidiwch ymladd yn hwy; yn hytrach, ymdrechwch i fynu gafael. Daniel! Fy anwyl frawd, Daniel! ymaith a'r rhai sydd yn ei groeshoelio ef. Dyro heibio dy ragfarn, rhag i eraill fesur i chwi yr hyn ydych chwi yn fesur i eraill." Ar gefn y

llythyr hwn ceir y nodiad canlynol: "Ysgrifenwyd hwn at Rowland yn yr Hen Fynachlog, yn Sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1750, ond ni chafodd ei ddanfon." Trueni na fuasai y llythyr yn cael myned; os na fuasai yn foddion i ail-uno, gallasai fod yn foddion i rwystro llawer o chwerwder yspryd. Dengys ei ysgrifeniad, modd bynag, fod llawer o'i hen serchawgrwydd yn aros yn mynwes Harris, ond ei fod yn orchuddiedig am amser gan haen drwchus o chwerwder.

Medi 26 a 27, cynhaliodd plaid Harris eu hail Gymdeithasfa, fel y trefnasid yn flaenorol, yn Llanfair-muallt. Yr oedd hon yn lliosocach na'r un yn St. Nicholas. Cyn dechreu y cyfarfod rheolaidd, bu Howell Harris yn ymgynghori a'r Arglwydd, ac â John Richard, "am y priodoldeb o oddef i'r rhai a ddaethent i'r goleuni, ac a ddangosent yspryd ufudd mewn peidio myned i wrando y lleill, pan y ceisiem hyny ganddynt, ac hefyd a ddeuent i'r cyfarfodydd ar y Sabbath i gael eu cynghori, ac i gael siarad yn bersonol â hwy," i fyned i wrando pleidwyr Rowland. Y penderfyniad oedd gadael iddynt fyned, gan fod pleidwyr Rowland yn awr wedi gwneyd datganiad o'u huniongrededd parthed marwolaeth Crist. Pa bryd, ac yn mha ffurf, y gwnaethent y datganiad hwn, ni ddywedir. Eithr cyfiawnha Harris y gwaharddiad a wnaethid yn flaenorol, am fod lle i gredu pan y gwnaed ef fod y blaid hono, o herwydd eu tuedd i wadu y dirgeledigaethau, ac i ddal fod y ddwy natur wedi eu rhanu, yn tueddu at Ariaeth. Dengys hyn fod Howell Harris yn dechreu dyfod i weled nad oedd pellder mawr wedi'r cwbl, parthed athrawiaeth, rhyngddo ef â Daniel Rowland. "Ond," meddai y dydd-lyfr, "yr ydym yn argyhoeddedig nad oes yr un cyfnewidiad yn eu hyspryd; a geill y datganiad hwn am dduwdod ein Harglwydd fod yn unig yn argyhoeddiad y pen, neu ynte yn tarddu oddiar ystryw, ac nid yn gynyrch unrhyw olwg newydd y maent wedi gael ar berson yr Iachawdwr." Ychwanega ei fod yn iawn yn awr i rybuddio yr eneidiau sydd ar hyn o bryd yn tyfu rhag myned i'w gwrando, oblegyd deddfoldeb eu hyspryd. Agorwyd y Gymdeithasfa trwy bregethu. I gychwyn, traddododd y brawd Relly "bregeth fawr a gogoneddus," oddiar Phil. ii. 8: "A'i gael mewn dull fel dyn," &c. "Y fath fendith yw cael yr efengyl," meddai Harris, wrth wrando. Ychwanega i'r gogoniant lanw y cyfarfod, ac y bu raid i'r pregethwr aros am gryn amser cyn myned yn mlaen. Ar ei ol pregethodd y brawd John Richard, oddiar y geiriau: "Y mae tri yn tystiol-



CAPEL PRESENNOL LLANSAMLET.

aethu ar y ddaear." Daeth y gogoniant yn amlwg yn ystod ei bregeth yntau. Yr oedd Harris wedi siarsio y rhai a ymgynullasent, cyn dechreu y cyfarfod, nad oeddynt i guddio nac i roddi atalfa ar eu teimladau. "Dangosais," meddai, "mai ni yw corph Crist, ein bod wedi cael ein galw y tufewn i'r llen allan o'r cnawd, ac oni wnawn lawenychu yn yr Arglwydd, a dangos ein harwydd oddiar benau tai, ein bod yn gnawdol, ac nad ydym yn farw gyda golwg ar ein henwau yn y byd." Tueddai hyn i roddi rhaff yn y cyfarfod i'r teimladau a enynid.

Gwaith cyntaf y cyfarfod neillduol oedd cwestiyno yr holl gynghorwyr oedd yn bresenol. (1) Holid hwy am eu gwybodaeth o'n Harglwydd. Cafwyd fod llawer yn anwybodus am dano, ond ymddangosent yn syml, ac o un yspryd; yr oedd eraill wedi cael cipolwg arno; tra yr oedd eraill yn dyfod i fynu i'r goleuni. (2) Holid hwy am yr ymraniad. Cydunai pawb ei fod o Dduw, a bod yspryd y rhai a'u gadawsent hwy wedi gadael yr Arglwydd, a'u bod yn adeiladu ar dywod hunan-ddoethineb, tra yr oedd pleidwyr Harris yn adeiladu ar y graig, trwy grediniaeth wastadol. (3) Holid hwy am Madam Griffiths, a oeddent yn ei gweled yn iawn ac yn Ysgrythyrol, ac yn teimlo yn rhydd yn eu calonau, iddi ddyfod i'r Cymdeithasfaoedd, a bod yn un o'r frawdoliaeth. Datganodd amryw ddarfod iddynt fod yn rhwym yn ngefynau rheswm, ond yn awr eu bod wedi cael eu cadarnhau yn yr Arglwydd, ac yn ei Air, a'i Yspryd; fod Madam Griffiths wedi bod o ddirfawr fendith iddynt, i brofi calonau ac ysprydoedd y rhai oeddynt yn aros, a thrwy yru ymaith y rhai cnawdol. Canlyniad yr arholiad oedd cael fod y cynghorwyr yn rhanedig i dri dosparth. Cynwysai y dosparth cyntaf ddeuddeg. Yr oedd y rhai hyn yn y goleuni, ac yn canfod gogoniant yr Iachawdwr. Rhenid y dosparth i ddwy adran. Cynwysai yr adran flaenaf y rhai oeddynt yn gymhwys i fod yn dadau, sef John Sparks, Relly, Thomas Williams, John Richards, a William Powell, yn nghyd ag un arall na roddir ei enw. Cynwysai yr ail adran chwech o ddynion ieuainc oeddynt wedi dyfod at y gwaed, sef Roger Williams, Stephen Jones, Thomas Jones, Edward Jones, Edward Bowen, a Thomas Davies. Yr oedd yr ail ddosparth hefyd yn rhifo deuddeg; a gwnelid ef i fynu o rai cryfion, oedd yn gweled eu cwbl yn Nghrist, ac yn tynu at y goleuni a'u holl egni. Y rhai hyn oeddent Rue Thomas, Henry Thomas, Richard Edwards, Richard Tibbot, Richard Watkins, Rue Morgan, John Williams, Thomas Meredith, ac Evan Thomas. Ni roddir enwau y tri arall. Yr oedd y trydydd dosparth yn gynwysedig o bedwar-arhugain, y rhai oeddynt yn weiniaid, ond yn meddu yr un syniadau athrawiaethol, a'r un yspryd. Ychwanegir fod rhai o'r dosparth hwn mewn amheuaeth am Madam Griffiths.

Ceir y penderfyniadau a ganlyn yn mysg y cofnodau: "Gan ein bod yn gweled y fath amryfusedd cadarn yn gweithio yn y brodyr eraill (plaid Rowland), a'r fath yspryd drwg yn dangos ei hun ynddynt mewn amrywiol ffyrdd, a'r moddion a ddefnyddiant i hudo y gwan, cafwyd cryn ddadl ar y priodoldeb o fyned i wrando arnynt, ac ymddiddan â hwynt. Cydunodd yr holl frodyr i roddi rhyddid i'r rhai a ddewisent fyned, fel y gallent farnu drostynt eu hunain, hyd nes y byddent wedi gwneyd eu meddyliau i fynu i ymadael atynt hwy, neu ynte i ymuno â ni; ond gwedi hyny nad oeddynt i fyned i'w gwrando hyd nes y byddai i'r holl Gymdeithasfa gael ei boddloni ynddynt.

"Cafwyd dadl ar y rhai a wahoddent atynt y blaid arall a ninau. Cydunasom yn (1) Gyda golwg ar y rhai ydynt mewn amheuaeth gyda golwg ar dderbyn y ddwy blaid i'w tai i bregethu, ein bod yn pregethu yn eu mysg hyd y Gymdeithasfa nesaf, neu hyd nes y gwnelont eu meddyliau i fynu i uno â ni, neu â hwy. (2) Ein bod i bregethu yn mysg y rhai cnawdol sydd yn eu galw hwy a ninau, ar yr amod eu bod yn cadw y lle yn agored i ni, yn ddifwlch, pa bryd bynag y deuwn."

Trefnwyd hefyd fath o gyfeisteddfod gweithiol, cynwysedig o ugain o bersonau, gyda Howell Harris yn ben arno, i benderfynu pob peth amgylchiadol. Neillduwyd brodyr i gymeryd gofal y seiadau, ac i ymweled â gwahanol ranau y wlad. Eithr nid oedd y Gymdeithasfa i derfynu heb ryw gymaint o ddiflasdod. Daeth un Joseph Saunders ag achwyniadau yn erbyn Madam Griffiths. Trodd Harris ef allan ar unwaith. Trodd Thomas Seen allan yn ogystal, am nad oedd yn gweled gwaith yr Arglwydd yn Madam Griffiths, ac yn William Powell. Parodd hyn i'r priodoldeb o gael Madam Griffiths yn y Cymdeithasfaoedd a'r seiadau gael ei

ddadleu drachefn. Amheuai Richard Tibbot hawl benywod i lefaru yn gyhoeddus. Dygodd hyn Howell Harris i fynu; dywedai y dylent nid yn unig ei goddef, ond teimlo yn fraint ei chael; ei bod yn golofn o oleuni, a bod y dystiolaeth wedi ei selio yn ei chalon. Boddlonodd Tibbot. Teimla Harris iddynt gael Cymdeithasfa fendigedig, mai yn awr yr oedd y gwaith yn dechreu mewn gwirionedd, fod y brodyr eraill yn yr anialwch, eu bod fel Saul, wedi colli y deyrnas, a'u bod yn defnyddio moddion cnawdol i dynu pobl atynt. Ychwanega ddarfod i James Relly, George Gambold, John Harry, a John Harris, y tri diweddaf o Sir Benfro, ymuno â phlaid Harris dair wythnos gwedi y Gymdeithasfa; a bod llawer yn Siroedd Fflint, Dinbych, Meirionydd, Môn, a Chaernarfon, wedi uno, ond nad oeddynt eto wedi eu gosod mewn trefn.

Ar y dydd cyntaf o Hydref, cychwynodd am Sir Benfro, gan alw ar ei daith yn Llwynyberllan, a Chaerfyrddin, a rhai lleoedd eraill, ac yr oedd John Sparks, a Madam Griffiths yn gymdeithion iddo. Ar y ffordd, eglurodd iddynt y cynllun o ffurf-lywodraeth oedd wedi dynu allan i'r seiadau a lynent wrtho. Yn mlaenaf, yr oedd Cymdeithasfa Gyffredinol i gael ei chynal, cynwysedig o efengylwyr, cynghorwyr, ac henuriaid, tua haner cant mewn rhif, o wahanol ranau y wlad. Ei gwaith fyddai rhoddi math o gymeradwyaeth gyffredinol i'r hyn oedd wedi ei benderfynu yn flaenorol mewn cylch mwy mewnol; ac yr oedd pob aelod o honi i gael cyfleustra i ddangos y goleuni oedd ynddo. Yn mhellach, ynddi yr oedd ceryddon cyhoeddus, a dysgyblaeth gyhoeddus i gael eu gweinyddu, a phob mater a ddaliai gysylltiad a'r holl Gorph i gael ei drafod. Yn nesaf, yr oedd Cymdeithasfa fwy mewnol i fod, cynwysedig o tua phump-ar-hugain o efengylwyr a henuriaid. I hon dysgwylid i bob aelod i ddyfod a holl gynyrch ei sylwadaeth, gyda golwg ar achosion tymhorol ac ysprydol, i'w lledu gerbron yr Arglwydd; ynddi yr oedd materion i gael eu penderfynu cyn eu dwyn i'r Gymdeithasfa Gyffredinol; ynddi hefyd yr oedd y pregethwyr i gael eu harholi a'u derbyn, gwahanol achosion i gael eu gwrandaw a'u penderfynu, a chyfarwyddiadau i gael eu rhoddi parthed priodas a dysgyblaeth. Yn drydydd, yr oedd corph mwy mewnol drachefn i fod, cynwysedig o'r efengylwyr oeddynt dadau, y rhai yr oedd meddwl Crist ganddynt, ac a oeddynt yn byw gydag ef, ac felly a feddent synwyrau ysprydol wedi cael eu hawchlymu, fel y gallent wahaniaethu rhwng gwirionedd a thwyll. I'r corph mwyaf mewnol hwn yr oedd achosion o anhawsder i gael eu dwyn, ynddo y profid yr ysprydion, yr amlygid y pethau mwyaf dirgel, ac y penodid i bob un y lle yn mha un y mynai yr Arglwydd ei osod. Meddai Harris: "Y corph hwn yw bywyd a chalon y Gymdeithasfa fewnol, ac hefyd y Gymdeithasfa Gyffredinol, yn nghyd â holl gyfanswm yr eneidiau sydd wedi cael eu gosod dan ein gofal." Gwelir fod y cynllun hwn o ffurf-lywodraeth eglwysig yn ei feddwl yn y Gymdeithasfa yn Llanfair-muallt, er mai yn awr y gwna ei datguddio, ac mai er mwyn ei roddi mewn gweithrediad y cynhaliwyd arholiad ar y cynghorwyr yno, ac y cawsent eu rhanu yn dri o wahanol ddosparthiadau. Bu yn Sir Benfro am bythefnos, gan wneyd ei oreu i ddwyn seiadau y sir i berthyn i'w blaid, yn yr hyn y cynorthwyid ef yn zêlog gan John Sparks. Gwnelai ei gartref yn Hwlffordd, ac oddiyno elai ar wibdeithiau i'r holl wlad o gwmpas. Mynega iddo gael ei siomi yn enbyd na ddaeth John Harry, y cynghorwr, ato yn St. Kennox; i'w absenoldeb ei wanu fel brath cleddyf. Gwelir felly nad cywir y nodiad yn nghofnodau Cymdeithasfa Llanfair-muallt am y cynghorwr hwn. Un noson, yn y seiat breifat yn Hwlffordd, daeth y diafol i mewn. Dangosodd ei bresenoldeb trwy beri i rywun holi parthed y priodoldeb o fyned i wrando Howell Davies yn pregethu. Nid oedd Harris yn barod i ateb, felly ceryddodd y dyn am ofyn y fath gwestiwn. Dywedai ei bod yn rhy hwyr i ymdrin a'r mater y noson hono; nad oedd neb i lefaru ond efe, ac mai efe, am y pryd, oedd genau Duw. Dywedodd, yn mhellach, fod y mwyafrif o'r cynghorwyr a'r aelodau perthynol i dŷ cwrdd Hwlffordd yn cydweled ag ef; ond yn hytrach nag ymladd, os byddai y blaid arall yn ei hawlio, yr ai efe a'i ganlynwyr allan i'r heol. Yr un seiat cyfododd anghydwelediad rhyngddo â John Sparks, a Madam Griffiths, am fod y ddau yn sibrwd wrth eu gilydd pan fyddai ef yn siarad yn y Gymdeithasfa. Mor ddolurus oedd ei deimlad fel y gadawodd y cyfarfod a'r dref yn ddisymwth, gan fyned tua St. Kennox. Yno, holai ei hun ai nid oedd gwaith Madam Griffiths ar ben, neu ynte, ai nid

ewyllys yr Arglwydd oedd tori y Cyfundeb Methodistaidd i fynu yn hollol? Yn raddol, modd bynag, llonyddodd ei deimlad, ac aeth yn ei ol i Hwlffordd, at y brodyr a'r chwiorydd, gan gyfaddef ei edifeirwch.

O Sir Benfro teithiodd trwy ranau isaf Sir Aberteifi, a'r rhanau agosaf iddi o Sir Gaerfyrddin, ond cafodd fod y rhan fwyaf o'r seiadau yn cydymdeimlo â Rowland. Bu yntau yn dra llym wrthynt o'r herwydd, gan ddweyd nad oedd am ymweled â hwy drachefn, oddigerth iddynt roddi iddo y lle a gawsai gan Dduw. Wedi cyrhaedd Llwynyberllan yn ei ol, croesodd dros y mynyddoedd i'r Hen Fynachlog, lle o fewn eidfa fawr yn yr Hen Fynachlog, a chwedi pregethu, cadwodd seiat breifat. Dywedodd yno drachefn am ei anwyldeb at Rowland, ond fod yn rhaid iddo yn awr ymladd yn ei erbyn. Ymddengys, modd bynag, iddo ddeall mai nid oddiar ddybenion crefyddol yr oeddynt wedi anfon am dano, a dywedodd na ddeuai yno drachefn, hyd nes y byddent wedi ymffurfio yn rheolaidd, ac wedi anfon am dano, nid oddiar ragfarn at y brawd Rowland, ond oddiar ofn Duw, ac yspryd cariad. Tranoeth, croesodd y Mynydd Mawr, ac wedi ymweled ag amryw leoedd yn Sir Faesyfed a Brycheiniog, dychwelodd i Drefecca.



EGLWYS ST. NICHOLAS, SIR FORGANWG.

rhyw filltir i Bontrhydfendigaid, ac heb fod dros ddeg milltir o Langeitho. Ymddengys fod y ddeadell yma yn wrthwynebol i Rowland, a'u bod wedi anfon gwahoddiad i Harris ymweled â hwy. Wrth ei fod yn pasio trwy Dregaron, llanwyd ei yspryd â chariad dirfawr at Rowland. "Yr wyf yn gweled mai fy mrawd ydyw," meddai; "yr wyf yn llawen am mai efe sydd yn ben (ar y brodyr oedd wedi ymwrthod â Harris); ac y mae yn flin genyf weled cynifer o wiberod o'i gwmpas, yn ei frathu ac yn ei wenwyno." Gwelir fod Harris, yn nyfnder ei yspryd, yn gorfod anwylo Rowland, a'i fod yn beio rhywrai oedd o'i gwmpas yn fwy nag efe. Cafodd gynull-

Ar y dydd olaf yn Hydref, cyfarfyddodd corph mewnol y Gymdeithasfa yn Nhrefecca. Llefarodd Harris yn helaeth am ddyfod i feddu yr un goleuni, onide na fyddai yr undeb rhwng yr aelodau yn ysprydol o gwbl, eithr yn undeb cnawdol, fel eiddo y blaid oedd wedi ymranu. Trowyd dau gynghorwr, sef William James, a Rue Thomas, allan o'r cyfarfod, i weddïo, am nad oeddynt yn tyfu, ac nad oedd pwys y gwaith yn gorphwys ar eu hysprydoedd, ac hefyd am nad oeddynt yn gallu ymwthio yn mlaen oddifewn i'r llen. Ychydig o wahaniaeth a welai Harris rhwng eu hysprydoedd ag eiddo y blaid arall. Amlwg fod ei safon o'r hyn a ystyriai yn

ysprydolrwydd yn ymddyrchafu yn gyflym, a'i bod ar gyrhaedd pwynt uwchlaw yr hyn sydd yn bosibl i'r cyffredin o dduwiolion.

Cawn ef ar y 4edd o Dachwedd yn cychwyn ar daith i'r Gogledd. Gwedi ymweled ar ei ffordd ag amryw leoedd yn Sir Faesyfed, y mae, dydd Gwener, Tachwedd 9, yn cyrhaedd Llwydcoed, yn Sir Drefaldwyn. Nid oedd pall ar ei wroldeb wrth wrthwynebu yr anhawsderau a welai o'i flaen. "Y mae fy yspryd," phregethodd yno drachefn ar y geiriau: "A ydych chwi yn awr yn credu?" Ymddengys iddo gael odfa nerthol iawn. Dangosai dri nod yr etholedigion, sef eu bod yn cael eu dysgu gan Dduw; eu bod yn adnabod llais Crist, ac yn gwrando arno; a'u bod yn edrych ar yr hwn a wanasant. Taranai yn ofnadwy yn erbyn yr yspryd hunanol a balch oedd wedi dyfod i fewn i fysg y rhai a fuasent unwaith yn syml, ac yn barod i gymeryd eu dysgu. "Rhybuddiais y bobl," meddai, "rhag



CAPEL TREHIL, ST. NICHOLAS, SIR FORGANWG.

meddai, "uwchlaw holl ddiaflaid y Gogledd; yr wyf yn edrych arnynt fel gwybed." Yn Llanrhaiadr Mochnant, un awr yr arhosodd, i gael ymborth iddo ei hun a'i anifail, ac yna, trafaelodd trwy y nos, gan gyrhaedd Mwnglawdd, lle heb fod yn nepell o Wrexham, boreu y Sadwrn. Pregethodd yma gyda dylanwad mawr ar y Drindod, bwyta cnawd ac yfed gwaed Mab y Dyn, a dangosai am farwolaeth Duw, ei fod uwchlaw dirnadaeth y cnawd. Yn Mwnglawdd yr arosodd dros y Sul, a gwrando ar reswm, ac anogais hwynt i wrando ar yr Arglwydd yn unig; am iddynt ein gadael ni i'r Arglwydd. Dywedwn fy mod wedi dyfod i droi eu calonau at yr Arglwydd; nad oedd genyf un gwaith arall, 'ac oni chlywch lais Crist ynom ni,' meddwn, 'yn cyrhaedd eich calonau, gadewch ni. Nid yw o un pwys beth a fuoch, beth ydych yn awr yw y pwnc. Bu Saul yn mysg y prophwydi, a'r morwynion ffol yn mysg y morwynion call, ond nid ydynt gyda hwy yn awr,

Gwrthddadl: Felly, yr ydych yn dal syrthiad oddiwrth ras? Nac ydym; nis geill y rhai sydd ar y graig syrthio, ond pwy ydynt? Yr ydym yn galw llawer yn frodyr na wna Duw arddel. Rhaid i mi siarad yn blaen wrthych; nid yw o un pwys genyf beth a ddywedir am danaf, oblegyd nid trosof fy hun yr ydwyf wedi dod, eithr dros yr Arglwydd.' Dywedais, yn mhellach, mai Diwygwyr yn yr Eglwys ydym, ac nad oeddym yn eglwys nac yn sect ar wahan."

Diau fod y bregeth hon yn esiampl bur deg o'i genadwri yr adeg yma at seiadau Gogledd Cymru. Prydnhawn y Sul, aeth i dref Wrexham, lle y pregethodd oddiar y geiriau: "A thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." "Odfa gyda llawer o ryddid mewn modd syml," y geilw hon. Aeth yn ei ol i Mwnglawdd nos Sul, lle y pregethodd drachefn. Gwedi y bregeth, cadwodd seiat breifat, a siaradodd yn hir ar enedigaeth, dyoddefiadau, a gwaed Duw. "Llefais," meddai, "ychydig, yn ol pob tebyg, a gaiff Duw yma yn foddlon i gymeryd eu dysgu ganddo, tra y bydd eraill, ar ol iddynt ei brofi am lawer blwyddyn, a'i gael ef yn ffyddlon, yn ei adael, gan ymddiried yn eu doethineb eu hunain, ac yn eu cof, ac mewn llyfrau. Yr oedd y gogoniant yma, a daeth yr Arglwydd i lawr mewn gwirionedd, i gadarnhau yr eneidiau. Gwedi hyn, bum gyda'r pregethwyr hyd ddau o'r gloch y boreu, agorwyd fy ngenau yn wir i roddi gofal yr eneidiau yn y lle yma iddynt, yn yr un geiriau ag y gwnaeth Paul i henuriaid Ephesus. Eto, nid myfi a lefarai, eithr yr Arglwydd ynof fi." Dydd Llun, cawn ef yn Llansanan, a phregethodd, gyda chryn ryddid, i ychydig o eneidiau syml oeddynt yn barod i wrando yr efengyl. Nos Lun, y mae yn yr Hen Blas, ac yn pregethu oddiar y geiriau: "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad." Ei destun yn y Plasbach, boreu dydd Mawrth, oedd: "Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo." Dywed fod awdurdod rhyfedd yn cydfyned a'i eiriau. "Dangosais i bwrpas," meddai, "fel y mae yr Ysgrythyr yn dwyn tystiolaeth i ogoniant y Dyn hwn; nad digon credu fod Duw ynddo, neu gydag ef, ond mai efe yw y Perffaith, a bod ei waed yn waed Duw." Ychwanega: "Y fath us sydd i'w gael yn awr yn mhob man! Y mae llawer yn cael eu taflu o gwmpas, ac yn cael eu profi, gan yr ymraniad hwn. Ychydig yn y rhanau hyn o'r wlad sydd wedi cael eu deffro, er fod yma lawer o bregethu." Ai ychydig wedi eu deffro fel ag i ymuno â chrefydd a olyga, ynte wedi eu deffro i ganfod pethau yn yr un goleuni ag ef, sydd ansicr.

Dydd Iau, y mae yn Waunfawr, ger Caernarfon, ac yma y cenfydd, am y tro cyntaf, bamphledyn Daniel Rowland. "Neithiwr," meddai, "gwelais gyhuddiad yr anwyl frawd Rowland yn fy erbyn, sef fy mod yn dal pedair o heresiau; gwadu y term 'Person,' dal i'r Tad ddyoddef ac i Dduw farw, fod corph Crist yn hollbresenol, a'm bod wedi ymchwyddo. Pwysais y cyhuddiadau hyn gerbron yr Arglwydd, a chefais fy mod yn ddieuog." Nid ydym yn sicr beth a olyga wrth "ddieuog." Prin y gallai wadu ei fod yn dal rhai o'r athrawiaethau a dadogir arno gan Daniel Rowland; defnyddiai yr ymadrodd am farwolaeth Duw yn fynych wrth bregethu yn ystod y daith hon; efallai mai ei feddwl yw nad oedd y golygiadau y dywedir ei fod yn eu coleddu yn heresiau. Ond y mae yn amlwg fod ei deimlad at Rowland yn dyfod yn llai dolurus. "Yr oeddwn yn ofidus," meddai, "ddarfod i'r brawd Rowland ysgrifenu fel hyn; byddai yn dda genyf pe bai yn cymeryd y papyr, ac yn ei olchi yn y gwaed, a'i gyflwyno i'r Arglwydd." Dydd Gwener, aeth i Leyn, i Brynengan, yn ol pob tebyg, a phregethodd oddiar Zecharias xii. 10. Yn y seiat breifat, dangosai fod yr Arglwydd wedi dyfod i'w mysg a'i wyntyll, ac aeth yn fanwl ac yn helaeth dros ei hanes ei hun o'r cychwyn, yn nghyd ag achos yr ymraniad rhyngddo a phlaid Rowland. Dydd Sadwrn, mae mewn lle yn Sir Fôn, o'r enw Ysgubor Fawr; ei destun yw: "Yn y byd gorthrymder a gewch." Yma, cafodd ei daro yn glaf, fel y methodd fyned yn ei flaen i Lanfihangel, fel yr arfaethasai; dywed, hefyd, ei fod yn isel ei yspryd. Medrodd fyned yno y Sul, modd bynag, a phregethodd am anfeidroldeb dyoddefiadau Crist. Dydd Mawrth, cawn ef eto yn Waunfawr, yn troi ei wyneb tuag yn ol. "Yn awr," meddai, "yr wyf yn troi fy wyneb o'r Gogledd am gartref, gwedi cyflawni gwaith fy Arglwydd, yr wyf yn gobeithio, ac wedi gosod yn nghyd ychydig feini, gan wahanu rhwng y credinwyr a'r annghredinwyr, a'i gwneyd yn hawdd i'r rhai sydd yn y ffordd i dyfu." Y mae y frawddeg nesaf yn cyfeirio at rywbeth a'i cyfarfyddodd, nas gwyddom

ei natur na pha le y digwyddodd: "Fy mywyd yn brin a achubwyd o safn y llew; atebodd y pwrpas o drywanu fy nghnawd, a dinystrio y sothach oedd ynof, gystal a phe buaswn wedi cael fy nwyn i brawf. Y maent hwy yn erlid, nid gyda cherig a phastynau, ond â geiriau gwenwynig."

Nos tranoeth, cyrhaeddodd y Bala. Ei destun ydoedd: "Yn hyn yr adnabuom gariad Duw, oblegyd dodi o hono ef ei einioes drosom ni." "Cadwyd fi rhag suddo,' meddai, "cefais awdurdod, a rhyddid, a nerth, y fath na chefais erioed o'r blaen yma. Dangosais yr angenrheidrwydd am yr Yspryd, ac eiddilwch pob moddion hebddo; yr oeddwn yn llym at annghrediniaeth, ac at anwybodaeth am Grist. Dywedais y rhaid i mi fod yn ffyddlon, a llefaru y gwirionedd i'r amcan hwn; fy mod yn gadael pob peth er myned oddiamgylch. Yna, llefarais yn llym wrth y credinwyr am iddynt aros ynddo, trwy barhau i gredu; mai hyn yw ein dyledswydd, ac nad yw pob gras ydym wedi dderbyn o un gwerth i ni yn ymyl hyn." Beth a fu ei ddylanwad yn y Bala, nis gwyddom; nid yw yn dweyd pa un a lwyddodd i droi y seiat o'i blaid. Y dydd Sul canlynol, yr ydym yn ei gael yn Llanfair-Careinion, lle y pregetha oddiar yr un testun ag yn y Bala. Pregethodd yno nos Sul, yn ogystal; ei destun ydoedd: "Gwir yw y gair;" eithr dywed na chafodd fawr ryddid hyd nes y dechreuodd lefaru am ddirgelwch Crist. "Dyma y genadwri a roddir i mi yn mhob man," meddai. Y dydd Mawrth canlynol, yr oedd yn y Fedw, lle y pregethodd oddiar y geiriau: "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid.' Dywed: "Wrth weddïo, a chanu, a phregethu, dyrchafwyd fi uwchlaw y diafol yn mhawb, a chefais ryddid dirfawr i ddangos gogoniant y Dyn hwn. Dangosais mai efe yw y Duw tragywyddol; y bydd i bob cnawd addef ei Dduwdod yn y man; ei fod yn Dduw yn mhob man, ond na fu Duw farw. Eglurais i'r Anfarwol farw, ei fod yn byw pan yn angau, ac yn ogoneddus a mawr. Ni addefent hwy (plaid Rowland) ei fod yn Dduw, eithr fod Duw gydag ef, ac ynddo, a'i fod yn berffaith." Yn sicr, nid yw hyn yn ddarnodiad cywir o syniadau Rowland, credai efe yn nuwdod y Gwaredwr lawn mor ddiysgog a Harris ei hun. Ychwanega: "Gelwais seiat breifat ar ol, ond yr oedd cymaint o'r diafol yn eu mysg, fel yr aethum allan, ac y gadewais hwynt." Yna, aeth i gyfeiriad Sir Aberteifi, ac ymwelodd a'r Hen Fynachlog eto. Hawdd gweled ei fod yn awyddus am gael gafael yn rhai o seiadau Sir Aberteifi, yr hon a ystyrid fel yn perthyn yn arbenig i Daniel Rowland. Dywed iddo glywed am ryw wraig yn Northampton, oedd wedi prophwydo y byddai un yspryd, un athrawiaeth, ac un eglwys trwy yr holl deyrnas. Credai efe mewn prophwydoliaeth, a chafodd y dywediad le mawr yn ei feddwl. "Oni wrthid y genedl yr efengyl," meddai, "bydd heddwch a gogoniant mawr; ond os fel arall, nid oedd y ddaeargryn ond arwydd o farn.' Oddiyma, aeth adref trwy Lwynyberllan.

Yr oedd ei weithgarwch yr adeg yma yn ddiderfyn: ac y mae yn sicr fod cyffro enbyd yn y seiadau trwy yr holl wlad. Yn wir, ymledai y cyffro i'r Eglwys Sefydledig, ac i fysg yr enwadau Ymneillduol; a chymerai yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr blaid Rowland. Ar y ddeunawfed o Rhagfyr, 1750, cawn ef yn St. Andrew's, ger Caerdydd, ac fel hyn yr ysgrifena: "Dyma ddyddiau ardderchog mewn gwirionedd. Y mae pawb yn cael eu profi, eu hysgwyd, a'u gwyntyllu. Yr holl weinidogion Ymneillduol, a'r holl offeiriaid, ein brodyr ein hunain, ydynt mewn arfau yn fy erbyn. Yma, yr wyf yn cael Mr. Lewis Jones wedi aros, yn fy ngwrthwynebu, a dynoethodd fi neithiwr wrth bregethu. Aeth un o'r brodyr gau at yr offeiriad yma i'm dynoethi, ac yr oedd yntau am anfon am y cwnstabli ar unwaith i'm cymeryd. Pan glywais y pethau hyn, llawenychodd fy yspryd ynof. Teimlwn y groes yn dra melus, ac yr oedd y syniad am gael fy nghymeryd yn foddhaol iawn genyf." Nid oes amheuaeth nad oedd yspryd erledigaeth yn rhedeg yn uchel o'r ddau tu, fod plaid Harris a phlaid Rowland yn camddarlunio geiriau a gweithredoedd eu gilydd, a bod llawer o fustl chwerwder o'r ddwy ochr. Ar y 22ain o Rhagfyr, pregethai yn Mhontypridd, a thra yr oedd wedi hoelio sylw'r gynulleidfa, darfu i ryw Ymneillduwr, llawn o'r diafol, ei wrthwynebu yn gyhoeddus. Trodd Harris arno; aeth yntau allan o'r cyfarfod, a rhywun arall, llawn o'r diafol, fel ei hun, gydag ef, ac yna daeth yr Arglwydd i lawr.

Ar y dydd olaf o'r flwyddyn 1750, a'r dydd cyntaf o'r flwyddyn newydd, cyn-

helid math o gyfarfod rhagbarotoawl i'r Gymdeithasfa gan Howell Harris a'i blaid yn Llwynyberllan. Ymddengys mai cyfarfod y "Corph mewnol" ydoedd; ac yr oedd tua phump-ar-hugain yn bresenol, yn mysg pa rai, heblaw Harris ei hun a Madam Griffiths, y cawn Richard Tibbot, John Sparks, John Richard, ac eraill o ryw gymaint o enwogrwydd. Yr oedd yr hunanymwadiad a ofynai Harris gan y cynghorwyr, a'r ddysgyblaeth a gadwai arnynt, yn dechreu dyfod yn annyoddefol o lym; ac un o brif orchwylion y gwahanol Gymdeithasfaoedd oedd gwyntyllu y pregethwyr, er cael gweled pwy a ddeuai i fynu a'r safon. Rhoddwyd hwy dan arholiad caled yn Llwynyberllan. Gofynid tri chwestiwn iddynt: (1) A oedd eu gwybodaeth o Grist yn yr yspryd, ynte yn y pen yn unig? (2) A oeddynt yn meddu llawn sicrwydd eu bod wedi cael eu galw ganddo i bregethu? Ac os felly, a oeddynt yn feirw i bob math o amcanion personol, ac yn barod i ddyoddef pob math o galedi, oerfel, newyn, noethni, a phob cyffelyb groesau? (3) A oeddynt yn ymlynu wrth waith hwn y diwygiad, fel y mae yn cael ei gario yn mlaen oddifewn i'r Eglwys Sefydledig? Braidd nad yw yn gofyn ganddynt i hunanymwadu a'u hewyllys ac a'u barn, a bod yn gwbl ddibris o'u hamgylchiadau, gan fod yn fath o beirianau yn ei law ef, i fyned o gwmpas, ac i weithredu fel eu gorchymynid. Er caleted y prawf, atebodd y cynghorwyr y gofyniadau yn foddlonol, rhai gyda mwy a rhai gyda llai o ffydd. Eithr yr oedd un cwestiwn llosgawl yn aflonyddu meddyliau y cynghorwyr, sef presenoldeb a swyddogaeth Madam Griffiths, "y Llygad," yn y Gymdeithasfa. Mewn gwirionedd, hi a lywodraethai i raddau mawr, gan y credai Harris fod meddwl Duw ganddi; a phan y gweithredai mewn rhyw amgylchiad heb ymgynghori â hi, nid esgeulusai hithau ei geryddu yn llym. Yr oedd ei llywodraeth yn pwyso fel hunllef ar y pregethwyr, a dyma y mater yn dyfod i'r bwrdd. "Gwedi hyn," meddai Harris, "pan nad oedd Madam Griffiths yn cael rhyddid i siarad, mi a aethum allan, a thorwyd y cwbl i fynu mewn annhrefn." Ai y cynghorwyr a'i rhwystrent i lefaru, gan wrthod gwrando; ynte hi a deimlai nas gallai siarad fel arfer, am nad oedd y cyfarfod mewn cydymdeimlad â hi, nis gwyddom. Yr olaf sydd fwyaf tebyg. Parhaodd yr annhrefn a'r dyryswch am bum' awr; Madam Griffiths yn bygwth ymadael, a Harris a rhai o'r cynghorwyr yn crefu arni beidio; "a'r Arglwydd a'i cadwodd rhag myned," meddai y dydd-lyfr. O gwmpas deuddeg, cyfarfyddwyd drachefn, buwyd wrthi yn dadleu hyd dri o'r gloch y boreu, ac yna trodd y fuddugoliaeth o blaid Harris. "Gwedi brwydr enbyd a maith â Satan," meddai, "o gwmpas tri o'r gloch y boreu, daeth yr Arglwydd i lawr, ac unodd hi a minau â hwy." Diau genym mai parch, yn ymylu ar fod yn addoliad, i Howell Harris a barodd i'r brodyr roddi ffordd. Cyfodasai Harris yn y canol, gan ofyn pwy oedd yn teimlo ar ei galon i roddi ei hun, enaid a chorph, i'r Arglwydd, ac i'w gilydd dros byth? Y cyntaf i ateb yr alwad oedd Thomas Jones; y nesaf oedd Thomas Williams, yn dra difrifol; gwedi hyny, amryw eraill, ac yn eu mysg Richard Tibbot. "Yna," medd y cofnodau, "mor fuan ag yr oedd pob un yn ildio, yr oedd gogoniant gweledig yn gorphwys arno, a theimlai pawb berthynas a'u gilydd na wyddent am ei chyffelyb o'r blaen, a theimlent bob peth yn gyffredin." Yn awr y gwelai Harris sylfaen teml Dduw yn Nghymru yn cael ei gosod i lawr. Hawdd gweled eu bod wedi colli pwyll a barn, gan ymgladdu yn y cyfriniol a'r dychymygol. Ond yr oedd amryw o'r brodyr yn petruso, wedi y cwbl, a gwrthodasant ateb ar y pryd.

Ar yr ail o Ionawr, yr oedd y Gymdeithasfa yn Dyserth. Yn Llanfair-muallt, ar y ffordd tuag yno, pregethodd Thomas Williams a John Relly. Agorwyd y Gymdeithasfa gyda phregeth rymus gan John Sparks. Yna, dechreuodd Harris lefaru, am yr angenrheidrwydd anorfod i bawb roddi eu hunain i fynu i'r Arglwydd, i'w waith, ac i'w gilydd; fod yr amser wedi dyfod yn awr i osod i lawr y sylfaen, ac i ymuno yn nghyd. Yna, gofynai, megys y gwnaethai yn Llwynyberllan: "Pwy sydd yn awr yn barod i adael pob peth er mwyn Duw a'r gwaith hwn? Pwy a fedr roddi ei enaid, ei gorph, a'i yspryd, yn nghyd a'r oll ag ydyw, a'r oll sydd ynddo, i'r Arglwydd, ac i ni, ei frodyr a'i weision?" Crybwyllodd fod deg o honynt wedi cydymrwymo i wneyd hyny yn Llwynyberllan. Cododd nifer mawr i ddangos eu parodrwydd, ac wrth eu gweled ar eu traed, sibrydai y cynghorwr William Powell wrth Harris: "Y mae yr Arglwydd yn gwneyd gwaith mawr."

Eithr aeth nifer allan heb ateb, ac yn eu mysg rai oeddynt wedi rhoddi i mewn yn Llwynyberllan, sef John Richard, Llansamlet, Thomas Bowen, Llanfair-muallt, Stephen Jones, William Jones, a Rue Thomas. &c. Nifer y rhai ddarfu ymrwymo oedd saith-ar-hugain, ac ymgyfamodent eu bod hwy, a'r hyn oll a feddent, i gael eu llywodraethu a'u trefnu gan y corph cyffredin; y gwnaent bregethu neu beidio pregethu, rhoddi eu holl amser i fyned o gwmpas, yn union fel y trefnid iddynt; y rhoddent eu gwasanaeth oll iddo ef ac i'w gilydd, gan gymeryd y naill y llall, er gwell ac er gwaeth. "Dangosais iddynt fawredd y gwaith," meddai Harris, "ei fod tu hwnt i'r hyn yr oeddym yn ymwneyd ag ef yn flaenorol; fod hwnw yn gofyn am i ni fod yn farw i'n hewyllys a'n doethineb ein hunain; eithr fod hwn yn gofyn doethineb arbenig, i weled pwy sydd wedi cael ei anfon gan yr Yspryd Glân." Gwelir fod y cynghorwyr a ganlynent Harris yn ymffurfio yn fath o urdd, ac yn cymeryd arnynt fath o adduned, nid annhebyg o ran llymder dysgyblaeth, a llwyrder ufudd-dod, i'r urddau arbenig yn yr Eglwys Babaidd. Cofnodir nad oedd Richard Tibbot yn Dyserth, am y cawsai ei anfon ar daith i'r Gogledd, a Lewis Evan gydag ef.


Y dydd Llun canlynol, yn Gore, clywodd fod ei fam wedi marw. Brysiodd tuag adref, ac wrth edrych ar y corph, yr oedd natur yn derfysglyd ynddo, ond pan y clywodd mai ei geiriau diweddaf oeddynt: "Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd," ymdawelodd, ond hiraethai yntau am fyned adref. Pregethodd yn ei hangladd oddiar y geiriau: "O angau, pa le mae dy golyn?" Erbyn hyn, y mae yn cael sail i ofni fod y llanw yn dechreu troi yn ei erbyn yn ngwahanol ranau y wlad. Yn Erwd, cafodd lythyr o Dyserth, lle y cadwai ei Gymdeithasfa yr wythnos cyn hyny, fod y seiat wedi ymwrthod ag ef, ac wedi rhoddi ei hun dan ofal Thomas Bowen. Yn Cwmcynon, ar ei ffordd i Sir Benfro, cofnoda fod pawb a wrandawsent arno yno, naill ai wedi cael eu hargyhoeddi, neu eu dystewi; na wnaeth neb ei wrthwynebu, ond iddynt fyned allan. Mewn amryw fanau yn Sir Gaerfyrddin, dywed iddo adael y seiat heb gymeryd ei gofal, am y teimlai yno bresenoldeb y diafol. Trafaelodd Benfro yn bur fanwl; dywed iddo gael odfaeon da, "ond," meddai, "yr wyf yn cael fy nuo gymaint oblegyd fy athrawiaeth, a'm canlynwyr, a Madam Griffiths, fel y mae yn gofyn cryn lawer o ffydd i'm derbyn i dŷ." Yn nesaf, cawn ef ar daith yn Sir Forganwg, a thra cymysglyd y mae yn cael pethau. Ar y ddegfed o Chwefror, ysgrifena fel y canlyn yn y Dyffryn, ger Taibach: "Neithiwr, daethum yma, ar ol pregethu yn yr Hafod, ac wedi gwrthod aros yno, am nad oedd yr Arglwydd yn eu mysg. Pan y pregethwn iddynt, yr oedd y cyfan yn eu condemnio, am iddynt adael yr Arglwydd." Prydnhawn yr un dydd, pregethai yn Castellnedd, ac aeth yr hwyr hono i dŷ John Richard, Llansamlet, i letya. Eithr yno cafodd fod John Richard wedi sefyll ar ol, ac wedi methu dyfod i'r goleuni, gan gymeryd ei berswadio gan ei wraig, a chan ei reswm cnawdol, a'i ddiffyg ffydd. Yr oedd, hefyd, wedi troi yn erbyn Madam Griffiths. Ymadawodd Harris ar unwaith, gan deithio trwy y nos, nes cyrhaedd Llandilo Fach. Ar y ffordd, amheuai ai ni wnai yr Arglwydd godi rhyw gorph arall o bobl i gario yn mlaen ei waith? Ac ai ni fyddai iddo ef a Madam Griffiths gael eu gadael wrthynt eu hunain yn y diwedd, a'r bobl wedi myned i wrando y blaid arall? Yn Gelly-dorch-leithe, dranoeth, cyfeiria at dŷ y cynghorwr George Phillips, fel tŷ ychwanegol y darfu iddo wrthod aros o'i fewn, am nad oedd yr Arglwydd yn ben yno.

Ar y 14eg o Chwefror, 1751, cynhelid cyfarfod yn Nhrefecca i drefnu teithiau y cynghorwyr i wahanol leoedd. Penderfynwyd fod pump i fod ar daith yn gyson yn y De, a phedwar yn y Gogledd; trwy y trefniant yma, tybid y byddai pob seiat yn cael ymweliad unwaith yr wythnos. Cydunwyd, yn mhellach, fod y cynghorwyr i ymweled ag aelodau preifat, y rhai y tybid eu bod yn gymhwys i uno, gan roddi gwybod am danynt i Harris a Madam Griffiths, fel y gallent hwy eu sefydlu yn eu lle. Nid oedd neb i gael eu hystyried yn aelodau ond a feddent y ffydd, ac a roddasent eu hunain i'r Arglwydd, ond yr oedd y rhai a ddifrifol geisient, ac a ymdrechent ddyfod i fynu, i gael ymweled â hwy. Cafwyd yma, hefyd, fod amryw frodyr yn weiniaid, a rhai yn tueddu i droi yn ol. Yr ydym yn cael cyfarfod cyffelyb yn Nghastellnedd, Ebrill 10 a 11, yn mha un, heblaw Howell Harris a Madam Griffiths, yr oedd yn bresenol John Sparks, Richard Tibbot, Lewis Evan, ac amryw eraill. Y nesaf at Harris ei hun, John

Sparks oedd prif ddyn y Gymdeithasfa yn awr, ac efe, fel rheol, a agorai y gwahanol gyfarfodydd gyda phregeth. Traethodd Harris yn helaeth ar y nodweddion gofynol yn y "tadau," y "gwŷr ieuainc," a'r "plant." Gan y "tadau," gofynid am galon ac yspryd tadol, eu bod wedi tyfu mewn ffydd a phrofiad, nes meddu sefydlogrwydd ysprydol; eu bod yn barod i flaenori y lleill mewn wynebu pob math o berygl a gwrthwynebiad. Dysgwylid iddynt feddu, yn mhellach, fywiogrwydd o ran eu holl synwyrau ysprydol, fel y gallent adnabod yr ysprydion, a deall holl ddirgel ddyfeisiau Satan; yn eu mysg, hefyd, rhaid cael dirgelwch yr Arglwydd, cariad pur, a marweidd-dra i hunan. Yr oeddynt i fod yn llygaid, yn enau, ac yn glustiau i'r praidd, ac i wylio dros y pregethwyr eraill. Nid rhyfedd, gwedi arholiad manwl, iddynt fethu cael neb yn dyfod i fynu yn hollol a'r safon uchod; ond gobeithid fod yr Arglwydd yn parotoi rhai. Cawn ddarfod i John Richard, Llansamlet, ofyn caniatad i ddyfod i mewn i'r Gymdeithasfa; y caniatad a roddwyd iddo; ond ni thaflodd ei goelbren i'w mysg, am ei fod yn gaeth gan ei reswm.

Rhaid i ni basio amryw o fân gyfarfodydd, a dyfod at Gymdeithasfa bwysig a gynhaliwyd gan Harris a'i blaid yn Llwynbongam, Gorphenaf 2, 3, 1751. Yr oedd safon Harris, fel y mae yn amlwg, yn myned yn uwch yn barhaus, a'i ddysgyblaeth yn fwy llym, ac felly, yr oedd y cynghorwyr, y naill ar ol y llall, yn cwympo i ffwrdd oddiwrtho. Hefyd, cofnodir ddarfod i Whitefield, yr haf hwn, ddyfod i lawr i Gymru, gan bregethu yn gefnogol i Rowland a'i blaid, ac yn erbyn gwaith Harris yn cymeryd Madam Griffiths o gwmpas, a sicr yw ddarfod i'w ymweliad ef ddylanwadu ar lawer. Methodd John Sparks ddyfod i'r Gymdeithasfa, oblegyd afiechyd; anfonodd eraill air nas gallent ddyfod, ac yr oedd eraill, drachefn, wedi tramgwyddo. Ond daethai Richard Tibbot, Lewis Evan, ac amryw eraill. Cynygiodd Harris ar y dechreu fod pawb yn agor ei calonau, fel y gwelent pwy oedd yn meddu ffydd i fyned a chymeryd y wlad, ac i sefyll o blaid yr Arglwydd wrtho ei hun, heb neb gydag ef? Mewn canlyniad, trowyd amryw allan, am na feddent y ffydd ofynol. Yr oedd Richard Tibbot erbyn hyn yn dechreu petruso, ac yn teimlo annhueddrwydd i fyned o gwmpas, a dymunai gael myned i ymddiddan a'r brodyr eraill (plaid Rowland). Yn ngwyneb hyn, cododd Harris ar ei draed, gan ymhelaethu ar yr angenrheidrwydd i bob un i fod yn sefydlog yn yr Arglwydd, ac yn y gwaith, na ddylai neb gloffi o herwydd y rhai oedd wedi ymadael, oblegyd fod y cyfryw oll wedi tramgwyddo wrth y gwirionedd, a bod pob moddion wedi cael eu defnyddio tuag at eu hadfer. Dangosai, yn mhellach, am y gwahaniaeth rhwng pregethwyr; fod rhai wedi cael eu galw i fod yn dadau, eraill yn wŷr ieuainc, yn blant, yn efengylwyr, ac yn brophwydi; a bod rhai yn meddu yspryd Moses a Phaul i drefnu ac i orchymyn. Yna, cyfeiriodd at blaid Rowland, nas gellid, o gydwybod, eu derbyn yn ol, hyd nes y cydnabyddent bechadurusrwydd eu hyspryd, ac annghrediniaeth eu calonau. Am Madam Griffiths, dywedodd ei bod yn parhau i fod yn fendith iddo, trwy fod yn Llygad, ac yn brofydd yr ysprydion. Ar ddiwedd y cyfarfod, y nos gyntaf, rhoddodd amryw eu henwau, fel yn barod i ddyfod tan y ddysgyblaeth fanwl y cyfeiriasid ati; ac yn eu mysg cawn Thomas Williams, a Lewis Evan. Y penderfyniad cyntaf a geir boreu dranoeth yw a ganlyn: "Trowyd Richard Tibbot i ffwrdd am wrthod cymeryd taith, ac am fyned i ymweled a'r brodyr eraill, gan fod pob moddion wedi cael eu harfer atynt, ac nad oes genym ffydd mai yr Arglwydd sydd yn ei anfon atynt." Terfynwyd y Gymdeithasfa, wedi gwneyd amryw drefniadau, trwy i Lewis Evan bregethu ar ddyoddefiadau Crist, a Thomas Williams ar adeiladiad y deml.

Hydref 2, 1751, cynhelid Cymdeithasfa yn Nhrefecca. Nid oedd yn un liosog, eithr yr oedd Lewis Evan yn bresenol, a Thomas Williams, ac amryw eraill, heblaw Howell Harris a Madam Griffiths. Eithr yr oedd John Sparks yn absenol, a Richard Tibbot. Dywedir am yr olaf ei fod wedi suddo oddiwrth yr Arglwydd, eithr ei fod wedi ysgrifenu llythyr i'r Gymdeithasfa. Cafodd un Thomas Roberts, o Sir Fôn, ei arholi, a'i dderbyn fel pregethwr, a chafodd bregethu yn y Gymdeithasfa. Ymddengys fod llawer o'r tai anedd, yn mha rai yr arferai Harris bregethu, yn awr wedi eu cau iddo, ac yn enwedig i'w gynghorwyr; ac felly, y mae yn gorchymyn i'r pregethwyr lefaru yn yr awyr agored. Rhydd y rhesymau canlynol dros ei ymddygiad: (1) Dyma y com-









1.—Capel Cilycwm [*Adeiladwyd 1740.*]

2.—Capel Eglwysig Ystrad-ffin.

3.—Capel Llansawel. [*Adeiladwyd 1744.*]

4.—Penlan, ger Llansawel.
[*Cartref cyntefig Mrs. Williams, Pantycelyn*

# LLEOEDD O DDYDDORDEB YN SIR GAERFYRDDIN.

isiwn cyffredin, "Ewch, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." (2) Hyd nes y byddent yn cymeryd y prif-ffyrdd a'r caeau, na fyddent yn cymeryd mantais ar y rhyddid ardderchog oedd yn eu dwylaw trwy ganiatad caredig y llywodraeth. (3) Am fod llawer o bobl gnawdol a ddeuent i wrando i'r maes agored, neu i'r heol, ond na ddeuent i dŷ. (4) Am mai trwy bregethu allan y dechreuodd y gwaith, a'i fod yn ymddangos yn rhesymol iddo gael ei ddwyn yn mlaen yn yspryd ei gychwyniad. (5) Hyd oni fyddent wedi cymeryd y prif-ffyrdd a'r caeau, nas gallent deimlo yn hyderus eu bod wedi gwneyd yr oll o fewn eu gallu dros iachawdwriaeth y wlad. Y Gymdeithasfa hon yw y diweddaf y ceir ei hanes yn nghofnodau Harris.

Ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1752, cawn Gymdeithasfa Gyffredinol yn Lanllugan, Sir Drefaldwyn. Tua phump-ar-hugain oedd yn bresenol. Nid ydym yn meddwl fod Lewis Evan yn eu mysg, oblegyd yn fuan ar ol hyn yr ydym yn cael Harris yn gweinyddu cerydd llym arno fel un oedd wedi methu dyfod i fynu i'r goleuni, ac wedi dangos gelyniaeth at yr Arglwydd. Gwaith cyntaf y Gymdeithasfa oedd ymwrthod a'r enw "Methodistiaid," gan fod yr enw wedi cael ei halogi yn enbyd trwy au athrawiaeth, hunanoldeb, a gelyniaeth at y gwaed. O hyn allan yr oedd pobl Howell Harris i gael eu hadnabod wrth yr enw "Cynghorwyr," yr hwn enw nid oedd neb yn ei ddefnyddio, ac yr oedd eu prif gyfarfodydd i gael eu galw yn Gynghorau, ac nid yn Gymdeithasfaoedd. Tebygol fod y rhai a elent o gwmpas i rybuddio pechaduriaid yn dechreu cael eu hadnabod fel llefarwyr, neu bregethwyr, a bod cynghorwr, fel enw swyddol, yn myned allan o arferiad. Yr oedd Harris yn y "Cynghor" hwn yn enbyd o lym; dywedai wrth y brodyr, nad oeddynt yn tyfu, na feddent yspryd y diwygiad, nad oedd cariad Duw yn llosgi yn eu heneidiau, ac mai dyna y rheswm paham yr oedd mor lleied yn dyfod i'w gwrando. Dywedai, yn mhellach, nad oedd ar y diafol ddim o'u hofn, eithr yn hytrach fod arnynt hwy ofn y diafol. Achwyna, hefyd, fod pawb fel pe byddent yn ei erbyn ef a'r rhai a lynent wrtho, a bod rhai o'r brodyr mewn perygl o gael eu lladd yn Siroedd Môn a Dinbych. Un o benderfyniadau y Cynghor oedd peidio adeiladu rhagor o gapelau, a pheidio defnyddio capel o gwbl, ond pregethu yn yr awyr agored, mewn ffeiriau, a marchnadoedd, ac yn y pentrefydd. Ar y ffordd adref o Gynghor Llanllugan, y mae yn galw yn y Fedw, ac yma cawn y syniad am "deulu" yn Nhrefecca yn cymeryd ffurf. "Ymddiddenais," meddai, "â dwy chwaer, Sarah a Hannah Bowen, y rhai ydynt yn teimlo eu hunain dan rwymau i gyflwyno eu hunain i'r Arglwydd, ac i mi. Cymhellais hwynt i ddyfod i fyw i Drefecca, gan ei fod yn debygol fod yr Arglwydd yn myned i osod i lawr sail tŷ yno, ac efallai mai hwy fyddai y meini cyntaf. Yr wyf fi yn awr i fod yn fwy cartrefol, er ysgrifenu, &c." Merched Mr. Bowen, o'r Tyddyn, oedd y ddwy hyn, ac aethant i Drefecca, fel y cymhellai hwynt. Miss Sarah Bowen a ddaeth gwedi hyn yn wraig i Simon Lloyd, o'r Bala.

Cynhaliwyd y Cynghor nesaf yn Nhrefecca, Chwefror 11, 1752. Erbyn hyn, yr oedd amryw o'r prif gynghorwyr, a safasent o blaid Howell Harris yn ddewr ar y cyntaf, wedi ei adael. Yn mysg y cyfryw yr oedd John Sparks, John Harris, St. Kennox, a Thomas Williams, o'r Groeswen. Yr oedd yntau yn llym iawn wrth y pregethwyr oedd ar ol. Dywedai wrthynt nad oeddynt i gadw seiadau o gwbl; nad oedd neb o honynt wedi dyfod yn ddigon o dad i hyny, ond myned allan i bregethu yn unig. Ac y mae yn sicr fod y pregethwyr a lynent wrtho yn fwy anwybodus, yn fwy anniwylledig eu moes, ac yn llawnach o ryw fath o zêl benboeth, na'r rhai oeddynt wedi cefnu. Yn uniongyrchol wedi y Cynghor, aeth am daith faith trwy Siroedd Caerfyrddin, Penfro, rhan o Sir Aberteifi, a Sir Forganwg. Cafodd gynulleidfaoedd anferth yn mhob man, yn arbenig yn ngodreu Sir Aberteifi, ac yn Sir Benfro. Yn yr awyr agored y pregethai yn mhob lle; dywed fod y cynulleidfaoedd yn rhy fawr i unrhyw dŷ; ond y mae lle i gasglu fod llawer o'r tai, yn mha rai yr arferid ei dderbyn fel angel Duw, wedi cael eu cau iddo yn awr. Yn Cilgeran, sylwa fod ei gynulleidfa yn cael ei gwneyd i fynu yn gyfangwbl yn mron o ddynion digrefydd, y rhai na arferent fyned i wrando i un man; ond fod y proffeswyr yn absenol, ac mai felly yr oedd yn y nifer amlaf o'i gyfarfodydd. Yn Hwlffordd, pregethai ar yr ystryd, a dywed fod Howell Davies, John Sparks, a John Harris, St. Kennox, yn mysg ei wrandawyr. Pregethu yn enbyd o lym a wnelai; ac nid yw yn ymddangos iddo gael unrhyw gymdeithas a'i hen gyd-

lafurwyr. Rhaid fod mesur o brudd-der yn mynwes y naill blaid a'r llall. O Sir Gaerfyrddin, croesodd dros y mynyddoedd i Landdewi-brefi, a dywed i gynulleidfa o amryw filoedd ddyfod yn nghyd. Beth a'i cymhellai i fyned gymaint allan o'i ffordd er pregethu yno, y mae yn anhawdd dweyd, os nad oedd am daflu i lawr fath o hèr i Daniel Rowland, yr hwn a wasanaethai yn yr eglwys yno fel cuwrad. Eithr llawn rhagfarn y cafodd bobl Llanddewi-brefi; nid oedd neb fel pe am ymddyrchafu at y goleuni. Oddiyma, wedi ymweled â nifer o leoedd yn Siroedd Caerfyrddin a Maesyfed, dychwelodd i Drefecca. Dyma y daith ddiweddaf, o unrhyw bwys, am faith flynyddoedd i Howell Harris gydag achos yr efengyl yn Nghymru. Teimlai fod ei achos yn gwanhau dros y wlad. Yr oedd y safon a osodosai i fynu yn rhy uchel, ei ddysgyblaeth yn rhy lem, a'i ymddygiad yn rhy dra-awdurdodol, i'r cynghorwyr a'r seiadau allu glynu wrtho. Ac y mae yn amlwg fod plaid Rowland yn enill tir. Gyda hwy yr oedd cydymdeimlad yr enwadau eraill, yn Eglwyswyr, ac yn Ymneillduwyr. Cawn ddarfod i Whitefield, yr haf hwn drachefn, ddyfod i lawr i Gymru, a phregethu tros ddeugain o weithiau gyda phobl Rowland, a bu yn bresenol mewn un Gymdeithasfa. Er y teimlai Harris fod y llif yn myned yn ei erbyn, ni lwfrhaodd ei galon mewn un modd, ond y mae yn dechreu ar ffurf newydd o weithredu, sef casglu teulu i Drefecca, a dysgyblu pregethwyr ac eraill yno, fel y gallai y lle ddyfod yn ganolbwynt gweithrediadau crefyddol, a ymledent dros holl Gymru, a rhanau o Loegr.

# PENOD XVII.

——:o:——

## HOWELL HARRIS—GWEDI YR YMRANIAD.

*Howell Harris yn gosod i lawr sylfaen yr adeilad newydd yn Nhrefecca—Ei afiechyd difrifol—Anerchiad pwysig yn y "Cynghor"—Anfon milwyr i'r fyddin—Harris yn gadben yn y milisia—Ei lafur yn Yarmouth, a manau eraill—Gostegu y terfysgwyr yn Nghymdeithasfa Llanymddyfri—Blwyddyn ei Jiwbili—Anfon at Rowland, yn Llangeitho, i ofyn am undeb—Y ddau yn cyfarfod yn Nhrecastell—Harris yn teithio yn mysg y Methodistiaid—Cymdeithasfa eto yn Nhrefecca, gwedi tair-blynedd-ar-ddeg—Cymdeithasfa Woodstock—Amryw Gymdeithasfaoedd eraill—Coleg yr Iarlles Huntington yn Nhrefecca-Isaf—Ymweliadau y Methodistiaid a Threfecca—Terfyn oes Howell Harris.*

YMDDENGYS fod gwneyd Trefecca yn rhyw sefydliad crefyddol pwysig yn syniad oedd wedi cael lle yn meddwl Harris er ys blynyddoedd, er nad oedd ganddo weledigaeth eglur, mewn modd yn y byd, parthed ei natur, a'i ffurf. Yr oedd yn adeiladu yno er ys cryn amser, a hyny heb wybod yn iawn i ba bwrpas. Yn awr, gwedi yr ymraniad, dyma y meddylddrych yn cymeryd ffurf bendant. Dywed yn ei ddydd-lyfr fod Trefecca y lle mwyaf canolog a ellid gael; ei fod yn gorwedd yn y canol rhwng Caerfyrddin a Chaerloyw; a rhwng Bryste a Llanfair-Careinion; ac mai agos yr un faint o ffordd oedd oddiyno i Dregaron, Llanidloes, Casnewydd, Caerdydd, Llantrisant, Castellnedd, ac Abertawe. Ar y 13eg o Ebrill, 1752, gosododd i lawr sylfaen darn newydd o adeilad, eangach, a mwy golygus, na'r adeilad blaenorol. Nid oedd ganddo arian o gwbl at y gwaith, na dim i syrthio yn ol arno, wrth wynebu ar yr anturiaeth, ond addewidion y digelwyddog Dduw. Er holl lafur Howell Harris, a'i ymdrechion difesur, nid oedd wedi cael fel ffrwyth i'w lafur, mor bell ag y mae aur ac arian yn myned, ond prin digon i gynal ei hun a'i deulu. Cawn ef yn dweyd droiau, er nad mewn ffordd o achwyniad, ei fod ef yn llymach ei wisg na neb, a bod ei geffyl yn waelach. Yn bur fynych yr ydym yn ei gael mewn dyled, ac mewn pryder mawr am gael swm o arian i gyfarfod â rhyw ofyn oedd arno. Er hyn oll, y mae yn anturio ar waith a gostiai filoedd o bunoedd, heb geiniog y tu cefn. Tranoeth, wedi gosod i lawr y sylfaen, cychwynodd am Lundain, a dywed iddo adael ar ol yn Nhrefecca un-ar-bymtheg o weithwyr, tair o fenywod, a phedair yn rhagor i ddyfod yn fuan. Gorchymynodd hwy i'r Arglwydd wrth ymadael, gan ddweyd ei fod yn ei adael ef yn ben arnynt.

Yn haf 1752, cymerodd dau amgylchiad pwysig yn nglyn â Howell Harris le. Un oedd marwolaeth Madam Griffiths, yr hyn a ddigwyddodd yn Llundain, ar y dydd olaf o Fai. Galarodd ef yn fawr ar ei hol, meddyliodd fod ei hymadawiad yn golled anadferadwy i'r gwaith; ond y mae yn sicr ddarfod i'w marwolaeth brofi yn fendith iddo, gan ei bod, tra y bu mewn cysylltiad ag ef, yn un o'r elfenau a ddylanwadodd gryfaf i wenwyno ei yspryd. Y llall oedd iddo gael ei daro i lawr gan afiechyd difrifol, y tybiai ef a fyddai yn angeuol iddo. Ffrwyth gorlafur oedd hwn. Er cadarned cyfansoddiad Harris, ac er gwydnwch ei natur, nis gallasai cnawd ddal yr holl lafur, y lludded, a'r teithio yr aethai trwyddynt, heb dori i lawr. Yn arbenig, y ddwy flynedd ddiweddaf, gwedi yr ymraniad, nid oedd ganddo neb o gyffelyb feddwl iddo ei hun i fod yn gynorthwy iddo, ac felly, yr oedd yr holl faich yn dod i bwyso arno ef. Mordeithiau Whitefield, yn y rhai y caffai seibiant oddiwrth ei lafurwaith dibaid, a gadwodd y gŵr enwog hwnw cyhyd yn iach ac yn gryf. Erbyn Gorph. 28, 1752, yr oedd un adran o'r adeilad yn barod, ac yr oedd Cynghor wedi cael ei drefnu i gyfarfod y pryd hwnw yn Nhrefecca, er gwneyd math o agoriad ar y lle, yn gystal

ag er trefnu materion. Sal enbyd oedd Howell Harris; tybiai ef ei fod ar groesi yr Iorddonen; eto, mynai ymlusgo i'r Cynghor y naill ddiwrnod ar ol y llall, er anerch y pregethwyr cynulledig. Cyfranogai ei anerchiadau o ddifrifwch byd arall. "Yr wyf yn ffarwelio â chwi am dragywyddoldeb," meddai; "nid wyf yn dysgwyl gweled eich wynebau mwy. Yn ngwaed y Duwdod yn unig y mae fy hyder, ac eto yr wyf wedi eich galw, gan ddatgan fy serch angerddol at bawb sydd yn dyfod ato. Y chwi, sydd wedi myned yn ol, gadewch i mi yn fy marwolaeth wneyd yr hyn y methais ei gyflawni yn ystod fy mywyd, sef eich cyffroi i ddyfod yn mlaen, gyda phalmwydd yn eich dwylaw, fel y dysgleirioch am byth gerbron yr orsedd. Y mae gwaed Crist yn golchi oddiwrth bob pechod. Er fod Satan wedi eich dallu ac wedi eich caledu, dewch at y ffynhon hon, a chwi a orchfygwch, ac a gyfarfyddwch â Duw. O na allwn beri i'r holl greadigaeth fy nghlywed! Mi a'u hanfonwn oll at y ffynhon. Gadewch i mi eich cyfarch o ymyl tragywyddoldeb. Deuwch at y groes; chwi a welwch yno bob rhyfeddod, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân, y Tri yn Un, yn llewyrchu arnoch. Gadewch i mi ymadael mewn gobaith cryf y caf eich cyfarfod gerbron yr orsedd." Wrth draddodi yr anerchiad hwn bu agos iddo lewygu, a'i gario a gafodd yn ei ol i'w ystafell. Rhaid ei bod yn olygfa i'w chofio byth. Cofnodir fod rhai yn bresenol ar yr achlysur o bob sir yn Nghymru, oddigerth Aberteifi a Fflint.

Ond yn wrthwyneb i'w ddysgwyliadau, gwellhaodd yn raddol. Mor fuan ag y daeth yn abl, dechreuodd bregethu i'r gweithwyr, ac i'r rhai oedd wedi dyfod i Drefecca i fyw, dair gwaith yn y dydd. Canlyniad hyn ydoedd i ddynion ymgynull yno o bob parth o'r wlad; rhai teuluoedd cyfain; ond yn benaf dynion dibriod, yn feibion ac yn ferched, y rhai a dybient ei bod yn ddyledswydd arnynt i ymroddi i wasanaeth yr Arglwydd. Nid oedd ef wedi dysgwyl am ddim o'r fath. Lle i ryw haner dwsin o deuluoedd, a nifer o bregethwyr sengl, yn nghyd ag ychydig ferched i weini arnynt, oedd ef yn olygu wrth osod i lawr sylfaen yr adeilad. Eithr yr oedd bob amser yn ymddyrchafu goruwch ei anhawsderau, a chawn ef yn awr yn prysuro i helaethu ei dŷ, ac yn codi tai o gwmpas, nes ffurfio yno bentref. Daeth amaethwyr crefyddol, hefyd, i'r gymydogaeth, gan gymeryd y tiroedd o gwmpas ar ardreth, neu eu prynu, er mwyn bod yn ddigon agos i fwynhau y breintiau crefyddol oedd i'w cael yno. Cyn pen blwyddyn a haner, yr oedd "teulu" Trefecca yn rhifo dros gant, y rhai a ddaethent yno o bob sir yn Nghymru braidd. Cyn ymuno a'r "teulu," yr oedd yn rhaid i bawb gyflwyno yr oll a feddent i'r drysorfa gyffredin. Ac yr oedd rhai yn dra chyfoethog; ond diau fod y rhan fwyaf yn dlodion, ac felly, disgynodd y baich o gynal y teulu mawr hwn ar ysgwyddau Howell Harris yn gyfangwbl. Cymerodd yntau dir i'w amaethu, mynodd wlan i'r merched i'w nyddu a'i wau, a daeth Trefecca yn ganolbwynt amryw fathau o ddiwydrwydd. A gofalodd Duw am danynt, fel na welsant eisiau dim. "Bum yn fynych mewn pryder," meddai, "ac eisiau ugain neu gant punt o arian arnaf, heb wybod pa le i droi am danynt, a'r Arglwydd heb estyn ymwared hyd y pwynt diweddaf; ond bob amser daeth ymwared, a hyny fynychaf o gyfeiriad nad oeddwn yn ddysgwyl. Anfonid deg, ugain, ac weithiau gan' punt i mi, gan bersonau yn byw ugeiniau o filltiroedd o bellder, heb un rheswm, ond fod rhyw orfodaeth arnynt nas gwyddent ei natur. Digwyddodd hyn i mi lawer gwaith." Nid oedd dim i attynu y diog na'r mursenaidd i Drefecca. Yr oedd yr holl deulu tan ddysgyblaeth lem, ac yn gorfod byw ac ymarweddu yn mhob dim wrth reolau manwl. Caled oedd yr ymborth, a garw oedd y gwisgoedd, a gofynai dysgyblaeth y lle am hunanymwadiad mawr. Nid Howell Harris oedd y dyn i hulio bwrdd â danteithion, ac i roddi achles i segurdod a diofalwch; nid oedd erioed wedi ymroddi i'r cyfryw bethau ei hun, ac nid oedd am eu darpar i eraill. Ond yr oedd un peth yn y lle, mwy ei werth na phob peth daear yn ngolwg y bobl ddysyml oedd wedi ymgynull yno, gwerth aberthu cysuron naturiol er ei fwyn; yr oedd efengyl Crist yn cael ei phregethu yno yn ei phurdeb; yr oedd bara y bywyd yn cael ei ranu yn dafellau mawrion gyda chysondeb difwlch. Meddai Williams, yn ei farwnad:—

"Ti fuost ffyddlon yn dy deulu,
Llym yn dy adeilad mawr,
Ac a dynaist flys ac enw,
A gogoniant dyn i lawr.

Ac ti wnest dy blant yn ufudd
At eu galwad bob yr un,
Byw i'th reol, byw i'th gyfraith,
Byw i'th oleu di dy hun;

Fel na fedr neb yn Nghymru,
Trwy na chleddyf fyth na ffon,
Ddod â thy, o'r un rhifedi,
Tan y dymher hyfryd hon.

Y mae gweddi cyn y wawrddydd
Yn Nhrefecca ganddo fe,
'R amser bo trwm gwsg breuddwydlyd
Yn teyrnasu yn llawer lle;
A chyn llanw'r bol o fwydydd,
Fe geir yno gynghor prudd,
A chyn swper, gweddi a darllen—
Tri addoliad yn y dydd."

Parodd cyfodiad yr adeilad, a sefydliad y teulu, yn Nhrefecca, i liaws o chwedlau anwireddus gael eu taenu ar led yn Nghymru. Awgrymid mai amcan y Diwygiwr oedd ymgyfoethogi ar draul y bobl oludog a hudai i'r lle, a gwneyd arian trwy eu llafur a'u diwydrwydd. Nid oedd un sail i'r chwedlau hyn. Pa beth bynag oedd ffaeleddau Howell Harris, nid oedd gwanc am gyfoeth, nac anrhydedd daearol, yn un o honynt. Ar yr un pryd, nid oedd yn gwbl rydd o roddi achlysur i ddrwgdybiaeth. Pan fyddai pobl gyfoethog, yn arbenig os mai merched ieuainc a fyddent, yn bwrw yr oll a feddent i'r drysorfa gyffredin yn Nhrefecca, yr oedd yn naturiol i'r perthynasau a ddysgwylient elwa oddiwrth eu meddianau mewn rhyw ffordd neu gilydd, fyned yn chwerw eu teimlad, a hau eu drwgdybiau ar led. A chwedi i'r meddiant gael ei fwrw i mewn, nid heb anhawsder dirfawr y gellid ei gael allan drachefn, hyd yn nod pan fyddai yr amgylchiadau yn cyfreithloni hyny. Fel esiampl, gallwn gyfeirio at helynt Miss Sarah Bowen, un o'r ddwy chwaer o'r Tyddyn, yr hon oedd yn meddu cryn gyfoeth, ac fel pawb a ddeuent i Drefecca a'i rhoddasai oll i'r sefydlaid. Un diwrnod, daeth Mr. Simon Lloyd, o Plasyndref, Bala, i'r lle, mewn rhan, feallai, o gywreinrwydd, ac mewn rhan er cael budd ysprydol i'w enaid. Wedi iddo guro, pwy agorodd y drws iddo ond Miss Bowen. Rhedodd serch y boneddwr ar y ferch ieuanc ar unwaith; a chan iddo allu ei denu hithau i gyfranogi o'r unrhyw deimlad, gwnaeth y ddau drefniadau i briodi. Ond sut i gael meddianau y foneddiges yn ol oedd yr anhawsder. Bu yn gryn helynt yn nghylch y peth; daeth John Evans, y pregethwr adnabyddus o'r Bala, yn ei un swydd i Drefecca, i gyfryngu, ac wedi tipyn o ddadleuaeth, llwyddwyd i wneyd gweithred briodas foddhaol, yr hon sydd ar gael hyd y dydd hwn.

Tua'r flwyddyn 1756, yr oedd y deyrnas yn llawn cyffro o ben bwy gilydd iddi gan ofn y byddai i'r Ffrancod geisio croesi trosodd i ddarostwng Prydain. Yr oedd Howell Harris yn deyrngar hyd ddyfnder ei yspryd; credai fod crefydd, yn ogystal a gwleidlywiaeth, yn galw arno i bleidio y Brenhin Sior; ac nid oedd mewn un modd yn amddifad o yspryd rhyfelgar. Dan ddylanwad y cyffro, darfu i Gymdeithas Amaethyddol Brycheiniog gyflwyno anerchiad i'r brenhin, yn cynyg ymffurfio yn gatrawd o feirch-filwyr ysgeifn, a myned ar eu traul eu hunain i unrhyw ran o'r Deyrnas Gyfunol y gelwid am eu gwasanaeth. Pan glywodd Harris am y peth, anfonodd at y gymdeithas, y gwnai efe, os derbynid eu cais, godi deg o feirch-filwyr mewn llawn arfogaeth, ar ei draul ei hun, i fod yn ychwanegiad at y gatrawd. O herwydd rhyw resymau, ni dderbyniwyd cynygiad gwladgarwyr Brycheiniog, ond darfu i'r gymdeithas gydnabod ei rhwymedigaeth i Harris trwy ei ethol yn aelod anrhydeddus o honi. Yn fuan gwedi hyn rhoes fater y rhyfel gerbron y teulu yn Nhrefecca, ac mewn canlyniad, ymrestrodd pump o wŷr ieuainc crefyddol i'r fyddin. Buont mewn amryw frwydrau poethion; cymerasant ran yn enilliad Quebec oddiar y Ffrancod, pan laddwyd y Cadfridog Wolf. Tra y syrthiai eu cydfilwyr yn feirwon o'u cwmpas, yr oedd rhyw amddiffyn dros filwyr Harris, ac ni laddwyd cymaint ag un o'r pump. Bu pedwar o honynt feirw o farwolaeth naturiol mewn gwledydd tramor, a dychwelodd y pumed yn ei ol i Drefecca, ar ol cael ei gymeryd yn garcharor gan y Ffrancod, lle yr arhosodd hyd ddydd ei farwolaeth.

Tua gwanwyn y flwyddyn 1760, yr ydym yn cael Howell Harris, tan ddylanwad cymhellion ei frawd, Joseph, ac aelodau Cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog, yn ymuno a'r milisia, ac yn dwyn gydag ef o deulu Trefecca bedwar-arhugain o wŷr. Yn bur fuan, rhoddwyd iddo gomisiwn fel cadben. Ar un olwg, peth syn oedd canfod efengylwr, fel Harris, yn troi yn filwr; ond ystyriai efe fod Protestaniaeth yn y chwareu; credai, os yr enillai y Ffrancod y dydd, y deuai Pabyddiaeth yn oruchaf, ac y cai y Beiblau eu halltudio o'r wlad mewn canlyniad. Teimlai ei fod yn gwasanaethu ei Dduw lawn mor wirioneddol wrth afaelu yn y cledd, ag y gwnelai gynt wrth deithio o gwmpas i bregethu yr efengyl. Cyn

myned, gosododd y sefydliad yn Nhrefecca yn nwylaw ymddiriedolwyr hyd oni ddychwelai, a phenododd Evan Moses i fod yn llywodraethwr yn ystod ei absenoldeb. Brodor o Aberdar oedd Evan Moses, a dyn annysgedig, ond tra difrifol, ac yr oedd ei barchedigaeth i Howell Harris yn ddiderfyn. Y lle cyntaf yr anfonwyd y milisia iddo oedd Yarmouth, ac ar ei ffordd yno, pregethai Harris yn mhob man. Wedi cyrhaedd y dref, holodd ai nid oedd Methodistiaid yno? Hysbyswyd ef ddarfod i amryw wneyd ymgais i bregethu yno, ond iddynt gael eu rhwysto gan gynddaredd y werinos, ac mai yn brin y dihangasant a'u bywyd ganddynt. Yn ddiegwan o ffydd, anfonodd griwr y dref allan i roddi rhybudd y byddai pregethwr Methodistaidd yn llefaru yn y farchnadfa ar awr benodol. Yno yr ymgasglodd tyrfa anferth, gyda cherig, a darnau o briddfeini, a llaid, i'w hyrddio at y pregethwr, pan ddeuai, a thyngent y gosodent derfyn ar ei hoedl. Yr oedd Harris ar y pryd yn peri i'w ddynion fyned trwy ryw ymarferiadau milwraidd, ar lecyn oedd yn ymyl. Pan ddaeth awr y cyhoeddiad i fynu, aeth at y dyrfa, a gofynodd beth oedd y mater. Atebasant eu bod yn dysgwyl pregethwr Methodistaidd, a bod yn dda iddo na ddaeth. Dywedodd yntau yn ol fod yn drueni iddynt gael eu siomi, ac y gwnai ef ganu emyn gyda hwy, a myned i weddi, ac hefyd roddi gair o gyfarchiad. Aeth i ben bwrdd oedd wedi ei osod yn ymyl; ymgasglodd ei wŷr o'i gwmpas; canwyd nes adseinio y farchnadfa, a gweddïodd yntau yn ganlynol gyda nerth dirfawr. Yr oedd newydd-deb yr olygfa, y gwŷr arfog oedd o gwmpas i amddiffyn eu cadben, y rhai a ddywedent Amen yn uchel, yn nghyd â rhyw ddylanwad dwyfol oedd yn y lle, wedi trechu y dorf, fel y cafodd Harris bob llonyddwch i bregethu. A chafodd odfa nerthol iawn; disgynodd y fath ddylanwadau ar y werin fel yr argyhoeddwyd amryw ar y pryd. Bob prydnhawn, braidd yn ddieithriad, pregethai yn y farchnadfa i dorf anferth, yn ei wisgoedd milwraidd. Yn raddol, daeth pregethwyr eraill yno, ffurfiwyd seiat gref a lliosog, a daeth Yarmouth mor enwog am ei chrefyddolder ag oedd yn flaenorol am ei hannuwioldeb.

Y gauaf canlynol, cafodd y milisia eu gorchymyn i Aberhonddu, ac aeth Cadben Harris i bregethu i amryw leoedd, fel yr arferai gynt. Ymddengys, hefyd, fod teimladau llawer caredicach yn ffynu yn awr rhyngddo ef a Rowland a'i blaid; yr oedd y ddwy ochr wedi dyfod i deimlo ddarfod iddynt gamddeall eu gilydd, mai ymryson yn nghylch geiriau oedd y cweryl a fuasai rhyngddynt, i raddau mawr; a bod y naill a'r llall wedi cyfeiliorni oddiwrth frawdgarwch yr efengyl. Teimlai y Methodistiaid eisiau gwroldeb a medr trefniadol y Diwygiwr o Drefecca yn eu cyfarfodydd. Yn y flwyddyn 1759, yr oeddynt wedi myned mor bell ag anfon cenadwri ato i geisio ganddo ddychwelyd; a chariwyd y genadwri i Drefecca mewn llythyr gan Daniel Rowland yn bersonol. Ni welai efe ei ffordd yn rhydd ar y pryd i gydsynio, ond diau i'r cais effeithio yn ddirfawr ar ei yspryd. Tybir mai yr adeg hon, pan yr oedd y milisia yn Aberhonddu, y digwyddodd yr helynt yn nglyn â Chymdeithasfa Llanymddyfri. Y traddodiad yw iddo unwaith, wrth fyned tua thref Llanymddyfri, gyfarfod â Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a nifer o gynghorwyr, yn dianc oddiyno am eu bywyd, wedi methu cynal Cymdeithasfa oblegyd terfysg ac erledigaeth y werinos. Ceisiodd yntau ganddynt ddychwelyd gydag ef. Wedi cyrhaedd y dref, esgynodd i ben y gareg farch, a wasanaethai fel pwlpud, a chan edrych fel llew ar y terfysgwyr, gwaeddodd: "Gosteg, yn enw Brenhin y nefoedd!" Ni effeithiodd ei floedd ddim ar y dorf, rhegent a bygythient fel cynt. Ar hyny, diosgodd ei wisg uchaf, nes yr ymddangosai ei ddillad milwraidd, a bloeddiodd: "Gosteg, yn enw y Brenhin Sior!" Dychrynwyd y dorf gan y gwisgoedd swyddogol; aethant yn fud ac yn welw; teyrnasodd dystawrwydd hollol trwy y lle, a chymerodd yntau fantais ar y cyfleustra i ddanod iddynt fod arnynt fwy o ofn brenhin Lloegr nag oedd arnynt o ofn Duw. Wedi hyn, cafodd y Methodistiaid berffaith lonyddwch i gynal eu Cymdeithasfa.

Yn mis Rhagfyr, 1762, ymwasgarodd y milisia yn Aberhonddu, a rhoddodd Harris ei gomisiwn fel cadben i fynu. Yr oedd wedi enill iddo ei hun ganmoliaeth nid bychan trwy ei wladgarwch a'i ddewrder; teimlid parch diffuant ato gan fonedd Brycheiniog, a chawn yn awr yr efengylydd distadl, a fygythid gynt â dirwy ac â charchar, a'r hwn yr oedd uchel reithwyr y sir wedi dwyn achwyn yn ei erbyn gerbron un o farnwyr ei Fawrhydi, yn uchel yn ffafr y rhai a'i herlidient.

Yr oedd ei wŷr wedi ymddwyn yn y modd mwyaf canmoladwy. Ysgrifenai Syr Edward Williams, milwriad y gatrawd, ato fel y canlyn: "Cadben Harris—Nid oes genyf hamdden i wneyd tegwch ag ymddygiad eich gwŷr, ond gallaf eich sicrhau, ar fyr eiriau, fod eu buchedd yn adlewyrchu anrhydedd ar yr egwyddorion crefyddol y darfu i chwi gymeryd cymaint o drafferth i'w hyfforddi ynddynt."

Ar y 23ain o Ionawr, 1763, yr oedd Howell Harris yn dechreu ar ei haner canfed flwyddyn, yr hon a eilw yn flwyddyn ei Jiwbili. Erbyn hyn, yr oedd ei yspryd yn dyheu o'i fewn am undeb a'i hen gyfeillion; ac anfonasai Evan Moses, ei ben gwas, bedwar diwrnod cynt, gyda llythyr at Daniel Rowland, Llangeitho, yn gofyn am ail uno. Diau fod Rowland ac yntau wedi trin y pwnc yn flaenorol, pan alwodd y blaenaf arno gyda llythyr y brodyr, a'i fod yn gwybod fod y Diwygiwr o Langeitho yn coleddu y cyffelyb deimlad ag yntau, onide ni fuasai yn anfon ei was gyda'r fath genadwri. Yr oedd yn amser braf ar Gymru yr adeg hon. Ar ol blynyddoedd o falldod ac o sychder dirfawr, torasai diwygiad allan yn Llangeitho yn y flwyddyn 1762, gyda dyfodiad hymnau Williams, Pantycelyn, yr hwn a ymledodd dros yr holl wlad, nes yr oedd y pentrefydd a'r cymoedd yn adsain gan foliant; a diau i'r gwres nawsaidd doddi ysprydoedd y Diwygwyr, a'u dwyn i deimlo yn gynhes at eu gilydd. Ar y 30ain o Ionawr, cafodd lythyr oddiwrth Evan Moses, yn ceisio ganddo gyfarfod â Daniel Rowland, yn Nhrecastell-yn-Llywel y dydd Mercher canlynol. Ymddengys fod Rowland yn myned y pryd hwnw i Gyfarfod Misol a gynhelid yn Llansawel. "Pan y darllenais," meddai Harris, "teimlwn yn llawen tu hwnt fod yr Arglwydd yn agor drws o ddefnyddioldeb i mi. Yr oeddwn wedi clywed am y bywyd oedd yn eu mysg, ac am eu llwyddiant; a'm hunig ofn ydoedd rhag i mi, trwy fy hunanoldeb a'm pechod, ddwyn melldith arnynt. Darostyngwyd fi; yr oeddwn mor rhydd oddiwrth eiddigedd fel y bendithiwn Dduw am eu cyfodi, ac y dymunwn ar iddynt beidio cyfranogi o angau gyda mi, ond i mi gael cyfranogi o'u bywyd hwy. Gwnaed fi yn llawen yn y gobaith o gael myned i'w mysg eto.' Gwelir fod ei syniadau am Rowland a'i ganlynwyr wedi newid yn hollol, a bod yspryd newydd wedi ei feddianu. Cychwynodd i Drecastell i gyfarfod Rowland, ond yr oedd dirfawr bryder yn llanw ei fynwes, rhag iddo fod yn anffyddlawn i'w Dduw y naill ffordd neu y llall. Am y dull y cyfarfyddodd Rowland ac yntau, ni ddywed air; ond sicr yw fod yno wasgu dwylaw cynhes, os nad oedd yno gofleidio a thywallt dagrau. Gwasgodd Rowland arno am fyned gydag ef i'r Cyfarfod Misol i Lansawel, dywedai mai dyna ddymuniad y bobl gyffredin, yn gystal a'r eiddo yntau. Yr oedd Harris, yn y rhagolwg y gwnelid y fath gais ato, wedi penderfynu gwrthod; ond aeth cymhellion ei gyfaill yn drech nag ef, ac ar ol gwneyd y peth yn fater gweddi, cafodd fod yr Arglwydd yn foddlawn. Boreu dranoeth, cychwynodd y ddau yn nghyd, a chyrhaeddasant Lansawel o gwmpas chwech. Yno cyfarfyddasant â Williams, Pantycelyn, Peter Williams, a llu o gynghorwyr. "Yr oeddwn wedi clywed," meddai, "am yr yspryd canu oedd wedi disgyn yn ngwahanol ranau Sir Aberteifi, a Sir Gaerfyrddin, ac am y canoedd oedd yn ymgynull i wrando. Agorodd yr Arglwydd fy ngenau i lefaru, na ddylem dderbyn na gwrthod yr arwyddion allanol hyn, ond y dylem eu barnu wrth eu dylanwad ar y galon, a'r bywyd, ac yn arbenig wrth chwilio a oeddent yn cynyrchu tlodi yspryd." Cyfeiriodd yn ei anerchiad, hefyd, at lyfr Williams, Pantycelyn, sef, *Pantheologia, neu hanes holl grefyddau y byd*, a chanmolodd ef fel llyfr tra buddiol. Y noswaith hono, lletyai Williams ac yntau yn yr un tŷ, a buont i lawr hyd ddeuddeg o'r gloch. "Addefai Williams," medd Harris, "ei ofid o herwydd iddo fy ngwrthwynebu gynt, ac eglurodd y modd yr arweiniwyd ef yn ganlynol i bregethu ac i argraffu yr athrawiaeth a wrthwynebasai. Dywedai, yn mhellach, mai myfi oedd ei dad." Diau fod y gymdeithas yn felus odiaeth. Y nos hono, wedi myned i'w wely, cymerwyd Harris yn glaf gan boen enbyd yn ei goluddion; nid annhebyg mai cyffro ei deimladau, a'i orlawenydd o herwydd cael ei hun unwaith drachefn yn mysg ei frodyr, oedd achos y selni. Yr oedd yn dra eiddil dranoeth, ond aeth i fysg y cynghorwyr, a siaradodd wrthynt yn faith ac yn ddifrifol. Yn mysg pethau eraill, dywedodd wrthynt am iddynt wylio yr yspryd canu oedd yn ffynu, rhag iddo ddiflanu, neu ynte roddi achlysur i'r cnawd. Cynghorai hwy, yn mhellach,

i beidio ymgymysgu gormod a'u gwrandawyr, ond ar iddynt, wedi pregethu, ymneilldiio. Yna, gwnaed iddo bregethu yn y capel, yr addoldy y buasai ef yn benaf yn offerynol i'w godi, ac y casglasai trwy Gymru tuag ato. Ei destun oedd, Zechariah xii. 10: "A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem, yspryd gras a gweddïau." Nis gallwn gofnodi y bregeth, ond cafodd odfa wrth ei fodd. Y noswaith hono, dychwelodd i Lanymddyfri, ac y mae ei brofiad boreu dranoeth yn haeddu ei groniclo: "Dychwelais yma neithiwr, wedi cael y gwahoddiadau taeraf i fyned i Gastellnedd, Cilycwm, Sir Aberteifi, a Sir Gaerfyrddin, gan Rowland, William Williams, Thomas Davies, John Williams, ac eraill. Yr wyf yn cael fod y cynghorwyr wedi cael eu gosod ar fy nghalon fel fy mhlant. Yn sicr, dyma flwyddyn y Jiwbili! Y mae yr amser wedi dyfod; cysgodau rhagfarn ydynt yn cilio; yr hen gariad a'r symlrwydd ydynt yn dychwelyd, ac ymddengys fod y pethau a rwystrent gynt wedi cael eu symud. Y mae yr yspryd canu yma sydd wedi disgyn yn ymddangos yn hollol rydd oddiwrth yr ysgafnder, a'r hunan, a welid yn nglyn a'r diweddaf. Ac wrth weled cynifer o leoedd newydd wedi cael eu cychwyn ganddynt hwy, a dim un genyf fi, teimlwn ei fod yn anrhydedd cael myned i'w mysg, a chysur i mi yw gweled fod fy lle, a'm gwaith, a'm pobl gynt, yn cael eu cynyg i mi eto, gwedi ymraniad o dair-blynedd-ar-ddeg."

Ni phasiwyd unrhyw benderfyniad ffurfiol yn Llansawel gyda golwg ar ailuniad Howell Harris a'r Methodistiaid, ond cawsai ei wahodd yn y modd mwyaf caredig i ddyfod i'w mysg fel cynt, a theflid pob drws yn agored iddo. Ar y 18fed o Fawrth, 1763, cychwynodd am daith fer i ranau o Sir Gaerfyrddin, a Sir Aberteifi. Y lle cyntaf y pregethodd ynddo oedd Cilycwm, cartref crefyddol Williams, Pantycelyn. Ar y maes y cedwid yr odfa, oblegyd lliosogrwydd y dorf; y testun oedd: "Chwiliwch yr Ysgrythyrau;" pregethodd am ddwy awr a haner, gyda nerth a dylanwad arbenig; ac yr oedd yn ofnadwy o lym yn erbyn y rhai a ddirmygent neu a esgeulusent Air Duw. Wedi yr odfa, aeth drachefn i'r capel i gadw seiat; yr oedd rhai canoedd yno, ac anogodd hwynt oll i weddi. Ciniawodd gyda chuwrad yr eglwys, Williams, Pantycelyn, ac amryw o'i hen gyfeillion, nad oedd wedi eu gweled er adeg yr ymraniad, ac yna aeth i'w hen lety, Llwynyberllan, i gysgu. Ar y ffordd yno, cafodd lawer o wybodaeth gan ei arweinydd am y diwygiad oedd yn ymledu dros y wlad. Meddai: "Llefwn am i beth o'r tân hwn gydio yn fy yspryd inau; oblegyd deallwn fod llawer wedi cael eu deffro yn y rhanau hyn, trwy yr yspryd canu a bendithio yr Arglwydd sydd wedi tori allan, yr hwn a barha weithiau trwy gydol y nos." Dengys ei sylwadau, nad oes genym yn awr un syniad priodol am y dylanwad a fu gan emynau Williams, er ail enyn tân Duw yn Nghymru, pan yr oedd agos wedi cael ei ddiffodd trwy ymrafaelion ac ymraniadau. Yn nesaf, cawn ef yn nghapel Llansawel yn pregethu ar ol un Mr. Gray. Diau mai y Parch. Thomas Gray, olynydd yr hen Mr. Pugh yn Llwynpiod, Abermeurig, a Ffosyffin, ydoedd hwn, yr hwn, gwedi hyn, a lwyr ymunodd a'r Methodistiaid. Ac ymddengys iddo wneyd hyny yn bur fuan. Hysbysa cyfaill ni ei fod wedi chwilio yn fanwl gofnodau hen gymanfaoedd yr Annibynwyr, fel eu ceir yn yr *Evangelical Magazine*, a chyhoeddiadau eraill, ac nad oes ynddynt gymaint a chyfeiriad at Gray; tra y ceir ef yn pregethu yn barhaus yn Nghymdeithasfaoedd y Methodistiaid yn y Dê a'r Gogledd. Daethai cynulleidfa anferth yn nghyd; yr oedd capel Llansawel y pryd hwn wedi dyfod yn fath o ganolbwynt i'r Methodistiaid yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd odfa nerthol, ac yr oedd yn llym wrth y rhai oedd mewn rhyddid heb fod yn gyntaf mewn caethiwed. Wedi iddo orphen, nid ai y bobl i ffwrdd; eithr tyrent i'r capel, a bu raid iddo lefaru yno drachefn. Yr angenrheidrwydd am hunanymholiad oedd ei fater. Oddiyno aeth i Gaerfyrddin, ac am ddau o'r gloch pregethodd ar Castle Green i'r gynulleidfa fwyaf a gafodd erioed yn ei fywyd; cyfrifa ei bod yn ddeng mil. Llefarai yn Gymraeg ac yn Saesneg oddiar: "Ni a welsom ei ogoniant ef;" a dangosai mai y ffordd i gynyrchu moesoldeb uchel oedd trwy bregethu Iesu Grist. Nid ymfoddlonodd ychwaith ar athrawiaethu; taranodd yn ofnadwy yn erbyn rhegu, meddwdod, a phuteindra, a phechodau cyffelyb; a llefodd gyda nerth: "Gyda y rhai sydd yn ei adwaen ac yn ei garu ef bydded fy nghartref yn dragywydd!" Aeth y noson hono i Bant Howell; yr un oedd ei destun yma eto, eithr gwahaniaethai y bregeth i

gryn raddau. Yr oedd ei yspryd yn bresenol wrth ei fodd. "Yr wyf yn gweled," meddai, "yr anrhydedd dirfawr a osodir arnaf, fy mod yn cael fy ngalw gan fy Arglwydd anwyl i'w waith, a'i fod wedi rhoddi lle i mi eto yn ei dŷ." Ar ddydd Gwener Croglith, y mae yn nhref Aberteifi, a gwelai wrth deithio tuag yno fod pawb wedi myned o'i flaen ef mewn goleuni, ffydd, a chymundeb â Duw. Bu yn yr eglwys yn y boreu; yn y prydnhawn pregethodd ei hun, ac er mai y nos flaenorol y cawsai y bobl wybod am ei ddyfodiad, daeth torf anferth yn nghyd. Dyoddefiadau y Gwaredwr oedd ei fater. Yn yr hwyr yr oedd yn Twrgwyn, lle yr oedd capel erbyn hyn wedi cael ei adeiladu. Mat. xi. 28, oedd ei destun; cofnoda fod torf fawr wedi ymgynull, ac meddai: "Y fath ganu, a'r fath orfoleddu, ni chlywais erioed." Gwelsom ei fod ar y cychwyn yn ddrwgdybus o'r canu, ac yn erchi i'r crefyddwyr ei wylio; yn awr, modd bynag, y mae wedi cael ei lwyr orchfygu ganddo. "Arweiniwyd fi," meddai, "i gyfiawnhau y canu sydd yn awr yn y sir, lle y mae llawer yn canu clodydd Duw ac yn ei folianu trwy gydol y nos. Dangosais i'r cnawdol, y rhai ydynt yn tramgwyddo oblegyd fod y crefyddwyr yn canmol Duw yn ormodol, y dylent ystyried nad ydynt hwy (y cnawdol) yn canmol Duw o gwbl, ac felly y rhaid i'r crefyddol ei ganmol, nid yn unig drostynt eu hunain, eithr drostynt hwy yn ogystal. Wedi yr odfa, aeth i letya i dŷ Mr. Bowen, ynad heddwch, Gwaunifor, ac yr oedd yn ddeuddeg o'r gloch y nos arno yn cyrhaedd. Boreu dranoeth, am naw o'r gloch, pregethodd gerllaw y capel, yr hwn a adeiladasai Mr. Bowen ar ei draul ei hun, i dorf fawr. Yma ymadawodd â Mr. Gray, a Mr. Popkin, y rhai a fuasent yn gymdeithion iddo o Gilycwm hyd yn awr, a dychwelodd ar ei union i Drefecca. Gwelir mai brasgamu a wnaeth, a phaham y dewisodd yr ychydig leoedd a nodwyd i ymweled â hwynt, nis gwyddom.

Dydd Mawrth, gwedi y Pasg, aeth i Lanfair-muallt, lle na fuasai ynddo ond unwaith er ys deuddeg mlynedd. Pregethodd gyda nerth mawr. Cyfarfyddodd yno â John Richard, Llansamlet, a chynghorwr arall o'r enw Evan Roberts; aeth y ddau gydag ef i Drefecca, a boreu dranoeth yr oedd John Richard yn cychwyn am daith i'r Gogledd. Ychydig ddyddiau ar ol hyn, dywed ei fod yn darllen gweithiau Rowland, ac eiddo Williams, Pantycelyn; ac iddo gael ei ddarostwng yn enbyd wrth weled mor ddiddefnydd ydoedd o'i gymharu a'i frodyr. "Nid oedd genyf ddim i'w ddweyd trosof fy hun," meddai, "ond fy mod yn segur, diddefnydd, a llygredig." Yn sicr, yr oedd yn rhy galed arno ei hun; oblegyd gallai ddweyd lawn mor wirioneddol a'r apostol Paul: "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll." Ond tebygol mai meddwl am ei ymneillduad yr ydoedd. Ebrill 21, 1763, cychwyna am daith faith trwy Siroedd Aberteifi, Penfro, a Chaerfyrddin. Y lle cyntaf yr ymwelodd ag ef oedd Llangamarch, lle y pregethodd, heb gymeryd unrhyw destun, i dorf liosog. "Cyfarwyddais y dychweledigion ieuainc," meddai, "ac adeiledais y ffyddloniaid." Profa hyn fod nifer lliosog yn y cymydogaethau yma wedi ymuno â chrefydd yn ddiweddar. Cymerodd un o'r diwygiadau mwyaf nerthol a welodd Cymru erioed le y flwyddyn yma; ymledodd yn dân anorchfygol dros yr holl wlad, nes oedd y cymoedd mynyddig, yn ogystal a'r gwastadedd, fel pe yn llawn o foliant Duw. A ydoedd wedi tori allan mor gynar a hyn yn y flwyddyn, nis gwyddom; ond boed a fo, yr oedd "dychweledigion newydd" yn Llangamarch. Dranoeth, sef dydd Mawrth, croesodd y Mynydd Mawr, a daeth i Dregaron. Yma yr oedd Daniel Rowland yn ei gyfarfod, ac meddai: "Gwnaed fi yn ostyngedig wrth weled fod yr Arglwydd yn agor y drysau i mi, i fyned o gwmpas gyda fy hen gydlafurwyr, yr hon safle oeddwn wedi fforffetio trwy fy mhechod." Cafodd ryddid dirfawr ar weddi, ac wrth bregethu yr oedd yn ofnadwy o lym yn erbyn y rhai a farnent, ac a wrthwynebent Dduw a'i waith, a dangosai ysprydolrwydd y gyfraith, ac mor fewnol a manwl oedd ei gofynion. Cofnoda fod tri offeiriad heblaw Daniel Rowland yn gwrando. O Dregaron, aeth i Lwyniorwerth, nid yn nepell o Aberystwyth. Dilynai y bobl ef, gan ganu a molianu yr holl ffordd. Wrth weled a chlywed, teimlodd fod yr Arglwydd wedi dwyn yn mlaen ei waith hebddo ef, a'i fod wedi anrhydeddu Rowland a'r cynghorwyr yn fwy; eithr yr oedd yn mhell o fod yn eiddigus, ac yr oedd yn barod i ymroddi i'w cynorthwyo, gan obeithio y caffai fendith yn eu plith. Aeth i ymddiddan a'r bobl, a chafodd eu bod yn syml, yn barod i gymeryd eu dysgu, yn addfwyn, a hunan-

ymwadol. "Iesu Grist wedi dyfod i gadw pechaduriaid" oedd ei fater yma, ac efengylu yn felus a wnelai. Y noswaith hono yr oedd yn Lledrod; yr oedd yr holl wlad wedi ymgynull i'r odfa, a chafodd yntau nerth rhyfedd i bregethu oddiar y geiriau: "Canys efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." Dranoeth, yr oedd yn ddydd o ddiolchgarwch cyffredinol am yr heddwch gwladol a gawsid, ac aeth yntau i'r eglwys yn Lledrod i uno.

Yn nesaf, yr ydym yn ei gael yn Llangeitho, lle na fuasai ynddo er ys pedair-blynedd-ar-ddeg; deng mil o bobl o leiaf oedd ei gynulleidfa; a chwedi cael gafael ryfedd ar weddi, pregethodd gyda rhyddid mawr oddiar y geiriau: "Canys yr ydym ni y rhai a gredasom yn myned i mewn i'w orphwysfa ef." Dangosai mai ffydd sydd yn puro y galon, ac yn gorchfygu y byd, ac yr oedd yn dra llym wrth y rhai a geisient wneyd ffydd a phenboethni yr un. Cafodd fod tros ddau cant o ddynion, a thros ddeugain o blant cymharol ieuainc wedi ymuno a'r seiat yma. Wedi yr odfa, gwnaed iddo gadw seiat breifat, yn yr hon y llefarodd ar amryw faterion, ac ar y terfyn gweddïodd yn daer dros Mr. Rowland. "Gwelaf," meddai, "fod yr Arglwydd wedi ei ddyrchafu ef yn uwch na mi; ei fod wedi rhoddi iddo yr holl waith a'r anrhydedd hwn, ac hefyd yr holl seiadau, a'r holl gynghorwyr." Os oedd Harris, wrth ganfod y pethau hyn, yn gwbl rydd oddiwrth eiddigedd, fel y dywed ei fod, rhaid fod gras Duw wedi ei dywallt yn helaeth yn ei yspryd. Dydd Gwener, cawn ef yn Abermeurig; yna, gadawa ddyffryn prydferth Aeron, gan groesi y bryniau i Lanbedr, yn nyffryn Teifi. Ei destun yma oedd: "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad;" yr oedd amryw o'r dosparth uchaf yn gwrando, felly, pregethai yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyfeiria at ddwy foneddiges yn benodol, sef Miss H. Lloyd, a Miss Evans. Wedi galw yn Dolgwm, ffermdy pur fawr islaw Llanbedr-pont-Stephan, daeth, nos Wener, i Waunifor. Yr oedd Rowland yn cyd-deithio ag ef o hyd, ac ar y ffordd agorai ei fynwes wrth ei gyfaill am gael John Wesley, ac un o'r Morafiaid, i fyned o gwmpas Cymru gydag ef; ac am ffurfio undeb cyffredinol rhwng y gwahanol bleidiau yma, oddifewn i Eglwys Loegr. Beth a atebodd Rowland iddo, nis gwyddom. Yn Waunifor, pregethodd gydag awdurdod ar waed Crist yn glanhau oddiwrth bob pechod. Yn y seiat breifat a ddilynai, gwasgai ar y crefyddwyr yr angenrheidrwydd am alaru yn ogystal a molianu. Wedi pregethu yn Twrgwyn, ac yn Nghwmcynon, daeth i Lechryd, nos Sul, lle y cafodd y gynulleidfa fwyaf a gafodd erioed yn ei fywyd, a chyfrifa ei bod yn ddeuddeg mil. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb," oedd ei destun. "Pregethais ei glwyfau a'i waed," meddai; "mai dyma yr unig noddfa; gelwais a gwahoddais bawb ato, gan ddangos fod Duw ynddo, fel yn ei deml. Yr oeddwn yn llym wrth y rhai a wrthwynebent y gwaith hwn, ac a ddymunent ar iddo ddyfod i'r dim, gan ddangos eu bod o'r un yspryd â Chain." Cafodd ymddiddan yma ag un Mr. Enoch, arolygwr ysgolion Madam Bevan yn y tair sir, a gwelai ei fod yn ddyn syml a gostyngedig.

Ymddengys i Daniel Rowland ddychwelyd oddiyma, a darfod i Mr. Popkins gael ei osod i fod yn gydymaith i Harris yn ystod ei daith yn Sir Benfro. Dyn o yspryd balchaidd oedd Popkins; yn tueddu yn gryf at Antinomiaeth, a chofir i Daniel Rowland gael trafferth ddirfawr gydag ef ar ol hyn, ac yn y diwedd iddo orfod ei ddiarddel. Dechreuodd Popkins ddanod i Harris ei ymadawiad a'r Methodistiaid, a'i fod wedi gwastraffu llawer o'i amser yn ofer; a chanmolai Daniel Rowland i'r cymylau. Dyoddefodd y Diwygiwr yn amyneddgar am dipyn; eithr yn y diwedd trodd arno, a dywedodd na chai efe (Popkins) fod yn esgob arno ef. Wedi pasio drwy Lwynygrawys, daeth i Drefdraeth; "Fy nghnawd i sydd fwyd yn wir," oedd ei destun, ac arweiniwyd ef yn gyntaf i daranu yn enbyd, gan gyfeirio gyda difrifwch at angau a thragywyddoldeb. Ond cyn gorphen, efengylodd yn felus, a chyhoeddai fod yr Arglwydd Iesu yn ddigyfnewid. Yr oedd cynulleidfa fawr, yn rhifo amryw filoedd, yn Abergwaun; "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid,' oedd y testun; ac yr oedd yn dra llym wrth y rhai na theimlent eu pechadurusrwydd. Am y tro cyntaf yn ystod y daith, cafodd fod cryn ragfarn ato yn meddyliau y bobl. Nid oedd y diwygiad wedi cyrhaedd yma eto; nid oeddynt yn canu, fel y gwnaent yn Sir Aberteifi. Y noswaith hono yr oedd yn Nhyddewi, a dywed fod yno gynulleidfa o amryw filoedd. Wedi pasio trwy y rhan Saesnig o Sir Benfro, daeth i Hwlffordd, a phregethodd yn y capel; yr oedd yno gynulleidfa dda, ond nid cynifer ag a fuasai oni

bai fod rhyw gamddealltwriaeth wedi bod am y cyhoeddiad. Wrth bregethu, cyfeiriodd am y dymunoldeb o gael undeb rhwng y gwahanol bleidiau crefyddol, mai brodyr oeddynt, a'u bod i dreulio tragywyddoldeb yn nghwmni eu gilydd. Wrth ymddiddan â Mr. Howell Davies, yr hwn yntau oedd wedi dyfod i'w wrando, am y priodoldeb o gael John Wesley ac un o'r Morafiaid i fyned trwy y wlad gydag ef (Harris), deallodd fod meddwl Mr. Davies yn rhagfarnllyd yn erbyn. Dranoeth, aeth i Woodstock, lle yr oedd capel wedi ei adeiladu, a phregethodd gyda nerth oddiar y geiriau: "Trowch eich wynebau ataf fi, holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber." Yn nghwmni y cynghorwr John Harry, aeth i Mounton, ac yna i Lacharn, ac achwyna ei fod yn dra egwan o ran ei gorph. Yma yr oedd yn nghymydogaeth Llanddowror, ond yr oedd ei hen gyfaill, yr Hybarch. Griffith Jones, wedi noswylio er ys dwy flynedd. Eithr galwodd i weled Madam Bevan; ceisiodd siarad â hi am amryw bethau perthynol i grefydd, ond nid oedd yn barod i gofleidio ei syniad ef parthed cael undeb rhwng yr oll o bobl yr Arglwydd, ac yr oedd yn gryf yn erbyn pregethu lleygol. Gwrthododd giniawa gyda Madam Bevan, a brysiodd i Gaerfyrddin, lle y pregethodd am ddwy awr glir, gydag awdurdod, a bywyd, ac effeithioldeb, i dorf o amryw filoedd, oddiar y geiriau: "A thi a elwi ei enw ef Iesu." Yn hwyr yr un dydd, pregethodd yn Brechfa, Sir Gaerfyrddin, ar gyfiawnhad a sancteiddhad. Dranoeth, cawn ef yn Llansawel, lle y mae Williams, Pantycelyn, yn cyfarfod ag ef. Anghrediniaeth oedd mater Williams; darluniai ef fel y gwaethaf o'r holl bechodau, a dywedai pan y cawn ffydd i weled y byd hwn a'i deganau fel dim, yr awn i ddibrisio ei wŷr mawr, ac y gallwn lawenhau yn wastadol. "Yr oeddwn yn caru yr yspryd a'r llais," meddai Harris. Pregethodd yntau yn ganlynol; "Trwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni," oedd ei destun; yr oedd myn'd ar y bregeth hon yn wastad, a chafodd hwyl arni yn Llansawel. Wedi pregethu yn Llanymddyfri ar yr heol, i gynulleidfa yn rhifo dros dair mil, dychwelodd i Drefecca yn hapus ei yspryd. Cawsai ei sirioli yn ddirfawr gan gymdeithas cyfeillion na welsai wynebau llawer o honynt er ys tair-blynedd-ar-ddeg.

Yn ystod y daith flaenorol, gwahoddasai y Gymdeithasfa ganlynol i Drefecca, lle nad oedd cynulliad o'r fath wedi bod oddiar yr ymraniad, a chydsyniai y brodyr gyda phob parodrwydd. Yr oedd ei galon yn dychlamu ynddo wrth feddwl am gael y fraint o groesawu gweision Duw; dywed fod ugain o welyau at eu gwasanaeth ganddo ef yn Nhrefecca, heblaw cyflawnder o letyau yn y ffermdai o gwmpas. Fel hyn yr ysgrifena: "Trefecca, Mai 18. Y Gymdeithasfa unedig gyffredinol gyntaf. O! Jiwbili! Neithiwr, am saith, daeth Mr. Rowland yma, a'i fab, Mr. Edward Rowland, yn nghyd â William Richard, William Richard, yr ail, David William Rees, John Thomas, Thomas Gray, y gweinidog Ymneillduol, cuwrad o'r enw Lewis, yn nghyd â Popkins a William John, dau gynghorwr. Daeth wyth o fenywod a saith o ddynion yn ychwanegol. Wedi cael taer anogaeth, pregethais ar dlodi ein Hiachawdwr. Cefais nerth ac awdurdod anarferol. Derbyniais hwynt oll gydag yspryd gostyngedig, ac yn yr Arglwydd, a llefwn am i'r Arglwydd ddyfod i'n mysg i'n bendithio, yr hyn hefyd a wnaeth yn ehelaeth. Y boreu hwn yr oeddwn i fynu am chwech, boreufwyd am saith, ac am wyth eisteddasom yn nghyd. Erbyn hyn, yr oedd amryw yn ychwanegol wedi cyrhaedd, sef Mr. Peter Williams, John Williams, Jeffrey, Stephen Jones, a David Williams. Darllenwyd llythyrau oddiwrth Howell Davies, William Williams, John Richard, a John Harry, yn esbonio eu habsenoldeb. Eglurais iddynt y modd y danfonasent am danaf bedair blynedd yn ol, ac y daethwn i gyfarfod Llansawel; nas gallwn uno â hwy, oddigerth fy mod yn cael sicrwydd eu bod oll yn yr Eglwys Sefydledig; ac oni unant yn addoliad a chymundeb eglwys y plwyf, eu bod yn sect newydd; a phan y bydd Mr. Rowland farw, y rhaid iddynt gael gweinidogion Ymneillduol drostynt oll. Dywedais nad oeddwn yn wrthwynebol iddynt fyned i gapelau, a derbyn y cymundeb o law Mr. Rowland, tan ddysgyblaeth ac arholiad priodol. Cydunodd pawb i aros i mewn (yn yr Eglwys), os gallent berswadio y bobl i foddloni. Yna, dangosais yr angenrheidrwydd anorfod am ddysgyblaeth, a dechreu yn y Gymdeithasfa gyda y cynghorwyr, y rhai y dylid eu harholi yn fanwl; yna, yn y seiadau, a chael trefniant priodol gyda golwg ar deuluoedd; heb hyn, yr ai y cyfan i annhrefn. Cydunodd pawb, ac unasant i geisio fy nghymorth gyda hyn, am fod fy


lle yn wag er pan yr ymadewais. Wedi penderfynu cyfarfod yn mhen pythefnos eto, torwyd y cyfarfod i fynu."

Yn y difyniadau uchod gwelir athrylith arbenig Howell Harris yn amlwg; ei hoffder o drefn, ei ofal am ddysgyblaeth; ac hefyd ei ymlyniad cryf wrth Eglwys Loegr. Wedi y cyfarfod preifat, yr oedd yr odfa gyhoeddus yn yr awyr agored yn y pentref; daethai cynulleidfa anferth yn nghyd, nid yn unig o'r cymydogaethau cyfagos, ond hefyd o gyrau pellenig y sir, ac o Sir Forganwg. Diau fod son am Drefecca, a'r sefydliad hynod a gynwysai, wedi ymledu dros y wlad; a thueddai hyn, yn nghyd a'r swyn oedd yn nychweliad Harris at ei hen gyfeillion, i dynu pobl yn nghyd. Popkins a bregethai yn mlaenaf; ei destun oedd: "Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth;" dynoda Harris hi fel un dra Chalfinaidd; gellir darllen rhwng y llinellau y golygai hi yn tueddu at Antinomiaeth. "Ond," meddai, "pan y cododd Rowland ar ei ol, ac yr agorodd ei enau, teimlais yr Arglwydd yn llanw fy yspryd, a fy holl rasau yn cael eu cyffroi. Teimlwn mai fy mrawd ydoedd, fy mod yn ei garu, a llawenychwn wrth ei glywed y dydd hwn. Ei destun ydoedd; 'Cysurwch, cysurwch fy mhobl;' yr oedd yn dra argyhoeddiadol, gan ddangos nad oes eisiau cysur ar y rhai sydd yn hapus yn y cnawd. Yr oedd awelon melus yn chwythu dros y cyfarfod; daeth y mawr ragorol ogoniant i lawr; ysgydwid y cwbl; yn wir, y mae yr Arglwydd wedi ymweled â ni yn ei gariad." Pan yr oedd yspryd Howell Harris yn ei le, byddai gweinidogaeth Daniel Rowland yn wastad yn ei orchfygu, ac y mae yn amlwg ei fod yn awr wedi toddi yn swp tan ei dylanwad. Tranoeth, ysgrifena: "Y ddoe, cefais ryddid i ofyn i'r Arglwydd ddyfod i lawr a'n bendithio, gan fy mod yn gweled mai peth anarferol yw gwneyd i fynu rwyg yn nhŷ Dduw, a dwyn Israel a Judah yn nghyd drachefn. Llefwn y gwyddai mai er ei fwyn ef yr oeddwn wedi eu gwahodd yma, ac fel y gallwn inau gyfranogi o'u bywyd a'u bendith. Yr oeddwn yn ddedwydd wrth eu gwrando. Am dri, aethom i giniaw; ac yr oeddym yn hapus. Datgenais fy serch atynt; gwelwn mai Rowland yw eu tywysog, a'u bod yn plygu iddo, ac yr oeddwn yn llawen am hyny." Hawdd darllen serch angerddol at Daniel Rowland yn treiddio trwy bob brawddeg. Am bedwar, pregethodd Peter Williams, am yr afon bur o ddwfr y bywyd, a phren y bywyd yn tyfu o'r ddau tu. Cafodd ddylanwad mawr. "Yr oedd yma lawer," meddai Harris, "o Sir Aberteifi a lleoedd eraill, yn canu ac yn molianu; yn sicr, y mae Duw wedi ateb ein gweddi, ac wedi tynu ymaith ein gwaradwydd." Aeth pawb ymaith yn hapus, ac yn llawn o gariad. Yr unig beth anhyfryd yn y Gymdeithasfa oedd gwaith Popkins, yr hwn a feddai yspryd pigog a chwerw, yn ceisio rhoddi sèn i'r Diwygiwr o Drefecca.

Yn sicr, gyda yr eithriad o'r dydd y cafodd ollyngdod oddiwrth ei faich o bechod, adeg ei argyhoeddiad, y diwrnod hwn, pan y teimlai ei fod yn cael ei dderbyn yn ol i fynwes ei frodyr, oedd yr hapusaf a gafodd Howell Harris ar y ddaear. "O'r Arglwydd y mae hyn," meddai. Bellach, y mae galwadau yn gwlawio arno o bob cyfeiriad. Yr wythnos ganlynol i'r Gymdeithasfa, cawn ef yn cofnodi ei fod wedi derbyn gwahoddiadau o Blaen Crai, Trecastell-yn-Llywel, Merthyr, Tir Abbad, Hay, a lleoedd eraill. Wedi treulio rhyw gymaint o amser yn Mryste, aeth i Bath; a chawn ef ar y dydd cyntaf o Fehefin yn Nghaerdydd. Yn Llandaf, cyfarfyddodd â Mrs. Jones, Ffonmon, "dynes syml, ddiragfarn," yr hon a'i hysbysodd am erledigaeth yn tori allan, a bod y barnwyr ar y fainc yn datgan yn erbyn y diwygiad, a'i bod yn cael ei rhybuddio i godi trwydded ar ei thŷ. I hyn yr oedd Harris yn anfoddlawn; sawrai yn ormodol o Ymneillduaeth, a chynghorodd hi i ymddiddan a'r esgob. Aeth i'r Aberthyn, lle yr addawsai gyfarfod Rowland mewn Cymdeithasfa Fisol; eithr cyn iddo gyrhaedd, yr oedd y cyfarfod drosodd, a'r bobl wedi ymwasgaru. Eithr casglwyd cynulleidfa drachefn, a phregethodd yntau ar: "A hwy a edrychant arnaf fi, yr hwn a wanasant." Oddiyma, teithia i'r Pil, ac Abertawe, lle yr oedd tua phedair mil yn gwrando, a Llansamlet, a Phontneddfechan, o'r hwn le dychwela i Drefecca yn llesg o gorph. Yn mis Gorphenaf, yr ydym yn ei gael yn Llundain, er mwyn bod yn bresenol yn nghynhadledd y Wesleyaid. Yno ceisiwyd ganddo gan Mr. Charles Wesley i anerch y pregethwyr, yr hyn a wnaeth yntau. Dywedodd wrthynt fod yn dda ganddo weled y fath gariad a'r fath symlrwydd yn eu mysg, a bod y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen yn yr yspryd y cafodd ei ddechreu;

mai efe a gawsai yr anrhydedd o fod y lleygwr cyntaf a aeth o gwmpas i bregethu, a darfod iddo fyned at yr esgob bedair gwaith i geisio cael ei urddo, a chael ei wrthod bob tro. Terfynodd ei anerchiad trwy waeddi am undeb cyffredinol, yr hwn a gynwysai y Morafiaid, y Wesleyaid, a'r Methodistiaid. Cafodd bregethu, hefyd, yn nghapel Spittalfields, lle yr oedd cynulleidfa fawr. Yr oedd y syniad am undeb wedi llyncu bryd Harris y pryd hwn; dyna yn benaf a'i dygasai i Lundain; er ei gael, yr oedd yn barod i wneyd pob aberth, oddigerth aberth o wirionedd.

fel milwr, a Popkins ar ei ol, ar Dduwdod Crist. Wedi ciniaw, pregethodd Howell Harris. Y mae yn amlwg oddiwrth y dydd-lyfr fod Daniel Rowland yn gwneyd yn fawr o hono, ac yn ei anrhydeddu yn mhob modd. Yr oedd y cynghorwyr yn pwyso ar feddwl Harris, a chasglodd Rowland hwy yn nghyd er mwyn iddo eu cyfarch. Ei fater oedd, yr angenrheidrwydd am ddysgyblaeth, onide, nas gallent byth sefyll. Ymddengys mai yr hyn y cwynai yn benaf arno oedd fod y cynghorwyr yn cael myned o gwmpas gwlad fel yr ewyllysient, heb neb yn trefnu eu cyhoeddiadau, na neb yn eu llywodraethu,



EGLWYS LLANDDEWI-BREFI, SIR ABERTEIFI.
[*Fel yr ydoedd yn amser Daniel Rowland.*]

Ar y trydydd o Awst, cychwynai i Gymdeithasfa Llangeitho, gan basio trwy Abergwesyn, a Llanddewi-brefi. Teimlai fod Rowland wedi myned yn mhell yn mlaen arno; heblaw ei fod yn offeiriad urddedig, yr oedd y diwygiad presenol wedi cael ei gychwyn trwyddo, ac iddo ef y plygai yr holl gynghorwyr; "ond," meddai, "nid wyf yn eiddigeddu wrtho; yn gyflawn o ogoniant yr ydoedd pan y gwelais ef gyntaf yn y pwlpud yn Defynog." Pan gyrhaeddodd Langeitho yr oedd y Gymdeithasfa wedi dechreu, a Thomas Davies (Hwlffordd?) yn gweddïo; a phregethodd yr un gŵr yn ganlynol, ar y Cristion a'u bod yn gwneyd casgliadau yn y cynulleidfaoedd. Cydunai Williams, Pantycelyn, yn y cwyn; dywedai fod Rowland yn dysgleirio yn y pwlpud, ond nad oedd yn alluog i ddwyn y cynghorwyr i drefn; a chyn i'r diwygiad diweddar dori allan, fod pethau wedi myned i stâd isel yn y seiadau. "Cydunodd pawb i gael dysgyblaeth," meddai Harris. "Dywedodd Mr. Rowland eu bod oll yn gwybod iddo ef o'r dechreu wrthod bod yn ben, pan y cynygiwyd hyny iddo; ei fod wedi dweyd wrthynt bob amser fod fy lle i yn wag er pan yr ymadewais; a'i fod yn parhau yn yr un meddwl, ac yn fy ngalw i i'm lle, yn yr

hwn yr oeddwn o'r blaen." Golygai hyn osod Harris, fel cynt, yn arolygwr cyffredinol, gydag awdurdod helaeth dros y cynghorwyr. Rhaid fod Rowland o feddwl tra ardderchog pan y gwnelai y fath gynygiad, a rhaid fod ganddo syniad uchel am ddoethineb ei gyfaill fel trefnydd. Tueddai Howell Davies, modd bynag, i wrthwynebu, am fod Harris yn ceisio undeb rhyngddynt a'r Wesleyaid, a'r Morafiaid; dywedai nad oedd hyny yn bosibl, ac achwynai ar waith John Wesley yn dyfod i Sir Benfro. Modd bynag, daeth yn foddlawn. Yna, cynygiodd Harris fod y tri offeiriad yn unol yn gweithredu fel arolygwyr; gwrthododd pob un; ac yn unfrydol darfu iddynt alw arno ef i gymeryd y lle. Yr oedd arno yntau eisiau amser i ystyried pwnc mor bwysig, eithr addawodd wneyd a allai i gyfarfod y seiadau. Yr oedd Rowland, a Williams, Pantycelyn, yn gafaelu yn dyn yn Harris, a Howell Davies i raddau; ond yr oedd amryw o'r cynghorwyr, y penaf o ba rai oedd Popkins, yn tueddu i wrthwynebu yn ddystaw; a sibrydent wrth eu gilydd ddarfod iddo gael ei dderbyn yn ei ol fel y mab afradlon.

Y mae un frawddeg o bwysigrwydd hanesyddol yn y dydd-lyfr yn y fan hon, sef: "Y mae Mr. Rowland newydd gael ei fwrw allan o'r eglwysydd." Ceir rhai haneswyr Eglwysyddol am wadu i Rowland gael ei droi allan, am nad oes gofnod am y peth ar lyfrau yr esgobaeth, heb gofio na raid wrth gofnod na phenderfyniad ffurfiol gyda golwg ar guwrad; eithr pe byddai eisiau prawf ychwanegol am beth ag y mae genym dystiolaeth llygad-dystion arno, ceir ef yn y crybwylliad hwn o eiddo Harris, yr hwn sydd yn cael ei ysgrifenu yn Llangeitho, ac yn ol pob tebyg yn nhŷ Daniel Rowland ei hun. O Langeitho aeth Harris, yn nghwmni Howell Davies, i Abermeurig, lle y pregethodd ar barhad mewn gras. Yna, croesodd trwy Lanymddyfri i Drefecca. Treuliodd ddarn mawr o fis Awst yn Bath ac yn Mryste. Ar yr ugeinfed o Fedi, cychwyna i Lanymddyfri, i ymgynghori â Rowland, a Williams, Pantycelyn, yn nghyd â William Richards, ar amryw bethau o bwys i'r Cyfundeb. Cyfeiria yma yn fwy manwl at dröad Rowland allan. Fel hyn y dywed: "Y mae Mr. Rowland wedi cael ei droi allan, ac nid yw yn cael ei dderbyn yn ei eglwysydd. Teimlwn ei bod yn galed arno, ei fod ef y cyntaf i gael ei droi ymaith, oddigerth Mr. Harris, Exon; ac efallai fod hyn yn ddechreu erledigaeth gyffredinol. Crefais arnynt am berswadio y bobl, yn (1) I beidio troi at Ddeddf Goddefiad, mai braich o gnawd ydyw hono, ac y gallai gael ei symud. (2) Ar iddynt beidio meddwl am adael yr Eglwys ar gyfrif hyn, rhag i hyny fod yn ddialedd, neu ymddangos felly, ac yn llid at yr esgob oblegyd ei lymder. (3) Ar iddynt beidio siarad yn chwerw am waith yr esgob, rhag i hyny fod yn hedyn drwg, a pheri i ni godi yn erbyn y llywodraeth." Nis geill dim fod yn fwy clir gyda golwg ar gysylltiad Esgob Tyddewi a thröad Daniel Rowland allan na hyn; ac y mae yn gryfach am ei fod yn dyfod oddiwrth Howell Harris, yr hwn yn awr a lynai wrth Eglwys Loegr trwy y tew a'r tenau. Am y cynghorion a roddai, yr oedd yn rhaid wrth lawer o ras i'w cario allan, ac y mae peth amheuaeth am ddoethineb y ddau gyntaf, o leiaf; dylasai ofyn, ai nid oedd hyn yn awgrym oddiwrth ragluniaeth, yn eu cyfarwyddo i ymffurfio yn blaid ar wahan iddi? Dyma yr awgrym y dysgwyliai ef am dano ugain mlynedd cyn hyn. Yr unig beth a benderfynwyd rhwng y cyfeillion yn Llanymddyfri oedd gohirio dysgyblaeth y cynghorwyr hyd y Gymdeithasfa ddyfodol yn yr un lle.

Treuliodd Howell Harris yr oll o fisoedd Medi a Hydref ar daith yn Lloegr. Ymwelodd â Swyddi Caerloyw, York, Bedford, Lincoln, a Rutland, a threuliodd ryw gymaint o amser yn Llundain. Pregethai yn mysg y Morafiaid, y Wesleyaid, yn nghyd a'r rhai perthynol i Eglwys Loegr a'i derbyniai. Ei brif genadaeth, heblaw cyhoeddi yr efengyl, oedd ceisio uno yr holl seiadau y gellid edrych arnynt fel cynyrch y diwygiad, yn un sefydliad cryf, a'r oll yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig. Y dydd olaf o Dachwedd, y mae yn cychwyn o Drefecca, wedi aros yno yn brin wythnos, i Gymdeithasfa Llanymddyfri. Nid oedd Daniel Rowland yn bresenol; eithr yr oedd Williams, Pantycelyn, wedi dyfod, a William Richards, John Thomas, William Harry, a Peter Williams. Daeth yma i benderfyniad i ail-gymeryd a bod yn arolygwr cyffredinol dros yr holl seiadau, fel y cawsai ei anog yn Nghymdeithasfa Llangeitho; gwelai ei fod nid yn unig yn cael ei garu, ond hefyd ei anrhydeddu. Ymddengys fod William Richard ac yntau yn arbenig yn ymglymu am eu gilydd; ac aethant yn nghyd i Drefecca. Ond yr oedd Popkins ar ei eithaf yn ceisio cyn-

yrchu rhwyg. Dau beth o bwys a grybwyllir ganddo oddiyma i ddiwedd y flwyddyn, sef iddo bwrcasu fferm Trefecca Isaf, gan ei frawd Thomas; ac hefyd iddo, ar anogaeth Evan Roberts, un o'i brif ddynion yn Nhrefecca, brynu *chaise*. Daeth Evan Roberts a'r *chaise* ganddo i lawr o Lundain. Ond braidd nad oedd Harris yn rhy yswil i ddefnyddio y cerbyd wedi ei gael. "O rhyfedd," meddai, "cerbyd yn dyfod i'r lle hwn! Dy waith di, Arglwydd, ydyw hyn."

Gyda dechreu y flwyddyn 1764, rhaid i ni ymfoddloni ar ychydig ddifyniadau o'r dydd-lyfr draw ac yma, y rhai a daflant fwyaf o oleuni ar yr hanes.

Ionawr 3. Price Davies, ficer Talgarth, yn caniatau cymundeb bob mis yn yr eglwys; y newydd yn cael ei gludo i Harris gan John Morgan, y cuwrad, a'i enaid yntau yn llawenychu ynddo o'r herwydd.

Ionawr 22. Harris yn cychwyn i Sir Aberteifi i sefydlu y seiadau, ac am y tro cyntaf yn myned yn ei *chaise*. Pregethu i dorf o amryw filoedd yn Nghilycwm; yr oedd yn foddlon cadw seiat breifat, ond ni ofynwyd hyn ganddo. Ymweled â Chayo, Llanbedr-pont-Stephan, Abermeurig, a chyrhaedd Llangeitho ar y 25ain. Pregethu yno ar y maes i amryw filoedd; yna, cyfarch canoedd yn y capel mewn seiat breifat. Clywed gan Rowland beth oedd ateb Esgob Tyddewi pan yr appeliwyd ato parthed ei wrthwynebiad i'r diwygiad, sef fod y bobl wedi gadael yr Eglwys, ac yn gwarthruddo y clerigwyr; mai dyna y rheswm am droi y cuwradiaid allan, ac na ordeinid neb eto yn dal cysylltiad a'r Methodistiaid. Ymweled â Lledrod; pregethu i dorf anferth, a gosod pob un yn ei le yn y seiat breifat. Ymweled a'r Morfa, Gwndwn, Gwaunifor, Dolgwm, Talyllychau, a Llanymddyfri. Ar y daith hon, Harris yn cynal seiadau preifat am y tro cyntaf gwedi yr ymraniad, yspaid o bedair-blynedd-ar-ddeg; ac yn cael ei argyhoeddi fwy fwy mai Rowland oedd tad y cynghorwyr, a'r prif ddyn mewn cysylltiad â gwaith y diwygiad yn Nghymru.

Cwefror 19. Teulu Trefecca yn eistedd am y tro cyntaf ar yr oriel yn eglwys Talgarth, ac yn canu yn fendigedig, nes yr oedd yr holl eglwys yn llawn o ogoniant. Chwefror 27. Harris yn myned am daith i Blaen Crai, Blaenglyntawe, Castellnedd, Abertawe, a gwlad Gower; dychwelyd trwy Gelly-dorch-leithe, a chyrhaedd Trefecca, Mawrth 4.

Ebrill 1. Harris yn myned eto i daith; yn pregethu ar yr heol tua phum' milltir o Lanymddyfri i dorf liosog; cyrhaedd Cross Inn yn hwyr. Pregethu dranoeth yn Nghaerfyrddin, ar Castle Green, i dorf fawr, a chael awdurdod anarferol; wedi ei gymhell, yn pregethu yn y capel drachefn; ac yr oedd Williams, Pantycelyn, Thomas Davies, William John, Evan Richard, a phregethwyr eraill yn gwrando. Y dydd nesaf yn myned i'r Capel Newydd, yn Sir Benfro; yna i Trefdraeth; Abergwaun, lle yr oedd yn curo yn drwm ar y pechod o angrhediniaeth; ac Woodstock, lle y dysgwyliai glywed Howell Davies, a chyfranogi o'r sacrament, gan mai y Sabbath ydoedd, ond y cyfarfod drosodd cyn iddo gyrhaedd. Trwy wlaw dirfawr y daethai yma. Ymweled â Chastellyblaidd, Solfach, a Hwlffordd. Yn y lle diweddaf, cyfarfod â Mr. Nyberg, gweinidog yr eglwys Forafaidd, a theithio yn nghyd i dref Penfro. Yn Mhenfro, Harris yn pregethu yn y capel i dorf fawr, ar, "Gwir yw y gair," Mr. Nyberg yn y pwlpud gydag ef. Dychwelyd trwy Lacharn, Llandilo Fawr, a Llangadog; yn y lle diweddaf, pregethu ar y maes i dorf o amryw filoedd; Rhaiadr, y Tyddyn, a Llanfair-muallt. Cofnoda i'r daith barhau am ddau-ddiwrnod-ar-bymtheg; iddo bregethu ddeunaw gwaith; teithio dros dri chant o filltiroëdd ar hyd ffordd ddrwg, a phe y rhoddid ei holl gynulleidfaoedd yn nghyd, y byddai eu rhif dros haner can' mil.

Mai 9. Harris yn cychwyn i Gymdeithasfa Woodstock, gan basio trwy Drecastell, Caerfyrddin, St. Clears, a Hwlffordd, a phregethu yn mhob un o'r lleoedd hyn, ac yn cyrhaedd Woodstock ar y 15fed. Yn y Gymdeithasfa, y mae Harris yn gwasgu ar Daniel Rowland y dylai ymgymeryd a bod yn ben; yntau yn gwrthod drachefn a thrachefn. Williams, Pantycelyn, yn dweyd fod gan Harris y ddawn oedd eisiau arnynt; mai prif ddawn Rowland, Howell Davies, ac yntau, oedd appelio at y teimladau, a bod Duw gyda hwy felly; ond er pan ymadawsai Harris, nad oedd neb wedi gallu llanw ei le, ei fod yn pregethu yn rhagorol, gan osod Crist uwchlaw pob peth, a'i fod yn gosod pwys ar ddwyn ffrwyth; ond mai dyn ydoedd, ei fod yn boethlyd o dymher, y credai y cynghorwyr ei fod yn amcanu at fod yn ben, ac mai da fyddai pe y llefarai lai am fyned i'r Eglwys. Atebai Harris ei fod am

i'r gwaith fyned rhagddo yn yr yspryd y cawsai ei ddechreu, ei fod yn gobeithio y peidiai y gwrthwynebiad (ar ran yr esgob) yn fuan, ac y ceid esgobion efengylaidd. Achwynai fod y bobl yn gadael cymundeb yr Eglwys, ac yn cael cymundeb yn eu tai; a thrwy hyn, fod pellder yn cael ei greu. Gwedi hyn, Popkins yn darllen papyr, ac yn condemnio llun Crist oedd i'w ganfod yn rhai o'r eglwysydd; Harris yn teimlo yn enbyd, ac yn bygwth ymaflyd yn ei het, a myned allan; eithr Rowland a Williams yn llwyddo i'w dawelu. Condemniodd Howell Davies, a Williams, Pantycelyn, Popkins yn enbyd. Dywedai y diweddaf am dano ei fod mor gyfnewidiol a'r gwynt; amser yn ol, mai Eliseus Cole oedd ei hoff awdwr; gwedi hyny, Erskine, ac ar ol hyny, Hervey; ond yn awr, mai Robert Sandeman oedd ei bob peth. Y Gymdeithasfa yn hapus drwyddi o hyny allan. Ar y maes, y mae Rowland yn pregethu ar Mair yn golchi traed ein Harglwydd, a Harris ar ei ol gyda dirfawr awdurdod. Harris yn dychwelyd yn hapus ei yspryd trwy Hwlffordd, St. Clears, Cross Inn, Llansawel, Llanfihangelfach, a Llangadog. Ni chafodd erioed liosocach cynulleidfaoedd, na mwy o awdurdod wrth draddodi.

Gorphenaf 20. Harris yn myned i Aberhonddu i gyrchu yr Iarlles Huntington i Drefecca. Yno, clywed Daniel Rowland yn pregethu ar yr heol, am bob rhodd ddaionus a pherffaith yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd: a Pheter Williams, ar ei ol, yn Saesneg; yr Arglwydd yn amlwg gyda y ddau. Yr Iarlles yn aros amryw ddyddiau yn Nhrefecca, yn mawr hoffi y lle a'r ddysgyblaeth, ac yn hysbysu Harris fod arni awydd sefydlu coleg i'r pregethwyr yno, fel yr elent allan yn yspryd Trefecca i gyhoeddi Crist; y gallent bregethu yn mysg y Methodistiaid a'r Ymneillduwyr, a byw yn nhŷ Harris, a bod dan ei ofal. Wrth hebrwng yr Iarlles i Fryste, yn cael ei holi ganddi am Trefecca Isaf, fel y gellid adeiladu y coleg, yr hwn a alwai yn ysgol y prophwydi, yno, gyda Mr. Jordan, oedd ar y pryd yn cadw ysgol ramadegol yn y Fenni, yn brif athraw. Y syniad am gael ysgol y prophwydi i Drefecca yn mawr gymeradwyo ei hun i feddwl Harris.

Aros yn Bath, a Bryste, yn nghyd a'r amgylchoedd, hyd Awst 14. Ar yr 21ain, cychwyn i Gymdeithasfa Llangeitho. Yno, cael rhyw gymaint o deimlad gan y cynghorwyr, ac oblegyd y gwelai duedd i ymadael ag Eglwys Loegr. Williams, Pantycelyn, yn pregethu ar Grist fel cyflawniad o'r holl gysgodau; ar ei ol, Peter Williams yn pregethu; awelon cryfion yn chwythu ar y dorf, llawer yn canu ac yn gorfoleddu, yn arbenig pan y cyfeiriai at yr aberth ar y groes. Wedi ciniaw, Harris yn cyfarch y seiadau preifat, gan ddangos y fath fraint iddynt oedd eu bod allan o uffern, ac yn ngwlad efengyl, a darfod i Dduw mewn un gradd gyffwrdd a'u calonau. Pwysleisiai hefyd ar yr angenrheidrwydd iddynt ddyfod dan ddysgyblaeth. Cael llawer o ryddid wrth eu cyfarch. Popkins yn poenu rhyw gymaint ar Harris eto, trwy ddweyd nas gallai gydweddio â neb a wnelai bictiwr o Grist; eithr Harris yn gallu gweddïo drosto. Penderfynu cyfarfod yn Nghaerfyrddin yn mis Medi i arholi y cynghorwyr, a chynal y Gymdeithasfa nesaf yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn. Harris yn dychwelyd trwy Abermeurig, Llanbedr, Llanymddyfri, ac Aberhonddu.

Medi 12, 1764. Harris yn cyfarfod â Williams, Pantycelyn, Daniel Rowland, Howell Davies, a John Sparks, yn nhref Caerfyrddin, i'r pwrpas o arholi y cynghorwyr, a gweled i ba le yr oedd pob un yn gymhwys. Dweyd wrthynt am fwriad yr Iarlles Huntington i gael coleg yn Nhrefecca; ac anog John Sparks i ymryddhau oddiwrth ei fasnach, fel y gallai lwyr ymroddi i'r efengyl. Harris mewn cyfyng gynghor dirfawr parthed a oedd Duw yn ei alw i fyned i blith y bobl, a bod yn dad i'r cynghorwyr; gweled ei anghymwysder oblegyd ei bechodau mewnol ac allanol; o'r diwedd, yr Iachawdwr yn rhoddi boddlonrwydd iddo. Gweled ei fod yn gwahaniaethu i raddau oddiwrth ei frodyr mewn ymlyniad wrth yr Eglwys, a chyda golwg ar gymuno ynddi; nid oedd ef am ffurfio nac eglwys na sect, eithr diwygio Eglwys Loegr. Gwelai hwy, hefyd, yn fwy poblogaidd nag ef, ac yn fwy llwyddianus; a medrai eu hanrhydeddu fel y cyfryw. Arholi y cynghorwyr am ddiwrnod cyfan; Harris yn tori allan i lefain: "O fy mhlant, fel yr wyf yn eich teimlo wedi eich gosod ar fy nghalon! Mor gyfoethog ydwyf, ac mor ddedwydd wrth eich cael yn eiddo i mi eto!" Ychwanega: "Pwy bynag oedd yn y bai yn yr ymraniad, y mae hyny drosodd. O, y fath ymysgaroedd o dosturi a deimlaf atynt. Teimlwn fy mod yn









1.—Capel Llanfynydd.

2.—Pentref Abergorlech.

3.—Cartref Mrs. Griffiths, Glanyrafonddu-ganol.

4.—Cartref Mrs. Lloyd, Pant-yr-esgair.

LLEOEDD O DDYDDORDEB YN SIR GAERFYRDDIN.

eiddo iddynt i'w gwasanaethu. Y mae ein Hiachawdwr wedi dwyn pethau o gwmpas tu hwnt i ddysgwyliadau neb. Cefais eu bod oll yn un â mi yn y goleuni." Harris yn teimlo fod hwn yn ddiwrnod mawr; dweyd wrth y cynghorwyr ei fod yn eu mysg er ys blwyddyn a haner, ond mai yn awr yr oedd yn dechreu gwneyd gwaith. Yn pregethu ar Castle Green i gynulleidfa liosog, a chael dirfawr ryddid; dychwelyd trwy Cross Inn, a Llanymddyfri, a phregethu i gynulleidfaoedd mawrion yn y ddau le.

Hydref 19. Harris yn cychwyn am Lundain. Yn dychwelyd i Drefecca, Tachwedd 16. Ail tranoeth, y mae yn cychwyn am y Gymdeithasfa yn Nghastellnewydd-yn-Emlyn. Cyfarfod yma â Daniel Rowland, Enoch, Benjamin Thomas, William John, Popkins, a Howell Davies. Cael ar ddeall fod rhyw gymaint o ragfarn yn meddyliau y brodyr at y sefydliad yn Nhrefecca; teimlo, hefyd, o herwydd fod Daniel Rowland wedi cael ei gyhoeddi i bregethu ar yr adeg yr oedd Harris i arholi y cynghorwyr; clywed sî fod y cynghorwyr yn edrych arno fel yn tueddu i dra-awdurdodi arnynt. Daniel Rowland, gwedi pregethu, yn brysio at Harris, ac yntau yn cwyno nad oedd arnynt eisiau ei ddawn ef (Harris), a bod yn rhaid iddynt ei gymeryd fel yr ydoedd. Yn mhen ychydig, Thomas Davies, Hwlffordd, a John Harry yn dyfod yno, mewn yspryd hyfryd, ac yn gwahodd Harris i Sir Benfro. Myned i fysg y cynghorwyr, tua chant o honynt yn nghyd, a dweyd wrthynt am eu rhagfarn at Drefecca. Hwythau yn cynyg fod y mater yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth H. Edwards, a John Evans, y Bala. Yntau yn gwrthod. Clywed ei hun yn cael ei alw yr "Yswain Harris," a phryd arall, "Cadben Harris;" teimlo yn anfoddlawn i'r enw cyntaf, ond boddloni i gael ei gyhoeddi fel cadben, os byddai hyny o fantais i'r efengyl. Siarad yn breifat â John Evans, a Humphrey Edwards, o'r Bala, ac addaw myned i'w cynorthwyo. Pregethu am un-ar-ddeg i gynulleidfa fawr, gyda llawer o ryddid a nerth. Rowland yn dweyd wrtho ar derfyn yr odfa ei fod yn meddu yr un llais, a'r un ergyd, ag a feddai ddeng-mlynedd-ar-hugain yn flaenorol; yntau yn ateb na ddymunai gael dim amgenach gan Rowland na'r hyn a glywodd ganddo y tro cyntaf, pan y cyfarfyddasant yn eglwys Defynog. Harris yn myned am daith i Sir Benfro, gan ymweled ag Eglwyswrw, Dinas, Woodstock, Castellyblaidd, Tyddewi, Tygwyn, Narberth, Hwlffordd, Lacharn, a Chaerfyrddin. A chwedi pregethu yn Llangadog, a Threcastell, cyrhaeddodd Drefecca y dydd cyntaf o Rhagfyr.

Rhagfyr 11, 1764. Harris yn cychwyn am daith i Sir Drefaldwyn. Pregethu yn mlaenaf yn Llanfair-muallt gyda dylanwad mawr. Pregethu yn y Rhaiadr yn y farchnadfa, i dorf liosog, ar Dduw wedi ymddangos yn y cnawd, a chael llawer o nerth. Croesi y mynydd i Lanidloes, disgyn wrth y Red Lion, ond methu cael drws agored i bregethu; o'r diwedd, y tafarnwr yn caniatau ei dŷ, ond tyrfa mor fawr yn ymgasglu, a swyddogion yr *excise* yn dyfod yn mhlith y dorf, fel yr aeth yn annhrefn hollol yn y lle. Neuadd y dref yn cael ei gwrthod iddo. Ceisio llefaru mewn tŷ allan bychan, ond methu, am fod y lle yn rhy gyfyng. Cychwyn tua'r Tyddyn; yr un dorf, gyda yr un arweinydd, yn ei ganlyn; neb yn gosod ei law arno, nac ar y cerbyd, eithr ymfoddloni ar floeddio: "Pwy a glywodd son i'n Hiachawdwr erioed eistedd mewn *chaise?* Pregethu yn y Tyddyn oddiar y geiriau: "A thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni,' a chael nerth dirfawr i egluro natur dyoddefiadau ein Harglwydd. Yn y Drefnewydd, "Gwir yw y gair" yw y testun. Ymweled â Pool, yr Amwythig, Wenlock, Madeley, Ludlow, Leominster, a Hay, gan ddychwelyd i Drefecca, Rhagfyr 22.

Ionawr 1, 1765. Cychwyn i Gymdeithasfa Llansawel. William Richard yn agor y Gymdeithasfa trwy weddi, a Harris yn traddodi anerchiad miniog i'r cynghorwyr, ac yn cyfeirio gyda chymeradwyaeth mawr at emynau Williams, Pantycelyn. Arholi deuddeg o gynghorwyr. Harris yn y Gymdeithasfa yn anog cael undeb a'r Wesleyaid a'r Morafiaid, ac yn dweyd fod John a Charles Wesley wedi cael cyfarfod i'r pwrpas â Mr. Nyberg, gweinidog y Morafiaid yn Hwlffordd. Daniel Rowland yn dangos rhyw gymaint o wrthwynebiad. Cael bendith wrth glywed Popkins yn pregethu ar: "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn?" Dychwelyd i Drefecca, Ionawr 5.

Ionawr 20. Cychwyn i ranau o Forganwg nad oedd wedi bod ynddynt er ys pedair-blynedd-ar-ddeg. Pregethu yn Glascoed i gynulleidfa fechan, ar ddwfn drueni dyn. Ymweled â Maesaleg, ger Casnewydd, ac â Chaerdydd. Llonaid

capel o gynulleidfa yn y lle diweddaf yn y boreu, a Harris yn cael nerth dirfawr wrth bregethu. Myned i giniaw gyda Mrs. Jones, Ffonmon; yna, ymweled â Llantrisant, lle y câ fawr ryddid i gyffroi a tharanu oddiar y geiriau: "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg." Yna, pregethu yn Mhontfaen, Pil, Castellnedd, Abertawe, Gower, Llanelli, a Chaerfyrddin, gan ddychwelyd i Drefecca erbyn Chwefror 2.

Y mae y dydd-lyfr am y gweddill o 1765 ar goll. Erbyn dechreu y flwyddyn ganlynol, yr oedd Howell Harris wedi cael ei argyhoeddi yn drylwyr fod cymeryd ei le cyntefig, fel arolygydd cyffredinol y Cyfundeb Methodistaidd yn Nghymru, yn anmhosibl iddo. Cydgyfarfyddai amryw achosion i effeithio hyn. Gadawer i ni daflu byr olwg ar rai o honynt. (1) Yr oedd neillduaeth, ac absenoldeb o fysg ei frodyr, am dair-blynedd-ar-ddeg, ar ran Harris, yn gyfryw nas gellid dileu ei effeithiau. Er fod Daniel Rowland yn barod, yn wir, yn awyddus i drosglwyddo y llywodraeth iddo; ac er y cyfranogai Williams, Pantycelyn, a Peter Williams, yn yr unrhyw deimlad, yr oedd dosparth o gynghorwyr wedi cyfodi yn ystod y cyfnod hwn, y rhai na adwaenent mo Harris, ac nad oeddynt yn barod i ymddarostwng iddo. Y mae genym sail i gredu fod cryn nifer o honynt, a Popkins oedd eu genau. I Daniel Rowland y tyngent, ac ni oddefent i neb gymeryd y deyrnwialen o'i law.

(2) Yr oedd llywodraeth Harris yn tueddu at fod yn drom. Cawn ef yn datgan drosodd a throsodd yr angenrheidrwydd am ddysgyblaeth yn mysg y cynghorwyr; wrth hyn y golygai ymholi yn fanwl i gymhwysder pob un, trefnu cylch cydweddol a'i allu a'i ddawn i bob cynghorwr i lafurio ynddo; a'i warafun i fyned y tu allan i'r cylch hwnw, pa beth bynag a fyddai y cymhelliad, dan berygl cerydd cyhoedd. Yr ydym yn cofio am John Richard, ac eraill, yn gwingo yn erbyn trefniant manwl, peirianyddol, fel hyn ar y cychwyn cyntaf, a chafwyd peth anhawsder i osod y gwrthwynebiad i lawr y pryd hwnw. Yn awr, pan y mae Harris wedi bod am rai blynyddoedd yn swyddog milwraidd, hawdd meddwl fod ei syniad am ddysgyblaeth ac isddarostyngiad yn gryfach. Dysgwyliai am ufudd-dod ar ran y cynghorwyr i'r arolygwr, cyffelyb i eiddo y milwyr i'w cadben, yr hwn ufudd-dod nid oeddynt hwythau yn barod i'w roddi. O'r ochr arall, y mae yn bur sicr fod llywodraeth Rowland wedi bod i raddau yn llac; caffai y cynghorwyr fyned i bregethu lle y mynent, o leiaf, lle bynag y caent rywfath o wahoddiad, heb fod neb yn ceisio gosod unrhyw rwystr ar eu ffordd. Y tebygolrwydd yw fod cryn annhrefn wedi dyfod i mewn gyda hyn, os nad oedd y rhyddid wedi cael ei arfer weithiau yn achlysur i'r cnawd. Cyfodai holl natur Howell Harris yn erbyn y penrhyddid hwn, ond ni fynai y cynghorwyr, ar ol cael eu ffordd mor hir, gymeryd eu dwyn drachefn dan yr hyn a ystyrient hwy yn iau caethiwed.

(3) Yn ystod amser ei neillduaeth yn Nhrefecca yr oedd Howell Harris wedi ymwasgu yn glosach fyth at Eglwys Loegr. Gwnaethai heddwch a'r hen Brice Davies, ficer Talgarth; llwyddasai i gael cymundeb misol yn yr eglwys yno, a chael yr oriel wedi ei neillduo i gantorion Trefecca; yr oedd Mr. Morgan, y cuwrad, yn gyfaill mynwesol iddo, ac yn ymweled ag ef yn aml. Pan y dechreuasai y clerigwyr a'r esgobion erlid y Methodistiaid, a nacau y cymundeb iddynt, dywedai Harris mai glynu wrth y bobl a wnelai efe, a dysgwyliai eu gweled yn cael eu bwrw allan, fel prawf y bwriadai yr Arglwydd iddynt fyned yn gyfundeb ar wahan. Yn awr, y mae yn benderfynol o lynu wrth yr Eglwys, hyd yn nod pe y gorfyddai iddo gefnu ar ei hen gyfeillion; pan y gwel yr eglwysydd yn cael eu cau yn erbyn Rowland, ei ofal mawr yw na fyddo neb yn dweyd gair chwerw am yr esgob; a pharha i freuddwydio am benodiad esgobion efengylaidd, y rhai osodent y clerigwyr Methodistaidd yn eu holau, ac a ordeinient y penaf o'r pregethwyr lleygol. Yr oedd y Methodistiaid, o'r tu arall, yn ystod cyfnod neillduaeth Harris, wedi ymddyeithrio yn ddirfawr oddiwrth yr Eglwys yn eu teimlad; yr oedd blynyddoedd lawer o erlid, a difrio, a bygwth, wedi gwneyd eu gwaith; ac yn awr yr oedd eu hyspryd yn chwerw ynddynt am fod Daniel Rowland, yr hwn a ystyrid yn dywysog Duw yn eu plith, wedi cael ei fwrw allan o'i eglwysydd. Mewn canlyniad, ni aent i gymuno i eglwys y plwyf; eithr cyfranogent o'r elfenau yn y gwahanol gapelau a benodasid i hyny. Dywed Harris y gweinyddent swper yr Arglwydd mewn tai anedd, yr hyn oedd yn groes iawn i'w deimlad. Yr unig linyn a gysylltai y Methodistiaid a'r Eglwys y

pryd hwn oedd, mai gan glerigwyr yn unig y derbyniai y rhan fwyaf o honynt y cymun, ac nad oeddynt wedi ymsymud yn gyffredinol i ordeinio yn eu mysg eu hunain. Yr oedd rhyw arwyddion fod hyd yn nod hyn ar gymeryd lle. Ordeiniasid Morgan John Lewis yn weinidog y New Inn; David Williams yn weinidog yr Aberthyn; a Thomas William, a William Edward yn weinidogion y Groeswen, yn barod; a thybiai Howell Harris y cymerai symudiad mwy cyffredinol gyda golwg ar ordeinio le yn fuan. Ac â hyn ni fyddai iddo na rhan na chyfran.

(4) Nid oedd y Methodistiaid, o ran y cyffredinolrwydd o honynt, wedi cymeryd o gwbl at y sefydliad yn Nhrefecca. Tra yr addefent fod Harris yn bur yn ei fwriad, ac yn gweithredu tan ddylanwad cymhellion anhunangar, credent mai camgymeriad difrifol oedd yr adeilad a'r teulu. Yr oedd hyd yn nod cyfaill mor drylwyr i Harris a Williams, Pantycelyn, yn ei feio am hyn, fel y dengys y difyniadau canlynol o'i farwnad iddo:—

"Pa'm y llechaist mewn rhyw ogof,
Castell a ddyfeisiodd dyn?
Ac anghofiaist dy ddeadell,
Argyhoeddaist ti dy hun?
Y mae plant it' ar hyd Cymru,
Yn bymtheg-mlwydd-ar-hugain oed,
A ddymunasai genyt glywed
Y pregethau cynta' erioed.

Eisiau parch, neu eisiau elw?
Neu ryw fendith is y ne'?
Rhoist ffarwel i'r fyntai ddefaid,
Ac arosaist yn dy le?
Yr oedd canoedd gynnau'n gruddfan,
Ac yn gofyn beth yw hynt
Yr hen udgorn fu'n Nhrefecea,
Ae yn uchel seiniodd gynt?

Ai bugeilio cant o ddefaid,
O rai oerion, hesbion, sych,
Ac adeilo iddynt balas,
A chorlanau trefnus gwych,
Etyb seinio pur efengyl,
Bloeddio'r iachawdwriaeth rydd,
O Gaerlleon bell i Benfro,
O Gaergybi i Gaerdydd?

Pa'm y treuliaist dy holl ddyddiau
I wneyd rhyw fynachlog fawr,
Pan y tynodd Harri frenhiu
Fwy na mil o'r rhai'n i lawr?
Diau buaset hwy dy ddyddiau,
A melusach fuasai 'nghân,
Pe treuliasit dy holl amser
Yn nghwmpeini'r defaid mân.

* * * * *

Trist yw'r ffrwythau a ddigwyddodd
O it' beidio rowudio'r byd;
Mwy fuasai dy ogoniant
Hyn pe buasai'th waith o hyd."

Os mai fel hyn y teimlai cyfaill mor anwyl a Williams ar y mater, diau fod y cyffelyb yn deimlad cyffredinol. Ar yr un pryd, fel y bardd, y mae yn sicr eu bod yn maddeu iddo ei gamgymeriad:—

"Ond mae pawb yn maddeu heddyw;
Mae rhyw arfaeth faith uwchben,
Ag sy'n trefnu pob materion
A ddychmygo dyn is nen."

Ond ni chaniatäi yntau fod arno angen am faddeuant yn nglyn a'r mater hwn, ac yr oedd canfod ei frodyr a'i gyfeillion yn edrych ar y sefydliad yn Nhrefecca gyda llygad drwgdybus yn dra dolurus iddo.

(5) Yr oedd rhyw syniad am undeb cyffredinol rhwng pawb ag a feddai ysprydolrwydd crefydd wedi ei feddianu. Breuddwydiai am grynhoi yn nghyd ganlynwyr Whitefield, y Wesleyaid, y Morafiaid, a Methodistiaid Cymru, mewn un undeb mawr. Bu unwaith yn meddwl am osod John Wesley, at yr hwn y meddai anwyldeb diderfyn, fel pen ar yr undeb, ac nid ydym yn sicr nad oedd hyny yn ei feddwl yn bresenol. Tra yr oedd y breuddwyd yma yn llefaru yn uchel am gatholigrwydd yspryd Howell Harris, breuddwyd ydoedd; yr oedd yn gwbl anymarferol. Y cyntaf i ddatgan yn erbyn oedd Howell Davies; hwyrach ei fod ef yn teimlo yn ddolurus wrth waith y Morafiaid yn ymsefydlu yn Hwlffordd, fel y teimlai Harris ei hun ar y cyntaf. Nid oedd yr un o'r Methodistiaid yn edrych yn ffafriol ar y syniad; edrychent ar y peth fel dwyn estroniaid i mewn, i fedi ffrwyth eu llafur hwy. Awgryma yntau mewn canlyniad eu bod yn gul; mai Iesu Grist a biau yr eneidiau, ac nid hwy.

O herwydd y rhesymau a nodwyd, ac efallai rai eraill, yr oedd Harris yn gwbl argyhoeddedig ddechreu y flwyddyn 1766, nas gallai weithredu fel arolygwr cyffredinol yn mysg y Methodistiaid. Chwefror 19, 1766, cynhelid Cymdeithasfa yn Nghaerfyrddin, ac yn hono datganodd ei benderfyniad i beidio ymgymeryd a'r arolygiaeth; eithr y deuai i fysg y Methodistiaid fel cyfaill a châr, ac y pregethai yn eu capelau a'u Cymdeithasfaoedd pa bryd bynag y caffai gyfleustra a gwahoddiad, er nad allai ystyried ei hun yn hollol fel un o honynt. Y mae yn deilwng o sylw fod y teimlad goreu yn ffynu rhyngddo â phrif ddynion y Methodistiaid, ac yn arbenig â Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn, yr adeg yma; ac i'r brawdgarwch cryfaf fodoli rhyngddynt hyd ddydd ei farwolaeth. Yn

y Gymdeithasfa, pregethai John Harry ar eiriau Crist wrth y wraig o Samaria; ar ei ol yr oedd Mr. Gray, olynydd Mr. Pugh yn Llwynpiod, ac Abermeurig. Ei fater ef oedd, Crist yn esgyn i'r uchelder, yn caethiwo caethiwed, ac yn derbyn rhoddion i ddynion. Am dri, pregethai Daniel Rowland; ei destun ydoedd: "Fy anwylyd sydd eiddof fi;" a chafodd odfa i'w chofio byth. Meddai Harris: "Gwelwn y fath ogoniant digymhar arno rhagor i mi; galluogwyd fi i'w anrhydeddu, ac i lefain ar i'r Arglwydd estyn ei einioes, a'i ddefnyddioldeb. O, fel y dangosodd ddirgelwch yr undeb rhwng Crist a'i eglwys! Dangosodd fod y nefoedd yn dechreu yma mewn cariad; nad yw angau yn gwneyd unrhyw gyfnewidiad ar y credadyn, oddigerth cynyddu ei rasau. Gwaeddai: 'Y mae gan bob math o greaduriaid eu cân; ac y mae gan yr eglwys ei chân; a dyma hi: Fy anwylyd sydd eiddof fi! Cenwch hi, gredinwyr! Yr wyf yn dweyd wrthych, cenwch yn mlaen!' Yr oedd yn ogoneddus, mewn gwirionedd." Dyma adroddiad Howell Harris am bregeth ei gyfaill, ac y mae yn amlwg fod yr effaith arno yn orchfygol. Nid oes un hanes genym iddo ef bregethu yn ystod y Gymdeithasfa, eithr bu yn anerch y cynghorwyr gyda difrifwch mawr. Trefnodd, hefyd, daith o dair wythnos o amser trwy ranau o Benfro, a Chaerfyrddin. Yn unol a'r trefniant hwn cawn ef yn ymweled â Narberth, Penfro, Redford, Hwlffordd, Tenant, Llandegege, Abergwaun, Woodstock, Machendre, Capel Newydd, Felindre, Gwaunifor, Glanrhyd, Caerfyrddin, lle y gwrandawai amryw filoedd ar Castle Green, Llanddarog, Llandilo Fawr, a Llangadog; a chyrhaeddodd Drefecca ar y 12fed o Fawrth. Cofnoda mai pregethu yn unig a wnelai ar y daith hon, a chynghori y seiadau a'r pregethwyr ar faterion ysprydol; nad ymyrai bellach ag unrhyw drefniadau, am y teimlai nad oedd ganddo hawl i wneyd hyny.

Ar y trydydd o Ebrill, 1766, yr ydym yn ei gael mewn lle o'r enw Petty France, nid yn nepell o Fryste, mewn cyfarfod perthynol i'r Morafiaid. Wedi cael ei gymhell, llefarodd yn gryf yn erbyn Sandemaniaeth; mynegodd hefyd wrth y pregethwyr Morafaidd fod perygl yn eu mysg i'r Beibl beidio a chael ei wneyd yn rheol i brofi pob peth wrtho. Darllenodd yma hefyd bregeth John Wesley ar gyfiawnder cyfrifedig; hoffai hi yn ddirfawr, ac wrth ei darllen cryfhäi ei obaith gyda golwg ar undeb. Y Sul yr oedd yn Bath. Aeth i'r Eglwys yn y boreu, a chyfranogodd o'r sacrament. Yn y prydnhawn pregethodd yn nghapel y Wesleyaid, ac yn yr hwyr aeth i gapel yr Iarlles Huntington, lle y pregethai Howell Davies. Testun Mr. Davies oedd: "Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfryd lais," a chafodd odfa nerthol. Bu Harris yn ei gymdeithas hyd ddeg o'r gloch. Yn mhen rhyw dair wythnos wedi dychwelyd adref, cawn Harris yn cychwyn am daith i Sir Forganwg a rhanau o Sir Gaerfyrddin. Pregetha gyntaf yn Llanbradach, ffermdy tua phum' milldir o Gaerphili. Tranoeth cawn ef yn Watford, ac yn pregethu yn y capel Ymneillduol; eithr y mae yn pasio y Groeswen heb alw. Cafodd odfa rymus yn Nghaerdydd, wrth lefaru am Dduw yn ymddangos yn y cnawd. Pregethai yn dra argyhoeddiadol hefyd yn St. Nicholas. Ymddengys na chymerodd destun, eithr ei faterion oeddynt, credu, caru, ac edifarhau. Yn Llantrisant taranai yn erbyn hunangyfiawnder. Ei destun yn Mhontfaen ydoedd: "O Israel, ti a'th ddinystriaist dy hun.' Yn nesaf cawn ef yn Mhenybont-ar-Ogwr, a phregethodd yn y capel Methodistaidd, a chafodd ryddid dirfawr i ymdrin a'r athrawiaeth am berson ein Harglwydd. Yn Margam, wrth ddrws tafarndy y pregethai; rhifai ei gynulleidfa amryw ganoedd. Ei destun oedd: "Gwir yw y gair;" a thaer gymhellai bechaduriaid hunan-gondemniedig i ddyfod at y Ceidwad. Yn yr Hen Fynachlog, ger Castellnedd, rhifai ei wrandawyr amryw filoedd. Cafodd gynulleidfa dda hefyd yn Abertawe. Wedi tramwy trwy Gower, ac ymweled a Llanelli, Llanedi, Llanon, Golden Grove, a Llangadog, dychwelodd i Drefecca erbyn y 18fed o Fai.

Treuliodd ran fawr o fisoedd Gorphenaf ac Awst, 1766, yn Ngogledd Lloegr, yn mysg y Wesleyaid. Gwnelai ei gartref yn benaf yn Huddersfield, ac elai i'r wlad o gwmpas i bregethu. Bu yn bresenol yn nghynadledd y Wesleyaid, yn Leeds, ganol Awst. Yn mis Medi cawn ef yn ymweled ag amryw leoedd yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd gynulleidfa anferth yn Llanymddyfri, yn rhifo amryw filoedd. Porthi praidd Duw oedd ei fater; llefarai yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan fod amryw fawrion yn bresenol, ac yr oedd cryn ddylanwad yn cydfyned a'r weinidog-

aeth. Cafodd odfa rymus hefyd yn Llangadog; eithr bu bron a digio wrth ŵr y tafarndy, lle y lletyai, am na chaffai dalu am ei le, a lle ei geffyl. Yr oedd gan y Methodistiaid gapel newydd yn Nhrecastell. Yno cyfarfyddodd Harris a thuag ugain o aelodau y seiat, a rhoddodd lawer o gynghorion buddiol iddynt. Dau ddiwrnod y bu gartref cyn cychwyn am Orllewin Lloegr. Yn mis Tachwedd, bu am daith faith yn Sir Forganwg. A diwedd y flwyddyn cawn ef yn Llundain. Yr ydym yn cyfeirio at y teithiau cyson hyn, er dangos anghywirdeb y dyb gyffredin ddarfod i Howell Harris gau ei hun i fynu yn Nhrefecca flynyddoedd olaf ei fywyd, gyda'r eithriad o ambell i ymweliad achlysurol a wnelai i fanau lle y caffai wahoddiad. Yn wrthwyneb i hyny, cawn fod ei deithiau yn fynych a meithion, a'i ymroddiad i gyhoeddi yr efengyl yn ddiderfyn.

Treuliodd Howell Harris y ddau fis cyntaf o'r flwyddyn 1767 yn Brighton, gan bregethu yn mysg y Morafiaid, a'r Wesleyaid, ac ymweled â Llundain yn awr ac yn y man. Y mae y dydd-lyfr oddiyno hyd ddiwedd y flwyddyn ar goll. Ond yr ydym yn cael ei fod yn bresenol yn nghynadledd y Wesleyaid, a gynhaliwyd yn Llundain, mis Awst. Y peth cyntaf a gawn am dano yn 1768 yw, ei fod yn myned i Gymdeithasfa y Methodistiaid, a gynhelid yn Nghayo, Chwefror 17. Ar y ffordd yno, teimlai fod yn rhaid wrth ryw gymaint o ffydd i fyned fel ymwelydd i gyfarfod lle yr arferai fod yn rheolwr. Cyfarfyddodd â Rowland, a gofynai iddo a oedd pawb yn foddlon i'w bresenoldeb. Wedi cael atebiad cadarnhaol, aeth i'r cyfarfod neillduol, ac ar gais Williams, Pantycelyn, traddododd anerchiad i'r cynghorwyr. Cafodd ryddid mawr gyda hyn. Gwahoddai y Gymdeithasfa ef yn unfrydol i ddyfod i'w mysg; atebai yntau ei fod yn foddlawn ymweled â hwy pa bryd bynag y byddai arnynt ei angen. Myn-egodd am y coleg a fwriadai Iarlles Huntington sefydlu yn Nhrefecca, ond cafodd fod cryn ragfarn yn ei erbyn. Yna, ymollyngodd i lefaru am ffydd, hunanymholiad, a darllen y Beibl. Wedi iddo orphen, cyfododd Williams ar ei draed i gefnogi ei sylwadau. Yn yr odfa gyhoeddus, pregethai Daniel Rowland ar y geiriau: "Glanha fi ag isop, a mi a lanheir; golch fi, a byddaf wynach na'r eira." Meddai Harris: "Wrth ei glywed yn pregethu mor effeithiol am waed Crist, a'r angenrheidrwydd am daenelliad o hono ar y gydwybod, ac yn gwrthwynebu golygiadau Sandeman, gan wahodd pawb yn daer at yr Iesu, a hyny mewn modd na chlywais ef yn gwneyd erioed o'r blaen, teimlwn gariad mawr ato ac at y bobl. Wedi gofyn genyf, llefarais inau, am edrych ar ein Hiachawdwr a'i ddyoddefiadau. Fel yr oedd Rowland wedi dangos am waed Crist, ei fod yn sancteiddio ac yn gogoneddu, cadarnheais inau ei ymadroddion. Cefais ryddid dirfawr i bregethu yr Iesu." Y mae yn amlwg iddo gael odfa dda, ac ymadawodd a'i hen frodyr a'i galon yn gynhes tuag atynt, ac felly yr oeddynt hwy ato yntau. Y noson hono pregethai yn Llanymddyfri; yr oedd Williams wedi dychwelyd gydag ef. Aflonyddwyd ar y cyfarfod gan glerigwr meddw, a bu Harris yn dra llym wrtho.

Er fod yr Iarlles Huntington wedi hir goleddu y syniad am gael coleg yn Nhrefecca, ni chyflawnwyd y bwriad hyd Awst 24, 1768, dydd pen blwydd yr Iarlles. Agorwyd y colegdy, yr hwn oedd ar dir Harris yn Nhrefecca Isaf, gyda phregeth gan Whitefield, oddiar Ex. xx. 24: "Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac y'th fendithiaf." Y Sul canlynol, pregethodd yr un gŵr drachefn, yn yr awyr agored o flaen y colegdy, i gynulleidfa o amryw filoedd. Ymddengys mai yr hyn a barodd i'r Iarlles roddi ei bwriad mewn grym yn awr, oedd gwaith Prifysgol Rhydychain yn esgymuno allan o honi chwech o ddynion ieuainc, oblegyd eu tuedd at Fethodistiaeth. Bu hyn yn achlysur cyffro dirfawr, a rhoddodd friw i deimladau y rhai a garent grefydd efengylaidd. Y chwech hyn, gellid meddwl, a ffurfient flaenffrwyth efrydwyr Trefecca, ac ychwanegwyd atynt o bob rhan o Gymru a Lloegr, nes y chwyddodd y rhif i fod tua deg-ar-hugain. Wedi bod yn ddyfal wrth eu gwersi ar yr wythnos, cychwynai yr efrydwyr i wahanol gyfeiriadau ar y Sadwrn i bregethu yr efengyl; ac i'r rhai a elent i deithiau pell yr oedd yr Iarlles wedi parotoi ceffylau. Pregethent yn mysg pob enwad yn ddiwahaniaeth, ond yn benaf yn mhlith y Methodistiaid. Y mae yn deilwng o sylw mai coleg i bregethwyr ydoedd; ni chaffai neb fyned iddo oddigerth iddo roddi prawf boddhaol ei fod wedi cael ei argyhoeddi i fywyd, a datgan ei benderfyniad i lwyr ymgyflwyno

i wasanaeth yr Iesu. Llywydd cyntaf y sefydliad oedd y Parch. John Fletcher, ficer Madeley, yn Sir Amwythig, gŵr a haedda fwy o sylw nag a allwn roddi iddo. Brodor o Switzerland ydoedd, ac ymddengys ei fod yn disgyn o un o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd. Braidd na ellir dweyd ei fod yn dduwiol o'r groth, a'i brif ddymuniad pan yn llanc oedd cael gwasanaethu Crist yn yr efengyl. Yn y flwyddyn 1752, pan yn bedair-blwydd-ar-hugain oed, daeth i Loegr er dysgu yr iaith Saesneg. Yma daeth i gyffyrddiad â John Wesley, ac ymrestrodd yn aelod o'r seiat Fethodistaidd yn Llundain. Yn y flwyddyn 1757, cafodd ei ordeinio yn ddiacon gan Esgob Henffordd; ac yn bur fuan cafodd, ar lythyrau cymeradwyol Esgob Bangor, ei ordeinio yn offeiriad gan Esgob Llundain. Ddiwrnod ei ordeiniad, cynorthwyodd John Wesley i weinyddu sacrament swper yr Arglwydd yn ei gapel yn Llundain. Yn y flwyddyn 1760, penodwyd ef i ficeriaeth Madeley. Ymddengys ei fod yn ysgolor gwych, ac yn dduwinydd da, a'r fath oedd ymddiried John Wesley ynddo, fel y bwriadai iddo fod yn olynydd iddo fel pen y cyfundeb Wesleyaidd. Hyn, modd bynag, a rwystrodd angau. Nid ymddengys y gwnelai Fletcher ragor, fel llywydd yr athrofa yn Nhrefecca, nag ymweled a'r sefydliad yn awr ac yn y man, fel y caffai hamdden.

Pwy oedd athraw cyntaf yr athrofa sydd fater a rhyw gymaint o dywyllwch o'i gwmpas. Gwnaethai un John Jones, pregethwr teithiol yn mysg y Wesleyaid, a gŵr o haniad Cymreig, yn ddiau, gais am y swydd. Yr oedd John Jones yn ysgolhaig clasurol gwych, ac yn awdwr gramadeg Lladin o fri; dywedasai Charles Wesley am dano, mai efe oedd y cymhwysaf o bawb a adwaenai i addysgu dynion ieuainc. Ond oblegyd rhyw ffolinebau oedd yn nglyn ag ef, ac yn arbenig oblegyd iddo gymeryd ei urddo gan esgob perthynol i Eglwys Groeg, nid yw yn ymddangos iddo gael yr appwyntiad. Yn hanes bywyd yr Iarlles Huntington, dywedir mai un Joseph Easterbrook, mab i grïwr yn Mryste, ac un a gawsai ei ddwyn i fynu yn ysgol y Wesleyaid yn Kingswood, oedd athraw y coleg. Y mae Tyerman, modd bynag, yn tybio yn wahanol. Dywed mai yn ysgolfeistr plwyf Madeley y penodwyd Easterbrook; ac felly, er ei fod dan Fletcher, nad oedd un cysylltiad rhyngddo a Threfecca. Ar awdurdod pregeth angladdol o eiddo y Parch W. Agutter, maentymia mai unig athraw Trefecca am y flwyddyn gyntaf, oedd plentyn deuddeg mlwydd oed, o'r enw John Henderson. Fel hyn y dywed Mr. Agutter am Henderson: "Pan nad oedd ond bachgen, cawsai ei gyflogi i weini addysg yn yr ieithoedd clasurol. Pan nad oedd ond deuddeg oed, addysgai mewn Groeg a Lladin yn athrofa Trefecca. Llywydd y coleg ar y pryd oedd Mr. Fletcher, ficer Madeley." Y mae yn ddiau fod y llanc John Henderson yn mron yn wyrth am ei wybodaeth; a phrawf y difyniad uchod ei fod yn athraw yn Nhrefecca mewn oedran rhyfedd o ieuanc; ond ni phrawf mai efe oedd yr unig athraw. Yr ydym yn credu yn gryf fod Tyerman wedi syrthio i gamgymeriad. Heblaw y gwrthyni o osod plentyn yn unig athraw ar sefydliad a gynwysai ddynion mewn oed, yr ydym yn cael amryw gyfeiriadau yn nydd-lyfr Howell Harris at Easterbrook yn Nhrefecca, er na ddywedir yn bendant ei fod yno yn y cymeriad o athraw. Pwy bynag oedd yr athraw, sicr yw fod cryn lawer o'r gofal yn disgyn ar ysgwyddau Harris. Modd bynag, dechreu y flwyddyn 1770, appwyntiwyd Joseph Benson, hen daid Archesgob presenol Caergaint, yn brif-athraw. Yn Nhrefecca Isaf y bu yr athrofa hyd y flwyddyn 1792. Y flwyddyn hono, gan fod Howell Harris wedi marw er ys amser, a bod prydles Trefecca Isaf wedi rhedeg allan, symudwyd yr athrofa i Cheshunt. Trwy ystod ei fywyd, y mae yn sicr fod cysylltiad agos rhwng Harris a'r athrofa; tan ei ddysgyblaeth ef yr ystyrid y myfyrwyr; byddai yn aml yn traddodi anerchiadau iddynt, ac yn pregethu yn nghapel y coleg. Rhaid fod ei ddylanwad arnynt yn fawr.

Ar yr ail-ar-hugain o Dachwedd, 1768, yr ydym yn ei gael yn cychwyn ar daith faith i Siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Ymwelodd â Threcastell-yn-Llywel, Llanymddyfri, Llangadog, Llandilo Fawr, Caerfyrddin, Narberth, Hwlffordd, Woodstock, Eglwyswrw, a Chapel Newydd. Pregethodd drachefn wrth ddychwelyd yn Nghaerfyrddin, a Llanymddyfri, ac yr oedd yn ei ol yn Nhrefecca, Rhagfyr 4. Yr wythnos olaf o'r flwyddyn cawn ef mewn Cyfarfod Misol yn mysg y Methodistiaid yn Llanfrynach, Sir Frycheiniog. Cafodd dderbyniad o'r serchocaf. Llefarodd yntau yn helaeth am ddechreuad y gwaith, addawai ddyfod i'r Cyfarfodydd Misol pa bryd bynag y gelwid am dano,

ac anogodd hwy i bwysleisio ar waed ac angau y Gwaredwr. Pregethodd gyda nerth oddiar y geiriau: "Ac ni ddwg neb hwynt allan o law fy Nhad i." Y mae ei eiriau nesaf yn haeddu eu cofnodi, am y cynwysant gryn wybodaeth am sefyllfa yr achos yn Nghymru. "Clywais gan Benjamin Thomas," meddai, "fod pedwar-ar-hugain o gynghorwyr yn Ngogledd Cymru yn cyfarfod yn fisol ac yn gwarterol i drefnu eu teithiau; fod saith-ugain o aelodau yn y Bala; a bod y gwaith yn llwyddo yn rhyfedd yn Sir Aberteifi. Yn Llangeitho, cyferfydd saith-ugain o blant (y diwygiad) bob wythnos, i weddïo, i ganu, ac i agor eu calonau i'w gilydd; a llawer o rai cnawdol sydd yn cael eu dwysbigo wrth eu gweled a'u clywed. Cyfarfyddant, hefyd, yn Llanddewi-brefi, a lleoedd eraill. Yn Llanddewi-aberarth, lle yr oedd y bobl oll yn gnawdol, y maent wedi adeiladu capel iddynt eu hunain, ac yr oedd Benjamin Thomas yn pregethu ynddo bythefnos yn ol, a chwedi iddo ef orphen, buont yno yn canu ac yn gweddïo hyd ddeuddeg o'r gloch y nos. Gwelaf yn amlwg fod yr Arglwydd yn eu mysg, ac yn eu hanrhydeddu. Llawenychwn yn ddirfawr o'r herwydd, a chefais nerth i lefain ar yr Arglwydd dros Rowland, ar iddo gael ei gadw rhag ymchwyddo gan ei lwyddiant, a'i boblogrwydd, ac ar i'r llwyddiant fod yn yr Yspryd." Dengys y difyniad fod diwygiadau nerthol yn ysgwyd Cymru yr adeg hon, a bod y gwaith yn myned rhagddo gyda nerth. Dengys, hefyd, fod yspryd Howell Harris mewn cydymdeimlad llwyr a'i frodyr, y Methodistiaid, a bod eu llwyddiant yn peri i'w galon ddychlamu o'i fewn.

Tua dechreu y flwyddyn 1769 yr ydym yn cael fod llesgedd wedi ei orddiwes, ac ychydig a deithiodd allan o Drefecca. Yn mis Mawrth, y flwyddyn hon, cyfarfyddodd a phrofedigaeth lem trwy farwolaeth ei anwyl wraig. Yr oedd yn ddynes nodedig o dduwiol, a meddai yn ychwanegol lawer o nerth cymeriad; gallai sefyll hyd yn nod yn erbyn ei phriod, pan y tueddai i fyned i eithafion. Gwaelu yn raddol a wnaeth; deallai ei bod yn tynu at y diwedd, a dywedai wrth Harris am beidio wylo pan ddiangai yr yspryd o'r corph, gan y byddai hi gyda ei Gwaredwr. Eithr wedi y cyfan daeth y diwedd yn sydyn. Yn yr hwyr, pan yr oedd efe mewn cyfarfod crefyddol gyda'r teulu, ac un Mr. Cook yn eu hanerch, dyma floedd Miss Harris allan o ystafell ei mam yn adsain trwy y lle. Rhoddodd yntau i fynu ar unwaith, ac yr oedd yn brin mewn pryd i'w gweled yn anadlu yr anadl olaf. Cafodd ergyd a'i syfrdanodd am amser, oblegyd yr oedd ei serch ati yn angerddol. Meddai: "Cefais ergyd na chefais ei gyffelyb o'r blaen; daeth y llifeiriant dros fy enaid; yr oeddwn yn gyfangwbl o dan y dwfr; cyffyrddasant â gwraidd fy mywyd. Bum am amser dan draed, fel nas gallwn sylwi ar ddim, eithr yn unig galw ar yr Arglwydd; a'r meddwl cyntaf a gefais oedd, ai ergyd mewn cariad ydoedd ei waith yn ei chymeryd ymaith, a gwrthod gwrando ar fy ngweddi am gael ei chadw." Bu mewn pangfeydd enaid enbyd yr adeg hon; dywed mai o ymladdfa i ymladdfa yr ydoedd, a'i fod ef yn dyst o fodolaeth y diafol. Eithr yn y diwedd cafodd oruchafiaeth drwyadl ar y cnawd a'r diafol. Am Mawrth 13, ysgrifena: "Dyma ddydd i'w gofio byth genyf fi, pan y rhoddwyd corph fy anwylaf wraig, yr hon a roddasai yr Arglwydd i mi, i orwedd yn eglwys Talgarth." Diwrnod ystormus a gwlyb oedd dydd claddedigaeth Mrs. Harris. Yn y tŷ, cyn cychwyn, pregethodd Mr. White, ac yna llefarodd Harris ei hun yn Gymraeg, gan adrodd hanes ei bywyd, a nerth ei chrefydd. Cariwyd y corph gan aelodau teulu Trefecca. Heblaw llawer eraill, yr oedd holl efrydwyr coleg yr Iarlles Huntington yn yr angladd, a chanasant wrth y tŷ, a braidd yr holl ffordd i Dalgarth, er cymaint y gwlaw. Yn yr eglwys, gwasanaethodd y Parch. John Morgan, y cuwrad, a dychwelodd Harris yn ei ol i'r tŷ gwag, er cynifer oedd ynddo, gan deimlo ei fod wedi gosod darn o hono ei hun yn y ddaear. Cofnoda ddarfod iddo roddi menyg duon i'r holl fyfyrwyr, a galarwisgoedd i'r holl wragedd a'r merched yn y teulu, y rhai a rifent un-ar-bymtheg-a-deugain.

Ar y dydd olaf o Fawrth y mae yn myned i Lundain, a Brighton, yn benaf ar ymweliad â'r Iarlles Huntington, a'r dydd cyn y Sulgwyn y dychwelodd i Drefecca. Ar yr wythfed o Orphenaf, cychwynodd am daith i Siroedd Morganwg a Mynwy. Y lle cyntaf a pha un yr ymwelodd oedd Llanbradach; cafodd gynulleidfa fawr, mil o leiaf, ac yr oedd nerth mawr yn cydfyned a'i eiriau pan y rhybuddiai y dorf i ddianc am eu bywyd. Erbyn myned i Gaerphili yr oedd y gynulleidfa yn fwy fyth. Pregethai yn Gymraeg ac yn

Saesneg; a chwedi taranu am beth amser arweiniwyd ef i efengylu yn felus. Wedi pregethu yn Llysfaen daeth i Gaerdydd, ac achwyna ei fod yn wael, ac mewn poen dirfawr, a'i fod yn fynych yn colli ei lais wrth lefaru. Yn Baduchaf, yr oedd y gynulleidfa yn fawr, eithr y pregethwr yn gryg; modd bynag, nerthwyd ef o wendid i lefaru am yr Iesu yn agoryd llygaid y deillion, ac yn gollwng y carcharorion yn rhydd. Y dwfr a rydd ein Harglwydd yn tarddu i fywyd tragywyddol oedd ei fater yn Llantrisant, lle y daethai torf i wrando, ac y cafodd yntau, mewn cryn lesgedd, gymhorth i bregethu. Wedi llefaru yn Mhontfaen, ciniawodd yn Nghastell Ffonmon, a phregethodd y noswaith hono yn Aberddawen gyda mwy o ryddid nac arfer. Yn nesaf, cofnoda ei fod yn pregethu yn Llangana, "plwyf Mr. Jones," meddai; a phan gofir mai yr Hybarch Jones, Llangan, oedd y Mr. Jones hwn, y mae y crybwylliad o ddyddordeb. Nid yw yn ymddangos fod Mr. Jones yn gwrando. Wedi ymweled a Phenybont, aeth i'r Pîl; achwyna ar y gwres, a'i lesgedd yntau, eithr, fel arfer, pan aeth i lefaru nerthwyd ef yn rhyfedd. Yn eglwys Llanilltyd, ger Castellnedd, clywodd bregeth ardderchog, ar berson Crist, gan offeiriad o'r enw Mr. Jones. Tybed mai Jones, Llangan, ydoedd? Pregethodd yntau yn nghyntedd y Fynachlog i ddeng mil o bobl, o leiaf. Cafodd gynulleidfa lawn mor liosog yn Abertawe, lle y llefarai oddiar lidiart y *turnpike*. Ni phregethodd drachefn nes cyrhaedd Llandilo Fawr; nerthwyd ef yn ddirfawr yma i son am Dduw yn tynu ymaith y galon gareg. Yn y capel newydd, ger Pontargothi, ei destun ydoedd: "Du wyf fi, ond hawddgar." Llym enbyd ydoedd yn y bregeth hon. Yr ydym yn ei gael yn nesaf yn Nghaerfyrddin, yn ymyl y castell; Duw yn darostwng ucheldrem dynion yw ei fater. Wedi ymweled a Llansawel, daeth i Gilycwm; yn nghanol y pentref y pregethai, oblegyd mawredd y gynulleidfa; ei destun ydoedd: "Os dyoddefwn gyda Christ, ni a deyrnaswn gydag ef." Syna fel y mae yn cael ei gynorthwyo yn y gwaith, ac at y derbyniad a roddir iddo, a'r cariad a ddangosir ato gan bobl Rowland. Cyfeiria hefyd at y tân oedd yn eu mysg. Wedi pregethu yn Nhrecastell i dorf fawr, cyrhaeddodd Drefecca, Gorph. 22ain. Meddai: "Daethum yma neithiwr o gwmpas naw; clywais fawl yr Arglwydd yn cael ei ganu, a dywedais wrth fy mhobl y pethau mawrion a welais, fod yr holl wlad yn addfed i'r cynhauaf; na chefais erioed o'r blaen y fath gynulleidfaoedd, na'r fath ryddid i lefaru, na'r fath wrandawiad. Dywedais, yn mhellach, fy mod wedi dychwelyd i godi eu hyspryd-oedd, i'w gosod ar dân, ac i dystiolaethu am yr Iachawdwr wrthynt." Hawdd gweled fod ei daith wedi bod o ddirfawr fendith iddo.

Awst 16eg, 1769, daeth Iarlles Huntington i Drefecca i gadw cylchwyl gyntaf ei choleg, gan ddwyn gyda hi Iarlles Buchan, yr Arglwyddes Anne Erskine, Miss Orton, yn nghyd â'r Parch. Walter Shirley, brawd Iarll Ferrers. I'w chyfarfod daeth Fletcher, llywydd y coleg, Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, Howell Davies, Peter Williams, a John Wesley, yn nghyd â llu o sêr llai. Mewn canlyniad i'w dyfodiad cadwyd wythnos o gyfarfodydd pregethu. Boreu dydd Sadwrn, Awst 19, pregethodd Rowland yn nghapel y coleg i gynulleidfa fawr, ar y geiriau: "Ai ychydig yw y rhai cadwedig?" Y prydnhawn gweinyddwyd sacrament swper yr Arglwydd; Fletcher yn anerch y cymunwyr, Williams yn rhoddi allan yr emyn, a'r gynulleidfa yn canu nes yr oedd y lle ar dori gan fawl. Erbyn y nos yr oedd y gynulleidfa yn rhy liosog i'r capel, a phregethodd Howell Harris allan oddiar y geiriau: "Canys daeth yr amser i'r farn ddechreu o du Dduw." Y Sul, yn y cyntedd oddiallan, darllenodd Fletcher y gwasanaeth, a phregethodd Shirley. Am un, gweinyddwyd y cymundeb drachefn, Rowland, Fletcher, a Williams, yn cymeryd rhan. Yn y prydnhawn, pregethodd Fletcher i dorf anferth oddiar y geiriau: "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist;" a Rowland, yn Gymraeg, ar ei ol, oddiar: "Gosodwyd i ddynion farw unwaith." Ymddengys mai dydd Llun y daeth John Wesley, Howell Davies, a Peter Williams i'r lle; a'r dydd hwnw, a'r dyddiau canlynol, cymerasant hwythau ran yn y gwaith. Fel hyn yr ysgrifena John Wesley am ddydd Iau, diwrnod olaf yr wyl:—"Gweinyddais swper yr Arglwydd i'r teulu. Am ddeg, pregethodd Fletcher bregeth nodedig o fywiog yn y cyntedd o flaen y capel, am fod y capel yn llawer rhy fach. Ar ei ol pregethodd William Williams, yn Gymraeg, hyd nes yr oedd rhwng un a dau. Am ddau ciniawsom. Ar yr un pryd yr oedd torf oddiallan yn cael eu porthi â basgedeidiau o fara a

chig. Am dri, cymerais i fy nhro, yna Mr. Fletcher, ac o gwmpas pump gollyngwyd y dyrfa ymaith. Rhwng saith ac wyth, dechreuodd y gariad-wledd, pan y cysurwyd llawer, yr wyf yn meddwl." Ychwanega fod tŷ Howell Harris, yn nghyd â'r gerddi, a'r perllanau, a'r rhodfeydd o gwmpas, yn baradwys fechan. Sicr fod y cynulliad yn ardderchog; ac wrth ddarllen enwau y rhai oedd yn bresenol, y mae yn anhawdd peidio meddwl am eiriau yr Ysgrythyr: "Wele mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd."

Yn fuan gwedi hyn cymerwyd Howell Harris yn bur glaf, ac nid aeth nemawr allan o Drefecca hyd fis Hydref, pan yr ydym yn ei gael yn cychwyn am daith i Sir Benfro. Yn nghapel Hwlffordd yr ydym yn ei gael yn pregethu gyntaf; yna aeth i Woodstock. Wedi hyny ymwelodd ag Abergwaun, Solfach, Tyddewi, a Gwaunifor. Wrth ddychwelyd pregethodd yn Nghaerfyrddin, Llandilo Fawr, a Llangadog. Cafodd flas mawr ar ei daith. "Yr wyf yn teimlo fel pe bai y wlad yn cael ei rhoddi i mi o'r newydd," meddai. Dyma y daith olaf iddo yn y flwyddyn 1769.

Ar y Sul cyntaf yn Chwefror, 1770, cawn ef yn Nghaerfyrddin, ar ei ffordd drachefn i Sir Benfro. Wedi pregethu yn Narberth, aeth i Hwlffordd, lle y cynhelid Cyfarfod Misol, y cyntaf wedi marwolaeth Howell Davies. Yr oedd yno gynulliad mawr o bregethwyr, cynghorwyr, a stiwardiaid. Wedi i John Harry geisio ganddo, anerchodd y cyfarfod am agos i dair awr. Dywedai iddo ddyfod mewn canlyniad i lythyr oddiwrth Mr. Thomas Davies; pwysleisiai ar yr angenrheidrwydd iddynt oll adnabod Crist. "Nid oes genym ddim i'w ddweyd trosom ein hunain, ein bod yn myned o gwmpas i bregethu, heb ordeiniad," meddai, "onid ydym yn cael ein hanfon gan yr Yspryd Glân." Cafodd ymddiddan preifat a John Harry, yr hwn a ddywedai fod ganddo fab yn bwriadu myned i Athrofa Trefecca. Y mab hwn, yn ddiau, oedd y Parch. Evan Harris, yr hwn a gafodd ei ordeinio ar y neillduad cyntaf yn 1811, yn Llandilo Fawr. Yn y capel, pregethodd am agos i ddwy awr heb un testun. Pregethodd yn yr un lle nos dranoeth, gyda llawer o ryddid, ar dduwdod y Gwaredwr. Wedi ymweled â nifer o leoedd yn Mhenfro, yn benaf yn y rhan Saesneg, aeth i Woodstock, i gyfarfod Daniel Rowland, ac y mae ei deimlad ar y ffordd yno yn haeddu ei groniclo. "Yr wyf yn myned i Woodstock," meddai, "i gyfarfod Mr. Rowland, er gofyn iddo ef a'r Gymdeithasfa i ddyfod i Drefecca, ac yr wyf yn gadael y canlyniadau i'r Arglwydd. Yr wyf yn cael fod llwyddiant anarferol gydag ef; tros ddwy fil o bobl yn dyfod i'r sacrament yn Llangeitho bob dydd Sadwrn, a hyny dros ddeugain milltir o bellder. O, beth wyfi fi?" Eto dywed: "Cefais gariad mawr heddyw at Rowland, wrth weled ei fod yn cael ei garu yn fwy nag y cefais i erioed, a'i fod wedi cael mwy o ras na mi i'w gadw yn ostyngedig, ac i fod yn ffyddlawn i'r Arglwydd. Y mae yn fwy ei ddawn a'i awdurdod, ac y mae ei lwyddiant wedi bod yn fwy. A'm holl galon dymunwn ar i'w lwyddiant barhau, ac iddo gael oes hir, a nefoedd yn y diwedd." Hyfryd meddwl fel yr oedd y ddau hen gyfaill, ar ol ymranu am yspaid, wedi dyfod i ddeall eu gilydd, ac fel yr oedd calon y naill wedi ymglymu drachefn am y llall. Testun Rowland ydoedd: "Edrychwch na byddo yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, yn ymado â Duw byw." Cafodd odfa hynod; a gweddïai Harris am iddo gael yr eneiniad yn helaeth yn barhaus. Wedi y bregeth yr oedd y sacrament. "Daeth yr Arglwydd ataf," meddai Harris, "gan ddwyn tystiolaeth i'w gorph a'i waed sanctaidd.'

Tranoeth, sef Chwefror 14, 1770, yr oedd Cymdeithasfa Chwarterol yn Abergwaun. Nid yw yn ymddangos fod Harris yn bwriadu myned yno; ond ar gais unfrydol cyfeillion Sir Benfro efe a aeth. Nid aeth ar ei union i'r cyfarfod neillduol, eithr dywedodd yr elai os gelwid am dano. Yn fuan daeth y gwahoddiad iddo. Y mater tan sylw pan aeth i mewn oedd cynygiad i osod William Davies, Castellnedd, yn arolygwr ar y seiadau yn Sir Benfro, yn lle Howell Davies. Erfyniodd Harris arnynt ymbwyllo, a'i glywed yn gyntaf, a mynu deall a oedd yr Yspryd Glân wedi ei gymhwyso i fod yn dad. Siarsodd hwy hefyd i gymuno hyd y gallent yn eglwys eu plwyf. Yna rhoddwyd gerbron ddymuniad Harris, ar i'r Gymdeithasfa Chwarterol ganlynol gael ei chynal yn Nhrefecca. Gwrthwynebai John Evans, y Bala, yr hwn a ofynai am dani i'r dref hono. Atebai Harris, mai dyma y cais cyntaf a wnaethai atynt er ys ugain mlynedd, ac na fyddent yn dangos llawer o gariad drwy wrthod. Dywedai John Evans yn ol fod

Harris yn gosod ffafr bersonol iddo ef o flaen daioni y Gogledd. Sut y penderfynwyd y mater ni ddywedir, ond ymddengys mai John Evans a enillodd. Am un-ar-ddeg, gweddïodd Mr. Gray, a phregethodd Mr. Rowland oddiar y geiriau: "Gosod fi fel sêl ar dy galon." Byr iawn y bu, ac nid aeth yn dori allan o dano. Ar ei ol pregethodd Howell Harris. Ni ddywed beth oedd ei destun, ond cafodd nerth dirfawr.

Wedi trefnu ei daith yn Abergwaun, aeth Harris i Bontfaen; yna ymwelodd ag Eglwyswrw, lle yr ymadawodd â John Harry a Thomas Davies; Capel Newydd, Machendref, Caerfyrddin, Llanddarog, Llandilo Fawr, a Llanymddyfri, a chyrhaeddodd Drefecca, Chwefror 24. Yn mis Mai, yn yr un flwyddyn, yr ydym yn ei gael ar daith yn Sir Benfro, ac yn ymweled a'r un lleoedd. Yn Mehefin y mae yn ymweled ag amryw o seiadau Sir Faesyfed, megys Claerwy, Caebach, Dolswydd, a Phenygorig. Yn Dolswydd bu yn hallt wrthynt, oblegyd eu bod yn taflu eu Cymraeg dros y bwrdd, a phriodolai hyny i falchder Lloegr. Yn Caebach, ger Llandrindod, daeth offeiriad ato ar derfyn y cyfarfod i ddiolch iddo am ei bregeth, gan ddymuno arno fyned trwy yr holl sir a'r athrawiaeth hono. Er na lwyddasai yn Abergwaun i gael y Gymdeithasfa i Drefecca, ac mai y Bala a enillodd, oblegyd mawr daerni John Evans, y mae Howell Harris, yn lle dal dig, yn cychwyn i Gymdeithasfa Llangeitho, Awst 20, gan deimlo mai hyny oedd ewyllys yr Arglwydd. Diau ei fod wedi cael ei wahodd gan Rowland. Ar y ffordd pregethodd yn Llanfair-muallt, Cribat, a Llanwrtyd, lle yr oedd capel erbyn hyn wedi ei adeiladu. Y nos cyn y Gymdeithasfa cyrhaeddodd Dregaron. Nid yw yn ymddangos iddo gymeryd testun yma, ond llefarodd ar ymbriodi â Christ. Aeth i Langeitho erbyn deuddeg dranoeth. Yr oedd rhai canoedd o bregethwyr a stiwardiaid yn y capel newydd. Ni ddywed ddim am yr ymdriniaeth yn y cyfarfod neillduol, ond yn yr odfa gyhoeddus, y prydnhawn cyntaf, pregethodd rhyw frawd o gymydogaeth Wrexham, na roddir ei enw, ar y geiriau: "Canys ni appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth, trwy ein Harglwydd Iesu Grist." Pregethodd am etholedigaeth, am farwolaeth ein Harglwydd yn boddloni cyfiawnder, ac am fod y pechadur yn cael myned yn rhydd, gan ddarfod i'n Hiachawdwr dalu yr oll a fedrai y ddeddf ofyn. Ymddengys ei bod yn odfa dda. Ar ei ol cyfododd Davies, Castellnedd, gan gymeryd yn destun: "Oblegyd Crist hefyd a ddyoddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw." Ymddangosai i Harris fod dawn y pregethwr hwn yn fwy, ei oleuni yn gryfach, a'i wybodaeth o'r Ysgrythyr yn fanylach na'r cyntaf, a bod mwy o arddeliad ar ei weinidogaeth. Torai mawl allan drachefn a thrachefn yn mysg y dyrfa, tra y bloeddiai cenad Duw fod Crist wedi cymeryd ein lle, ddarfod ein pechodau ni fyned yn eiddo iddo, a bod ei gyfiawnder ef wedi dyfod yn feddiant i ni. Yr oedd y dylanwad mor fawr fel braidd nad oedd Harris wedi ei syfrdanu. "Arosais mewn dystawrwydd,' meddai, "wrth feddwl fel yr oedd yr Arglwydd yn eu harddel; gwelwn mai dyma lle y mae Jerusalem, a bod yma ryw fywyd, a nerth, a gogoniant rhyfedd, a'i fod yn ymledu yn mhell ac yn agos." Cafodd Harris y lle mwyaf anrhydeddus, sef deg o'r gloch yr ail ddiwrnod. Ni ddywed beth oedd ei destun, ond yr oedd Duw gydag ef. Dychwelodd y noswaith hono i Dregaron, a phregethodd i dorf fawr. Tranoeth aeth ar ei union dros y mynyddoedd i Drefecca. Dyma y tro olaf iddo i ymweled â Llangeitho; yn wir, dyma ei daith ddiweddaf allan o Drefecca.

Gyda ei fod yn dychwelyd yr oedd ail gylchwyl sefydliad coleg Iarlles Huntington, yn Nhrefecca, yn dechreu. Y mae yr adroddiad a roddir yn *Life and Times of Selina, Countess of Huntington*, am y rhai oedd yn bresenol, a'r sawl a gymerodd ran yn y cyfarfodydd, yn mhell o fod yn gyson a'r adroddiad a geir yn y dydd-lyfr; a'r tebygolrwydd yw mai y dydd-lyfr sydd yn gywir. Dechreuwyd y cyfarfodydd gyda gweinyddiad o'r cymundeb yn nghapel y coleg, am wyth yn y boreu; cyfarfyddwyd a'r Arglwydd yn y cyfarfod hwn. Yn y prydnawn pregethai Mr. Fletcher, llywydd yr athrofa, ar ddirgelwch Crist. Ar ei ol cyfododd Peter Williams, gan lefaru yn Gymraeg ac yn Saesneg; ei bwnc oedd gwagedd y byd; a phan y dechreuodd son am ogoniant yr Iesu, a bod nefoedd yn ei gariad, aeth yn gyffro mawr yn mysg y bobl, ac yr oedd y lle yn llawn bywyd a gogoniant. Y noswaith hono cynaliwyd cariad-wledd. Tranoeth, pregethodd Harris, ar Daniel yn galaru am anwiredd y bobl; a chofnoda fod y Parch. J. Walters, yr

offeiriad, awdwr y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg, yn bresenol. Y noswaith hono pregethodd Mr. Walters bregeth bwysig. Yn ychwanegol, cawn fod Simon Llwyd, o'r Bala, yn bresenol, yn nghyd ag un Mr. Hammer, yr hwn hefyd a gymerodd ran yn y gwaith cyhoeddus. Daethai yno hefyd lu o ddyeithriaid, a dywed Harris fod ugain o welyau yn llawn yn ei dŷ ef.

Eithr yr oedd ystorm ar dori uwchben athrofa yr Iarlles yn Nhrefecca. Ddechreu mis Awst, tua phythefnos cyn cylchwyl y coleg yn Nhrefecca, cyfarfu cynhadledd y Wesleyaid yn Llundain. Yno, datganodd John Wesley eu bod fel corph o bobl wedi tueddu yn ormodol at Galfiniaeth, a rhoddodd fynegiant i syniadau llawer mwy Arminaidd. Yn mysg pethau eraill, dywedodd y dylai y Wesleyaid gael eu dysgu i ymdrechu am, ac i ddysgwyl sancteiddhad, nid yn raddol, trwy fywyd o ymdrech, ond yn uniongyrchol. Pan ddaeth cofnodau y gynhadledd i law yr Iarlles, ymofidiodd ei henaid ynddi; nis gallai ymatal rhag tywallt dagrau yn lli, a theimlai fod agendor nas gellid ei chroesi wedi cael ei hagor rhyngddi a chanlynwyr John Wesley. Yr oedd wedi llawn fwriadu ei gymeryd gyda hi i Drefecca y flwyddyn hon eto; ond yn awr, nis gallai feddwl am hyny. Gan fod Benson, yr athraw clasurol yn yr athrofa, yn Wesleyad zêlog, rhoddwyd rhybudd iddo ymadael, yr hyn a wnaeth yntau ddiwedd y flwyddyn. Gan ddarfod i'r Iarlles ddatgan ar gyhoedd na chelai yr un Armin fod mewn cysylltiad a'r coleg, taflodd Fletcher ei swydd fel llywydd i fynu. Rhaid ddarfod i'r helynt gynyrchu cryn ferw yn y coleg; ac, fel yr oedd yn naturiol, rhedai cydymdeimlad y myfyrwyr yn gryf gyda'r Iarlles, bara yr hon y fwytaent. Aeth rhai o honynt hwy i'r eithafion cyferbyniol, gan bregethu Uchel Galfiniaeth, os nad rhywbeth yn ffinio ar Antinomiaeth. Modd bynag, er fod Harris yn Galfin cryf, credai fod yr Iarlles yn gweithredu yn rhy fyrbwyll, a theimlai yn ddirfawr dros Benson. Yr oedd i John Wesley le cynhes yn ei fynwes; a chan fod ei gyfaill yn glynu yn sefydlog wrth yr athrawiaeth efengylaidd am gyfiawnhad trwy ffydd, nid oedd Harris am ei gondemnio am ei olygiadau eraill. Ac oblegyd hyn, bu rhyw gymaint o oerfelgarwch rhwng Harris a'r Iarlles am dymhor. Ymddengys mai y Parch. Mr. Shirley a gymerodd le Benson am ryw gymaint o amser.

Treuliai yr Iarlles lawer o'i hamser y pryd hwn yn Nhrefecca, ac mewn canlyniad ymwelai llawer o bregethwyr Cymreig a'r lle. Ddechreu Medi, daeth Daniel Rowland yno, a phregethodd yn y coleg oddiar y geiriau: "Oblegyd rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." Dywed Harris iddo gael llawer o oleuni, a bod y gynulleidfa yn anferth. "Tra y pregethai Rowland," meddai, "fy yspryd a'i carai; teimlwn ei fod yn asgwrn o'm hasgwrn, ac yn gnawd o'm cnawd." Yr un wythnos, daeth un Mr. Owen, o Meidrim, yno, a phregethodd yn rhagorol iawn, yn Gymraeg ac yn Saesneg, oddiar: "Rhosyn Saron, a lili y dyffrynoedd, ydwyf fi." Ar y dydd olaf, cawn Peter Williams, a Williams, Pantycelyn, yn Nhrefecca. Pregethodd y cyntaf yn nghapel y coleg, ar, "Myfi yw y ffordd;" ar ei ol, pregethodd Williams, ar, y tŷ ar y graig. Dranoeth, pregethai Peter Williams drachefn, ar, yr Arglwydd yn gwneyd cyfamod newydd â thŷ Israel; dangosai fod y cyfamod yn ddiamodol, fod y galon newydd yn rhan o hono, a safai yn gryf dros barhad mewn gras. Yr oedd y dylanwad yn fawr; y fath oedd ei allu a'i ddoniau, fel y teimlai Harris gywilydd agor ei enau. Cofnodir yn y dydd-lyfr am Hydref 22: "Heddyw, o gwmpas pedwar, daeth Edmund Jones yma, yn y cerbyd a anfonaswn i'w gyrchu; am chwech, pregethodd i'r efrydwyr, ar, yr hwrdd a ddaliesid yn rhwym mewn dyrysni." Hoff gweled rhai, a fuasent unwaith yn methu deall eu gilydd, yn dyfod yn gyfeillion drachefn. Arosodd Edmund Jones yn Nhrefecca rai dyddiau, a phregethodd drachefn ar: "Nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig."

Ar y 10fed o Dachwedd, clywodd am farwolaeth Mr. Whitefield yn America, ac yr oedd ei alar ef, a'r Iarlles, ar ol y gwas enwog hwn i Grist, yn fawr. Er fod rhyw gymaint o bellder wedi myned rhwng Harris ac yntau, yr oedd y ddau yn gyfeillion calon yn y gwraidd, a theimlai Harris, pan y daeth y newydd am ei angau, ergyd cyffelyb i'r un a gafodd pan y collodd ei briod. Ar gais yr Iarlles, pregethodd ar ei farwolaeth y noswaith hono. "Dangosais," meddai, "fod colofn wedi cael ei symud; fy mod wedi bod yn gydnabyddus ag ef am ddeuddeg-mlynedd-ar-hugain; cyfeiriais at y lle mawr a lanwai, y gwagle dirfawr oedd ar ei ol yn y tair teyrnas, a'r fath nifer sydd yn galaru o herwydd ei golli, ac y byddai

dros fil o eneidiau yn y dydd hwnw yn ei gydnabod fel eu tad. Dygais ar gof ei zêl, ei ddiwydrwydd, ei ffyddlondeb, a'i wroldeb yn cario y gwirionedd am rad ras yn mhell ac yn agos. Yr oeddwn yn daer am i'w fantell syrthio ar y rhai sydd yn ol, a dangosais fawredd gras Duw yn ei gynal yn nghanol y fath glod a phoblogrwydd." Y mae yn ddiau fod y pregethwr tan deimladau dwysion, ac anhawdd meddwl nad oedd y dagrau yn llifo dros ruddiau ei wrandawyr.

Y mae y dydd-lyfr am ran o'r flwyddyn 1771 ar goll; ond y mae yn mron yn sicr nad aeth Howell Harris o cartref i bregethu yn ei hystod, nac yn wir hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd llesgedd wedi ei orddiwes, a'i gyfansoddiad, er cadarned ydoedd, yn prysur dori i fynu. Y syndod ydyw, pan feddylir am fawredd ei lafur, iddo barhau cyhyd. Dywed iddo orphen yr adeilad yn Nhrefecca yr haf hwn; a thybiai fod hyny yn arwyddo ei fod ar orphen ei waith. Ar yr un pryd, pregethai yn ddyddiol, os nad yn amlach na hyny, i'r teulu yn Nhrefecca; ac yn fynychaf, anerchai yr efrydwyr yn y coleg. Gofalai, hefyd, am achosion tymhorol y tŷ yn Nhrefecca, er fod ganddo gynorthwywyr ffyddlon yn Evan Moses ac Evan Roberts. Yn mis Awst, cynhelid cyfarfod blynyddol yr athrofa fel arfer; ond nid oedd Daniel Rowland, na Williams, Pantycelyn, yn mysg yr ymwelwyr. Y rhai y cawn eu henwau ydynt, John Harry, a Benjamin Thomas, a phregethodd y cyntaf ar y geiriau: "Crea galon lan ynof, O Dduw." Terfyna y dydd-lyfr yn Chwefror, 1772, ac am ei hanes o hyny allan, rhaid i ni ddibynu ar dystiolaeth aelodau y teulu a gasglodd o gwmpas.

Efallai mai dyma y lle mwyaf priodol i holi parthed maint y niwed a gafodd crefydd Cymru, ac yn arbenig Methodistiaeth Cymru, trwy yr ymraniad gofidus a gymerodd le rhwng Harris a'i frodyr. Sicr yw fod y niwed yn fawr iawn. Nid colli gwasanaeth y Diwygiwr ei hun, a throi yr yni a arferai redeg tros holl Gymru i gylch cyfyng sefydliad teuluaidd yn Nhrefecca, oedd y peth mwyaf. Yr ydym yn addef fod y golled hon yn fawr; ond dylid cofio fod Howell Harris yn barod, trwy ei lafur blaenorol, wedi gwanychu ei gyfansoddiad yn ddirfawr, ac nas gallasai barhau yn hir i deithio gyda yr un ymroddiad ag y gwnaethai. Y niwed pwysig a effeithiodd yr ymraniad oedd y dylanwad difaol a gafodd ar y seiadau, llawer o ba rai oeddynt newydd eu sefydlu, ac yn gyfansoddedig o grefyddwyr cymharol ieuainc. Pan feddylir fod pregethwyr Harris yn cyniwair trwy holl Gymru, gan gyhoeddi yn groch fod yr offeiriaid wedi colli Duw; ac yna, fod y pregethwyr a ganlynent Rowland yn dilyn ar eu hol, gan alw Harris yn Sabeliad, yn Batripasiad, a llawer o enwau eraill, rhaid fod y seiadau yn cael eu syfrdanu, a bod y rhai a'u mynychent yn y benbleth fwyaf. Chwalwyd llawer o honynt mewn canlyniad, ac ni ail-sefydlwyd rhai byth. Yn arbenig, pan yr ymneillduodd Harris i Drefecca, ceisiodd rhai o'i ddilynwyr osod i fynu fân bleidiau, gyda hwy eu hunain yn ben arnynt. Yn mysg y rhai hyn, gallwn gyfeirio yn neillduol at Thomas Meredith, a Thomas Seen, y cyntaf o gymydogaeth Llanfair-muallt, a'r ail o Sir Drefaldwyn, y rhai oeddynt ill dau yn bresenol yn Nghymdeithasfaoedd cyntaf Harris, ond yn raddol a aethant i bregethu rhyw gymysgedd o Antinomiaeth a Sandemaniaeth, nas gwyddai neb beth ydoedd. Bu i'r naill a'r llall nifer o ganlynwyr am ychydig, eithr buan y darfuant.

Ni theimlodd Gwynedd lawn cymaint oddiwrth yr ystorm, am eu bod yn mhellach oddiwrth ganolbwynt yr ymdrech, er, hefyd, i'r corwynt difaol gyrhaedd yno. Yn y Dê, Sir Aberteifi a deimlodd leiaf; yma yr oedd dylanwad Rowland yn orchfygol; a seiat yr Hen Fynachlog, ger Pontrhydfendigaid, yw yr unig un y darllenwn am dani ei bod yn gwahodd plaid Harris. Nid cymaint, ychwaith, a fu y niwed yn Sir Gaerfyrddin, am fod Williams, Pantycelyn, yn y pen uchaf, a Rowland, trwy ei bregethu misol yn ngapel Abergorlech, yn y rhan isaf, yn meddu cryn ddylanwad ar y seiadau. Bu y rhwyg yn fwy yn Sir Benfro. Yr oedd Howell Davies yn cael edrych i fynu ato fel tad gan ganoedd; ond yr oedd John Sparks, a John Harris, St. Kennox, yn fawr eu dylanwad, ac yn pleidio Howell Harris yn gryf, a phan y darfu i'r Diwygiwr ymneillduo i Drefecca, aethant hwy drosodd at y Morafiaid. Rhaid iddynt hwy ddylanwadu ar gryn nifer. Diau i seiadau Sir Forganwg gael eu hysgwyd yn enbyd, ac i rai o honynt ddiflanu. Ar ol hyn, nid ydym yn darllen am seiadau Gelligaer, Llysfaen, y Cymmer, Dolygaer, ac eraill. Am Sir Fynwy, chwalwyd y nifer amlaf o'r seiadau a

gynwysai ; ac o'r oll a sefydlwyd gan Howell Harris, yr unig un sydd wedi glynu wrth Fethodistiaeth yw seiat y Goetre, ger Pontypŵl. Am yr eglwysi eraill a fedd y Cyfundeb yn Mynwy, ffrwyth llafur diweddarach ydynt. Gwir i'r New Inn, a Mynyddislwyn, barhau am rai degau o flynyddoedd i ystyried eu hunain yn Fethodistaidd ; ond gan eu bod mor bell o ganolbwynt y diwygiad, ac na chododd yr un pregethwr o ddylanwad pwysig ynddynt, darfu iddynt yn raddol ymgyfathrachu a'r Annibynwyr, a chollwyd hwy i'r Cyfundeb. Ond yn Sir Faesyfed y bu y canlyniadau fwyaf alaethus. Collwyd yr holl seiadau perthynol iddi. Gellir rhoddi amryw resymau am hyn. Yn un peth, ni adeiladasid capelau yma ; yr unig un y cawn hanes am dano yn y sir yw capel Maesgwyn ; cyfarfyddai y seiadau mewn tai anedd, ac felly yr oeddynt yn fwy hawdd eu chwalu. Peth arall, o gwmpas adeg yr ymraniad, daeth yr iaith Saesneg fel diluw dros y sir ; ac nid yw yn ymddangos fod gan y Methodistiaid bregethwyr Saesneg i ymweled a'r cynulleidfaoedd gyda chysondeb ; felly, aeth llawer o'r dychweledigion i'r Eglwys Sefydledig, ac ymunodd eraill a'r Annibynwyr, a'r Bedyddwyr. Ac yn ddiweddaf, aeth amryw o'r crefyddwyr mwyaf blaenllaw i Drefecca, gan ymuno a'r teulu yno ; felly, yr oedd y rhai a weddillasid yn amddifad o arweinwyr, ac heb ddynion profiadol yn eu mysg i fod yn fywyd ac yn nerth. Rhwng y cwbl, collwyd Maesyfed yn gwbl i Fethodistiaeth. Ymddengys fod y seiadau wedi diflanu, gan mwyaf, yn ystod bywyd Howell Harris ; yr unig rai y cawn ef yn ymweled â hwy wedi ei ymheddychiad a'r Methodistiaid yw Penybont, Claerwy, a Llandrindod. Os oedd rhagor yn haner dadfyw, ac os cawsant ryw gymaint o adnewyddiad trwy sefydliad coleg yr Iarlles Huntington yn Nhrefecca, am y caent yno rai â fedrent eu hanerch yn yr iaith Saesneg, diflanasant yn llwyr pan y symudwyd y coleg hwnw o Drefecca i Cheshunt. Ffrwyth ymdrechion cenhadol cymharol ddiweddar yw yr eglwysi Methodistaidd a geir yn Sir Faesyfed yn bresenol. Eithr ni ddylid tybio i'r dychweledigion oll, nac yn wir y nifer amlaf o honynt, gael eu colli i grefydd. Ymunodd canoedd o honynt ag enwadau eraill. Diau fod rhai degau o eglwysi cymharol gryfion, perthynol i'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr, i'w cael yn Siroedd Morganwg, Mynwy, a Maesyfed, ag y gellir olrhain eu sefydliad i lafur Howell Harris, neu i eiddo rhai o'r Diwygwyr Methodistaidd eraill.

Trwy ystod y flwyddyn 1772, gwaelu a wnaeth iechyd Howell Harris, ac yr oedd ei babell yn prysur ymddatod. Hyd y medrodd, elai i goleg yr Iarlles i anerch y myfyrwyr. Ond yn fuan aeth hyn yn ormod o dasg iddo. "Y tro diweddaf y pregethodd yno," meddai yr Iarlles, "yr oedd yno dorf liosog, fel arfer, ac yr oedd ei weinidogaeth yntau mor gyrhaeddgar a chyffrous ag erioed. Llefarodd gyda theimlad dwfn am Dduw, a thragywyddoldeb, ac am anfarwoldeb a gwerthfawredd eneidiau ei wrandawyr ; am eu llygredigaeth wrth natur, perygl y sefyllfa o fod yn ddiailenedig, yr angenrheidrwydd anorfod am ailenedigaeth trwy yr Yspryd Glân, ac am gredu yn Nghrist mewn trefn i dderbyn pardwn. Llefarai fel oracl Duw, yn eglurhad yr Yspryd ac mewn nerth, a phan ddaeth at y cymhwysiad, cyfeiriodd at y gwrandawyr gyda y fath dynerwch, a'r fath ddifrifwch, gan anog pawb o honom i ddyfod i gydnabyddiaeth a'r anwyl Waredwr, fel y toddodd y gynulleidfa i ddagrau." Sicr yw ei bod yn odfa o'r fath fwyaf effeithiol.

Er methu myned allan o'r tŷ, ymlusgai i'r llawr i anerch y teulu lliosog a gasglasai yn Nhrefecca, yn mron hyd y diwedd. Gadawodd ei anerchiadau yr adegau yma argraff annileadwy ar feddyliau y rhai a'u clywent, a darfu iddynt, yn angherddoldeb eu serch ato, groniclo llawer o'i ddywediadau. Ni fedrwn ddifynu ond ychydig o honynt. "Yr wyf yn caru pawb sydd yn dyfod at y Gwaredwr," meddai un tro, "ac yn ymborthi ar ei gnawd a'i waed ef ; yr wyf yn teimlo mai efe, ac nid dim yma, yw fy ngorphwysfa a'm dedwyddwch. Yr wyf yn caru tragywyddoldeb am ei fod ef yno. Yr wyf yn llefaru wrtho, ac yn llefain arno. O, dywyllwch y cnawd hwn sydd yn ei guddio oddiwrthyf ! O, tydi, yr hwn a fuost yn gwaedu i farwolaeth, a'r hwn wyt yn awr yn fyw, tyred a dwg fi adref. Am y ffordd, mi a orchymynais hono i ti, i ofalu am danaf. Dy eiddo di ydwyf, yma a byth ; un o'th waredigion ydwyf, gwerth dy waed a'th chwys gwaedlyd ; a'th ewyllys di yw fy nefoedd." Yn y diwedd aeth yn gaeth i'w wely, ac ni fedrai ysgrifenu, eithr medrai glodfori yr Arglwydd. "Bendigedig fyddo Duw," meddai, "y mae fy ngwaith wedi ei orphen,

ac mi a wn fy mod yn myned at fy anwyl Dduw, a'm Tad, canys efe a gafodd fy nghalon, ïe, fy holl galon."

Ar yr 21ain o Orphenaf, 1773, pan yn y driugeinfed flwyddyn o'i oedran, ehedodd ei enaid pur at ei Dad a'i Dduw. Gwnaethpwyd galar mawr am dano, nid yn unig gan deulu Trefecca, ond trwy holl Gymru. Ymgasglodd miloedd i'r angladd. Cyfrifa yr Iarlles Huntington fod ugain mil wedi dyfod yn nghyd, ac yn eu mysg bymtheg o glerigwyr. Anerchwyd y dorf anferth oddiar dair o esgynloriau gwahanol, gan chwech clerigwr. Yr offeiriad a weinyddai wrth y bedd oedd y Parch. John Morgan, cuwrad Talgarth, â'r hwn yr oedd yr ymadawedig ar delerau o gyfeillgarwch agos er ys blynyddoedd. Camgymeriad yw y dybiaeth fod y Parch. Price Davies, y ficer, gwedi marw, a bod ei swydd wedi ei rhoddi i un o'r enw William Davies. Cafodd Price Davies oes hirfaith; bu fyw am beth amser gwedi marwolaeth y Diwygiwr o Drefecca, ond yr oedd yn rhy lesg i gymeryd rhan yn ngwasanaeth y claddu; ac yn wir nid yw yn ymddangos ei fod yn bresenol. Y mae traddodiad, cyffelyb i'r un am angladd Howell Davies, i John Morgan dori lawr wrth ddarllen ar lan y bedd, ac iddo estyn y llyfr i un arall, a darfod i hwnw, ac eraill i'w ganlyn, dagu gan ddagrau, ac mai yn nghanol ocheneidiau, a wylofain uchel, y rhoddwyd gweddillion marwol Howell Harris i orwedd yn y ddaear. Hawdd genym gredu hyn, oblegyd yr oedd yn cael ei anwylo y tuhwnt i neb ar y ddaear, gan ganoedd. Yn eglwys Talgarth, yn agos i fwrdd yr allor, y cafodd fedd.

Nid oedd casglu cyfoeth yn un amcan gan y Diwygiwr. Tra y bu yn trafaelu o gwmpas gwlad, ac yn ysgwyd Cymru a'i weinidogaeth, ychydig a dderbyniodd o ran rhoddi a derbyn, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun. Gydag anhawsder y gallai gadw ei ben uwchlaw'r dwfr mewn cysylltiad a'i amgylchiadau. Ond y rhan olaf o'i oes, trwy ei ddiwydrwydd, ac ymdrechion y bobl oedd wedi ymgasglu ato, a thrwy ei fawr fedr i drin amgylchiadau pan yr ymroddai at hyny, yr oedd y tŷ yn Nhrefecca, a rhyw gymaint o diroedd a thai o gwmpas, yn eiddo rhydd-ddaliadol iddo. Gadawodd y cwbl mewn ewyllys, nid i neb a berthynai iddo yn ol y cnawd, ond i'r Sefydliad, tan ofal ymddiriedolwyr. Un plentyn a feddai; i'r ferch hono disgynodd cyfoeth ei mam; a chyn ei farw ef yr ydoedd wedi priodi a meddyg yn Aberhonddu, ac uwchlaw angen; felly yr oedd at ei ryddid i wneyd a'i feddianau fel yr ewyllysiai. Wedi marw y Sylfaenydd, dyhoeni a wnaeth y teulu yn Nhrefecca; nid oedd neb wedi ei adael ar ol o gyffelyb feddwl i gario y gwaith yn mlaen; ac erbyn dechreu y ganrif hon yr oedd y Sefydliad wedi ymddirywio i fod yn siop fechan mewn gwlad. Tua'r flwyddyn 1840, cyflwynodd aelodau y teulu a weddillasid y cyfan i fynu i Gyfarfod Misol Brycheiniog, ar yr amod eu bod hwy i gael rhyw gymaint o flwydd-dal tra y byddent byw. Cyflwynodd y Cyfarfod Misol y cyfan i Gymdeithasfa y Deheudir; ac oddiar y flwyddyn 1842, y mae athrofa y Cyfundeb yn Neheudir Cymru yn cael ei chynal yno.

Cymeriad ardderchog oedd Howell Harris. Mewn ymroddiad i lafur, mewn beiddgarwch i wynebu rwystrau a pheryglon; ac mewn dibrisdod o gysuron corphorol, nid oes yr un o'r Tadau Methodistaidd a ddeil eu cymharu ag ef. Yr unig rai ag y gellir eu dwyn o'r tu fewn i gylch cymhariaeth yw Wesley a Whitefield yn Lloegr; ond pan feddylir am agwedd Cymru ar y pryd, pa mor anhygyrch oedd y ffyrdd, pa mor wael oedd yr ymborth a'r llety, a pha mor enbyd oedd llid y clerigwyr a'r werinos, y mae y glorian yn troi, ac yn troi yn drwm, o blaid y Diwygiwr o Drefecca. Braidd nad yw yn anmhosibl cyflwyno i drigolion yr oes hon unrhyw syniad am ei yni, a'i ymroddiad. Teithiai dros fynyddoedd geirwon, heb braidd lun o ffordd; delid ef yn fynych gan ystormydd enbyd ar ei hynt; byddai raid iddo yn aml fyned trwy ganol y nentydd chwyrn oeddent wedi gorlifo dros eu ceulanau, ac nid anfynych y byddai ei anifail ac yntau mewn perygl o gael eu cario i ffwrdd gan ruthr y llifeiriant; ac yn aml pregethai i dyrfaoedd mawrion yn wlyb hyd ei groen, a'i gylla yn wag. Nid oedd unrhyw rwystr a'i hataliai. Yr ydym yn darllen droiau am Rowland a'r lleill yn methu myned i Gymdeithasfa oblegyd afrywiogrwydd yr hin; ni chawn hyny am Howell Harris gymaint ag unwaith. Wedi teithio trwy afonydd, ac wedi bod yn y lluwchfeydd eira hyd ei ên, byddai yn pregethu fel cenad o dragywyddoldeb, a'i enaid yn fflamio o'i fewn. Efallai y treuliai y nos drachefn yn gorwedd ar gadeiriau o flaen y tân yn ei ddillad gwlybion, er mwyn cychwyn i'w daith dranoeth gyda glasiad y wawr. Nid

rhyfedd ei fod weithiau, rhwng cellwair a difrif, yn cyhuddo ei frodyr o ddiogi, ac o ormod gofal am gysuron corphorol. Efe oedd yr arloesydd yn Nghymru; ganddo ef y torwyd y garw. Nid bychan a fu llafur Rowland, Williams, a Howell Davies, ac nid ychydig a ddyoddefasant; ond ni ddeil eu teithiau a'u blinderau eu cymharu â'r eiddo ef.

Efe hefyd oedd y mwyaf amlochrog ei athrylith. Yn y pwlpud y dysgleiriai Rowland; yno, nid oedd neb a allai ddal cystadleuaeth ag ef. Mewn cadw seiat, ac yn arbenig mewn prydyddu a chyfansoddi emynau, y rhagorai Williams; yn y cylch hwn y mae heb ei gyffelyb. Ond am Howell Harris, rhagorai yn mhob peth yr ymgymerai ag ef. O ran nerth gwefreiddiol ei areithyddiaeth, ychydig yn is ydoedd na Rowland ei hun; ac fel duwinydd, yn arbenig mewn dirnadaeth ddofn o'r gwirionedd am berson Crist, er y graddau o gymysgedd oedd yn ei syniadau, credwn ei fod yn fwy na'i frodyr oll. Ac ni allai yr un o honynt ddal canwyll iddo fel trefnydd. Meddai grebwyll i roddi bod i gynllun; ac er y dylanwad oedd gan y cyfriniol arno, yr oedd ei gynlluniau braidd oll yn rhai ymarferol. Yn y cyfuniad o'r cyfriniol a'r ymarferol dygai fawr debygolrwydd i Oliver Cromwell. Harris, yn ddiau, yw tad ffurf-lywodraeth eglwysig y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru; ei saerniaeth ef yn benaf yw y trefniadau presenol gyda golwg ar Gymdeithasfaoedd, a Chyfarfodydd Misol. A phe y cawsai aros dros ei oes mewn cysylltiad â'r Methodistiaid, fel arolygydd cyffredinol, y mae yn sicr y buasai y trefniant yn fwy pendant a manwl, gyda mwy o awdurdod yn y Gymdeithasfa fel canolbwynt. Ai mantais ynte anfantais i'r Cyfundeb a fuasai hyn yn y pen draw, ni chymerwn arnom benderfynu. Ond yr oedd ochrau eraill eto i athrylith y Diwygiwr. Rhaid fod yr hwn a fedrai nid yn unig lywodraethu teulu o chwech ugain o ddynion, o bob math o dymheredd, ac wedi eu casglu yn nghyd o bob rhan o'r wlad, ond hefyd a fedrai ddarpar tuag at eu cynhaliaeth, trwy gynllunio gwahanol fathau o ddiwydrwydd ar eu cyfer, yn meddu nerth meddyliol o'r radd flaenaf, hyd yn nod pe na byddai ganddo unrhyw orchwyl arall i'w gyflawni. Er rhoddi gwaith i'r rhai oedd dan ei gronglwyd, a chyfarfod a'u hanghenion, cawn Harris yn ymgymeryd a bron bob math ar waith. Amaethai dir, lluniai ffyrdd; yr oedd ganddo weithfaoedd gwlan a choed; mewn gair, prin yr oedd dim y tu allan i gylch ei athrylith. Ychwaneger at hyn oll mai efe, am flynyddoedd, a fu bywyd Cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog, a darfod iddo brofi ei hun yn swyddog milwraidd effeithiol; a bydd yn rhaid cydnabod ei fod yn un o'r dynion mwyaf amlochrog ei feddwl a welodd y byd.

Nid oedd heb ei ffaeleddau, ac y mae y rhai hyny, fel yn gyffredin mewn dynion o deimladau cryfion, ar y wyneb, ac yn hawdd eu canfod. A gellir dweyd am danynt oll eu bod yn gogwyddo i gyfeiriad rhinwedd. Os oedd yn boeth ei dymher, ac yn tueddu at dra-awdurdod, cyfodai hyn oddiar ddyfnder ei argyhoeddiadau, a'i fawr zêl dros yr hyn a ystyriai yn wirionedd. Yr oedd mor agored a'r dydd, ac yn gwbl rydd oddiwrth bob math o ystryw. Oblegyd hyn syrthiai weithiau i'r rhwyd a daenid iddo gan ddynion dieg-wyddor. Nis gwyddom ychwaith i ba raddau yr oedd gwendid corph, yn cyfodi oddiar or-lafur, yn gyfrifol am gyffröadau ei nwyd. Eithr yn nglyn â hyn meddai lonaid calon o serchawgrwydd; medrai garu yn angerddol; ac yr oedd ei afael yn ei gyfeillion yn ddiollwng fel y bedd. Os caffai ei dramgwyddo, byddai gair caredig oddiwrth yr hwn a roddasai y tramgwydd iddo yn ddigon i'w ddwyn i'w le ar unwaith. Rhaid ei ddal ef yn benaf yn gyfrifol am yr ymraniad. Aethai i ryw ystad meddwl ar y pryd fel na dderbyniai na chynghor na cherydd; edrychai ar ei wrthwynebu ef fel yr un peth a gwrthwynebu Duw. Y mae yn anhawdd cyfrif am yr ystad meddwl hwn, ond ar y tir fod rhyw fath o orphwylledd wedi dyfod drosto. Ar yr un pryd, credwn y dylasai ei frodyr ddangos mwy o dynerwch tuag ato, a chymeryd i ystyriaeth ei lafur a'i ymroddiad. Eithr pan y gwnaeth y Methodistiaid estyn llaw tuag at gymod, estynodd yntau ei law i'w cyfarfod ar unwaith. A llawenydd digymysg i ni oedd darganfod, trwy gyfrwng ei ddydd-lyfr, fod deng mlynedd olaf ei fywyd yn llawer dysgleiriach nag yr oedd neb wedi breuddwydio, a'i fod wedi eu treulio mewn undeb agos a'i frodyr gynt. Daethai ef a Daniel Rowland i ddeall eu gilydd yn drwyadl, ac wedi iddynt ymheddychu, ni chyfododd cwmwl cymaint a chledr llaw gŵr rhyngddynt tra y buont fyw. Yn ystod y blynyddoedd hyn, ac hyd ei fedd, yr oedd Howell Harris yn un o'r Methodistiaid

mewn pob peth ond enw. Teithiai yn eu mysg, pregethai yn eu capelau, ymwelai a'u Cyfarfodydd Misol ac a'u Cymdeithasfaoedd, a chaffai ganddynt y lle mwyaf anrhydeddus a fedrent roddi iddo. Teg cadw mewn cof mai taith i Gymdeithasfa Llangeitho oedd y diweddaf a gymerodd cyn cael ei gyfyngu gan lesgedd i Drefecca; a darfod i'r hyn a welodd ac a glywodd yno sirioli ei yspryd i'r fath raddau, fel y datganai ei argyhoeddiad fod Duw yn amlwg yn y lle, ac mai dyna Jerusalem Cymru. Aeth yn ei ol, tros y mynyddoedd, i Drefecca, fel un wedi cael ysglyfaeth lawer; ac er na fedrodd deithio o gwmpas mwy, deuai Rowland, a Williams, a Peter Williams, i ymweled ag ef yn fynych.

Bu Howell Harris farw yn ddyn cymharol ieuanc; nid oedd yn llawn triugain oed pan y galwyd ef oddiwrth ei waith at ei wobr. Ond yn ystod yr adeg fer hon gwnaeth waith anhygoel, gwaith y bydd cofio am dano gwedi i amser ddarfod. A bu fyw yn ddigon hir i weled chwildroad moesol a chymdeithasol wedi cymeryd lle yn Nghymru. Os ar ei darawiad allan yr edrychai y byd arno gyda chilwg, gan ei ystyried yn freuddwydiwr llawn penboethni, cyn ei farw amgylchynid ef ag anrhydedd, ac heddyw edrychir arno fel un o brif gedyrn Cymru. Nid oes seren ddysgleiriach nag efe yn llewyrchu yn ffurfafen hanesyddiaeth ein gwlad. Pa bryd bynag y cawn fel cenedl ein bendithio â hanes a fyddo i ryw raddau yn deilwng o honom, yn yr hanes hwnw rhaid i Howell Harris, y teithiwr diorphwys, yr arloesydd beiddgar, y pregethwr hyawdl, y seraph tanllyd, a'r gwladgarwr pur, gael lle amlwg. Yr ydym yn teimlo anhawsder i ffarwelio ag ef, gan fel y mae ei swyn yn enill arnom. Y mae Williams, Pantycelyn, yn y farwnad ardderchog a gyfansoddodd iddo, wedi arddangos ei gymeriad a'i nodweddion mor oleu, fel yr ydym yn rhwym o ddifynu ychwaneg o'r penillion:—

Mae'n cryfhau y breichiau gweinion,
  Ac yn dala'r llesg i'r lan;
Yn ei athrawiaeth y mae ymborth,
  Bwyd i'r ofnus, bwyd i'r gwan;
Geiriau dwys, sylweddol, gloew,
  Wedi eu tempru yn y tân,
Lamp i arwain pererinion
  Trwy'r anialwch mawr ymlaen.

Y mae'r iachawdwriaeth rasol
  Yn cael ei rhoddi i maes ar led,
Ag sy'n cymhell mil i'w charu,
  Ac i roddi ynddi eu cred;
Haeddiant Iesu yw ei araeth,
  Cysur enaid a'i iachad,
Ac euogrwydd dua pechod
  Wedi ei ganu yn y gwaed.

Byth na chofier am ei bechod,
  Na 'sgrifener dim o'i fai,
Blotiwyd llyfrau'r nef yn hollol,
  Pa'm caiff rhagfarn dyn barhau?
Ni chaiff pen, nac inc, na thafod,
  'Rwy'n eu gwa'rdd o hyn i maes,
Sôn am ddim ond y Diwygiad
  Trwyddo lanwodd Gymru las.

'Nawr mae'n gorwedd yn y graian,
  Mewn lle tywyll, dystaw iawn,
Harris, gynt, a'i waedd ddihunodd
  Weinidogion lawer iawn;
Can's trwm gwsg oddiwrth yr Arglwydd
  Oedd fel diluw'n llanw'n lân,
Yn y dydd cyhoeddodd Howell
  I fod Nini'n myn'd ar dân.

Griffith Jones, pryd hyn, oedd ddeffro,
  Yn cyhoeddi efengyl gras,
Hyd cyrhaeddai'r swn o'r pwlpud,
  Neu, os rhaid, o'r fynwent las;
Ond am fod ei foreu'n dywyll,
  Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
Fe arswydodd fyn'd i'r meusydd,
  Ac i'r lleoedd nad oedd llan.

Yntau, Howell, heb arddodiad
  Dwylaw dynion o un rhyw,
Na chael cenad gan un esgob
  Ag sy'n llawer llai na Duw,
Fe gyhoeddodd yr efengyl,
  Anfeidroldeb dwyfol 'stôr,
O derfynau'r Hafren dawel
  Obry i'r gorllewin fôr.

Nid oes heddyw ond rhyw 'chydig,
  Duw o'r nef estyno eu hoes,
A ddihunodd yn y plygain,
  Pan yr oedd hi yn dywyll nos,
Ac a chwythodd a'u holl egni
  Yn yr udgorn gloew, las,
Nes dihuno eirth a llewod,
  A bwystfilod gwaetha'r maes.

* * * *

Os oedd eisiau ffrynd ffyddlonaf,
  Harris unig oedd efe,
Gwell na'r ceraint goreu anwyd
  Mewn un ardal is y ne';
Maddeu bai, a chadw cwnsel,
  Yspryd cydymdeimlo yn un,
A gwneyd holl ofidiau ei gyfaill,
  Megys ei ofidiau ei hun.


* * * * *

Cwsg i lawr yn Eglwys Talgarth,
  Lle nad oes na phoen na gwae,
Ti gai godi i'r lan i fywyd
  Sy'n dragywyddol yn parhau;
Gwell i ti gael gorphwys yna
  Blith dra phlith a'r pryfed mân,
Na chael mil o demtasiynau
  At y dengmil ge'st o'r blaen.

* * * * *

Ffarwel, Harris, darfu heddyw
  A chwenychu bod yn ben,
Ce'st ddyrchafiad mwy godidog,
  Canu yn y nefoedd wen;
Ac 'rym ninau yn dy ganlyn
  'Rhyd y grisiau yma lawr,
Ac nid oes ond rhyw fynydau
  Rhwng y gloch a tharo ei hawr."

*From an Engraving in the Gospel Ma*



Y PARCH. PETER WILLIAMS,

O GAERFYRDDIN.

*Ganwyd y 7fed Ionawr 1722. Bu farw Awst 8fed 1796.*

# PENOD XVIII

——:o:——

## PETER WILLIAMS.

*Ei enedigaeth a'i ddygiad i fynu—Ei fam yn ei fwriadu i'r weinidogaeth—Colli ei rieni yn foreu—Rhagluniaeth yn gofalu am yr amddifad—Peter Williams yn myned i athrofa Thomas Einion—Yn cael ei argyhoeddi trwy bregeth Whitefield—Cael ei urddo yn guwrad eglwys Gymmun—Colli ei le oblegyd ei Fethodistiaeth—Colli dwy guwradiaeth arall am yr un rheswm—Yn ymuno a'r Methodistiaid—Ei daith gyntaf i'r Gogledd—Cael ei erlid oblegyd yr efengyl yn y De a'r Gogledd—Cael lle amlwg yn fuan yn y Gymdeithasfa—Yn ymuno a phlaid Rowland adeg yr ymraniad—Ysgrythyroldeb ei bregethau—Dwyn allan y Beibl mawr, gyda sylwadau ar bob penod—Cyhoeddi y "Mynegair," yn nghyd a "Thrysorfa Gwybodaeth," sef y cylchgrawn Cymreig cyntaf—Anfoddlonrwydd i'w sylwadau gyda golwg ar y Drindod—Yr anfoddlonrwydd yn cynyddu oblegyd iddo newid rhai geiriau yn Meibl Canne—Dadleu brwd yn y Gymdeithasfa—Peter Williams yn cael ei ddiarddel gan y Methodistiaid—Yn gwneyd amryw geisiadau am ail brawf, ond yn glynu wrth ei olygiadau—Canlyniadau ei ddiarddeliad—Diwedd ei oes—Purdeb ei amcanion, a mawredd ei ddefnyddioldeb.*

NID oes yn Nghymru enw mwy adnabyddus, na mwy parchedig, nag eiddo Peter Williams, y pregethwr efengylaidd, a'r esboniwr duwiolfrydig. Efallai mai yn brin y gellir ei rifo yn mysg sylfeinwyr y Cyfundeb Methodistaidd; yr oedd tuag wyth mlynedd o'r diwygiad wedi pasio, ac amryw Gymdeithasfaoedd, chwarterol, a misol, wedi eu cynal, cyn iddo ef gael ei argyhoeddi. A bu am rai blynyddoedd drachefn cyn cael ei arwain gan Ragluniaeth i fwrw ei goelbren yn mysg y Methodistiaid. Ond, oblegyd dysgleirder ei dalentau, duwiolfrydedd ei yspryd, eangder ei wybodaeth, a llwyredd ei ymroddiad, ni bu fawr amser gwedi ymuno cyn cael ei gydnabod fel yn perthyn i'r rhestr flaenaf oll, ac edrychid arno fel un o'r arweinwyr. "Peter Williams, Caerfyrddin," ei gelwir ar lafar gwlad; eithr ymddengys mai am ychydig amser y bu yn drigianydd yn y dref hono, ac y rhaid deall "Caerfyrddin" fel yn dynodi y sir yn hytrach na'r dref.

Ganwyd ef Ionawr 7, 1722, yn agos i Lacharn, mewn amaethdy, o'r enw Morfa, yr hwn, fel yr awgryma yr enw, oedd yn ymyl y môr. Saesneg ydoedd, ac ydyw, yr iaith arferedig yn Lacharn; y rheswm am hyny, meddir, ydyw ddarfod i drefedigaeth o Saeson ymsefydlu yno rywbryd yn yr hen amser. Y mae yr iaith wedi glynu yno hyd heddyw, er mai Cymraeg a siaredir trwy yr holl wlad o gwmpas. Ac am y rheswm hwn, yr oedd Peter Williams, pan yn blentyn, yn fwy o Sais nag o Gymro. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus, yn dda arnynt o ran pethau y byd, ac yn hanu o deuluoedd anrhydeddus. Ei fam, yn arbenig, oedd yn ddynes dra chrefyddol. Arferai fyned ar y Suliau ar gefn ei cheffyl i Landdowror, i wrando yr offeiriad enwog, Griffith Jones, ac nid anfynych cymerai y plentyn, Peter, gyda hi. Er fod ganddi blant eraill, mab a merch, ymddengys mai am Peter yr oedd ei serchiadau wedi ymglymu yn benaf. Gwelai ynddo arwyddion annghamsyniol o dalent; parai ei feddwl bywiog, a'i gof cyflym, iddi ddysgwyl pethau mawr oddiwrtho; a phenderfynodd roddi iddo bob manteision addysg posibl. Ei dymuniad ydoedd ei gysegru i'r weinidogaeth, a diau iddi amlygu ei hawyddfryd i Peter ieuanc lawer gwaith wrth dramwyo rhwng Lacharn a Llanddowror, ac ar adegau eraill.

Eithr pan nad oedd Peter ond unmlwydd-ar-ddeg oed, bu farw ei fam yn ddisymwth mewn twymyn. Y flwyddyn ganlynol bu farw ei dad. A dyma y tri phlentyn amddifad yn cael eu gadael mewn oedran tyner i wynebu ar ystormydd bywyd. Ond, fel arfer, cyfryngodd Rhagluniaeth ar eu rhan, a dangosodd yr Arglwydd mewn modd annghamsyniol ei fod yn Dad yr amddifad. Rhyw fonedd-

iges o Fryste a gymerodd ofal y ferch; daeth ewythr o du y tad yn mlaen i ymgymeryd â gofal y mab ieuangaf; ac ewythr o du y fam a dderbyniodd Peter i'w dŷ. Ymddengys i'r ferch farw yn gynar. Am Dafydd, y bachgen ieuangaf, cafodd ysgol dda gan ei ewythr, ac yn nghymydogaeth Bryste y preswyliodd hyd ddydd ei farwolaeth. A ddarfu iddo briodi, a chael plant, ni wyddom. Cawsai Peter ei gadw yn yr ysgol tra y bu ei rieni byw, a gwnaethai gynydd mawr mewn dysgeidiaeth. Darfu i'r ewythr ganlyn ar yr un llwybr, gan ei osod mewn ysgol ar unwaith, a than addysg y bu hyd nes yr oedd yn un-mlwydd-ar-bymtheg oed. Yr oedd ei wanc am wybodaeth yn angerddol. Pan fyddai plant yr ysgol allan yn chwareu, myfyrio uwchben ei lyfrau a wnelai ef; nis gallai eistedd wrth y bwrdd i fwyta heb fod rhyw lyfr yn agored ger ei fron. Wedi iddo ddechreu ymgydnabyddu a'r ieithoedd Lladin a Groeg, daeth ei gynydd yn fwy amlwg, a'i ymroddiad yntau yn llwyrach. Ni chymerai seibiant adeg y gwyliau, fel y gwnelai y llanciau eraill, eithr parhäi i ddarllen a meddwl o ddifrif. Oddiwrth yr hyn a ddywed am dano ei hun, gallwn dybio ei fod yn yr oedran hwn o duedd feudwyol, yn ddibris o bob chwareuon, yn ddifater am gwmniaeth llanciau o gyffelyb oed, ac yn llwyr ymroddedig i'w efrydiau.

Yr oedd ei fuchedd yn foesol, braidd o'r dechreuad. Am hyn, yr oedd yn ddyledus mewn rhan i dueddfryd ei natur, ac hefyd mewn rhan i ofal a chynghorion ei fam. Mynega ddarfod iddo, yn ystod adeg ei blentyndod, glywed rhywrai yn tyngu ac yn rhegu, ac iddo yntau ddysgu eu hymadroddion; ond pan y clybu ei fam ef, hi a'i ceryddodd yn llym, ac ni bu yn euog o'r cyfryw bechod mwy. A chwedi iddi hi gael ei phriddo, glynai ei chynghorion yn ei feddwl, fel na fu gan rysedd afael arno o gwbl. Dywed i Dduw ei gynal yn nyddiau ei ieuenctyd, a blynyddoedd ei ynfydrwydd, fel na fu yn euog o bechodau rhyfygus, nac o unrhyw fai a ystyrir yn waradwyddus yn mysg dynion. Nid ydoedd ychwaith yn amddifad o argraffiadau crefyddol. Llenwid ei gydwybod yn fynych gan ofn marw, a dychryn y farn. Meddai: "Y cwestiwn mwyaf genyf ydoedd, Pa fodd yr ymddangoswn gerbron Duw? Pa fodd y dysgwyliaf am ollyngdod a maddeuant gan y Duw pur a sanctaidd hwnw, o wydd yr hwn, yn ei ymddangosiad, y diflana'r byd, a'r cwbl sydd ynddo?" Ceisiai gysuro ei hun nad ydoedd yn waeth na dynion eraill, a bod miloedd o bechaduriaid, cynddrwg ag yntau, rhai o'r cyfryw a adwaenai, wedi marw mewn gobaith o adgyfodiad i fywyd tragywyddol. Ond nid oedd yr esgusodion gwagsaw hyn yn foddlonol i'w gydwybod. Ffurfiasai yr arferiad o hunanymholiad; arferai droi ei olygon i mewn i ystafelloedd ei galon; a gwelai yno hadau pob llygredigaeth. Eithr, er hyn oll, nid adwaenai yr Arglwydd, ac ni wyddai nemawr am drefn yr efengyl i faddeu.

Pan yr oedd o gwmpas un-mlwydd-ar bymtheg oed, ceisiodd ei ewythr ganddo ddewis rhyw alwedigaeth. Teimlai yntau anhawsder dirfawr i wneyd; neu, yn hytrach, teimlai anhawsder i wneyd ei ddewisiad yn hysbys. Yn nirgelwch ei galon, yr oedd wedi rhoddi ei fryd ar fyned yn offeiriad. Fel y darfu i ni sylwi, cawsai yr awyddfryd hwn ei blanu ynddo gan ei fam. A thua blwyddyn cyn ei marwolaeth, cawsai Peter ieuanc freuddwyd hynod, yn yr hwn, yn mysg pethau eraill, y gwelsai ddau ŵr dyeithr, mor hardd eu gwedd ag angelion, yn dyfod ato, ac yn ymddiddan ag ef. Dehonglai y fam y freuddwyd fel prophwydoliaeth y byddai hi farw yn fuan, ond y deuai Iesu Grist i gymeryd ei lle, ac y gwnelai yr Iesu ei hoff blentyn yn weinidog enwog yn ei deyrnas. Sicr ydyw i'r breuddwyd a'r dehongliad adael argraff ddofn ar feddwl Peter, a thebygol fod a fynai hyn a thueddu ei feddwl yn awr at y weinidogaeth. Y mae mor sicr a hyny mai nid o herwydd ei fod wedi cael gras, ac nid o herwydd fod ei enaid yn llosgi ynddo gan awydd am achub eneidiau, y chwenychai y swydd. Yn ol ei syniad ef ei hun, yr ydoedd eto heb gael troedigaeth. Ond oblegyd yr argraff a dderbyniodd oddiwrth ei fam, yn nghyd a'i hoffder yntau o lyfrau, a gwybodaeth, nid oedd dim a'i boddlonai ond yr offeiriadaeth. Eithr teimlai anhawsder dirfawr i ddatgan ei awyddfryd i'w ewythr. Nid yw yn ymddangos mai ofn ei ewythr oedd arno, ychwaith; yn hytrach, yr hyn a ofnai oedd fod y draul yn ormod. Eithr dweyd a fu raid, a throdd pethau allan yn well na'i ofnau. Gwelai yr ewythr na wnelai ei nai amaethwr, ac felly yr oedd yn dda ganddo ei weled yn ymaflyd mewn rhywbeth mwy cydnaws a'i dueddiadau; a chafodd y llanc myfyrgar ei anfon i ysgol ramadegol

dda, a gedwid yn Nghaerfyrddin, gan un Thomas Einion. Yno y bu am dair blynedd, yn ymroddgar i'w efrydiau. Yn ystod yr amser hwn gwnaeth y fath gynydd mewn gwybodaeth o'r ieithoedd clasurol, fel, ar ei ymadawiad, yr oedd yn alluog i ysgrifenu llythyr o ddiolchgarwch i'w athraw yn yr iaith Ladin, yr hwn lythyr, fel y cawn weled eto, a fu yn foddion i ddwyn oddiamgylch ei ordeiniad.

Y mae genym bob sail i gredu ei fod, tra yn yr athrofa, yn foesol ei rodiad, ac yn foneddigaidd o ran ymddygiad; nid annhebyg yr edrychai ei athraw arno fel y penaf o'i efrydwyr. Ond nid oedd eto wedi cael ei ddwyn i gydnabyddiaeth â threfn yr iachawdwriaeth trwy Grist. Ar yr un pryd, yr oedd ei gydwybod yn anesmwyth o'i fewn; nid oedd dychrynfeydd y farn, a gorfod rhoddi cyfrif i Dduw, wedi ei adael; gwnelai lawer o addunedau, y rhai, yn ganlynol, a dorai. Eithr yn y flwyddyn 1743, yn mis Ebrill, cymerodd amgylchiad le, a newidiodd holl gyfeiriad ei fywyd, ac a'i gwnaeth yn ddyn newydd. Yr amgylchiad hwn oedd dyfodiad George Whitefield i dref Caerfyrddin i bregethu. Mawr oedd y son am dano cyn ei ddyfod. Yr oedd hyawdledd llifeiriol ei areithyddiaeth, yn nghyd a'r ffaith ei fod, ac yntau yn offeiriad, yn pregethu ar y maes agored, ac mewn lleoedd annghysegredig, yn cynyrchu dirfawr siarad; ond yr hynodrwydd mwyaf cysylltiedig ag ef oedd ei fod yn cyhoeddi y pechod gwreiddiol, yr angenrheidrwydd am ail-enedigaeth, ac am gyfiawnhad trwy ffydd heb weithredoedd. Heresi ronc y golygai y mwyafrif o glerigwyr Eglwys Loegr yr athrawiaethau hyn; felly hefyd yr ymddangosent i Mr. Thomas Einion, athraw yr ysgol ramadegol. Am un-ar-ddeg o'r gloch, arferai y meistr ollwng y plant allan; ond am y dosparth blaenaf, y rhai yr oedd eu llygad ar y weinidogaeth, arferai eu cadw yn ol am beth amser, er eu cyfarwyddo gyda golwg ar eu hefrydiau, a pha lyfrau y byddai mwyaf buddiol iddynt eu darllen. Ond y diwrnod y dysgwylid Mr. Whitefield, pwnc Mr. Einion oedd y pregethwr peryglus oedd i ymweled a'r dref, a rhybuddiai y dynion ieuainc yn ddifrifol ar iddynt beidio myned i'w wrando. Er gwaethaf y rhybudd, cydunodd pedwar o'r efrydwyr, un o ba rai oedd Peter Williams, yr aent i wrando yn ddirgelaidd, er cael gweled a chlywed drostynt eu hunain.

O gwmpas deuddeg o'r gloch, safodd Mr. Whitefield yn mhen heol Awst. Ei destun ydoedd, Esaiah liv. 5: "Canys dy briod yw yr hwn a'th wnaeth, Arglwydd y lluoedd yw ei enw, dy waredydd hefyd, Sanct Israel, Duw yr holl ddaear y gelwir ef." Dechreuodd trwy ddangos rhagoriaethau yr Arglwydd Iesu fel priod, ac anog y gynulleidfa i'w ddewis. "A oes rhywun," meddai, "am gael priod yn meddu doethineb? Crist ydyw hwnw. A oes rhywun yn dymuno priod cyfoethog; priod a dâl ei holl ddyled, fel y rhaid i ni bechaduriaid gael? Y cyfryw un yw yr Iesu; y mae yn berchen ar holl drysorau nefoedd a daear, y mae yn meddianu pob peth ag sydd yn meddiant y Tad tragywyddol. O fy nghyd-bechaduriaid tlodion, yr ydym oll yn ddyledwyr i gyfraith Duw; yr ydym mewn perygl bob awr o gael ein dal gan ei gyfiawnder, a chael ein tori i lawr yn ein pechodau, a chael ein rhan yn y lle hwnw nad oes obaith. Nid rhyfedd gan hyny i Ffelix grynu pan oedd Paul yn ymresymu am gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd. Er hyn i gyd, y mae dynion i'w cael a chanddynt feddyliau da am eu rhinweddau, a'u cyfiawnderau eu hunain; a haerant eu dieuogrwydd yn ngwyneb deddf ac efengyl. Pe y buasent ddieuog, yna bu Crist farw yn ofer, yr hyn sydd yn ynfydrwydd ac yn gabledd ei feddwl. Geill y goreu o honom ddweyd fel yr Apostol: 'Ynof fi, hyny yw yn fy nghnawd, nid oes dim da yn trigo.' Pe bai y goreu o honom yn cael ei alw i'r farn, a gwneuthur â ni yn ol ein haeddiant, fe'n bwrid i uffern yn dragywydd." Teimlai Peter Williams yn enbyd o dan y bregeth; ac eto, y mae lle i feddwl ei fod yn ceisio gwneyd noddfa o'i hunan-gyfiawnderau, gan lechu yn eu cysgod rhag y saethau ofnadwy a deflid oddiar fwa y pregethwr. Meddai ef ei hun: "Myfi a gefais fy nghlwyfo, ond nid fy nychwelyd; yr oeddwn fel yn teimlo blaen ei gleddyf, ond ni syrthiais i lawr." Eithr nid oedd Whitefield wedi gorphen eto, ac nid oedd Yspryd yr Arglwydd wedi darfod â Peter Williams. Y mae y pregethwr yn dyrchafu ei lais fel udgorn, a chyda bloedd ofnadwy o effeithiol, sydd yn cyrhaedd cyrau eithaf y dorf, dywed: "Fy mhobl anwyl! Mi a fum am flynyddoedd mor ddiwyd a gofalus a neb sydd yn bresenol. Bum yn gweddïo saith gwaith yn y dydd; yn ymprydio ddwy waith yn yr wythnos; yn myned i'r eglwys bob dydd, ac yn derbyn y cymun bob Sabbath; ac eto, yr holl amser hwnw,

nid oeddwn yn Gristion." Gyda yr ergyd hwn dyma noddfa hunan-gyfiawnder Peter Williams yn garnedd; nid oes ganddo loches mwy i ymguddio ynddi. Meddai: "Y geiriau uchod, yn cael eu llefaru gydag awdurdod, a aethant megys saeth at fy nghalon; cefais fy nharo yn y fath fodd, fel yr oeddwn yn crynu trwy bob aelod. Bellach, nid oeddwn yn debyg i mi fy hun; yr oeddwn fel y clai yn llaw y crochenydd." Y pwnc yr awyddai y llanc ei ddeall yn awr oedd, beth oedd bod yn Gristion. Ar y mater yma, ni adawodd y pregethwr ef mewn tywyllwch. "Bod yn Gristion," meddai, "yw derbyn Yspryd ond cafodd Peter Williams ei achub yn y cyfarfod. Wrth ymadael, canmolai ei gymdeithion y pregethwr; mawr edmygent ei hyawdledd, ei ddifrifwch, a'i ddoniau; "ychydig a wyddent," meddai Peter Williams, "am yr adeilad a gododd efe ynof, neu'r creadur newydd oedd wedi ei ffurfio o'm mewn, a hyn oll mewn yspaid awr." Nid yw yn ymddangos, er hyn, ei fod wedi meddianu rhyddid yr efengyl. Gweinidogaeth Sinai a lanwai ei yspryd; yn nganol y taranau a'r mellt y preswyliai; nid oedd Calfaria eto wedi dyfod i'r golwg yn amlwg, ac nid oedd y mellt wedi diffodd yn y gwaed. Meddai: "Angelion



LACHARN, SIR GAERFYRDDIN

[*Golygfa ar y Castell a'r Morfa*]

Crist. 'Od oes neb heb Yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.' Bod yn Gristion yw bod yn brofiadol o'ch trueni wrth natur; gweled eisiau Iachawdwr; credu fod y dyn Crist Iesu yn Fab Duw, ei fod wedi dyfod i'r byd i achub pechaduriaid, a'i fod yn alluog i gyflawni y gwaith y daeth ef i'r byd i'w wneuthur. Yn mhellach, bod yn Gristion yw adnabod llais Crist, codi ei groes, a'i ganlyn; bod yn un ag ef, yn asgwrn o'i asgwrn, ac yn gnawd o'i gnawd; aros ynddo; bod yn deml iddo; ymddiddan ag ef; adnabod ei ewyllys, a byw i'w glod."

Nis gallwn ddilyn y pregethwr yn hwy, yr uchelderau a ymwelasant â mi; amser fy niwygiad a ddaeth; a'm holl bechodau, mewn meddwl, gair, a gweithred, a ddaethant i'm cof, fel pe buasai llifddorau yn cael eu hagor, a'r llifeiriant yn myned droswyf, nes yr oedd fy enaid yn soddi mewn ofn a dychryn." Yr oedd pob peth wedi newid i'r llanc erbyn hyn. Aeth y llyfrau clasurol, gweithiau yr awdwyr paganaidd, Homer, Horace, Virgil, ac Ovid, yn ddiflas iddo; nis gallai osod ei feddwl arnynt o gwbl. Ceisiai gelu ystâd ei feddwl; ond deallai ei athraw yn dda fod pregeth Whitefield wedi dylanwadu arno; eithr ni ddywedodd air wrtho. Cefnodd ei gyfeill-

ion arno; ni chymerent arnynt ei weled ar yr heol. Cwynai eraill o'i blegyd, fod arwyddion unwaith y deuai yn ysgolhaig gwych, yn gystal a chyfaill dyddan; ond yn awr, ei fod wedi myned yn Fethodist. Meddai: "Câr a chyfaill a'm gadawsant." Ni wyddai am neb i adrodd ei dywydd wrtho, nac i ofyn gair o gyfarwyddyd, oddigerth un ddynes ieuanc, aelod o'r teulu yn mha un y lletyai; yr hon a gawsai ei hargyhoeddi dan yr un bregeth ag yntau. Pa hyd y bu cyn cael rhyddhad i'w enaid, a pha foddion a fendithiwyd i gymeryd ei faich i ffwrdd, sydd anhysbys; ond sicr ydyw i'r maglau gael eu tori, ac iddo yntau ddianc fel aderyn o law yr adarwr. Bellach, yr oedd Peter Williams yn ddyn newydd, a'r cwbl yn newydd iddo yntau. Cyn ei droedigaeth, yr ydoedd, mewn undeb â rhai o'i gyfeillion ieuainc, wedi gwneyd parotoadau i gynal cyfarfodydd llawen, a dawnsio, yn ystod gwyliau y Pasg a'r Sulgwyn; i'r pwrpas hwn, cyflogasent delynwr; ond bellach, nid oedd swyn iddo yn y cyfryw bethau. Nid ydym yn gwybod a gynhaliwyd y cyfarfodydd, ond y mae yn sicr nad aeth efe iddynt, os do. Ar yr un pryd, nid yw yn ymddangos iddo ymuno a'r seiat Fethodistaidd yn Nghaerfyrddin.

Yn fuan gwedi hyn gadawodd yr athrofa, ac aeth i gadw ysgol i Cynwil Elfed, plwyf gwledig tua phum' milltir o Gaerfyrddin. Nid yw yn ymddangos iddo geisio urddau esgobol yn uniongyrchol. Yr oedd arno eisiau hamdden i astudio duwinyddiaeth, a hwyrach fod ei argyhoeddiad wedi dyrysu ei feddwl am dymhor, fel nas gallai dori allan gynllun i'w fywyd. Bu yn dra ymdrechgar yn Nghynwil, nid yn unig fel ysgolfeistr, a chyda ei efrydiau, eithr i atal llygredigaethau, ac i ddwyn y trigolion i feddwl am grefydd. Yr oedd gwneyd rhywbeth dros yr Iesu wedi dyfod yn awyddfryd angherddol ynddo. Ail-gyneuodd yr awydd yn ei yspryd am ymgyflwyno i'r weinidogaeth; teimlai fel Paul, mai gwae ef oni phregethai yr efengyl. Eithr nid y cymhellion gynt, sef cydymdeimlad ag addysg, a hoffder o lyfrau, a ddylanwadai arno yn awr, ond dymuniad am gyhoeddi ar led drysorau gras, fel y gallai pawb gyfranogi o honynt fel yntau. Gwnaeth gais at yr esgob am ordeiniad, a chafodd gymeradwyaeth Mr. Einion, ei hen athraw, yr hwn a fu yn ddigon caredig i beidio a dweyd gair am ei duedd Fethodistaidd. Ymddengys i Mr. Einion hefyd amgau i'r esgob y llythyr Lladin o ddiolchgarwch a anfonasai y gŵr ieuanc iddo. Profodd hwn yn allwedd effeithiol i agor iddo ddrws yr offeiriadaeth, a chafodd ei ordeinio i guwradiaeth eglwys Gymmun, plwyf ar gyffiniau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Nid yw dyddiad yr ordeiniad genym, ond y mae yn sicr iddo gymeryd lle tua diwedd y flwyddyn 1743, neu ddechreu y flwyddyn 1744.

Yn eglwys Gymmun yr oedd holl ofal y plwyf arno. Preswyliai y periglor yn Lloegr, lle y meddai swyddogaeth uchel, ac y caffai gyflog dda; ni ofalai am ei blwyfolion tlodion yn Nghymru o gwbl, oddigerth dyfod unwaith y flwyddyn i'w mysg i dderbyn y degwm. Bychan oedd cyflog Peter Williams; gofalai y periglor am gadw y brasder iddo ei hun, ond nid oedd hyn yn poeni y cuwrad ieuanc o gwbl, oblegyd ychydig oedd yn eisiau arno, a chadwai ysgol ddyddiol, fel na byddai mewn petrusder gyda golwg am gynhaliaeth. Ymdaflodd ar unwaith i'w waith. Pregethai gyda nerth, er mai darllen ei bregethau a wnelai. Yn fuan sefydlodd gyfarfod gweddi yn y plwyf, yr hwn a gedwid mewn gwahanol dai yn gylchynol. Yn y cyfarfodydd hyn, nid yn unig gweddïai, eithr rhoddai air o gynghor i'r rhai oedd yn bresenol, gan eu hanog i fywyd rhinweddol a duwiol. Y mae yn anmhosibl darllen ei hanes heb weled fod ei ddechreuad yn hollol yr un fath ag eiddo Howell Harris; yr unig wahaniaeth o bwys ydoedd fod Peter Williams yn ŵr mewn urddau, tra yr oedd Harris yn amddifad o'r cyfryw fraint. Ymddengys fod rhyw gymaint o gallineb y sarph yn y cuwrad ieuanc. Llenwid y wlad y pryd hwn gan ofn, rhag y byddai i'r Ymhonwr *(Pretender)* enill gorsedd Prydain; crynai Llundain ei hun. Parodd hyn i lawer weddïo am ddwyfol amddiffyn dros y brenhin nad arferent blygu ar eu gliniau. Cymerodd Peter Williams yr helynt yn gochl i guddio yr hyn a ystyrid yn afreolaeth, yn ei waith yn cynal cyfarfodydd gweddio. Eithr er ei ofal, drwgdybid ef o fod yn tueddu yn ormodol at Fethodistiaeth. Yr oedd purdeb ei fuchedd, gwresawgrwydd ei weddïau, ei waith yn gweddïo heb lyfr, a thôn ei gyfarchiadau, yn peri i'r bobl ledamheu mai Methodist ydoedd. Ac yr oedd tueddu at hyn yn cael ei ystyried yn bechod enbyd yn mysg yr Eglwyswyr yr adeg yma. Perai peth

arall iddynt amheu y cuwrad. Pan fyddai un o'r plwyfolion farw, anghefnogai yn gyfangwbl y defodau Pabaidd oedd mewn arferiad yn yr ardal ar y cyfryw achlysur, eithr anogai y bobl i ddifrifwch, darllen y Beibl, gweddïo, a chanu salmau.

Eithr dygwyddodd amgylchiad yn fuan a benderfynodd y mater tuhwnt i ddadl. Un boreu Sabbath aethai y cuwrad i'r eglwys fel arfer. Yr oedd ei bregeth ganddo wedi ei hysgrifenu yn ofalus ar bapyr. Gwedi myned trwy y gweddïau dechreuodd ddarllen yr hyn a ysgrifenasai gyda dwysder; eithr wrth godi ei ben, a thaflu golwg frysiog ar y gynulleidfa, gwelai ryw bobl ieuainc anystyriol, yn lle talu sylw i'w ymadroddion, yn cellwair, ac yn taflu blodeuglwm, mewn chwareu, y naill at y llall. Cyffrodd enaid gweinidog Crist o'i fewn. Arosodd am enyd, i edrych a wnelai ei ddystawrwydd eu cywilyddio. Pan welodd nad oedd hyn yn peri iddynt gywilydd, dechreuodd lefaru wrthynt am sancteiddrwydd tŷ Dduw, a'r parch dyladwy i ordinhadau y tŷ; dywedai fod eu hymddygiad yn gyfryw na oddefid mewn chwareudy, chwaethach yn nghysegr yr Arglwydd, a'u bod yn euog o daflu yr anfri mwyaf ar fawrhydi y Jehofah. Gwedi llefaru fel hyn nes esmwyth-hau ei gydwybod, ceisiodd ail ddechreu darllen, ond methai a chael o hyd i'r man y gadawsai, ac oddiyno i'r diwedd bu raid iddo ymdaflu ar ei adnoddau, a llefaru fel y rhoddai yr Arglwydd iddo ymadrodd. Teimlai ef ei hun ar y pryd fod hyn yn gryn drosedd, a gofynai yn gyhoeddus am faddeuant y gynulleidfa. Eithr yr oedd maddeu pechod mor ysgeler yn beth hollol anmhosibl i'r bobl foneddigaidd oedd yn bresenol. Dibwys ganddynt oedd fod yr ieuenctyd yn chwareu ac yn cellwair yn ystod yr addoliad cyhoeddus; bychan yn eu golwg oedd fod y werin yn marw o eisiau gwybodaeth; ond am lefaru yn y pwlpud, dan ddylanwad eiddigedd sanctaidd dros ogoniant Duw, heb fod y sylwadau wedi cael eu hysgrifenu yn flaenorol, yr oedd hyn yn bechod mor waradwyddus fel yr ystyrient ef y tu allan i derfynau maddeuant. Wrth fyned allan clywai Peter Williams y gwŷr mawr yn sibrwd wrth eu gilydd: "Yr oeddym yn ei ddrwgdybio yn flaenorol," meddent, "mai Methodist ydoedd; eithr dyma y peth yn amlwg o'r diwedd, y mae wedi tynu ymaith y llen-gudd." Dygwyddai gwraig y periglor fod yn bresenol, yr hon a anfonodd adroddiad o'r hyn a ddygwyddasai i'w gŵr. Gyda throad y *post* dyma lythyr i'r cuwrad yn cymeryd ei swydd oddiarno. Sail yr ymddygiad hwn, yn ol geiriau y llythyr, oedd a ganlyn: "Y mae y Parch. Peter Williams, cuwrad eglwys Gymmun, yn cael ei gyhuddo o bregethu y pechod gwreiddiol, cyfiawnhad trwy ffydd, a'r angenrheidrwydd anorfod am ail-enedigaeth." Pechodau difrifol, onide, mewn gweinidog? Atebodd Peter Williams, mai yr athrawiaethau, am bregethu pa rai yr oedd yn cael ei gondemnio, yn ol ei farn ef, oedd sylfaen erthyglau Eglwys Loegr; a dymunodd ar y periglor i ddatgan ei olygiadau gyda golwg arnynt, ac addawai, os medrai wneyd hyny gyda chydwybod rydd, i ddilyn y cyfarwyddiadau a gaffai. I'r llythyr hwn nid atebodd y periglor air; eithr yn mis Awst daeth i lawr, gan wasanaethu ei hun hyd nes gorphen blwyddyn y cuwrad. Aeth y gŵr ieuanc ato, gan ddymuno cael pregethu yn ei glyw, fel y gallai farnu parthed ei gymhwysder i'r offeiriadaeth. Yr unig ateb a roddai y periglor iddo oedd, ei fod yn credu mai Methodist ydoedd, ac na fyddai a fynai ag ef mwy. Dadleuai y cuwrad fod ganddo drwydded i bregethu oddiwrth Esgob Tyddewi. Atebai yr offeiriad y gwnai ei roddi yn Nghwrt yr Esgob, ac y cymerid ei drwydded oddiarno yn fuan. Erbyn hyn canfyddai Peter Williams ei bod yn tywyllu arno o bob tu, a brysiodd at yr Esgob, i ragflaenu y cyhuddiad a welai oedd yn dyfod. Eithr derbyniad hynod o oeraidd a gafodd. Yr oedd rhywrai wedi bod yn ddiwyd yn cludo chwedlau am dano i'r Esgob. "Yr wyf wedi clywed eich hanes," meddai, "yr ydych wedi bod yn pregethu yn Llanlluan a Chapel Ifan." Capelau Eglwysig oedd y rhai hyn, a gawsent eu gadael i fyned yn adfeilion; eithr yr oedd y Methodistiaid wedi cymeryd meddiant o honynt, gan eu hadgyweirio i raddau, a'u defnyddio i bregethu yr efengyl ynddynt. Awgryma cyhuddiad yr Esgob fod cryn gyfathrach wedi bod rhwng Peter Williams a'r Methodistiaid yn barod, er nad ydoedd wedi ymuno â hwy yn ffurfiol. Dadleuai yntau, yn ngwyneb y cyhuddiad, mai lleoedd cysegredig perthynol i Eglwys Loegr oeddynt. Yr unig atebiad a gaffai gan ei arglwyddiaeth ydoedd, os gwnai beidio pregethu am dair blynedd, ac ymddwyn yn weddus, sef, yn ddiau, peidio ymgymysgu â'r Methodistiaid, y rhoddai efe iddo ar ben y tymhor hwn gyflawn urddau. "Sut y gallaf fyw cyhyd heb na

gwaith na chyflog?" gofynai y cuwrad. "Gwnewch fel y medroch," meddai yr Esgob yn ol. Felly y terfynodd yr ymddiddan, a chafodd Peter Williams ei ollwng o'r palas esgobol heb gael cynyg ar fwyd na diod.

Dyma Peter Williams, druan, heb le, na golwg am dano, oblegyd pregethu yr hyn a ystyriai efe yn wirionedd Duw. Eithr yr oedd ganddo gyfaill calon yn yr Hybarch Griffith Jones, Llanddowror. Pan glywodd efe am y tro, anfonodd am dano, a hysbysodd ef fod eisiau cuwrad yn nhref Abertawe. Brysiodd yntau yno, a'r guwradiaeth a gafodd. Eithr am fis yn unig y cafodd wasanaethu. Yr achos a barodd iddo gael ei yru i ffwrdd oedd a ganlyn: Daeth y Sabboth i'r maer, yn nghyd â chorphoraeth Abertawe, ac hefyd yr aelod seneddol dros y fwrdeisdref, i fyned i'r eglwys. Gwedi i Peter Williams ddarllen yr holl wasanaeth, cyfododd y boneddigion i fyned allan; nid yw yn ymddangos yr arferent gael pregeth ar y cyfryw achlysur. Eithr rhoddodd ef salm allan i'w chanu; eisteddodd y boneddigion yn eu holau, a thraddododd yntau bregeth effeithiol iddynt oddiar 2 Cron. xix. 67: "Canys nid dros ddyn yr ydych yn barnu, ond dros yr Arglwydd," &c. Taranodd yn erbyn derbyn gwobrau wrth farnu; a dywedodd wrthynt, oni ymddygent yn gydwybodol yn ol cyfraith Duw, y byddai holl bechodau y bobl yn gorwedd wrth eu drysau. Anfoddlonodd rhai o'r boneddwyr yn enbyd, a'r maer yn eu mysg. Ystyrient fod y cuwrad wedi gwneyd yn rhy hyf arnynt, a thalasant y pwyth iddo, trwy beidio ei wahodd i'r wledd arferol. Yn mhen y mis aeth Peter Williams i'r eglwys, a gwelai ŵr yn y pwlpud yn barod, ac wedi ymddiddan ag ef, deallodd ei fod wedi cael ei anfon i gymeryd ei le. Yr esgus a roddwyd i'r cuwrad ydoedd, fod y plwyfolion wedi anfoddloni wrtho. Er byred yr amser y bu yn Abertawe, ymddengys i'w lafur gael ei fendithio yn ddirfawr. Dywedai amryw o'r rhai a garent yr Arglwydd Iesu iddo fod yn offeryn i'w cadarnhau yn ngwirionedd Crist.

Wedi dychwelyd i Gaerfyrddin clywodd fod eisiau cuwrad yn Llangranog a Llandysilio, yn Sir Aberteifi, a chwedi appelio, cafodd y lle. Gwnaethai gytundeb pendant am chwarter blwyddyn, eithr am ddau fis yn unig y cafodd aros yno. Yr oedd yn dra derbyniol gan y plwyfolion, eithr rhoddodd ei Fethodistiaeth dramgwydd i'w noddwr, ac i ffwrdd y gorfu iddo fyned. Gyda hyn y mae ei gysylltiad â'r Eglwys Sefydledig yn darfod. Yr oedd yn dra ymlyngar wrthi; o fewn ei chymundeb, ac yn gwasanaethu wrth ei hallor, y treuliasai ei fywyd, pe y cawsai ganiatad; ond yr oedd duwioldeb, ac awydd am gyhoeddi yr efengyl yn ei phurdeb i bechaduriaid, yn bethau na oddefid o fewn terfynau yr Eglwys yr adeg hono, ac allan y bu rhaid i Peter Williams droi. Aeth allan fel Abram gynt, heb wybod i ba le yr oedd yn myned. Eithr clywodd am ryw gynghorwr enwog yn Sir Benfro, yr hwn, yn ol pob tebyg, nid oedd yn neb amgen na'r gwas enwog hwnw i Grist, y Parch. Howell Davies, a chafodd ar ddeall ei fod yn pregethu yr efengyl gyda nerth ac arddeliad mawr. Penderfynodd fyned i'w wrando. Mewn lle o'r enw Castell-y-Gwair, yn y flwyddyn 1746, y cymerodd hyn le, pan yr oedd Peter Williams tua phedair-mlwydd-ar-hugain oed. Cafodd y fath flas ar bregeth Howell Davies, fel y torodd allan i weddïo yn gyhoeddus ar y diwedd; a gwnaeth hyny gyda'r fath wres ac eneiniad nefol, nes gwefreiddio pawb, ac aeth yn orfoledd cyffredinol trwy yr holl gynulleidfa. Penderfynodd fwrw ei goelbren gyda'r Methodistiaid yn ddiymdroi. Cymerodd y pregethwr ef i Gymdeithasfa Fisol, a gynhelid rywle yn nghyffiniau Sir Benfro; cyflwynodd ef i sylw y frawdoliaeth, ac ysgrifenwyd ei enw yn mysg y brodyr.

O hyn allan, pregethwr teithiol yw Peter Williams, ac ymddengys iddo ddechreu ar ei orchwyl ar unwaith. Yn bur fuan, aeth i gapel Abergorlech, er mwyn clywed Daniel Rowland; eithr gwnaeth Rowland iddo ef bregethu. Cafodd odfa nerthol; bu ei bregeth yn effeithiol, dan fendith Duw, er achubiaeth i amryw. Cymerodd Rowland ef i Langeitho, lle y pregethodd gyda chryn ddylanwad. Cyfaddefa na wyddai nemawr y pryd hwn am olygiadau gwahaniaethol yr amrywiol bleidiau; diau y clywsai am Arminiaid, Baxteriaid, a Morafiaid; eithr ni wyddai fwy am danynt na'u henwau; yr oedd eu golygiadau ar wahanol athrawiaethau crefydd yn hollol ddyeithr iddo. Eithr pregethai efe Iesu Grist wedi ei groeshoelio, fel Ceidwad holl-ddigonol i bechaduriaid, ac yr oedd yr Arglwydd yn arddel ei genadwri syml. O Langeitho, aeth am daith i Ogledd Cymru. Y lle cyntaf yr ymwelodd ag ef oedd Llan-

idloes, a chawsai ei gyfarwyddo i alw yn nhŷ crydd, o'r enw Evan Morgan, yr hwn a breswyliai yn heol y Gogledd. Yr oedd yspryd erlid yn gryf yn Llanidloes yr adeg hon; nid diberygl i Fethodist oedd ymweled a'r dref; bu yn gryn helbul ar Peter Williams cyn dod o hyd i dŷ y crydd, eithr wedi iddo lwyddo, cafodd garedigrwydd mawr yno. Nid yw yn ymddangos iddo bregethu yn y dref, namyn cynghori yr ychydig bobl druain, dlodion, a ymgynullent yn nhŷ Evan Morgan. Oddiyma, aeth i gyfeiriad y Drefnewydd; pregethai pa le bynag y caffai gyfleustra; ac weithiau, byddai ganddo gyfaill crefyddol yn ei hebrwng o'r naill le i'r llall. Bu yn galed arno yn y Drefnewydd; galwasai gyda gôf i bedoli ei geffyl, ond yn fuan clywai y bobl yn sibrwd mai Cradog ydoedd, a dyma hwy yn dechreu lluchio cerig ato. Dywed fod y cerig yn dyfod gyda y fath ruthr, fel y tarawent dân allan o'r palmant. Ffodd am ei fywyd i gyfeiriad Llanfair-Careinion. Yn y gymydogaeth hono daeth o hyd i foneddwr lletygar oedd wedi gyfarfod yn flaenorol yn Llandrindod; gan hwn, cafodd garedigrwydd mawr, a gwahoddodd ef i bregethu y dydd canlynol yn nhŷ un o'i amaethwyr. Sylwa mai dyma y tro cyntaf iddo ganfod ychydig o haul er dechreuad ei brofedigaethau. Y lle nesaf iddo ymweled ag ef oedd y Bala, lle y clywsai fod ychydig o garedigion yr efengyl yn arfer cyfarfod. Yn nhŷ Ysgotiad duwiol yr arosai, ac ymddengys, hefyd, mai yma y darfu iddo bregethu. Ni wnaed ei ddyfodiad yn gyhoedd, eithr gwahoddwyd ychydig gyfeillion a pherthynasau i wrando. Daeth mwy nag a wahoddasid, ac er mwyn symud ymaith ragfarn, gwisgai y pregethwr ei dorchwddf (*neck band*) offeiriadol wrth lefaru. Gwrandawai rhai yn ystyriol; yr oedd eraill yn ddifater, ac hyd yn nod yn anfoesgar. Er mwyn enill eu sylw, cymerodd yn destun, nid adnod o'r Beibl, ond adran o'r gyffes a arferir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin: "Aethom o'th ffyrdd di fel defaid ar gyfrgoll." Rhai yn unig a roddent glust; am y lleill, yr oeddynt yn llawn o yspryd erlid, a thaflent gerig mawrion, rhai yn dri phwys yn y man lleiaf, at y man y tybient ei fod yn cysgu. Eithr yr Arglwydd a'i cadwodd rhag derbyn niwed.

Clywsai fod ychydig yn gwrando yr efengyl yn Lleyn, ac yno yr aeth, eithr ni ddywed i ba leoedd. Cafodd gynulleidfaoedd lliosog, nid am fod y mwyafrif yn rhoddi gwerth ar Air yr Arglwydd, ond am eu bod yn awyddus am weled cyfarfod crefyddol yn cael ei gynal yn yr awyr agored, gan un o offeiriaid yr Eglwys Sefydledig. Eithr cafodd amryw eu hargyhoeddi, ac yn eu mysg un foneddiges ieuanc, yr hon a ddywedai mai efe a gydnabyddai yn dad ysprydol tra y byddai byw. Oddiyma wynebodd ar Sir Fôn. Clywsai bethau enbyd am wŷr Môn, a'u hatgasedd at bregethu teithiol, ac am y dull ofnadwy yr ymosodent ar y pregethwyr, yn nghyd â'r rhai a'u canlynent. Yn arbenig, adroddid iddo hanes un odfa yn ddiweddar, pan yr oedd y gynulleidfa wedi ymranu, un blaid am glywed beth oedd gan y cablwr (dyna fel y galwent y pregethwyr tlawd) i'w ddweyd, a'r lleill am ei yru o'r wlad. Terfynodd y ffrwgwd mewn ymladdfa waedlyd, a bu raid i'r pregethwr ddianc am ei hoedl. Er y chwedlau yma ni chymerodd Peter Williams ei ddychrynu; wynebodd ar yr ynys yn nerth Duw. Ar y dechreu, cadwai o'r trefydd a'r lleoedd poblog, gan deithio ar hyd y rhan fwyaf bryniog o'r ynys, lle yr oedd y trigolion yn deneu. Gwyddai y byddai cynulleidfa fawr yn sicr o'i rwystro i siarad. Llefarai pa le bynag y cai bump neu chwech o wrandawyr; eithr pan elai y si ar led fod un o'r Pengryniaid wedi dyfod i bregethu yno, nes peri i'r lliaws ddyfod yn nghyd, byddai yntau yn dianc. Yn araf fel hyn daeth yn alluog i enill clustiau llawer o bobl, ac yn raddol eu calonau, nes medru bod yn fwy cyhoedd. Cyfarfyddodd hefyd a mab i ryw foneddwr, yr hwn a gawsai ei argyhoeddi trwy offerynoliaeth Howell Harris; bu hwn yn arweinydd iddo am beth amser, gan ei gymeryd i fanau lle yr oedd rhai mewn cydymdeimlad â'r efengyl. Nid oedd i gael ymadael o Fôn, modd bynag, heb brofi rhyw gymaint o lid y gelyn. Mewn tref, na rydd ei henw, yr oedd yr erlidwyr wedi ymgasglu yn llu; gwawdient a chrochlefent, a cheisient ddychrynu ceffylau Peter Williams a'i gyfaill, trwy ysgwyd cŵd llawn o gerig, wedi ei rwymo ar ben pastwn hir; eithr nid rhyw lawer o luchio cerig oedd yno. Pan y tybiai y pregethwyr y caent basio heb gael dim gwaeth na gwatwaredd daeth rhyw grydd allan o'i weithdy, yr hwn a gymerodd lonaid ei law o fudreddi yr heol, ac a'i taflodd i wyneb Peter Williams, nes yr oedd am ychydig yn hollol ddall o'r ddau lygad. Modd bynag, wedi ei rwbio

ymaith, cafodd nad oedd yr un o'i lygaid wedi eu niweidio. "Yna gorfoleddais," meddai, "a bu dda genyf fy mod yn cael fy nghyfrif yn deilwng i'm herlid er mwyn Crist, a'i efengyl bur."

O Sir Fôn aeth i Drefriw. Yma yr oedd ei ddyfodiad wedi cael ei hysbysu yn rhy gyhoeddus, ac felly yr oedd yr erlidwyr wedi cael cyfleustra i'w dderbyn, yn eu dull neillduol hwy. Daethai torf lawn o ffyrnigrwydd yn nghyd, y rhai a gyflogasid gan ddau foneddwr oedd ar y pryd wedi yfed i ormodedd. Ymddengys na ddarfu iddynt guro y pregethwr, eithr rhoisant ef yn garcharor yn y tafarndy, ac yno y thrachefn. Gofynais am fwyd a gwely, pryd y chwarddasant eilwaith, a dywedasnt gyda dirmyg: 'Cewch fwyd a gwely yn y man.' Dysgwyliais gael fy nhroi allan, a'm curo â cherig i farwolaeth, ac felly, mai yn y tywyllwch y gwneid pen ar fy einioes. Rhoddais fy hun i'r Arglwydd, gan barhau mewn gweddi ar ran fy ngwatwarwyr rhagrithiol. Ni chaniateid i mi weddïo na phregethu mewn llais uchel; ac yr oeddwn yn gruddfan am y gorfodid fi i wrando ar eu maswedd, eu rhegfeydd, a'u hymadroddion llygredig." Diau mai noswaith anfelus iawn a dreuliodd yn nghanol y fath haid annuwiol, ac eto,



LACHARN.

cadwasant ef o chwech o'r gloch y nos, hyd ddau yn y boreu, a cheisient ei wneyd yn destun difyrwch, fel y Philistiaid â Samson gynt. Meddai Peter Williams: "Gwnaethant i mi yfed; rhyddhasant fy nillad, trwy ddatod fy motymau oddi fynu hyd i waered; rhoddasant ferch i eistedd ar fy nglin, a gofynent lawer o gwestiynau am fy nysgeidiaeth, fy athrawiaeth, a'm canlynwyr, a beth oedd fy nhestun y boreu hwnw. Atebais: 'Os gwelwch yn dda, foneddigion, adroddaf i chwi'r testun, a'r bregeth hefyd.' Ar hyn, galwodd un o honynt am ddystawrwydd; 'y mae o yn myned i bregethu i'n diwygio ni,' ebai efe, ac yna, chwerthin mawr drachefn a cysurai ei hun trwy adgofio fod gwell triniaeth yn cael ei hestyn iddo nag i'w Arglwydd. Cyn caniad y ceiliog cafodd ei ryddhau. Pa ddylanwadau a fu yn effeithiol i ddwyn hyn oddiamgylch, nis gwyddom. Cyn ymadael, gorchymynodd y boneddwyr i'r tafarnwr roddi bwyd a diod iddo; talasant hefyd ei holl gostau, ond siarsiasant ef na phregethai yn y pentref. Yr oedd efe, modd bynag, erbyn hyn yn y cyfryw stad fel nas gallai na bwyta nac yfed. Aeth i'r gwely, a chysgodd, yr hyn na fedrai ei gyfaill. Eithr yr oedd ei urdd-lythyrau wedi cael eu lladrata trwy dwyll. Ond yn ystod y dydd, daeth merch y gŵr a'u cymerasai, ar ei ol, a

dychwelodd hwynt, rhag ofn cyfraith. Teimlai efe, a'r cyfaill oedd yn gydymaith iddo, eu bod wedi cael cymaint gwaredigaeth a Daniel o ffau y llewod. Yn sicr, yr oedd y pethau hyn yn brawf tanllyd i ŵr ieuanc, heb gyrhaedd ei bump-ar-hugain mlwydd oed, i fyned trwyddynt.

Pa le yr ymgartrefodd Peter Williams pan yr ymunodd a'r Methodistiaid gyntaf, ni wyddis i sicrwydd; eithr cyn i lawer o flynyddoedd basio, cawn ef yn byw yn Llandyfeilog, gerllaw y ffordd fawr sydd yn arwain o Gydweli i Gaerfyrddin. Enw yr amaethdy a wnaeth yn breswyl oedd Gellilednais, ac y mae yn gorwedd tua phum' milldir o dref Caerfyrddin. Yno y bu byw hyd derfyn ei oes, ac yn mynwent Llandyfeilog y rhoddwyd ei gorph i orwedd gwedi iddo farw. Fel yr arfera plant dynion, priododd yntau, a bu iddo deulu cymharol liosog. Enw ei briod oedd Mary Jenkins, merch i foneddwr o gymydogaeth Llanlluan. Ychydig a wyddis am dani, ond yn ol pob hanes yr oedd yn ddynes rinweddol, ddystaw, a nodedig o dduwiolfrydig. Bu fyw am chwech mlynedd-ar-hugain ar ol ei phriod, ac yr oedd yn nghymydogaeth cant pan y bu farw. Parhaodd i fyned i'r addoliad hyd y diwedd, a dywedir iddi farchogaeth i'r capel o fewn pythefnos i ddydd ei marwolaeth. Fel pob gwraig dda, yr oedd ei ffydd yn ei phriod yn ddiderfyn. Yn ei henaint, gwedi i'w golygon ballu, gwnelai i'w hwyrion ddarllen penod o'r Beibl iddi yn aml, a rhaid oedd darllen sylwadau eglurhaol ei phriod ar y benod yn ogystal, a braidd nad ystyriai y sylwadau mor ysprydoledig a'r benod ei hun. Cawsant y fraint o ddwyn i fynu chwech o blant, sef tri o feibion, a thair o ferched. Cyrhaeddodd dau o'r meibion, sef Ebenezer a Peter Bayley, fesur helaeth o enwogrwydd yn yr Eglwys Sefydledig fel offeiriaid dysgedig ac ymroddgar; eithr bu y mab arall, John, farw yn gymharol ieuanc. Enwau y merched oeddynt Deborah, Margaret, a Betti. Ymddengys i'r tair ymsefydlu yn y byd, a chael teuluoedd. Mab i un o honynt oedd y Parch. David Humphreys, Llandyfeilog, gweinidog o gryn enwogrwydd yn mysg y Methodistiaid, doniau yr hwn a gyffelybid gan lawer o'r hen bobl i eiddo Ebenezer Morris. Merch iddo ef, ac felly orwyres i Peter Williams, yw Mrs. Davies, gweddw R. J. Davies, Ysw., Cwrtmawr. Y mae nifer mawr o hiliogaeth Peter Williams, trwy y merched, i'w cael ar hyd a lled gwlad Myrddin, a siroedd eraill, hyd heddyw, a chan mwyaf y maent mewn cysylltiad a'r Cyfundeb Methodistaidd.

Ond i ddychwelyd at hanes Peter Williams. Y mae yn sicr iddo gael lle amlwg yn mysg y Methodistiaid ar unwaith. Un rheswm am hyn oedd ei fod yn offeiriad urddedig, yr hyn a ystyrid ar y pryd yn beth tra phwysig; ond y mae yn sicr fod a fynai helaethrwydd ei ddysgeidiaeth, a dysgleirder ei ddoniau, â hyn. Yn mis Mai, 1747, sef yn mhen tua blwyddyn gwedi ei ymuniad a'r Methodistiaid, yr ydym yn darllen am dano yn pregethu yn Nghymdeithasfa Chwarterol Cilycwm, o flaen Daniel Rowland. Ei destun ydoedd: "Mor gu genyf dy gyfraith di," a chanmolai Howell Harris y bregeth yn ddirfawr fel un dra Ysgrythyrol. O hyn allan, cawn ef yn cymeryd lle blaenllaw yn mysg yr arweinwyr. Os nad ystyrid ef ysgwydd yn ysgwydd yn hollol â Rowland, Harris, Williams, Pantycelyn, a Howell Davies, yr oedd yn agos iawn atynt, ac yn mhell uwchlaw neb arall. Nodwedd fawr ei bregethau oedd Ysgrythyroldeb. Ni ryfygai un amser esgyn i'r pwlpud heb barotoi, ac felly, tra y dibynai eraill lawer ar hwyl, byddai ef braidd bob amser yn gyffelyb, sef yn sylweddol, a Beiblaidd, ac athrawiaethol. Hyn a barodd i Williams, Pantycelyn, ddweyd wrtho mewn tipyn o gellwair: "Gelli di, Peter, bregethu lawn cystal pe byddai yr Yspryd Glân yn Ffrainc; ond am danaf fi, nis gallaf wneyd dim o honi, heb ei gael wrth fy mhenelin." Meddai John Evans, o'r Bala, am dano: "Gŵr cryf o gorph a meddwl oedd Peter Williams, a phregethwr da. Llafuriodd yn ddiwyd a ffyddlawn; bu ei weinidogaeth yn dra bendithiol, a chafodd llawer eu galw trwyddo." Clywsom sylw am dano mai fel "Gŵr y ddau bwnc" yr adwaenid ef; a'r ddwy linell yn cael eu cymhwyso ato:—

> "Y ddau iawn bwnc ganddo'n bod,
> Y camwedd a threfn y cymod."

Prin y gellir meddwl fod gŵr o alluoedd Peter Williams yn cyfyngu ei hun at "y ddau bwnc" hyn; ac eto, diau eu bod yn cael arbenigrwydd yn ei weinidogaeth, gan fod holl wirioneddau trefn iachawdwriaeth yn dal cysylltiad hanfodol a'r naill neu y llall o'r pynciau hyn. Os mai byr oedd ei wybodaeth dduwinyddol ar y cyntaf, gwnaeth gynydd dirfawr yn fuan,

a chyn pen nemawr amser, braidd y rhagorai neb arno yn mysg y Methodistiaid o ran dirnadaeth o egwyddorion crefydd.

Ymunodd Peter Williams a'r Methodistiaid ar adeg bwysig, sef pan yr oedd y ddadl rhwng Howell Harris a'r arweinwyr eraill ar dori allan. Cawn ef yn bresenol mewn amrai Gymdeithasfaoedd y bu dadleu brwd ynddynt, a theimladau cyffrous yn cael en henyn; yr ydoedd yn Nghymdeithasfa Llanidloes, ac yn pregethu, sef yr olaf i Harris a Rowland fod yn nghyd ynddi cyn yr ymraniad. Nid yw yn ymddangos iddo ef gymeryd rhan yn y ddadl o gwbl. Efallai yr ystyriai ei hun yn ormod o newyddian yn y ffydd i ddweyd dim, y naill ochr neu y llall. Gallesid dysgwyl, oddiwrth y golygiadau a gyhoeddwyd ganddo ar ol hyn, mai cymeryd plaid Harris a wnelai. Gellid meddwl fod cryn debygolrwydd yn syniadau y ddau gyda golwg ar y Drindod. Eithr wrth Daniel Rowland y glynodd. Ai efe oedd y pedwerydd offeiriad, oedd yn bresenol gyda Rowland, Williams, a Howell Davies, yn Nghymdeithasfa Llantrisant yn y flwyddyn 1750, pan y penderfynwyd tori pob cysylltiad â Harris, nis gwyddom. Ar y naill law, nid ydym yn adnabod unrhyw offeiriad arall oedd yn fyw ar y pryd, a fuasai yn debyg o gael ei alw i'r cyfryw gyfarfod. Ar y llaw arall, prin y mae y dybiaeth yn gyson â phresenoldeb Peter Williams yn Nghymdeithasfa gyntaf plaid Harris yn St. Nicholas. A pha beth oedd ei neges yn St. Nicholas, sydd ddirgelwch. Amlwg yw nad aeth yno gyda'r bwriad i ymuno; gwrthododd hyny yn bendant. Braidd na ellid tybio mai ei amcan oedd ceisio rhwystro rhwyg, cyn i bethau fyned yn rhy bell; oblegyd pan y gwnaeth Harris araeth, yn gosod allan ddrygedd ymddygiad Rowland a'i ganlynwyr, a'r anmhosiblrwydd i uno â hwynt heb iddynt edifarhau mewn sachlian a lludw, aeth Peter Williams allan, ac ni fu unrhyw gyfathrach rhyngddo, mor bell ag y gwyddom, â "phobl Harris" tra y buont yn blaid ar wahan. Pan y gwnaed heddwch rhwng Harris a'r Methodistiaid, yn mhen tair-blynedd-ar-ddeg gwedi, yr oedd Peter Williams yn un o brif ddynion y Gymdeithasfa. Braidd nad ystyrid ef y nesaf at Rowland. Ac yr ydym yn cael ei fod, yn ogystal a'r arweinwyr eraill, yn derbyn y Diwygiwr o Drefecca yn ol gyda breichiau agored. Eithr nid ydym yn cael fod cyfeillgarwch arbenig yn ffynu rhyngddo ef â Harris; dau brif gyfaill y diweddaf, hyd ei fedd, er y cymylau a godai rhyngddynt weithiau, oedd Daniel Rowland, a Williams, Pantycelyn. Yr oedd ei enaid wedi ymglymu am y ddau hyn, fel eiddo Jonathan wrth Dafydd.

Derfydd yr Hunangofiant a gyfansoddwyd gan Peter Williams gyda hanes ei daith gyntaf i Ogledd Cymru. Ychydig o hanes manwl a feddwn am dano o hyny allan. Y mae yn amlwg, modd bynag, mai fel pregethwr teithiol y treuliodd ei oes, ac iddo drafaelu holl Gymru, o Gaergybi i Gaerdydd, ddegau o weithiau. Meddai gymhwysderau arbenig tuag at deithio y wlad yr adeg hon. Yr oedd ei gorph yn gadarn a gwydn, fel y gallai ddal pob math o dywydd; ei yspryd oedd wrol a hyf, ac ni ddychrynai rhag llid yr erlidwyr; yr oedd ei ddoniau gweinidogaethol mor enillgar, fel yn aml y byddai yn swyno ei wrthwynebwyr heb yn wybod iddynt; ac yr oedd ei ddyoddefgarwch a'i ymroddiad yn ddiderfyn. A dylid cofio, mai nid myned yn ol cyhoeddiad, wedi cael ei drefnu yn fanwl, y byddai, o leiaf yn nechreuad ei lafur, a chyfeillion caredig yn dysgwyl am dano ac yn barod i'w groesawi yn mhob lle; ond byddai raid iddo weithio ei ffordd yn mlaen goreu y medrai, gan anfon rywsut a rhywffordd i hysbysu ei fod yn dyfod; ac efallai mai yr unig dderbyniad a gaffai, fyddai llu o erlidwyr yn ei aros, gyda cherig a phastynau yn eu dwylaw, a llidiowgrwydd lonaid eu hyspryd. Nis gallwn ddychymygu am fawredd ei ddyoddefaint. Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo *Ionawr 3, 1747, adrodda iddo ef ac eraill gael eu dal yn eu gwely yn Rhosllanerchgrugog, trwy warant wedi cael ei harwyddo gan Syr Watkin Williams Wynne; iddynt fod tan arholiad gan Syr Watkin, yn ei balas, hyd yr hwyr, heb gael tamaid i'w fwyta na thracht i yfed; ac i'r prawf orphen trwy iddo ef gael ei ddirwyo o ugain punt, a phob un o'i wrandawyr o bum' swllt yr un. Wedi cyhoeddi y ddedfryd gollyngwyd hwy yn rhydd. Eithr o gwmpas deg o'r gloch y nos dyma y cwnstabli, a'r *churchwarden*, yn llety Peter Williams, gan hawlio y ddirwy. Gomeddodd yntau dalu. Yna, y prif gwnstab a afaelodd yn ei fraich, a'r *churchwarden* a

* Gwel *Y Tadau Methodistaidd*, tudal. 350.

wthiodd ei law i'w logell, gan gymeryd yr holl arian oedd ganddo ar y pryd, sef punt a dwy geiniog. Ac felly y terfynodd yr helynt.

Ei brif elynion oeddynt offeiriaid Eglwys Loegr. Deuai rhai o honynt yn aml i'w gyfarfodydd i derfysgu; a phan na fyddent yn bresenol, yr oeddynt wedi gofalu cyflogi dihyrod i gyflawni y gwaith. Pregethai unwaith yn y Garnedd Fawr, yn Môn, a daeth clerigwr yn mlaen, a fuasai yn gyd-ysgolor ag ef yn athrofa Caerfyrddin. "Ffei, Peter,' meddai yr offeiriad; "pa fodd y meiddi bregethu mewn lle anghysegredig?" Ebai yntau yn ol: "Maddeuwch fy anwybodaeth; yr oeddwn i yn tybio fod y byd oll, er pan y sangodd Mab Duw arno, yn gysegredig i efengyl Crist." Dro arall, pan ar un o'i deithiau yn Sir Fôn, safai i bregethu yn ymyl tafarndy yn Rhosllugwy. Eithr ymgasglasai torf o greaduriaid diriaid, y rhai a benderfynasent ei rwystro i lefaru. Ni chaniateid i'r pregethwr fyned i'r tŷ, ac ni chaffai ei anifail le. Ar hyn, yn hollol foneddigaidd, ond yn ddiegwan o ffydd, rhoddodd yr emyn ganlynol allan i'w chanu:—

"Yr Arglwydd bia'r ddaear lawr,
A'i llawnder mawr sydd eiddo;
Yr Arglwydd bia yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo."

Cymaint oedd y dylanwad cydfynedol a rhoddiad allan yr emyn, fel y darfu i'r terfysgwyr daflu y pastynau, yn nghyd a'r cyrn, a holl daclau yr aflonyddwch o'u dwylaw; cafodd y pregethwr dawelwch hollol i draethu cenadwri ei Dduw; ac yn yr odfa hono achubwyd amryw a fuont gwedi hyny yn golofnau cedyrn dan achos y Gwaredwr yn Sir Fôn.

Nid yn y Gogledd yn unig y bu Peter Williams dan erledigaeth, cafodd ei gamdrin aml i dro yn y Dê, ac hyd yn nod yn ei sir ei hun. *Pregethai un prydnhawn Sabbath mewn lle a elwir Cwmbach, yn gyfagos i eglwys y plwyf. Safai y pregethwr ar gareg farch yn yr awyr agored, a daethai torf yn nghyd i wrando. Gyda ei fod wedi dechreu pregethu, dyma heliwr Mr. Pryse, Plasnewydd, yr hwn foneddwr oedd yn ynad heddwch, yn dyfod i'r lle. Gwelid fod yn mwriad yr heliwr i greu terfysg, a'i fod, trwy yfed cyflawnder o wirodydd, wedi parotoi ei hun i'r gwaith. Nesaodd at y gynulleidfa, gan fytheirio llwon a rhegfeydd, a chrochlefain yn erbyn cynal cyfarfod o'r fath. Ymataliodd Mr. Williams dros enyd, a gofynai ai nid oedd yno neb a allai berswadio yr aflonyddwr i fyned allan. Aeth dau ŵr ato, un o ba rai ydoedd Henry Pugh, y rhai a'i hatal-iasant i ruthro ar Mr. Williams, eithr a'i harweiniasant ef ymaith. Wrth ei fod yn myned, galwodd Peter Williams sylw y gynulleidfa ato, ac mewn modd ofnadwy o ddifrifol, dywedodd: "Os wyf fi yn genad dros Dduw wrth lefaru yma heddyw, chwi a gewch weled mai nid fel dyn arall y bydd y dyn yna farw." Gwir oedd ei eiriau. Yn mhen naw diwrnod gwedi, syrthiodd i bwll glo dwfn, fel y bu farw gwedi ei ddryllio yn arswydus. "Diau fod Duw a farna ar y ddaear."


† Yn Nghydweli, tref fechan heb fod yn nepell o'i gartref, cafodd driniaeth mor arw a dim a dderbyniodd yn ystod ei oes. Ymddengys fod y lle yn enbyd o annuwiol. Ceir traddodiad ddarfod i Howell Harris gael ei gamdrin yn dost yno pan yn gwneyd ymgais am bregethu yr efengyl. Aeth Peter Williams yno un prydnhawn Sabbath, gan sefyll ar gareg farch yn ymyl tŷ gŵr o'r enw John Rees. Ar hyny, dyma haid o oferwyr yn dyfod i aflonyddu arno, y rhai a flaenorid gan ddyn mawr, garw yr olwg arno, a elwid Deio Goch, a rhywun arall. Yr oedd Mr. Williams wedi darllen penod o'r Beibl, ac ar fyned i weddi, pan y neidiodd Deio Goch ato, gan gipio y Beibl o'i law, a'i dynu i lawr oddiar y gareg ar ba un y safai. Yr oedd y dihyrwyr, meddir, wedi cael eu gosod ar waith gan offeiriad y plwyf; ac yr oeddynt wedi ymgymhwyso at y gorchwyl oedd ganddynt mewn llaw trwy ymlenwi â diod gref. Yr oedd y pregethwr, bellach, yn ei gafael. Curasant ef yn ddidrugaredd a'u ffyn; yn ganlynol, gosodasant ef ar ei geffyl, a gyrasant hwnw ar hyd y morfa, gan ei symbylu i neidio dros ffosydd mawrion; a rhyfedd ydoedd na fuasai yr anifail wedi tori ei goesau, a'r hwn a'i marchogai wedi tori ei wddf. Yn nesaf, cymerasant y pregethwr i'r tafarn, gan benderfynu ei feddwi, a thrwy hyny ei wneuthur yn destun gwawd. Gofynent iddo: "A wnewch chwi yfed?" "Gwnaf, fel ych," oedd yr ateb. Estynwyd y ddiod iddo; yntau, yn ddirgel, a'i tywalltai, nid i'w enau, ond i'w fotasau, nes yr oedd y rhai hyny yn llawnion. Wrth ei weled mor hwyr yn dychwelyd, anfonodd ei

* Methodistiaeth Cymru.

† Ibid.

briod y gweision i edrych am dano, a thrwy eu cymhorth amserol hwy y cafwyd ef yn rhydd o grafangau yr anwariaid.

Ofer fyddai ceisio adrodd yr oll a ddyoddefodd Peter Williams, yn ei lafur o blaid yr efengyl yn Nghymru. Adroddir iddo, yn y flwyddyn 1766, fyned i Lanrwst, gan amcanu pregethu wrth neuadd y dref. Gyda ei fod yn dechreu, dyma lances o forwyn yn dyfod allan o dŷ oedd gerllaw, ac yn ymosod arno a'i holl egni, trwy luchio wyau gorllyd ato, nes yr oedd ei ddillad mewn cyflwr enbyd. Yn mhen amser, gwelodd y ferch fod perthynas agos iddi, o'r enw Gabriel Jones, yn sefyll yn ymyl y osododd ar y dihyrwyr, gan eu chwalu yn chwimwth ar bob llaw, ac achubodd y diniwed o'u dwylaw. Cymerodd y pregethwr adref i'w dŷ yn ganlynol, a chwedi gweini iddo bob ymgeledd angenrheidiol, aeth i'w ddanfon, dranoeth, dair milltir o ffordd, rhag iddo syrthio drachefn i ddwylaw yr erlidwyr. Ni chymerai Richard Roberts arno ei fod yn bleidiwr i'r Methodistiaid. Eglwyswr ydoedd, ac felly y parhaodd trwy ystod ei oes; ond prydferthid ei gymeriad â llawer o rinweddau dynol a Christionogol, ac nis gallai oddef gweled gweinidog yr efengyl yn cael ei anmharchu.



GELLILEDNAIS, GER LLANDYFEILOG.

[*Preswylfod Peter Williams.*]

pregethwr, a bod yr wyau weithiau yn ei daro ef. Mewn canlyniad, hi a ymataliodd. Eithr wedi iddi hi beidio, dyma haid o oferwyr yn gafaelu ynddo, ac yn ei lusgo at yr afon. Yno, rhai a ddalient ei freichiau i fynu; eraill a godent ddwfr o'r afon, ac a'i harllwysent i'w lawes; a chan fod yr hin yn rhewllyd ac yn oer, yr oedd ei fywyd mewn perygl. Anhawdd gwybod beth a fuasai y canlyniad, oni bai i Richard Roberts, Tymawr, gŵr cyfrifol, o gymeriad da, ac yn meddu corph cryf, ddyfod heibio megys ar ddamwain. Cyffrodd yspryd hwn ynddo pan ddeallodd beth oedd yn myned yn mlaen; ym-

Dyoddef yn gyffredin a wnelai Peter Williams, heb wneyd unrhyw ymgais i amddiffyn ei hun; dyna, hefyd, arferiad cyffredinol y Methodistiaid cyntaf, ond ambell i dro rhedai eu hamynedd i'r pen, ac appelient at gyfraith y wlad. * Un waith yr ydym yn cael ddarfod i Mr. Williams gael ei gamdrin yn enbyd yn Ninbych; ac nid digon gan yr erlidwyr oedd ei guro, eithr yspeiliasant ef o'r oll a feddai. Wedi iddo ddychwelyd adref i'r Deheudir, adroddodd yr hanes wrth ei gyfeillion. Cyffrodd y rhai hyny, a

* *Methodistiaeth Cymru.*

chasglasant arian i'w amddiffyn. Rhoddwyd yr achos yn llaw cyfreithiwr a breswyliai yn Aberhonddu. Mewn canlyniad, gwysiwyd wyth o'r prif faeddwyr i Lundain, i sefyll eu prawf, ac yn eu mysg yr oedd dyn ieuanc yn perthyn i un o'r teuluoedd mwyaf cyfrifol. Meddai hwn ddigon o gyfoeth i gyflogi y dadleuwyr goreu o'i blaid; ond methodd, er pob ymdrech, yn ei amddiffyniad, a chafwyd y rhai a gyhuddid oll yn euog. Y gosp a roddid arnynt oedd eu dihatru o nodded y gyfraith (*outlawry*). Trodd y teimlad, bellach, yn eu herbyn. Dywedai pawb mai cyfiawn oedd eu cosp. Gan hyny, yr oeddynt yn esgymunedig, ac ni allent aros yn y wlad. Bu farw rhai o honynt yn fuan o ymollyngiad meddwl; eraill a giliasant o'r golwg, ac ni chlybuwyd am danynt mwy. Am y gŵr ieuanc cyfoethog, bu yn nghudd ac yn alltud hyd nes y darfu i'w rieni allu prynu ei ryddid iddo, a'i ddwyn drachefn dan nawdd y gyfraith. Dywedir i'r ddedfryd hon ddwyn dirfawr ymwared i'r crefyddwyr, ac i arswyd eu herlid ddisgyn ar y gwŷr mawr.

Fel y darfu i ni sylwi, pregethwr athrawiaethol oedd Peter Williams yn benaf. Y deall a'r gydwybod a gyfarchai fel rheol, ac nid yn aml yr appeliai at y teimlad. Y mae lle i gasglu nad oedd yn gefnogol iawn i'r tori allan, a'r molianu, a fyddai yn cydfyned a'r diwygiadau. Ac eto, torai y cynulleidfaoedd allan mewn clodforedd a mawl, nid yn anaml, tan ei weinidogaeth ef ei hun. Pan yr ymwelai Howell Harris â Llangeitho un tro, wedi iddo ymgymodi a'r Methodistiaid, Peter Williams oedd yn pregethu yn y Gymdeithasfa, ac aeth yr holl gynulleidfa yn fflam, nes yr oedd enaid y Diwygiwr o Drefecca yn llawenychu ynddo. Ceir cofnod tra dyddorol am dano yn nydd-lyfr un o "deulu" Trefecca. Daeth ar daith i Frycheiniog, gwedi marw Harris, gan bregethu efengyl y deyrnas, ac nid oedd am ddychwelyd heb ymweled â Threfecca. Evan Moses a lywodraethai yno ar y pryd, ac ymddengys ei fod yntau yn anghefnogol i bob arddangosiad o deimlad mewn cyfarfod crefyddol. A ganlyn yw y cofnod: "Dydd Mercher, 6 Gorphenaf, 1774. Pregethodd Peter Williams yma. Aeth Gwen Vaughan i neidio. Yr oedd Evan Moses yn dra anfoddlawn, a mynai beri iddi fod yn llonydd. Eithr yr efrydwyr (yn athrofa yr Iarlles Huntington) a gymerent ei phlaid. Eithr efe (Evan Moses) a ddygodd dystiolaeth yn ei herbyn gyda brwdfrydedd priodol, ac a ddywedodd wrth Mr. Williams y byddai raid iddo roddi cyfrif am gefnogi y fath deimladau anmhriodol. Hònai nad oedd hyn ond nwyd, a bod gwahaniaeth mawr rhwng calon ddrylliog ac yspryd cystuddiedig, ag yspryd cyfan a balch, fel ei heiddo hi, y rhai a wrthwynebent. Aeth Mr. Williams o'r pwlpud ar unwaith, pan ddywedodd Evan Moses wrtho y byddai raid iddo roddi cyfrif, gan ateb, y byddai raid iddo, yn ddiamheu." Felly y terfyna y cofnod, ac awgryma fod Peter Williams yn tueddu at fod o'r un syniad ag Evan Moses gyda golwg ar neidio a molianu.

Y mae yn bur sicr ddarfod i Peter Williams, heblaw teithio Cymru ar hyd ac ar led lawer gwaith, fod yn foddion i gychwyn llawer o achosion crefyddol yn ei sir ei hun. Efe, fel y cawn weled eto, a adeiladodd gapel Heol-y-dwr, Caerfyrddin, a hyny, gan mwyaf, os nad yn gyfangwbl, ar ei draul ei hun. Pe na buasai ond am ei lafur fel efengylydd, haeddai goffadwriaeth barchus, a lle uchel, yn mysg y Tadau Methodistaidd; eithr nid gormod dweyd mai mewn cylch arall y cyflawnodd waith pwysicaf ei fywyd, ac y gosododd ei gydgenedl tan y rhwymedigaeth fwyaf iddo. Yr ydym yn cyfeirio at ei lafur fel esboniwr. Darfu i'w waith yn dwyn allan y Beibl mawr, yn nghyd a sylwadau ar bob penod, yn y flwyddyn 1770, greu cyfnod newydd yn hanes llenyddiaeth grefyddol Cymru. Ychydig iawn a wnaethid yn y cyfeiriad yma o'r blaen. Ymddengys ddarfod i'r Parch. Evan Evans, "bardd ac offeiriad," fel ei gelwir weithiau, eithr sydd yn fwy adnabyddus wrth ei enw barddonol, Ieuan Brydydd Hir, ddechreu ysgrifenu sylwadau ar y Beibl, ar gynllun nid annhebyg i eiddo Peter Williams. Eithr dros nifer fechan o lyfrau cyntaf yr Hen Destament yn unig yr aeth efe, ac ni chafodd yr hyn a ysgrifenodd erioed ei argraffu.* Yr unig lyfr Cymreig o natur esboniadol, a gawsai ei gyhoeddi yn flaenorol i *Feibl Peter Williams*, mor bell ag y gwyddom, oedd *Cysondeb y Pedair Efengyl, gydag agoriad byr a nodau athrawus, ar yr hyn a dybid yn dywyll ac anhawsaf ynddynt*, gan y Parch. John Evans, A.C. Cawsai John Evans ei ddwyn i fynu yn y Meini Gwynion, ger Llanarth, ond gwasanaethai yn Plymouth, ac felly, fel "Offeir-

* *Llyfryddiaeth y Cymry*, tudal. 513.

iad Plymouth" yr adwaenid ef yn ei sir enedigol. Er ddarfod i'r *Cysondeb* ymddangos yn y flwyddyn 1765, sef tua phum' mlynedd o flaen y Beibl mawr, rhaid i Mr. Williams ddechreu ar ei waith lawn mor gynar a John Evans, os nad yn gynarach, gan fod ei faes yn llawer helaethach. Felly, nid gormod dweyd mai i Peter Williams y perthyn yr anrhydedd o fod yn dad esboniadaeth Gymreig.

Nis gellir dirnad y dylanwad a gafodd *Beibl Peter Williams* ar fywyd ysprydol y genedl. Prynwyd ef gydag awch; nid oedd teulu crefyddol o fewn y Dywysogaeth yn foddlon bod hebddo, os gallent rywlun hebgor yr arian i'w bwrcasu. Cynilai gweithwyr o'u henillion bychain, a braidd nad aent heb eu beunyddiol ymborth, er mwyn ei feddu. Yn y ddyledswydd deuluaidd, darllenid nid yn unig y benod allan o'r Ysgrythyr, eithr sylwadau Peter Williams yn ogystal, a phrin y deallai llawer o ddynion da a duwiol nad oedd y sylwadau mor ddwyfol a'r Beibl ei hun. Ofer fyddai i neb feiddio dweyd gair yn ei erbyn; yr oedd sylw y Beibl mawr ar unrhyw fater yn derfyn ar bob ymryson. Edrychid arno gyda y parchedigaeth mwyaf, fel rhan anhebgor o addoliad Duw yn y teulu; coffaid y sylwadau yn y seiadau, a buont yn ymborth ac yn faeth i bererinion Seion o'r adeg yr ymddangosasant hyd y dydd hwn. Ceir rhai yn bresenol yn dibrisio sylwadau Peter Williams, gan ddweyd na ddaliant eu cymharu ag amryw o'r esboniadau sydd erbyn hyn wedi eu cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg. Dywedwn ninau na ddylid eu cymharu. Cyn cael syniad priodol am werth y sylwadau, rhaid galw i gof sefyllfa Cymru o ran manteision addysg pan yr ysgrifenwyd hwynt. Ychydig o lyfrau oedd yn y wlad, a'r ychydig hyny, gan mwyaf, allan o gyrhaedd y werin. Yr oedd yr Ysgol Sabbothol heb ei sefydlu, ac yr oedd yr hen Efengylydd o Gaerfyrddin yn tynu at derfyn ei yrfa, pan yr oedd Mr. Charles yn anterth ei nerth yn llafurio i'w chychwyn. Ychydig, mewn cymhariaeth, a fedrent ddarllen, er fod ysgolion cylchynol Griffith Jones wedi gwneyd llawer o les yn y cyfeiriad hwnw. Felly, braidd nad unig gyfrwng gwybodaeth grefyddol o fewn cyrhaedd y lliaws oedd yr hyn a geid yn ngweinidogaeth yr efengyl, ac yn y seiadau. I'r werin bobl, yn y sefyllfa yr oeddynt ynddi ar y pryd, nis gellid cael dim gwell na sylwadau Peter Williams. Ac erbyn cymeryd pob peth i ystyriaeth, y syndod yw eu bod mor sylweddol, cyfoethog, a chyflawn. Ei gynllun ei hun a gymerodd, ac y mae ei ddelw ei hunan ar yr holl sylwadau yn amlwg, er, ar yr un pryd, nad oedd yn amddifad o lyfrau cynorthwyol, yn mysg pa rai, y penaf, efallai, oedd sylwadau Osterwald, yr Allmaenwr, y rhai a gawsent eu cyfieithu ychydig yn flaenorol. Cadwai Mr. Williams ddau amcan o'i flaen wrth ysgrifenu ei sylwadau, sef, ar y naill law, gosod ynddynt ddigon o fater, fel ag i fod yn gymhorth sylweddol i'w gyd-genedl mewn ystyr grefyddol; ac ar y llaw arall, peidio esgyn uwchlaw cyrhaeddiadau gwerin ei oes, rhag i'w lafur brofi yn ddifudd. Yn y ddau beth hyn bu yn dra llwyddianus.

Nid bychan y llafur oedd yn angenrheidiol tuag at barotoi y gwaith, ac y mae yn syn iddo allu ei gyflawni, pan feddyliom ei fod yn teithio cymaint o gwmpas gyda phregethiad yr efengyl. Nid bychan oedd yr anturiaeth, ychwaith, o ddwyn allan argraffiad yn cynwys 8,600 o gopïau, yn arbenig pan y cofir nad oedd poblogaeth y Dywysogaeth y pryd hwnw fawr mwy nag un rhan o dair o'r hyn ydyw yn awr. Llawer o'i frodyr, â pha rai yr ymgynghorasai, a gredent mai ffolineb oedd meddwl am y fath beth, ac a geisient ei berswadio i roddi i fynu y syniad. Ond mor angerddol oedd ei zêl, a chymaint ei ffydd, fel y gosododd ei wyneb fel callestr. Profodd y canlyniad mai efe oedd yn ei le, a choronwyd yr anturiaeth â llwyddiant. Gwerthwyd yr argraffiad cyntaf allan yn llwyr yn mhen ychydig flynyddoedd, a daeth galw am ail argraffiad.

Heblaw y Beibl mawr, gyda sylwadau ar bob penod, dygodd Peter Williams allan y *Mynegair Ysgrythyrol*, yr hwn lyfr, er nad ellir ei ystyried yn hollol wreiddiol, a fu o wasanaeth dirfawr i'r genedl. Siaradai Mr. Charles yn uchel iawn am dano, a chafodd gylchrediad helaeth. Iddo ef, hefyd, y perthyn yr anrhydedd o ddwyn allan y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf yn yr iaith Gymraeg, yr hwn a alwai, *Trysorfa Gwybodaeth*, neu, *Yr Eurgrawn Cymraeg*. Cyhoeddiad pythefnosol ydoedd, pris tair ceiniog; pymtheg rhifyn o hono a ddaeth allan. Cyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1770. Erbyn hyn y mae cyfnodolion Cymru yn llu mawr iawn, ond *Trysorfa Gwybodaeth* Peter Williams oedd ysgub y blaenffrwyth. Yn ychwanegol at y *Beibl*

*Teuluaidd*, *Y Mynegair*, yn nghyd â *Beibl John Canne*, at yr hwn y cawn gyfeirio eto, cyhoeddodd nifer mawr o fân lyfrau, ar wahanol faterion, rhai yn wreiddiol iddo ei hun, ac eraill yn gyfieithiadau o'r Saesneg, ond oll yn tueddu i lesoli ei gydwladwyr, yn foesol a chrefyddol. Ysgrifenodd gryn lawer o farddoniaeth o bryd i bryd, a thebyg fod y ddawn bryd-yddol yn bur gryf ynddo, ond gan fod Williams, Pantycelyn, yn cydoesi ag ef, ac yn seren mor ddysglaer, ni ddaeth ef i lawer o amlygrwydd fel bardd. Modd bynag, gellir gweled oddiwrth hyn oll fod ei lafur yn ddiderfyn, ac nad oedd ball ar ei yni.

Yr ydym wedi cyfeirio at y Beibl mawr, yn nghyd a'r sylwadau ynddo ar bob penod, fel prif waith Peter Williams, ac fel colofn benaf ei anrhydedd; ond yn nglyn â hyn, hefyd, y cychwynodd ei brofedigaethau, a dyma, yn y diwedd, a fu yn achos iddo gael ei ddiarddel gan Gymdeithasfa y Methodistiaid. Buasai yn dda genym allu pasio heibio hyn, ond y mae yr helynt yn un mor gyhoeddus, fel y rhaid i ni gyfeirio ati. Yn yr argraffiad cyntaf o'i Feibl, ceir y sylw canlynol ar y benod gyntaf yn Efengyl Ioan: "Yr un yw meddwl Duw a'i ewyllys, a'r un yw ei ewyllys a'i air (o herwydd nid yw yn cyfnewid), ac efe a ewyllysiodd cyn bod byd nac angel, roddi Crist yn ben ar y byd; felly, y mae Duw yn Dad, Mab, ac Yspryd Glân, o dragywyddoldeb, yn ei ewyllys dragywyddol ei hun; nid 'mewn dull angenrheidiol o *fod*, pe na buasai rhaid achub un dyn, na sancteiddio un enaid,' fel y mae rhai mewn annoethineb yn dywedyd; eithr am ei fod yn ewyllysio achub a sancteiddio; canys Crist (yn yr hwn y mae doethineb Duw yn ymddangos yn benaf) oedd hyfrydwch y Tad yn nechreuad ei ffyrdd; ac yn Alpha ac Omega ei holl weithredoedd; yn gytunol a'r hwn ewyllys, *Y Gair* (yn nghyflawnder yr amser) *a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni*,—ac fe welodd rhai ei ogoniant, ac a gredasant fod Iesu yn Dduw! Nid 'yn Dduw trwy ordeiniad,' fel y mae rhai yn ofer siarad, eithr mai efe yw yr *unig* wir a'r bywiol Dduw; canys y mae yr ysgrythyr yn tystio mae'r Dyn Iesu yw'r Tad tragywyddol; a phwy Gristion a ddichon ddyoddef cabledd y rhai a wadant Dduwdod Crist?"

Nid yw yn hollol glir pa beth a olyga yn y sylwad hwn. Efallai nad yw y geiriau yn gwbl annghyson a'r syniad fod y Duwdod yn hanfodi erioed, ac o angenrheidrwydd natur yn Dri Pherson; ond am y berthynas hanfodol hon, nad oes genym unrhyw wybodaeth, am nad ydyw wedi ei ddatguddio i ni; ac mai perthynas y Personau Dwyfol a'u gilydd yn nhrefn iachawdwriaeth pechadur yn unig sydd yn cael ei dynodi yn yr enwau Tad, Mab, ac Yspryd Glân. Os mai hyn a feddyliai, bu yn dra anffortunus yn ei ddull o eirio, a dweyd y lleiaf. Pa mor fuan y craffodd yr arweinwyr yn mysg y Methodistiaid ar y sylwad, ac y dygwyd achos yr awdwr ganddynt i'r Gymdeithasfa, gan ei gyhuddo o Sabeliaeth, sydd yn anhysbys. Y tebygolrwydd yw na ddigwyddodd hyn cyn yr ail argraffiad o'r Beibl mawr, a ddygwyd allan yn y flwyddyn 1781, gan ddarfod i'r un sylwad yn hollol ymddangos yn hwnw. Eithr yn fuan ar ol hyn, daeth y pwnc yn destun dadleuaeth frwd a phoenus mewn gwahanol Gymdeithasfaoedd. Nid yw hanes y ddadl genym, eithr cyfeiria Peter Williams ati yn un o'i lythyrau, a ysgrifenwyd ganddo tua diwedd ei oes. Fel hyn y dywed: "Ond amheu yr wyf fod rhyw rai yn cyffroi cynhen, trwy adgoffa yr hen ddadl, yn nghylch Maboliaeth ein Hiachawdwr, Iesu Grist; sef, pa un ai trwy genhedliad tragywyddol o *sylwedd y Tad*, fel y dywed rhai, neu o herwydd y natur ddynol a genhedlwyd trwy yr Yspryd Glân, fel yr wyf fi, yn ostyngedig yn meddwl, y cafodd ei alw yn Fab. Salm ii. 7." Profa y difyniad i ddadl boenus gymeryd lle ar y mater yn y Gymdeithasfa. Y mae yn sicr fod y Gymdeithasfa yn gyffredinol yn annghymeradwyo y sylwad; yr oedd yn anmhosibl i Daniel Rowland yn arbenig beidio, gwedi y safle a gymerodd yn y ddadl â Howell Harris; a diau fod Williams, Pantycelyn, yn cydweled ag ef. Ar yr un pryd, tra yr oedd plaid am ddiarddel yr esboniwr fel un oedd yn euog o heresi, safai Rowland a Williams yn gryf yn erbyn defnyddio mesurau mor eithafol. Nid annhebyg fod yn edifar gan y ddau na fuasent wedi cyd-ddwyn mwy â Harris; yr oedd canlyniadau alaethus yr ymraniad yn fyw yn eu cof; ac erbyn hyn, yr oedd addfedrwydd oedran a dechreuad henaint wedi dysgu goddefgarwch iddynt. Felly, ni fynai y naill na'r llall glywed am ddiarddel Peter Williams, eithr ymfoddlonasant ar annghymeradwyo ei olygiad, a gweini cerydd iddo. Nid annhebyg fod cerydd Rowland

yn dra llym, ond gwyddai yr Esboniwr ei fod yn cyfodi oddiar gariad, ac felly gallai ei oddef. Hyn barodd iddo ganu yn ei farwnad i Daniel Rowland :—

"O, mrawd Rowland, ni'th anghofiaf,
Ti roddaist i mi lawer sen;
Ymhob tywydd, ymhob dirmyg,
Pwy ond ti orchuddiai 'mhen?"

Tawelodd yr ystorm am beth amser, a chafodd Peter Williams ryddid i fyned o gwmpas fel arfer, i bregethu yr efengyl, ac i werthu ei lyfrau. Eithr tua'r flwyddyn 1790, dyma y dymhestl yn ail gyfodi, a hyny gyda mwy o gynddeiriogrwydd. A ganlyn oedd yr achos: Yn y flwyddyn a nodwyd, dygodd Peter Williams allan argraffiad o Feibl bychan, gyda chyfeiriadau John Canne ar ymyl y dail, a nodiadau eglurhaol o'i eiddo ei hun ar y godre. Y tebygolrwydd yw ddarfod iddo ymgymeryd a'r anturiaeth o gyhoeddi y Beibl hwn oddiar gymeradwyaeth ei frodyr yn y Gymdeithasfa, a chydag addewid am eu cynorthwy tuag at ei ledaeniad. Yr oedd y nodiadau eglurhaol yn cynwys sylwadau ar y Drindod, a Mabolaeth Crist, nid annhebyg i'r sylwad a ymddangosasai yn y *Beibl Teuluaidd;* yn wir, braidd na ddefnyddiai yr Esboniwr ymadroddion cryfach wrth egluro ei olygiadau neillduol ei hun. O angenrheidrwydd, tueddai hyn i ail enyn y tân. Er mwyn cael gwybodaeth helaethach am olygiadau Peter Williams parthed y Drindod, ni a ddifynwn ychydig ymadroddion allan o draethawd a ysgrifenwyd ganddo yn fuan gwedi ei dori allan, yr hwn a eilw yn *Dirgelwch Duwioldeb.* Meddai: "Y mae yn angenrheidiol credu fod yn *undod* y Duwdod *Drindod*, sef Tri Pherson yn un Duw, ac a cilw yr Ysgrythyr, y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân. Ond na feddylied y darllenydd fod tri *hanfod gwahanol*, canys fe fyddai hyny yn wrthwyneb i *undod y Duwdod*. Nage, eithr y maent yn Dri Pherson mewn un hanfod." Beth a allai fod yn fwy uniongred? Yn nes yn mlaen, cawn: "Y Tad yw ffynhon y Duwdod, canys Duw trwy yr Yspryd a genhedlodd y Mab o Fair y Forwyn. Ac, fel y dywed y Credo, y mae yr Yspryd yn deilliaw oddiwrth y Tad a'r Mab." Eithr yn fuan yr ydym yn dyfod ar draws cymysgedd; cymysgedd syniadau, yn gystal ac aneglurder geiriad: "Y sawl a ddysgir gan Dduw i weled y fendigedig Drindod yn nghnawd y dyn Crist Iesu (pa mor ddiffygiol bynag fyddont mewn dysgeidiaeth ddynol), hwy a fedrant dystiolaethu trwy brofiad fod yr olwg arno yn adfywio eu heneidiau." Eto: "Ni feiddiaf fi ddweyd fod Trindod yn angenrheidiol i *hanfod* Duw, fel y mae rhai yn rhyfygus haeru; eithr mi a ddywedaf, ac yr wyf yn credu, fod y Drindod yn gwbl angenrheidiol i ddatguddio Duw i etifeddion bywyd tragywyddol." Eto: "Un yw Duw, a'r Mab ynddo fel brigwydd (*misletoe*) yn y pren, yn byw ar nodd y pren, heb un gwreiddyn gwahanol." Eto: "*Ail* Berson," meddynt (sef gwrthwynebwyr Peter Williams), "wedi ei genhedlu gyda Duw! Y mae yn anmhosibl i Dduw genhedlu Duw arall; os darfu Duw genhedlu Duw, rhaid fod yr un a genhedlwyd yn llai na'r hwn a'i cenhedlodd. Onid yw y cyfryw athrawiaeth ddisail yn waradwydd i Gristionogrwydd?" Eto: "Nid yw yr *Ail Berson* a genhedlodd Duw yn nhragywyddoldeb, allan o hono ei hun, ar ei ddelw ei hun, ond *person dychymygol*, nad oes son am dano yn y Beibl." Eto: "Fel y mae'r Tri Pherson wedi ymbarotoi i waith iachawdwriaeth; neu, fe ellir dweyd, y mae Duw wedi addasu ei hun dan y tri enw, Tad, Mab ac Yspryd." Rhaid addef y cynwysa y difyniadau uchod ymadroddion dyeithriol, a dweyd y lleiaf, am y Drindod, ac am berson ein Harglwydd; ac oni thybir eu bod yn cael eu hachosi gan gymysgedd iaith a syniad, a chan anfedrusrwydd i gyflwyno ei olygiadau i'r cyhoedd mewn iaith glir, nis gellir rhyddhau yr Esboniwr oddiwrth y cyhuddiad ei fod yn tueddu yn gryf i gyfeiriad Sabeliaeth.

Darfu i beth arall yn nglyn â dygiad allan ei argraffiad o *Feibl John Canne* chwerwi y teimlad yn erbyn Peter Williams yn ddirfawr, sef ei waith yn newid y cyfieithiad mewn amrywiol fanau. Yn ngholwg llawer o'r Methodistiaid, yr oedd y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyr lân agos mor ysprydoledig a'r Ysgrythyr ei hun; rhyfyg enbyd yn eu golwg fyddai i neb, pa mor ddysgedig bynag y gallai fod, geisio newid gair neu ymadrodd ynddo; a phwy bynag feiddiai, caffai deimlo pwys eu hanfoddlonrwydd. Pan ddeallwyd ddarfod i Peter Williams ryfygu newid y cyfieithiad, cododd cri cyffredinol yn ei erbyn. Cyhuddwyd ef o wneyd hyny er naddu yr adnodau i ffitio ei gyfundraeth. Nid yw yn ymddangos fod y cyfnewidiadau yn bwysig iawn, a thueddwn i feddwl na amcanai efe, wrth eu gwneyd, gefnogi unrhyw gyfundraeth benodol o'i eiddo ei

hun; ar yr un pryd, rhaid addef fod rhai o honynt yn tueddu i greu drwgdybiaeth. Yn Diar. viii. 25, lle y gosodir yn ngenau Crist y geiriau: "Cyn sylfaenu y mynydd-oedd, o flaen y bryniau, y'm cenhedlwyd,' cyfieithai Peter Williams, "O flaen y bryniau y'm hesgorwyd." A chan ei fod yn gwadu ddarfod i'r Mab gael ei genhedlu er tragywyddoldeb, oddigerth yn arfaethol, yr oedd y newidiad a wnaeth yn peri i bobl dda fyned yn ddrwgdybus o burdeb ei amcan. Ei reswm ef oedd fod y gair yn yr iaith wreiddiol yn cael ei arfer yn yr ystyr a roddai efe iddo. Yn Esaiah liii. 10, yn lle "pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod," darllenai, "pan idiadau, nid oedd unrhyw newidiad ar y synwyr; ond rhwng ysgelerder y trosedd, yn ngolwg llawer, o gyffwrdd mewn un modd a'r cyfieithiad o'r Beibl, a'i fod yn dyfod ar gefn geiriadaeth gymysg-lyd, os nad rhywbeth gwaeth, am athraw-iaeth y Drindod, cododd y llif yn uchel yn erbyn yr Esboniwr o Gaerfyrddin.

Cyn canlyn y ddadl i'w therfyn, gwedd-us nodi fod Peter Williams mewn llafur dirfawr gyda gweinidogaeth yr efengyl yn ystod yr holl amser y dygai ei argraffiad o *Feibl Canne* allan, megys cyn hyny. Ceir prawf nodedig o hyn mewn llythyr o'i eiddo, yn ei lawysgrif ef ei hun, sydd ar gael yn Nhrefecca, yr hwn na argraffwyd



CAPEL HEOL-Y-DWR, CAERFYRDDIN.

osodo efe ei hun yn aberth dros bechod.' Dros hyn, rhydd ddau rheswm, sef fod y gair yn y gwreiddiol yn arwyddo yr holl ddyn, a'i fod yntau am ragflaenu cyfeil-iornad, gan fod rhai yn tybio mai enaid dyn yn unig sydd yn pechu, ac felly mai enaid y Gwaredwr yn unig a ddylai ddyoddef. Ond, yn sicr, nid oes gan gyfieithydd un hawl i roddi darlleniad penodol er rhagflaenu cyfeiliornad. Yn y 12fed adnod o'r un benod: "Efe a rana yr yspail gyd â'r cedyrn," darllenai, "Efe a feddiana yspail y cedyrn." Yn Hebreaid v. 9, yn lle "Efe a wnaethpwyd yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol," darllenai, "Efe a ddaeth yn Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol." Mewn llawer o'r cyfnew-erioed. Yr ydym yn ei gyhoeddi air am air, a llythyren am lythyren, fel yr ysgrif-enwyd ef, gan fod cryn ddyddordeb yn perthyn iddo ar amryw gyfrifon: "Caer-fyrddin, Awst 22, 1789. Fy nghyfeillion, Yr wyf yn gobeithio eich bod yn iach, fel, trwy drugaredd, yr wyf finau. Dyma Gig 4 X yn dyfod i'ch dwylaw; atolwg, a gawsoch chwi bob papurlen a ddylasech ei chael? Dywedodd Mr. Wosencroft wrthyf i'w gyfaill adael yr un a ym-ddiriedais iddo ef, naill ai gyda Longfellow yn Aberhonddu, neu yn y postdy. Os ydych heb ei chael, mi a ymofynaf yn fanylach. Yr wyf yn rhyfygu diwygio ambell air yn y cyfieithiad beunydd; ac yr wyf yn hyderu ynoch, yn yr Arglwydd,

y bernwch yn ddiduedd; ac os gwelwch fi yn cyfeiliorni, dilynwch yr hen ffordd! Yr wy'n meddwl eich bod yn fy nyled o brawflen, ond nid ydych yn ofni y diangaf yn rhy bell arnoch! Yr wyf yn gweled Beibl Mr. Canne yn fwy buddiol pa fwyaf y trafodwyf arno; ac oni chaiff e' gam yn y wasg, e' fydd yn odidog. Chwi anfonasoch i mi *ddwy* brawflen y tro diweddaf. Pa un ai'n fwriadol, neu'n ddamweiniol, nis gwn; ond yr oedd un yn rhy ddu! ac mi taflais hi heibio. Yr wyf yn myned y Sabbath nesaf i Gapel Colby, neu'r Capel newydd, ar gyffyniau tref Aberteifi, ac yn bwriadu dychwelyd dydd Mawrth, i yru'r *gwaith* ymlaen drachefn. Llwydded yr efengyl fwy fwy er gwaethaf holl gryfder y gelyn. A bendith yr Arglwydd fo' ar bob duwiol amcan a lles i Sion ac adeiladaeth y Jerusalem newydd! yw dymuniad eich cydbererin a'ch cyfaill yn y cariad a bery byth,—PETER WILLIAMS." Ymddengys i'r llythyr yma gael ei anfon at y gŵr a arolygai yr argraffwasg yn Nhrefecca, lle yr oedd y Beibl hwn yn cael ei argraffu. Gwelir fod Peter Williams, er yn dynesu at ei nawfed-flwydd-a-thriugain, yn llawn llafur gyda phregethu yr efengyl, ac yn myned o gwmpas, a hyny i gryn bellder, yn feunyddiol. Gweddus hefyd hysbysu fod y Parch. David Jones, gweinidog perthynol i'r Bedyddwyr, yn gyfranog ag ef yn nygiad allan Beibl Canne, ond dywedir mai ar ysgwyddau Mr. Williams y disgynodd pwys y gorchwyl.

Y mae yn sicr ddarfod i'r dymhestl ruthro ar Peter Williams yn ei holl rym yn y flwyddyn 1790, ac i'w olygiadau fod yn destun dadleuaeth chwerw yn amryw o Gymdeithasfaoedd y flwyddyn hono, yn y Dê a'r Gogledd. Ei brif wrthwynebydd, fel y dywed traddodiad, oedd y Parch. Nathaniel Rowland, mab yr hen Efengylydd o Langeitho. Yr oedd ef yn llawn uchelgais, yn ddyn nodedig o falch, ac yn awyddu am lywodraethu yn y Gymdeithasfa, a diau y tybiai, ond iddo allu symud Peter Williams o'r ffordd, fod y llwybr i'r gadair uchaf yn rhydd iddo. Yr oedd Daniel Rowland yn llesg, ac yn analluog i fyned oddicartref, a bu farw, fel y gwelsom, Hydref, 1790. Yr oedd gwendidau henaint wedi cael goruchafiaeth ar Williams, Pantycelyn, yn ogystal, a bu yntau farw yr Ionawr canlynol. Felly, nid oedd neb o hen gyfeillion yr Esboniwr yn gallu dyfod i'r Gymdeithasfa i'w amddiffyn. Eithr dywedir fod Rowland, tra yn annghymeradwyo golygiadau ei gyfaill, yn anfoddlawn i weithredu yn llym tuag ato; a phan y daeth ei fab, Nathaniel, adref o ryw gyfarfod, gan ymffrostio ei fod wedi llwyddo i gael pleidlais o gondemniad ar Peter Williams, iddo dori allan, a dweyd: "Nat, Nat, ti a gondemniaist dy well." Yn cynorthwyo Nathaniel Rowland yr oedd Griffiths, Nevern, offeiriad arall; a phrin yr oedd neb yn y Gymdeithasfa yn meddu digon o nerth i wrthwynebu y ddau. Rhaid addef, hefyd, fod Peter Williams ei hun yn gyndyn a gwrthnysig; amddiffynai ei hun mewn tôn chwerw; ni wnai leddfu ei ymadroddion, na newid ei ddull o eirio, i gyfarfod â syniadau ei frodyr. Mor wir y dywediad, fod grym a gwendid gŵr yn tarddu o'r un ffynhonell! Yn awr, y mae ewyllys gref, anhyblyg, yr hen weinidog o Gaerfyrddin, yr hon a'i daliai yn ngwyneb llid ac erlid ei elynion, yn peri ei fod yn ystyfnig pan y ceisiai ei gyfeillion ei ddarbwyllo.

Dywed Owen Williams, yr hwn a ysgrifenodd gofiant iddo, i'r ddadl gael ei chychwyn yn Nghymdeithasfa y Bala, yn yr hon yr oedd Daniel Rowland yn bresenol, ac i Peter Williams amddiffyn ei hun mor gadarn, a rhesymol, ac Ysgrythyrol, nes taro ei wrthwynebwyr â mudandod; a phan y gofynwyd i Daniel Rowland a wnai ef ateb, dywedodd na wnai, fod y mater yn rhy bwysfawr, ac nad oedd ganddo ddigon o ddeall i wybod a ydoedd Peter Williams yn cyfeiliorni, ai nad oedd. Yr unig un, meddir, a feiddiodd wrthwynebu yn y Gymdeithasfa hono oedd Richard Tibbot, yr hwn, er ei fod wedi ymuno a'r Annibynwyr, a ddeuai i gymanfaoedd y Methodistiaid, ac a gymerai ran yn y dadleuon. Trueni mawr na fuasai yr Esboniwr wedi cael gwell cofiantydd; yr oedd Owen Williams, heblaw pob annghymhwysder arall, yn llawn rhagfarn at y Methodistiaid. Daeth y mater yn destun sylw drachefn yn Nghymdeithasfa Aberystwyth; nid oedd Daniel Rowland yn bresenol yn hon, ac yma tybir ddarfod i Nathaniel Rowland gymeryd rhan flaenllaw yn y ddadl. Yn Nghymdeithasfa Llanidloes, a gynhaliwyd yn y flwyddyn 1791, gwedi ymdriniaeth faith, ymddengys i'r frawdoliaeth ddyfod i'r penderfyniad fod yn rhaid diarddel Peter Williams, oddigerth iddo ymwrthod a'r syniadau a gyhoeddasai, ac addaw peidio eu cyhoeddi rhagllaw. Nid oedd ef yn bresenol, eithr

anfonwyd llythyr ato yn ei hysbysu o'r penderfyniad. Mewn canlyniad, cawn ef yn ysgrifenu at ei gyfaill: "Mi a gefais lythyr anngharuaidd oddiwrth y brodyr yn Llanidloes, yr hwn a barodd i mi fawr ofid calon." Eithr tynu ei eiriau yn ol ni fynai, nac addaw peidio eu cyhoeddi yn ol llaw; yn y peth hyn, nid oedd darbwyllo arno, a'r diwedd fu iddo gael ei lwyr ddiarddel yn Nghymdeithasfa Llandilo, yn y flwyddyn 1791. Nid yw hanes y drafodaeth genym, felly, ni wyddom pwy a gymerodd ran yn y ddadl. Nid oes amheuaeth mai prif wrthwynebydd Peter Williams yma eto oedd Nathaniel Rowland, i'r hwn y telid llawer o barch ar gyfrif ei dad enwog. Efe yn unig a ddelir yn gyfrifol am y weithred gan draddodiad, a chredir mai goddefol a fu corph y Gymdeithasfa. Gwir fod y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, a'i frawd, y pryd hwnw, Mr. David Charles, Caerfyrddin, yn bresenol; ond ymddengys iddynt fod yn hollol ddystaw yn ystod yr ymdrafodaeth. Nid oedd gan y Parch. Thomas Charles un drwg-deimlad at yr hen Esboniwr; yr oedd yn gyfoed, a buasai yn gydefrydydd, a'i fab, sef y Parch. Eliezer Williams, a dywedir ei fod ar delerau cyfeillgar, os nad rhywbeth mwy, ag un o'i ferched. Gwyddis am dano, hefyd, mai un o heddychol ffyddloniaid Israel ydoedd. Eithr yr oedd yn gymharol ieuanc, ac nid oedd blynyddoedd lawer er pan yr ymunasai a'r Methodistiaid, felly, prin yr oedd yn briodol iddo gymeryd rhan mewn dadl mor bwysig, ac yr oedd yn rhy yswil i wrthwynebu dau offeiriad o safle. Am Mr. David Charles, nid oedd yntau ond dyn ieuanc, a phrin y gellir tybio iddo agor ei enau. Gwyddom y ffyna traddodiad yn mhlith disgynyddion Peter Williams, hyd y dydd hwn, ddarfod i'r ddau Charles brofi yn anffyddlon iddo yn y Gymdeithasfa, a'u bod i raddau mwy neu lai yn gyfrifol am ei ddiarddeliad; ac oblegyd hyn, na fu y teimladau goreu yn ffynu rhwng y ddau deulu am beth amser. Os oes rhyw sail i'r traddodiad, y tebygolrwydd yw mai bod yn ddystaw a wnaethant, pan, yn ol barn cyfeillion Peter Williams, y dylent lefaru.


Y mae llawer iawn o feio wedi bod ar y Methodistiaid oblegyd eu hymddygiad at Peter Williams; awgrymir fod a fynai cenfigen a'r peth, a'u bod yn gul, yn anfrawdol, ac yn hòni anffaeledigrwydd. Am Nathaniel Rowland, ac eraill o'i wrthwynebwyr, gallent fod yn cael eu dylanwadu gan deimladau personol, ond y mae yn anmhosibl credu hyny, am gorph y Gymdeithasfa. Pe y cawsai teimlad personol le, diau y buasai yn troi o blaid cadw yr hen Esboniwr i mewn, ar gyfrif ei oedran, ei barchusrwydd, a'i ddefnyddioldeb. Ac y mae yn anmhosibl pwysleisio gormod ar y ffaith mai goddefol yn benaf a fu y Gymdeithasfa ar y mater. Dylid cofio hefyd fod pwys mawr yn cael ei roddi y pryd hwnw ar uniongrededd, fod cyfeiliornad mewn barn ar brif bynciau yr efengyl yn cael ei ystyried yn waeth na chyfeiliornad mewn buchedd. Talai ein tadau warogaeth i wirionedd; credent fod y ffydd a rodded unwaith i'r saint yn werth dyoddef o'i phlegyd, ac yn teilyngu aberthu cyfeillgarwch, a theimlad personol er ei mwyn. Pwy a faidd ddweyd nad hwy oedd yn eu lle? Ai nid yw llawer o'r rhyddfrydigrwydd, a'r goddefgarwch, am yr hyn bethau y molir yr oes bresenol, pan fyddo syniadau amheus yn cael eu traethu, yn codi o ddifaterwch, ac o ddiffyg teyrngarwch dwfn o'r gwirionedd? Anhawdd peidio tosturio wrth Peter Williams, pan y gwelwn ef yn ei henaint yn cael ei alltudio o fysg ei frodyr a'i gyfeillion, a hyny am amddiffyn yr hyn a ystyriai ef yn wir athrawiaeth. Yr oedd y Gymdeithasfa hefyd yn wrthddrych tosturi, oblegyd yr oedd llygaid llawer o'r aelodau yn llawn dagrau wrth ei weled yn cael ei fwrw allan. Meddai *Methodistiaeth Cymru*: "Os gwnaed cam ag ef, o gamsynied y bu hyny, ac nid o fwriad; os bwriwyd ef allan gyda gormod ffrwst a haerllugrwydd, fe wnaed hyny mewn poethder dadl, ac oddiar syfrdandod yr ymryson." Y mae yn dra sicr genym, oddiar ein hadnabyddiaeth o brif ddynion y Methodistiaid ar y pryd, mai goddefol a fuont yn y cam, os cam hefyd; ac na fuasent yn oddefol oni bai fod cymysgedd syniadau yr Esboniwr yn peri iddynt betruso.

Trychinebus iawn i Peter Williams a fu ei ddiarddeliad gan y Methodistiaid, oblegyd nid yn unig cauwyd capelau yr enwad rhag iddo gael pregethu ynddynt, ac anghefnogwyd yr aelodau i fyned i'w wrando; eithr trwy hyny, rhwystrwyd gwerthiant y Beibl bychan a ddygodd allan, neu *Feibl Canne*. Ymosoda ei fywgraffydd, Owen Williams, Waunfawr, yn enbyd ar y Methodistiaid o'r herwydd, gan eu cyhuddo o dori amod ag ef. Yn y

mater yma hefyd, y mae yn sicr ei fod yn gwneyd cam â hwynt. Nid oeddynt wedi amodi cefnogi gwerthiant llyfr a gynwysai sylwadau oeddynt, yn ei barn hwy, yn gyfeiliornus a pheryglus. Os bu tori amod yn y mater, Peter Williams wnaeth hyny, trwy osod i mewn yn nglyn a'r Beibl nodiadau ag yr oedd y Methodistiaid yn flaenorol wedi dangos annghymeradwyaeth hollol o honynt. Mewn canlyniad, arosodd y Beiblau yn llu ar law Peter Williams a David Jones, a throdd yr anturiaeth allan yn dra cholledus. Gwedi ei ddiarddel, elai yr hen Esboniwr o gwmpas i bregethu fel cynt, eithr cadwai ei hen gyfeillion i ffwrdd oddiwrtho. Agorai yr enwadau eraill eu capelau iddo, ond y mae lle i ofni nad tosturi at ei gyflwr, na chydymdeimlad a'i olygiadau, oedd y rheswm am hyny, yn mhob amgylchiad; yn hytrach, hoffent gael cyfle i dderbyn un ag yr oedd y Methodistiaid wedi ei wrthod. Eithr os tybiai y naill blaid neu y llall y gwnai yr hen Esboniwr ymuno â hi, gwnaeth gamgymeriad; ni ddangosodd efe yr awydd lleiaf am ymuno â chyfundeb crefyddol arall; yn wir, nid yw yn ymddangos i'r syniad ddyfod i'w feddwl. Eithr gwnaeth apêl drosodd a throsodd at ei frodyr yn y Gymdeithasfa am ail driniaeth ar ei achos; y mae y llythyrau a ysgrifenodd ar gael, ac y maent yn dangos dysgeidiaeth, cydnabyddiaeth a'r Ysgrythyr, a gallu ymresymu o radd uchel; ond dangosant hefyd lawer o chwerwder yspryd. Eithr gan na ddangosai yr awydd lleiaf ei fod am dynu dim yn ol, na rhoddi i fynu amddiffyn ei olygiadau neillduol, ni wnai y Gymdeithasfa dderbyn ei apêl. Y mae ei ymlyniad ef o un tu, a'r Gymdeithasfa o'r tu arall, wrth yr hyn a ystyrid yn wirionedd ganddynt, er cryfed y cymhellion i roddi ffordd, yn ddangoseg o gydwybodolrwydd dwfn yn y naill a'r llall. Eithr nis gallwn lai na gofidio iddo gael ei demtio i fyned i Gymdeithasfa y Bala, a gosod ei hun a'i hen gyfeillion mewn profedigaeth chwerw. Dywed ei fywgraffydd iddo gael ei wahardd i bregethu ar y *platform*. Yr ydym yn amheus iddo geisio hyny; os do, gwnaeth y cais, gan wybod mai ei wrthod a gaffai. Nid oedd rhith o reswm dros osod un a gawsai ei ddiarddel am gyfeiliornad, i bregethu yn y lle mwyaf cyhoeddus, a hyny gan y blaid a'i diarddelodd. Modd bynag, rhwng yr odfaeon, pan oedd yr heolydd yn llawn dynion, safodd Peter Williams ar gongl heol i bregethu. Rhaid mai enyn tosturi, a thaflu gwaradwydd ar y Methodistiaid, oedd ei amcan. Ar yr un pryd, gweddus hysbysu na ddywedodd air yn anmharchus am neb; ond iddo yn aml yn ystod ei bregeth gyfeirio gyda chymeradwyaeth at y pregethau blaenorol. Ond yr oedd yn flin gan y rhai a'i hadwaenent ei weled wedi gosod ei hun yn y cyfryw sefyllfa.

Nid ymddibynai Peter Williams am wrandawyr, a chyfleustra i bregethu, ar deithio o gwmpas; efe, fel y darfu i ni sylwi, a adeiladasai gapel Heol-y-dwr, Caerfyrddin, a hyny yn benaf ar ei draul ei hun; nid yw yn ymddangos fod ymddiriedolwyr wedi cael ei gosod ar y capel, nac unrhyw drosglwyddiad o hono i'r Methodistiaid wedi ei wneuthur; felly, yn gyfreithiol, ei eiddo personol ef ydoedd. Ac yma, yn benaf, y darfu iddo bregethu yr efengyl yn mlynyddoedd olaf ei oes, heb fod mewn undeb ag unrhyw blaid. Rhyw bum' mlynedd y bu byw wedi Cymdeithasfa Llandilo; gwanhaodd ei iechyd yn raddol, ac ymollyngodd ei gyfansoddiad cryf, eithr daliodd i bregethu ac i efrydu tra y medrai. Er dangos ansawdd ei yspryd, difynwn ranau o lythyr a ysgrifenwyd Awst 5, 1796, sef tri diwrnod cyn ei farw, gan ei fab, y Parch. Peter Bailey Williams, Llanrug: "Fy anwyl Frawd,—Yn ol pob ymddangosiad, bydd y post nesaf yn dwyn i chwi hanes marwolaeth fy anwyl dad. . . Pregethodd yn Nghaerfyrddin bythefnos i'r Sul diweddaf, ac yn Llanlluan y Sabbath dilynol. Yn y lle cyntaf, pregethodd yn rymus ac effeithiol i gynulleidfa fawr; ac yn y diweddaf, yr oedd yn anmhosibl i'r mwyaf anystyriol ddal dan ei appeliadau difrifol. Ond yr hyn a chwanegai at brudd-der yr olygfa oedd, ei fod yn siarad ac yn edrych fel dyn yn marw; ac yr oedd yr holl gynulleidfa yn wylo yn hidl wrth feddwl na chaent ei weled byth mwy. Y mae yn parhau i godi yn foreu; neu, gwnai hyny hyd o fewn ychydig ddyddiau yn ol; ac yn dilyn ei efrydiau arferol. Mae yn hynod dduwiolfrydig ei yspryd, ac yn hollol dawel dan ei flinderau. Parhaodd y weddi deuluaidd tra y gallodd dori geiriau. Y Sabbath diweddaf, gofynodd i Bowen, yr hwn oedd yn bresenol, fyned i weddi, gyda dweyd ei fod ef yn analluog, o herwydd diffyg anadl. 'Tra yr oeddwn yn gallu,' meddai, 'fy hyfryd waith oedd neshau at orseddfainc y gras.'

Ddoe, pan ddygodd fy mam iddo ychydig o lymru a gwin, safodd i fynu i ofyn bendith, er yn gwegian gan wendid, ac heb fod yn ddealladwy iawn cyn hyny, a dywedodd y geiriau canlynol mor eglur ag y clywais ef erioed: 'Anwyl Arglwydd, a gaf fi y fraint o neshau o dy flaen unwaith yn ychwaneg, a llefaru wrthyt, a deisyf dy fendith? Beth a ddywedaf? Rhyfedd wyt ti yn mhob peth, tu yma i golledigaeth ac uffern. Dysg i ni ymostwng i dy ewyllys, a dywedyd gyda'r hen Eli, Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg.' Mae fy mam yn drallodedig iawn, ac yn mhell o fod yn iach; ofnaf na pan ddaethum adref, ac ni chanfyddais erioed agwedd meddwl mwy nefolaidd. 'Aethum ar fy ngliniau i weddïo ar fy anwyl Iachawdwr,' meddai un diwrnod, 'ond yr oeddwn mor wan, fel mai prin y gallwn godi oddiar fy ngliniau.' Ddiwrnod neu ddau yn ol ymwelodd offeiriad o'r gymydogaeth ag ef, a'r unig ran ddifrifol oedd cyngor i fy nhad i beidio bod yn isel ei feddwl; neu, fel y dywedai ef (yr offeiriad), 'peidio gadael i'w galon fyn'd i lawr.' 'Nis gall fyn'd yn mhell, Syr, canys y mae craig o dani,' oedd ateb cyrhaeddgar ac effeithiol fy nhad. Mae fy mhapyr yn fy ngorfodi i derfynu; bydd fy



EGLWYS A MYNWENT LLANDYFEILOG.

[*Lle claddedigaeth Peter Williams.*]

bydd iddi fod yn hir ar ei ol. Yr wyf wedi cynyg gwerthu y capel yn Heol-y-dwr, mewn trefn i dalu ei ddyledion. A oes genych ryw wrthwynebiad? Mae y Methodistiaid wedi cynyg £250 am dano. Bydd yr elw oddiwrth y Beiblau mawr yn ddigon i gyfarfod y draul yn nglyn a'r Beiblau bychain; a bydd £200 arall, feallai, yn ddigon i glirio yr oll. Mae wedi gwneyd ei ewyllys yn ffafr fy mam, wrth gwrs; ac wedi gadael y cwbl iddi hi tra y bydd byw, a'r gweddill, ar ei marwolaeth hi, i fyned i David Humphreys a'i blant. Yr wyf wedi gwylio fy nhad nos a dydd er llythyr nesaf, yr wyf yn ofni, yn dwyn newydd drwg."

Nis gallwn sylwi ond ar un neu ddau o bethau yn y llythyr tra dyddorol hwn. Y "David Humphreys" y cyfeirir ato, oedd mab-yn-nghyfraith Peter Williams, a thad y Parch. David Humphreys, Llandyfeilog. Gallem feddwl, gan mai y Methodistiaid a feddianent gapel Llanlluan, ac i Peter Williams draddodi yno ei bregeth ddiweddaf ar y ddaear, ei fod yn ei amser olaf yn cael ei oddef i bregethu yn rhai o gapelau y Cyfundeb. Nis gwyddom yn hollol pa fodd i gysoni yr

hyn a geir yn y llythyr parthed capel Heol-y-dwr, a'r adroddiad a roddwyd i'r diweddar Barch. J. Wyndham Lewis gan un o flaenoriaid y lle, sef ddarfod i Peter Williams osod adran i mewn yn ei ewyllys, fod y Methodistiaid i gael y capel, ar yr amod iddynt dalu tri chant o bunau i'w ymddiriedolwyr ef. Modd bynag, naill ai yn ol yr ewyllys, neu ynte trwy gytundeb a'r meibion, cafodd y capel ei werthu i'r Methodistiaid am dri chant o bunau, yn y flwyddyn 1797. Yr oedd yr ymddiriedolwyr cyntaf yn gynwysedig o dri offeiriad, sef y Parchn. Jones, Llangan, Griffiths, Nevern, Davies, Abernant; a thri lleygwr, sef Mri. D. Charles, W. Lloyd, Henllan, a J. Bowen, Tygwyn, Llangunnor.

Dydd Llun, Awst 8, 1796, bu farw Peter Williams, yn 76 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llandyfeilog. A ganlyn yw ei feddargraff: "Yma y gorwedd gweddillion y Parchedig Peter Williams, yn ddiweddar o'r Gellilednais, yn y plwyf hwn. Cysegrodd ei holl fywyd er dyrchafu ei gydwladwyr, yn dymhorol ac yn ysprydol. I'r amcan hwn, cyhoeddodd dri argraffiad o'r Beibl pedwarplyg yn Gymraeg, gyda sylwadau ar bob penod. Cyhoeddodd hefyd argraffiad o Feibl wyth-plyg, a Mynegair Cymraeg, yn nghyd â nifer o draethodau bychain, gan mwyaf yn Gymraeg; am hyn oll, gellir dywedyd yn gywir na dderbyniodd ond anniolchgarwch ac erledigaeth. Parhaodd i lafurio gyda ffyddlondeb a diwydrwydd fel gweinidog yr efengyl am 53 mlynedd; a bu farw, yn gorfoleddu yn Nuw ei Iachawdwr, Awst 8, 1796, yn 76 mlwydd oed. 'Canys nid gelyn a'm difenwodd; yna y dyoddefaswn; nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; eithr chwi, y rhai oedd felus genym gydgyfrinachu, ac a rodiasom i dŷ Dduw yn nghyd.'" Diau mai y meibion oedd yn gyfrifol am y beddargraff, a naturiol iddynt oedd cydymdeimlo a'u tad; ond trueni iddynt wneyd mynwent a chareg bedd yn gyfleustra i arllwys allan chwerwder eu hyspryd.

Dywedir yn *Methodistiaeth Cymru* na ddarfu i fwriad allan Peter Williams effeithio cymaint ar y Cyfundeb ag a allesid ddysgwyl; ac na fu nemawr o ymadawiad oddiwrth y Corph o'r herwydd yn un man, er fod teimlad o dosturi ato, a pharch iddo yn gryf yn meddyliau pawb a'i hadwaenai. Diau fod hyn, ar y cyfan, yn gywir. Ac eto, mor bell ag y gallwn ddeall, teimlai y werin, nad oedd yn alluog i ddeall manylion yr ymdrafodaeth, ddarfod i'r hen Esboniwr gael ei drin yn galed. Dyna fel y teimlai llu o'r Methodistiaid, er na ddarfu iddynt fyned mor bell a gadael y Cyfundeb o'r herwydd. Eithr bu un ymadawiad cymharol bwysig yn Mro Morganwg, dan arweiniad Thomas Williams, gwedi hyny, y Parch. Thomas Williams, Bethesda-y-Fro.*

Haedda y gwr hwn air o sylw. Cafodd ei enw mewn amaethdy, o'r enw Trerhedin, yn mhlwyf Pendeulwyn, nid yn nepell o'r Bontfaen, Morganwg. Amaethwr oedd ei dad, ac yr oedd yn gefnog o ran ei amgylchiadau. Yr oedd yn feddylgar a dwys er yn blentyn, a phan yn ddeg oed, ymunodd a'r seiat Fethodistaidd yn Nhrehill. Bu bron cael ei ddigaloni wrth ymuno a'r seiat, am, pan y methai ateb rhyw ofyniad, i arweinydd y cyfarfod, meddir, gynyg ei fod i gael ei anfon allan hyd nes y dysgai ei wers yn well. Eithr ar gynydd yr aeth Thomas Williams. Dechreuodd fynychu y cyfarfodydd gweddi, a'r seiadau, ac ni ystyrid fod unrhyw gyfarfod o'r fath yn Mro Morganwg yn llawn heb ei fod ef yno. Nid annhebyg yr ystyrid ef yn fath o gynghorwr, er nad oes genym wybodaeth ddarfod iddo gael ei gydnabod felly gan Gyfarfod Misol. Yn y flwyddyn 1790, mewn canlyniad i'w briodas, aeth i fyw i Ffonmon, yn mhlwyf Penmarc, a thebygol mai yn Aberddawen yr oedd yn aelod. Cydymdeimlai yn ddwfn â golygiadau Peter Williams; a oedd amryw o'r un syniadau yn seiat Aberddawen, nis gwyddom; ond, bron o'r dechreuad, yr oedd plaid gref yn yr Aberthyn yn tueddu at Sabeliaeth. Pan ddiarddelwyd Peter Williams, darfu i Thomas Williams, a'r rhai yn seiadau y Fro a ymsynient yn gyffelyb, droi eu cefnau ar y Methodistiaid, ac ymffurfio yn blaid ar wahan. Cyfarfyddent i addoli mewn tri o wahanol leoedd, sef tŷ Thomas Williams, yn Penmarc; tŷ ardrethol yn yr Aberthyn, a thŷ arall yn y Brittwn. Buont am rai blynyddoedd heb neb i weinyddu yr ordinhadau iddynt; eithr yn y flwyddyn 1789, dewisasant Thomas Williams yn weinidog, gan ei neillduo i'r gwaith trwy gyfodiad dwylaw yr henuriaid, yn nghyd ag ympryd a gweddi. Ysgrifenydd yr eglwysi oedd John Williams, St. Athan,

* *Traethodydd*, Mai, 1894, tudal. 145.

bardd o radd uchel, ac awdwr y penillion adnabyddus:—

"Pwy welaf o Edom yn dod?"

Fel y darfu i ni sylwi, yr oedd Thomas Williams yn edmygydd diderfyn o'r hen Esboniwr; llosgai ei galon ynddo wrth weled y gamwri, yn ei dyb ef, a gaffai gan y Methodistiaid, a phan y bu Peter Williams farw, cyfansoddodd alarnad iddo, yn yr hon y fflangella ei wrthwynebwyr yn llym. Cymerer y penillion a ganlyn yn engrhaifft:—

"Dacw ych o lawr y dyrnu,
Wedi myned eto i'r lan;
Hir ddydd gwresog iawn y gweithiodd,
Heddyw safodd yn ei ran;
Fe fu'n nod i saethau lawer,
Darfu hyny, fe aeth trwy,
Ni ddaw rhagfarn nac anghariad
Byth i'r lle mae'n aros mwy.

Peter, mae llyth'renau d'enw
Yn creu hiraeth dan fy mron;
Dyn a gerais, dyn a'm carodd,
Meddwl dy fod dan y don;
Anwyl oeddem yn ein bywyd,
Cu iawn genyf oeddit ti,
A thu hwnt i gariad gwragedd
Oedd dy gariad ataf fi.

Fe chwedleuodd yn dy erbyn
Ddynion rai o ddoniau mawr,
Dynion eraill isel raddau
Geisiodd dynu d'enw lawr;
Ti ge'st wawd oddiwrth bob enw,
Ti ge'st wawd oddiwrth bob dawn,
Plant dy fam edrychent arnat
Megys estron dyeithr iawn.

Ca'dd ei guro, nid mewn cariad,
Gan y cyfiawn is y nen;
Waith eu holew penaf dorodd
Glwyfau dyfnion ar ei ben;
Ond mae'r clwyfau dyfnion hyny.
Heddyw'n holliach yn y nef,
Ga'dd e'n nhŷ ei garedigion,
Yn mhrydnawn ei fywyd ef.

Cym'ryd ôg i ddyrnu ffaehys
Wnaeth dy frodyr (gwyro 'mhell),
Troisant olwyn men ar gwmin,
Pan oedd gwiail lawer gwell;
Geiriau llym fel brath cleddyfau,
Leflwyd atat heb un rhi',
Saethau tân ac arfau marwol
Gym'rwyd i'th geryddu di.

Am wrthod credo Athanasius,
Fel gwnaeth gwŷr o ddoniau maith:
Fe siglwyd *urn* yr hen Sabelius
Yn dy wyneb lawer gwaith;
Cyffes ffydd, a llunio credo,
Gwneyd articlau mawr eu clod,
Magu 'mryson, rhanu eglwysi,
Fu effeithiau rhai'n erioed.

Tithau gym'raist aden c'lomen,
Est o'u swn yn ddigon pell,
Draw i'r dymhestl a'r gwynt 'stormus,
I ardaloedd llawer gwell:
Lle mae myrdd o rai lluddedig,
Fu mewn carchar, fu mewn tân,
Yno'n gorphwys wedi gorphen
Eu cystuddiau mawr yn lân."

Teimlir serch yn treiddio trwy bob llinell o'r alargan, a bu am beth amser yn dra phoblogaidd. Nis gwyddai a amcanai Thomas Williams, a'r rhai a gydymdeimlent ag ef, ffurfio yn blaid wahaniaethol; os gwnaent, trodd yr ymgais allan yn fethiant. Yn mhen amser, ymgydnabyddodd a'r Annibynwyr; ac yn y flwyddyn 1814, derbyniwyd ef, a'r rhai a lynent wrtho, i'r undeb Annibynol. A holwyd rhywbeth iddynt am eu golygiadau athrawiaethol, nis gwyddom. Yr oeddynt cyn hyn wedi gadael y Brittwn, ac ymsefydlu yn Bethesda-y-Fro. Yr oedd Thomas Williams yn bregethwr o'r melusaf; tuag ugain mynyd, meddir, oedd hyd ei bregeth; ac am y pum' mynyd olaf, byddai yr holl gynulleidfa ar ei thraed fel gallt o goed, gan faint y dylanwad. Ond ni fu yn llwyddianus o gwbl, fel y profa y penillion canlynol, a gyfansoddwyd ganddo gwedi llafur gweinidogaethol o dros ddengmlynedd-ar-hugain:—

"Deg-ar-hugain o flynyddau,
Bum yn hau trwy hyd y rhai'n,
Syrthio wnaeth yr had gan mwyaf,
Wrth y ffordd, y graig, a'r drain;
Mewn tir da ni syrthiodd nemawr,
Nemawr iawn—fe syrthiodd peth,
Gwlith y nef aroso arno,
Fel nad elo byth ar feth.

O Bethesda anniolchgar,
Ac anghofus iawn o Dduw,
Wedi hau, a hau drachefn,
Braidd eginyn sydd yn fyw;
Mae'r hen frodyr, ond rhyw 'chydig,
Wedi myned draw i dre,
Ac nid oes arwyddion nemawr
Am rai eraill yn eu lle.

O na ddoi rhyw un o'r Gogledd,
Neu o'r Dwyrain, ynte'r Dè,
O'r Gorllewin, neu o rywle,
Ni waeth genyf ddim o b'le;
Ond i'r nefoedd fawr ei anfon,
Heb ei anfon, thal ef ddim,
I Bethesda i bregethu
Gair y bywyd yn ei rym."

Cwestiwn dyddorol ydyw; sut y bu gweinidogaeth gŵr, a feddai y fath dalentau dysglaer, mor aflwyddianus? Priodola Dr. Thomas Rees yr aflwyddiant i waith Thomas Williams yn gweinidogaethu i bobl ei ofal yn rhad; a dywed fod eglwys heb gyfranu yn gymaint rhwystr i lwyddiant ag eglwys ddi weddi. Diau fod rhyw gymaint o wirionedd yn hyn; efallai hefyd fod rhesymau eraill, nas

gwyddom ni yn awr am danynt. Bydded y rheswm y peth y bo, aflwyddianus a fu Thomas Williams. Cafodd oes faith; a bu farw Tachwedd 23, 1844, yn 84 mlwydd oed.

Yr ydym wedi aros cyhyd gyda Thomas Williams, oblegyd mai efe oedd yr unig un y gwyddom am dano, o unrhyw enwogrwydd, gyda yr eithriad o'i gyfaill, ac ysgrifenydd ei eglwys, sef John Williams, St. Athan, a ymadawodd a'r Methodistiaid oblegyd diarddeliad Peter Williams, ac a geisiodd ffurfio eglwysi ar wahan. Eithr i ddychwelyd at Peter Williams. Dywedir ei fod o ymddangosiad boneddigaidd ac urddasol, yn tueddu at fod yn dal, ei wynebpryd braidd yn hir, ac o liw gwelw; a'i fod bob amser yn drefnus a glanwaith yn ei wisg a'i berson. Meddai gorph cryf, ac yspryd eofn a phenderfynol, ac yr oedd fel pe wedi ei gyfaddasu o ran corph a meddwl ar gyfer sefyllfa Cymru yn yr oes yr oedd yn byw ynddi. Nid oes amheuaeth am ei dduwioldeb, a'i gydwybodolrwydd dwfn. Pa gamgymeriadau bynag a wnaeth, yr oedd ei amcanion yn bur, a'i olwg yn wastad yn syml ar ogoniant Duw, a lles eneidiau. Perarogla ei goffadwriaeth hyd y dydd hwn. Ac er i'r Methodistiaid deimlo ei bod yn ddyledswydd arnynt i dori pob cysylltiad ag ef, teimlent barchedigaeth dwfn iddo, ac i'w goffadwriaeth, ar ol iddo huno. Yn y rhifyn cyntaf o'r *Drysorfa Ysprydol*, ceir ysgrif arno, o gyfansoddiad y Parch. Thomas Charles, yn ol pob tebyg, yn yr hon nid oes cymaint a gair yn tueddu i'w iselu; eithr yn hytrach, dyrchefir ef fel gŵr a fu yn dra defnyddiol. "Yr oedd Mr. Peter Williams," meddai Mr. Charles, "yn rhagori mewn cynheddfau cryfion, corph a meddwl; yspryd gwrol, er hyny, addfwyn a thirion tuag at ei gyfeillion a'i deulu; ac yn ymroddi gyda phob dyfalwch, diwydrwydd, ac egni parhaus yn ngwaith yr Arglwydd. Bu o fendith, y mae lle i obeithio, i lawer o eneidiau, ac yn offeryn i'w troi o'r tywyllwch i'r goleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." Dywedai y Parch. John Elias unwaith, pan yn anerch efrydwyr y Bala, iddo ef fod yn pregethu am flynyddoedd, heb feddu un esboniad ar y Beibl, ond eiddo Peter Williams. Ac ychwanegai: * "Esboniad byr a da ydyw; a dyn da a defnyddiol yn ei oes a fu efe.' A gwyddis nad oedd gan Mr. Elias fawr cydymdeimlad a'r rhai a gyfeiliornent oddiwrth y wir athrawiaeth. Ffaith dra arwyddocaol ydyw, fod mwy o hiliogaeth Peter Williams wedi parhau yn aelodau crefyddol yn mysg y Methodistiaid, nag o eiddo un o'r tadau eraill. Awgryma hyn eu bod i raddau yn argyhoeddedig mai goddefol yn benaf a fu y Cyfundeb yn yr helynt. Nis gallwn orphen ein hysgrif ar yr hen Esboniwr enwog yn well na thrwy ddifynu penill arall o'i farwnad gan Thomas Williams:—

"'Nawr yn mynwent Llandyfeilog,
'Nol ei flin siwrneion pell,
Gorphwys mae ei gnawd mewn gobaith
Am yr adgyfodiad gwell.
Y corph gwael ar ddelw Adda,
'R Adda cyntaf aeth i lawr,
A ddihun ar ddelw ei Arglwydd,
Gyda rhyw ogoniant mawr."

* Llythyr oddiwrth yr Hybarch John Jones, Ceinewydd.

---

## HANES Y DARLUNIAU.

Mae y darlun o Peter Williams a gyhoeddir genym yn gopi o'r un a ymddangosodd yn y *Beibl Teuluaidd*, a wnaed yn Nghaernarfon, ac a gyhoeddwyd gan Mr. Lewis Evan Jones, yn y flwyddyn 1822. Yr oedd cynifer ag wyth argraffiad o *Feibl Teuluaidd Peter Williams* wedi eu cyhoeddi ganddo ef ei hun, ac o dan nawdd y teulu, cyn yr argraffiad hwn, ond nid oedd darlun o'r awdwr yn yr un o honynt. Nid dan nawdd teulu Peter Williams y cyhoeddwyd argraffiad Caernarfon; ond yn erbyn eu hewyllys, ac yn ddiystyr o wrth-dystiad a wnaed ganddynt. Cyhoddwyd amryw argraffiadau o'r Beibl hwn wedi hyny, ond nis gwyddom fod darlun o'r awdwr ynddynt, hyd yr argraffiad a gyhoeddwyd gan William Mackenzie, Glasgow, yn 1868. Darfu iddo ef wneyd darlun mawr o Peter Williams, i'w gyflwyno i'w dderbynwyr fel *presentation plate*. Darlun i'w fframio ydoedd hwn; a gwelir copïau o hono ar furiau ein haneddau. Gwnawd ef oddiwrth gopi Caernarfon.

Gwelir fod y ddalen ar ba un y mae y darlun yn mynegu fel yma: "*From an engraving in the Gospel Magazine, 1777.*" Ond y mae yn debygol nad oes darlun o Peter Williams i'w gael yn y misolyn hwnw am y flwyddyn hono, nac ychwaith yn y blynyddoedd cyfagos. Nid oes ond un copi o'r misolyn o fewn ein cyrhaedd, sef yr un sydd yn Llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd (*British Museum*), felly, nid ydym mewn ffordd

i sierhau na chyhoeddwyd ef yn y *Gospel Magazine* o gwbl. Gall y copi a welsom ni fod yn annghyflawn, a bod y darlun wedi ei gymeryd o hono i ryw bwrpas neu gilydd, ond y mae hyn i fesur yn annhebygol, am nad oes grybwylliad am ddarlun o Peter Williams i'w gael o gwbl yn y *Gospel Magazine,* mor belled ag y gallasom graffu wrth chwilio. Nid ydym yn alluog i roddi unrhyw eglurhad ar y ffaith hon; y mae hyd yma yn hollol anesboniadwy. Gellir dyfalu llawer, ond nis gellir penderfynu dim.

Gwelir fod y darlun o wneuthuriad celfydd, er nas gellir sicrhau ei fod yn ddarluniad cywir o Peter Williams. Y mae llythyr, a ysgrifenodd ei fab, y Parch. Peter Bailey Williams, i'r *Gwyliedydd*, yn mhen blynyddau ar ol cyhoeddiad y darlun, yn taflu amheuaeth ar hyn. Dywed fel yma: "Nid yw y darlun (*portrait*) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y Beibl Cymraeg, a argraffwyd yn Nghaernarfon, yn debyg i fy mharchedig dad, mewn pryd, na gwedd, na lliw, na llun, na chorpholaeth. Gwelais gynt ddarlun o hono wedi ei dynu yn Nghaerodor (*Bristol*), yr hwn oedd yn hollol annhebyg i'r un blaenorol; ae yno, yr oedd yn ymddangos mewn *gown* du a *band*, a'i wallt yn rhanedig, yn lled debyg i lun Mr. John Wesley, a'i law ddeheu ar y pwlpud, a'i aswy ar ochr ei wyneb, fel y byddai yn arferol wrth bregethu, ac o danodd yr oedd y geiriau hyn: '*The Rev. Peter Williams, of Carmarthen, Chaplain to the Countess of Huntington.*'" Ac nid yw disgynyddion Peter Williams drwy y blynyddoedd yn eredu yn nghywirdeb darlun Caernarfon.

Yn y flwyddyn 1823, blwyddyn ar ol ymddangosiad argraffiad Caernarfon, yn nghyd a darlun Peter Williams, ymddangosodd argraffiad o'r *Beibl Teuluaidd* gan Henry Fisher, o Lundain. Yn hwnw, ceid darlun o'r Parch. Peter Bailey Williams, *Rector of Llanrug and Llanberis*, sef un o feibion Peter Williams, gyda nodiad fel yma: "Gan nad oedd yn ddichonadwy gan y cyhoeddwyr gael darlun o'r awdwr, y maent yn deisyf cenad i anrhegu eu tanysgrifwyr ag un o'i fab, y Parch. Peter Bailey Williams, o Lanrug, swydd Gaernarfon, yr hwn, fel yr ydym wedi clywed, sydd yn dwyn tebygolrwydd agos i'w ddiweddar dad parchus." Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn, y mae'n ymddangos, dan nawdd teulu Peter Williams, a gwneir i ddarlun Peter Bailey i wasanaethu yn lle darlun Peter Williams, naill am nad oedd ganddynt ddarlun o hono o gwbl, neu ynte, am nad oedd ganddynt ddarlun o hono ag yr oeddynt hwy yn eu hoffi.

Y mae tebygrwydd neillduol rhwng y darlun o Peter Williams, a gyhoeddwyd gan Mr. Lewis Evan Jones, Caernarfon, a'r un a gyhoeddwyd o'i fab, Mr. Peter Bailey Williams, gan Mr. Henry Fisher, yn Llundain. Pe buasai darlun Peter Bailey wedi ymddangos flwyddyn o flaen ei dad, ac nid ar ei ol, buasem yn cael ein tueddu i feddwl fod Mr. Lewis Evan Jones wedi gwneyd darlun o Peter Williams trwy gymeryd ei fab yn gynllun, a'i ddiosg o'i ddillad clerygol—y *gown* a'r *band;* ond gan mae fel arall y bu, yr oedd gwneyd felly yn anmhosibl.

Gwnaethom bob ymchwiliad dichonadwy i gael copi o'r darlun a wnaed o Peter Williams yn Mhristol, fel y tystiolaethir gan ei fab, ond nid ydym wedi llwyddo.

Dichon, gyda threigliad amser, y deuir i fwy o sicrwydd nag sydd genym yn bresenol o barth i hanes ag awduraeth darlun Peter Williams; hyd hyny, rhaid ymfoddloni ar y darlun a gyflwynwyd i ni gan Mr. Lewis Evan Jones, o Gaernarfon.

Y mae y darluniau eraill sydd yn y benod hon yn egluro eu hunain.

# PENOD XIX.

——:o:——

## DAVID JONES, LLANGAN.

*Sylfaenwyr ac arweinyddion cyntaf y Methodistiaid—Jones heb fod yn un o honynt—Ei gydoeswyr a'i gyfoedion—Hanes ei enedigaeth a'i ieuenctyd—Yn cyfarfod a damwain—Ei addysg a'i urddiad i Lanafan-fawr—Symud i Dydweiliog—Dyfod i gyffyrddiad a Dr. Read yn Trefethin, ac yn cael ei gyfnewid trwy ras—Yn cael bywioliaeth Llangan, drwy ddylanwad Iarlles Huntington—Sefyllfa foesol a chrefyddol y plwyf—Ei gydweithwyr yn Morganwg—Desgrifiad o Sul y Cymun yn Llangan—Yn pregethu mewn lleoedd annghysegredig—Yn adeiladu Capel Salem—Marwolaeth a chladdedigaeth ei wraig—Yn gosod i lawr ddrwg arferion yr ardal—Achwyn arno wrth yr esgob—Ei lafur yn mysg y Saeson—Ei allu i gasglu arian at gapelau—Ei lafur yn mysg y Cymry—Yn cyfarfod ag erledigaethau, ac yn eu gorchfygu—Ei boblogrwydd fel pregethwr—Annas yn dyfod o Sir Fôn i geisio cyhoeddiad ganddo—Yn efengylydd yn hytrach nag yn arweinydd—Penillion Thomas Williams, Bethesda-y-Fro—Desgrifiad Williams, Pantycelyn, Robert Jones, Rhoslan; a Christmas Evans, o hono—Ei ail briodas, a'i symudiad i Manorowen—Yn dyfod o fewn cylch mwy eglwysig—Yn heneiddio ac yn llesghau—Diwedd ei oes.*

ARWEINYDDION cyntaf y Methodistiaid yn Nghymru oeddynt Daniel Rowland, Howell Harris, Howell Davies, William Williams, a Peter Williams. Ffurfiant ddosbarth ar eu penau eu hunain. Gwir mai i'r tri cyntaf yn unig y perthyn yr anrhydedd o osod y sylfaen i lawr; ond darfu i'r ddau Williams ymuno â hwy mor foreu, fel mai o'r braidd y gellir edrych arnynt ar wahan i'r sylfaenwyr. Ymunodd y Bardd â hwy o fewn pum' mlynedd i'r dechreuad, a gwnaeth yr Esboniwr ei ddilyn o fewn pum' mlynedd arall. Ac yr oedd doniau y ddau mor nodedig, a'u hymroddiad i waith y diwygiad mor llwyr, fel y daethant i'r cyfryw agosrwydd i'r sylfaenwyr, ag sydd yn gwneuthur y gorchwyl diraid o'i gwahanu, yn bur anhawdd. Ni raid petruso ystyried y pump gwŷr enwog hyn fel yn ffurfio arweinyddion cyntaf y Methodistiaid Cymreig. Llanwyd hwy oll a'r un yspryd gweithgar a hunan-aberthol, ac yr oedd pob un o honynt yn meddu ar alluoedd a doniau ag a esid arbenigrwydd arno hyd y dydd hwn.

Nid ydoedd David Jones, o Langan, o fewn y cylch cysegredig yma, ac nid oedd yn ddichonadwy iddo fod. Yn y flwyddyn 1735, blwyddyn dechreuad Methodistiaeth Cymru, y ganed ef. Yn wir, nid yw ei lafur ef yn nglyn a'r diwygiad Cymreig yn dechreu hyd ei ddyfodiad i Langan, yn 1768, pan yr oedd efe yn 33 mlwydd oed.

Darfu i'r diwygiad ymdaenu dros yr holl wlad, ac ymwreiddio yn y tir, yn mhell cyn iddo ef ymddangos ar y maes. Aethai cenhedlaeth gyfan heibio, ac yr oedd dyddiau dau o'r tri Sylfaenydd yn prysur ddirwyn i ben, pan y dechreuodd efe ar ei yrfa weinidogaethol gyda'r Methodistiaid. Canys bu farw Howell Davies yn mhen dwy flynedd wedi dyfod David Jones i Langan; ac yn mhen tair blynedd eilwaith, yr oedd yr hynodol Howell Harris wedi croesi yr Iorddonen. Gwelir felly fod David Jones yn un ag oedd yn ffurfio megys ail ddosbarth o bregethwyr ac arweinyddion y diwygiad—ail o ran amseriad a feddyliwn,—ac yn perthyn i'r ail dô o'n gweinidogion. Cafodd y fraint o gydoesi a chydlafurio â Daniel Rowland, a'r ddau Williams am flynyddau meithion, ond nid oedd efe yn gyfoed a hwynt hwy. Pan y goddiweddwyd hwy gan henaint, yr oedd efe yn gymharol ieuanc; a bu yn llafurio yn y winllan am o gylch ugain o flynyddoedd wedi iddynt hwy oll fyned oddiwrth eu gwaith at eu gwobr. Cyfoedion David Jones oeddynt John Evans, o'r Bala; William Davies, Castellnedd; David Griffith, Nevern, David Morris, Twrgwyn; a William Llwyd, o Gaio; er fod cryn wahaniaeth oedran rhwng yr hynaf a'r ieu-

angaf o'r rhai hyn. Yr oedd y ddau gyntaf a enwyd yn hŷn na David Jones; a'r lleill yn ieuangach nag efe. O ran amseriad, gellir ystyried David Jones yn ddolen gydiol rhwng Daniel Rowland, Llangeitho, a Thomas Charles, o'r Bala; canys yr oedd efe ugain mlynedd yn ieuangach na'r naill, a chynifer o flynyddoedd yn hŷn na'r llall.

Cyfleus ddigon fyddai fod genym raniad ar hanes y Cyfundeb i gyfnodau, fel y gallem weled ar darawiad safle amseryddol bywyd ein prif weinidogion, yn nghyd â phrif symudiadau y Methodistiaid. Ymestyna ein hanes, bellach, dros fwy na chant-a-haner o flynyddau, amser rhy faith i fanylu arno, heb ei ddosparthu i gyfnodau. Dichon mai anhawdd fyddai cael rhaniad boddhaol arno. Hwyrach, er hyny, fod yr hyn a wnaed gan y Cyfundeb yn y flwyddyn 1893, sef dathliad y Juwbili, eisioes wedi gwneyd brâs-raniad arno. Os gwneir yn y dyfodol, fel y gwnaed yn y flwyddyn hono, bydd y Juwbili ei hun yn dosparthu ein hanes i gyfnodau o haner cant o flynyddoedd bob un, gan ddechreu cyfrif gyda chorphoriad y Cyfundeb yn Nghymdeithasfa Watford, yn 1743, ac ystyried yr wyth mlynedd cyn hyny fel cyfnod byr o gychwyn a pharotoad, er mai blynyddoedd deheulaw y Goruchaf oeddynt, ac i waith mawr gael ei wneyd ynddynt. Arweinir ni i wneyd y sylwadau hyn yn y fan hon gan y ffaith fod, efallai, mwy o gamgymeriad yn nghylch amseriad gweinidogaeth Jones, o Langan, na nemawr un o'n prif weinidogion. O bosibl fod rheswm, heblaw diffyg rhaniad ar ein hanes, am hyn. Y mae ysgrifenwyr, yn ddieithriad, mor bell ag y gwyddom, pan yn traethu ar enwogion y pwlpud Cymreig, yn y cyfnod Methodistaidd, yn cysylltu enw David Jones â Daniel Rowland a Howell Harris. Fynychaf, os nad bob amser, efe yw y cyntaf a enwir ar eu holau hwy. Felly y gwna y diweddar Barch. Dr. Owen Thomas, pan yn traethu arnynt yn ei gofiant ardderchog i'r Parch. John Jones, o Dalysarn; ond dylid cadw mewn cof, y rhoddir y lle parchus yma iddo am ei enwogrwydd fel pregethwr, ac nid oddiar ystyriaeth amseryddol. Gwedi ceisio cywiro y syniad cyfeiliornus hwn, awn bellach at brif ffeithiau ei fywyd.

Y mae hanes boreuol David Jones yn anhysbys. Yn wahanol i Howell Harris a Peter Williams, ni ddarfu iddo ef ysgrifenu dim o'i hanes ei hun; ac yn anffodus, oedwyd ysgrifenu cofiant iddo am 31 o flynyddau wedi iddo farw. Erbyn hyny, yr oedd llawer o hysbysrwydd yn ei gylch wedi ei golli yn anadferadwy. Yn y flwyddyn 1841 y cyhoeddwyd y cofiant hwnw iddo gan y Parch. E. Morgan, M.A., Syston, gŵr a ysgrifenodd goffadwriaeth i amryw o'r enwogion Methodistaidd. Yr oedd Mr. Morgan yn enedigol o'r Pîl, lle heb fod yn nepell o Langan, ac yr oedd yn adwaen y gweinidog yn y cnawd, ac mewn perffaith gydymdeimlad ag efe, ac felly yn meddu cymhwysder at y gwaith â pha un yr ymgymerodd.

Ganwyd David Jones mewn amaethdy, o'r enw Aberceiliog, yn mhlwyf Llanllueni, yn Sir Gaerfyrddin, ar lan yr afon Teifi. Cymerodd hyn le yn 1735. Ni chofnodir enwau ei rieni, ond y mae yn amlwg eu bod yn bobl gysurus eu hamgylchiadau, gan y bwriadent ddwyn un o'u plant i fynu yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd iddynt ddau fab ac un ferch. Bwriad y tad oedd gosod y mab hynaf yn offeiriad, ac i Dafydd fod, fel ei dad, yn ffarmwr. Ond nid hyn oedd trefniad y nefoedd, ac amlygwyd hyny mewn ffordd bur ryfedd a blin. Pan yr oedd Dafydd yn blentyn ieuanc iawn, syrthiodd i bair llawn o laeth berwedig, a bu agos iddo gael ei ysgaldio i farwolaeth. Bu yn hir heb wellhau, a pharhaodd am amser maith yn wanaidd ac afiach. Yn mhen enyd, daeth y tad i weled fod ei gynllun wedi ei ddyrysu, fod Dafydd bellach wedi ei anghymwyso at waith y tyddyn, er, hwyrach y gellid gwneyd offeiriad o hono. Penderfynodd wneyd y goreu dan yr amgylchiadau, a chafodd Dafydd fyned i'r Eglwys, a'r mab hynaf i drin y tir. Arferai David Jones ddweyd mewn blynyddoedd gwedi hyn, mewn cyfeiriad at yr amgylchiad hwn: "Yr wyf yn cario nodau ac achos fy ngalwedigaeth ar fy nghefn;" oblegyd dygodd greithiau y ddamwain enbyd ar ei gefn i'w fedd. Y mae dywediad o'i eiddo pan yn ieuanc, ag sydd yn lled arwyddo fod rhyw gymaint o addysg grefyddol yn y teulu; digon, beth bynag, i alluogi Dafydd i wneyd defnydd tra tharawiadol o'r Ysgrythyr lân. Un diwrnod, yn hir ar ol y ddamwain, ond cyn i'r plentyn wellhau oddi wrth ei heffeithiau, efe a ymwthiai yn llesg at ei fam. Hithau a'i gwthiodd i ffwrdd, gan ddweyd, o bosibl, yn chwar-




THE REV.D M.R JONES



OF LANGAN

Pub.d Jan. 21 1790 by R Bowyer N.o 68 Berners Street & J W[illegible] London

ëus: "Druan o honot, yr wyf wedi blino ar dy fagu di." Edrychodd yntau gyda thynerwch yn ei hwyneb, a dywedodd: "Pan y mae fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn." Ar hyn, cipiodd y fam ei bachgen ffraethbert i'w mynwes, a dywedodd: "Am y gair hwn, mi a'th fagaf yn llawen tra y byddot byw ar y ddaear." Hynodid ef pan y daeth i addfedrwydd oedran gan ei ffraethineb, parodrwydd a phriodoldeb ei atebion, ac yn yr amgylchiad hwn, cawn olwg ar y ddawn hon yn ei blagur.

Derbyniodd ei addysg athrofaol yn Ngolegdy Caerfyrddin, a dywed ef ei hun na ddarfu iddo dreulio term erioed yn y prif ysgolion. Urddwyd ef i guwradiaeth Llanafan-fawr, yn Sir Frycheiniog, tua'r flwyddyn 1758; ond symudodd yn bur fuan oddi yno i Dydweilog, yn Lleyn, Sir Gaernarfon. Ac nid hir fu ei arhosiad yno ychwaith; oherwydd cawn ef yn gwasanaethu plwyfau Trefethin a Chaldicot, yn Sir Fynwy, yn y flwyddyn 1760. Beth oedd yn achlysuro y symudiadau parhaus hyn, nid yw yn wybyddus, ond gallwn ddweyd yn ddiogel mai nid ei grefydd oedd yr achos. Yr oedd hyd yn hyn yn ddigon difater am ei gyflwr ysprydol ei hun, a chyfrifoldeb ei swydd, i foddio personiaid oferwag yr oes hono. Dywedir ei fod y pryd hwn yn bregethwr enillgar a phoblogaidd, a dichon fod hyny yn ddigon o fai ynddo, yn ngolwg y personiaid ag yr oedd efe danynt. Modd bynag, daeth yn guwrad i Drefethin a Chaldicot, yn Swydd Fynwy. Y mae Trefethin yn ymyl tref Pontypŵl, ac yr oedd yn byw yn Mhontymoel, yn ymyl y dref hono, ar y pryd y daethai David Jones yno, feddyg enwog yn ei alwad, a thra enwog hefyd am ei rinweddau a'i dduwioldeb. Ei enw oedd Dr. William Read. Yr oedd clod y meddyg hwn wedi lledu dros Gymru oll, a chleifion yn tyru ato o'i chyrau pellaf. Ymgyfathrachai efe a'r Methodistiaid, ac yr oedd y Bardd o Bantycelyn ac yntau yn arbenig yn gyfeillion mynwesol. Pan fu y meddyg farw, yr hyn a gymerodd le yn 1769, ysgrifenodd Williams farwnad iddo, un o'r goreuon a gyfansoddwyd ganddo. Ceir hi yn mysg ei weithiau argraffedig. Gellir lled dybio oddiwrth awgrym sydd yn y farwnad, fod y bardd yn bresenol yn yr angladd, o herwydd y mae yr awdwr, ar ol datgan ei anghrediniaeth o'r hanes am farwolaeth y doctor, mewn tri o benillion prydferth, yn troi ac yn dywedyd:—

"Mae'n wirionedd, fe ddiangodd  
O fyd gwag i deyrnas nefoedd,  
Mae ei gorph ef heddyw'n llechu,  
Mewn cist o bren yn isel obry;  
Fe rowd arno yn ddiffafar,  
Bedair troedfedd lawn o ddaear;  
Hoeliwyd y gist, *'r wyf yn dyst*, estyllod durfin,  
READ sy'n gorwedd gyda'r werin,  
Cwsg o fewn i eglwys Trefddyn.

Yr oedd Dr. Read yn fyw, ac yn nghanol ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb, pan ddaeth y cuwrad ieuanc i Drefethin. Trigent yn ymyl eu gilydd, a daethant yn hynod o gyfeillgar. Nid yw yn hollol eglur, pa un ai crefydd y meddyg a achlysurodd droedigaeth y cuwrad, neu ynte troedigaeth y cuwrad a'i dygodd ef i gydnabyddiaeth a'r meddyg. Yr hyn a ddywed Mr. Morgan, Syston, am hyn yw, mai trwy ddarlleniad llyfr o waith yr enwog Flavel yr effeithiwyd ei droedigaeth, pan yr oedd yn gwasanaethu yn y lle hwn. Dywed, yn mhellach, ddarfod i'r gŵr ieuanc, wedi iddo gael ei gyfnewid i fywyd, dderbyn anngharedigrwydd a chreulondeb ar law y gŵr eglwysig ag yr oedd efe yn gwasanaethu dano; ac nad oedd gan David Jones na châr na chyfaill yn agos ato i ddweyd ei gwyn wrtho, na chael cyfarwyddyd ganddo, ond Dr. William Read. Hwyrach mai ar ol i'r cyfnewidiad mawr gymeryd lle, trwy ddarlleniad llyfrau Flavel, y dechreuodd ei gyfeillgarwch a'r meddyg duwiol o Bontymoel; ond y mae yn llawn mor debygol, mai y meddyg a osododd weithiau Flavel o fewn ei gyrhaedd. Sut bynag y bu, daeth David Jones i gysylltiad a'r Methodistiaid yn Trefethin, a pharhaodd ei gyfeillgarwch â Dr. Read hyd ei farwolaeth; ac nid bai David Jones ydoedd na ddaeth un o'i ferched yn wraig iddo, yn mhen blynyddau lawer wedi hyn.

Am ba gyhyd o amser y darfu rheithor Trefethin gydymddwyn a'i guwrad ar ol yr anffawd o iddo gael crefydd, ni fynegir i ni. Diau fod y dygwyddiad, yn ei dyb ef, wedi ei anghymhwyso yn fawr at wasanaeth yr Eglwys. Cawn fod y cuwrad, ar ol hyn, yn peri cyffro yn yr ardal; fod tyrfaoedd yn tyru i'w wrando; fod mîn ac arddeliad ar ei weinidogaeth; ei fod yn holi ac yn dysgu y bobl ieuainc yn ngwirioneddau crefydd; ac yn eu dysgu i ganu mawl i Dduw; a'i fod ef ei hun yn hynod hoff o gerddoriaeth. Nid oedd dim i'w wneyd â gŵr ieuanc mor ddireol a hyn ond ei yru i ffwrdd; ac ymaith y cafodd

fyned. Y rheswm dros ei symudiad o Drefethin, yn ddiau, oedd ei arferion Methodistaidd, a hwyrach ei gyfeillgarwch gormodol â Dr. Read a'i deulu. I le yn agos i Fryste yr aeth nesaf, ond ni fu nemawr o amser yn y fan hono: symudodd yn fuan i le yn Swydd Wilts. Yr oedd erbyn hyn fel colomen Noah, yn methu braidd a chael lle i roddi ei droed i lawr, canys nid oedd llonyddwch i guwrad, o'i yspryd ef, i'w gael y pryd hwnw yn yr Eglwys Wladol yn Lloegr, nac yn Nghymru. Yr oedd tân y weinidogaeth yn llosgi o'i fewn; ond ni fynai perchenogion bywioliaethau wasanaeth ei fath. Aflonyddai y wlad, gwnai anesmwytho Jones. Cymerodd hyn le, fel y dywedwyd yn flaenorol, yn y flwyddyn 1768, pan yr oedd efe yn 33 mlwydd oed.

Plwyf bychan ydyw Llangan, yn gorwedd rhwng Pontfaen a Phenybont-ar-Ogwr, yn Sir Forganwg, ac y mae ynddo bentref bychan, gwasgaredig, a elwir ar enw y plwyf. Y mae yr eglwys yn adeilad hynafol, er nad ydyw yn un o'r rhai mwyaf o faintioli. Adgyweiriwyd hi yn drwyadl yn y flwyddyn 1856. Mae croes nodedig iawn ar y fynwent, un o hen olion yr oesoedd Pabaidd. Dywedir mai adeiladwaith y 12fed ganrif ydyw. Eir o bellder ffordd i'w gweled gan hynafiaethwyr, ar gyfrif ei maint, destlusrwydd ei cherfiadaeth, yn nghyd a'i bod mewn cadwraeth mor dda.



EGLWYS LLANGAN, GER PONTFAEN, SIR FORGANWG.

cydwybodau y bobl, ac yr oedd y gweithredoedd ysgeler hyn yn bechodau nas gellid eu maddeu. Ymddengys iddo, tra yn aros yn Wilts, ddyfod i gyffyrddiad â rhai o Fethodistiaid Lloegr, ac yn eu plith daeth i gydnabyddiaeth a'r enwog Iarlles Huntington, gwraig o fendigaid goffadwriaeth. Chwiliai hon am ffyddloniaid yr Iesu, i'w noddi a'u cynorthwyo yn ngwasanaeth crefydd. Yr oedd yr Iarlles wedi bod yn foddion i ddwyn pendefiges arall at draed y Gwaredwr, sef yr Arglwyddes Charlotte Edwin, perchenog etifeddiaeth eang yn Sir Forganwg. Ac yn fuan daeth personoliaeth Llangan yn wag, pa un oedd yn rhoddiad yr Arglwyddes hono, ac ar gais yr Iarlles cyflwynodd hi i David

Cyfrifir yn gyffredin mai ar adeg dyfodiad David Jones i Langan y mae ei gysylltiad ef a'r Methodistiaid yn dechreu. Gwelir oddiwrth yr hyn a ddywedwyd eisioes, nad yw hyn yn gywir. Tra sicr ydyw iddo ef ddyfod o fewn cylch dylanwad y Methodistiaid tra yn gwasanaethu yn Nhrefethin a Chaldicot. Yma y gwnaed ef yn gristion, ac yma yr ymddangosodd yr arwyddion cyntaf ei fod ef yn Fethodist. Pa reswm bynag ddichon gael ei roddi am symudiadau aml David Jones, cyn iddo ddyfod i'r lle hwn, nid oes le i amheuaeth, mai ei arferion Methodistaidd barodd ei holl symudiadau ar ol hyn. Dygodd hyn arno erledigaeth a dial. Ond os mai ei yspryd

Methodistaidd, a'i weithgarwch efengylaidd, a dynodd arno ddialedd y clerigwyr cnawdol, dyna hefyd a enillodd iddo ffafr yr Iarlles Huntington, y foneddiges fwyaf Fethodistaidd ag y mae hanes am dani. Ond pe na bai genym lawn sicrwydd yn nghylch yr adeg y daeth yn Fethodist, y mae ei weithredoedd a'i eiriau yn profi iddo ddyfod yn fore i arddel yr enw, fel y gwelir yn y difyniad canlynol, a ysgrifenwyd ganddo yn y cofiant a wnaeth efe i Christopher Basset. Fel yma y dywed:—" Galwyd fy ardderchog frawd (Basset) yn Fethodist; enw o bwys, yn ddiamheu, canys o le dysgedig iawn y tarddodd ar y dechreu, nid llai lle na Rhydychain fawr ei yr enw Methodist yn awr yn barod i foddi y *Pengrymaid* a'r *Cradogiaid* hefyd." Dyma arddeliad diamwys o Fethodistiaeth yn ymadroddion David Jones ei hun, ac y mae yn cydgordio yn hollol a'r bywyd a dreuliodd efe.

Er hyn oll, yr oedd ei ddyfodiad i Langan yn dechreu cyfnod newydd yn ei hanes, canys yno y cafodd ei hun gyntaf yn ŵr rhydd. Yr oedd bellach wedi dianc oddi tan orthrwm y personiaid, ac wedi cael llywodraeth eglwysig plwyf bychan mewn sir boblog iawn; ac yn awr, yn arbenig, y dechreuodd ei lafur y tuallan i'w blwyf ei hun.

Ceisiwn, yn awr, gymeryd brâs-olwg ar



MYNWENT EGLWYS LLANGAN.

[*Yn dangos y Groes a adeiladwyd ynddi yn y ddeuddegfed ganrif.*]


hun, ac fel y bydd y lle, felly y bydd y ffrwyth. Ni chedwais dymhor *(term)* yno erioed, eto, er hyn, fe welwyd fy nghymhwysiadau mor fawr fel y sefydlwyd y radd yma, doed fel y dêl, arnaf finau, er fy mod yn amddifad o eraill. Fy meddwl yw hyn am y gair, mai siart *(charter)* gogoneddus ydyw, a lithrodd yn ddiarwybod o blith y doctoriaid yno, i bob offeiriad ag sydd yn sefyll yn gydwybodol at burdeb articlau Eglwys Loegr. Enw mor fawr, gan y rhai sydd yn caru y rhoddwyr, fel yr wyf yn barod i'w ddymuno ar fy arch (*coffin*), ac os pydra yno, gadewch iddo, fe gymer y diafol ofal i anrhydeddu pobl Dduw â rhyw enw newydd eto, fel y mae ystad crefydd yn mhlith y Methodistiaid, yn Sir Forganwg, pan y daeth David Jones i Langan. Yr ydym yn y penodau blaenorol, yn enwedig yn nglyn â hanes Howell Harris, wedi dangos fod llawer o lafur wedi ei gymeryd i efengyleiddio Sir Forganwg yn dra bore, a bod llwyddiant mawr wedi canlyn y llafur a wnaed. Nis bwriadwn helaethu ar hyn yn bresenol, dim ond braidd ddigon i gael golwg glir ar gysylltiadau yr hanes. Yr oedd seiadau wedi eu sefydlu yn Morganwg, yn gystal a siroedd eraill y Deheudir, o fewn wyth mlynedd gyntaf y diwygiad, ac erbyn Cymdeithasfa Watford yr oedd eglwys y Groeswen wrth y gorchwyl o adeiladu

capel, y cyntaf yn y sir. Cynyddodd y seiadau yn fawr yn ystod y blynyddoedd canlynol, ond yr oedd y bobl yn hwyrfrydig i godi capelau. Adeiladwyd un arall yn mhen chwe' mlynedd ar ol y cyntaf, sef capel Aberthyn. Dyma yr unig addoldai oedd gan y Methodistiaid yn Morganwg pan ddaeth David Jones i Langan. Y mae Aberthyn o fewn pedair milltir i Langan, a'r Groeswen o fewn ugain milltir i'r lle. Yr oedd eglwysi cryfion yn y ddau le yma y pryd hwnw, ac yr oedd arnynt weinidogion ordeiniedig a sefydlog. William Edward, yr adeiladydd, ydoedd gweinidog y Groeswen; a Dafydd Williams, o Lysyfronydd, ydoedd gweinidog Aberthyn. Yr oedd y ddau, erbyn amser dyfodiad Mr. Jones i Langan, mewn addfedrwydd oedran, eill dau yn eu haner-canfed flwyddyn; ac yr oeddynt yn ddynion o fedr a dylanwad mawr. Yr oedd hefyd amryw o gynghorwyr yn llafurio yn y sir ar y pryd hwn, y rhai penaf o honynt oeddynt William Thomas, o'r Pil, a Jenkin Thomas, yr hwn a adwaenir yn well wrth yr enw Siencyn Penhydd. Yr oedd y cyntaf yn bump-a-deugain oed, a'r olaf yn un-ar-ddeg-ar-hugain. Glaslanciau rhwng deg a phymtheg oed ydoedd Christopher Basset, a Howell Howells, Trehill, yr adeg hon, dau ag a ddaethant ar ol hyn yn offeiriaid Methodistaidd o enwogrwydd a defnyddioldeb. Yn ychwanegol at y gweinidogion a'r cynghorwyr yr ydym yn awr wedi crybwyll eu henwau, pa rai oeddynt er ys blynyddau wedi bod yn llafurio yn Morganwg, daeth clerigwr i'r sir tua'r un adeg a David Jones, sef yr enwog a'r anwyl William Davies, Castellnedd. Daeth y ddau i gydnabyddiaeth buan a'u gilydd, os nad oeddynt felly o'r blaen, a buont yn cydlafurio, ac yn cyd-deithio Cymru oll yn ngwasanaeth yr efengyl, am yspaid ugain mlynedd, sef hyd farwolaeth William Davies. Cuwrad oedd William Davies, yn Nghastellnedd, o dan Mr. Pinkey, yr hwn oedd yn meddu personoliaeth dau blwyf, Castellnedd a Llanilltyd, ac nid ymddyrchafodd i safle uwch na chuwrad yn ei fywyd. Bendith anmhrisiadwy i grefydd ydoedd dyfodiad cyfamserol y ddau weinidog ffyddlawn hyn i Grist i Sir Forganwg. Hyd yn hyn nid oedd yr un o sêr dysgleiriaf y pwlpud wedi ymddangos yn Morganwg, yn frodorion nac yn ddyfodiaid. At Howell Harris, yn benaf, yr edrychai pobl Morganwg fel eu tad, a phan ymneillduodd efe, ac y peidiodd dalu ei ymweliadau mynych yno, nis gadawodd ar ei ol neb ag y gellid am foment ei gymharu ag efe. Cymerasai yr ymraniad le ddeunaw mlynedd cyn dyfodiad yr enwogion hyn i Forganwg, ac yr oedd eu dyfodiad hwy yno fel codiad haul o'r uchelder i'r holl sir, ac i Gymru oll. Blynyddoedd maith o drallod i bobl yr Arglwydd fu y blynyddoedd hyny; cyfnod o gyndynddadleu, a thymhor o ddirywiad crefyddol. Dilynwyd hwy a dyddiau gwell, dyddiau o adfywiad ac adferiad, a chydnabyddir yn gyffredinol mai trwy offerynoliaeth David Jones, Llangan, a W. Davies, Castellnedd, yn Morganwg; y ddau Williams, a William Llwyd, o Gaio, yn Nghaerfyrddin; a Daniel Rowland a Dafydd Morris, yn nghyd â Dafydd Jones, o'r Derlwyn, yn Aberteifi, yr ail-feddianwyd y Deheudir i Fethodistiaeth.

Y mae hanes David Jones yn Llangan yn bur gyffelyb i hanes Rowland yn Llangeitho, ond ei fod ar raddfa lai. Daeth y lle yn gyrchfa pobloedd, yn ganolbwynt gweithrediadau crefyddol rhan fawr a phwysig o'r wlad. Ymddengys i David Jones ymdaflu i weithgarwch yn union y daeth i Langan, ac y mae hanes fod sefyllfa crefydd o fewn y plwyf yn resynus. Dywed hyd yn nod Mr. Morgan, Syston, fod ei ragflaenydd wedi esgeuluso ei ddyledswyddau, a dichon y gallasai ychwanegu ei fod wedi camarwain ei bobl, ar air a gweithred. Tebygol ei fod yn gyffelyb i'r person yr oedd gofal y plwyf nesaf i Langan arno, am yr hwn y canodd Shanco Shôn fel yma:—


"Y 'ffeiriad ffol uffernol,
Shwd achub hwn ei bobl,
Sy'n methu cadw dydd o saith,
Heb ddilyn gwaith y diafol."

Yr oedd yr offeiriaid, gydag ychydig eithriadau, yn parhau yn ddifraw a difater; a llawer o honynt yn blaenori mewn annuwioldeb, a rhysedd. Ni pherchid hwy hyd yn nod gan yr oferwyr yr ymgyfathrachent â hwy. Dirmygid hwy gan bob dyn bucheddol, a hwy oedd prif destun gwawd a chân y beirdd a'r prydyddion. Temtid hyd yn nod Iolo Morganwg i ogan-ganu iddynt. Cyfansoddodd efe gân, a alwai yn "Drioedd yr offeiriaid," cân faith, o bedwar-ar-hugain o benillion. Gosodwn yma y penill cyntaf a'r olaf o honi fel enghraifft, ac fel dangoseg o'r dirmyg a deimlai yr hen fardd dichlynaidd hwnw tuag at bobl oedd yn byw yn



CAPEL SALEM, PENCOED.

*[A adeiladwyd y tro cyntaf gan D. Jones, Llangan, yn y flwyddyn 1775.]*



EGLWYS A MYNWENT MANOROWEN, SIR BENFRO.

*[Lle y claddwyd D. Jones, Llangan.]*

annghyson a'u swydd a'u gwaith. Dyma hwy:—

"Tri pheth sydd gas gan brydydd,
Bost uchel gŵr annghelfydd,
Awen ddiflas, heb ddim hwyl,
A 'ffeiriad plwyf di'menydd.

Tri pheth a gâr fy nghalon,
Heddychu rhwng cym'dogion;
Cadw'r iawn heb fyn'd ar goll,
A chrogi'r holl 'ffeiriadon."

Amlwg yw nad oedd y mwyafrif mawr o bersoniaid y wlad ronyn yn well eu moes, a'u buchedd, y pryd hwn, nag yr oeddynt gan' mlynedd cyn hyny; ac yr oedd plant y diwygiad hefyd wedi myned yn ol, ac nid yn mlaen, yn ystod yr ugain mlynedd hyn. Fel y darfu i ni sylwi, daethai dadleuon i mewn i'r eglwysi Methodistaidd, ac ymraniadau o bob math; y rhai a droisant ardd yr Arglwydd yn anialwch. Nid hawdd desgrifio y dirywiad a gymerodd le yn mhlith crefyddwyr mewn amser mor fyr ag ugain mlynedd. Mae darllen hanes eglwys Fethodistaidd yr Aberthyn yn y tymhor hwn, yn dwyn i gôf hanes eglwysi Annibynol Cefnarthen a Chwmyglo, ger Merthyr, mewn adeg foreuach.

Gan hyny, rhaid fod dyfodiad gŵr o yspryd a thalentau Mr. Jones i ardal fel yma, fel bywyd o feirw. Cafodd Llangan y fraint oruchel hon, canys nid hir y bu cyn teimlo grym ei weinidogaeth. Llosgai ei enaid ynddo o gariad at y Gwaredwr, ac o dosturi tuag at ei blwyfolion, pa rai a lusgid i angau. Yn fuan, dechreuodd y bobl ddeffroi, a'r eglwys lenwi. Aeth y gair ar led am rym ei weinidogaeth, a thyrai y bobl i'w wrando o'r plwyfi cyfagos, a daeth Llangan yn gyffelyb i Langeitho, fel cyrchfa pobloedd o bell ac agos.

Er mwyn rhoddi rhyw syniad am fawredd y gwaith a wnaed yn Llangan, rhoddwn yma, gyda chaniatad yr Awdwr, *ddesgrifiad campus yr Hybarch W. Williams, Abertawe, o Sul y cymundeb yn Llangan yn amser David Jones: "Tyred gyda ni, ddarllenydd hoff, ni a eisteddwn yn nghyd ar ben y maen mawr yma ar gopa cribog mynydd Eglwysfair. Y mae yn foreu Sabboth hyfryd. A weli di ar dy law aswy rhyngot a'r deheu-ddwyrain, hen adeilad fawreddog, braidd yn ganfyddadwy, o herwydd y coed a'i hamgylchant? Dyna gastell Penllin. Edrych eto ar dy law ddeheu, ryw bedair milltir i'r gorllewin, ti a weli dref fechan ar wastadedd pur hyfryd. Dyna Benybont-ar-Ogwr. Edrych yn awr rhag dy flaen. Yn union rhyngom a'r deheu, ar waelod y gwastad oddi tanom, ti a weli y pentref bychan annyben gwasgaredig yna; a braidd rhyngom ag ef, ond yn hytrach yn fwyi' gorllewin, eglwys fechan ddigon gwael yr olwg, heb fod iddi yr un clochdy, ond rhywbeth tebyg i simnai, a thwll yn hono, a chloch yn hwn, yr hon na chlywem hyd y fan hon, tincied ei heithaf. Dyna Llangan. Dyna y fan y bydd Mr. Jones yn pregethu ac yn cyfranu heddyw, a dyna lle bydd yn ei gyfarfod dyrfa fawr. Aros enyd; ti gei eu gweled yn ymgasglu. Ust! dacw rai o honynt yn dechreu dyfod. Edrych ar dy gyfer, ti a weli lonaid yr heol serth acw o gopa y Filldir Aur, tua Llangan, llawer ar feirch, a mwy ar draed. Pobl y Wîg, Llanffa, Ty'rcroes, a Thregolwyn ydynt, yn ymdywallt tua Llangan. Edrych eto rhyngom a chastell Penllin, dacw dyrfa yn ymarllwys oddiar y croesheolydd tua dyffryn Llangan. Edrych eto ar dy ddeheulaw, y mae yr heol fain wastad yna o Dyle-y-rôd, heibio i Langrallo a Melin-y-mur, i Dreoes, yn frith o fywiolion; ffordd yna y daw pobl Penybont, Trelalas, Pîl, Llangynwyd, Margam, ac Aberafon. Y mae rhai o honynt yn dyfod o Gastellnedd, ac o'r Cwm uwchlaw, ac hyd yn nod o Langyfelach, y Goppa, ac Abertawe. Ond bellach, gad i ni ddisgyn i'r gwastadedd—awn rhagom i Langan. Bydd rhyw 'gynghorwr' yn anerch y gynulleidfa, yn ysgubor y persondy, am naw o'r gloch. Ni bydd Mr. Jones yn yr eglwys dan haner awr wedi deg. Dacw ŵr teneu, trwynllym, llygadgraff, yn sefyll ar yr ystôl. Y mae yr olwg arno yn dy argyhoeddi ar unwaith nad yw wedi bod yn yr athrofa, ac y mae ei ddull o ymadroddi yn dangos nad yw erioed wedi astudio na gramadeg na rheithioreg. Ond y mae rhyw nerth yn ei eiriau—mae rhyw wreiddiolder yn ei ddrychfeddyliau—mae rhyw swyn yn ei lais, yn dangos ei fod ef yn rhywbeth tuhwnt i'r cyffredin. Dyna Edward Coslett, gôf wrth ei alwedigaeth, ond pregethwr wrth ei swydd, a'r pregethwr Methodistaidd goreu yn Sir Fynwy, meddai ef ei hun. Ei reswm dros ddweyd hyny ydoedd, nad oedd yr un pregethwr Methodistaidd, ar hyny o bryd, yn Sir Fynwy, ond ei hunan. Gofynodd Mr. Jones iddo, wedi ei wrandaw yn

* *Traethodydd*, 1850.

pregethu mewn rhyw fan, pa le yr oedd wedi astudio y bregeth hono. 'Lle na ddarfu i chwi astudio yr un erioed, Syr,' meddai yntau. 'Ond pa le, Ned?' ychwanegai Mr. Jones: 'Rhwng y tân a'r eingion,' oedd yr ateb. Barnai rhai dynion mai dyna paham yr oedd pregethau Edward Coslett mor wresog, neu mor *danllyd*, fel y dywedent. Ond wedi'r cwbl, nid yw efe namyn 'cynghori ticyn,' Mr. Jones sydd i *bregethu* yn yr eglwys. Gan hyny, i'r eglwys â ni. Dacw Mr. Jones yn esgyn y pwlpud bychan. Edrychwch arno am fynud. Nid yn fynych y ceir cyfle i weled dyn mor brydferth. Y mae yn rhy dal i'w alw yn fychan; ac y mae yn rhy fyr i'w alw yn dal; llydain ei ysgwyddau, praff ei fraich, goleu ei wallt, llawn ei fochgernau. Y mae ei aeliau bwäog, ei lygaid mawrion duon dysglaer, ei drwyn mawr cam, a'i wefusau serchog, yn dangos eu bod yn preswylio yn nghymydogaeth cyfoeth o synwyr cyffredin, a byd o natur dda. Ond wele, y mae yn dechreu darllen: 'Pan ddychwelo yr annuwiol oddi wrth ei ddrygioni, &c.' Ymddengys fel pe byddai mewn brys i ddybenu. Llithra y geiriau, y gweddïau, a'r llithiau ar ol eu gilydd dros ei wefusau, fel y cenllif gwyllt. Cyn ein bod yn dysgwyl, dyma Amen y gwasanaeth gosodedig. Yn awr, am y weddi ddifyfyr, y canu, a'r bregeth. Y mae y cyntaf yn dangos cydnabyddiaeth y gweddïwr a'r hyn sydd o fewn y llen. Gellir bod yn sicr ei fod wedi bod yn y nef neithiwr, gan mor hawdd y mae yn myned yno heddyw. Y mae y canu fel swn dyfroedd lawer; 'dyfroedd yn rhuthro dros greigiau Lodor.' Nid oes arno ryw drefn ardderchog; ond y mae yr yspryd yn ardderchog, a'r hwyl yn hyfryd; am yr effaith, y mae yn annesgrifiadwy. Roddem rywbeth am gael clywed canu o'r fath unwaith eto.

"Ond dyna y canu yn dybenu, a'r bregeth yn dechreu. Y mae dystawrwydd, fel eiddo y bedd, yn teyrnasu trwy yr adeilad gorlawn. Y mae pob dyn fel pe byddai wedi anghofio fod un rhan yn perthyn i'w gyfansoddiad ond llygad, a chlust, a chalon. Y mae y pregethwr yn dechreu fel pe byddai yn penderfynu rhoddi llawn waith i'r tri. Y mae meddyliau ei galon yn ymdywallt yn ffrydlif gyson, mor gyflym ac mor ddidrafferth, nes peri i ti dybied fod cartrefle ei feddwl yn nhaflod ei enau. Y mae ei eiriau yn ddetholedig, ei lais yn soniarus; y bobl yn credu ei fod yn bregethwr heb ei ail. Y mae y pethau hyn yn fanteisiol i gynyrchu y teimlad a weli, ac a glywi, yn ymdaenu trwy y dyrfa. Ond nid hyn yw y cwbl; nid yna y mae cuddiad ei gryfder. Y mae bywyd yn mhob gair; y mae nerthoedd yn mhob brawddeg; y mae yn gwaeddi, ond y mae yr Yspryd tragywyddol wedi dweyd wrtho eisioes pa beth i waeddi. *Y mae y pregethwr yn credu fod pob gair a ddywed yn wirionedd tragywyddol.* Y mae yn teimlo pwys anrhaethol pob brawddeg a lithra dros ei wefus; eu pwys anrhaethol iddo ef ei hunan; eu pwys anrhaethol i bob enaid byw o'i flaen! Dyn newydd ei gipio o'r dwfr; newydd ei waredu rhag boddi; newydd ei osod yn y cwch; yn gwaeddi, 'Bâd! bâd!' ar y soddedigion o'i amgylch, yw efe. Wrth ddweyd ei bregeth y mae yn dweyd ei galon. Dywed am ddagrau, a chwys a gwaed, a chroes ac angau ein Gwaredwr, a'i gariad anfeidrol yn berwi ei enaid. Sieryd am adgyfodiad y meirw a'r farn dragywyddol; a thra yn siarad teimla ei hun ar derfynau y byd anweledig, ac y mae ei wrandawyr yn teimlo yr un modd. Y mae y chwys a'r dagrau fel yn rhedeg gyrfa tros ei ruddiau glandeg, ac y mae cawod o ddagrau yn gwlychu llawr yr hen eglwys. Ond dyna y bregeth yn dybenu. Rhyfedd mor fyr; ond hynod mor felus. Dyna y pregethwr yn eistedd yn foddedig mewn chwys. Dyna y gwrandawyr, am y waith gyntaf oddiar pan ddechreuodd, yn edrych ar eu gilydd, ac yn gweled afonydd o ddagrau.

"Ond nid yw y cwbl drosodd eto. Y mae y bwrdd wedi ei ledu; y mae y dyrfa cyn ymadael yn bwriadu gwneyd cof am farwolaeth eu Hiachawdwr mawr. Aros i weled y diwedd. Darllena y gweinidog y gwasanaeth arferol, ond nid yw yn gorphwys ar hyny. Ni welir un argoel ei fod am arbed ei gorph; y mae nerthoedd yr aberth yn llenwi ei enaid. Nid yw y geiriau arferol, 'Corph ein Harglwydd Iesu Grist,' &c., yn ymddangos fel wedi pylu dim wrth eu hadrodd trosodd a throsodd; mwyhau y mae eu nerth, dyfnhau y mae eu hargraff ar y pregethwr ei hunan pa fynychaf eu dywed. Ymwthia drwy y dorf, ireiddia hwynt â'i ddagrau; gwlych hwynt â'i chwys; cynhyrfa hwynt drwyddynt draw â'i eiriau melusion. Yn awr, dyna ddernyn o hymn; yn awr dyna bwnc o athrawiaeth; yn awr dyna waeddolef annynwaredol am angau'r groes; yn awr y mae

> 'Jones fel angel yn Llangāna,
> Yn udganu'r udgorn mawr.'

A thyna

> 'Dorf, mewn twymn serchiadau,
> Yn dyrchafu uwch y llawr.'

"Dyna wreichionen y bregeth wedi myned yn fflam angerddol. Rhaid i ti bellach ymdaro trosot dy hun, gyfaill. Nis gallwn ddesgrifio ychwaneg. Y mae y pwyntil wedi syrthio. Y mae y dyrfa wedi myned i'r hwyl; yr ydym ninau wedi myned i'r hwyl hefyd. Pwy ddichon beidio? Bendigedig! Bendigedig byth!

"Ond wele, nid yn Llangan yr ydym ni yn y diwedd, ond yma, yn y fan hon; haner can' mlynedd yn rhy ddiweddar i weled y lle hwnw yn ei ogoniant; rhyw eilun anmherffaith o'r peth a welsom ni ar ein hynt! O! na chawsem weled y peth ei hunan. O ddiffyg hyny, fe allai fod y brasddarlun uchod mor debyg iddo a dim a elli daro wrtho am enyd o amser."

Ni chyfyngodd efe ei hun mewn un modd i'w eglwys, ac i'w blwyf; ystyriai hyny yn drefniad dynol, ond yn hytrach ufuddhaodd i'r gorchymyn dwyfol: "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Pregethai mewn amser ac allan o amser, ac yn mhob math o leoedd. Weithiau mewn ysgubor, neu ar y ffordd fawr, neu mewn tŷ anedd, dan gysgod pren, neu ar lechwedd mynydd; mewn gair, yn mhob lle y cai gyfleusdra i bregethu Crist a'i groes. Dichon ei fod yn Eglwyswr anghyson a direol, ond yr oedd, er hyny, yn gristion hardd a diargyhoedd, ac yr oedd yn prisio cymeradwyaeth Duw yn fwy na gwenau pendefigion y tir; a gwell oedd ganddo ddychwelyd pechaduriaid o'u ffyrdd drygionus, na chyfyngu ei hun i unrhyw sect neu blaid grefyddol.

Yn y flwyddyn 1775, sef yn mhen saith mlynedd ar ol ei fynediad i Langan, cododd Mr. Jones, mewn undeb â'r Methodistiaid, gapel Salem, Pencoed, mewn lle cyfleus ar y brif-ffordd sydd yn arwain o Benybont-ar-Ogwr i Lantrisant. Cymerwyd llawn ddau erw o dir at y pwrpas hwn, a dyogelwyd ef mewn gweithred i'r Cyfundeb. Cyfrifid capel Salem, y pryd hwnw, yn adeilad helaeth fel addoldy. Dangosai Mr. Jones fawr serch at y lle, ac arolygai ei hun y gwaith pan yn ei adeiladu. Codwyd tŷ anedd at wasanaeth yr achos wrth y naill ben i'r capel, a gwnaed mynwent at gladdu yr aelodau wrth y pen arall. Ac y mae yn hynodol, mai yr hen weinidog ffyddlawn, Dafydd Williams, o Lysyfronydd, a gladdwyd ynddi gyntaf; ac yn fuan wedi hyny y bu farw priod Mr. Jones, a dewisiodd yntau idd ei anwyl "Sina' gael ei chladdu yn ymyl yr hen bregethwr; a mynych y dywedodd mai yn y fynwent hon y dymunai i'w weddillion ei hun orphwys; ond nis cafodd hyn o fraint, gan iddo ail briodi, a diweddu ei ddydd yn Sir Benfro.

Ffaith hynod iawn ydoedd i David Jones, offeiriad eglwys Llangan, ddewis claddu ei hoff briod mewn tir annghysegredig yn ymyl Salem, capel y Methodistiaid yn Mhencoed, yn hytrach nag yn mynwent gyfleus Llangan, y plwyf yr oedd efe yn ei wasanaethu. Dengys y weithred hon o'i eiddo ei fod yn bur eang ei syniadau am gysegredigrwydd daear; ac yn rhyfeddol ymlyngar wrth y Methodistiaid.

Nid oedd capel Salem ond tua thair milldir o bellder oddiwrth eglwys Llangan. Arferai Mr. Jones bregethu yn ei eglwys ei hun am haner awr wedi deg ar fore Sabbath, ac yn Salem am ddau o'r gloch yn y prydnawn. Ni chynhaliwyd cyfarfodydd eglwysig erioed yn Llangan, ond yn Salem, Pencoed, y cynhelid hwy. Yr oedd yno seiat bob wythnos, a chyfarfod parotöad unwaith yn y mis, ar ddydd Sadwrn, am un o'r gloch, o flaen Sul y cymundeb yn Llangan. Byddai Mr. Jones yn bresenol bob amser, os byddai gartref, ac yr oedd ei wraig hawddgar a duwiol yn mynychu y cyfarfodydd hyn gyda chysondeb mawr.

Capel Salem oedd y cyntaf a adeiladwyd gan Mr. Jones, ond nid hwn oedd y diweddaf a adeiladwyd ganddo. Hwyrach iddo ef fod yn offerynol i adeiladu mwy o gapelau Methodistaidd yn ei ddydd na neb o'i gydoeswyr. Yr oedd yn ymddiriedolwr ar y nifer amlaf o gapelau y Deheudir a adeiladwyd yn ei amser ef, ac yr oedd yn dra ymdrechgar i'w diddyledu ar ol eu codi. Bu yn foddion i adeiladu rhai capelau yn y Gogledd hefyd, yn enwedigol capel cyntaf Dolgellau.


Dywedir nad llawer a alwyd trwy weinidogaeth Mr. Jones o blwyfolion Llangan. Bu ei lafur yn fwy bendithiol yn mhob man nag yn ei blwyf ei hun. Cafodd y ddiareb Ysgrythyrol ei gwirio yn ei hanes ef. Methodistiaid yr ardaloedd cylchynol oedd ei wrandawyr, gan mwyaf, rhai a sychedent am y Duw byw, ac a hiraethent am gynteddau yr Arglwydd.

Er holl lafur y Diwygwyr yn y sir cyn

amser David Jones, nis gallasent hwy lwyr osod i lawr ofer arferion y werin bobl yn nghymydogaeth Llangan. Yr ydym yn cael fod gwylmabsantau yn y wlad mor ddiweddar a'i amser ef. Yn mhlith manau eraill, cynhelid un bob blwyddyn yn Llanbedr-ar-fynydd, lle oddeutu pum' milltir i'r gogledd o Langan. Hwn ydoedd prif "fabsant" y wlad. Yma yr ymgynullai canoedd o ieuenctyd Morganwg i yfed, meddwi, dawnsio, ymladd, a phob annuwioldeb. A dydd yr Arglwydd ydoedd prif ddiwrnod yr wyl felldigedig hon. Penderfynodd Mr. Jones wneyd ymdrech i osod terfyn ar y cynulliad pechadurus. Yr oedd wedi bod yn pregethu yn ei herbyn yn Llangan, ond nid oedd hyny ynddo ei hun yn ddigon. Ar un Sabbath, aeth yno ei hun, a phregethodd Grist croeshoeliedig iddynt. Llwyddodd yn ei amcan, a bu yn myned i'r un lle i gynal math o gymanfa ar ddyddiau y mabsant am ddeng-mlynedd-ar-hugain. Gwthiodd Duw y gelyn o flaen y pregethwr ar y cynyg cyntaf, a mynodd yntau ei lwyr ddifetha ef.

Cawn iddo unwaith wrth ddychwelyd adref, wedi bod yn pregethu, daro wrth haid o oferwyr oeddynt wedi ymgynull er mwyn y difyrwch creulawn o ymladd ceiliogod. Trodd atynt, a chyfarchodd hwy yn garedig, gan ddweyd: "Y mae genyf fi newyddion da rhyfeddol i chwi, bobl fach, os byddwch mor fwyned a gwrandaw; cewch fyned yn y blaen a'ch gwaith wedi hyny, os byddwch yn dewis." Wedi eu gorchfygu gan diriondeb, dywedasant y cai wneyd fel y carai. Ar hyn, dechreuodd ddweyd wrthynt am fater eu heneidiau, am gariad y Gwaredwr, a disgynodd nerth Duw gyda'r siarad. Tarawyd yr ofer-ddynion â syndod, ac aethant i'w cartrefleoedd heb gyflawni yr hyn a fwriadent wneyd.

Gŵr boneddigaidd o ymddygiad, addfwyn o yspryd, a rhyfeddol dirion yn ei ymwneyd â dynion oedd efe, ac eto cafodd ei ran o erlidiau. Cawn ddarfod i rywun daro y Beibl o'i law pan yn pregethu mewn man yn Ngogledd Cymru. Yr unig sylw a wnaeth ar y weithred anfoneddigaidd ydoedd: "Och! druan, ti a darewaist dy farnwr!" Pan yn pregethu yn Machynlleth, ymgasglodd torf o elynion o'i gwmpas, gan gipio y Gair sanctaidd o'i ddwylaw, a'i anmharchu. Dywedasant wrtho na wnaent iddo niwed, os gwnai addaw peidio dyfod yno i bregethu byth mwyach. "O na," ebai yntau, "nis gallaf wneyd hyny, nid oes yr un addewid yn perthyn i chwi nac i'ch tad." Dyoddefodd erledigaeth oddi ar law boneddwyr a phersoniaid y gymydogaeth yr oedd yn byw ynddi. Anfonwyd achwyniadau at yr esgob, ei fod yn pregethu heb lyfr, ei fod yn tynu pobl o blwyfau eraill i'w wrandaw yn Llangan a lleoedd eraill, a'i fod yn euog o bob math o afreolaeth. Darfu i'r esgob gau ei glustiau i'r cwynion hyn hyd y gallai, ond gorfodwyd ef o'r diwedd i'w alw i gyfrif. Cyfarchodd ef,




CAREG FEDD GWRAIG GYNTAF Y PARCH. DAVID JONES, LLANGAN.

gan ddweyd: "Y mae yn ddrwg genyf, Mr. Jones, fod achwyniadau yn eich erbyn; cyhuddir chwi o bregethu mewn lleoedd annghysegredig." "Naddo, erioed, fy arglwydd," meddai yntau; "pan y rhoddes Mab Mair ei droed ar y ddaear, darfu iddo *gysegru* pob modfedd o honi; oni buasai hyny, yr wyf yn ofni na wnai unrhyw gysegriad o eiddo eich arglwyddiaeth ddaioni yn y byd." Ar ol ychydig eiriau cariadus, ymadawsant, ac aeth Mr. Jones yn mlaen fel cynt. Dr. Barrington oedd yr esgob y pryd hwn, ac yr oedd efe yn gefnogol, neu o leiaf, nid oedd yn an-

nghefnogol i arferion afreolaidd Person Llangan. Adnewyddwyd yr achwyniadau pan wnaed y Dr. Watson yn Esgob Llandaf. Penderfynodd yr esgob newydd ei orfodi i aros yn ei blwyf ei hun. Galwodd ef o'r neilldu ar ddydd ymweliad yn Mhontfaen, a dywedodd nad oedd iddo ryddid i fyned i blwyfau eraill, hyd y byddai pob enaid yn ei blwyf ei hun wedi ei achub. Atebodd Mr. Jones yn ostyngedig, ei fod yn teimlo ei hun dan rwymedigaeth i gydsynio â chymhellion y bobl oeddynt yn byw mewn plwyfau ag yr oedd offeiriaid yn esgeuluso eu dyledswydd. "Os felly," ebe yr esgob, "rhaid i mi gymeryd mesurau i'ch atal." "Gellwch wneyd hyny, fy arglwydd," atebai Mr. Jones, "ond nis gallaf fi newid fy mhenderfyniad." Yr esgob, yn synu wrth weled y fath wroldeb digyffro, yn gysylltiedig a'r fath ostyngeiddrwydd boneddigaidd, a ofynodd, a oedd ganddo deulu. "Oes, fy arglwydd," meddai yntau," "y mae genyf wraig a thri o blant." "Wel," ebe ei arglwyddiaeth, wedi ei orchfygu gan deimlad, "Mr. Jones bach, nis gallaf mewn modd yn y byd feddwl am eich niweidio, ond y mae offeiriaid plwyfau P—— a Ff—— yn wrthwynebol iawn i chwi, gwnewch hyn ar fy nghais, peidiwch a myned i'w plwyfau hwy." "Gwnaf yr hyn a geisiwch genyf," ebe yntau, a chadwodd ei air.

Gorchwyl hollol anmhosibl ydyw cofnodi llafur Mr. Jones am fwy na deugain mlynedd, sef o'i ddyfodiad i Langan hyd ei farwolaeth yn Manorowen. Nid oes ddefnyddiau ar gael at orchwyl o'r fath. Ond y mae yn dra amlwg iddo ef lanw ei fywyd â gwaith, ac i'r Arglwydd mewn modd neillduol goroni ei lafur â llwyddiant. Heblaw ei ymdrechion yn Nghymru, llafuriodd yn gyson drwy ei oes yn nglyn â chyfundeb yr Iarlles Huntington yn Lloegr, ac yr oedd ei weinidogaeth mor gymeradwy gan y Saeson, ag yr oedd gan ei genedl ei hun. Cafodd

"Llundain boblog, falch, derfysglyd,
Glywed llais ei bibell ef;
Cafodd wybod fod yn Nghymru
Ddyn oedd lawn o ddoniau'r Nef."

Nid gŵr o gyrhaeddiadau cyffredin a wnai y tro yr adeg hono i bregethu i gynulleidfaoedd cyfundeb yr Iarlles; yr oedd llawer o honynt yn hufen cymdeithas, yn bobl o ddysg a chwaeth. Casglwyd hwy yn nghyd drwy hyawdledd yr anghymarol Whitefield, ac yr oeddynt wedi cynefino â doniau uchaf y pwlpud. Ymwelai Mr. Jones yn aml â phrif eglwysi y prif drefydd, ac yn amlach fyth a'r brif-ddinas. Cynullai y Saeson wrth y miloedd i'w wrando, a dilynent ef o gapel i gapel tra fyddai o fewn eu cyrhaedd. Yr oedd yn meddu ar y fath helaethrwydd dawn, y fath barodrwydd ymadrodd, a'r fath wresogrwydd yspryd, fel y llwyr orchfygid pob math o bobl gan ei weinidogaeth. Yn ddiau, efe oedd un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn ei ddydd. Byddai yn ymweled yn aml â Bryste, a phan fyddai yno, yr oedd Dr. Rylands yn wastad yn gofalu am gael odfa neu ddwy ganddo, a bron yn ddieithriad byddent yn odfaeon tra llewyrchus. Arferai y Dr. parchedig ddweyd wrtho yn chwarëus ar ddiwedd y gwasanaeth: "Dyma chwi eto, Jones, o Langan, wedi lladrata calon fy mhobl i, ac wedi difetha fy ngwrandawyr am fis cyfan; ni cheir ganddynt wrando ar neb arall am amser maith ar ol hyn." Pregethai am wythnosau yn olynol yn Spa Fields Chapel, Llundain, un o gapelau mwyaf y brifddinas y pryd hwnw, ac yr oedd yn rhyfeddol o boblog. Gosodid ef i bregethu yn mysg y Saeson ar yr uchel-wyliau, ac ar amgylchiadau neillduol; a phob amser llanwai ddysgwyliadau y tyrfaoedd a dyrent i'w wrando. Efe oedd y gŵr a gafodd yr anrhydedd o bregethu pregeth angladdol yr Iarlles Huntington, ac y mae yn ymddangos mai efe oedd yr unig weinidog a weinyddai ar y bendefiges urddasol hono yn ei chystudd diweddaf. Yr ydym hefyd yn cael i Gymdeithas Genhadol Llundain, yn ei hail gyfarfod blynyddol, ei osod i bregethu ar ei rhan, yn un o gapelau mwyaf y brif-ddinas. Cymerodd hyn le, Mai 13eg, 1796, dau fis cyn i'r fintai gyntaf o genhadau hedd gael eu hanfon i Ynysoedd Môr y Dê. Ceir yn yr adroddiad o'r cyfarfod hwnw gyfeiriad fel yma at bregeth Mr. Jones: "Ar ddydd Gwener, gorphenwyd ein cyfarfodydd cyhoeddus, gyda phregeth ragorol gan y Parchedig Mr. Jones, o Langan. Y mae ei ddull a'i yspryd ef yn rhy adnabyddus i wneuthur unrhyw ganmoliaeth oddiwrthym ni yn angenrheidiol." Cyhoeddwyd y bregeth hon yn y gyfrol gyntaf o'r *Missionary Sermons;* ac y mae yn engrhaifft dda o'i ddullwedd ef. Darfu i Mr. T. Chapman, Fleet Street, Llundain, gyhoeddi y bregeth hon ar ei phen ei hun; a chyhoeddodd Mr. E. Griffiths, Abertawe,

gyfieithiad Cymreig o honi yn y flwyddyn 1797.*

Ond os oedd y Saeson yn awyddu am ei wrando, yr oedd yntau yn llawn mor barod i dalu ymweliadau â hwy, o herwydd yr oedd yn gofalu i'r ymweliadau hyny â chyfoethogion Lloegr fod o ryw fantais i Gymru dlawd. Byddai ganddo fynychaf achos rhyw gapel neu ysgoldy yn Nghymru, ag yr oedd eisiau ei adeiladu, neu eisiau talu am dano; a daeth â llawer swm da o arian y Saeson yn ol gydag ef. Yr oedd ei olwg foneddigaidd, ei ddull deniadol, a'i ddawn parod, yn meddu y fath ddylanwad ar ei wrandawyr, fel nas gallent atal eu rhoddion oddi wrtho. Adroddai yr hen bobl lawer o hanesion difyr am dano yn nglyn â chasglu arian. Rhoddwn yma esiampl neu ddwy. Dygwyddodd fod Cymro un tro ar ymweliad â Llundain, ac aeth i'w wrando yn pregethu yn un o'r capelau Saesnig. Wrth siarad ar y casgliad ar ddiwedd y gwasanaeth, gollyngai y pregethwr holl ffrwd ei hyawdledd ar draws y bobl, er mwyn eu cynhyrfu i roddi. Teimlai y Cymro y cwlwm rhyngddo a'i arian yn datod yn gyflym, ac yn y man, nis gallodd ymatal rhag gwaeddi allan yn iaith ei fam: "Mr. Jones anwyl, ymataliwch, da chwi! peidiwch a gwasgu yn dynach eto, onide bydd raid i mi roddi y cwbl a feddaf, heb adael ffyrling i'm cario adref." Dywedir iddo dro arall, yn yr un ddinas, ddefnyddio hanes Petr yn bwrw ei fâch i'r môr, ac yn cael o hyd i bysgodyn a darn o arian yn ei enau, yn dra effeithiol. Boreu dranoeth, curai gwas boneddiges wrth ddrws y llety, lle yr oedd yn aros, gan adael basged yno gyda'r cyfeiriad: "*To the Rev. Mr. Jones, Wales.*" Erbyn ei hagor, wele bysgodyn ynddi a llythyr yn ei enau, yn cynwys archeb am ddeg punt. Yr oedd Mr. Jones yn gweled llaw yr Arglwydd yn yr amgylchiad hwn mor amlwg ag y gwelai Petr hyny yn ei amgylchiad ef.

Ond er ei ymweliadau mynych â threfydd Lloegr, Cymru er hyny ydoedd prif faes ei lafur. Yr oedd yr yspryd Cymreig yn berwi yn ei wythienau, a chysegrodd ei fywyd i wasanaeth ei genedl. Nid oes modd gosod trefn ar y teithiau aml a meithion a gymerodd ar hyd a lled Cymru, mwy nag y gellid gwneyd y cyffelyb â theithiau Williams, o Bantycelyn. Braidd nad yw yr oll o'r hanes sydd genym am Mr. Jones, o Langan, yn gynwysedig mewn byr hanesion a geir am dano yn nglyn â hanes boreuol ein heglwysi; rhywbeth a wnaed iddo, neu ganddo; neu ynte, rhyw ymadrodd tarawiadol a ddyferodd oddiar ei wefusau. Hwyrach fod yr adgofion hyn yn gystal allwedd i'w gymeriad a dim a ellid ei gael.

Yr ydym eisioes wedi dangos y modd y darfu iddo orchfygu erledigaeth yr offeiriaid drwy ei ymddygiad gostyngedig a pharchus o flaen yr esgob; ac y mae genym engrheifftiau lawer mai dyna oedd ei ffordd arferol ef o gyfarfod anhawsderau o'r fath. † Cawn ei fod un tro yn pregethu yn Nolgellau, ac ar ganol yr odfa, daeth rhyw un o'r dref, gan yru berfaolwyn (*wheel-barrow*), yn ol ac yn mlaen trwy ganol y gynulleidfa, a pheri llawer o rwystr i'r gwasanaeth. Y tro nesaf y daeth Mr. Jones yno, yr oedd y gŵr hwnw wedi cael ei draddodi, oblegyd rhyw drosedd, i'r carchar, yr hwn oedd yn ymyl y lle y safai y pregethwr arno. Mewn canlyniad, yr oedd teulu y dyn wedi eu darostwng i iselder a thlodi. Mynegwyd hyn i Mr. Jones, yr hwn oedd yn wastad yn barod i wneuthur cymwynas i'r trallodedig. Eglurodd yntau yr achos i'r gynulleidfa, dadleuodd dros y teulu tlawd yn daer, gan ddeisyf ar rai o'r cyfeillion fyned â het o amgylch, i dderbyn ewyllys da y bobl tuag at ddiwallu eu hangen. Effeithiodd yr ymddygiad caredig hwn o eiddo Mr. Jones yn fawr i ddarostwng yr erledigaeth a ffynai yn y dref hono yn erbyn y Methodistiaid.

Cofnodir yn *Methodistiaeth Cymru* y modd y darfu iddo ragflaenu erledigaeth yn nhref Caernarfon. Yr oedd y Diwygwyr boreuaf wedi derbyn triniaeth arw yno, ac nid oedd sicrwydd y cai yr Efengylydd o Langan wrandawiad. Modd bynag, meiddiodd ef ac ychydig gyfeillion fyned i'r heol, ac i gyfeiriad porth y castell. Esgynodd Mr. Jones i dròl oedd gerllaw, ac ymgasglodd pobl ynghyd, rhai gyda'r bwriad o derfysgu, rhai o gywreinrwydd, a rhai, feallai, gydag amcanion gwell. Diosgodd y pregethwr ei gôb uchaf oddiam dano, a gwelai y bobl fwy o foneddigeiddrwydd ynddo nag oeddynt wedi ddysgwyl gael yn neb o'r pengryniaid. Yn awr, yr oedd y *gown* du, y napcyn gwyn, a'r lapedau ysgwar a ddisgynent ar ei fynwes, wedi dyfod i'r golwg. Yr oedd peth fel hyn yn

* *Llyfryddiaeth y Cymry*, 703.

† *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. 5-11.

synu y bobl—gweled gŵr eglwysig yn ei wisg glerigawl yn cyfarch dynion ar ymyl y ffordd fawr! Rhyw gynghorwr gwladaidd, mewn dillad cyffredin, heb na phryd na thegwch ynddo, oeddynt hwy wedi ddysgwyl; ond yn lle hyny, dyma foneddwr, o wisgiad ac o ymddygiad, ger eu bronau. Yr oedd yno un o leiaf a cherig yn ei logellau, er clwyfo ac anafu, os nad lladd y llefarwr; ond llwfrhaodd pan welodd mai offeiriad urddasol oedd yno, a gollyngodd y cerig i lawr mewn cywilydd o un i un. Yr oedd yn ysgafn wlawio ar y pryd. Dechreuodd Mr. Jones gyfarch y dyrfa mewn ymadroddion serchog, a chyda thôn hollol hyderus, fel gŵr yn teimlo ei hun yn nghanol ei gyfeillion. Yn fuan gofynodd, a wnai rhyw foneddwr roddi benthyg gwlawlen iddo i gysgodi ei ben rhag y gawod? Ymddygiad lled eofn ydoedd hwn, gan ŵr a wyddai ei fod mewn perygl o dderbyn niwaid, ac nid cymwynas, gan y rhai oedd o'i flaen. Ond gwnaeth ef yr apêl yn ei ffordd serchog ei hun. Ar darawiad, dyma un Mr. Howard, cyfreithiwr o ddylanwad mawr yn y dref, yn ymadael i gyrchu gwlawlen iddo; a phan ddaeth yn ei ol, estynodd hi i'r pregethwr parchus. Derbyniodd yntau hi o'i law gydag ystum foesgar, a chyda'r wên fwyaf nefolaidd ar ei wynebpryd, a dechreuodd ar ei bregeth trwy ddywedyd ei fod yn teimlo mor gysurus dan y wlawlen a phe buasai yn St. Paul, yn Llundain. Cafodd berffaith lonyddwch i bregethu, yr hyn ni chafwyd yno cyn hyny. Fel yma y gwnai efe orchfygu drygioni â daioni; ac y pentyrai farwor tanllyd ar ben ei elyn.

Y mae yn ddiamheu ei fod yn bregethwr rhyfeddol o enillgar a phoblogaidd. Yr oedd ei draddodiad yn ddifai; yr oedd pob goslef ar ei lais, pob symudiad ar ei law, pob ystum ar ei gorph, yn hoelio llygaid pawb arno, fel yr oedd y gwrandawyr mwyaf difater yn rhwym o sylwi, a gwrando yr hyn a draethid. Yr oedd yn ardderchog o urddasol pan y byddai y deigryn gloew yn treiglo dros ei ruddiau hardd, ac yntau yn tywallt allan gynwys ei galon fawr gynes. Ni welid dim gwrthun un amser yn ei berson na'i ymddygiad, dim i dynu oddiwrth effaith yr ymadroddion grasol a ddisgynai dros ei wefus. Yr oedd yn ymadroddwr wrth natur. Byddai pob gair yn disgyn i'w le ei hun fel wrth reddf. Ei ymadroddion oeddynt ddetholedig, a'i chwaeth yn bur. Byddai pob math o bobl yn cael eu swyno gan neillduolrwydd ei ddawn, a melusder ei weinidogaeth. Gorchfygai y coeth a'r dysgedig, fel yr anwybodus a'r anwrteithiedig; ac yr oedd pawb fel eu gilydd yn teimlo nerth ei weinidogaeth. * Cawn fod dynion, fel Jack Jones, y cigydd, yn deall rhagor rhwng Mr. Jones, o Langan, a phregethwyr cyffredin. Dywedir i ni fod Mr. Jones yn pregethu yn Rhuthyn ar y geiriau: "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn," o flaen tyrfa derfysglyd. Darllenodd ei destun gyda llais cryf a gwyneb siriol, fel arfer. Yr oedd rhywbeth tarawiadol yn ei ymadroddion dechreuol. "Llefarodd hwn lygaid i'r deillion," meddai, "llefarodd hwn glustiau i fyddariaid, llefarodd draed i gloffion, llefarodd iechyd i gleifion, llefarodd gythreuliaid allan o ddynion, ïe, llefarodd fywyd i feirwon; gall wneyd yr un peth eto," &c. Jack Jones, y cigydd, ydoedd blaenor yr erlidwyr yn y cyfarfod, ond cafodd ei swyno gan rym y bregeth, fel y dywedodd: "Ni lefarodd dyn erioed fel tithau ychwaith, a myn d——l, mi fynaf chwareu têg i ti lefaru, a phwy bynag wnelo dim i ti, mi dalaf i'w groen o." † Cawn ddarfod i hen wreigan dduwiol yn Niwbwrch, yn Môn, ddangos awyddfryd am weinidogaeth Mr. Jones, Llangan, ag sydd bron yn annghredadwy. Yr oedd efe wedi bod yn pregethu mewn cymanfa yn y lle hwnw. Pan oedd ar ddychwelyd, aeth hen wraig, Annas wrth ei henw, i ofyn addewid ganddo i ddyfod yno drachefn. "Pa bryd, Mr. Jones bach, y deuwch chwi yma eto?" "Pan y deui di, Annas, i Langan, i ymofyn am danaf," oedd yr ateb, gan dybied, hwyrach, ei fod yn gosod telerau anmhosibl iddi. Ond cydiodd yr hen wraig yn yr addewid, a phenderfynodd fyned i Langan. Yr oedd ganddi gant a haner o filldiroedd i'w cerdded, ac er nad oedd ganddi am ei thraed ond clocs, nac yn ei llogell ond a gardotai, nag at ei chynhaliaeth ond a roddid iddi ar y ffordd, eto, cyn hir, cychwynodd ar ei thaith. Dyddorol fuasai hanes y daith hon o eiddo Annas, a chael gwybod yn mha leoedd y lletyai ar y ffordd, pa anhawsderau a'i cyfarfyddodd, pa sarugrwydd a gafodd oddiwrth rai, a pha dosturi oddiwrth eraill; ond nid oes genym am y cwbl ond dychymyg. Ond cyrhaedd Llangan a wnaeth, er mawr syndod i Mr. Jones. Ryw ddiwrnod, wrth

---

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. iii., tudal. 167.
† *Methodistiaeth Cymru*, cyf ii., tudal. 508.

edrych drwy ffenestr ei dŷ, fe ganfu yr hen wreigan, a'i ffon yn un llaw, a'r cŵd yn y llall, yn dyfod at y tŷ. Aeth i'w chyfarfod, gan ddweyd: "Och fi! Annas; a ddeuaist ti eisioes?" Y canlyniad a fu iddi gael ei llawn wobrwyo am ei llafur, canys cafodd addewid i gael tri o Efengylwyr penaf eu hoes i Sir Fôn, sef Jones, Llangan, Rowland, Llangeitho, a Llwyd, o Henllan. Bu y gŵr hyn yn ffyddlon i'w haddewidion, a chafodd Môn cyn hir fedi ffrwyth oddi ar y maes a hauodd Annas dlawd.

Gellir nodi yn y fan hon y ffaith mai dan weinidogaeth Mr. Jones yr argyhoeddwyd i fywyd y seraph bregethwr, Robert Roberts, o Glynog. Dengys hyn mor orchfygol oedd ei weinidogaeth ar feddyliau a chalonau gwahanol. Cymerodd hyn le mewn odfa a gynhaliwyd yn Mrynyrodyn, yn agos i Gaernarfon. Ei destun oedd y geiriau: "Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol," &c. Hysbys yw i Mr. Roberts ddyfod ar ol hyn yn un o addurniadau penaf y pwlpud Cymreig; yn un ag oedd yn anhawdd cael neb a ymgymerai i gydbregethu ag ef mewn Cymdeithasfaoedd.* Yn bur fuan wedi i Robert Roberts ddechreu pregethu, yr ydym yn cael ddarfod iddo gael ei enwi i gydbregethu â Mr. Jones mewn Cymdeithasfa a gynhaliwyd yn rhywle yn y Deheudir. Pregethodd Robert Roberts gyda grym anarferol, nes gorchfygu y gynulleidfa. Ar ei ol cyfododd Mr. Jones, a dygwyddodd—fel y dygwydd yn fynych ar ol effeithiau grymus gyda'r bregeth gyntaf—fod yr ail bregeth braidd yn drymaidd a dieffaith. Boreu dranoeth, cynhelid cyfarfod neillduol—cyfarfod y pregethwyr wrthynt eu hunain, y mae'n debyg. Mater y cyfarfod hwn oedd "Hunan." Tra yr oedd amryw yn traethu ar y drwg, a'r perygl o fod egwyddor hunanol yn ein llywodraethu gyda gwaith yr Arglwydd, sylwid fod Mr. Jones yn aflonydd, fel dan ryw gynhyrfiadau mewnol, yn codi ac yn eistedd, ac weithiau yn cerdded yn ol ac yn mlaen hyd lawr y capel. O'r diwedd, gofynodd y llywydd: "Yn awr, Mr. Jones, dywedwch chwithau dipyn ar yr hunan yma." Atebai yntau yn gyffrous: "Na 'wedaf fi ddim 'nawr; ond ewch chwi 'mlân, frodyr anwyl! Ewch yn 'mlân, daliwch ati, ymosodwch arno, peidiwch a'i arbed, waith *fe fu agos iddo'm lladd i neithiwr*, wrth weled 'Robin bach o'r *North*' wedi myn'd gymaint tu hwnt i fi." Cofnodir yn *Methodistiaeth Cymru* hanes pur gyffelyb i'r un uchod am Mr. Jones, pan yn cydbregethu â Hugh Pritchard, clochydd Llanhir-yn-Rhôs, o Sir Faesyfed. Yr oedd y gŵr hwnw yn glochydd yn yr Eglwys Sefydledig, ac yn gynghorwr gyda'r Methodistiaid. Dygwyddodd fod Hugh Pritchard y tro yma hefyd yn pregethu o flaen Mr. Jones mewn Cymdeithasfa yn y Deheudir, ac i'r cyntaf gael mwy o hwyl i bregethu na'r olaf. Craffodd Mr. Jones ar hyn, ac mewn llythyr at gyfaill cyfeiriai at y tro yn y dull ffraeth ag oedd mor briodol iddo: "A wyddoch chwi pwy ddarfu 'nhwy gyplysu yn y gymanfa a'r hen offeiriad penllwyd?—clochydd Llanhir, os gwelwch yn dda. Ac os dywedir y cyfan, y mae yn rhaid addef i'r clochydd guro y 'ffeirad o ddigon!"

Nid ydym yn cael i Mr. Jones lanw lle mor fawr yn nghynadleddau y Cyfundeb ag a allasem ddysgwyl. Gwnaeth wasanaeth i'r Cyfundeb nas gellir byth ei fynegu; ond yn y pwlpud y cyflawnodd efe y gwasanaeth hwnw, yn hytrach nag yn nghynadleddau y Cymdeithasfaoedd, a'r Cyfarfodydd Misol. Bu yn gadeirydd y Gymanfa lawer gwaith, yn enwedig gwedi marwolaeth Daniel Rowland; ond prin y gellir dweyd ei fod wedi profi ei hun yn arweinydd medrus mewn amseroedd o derfysg ac anghydfod. Mab tangnefedd oedd efe, ac yr oedd yn rhy dyner ei deimlad i fod yn arweinydd dyogel mewn amseroedd cyffrous ac enbyd. Eto, meddai ar lawer o gymhwysderau arweinydd. Yr oedd yn ŵr amyneddgar a phwyllog, o farn addfed, yn gyflawn o synwyr cyffredin, ac yn garedig tuag at bawb; ond yr oedd hytrach yn ddiffygiol mewn gwroldeb. Pe buasai yn fwy uchelgeisiol nag ydoedd, ac o feddwl mwy penderfynol, gallasai yn hawdd ddyfod yn brif arweinydd y Cyfundeb ar ol marwolaeth Daniel Rowland, a W. Williams, Pantycelyn; o herwydd prin y mae lle i amheuaeth mai efe ar y pryd oedd y mwyaf ei barch a'i boblogrwydd. Ond yr oedd yn rhy lwfr ei yspryd, ac yn rhy dyner ei deimlad i arwain. Nid ymddengys iddo gymeryd rhan gyhoeddus yn y ddadl yn nglyn â golygiadau athrawiaethol Peter Williams; a dangosodd gryn wendid yn adeg diarddeliad Nathaniel Rowland, a hefyd yn y ddadl ar ordeiniad gweinidogion yn

---

* *Cofiant Robert Roberts*, gan Dr. Parry, Carno, tudal. 13.

niwedd ei oes. Yn sicr, nid gŵr o ryfel oedd efe, ond mab tangnefedd yn hytrach.

Pregethwr yn ddiau ydoedd Mr. Jones, o Langan, a braidd na ddywedem mai pregethwr yn unig ydoedd, gan mor fawr oedd ei ddoniau gweinidogaethol. Yr oedd ei allu i bregethu Crist yn cysgodi pob dawn arall a feddai, ac yn cuddio pob gwendid a diffyg a berthynai iddo. Os mai prin y cymerodd efe y rhan ddyladwy yn nadleuon y Methodistiaid yn ei ddydd, gwnaeth anrhaethol fwy o wasanaeth i grefydd ein gwlad, yn y rhan flaenllaw a gymerodd yn y diwygiadau mawrion a ymwelasant â Chymru. Cawn i gynifer a phump o ddiwygiadau grymus gymeryd lle yn ystod ei fywyd cyhoeddus ef. Torodd y cyntaf allan yn 1773, tua phum' mlynedd wedi i Mr. Jones ymsefydlu yn Llangan, a'r olaf o honynt yn 1805, bum' mlynedd cyn ei farw. Pwy all fesur y gwasanaeth a gyflawnodd efe yn nglyn a'r diwygiadau hyn? Gwell oedd gan yr Efengylydd o Langan bregethu Crist i bobl wresog yn yr yspryd ar adeg o ddiwygiad, na chyndyn ddadleu yn ngylch athrawiaethau crefydd. Hyfryd y desgrifiad a rydd Thomas Williams, Bethesda-y-Fro, ohono, onide?:—

"Iachawdwriaeth i hechadur,
Trwy rinweddau angau'r groes,
Oedd o hyd ei destun hyfryd,
Cy'd y parodd hyd ei oes;
Fe ymdrechodd, fe ymdreuliodd,
Fe lafuriodd tra fu byw,
Nes cyflawni'r weinidogaeth
A ro'w'd iddo gan ei Dduw.

Un o'r manau, byth mi gofia',
Gwelais i ef gynta' gyd,
Yn cyhoeddi gair y cymod
I golledig anwir fyd;
Iesu'n marw, Iesu'n eiriol,
Diwedd byd a boreu'r farn,
Oedd ei araeth o flaen canoedd
Wrth hen gapel *Talygarn*.

Dyddiau hyfryd oedd y rhei'ny,
Pan oedd Rowland uchel ddysg,
Peter ffyddlon, William Williams,
Llwyd a Morris yn eu mysg;
Jones fel angel yn Llangana
Yn udganu'r udgorn mawr,
Nes bai'r dorf mewn twymn serchiadau
Yn dyrchafu uwch y llawr.

Minau yno'n un o'r werin
(Er mai'r annheilynga'i gyd),
Tan y hwrdd yn bwyta'r briwsion,
(O mor hyfryd oedd fy myd!)
Torf yn bwyta'r bwydydd bras',
Gwin a manna, nefol faeth,
Wrth y fron ro'wn inau'n chwerthin,
Tra'n ymborthi ar y llaeth.

Beth sy' fater, nid oes ronyn,
Ond i ni gael blasus fwyd,
Beth fo gwisg y gŵr a'i rhano,
Brethyn glâs, neu brethyn llwyd;
Neu ynte frethyn du, a'i guddio
Drosto gyda llian gwyn;
Byddwn gallach o hyn allan,
Nag ymryson yn nghylch hyn.

Ni gymunwn yn yr eglwys,
Lle sancteiddia' sydd yn bod,
Neu mewn teiau na thywalltwyd
Olew sanctaidd yno erioed;
Ac na ddigied meibion Levi,
Plant yr offeiriadaeth wèn,
I ni dderhyn gan rai na fu
Llaw un esgob ar eu pen."

Gresyn na chawsem farwnad i Mr. Jones, o Langan, gan y prif Farwnadwr. Ond yr oedd hyny yn anmhosibl, gan i Williams ei ragflaenu i'r byd tragywyddol o gylch ugain mlynedd. Er hyny, y mae gan y Bardd o Bantycelyn gyfeiriad neu ddau ato yn y marwnadau a ysgrifenodd efe i bobl eraill, sydd yn werth eu coffhau. Yn ei farwnad i Mrs. Grace Price, o'r Watford, dywed:—

"Yn *Llangan*, o dan y pwlpud,
'R oedd ei hyspryd, 'r oedd ei thre',
Tra f'ai *Dafydd* yno'n chwareu
'N beraidd ar delynau'r ne';
Iesu'r *Text*, a Iesu'r Bregeth,
Iesu'r Ddeddf, a Iesu'r Ffydd,
Meddai Jones, a hithau'n ateb—
Felly mae, a Felly bydd!"

Yn gyffelyb y mae yn ei farwnad i Daniel Rowland, yn cyfarch ei fab, Nathaniel, fel yma:—

"Bydd yn dad i'r Assosiasiwn,
Ac os teimli'th fod yn wan,
Ti gai *help* gwir efengylwr,
Dafydd onest o Langan;
Dodd y cerig a'i ireidd-dra,
A thrwy rym ei 'fengyl fwyn,
Wna i'r derw mwyaf caled
Blygu'n ystwyth fel y brwyn."

Y mae pob cyfeiriad ato, a wneir gan ysgrifenwyr yr amseroedd hyny, yn gwbl gydfynedol. Wrth son am dano, dywed Robert Jones, Rhoslan, yn *Nhrych yr Amseroedd*, eiriau fel yma: "Byddai yn hyfryd chwareu tanau telyn auraidd yr efengyl, nes y byddai llawer credadyn llwfr yn barod i lamu o lawenydd." Ac y mae tystiolaeth y galluog Christmas Evans fel hyn: "Bu gwrando Dafydd Morris, Jones, o Langan, Davies, o Gastellnedd, a Peter Williams, o ddefnydd mawr i mi tuag at fy nwyn i ddeall gras Duw trwy gyfryngdod, heb ddim haeddiant dynol." Ceir crybwylliad parchus iawn o hono yn *Nghofiant John Jones, Talysarn*, gan y

diweddar Dr. Owen Thomas. Dywed: "Fel pregethwr, y mae yn ddiamheuol ei fod yn un hynod iawn. Cyfrifid ef y mwyaf toddedig o'r holl hen dadau. Nid oedd neb yn gyffelyb iddo yn hyny, ond Mr. Evan Richardson, o Gaernarfon. Efengylwr yn arbenig ydoedd. Nid oedd dim o'r 'gwynt nerthol yn rhuthro' yn ei weinidogaeth ef; ond y 'deheuwynt' tyner 'yn chwythu ar yr ardd,' ac yn peri iddi 'wasgar ei pheraroglau. Yr ydym yn cofio clywed ein hanwyl hen fam yn dywedyd am dano, ei fod yr un fath yn gwbl a'r adnod hono: 'Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw; fy ymadrodd a ddifera fel gwlith; fel gwlith-wlaw ar ïrwellt, ac fel cawodydd ar laswellt.' Yr ydym yn cofio clywed y diweddar Mr. Michael Roberts, o Bwllheli, yn dywedyd wrthym am y tro cyntaf iddo ef, pan yn fachgen pedair-ar-ddeg oed, fyned i Gymdeithasfa y Bala, yn y flwyddyn 1794, fod Mr. Jones yn pregethu yno gyda'r fath hwyl ac effeithiau, nes oedd yr holl gynulleidfa yn foddfa o ddagrau; a lliaws, yn methu ymatal, wedi tori i orfoledd mawr. 'Yr oeddwn yn edrych arno,' meddai, 'fel pe buasai yn angel Duw. Yr oedd yn ymadael ar ol odfa y boreu, ac yr oeddwn i wedi myned at dŷ Mr. Charles i'w weled yn myned ymaith; ac yr wyf yn cofio yn dda fod Mr. Charles yn dyfod allan o'r tŷ gydag ef; a phan yn ysgwyd llaw wrth ffarwelio, a'r dagrau yn treiglo dros ei ruddiau, yn dywedyd wrtho: Brysiwch yma eto, da chwi, Mr. Jones bach, gael i ni gael ein bedyddio a'ch gweinidogaeth.'"

Treuliodd Mr. Jones yr un-mlynedd-ar-bymtheg diweddaf o'i fywyd yn Manorowen, lle o fewn dwy filltir i Abergwaun, yn Sir Benfro. Achlysurwyd y symudiad hwn gan briodas a gymerodd le rhyngddo ef a Mrs. Parry, gweddw gyfrifol a pharchus a drigianai yno. Yr oedd y foneddiges hon yn chwaer i Mr. Gwynne, o Kilkifeth, gŵr cyfoethog, yn hànu o deulu cyfrifol yn yr ardal, yr hwn oedd yn berchenog amryw o ffermydd, ac yn trin y tir lle yr oedd yn byw arno. Ystyrid fod ei chwaer, Mrs. Parry, hefyd, mewn amgylchiadau tra chysurus. Teulu caredig a chymwynasgar i'r Methodistiaid a fu teulu Kilkifeth drwy y blynyddoedd, a buont yn dal côr yn nghapel Abergwaun am flynyddau lawer. Wedi marwolaeth ei gŵr, yr oedd Mrs. Parry yn cyfaneddu yn mhalasdy Manorowen, ac yn amser ei hunigrwydd, yr oedd Miss Gwynne, merch ei brawd, yn byw gyda hi. Y foneddiges ieuanc hon a ddaeth mewn amser ar ol hyn yn wraig i'r Parch. Thomas Richards, Abergwaun. Mae pob lle i gredu i briodas Mr. Jones â Mrs. Parry, o Manorowen, fod yn fanteisiol iawn iddo yn niwedd ei ddydd, ac yn ychwanegiad mawr at ei gysuron. *Adrodda Mr. Morgan, Syston, hanesyn difyr iawn am dano a ddygwyddodd yn fuan wedi ei ail briodas. Pan yr oedd ar gychwyn ar daith bregethwrol, cafodd Mr. Jones fod ceffyl golygus iawn yn ei aros. Aeth ar gefn yr anifail, ac wedi marchogaeth am beth amser, trodd i edrych o'i gwmpas, a gwelodd fod gwas mewn dillad *smart* iawn yn marchogaeth y tu ol iddo, yn ol arfer boneddigion. Dychwelodd yn union, gan orchymyn i'r gwas i aros. Pan gyrhaeddodd y tŷ, disgynodd, a gofynodd i Mrs. Jones: "Mary, paham y darfu i chwi ddanfon y bachgen acw i fy nganlyn i?" Yr ateb a gafodd oedd: "Am ei fod yn edrych yn *respectable*, Mr. Jones." "O!" ebe yntau, "y mae yn well i chwi adael hyny i mi. Yr wyf wedi teithio miloedd o filltiroedd ar wasanaeth fy Nhad Nefol, heb fod neb yn fy nghanlyn." Yna, gofynodd iddi gyda gwên serchog: "Beth a ddywed fy nghyfeillion am beth fel hyn? Hwy gredant yn sicr ddigon fod yr hen Jones, o Langan, wedi myned yn falch. Na, gwell peidio bod yn rhodresgar. Mi ddanfonaf y bachgen yn ol i weithio ar y ffarm." Ac felly y bu. Parhaodd i ddal bywioliaeth Llangan hyd ddiwedd ei oes, er ei fod yn cartrefu yn Manorowen. Arferai dreulio tua thri mis yn yr haf yn Llangan, a phresenoli ei hun yn yr eglwys ar Sul y cymundeb, bob mis o'r flwyddyn, nes y daeth henaint a llesgedd i wasgu yn rhy drwm arno. Ac yr oedd Llangan yn agos at ei galon hyd y diwedd. Ysgrifena ar y 19eg o Ebrill, 1808, o fewn dwy flynedd i'w farwolaeth: "O'r diwedd, yr wyf wedi cyrhaedd y sir hon, yn yr hon y mae fy mhrif hyfrydwch. O Langan! Bendigedig yr Arglwydd! Cafodd fy enaid yn aml wledda o'th fewn di! Mae fy nghyfeillion yn parhau yn eu caredigrwydd arferol tuag ataf, ac yr wyf yn berffaith ddedwydd yn eu cymdeithas hwy. Bellach, yr wyf yma er ys pump wythnos, ar ol gauaf cystuddiol iawn, yn Manorowen."

Bendith fawr i Benfro fu symudiad Mr. Jones yno. Yr oedd Nathaniel Rowland erbyn hyn wedi cymeryd gofal yr eglwysi

* *Ministerial Records*, iii. 154.

a blanwyd gan Howell Davies; ac yr oedd yn eu llywodraethu â gwialen haiarn. Ni wnai efe bregethu yn nghapel Abergwaun; yn y llan y pregethai yn wastad; a gweinyddai y sacramentau mewn tŷ anedd. Gorphwysai gwneyd felly yn fwy esmwyth ar ei gydwybod ef na gweinyddu y cymun sanctaidd yn y capel. Pan y ceisiwyd ganddo bregethu yn y capel, yn hytrach nag yn y llan, dywedodd yn bendant na wnai hyny byth, a chadwodd ei air. Ond yn mhen amser, dygodd Mr. Jones gyfnewidiad o amgylch. Cafodd ganiatad mewn Cymdeithasfa yn Llangeitho, yn y flwyddyn 1802, i weini yr ordinhadau yn nghapel Abergwaun, fel y gwnelid mewn capelau eraill yn flaenorol. Bu yn offerynol i estyn yr un fraint i eglwys Caerfyrddin, dan amgylchiadau pur neillduol a chyffrous. Darfu i Mr. David Charles, mewn Cymdeithasfa yn nhref Caerfyrddin, anturio gofyn am y fraint o gael gweinyddiad o Swper yr Arglwydd yn yr eglwys hono. "Mae yr eglwys yn y lle hwn," ebe fe, "wedi gosod arnaf i ofyn drostynt, a gânt hwy y fraint o wneyd coffa am farwolaeth eu Prynwr?" I hyn yr atebodd Nathaniel Rowland yn dra awdurdodol: "Na chewch!—mae capel Llanlluan yn ddigon agos." Yr oedd tua deng milldir o ffordd i hwnw. Ond ni chymerodd David Charles yr ateb byr a thrahaus hwn fel un terfynol. "Unwaith eto," ebe fe, "yr wyf yn gofyn a gawn ni y fraint hon? Yr ydym yn cael pregethu Crist, yn cael ei broffesu, yn cael credu ynddo—a gawn ni gofio iddo farw drosom?" "Na chewch, yn y lle hwn," atebai Nathaniel Rowland, yr ail waith. "Nid i *chwi* yr archwyd i mi ofyn," ebe David Charles, "ond i'r Gymanfa." Ar hyn, methodd Jones, o Langan, ag ymatal, a gwaeddodd allan: "Cewch!" Yna, cyfarchodd Mr. Charles mewn ymadroddion cyfeillgar ac agos: "Pa bryd wyt ti am gael hyny, *Deio* bach? Mi ddof fi i'ch helpio chwi i gofio am dano." Ac felly y bu.

Nid oes lle i amheu fod Mr. Jones yn rhyfeddol o ymlyngar wrth y Methodistiaid hyd derfyn ei ddydd. Parhaodd yn offeiriad yn yr Eglwys hyd y diwedd, mae yn wir, ond yr oedd yn fwy o Fethodist nag ydoedd o Eglwyswr, a'i farnu yn deg wrth y bywyd a dreuliodd. Pan symudodd i Manorowen, daeth o fewn cylch dylanwad clerigwyr, ag oeddynt yn llawer mwy ymlyngar wrth yr Eglwys nag ydoedd efe ei hun. Yr oedd David Griffiths, Nevern, a Nathaniel Rowland, yn llawer mwy cul nag efe. Tra yr oeddynt hwy yn ceisio gosod y Methodistiaid dan lawer o anghyfleusderau, yr oedd yntau wedi gweithredu yn wahanol dros ystod ei fywyd maith. Ond pobl o benderfyniad anhyblyg, ac o ewyllys gref, oedd offeiriaid Methodistaidd Sir Benfro, ac y mae yn ddigon posibl iddynt ddylanwadu yn niweidiol ar feddwl Mr. Jones. Nid ydym yn golygu yn y fan hon, i ddwyn i sylw y rhan a gymerodd efe yn nglyn ag ordeiniad gweinidogion; cawn gyfeirio at hyny eto.

Nis gellir dweyd fod Mr. Jones wedi cyfoethogi llawer ar lenyddiaeth ei wlad. Nid ystyriai efe ei hun yn llenor, ond yn yr ystyr ag y mae pob gweinidog ag sydd yn cyfansoddi ei bregethau ei hun felly. *Cyhoeddwyd ganddo, yn y flwyddyn 1784, gofiant i Mr. Christopher Basset, dan y teitl: "Llythyr oddiwrth Dafydd ab Ioan, y Pererin, at Ioan ab Gwilym, y Prydydd, yn rhoddi byr hanes o fywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Christopher Basset, Athraw yn y Celfyddydau, o Aberddawen, Sir Forganwg. Argraffwyd yn Nhrefecca." Nid oes le i amheuaeth mai Jones, o Langan, oedd Dafydd ab Ioan, y Pererin, ac mai Mr. John Williams, St. Athan, awdwr yr emyn adnabyddus:—

"Pwy welaf o Edom yn dod," &c.,

ydoedd Ioan ab Gwilym, y Prydydd. Cyhoeddwyd ei bregeth angladdol i'r Iarlles Huntington yn y flwyddyn 1791, a'r bregeth a draddododd yn Spa Fields Chapel ar ran y Gymdeithas Genhadol yn 1797. Y mae amryw dalfyriadau o'i bregethau wedi eu cyhoeddi yn y cyfnodolion mewn amseroedd diweddarach.

Yr ydym, bellach, yn dyfod at derfyn bywyd y gweinidog ffyddlawn hwn. Gallai arfer geiriau yr apostol: "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy nghyrfa, mi a gedwais y ffydd." Yn mlynyddoedd olaf ei fywyd, yr oedd ei iechyd wedi dirywio yn fawr, y babell bridd yn ymollwng, ond ai o gylch i bregethu cyhyd ag y medrai. Ymwelodd â Llundain o fewn dwy flynedd i'w farwolaeth. Yn ystod ei afiechyd olaf, carai dreulio ychydig wythnosau yn ardaloedd Llangan, ei hen gartref. Y mae yn ysgrifenu oddi yno dri mis cyn ei farw: "Yr wyf yn gobeithio

---

* *Llyfryddiaeth y Cymry*, tudal. 618.

aros yma hyd y Sulgwyn; ac os oes rhyw-beth ag y gallaf wneyd erddoch, mi a'i gwnaf, hyd eithaf fy ngallu. Y mae genyf lawer o bethau ag y carwn eu dweyd wrthych, pe bai genyf amser i ysgrifenu, ond yr wyf o hyd yn brysio o fan i fan. Yr wyf yn awyddus am eich gweled, ond, fy anwyl gyfaill, chwi ryfeddech fel yr wyf wedi cael fy nhori i lawr. Bu y gauaf diweddaf yn brofedigaethus iawn i mi. Cefais fy mlino gan y *gout*, nes fy nwyn i ymyl y bedd. Cefais ymosodiadau enbyd o'r anhwylder yn fy ngylla, ond dyma fi yn golofn o drugaredd yr Hollalluog, ac yn cael codi fy mhen i fynu eto! Y fath ddyledwr wyf i ras y nefoedd. Yr wyf yn awr yn ceisio gwasgu fy nghrefydd i un pwynt yn unig—Crist yn oll. Felly, yr wyf yn myned yn mlaen i orphen fy nhaith ar y ddaear, yr hon sydd yn fyr ac yn ddrwg. Crediniaeth yn yr Iesu ydyw mèr ffydd. Nis gallwn byth ymddiried gormod ynddo ef. Gall achub hyd yr eithaf. Anwyl Iesu! gwna ni yn eiddo i ti byth!" Pregethodd Jones yn Llangan y Sulgwyn hwnw, a gweinyddodd y cymun am y tro diweddaf.

O Langan y cychwynodd efe ar ei daith ddiweddaf. Ymadawodd a'r lle, fel y bwriadai, ddydd Mawrth ar ol y Sulgwyn, ac aeth ar hyd linell union tua Llangeitho, lle yr oedd Cymdeithasfa i gael ei chynal, taith o tua deg-a-thriugain o filltiroedd, gan bregethu ar y ffordd, fel yr arferai wneyd. Cyrhaeddodd Langeitho yn nechreu mis Awst. Pregethodd yn y Gymdeithasfa yn ogoneddus o flaen y miloedd oddiar y geiriau: "Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwaed i sydd ddiod yn wir." Pan oedd y cynulliad drosodd, cychwynodd Mr. Jones, a'i was oedd yn gofalu am dano, tua Manorowen, ond torodd y siwrnai ar y ffordd, a phregethodd eilwaith yn y Capel Newydd, Sir Benfro, ar y geiriau: "Deuwch yr awr hon, ac ymresymwn, medd yr Arglwydd; pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wyned a'r eira, pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Hon oedd ei bregeth olaf. Cyrhaeddodd ei gartref, yn lluddedig, dydd Gwener, y 10fed o Awst. Teimlai fod ei ymadawiad bellach gerllaw. Ymwelwyd ag ef dydd Sadwrn gan y Parch. Thomas Harris, o Wotton-under-Edge, gynt o Benfro. Yn ystod yr ymddiddan ag ef, tynodd allan ei logell-lyfr, a darllenodd Esay xlv. 24: "Diau yn yr Arglwydd, medd un, y mae i mi gyfiawnder a nerth." Yr oedd wedi ysgrifenu yr adnod felus hon ar ei lyfr y dydd Iau blaenorol. "Hon sydd genyf, anwyl Harris," ebe fe, "ac y mae yn ddigon i fy nerthu i wynebu y byd arall wrth fy modd." Yn y prydnawn, dywedwyd wrtho fod y cyfeillion wedi ei gyhoeddi i bregethu yn Woodstock y dydd canlynol. "Y maent yn eofn iawn arnaf," meddai yntau, "ond nid yn fwy felly na'r groesaw; os byddaf yma, amcanaf fyned tuag yno." Nos Sadwrn, dywedai wrth un o'r morwynion: "Lettice fach, mae yma loned y tŷ o weision lifrau y nef wedi dyfod i gyrchu fy enaid tuag adref. Os tarewi wrth rai o'u hesgyll, paid a chymeryd ofn, da merch i." Cyn toriad y wawr, boreu Sabbath, y 12fed o Awst, 1810, yn bymtheg-a-thriugain mlwydd oed, hunodd yn yr Iesu, a chladdwyd ef yn mynwent Manorowen. Ac ysywaeth, canlynwyd ef yn mywioliaeth Llangan gan ŵr o yspryd hollol wahanol, heb ddim cydymdeimlad â Methodistiaeth; a rhoddodd hyn ben ar unwaith ar y cyrchu i'r eglwys. Meddai Thomas Williams eto:—

> "'Nawr mae eglwys fach Llangana
> Wedi newid oll yn lân,
> Porfa las yn awr sy'n tyfu
> Ar y ffordd oedd goch o'r blaen;
> Muriau'r llan oedd oll yn *echo*,
> Yn ateb bloedd y werin fawr,
> 'D oes na llef, na llais, nac adsain,
> Idd ei glywed yno'n awr."

## HANES Y DARLUNIAU.

Mae hanes darlun David Jones, o Langan, yn ddigon syml. Copi o'r darlun cyntaf a ymddangosodd o hono ef yw yr un sydd yn adduruo y gwaith hwn. Y mae y darlun ei hun yn mynegu ei hanes. Paentiwyd ef gan Mr. R. Bowyer, *Miniature Painter* i'r Brenhin Sior y III. Yr oedd Mr. Bowyer yn gristion hardd, yn gystal ag yn gelfyddgar yn ei alwedigaeth, ac yr oedd ar delerau cyfeillgar iawn â Mr. Jones. Darlun wedi ei fwriadu i'w fframio ydoedd hwn, ond nid oedd nemawr yn fwy o faintioli na'r copi a geir yn nhechreu y benod hon. Gwelir fod arfbais (*Coat of Arms*) Mr. Jones, wedi ei gosod o dan y darlun, sef oen yn cario croes, ac yn sathru'r sarph dan ei draed, a'r gair GORPHENWYD oddi tanodd. Uwch ben, y mae darlun o golomen Noah, a'r ddeilen olewydden yn ei chilfyn. Cyhoeddwyd y darlun hwn yn y flwyddyn 1790, pan yr oedd efe yn 55 mlwydd oed.

Yn mhen wyth mlynedd wedi cyhoeddiad y darlun uchod, ymddangosodd un o Mr. Jones yn y *Gospel Magazine.* Y mae yn sicr mai yr un darlun yn hollol ydyw hwn a'r un blaenorol. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod y *Coat of Arms* wedi ei gadael allan yn y *Gospel Magazine.*

Ymddangosodd darlun eto o hono yn yr *Evangelical Magazine*, am Chwefror, 1807, tua phedair blynedd cyn marwolaeth Mr. Jones. Nid yr un darlun ydyw hwn. Gwnaed y ddau gyntaf oddi ar ddarlun Mr. Bowyer, a cherfiwyd ef ar ddur gan Mr. Fittler; ond cerfiwyd yr olaf hwn gan Meistri Ridley & Blood. Gadawyd allan y *Coat of Arms* yn y darlun hwn hefyd. Mae tebygolrwydd mawr rhwng y darluniau hyn, ac y mae yn amlwg mai darlun Mr. Bowyer ydoedd cynllun pob un o honynt. Y mae pob lle i gredu fod darluniau Mr. Jones, o Langan, yn bortead cywir o hono ef.

Nid yw y darluniau eraill yn y benod hon yn galw am unrhyw eglurhad.


# PENOD XX.

——:o:——

## WILLIAM DAVIES, CASTELLNEDD; DAFYDD MORRIS, TWRGWYN; A WILLIAM LLWYD, O GAYO.

*William Davies yn hanu o Sir Gaerfyrddin—Ei ddyfodiad i Gastellnedd—Ei boblogrwydd—Yn colli ei guwradiaeth—Adnewyddu capel y Gyfylchi iddo—Barn Howell Harris am dano—Odfa ryfedd yn Llangeitho—Y tair chwaer—Ei farwolaeth—Boreu oes Dafydd Morris—Dechreu pregethu yn ieuanc—Meddwl uchel Rowland am dano—Swyn ei lais—Yn symud i Dwrgwyn—Yn teithio Cymru—Pregeth y golled fawr—Ceryddu blaenor sarug—Amddiffyn Llewelyn John—Dafydd Morris fel emynydd—Marwolaeth ei wraig—Ei farwolaeth yntau—Hanad William Llwyd, o Gayo—Ei argyhoeddiad—Ei ymuniad a'r Methodistiaid—Yn dechreu pregethu—Hynodrwydd William Llwyd—Nodwedd ei weinidogaeth—Ei farwolaeth.*

NIS gallwn lai na datgan ein gofid o herwydd fod amryw o brif bregethwyr y cyfnod Methodistaidd cyntaf, dynion o ddoniau dysglaer, a phoblogrwydd mawr, nad oes ond y nesaf peth i ddim o'u hanes yn wybyddus. Llafuriasant yn galed, dyoddefasant erlidiau, a diau fod eu gweithredoedd wedi eu cofnodi yn ofalus ar lyfrau y nefoedd, ond ychydig o'r pethau a ddygwyddodd iddynt sydd wedi eu croniclo ar lyfrau y ddaear. Yn mysg y rhai hyn, ac yn mhlith y penaf o honynt, rhaid gosod William Davies, Castellnedd. Yn ol y farwnad a gyfansoddwyd iddo gan Williams, Pantycelyn, cafodd ei eni tua'r flwyddyn 1727; felly, nid oedd ond rhyw ddeng mlwydd yn ieuangach na'r Emynydd enwog, tairar-ddeg yn ieuangach na Howell Harris, a phedair-ar-ddeg yn ieuangach na Daniel Rowland. Gan hyny, perthynai i'r rheng flaenaf o'r ail dô o bregethwyr. Ymddengys mai brodor o Sir Gaerfyrddin ydoedd. Yr oedd ei rieni yn amaethwyr parchus, ac yn byw mewn tŷ o'r enw Stangrach, lle sydd o fewn haner milltir i gapel y Methodistiaid yn Llanfynydd. Cynhaliai y Methodistiaid gyfarfodydd crefyddol yn y Stangrach, felly nid annhebyg fod rhieni William Davies yn perthyn i'r Cyfundeb. Gallwn gasglu eu bod mewn amgylchiadau cysurus, gan iddynt ddwyn eu mab i fynu yn offeiriad. Buasai yn dda genym wybod rhywbeth am helyntion boreu oes William Davies, ac yn enwedig pa bryd y deffrowyd ef i ystyriaeth o'i gyflwr, a than ba ddylanwadau y cafodd ei ddychwelyd; ond y mae yr oll o'r pethau hyn wedi eu cuddio yn anobeithiol oddiwrthym, ac nid ydym yn gydnabyddus â dim o hanes ei fywyd, nes yr ydym yn ei gael yn gristion gloyw, yn bregethwr aiddgar a phoblogaidd, ac yn Fethodist zêlog, yn Castellnedd, yn gwasanaethu fel cuwrad i Mr. Pinkney, tua'r flwyddyn 1757. Ein hawdurdod dros hyn eto ydyw Williams, yr hwn, uwchben y farwnad, a gofnoda am dano iddo farw "yn y flwyddyn 1787, yn y driugeinfed flwyddyn o'i oedran, wedi treulio dros ddeg-ar-hugain o flynyddoedd i bregethu efengyl Crist yn mysg y Methodistiaid." Ar yr un pryd, gweddus nodi fod cryn amheuaeth am gywirdeb hyn. Yr ydym wedi chwilio llyfrau cofrestru eglwysydd Castellnedd a Llanilltyd yn fanwl; a'r nodiad cyntaf a geir ynddynt wedi ei arwyddo gan William Davies yw Rhagfyr 24, 1762; ac y mae yn hollol annhebyg iddo wasanaethu yno am bum' mlynedd cyn gweinyddu mewn bedydd na phriodas, yn arbenig gan nad oedd Mr. Pinkney yn byw yn un o'i blwyfydd. Ond




1.—Golygfa tufewnol ar Adfeilion Hen Gapel y Gyfylchi, 1776.
4.—Eglwys Castellnedd.

2.—Golygfa allanol ar yr Adfeilion.
3.—Pwlpud yr Hen Gapel.
5.—Eglwys Llanilltyd, ger Castellnedd.

DARLUNIAU YN DAL PERTHYNAS A CHOFFADWRIAETH

gallasai William Davies fod wedi gwasanaethu fel cuwrad mewn rhyw le, neu leoedd, cyn dyfod i Gastellnedd. Modd bynag, y mae yn amlwg ddarfod iddo ddyfod i Forganwg tua chwech mlynedd o flaen Jones, Llangan.

Yr oedd Mr. Pinkney yn meddu personoliaeth Castellnedd a Llanilltyd; ymddengys hefyd nad oedd yn byw yn y naill na'r llall o'i blwyfydd, ac felly fod y llafur a'r gofal yn disgyn yn gyfangwbl ar y cuwrad. Pan y daeth William Davies i Gastellnedd, yr oedd crefydd mewn cyflwr tra isel. Ni feddai yr Eglwys Wladol gynulleidfa yno o gwbl; darllenid y gwasanaeth ar y Sul i furiau moelion, tra yr ymroddai rhyw ychydig gymydogion a fyddai wedi ymgynull gyda hwynt, o ben cadair ddiaddurn. Mentrodd hefyd fyned allan i'r awyr agored, ac i ganol y chwareu, gan bregethu Crist wedi ei groeshoelio i'r cymeriadau gwaethaf. Yn bur fuan, dyma gynhwrf yn mysg yr esgyrn sychion. Deallodd y bobl fod bywyd a nerth yn y gŵr a weinyddai yn y llan, a dechreuasant dyru tuag yno, fel na ddaliai yr adeiladau y gynulleidfa. Daeth Castellnedd a Llanilltyd yn fath o Langeitho ar raddfa fechan; cyrchai torfeydd yno o bob cyfeiriad; gwelid gwŷr Llansamlet yn eu dillad gwladaidd, a'u benywod yn eu bedgynau a'u *shawls* cochion, yn britho y werin i oferedd. Llwydaidd anarferol hefyd oedd y seiadau Methodistaidd o gwmpas; nid ydym yn sicr nad oedd rhai o honynt wedi darfod yn hollol. Yr oedd yr ymraniad rhwng Harris a Rowland wedi dygwydd er ys dros ddeng mlynedd; mewn canlyniad, yr oedd gwedd wywedig ar yr achos crefyddol dros y wlad; ac yr oedd yr adfywiad a gymerodd le gyda dyfodiad cyntaf emynau Williams, Pantycelyn, heb dori allan. Eithr yr oedd yspryd gwaith yn y cuwrad ieuanc, a chariad Crist yn berwi yn ei enaid. Gan na ddeuai y bobl i'r eglwys, penderfynodd yr ai efe i'w tai. Yno cynghorai hwy yn ddifrifol, ac weithiau pregethai iddynt, a ffyrdd tuag yno ar foreu y Sul. Deuent yno yn llu o Gwm Tawe, ac o'r Creunant, a blaen Cwmnedd, os nad o Hirwaun Wrgant, ac Aberdar. Am blwyfi Castellnedd a Llanilltyd, dywedir fod haner y trigolion, o leiaf, yn wrandawyr rheolaidd. Achubwyd canoedd yn ddiau i fywyd tragywyddol. Dywedir mai tan ei weinidogaeth ef y cafodd yr hynod Jenkin Thomas, neu Siencyn Penhydd, olwg ar drefn gras fel yn ddigonol i'r penaf o bechaduriaid, ar ol iddo fod am dymhor ar lewygu gwedi pregeth daranllyd Iefan Tyclai.



STANGRACH, GER LLANFYNYDD, SIR GAERFYRDDIN.

[*Preswylfod rhieni William Davies, Castellnedd.*]

Yn ol tystiolaeth unfrydol yr hen bobl, pregethwr melus oedd Davies, Castell-

nedd. Nid ar fynydd Ebal yr hoffai sefyll, ac nid cyhoeddi melldithion a wnelai; gwell ganddo, yn hytrach, oedd sefyll ar gopa Gerizim, gan roddi datganiad hyfryd i fendithion yr efengyl. Nid clwyfo oedd ei hoff orchwyl, ond iachau; cymhwyso y balm o Gilead at archollion dyfnion pechaduriaid. Dwg Howell Harris, tua diwedd ei oes, dystiolaeth amryw weithiau i felusder ei ddoniau, a'i allu i egluro gwirioneddau cysurlawn yr efengyl. Awgrymir yr un peth gan Williams, Pantycelyn, yn y farwnad. Mewn un penill darlunia yr Arglwydd Iesu yn ei groesawu ar ei fynediad i'r nefoedd yn y modd a ganlyn:—

"Cariad oedd dy fwyd a'th ddiod,
Serchog oedd dy eiriau i gyd,
Dy addfwynder sugnodd yspryd
Rhai o oerion blant y byd;
Treuliaist d' amser mewn ffyddlondeb,
Trwy dy yrfa is y nen,
Mae dy goron gény'n nghadw,
Heddyw gwisg hi ar dy ben."

Tra yr oedd y bobl yn tyru i wrando Mr. Davies, ac yn derbyn maeth i'w heneidiau trwy ei weinidogaeth efengylaidd, yr oedd dosparth arall yn llawn bustl chwerwder, ac yn awyddus am ei yru allan o'r plwyf. Y dosparth hwn a wnelid i fynu yn benaf o grach-foneddigion y dref, a'i hamgylchoedd; a diau fod clerigwyr annuwiol a diddawn y plwyfydd o gwmpas yn cynhyrfu eu goreu. Nis gallent gael dim i achwyn arno parthed buchedd ac ymarweddiad; ond yr oedd sancteiddrwydd ei fywyd, ei zêl angerddol dros ogoniant Duw, ac efengyleidd-dra ei bregethau yn annyoddefol iddynt. Ac uwchlaw y cwbl, yr oedd yn Fethodist. Felly, anfonasant gofeb at Mr. Pinkney, yr hon a gynwysai grynodeb llawn o bechodau y cuwrad, yn erfyn arno ei yru i ffwrdd. A oedd Mr. Pinkney yn meddu llawer o gydymdeimlad a'r diwygiad, nis gwyddom; ond yr oedd yn credu yn Mr. Davies, ac yn gweled ei deilyngdod; a thra y bu y Rheithor fyw, ni chafodd neb aflonyddu arno. Eithr bu Mr. Pinkney farw yn y flwyddyn 1768, ac yn mhen dwy flynedd gwedi hyn cafodd y cuwrad ei droi ymaith. Ceir y nodiad olaf o'i eiddo ar lyfrau yr eglwys Ebrill 5, 1770. Dygwyddai bywioliaeth Llangiwc, plwyf tuag wyth milltir o bellder o Gastellnedd, fod yn wag ar y pryd, a gwnaed cais taer am i William Davies ei chael. Ond yr oedd gwŷr mawr y plwyf yn estroniaid i'r efengyl, a safasant yn benderfynol yn erbyn. Nid oedd dyrchafiad yn yr Eglwys Wladol yr adeg hono, oddigerth o ddamwain, i neb a bregethai wirionedd Duw yn ffyddlon; yn arbenig os byddai yn tueddu at y Methodistiaid. Gan na oddefid iddo weinidogaethu yn y llan, penderfynodd Mr. Davies wneyd a allai y tu allan i'w chymundeb; casglodd y rhai a lynent wrtho yn seiat ar wahan; aeth allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau; teithiodd Gymru, Ddê a Gogledd, lawer gwaith, a diau iddo fod yn foddion i droi llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd. Ymddengys mai yn nhŷ un Edward Morgan, Penbwchlyd, gerllaw i'r fan y bu Daniel Rowland yn pregethu dan y sycamorwydden, y cadwai Mr. Davies y cyfarfod eglwysig yn Nghastellnedd. Ond o herwydd llwyddiant ei weinidogaeth aeth y lle yn rhy gyfyng, a gwnaed math o le cyfarfod o ddau dŷ anedd, yn y pen dwyreiniol i'r dref. Am beth amser gwedi ei ymadawiad o'r Eglwys, nid didrafferth iddo oedd cael moddion cynhaliaeth; bu am ryw hyd yn cadw ysgol ddyddiol; a chyfranai rhai o'r Methodistiaid mwyaf cefnog o'u heiddo iddo. Dywedir i amaethwr cyfrifol o blwyf Llangiwc, ar ol cael ei siomi yn ngwrthodiad y fywioliaeth iddo, barhau i'w gynorthwyo mewn arian hyd ddydd ei farwolaeth. Tua'r flwyddyn 1776, adeiladwyd, neu yn hytrach, efallai, adgyweiriwyd, hen gapel y Gyfylchi iddo. Medd y capel hwn gryn hynodrwydd. Saif ar fynydd tra uchel rhwng dau gwm dwfn, yn mhlwyf Mihangel, ryw gymaint i'r dwyrain o Gastellnedd. O ran ei ffurf, y mae yn Eglwysig; a chan yr arferai yr offeiriaid Methodistaidd weinyddu Swper yr Arglwydd ynddo, nid annhebyg ei fod wedi ei gysegru. Ymddengys mai hen gapel Eglwysig wedi myned yn adfeilion ydoedd, ac i'r Methodistiaid gymeryd meddiant o hono, fel y gwnaethant a chapel Llanlluan. * Rhenid yr adeilad megys yn ddau gysegr; y sancteiddiolaf a'r cyffredin. I'r sancteiddiolaf yr ai yr offeiriaid yn unig; ond yn y llall yr arferai holl bregethwyr y Cyfundeb weinyddu. Fel rheol, byddai rhyw gynghorwr yn traddodi ei genadwri yn y lle cyffredin am naw o'r gloch y boreu; ac wedi iddo ef ddarfod, ymddangosai yr offeiriad yn ei le yntau, a'r holl gynulleidfa a droent eu hwynebau ato. Fel hyn y bu am flynyddoedd lawer, heb fod yr un pregethwr di-urddau yn anturio croesi y wahanlen; ond o'r diwedd diflanodd y swyn, a chymerodd y pregeth-

* *Methodistiaeth Cymru.*

wyr druain galondid i fyned i mewn i'r lle sanctaidd. Er na chawsai yr hen adeilad ei gysegru yn ffurfiol gan esgob, cysegrwyd ef yn effeithiol ddegau o weithiau trwy ymweliadau y Pen Esgob, sef yr Arglwydd Iesu. Cafwyd odfaeon yn y Gyfylchi i'w cofio byth. Heblaw William Davies, bu nifer mawr o'r offeiriaid Methodistaidd yn gweinyddu ynddo, megys Jones, Llangan; Howells, Trehill; Howells, Llwynhelyg, yr hwn sydd yn fwy adnabyddus fel "Howells, Longacre;" a Phillips, Llangrallo. Yn mysg y cynghorwyr a fu yn y capel yn llefaru, un o'r rhai hynotaf yn ddiau oedd Siencyn Penhydd, at yr hwn y cawn gyfeirio eto. Nid yn y sancteiddiolaf y llefarai efe; er hyny, yr oedd dan y gronglwyd; a sicr yw iddo gael aml i odfa ryfedd. Yr oedd yr hen grefyddwyr a ymgynullent i'r Gyfylchi yn nodedig am wresawgrwydd eu hyspryd, a thanbeidrwydd eu teimladau; os ceid ychydig lewyrch mewn cyfarfod, byddent yn tori allan mewn clodforedd; ganoedd o weithiau buont yn dawnsio mewn hwyl sanctaidd ar lawr yr hen gapel, ac yn peri i'w furiau adsain gan swn eu moliant. Y mae coffadwriaeth yr odfaeon bendigedig hyny yn aros yn gynes yn mysg y trigolion o gwmpas hyd y dydd hwn. Yma y bu y Methodistiaid yn addoli hyd y flwyddyn 1827, pan yr adeiladwyd capel Pontrhydyfen. Mewn cysylltiad a'r Gyfylchi hefyd yr oedd Richard James, pan y dechreuodd bregethu, ac yma y gorphenodd ei daith.

*Er prawf pa mor uchel y syniai y Methodistiaid am William Davies, parthed doniau gweinidogaethol, a medr i gyfranu Gair y Bywyd i'r dychweledigion, gallwn gyfeirio at yr hyn a gymerodd le yn Nghymdeithasfa Abergwaun, Chwefror 14, 1770. Yno cynygid ei osod yn arolygwr ar holl seiadau Sir Benfro, fel olynydd i'r Parch. Howell Davies, yr hwn oedd newydd ei gymeryd i ogoniant. Pan gofiom mor seraphaidd oedd doniau Howell Davies, ac mor uchel y safai yn ngolwg ei frodyr, rhaid y chwilid am ddyn o alluoedd nodedig i gymeryd ei le. A thaerni Howell Harris, yn crefu arnynt ymbwyllo, yn unig a rwystrodd y brodyr i wneyd y penodiad. Nid oedd gan Harris ddim ychwaith i'w roddi yn erbyn William Davies; yn unig hoffai gael rhagor o brawf arno, er deall a oedd yr Yspryd Glân wedi ei gymhwyso i fod yn dad.

Yn ystod amser enciliad Harris y daethai William Davies i amlygrwydd; dyna y rheswm paham y gwyddai y Diwygiwr o Drefecca can lleied yn ei gylch, ac y dadleuai dros ymbwyllo cyn gwneyd penodiad mor bwysig. Eithr wrth roddi hanes Cymdeithasfa Llangeitho, a gynhaliwyd yn Awst, yr un flwyddyn, cawn Howell Harris ei hun yn dwyn tystiolaeth i ragoriaeth yr Efengylydd o Gastellnedd. Pregethai Davies y diwrnod cyntaf, ar ol rhyw frawd o gymydogaeth Wrexham. Ymddengys y cawsai hwnw odfa dda, a bod cryn ddylanwad yn cydfyned a'i eiriau pan y darluniai yr Iesu yn talu holl ofynion y ddeddf, ac yn prynu ei ryddid i bechadur. Dyoddefiadau Crist oedd mater William Davies yn ogystal; cymerasai yn destun y geiriau: "Oblegyd Crist hefyd a ddyoddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr annghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw." Meddai Harris: "Ymddangosai dawn y pregethwr hwn yn fwy, ei oleuni yn gryfach, a'i wybodaeth o'r Ysgrythyr yn helaethach na'r cyntaf, ac yr oedd mwy o arddeliad yn cydfyned a'i weinidogaeth." Mewn gwirionedd, yr oedd yr Efengylydd o Gastellnedd wedi llwyr feistroli y dorf anferth oedd ger ei fron; pan y bloeddiai, nes yr oedd y bryniau o'r ddau tu i ddyffryn prydferth Aeron yn diaspedain, fod Crist wedi cymeryd ein lle, ddarfod i'n holl bechodau fyned yn eiddo iddo, a bod ei gyfiawnder yntau wedi dyfod yn eiddo i ni, torai y gynulleidfa allan mewn bloeddiadau gorfoleddus. Y fath oedd y dylanwad, fel yr oedd Howell Harris agos wedi ei syfrdanu. "Arosais mewn dystawrwydd," meddai, "wrth feddwl fel yr oedd yr Arglwydd yn eu harddel; gwelwn mai dyma lle y mae Jerusalem, a bod yma ryw fywyd, a nerth, a gogoniant rhyfedd." Dyma y Gymdeithasfa ddiweddaf i Howell Harris ar y ddaear. Yn fuan gwedi hyn yr ydym yn darllen am William Davies yn pregethu yn Nhrefecca, a chafodd Harris flas anarferol ar yr odfa. Yn ei ddydd-lyfr, canmola y pregethwr yn ddirfawr, gan gyfeirio gydag edmygedd at ei ddirnadaeth o wirioneddau yr efengyl, dysgleirder ei ddoniau, naws hyfryd ei yspryd, a'r difrifwch a'i nodweddai wrth gymhell pechaduriaid at Fab Duw.

Nid oes hanes manwl i'w gael am William Davies, fel y darfu i ni nodi, felly rhaid i ni foddloni ar groniclo ychydig o hanesion sydd i'w cael am dano. Cyhoedd-

* *Y Tadau Methodistaidd*, tudal. 426.

asid ef unwaith i bregethu yn eglwys Cenarth. Pan y clywodd y Cadben Lewis, a breswyliai yn y Gellidywyll, hyny, anfonodd ei was yno gyda dryll, gan orchymyn iddo saethu y pregethwr. Hysbyswyd y bwriad i Mr. Davies. "Gadewch i mi fyned i'r pwlpud," meddai, "ac yna byddaf yn foddlon iddo fy saethu." I'r pwlpud yr aeth, a phregethodd gyda'r fath felusder a dylanwad, nes yr oedd yr holl gynulleidfa, ac yn eu mysg gwas y Cadben, yn foddfa o ddagrau. Nid oedd gan y gwas, wrth ddychwelyd at ei feistr, ond yr un esgusawd ag a roddid gan swyddogion y Sanhedrim gynt, a anfonasid i ddal yr Iesu: "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Yn mhen ychydig flynyddoedd gwedi hyny bu y boneddwr hwnw farw dan arwyddion amlwg o farn Duw. Mor druenus ydoedd, ac mor ofnadwy oedd cnofeydd ei gydwybod, fel y methai y rhai caletaf mewn annuwioldeb aros yn yr un ystafell ag ef. Eithr nid bob amser y llwyddai y pregethwr melus o Gastellnedd i orchfygu y rhwystrau a deflid ar ei ffordd. Unwaith, pan ar daith yn y Gogledd, pregethai yn y Bettws, ger Abergele, a chyfodasid pwlpud iddo wrth dâs uchel o frigau coed, eiddo hen ŵr a hen wraig oeddynt yn dra gelyniaethol i grefydd. Tra yr ydoedd yn llefaru daeth perchenogion y dâs, gyda rhyw greaduriaid anystyriol yn eu cynorthwyo, ac er mwyn dial eu llid ar y crefyddwyr, ceisient wthio y dâs frigau gyda phygffyrch o'r tu cefn iddi, fel ag i'w dymchwelyd ar ben y pregethwr. Clywai yntau y brigau yn rhugldrystio, deallodd beth a fwriedid, a dyrysodd hyn ef i'r fath raddau fel y methodd fyned yn ei flaen yn mhellach.

Adroddir hanesyn tra dyddorol am dano yn *Methodistiaeth Cymru*, yr hwn a ddengys natur yr hunan-ymwadiad oedd yn ofynol yr adeg hono, hyd yn nod ar ran y pregethwyr penaf. Trefnasid iddo fyned i lefaru i ardal fynyddig, mewn rhyw fan yn y Deheudir, lle yr oedd yr achos yn bur isel, a'r bobl yn dlodion. Wrth fyned tuag yno, a chael y ffordd yn mhell, ac yn dra anhygyrch, ymresymai ynddo ei hun fel yma: "Paham y gwnaed a fi fel hyn? Paham y trefnwyd fi i fyned i le mor anghysbell, ar hyd ffordd mor erwin?" Erbyn cyrhaedd yno, drachefn, yr oedd yr olwg ar y fangre, y tai, a'r bobl, yn ychwanegu at ei anfoddogrwydd. Nid oedd yn y golwg ond ychydig o dai tlodion, yn nghanol mynydd-dir gwyllt ac anial. Ac adeilad gwael, mewn llawn gydweddiad â'r tlodi o gwmpas, oedd y capel yn mha un yr oedd i bregethu. Ar ei ddyfodiad i'r fan, arweiniwyd ef i fwthyn gwael ei wedd, lle y preswyliai tair o chwiorydd, hen ferched heb briodi. Cymerwyd ei geffyl i'r ystabl gan un; y llall a arweiniai y pregethwr i'r bwthyn, a'r drydedd a agorai ddrws y capel, gan wneyd y parotoadau angenrheidiol ar gyfer yr odfa. Erbyn hyn yr oedd mynwes y pregethwr wedi cythruddo yn fwy fyth. Dan ruthr y brofedigaeth, meddyliai ei bod yn ormod darostyngiad ar ŵr o'i safle ef i'w anfon i'r fath le. Yn y teimlad hwn yr ydoedd pan ddaeth yr amser i ddechreu yr odfa. Daeth rhyw nifer yn nghyd; eithr nid oedd y pregethwr yn gwerthfawrogi y cyfleusdra i'w cyfarch. Ond wrth fyned rhagddo gyda'r gwasanaeth, teimlai yr awyrgylch yn nodedig o ysgafn; caffai flas rhyfeddol wrth ddarllen y benod; yr oedd rhyw naws nefolaidd yn y canu; ac yn y weddi teimlai fod ei enaid yn cael dyfodfa at Dduw. Wrth bregethu yr ydoedd mewn hwyl; yr oedd siarad iddo mor hawdd ag anadlu. Cafodd odfa fendigedig; ac ar y terfyn meddyliai nid am dlodi yr hen ferched, ond am eu llwyr ymroddiad i grefydd. Gwedi iddo ddychwelyd gosododd un o'r chwiorydd ger ei fron fwrdd bychan, prin cyfuwch a'i ben glin. Ar y bwrdd gosododd lian bras, ond can wyned a'r cambric; yna cyfododd ychydig bytatws o'r lludw mawn ar yr aelwyd, y rhai a roddasid yno i'w rhostio, a chwedi eu sychu yn lân, a thynu ymaith y croen, gosododd hwynt ar y bwrdd, gan geisio gan y boneddwr ofyn bendith yr Arglwydd ar yr ymborth. Nid yw yn ymddangos fod yno ddim ychwaneg, oddigerth ychydig fara ac ymenyn. Synai Mr. Davies yn fawr iawn arno; gwelai yno ddirfawr dlodi a charedigrwydd wedi cydgyfarfod. Teimlai erbyn hyn mai braint oedd cael dyfod yno, a gofynai i'r un a wasanaethai wrth y bwrdd pa nifer o aelodau a berthynai i'r seiat yno.

"Nid oes o honom ond nyni ill tair,' meddai hithau.

"Pa fodd, gan hyny," meddai Mr. Davies, "yr ydych yn gallu dwyn yr achos yn ei flaen?"

Ebe hithau: "Y mae i bob un o honom ei gorchwyl. Un chwaer a ofala am y tŷ cwrdd, y llall am yr ystafell a cheffyl y pregethwr, a minau sydd yn cael y fraint o weini wrth y bwrdd. Yr ydym ein tair yn cyfarfod yn y tŷ cwrdd unwaith yn yr

wythnos, i gadw seiat, gan adael y drws yn agored i bwy bynag a ewyllysio ddyfod atom, ac ymuno â ni." Wrth ymadael, cynygid iddo chwe' cheiniog yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth; mynai yntau wrthod; eithr ni chymerent eu nacau. Dywedent fod y darn arian wedi ei gysegru at wasanaeth yr Arglwydd, ac na feiddient ei ddefnyddio at ddim arall. Yna gofynent iddo, pa bryd y caffai y fraint o ddyfod yno drachefn. Erbyn hyn yr oedd ei galon wedi ei gorlenwi. Wrth deithio yn ei flaen galwai ei hun, "Y cythraul balch," am iddo edrych yn isel ar waith Duw, oblegyd y wedd dlawd oedd arno. Yn mhen ychydig flynyddoedd cafodd y fraint o fyned i'r lle drachefn; ac erbyn hyn yr oedd yr eglwys wedi cynyddu i naw ugain o rifedi.

Fel y nodwyd, teithiodd y Parch. William Davies Gymru oll, ar ei hyd a'i lled, lawer gwaith. Yn ei farwnad iddo y mae Williams, Pantycelyn, yn crybwyll enwau amryw o'i gydnabod, o bob parth o'r Dywysogaeth, oeddynt wedi myned i'r nefoedd o'i flaen, ac yn ei groesawu i mewn. Tua'r flwyddyn 1780, cynhaliwyd Cymdeithasfa yn Nghastellnedd, a daethai yno y Parchn. Daniel Rowland, ei fab Nathaniel, Peter Williams, Williams, Pantycelyn, ac amryw eraill heb fod lawn mor enwog. Yr oedd y Gymdeithasfa dan arddeliad mawr; y nefoedd a ddyferai y gwlith grasol i lawr yn helaeth, a bu cofio hir am dani. Lletyai y pregethwyr yn nhai Mr. Leyshon, o'r Hill, ger Llanilltyd, gŵr nodedig am ei dduwioldeb, a Mr. Thomas Smith, tad Mr. Smith, Aberafan. Tua saith mlynedd gwedi y Gymdeithasfa hon y bu William Davies byw. Yn y flwyddyn 1787 efe a hunodd yn yr Iesu, yn y driugeinfed flwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn mynwent Castellnedd. Pregethodd Mr. Jones, Llangan, yn ei angladd; ac wrth weinyddu ar lan y bedd yr oedd ei deimladau wedi ei orchfygu yn hollol. "O Davies anwyl!" meddai, "O Davies, gwas yr Arglwydd! Ti fuost farw. Do; disgynaist i'r bedd a'th goron ar dy ben.' Nis gallwn wrthsefyll y demtasiwn o ddifynu ychydig o benillion o'r farwnad nodedig a gyfansoddwyd iddo gan Beraidd Ganiedydd Cymru:—

"Pam y tynodd angau dinied
  Ddavies fwyn oddiwrth ei waith?
Pwy sy' i gario 'mlaen ei ystod
  Addfed ar y meusydd maith?
Pwy heb flino, megys yntau,
  Ac heb orphwys, gasgla 'nghyd,
Yn ddiachwyn, yn ddiduchan,
  Feichiau mawrion, trymion yd?

Yn ei rym ac yn ei hoewder,
  Galwyd ffrynd y nef i'r lan,
Tru'gain mlynedd ar y ddaear
  Drefnodd arfaeth idd ei ran;
Yna rhaid oedd iddo newid
  Ei berth'nasau, ei ffryns, a'i le,
A rhoi ei gorph i'r ddae'r i gadw
  Nes glanhau 'i fudreddi e'.

Castellnedd, mewn mynwent eang,
  'R oedd raid iddo lechu lawr,
Lle mae deng mil, neu fyrddiynau,
  Yn ei gwmni ef yn awr;
Ond fe gwyd wrth lais yr angel,
  Bloedd yr udgorn gryna'r byd,
A'i holl lwch, b'le bynag taenir,
  Gesglir yno'n gryno 'nghyd.

*    *

Deugain agos o bregethwyr
  Oedd e'n 'nabod yn y nef,
Ac fu'n seinio'r jubil hyfryd
  Yn ei ddyddiau byrion ef,
Oll a'u t'lynau aur yn canu
  Yr un mesur, a'r un gân,
Ag a ganodd y côr nefol
  A'r bugeiliaid gwych o'r blaen.

Na alerwch mwy am Davies,
  Ond dihatrwch at eich gwaith;
Y mae'r meusydd mawr yn wynion,
  Mae llafurwaith Duw yn faith;
Pob un bellach at ei arfau,
  Aml yw talentau'r nef;
Sawl sy'n ffyddlon gaiff ei dalu
  Ar ei ganfed ganddo ef.

Doed i waered i'r Deheudir
  Ddoniau Gwynedd fel yn lli,
Aed torfeydd o dir y Dehau
  Trwy Feirionydd fynu fry;
Fel bo cymysg ddoniau nefol
  Yn rhoi'r gwleddoedd yn fwy llawn,
'Falau a photelau llawnion,
  O lâs foreu hyd brydnhawn."

Yr ail bregethwr, ag y mae ei enw uwchben ein hysgrif, yw Dafydd Morris, un o'r pregethwyr mwyaf nerthol a welodd Cymru. Gelwir ef yn gyffredin yn "Dafydd Morris, Twrgwyn;" ond fel "Dafydd Morris, Lledrod," y caffai ei adwaen gan yr hen bobl, am mai yn Lledrod y cafodd ei eni, ei ddwyn i fynu, y dechreuodd bregethu, ac y gwnaeth iddo ei hun enw fel pregethwr. Ardal amaethyddol ydyw Lledrod, yn tueddu at fod yn fynyddig, yn rhan uchaf Sir Aberteifi, a thuag wyth milltir o Langeitho. Ymddengys i Dafydd Morris gael ei eni rywbryd tua'r flwyddyn 1744. Tua naw mlynedd cyn hyny y dechreuasai Daniel Rowland ei weinidogaeth danllyd yn Llangeitho. Nid annhebyg ddarfod i Dafydd Morris, ac efe yn llanc ieuanc, fyned i Langeitho gyda

llanciau eraill yr ardal i wrando y "Ffeirad crac," ac mai rhyw saeth oddiar fwa Rowland ddarfu ei glwyfo. Modd bynag, cafodd grefydd yn gynar, a dechreuodd bregethu pan yn un-mlwydd-ar-hugain oed. Ychydig o fanteision addysg a gawsai yn moreu ei oes; tebygol mai tlodion oedd ei rieni; ond ymroddodd i lafurio am wybodaeth a dysg, a llwyddodd i gyrhaedd mesur helaeth o honi. Daeth yn alluog i ysgrifenu yn dda; yr oedd yn dra chydnabyddus â gweithiau y prif dduwinyddion, a medrai wneyd y defnydd angenrheidiol o awduron Saesnig. Fel y rhan fwyaf o bregethwyr y Methodistiaid yn y cyfnod hwnw, bu yn efrydydd caled a chyson ar hyd ei oes; o herwydd nodwedd deithiol y weinidogaeth, gorfodid ef, yr un fath a'r pregethwyr eraill, i dreulio llawer o'i amser ar gefn ei geffyl; ond gofalai na fyddai y cyfryw amser yn cael ei wastraffu; byddai wrthi yn gyson, naill ai yn darllen llyfr, neu ynte yn cyfansoddi pregeth.

Daeth Dafydd Morris yn boblogaidd ar gychwyniad ei weinidogaeth, ac ymddengys fod gan Daniel Rowland feddwl uchel am dano, ac am ei ddoniau. Gwahoddai ef i Langeitho, ar Sul pen mis, fel ei gelwid, i bregethu i'r miloedd a fyddent yno wedi ymgynull o bob parth o Gymru. Yn nyddiau ei ieuenctyd yr oedd yn nodedig o ran prydferthwch ymddangosiad; yr oedd yn llyfndeg ei wedd, ei wallt oedd yn wineu-felyn, ac yn disgyn yn deneu ar ei dalcen; ei lygaid oeddynt yn fawrion a bywiog, a'i lais yn gryf a soniarus. Pan yn gymharol ieuanc daliwyd ef gan dewychder dirfawr, yr hwn a gynyddodd fel yr elai yn mlaen mewn dyddiau; yn ei amser olaf ni feiddiai farchogaeth, eithr teithiai mewn cerbyd. Gwelsom yn amryw o dai capelau Sir Aberteifi gadair lydan hen ffasiwn, a digon o le i ddau i eistedd ynddi yn gysurus; gelwid hi yn "gadair Dafydd Morris," a dywedid mai er ei fwyn ef y cawsai ei gwneuthur. Oblegyd y tewychder hwn y darfu i Dafydd Ddu o'r Eryri, ac efe yn fachgenyn ieuanc llawn direidi a digrifwch, gyfansoddi iddo y penill a ganlyn:—

> Am Dafydd Morris, 'r wyf fi'n syn,
> Nid oes, mae hyn yn rhyfedd,
> Berffeithiach cristion mewn un plwy',
> Yn cario mwy o lygredd.
> Ar fyr eheda'i enaid ef,
> Yn iach i'r nef fendigaid:
> A'r gorph a fydd, yn ngwaelod bedd,
> Ddanteithiol wledd i bryfaid."

Fel pregethwr, meddai ddirnadaeth ddofn o brif wirioneddau trefn yr iachawdwriaeth; yr oedd pob pregeth o'i eiddo yn dangos craffder sylw, a meddylgarwch. Ond ei brif nodwedd oedd angerddolrwydd teimlad. Byddai y gwirioneddau a lefarai yn tanio ei enaid ei hun, ac yn cyneu y cyffelyb dân yn ysprydoedd y rhai a'i gwrandawent. Meddai Christmas Evans am dano: "Yr oedd Dafydd Morris yn bwysig, a thra deffrous, yn ei anerchiadau at gydwybodau, a serchiadau ei wrandawyr. Nid hawdd darlunio yr effeithiau oedd yn canlyn ei ddawn yn y dyddiau cyffrous hyny." Desgrifiai rhai o'r hen bobl ei ymweliad a'r gwahanol ardaloedd fel ymdoriad ystorm o fellt a tharanau. Wrth ei wrando, safai dynion anystyriol yn syn, wedi eu dal gan ddychrynfeydd, fel pe buasai y Barnwr yn ymddangos; ac elai y rhuthr heibio gyda chawodydd bendithiol o'r gwlaw graslawn. Fel cyfrwng i gludo angerdd ei deimlad, rhoddasid iddo lais cryf a soniarus, yr hwn oedd ar unwaith yn dreiddgar a llawn o fiwsig. Meddai ei fab, Eben Morris, lais perseiniol ac o gwmpas dirfawr. Gofynai Hiraethog unwaith i Dr. Owen Thomas: "A ydych chwi yn cofio Ebenezer Morris?" Atebai yntau nad oedd. "Wel," meddai Hiraethog, "ni chlywsoch chwi ddim llais, ynte." Ond mynai yr hen bobl, oeddynt yn gydnabyddus a'r ddau, fod llais Dafydd Morris yn rhagori o ddigon ar eiddo ei fab.

Yn y flwyddyn 1774, symudodd o Ledrod i Dwrgwyn i drigianu. Gwnaeth hyny ar gais eglwysi dyffryn Troedyraur, y rhai a alwent arno i roddi heibio bob llafur bydol, ac ymroddi yn gyfangwbl i'r weinidogaeth, gan gadw cyfarfodydd eglwysig, a phregethu yn yr wythnos fel y byddai cyfleustra yn rhoi, ac addawent ei gydnabod am ei lafur. Yn nhafodiaeth yr oes hon, galwad i fod yn fugail a gafodd, ac ufuddhaodd yntau iddi. Isel oedd agwedd crefydd yn rhanau isaf Sir Aberteifi yr adeg yma, ar ol bod yn lled flodeuog unwaith; yr oedd yr ymraniad â Harris wedi taflu ei ddylanwad gwenwynig dros y seiadau, ac ymddangosai yr achos yn ei holl ranau yn dra gwywedig. Eithr yn fuan gwedi ei symudiad ef, newidiodd gwedd pethau er gwell; teimlwyd effeithiau grymus yn cydfyned a'r weinidogaeth, a chwanegwyd llawer iawn at y gwahanol eglwysi. Darostyngwyd y rhagfarn oedd yn meddyliau llawer o'r trigolion at y Methodistiaid, a lliosogodd y gwrandawyr i'r fath raddau, fel yn mhen pedair blynedd, sef yn 1778,

yr oedd yr addoldy yn Twrgwyn wedi myned yn rhy fychan, a bu raid cael adeilad helaethach. Yn mhen tua chwech mlynedd gwedi agoriad y capel newydd, torodd adfywiad grymus allan. Dechreuodd foreu Sabbath, pan oedd Dafydd Morris yn pregethu, ac ymledodd dros y wlad, gan ddwyn canoedd i broffesu crefydd. Ac er i rai wrthgilio, parhaodd y nifer fwyaf yn ffyddlawn, gan roddi profion annghamsyniol eu bod wedi cael eu dychwelyd at Dduw. Dywedir ddarfod i'r diwygiad hwn barhau am amser maith.

Nis gallwn roddi hanes bywyd Dafydd Morris yn gyflawn; nid oes ar gael ddefnyddiau at hyny; rhaid ymfoddloni ar hanesion sydd wedi aros mewn gwahanol ardaloedd; ond prawf y rhai hyny ei fod yn bregethwr anghyffredin. Er dangos tuedd athronaidd ei feddwl adrodda Dr. Owen Thomas, yr hanesyn a ganlyn:—Rhyw Sabbath yn y flwyddyn 1834, elai Dr. Thomas o Lanllyfni, gwedi odfa'r boreu, i Dalsarn, at ddau yn y prydnhawn. Yn cydgerdded âg ef yr oedd un o hen frodyr Llanllyfni. Er byrhau y ffordd croesent gae; ac yn y man, meddai yr hen wr, "A welwch chwi y gareg hon? Wyddoch chwi beth? Mi glywais i Dafydd Morris yn pregethu yn y fan yma, ac ar y gareg yna yr oedd yn sefyll." Cyffrowyd Dr. Thomas: "Aie," meddai, "a ydych yn cofio y testun?" "O, ydwyf, yn eithaf da; y geiriau yna yn y Salm: 'O drugaredd yr Arglwydd y mae'r ddaear yn gyflawn.'" "A ydych yn cofio rhywbeth o'r bregeth?" "Ydwyf, yr wyf yn cofio fod ganddo drugaredd mewn creadigaeth, trugaredd mewn rhagluniaeth, a thrugaredd mewn iachawdwriaeth. Ac wrth sôn am drugaredd mewn creadigaeth, yr wyf yn cofio ei fod yn tybio rhyw rai yn codi gwrthddadleuon yn erbyn hyny, am fod cymaint o'r ddaear yma yn anialwch diffaeth, cymaint o honi yn foroedd diffrwyth, a chymaint o honi yn fynyddoedd gwylltion." "Wel, sut yr oedd o yn ateb y gwrthddadleuon?" "Nid wyf yn cofio," meddai yr hen flaenor, "sut yr oedd o yn ateb gwrthddadl yr anialwch a'r môr, ond yr wyf yn cofio yn dda sut yr atebai wrthddadl y mynyddoedd: 'Cistiau Duw ydyw y mynyddoedd yma, bobl,' meddai, 'yn llawn o'i drysorau; ac fel y bydd o yn gweled ar ei blant eu heisiau, fe deifl ef yr allwedd i ryw un i'w hagor hwy.'" Byddai yn anhawdd cael prawf cryfach o feddylgarwch, yn enwedig pan feddylir fod gwyddoniaeth y pryd hwnw yn ei mabandod, ac mai prin yr oedd gwerth cynwys y mynyddoedd wedi cael ei ddatguddio.

Nid yn anfynych byddai rhyw nerth digyffelyb yn cydfyned â'i weinidogaeth, fel nas gallai y caletaf sefyll o'i blaen. Sonir yn Sir Fôn, hyd y dydd hwn, am bregeth ryfedd a draddodwyd ganddo yn Pont Rippont, o fewn rhyw bedair milltir i Gaergybi, yr hon a elwir, "Pregeth y golled fawr." Y testun ydoedd: "Pa leshad i ddyn os ynill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?" Wrth feddwl am enaid wedi ei golli, yr oedd yspryd Dafydd Morris wedi ei gyffroi i'w ddyfnderoedd, a bloeddiai ar y gynulleidfa oedd ger ei fron: "Ow! Ow! Plant y golled fawr." Yna darluniai fawredd y golled, ac fel byrdwn ar derfyn pob sylw deuai y floedd galon-rwygol, "Y golled fawr!" Gan mor uchel a threiddgar oedd ei lais, a'r fath effeithiolrwydd oedd yn cydfyned â'r traddodiad, rhedai y bobl yno o bob cyfeiriad; a gyda eu bod yn cyrhaedd y lle, yr oedd difrifwch annaearol y pregethwr, a nerth y floedd am y "golled fawr," yn eu sobri ar unwaith, ac yn eu cyffroi i fin gwallgofrwydd. Bernir i bawb a wrandawent y noson hono gael eu hachub. Ceir yn *Nghofiant John Jones, Talsarn*, gan Dr. Owen Thomas, hanesyn tra dyddorol, yn dal cysylltiad â'r odfa hon. Un nos Sabbath, pregethai y diweddar Barch. David Roberts, Bangor, yn Llanerchymedd; gwedi y bregeth cynhelid seiat, ac aeth y gweinidog o gwmpas i holi rhai o'r aelodau am eu profiadau. Aeth at un hen chwaer, gan feddwl y caffai rywbeth ganddi, a gofynodd, er ys pa faint o amser yr oedd gyda chrefydd. Nid oedd yr hen chwaer yn gallu dweyd. "Ond," meddai, "yr oeddwn yn hogen go fechan, yn agos i Bont Rippont; a rhyw ddiwrnod, wrth fyned i rywle, mi gollais fy marclod (ffedog). Yr oeddwn wedi myned i chwilio am dano, ac yn teimlo yn fawr, bron a chrio, os nad oeddwn yn crio, am fy mod i wedi ei golli. Pan yr oeddwn i felly yn chwilio am dano, mi a glywn ryw lais uchel, cryf, yn swnio yn fy nghlustiau: '*Y golled fawr! Y golled fawr!*' Mi a feddyliais mai sôn am fy marclod yr ydoedd o. Ond mi a ddilynais y swn, nes yr oeddwn yn y lle. Erbyn dyfod yno, yr oedd yno lawer o bobl wedi ymgasglu, a dyn yn pregethu ar yr adnod: 'Pa leshad i ddyn, os ynill efe yr holl fyd, a cholli ei

enaid ei hun?' Ac mi ddois i toc i ddeall fy mod mewn perygl i golli peth anhraethol fwy gwerthfawr na fy marclod. Dyna yr amser y dechreuais i gyda chrefydd. A Dafydd Morris oedd y pregethwr hwnw." Diau fod y bregeth hono, a wnaeth y fath argraff ar feddwl genethig ieuanc, yn gystal ag ar bobl wedi tyfu i fynu, gan beri iddi hi a hwythau anghofio pob colled, yn mhresenoldeb "y golled fawr," yn rymus, tuhwnt i bob peth.

Coffeir am bregeth ryfedd arall, nid yn annhebyg o ran dylanwad i'r un yn Pont Rippont, a draddodwyd ganddo yn Llanarmon, Dyffrynceiriog. Pregethai dan goeden frigog, yn muarth Sarphle, ar y gair: "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth, canys ni elli mwy fod yn oruchwyliwr?" Tan y bregeth hon dywedir fod pawb yn gwaeddi neu yn wylo, yn molianu neu yn gweddïo. Llefai y pregethwr, ag awdurdod o dragywyddoldeb yn ei lef, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth;" ac yn mhresenoldeb y cyfrif ofnadwy, crynai y caletaf, a churai ei liniau yn nghyd; toddai calonau creiglyd fel y tawdd cwyr o flaen tân. Golygfa ydoedd na welsid ei chyffelyb yn y wlad hono; ac nid oedd gan baganiaid y fro un cyfrif i'w roi am y fath beth, ond fod rhyw gyffroad o wallgofrwydd wedi syrthio yn ddisymwth ar y gwrandawyr.

Yr ydym yn barod wedi nodi ei fod yn deithiwr mawr. Am flynyddoedd cymerai bedair o deithiau bob blwyddyn i Siroedd Môn ac Arfon, ac eraill o siroedd y Gogledd. Yr oedd mor adnabyddus yn y Gogledd ag oedd yn y Dê; a mawr fyddai y dysgwyliad am dano, a'r syched am ei glywed. Anaml y cynhelid Cymdeithasfa heb ei fod yn pregethu ynddi. Ar ei deithiau cyfarfyddai, o angenrheidrwydd, â llawer math o helynt, a chaffai mewn gwahanol leoedd bob math o dderbyniad. Pan ar daith yn Sir Ddinbych unwaith, ac yn myned o'r Bont Uchel i Adwy'r Clawdd, cafodd nad oedd ei gyhoeddiad, o herwydd rhyw anffawd neu gilydd, wedi cyrhaedd yr Adwy. Gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddo fod yn y wlad, nid oedd yno neb a'i hadwaenai. Modd bynag, daeth o hyd i nifer o wragedd yn proffesu crefydd, i ba rai yr hysbysodd mai pregethwr o'r Deheudir ydoedd, a gofynai, ai nid oedd modd anfon gair ar led trwy y gymydogaeth, a chasglu pobl i wrando? Ar hyn cyrhaeddodd y blaenor, a gofynai, gyda chryn sarugrwydd, "Pwy ydych? A ydych yn werth anfon am wrandawyr i chwi?" Ymddangosai y gŵr yn afrywiog ei dymher, a bustlaidd ei yspryd. Eithr rywfodd cafwyd cynulleidfa; dechreuodd Dafydd Morris bregethu, ac ar unwaith deallwyd mai nid dyn cyffredin ydoedd. Yn fuan dyma ryw nerth anorchfygol yn cael ei deimlo; cynhyrfid y bobl fel y cyffroir coedwig gan gorwynt; dyma deimladau dyfnion y galon yn ymdywallt allan, yn ocheneidiau uchel, ac yn afonydd o ddagrau, y rhai a redent i lawr yn llifogydd dros bob wyneb. Yr oedd yr hen flaenor sarug wedi cael ei orchfygu, fel pawb arall. Ar derfyn yr odfa aeth at y pregethwr, gan ymesgusodi, a dywedyd: "Dafydd Morris bach, gobeithio y gwnewch faddeu fy ymddygiad atoch cyn dechreu y cyfarfod." Meddai yntau yn ol: "Y dyn, mi a welaf mai ci ydwyt; cyn i'r odfa ddechreu yr oeddit yn dangos dy ddanedd; yn awr yr wyt yn ysgwyd dy gynffon." Profodd Dafydd Morris fod ganddo fedr arbenig i ddeall cymeriad, oblegyd yn fuan wedi hyn trodd y blaenor ei gefn ar yr achos, a gorphenodd ei yrfa mewn anfuchedd gyhoeddus, ac yn wrthwynebwr i'r efengyl.

Dyoddefodd lawer o erlidiau, ac nid yn anfynych y gwaredodd yr Arglwydd ef yn rhyfedd. Un tro pregethai yn y Berthengron, a daethai cynulleidfa fawr yn nghyd i wrando. Ar ddechreu yr odfa gwelid haid o ddynion cryfion, a dibris, yn dynesu at y fan, wedi ymbarotoi i aflonyddu yr addoliad, ac o bosibl i niweidio y neb a feiddiai ddweyd gair yn eu herbyn. Ond pan yr oeddynt yn nesu at y tŷ, syrthiodd eu blaenor, a thorodd ei goes, a hyny ar dir gwastad a thêg. Cafodd y fyntai ddigon o orchwyl i ymgeleddu y clwyfedig, a chafodd Dafydd Morris bob llonyddwch i gyhoeddi yr efengyl. Dro arall, yr oedd ar daith yn Arfon, ac aeth i'r Gwastadnant, lle yr arferid cynal pregethu. Yn anffodus, yr oedd gŵr y tŷ oddicartref, ac yr oedd y wraig yn wrthwynebol i'r efengyl. Pan y daeth y pregethwr at y drws, gan ofyn a oeddynt yn dysgwyl gŵr dyeithr yno, atebodd yn sarug: "Nac ydym; nid oes yma ond swp o boblach dlodion, ar eu heithaf yn ceisio magu eu plant." Dywedodd hyn mewn tymher mor chwerw fel y barnodd Dafydd Morris mai doethineb ynddo fyddai troi ymaith; a hyn a wnaeth heb iddo ef na'i anifail gael lluniaeth na llety; ac allan ar y mynydd, rhwng Llanberis a Llanrug, y buont, meddir, trwy ystod y nos.

Tybir mai efe oedd y pregethwr yr adroddir hanes tra chyffrous am dano yn Llangynog, Sir Drefaldwyn. Safai i draddodi y Gair wrth ddrws tŷ tafarn; a gyferbyn ag ef, yr ochr arall i'r ffordd, yr oedd tair coeden yn tyfu gyda glan yr afon. Yn fuan wedi dechreu y bregeth daeth dyn meddw heibio, yr hwn a waeddai allan, ar derfyn pob sylw o eiddo y pregethwr: "*Celwydd a ddywedi.*" Goddefodd Dafydd Morris am enyd, ond wrth fod y dyn yn parhau i grochlefain a bytheirio, cyffrowyd ei yspryd, a dywedodd wrth y gynulleidfa: "Gwrandewch! bydd y tair coeden yna yn dwyn tystiolaeth yn erbyn y dyn hwn yn y farn, oni oddiwedda dialedd ef cyn hyny." Sylwodd y bobl ar y dywediad; ac yn fuan dygwyd ef yn fyw i'w côf drachefn, gan i'r dyn yn ei feddwdod, ryw noson dywell, syrthio dros y mur i'r afon, a boddi. Ac yr oedd hyn o fewn ychydig latheni i'r man y safai y pregethwr arno. Meddai y Beibl: "Na fydd ry annuwiol; ac na fydd ffol; paham y byddit farw cyn dy amser?"

Cawn hanes am dano yn pregethu yn Amlwch, Sir Fôn, cyn adeiladu y capel cyntaf yno. Pregethai yn yr awyr agored, am fod y gynulleidfa, yn ddiau, yn rhy fawr i unrhyw dŷ. Safai wrth dalcen tŷ yr hen bregethwr, William Roberts, y crydd. Yr oedd llyn o ddwfr, meddir, yn gyfagos i dŷ William Roberts; llyn lled fawr, a lled fudr ei ddwfr yn gyffredin. Yr oedd yn byw yn y gymydogaeth ar y pryd amaethwr, yr hwn oedd yn dra digllawn at y Methodistiaid. Penderfynodd y gŵr hwn, wedi deall fod cyfarfod crefyddol i gael ei gynal yn y dref, fyned yno i wneuthur gwawd o hono, ac i'w aflonyddu. Daeth i'r dref ar ei geffyl, gan fwriadu marchogaeth trwy y gynulleidfa, a thrwy hyny ei dyrysu a'i chwalu. Tybiai y caffai ddifyrwch wrth weled penbleth y bobl druain oedd wedi ymgynull i wrando. Eithr pan ddaeth yn gyfagos, mynai y ceffyl, er gwaethaf ei berchenog, droi i'r llyn; ac wedi cyrhaedd yno, taflodd ei farchog oddiar ei gefn i'r dwfr, gan orwedd ar ryw ran o hono fel nas gallai symud. Ofnai yr edrychwyr iddo foddi yn y llyn, a gwaeddent ar i rywun ei achub ef. "O, na," ebai rhyw hen wraig, mwy ei nwyd, debygyd, na'i gras, "gadewch iddo; gan i'r Llywydd mawr weled yn dda fyned ag ef yna, yna y dylai fod." Tybiai rhai fod llygaid yr hen wraig ar Diar. xxviii. 17: "Dyn a wnelo drawsedd i waed neb, a ffŷ i'r pwll; nac atalied neb ef." Modd bynag, rhuthrodd rhywrai i'r llyn, a llusgasant y dyn druan allan o'i wely peryglus, heb fod fawr gwaeth, ond fod ei ddiwyg yn llawer butrach. Felly, siomwyd yr erlidiwr. Nid difyrwch, ond poen, a fu y tro iddo; ac yn lle medru dyrysu y moddion, cafodd y gynulleidfa bob hamdden i wrando heb i neb feiddio gwrthddywedyd.

Ymddengys mai Dafydd Morris oedd y cyntaf o'r Methodistiaid i bregethu yn nhref Beaumaris. Ar yr heol y safai, ond ychydig o lonyddwch a gafodd; ymosodwyd arno gyda cherig a thom; a chodwyd y fath dwrf a therfysg, fel nas gallai fyned yn mlaen. Yr oedd llais Dafydd Morris yn gryf a chlochaidd, a'i galon ynddo yn wrol; ond ymddengys fod yno yn perthyn i'r Methodistiaid ddyn, William Lewis wrth ei enw, a feddai lais cryfach fyth. Safodd hwn i fynu yn ddiofn, wedi i'r terfysgwyr orchfygu y pregethwr o'r Dê, ac ymliwiodd a'r bobl am eu hymddygiad at ŵr dyeithr, a ddaethai o bell i geisio gwneyd daioni iddynt. Gostegodd hyn i raddau ar y terfysg, a chafwyd peth llonyddwch i orphen y cyfarfod. Pe buasai Dafydd Morris wedi ysgrifenu ei hanes yn fanwl, fel y gwnaeth Howell Harris, gan gadw cofnod manwl o bob peth a ddygwyddodd iddo, yr erlidiau a ddyoddefodd, a'r gwaredigaethau a estynwyd iddo, buasai yn ffurfio penod debycach i ramant nag i ddarn o hanesiaeth.

Ceir yn *Methodistiaeth Cymru* gynllun o'i gyhoeddiad yn Sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1771, yr hwn sydd yn meddu cryn ddyddordeb:—

Tachwedd 23, 1771, am 12, Waunfawr; nos, Llwyncelyn.
Dydd Mawrth, Llanllyfni, 2; a chadw yn breifat (seiat).
Dydd Mercher, am 10, Tynewydd; y nos, Brynygadfa.
Dydd Iau, am 12, Nefyn; nos, Tydweiliog.
Dydd Gwener, am 10, Tymawr; prydnhawn, am 3, Lon-fudr.
Dydd Sadwrn, am 12, Saethonbach.
Boreu Sul, Pwllheli; Cricieth, am 2.
Dydd Llun, am 10, Brynengan: a chadw yn breifat yn y Garn, am 5.

Nid annhebyg mai cynifer a hyn o leoedd pregethu oedd gan y Methodistiaid yn Sir Gaernarfon ar y pryd; ac os felly, pur araf y cynyddodd yr achos ynddi.

Ceir yn yr un llyfr fraslun o daith a wnaeth yn Sir Aberteifi, tua'r flwyddyn 1789, sef ryw ddwy flynedd cyn ei farw; ac yn y braslun hwn rhoddir y testunau oddiar ba rai y pregethodd yn ogystal:—

GORPHENAF 18, 1789.

| | |
|---|---|
| Capel Twrgwyn. | Esaiah lv. 3. |
| Glynyrhedyn | Luc i. 74. |
| Aberteifi . | Can. vii. 1. |
| Llandudoch | Luc |
| Llechryd | 1 Cor. iii. 21, 22. |
| Tremain | Luc i. 47. |
| Morfa Uchaf | 1 Cor. iii. 21, 22, mewn angladd. |

TRO I SASIWN LLANGEITHO.

| | |
|---|---|
| Yn y Sasiwn yn gyntaf | Can. vii. 1. |
| Llanddewi-brefi | 1 Cor. iii. 21, 22. |
| Tregaron . | Actau xvi. 30, 31. |
| Swyddffynon | Heb. vi. 7, 8. |
| Lledrod . | 1 Cor. iii. 21, 22. |
| Llangwyryfon | Luc i. 74. |
| Llanbadarn Fawr | Heb. iv. 3. |
| Aberystwyth . | Actau xvi. 30, 31. |
| Rhyd-y-felin-fach | Zech. xii. 10. |
| Llanrhystyd | Phil. iii. 20, 21. |
| Llannon | Heb. ii. 3. |
| Penant | Actau xvi. 30, 31. |
| Llanarth | Heb. ii. 3. |
| Geufos | Zech. xii. 10. |

Un ffaith ddyddorol a geir yn y braslun hwn ydyw, fod Dafydd Morris yn pregethu yn Nghymdeithasfa ei sir ei hun. Yr oedd hyn flwyddyn cyn i Daniel Rowland farw, ac y mae yn sicr fod a fynai efe â'r trefniant. Dywedir fod ganddo gynifer a saith o wahanol bregethau ar Actau xvi. 30, 31. Parhäi Dafydd Morris i gyfansoddi pregethau newyddion trwy ystod ei oes, ac ymddengys fod hyn yn orchwyl hawdd iddo. Dywed awdwr *Methodistiaeth Cymru* iddo weled saith o bregethau o'i eiddo, wedi eu cyfansoddi mewn chwech wythnos o amser, yn y flwyddyn 1789, sef dwy flynedd cyn ei farw. Nid oes dim yn awgrymu fod hyn yn beth anarferol iddo. Dywedai Mr. John Jones, Castellnewydd, ddarfod iddo ef ei wrando saith-ar-hugain o weithiau mewn un flwyddyn, a bod ganddo bregeth newydd bob tro. Yn y brasluniau o'i bregethau sydd ar gael, ymddengys nad oes dim anarferol o ran cynllun na chyfansoddiant; eu prif nodwedd yw Ysgrythyroldeb; ond diau ei fod yn cael llawer o'i syniadau dysgleiriaf ar y pryd, pan y byddai ei yspryd yn poethi wrth ymdrin â'r gwirionedd.

Yr ydym wedi dangos yn barod fod Dafydd Morris yn meddu craffder arbenig i adnabod cymeriad. Ceir hanes am dano yn Llansamlet a brawf yr un peth, ac a ddengys fod ganddo awdurdod nodedig i lywodraethu, a gweinyddu dysgyblaeth, pan fyddai galw. Yr oedd yn Llansamlet ŵr o'r enw Llewelyn John, cristion gloyw, a chymeriad pur. Yn ychwanegol, meddai ddawn gweddi helaeth, ac arferai fyned o gwmpas gyda phregethwyr i ddechreu y cyfarfodydd iddynt. Bu unwaith yn y Gogledd gyda Jones, Llangan. Yn mhen amser maith aeth Llewelyn John yn hen ac yn dlawd. Penderfynodd y seiat gyfranu ryw gymaint yn wythnosol at ei gynaliaeth; ond bu hyn yn foddion i beri cenfigen a therfysg. Yr arweinydd yn yr helynt oedd "Beni y crydd." Wedi cryn gyffro, penderfynwyd anfon cenhadau yno, er ceisio adfer trefn. Yn y cyfamser, daeth Dafydd Morris heibio; ac ar ol yr odfa, mewn cyfarfod eglwysig, gosododd y brodyr y mater ger ei fron. Ar ddechreu y drafodaeth rhoddes "Beni" amnaid i Dafydd Morris ddarllen y drydedd benod o 2 Thes., lle y ceir y geiriau: "Os byddai neb ni fynai weithio, na chai fwyta ychwaith." "Na wnaf fi," ebai yntau, "darllen hi dy hunan, os myni." Gwnaeth Beni hyny; ac yn ganlynol, wrth drafod y mater, coffaodd hi drachefn, fel un benderfynol ar y pwnc. Bellach, yr oedd yspryd Dafydd Morris wedi cyffroi ynddo, ac nis gallai ymatal, a dyma ef yn arllwys ei dynghed ar Beni, druan. "Clyw, y cythraul,' ebai, "a wyt ti yn cymhwyso yr adnod yna at yr hen ŵr duwiol? Rhwygwr wyt ti, a rhwygwyr yw y rhai sydd yn dy gynghrair, ac allan â thi a hwythau." Yr oedd y Parch. Hopkin Bevan yn y cyfarfod ar y pryd, ac arferai ddweyd na fu mewn lle mor ofnadwy erioed; ei fod yn teimlo fel pe byddai llawr y capel yn crynu gan yr awdurdod oedd yn y geiriau. Gwedi hyn ymrestrodd y terfysgwr yn filwr, ac adferwyd tangnefedd i'r eglwys.

Yr oedd Dafydd Morris, heblaw bod yn bregethwr gwych, yn emynydd o fri, a cheir amryw o'i emynau yn y llyfr a arferir yn bresenol gan y Methodistiaid. Cyhoeddodd lyfr bychan o'i gyfansoddiadau cyn iddo adael Lledrod, a dywed y wyneb-ddalen iddo gael ei argraffu yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1773. Felly, nid oedd yr awdwr ar y pryd ond naw mlwydd-ar-hugain oed. Enw y llyfr yw, *Cân y Pererinion Cystuddiedig*. Yn y rhagymadrodd ceir a ganlyn: "Gwybydded pwy bynag y dygwyddo hyn o emynau ddyfod i'w ddwylaw, na fwriedais i erioed wrth eu canu eu rhoddi mewn print; ac mai afreidiol oedd i mi osod fy enw yn gyhoeddus trwy eu hargraffu. Ond wrth gofio am y gwŷr goludog oedd yn bwrw i'r drysorfa o'r hyn oedd yn ngweddill ganddynt, mi glywais beth cymhelliad



CAPEL TWRGWYN, SIR ABERTEIFI.

*[Mae y geiriau hyn yn argraffedig ar ffrynt y capel:—"Y Ty hwn a adeiladwyd i'r Parch. Dan. Rowlands, O.C. 1750, a ail adeiladwyd O.C. 1816, a adnewyddwyd O.C. 1846."]*



PENTREF PENFFOS, GER TWRGWYN.

*Preswylfa yr enwog bregethwr yn y prif dy ar y darlun.]*

DARLUNIAU YN DAL PERTHYNAS A CHOFFADWRIAETH DAVID MORRIS, TWRGWYN (LLEDROD).

ynof i daflu fy nwy hatling i mewn yn eu mysg. Heblaw hyny, wrth roddi ambell air maes o honynt weithiau mewn cynulleidfaoedd cristionogol, a gweled ambell blentyn newynog yn adfywio trwy yr ymborth gwael hwn, a'r Arglwydd yn dysgleirio arnynt trwy y moddion, mi a feddyliais ei bod yn bechod i gadw bara haidd oddiwrth eneidiau newynllyd; hyn a'm cwbl gymhellodd idd eu gosod o'th flaen yn y drych y gweli hwynt. Os bendith a gei oddiwrthynt trwy eu darllen, neu eu canu, rho'r clod i Dduw, a gweddïa drosof finau, *yr hwn wyf dy gydymaith mewn cystudd*,—DAFYDD MORRIS." Awgryma y geiriau sydd mewn llythyrenau Italaidd fod yr awdwr ar y pryd yn wael ei iechyd. Yn sicr, nid oedd raid iddo ymesgusodi o herwydd cyhoeddi y llyfr, na galw ei Emynau yn "ymborth gwael" nac yn "fara haidd;" y mae yspryd y peth byw yn amryw o honynt, a byddant yn debyg o gael eu canu tra y parhao y Cymry i offrymu mawl i Dduw yn eu hiaith eu hunain. Yn mysg eraill, perthyn yr emynau canlynol i Dafydd Morris :—

"Mae brodyr imi aeth ymlaen."
"Os rhaid yfed dyfroedd Mara."
'Arglwydd grasol, dyro gymhorth."
"A ddaw gwawr ar ol y plygain?"

Os nad oedd ei awen mor hedegog ag eiddo Williams, gwelir fod ei emynau yn nodedig am eu Hysgrythyroldeb a'u dwysder.

Yr oedd Dafydd Morris hefyd yn ddyn nodedig o garuaidd, a thyner ei deimlad; ac arferai letygarwch ar raddfa eang, fel y ceid aml gyfleustra y dyddiau hyny. A braidd nad oedd ei wraig, Mary, un o'r benywod serchocaf ar y ddaear, yn rhagori arno yn y rhinwedd hwn. Ni byddai wythnos yn pasio na byddai ryw "lefarwr" yn ymweled a Twrgwyn; ac ambell wythnos byddai pedwar neu bump; oblegyd cyfnod y teithio oedd hwnw, ac yn nhŷ Dafydd Morris y lletyent gan amlaf, a byddai Mrs. Morris wrth ei bodd yn gweini arnynt. Parchai hwynt oll, y sychlyd ei ddawn fel y talentog; yr anwybodus fel y galluog; anrhydeddai y gwaelaf fel cenad Duw. Bu farw yn y flwyddyn 1788, yn gymharol ieuanc, ac ysgrifenwyd marwnad iddi gan Williams, Pantycelyn. Braidd nad yw y farwnad yn awgrymu na pherchenogai dalent ddysglaer, ond mai mewn duwiolfrydedd a charedigrwydd y rhagorai. Wele ychydig o'r penillion :—

"O galared y gyn'lleidfa
  Fawr, liosog, faith, am hyn,
Sydd yn bwyta bara'r bywyd
  O fewn capel y Twrgwyn;
Collwyd mam, a chwaer, a mamaeth,
  Collwyd gwraig garuaidd wiw;
Ac nid oes all lanw'r golled,
  Ond yr Hollalluog Dduw.

Os rhagluniaeth drefna imi—
  F'allai fyth fydd hyny'n bod—
Wrth gyhoeddi'r 'fengyl oleu,
  I dŷ Dafydd Morris ddod;
A gwel'd Mary'n cisiau yno,
  Gwn y tyn afonydd hallt
O fy llygaid, fel o greigydd,
  Er mor wyned yw fy ngwallt.

Mwy yw Dafydd yn mhob ystyr,
  Uwch na Mary raddau heb ri',
Mwy talentau, mwy arddeliad,
  Godidocach swydd na hi;
Ond am garu, ymgeleddu,
  Gwneyd y rheidus oer yn glyd,
Yr oedd Mary'n abl ateb,
  Neb rhyw wraig o fewn y byd.

Doed pregethwyr fan y deuant,
  Gogledd, de, neu ddwyrain bell,
I'r Twrgwyn, gyhoeddi allan
  Bur newyddion Juwbil well;
O ba ddwg, o ba dalentau,
  O ba raddau, o ba ddawn,
Hwy gaen' ffeindio Mary Morris,
  O garueiddiwch pur yn llawn."

Bu i Dafydd Morris a Mary dri o blant, sef Theophilus, Eleazer, ac Ebenezer. Cymerodd angau y ddau flaenaf ymaith yn nyddiau eu hieuenctyd, a chyn cael cyfleustra i wneyd dim yn haeddu ei goffa; ond am yr olaf, Ebenezer, daeth yn un o ser dysgleiriaf y pwlpud, ac y mae enw "Eben Morris" yn anwyl gan y genedl hyd y dydd hwn. Daw efe dan ein sylw eto. Oes fer a gafodd Dafydd Morris; canwyll yn llosgi yn ddysglaer ydoedd, a llosgodd i'r soced yn bur fuan. Ar yr ail-arbymtheg o fis Medi, 1791, galwyd ef oddiwrth ei waith at ei wobr, ac efe ond saith-a-deugain mlwydd oed, ac wedi bod yn pregethu am ryw chwech-mlynedd-ar-hugain. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd yn mynwent Troedyraur, yn nghanol dagrau lawer. Ond i ni gadw mewn côf ei fod yn cydfyw, yn mron trwy ystod ei oes, â'r Tadau Methodistaidd cyntaf; mai tua blwyddyn o'i flaen y bu farw Daniel Rowland; mai tuag wyth mis o'i flaen y croesodd Williams, Pantycelyn, yr Iorddonen; ddarfod i Peter Williams, ei oroesi; ac iddo fod yn gydlafurwr â Howell

Davies a Howell Harris; ac eto i gyd iddo, yn mysg yr enwogion hyn, enill iddo ei hun safle fel pregethwr o'r radd flaenaf, fel y daeth ei enw yn air teuluaidd yn Nghymru, o Fôn i Fynwy, rhaid fod Dafydd Morris yn bregethwr anghyffredin. A chan iddo droi llawer i gyfiawnder, rhaid ei fod heddyw, yn ol geiriau yr Ysgrythyr, yn seren o'r mwyaf dysglaer yn ffurfafen y nefoedd. Cyfansoddwyd marwnad iddo gan y Parch. Thomas Jones, o'r Maes, yn Sir Gaerfyrddin, wedi hyny o Peckham, Surrey, o ba un y difynwn ychydig benillion :—

"Seren ddysglaer yn goleuo
Yn neheulaw Iesu gwiw,
Gariodd athrawiaethau grymus,
Pur wirionedd geiriau Duw;
Chwiliai ddyfnion droion calon,
Troion gwrthgiliadau cas,
Yn ngoleuni ei athrawiaeth
Fe'i datguddiai hwynt i maes.

Nid ymryson gwag a dadleu
Ydoedd ei bregethau ef,
Ond canolbwynt ei athrawiaeth,
Oedd gogoniant Brenin nef;
Dyn yn ddyn, a Christ yn bobpeth,
Fyddai e'n gyhoeddi maes,
Mewn rhyw ddysglaer oleu, hyfryd,
A rhyw ddwyfol nefol flas.

Y mae rhai o'i ddwys gynghorion
Ar fy meddwl hyd yn awr;
'Rwy'n hyderu caf eu cofio
Tra b'wyf ar y ddaear lawr;
Wrth drafaelu dyffryn Baca,
Sych ac anial, llawn o wres,
Mewn tywyllwch anghysurus,
Gwnaethant i fy enaid les."

Y trydydd enw sydd uwchben y benod yw eiddo William Llwyd, o Gayo. Fel amrai o bregethwyr cyntaf y Methodistiaid, yr oedd Mr. Llwyd yn hànu o deulu parchus, yn meddu eiddo rhydd-ddaliadol, a pherthynai yn agos i Lwydiaid y Briwnant, yr hwn deulu breswylia yn y Briwnant, ar y naill du rhwng Cayo a Phumsaint, hyd y dydd hwn, ac a ystyrir yn mysg bonedd Sir Gaerfyrddin. Enw ei dad oedd Dafydd Llwyd, a phreswyliai yn Blaenclawdd, ger Cayo.* Cafodd William ei eni yn y flwyddyn 1741, sef tua chwe' blynedd wedi cychwyniad y diwygiad Methodistaidd, a rhyw ddwy flynedd cyn Cymdeithasfa gyntaf Watford. Pan yr oedd efe yn blentyn bychan, yn chwareu o gwmpas gliniau ei fam, yr oedd Rowland a Harris yn tanio Cymru, a than fendith Duw yn cynyrchu chwildroad hollol yn nghyflwr moesol y trigolion. Ymddengys i rai o'r gwreichion gydio yn William pan yn ei fabandod, oblegyd dywed ei fod dan fesur o argyhoeddiad, ac mewn pryder oblegyd ei gyflwr, er pan o gwmpas saith mlwydd oed. Diau mai rhyw ddylanwad, mwy neu lai uniongyrchol, oddiwrth weinidogaeth y Diwygwyr cyntaf a fu y moddion i gynyrchu hyn. Am helynt dyddiau ei ieuenctyd ychydig a wyddom; eithr cafodd addysg well na'r cyffredin, a bu am beth amser yn ysgol y Parch. Owen Davies, gweinidog perthynol i'r Ymneillduwyr. Pan oedd tua deunaw mlwydd oed cafodd gyfleustra i wrando Peter Williams, a than y weinidogaeth dyfnhawyd ei argyhoeddiadau yn ddirfawr, fel y darfu i fater enaid lyncu pob peth iddo ei hun yn ei deimlad. "O'r blaen," meddai Mr. Charles, "nid oedd ei argyhoeddiadau, mewn ystyr, ond meirwon a dieffaith, yn ei ddangos ac yn ei farnu yn euog; eithr heb fawr o ymgais i ffoi rhag y llid a fydd, ac heb y waedd yn ei yspryd: Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf cadwedig? Ond effeithiodd gweinidogaeth y gweinidog llafurus hwnw, y Parch. P Williams, yn fywiog ac yn danllyd arno, nes yr oedd dyfnder ei bechadurusrwydd, a'i drueni yn ganlynol, heb un llen yn ei olwg, a chadw enaid y peth mwyaf ei bwys a'i ganlyniad o ddim yn y byd." Ymddengys ddarfod i'r llanc, William Llwyd, fod mewn gwasgfa meddwl am gryn yspaid; dan Sinai yn swn y taranau y preswyliai; am agos i flwyddyn llanwai dychrynfeydd y ddeddf ei enaid, heb gael tawelwch yn un man. Y gŵr a ddefnyddiwyd i agor drws gobaith o'i flaen oedd Evan Jones, cynghorwr o Ledrod, yn Sir Aberteifi. Ychydig neu ddim o hanes yr Evan Jones yma sydd ar gael; yn unig ceir ei enw yn mysg cynghorwyr Rowland; ai byr ei ddawn ydoedd, ynte a feddai dalent naturiol gref, ni wyddom; ond efe a fendithiwyd i dywallt balm yr efengyl i glwyfau dyfnion William Llwyd, ac eiddo i Grist a fu y gŵr ieuanc o hyny allan.

Brysiodd i ymuno âg eglwys Crist, ac yn ol Mr. Charles, gyda chynulleidfa yr Ymneillduwyr yn y gymydogaeth, sef, yn ddiau, cynulleidfa Crugybar, y bwriodd ei goelbren. Awgryma Mr. Charles, yn mhellach, mai y rheswm paham y gwnaeth felly oedd, am nad oedd seiat Fethodistaidd o fewn cyrhaedd iddo; a dywed mai yn y flwyddyn 1760 y ffurfiwyd cymdeithas

* *Trysorfa Ysprydol.*

neillduol gan y Methodistiaid yn Nghayo. Prin y geill hyn fod yn gywir, oblegyd dengys cofnodau Trefecca fod yno seiat gref, yn rhifo 44 o aelodau, yr hon oedd dan arolygiaeth James Williams, mor foreu a 1743. Tybia Mr. Hughes, awdwr *Methodistiaeth Cymru*, i'r seiat yn Nghayo ddiflanu o fod, neu ynte wanhau yn ddirfawr, yn ystod enciliad Harris, a'r terfysg a ddilynodd. "Y pryd hwnw," meddai, "y llaesodd dwylaw llawer o'r cynghorwyr cyntefig, y dyrysodd ysgogiad y peiriant crefyddol a osodid i fynu gan y Diwygwyr, ac y chwalwyd lliaws o'r mân eglwysi a gasglesid at eu gilydd y blynyddoedd blaenorol." Digon tebyg mai felly y dygwyddodd yn Nghayo, a darfod i'r achos gael math o ail gychwyniad tua'r flwyddyn 1760.

Nid hir y bu William Llwyd gydag Annibynwyr Crugybar; trwy offerynoliaeth y Methodistiaid y cawsai ei ddwyn i adnabyddiaeth o'r Gwaredwr, a chyda hwy yr oedd am gyfaneddu. Felly, pan yr ail gychwynwyd yn Nghayo, er mai tua deunaw oedd rhif yr aelodau yno, ymunodd a'r gymdeithas ar unwaith. Ar yr un pryd, ni fu unrhyw deimlad anngharedig rhyngddo a'r eglwys Annibynol; parhaodd mewn cyfeillgarwch â hi, ac a'i gweinidog, tra fu byw. Er yn ddyn newydd, yr oedd arno angen am fagwraeth ysprydol, ac ymddengys mai tan weinidogaeth Daniel Rowland yn benaf y caffai hyny. Cyrchai yn fisol i Langeitho tros ei holl ddyddiau, oni fyddai amgylchiadau yn ei luddias; ac fel y lliaws a ymgasglai yno, cyfranogai yn helaeth o'r danteithion ysprydol a arlwyid mor ddibrin. Pan oedd tua dwy-ar-hugain oed, penderfynodd ymroddi i waith yr efengyl, a daeth yn bur fuan yn nodedig o boblogaidd. Ei brif nodwedd fel pregethwr oedd tân, yn nghyd â llais soniarus a nerthol. Yr oedd ei hun o deimladau cyffrous, ac yn nodedig o danbaid; a thuedd ei weinidogaeth oedd cyffroi eraill. Nid oedd dim a safai o'i flaen pan gaffai y gwynt o'i du. Lledai ei hwyliau i'r awelon; a byddai ei lestr yn morio yn ogoneddus. Nid oedd yn amcanu goleuo y deall yn gymaint; at y galon yr anelai yn benaf. Nid oedd i'w gymharu â Rowland a Harris o ran dirnadaeth o ddyfnion bethau Duw; ac yr oedd yn mhell o fod i fynu â hwy mewn mater a meddwl; ond meddai yntau ddawn arbenig, hollol annhebyg i eiddo pawb arall, a bendithiwyd ef i ddychwelyd canoedd at Grist. Meddai Mr. Charles: "Yr oedd ucheledd a phob rhagoriaethau yn noniau Mr. Daniel Rowland, dyfnder defnyddiau, grym a phereidd-dra llais, ac eglurdeb a bywiogrwydd yn traddodi dyfnion bethau Duw, er syndod a'r effeithioldeb mwyaf ar ei wrandawyr. Yr oedd Mr. Llwyd yn fwy arwynebol, ond yn efengylaidd, yn wlithog, yn hyfryd, ac yn doddedig iawn; a pheth sydd fwy, ac yn coroni y cwbl, yr oedd Duw yn ei arddel ac yn mawr lwyddo ei lafur."

Priododd ferch i un Mr. John Jones, o'r Black Lion, Llansawel, ac aethant i gyfaneddu i Henllan, fferm yn ymyl Cayo oedd yn eiddo iddynt. Yr oedd Mrs. Llwyd yn ddynes o dduwioldeb amlwg, ac o yspryd tanbaid; yn ei ffordd ei hun, yr oedd lawn mor hynod a'i phriod. Teithiai Mr. Llwyd lawer: ymwelai yn fynych à phob ran o Gymru; a chan fynychaf byddai Mrs. Llwyd yn ei ganlyn fel "cyfaill," a dywedir y byddai yn arfer dechreu yr odfaeon iddo. Yn ngwres ei deimlad, byddai Mr. Llwyd ei hun yn tori allan yn aml i folianu yr Iesu ar ganol ei bregeth; a chyfranogai ei wraig yn yr hwyl nefol, a byddai yn fynych yn neidio ac yn molianu ar lawr y capel. Clywsom am dano unwaith wedi myned allan i dŷ'r capel, gan adael y dorf ar ol yn gorfoleddu yn hyfryd, ac yn mysg y llu, ei briod. Yn mhen ychydig dilynwyd ef gan un o'r blaenoriaid, yr hwn a ddywedai wrtho: "Y mae Mrs. Llwyd yn molianu yn ogoneddus yn y tŷ cwrdd." Meddai yntau yn ol: "Gadewch iddi; un gyfrwys iawn yw hi; nid yw byth yn gwthio ei llestr i'r môr, nac yn codi hwyl, ond pan fyddo yr awel o'i thu; ond am danaf fi, rhaid i mi forio yn aml yn erbyn y gwynt a'r tonau." Yn mhen amser gwedi hyn, os nad ydym yn camgymeryd, dangosodd y Gymdeithasfa ryw gymaint o anfoddlonrwydd i bregethwyr gymeryd eu gwragedd o gwmpas ar eu teithiau, oblegyd y teimlid anhawsder yn fynych i gael llety priodol iddynt.

Diau fod "Llwyd, o Gayo," yn meddu cymhwysder arbenig ar gyfer yr oes yr oedd yn byw ynddi. Daeth yn fuan yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd. Dywed Mr. Charles am dano yn mhellach: "Yr oedd yn mhob ystyr yn enillgar, ei berson yn hardd, ei ystymiau yn addas, ei lais yn beraidd, a'i areithyddiaeth yn barod, yn fywiog, yn hysain, ac yn weddus." Ac meddai Christmas Evans:—

"William Llwyd a'i ddalen wyrdd."

Rhaid ei fod yn areithiwr wrth natur; a phan y cysylltir hyn â chyffro ei yspryd, nid rhyfedd iddo enill enwogrwydd dirfawr fel pregethwr, a bod y wlad yn tyru i'w wrando. Er y pregethai weithiau yn argyhoeddiadol, prif destun ei weinidogaeth oedd Crist a'i iachawdwriaeth, golud gras, eangder yr addewidion, a pharodrwydd trugaredd ddwyfol i ymgeleddu y pechadur gwaelaf a thruenusaf.

"Tangnefeddwr, carwr heddwch,
Meddyg mwyn at glwyfau'r gwan;
Ond dwrn o blwm ar ben rhagrithiwr,
I'w guro i lawr, i'w gael i'r lan."

Yn ei amser bendithiwyd Cymru a nifer o ddiwygiadau grymus. Yr ydym wedi cyfeirio yn barod, yn hanes Howell Harris, at yr un a gymerodd le tua'r flwyddyn 1763, pan ddaeth hymnau Williams, Pantycelyn, allan gyntaf, ac y llanwyd y wlad a'r hyn a eilw Harris yn yspryd canu. Ymddengys iddo weled chwech o rai ychwanegol. Cymerodd un le yn 1773, yr ail yn 1780, y trydydd yn 1789, y pedwerydd yn mhen blwyddyn gwedi, sef yn 1790, y pumed yn 1804, a'r chwechfed yn 1805. Mewn cysylltiad â'r diwygiadau hyn yr oedd Mr. Llwyd yn dra gweithgar. Porthai yr ieuenctyd â didwyll laeth y Gair; fel bugail ffyddlawn gwyliai drostynt, a chadwai ddysgyblaeth fanwl arnynt. Meddai Mr. Charles: "Ei bwyll, ei arafwch, a'i ddoethineb, yn nghyd â'i ffyddlondeb yn ymdrin â chyflyrau dynion, oedd yn nodedig o werthfawr." Nid oedd neb mwy cymeradwy nag ef yn ei sir ei hun; a phrawf o'r lle uchel a feddai yn syniad ei frodyr yw y ffaith mai efe a gafodd yr anrhydedd o bregethu pregeth angladdol y Prif-fardd o Bantycelyn.

Bu yn y weinidogaeth am tua phum'-mlynedd-a-deugain. Yn ystod y cyfnod maith hwn pregethodd lawer yn yr ardaloedd o gwmpas ei gartref, heblaw, fel y darfu i ni sylwi, deithio holl Gymru lawer gwaith ar ei hyd a'i lled. Parhaodd yn boblogaidd hyd derfyn ei oes, ac ni fu ystaen ar ei gymeriad. Yn ei ddyddiau diweddaf, ystyrid ef, a hyny yn hollol deilwng, yn un o dadau y Cyfundeb. Y Sul olaf y bu byw, pregethodd yn Llanddeusant a Llansadwrn. Daeth adref yn glaf, a chwedi pum' niwrnod o gystudd gorphenodd ei yrfa, Ebrill 17, 1808, yn 67 mlwydd oed. Caniataodd yr Arglwydd iddo ei ddymuniad, sef cael marw heb fod yn hir yn sâl. Drwy ystod ei gystudd byr yr oedd ei feddwl yn hollol dawel, gan bwyso yn gyfangwbl ar haeddiant a ffyddlondeb Iesu Grist. Pan y gofynodd un o'r brodyr iddo, beth oedd yn feddwl am yr athrawiaeth y bu yn ei phregethu am gynifer o flynyddoedd. Atebai: "Yr wyf yn mentro fy mywyd arni i dragywyddoldeb."

"Yn foreu, foreu, aeth i'r winllan,
Yn lân fe weithiodd hyd brydnhawn."

Dygwyd yr hyn oedd farwol o hono, o Henllan, lle y treuliasai y rhan fwyaf o'i oes, i fynwent Cayo, ac yno rhoddwyd ef i orwedd hyd ganiad yr udgorn.

Y mae yr un sylw ag a wnaethom am Dafydd Morris yn wir hefyd am William Llwyd, sef iddo enill poblogrwydd cyffredinol yn nyddiau Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Jones, Llangan, ac y mae hyn yn brawf o dalentau llawer rhagorach na'r cyffredin, a medr arbenig i draddodi yr efengyl.

Gyda golwg ar y tri phregethwr hyn, William Davies, Castellnedd, Dafydd Morris, a William Llwyd, y mae pob lle i gasglu na chymerwyd darluniau o honynt; o leiaf, er dyfal chwilio, yr ydym ni wedi methu darganfod yr un; ond gan y meddent y fath enwogrwydd, ac felly fod pob peth cysylltiedig â hwy o'r fath ddyddordeb, yr ydym wedi gosod i mewn amryw ddarluniau o leoedd y dalient gysylltiad â hwynt.

# ATTODIAD I'R GYFROL GYNTAF

—:o:—

## Y TADAU METHODISTAIDD A'U CYHUDDWYR.

FEL y dysgwyliem, darfu i'r benod gyntaf yn *Y Tadau Methodistaidd*, ar sefyllfa foesol Cymru adeg cyfodiad Methodistiaeth, yn nghyd a'r dadleniad a wnacthom ynddi o'r modd y darfu i'r diweddar Dr. Rees, Abertawe, gam ddifynu taflen Dr. John Evans, beri cryn gyffro mewn rhai cylchoedd. Daeth cyfeillion Dr. Rees allan i'w amddiffyn; ysgrifenwyd erthyglau ar y mater yn y newyddiaduron, a phasiwyd penderfyniadau yn ein condemnio mewn cynadleddau. Teimlwn fod hyn yn galw arnom i ail gerdded y tir mewn dadl, ac ymdrechwn wneyd hyny gyda phob boneddigeiddrwydd. Ar yr un pryd, teimlwn ei fod yn gorphwys arnom i wneyd cyfiawnder a choffadwriaeth Sylfaenwyr y Cyfundeb, y rhai sydd wedi huno er ys ugeiniau o flynyddoedd bellach, ac wedi gadael eu cymeriadau dysglaer, yn ogystal â ffrwyth eu llafur, ar ol i ni, eu holynwyr, yn etifeddiaeth werthfawr.

Nid anfuddiol adgofio ein darllenwyr o'r modd y cychwynodd y ddadl. Dechreuodd trwy i Dr. Rees, yn ei *History of Protestant Nonconformity in Wales*, gyhuddo y Tadau Methodistaidd o gamddarlunio yn wirfoddol sefyllfa foesol y Dywysogaeth, naill ai o ragfarn at yr Ymneillduwyr, neu ynte o awydd am gael iddynt eu hunain yr holl glod o efengyleiddio Cymru. Fel na byddo unrhyw amheuaeth ar y pen hwn difynwn ei eiriau: "*It seems that the early Methodists, either from prejudice against their Nonconforming brethren, or a desire to claim to themselves the undivided honour of having evangelized the Principality, designedly mispresented or ignored the labours of all other sects. . . Mr. W. Williams, of Pantycelyn, in his elegy on the death of Mr. Howell Harris, printed in 1773, asserts, without any qualifying remark, that all Wales was enveloped in thick darkness*" (tudal. 279, ail argraffiad). Cyhuddiad mwy difrifol na hwn nis gellid ei ddwyn yn erbyn unrhyw ddosparth o bobl. Gesyd y Tadau Methodistaidd allan fel dynion dibarch i wirionedd, llawn o ymffrost ac o awydd am wag-ogoniant, gan fod wedi ymlenwi o genfigen a rhagfarn yn erbyn eu brodyr Ymneillduol. Gyda golwg ar hyn, meddai un Ysgrifenydd, "Temtiwyd y Doctor i ysgrifenu eu bod wedi camgyfleu pethau yn fwriadol." Temtio dyn, yn ol ystyr gyffredin yr ymadrodd, yw ei fod yn cael ei orddiwes gan brofedigaeth sydyn, yr hon yn aml a'i gorchfyga, ac a bâr iddo, mewn byrbwylldra, gyflawni gweithred y bydd yn edifar ganddo am dani yn ol llaw. Ond, yn sicr, nid dan amgylchiadau felly y dygodd Dr. Rees ei gyhuddiad yn erbyn y Methodistiaid. Daeth yr argraffiad cyntaf o'i lyfr allan yn y flwyddyn 1861; ni ddygwyd yr ail argraffiad allan hyd y flwyddyn 1883, felly, cafodd y Doctor ddwy-flynedd-ar-hugain i feddwl uwchben yr hyn oedd wedi ysgrifenu, a phe y teimlai ei fod wedi gwneyd unrhyw gamwri, i wella ei eiriau. Dywed, yn ei ragymadrodd i'r ail argraffiad, ei fod wedi ceisio peidio ysgrifenu brawddeg i ddolurio teimlad neb; ond y mae y cyhuddiad gwaradwyddus yn erbyn y Tadau Methodistaidd yn cael ei gadw i mewn; parheir i'w dal ger bron y byd fel pobl ymffrostgar, trachwantus am glod, ac yn ddigon diegwyddor i bardduo cymeriad eu cenedl eu hun er mwyn gwag-ogoniant; ac acth Dr. Rees i'w fedd gan adael yr ystaen ddu hon ar gymeriad Sylfaenwyr y Cyfundeb. Pa ryfedd fod Methodistiaid y dyddiau presenol yn teimlo yn ddolurus, ac, i raddau, yn ddigllawn? Os oes unrhyw chwerwder wedi cael ei ddwyn i mewn i'r ddadl, ac os oes geiriau caledion wedi cael eu llefaru a'u hysgrifenu, ceir y rheswm am hyny yn yr ymadroddion celyd ydym wedi ddifynu.

Er mwyn edrych ar y pwnc yn gymharol gyflawn, cymerwn i fynu o un i un y gwahanol ddadleuon, â pha rai y ceisir cyfiawnhau ymosodiadau Dr. Thomas Rees ar y Methodistiaid. I gychwyn, honir na ddywedodd erioed fod Cymru wedi cael agos ei chwbl grefyddoli cyn i'r Methodistiaid gyfodi, a honir fod y ddadl hon yn tynu y tir yn hollol odditan ein traed. Ein geiriau ni, yn *Y Tadau Methodistaidd*, ydynt fod Dr. Rees yn honi fod rhanau helaeth o'r *Deheudir* wedi cael agos eu llwyr feddianu gan yr Ymneillduwyr cyn cyfodiad y Cyfundeb Methodistaidd (gwel tudal. 10 a 14). Dyna a ddywedasom, "yn ei hyd, a'i led, a'i drwch," ac yr ydym yn glynu wrtho. Y mae yn wir nad yw Dr. Rees yn defnyddio y cyfryw eiriau, ond dyna y casgliad anocheladwy y rhaid dod iddo oddiwrth yr hyn a ysgrifena. Gwna rif yr Ymneillduwyr yn Nghymru yn y flwyddyn 1715, yn ol taflen Dr. John Evans, yn haner can' mil (*History of Nonconformity*, tudal. 266); dywed yn mhellach (tudal. 279), nad oedd Ymneillduwyr Gogledd Cymru, ar y pryd, ond prin un ran o ugain o holl Ymneillduwyr y Dywysogaeth; felly, rhaid fod rhif Ymneillduwyr y Deheudir, o leiaf, yn saith-mil-a-deugain a phum' cant. Ac yn ol cyfrifiad Dr. Rees, rhif holl drigolion y Dywysogaeth yr adeg hono oedd pedwar can' mil, o ba rai yr oedd dwy ran o dair yn perthyn i'r Dê. Yr ydym yn teimlo yn gwbl sicr fod ei ffigyrau yn anghywir; fod poblogaeth Cymru yr adeg hono yn nes i dri chan' mil nac i bedwar can' mil; a chan nad oedd y fath wahaniaeth y pryd hwnw ag sydd yn awr rhwng poblogaeth y Deheudir ag eiddo Gwynedd, y mae yn amheus genym a oedd dau can' mil o drigolion yn Neheudir Cymru yr adeg hono. Ond hyd yn nod pe y cymerem gyfrif y Doctor o boblogaeth Cymru fel un cywir, ni a welwn ei fod yn gwneyd Ymneillduwyr y Dalaeth Ddeheuol yn agos i un ran o bump o'r holl boblogaeth. Nis gallai hyn fod, heb i ranau helaeth o'r

Deheudir fod wedi cael eu meddianu yn bur llwyr gan Ymneilleuaeth.

Ond daw ein hymresymiad yn fwy eglur os eymerwn rai o'r gwahanol leoedd ar wahan. Yn ol taflen Dr. John Evans, yr oedd cynulleidfa Llanafan a Llanwrtyd yn rhifo wyth cant. Yr ydym yn barod wedi datgan ein barn fod y rhif hwn yn ormod; ond mae Dr. Rees, trwy y cyfnewidiad a wnaeth yn y daflen, yn dyblu y rhif yma, ac yn gwneyd cynulleidfa Llanafan a Llanwrtyd yn un-cant-ar-bymtheg. Cymerer yn ganiataol fod Llanafan a Llanwrtyd yn golygu holl Gantref Buallt, o fynydd Abergwesyn yn y gorllewin, hyd Llanfair-muallt a Rhaiadr-ar-Wy yn y dwyrain, ai tybed fod un-cant-ar-bymtheg o drigolion i'w cael yn yr holl fro fynyddig hono ar hyny o bryd? Pa faint yn ychwaneg nag un-cant-ar-bymtheg sydd yn mynychu moddion gras yn Nghantref Buallt yn bresenol, pan y mae y fath gynydd wedi cymeryd lle yn y boblogaeth tuag ardaloedd Llanwrtyd, a Llangamarch, a'r cyffiniau? Ond i adael hyn, nid ydym yn gweled y posiblrwydd i neb ysgoi y casgliad, os oedd un-cant-ar-bymtheg o Ymneillduwyr yn Nghantref Buallt yn y flwyddyn 1715, y rhaid fod y darn hwnw o'r wlad, beth bynag, wedi cael ei lwyr feddianu gan Anghydffurfiaeth. Ac eto, tuag ardaloedd Llanfair-muallt a Rhaiadr yr erlidiwyd Howell Harris waethaf, ac y cafodd ei gamdrin fwyaf. Pa le yr oedd yr un-cant-ar-bymtheg Ymneillduwyr y pryd hwnw? Cymerer eto y cyfrifon a roddir i Sir Gaerfyrddin. Rhifai Ymneillduwyr Caerfyrddin a Bwlchnewydd, yn ol Dr. John Evans, 600; yn ol Dr. Rees, 1,200; Ymneillduwyr Henllan, yn ol Dr. John Evans, 700; yn ol Dr. Rees, 1,400; Ymneillduwyr Rhydyceisiaid, Moor, ac Aberelwyn, yn ol Dr. John Evans, 800; yn ol Dr. Rees, 1,600; Ymneillduwyr Llanedi, Crugybar, a Chrugymaeu, yn ol Dr. John Evans, 600; yn ol Dr. Rees, 1,200; Ymneillduwyr Capel Seion a Lletyhawddgar, yn ol Dr. John Evans, 500, yn ol Dr. Rees, 1,000; ac Ymneillduwyr Llanybri, yn ol Dr. John Evans, 400; ac yn ol Dr. Rees, 800. Os cymerir cyfrif Dr. Rees o Ymneillduwyr y lleoedd uchod, yn y flwyddyn 1715, fel un cywir, a chofier eu bod yn ardaloedd amaethyddol, heb ond un dref o bwys rhyngddynt oll, ai tybed nad rhaid casglu fod Ymneillduaeth wedi eu meddianu yn bur llwyr? Yn Sir Aberteifi drachefn, rhoddir rhif Ymneillduwyr y Cilgwyn, a phump neu chwech o leoedd eraill, yn 1,000 gan Dr. John Evans; ac yn 2,000 gan Dr. Rees; ac ystyried fod hyn yn golygu yr holl randir o Llwynpiod i Llanbedr-pont-Stephan, rhaid fod Ymneillduaeth wedi ei meddianu i raddau mawr, pe y byddai cyfrifiad Dr. Rees yn gywir. Ac ychwaneg, yn ol Dr. Rees, bu y cyfnod cydrhwng adeg cyfrif Dr. John Evans yn 1715 a chyfodiad Methodistiaeth, yn adeg o lwyddiant anarferol yn nglyn âg Ymneillduaeth yn ardaloedd Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin. Dywedir i gant gael eu hychwanegu at gymunwyr Capel Isaac yn ystod yr amser hwn; fod eglwysi Crugybar a Chrofftycyff wedi cynyddu yn ol yr un raddeg; ac i dros ddau cant gael eu hychwanegu at gymunwyr Llwynpiod a'r Cilgwyn. Nis gallai yr ychwanegiadau mawrion hyn at rif yr aelodau cyflawn gymeryd lle, heb fod cynydd mawr wedi cymeryd lle yn rhif y gwrandawyr. Ychwaneger y cynydd hwn at y rhif a roddir gan Dr. Rees yn y flwyddyn 1715, a rhaid ei fod yn edrych ar ranau helaeth o'r De agos wedi cael eu llwyr feddianu gan Ymneillduaeth cyn i'r Methodistiaid wneyd eu hymddangosiad.

Credwn yn sicr ein bod wedi profi yr hona Dr. Rees yn ei lyfr yr hyn a briodolwn iddo parthed agwedd Cymru adeg cyfodiad Methodistiaeth. Pa fodd bynag, nid oes neb yn amheu ei fod yn honi fod y wlad wedi cael ei hefengyleiddio i raddau llawer helaethach nag a ddarlunia y Tadau Methodistaidd. Oni bai am hyn, ni buasai anghytundeb rhyngom âg ef. Dywed yn bendant iddynt gamddarlunio agwedd y Dywysogaeth, a gwneyd hyny yn wirfoddol. Am y rhan olaf o'r cyhuddiad, ni ddylasai gael ei ddwyn ond tau argyhoeddiad difrifol o wirionedd, a dylasai gael ei brofi hyd y carn. Ond nid yw y Doctor yn gweled yn dda gyflwyno i ni rith o brawf. Dysgwylia i ni ei dderbyn ar ei air noeth ef; "*It seems*" yw yr oll a ddywed gyda golwg arno. Da genym weled yr Annibynwyr yn bresenol yn taflu y rhan hon o'r cyhuddiad dros y bwrdd yn ddiseremoni, gan ddatgan eu gofid iddi gael eu hysgrifenu, a'i galw yn "fryntwaith." A bryntwaith yn ddiau ydyw; nis gallesid ysgrifenu dim mwy annheilwng.

Ond cyduna Dr. Rees, a'i amddiffynwyr, i ddadleu ddarfod i'r Tadau Methodistaidd gamddarlunio sefyllfa foesol ac ysprydol y wlad, a gwnant hyn yn gyfangwbl ar sail damcaniaethau a thybiau nas gellir eu profi. Y mae damcaniaethau a dychymygion yn werth rhywbeth weithiau, yn absenoldeb tystiolaeth bendant ac uniongyrchol; ond pan y ceir y cyfryw dystiolaeth, nid ydynt yn werth dim. Y mae owns o dystiolaeth gan lygad-dyst, yn pwyso yn drymach na thunell o ddamcaniaeth. Ac ar sail tystiolaeth felly, tystiolaeth dynion yn adrodd yn syml yr hyn a welent ac a glywent, yr ydym yn dadleu fod sefyllfa foesol y Dywysogaeth yn ddifrifol o druenus pan y cododd Duw y Methodistiaid i fynu. Goddefer i ni alw sylw at y tystiolaethau sydd genym. Y gyntaf ydyw Dydd-lyfr Howell Harris. Ysgrifenai efe yn fanwl bob nos ddygwyddiadau y diwrnod; cofnodai y golygfeydd llygredig a ganfyddai, y ffeiriau annuwiol oeddynt yn cael eu cynal, tywyllwch ysprydol dudew y bobl a gyfarfyddai, a'r ymosodiadau ffyrnig a wnelid arno gan greaduriaid meddw a rheglyd, y rhai a geisient ei fywyd. Yn sicr, nid cronicio dychymygion yr ydoedd, na chyfansoddi ffughanes, ond adrodd yn syml yr hyn a welodd â'i lygaid, a glywodd â'i glustiau, ie, ac a deimlodd â'i gorph mewn gwaed. Pe y credem am dano, ar ol bod yn gyfrwng dylanwadau ysprydol cryfion, na theimlwyd eu cyffelyb hyd yn nod yn Nghymru ond yn anaml, y rhai a harent i oferwyr annuwiol grynu fel dail y coed yn ei bresenoldeb, y gallai fyned yn uniongyrchol i'w ystafell, ac ysgrifenu anwiredd pendant ar ei Ddydd-lyfr, byddem wedi darfod ag ef am byth. Cofier na fwriedid y Dydd-lyfr hwn i'w ddarllen gan neb ond efe ei hun; yn wir, ni ddarllenwyd mo hono gan neb arall am ugeiniau o flynyddoedd wedi ei farw. Y mae llythyr ar gael yn awr yn Nhrefecca oddiwrth berson yn Lloegr, yn ceisio gan Harris ysgrifenu hanes y Diwygiad. Gwrthoda yntau yn bendant, gan roddi fel rheswm am hyny y byddai y cyfryw hanes, o'i du ef, yn rhy debyg i wag ymffrost.

Y dystiolaeth nesaf yw eiddo Williams Pantycelyn. Darlunia ef gyflwr gresynus y wlad mewn lliwiau cryfion. Yr ydym yn methu deall paham y mae yr Annibynwyr mor llawdrwm ar y Bardd o Bantycelyn, ac mor ddrwgdybus o hono, gan dybio na chaent chwareu teg ar ei law. Yn eu mysg hwy y cafodd ei ddwyn i fynu; diacon parchus yn eglwys Annibynol Cefnarthen oedd ei dad, ac yn

ol pob tebyg Annibynwraig zêlog a fu ei fam hyd ddydd ei marwolaeth, er i'w mab droi yn Fethodist. Iddo ef byddai diraddio yr Ymneillduwyr yn debyg i aderyn yn aflanhau ei nyth ei hun. Ac y mae yn anmhosibl credu y byddai yr awen hono, a esgynai mor uchel i'r ysprydol, nes bron cyrhaedd y goleuni pur lle y mae Duw yn cartrefu, yn ymostwng i gamddarluniad ac anwiredd.

Y drydedd dystiolaeth yw eiddo Charles o'r Bala, tad Cymdeithas y Beiblau, a thad Ysgol Sabbothol Cymru. Y mae y darluniad a rydd ef yn y *Drysorfa Ysprydol* o gyflwr moesol y Dywysogaeth pan yr ymddangosodd Methodistiaeth yn nodedig o ddu. Yr oedd Mr. Charles yn ŵr mor bwyllog, mor gymedrol ei eiriau, ac mor rhydd oddiwrth bob math o eithafion, fel nad yw hyd yn nod Dr. Rees yn meiddio ei gyhuddo ef o gamddarlunio. Ond dywed mai Gogledd Cymru a ddarluniai. Nage, yn gyfangwbl, yn sicr. Cawsai Mr. Charles ei ddwyn i fynu hyd nes yr aeth i Rydychain yn y Dê, a hyny o fewn ychydig filltiroedd i Gaerfyrddin, lle yr oedd athrofa gan yr Ymneillduwyr, ac yn yr hwn le mewn undeb â Bwlchnewydd, yr oedd cynulleidfa o Ymneillduwyr, yn rhifo 1,200, yn ol Dr. Rees, yn y flwyddyn 1715. Rhaid felly y gwyddai Mr. Charles yn dda am ansawdd grefyddol y Dê yn ogystal a'r Gogledd. Tystiolaeth arall y gallem gyfeirio ati ydyw eiddo Robert Jones, Rhoslan, yn *Drych yr Amseroedd*, yr hwn lyfr sydd yn nodedig o ddyddorol, ac yn rhoddi lle mawr i waith y Tadau Ymneillduol oeddynt yn byw cyn i'r Methodistiaid ymddangos.

Os dadleuir mai Methodistiaid yw yr oll o'r tystiou hyn, ac felly nad ydynt i'w credu, gallwn ddwyn yn mlaen gwmwl o dystion yn sicrhau yr un peth, heb fod yn Fethodistiaid. Dyna un, Griffith Jones, Llanddowror. Cawsai yntau ei ddwyn i fynu gyda'r Ymneillduwyr; i gapel Annibynol Henllan yr arferai fyned i wrandaw gyda ei rieni pan yn ieuanc, ac y mae yn anhawdd credu y gwnelai gam a'r enwad mewn modd yn y byd. Dywedai efe fod anwybodaeth y wlad yn gyfryw, fel pan y caffai gynulleidfa o driugain neu bedwar ugain yn nghyd, na fyddai ond ryw dri neu bedwar yn medru Gweddi yr Arglwydd, nac yn deall pwy oedd eu Tad yr hwn oedd yn y nefoedd. A ellir dychymygu am anwybodaeth mwy dybryd? Faint o grefydd allasai fod yn mysg gwerin felly? Tyst arall yw y Parch. John Thomas, gweinidog yr Annibynwyr yn y Rhaiadr. Y mae y darluniad a rydd ef o gyflwr Cymru lawn mor ddu ag eiddo Williams, Pantycelyn. Ac yn sicr, ni fwriadai leihau clod yr enwad i'r hwn y perthynai efe ei hun. Yr ydym yn *Y Tadau Methodistaidd* befyd wedi difynu tystiolaethau Dr. Erasmus Saunders, ac eiddo Mr. Pratt, y rhai ydynt yn hollol i'r un perwyl. Yn awr, yr ydym yn dadleu fod y cyfangorph yma o dystiolaethau yn gyfryw nas gellir eu troi yn ol. Nis gellir dychymygu am brawf cryfach; y mae can gadarned ag unrhyw brawf yn Euclid. Y mae nifer mawr o dystion yn dwyn tystiolaeth i'r hyn ydoedd o fewn cylch eu sylwadaeth, a hyny i raddau mawr yn annibynol ar eu gilydd, ac eto y cyfryw dystiolaeth yn cydredeg mewn cysondeb; y mae hyn, meddwn, yn ffurfio y math uchaf o brawf. Ofer ceisio ei wrthbrofi â damcaniaethau. Cyn y gellir ysgubo i ffwrdd y prawf ydym wedi ei ddwyn yn mlaen, rhaid cael nifer mwy o dystion, gyda mwy o sicrwydd o'u geirwiredd, i dystiolaethu i'r gwrthwyneb. Ond nid yw Dr. Rees na neb o'i amddiffynwyr wedi dwyn yn mlaen gymaint ag un tyst felly.

Teimla Dr. Rees ei hun fod y tystiolaethau am gyflwr gresynus Cymru, adeg cyfodiad Methodistiaeth, yn rhy gryfion i'w gwrthsefyll, ac felly, darpara loches arall i ddianc iddi, trwy ddweyd iddynt adael rhanau helaeth o'r wlad yn hollol yn yr un cyflwr. Defnyddia un o'i amddiffynwyr ymadrodd cryfach fyth, a dywed y buasai y tystiolaethau uchod ydym wedi ddifynu yn wir agos oll yn mhen can' mlynedd wedi i Fethodistiaeth gychwyn. Y mae yn anhawdd genym dybio iddo feddwl y frawddeg hon cyn ei hysgrifenu. Os oes ystyr i eiriau, golyga ddarfod i'r diwygiad Methodistaidd basio heb adael nemawr ddim o'i ôl ar y wlad. Wedi i Howell Harris daranu, ac i Daniel Rowland gynhyrfu, ac i Williams, Pantycelyn, ganu ei emynau bendigedig, dywedir iddynt farw gan adael Cymru agos yn hollol fel yr oedd! Dianc o loches i loches yw peth fel hyn. I gychwyn, honir nad oedd y nos mor dywyll ag y myn y Methodistiaid; wedi gorfod cydnabod fod y nos yn ddu dros ben, dywedir nad oedd nemawr ddim goleuach wedi i'r Methodistiaid lafurio yn galed am haner cant o flynyddau. Tybed fod hyn yn wir? A ellid cael cynulleidfa o bedwar ugain mewn unrhyw ardal, wedi i'r Methodistiaid fod yn cynhyrfu am haner can' mlynedd, ac yn pregethu y gwirionedd i'r bobl, yn mysg pa rai na fyddai ond pedwar yn gwybod pwy oedd eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd? Tybed fod y llygredigaethau mor uchel eu pen, y drygfoes mor amlwg, y cynulliadau annuwiol mor lliosog, a'r wlad mor ddifater gyda golwg ar grefydd? Beth mewn difrif a wnaeth y Methodistiaid yn ystod yr haner can' mlynedd hyn? A pheth a wnaeth yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, y rhai oeddent ill dau wedi cyfranogi yn helaeth o dân y diwygiad, yn ystod y tymhor hwn? Ai y nesaf peth i ddim? Os felly, cyfyd y gofyniad yn naturiol, Gan bwy y newidiwyd moesau y trigolion? Pwy gondemniodd y cyfarfodydd llygredig, yr halogi Sabbathau, y difrawder gyda golwg ar wrando yr efengyl, a'r holl ddrygfoes, gyda'r fath nerth ac angerddoldeb, nes eu gwneyd yn anghymeradwy yn ngolwg y werin? Canmolir Howell Harris a Daniel Rowland fel dynion anghyffredin; cyfeirir atynt fel dynion o ysprydolrwydd a brwdfrydedd eithriadol; cydunir fod pellder mawr rhyngddynt fel Diwygwyr â bron bawb o'u cydoeswyr yn Nghymru, a'u bod wedi eu tanio yn llwyrach; ac eto, dywedir y buasai y desgrifiad a roddwyd am ddrygfoes y werin Gymreig cyn i'r dynion anghyffredin hyn ddechreu llafurio yn wir agos oll wedi iddynt fod ar y maes am haner can' mlynedd! Os felly, cyfododd dynion cryfach na hwy ar eu hol, ac anrhaethol mwy llwyddianus. Y mae genym hawl i ofyn pwy oedd yr enwogion hyn? Beth oedd eu henwau? Ac yn mha le yr oeddynt yn preswylio? Nid ydym yn gwybod ddarfod i neb yn Nghymru, heblaw Daniel Rowland, dynu tair mil o gymunwyr i bentref anhygyrch bob Sul pen mis, o eithaf Môn yn y Gogledd hyd eithaf Morganwg yn y Dê, a hyny am haner can' mlynedd! Ac eto dywedir iddo adael y wlad agos mor annuwiol ag y cafodd hi. Rhaid i ni addef nad ydym yn credu yr honiad hwn. Y mae yn rhedeg yn ngwddf pob tystiolaeth sydd genym, ac yn groes i farn gyffredinol y Bedyddwyr, yr Eglwyswyr, a'r Annibynwyr eu hunain, heblaw y Methodistiaid. Ni wnawn ei dderbyn ond ar sail y profion cadarnaf, ac nid oes rhith o brawf wedi cael ei roddi eto.

Y gwir yw, i gyfodiad Methodistiaeth ddwyn

horwydd. Nid yw y Parch. John Hughes, yn *Methodistiaeth Cymru*, ac nid ydym ninau yn ein Llyfr wedi ysgrifenu gair am gyflwr Ymneillduwyr Cymru yn flaenorol i'r diwygiad, nad yw yn cael ei gydnabod yn llawn yn y difyniad uchod. Y mae darlun Dr. Thomas o'u cyflwr mor ddu a'r un a dynwyd. Os nad yw egwyddorion marwolaeth i'w gweled yn amlwg yn y pethau a noda efe, rhaid i ni gyfaddef nad ydym yn adnabod arwyddion angau. Y peth cyntaf sydd gan amddiffynwyr Dr. Rees i'w wneyd, os ydynt am lynu wrth eu dadl, yw cywiro *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, a rhoddi Dr. John Thomas, Liverpool, ar yr iawn.

Yn awr, deuwn at daflen Dr. John Evans, ac yn y fan hon y gorwedd cnewullyn y ddadl. Rhoddasom ein rhesymau dros dybio nad yw y daflen yn un y gellir rhoddi ymddiried llwyr ynddi; ac os yw yn cyfeiliorni, ei bod yn gwneyd hyny yn ffafr Ymneillduaeth. Nid oes neb wedi cyffwrdd a'r un o'r rhesymau hyny; felly, rhaid i ni eu hail-adrodd.

(1) Caria yr ystadegau ar eu gwyneb amddifadrwydd o fanylwch; crynhoir amryw eglwysi yn nghyd; wedi enwi dwy neu dair, eawn yn fynych "&c." yn dynodi fod cyfrif eglwysi eraill, na roddir eu henwau, yn cael ei osod i fewn. Ceir un eglwys a chynulleidfa yn cael eu harddangos fel yn wasgaredig dros wlad ddeugain milldir o hyd wrth ugain o led. Efallai y gofynir pa wahaniaeth a wna hyn? Y mae yn gwneyd yr holl wahaniaeth; dengys yr amddifadrwydd manylwch mai cyfrifon ar antur ydynt; a thuedd pob cyfrif felly yw chwyddo y rhif yn ormodol. Er prawf o hyn, difynwn gyfran o erthygl olygyddol y *Tyst* am Medi 29ain, 1882, ac yn sicr fe gymer yr Annibynwr mwyaf zêlog yr hyn a ddywed y *Tyst* ar bwnc o'r fath fel gwirionedd. Y mae cyfeiriad cyntaf y sylwadau at y cyfrifon a gasglai Dr. Rees ar y pryd; ond y maent lawn mor gymhwysiadol at gyfrifon Dr. John Evans. "Drwg genym weled Dr. Rees yn dywedyd," medd y *Tyst*, "na fwriada gyhoeddi cyfrifon pob eglwys ar wahan, ond cyfanswm pob sir. Nis gwyddom a ydyw yn tybied y bydd yn debycach o gael cyfrifon pob lle wrth ddweyd na fwriedir cyhoeddi cyfrifon pob eglwys ar wahan. Buasem ni yn tybied yn amgen, ac ychydig o bwys a roddem ar gyfrifon na ellir eu cyhoeddi yn y manylion. Ychydig iawn o werth a osodwn ar ystadegaeth yn y cyfanswm, oblegyd heb y manylion nis gellir profi eu cywirdeb; ac nid yn meddiant un dyn y dylai y manylion hyny fod, ond dylent fod yn gyfryw ag y gallo y rhai a'u hamheuo eu profi. . . Y mae pob ystadegaeth a gymerir ar antur yn agored i fyned yn mhell iawn oddiwrth y nod, ac, fel y dywedasom eisioes, nid oes dim y mae dynion yn camgymeryd yn fwy ynddynt na rhif eu cynulleidfaoedd. Byddwn yn tynu 25 y cant oddiwrth gyfrifon a gymerir felly, a gellir yn aml gymeryd 50 y cant, a bod ar yr ochr ddyogelaf." Drachefn cawn: "Nid oes dim mor gamarweiniol a'r cyfrif o eglwysi a chynulleidfaoedd a gymerir ar antur." Felly y dywed y *Tyst*, ac yr ydym yn cyduno yn hollol. Ychydig o werth sydd mewn ystadegaeth yn y cyfanswm; cyn y gellir ymddiried ynddi, rhaid cael y manylion. Nid yw taflen Dr. John Evans yn rhoddi y manylion; ac yn ol y *Tyst*, dyogel, o leiaf, fyddai cymeryd 25 y cant oddiwrth y cyfrif a roddir.

(2) Amcan yr ystadegaeth a gymerodd Dr. John Evans oedd dangos pa mor gryf oedd Ymneillduaeth yn y deyrnas ar y pryd, er mwyn cynyrchu ofn yn yr erlidwyr. Ac er mwyn gwneyd hyn, yr oedd yn rhaid dangos y cynulleidfaoedd mor lliosog ac mor barchus ag oedd bosibl. Pe y rhoddid y cyfrif yn llai nag ydoedd, ni fuasai yn ateb y pwrpas; yn wir, buasai yn gwrthweithio y cyfryw bwrpas, ae yn rhoddi arf peryglus yn llaw y gwrthwynebwyr. Am y rheswm yma y dywedir fod nifer penodol o ynadon, ac o rai yn meddu pleidlais yn y sir ac yn y dref, yn perthyn i'r gwahanol gynulleidfaoedd. Oni bai fod yr amcan hwn mewn golwg, buasai y fath ddynodiad yn brawf o falchder dirmygus. Ymddengys i ni felly yn hollol sicr na chyfrifwyd y cynulleidfaoedd yn llai nag oeddynt; ac os oes rhyw gymaint o wyro yn bod, fod y gwyriad o'r tu arall.

Addefir ddarfod i Dr. Rees gyfnewid penawd prif golofn taflen Dr. John Evans, gan osod yn lle "*number of hearers*," "*average attendance*." "Cyfaddefwn yn rhydd," meddai un Annibynwr galluog, "fod y penawd wedi ei gyfnewid." Nis gellid gwadu hyn, oblegyd y mae y daflen ar glawr a chadw yn llyfrgell Dr. Williams, yn Llundain, ac wedi ei photographio yn *Y Tadau Methodistaidd*. Y mae y cyfnewidiad a wnaed yn un mor bwysig, fel y mae yn newid holl ystyr y golofn; trwy rinwedd y *sleight of hand* yma y mae cynulleidfa Dyffryn Honddu yn chwyddo o 150 i 300; cynulleidfa Tredwstau o 250 i 500; ac felly trwy y golofn o'r pen i'r gwaelod. I'n bryd ni y mae hyn yn drosedd llenyddol enbyd; nis gallwn ddychymygu am amryfusedd gwaeth. Dysgwyliem yn sicr y byddai ein brodyr parchus, yr Annibynwyr, er eu mwyn eu hunain, yn datgan eu gofid oblegyd i Dr. Rees ymostwng i gyflawni gweithred o'r fath. Ond cawsom ddysgwyl yn ofer. Cydnabyddant y buasai yn dda ganddynt pe buasai y Doctor wedi egluro paham y gwnaeth y cyfnewidiad; ond nid oes air na sillaf yn dynodi galar oblegyd y weithred. Yn wir, ceisir ei gyfiawnhau a'i wyngalchu; ond y mae hyny yn anmhosibl heb allu profi ar yr un pryd nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng gwirionedd a ffalsder.

Goddefer i ni edrych ar y rhesymau a roddir paham y darfu i Dr. Rees, yn lle rhoddi penawd Dr. John Evans, "amcanu dyfeisio penawd" o'i eiddo ei hun, a fuasai yn fynegiad tecach o gynwys y golofn. "Nid ydym yn meddwl ei fod wedi llwyddo," meddai un o'i amddiffynwyr, "ond yn hytrach wedi methu." Rhaid mai ystyr hyn yw fod cyfnewidiad Dr. Rees yn gamarweiniol. Y mae yr Ysgrifenydd dywededig am gynyg cyfnewidiad arall yn y penawd, sef rhoddi "*known adult adherents*," yn lle "*number of hearers*." Yn enw pob synwyr, paham y ceisir gwthio tybiaethau disail i fewn i'r daflen? Ai ni wyddai Dr. John Evans, a'r rhai a gydlafurient âg ef yn y gorchwyl o gasglu y cyfrifon, pa benawd i roddi uwchben gwahanol golofnau eu taflen, yn well na phobl sydd yn byw agos i ddau cant o flynyddoedd ar eu holau? Ond yn awr at y rhesymau dros "ddyfeisio penawd." (1) Y buasai "*number of hearers*" yn sicr o greu camargraff i feddyliau darllenwyr Cymreig, yn gymaint ag mai rhai heb fod yn aelodau a feddylia y Cymry fynychaf wrth wrandawyr. Nid oes rhith o brawf fod y Cymry yn edrych ar y term "gwrandawyr" mewn goleu gwahanol i'r Saeson. A phe mai hyna oedd amcan Dr. Rees, ni fuasai raid llurgunio y daflen er mwyn ei gyrhaedd; gallesid rhoddi nodiad ar y terfyn fod "*hearers*" Dr. John Evans yn cynwys y gwrandawyr oeddynt yn aelodau, a'r rhai nad oeddynt yn aelodau. Buasai hyn yn syml ac yn onest. (2) Nad yw colofn Dr. John Evans yn rhoddi holl nerth Ymneillduaeth yn Nghymru ar y

pryd. Dychymygol hollol yw y rheswm hwn eto; ymddengys i ni, fel yr ydym wedi dangos yn barod, ei bod yn debycach o fod yn gorgyfrif nag yn rhoddi cyfrif rhy fychan. Honir i Dr. John Evans adael allan lu o weision a morwynion a phlant. Yr unig sail o blaid y dybiaeth yw, fod dyblu y rhai a ddesgrifir fel boneddwyr, rhydd-ddeiliaid, crefftwyr, a llafurwyr, yn rhoddi mwy na'r cyfanswm mewn dwy o'r eglwysi, ac mewn pedair o rai eraill fod eu dyblu yn dyfod yn agos iawn at y cyfanswm. Ond yr eglurhad ar hyn yw, nid fod y gweision a'r morwynion wedi cael eu gadael allan, ond nad oeddynt, fel rheol, yn cydymdeimlo âg Ymneillduaeth; yr oeddynt fel dosparth heb eu crefyddoli. Fel y dywed Dr. Thomas, Liverpool, rhai "mewn amgylchiadau bydol cysurus," oedd yr Ymneillduwyr; "yr oedd corph mawr gwerin y genedl yn aros mewn anwybodaeth dybryd." Buasai Dr. John Evans yn cyfrif y gwas a'r forwyn yn o gystal a'r boneddwr a'i foneddiges, pe buasai y cyfryw yn arfer gwrandaw gyda'r Ymneillduwyr, ond nid oeddynt. Gwraidd camgymeriad amddiffynwyr Dr. Rees yn y fan yma yw cymeryd yn ganiataol fod Ymneillduwyr yr adeg hono yn gyffelyb o ran sefyllfa fydol i Ymneillduwyr ein dyddiau ni. Y mae mor amlwg a'r haul i ni y cyfrifid y plant. Dyna y rheswm dros ddyblu, ac weithiau treblu, y rhai y rhoddir desgrifiad o'u sefyllfa yn y cyfanswm. Ie, hyd yn nod pe y gellid dangos nad yw taflen Dr. John Evans yn rhoddi holl nerth yr Ymneillduwyr ar y pryd, ni fuasai gan Dr. Rees yr hawl leiaf i ddyblu y rhif. Addefir fod ei *average attendance* yn gamarweiniol, yn gystal ag yn anghywir. Y mae ei sail yn bwdr. Os eir i gyfnewid, gellir treblu lawn cystal a dyblu. Yr un sail fyddai i'r naill a'r llall. Yn wir, y mae Dr. John Thomas, Liverpool, yn taflu dyfaliaeth Dr. Rees dros y bwrdd yn ddiseremoni. "Y mae Dr. Rees," meddai, "yn dyblu y nifer, ac yn gosod rhifedi Ymneillduwyr Cymru yn 50,000; ond yn absenoldeb unrhyw reol ddyogel i gyfrif, gwell genym beidio dyfalu" (*Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, cyf v., tudal. 456). Hollol wir; unwaith yr ymwrthodir a'r daflen, gan ychwanegu ati, neu dynu oddiwrthi, yr ydym yn yr anialwch, yn nghanol y niwl. Gallem feddwl mai tua 30,000 y cyfrifai Dr. Thomas Ymneillduwyr y dyddiau hyny. Y mae yn sicr pe y gwybuasai mai nid *average attendance* sydd yn y golofn, ond *number of hearers*, y buasai yn gosod y rhif gryn lawer yn is.

Eithr, a chaniatau y tybiai Dr. Rees fod taflen Dr. John Evans yn cyfrif Ymneillduwyr y Dywysogaeth yn is nag oeddynt, nid oedd ganddo hawl i wau ei dybiaethau a'i ddychymygion i mewn iddi, gan gyflwyno *falsified copy* o honi i'r byd yn lle copi gwirioneddol. Ei ddyledswydd ddiamheuol fuasai gosod y *document* i mewn yn ei lyfr fel yr ydoedd, air am air, a ffugr am ffugr, heb ychwanegu at, na thynu oddiwrth; ac os meddyliai ei bod yn ddiffygiol mewn unrhyw gyfeiriad, ei chyflenwi ar y diwedd, gan ddangos yn glir i'r darllenydd mai cyflenwad ydoedd, a nodi ei resymau dros geisio ei diwygio. I hanesydd cywir nid oedd unrhyw gwrs arall yn agored. Yr oedd llurgunio *document* o'r fath bwysigrwydd, a'i chyhoeddi felly i'r byd, heb gymaint ag awgrymu ei fod wedi ei chyfnewid, yn drosedd nas gellir ei ddarlunio mewn lliwiau rhy ddu. Trwy drugaredd, Dr. Rees yw yr unig hanesydd y gwyddom am dano a fu yn euog o'r fath beth. Gellir maddeu i hanesydd am dynu casgliadau unochrog; gellir maddeu iddo am edrych ar ffeithiau mewn goleu anghywir; ac, yn wir, am adael yn ddisylw ffeithiau anghydnaws a'i syniadau; y mae yr holl ffaeleddau hyn yn faddeuadwy, er nad ydynt mewn un modd i'w canmol, a'u bod yn tynu yn fawr oddiwrth werth safonol llyfr; ond am lurgunio tafleni pwysig mewn gwaed oer, a'u hanfon allan felly i'r byd yn eu holl anghywirder, y mae yn drosedd llenyddol nas gellir, ac na ddylid ei faddeu. Addefir hyn gan ysgrifenydd perthynol i'r Annibynwyr, yr hwn sydd wedi gwneyd hanesiaeth yn faes arbenig ei efrydiaeth; a dywed mai anfedrusrwydd Dr. Rees a'i harweiniodd i'r pwll. Fel hyn y dywed efe am Dr. Rees mewn newyddiadur dyddiol sydd yn cael cylchrediad mawr yn y Deheudir: "*Unfortunately for his reputation, and for the success of his object, he, it seems clear, tampered with a return which Dr. J. Evans, of London, made in 1715, of the number of Nonconformists. . . . His motives were pure, and his deductions were undoubtedly right. But no historian should take upon himself to alter in any degree an original document, from which he is quoting, without apprising the reader of the fact, and, unfortunately, Dr. Rees must be held guilty of doing this. In quoting Dr. J. Evans' return he changed the heading 'number of hearers' into 'average attendance.' We believe he was perfectly justified in concluding that Dr. Evans' hearers would in our days be reckoned as the average attendance; but it was an unwarranted liberty, excusable only in a man who had received no special training for the work of a historian, to embody his own convictions in Dr. Evans' returns without a word of warning or explanation.*" Yn mhob cymal o'r difyniad uchod, teimlir awyddfryd i geisio taflu clogyn dros ymddygiad Dr. Rees; priodolir purdeb amcan iddo, a chredir fod ei dyb yn gywir, ond y mae greddf hanesyddol yr Ysgrifenydd yn ei orfodi i gyfaddef fod ymddygiad y Doctor yn hyn o fater yn *unwarranted liberty*. Dyna yn ddiau ydoedd, ac y mae yn syn genym na chyfaddefid hyny yn ddigêl.

Rhydd i ni yw cyfaddef ddarfod i ni gamgymeryd wrth dybio fod ail-argraffiad llyfr y Parch. W. Williams, Abertawe, allan o flaen ail-argraffiad *History of Protestant Nonconformity in Wales*, gan Dr. Rees, ac yr ydym yn ofidus am y camsyniad. Ond nid yw yn gwneyd y gwahaniaeth lleiaf i'r pwnc mewn dadl. Yr hyn sydd yn bwysig i'w gadw mewn cof ydyw, ddarfod i Dr. Rees gael ei gyhuddo yn ystod ei fywyd o ymyraeth yn anghyfreithlon â thaflen Dr. John Evans; i'r cyhuddiad hwn gael ei ddwyn yn ei erbyn, nid mewn llythyr dan ffugenw mewn newyddiadur, ond mewn llyfr safonol gan weinidog Ymneillduol a breswyliai yn yr un dref ag ef, ac o safle barchus fel yntau; ond na ysgrifenodd y Doctor gymaint a llinell i'r wasg i amddiffyn ei hun, nac i egluro ei resymau dros yr hyn a gyflawnodd. Y mae genym awdurdod dros ddweyd ddarfod i Mr. Williams a'r Doctor gael aml i awr o ymgom ar ol hyn, ond na wnaeth Dr. Rees y cyfeiriad lleiaf at y cyhuddiad pwysig a ddygasai Mr. Williams yn ei erbyn. Pe buasai ganddo amddiffyniad digonol, amddiffyniad a fuasai yn cymeradwyo ei hun i gydwybod y cyhoedd, tybed na fuasai yn dal ar y cyfle cyntaf i'w gyflwyno i'r wlad? Ni fuasai raid iddo fod yn amddifad o gyfryngau, oblegyd yr oedd gwasg Cymru yn agored iddo.

Y mae llawer o ymdrech wedi cael ei wneyd i ddangos fod Ymneillduaeth wedi cynyddu yn Nghymru, rhwng y blynyddoedd 1715 a 1735, sef rhwng cyfrif Dr. John Evans a chyfodiad Method-

istiaeth. Gwelsom daflen wedi cael ei thynu allan, yn desgrifio sefyllfa y gwahanol eglwysi yn ystod y cyfnod hwn; ond y mae y daflen mor awyrol, ac mor anmhenodol, fel nas gellir gwneyd dim o honi i bwrpas ymresymiad. Dywedir am ambell eglwys ei bod "yn cynyddu." Byddai hyn yn wir pe bai eglwys o ddau yn ennill aelod ychwanegol, fel ag i fyned yn dri; nid yw yn profi dim gyda golwg ar ei rhif mewn cyfartaledd i faint poblogaeth y wlad. Tuag at gael rhyw wybodaeth am rifedi yr Ymneillduwyr yn 1735, rhaid cael rhywbeth llawer mwy pendant na geiriau "yn llwyddianus," "ar gynydd," &c. Byddai yn dda genym hefyd wybod ar ba seiliau y dywedir fod rhai o'r eglwysi sydd ar y rhestr yn llwyddo o gwbl. Cymerer y gyntaf ar y llechres, sef Peumaen. Ar ba sail y dywedir ei bod yn llwyddianus? Addefa y Parch. Edmund Jones iddi syrthio i gyflwr isel tua dechreuad y ddeunawfed ganrif; elai rhif yr aelodau i lawr yn gyson, gan fod y gweinidog yn anmhoblogaidd. Ond dywed iddi gynyddu yn fawr rhwng 1720 a 1739, ac i o gwmpas cant i ymuno â'r gynulleidfa. Ai nid trwy ymweliadau Howell Harris yn y flwyddyn 1738 y cafwyd y cynydd hwn gan mwyaf? Cyrhaeddai eglwys Penmaen dros y wlad, o Goedduon hyd Gwm Tileri, gan gymeryd i fewn Gwm Ebwy Fawr. Cynyrchodd ymweliad Howell Harris â'r rhan hono o'r wlad, Pasg, 1738, gyffro mawr; ysgydwyd yr holl gymydogaethau, gan eu dwyn dan ddylanwad yr efengyl; ymunodd degau â'r eglwys, ac ychydig o deuluoedd oeddynt trwy yr holl fro na ddeuent i wrando. Cymera y cynydd y cyfeiria Edmund Jones ato i mewn y dychweledigion hyn. Ond yn y flwyddyn 1739, bu terfysg ac ymraniad yn Penmaen; ymadawodd un blaid o'r eglwys dan arweiniad Edmund Jones, gan ymsefydlu yn Mhontypŵl, tra y glynai eraill wrth yr hen achos. A bu Ymneillduwyr Cwm Ebwy a Chwm Tileri am flynyddoedd lawer yn rhanedig, ac yn chwerw eu teimladau at eu gilydd. Ceir barn Edmund Jones am eglwys Penmaen yn y flwyddyn 1741, wedi ei chofnodi mewn llythyr at Howell Harris. Meddai: "*I wish some of the sound Dissenting ministers separated from the loose and erroneous Dissenters; but perhaps it will come to that. Both the ministers at Penmaen deny that there is any need of discipline among them, and call my attempts of discipline by the approbious names of rigid, punctilious, and novel customs. Thus these men refuse to be reformed, the more is the pity.*" Dyna ddesgrifiad y Parch. Edmund Jones, yr hwn oedd yn Annibynwr o'r Annibynwyr, o gyflwr yr eglwys y dywedir ei bod yn llwyddo. Ystyriai efe hi yn eglwys ddiddysgyblaeth a chyfeiliornus, a'i gweinidogion ill dau yn gwrthod diwygiad, fel ag i wneyd ymwahanu oddiwrtbynt yn beth i'w ddymuno.

Dyna eglwys Maesyronen eto, dywedir ei bod yn cynyddu dan ofal David Price. A ellir profi hyn? Yn fuan wedi cyfodiad Methodistiaeth, darfyddodd yr achos yn llwyr yma. Ai nid oedd elfenau marwolaeth yn gweithio yn ei chyfansoddiad er's blynyddoedd? Nid mewn amser byr y mae eglwys lwyddianus yn suddo i ddifodiant.

Cymerer eto eglwys Pwllheli, am yr hon y dywed yr Ysgrifenydd ei bod "yn dechreu adfywio trwy ymweliadau Lewis Rees." Faint oedd yr adfywiad? Pa brawf sydd o adfywiad o gwbl? Yn ol *Drych yr Amseroedd* (tudal. 55), pan aeth Lewis Rees yno, cwynai y cyfeillion fod yr achos yn isel, ac yn ddigalon, neb o'r newydd yn dyfod atynt, a'r gwrandawyr yn lleihau. Anogai yntau hwynt i beidio ymollwng. "Y mae y wawr nefol yn dechreu tori gyda ni yn y Deheudir," meddai. "Y mae acw ryw ddyn rhyfedd iawn wedi codi yn ddiweddar, a elwir Mr. Howell Harris; y mae yn myned oddiamgylch i'r trefydd a'r pentrefydd, y prif-ffyrdd a'r caeau; ac fel ôg fawr, y mae yn rhwygo y ffordd y cerdda." "O!" meddent, "na chaem ni ef yma." Atebodd Mr. Rees, ei fod yn hosibl y deuai. Soniodd wrthynt hefyd am Jenkin Morgan, a gadwai ysgol dan Griffith Jones. Folly, os bu adfywiad yn eglwys Ymneillduol Pwllheli, son am waith Duw trwy Howell Harris a'i hachosodd.

Drachefn, dywedir am Bentretygwyn a Chefnarthen: "Er ychydig o annealltwriaeth, yn llwyddo a chynyddu." Ychydig annealltwriaeth, yn wir! Am saith mlynedd o amser buasai tri o weinidogion ar eglwys Cefnarthen yr un pryd, dau yn Arminiaid ac un yn Galfiniad, a phregethent yn erbyn eu gilydd o'r un pwlpud. Wedi dadleuaeth chwerw, a rhyfeloedd poethion, ymranodd yr eglwys, ac aeth y Calfiniaid allan, yn cael eu harwain gan dad Williams, Pantycelyn, a sefydlasant achos mewn amaethdy o'r enw Clinypentan. Dygwyddodd hyn tua'r amser yr oedd Howell Harris yn dechreu cyffroi. Y rhwyg yma a elwir yn "ychydig annealltwriaeth!" Beth ŵys a fyddai annealltwriaeth mawr? Os yw terfysg, ymddadleu, ac yn y diwedd ymranu, yn brawf o lwyddiant, cyfaddefwn fod eglwys Cefnarthen, adeg cyfodiad Methodistiaeth, mewn sefyllfa nodedig o lwyddianus. Trachefn, cymerer Wrexham. Dywedir ei bod yn cryfhau, yn iachau o'i chlwyfau ar ol ymraniadau, a darfod i J. Kenrick lafurio yma gyda pharch mawr am agos i ddeugain mlynedd. Ond, fel amryw o'r hen weinidogion Presbyteraidd, tueddai J. Kenrick at Ariaeth; aeth ei ddisgynyddion yn Sociniaid rhonc; Ariad hefyd oedd ei olynydd, Mr. Boult; derbyniai ei olynydd yntau, y Parch. William Brown, Undodiaid i gymundeb eglwysig yr un fath a Thrindodiaid. Yr oedd yr eglwys Bresbyteraidd yn Wrexham yn gymysgedd o Undodiaeth, Ariaeth, a Chynulleidfaolwyr efengylaidd hyd nes yr oedd cbwarter cyntaf y ganrif bresenol wedi myned heibio. Y pryd hwnw gorchfygodd y blaid efengylaidd, a llwyddasant i gael y Parch. John Pearce yn weinidog. (Gweler *A History of the Older Nonconformity of Wrexham and its Neighbourhood, by Alfred Neobard Palmer, F.C.S.*). Rhy brin y gellir dynodi cyflwr eglwys a wnelid i fynu o'r fath gymysgedd fel un llwyddianus.

Nid oes genym hamdden i fyned trwy y gweddill o'r daflen. Y mae i raddau mawr yn ddychymygol ac yn ddisail, ac yn wir yn gamarweiniol. Nis gellir rhoddi dim pwys o gwbl arni fel sail ymresymiad. Ac eto, dywedir y rhaid i bob dyn têg gydnabod fod y rhestr hon yn wadiad effeithiol ar y dybiaeth fod crefydd efengylaidd yn marw allan yn Nghymru yn nechreu y ganrif ddiweddaf Tueddwn i feddwl mai yr hyn a wnai y "dyn têg," cyn rhoddi barn o gwbl ar y mater, fyddai gofyn am brofion dros y nodiadau a roddir mewn cysylltiad a'r gwahanol eglwysi; byddai yn debyg o ofyn paham y gelwid terfysg hyd at ymraniad mewn eglwys yn "ychydig annealltwriaeth?" A phaham y dynodid eglwys arall, oedd yn amddifad o ddysgyblaeth, ac a feddai weinidogion na chymerent eu diwygio, fel mewn cyflwr llwyddianus? Teimlwn yn sicr y gofynai y "dyn têg" liaws o gwestiynau mewn perthynas i wahanol *items* y rhestr hon, y byddai yn anhawdd iawn cael atebiad iddynt.

Ceisir amheu ein gosodiad fod y gogwydd mor gryf at Ariaeth, yn y ganrif ddiweddaf, fel y mae lle i ofni y buasai Cymru oll yn Undodaidd heddyw oni buasai i'r diwygiad Methodistaidd dori allan. Mater o opiniwn ydyw hyn; ond dyna ein barn ni, wedi edrych mor ddiragfarn ag y medrwn ar ffeithiau. Yr oedd Ariaeth yn yr awyr yn y ganrif ddiweddaf; ymledai syniadau anffyddol neu Ariaidd gyda chyflymdra dirfawr, a deuent i mewn i eglwysi Ymneillduol Cymru gyda rhuthr, fel llanw y môr. Nid oedd dim gyda golwg ar athrawiaeth yn *trust deeds* y capelau. Yr oedd Athrofa Caerfyrddin, lle yr addysgid ymgeiswyr am y weinidogaeth, wedi cael ei tharo yn drwm gan yr haint; anfonai allan flwyddyn ar ol blwyddyn weinidogion i gymeryd gofal eglwysi a goleddent syniadau anefengylaidd, ac yn raddol aeth yr athrofa i raddau mawr yn Undodol. Beth oedd y dylanwad a drodd y llanw hwn yn ol, os nad y diwygiad a gychwynodd yn gyntaf gyda'r Methodistiaid? Rhydd amddiffynwyr Dr. Rees ddau reswm dros amheu hyn; yn

(1) Fod Dr. Rees yn tystio nad oedd ond un eglwys yn proffesu Arminiaeth cyn 1735. Pa eglwys oedd hono, ni ddywedir. Ond y mae yn sicr fod cryn nifer o eglwysi wedi ymlygru yn ddirfawr. Yn eglwys Cwmyglo, ger Merthyr Tydfil, yr oedd yr adran Arminaidd yn ddigon cref yn y flwyddyn 1732 i fynu ordeinio Richard Rees yno yn gydweinidog a'r Parch. James Davies, a bu y ddau yno am bymtheg mlynedd yn pregethu yn erbyn eu gilydd o'r un pwlpud. O'r eglwys hon yr aeth Undodiaid Cefncoedcymmer allan, a chwedi hyny Undodiaid Aberdar. Yn 1750, cawn fab y Parch. James Davies yn cael ei ordeinio yn gydweinidog a'i dad yn yr Ynysgau; yr oedd y tad yn Galfin da, ond y mab yn Armin rhonc, ac yno y bu y ddau am amser yn pregethu athrawiaethau croes. Bu eglwys Ynysgau yn llygredig gan yr haint Arminaidd oedd yn ymylu ar Ariaeth hyd yn nghof rhai sydd yn fyw. Yr ydym wedi cyfeirio yn barod at eglwys Cefnarthen fel lle yr oedd yr Arminiaid yn gryfach na'r Calfiniaid ynddo, ac ar adeg yr ymraniad llwyddasant i gadw y capel, a'r Calfiniaid a fu raid ymadael. Mewn llythyr at Howell Harris, dyddiedig Awst 7fed, 1741, dywed Edmund Jones: "*There are more of our Dissenting ministers who are friends to the Methodists than you mention. . And I cannot but observe that they are our best men who are favourable to you: and that they are for the most part dry and inexperienced, or Arminians, that are against you—at least who are bitter.*" Prawf y dityniad hwn fod nifer o weinidogion Arminaidd ar eglwysi Ymneillduol yr adeg hono, a'u bod yn chwerw yn erbyn y diwygiad.

(2) Fod amddiffyniad galluog i'r ffydd Galfinaidd wedi cael ei wneyd ar wahan i'r Methodistiaid. Efallai hyny, ond ychydig o allu a fedd dadleuaeth i wrthsefyll cyfeiliornad. Rhaid cael rhywbeth cryfach na rhesymau i droi yn eu holau syniadau anefengylaidd. Er gwaethaf "yr amddiffyniad galluog," ymlygru fwyfwy a wnaeth yr eglwysi Ymneillduol na chyfranogodd o ysbryd y diwygiad, ac erbyn heddyw y maent yn gyfangwbl Undodaidd. Nid â rhesymau, ac nid trwy ddadleuaeth, y trowyd yn ol y llauw Arminaidd, ond trwy fod dynion fel Howell Harris, a Daniel Rowland, wedi eu gwisgo â'r Presenoldeb Dwyfol, ac yn ymddangos mor ofnadwy a phe y baent yn genhadau yn dyfod o dragywyddoldeb, yn cyhoeddi llygredd dyn, a'r anmhosiblrwydd i ddynion achub eu hunain, nes cario argyhoeddiad i feddyliau pawb, ac nes peri i bechaduriaid ysawtio a gwladeiddio yn eu presenoldeb. Fel y dywedasom, nid ydym am honi yr holl glod am hyn i'r Methodistiaid; ymaflodd y tân nefol hefyd yn yr Ymneillduwyr oedd ar y maes yn barod, ac yr oedd angerddolrwydd y gwres mor ofnadwy fel y gorfu i Arminiaeth anefengylaidd gilio.

Yr uuig beth ychwanegol y galwu sylw ato yn yr ysgrif hon yw llythyr y Parch. Edmund Jones, dyddiedig Hydref 26ain, 1742, yn mha un y rhydd gipdrem ar sefyllfa crefydd yn Nghymru. Gwna efe rif eglwysi yr Ymneillduwyr yn y Dywysogaeth yr adeg hono yn gant a saith. Ond nid yw yn ymddangos i ni fod y llythyr hwn yn y gradd lleiaf yn profi honiadau Dr. Rees. Yn

(1) Yr oedd y Methodistiaid wedi bod ar y maes am dros saith mlynedd, yn cyffroi, ac yn cynhyrfu, ac yn chwyddo eglwysi yr Ymneillduwyr â dychweledigion, yn gystal ag yn eu galluogi i blanu eglwysi uewyddion, pan ysgrifenwyd y llythyr hwn. Nid teg cymeryd cynyrch llafur y Methodistiaid i ddangos mor grefyddol oedd y wlad cyn i'r Methodistiaid godi. Gellir dadleu nad yw saith mlynedd ond cyfnod cymharol fyr. Ond ar adeg o gyffro fel a fodolai ar y pryd, cyffro na welwyd ei gyffelyb yn Nghymru, pan yr oedd yr holl wlad yn cael ei hysgwyd gan nerthoedd Dwyfol, gwneid gwaith mawr mewn ychydig fisoedd, chwaethach mewn saith mlynedd. Fod llafur y Methodistiaid, a'r llwyddiant a ddilynai eu pregethu, yn cael ei ddwyn i mewn i'r cyfrif sydd eglur oddiwrth y llythyr ei hun. Am Sir Faesyfed dywed: "*One of our six congregations there was gathered lately, partly by the labours of the Methodists.*" Eto am Frycheiniog dywed: "*There are eight congregations of our Dissenters, two of whom I had the favour, upon the late reformation, to gather and set up.*" Y diwygiad a gynyrchwyd trwy Howell Harris oedd y "*late reformation,*" ac am ladrata ei ddychweledigion yn y lleoedd yma, a ffurfio eglwysi Annibynol o honynt y cwynai Howell Harris arno, mewn llythyr tra christionogol a anfonodd ato. Yn ystod y saith mlynedd yma manteisiodd Ymneillduwyr yn fawr ar lafur y Methodistiaid. Yr ychwanegiadau trwy weinidogaeth Howell Harris a alluogodd Edmund Jones i adeiladu capel Annibynol Pontypwl yn y flwyddyn 1739; dychweledigion yr un Diwygiwr nerthol a alluogodd David Williams i adeiladu capel Watford. Meddai David Williams mewn llythyr at Howell Harris, Mehefin 12fed, 1738: "*The two days' service with us has been attended with marvellous success. The churches and meetings are crowded, Sabbath breaking goes down.*" Eto, llythyr dyddiedig Tachwedd 17eg, 1738; "*Things have a comfortable aspect here at present. Praying societies go up everywhere. Seventeen have been admitted to communion last time; more have been proposed.*" Eto, llythyr dyddiedig Chwefror 7fed, 1739: "*The society in Cardiff present their love and service. We have received nine to our communion since you were here, and about so many more to propose.*" Tebyg y cyfeiria y llythyr diweddaf at ail neu drydydd ymweliad o eiddo Howell Harris, a bod y naw a dderbyniwyd i gymundeb yn ychwanegol at y dau-ar-bymtheg y cyfeirid atynt yn y llythyr blaenorol. Yn ngwyneb ffeithiau fel hyn, nid oes rhith o reswm dros wneyd agwedd crefydd yn Nghymru, ddiwedd y flwyddyn 1742, wedi dros saith mlynedd o lafur digyffelyb o lwyddianus gan

y Methodistiaid, yn brawf o sefyllfa crefydd yn y wlad cyn i'r Methodistiaid godi.

(2) Nis gall cant a saith o eglwysi roddi syniad cywir am nerth Ymneillduaeth yn Nghymru, oddigerth ein bod yn gwybod rhif yr aelodau, a'r gwrandawyr perthynol iddynt. Pe y gwnaem bob eglwys yn haner cant o aelodau, ni fyddai rhif cyfanswm yr aelodau ond ychydig dros bum mil. Eithr ofer dyfalu; gallai y rhif ar gyfartaledd fod yn fwy; ond y mae yn ymddangos yn llawn mor debyg ei fod yn llai. Dywedir yn y llythyr fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd Sir Aberteifi yn rhai mawrion. Geiriau cymharol yw mawr a bach; a rhaid i ni beidio tybio fod cynulleidfa fawr Edmund Jones yn gyffelyb mewn rhif i gynulleidfa fawr yn ein dyddiau ni. Adwaenem amryw o hen gapelau yr Ymneillduwyr yn Sir Aberteifi; rhai bychain, culion, diolwg oeddynt, wedi eu gosod mewn cymydogaethau gwledig, gan mwyaf, heb hentref, chwaethach tref, yn gyfagos, a chredwn mai cryn gamp a fuasai gwthio cynulleidfa o gant a haner o ddynion i un o honynt.

Yn wir, i'r Methodistiaid y priodola Edmund Jones efeugyleidd-dra y wlad yn y llythyr hwn. Meddai am Sir Aberteifi: "*Here were lately two eminent clergymen—Mr. David Jenkins, a young man lately dead, and Mr. Daniel Rowland, who had at his church some time ago above two thousand communicants. Almost all the lower part of the county is become religious since Mr. Howell Harris and the Methodists laboured there.*" Eto: "*Pembrokeshire hath been lately mightily roused up, and abundance of people convinced, reformed, and converted by means of the exhortations of Mr. Howell Harris, and other Methodist exhorters.*" Eto: "*The upper part of Pembrokeshire hath been roused and reformed, and that almost universally, to a concern about religion. Certainly, a very great work has been done here.*" Pe buasai rhyw hanesydd Methodistaidd yn ysgrifenu fel uchod, gan briodoli y cyfnewidiad yn y wlad i ymdrechion y Methodistiaid, a pheidio son o gwbl am lafur yr Ymneillduwyr, buasai yn sicr o gael ei gyhuddo o bleidgarwch a rhagfarn. Ond Annibynwr oedd Edmund Jones, ac ni fu neb erioed mwy zêlog dros ei enwad.

IV. Haerir yn nesaf fod gwaith yr Ymneillduwyr wedi cael ei anwybyddu yn ormodol gan y y diwygwyr G. Jones, Harris, a Rowlands. Cyn ateb hyn, goddefer i ni ddangos fel y mae cyhuddiad Dr. Rees yn erbyn y Tadau Methodistaidd wedi ei leddfu i lawr, ac wedi newid ei ffurf, nes y mae yn anmhosibl ei adwaen. Nid anwybyddu yn ormodol lafur yr Ymneillduwyr oedd y cyhuddiad a ddygai efe i'w herbyn; ond camddarlunio yn fwriadol agwedd foesol ac ysprydol y wlad, dan ddylanwad gwanc am wag-ogoniant. Y mae lled y nefoedd o wahaniaeth rhwng y ddau beth hyn. Am anwybyddu yn ormodol lafur eraill, gallai dynion da fod yn euog o hono yn anymwybodol; gallent wrth sylwi yn ddwys ar un dosparth o ffeithiau anghofio fod ffeithiau cyferbyniol i'w cael; ac. fel y sylwa un, gallai eu hysprydolrwydd a'u brwdfrydedd eithriadol fod yn achlysur o'r cyfryw esgeulusdod. Ond am gyhuddiad Dr. Rees, sef ddarfod iddynt yn fwriadol gamddarlunio sefyllfa Cymru er mwyn hunan-ogoniant, y mae yn hollol anghydweddol â chrefydd o ddim grym; nis gallai y cyfryw deimlad fodoli ond mewn dynion cnawdol, dan lywodraeth teimladau daearol isel a gwael, ac y mae yn anmhosibl peidio dirmygu y personau yn mynwesau pa rai y caiff y cyfryw deimlad lety am foment. Ymddengys i ni fod yr Annibynwyr yn taflu cyhuddiad Dr. Rees dros y bwrdd, ac yn dwyn un arall, llawer tynerach, yn mlaen yn ei le.

Ond pa faint o sail sydd i'r cyhuddiad tynerach? Pa resymau a ddygir yn mlaen i brofi ddarfod i'r Tadau Methodistaidd anwybyddu yn ormodol lafur yr Ymneillduwyr? Un prawf yn unig sydd yn cael ei gynyg, sef prinder cyfeiriadau yn eu hysgrifeniadau at yr Ymneillduwyr. Sail gul iawn, yn sicr, i adeiladu y fath gastell golygus arni. Nid ysgrifenu hanes Cymru a wnelai Harris a Rowland; ni ddaeth i'w meddyliau i holi pa fodd y syrthiasai y wlad i'r cyflwr truenus yn mha un yr oedd yn gorwedd; ac nid eu pwnc hwy oedd ymchwilio pa ymdrechion aneffeithiol a wnelsid yn flaenorol i efengyleiddio y werin. Y cwestiwn a losgai fel tân yn eu hysprydoedd oedd, Sut i achub y rhai a lusgid i angau? Nid ysgrifenu hanesiaeth yr oeddynt hwy, ond gwneyd hanesiaeth. Gwelent gorph y werin, fel y sylwa Dr. John Thomas, Liverpool, yn gorwedd mewn anwybodaeth a thrueni dybryd; gwelent hefyd nad oedd unrhyw ymdrech effeithiol a llwyddianus yn cael ei gwneyd gan neb i geisio eu hachub; fod yr offeiriaid yn yr Eglwys Sefydledig yn ddifater, a'r gweinidogion Ymneillduol yn ymfoddloni i fugeilio yr ychydig ddefaid oedd ganddynt yn eu corlanau, heb fod neb yn eu mysg yn myned i'r anialwch ar ol y colledig. Yn y cyfwng hwn rhuthrodd Harris a Rowland i'r adwy; ymdaflasant gyda brwdfrydedd diderfyn i'r gorchwyl o achub gwerin Cymru, a gyru o'r wlad yr arferion annuwiol a'i gwarthruddent; ac yn hyn llwyddodd yr Arglwydd hwynt tu hwnt i fesur; ac yn raddol cawsant yr hyfrydwch mawr o weled y gweinidogion Ymneillduol yn cael eu meddianu â'r un a'r unrhyw yspryd, gan ddyfod allan yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn. Beirniadaeth fitw a distadl yr ymddengys i ni yw holi a ddarfu iddynt ranu y clod am y gwaith a gyflawnwyd yn deg. Clod yn wir! Ni ddaeth i'w meddwl i gymeryd dim o hono; nid oedd hunan a gwag-ogoniant yn cael lle yn eu mynwesau, ac ni ddarfu iddynt ddychymygu am ranu yr anrhydedd, gan gymeryd rhan eu hunain, a rhoddi rhan i eraill.

Honir fod Dr. Rees yn ei le, wrth briodoli i'r Tadau Methodistaidd gulni dirfawr at yr Ymneillduwyr a'i blaenorai. Dywedir iddynt fod yn angharedig o ddystaw am yr hyn a wnaethant, a rhoddir dau reswm am hyny, sef rhagfarn Eglwysig, ac ysprydolrwydd eithriadol. Ymddengys y ddau reswm hyn yn ddinystriol i'w gilydd. Nis geill rhagfarn ac ysprydolrwydd meddwl gyd-drigo yn yr un galon; y mae y naill yn sicr o ddisodli y llall. Os mai ysprydolrwydd fydd yn oruchaf, derfydd am ragfarn o angenrheidrwydd. Y mae dynion ysprydol yn byw mewn agosrwydd mawr at Dduw; o lewyrch ei wyneb Ef y sugnant eu hysprydoliaeth; nis geill ond agosrwydd at y Dwyfol roddi iddynt y cyfryw nodwedd. Ac yn y presenoldeb rhyfedd hwn nis geill rhagfarn enwadol fodoli; y mae y mân wahaniaethau a'r mân ffiniau sydd yn gwahanu y naill sect oddiwrth y llall yn myned yn ddim. Yn sicr, wrth ddarlunio y Tadau Methodistaidd fel dynion o ysprydolrwydd meddwl eithriadol, gwneir y cyhuddiad eu bod yn llawn o ragfarn Eglwysig yn anmhosibl.

Ni fu dynion mwy diragfarn yn rhodio daear na Rowland, a Harris, a'u cydweithwyr. Yr ydym yn cyfaddef eu bod yn Eglwyswyr cyd-

wybodol; dyna y goleuni oedd ganddynt hwy ar y pryd; ond nid yw yn canlyn eu bod yn rhagfarnllyd at enwadau eraill. Nid yw ymlyniad gonest wrth blaid grefyddol yn profi dyn yn gul ac yn llawn rhagfarn at bob cyfundeb crefyddol arall. Y mae aml un, ni a gredwn, yn Annibynwr cryf, ac yn dra ymlyngar wrth ei blaid a'i bobl; ond gallwn ni edrych arno fel dyn diragfarn, eang ei gydymdeimlad, a rhyddfrydig ei olygiadau. Yn y goleu hwn yr hoffem ni ein hunain gael ein barnu. Tra yn credu yn gryf mewn Methodistiaeth, nid ydym yn ddall o gwbl i rinweddau a rhagoriaethau y cyfundebau crefyddol sydd o'n cwmpas. Paham na chaniateir yr un egwyddor gyda golwg ar y Tadau Methodistaidd? Ac nid oeddynt mor ymlyngar wrth yr Eglwys ag y tybir. Nid hoffder ati oedd yr unig, na'r prif reswm dros eu gwaith yn aros o'i mewn, ond y ffaith mai mewn undeb a hi yr oedd yr Arglwydd wedi eu llwyddo, ac yr oedd arnynt ofn symud allan, a bwrw eu coelbren gyda'r Ymneillduwyr, am nad oeddynt yn gweled fod y golofn yn myned i'r cyfeiriad hwn. Y maent drosodd a throsodd yn datgan parodrwydd i adael cymundeb yr Eglwys pe y gwelent yn glir mai hyny oedd ewyllys yr Arglwydd.

Y mae llawer iawn wedi cael ei wneyd o benderfyniad Cymdeithasfa Watford gyda golwg ar dderbyn y sacrament yn yr Eglwys. Fel hyn y ceir y penderfyniad yn nghofnodau Trefecca: "Cydunwyd ar i'r brodyr a deimlent betrusder gyda golwg ar dderbyn y sacrament yn yr Eglwys, oblegyd annuwioldeb yr offeiriaid; a chyda'r Ymneillduwyr oblegyd eu claearineb, barhau i dderbyn yn yr Eglwys hyd nes yr agorai yr Arglwydd ddrws amlwg i ni adael ei chymundeb." Geilw Dr. Rees hyn yn ymlyniad dall wrth yr Eglwys, a chyfeirir ato gan ei amddiffynwyr fel prawf o ragfarn Eglwysyddol. Nid yw yn ymddangos i ni fod y penderfyniad yn haeddu y condemniad diarbed a deflir arno. Gellir dwyn y rhesymau canlynol drosto: Yn (1) Anogaeth ydoedd i'r rhai oeddynt hyd hyny wedi arfer cymuno yn yr Eglwys; profir hyn gan y gair "parhau;" nid oes yma gymaint ag awgrym i'r Ymnneillduwyr adael cymundeb eu henwad. (2) Yn mryd y Methodistiaid yr oedd yr oerni a feddianasai yr Ymneillduwyr yn gymaint rhwystr ar ffordd crefydd, a buchedd anfoesol yr offeiriaid. Yn eu golwg hwy, nis gallai oerni ysprydol a duwioldeb gyddrigo. Nis gallai dyn wedi ei ferwi gan y diwygiad, a'i galon yn llosgi ynddo o gariad at y Gwaredwr, lai na theimlo gwrthnaws o'i fewn wrth weled gwasanaeth y cymundeb yn cael ei gyflawni gan weinidog a'i yspryd ynddo mor oer a'r rhew. Ac yn aml yr oedd yr oerni yn gynyrch syniadau anefengylaidd am berson Crist, a natur yr Iawn. Yn yr eglwys, pa mor anfucheddol bynag y gallai yr offeiriad fod, yr oedd y gwasanaeth a ddarllenid ganddo yn ardderchog, ac yn llawn maeth i dduwioldeb. (3) "Hyd nes y rhoddai yr Arglwydd ddrws agored i adael cymundeb yr Eglwys" yr oedd yr anogaeth. Felly y darllena y penderfyniad. Ac ymddangosasai yr adeg i'w gadael yn ymyl iddynt. Yr oedd yr offeiriaid yn dechreu gwrthod y sacrament i'r Methodistiaid, a thrwy hyn yr oedd eu sefyllfa mewn argyfwng difrifol. Ac os y dymuneut i'r rhai a argyhoeddwyd ganddynt, eu plant ysprydol, barhau yn nghyd, heb fod rhai yn ymuno â phlaid arall, pwy a fedr eu beio?

Howell Harris oedd y mwyaf ymlyngar wrth yr Eglwys, ond yr oedd yn hollol ddiragfarn at yr Ymneillduwyr. Cyfeiria gyda pharch a thynerwch mawr at amryw o'u gweinidogion yn ei lythyrau, ac yn ei Ddydd-lyfr. "Yr anwyl Edmund Jones," meddai drosodd a throsodd. "Fy mrawd, Lewis Rees," meddai drachefn. Gohebai yn y modd mwyaf cyfeillgar â gweinidogion efengylaidd yr Ymneillduwyr yn Nghymru a Lloegr; gofynai gyfarwyddyd ganddynt mewn gwahanol amgylchiadau, ac adroddai ei helynt, a'i lwyddiant, a'i brofiad ysprydol iddynt yn y modd mwyaf dysyml. Byddai yn anhawdd cael syniadau mwy catholig na'r rhai a draethir gauddo. Meddai mewn llythyr at Mr. Oulton, gweinidog y Bedyddwyr yn Llanllieni: "Anhawdd i ni oll ddyfod i gydweled gyda golwg ar y rhanau hyny o'r Beibl a gyfeiriant at ffurflywodraeth eglwysig, adeg, a dull bedydd, a rhyw allanolion felly ydynt yn fuan i ddarfod. Y mae undeb yn anmhosibl hyd nes y cydunwn i beidio gwneyd dim yn amod aelodaeth ond adnabyddiaeth achubol o'r Arglwydd Iesu, a ffydd fywiol yn cynyrchu sancteiddrwydd buchedd. Pe bawn i a gofal cynulleidfa arnaf, ystyriwn ei bod yn ddyledswydd arnaf i dderbyn pawb yn aelodau y gallwn obeithio am danynt eu bod wedi eu geni o Dduw, er na fyddent yn cydweled â mi ar ychydig o bethau allanol." Y dyn hwn, sydd mor ddiragfarn a chatholig ei syniadau, a gyhuddir o gulni at yr Ymneillduwyr. Mor bell o fod yn gul, apeliai Edmund Jones a gweinidogion Ymneillduol eraill ato am iddo gasglu yn ei gynulleidfaoedd mawriou er eu cynorthwyo i adeiladu eu capelau, ac y mae yn fwy na thebyg ei fod yn cydsynio.

Meddai un Ysgrifenydd am Howell Harris: "Credai nad oedd gan neb hawl i weinyddu yr ordinhadau ond a fyddai wedi cael ei urddo gan Esgob." Nid oes rhith o sail i'r haeriad hwn. Y mae yn hollol groes i dôn gyffredin ei weinidogaeth a'i ddysgeidiaeth. Yr ydym wedi myned yn fanwl trwy ei lythyrau a'i Ddydd-lyfr, ac nid oes tebyg i hyn i'w gael ynddynt. Yr oedd gweinidogion yr Ymneillduwyr a gydymdeimlent â'r diwygiad yn cael croesaw i Gymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Misol y Methodistiaid, caent gymeryd rhan yn yr ymdrafodaeth, a phleidleisio ar wahanol faterion, fel pe byddent yn Fethodistiaid. Yr oedd y Parchn. Henry Davies, Bryngwrach, a Benjamin Thomas, mewn amryw o'r Cymdeithasfaoedd cyntaf, a chroniclir eu henwau yn mysg y Parchedigion oeddynt wedi derbyn urdd esgobol, ac o flaen eiddo Howell Harris, a'r cynghorwyr; yr hyn a brawf yr ystyrid gweinidog Ymneillduol fel yn meddu yr un safle yn hollol ag offeiriad. Ni wnelid gwahaniaeth o gwbl rhwng y ddau. A thrachefn pan yr ymadawai un o'r cynghorwyr, gan gymeryd gofal eglwys Ymneillduol, nid oedd yn llai ei barch yn mysg y Methodistiaid o'r herwydd. Gwedi i Richard Tibbot ymadael, ac ymsefydlu yn Llanbrynmair, deuai i Gymdeithasfaoedd Llangeitho a'r Bala yn flynyddol, ac er nad oedd ei ddoniau gweinidogaethol yn ddysglaer, cai bregethu mewn lle anrhydeddus. Y mae y Parch. John Thomas, o'r Rhaiadr, wedi gadael tystiolaeth ar ei ol am garedigrwydd a thynerwch mawr Daniel Rowland ato, wedi iddo ymuno â'r Annibynwyr, pan yr oedd ar rynu oblegyd yr oerni ysprydol oedd wedi eu meddianu. Pa le y mae y culni a'r rhagfarn dychymygol? Arfer ddieithriad pobl ragfarnllyd yw erlid y rhai fyddo yn encilio oddiwrthynt. Ond ni wnelai y Methodistiaid ddim o'r fath, ond parhaent i'w hystyried fel brodyr.

Yn wir, gallwn droi y byrddau ar ein gwrth-

wynebwyr, a phrofi mai perthyn i Ymneillduwyr y dyddiau hyny yr oedd y culni a'r rhagfarn, a'u bod yn llawn o'r cyfryw deimlad. Dyna a allesid ddysgwyl oddiwrth ddynion ffurfiol ac oer, pan welent bobl llawn tân a zêl yn ymroddi i gyflawni gwaith ag yr oeddynt hwy wedi ei esgeuluso. Dywed Howell Harris ei fod yn boblogaidd iawn yn eu mysg ar y cyntaf, pan yr oedd nerth ei bregethu yn chwyddo eu cynulleidfaoedd ac yn gorlenwi eu capelau; ond pan welsant na ymadawai â'r Eglwys, a'i fod yn ffurfio ei ddychweledigion yn seiadau, aethant i deimlo yn ddiflas ato, ac i'w gashau. "Fel hyn," meddai, "yr oedd y Methodistiaid yn cael eu cashau gan Eglwyswyr ac Ymneillduwyr." Aeth cyfeillachu â'r Methodistiaid yn drosedd i'w gospi âg esgymundod yn ngolwg yr Ymneillduwyr. Mewn llythyr o eiddo William Richards, arolygydd y cymdeithasau yn rhan isaf o Sir Aberteifi, dyddiedig Medi 12fed, 1742, ceir a ganlyn: "Y mae y diafol wedi cyffroi y *Dissenters* yn eiu herbyn fel y cyffroa y gwynt y coed. Y maent yn gwyrdroi ein geiriau a'n hymddygiadau, gan dynu y casgliadau mwyaf dychrynllyd oddiwrthynt. Y mae ein hanwyl chwaer Betti Thomas yn cael ei blino yn fawr ganddynt; bygythiant ei hesgymuno, os nad ydynt wedi gwneyd hyny yn barod, am ei bod yn derbyn y Methodistiaid i'w thŷ. Y mae yn dyfod i'r seiat breifat, ac nis gwyddant beth i'w wneyd o honi (y seiat). Dywedant mai drws agored i Babyddiaeth ydyw, a llawer o bethau cableddus creill." Os yw geiriau yr hen gynghorwyr yn wir, ac nid oes genym un rheswm dros eu hanghredu, yr oedd yr Ymneillduwyr yn erlid y rhai a gyfeillachent â'r Methodistiaid, ac yn camddarlunio y seiat brofiad, trwy awgrymu weithiau ei bod yn dwyn cyffelybrwydd i gyffesu pechodau yn yr Eglwys Babaidd; ac weithiau, fel yr awgryma y gair "cableddus," trwy honi fod gweithredoedd pechadurus yn cael eu cyflawni ynddi, ac mai dyma y rheswm paham ei dygid yn mlaen yn breifat. Yn nghofnodau Cyfarfod Misol Glanyrafonddu, a gynaliwyd Ebrill 17eg 1744, ceir a ganlyn: "Yn gymaint a bod Thomas David wedi cael ei droi allan gan yr Ymneillduwyr am ymgyfeillachu â ni, ei fod i gael ei uno â seiat Erwd." Yr oedd Daniel Rowland, Williams, Pantycelyn, a Benjamin Thomas, gweinidog Ymneillduol, yn bresenol pan y pasiwyd y penderfyniad hwn, a sicr yw fod ganddynt ffeithiau diymwad i syrthio yn ol arnynt. Ceir prawf o'r un ragfaru ddall yn nglyn ag ordeiniad Morgan John Lewis yn weinidog ar eglwys y New Inn. Gan na alwyd gweinidogion Ymneillduol i gyfarfod yr ordeiniad, ond i'r neillduad gael ei wneyd gan yr eglwys mewn modd difrifol wedi gweddi ddwys, sorodd yr Ymneillduwyr; ni fynent gydnabod Morgan John Lewis yn weinidog o gwbl; ac ymddygent ato, ac at yr eglwys a'i neillduasai, fel yr ymddygai yr Iuddewon gynt at y gwahanglcifion. Mewn canlyniad i hyn, cyhoeddodd y gweinidog grynodeb o'r egwyddorion a gredai, ac yn y rhagymadrodd achwynai yn enbyd ar y driniaeth oedd yn gael. Yr oedd yr Ymneillduwyr yn credu mewn olyniaeth Apostolaidd gnawdol mor gryf a'r Eglwyswyr. Yr unig rai a gydnabyddent Morgan John Lewis a'i eglwys oedd y Methodistiaid. Ymwelent hwy ag ef, ac a'r gynulleidfa, gan loni eu hysprydoedd. Ni raid ond darllen *Hanes Crefydd yn Nghymru*, gan y Parch. D. Peter, er gweled y cyffro a achosodd gwaith y Parch. S. Hughes yn beiddio myned i'r Eglwys Wladol i wrando offeiriad yn pregethu, yr hwn gyffro a derfynodd mewn ymraniad, am na addawai y gŵr parchedig beidio cyflawni peth o'r fath eilwaith. Nid melus genym yw cofnodi y pethau hyn; buasai yn well genym eu claddu mewn hebargofiant; ond pan y gwarthruddir y Tadau Methodistaidd ar gam, angenrhaid a osodwyd arnom.

Cyn terfynu, rhaid i ni wneyd sylw neu ddau o natur fwy personol. Cyhuddir ni yn fynych o ddweyd pethau gwaradwyddus am y marw. Ai tybio yr ydis y dylasai camwri Dr. Rees gael ei adael yn ddisylw am ei fod ef yn ei fedd? I hyn atebwn, (1) Na weithredai Dr. Rees ei hun ar yr egwyddor yma. Yr oedd Williams, Pantycelyn, yn ei fedd er's ugeiniau o flynyddoedd pan y gwaradwyddid ef gan Dr. Rees, ac y dygid i'w erbyn gyhuddiadau nad oedd iddynt rith o sail. Sut na chododd yr Annibynwyr eu llef yn erbyn gwaith y Doctor yn ymosod ar y marw? A ydyw coffadwriaeth Dr. Rees yn fwy cysegredig nag eiddo yr "hen Williams?" (2) Dygwyd y cyhuddiad a wnaethom yn erbyn Dr. Rees yn ystod ei fywyd, a chafodd gyfleustra teg i'w ateb pe buasai ganddo ateb i'w gael. Hyn ni chafodd Williams, Pantycelyn. (3) Y mae ymddygiadau cyhoeddus dynion cyhoeddus yn eiddo cyhoeddus, ac i'w beirniadu pan fydd y rhai a'u cyflawnodd wedi marw, yn hollol ar yr un egwyddorion a phe buasent yn fyw. Oni chaniateir hyn, bydd hanesyddiaeth deg yn anmhosibl; ni chaem gyfeirio at droseddau Mari Waedlyd, nac at ffolinebau Charles yr Ail. A'r troseddwr mwyaf yn Nghymru fyddai Dr. Rees, oblegyd yr oedd yr erlidwyr y cyfeiria atynt yn ei lyfr yn eu beddau oll pan yr oedd efe yn ysgrifenu.

Yn mhellach, goddefer i ni ddweyd nad oes ynom y gradd lleiaf o deimlad eiddigeddus at yr Annibynwyr. Y mae i ni gyfeillion anwyl yn eu mysg. Yr ydym yn mawr lawenhau yn eu llwyddiant, ac yn dymuno iddynt Dduw yn rhwydd. Da genym weled eu pwlpudau yn cael eu llenwi gan ddynion mor alluog, mor efengylaidd, ac mor ymroddgar. A maddeuer i ni am ddweyd, yr ymddangosant i ni yn cyfranogi yn helaethach o yspryd Daniel Rowland a Howell Harris nag o yspryd y gweinidogion Ymneillduol, y dywedai Dr. John Thomas am danynt, nad aent i'r anialwch i chwilio am y colledig.

Nid oes i ni gweryl â Dr. Rees ychwaith, ond fel hanesydd. Yr ydym yn parchu ac yn mawrhau llawer o'i nodweddion. Nid ydym yn ddall o gwbl i'r amryfal rinweddau a harddent ei gymeriad. Bu yn felus genym lawer gwaith ei wrando yn efengylu. Ond yr oedd a fynem ag ef yn *Y Tadau Methodistaidd* fel hanesydd; ac, yn y cymeriad hwn, rhaid i ni lynu wrth y darnodiad a roddasom o hono, er mor llym ydyw. A phan y pasia y ddadl, ac y caffo ein cyfeillion hamdden i feddwl, credwn y bydd iddynt ymwrthod a'i ddull anheg o ymwneyd a *documents* hanesyddol pwysig.

DIWEDD CYFROL I.

ABERTAWE:

ARGRAFFWYD GAN LEWIS EVANS,

CASTLE STREET.